He achieved his labours—aeth drwy ei drafferth; gorphenodd ei waith.
Achievement, *s.* (o *achieve*) cyflawniad; gorchest, (*pl. t.* ion), gorchestwaith, gorchestedd, gorchestiad, mawrwaith, camp; arfarwyddion.
Achiever, *s.* (o *achieve*) cyflawnwr, cyflawnydd, gorphenwr; gorchestwr.
Achiever of victories—gweithfuddug, buddugwr.
Aching, *s.* (o *ache*) poen, gwŷn, gwynegiad, curiad
Achlamydeous, *a.* (Gr. *a* a *chlamus*) diwisg, noeth, diamlen.
Achromatic, *a.* (Gr. *a* a *chrôma*) afliwig, diliw.
Achromatic telescope—ysbeiadyr afliwig.
Achromaticity, *s.* (o *achromatic*) afliwigrwydd.
Achromatism, *s.* (o *achromatic*) afliwiaeth.
Acicular, *a.* (Ll. *acicula*) nydwyddol, nodwyddol, nodwyddig.
Acicular prism—rheiddell nydwyddol.
Aciculate, Aciculine, *a.* (Ll. *acicula*) nydwyddaidd, nodwyddaidd.
Acid, *a.* (Ll. *acidus*) sur, egr, chwigl, llymsur.
Sharp and acid—llymsur.
Acid, *s.* sur, (*pl.* surion), suryn.
Acid of brimstone—sur ufelig.
Sub-acid—adsur, gosur.
Acidiferous, *a.* (Ll. *acidus* a *fero*) surog, chwiblog.
Acidifiable, *a.* (o *acidify*) suradwy, egradwy.
Acidification, *s.* (o *acidify*) suroliad, egroliad.
Acidify, *v. a.* (Ll. *acidus* a *facio*) suroli, egroli, suro.
Acidimeter, *s.* (Ll. *acidus*, a Gr. *metron*) surfesur.
Acidimetry, *s.* (Ll. *acidus*, a Gr. *metron*) surfesuriaeth.
Acidity, Acidness, *s.* (o *acid*) surni, surder, surdra, suredd, egredd, egri, chwibledd.
Acidulæ, *s. pl.* (Ll.) sureigion = ffynnonau meddygol â surion ynddynt.
Acidulate, *v. a.* (Ll. *acidulus;* Ff. *aciduler*) gosuro, lledsuro, chwiblo, suro.
Acidule, *s.* (Ll. *acidulus*) ensur.
Benzoic acidule—ensur chwerwig.
Oxalic acidule—ensur suranig.
Acidulous, *a.* (Ll. *acidulus*) gosur, lledsur, suraidd, egraidd.
Acinaceous, *a.* (Ll. *acinosus*) cnewullog.
Aciniform, *a.* (Ll. *acinus* a *forma*) grabaidd, bagwyol, clysdyrol, ar wedd grawnsypiau.
Acinose, Acinous, *a.* (Ll. *acinus*) manronol, manronynol.
Acknowledge, *v. a.* (o *ac* neu *ad* a *knowledge;* Ll. *agnosco*) cydnabod, cyfaddef, cydnabyddu, cyfadnabod, addef, cyffesu.
Acknowledgment, *s.* (o *acknowledge*) cydnabyddiad, cydnabyddiaeth, addefiad, cyfaddefiad, cydnabodiad, cyfaddefiaeth.
Acne, *s.* (Gr.) goruchder, uchder, eithaf, eithafed, eithafedd, y fan eithaf, top, pen, uchradd.
Acne, *s.* (Gr.) llyfrithyn, pigodyn.
Acology, *s.* (Gr. *acos* a *logos*) cyffyreg.
Acolothist, Acolyte, *s.* (Gr. *acolouthos*) isweinydd, isweiniog=un o'r radd isaf yn yr Eglwys Babaidd.
Aconite, *s.* (Ll. *aconitum*) llysiau y blaidd, bleiddag.
Acop, † *ad.* (*a* a *cope;* C. *cop*) ar dop, ar gop, ar gopa, ar ben.
Acorn, *s.* (S. *æcern*) mesen; *pl.* mes.
To gather acorns—mesa.
Acorned, Full of acorns, mesog.
A small acorn—mesenig, mesen fach.
Acotyledons, *s. pl.* (Gr. *a*, heb, a *cotulêdôn*, cib) anghibogion, digibion=llysiau heb gibau neu hadlestri.
Acotyledous, *a.* (Gr. *a* a *cotulêdôn*) digib, anghibog, anghibol, heb hadlestr.
Acoumeter, *s.* (Gr. *acouô* a *metron*) clywfesur, clyfesur, clywfeidyr.
Acoustic, *a.* (Gr. *acousticos*) clybodig, clywedig, clywiadol.
Acoustic instrument—llafargorn.
Acoustics, *s.* (Gr. *acouô*) seiniadaeth, seineg, seinddysg, seinyddiaeth=athrawiaeth sain: clybodigion, clywedigion=cyffyriau i wella clyw.
Acquaint, *v. a.* (hen Ff. *accointer*) hysbysu, amlygu, mynegu; ymarfer, ymarferu, cynnefino.
Acquaint thyself with him—ymarfer âg ef.
He acquainted him with his danger—rhybuddiodd ef o'i berygl; dangosodd ei berygl iddo.
He acquainted me with his success—amlygodd ei lwyddiant i mi; hysbysodd i mi ei lwyddiant.
I am well acquainted with him—yr wyf yn nabyddus iawn âg ef; yr wyf yn dra chydnabyddus âg ef; yr wyf yn gyfarwydd iawn âg ef; wyf gynnefin âg ef; yr wyf yn bur nabyddus âg ef; yr wyf yn ei adnabod yn dda.
Acquaintance, *s.* (o *acquaint*) nabyddiaeth, cydnabyddiaeth, cydnabod, adnabodaeth, adnabyddiaeth; cynnefinder, cynnefindod, cynnefindra; cyfeillach, ymarferiad; cyfaill; aduabyddiaid.
Mutual acquaintance—ymgyfeillach, cydnabyddiaeth.
I know the man, but have no acquaintance with him—adwaen *neu* adwaenaf y dyn, ond nid oes nabyddiaeth rhyngom.
An acquaintance of mine, One of my acquaintance, un o'm cydnabod; fy nghydnabod; cydnabod imi; un o'm hadnabyddiaid.
Acquainted, *a.* (o *acquaint*) adnabyddus, cydnabyddus, cydnabodus, gwybyddus, cynnefin.
Acquainted with grief—cynnefin â dolur.
Acquest, *s.* (Ff. *acquêt;* Ll. *acquisitus*) caffaeliad, cyrhaeddiad, ennilliad.
Acquiesce, *v. n.* (Ll. *acquiesco*) ymfoddloni, cydsynio, ymlonyddu, ymostwng, goddef, ymdawelu, gwoddefu.
Acquiescence, *s.* (o *acquiesco*) ymfoddloniad, ymlonyddiad, ymostyngiad, cydsyniad, goddefiad, ymdaweliad.
Acquiescent, *a.* (*o acquiesce*) ymfoddlonol, ymlonyddol, ymostyngol.
Acquire, *v. a.* (Ll. *acquiro*) cyrhaedd, cyrhaeddyd, caffael; cael, casglu, ceisio, ennill.
He acquired high honours—cyrhaeddodd anrhydedd mawr; ennillodd fri mawr.
He acquired the Welsh language—dysgodd yr iaith Gymraeg.
Croesus acquired great riches—casglodd *neu* ennillodd Croisus gyfoeth lawer; ymgyfoethogodd Croisus yn ddirfawr.

Acquirement, *s.* (o *acquire*) cyrhaeddiad, cyrhaedd, caffaeliad, caffawd, caffad.
A man of great acquirements—dyn helaeth ei wybodau; dyn aml ei gyrhaeddion.
A person of various acquirements—dyn amryddoniog; dyn amryddawn.
Acquiry,† *s.* (o *acquire*)=*Acquirement.*
Acquisition, *s.* (Ll. *acquisitio*) caffaeliad, cyrhaeddiad, cyrhaeddiaeth, caffawd; ennilliad, ennill, chwanegiad.
Acquisitive, *a.* (Ll. *acquisitivus*) caffaeledig, cyrhaeddedig, ennilledig.
Acquisitiveness, *s.* (o *acquisitive*) hygaeledd, hygaffaeledd, caffadogrwydd.
Acquist,†*s.* (Ll. *acquisitio*)=*Acquest, Acquisition*
Acquit, *v. a.* (Ff. *acquitter*) rhyddhau, gollwng; dieuogi, maddeu, cyflawnhau.
He acquitted himself well—gwnaeth ei ran yn dda; aeth trwyddi yn rhagorol; cyflawnodd ei orchwyl yn dda; ymddygodd yn wych.
Acquitment, *s.* (o *acquit*)=*Acquittal.*
Acquittal, *s.* (o *acquit*) gollyngdod, rhyddhad.
Acquittance, *s.* (o *acquit*) gollyngdod; gollyngeb, derbyneb.
Acrase, } *v. a.* (o *craze*; Ff. *ecraser*) gwallgofi,
Acraze, } penwanu, pendroni, anmhwyllo.
Acrasy, *s.* (Gr. *acrasia*) gormant, rhysedd; afreoledd.
Acre, *s.* (S. *acera, acer, æcer*) erw, cyfar, (=4840 llath ysgwar), esgyr, egyr, eg, ech.
Statute acre—cyfar cyfreithiol, erw gyfreithiol.
Escheated acre—erw ddiffoddedig.
Acrid, *a.* (Ll. *acer*) llymsur, tostlym, egrol, chwerw, chwerwaidd, llymdost, gerwin, surieglym, pigog, poeth, ysol, iddas.
Acridians, *s. pl.* (Gr. *acris*) llindysogion, llindysryw=rhyw o drychfilod.
Acridity, } *s.* (o *acrid*) llymsuredd, tostlymedd,
Acridness, } llymsurni, surni, llymder, toster, pigogrwydd, sarigder; brydaint, poethder.
Acrimonious, *a.* (o *acrimony*)=*Acrid.*
Acrimoniousness, *s.* (o *acrimonious*)=*Acridity.*
Acrimony, *s.* (Ll. *acrimonia*) llymder, toster, arlymder, llymdoster, tostlymedd; llymsurni, chwerwder, surni, bustligrwydd; poethedd, poethder.
Acrisy, *s.* (Gr. *acritos*) ansicredd, annilysedd.
Acritous, *a.* (Gr. *acritos*) ansicr, annilys.
Acritude, *s.* (Ll. *acritudo*) surni, llymsuredd, surogrwydd, pigogrwydd, poethder.
Acroamatic, } *a.* (Gr. *acroamaticos*) gorddysg-
Acroamatical, } eidiol, tryddysgeidiol; dyrys.
Acroamatics, *s. pl.*=*Acroatics.*
Acroatic, *a.* (Gr. *acroaticos*) gorddysgeidiol, tryddysgeidiol; dyrys.
Acroatics, *s. pl.* gorddysgolion=darlithiau dyrys yr athronydd Aristotl.
Acrogens, *s. pl.* (Gr. *acros* a *gennaô*) pendyfolion, brigdyfion.
Acronic, } *a.* (Gr. *acros* a *nux*) cyfadegol=
Acronical, } yn codi neu fachlud oddeutu yr
Acronycal, } un amser a'r haul.
Acropolis, *s.* (Gr.) castell, arforaf.
Acrospire, *s.* (Gr. *acros* a *speira*) cyneginyn, cynllaguryn; eginyn, blaendardd, blaguryn.
Across, *ad.* (*a* a *cross*) ar groes, ar draws, yn groes.
Having his arms folded across—â'i freichiau ar draws eu gilydd; â'i freichiau yn mhleth.
Acrostic, *s.* (Gr. *acros* a *stichos*) penenw, penenwad=pennill â llythyren neu lythyrenau blaenaf pobllinell yn gwneydrhyw enw neu air.
Acrostic, *a.* penenwol, penenwadol.
Acroteleutic, *s.* (Gr. *acros* a *teleutê*) diweddglo.
Acroter, *s.* (Gr. *acrôtêrion*) penysbur.
Act, *v.* (Ll. *ago, actum*) gweithredu, gweithio, preithio, goberu; dynwared, mydumio, chwareu; ymddwyn, ymarweddu.
To act one's part—chwareu rhan; gwneyd rhan, gwneuthur rhan.
He acted his part well—chwariodd ei ran yn dda.
They acted Hamlet—chwariasant Hamlet.
Act, *s.* (Ll. *actum*) gweithred, gorchwyl, gober, goberiad, gwaith, praith, ffaith; gosodiad, cyfraith, rheithed.
Act and deed—gwaith a gweithred.
Act of parliament—gweithred seneddol.
Act of oblivion—tellwedd, anghofraith.
Acts of the apostles—gweithredoedd yr apostolion; Actau yr Apostolion.
Joint act, } cydweithred, cyfwaith, cyd-
Mutual act, } waith.
In the very act—ar y weithred.
Atrocious act—anfadwaith, erchyllwaith, cyflafan, gweithred ddybryd.
Registration act—deddf cofresiad, deddf cofrestriad.
Actinea, } *s. pl.* (Gr. *actin*, pelydr) milflodau=
Actinia, } rhyw o fywiaid môr, o'r dosbarth Danadogion.
Acting, *s.* (o *act*) gweithrediad, gweithiant; chwareuad, chwaread.
Actinolite, *s.* (Gr *actin* a *lithos*) rheiddfaen, rheifaen.
Actinolitic, *a.* (o *actinolite*) rheiddfeinin, rheiddfeinig.
Actinometer, *s.* (Gr. *actin* a *metron*) rheiddiadyr =offeryn o ddyfeisiad Syr Ioan Herschel i fesur dwysder pelydron yr haul.
Action, *s.* (Ll. *actio*) gweithred, gweithrediad, ffaith, gwaith, goberiad; effaith; mared; cynghaws, cwyn, hawl, arhawl, cynghawsedd; cadwaith, trin, brwydr, cad, ymgyrch, trafod, tro, cammawn: *pl.* cyfranau, cedranau; moddion.
Action at law—cynghaws, cwyn, arhawl, cynghawsedd; cwyn cyfreithiol.
Pending action—hawl ir, hawl anfarnedig.
Defunct action—hawl wywedig.
Real action—hawl ddefnyddiol, cwyn anianol.
Personal action—hawl ansodol, cwyn unig.
Mixed action—hawl gymmysg, cwyn cymmysg.
Civil action—hawl briod.
Penal action—hawl benydiol, cwyn penydiol.
Action for trespass—cwyn sarhad.
To bring *or* enter an action against a person—rhoddi cwyn yn erbyn dyn; rhoi cwyn ar ddyn; cychwyn hawl *neu* gynghaws yn erbyn dyn; rhoi cyfraith ar ddyn.
To move an action—cyffröi hawl.
To recover an action—ennill cwyn, ennill y maes, ennill y gyfraith.
To lose an action—colli hawl, colli cwyn, colli y gyfraith.
Actionable, *a.* (o *action*) cospadwy, holadwy; cynghawsadwy, dadladwy, cwynadwy.
Actionary, } *s.* (o *action*) cedranog.
Actionist, }

Activate, *v. a.* (o *active*) bywiogi, pablu, ffrodduso, arialu.
Active, *a.* (Ll. *activus*) bywiog, gweithgar, gweisgi, esgud; gweithredol, gwneuthurol; heinif, heini, hoenus, buan, cyflym, chwim, mwth, chwai, chwimmwth, blawdd, ffroddus, chwyrn, (*f.* chwern), pablaidd, maredog, sionc, ffresg, ffres, hawn, esgeiddig, prysur, gwaisg.
An active verb—perwyddiad gweithredol, peryfiad gweithredol.
Activeness, **Activity**, *s.* (o *active*) bywiogrwydd, gweithgarwch, gweithredoldeb; esgudrwydd, gweisgrwydd, buander, cyflymder, mythder, chweider, chweiedd, chwimmythder, ffroddineb, pabledd, prysurdeb, arial.
A man of activity—dyn gweithgar.
Sphere of activity—cylch gweithgarwch.
Feats of activity—gwrolgampau; campwri; llamidyddiaeth.
Actor, *s.* (Ll.) gweithredwr, gweithredur; chwareuwr, chwariwr, (*pl.* chwarwyr), chwarëydd, chwarydd.
Actress, *s.* (o *actor*; Ff. *actrice*) chwareues, chwaryddes, chwareuferch, chwarëyddes.
Actual, *a.* (Ll. *actualis*) gweithredol; gwir, gwirioneddol, gwiriol.
Actuality, **Actualness**, *s.* (o *actual*) gwireddoldeb, gwirioledd.
Actually, *ad.* (o *actual*) yn weithredol; mewn gwirionedd, mewn gwir, yn wir, yn wirioneddol, yn ddïau, yn ddir.
She is actually dead—mae hi yn farw gelain.
Actuary, *s.* (Ll. *actuarius*) llysgofiadur; arysgrifydd, penysgrifydd.
Actuate, *v. a.* (o *act*) cynhyrfu, cyffröi, arialu; bywiocäu, annog, ysgogi, rhoi ar waith.
Actuate, *a.* annogol, arialus, ysgogol.
Actuation, *s.* (o *actuate*) cynhyrfiad, ysgogiad, gweithrediant, gweithiad.
Acuate, *v. a.* (Ll. *acuo*) llymu, golymu, edlymu, darfinio, awchlymu, awchu.
Acuity, *s.* (o'r Ll. *acuo*) llymder, awchlymedd, edlymder.
Acuition, *s.* (Ll. *acuo*) llymogiad, edlymiad.
Aculeate, **Aculeated**, *a.* (Ll. *aculeatus*) pigog; blaenllym, blaenfain, llym, colynog.
Acumen, *s.* (Ll.) craffder, craffineb, synwyr, deall, amgyffred; ffeldra, cyfrwysder; awch.
Acuminate, *v.* (Ll. *acumen*) pigfeinio, penfeinio; blaenllymu, blaenfeinio, blaenhogi, idio.
Acuminate, **Acuminated**, **Acuminous**, *a.* pigfain, penfain, blaenfain, pigoglym.
Acumination, *s.* (o *acuminate*) pigfeiniad, penfeiniad, blaenfeiniad; blaenllymiad, blaenhogiad, golymiad.
Acupuncture, **Acupuncturation**, *s.* (Ll. *acus* a *punctura*) pigfaniad, pigfaniant.
Acute, *a.* (Ll. *acutus*) llym, (*f.* llem), edlym, iddas; awchus; craff, craffus, ffel, deallus, glew, treiddiol, synwyrol.
Acute angle—llemongl, meinongl, ongl lem, minelin.
Acute-angular—llymonglog, meinonglog.
To describe an acute angle—llymongli, meinongli.
Acute-angled triangle—tryfal llymongl, tryfal llymonglog, tryfal meinonglog.
Acute disease—dolur edlym.
Acute tone—llemsain.
Acute reasoner—rhesymwr craff, arbwyllwr craffus.
Acute, *v. a.* llymacenu, llymseinio.
Acuteness, *s.* (o *acute*) llymder, cyflymder, edlymder; craffusder, craffder, ffelder, glewdid, glewder, synwyroldeb, deallgarwch, manyldeb.
Acuteness of wit—craffder synwyr.
Adactyle, *a.* (Gr. *a* a *dactulos*) difys, heb fysedd.
Adage, *s.* (Ll. *adagium*) dïareb, dareb, direb, gwireb; hen air, hen ddywediad.
Adagial, *a.* (o *adage*) dïarebol, darebus, direbol.
Adagio, *s.* (It.) arafawd; yr arafaf.
Adam's-apple, *s.* afal y gwddf.
Adamant, *s.* (Gr. a Ll. *adamas*) cellt; tynfaen.
Adamantean, *a.* (Ll. *adamantæus*) celltaidd.
Adamantine, *a.* (Ll. *adamantinus*) celltig, celltin, celltain, celltaidd; caled.
Adamantine chains—cadwynau cellt.
Adamantine spar—celltysger.
Adapt, *v. a.* (Ll. *adapto*) cyfaddasu, cymhwyso, addasu, sutio, cymmedroli, cymmesuro, cymweddu, cyfateboli.
Adaptability, *a.* (o *adaptable*) cymhwysoldeb, addasoldeb.
Adaptable, *a.* (o *adapt*) cymhwysol, cyfaddasol, addasol.
Adaptation, **Adaption**, *s.* (o *adapt*) cyfaddasiad, addasiad, cymhwysiad, sutiad, cymmesuriad; addasrwydd, addasdeb, cymhwysder.
Adaunt, †*v. a.* (*a* a *daunt*) darostwng, gorthrechu.
Adcorporate, *v. a.* (Ll. *ad* a *corpus*) cydgorffori, cynghorffori, corffoli, uno.
Add, *v. a.* (Ll. *addo*) chwanegu, ychwanegu; attodi, cynnodi; cyssylltu; bwrw yn nghyd.
He too was added to them—cyfrifwyd yntau gyda hwynt.
Addable, **Addible**, *a.* (o *add*) chwanegadwy, attodadwy, mwyadwy.
Addecimate, *v. a.* (Ll. *addecimo*) degymu, degu.
Addeem, *v. a.* (o *deem*) tybio; dedfrydu.
Addendum, *pl.* **Addenda**, *s.* (Ll.) attodiad, atddodiad, chwanegiad: *pl.* chwanegolion, chwanegion, attodion, atddodion.
Adder, *s.* (S. *æther*, *ættor*; Is. *adder*) neidr; gwiber: *pl.* nadroedd, neidredd, nadredd, gwiberod.
Adder-fly, Adder-bolt, gwas y neidr, gwaell y neidr.
Adder's tongue—tafod y neidr.
Common adder's tongue—tafod y neidr cyffredin.
Adder's wort—llysiau y neidr.
Adder's grass—gwellt y neidr.
Adder-stone—maen glain, maen magl.
Addibility, *s.* (o *addible*) chwanegolrwydd, attodoldeb, cynnodoldeb.
Addice, † *s.* (S. *adese*) neddyf, bwyell gam, bwyellan, neddai.
Addict, *v. a.* (Ll. *addico*) ymroddi, ymröi, *neu* ymgyflwyno i *neu* at; tueddogi, tueddoli.
To addict one's self—ymroddi, ymgyflwyno, ymröi.
He addicted himself to vice—ymroddodd i ddrygioni.
Addicted, *p. a.* (o *addict*) ymroddedig, chwannog, tueddol, ymroddgar, ymdueddol.
Addicted to wine—gwingar, chwannog i win.
Addicted to idleness—tueddol i ofera; chwannog i segura; hoff o seguryd.
Addictedness, *s.* (o *addicted*) chwannogrwydd, tueddoldeb, tueddogrwydd, tueddusrwydd.

Addiction, *s.* (o *addict*) ymroddiad, tueddiad, gogwyddiad; chwannogrwydd.
Additament, *s.* (Ll. *additamentum*) chwanegiad, chwanegiant.
Addition, *s.* (Ll. *additio*) chwanegiad; attodiad, cynnodiad; attodiaeth, cynnodiaeth; mwyhad, cyssylltiad: *pl.* chwanegion.
Addition of integers, } attodiaeth symion,
Simple addition, } cynnodiaeth symion, cynnodiad symion.
Compound addition—cynnodiad cyfansawdd.
Addition of decimals—cynnodiaeth degiadau.
The mark of addition, } cynnodeb, +
Plus, }
In addition—hefyd, yn chwanegol.
Additional, *a.* (o *addition*) chwanegol; cynnodol, attodiadol.
Additive, } *a.* (o *add*) chwanegiadol; cynnod-
Additory, } iadol; chwanegadwy.
Addititious, *a.* (o *add*) chwanegiannol.
Addle, } *a.* (C. *hadl*; S. *aidlian*, bod yn goeg)
Addled, } clwc, mysorig, madreddog, gorllyd, hadl; gwag, coeg, diffrwyth.
Addle egg—wy clwc, wy mysorig, wy madreddog, wy gorllyd.
Addle-pated, } penwan, penwag, siolwag,
Addle-headed, } penglwc, penfeddal, difenydd, ffol, hurt, penblydd.
Addle brains—penwendid, penfeddaledd, penfasedd, penfasder.
Thy brains are addled—mae penwendid arnat; yr wyt wedi pendroni.
Addle, *v. a.* mysori, hadlu, madru, madreddu, madrogi, clwcian.
Addoom,† *v. a.* (o *doom*) dedfrydu, dyfarnu.
Addorsed, *a.* (Ll. *ad* a *dorsum*) cefn-gefn.
Address, *v. a.* (*Ff. addresser*) anerch, cyfarch; cyfeirio, cyfarwyddo, llwybreiddio, hylwybro; cyflwyno; parotöi, parodi, ymosod.
He addressed his prayer to God—cyfeiriodd ei weddi at Dduw.
He addressed God in prayer—gweddïodd ar Dduw.
He addressed a letter to the general—cyfeiriodd, ysgrifenodd, neu anfonodd lythyr at y cadfridog.
He addressed the jury—anerchodd yr heithwyr, cyfarchodd y rheithwyr.
To address one's self—ymgyflwyno, ymroddi, ymgyfeirio, ymosod.
Address thyself to him—anerch ef; cyflwyna dy hun i'w sylw; ymgyflwyna iddo.
He addressed himself to the work—ymosododd ar y gwaith; ymwregysodd at y gorchwyl; ymgyflwynodd at y gwaith.
He addressed himself to the speaker—anerchodd y llefarydd.
Address, *s.* anerch, anerchiad, anercheb, cyfarchiad, cyfarch, cyfarcheb; cyfeiriad, cyfarwyddiad, llwybreiddiad; cyflwyniad; medrusrwydd, deheudeb, hyfedredd; carwriaeth.
He makes *or* pays his addresses to her—y mae efe yn ei charu; mae efe am ei charu.
He conducted the affair with address—triniodd y peth gyda medrusrwydd; triniodd y peth yn hyfedr.
Amorous addresses—siarad caru, geiriau caru, sercheiriau.
I shall send the letter to your address—anfonaf y llythyr i chwi; cyfeiriaf y llythyr atoch; anfonaf y llythyr yn ol eich llwybreiddiad.
Addresser, *s.* (o *address*) anerchwr, cyfarchwr, cyfarchydd, cyfeiriwr, cyflwynydd, cyflwynwr.
Adduce, *v. a.* (Ll. *adduco*) dwyn yn mlaen, tynu, casglu; dyfynu.
Adducent, *a.* (Ll. *adducens*) attynol, atymdynol: *pl.* attynolion.
The adducent muscles—y cyhyrau attynol; yr attynolion, yr attynorion.
Adduction, *s.* (Ll. *adduco*) dygiad yn mlaen, tyniad.
Adductive, *a.* (Ll. *adduco*) atymdynol, attyniadol.
Adductor, *s.* (Ll.) attynor, attynydd: *pl.* attynorion, attynolion.
Addulce,† *v. a.* (Ll. *ad* a *dulcis*) melusu, chwegu, pereiddio.
Adelantado, *s.* (Ysp.) rhaglywiadur.
Adeling, *s.* (S.) pendefig ieuanc, edlin.
Adelopode, *s.* (Gr. *a*, *dêlos*, a *pous*) troedgudd =milyn nad yw ei draed yn amlwg.
Adelphic, *a.* (Gr. *adelphos*) brodig.
Ademption, *s.* (Ll. *adimo*, *ademptus*) dadfuddiad, difuddiad, difeddiad; toliant; coll.
Aden, *s.* (Gr.) chwaren; rhiden, (*pl.* rhidion).
Adenography, *s.* (Gr. *adên* a *graphô*) chwareniaeth=darluniad o'r chwarenau.
Adenoid, } *a.* (Gr. *adên* ac *eidos*) chwaren-
Adenoidal, } aidd, ar ddull chwaren.
Adenological, *a.* (o *adenology*) chwarenegol.
Adenology, *s.* (Gr. *adên* a *logos*) chwareneg, =athrawiaeth y chwarenau, eu natur, a'u dyben.
Adenose, } *a.* (Gr. *adên*) chwarenaidd, chwar-
Adenous, } enol.
Adenotomy, *s.* (Gr. *adên* a *tomê*) chwarendrwch, chwarendor, chwarendrychiad.
Adephagia, *s.* (Gr.) gorwanc, y wanc.
Adept, *s.* (Ll. *adeptus*) medrydd, hyfedrydd, celfyddwr, cyfarwydd, un hyfedr, un hyddysg: *pl.* hyddysgiaid, medrusiaid.
Adept, *a.* hyfedr, hyfedrus, hyddysg, medrus, celfydd, cyfarwydd, hylaw.
Adeption,† *s.* (Ll. *adeptio*) caffaeliad, caffawd.
Adeptist, *s.* (o *adept*) hyfedrydd, cyfarwydd, medrwr.
Adequacy, *s.* (Ll. *adæquatus*) cyfartaledd, cyfartalwch, cyfaddasrwydd, cyfaddasdeb, cymmesuredd; digonoldeb, digonawd.
Adequate, *a.* (Ll. *adæquatus*) cyfartal, cymmesur, cymmesurol, cyfaddas, addas, cymhwys, digonol, cystadl, cyfatebol.
Adequate,† *v. a.* llwyr debygu, gordebygu.
Adequateness, *s.* (o *adequate*) cyfartalwch, cyfartalrwydd, cymmesuredd, cymmesurdeb, addasrwydd, cyfaddasrwydd, cymmedredd, digonolrwydd, cymhwysder.
Adequation,† *s.* (Ll. *adequatio*)=*Adequateness*.
Adessenarians, *s. pl.* (o'r Ll. *adesse*) Cydsylweddiaid, Cyssylweddiaid=plaid yn dàl gwir bresennoldeb corff Crist yn y Cymun, ond nid drwy drawssylweddiad.
Adfected, *a.* (Ll. *ad* a *facio*) cyssoddedig, cyfansawdd, cyssawdd.
Adfiliation, *s.* (Ll. *ad* a *filius*) mabwysiad, maboliad.
Adhere, *v. n.* (Ll. *adhæreo*) ymlynu, glynu, amlynu; ymludio, ymgyssylltu.
To adhere to a party—ymlynu wrth blaid.

Adherence, } *s.* (o *adhere*) ymlyniad, glyniad,
Adherency, } cydlyniad, ymlyn; dïysgogrwydd, ffyddlondeb.
Adherent, *a.* (o *adhere*) ymlynol, glynol, cydlynol, yn agly̑n; dyludiol, arlynol.
Adherent, *s.* ymlynwr, glynwr, dylynwr, pleidiwr, pleidydd, canlynwr, arddylynwr, ymlyniad, (*pl.* ymlyniaid).
Adherer, *s.* (o *adhere*)=*Adherent.*
Adhesion, *s.* (Ll. *adhæsio*) ymlyniad, glyniad, ymlyn, cydlyniad, ymgyssylltiad, dyludiad; undeb; cai.
Adhesion of the liver—y llechau, y llech.
Adhesive, *a.* (Ll. *adhæsus*) ymlynol, glynol, dyludiol, gludiol.
Adhesiveness, *s.* (o *adhesive*) ymlynoldeb, glynolrwydd, ymlynogrwydd, gludiogrwydd.
Adhibit, *v. a.* (Ll. *adhibeo*) defnyddio, arferu.
Adhibition, *s.* (o *adhibit*) defnydd, defnyddiad, cymhwysiad.
Adhortation, *s.* (Ll. *adhortatio*) annogaeth, cynghor.
Adhortatory, *a.* (Ll. *adhortor*) annogol, cynghorus.
Adiaphorists, *s. pl.* (Gr. *adiaphoros*) cymmedroliaid, anmhleidogion = Lutheriaid cymmedrol.
Adiaphorous, *a.* (Gr. *adiaphoros*) anmhleidiog.
Adiaphory, *s.* (Gr. *adiaphoria*) anmhleidiogrwydd, anmhleidgarwch.
Adieu, *ad.* (Ff. *à Dieu*) bydd wych, bydd iach; byddwch wych; nawdd Ion arnat; dos yn iach; yn wych, yn iach.
Adieu, *s.* ymadeb, ymadawiad.
To bid adieu—canu yn iach.
Adipocerate, *v. a.* (o *adipocere*) brasgwyroli.
Adipoceration, *s.* (o *adipocerate*) brasgwyroliad.
Adipocere, *s.* (Ll. *adeps* a *cera*) brasgwyr.
Adipose, } *a.* (Ll. *adiposus*) bras, ireiddlyd,
Adipous, } tew, seimlyd, brasaidd.
Adipsia, *s.* (Gr. *a* a *dipsa*) ansyched.
Adit, *s.* (Ll. *aditus*) ceuffosp; mynedfa, trwyfa.
Adjacency, *s.* (Ll. *adjaceo*) agosrwydd, cyfagosrwydd, yngder.
Adjacent, *a.* (Ll. *adjaceo*) agos, cyfagos, cyfnesol, cyffiniol, wng, ger llaw; cymmydogol.
Adject, *v. a.* (Ll. *adjicio, adjectum*) chwanegu, atddodi, cyssylltu, dodi wrth.
Adjection, *s.* (Ll. *adjectio*) chwanegiad, atddodiad, cyssylltiad.
Adjectitious, *a.* (Ll. *adjicio*) chwanegol, cyssylltedig.
Adjective, *s.* (Ll. *adjectivus*) ansoddair, ansoddeb, enw gwàn.
Adjective pronoun—rhagenw ansoddol.
Adjective colours—lliwiau disaf, lliwiau ansafol.
Adjoin, *v.* (Ll. *adjungo*; Ff. *adjoindre*) cyssylltu, cydio, cynghydio, uno, cyfuno; chwanegu; bod yn ymyl, cyffinio, ymylu, gorwedd wrth *neu* ger llaw, cyffwrdd, cwrdd.
Adjoinant,† *a.* (o *adjoin*) agos, cyffiniol.
Adjourn, *v.* (Ff. *ajourner*) addoedi, gohirio, oedi, gohiriannu.
Adjournment, *s.* (o *adjourn*) addoediad, addoediant, gohiriad, oediad.
Adjudge, *v. a.* (Ff. *adjuger*) dyfarnu, dedfrydu, barnu, cyhoeddi barn.
Adjudgment, *s.* (o *adjudge*) dyfarniad, dedfryd, barn.
Adjudicate, *v.* (Ll. *adjudico*) dyfarnu, dedfrydu, barnu.
Adjudication, *s.* (o *adjudicate*) dedfrydiad, dyfarniad, dedfryd, barniad.
Adjugate,† *v. a.* (Ll. *adjugo*) ieuo, cyssylltu.
Adjument,† *s.* (Ll. *adjumentum*) cymhorth, cynnorthwy, help.
Adjunct, *s.* (Ll. *adjunctum*) darymsawdd, arymsawdd, astyr, chwanegawd, peth chwanegol.
Adjunct, *a.* darymsoddol, cyssylltiol; cyd-, cyf-, cys-; dargydiol.
Adjunct deities—godduwiau, isdduwiau.
Adjunct professor—cydentraw.
Adjunct town—gorfottref; cyttref.
Adjunction, *s.* (Ll. *adjunctio*) darymsoddiad, arymsoddiad, cyssylltiad, cydiad, dargydiad, cyfuniad.
Adjunctive, *a.* (Ll. *adjunctivus*) darymsoddol, arymsoddol, cyssylltiadol, cyssylltiol.
Adjuration, *s.* (Ll. *adjuratio*) tyngediad, tyngad; creiriad.
Adjure, *v. a.* (Ll. *adjuro*) tyngedu, tyngu; creirhau, creirio; darswyno.
I adjure thee—tyngedaf di; mi a'th dyngedaf.
Adjust, *v. a.* (Ysp. *adjustar*; Ff. *ajuster*) trefnu, cymhwyso, cyfartalu, cynnogni, cymmedru; cywiro, cyweirio, iawnu; sutio, cymmesuro, gwaladru, cyfaddasu, cyfateboli, cyssoni.
Adjustment, *s.* (o *adjust*) trefniad, cymhwysiad, cyfartaliad, cyfaddasiad, addasiad, cymmedredd, cymmesuriad, cymmedrolaeth; cywiriad, cyweiriad, cymmoniad; gwastadiad; trefnedigaeth.
Adjutage, } *s.* (Ff. *ajoutoir*) ffrwybib, ffrwy-
Ajutage, } bibell.
Adjutancy, *s.* (o *adjutant*) rhagweinyddiaeth, isgadbenaeth; trefniad medrus.
Adjutant, *s.* (Ll. *adjutans*) rhagweinydd, isgadben.
Adjutant-general—penrhagweinydd.
Adjutant, } *s.* gorgrychydd.
Adjutant crane, }
Adjute,† *v. a.* (Ll. *adjuto*) cynnorthwyo, helpu, cymhorth.
Adjutor, *s.* (o *adjute*) cynnorthwywr, helpwr.
Adjutrix, *s.* (Ll.) cymhorthyddes, helpwraig, cymhorthes.
Adjuvant, *a.* (Ll. *adjuvans*) cynnorthwyol, cannorthol, cymhorthus.
Adjuvate, *v. a.* (Ll. *adjuvo*) cymhorth, helpu, rhwyddoli, hyrwyddo.
Adlegation, *s.* (Ll. *ad* a *legatio*) cynghenadaeth, cydgenadaeth.
Ad libitum, (Ll.) fel y myner; rhyddineb.
Adlocution, *s.* (Ll. *ad* a *loquor*)=*Allocution.*
Admeasure, *v. a.* (*ad* a *measure*) mesur, mesuro; rhanu.
Admeasurement, *s.* (o *admeasure*) mesuriad, mesuriant, rhaniad, dogniad, dognedd.
Admensuration, *s.* (Ll. *ad* a *mensura*)=*Admeasurement.*
Adminicle,† *s.* (Ll. *adminiculum*) cymhorth, cynnorthwy, cannorth, atteg.
Adminicular, *a.* (o *adminicle*) cynnorthwyol, ffrwyol, cannorthol, cymhorthus.
Administer, *v.* (Ll. *administro*) gweini, gweinyddu, arweini, gweinidogaethu, gwasanaethu; trosweini; rhoi, rhoddi; olweini; cyflawni.
To administer the sacrament—gweini y cymun, gweinyddu y cymun, cyflawni y cymun.
To administer an oath—tyngu, rhoddi llw.
To administer justice—gweinyddu cyfiawnder.

Administerial, *a.* (o *administer*) gweinyddol, gweiniadol, gweinyddog.

Administration, *s.* (Ll. *administratio*) gweinyddiaeth, gweinidogaeth, gweinyddiad, gweinifiaeth, llywiadaeth; goruchwyliaeth, trefniad; olweiniadaeth.

Administrative, *a.* (Ll. *administrativus*) gweinyddol, gweinidogol, gweinifiol.

Administrator, *s.* (Ll.) gweinydd, gweinyddwr; olweinydd; gweinifiad.

Administratorship, *s.* (o *administrator*) gweinifiaeth, olweinyddiaeth.

Administratrix, *s.* (Ll.) gweinyddes, gweinidoges, gweinifes; olweinyddes.

Admirable, *a.* (Ll. *admirabilis*) rhyfeddol, rhyfedd, eres; edmygol, edmyg; aruthr, aruthrol, uthr; rhagorol, da.

Admirableness, } *s.* (o *admirable*) rhyfeddoldeb,
Admirability, } uthroldeb, edmygolrwydd.

Admiral, *s.* (Ll. y canol oesoedd, *admiralis*=Ar. *emir*; Ff. *amiral*; Ysp. a Port. *almirante*) llyngesor, llyngesydd, llyngeswr, llyngesog.

Lord high admiral—penllyngesydd, arlyngesor; penllyngeswr.

Vice admiral—rhaglyngesor, rhaglyngesydd, islyngeswr.

Rear admiral —adlyngesydd, ol-lyngesydd; adlyngeswr.

Admiral of the fleet—penllywydd y llynges, penswyddog y llynges.

Admiral of the red—llyngesor y faner gooh; penllywydd y llynges goch.

Admiralship, *s.* (o *admiral*) llyngesoriaeth, llyngesyddiaeth, llyngesogaeth.

Admiralty, *s.* (Ff. *amiraulté*) morlys, llyngeslys; morlywiaeth.

Court of admiralty—llyngeslys, morlys.

Admiration, *s.* (Ll. *admiratio*) edmygedd, edmygiad, enfyged, enfygedd, rhyfeddiad; mawrygiad; hoffedd, hoffder, gorhoffder; aruthredd, uthredd, rhyfeddod, syndod, cymmyredd.

Note of admiration, } rhyfeddeb, syneb,
Mark of admiration, } (!).

Very near to admiration is the wish to admire—agos iawn i edmygedd yw dymuno edmygu.

Admire, *v.* (Ll. *admiror*) edmygu, rhyfeddu, enfygu, mawrygu, cymmyru; hoffi, gorhoffi; serchu; synu.

He admires you—mae efe yn eich edmygu; mae gair mawr ganddo i chwi.

Every one admired him—edmygai pawb ef; yr oedd pob un â'i lygad arno.

Admirer, *s.* (o *admire*) edmygwr, edmygydd; rhyfeddwr; mawrygydd; hoffwr, serchwr; carwr.

Admissibility, *s.* (o *admissible*) derbyniadoldeb, ceniadoldeb, goddefoldeb.

Admissible, *a.* (Ll. *admitto*) caniatâol, ceniadol, derbynadwy, goddefadwy, goddefol, cynnwysadwy.

Admission, *s.* (Ll. *admissio*) derbyniad, derbyniad i fewn; dyfodfa, dyfodiad; caniatâd, goddefiad; cynnwys, cynnwysiad, gollyngiad; addefiad.

Free admission—trwyddogaeth, trwyddiad, hydrwyddyd.

Admission fee—tâl derbyn, derbyndal, trwyddobrwy.

Admit, *v. a.* (Ll. *admitto*) caniatâu, ceniadu; caniatâu derbyniad; derbyn, derbyn neu gymmeryd i fewn; goddef, cynnwys, gollwng i fewn; addef.

He was admitted into college—derbyniwyd ef i'r clasgor; cafodd dderbyniad i'r clasgor; efe a dderbyniwyd i'r coleg.

The words do not admit of such a construction—ni oddef y geiriau y fath gystrawiad.

It admits of no excuse—nid oes un esgus drosto.

He was admitted into orders—cafodd urddau, derbyniodd urddau; cafodd ei urddo, urddwyd ef.

Admittable, *a.* (o *admit*)=*Admissible*.

Admittance, *s.* (Ll. *admitto*) derbyniad, trwyddyd; caniatâd, addefiad, goddefiad, cynnwys.

He gained admittance into the church—derbyniwyd ef i'r eglwys; cafodd ei dderbyn i'r eglwys; cafodd dderbyniad i'r eglwys.

Admix, *v. a.* (Ll. *admisceo*) cymmysgu, mysgu,
Admixtion, *s.* (o *admix*) cymmysgiad, mysgiad.

Admixture, *s.* (o *admix*) cymmysg, cymmysgedd; cymmysgiad.

Admonish, *v. a.* (Ll. *admoneo*) rhybuddio; cynghori; annog; ceryddu; adgofio, dwyn ar gof; argyhoeddi.

He will not be admonished by these things—ni chymmer efe rybudd wrth y pethau hyn.

Admonisher, *s.* (o *admonish*) rhybuddiwr; cynghorwr; annogwr; tirion geryddwr.

Admonishment, *s.* (o *admonish*)=*Admonition*.

Admonition, *s.* (Ll. *admonitio*) rhybudd; cynghor; annogaeth; cerydd tirion; rhybuddiad, annogiad.

Bring them up in the admonition of the Lord—maethwch hwynt yn athrawiaeth yr Arglwydd.

Admonitive, } *a.* (Ll. *admoneo*) rhybuddiol,
Admonitory, } cynghorus, annogol; ceryddol.

Admonitioner, *s.* (o *admonition*) cyfranydd rhybuddion, dosbarthwr cynghorion.

Admortization, *s.* (Ll. *ad* a *mors*) tiralliad, iortholiant.

Admonitor, *s.* (Ll.) rhybuddiwr, cynghorydd, annogwr, ceryddwr.

Admove, *v. a.* (Ll. *admoveo*) nesu, dynesu.

Adnascent, *a.* (Ll. *adnascens*) cyttyfol, ceidyfol.

Adnata, *s.* (Ll. *adnatus*) ceidwf: *pl.* ceidyfion, ceidyfolion.

Adnate, *a.* (Ll. *adnatus*) ceidyfol; ymlynol, glynol.

Adnoun, *s.* (Ll. *ad*, a *noun*) ansoddeb, ansoddair, enw gwàn.

Adnubilated, *a.* (Ll. *ad* a *nubila*) cymylog, niwlog, caddugol.

Ado, *s.* (S. *adoa*, gwneuthur; *a* a *do*!) trafferth, trabludd, cynhwrf, cyffro, terfysg, ffwdan, cythrwfl, dadwrdd, bludd, anhawsder.

Much ado about nothing—cynhwrf mawr yn nghylch dim; trabludd mawr am ddim; swn heb sylwedd.

Adolescence, } *s.* (Ll. *adolescentia*) ieuenctyd,
Adolescency, } maboliaeth, maboed, mebaint, mebyd, tirfoed.

Adolescent, *a.* (Ll. *adolescens*) ieuanc, mebin, mebydol; yn tyfu i fyny.

Adonis, *s.* (*Adonis*, anwylyd Gwener) llygad y goediar.

Adonists, *s. pl.* (H. *adon, adonai,*) Adoniaid=plaid o feirniaid â honant mal llafarnodau y gair *Adonai* sydd yn y gair *Iehofah*.

Adopt, *v. a.* (Ll. *adopto*) mabwyso, mabwysiadu; mabgynnwyso; dewis, ethol.
Adopted son—mab aill, mabwysog, mab cynnwys; mabwysfab.

Adopter, *s.* (o *adopt*) mabwysiadwr, mabwyswr, mabwysiedydd: cymhwysell=math o lestr, sef gwagell gron fawr, arferedig mewn fferyllíaeth.

Adoption, *s.* (Ll. *adoptio*) mabwysiad, mabwys; dewisiad, etholiad.
Adoption of sons—mabwysiad.

Adoptionist, *s.* (o *adoption*) mabwysgredwr.

Adoptive, *a.* (Ll. *adoptivus*) mabwysol, mabwysiadol; dewisol.

Adorable, *a.* (Ff. *adorable*, o'r Ll. *adoro*) addoladwy, parchadwy, parchedig, gorbarchus, goluchadwy; molediw, moliannus.

Adorableness, *s.* (o *adorable*) moliannusedd, moliannusrwydd, moleddusrwydd, ermygedd, molusedd.

Adoration, *s.* (Ll. *adoratio*) addoliad, addoliant, gwolwch, goluched, moliant, anrhydedd, mawrbarch, urddoniant, iolaeth.

Adore, *v. a.* (Ll. *adoro*) addoli, moli, moliannu, mawrhau, goluchu, ioli, gorbarchu, anrhydeddu.

Adorer, *s.* (o *adore*) addolwr, moliannwr; gorserchwr.

Adorn, *v. a.* (Ll. *adorno*) addurno, gwychu, harddu, eirioni, tegu, tegychu, prydferthu, trwsio, clysio, cymmoni, cymhenu, twtneisio.
To adorn with gems—gemu.
To adorn one's self—ymaddurno, ymdrwsio, ymwychu.

Adorn,† *s.* addurn, clysni.

Adorn,† *a.* addurnedig, gwychedig.

Adorning, **Adornment**, } *s.* (o *adorn*) addurniad, harddiad, cymheniad, teghad.

Adosculation, *s.* (Ll. *ad* ac *osculatio*) cynghusiad, cynghusaniad; impiad.

Adossed, *a.* (Ff. *adossé*, o *adosser*) cefn-gefn.

Adoxa, *s.* (Gr.) anfri, mwsglys.

Adown, *ad.* (*a* a *down*) i waered, i lawr, arwaered; yn y gwaelod.

Adown, *prep.* i lawr, i waered, i lawr ar hyd.

Adread,† *a.* (*a* a *dread*) mewn ofn, ofnus, ofnog.

Adrift, *ad.* (*a* a *drift*; S. *adrifan*) yn rhydd, yn benrydd, gyda'r dwfr, gyda'r llif, i'r llif, i ffwrdd.
To turn adrift—tafiu gyda'r dwfr, gollwng gyda'r ffrwd, tafiu yn benrydd.

Adrogation, *s.* (Ll. *adrogatio*) holfabwys, holfabwysiad.

Adroit, *a.* (Ff.) hylaw, hyfedr, medrus, deheu, deheuig, hwylus, celfydd, díchwith; cyfrwysgall, ffel.

Adroitness, *s.* (o *adroit*) medrusrwydd, medrusder, deheurwydd, hylawder, hyfedredd, parodrwydd; ffelder, cyfrwysder.

Adry, *a.* (S. *adrigan*) sychedig.
I am adry—mae syched arnaf.

Adscititious, *a.* (Ll. *adscititius*) chwanegol, chwanegedig; annirfodol.

Adstriction, *s.* (Ll. *adstrictio*) cyfrwymedd, cyfrwymiad, rhwymedd, rhwymed; cydglymiad.

Adstrictory, **Adstringent**, } *a.* (Ll. *adstringo*)=*Astringent*.

Adulation, *s.* (Ll. *adulatio*) gwenhaith, truth, truthiaith; gorfawl.

Adulator, *s.* (Ll.) gwenieithwr, truthan, truthiwr, truthiad.

Adulatory, *a.* (o *adulator*) gwenieithus, gwenieithol, truthiol, truthiog, gwenieithgar; gorfoliannus.

Adulatress, *s.* (o *adulator*) gwenieithes, truthan, truthanes.

Adult, *a.* (Ll. *adultus*) mewn oed, oedog, hewynol.

Adult, *s.* oedog, hewynwr, hewynydd, un mewn oed: *pl.* oedogion, hewyniaid.

Adulterant, *s.* (Ll. *adulterans*) llygrydd, llygrwr, difwynwr.

Adulterate, *v. a.* (Ll. *adultero*) llygru; gwaethygu; cymmysgu; anurddo, difwyno; ffugio; godinebu.

Adulterate, **Adulterated**, } *a.* llygrol, llygredig, halogedig, anurddedig; ffugiol; cymmysgedig; godinebus, godinebol, godebog.

Adulteration, *s.* (Ll. *adulteratio*) llygrad, llygrawd, gwaethygiad, anurddiad, cymmysgiad.

Adulterer, *s.* (Ll. *adulter*) godinebwr, godinebydd; gotwr, got.

Adulteress, *s.* (o *adulterer*) godinebes, godinebwraig; gotwraig.

Adulterine, *a.* (Ll. *adulterinus*) basdarddaidd.

Adulterine, *s.* basdardd.

Adulterous, *a.* (Ll. *adulter*) godinebus, godinebol; gotiol.

Adultery, *s.* (Ll. *adulterium*) godineb, godeb; tor priodas.
To commit adultery—godinebu, gwneuthur godineb.

Adultness, *s.* (o *adult*) oedogrwydd, hewyndeb.

Adumbrant, *a.* (Ll. *adumbrans*) gogysgodol, dargysgodol.

Adumbrate, *v. a.* (Ll. *adumbro*) gogysgodi, dargysgodi; godebygu; braslunio, cysgodlunio.

Adumbration, *s.* (Ll. *adumbratio*) gógysgodiad, dargysgodiad, godebygiad; brasluniad, cysgodluniad.

Adunation,† *s.* (Ll. *adunatio*) uniad, undeb, uniant.

Aduncity, *s.* (Ll. *aduncitas*) camedd, camder, cemi, bachogrwydd, gŵyrgemi.

Aduncous, **Adunque**,† } *a.* (Ll. *aduncus*) cam, bachog, gŵyrgam.

Adure,† *v. a.* (Ll. *aduro*) llosgi, golosgi, deifio, goddeithio.

Adust, **Adusted**, } *a.* (Ll. *adustus*, o *aduro*) llosg; golosgedig, deifiedig; crasboeth.

Adustion, *s.* (Ll. *adustio*) llosgiad, deifiad, golosgiad, goddeithiad, crasboethiad, crasiad.

Advance, *v.* (Ff. *avancer*; Llyd. *avans*) cychwyn, rhacio, myned yn mlaen, dyfod yn mlaen, hwylio; dyrchafu, trawiadu, trawfu, codi, cwnu, cynnyg, dwyn yn mlaen; prysuro, chwanegu, cynnyddu; gwella, gwellhau; rhagdalu, cyndalu, talu yn mlaen; echwyna.
He was advanced from the bar to the bench—dyrchafwyd ef o'r bàr i'r fainc.
To advance the price—codi y pris.
To advance in knowledge—cynnyddu mewn gwybodaeth.
To advance an argument—cynnyg rheswm; dwyn rheswm yn mlaen; dadlu.
He advances his own interests—mae yn gwneyd lles iddo ei hun; mae yn llesoli

ei hun; mae yn gwellhau ei amgylchiadau; mae efe yn ymlesoli.
He advanced not a step—nid aeth efe gam yn mlaen; ni symmudodd gam rhagddo.
Advanced in years—oedranus; mewn gwth o oedran.
The duke advanced the glory of the kingdom—ychwanegodd *neu* amlhaodd y dug ogoniant y deyrnas.

Advance, *s.* cychwyniad; dyrchafiad, derchafedd, codiad; cynnydd; cynnyg; echwyn; cyndal, rhagdal; ennill; trawf, traw, rhaciad.
In advance—ger bron, o flaen; yn mlaen, yn mlaen llaw.
To pay in advance—talu yn mlaen; rhagdalu.
We made some little advance—aethom ychydig yn mlaen; aethom ryw ychydig yn mlaen; aethom ryw dipyn rhagom.
He was in advance of his age—yr oedd yn mlaen ar ei oes; yr oedd yn mlaen ei oes.

Advancement, *s.* (o *advance*) cychwyniad; rhaciant, trawed, trawaeth; codiad, dyrchafiad, dyrchafiant, derchafiaeth, derchafedd, arddderchafedd, arddyrchiad, rhagder, cynnydd; gwelliant; chwanegiad; agweddi.
Before his advancement to the throne—cyn ei ddyrchafiad i'r orsedd; cyn ei esgyniad i'r orsedd.
It makes daily advancements—y mae yn cynnyddu *neu* ymhelaethu beunydd.

Advancer, *s.* (o *advance*) cychwynwr; dyrchafwr, derchafydd; dygwr yn mlaen, cynnyddwr.

Advancive, *a.* (o *advance*) cychwynol; dyrchafiadol, cynnyddol.

Advantage, *s.* (Ff. *avantage*) budd, lles, mantais, elw, mael, ennill; buddiant, llesiant, lleshad, buddred, maeliant, elwant; goruchafiaeth, blaenafiaeth, rhagoriaeth; cyfleusdra.
Mutual advantage—cyfles, cydles, cydfantais; lles o'r ddeutu.
Great advantage—arles, arlesiant, mawrfudd, mawrles.
To have an advantage over *or* of—trechu, cael y trechaf ar, cael y goreu ar, cael y llaw drechaf ar; rhagori ar; bod yn well na, bod yn drech na; gorfod ar.
Let not the ungodly have an advantage over us—na orfydded yr annuwiol arnom.
To the best advantage—ar y geiniog oreu; ar y geiniog eithaf; yn y modd goreu; yn fanteisiol, er mantais; gyda llog.
To advantage—yn fanteisiol, er mantais, er lles; gyda llog; yn rhagorol, yn wych.
The enemy had the advantage of ground—yr oedd y tir uchaf gàn y gelyn; y gelyn oedd â'r tir uchaf ganddo; yr oedd y safyllfa uchaf *neu* oreu gàn y gelyn.
This is not to your advantage—nid buddiol hyn i chwi; nid yw hyn er lles i chwi.
What advantage will it be to thee?—pa les a fydd e i ti? pa les a wna hyny i ti?
To get advantage—elwa, ennill, maelio, cael budd.
To take advantage—cymmeryd mantais; achub cyfle; defnyddio yr adeg.
What advantage hath the Jew?—pa ragoriaeth sydd i'r Iuddew? pa fantais sy gàn yr Iuddew?
Advantage-ground—y tir uchaf; blaenoriaeth, goruchafedd.

Advantage, *v. a.* lleshau, llesu, llesoli, manteisio, buddio, buddioli, ennill, elwa, maela.
What is a man advantaged?—pa leshad i ddyn?

Advantageable, *a.* (o *advantage*) buddiol, ennillfawr, hyfael, manteisiol.

Advantageous, *a.* (o *advantage*) buddiol, llesol, manteisiol, ennillfawr, arlesol, llesfawr; lleslannol, maeliannol.

Advantageousness, *s.* (o *advantageous*) buddioldeb, llesoldeb, llesiant; cyfleusdra.

Advectitious, *a.* (Ll. *advectitius*) tramor, allfanol; o fàn arall.

Advene, *v. n.* (Ll. *advenio*) dyfod, dyfod at; atchwanegu.

Advenient, *a.* (Ll. *adveniens*) chwanegol, atchwanegol; arddodol.

Advent, *s.* (Ll. *adventus*) dyfodiad, dawediad, dawad, dawodiad; y mis cyn Nadolig.
Advent Sunday—Sul y Dawodiad, Sul y Dyfodiad, Sul y Dawediad.

Adventine, *s.* (o *advent*) carddychwel.

Adventine, } † *a.* (o *advent*) damweiniol, dy-
Adventive, } gwyddiadol.

Adventitious, *a.* (Ll. *adventitius*) damweiniol, dygwyddol; chwaenol, achlysurol.

Adventry, † *s.* (Ll. *advenio*) = *Adventure*.

Adventual, *a.* (o *advent*) dyfodiadol, dyfodiannol, dawodol; perthynol i'r Dyfodiad.

Adventure, *s.* (Ff. *aventure*) antur, anturiaeth; llyfas, arlyfas, beiddiad, baidd; perygl; enbydwaith; dygwydd; damwaen.
Bill of adventure—anturysgrif, anturysgrifen, llyfaseb.

Adventure, *v.* anturio, beiddio, llyfasu, arlyfasu, arfeiddio; peryglu.
To adventure one's life—anturio bywyd; peryglu bywyd.

Adventurer, *s.* (o *adventure*) anturiwr, llyfaswr, beiddiwr, arfeiddiwr, arlyfaswr; ceisiedydd.

Adventuresome, *a.* (o *adventure*) = *Adventurous*.

Adventurous, *a.* (o *adventure*) anturiol, anturus, anturiog, llyfasol, arlyfasol, llyfesig, hy, hyf, eon, eofn, arfeiddiol, llyfasus.

Adventurousness, *s.* (o *adventurous*) anturiogrwydd, anturusrwydd, llyfasrwydd; eonder, llyfasedd.

Adverb, *s.* (Ll. *adverbium*) gorair.
Affirmative adverb—gorair dilysol.
Negative adverb—gorair nacaol, gorair negyddol.

Adverbial, *a.* (o *adverb*) goreiriol.

Adversaria, *s.* (Ll.) nodlyfr.

Adversary, *s.* (Ll. *adversarius*) gwrthwynebwr, gwrthwynebydd, gelyn, gwrthblaid, esgarant, (*pl.* esgeraint), sathan.
I will be an adversary to thy adversaries—mi a wrthwynebaf dy wrthwynebwyr.

Adversary, *a.* gwrthwynebol, croes, gwrthbleidiol.

Adversative, *a.* (Ll. *adversativus*) eithradol, gwrthiadol, eithrol, gwrtheiriadol.
Adversative conjunction—cyssylltiad eithradol.

Adversative, *s.* eithrair, gair eithradol: *pl.* eithrolion, eithradolion.

Adverse, *a.* (Ll. *adversus*) gwrthwyneb, gwrthwynebus, gwrthwynebol; croes, traws, cythrol, gelynol; rhagus; echwith; adfydig, adfydus; aflwyddiannus, anffodus; gwrthdroawl; gwrthwynebus.
Adverse wind—gwrthwynt, gwynt croes.
The adverse party—yr wrthblaid.

Adverseness, *s.* (o *adverse*) gwrthwynebrwydd, trawsineb, croesineb, croesder; aflwyddiant.

Adversity, *s.* (Ll. *adversitas*) adfyd, trallod, drygfyd, blinfyd, croesder, croes, croesineb, cyni, cyfyngder, merth; aflwyddiant; cystudd, ing, blinder.

The days of adversity—dyddiau drygfyd, dyddiau blinfyd.

Advert, *v. n.* (Ll. *adverto*) ystyried, ystyrio, synied, sylwi, dàl sylw.

Advertence, } *s.* (o *advert*) ystyriaeth, ystyriad,
Advertency, } ystyriant, sylwad, sylw, pwyll, daliad sylw.

Advertent, *a.* (Ll. *advertens*) ystyriol, darbodol, gofalus, darbodus.

Advertise, *v. a.* (Ff. *avertir;* Llyd. *avertiza*) hysbysu, cyhoeddi, amlygu, mynegu.

Advertisement, *s.* (o *advertise;* Ff. *avertissement*) hysbysiad, hysbyseb, cyhoeddiad, mynegiad, dadganiad; hysbysrwydd.

Advertiser, *s.* (o *advertise*) hysbysydd, hysbyswr, cyhoeddwr, mynegwr.

Advesperate, *v. n.* (Ll. *advespero*) hwyrhau, ucheru.

Advice, *s.* (Ff. *avis*) cynghor, cyssyl; addysg; pwyll; hysbysiad, hysbysrwydd, mynegiad; newydd, hanes; hyfforddiad.

Advice-boat—ysbeifad, hysbysfad.

To take advice—ymgynghori, cyssylio.

We have late advices from France—mae genym newyddion diweddar o Ffrainc.

Take advice and speak your mind—ymgynghorwch a threithwch eich meddwl.

Advigilate, *v. n.* (Ll. *advigilo*) dyfal wylio, gorwylio.

Advisable, *a.* (o *advise*) cymhwys, addas, call, buddiol; cynghoradwy.

Advisableness, *s.* (o *advisable*) cymhwysder, addasrwydd, callineb.

Advise, *v.* (Ff. *aviser;* Llyd. *avisa*) cynghori, annog; ymgynghori, ystyried, pwyllo; hysbysu.

To advise to the contrary—gwrthgynghori.

To advise with—cydgynghori, cydymgynghori.

To advise beforehand—rhagrybuddio.

Advisedness, *s.* (o *advise*) cynghorusrwydd, cynghoroldeb, pwyllogrwydd, hybwylledd, cynghoriant.

Advisement, *s.* (o *advice*) cynghor, cynghoriad, cynghoriant; callder, pwyll; hysbysrwydd; ymgynghoriad.

Adviser, *s.* (o *advise*) cynghorwr, cynghorydd, annogwr, rhybuddiwr; hysbyswr.

Advisory, *a.* (o *advise*) cynghorol, annogiadol, annogiadus.

Advocacy, *s.* (o *advocate*) dadliadaeth, dadleuaeth, dadlyddiaeth; cynghaws; amddiffyniad.

Advocate, *s.* (Ll. *advocatus*) dadleuwr, dadleuor, dadlwr, dadlor, dadlydd; amddiffynwr, diffynwr; eiriolwr; tafodiog, cynghawsydd, canllaw.

Advocate, *v. a.* dadlu, dadleu, dadlu dros; amddiffyn, pleidio.

Advocatess, *s.* (o *advocate*) dadlyddes, dadlores, dadleues.

Advocateship, *s.* (o *advocate*)=*Advocacy*.

Advocation, *s.* (Ll. *advocatio*) dadliadaeth, dadleuaeth; amddiffyn, amddiffyniad, dadl, diffyniad; atalwad.

Advolation, *s.* (Ll. *advolvo*) atehediad.

Advolution, *s.* (Ll. *advolutio*) attreiglad, atroliad.

Advoutrer, *s.* (Ff. *avoultrer*) godinebwr.

Advoutress, *s.* (o *advoutrer*) godinebes, godinebwraig.

Advoutry, *s.* (Ff. *avoutrie*) godineb.

Advowee, *s.* (Ff. *avouer;* Ll. *advocatus*) glwysnoddwr, noddwr, glwysdadog.

Advowson, *s.* (hen Ff. *avouerie*, o *avouer*) glwysnawdd, noddogaeth, glwysnoddogaeth=hawl i gyflwynaw offeiriad i fywoliaeth wag.

Advowson appendant—noddogaeth gyssylltiol=noddogaeth gyssylltedig â maenor.

Advowson in gross—noddogaeth grynswth =noddogaeth gyssylltedig â'r noddwr ei hun.

Advoyer, } *s.* (hen Ff. *advoes*) penswyddog tref
Avoyer, } neu dalaeth yn Switserland.

Adynamic, *a.* (o *adynamy*) dinerth, gwàn, egwan.

Adynamy, } *s.* (Gr. *a* a *dunamis*) annerth,
Adynamia, } gwendid, egwander.

Adytum, *s.* (Gr. *aduton*) celfa, dirgelfa.

Adze, } *s.* (S. *adese*) neddyf, bwyell gam, bwy-
Adz, } ellan, neddai.

Ædile, *s.* (Ll.) adeilior=swyddog Rhufeinig â ofalai am yr adeiladau cyhoeddus.

Ægilops, *s.* (Gr. *aigilôps*, llygad gafr) cilwst=anhwyldeb yn nghil y llygad.

Ægis, *s.* (Gr. *aigis*, croen gafr) tarian Iau; tarian, cadell, aes.

Ægis-bearing Jove—Iau gadellog, Iau darianog, Iau y cadellog.

Æolist, *s.* (Ll. *Æolus*) ymhonwr i ysbrydoliaeth.

Aeration, *s.* (Gr. *aêr;* Ll. *aër*) awyrodiad.

Aerial, *a.* (Ll. *aërius*) awyrol, wybrol, awyraidd, wybrenol.

Aerie, *s.* (C. *eryr;* Cern. *er*) nyth ysglyfadar; nythaid, nythlwyth; haid.

Aerification, *s.* (Ll. *aër* a *facio*) awyroliad, awyroliant.

Aeriform, *a.* (Ll. *aër* a *forma*) awyraidd.

Aerify, *v. a.* (Ll. *aër* a *facio*) awyro, awyroli, awyrogi.

Aero-dynamics, *s.* (Gr. *aêr* a *dunamis*) awyrallofiaeth, ffenallofiaeth.

Aerography, *s.* (Gr. *aêr* a *graphô*) awyryddiaeth =darluniad o'r awyr.

Aerolite, *s.* (Gr. *aêr* a *lithos*) awyrfaen.

Aerological, *a.* (o *aerology*) awyryddol, awyregol; awyrol.

Aerologist, *s.* (o *aerology*) awyrydd, awyrwr.

Aerology, *s.* (Gr. *aêr* a *logos*) awyreg, awyraeth =treithawd ar yr awyr.

Aeromancy, *s.* (Gr. *aêr* a *manteia*) awyrgoel=dewiniaeth oddi wrth yr awyr a'r gwynt.

Aerometer, *s.* (Gr. *aêr* a *metron*) awyrfeidyr, awyriadyr.

Aerometry, *s.* (Gr. *aêr* a *metron*) awyrfeidraeth, awyriadaeth=mesuriad awyr a swmp nwyon.

Aeronaut, *s.* (Gr. *aêr* a *nautês*) awyrnofiwr, awyrdeithiwr; awyrellydd, awyrenwr.

Aeronautic, *a.* (o *aeronaut*) awyrnofiol, awyrdeithiol; awyrellig.

Aeronautics, *s.* (o *aeronautic*) awyrnofeg, awyreniaeth, awyrelliaeth=athrawiaeth neu gelfyddyd hwylio yn yr awyr mewn awyrellau.

Aeronautism, *s.* (o *aeronaut*) awyrnofiant, awyrnofiad; awyrelliant.

Aerophobia, *s.* (Gr. *aêr* a *phobos*) awyrswyd=un o arwyddion y gynddaredd.
Aerophytes, *s. pl.* (Gr. *aêr* a *phuton*) awyrlysiau.
Aeroscepsy, } *s.* (Gr. *aêr* a *sceptomai*) awyrsyn-
Aeroscopy, } iad; awyrsylwad.
Aerostat, *s.* (Gr. *aêr* a *statos*) awsafell; awyren.
Aerostatic, *a.* (o *aerostat*) awyrsafol; awyrnofiol; awsafellig.
Aerostatics, *s.* (o *aerostatic*) awyrbwysiaeth.
Aerostation, *s.* (o *aerostat*) awyrbwysiaeth; awyrsafiaeth, awyrnofiaeth.
Æsthetic, *a.* (Gr. *aisthêticos*) deiniol, dain, deiniolig, teleidig.
Æsthetics, } *s.* deineg, teleideg, deiniolaeth=
Esthetics, } athroniaeth y prydferth mewn prydyddiaeth ac yn y prif gelfyddydau.
Æthusa, *s.* (Gr.) geuberllys.
Æthrioscope, *s.* (Gr. *aithrios* a *scopeô*) hinoniadyr.
Ætites, *s.* (Gr. *aetos*, eryr) eryrfaen.
Afar, *ad.* (*a* a *far*) pell, hirbell; o bell, yn mhell, o hirbell, yn bell.
From afar—o bell, o hirbell.
Afar off—o bell, o hirbell, draw, o draw.
Why standest thou afar off?—pa ham y sefi o bell?
Afeard,† *a.* (*a* a *fear*; S. *aferan*) ofnus, âg ofn arno, mewn ofn.
Afer, *s.* (Ll.) gwynt y de-orllewin.
Affability, *s.* (Ll. *affabilitas*) mwynder, hyfwynder, mwynedd, mwyneiddrwydd, tirionwch, hynawsedd, cyweithasrwydd, cymmawsedd.
Affable, *a.* (Ll. *affabilis*) mwyn, hyfwyn, hynaws, mwynaidd, cymmaws, cyweithasol, hyfoes.
Affableness, *s.* (o *affable*)=*Affability*.
Affabulation, *s.* (Ll. *affabulatio*) addysg, addysgwers.
Affair, *s.* (Ff. *affaire*) gorchwyl, perwyl, gwaith, achos, helynt, peth, mater, neges, masnach, amgylchiad, cyflwr, cyfranc, trin.
Affairs of the state—gorchwylion y deyrnas, achosion y deyrnas, perwylion y wladwriaeth.
Weighty affair—gorchwyl pwysfawr, mater pwysig.
Notable affair—hynodiant, hynodwaith, peth hynod.
His affairs are embarrassed—mae efe mewn amgylchiadau methlus.
He had a little affair with her also—bu rhyw dolach rhyngddo â hithau hefyd.
Affamish, *v. a.* (o *a* a *famish*) newynu.
Affamishment, *s.* (o *affamish*) newyniad.
Affect, *v. a.* (Ll. *afficio*, *affectum*) effeithio ar, affeithio, cyffröi, cynhyrfu, menu ar; dariasu; awyddu, chwennychu, argeisio; serchu, caru; ffuantu, ffugio, rhithio; cymmeryd ar, ymgymmeryd.
To affect with grief—blino â gofid; blino gân ofid; llanw o ofid.
To affect with joy—cynhyrfu â llawenydd; cynhyrfu gân lawenydd; llanw â llonder.
He affects regal sway—mae yn awyddu am rwysg breninol.
To be affected—serchu; tueddu, gogwyddo.
She affects to be grave—cymmer arni fod yn ddifrifol.
An affected person—coegyn, mursyn, mursogyn.
An affected woman—coegen, mursen.
It is good to be zealously affected in a good thing—da yw dwyn mawrserch mewn peth da.
Well affected—da ei ewyllys; yn gwyllysio yn dda; pleidiol.
Ill affected—drwg ei ewyllys; yn gwyllysio yn ddrwg; cenfigenus.
Affectedness, *s.* (o *affect*)=*Affectation*.
Affectation, *s.* (Ll. *affectatio*) cymhendod, mursendod, coegni; ffuantiad, ymddangosiad, arddangosiad; rhyddillynedd; hoffedd.
Alliance, *s.* (Ff. *alliance*) cyfathrach, cystlynedd, cystlyned, cystlynaeth, cystlwn; carennydd, tras, perthynas; cynghrair, cyfammod, ammod; cydbleidiaeth; cyssylltiad; cyweithas, undeb.
Mutual alliance—cydgystlwn, cydystlynedd.
Alliant, *s.* (o *ally*)=*Ally*.
Alliciency, *s.* (Ll. *allicio*) tynedigaeth, attyniad, tyniad.
Allied, *p. a.* (o *ally*) cyfathrachol, cystlynol, perthynasol; cynghreiriol.
I am allied to him—wyf gyfathrachwr iddo.
Allies, *s. pl.* (o *ally*) cynghreiriaid; pleidwyr, pleidogion, cyswyniaid.
Alligate, *v. a.* (Ll. *alligo*) cydglymu, cynghlymu; cydrwymo.
Alligation, *s.* (Ll. *alligatio*) cydglymiad, cynghlymiad; cynghlymiaeth.
Alligator, *s.* (Ysp. a Port. *lagarto*) addanc =afanc America.
Alligature, *s.* (Ll. *alligatura*)=*Ligature*.
Allinement, *s.* (Ff. *alignement*) llinelliad, ysgwariad; llinell, rhes.
Allision, *s.* (Ll. *allisio*) cyttarawiad; gwrthdarawiad.
Alliteration, *s.* (Ll. *ad* a *litera*) unllythyriad, cyflythyriad, unllythyreniad; megys,
'*B*ibl i *b*awb o *b*obl y *b*yd.'
'*B*ehemoth *b*iggest *b*orn.'
Alliterative, *a.* (Ll. *ad* a *litera*) unllythyrol, cyflythyrenol, cyflythyrol.
Alliterative consonancy—croesgynghanedd.
Allocate, *v. a.* (Ll. *ad* a *loco*) gosod, cyflëu; penodi, dogni, rhanu.
Allocation, *s.* (Ll. *ad* a *locatio*) atroddiad, dogniad, dograniad.
Allocution, *s.* (Ll. *allocutio*) anerchiad, cyfarchiad; anerch, llafarawd.
Allodial, *a.* (Ll. *allodialis*) breiniol, breinrydd, rhydd; annibynol.
Allodial land—breinttir, tir breiniol, tir rhydd.
Allodium, *s.* (Ll.) rhyddfeddiant, breinfeddiant, breinttir.
Allonge, *s.* (Ff. *allonger*, estyn) engwth, burth, arfwth, gwth; hirawyn.
Allopathetic, Allopathic, *a.* (o *allopathy*) allnawsol, allnawsig, gwrthnawsol.
Allopathy, *s.* (Gr. *allos* a *pathos*) allnawsedd, allnawsaeth.
Alloquy, *s.* (Ll. *alloquium*) anerch; ymddyddan, ymadroddiaeth.
Allot, *v. a.* (o *lot*) dosbarthu, rhanu, esranu, cyfranu, dyranu; dogni; penodi, gosod, rhoddi, caniatäu.
I allotted to each of them his work—gosodais i bob un ei waith.
What providence allots to all—à rydd rhagluniaeth i bawb.
We allotted them five days—caniatasom iddynt bum diwrnod.
He allotted me this business—rhoddes fi ar y gorchwyl hwn; efe a'm rhoddodd ar y gorchwyl hwn; rhoes y gorchwyl hwn arnaf.
I am allotted to an office—cefais swydd; dewisir fi i swydd.
Allotment, *s.* (o *allot*) cyfran, argyfran, darn, dogn, dawg; rhaniad, dyraniad.
Allow, *v. a.* (Ff. *allouer*) caniatäu, rhoi cenad, ceniadu; goddef, gadael, gadu; dogni, penodi; addef, cyfaddef; colli, gostwng; talu.
To allow one's expenses—dwyn traul un; talu cost un.
Allow me something—collwch imi rywbeth.
You allow the deeds of your fathers—yr ydych yn gydfoddlawn i weithredoedd eich tadau; yr ydych yn cymmeradwyo gweithredoedd eich tadau.
He is an allowed fool—gŵyr pawb mai ffol ydyw; ffwl y cyfrifir ef gàn bawb.
Allowable, *a.* (o *allow*) caniataol, goddefol, goddefadwy; cyfreithlawn, diwahardd.
It is allowable—caniatëir, goddefir; mae yn oddefol.
Allowableness, *s.* (o *allowable*) goddefolrwydd, cyfreithlondeb.
Allowance, *s.* (o *allow*) caniatâd, cenad, goddefiad; rhyddid; dogn, rhan, cyfran; ancwyn; addefiad; tâl, anrheg, rhoddiad; coll, gostyngiad, lleihad.
Be content with your allowance—ymfoddlonwch i'ch cyflogau; byddwch foddlawn i'ch cyflogau.

To give one his allowance—dogni; rhanu ar un.
To keep at short allowance—cadw wrth fin y gyllell.
To make allowance—caniatäu; colli, gostwng.

Allowance, *v. a.* dogni, rhanu, rhanu ar.
He ought to be allowanced—dylid rhanu arno; dylid ei gadw dàn ran.

Alloy, *s.* (Ff. *aloi*) erblith=adwyn gwaelach à gymmysgir âg un purach; adwynau cymmysgedig: cymmysgedd; lleihad.
No happiness is without alloy—nid oes dedwyddwch digymmysg.

Alloy, *v. a.* (Ff. *aloyer, allier*) erblithio; cymmysgu.

Alloyage, *s.* (Ff. *aloyage*) erblithiad; cymmysgedd.

All-Saints-day, *s.* cofwyl yr Holl Saint, cofwyl yr Hollsaint, dygwyl yr Holl Saint, dydd yr Holl Saint, gwyl yr Holl Saint=y dydd cyntaf o Dachwedd.

All-seed, *s.* gorhadog.
Four-leaved all-seed—gorhilig.

All-Souls-day, *s.* dygwyl yr Eneidiau, gwyl yr Eneidiau, dygwyl y Meirw=yr ail o Dachwedd.

All-spice, *s.* chwegronos=math o bupyr.

All-sufficient, *a.* hollddigonol, ollddigonol.

Allubescency,† *s.* (Ll. *allubescentia*) gwyllysgarwch, parodrwydd; boddlonrwydd.

Allude, *v. n.* (Ll. *alludo*) cyfeirio, crybwyll, crybwyllo, awgrymu.
Alluded to—crybwylledig, cyfeiriedig, à gyfeiriwyd ato.

Alluminer, *s.* (Ff. *allumer*)=*Limner*.

Allure, *v. a.* (Ff *leurrer;* Is. *looren*) denu, llithio, hudo, arlithio.

Allurement, *s.* (o *allure*) hudoliaeth, deniad, llithiad, hudiad, hudiant, llithiant, arlith.

Allurer, *s.* (o *allure*) denwr, hudwr, hudolwr, llithiwr, arlithiwr, twyllwr.

Allusion, *s.* (Ll. *allusio*) cyfeiriad, crybwylliad, crybwyllawd, crybwyll, awgrym.

Allusive, **Allusory**, } *a.* (Ll. *alludo*) cyfeiriol, crybwyllol; awgrymol.

Alluvial, **Alluvious**, } *a.* (o *alluvion*) maranol, marianol, maranog, marianog.
Alluvial soil—mariandir, marandir.

Alluvion, **Alluvium**, } *s.* (Ll. *alluvio*) maran, marian; maranedd.

Ally, *v. a.* (Ff. *allier*) cyfathrachu, cystlynu; cynghreirio; tebygu.

Ally, *s.* cydblaid, plaid; cyfathrach, perthynas: *pl.* cynghreiriaid.

Almanac, *s.* (Ar. *al* a *manach*) almynag, amseroni: *pl.* almynagiau, almynegion, amseroniau.

Almightiness, *s.* (o *almighty*) hollalluogrwydd, hollalluedd, ollalluedd, ollalluogaeth, ollallu.

Almighty, *a.* (*all* a *mighty*) hollalluog, ollalluog, hollgyfoethog.

Almighty, *s.* Hollalluog, Ollalluog.

Almond, *s.* (Ff. *amande;* Ysp. *almendra*) almon, cneuen Groeg; almonwydd; cilchwyrnen, chwaren.
Almond-tree—pren almon, almonwydden: *pl.* almonwydd, coed almon.
Almonds of the throat—cilchwyrnau y gwddf, chwarenau y gwddwg.
Almonds of the ears—chwarenau y clustiau, cilchwyrnau y clustiau.
Almond cake—teisen almon.

Almoner, *s.* (Ll. *eleemosynarius*) elusenwr, alwerydd.
Lord almoner—elusenior.

Almonry, *s.* (o *almoner*) elusenfa, cardotty, cardodfa.

Almost, *ad.* (o *all* a *most*) braidd, agos, bron, o fewn ychydig, yn mron, ger llaw, yn agos; prin, haiach, haiachen; gàn mwyaf; ar; prin na; braidd na.
My feet were almost gone—braidd na lithrodd fy nhraed; prin na thripiodd fy nhraed.
Almost thou persuadest me to be a christian—yr wyt o fewn ychydig i'm hennill i fod yn gristion.
It is almost night—mae bron nos; mae yn mron nos; mae y nos ger llaw.
It is almost time—mae yn bryd haiach; mae yn bryd agos; mae yr amser ger llaw; y mae bron bod yn bryd.

Alms, *s.* (S. *almes, almesse;* Gr. *eleêmosunê*) elusen, elwysen, alwysen, cardod.
Land given for perpetual alms—cardottir.
Alms-box—cyff elusen.

Alms-deeds, *s. pl.* elusenau, cardodau.

Alms-giver, *s.* elusenwr, alwysenwr, rhoddwr elusen.

Alms-giving, *s.* elusendod, elusengarwch.

Alms-house, *s.* elusendy.

Alms-man, *s.* elusenog, rheidusyn: *pl.* elusenogion, rheidusion, angenogion.

Almug, **Algum**, } *s.* (H.) almugwydd, algumwydd.

Alnage, *s.* (Ff. *aulnage, aunage*) llathelliad; mesuriad wrth y llathell.

Alnager, **Alnagar**, } *s.* (o *alnage*) llathellydd, llathellwr.

Alnight, *s.* (*all* a *night*) teisen gŵyr.

Aloe, *s.* (Gr. *aloê*) elywydd.
Water aloe—alaw dïosgo.

Aloes, *s.* (Gr. *aloê*) elyw, aloes.
Lign aloe, Aloes-wood, } coed elyw, pren aloes, alöewydd.

Aloetic, **Aloetical**, } *a.* (o *aloes* neu *aloe*) elywig.
Aloetic acid—sur elywig, sur elyw.

Aloft, *ad.* (D. *loffter;* Al. *luft*, awyr) yn uchel, fry, bry, i fyny, i fynydd; uchod.
To set aloft—codi, dyrchafu, dyrchu, cwnu.

Alogians, *s. pl.* (Gr. *a* a *logos*) Aneiriaid=plaid à wadai mai Iesu Grist oedd y Gair.

Alogotrophy, *s.* (Gr. *alogos* a *trophê*) anghydfaeth; maeth anghysson.

Alomancy, *s.* (Gr. *hals* a *manteia*) halarmes, halddewiniaeth.

Alogy, *s.* (Gr. *a* a *logos*) afreswm, gwrthreswm, gwrthuni, ffolineb, afresymoldeb.

Alone, *a.* (*all* a *one;* Al. *allein*) unig, unigol; ei hun, ei hunan; yn unig, wrth ei hun, o'r neilltu, ar ben ei hun.
It is not good that the man should be alone—nid da bod y dyn ei hunan; nid da bod y dyn yn unig.
Woe to him that is alone—gwae yr unig.
Let him alone—gad iddo, paid âg ef, gad ef yn llonydd, gad ef; gadëwch iddo, peidiwch âg ef.
Let me alone—gad i mi; paid â mi; gad fi yn llonydd; gad i mi lonydd.

Let it alone this year also—gad ef y flwyddyn hon hefyd.
He was left alone—gadäwyd ef ei hunan; gadwyd ef yn unig, gadäwyd ef yn amddifad; gadwyd ef.
Let that alone—gad hwna heibio; gad hwna; paid â hwna; gad lonydd i hwna; gad hwna yn llonydd.

Along, *ad.* (S. *and-lang, ond-lang;* Ff. *au long*) gyda, gydag; cyda; ar hyd, hyd; yn y blaen, rhag.
Along the river's side—gyda glàn yr afon; ar hyd glàn yr afon; hyd glàn yr afon.
Along side—ochr yn ochr, yn gyfystlys, wrth ochr, gydag ochr.
Along the shore—gyda'r làn, ar hyd y làn; gyda min y dòn; gyda glàn y môr; ar hyd y traeth.
All along—o ben bwygilydd.
Come along with us—tyred gyda ni; dere gyda ni.
Go along—dos rhagot.

Aloof, *ad.* (o *all* ac *off*) draw, o bell, o hirbell; adlaw.
To stand aloof—sefyll draw, cadw draw, cadw yn mhell, sefyll yn mhell.
Aloof from—draw oddi wrth; yn mhell oddi wrth.

Alopecia, } (Gr. *alôpêx*, llwynog) tanllwynog;
Alopecy, } moelni.

Aloud, *ad.* (*a* a *loud*) yn uchel, yn groch, â llef uchel.
To call aloud—galw yn groch, goralw.
To cry aloud—gwaeddi yn groch, llefain yn groch, crochlefain; llefain â llef uchel; crochwaeddi, gwaeddi.
Cry aloud, spare not—llef â'th geg, nac arbed.

Alow, *ad.* (*a* a *low*) yn isel, obry, i lawr.

Alp, *s.* (C. *alp;* Gael. a Gw. *alp, ailp*) alp, aran; mynydd uchel: *pl.* alpau, aranau, mynnau, mynyddau, mynyddoedd.
The Alps—yr Alpau, y Mynnau.

Alpha, *s.* (Gr.; H. *aleph*) *A* Groeg; y cyntaf.

Alphabet, *s.* (o *alpha* a *beta*, llythyrenau cyntaf yr egwyddor Roeg) egwyddor, agwyddor; y llythyrenau, eglythyrenau.

Alphabet, *v. a.* egwyddoroli, agwyddori; trefnu yn ol yr egwyddor.

Alphabetarian, *s.* (o *alphabet*) egwyddorig, dysgwr y llythyrenau.

Alphabetic, } *a.* (o *alphabet*) egwyddorol, ag-
Alphabetical, } wyddorol, eglythyrol.

Alphenix, } *s.* (Gr. *alphos*) breusugr gwŷn, breu-
Alphenis, } sugar gwŷn.

Alphos, *s.* (Gr.) y clefri gwŷn.

Alpine, *a.* (Ll. *alpinus*) alpin, alpaidd, aranol, mynyddol, mynyddig; aruchel, uchel, ban.
Alpine flowers—blodau mynyddig.
Alpine plants—alplysiau; llysiau mynyddig.

Already, *ad.* (*all* a *ready*) eisoes, eisys, eiswys; yn barod, cyn hyn, hyd yn hyn.

Alsine, *s.* (Gr. *alsinê*) clust y llygoden.

Also, *ad.* (*all* a *so;* S. *eal* a *swa*) hefyd; yr un modd, gyda hyny.
I also—minnau; minnau hefyd.
Thou also—tithau; tithau hefyd.
He also, } yntau; yntau hefyd.
It also, }
She also—hithau; hithau hefyd.
We also—ninnau; ninnau hefyd.
You also—chwithau; chwithau hefyd.
They also—hwythau, hwyntau; hwythau hefyd.
I will go also—minnau a af hefyd.
Be you also ready—byddwch chwithau barod.

Alt, } *a.* (It. o'r Ll. *altus*) ban; banllais, gor-
Alto, } lais.
Alto relievo, } bansaf, uchelsaf, banddelw-
High relief, } ad.

Altar, *s.* (Ll. *altare*) allor.

Altarwise, *ad.* ar wedd allor.

Altarage, *s.* (Ll. *altaragium*) offrwm, allordal.

Alter, *v.* (Ll. *altero;* Ff. *alterer*) arallu, newid, cyfnewid, newidio; amrywio, amgenu.

Alterability, *s.* (o *alterable*) newidioldeb, newidiolrwydd, aralloldeb.

Alterable, *a.* (o *alter*) newidadwy, aralladwy; newidiol, cyfnewidiol.

Alterableness, *s.* (o *alterable*)=*Alterability.*

Alterant, *a.* (o *alter*) newidiol, cyfnewidiol, arallus, arallol.

Alterant, } *s.* arallai, arallog: *pl.* arallogion,
Alterative, } arallolion, alliadolion.

Alteration, *s.* (Ll. *alteratio*) newidiad, cyfnewidiad, aralliad, arallrwydd, newid.

Alterative, *a.* (Ll. *alteratus*) aralliadol, alliadol, newidiadol.

Altercate, *v. n.* (Ll. *alterco, altercor*) ymgecru, ymdaeru, ymeirio, amrafaelio, ymddanneddu, ymgynhenu; dadlu, ymddadlu.

Altercation, *s.* (Ll. *altercatio*) amrafael, ymrafael, ymeiriad, ymryson, ymgecriad, ymdaeriad, ymgeintach; dadl, ymddadleu; ymgiprys.

Altern, *a.* (Ll. *alternus*)=*Alternate.*

Alternacy, *s.* (o *altern*) cylchyndod, cylcholdeb, cylchynoldeb.

Alternal, *a.* (o *altern*)=*Alternative.*

Alternate, *a.* (Ll. *alternatus*) cylchynol, eiliadol; bob yn ail, ar gylch, argylchol; oliannol, adgyrchol, llalliadol, cyfnewidiog.
Alternate angle—llallongl.

Alternate, *s.* cylchnewidiad, cylchyniad, tro.

Alternate, *v.* (Ll. *alterno*) cylchnewid, cylchynu, oliannu, eiliadu, llallu, cyfnewidial.

Alternately, *ad.* (o *alternate*) ar gylch, yn gylchynol, yn ei dro, yn olynol.

Alternation, *s.* (Ll. *alternatio*) cylchyniad, cyfnewidiad, newidiant, cyfnewidiaeth, llalliad.

Alternative, *a.* (Ll. *alternatus*) dewisiadol.

Alternative, *s.* dewis, dewisiad.

Alternity, *s.* (o *altern*) cylchyniad, cyfnewidiaeth, llalliad, cylchynoliad.

Althea, *s.* (Gr. *althaia*) hocys y gors, malw yr hel.

Although, *c.* (*all* a *though*) er, er hyny; pe, ped; eto, er mai, cyd bo, cyd byddo.

Altiloquence, *s.* (Ll. *altus* a *loquor*) rhodresiaith, chwyddiaith.

Altimeter, *s.* (Ll. *altus*, a Gr. *metron*) uchderiadyr=offeryn i fesur uchder.

Altimetry, *s.* (Ll. *altus*, a Gr. *metron*) uchderiaeth, uchfesureg, uchfesuriaeth.

Altisonant, } *a.* (Ll. *altisonans, altisonus*) ban-
Altisonous, } seiniol, uchseiniol, uchelseiniol, croch, seinfawr; chwyddieithol.

Altissimo, *a.* (It.) banaf.

Altitude, *s.* (Ll. *altitudo*) uchder, uchelder, ucheledd, uchedd, uchdra; argonedd, tragoriant.

Altivolant, *a.* (Ll. *altivolans*) banhedol, uchedol.
Alto, *a.* (It.)=*Alt.*
Alto-viola, } *s.* (It.) cyfalawell=offeryn cerdd.
Alto-violin, }
Alto-faggotta, *s.* (It.) banwythonell=offeryn cerdd.
Altogether, *ad.* (*all* a *together*) yn hollol, yn llwyr, i gyd, yn gwbl, yn gwbl oll, yn ddieithrad, achlân; yn nghyd.
Almost and altogether—o fewn ychydig ac yn gwbl oll.
Thou knowest it altogether—ti a'i gwyddost oll.
He is altogether lovely—mae efe oll yn hawddgar.
Aludel, *s.* (o'r Ll. *lutum*) afleidel=math o bot heb waelod, arferedig mewn fferylliaeth.
Alum, *s.* (Ll. *alumen*) allog.
Alum, *v. a.* allogi.
Alum-slate—alloglech.
Alum-stone—allogfaen, maen allog.
Alum-water—allogwy, dwfr allog.
Alum-work,—allogwaith.
Aluminous, *a.* (o *alum*) allogol.
Alumish, *a.* (o *alum*) allogaidd.
Alumnus, *s.* (Ll.) ysgolor, ysgoläig, dysgiolydd.
Alutaceous, *a.* (Ll. *aluta*) llwydwelw, pyglwyd.
Alutation, *s.* (Ll. *aluta*) lledriad, cyffeithiad lledr.
Alveary, *s.* (Ll. *alvearium*, *alveare*) gwenynfa, gwenynog, gwenynlle; cwyrfa.
Alveolar, } *a.* (Ll. *alveolus*) morteisiol;
Alveolary, } cellog, cellawl.
Alveolate, *a.* (Ll. *alveolatus*) crwybrwedd; cellog, tyllog.
Alveole, } *s.* (Ll. *alveolus*) cellan; cell modryd-
Alveolus, } af; grain.
Alvine, *a.* (Ll. *alvus*) ceudodol, coluddol; esgothol.
Always, } *ad.* (*all a way*) yn wastadol, yn wastad,
Alway, } bob amser, o hyd, byth.
Am, *v. n.* (S. *eom*, *eam*; Per. *am*; Gr. *eimi*; Goth. *im*) ydwyf, wyf, yr ydwyf, yr wyf.
I AM THAT I AM — YDWYF YR HWN YDWYF.
As far as I am able—hyd y gallaf.
I am he—mi yw efe, myfi yw efe.
I am told—dywedir imi; hysbysir fi; mynegir i mi; e'm hysbysir.
I am to write a letter—rhaid i mi ysgrifenu llythyr; mae arnaf ysgrifenu llythyr.
I am sorry—mae yn ddrwg genyf; drwg yw genyf.
I am thirsty—mae sychedarnaf.
Am I?—a ydwyf? a wyf? a ydwyf fi? a wyf fi?
Amability, *s.* (Ll. *amabilitas*) hygarwch, hawddgarwch, hygaredd, anwyldeb, anwyledd, addfwynder.
Amain, *ad.* (S. *a* a *mægn*; hen Ff. *maigne* neu *maine*) yn bybyr, yn egnïol, yn lew, yn ddewr; â'r holl nerth, â'r holl egni; yn angerddol, yn ffyrnig; ar unwaith, yn ddisymmwth.
They fled amain—ffoisant am eu heinioes; ffoisant am eu bywyd.
He cried out amain—llefodd yn groch; gwaeddodd nerth ei ben.
Amalgam, *s.* (Gr. *malagma*) delfysg, delfysgedd=cymmysg o arian byw a rhyw adwyn arall: cymmysg, cymmysgedd.
Amalgamate, *v.* (o *amalgam*) delfysgu; cymmysgu, tryfysgu; uno.
Amalgamation, *s.* (o *amalgamate*) delfysgiad, delfysgiaeth; cymmysgiad, tryfysgiad; uniad.
Amanuensis, *s.* (Ll. o *manus*, llaw) ysgrifenydd, ysgrifwas, ysgrifenwas.
Amaranth, *s.* (Gr. *amarantos*; Ll. *amaranthus*) ammor; blodau ammor; anedwaint, anfarwaint.
Globe amaranth—llysiau yr eiddigedd.
Amaranthine, *a.* (Ll. *amaranthinus*) ammoraidd; anedwinol, anedwin, anwyw, anniflanedig, diedwinol.
Amaritude, *s.* (Ll. *amaritudo*) chwerwedd, bustledd, chwerder.
Amarulence, *s.* (Ll. *amarulentia*)=*Amaritude.*
Amarulent, *a.* (Ll. *amarulentus*) chwerw, bustlaidd.
Amass, *v. a.* (Ff. *amasser*) pentyru, crugio, tyru, athyru, croni, dasylu, twysgo, sypio.
To amass riches—pentyru golud, tyru cyfoeth.
To amass a treasure—casglu trysor, trysori trysor, pentyru trysor.
Amass, *s.* pentwr, crug, casgl, cronfa, mwl.
Amassment, *s.* (o *amass*) pentyriad, crugiad, twysgiad, casgliad, cludeiriad, croniad.
Amate,† *v. a.* (*a* a *mate*) hebrwng, hebryngu; arfolli.
Amate,† *v. a.* (hen Ff. *amatir*) dyrysu, ffeigio, methlu; dychrynu, brawychu.
Amateur, *s.* (Ff. o'r Ll. *amator*) desgarwr, celfofydd.
Amative, *a.* (o'r Ll. *amo*) caradog, cariadaidd.
Amativeness, *s.* (*amative*) cariadoldeb, caradogrwydd, cariadusrwydd.
Amatorial, } *a.* (Ll. *amatorius*) cariadol, car-
Amatorious, } iadog, carog, cariadaidd, carodol,
Amatory, } serchlawn.
Amatory song—carol, cân serch.
Amatory muscle—serchgyhyr.
Amaurosis, *s.* (Gr. *amauros*) pylolwg, pylni, tywyllni.
Amaze, *v. a.* (*a* a *maze*? Ar. *amasa*) synu, rhyfeddu, irdangu, aruthro, sanu, serfanu, peri syndod, synu ar; dyrysu.
To be amazed—uthro, rhyfeddu, synu, engurio, chwitho, bod mewn syndod.
They were amazed—synasant, synodd arnynt, rhyfeddasant; rhyfeddu a wnaethant; bu ryfedd ganddynt; syndod a ddaeth arnynt; syn oedd ganddynt.
Amaze, *s.* syndod, aruthredd, rhyfeddod, uthredd.
Amazed, *a.* (o *amaze*) syn, synedig, sanedig, uthrol, eres, uthredig, engur.
Amazedness, *s.* (o *amazed*) synedigrwydd, synedigaeth, uthroldeb.
Amazement, *s.* (o *amaze*) syndod, rhyfeddod, uthredd, aruthredd, synedigaeth, irdant, irdanc, sanedigaeth, chwithdod; eresi; braw, dychryn.
Amazing, *a.* (o *amaze*) rhyfeddol, syn, uthr, uthrol, aruthrol; dychrynllyd, synfawr.
Amazon, *s.* (Gr. *amazones*, *pl.*) gwrferch, garwen, gwroles, gwrforwyn; rhyfeles, budduges; Amasones, (*pl.* Amasoniaid).
Amazonian, *a.* (o *amazon*) hyf, gŵrol, gwrywol; rhyfelgar; Amasoniain.
Ambages, *s. pl.* (Ll.) cylchymadrodd, amgylchiaith, ameiriad, cylcheiriad, amair; amddadl, amgiliad, cyfrwysgiliad; troad.

Ambagious, *a.* (o *ambages*) ameiriadol, cylchciriol, ammroddol, amddadlol; dyrys, methlus.
Ambassador, *s.* (Ff. *ambassadeur*) cenad, cenadwr, cenadog, negeswr, negesiadur: *pl.* cenadau, cenadon, cenadogion, negeswyr.
Ambassadress, *s.* (o *ambassador*) cenades, cenadoges.
Ambassade, **Ambassage**, } †*s.* (Ff. *ambassade*)=*Embassy*.
Amber, *s.* (Ff. *ambre*; Ysp. *ambar*; o'r Ar. *anbaron*) gwefr.
Amber, *a.* gwefrain, gwefrol, gwefraidd.
Amber beads—glain gwefr.
Amber drink—gwefrwy, diod wefr.
Amber, *v. a.* gwefru.
Ambergris, *s.* (*amber*, a Ff. *gris*) gwefris.
Ambidexter, *s.* (Ll.) cyflawiog, cyfwynebog, deuwynebog, deuochrog; Siôn bob ochr.
Ambidexterity, **Ambidexterousness**, } *s.* (o *ambidexter*) cyflawiogrwydd, deuwynebedd.
Ambidextrous, *a.* (o *ambidexter*) cyflawiog, deuwynebog, cyfwynebog.
Ambient, *a.* (Ll. *ambiens*) amgylchol, amredol, cwmpasol, amgylchynol.
The ambient air—yr awyr o'n hamgylch; yr awyr amredol, yr awyr amgylchol.
Ambigenal, *a.* (Ll. *ambo* a *genu*) deuliniol.
Ambigu, *s.* (Ff.) mysgwest.
Ambiguity, *s.* (Ll. *ambiguitas*) amwysedd, amwysder, mwysder, petrusedd, petrusder, ammheusedd, ammheuaeth, ammheurwydd; aneglurdeb, tywyllni.
Words should be used which admit of no ambiguity—dylid arfer geiriau nas gellir eu camddeall.
Ambiguous, *a.* (Ll. *ambiguus*) amwysol, amwys, mwys, mwysol, petrusol, arbetrusol, ammhĕus, ammheüus, ammheuol; aneglur, tywyll.
An ambiguous word—gair mwys, gair amwys, mwysair.
An ambiguous expression—mwyseb, ymadrodd mwys.
Ambiguousness, *s.* (o *ambiguous*)=*Ambiguity*.
Ambilevous, † *a.* (Ll. *ambo* a *lævus*) cyfaswy, llawchwith o bobtu.
Ambilogy, *s.* (Ll. *ambo*, a Gr. *logos*) mwyseg, mwysiaith; cuddsiarad, mwysymddyddan, ammheuson.
Ambiloquous, *a.* (Ll. *ambo* a *loquor*) mwyseiriol, mwysiafarol, cuddebus.
Ambiloquy, *s.* (Ll. *ambo* a *loquor*) mwyseiriad, mwysiafariad; cuddebiaeth.
Ambit, *s.* (Ll. *ambitus*) amgylchedd, amgylched, cylchedd, cylchyd, amgant.
Ambition, *s.* (Ll. *ambitio*) uchelgais, uchelfryd, goryngais, gorfyndod, gorfyn, gorfynt; chwannogaeth; trachwant, chwant, awydd.
Ambitionless, *a.* (*ambition* a *less*) diawydd, diorymgais, anawyddus, anorfynig.
Ambitious, *a.* (Ll. *ambitiosus*) uchelfrydig, uchelgeisiol, gorfynol, awyddus, chwannog, trachwannog, trachwantus, gorfynig, gorfynus, rhwyfus, clodgeisiol.
To be ambitious—awyddu, ymawyddu, uchelgeisio, gorfynu; clodgeisio, clodymgeisio.
Ambitiousness, *s.* (o *ambitious*) uchelfrydedd, gorfynedd, chwannogrwydd, awyddusdeb, trachwannogrwydd.
Ambitude, *s.* (Ll. *ambitudo*) cylchedd, cwmpas, amgylchedd.

D

Ambitus, *s.* (Ll.) amgauad, amgloryn.
Amble, *v. n.* (Ff. *ambler*; Ll. *ambulo*) rhygyngu.
Ambling pace—rhygyng, rhygyngedd, rhygyngawd.
Ambling horse, **Ambler**, } march rhygyngog, rhygyngfarch.
Amble, *s.* rhygyng, rhygyngedd.
Amblosis, *s.* (Gr.) erthyliad.
Amblygon, *s.* (Gr. *amblugônios*) tryfal pylongl.
Amblygonal, *a.* (o *amblygon*) pylonglog.
Amblyopy, **Amblyopia**, } *s.* (Gr. *amblus* ac *ôps*) ambyledd, gobyledd, rhagddellni.
Ambo, **Ambon**, } *s.* (Gr. *ambôn*; Ll. *ambo*) darllenfa, pregethfa.
Ambon, *s.* (Gr.) rhagrain.
Ambreic, *a.* (o *amber*) gwefrig, gwefrin.
Ambreic acid—sur gwefrig, sur gwefrin.
Ambrosia, *s.* (Gr.) ammrwysai, ammrwys=bwyd y duwiau yn ol chwedloniaeth y Groegiaid gynt.
Ambrosiac, **Ambrosian**, } *a.* (o *ambrosia*)=*Ambrosial*.
Ambrosial, *a.* (o *ambrosia*) ammrwysol, amfrwysol, anfarwol; bywiol, per, hyfryd, eidiog.
Ambry, *s.* (llygriad o *almonry*) elusenfa, cardodfa; bwytty, bwydgell, nester.
Ambs-ace, *s.* (Ll. *ambo*, ac *ace*) dwyas, y ddwyas.
Ambulant, *a.* (Ll. *ambulans*) rhodianol, rhodiol, treiniol, amrodiol.
Ambulate, *v. n.* (Ll. *ambulo*) rhodiana, rhodiena, amwibio, rhodio, amrodio, amdramwy, gworymda, cerddeta, cerdded; rhodio yn ol ac yn mlaen.
Ambulation, *s.* (Ll. *ambulatio*) amdramwyad, rhodianad, amwibiad, amdreiniad, rhodiad, amrodiad, cerddediad.
Ambulative, *a.* (o'r Ll. *ambulo*) rhodiol, amdramwyol, rhodianol.
Ambulatory, *a.* (Ll. *ambulatorius*) amdramwyol, rhodianol, rhodiol, amredol, amrodiol, symmudol, cerddedol, gworymdaol.
Ambulatory, *s.* amrodfa, rhodfa.
Ambury, **Anbury**, } *s.* (S. *ampre*; Ll. *ambo*?) ysgwl: *pl.* ysgylion=dafaden waedlyd ar gorff ceffyl; twddf ar lysiau.
Ambuscade, *s.* (Ff. *embuscade*)=*Ambush*.
Ambuscade, *v. a.*=*Ambush*.
Ambuscado, *s.* (Ysp. *emboscado*)=*Ambush*.
Ambush, *s.* (Ff. *embûche*) cynllwyn, rhagod, cyfragod; cynllwyniaeth, cynllwyniad; cynllwynfa, rhagodfa, llechfa; cadbwll, cynllwynwyr.
To be in ambush, To lie in ambush, } cynllwyn, cynllwyno, cyfragod, rhagod.
Lay thee an ambush for the city—gosod gynllwyn erbyn y ddinas.
A lier in ambush—cynllwynwr, llechwr.
They went to lie in ambush—aethant i gynllwyn.
By ambush—trwy ddichell, trwy gynllwyn.
Ambush, *v.* cynllwyn, cynllwyno, rhagod, cyfragod, llechu.
Ambushment, *s.* (o *ambush*)=*Ambush*.
Ambust, *a.* (Ll. *ambustum*) llosgedig; gwylosgedig.
Ambustion, *s.* (Ll. *ambustio*) llosg, llosgiad; gwylosg, lleithlosg.
Amel, *s.* (Ff. *émail*)=*Enamel*.
Amelcorn, *s.* (Ll. *amylum*) gwenith ffreinig.

Ameliorate, *v. a.* (Ff. *ameliorer*, o'r Ll. *melior*) gwellhau, gwella; ffaethu, diwyllio.
To ameliorate land—ffaethu tir, diwyllio tir.
Amelioration, *s.* (o *ameliorate*) gwelliant, gwellineb, gwelliad, gwellhad.
Amen, *ad.* (H.) amen; boed felly, felly boed; felly y byddo, felly y bo; yn wir.
Amenable, *a.* (Ff. *amener*) atebol, cyfrifol.
Amenability, } *s.* (o *amenable*) atebolrwydd,
Amenableness, } ateboldeb.
Amenage, † *v. a.* (Ll. *manus*) trefnu, rheoli, twyo, trin.
Amenance, † *s.* (Ff. *amener?*) arweddiad, ymddygiad, moes, agwedd.
Amend, *v. a.* (Ff. *amender*; Ll. *emendo*) cyweirio, adgyweirio; adnewyddu; diwygio, gwellhau, gwella.
Amendatory, *a.* (Ll. *emendo*) cyweiriadol, cyweiriol; adgyweiriol, gwellhaol, diwygiol.
Amender, *s.* (o *amend*) cyweiriwr, adnewyddwr, diwygiwr, gwellhäwr.
Amendment, *s.* (o *amend*) cyweiriad, adgyweiriad; gwelliant, gwellhad, diwygiad, arwelliant.
Amends, *s. pl.* (Ff. *amende*) iawn, daffar, dadolwch; tâl, pwyth.
To make amends—dadolychu; gwneuthur iawn, talu iawn, rhoddi iawn; talu y pwyth.
Let him make amends for the harm that he has done—taled am y niwed à wnaeth.
He has the amends in his own hands—dichon dalu y pwyth pan y myno; mae y tâl yn ei law.
Amenity, *s.* (Ll. *amœnitas*; Ff. *aménité*) hyfrydwch, tirionwch, sirioldeb, areuledd.
Amenorrhœa, *s.* (Gr. *a*, *mên*, a *rheô*) anfislifiant.
Amentaceous, *a.* (Ll. *amentum*) careiol.
Amerce, *v. a.* (*a* neu *at*, a Ff. *merci*) dirwyo, camlyrio, camgylu.
Amercement, *s.* (o *amerce*) dirwy, camlwrw, camgwl.
Amercer, *s.* (o *amerce*) dirwywr, camgylwr.
Amethyst, *s.* (Gr. *amethustos*) amethyst, glasgochem=maen gwerthfawr o liw glasgoch.
Amethystine, *a.* (o *amethyst*) glasgoch.
Amiability, *s.* (Ll. *amabilitas*)=*Amiableness*.
Amiable, *a.* (Ll. *amabilis*; Ff. *amiable*) hygar, hawddgar, caruaidd, achar, serchus, cariadlon, hyserch, hoffain, cuain, maws, cymmaws; prydweddol, prydferth; addfwyn.
Amiableness, *s.* (o *amiable*) hawddgarwch, hygarwch, hygaredd, hyserchedd, cariadlondeb; prydferthwch; addfwynder.
Amianth, } *s.* (Gr. *amiantos*) urael, ystinos.
Amiantus, }
Amianthoid, (*amianth*, a Gr. *eidos*) ystinosaidd, o ystinos.
Amicable, *a.* (Ll. *amicabilis*) cyfeillgar, cariadus, caredigol, caruaidd, cariadlawn; heddychol, tawel, cymmodol; addfwyn.
Amicableness, *s.* (o *amicable*) cariadusrwydd, hyserchedd, caredigrwydd, heddycholdeb, cymmodoldeb; addfwynder, hyfwynder.
Amice, *s.* (Ll. *amictus*) casul, iswenwisg; gwenwisg.
Amid, } *prep.* (*a*, a S. *midd*, canol) yn mysg,
Amidst, } yn mhlith, yn nghanol; plith, mysg, rhwng.
Amiss, *a.* (*a* a *miss*) beius, beiol, gwallus; anhwylus.
Amiss, *ad.* ar fai, ar gam, yn feius, allan o le, maes o le, o le; yn anghymhwys, yn anaddas, yn wallus, yn ddrwg.
It will not be amiss—ni fydd yn feius; ni fydd allan o le; ni fydd yn anmhriodol; nid anghymhwys fydd.
You think amiss—yr ydych yn camsynied.
To do amiss—troseddu, pechu; gwneyd ar fai, gwneuthur ar gam, gwneuthur allan o le.
We have done amiss—troseddasom, pechasom; gwnaethom ar gam.
To ask amiss—gofyn ar gam, gofyn peth o'i le.
This man did nothing amiss—ni wnaeth hwn ddim allan o'i le.
Nothing comes amiss to him—efe a ymgymhwysa at ba beth bynag a ddygwyddo.
I am somewhat amiss to-day—yr wyf i raddau yn anhwylus heddyw; wyf hytrach yn anhwylus heddyw.
To take amiss—cymmeryd yn chwith; gweled yn chwith; bod yn chwith gàn; bod yn anfoddlawn.
Take it not amiss—na chymmerwch yn chwith; na fydded chwith genych; na fyddwch anfoddlawn; na fid anfoddlawn genych; na fid chwith genych.
Amission, *s.* (Ll. *amissio*) colled, coll, colliad.
Amit, *v. a.* (Ll. *amitto*) gollwng, rhyddhau.
Amity, *s.* (Ff. *amitié*) cyfeillach, cyfeillgarwch; cymdeithas, cyfundeb, cyweithas; telerau cyfeillgar, cydgordiad; cariad, caredigrwydd.
Let us make a league of amity together—gwnawn gyfeillach rhyngom.
Amma, *s.* (H. *am*, mam) abades; penlleian.
Amma, *s.* (Gr.) amrwym, gwregys.
Ammodyte, *s.* (Gr. *ammos*, tywod, a *duô*, myned i fewn) tywodlyswen.
Ammonia, } *s.* (anhysbys) ammonia, hedalcali
Ammony, } =math o alcali neu wrthsur.
Ammoniac, } *a.* (o *ammonia*) ammoniol, hed-
Ammoniacal, } alcalig.
Ammoniacal salt, } hâl ammonia.
Sal ammoniac, }
Ammoniac, } môl ammonia.
Ammoniacum, }
Ammoniac gum, }
Ammoniacal gas—nwy ammoniol, nwy ammonia.
Ammunition, *s.* (Ll. *ad* a *munitio*) cadarmerth, cadarpariaeth, defnyddiau rhyfel, cadarlwy, cad-ddarpariaeth.
Ammunition bread—bara gwersyll.
Amnesty, *s.* (Gr. *amnêstia*) tellwedd, ebargofraith, anghofraith.
Amnios, } *s.* (Gr.) ambilen, colbilen=y bilen
Amnion, } nesaf at y milrith.
Amniotic, *a.* (o *amnios* neu *amnion*) prilifig.
Amniotic acid—sur prilifig.
Amobean, *a.* (Gr. *amobaios*) llallatebol, bob yn ail.
Amobean verse—atebgan.
Amolition, *s.* (Ll. *amolitio*) symmudiad, mudiad.
Among, } *prep.* (S. *onmang*, *ongemang*) yn
Amongst, } mhlith, yn mysg, rhwng; plith, mysg, gyda, gydag, yn nghanol.
Among us—yn ein plith, yn ein mysg; i'n plith, i'n mysg.
Among you—yn eich plith, yn eich mysg; i'ch plith, i'ch mysg.

Among them—yn eu plith, yn eu mysg; i'w plith, i'w mysg.
Among many nations—yn mysg cenedloedd lawer; yn mhlith llawer cenedl; yn mhlith llawer o genedloedd.
Among so many—rhwng cynnifer.
From among—o fysg, o blith; oddi rhwng, o rhwng.

Amoret, *s.* (It. *amoretta*, o'r Ll. *amor*) cariad; nwyfusen.

Amorette, } *s.* (Ff. *amourette*) nwyfusen, nwyf-
Amourette, } oges; nwyfusedd, nwyfuswaith.

Amorist, *s.* (Ll. *amor*) cariad, cariadwr, cariadfab, carwr; anlladwr, merchetwr, nwyfwr, gorddercbwr.

Amoroso, *s.* (It.) cariades, cariadferch; nwyfes, nwyfoges, hynwyfes, anllades, anlladferch.

Amoroso, *s.* (It.)=*Amorist.*

Amorous, *a.* (Ff. *amoreux*, o'r Ll. *amor*) nwyfus, nwyfusol, nwyfusog, nwyfog, nwyfol, hynwyf, careugar; mewn cariad, serchlawn; anllad; hoff.
To become amorous—nwyfo, hynwyfo, nwyfuso.
Amorous potion—swyn serch.

Amorousness, *s.* (o *amorous*) nwyfusedd, nwyfusrwydd, serchlonedd; hoffder; anlladedd, anlladrwydd.

Amorphous, *a.* (Gr. *amorphos*) dilun, diddull.

Amorphy, *s.* (Gr. *amorphia*) annull, anffurf, afluniant.

Amort, *ad.* (Ll. *mors*) ar farw; yn ddigalon, yn llwfr, yn bendrist.

Amortization, } *s.* (o *amortise*; Ff. *amortisse-*
Amortizement, } *ment*) tiralliad, iortholiant, iortholiad=trosiad tir dros byth i gymdeithas neu frawdoliaeth.

Amortize, *v. a.* (Norm. *amortizer*; Ysp. *amortizar*) alliorthi, iortholi.

Amotion, *s.* (Ll. *amotio*) symmudiad, mudiad.

Amount, *v. a.* (Ff. *monter*) cyrhaedd, dyfod; tyfu; cyssumio, cyfansumio.
It amounts to this much—daeth i gymmaint a hyn; y mae yn gymmaint a hyn.
The interest amounts to twenty pounds—mae y llog yn dyfod i ugain punt.
Their testimony amounts to very little—ychydig o bwys sy'n eu tystiolaeth; nid yw eu tystiolaeth o nemawr bwys.

Amount, *s.* cyfansum, cyfanswm, cyssum, swm; y cyfan; maint.

Amour, *s.* (Ff.; Ll. *amor*) nwyfwaith, nwyfedd, nwyfusedd, nwyf; caru; anlladwaith, serchneges: *pl.* nwyfolion, anlladion, serchnegesau, nwyfusion.

Amoval,† *s.* (Ll. *amoveo*) llwyr symmudiad; symmudiad.

Amove,† *v. a.* (Ll. *amoveo*) symmud, symmudo, syflyd; diswyddo.

Amphiarthrosis, *s.* (Gr.) amgymmaliad.

Amphibia, } *s. pl.* (Gr. *amphi* a *bios*) dwyel-
Amphibials, } feniaid, amelfogion, amelfen-
Amphibians, } iaid=milod yn gallu byw ar dir a thàn ddwr: *sing.* amelfog, dwyelfenog, amelfeniad, cyntefyn.

Amphibiological, *a.* (o *amphibiology*) amelfenigol, dwyelfenig, mwys.

Amphibiology, *s.* (Gr. *amphi*, *bios*, a *logos*) amelfeneg=treithawd ar neu ddarluniad o amelfogion.

Amphibious, *a.* (Gr. *amphibios*) dwyelfenol, amelfenol; cymmysg; cyntefin.

Amphibious animal—amelfog, dwyelfeniad, cyntefyn, pryf cyntefin.
Amphibious breed—cymmysgryw.

Amphibiousness, *s.* (o *amphibious*) amelfenaeth, dwyelfendod.

Amphibole, *s.* (Gr. *amphibolos*) mwysddelid.

Amphibolic, *a.* (o *amphibole*) mwysddelidol.

Amphibolite, *s.* (o *amphibole*) mwysgraig.

Amphibological, *a.* (o *amphibology*) amwysol, mwys, ammheuol.

Amphibology, *s.* (Gr. *amphibologia*) amwyseg, mwysebiaith, mwysdraith; ammheuedd.

Amphibolous, *a.* (Gr. *amphibolos*) ymysgytiol, amysgytiol, ymergydiol.

Amphiboly, *s.* (Gr. *amphibolia*)=*Amphibology.*

Amphibrach, *s.* (Gr. *amphi* a *brachus*) corfan amgrych.

Amphibranchia, *s. pl.* (Gr. *amphi* a *bragchia*) amgegridion=chwarenau y gwddwg a'r rhanau cyfagos iddynt.

Amphihexahedral, *a.* (Gr. *amphi*, a *hexahedral*) amchwechochrol, amchwechochrog.

Amphilogy, *s.* (Gr. *amphilogia*) amwysedd, mwysedd, ammheusaeth.

Amphimacer, *s.* (Gr. *amphimacros*) corfan amgydbwys.

Amphipoda, } *s. pl.* (Gr. *amphi* a *pous*) ambed-
Amphipods, } ogion=enw y trydydd dosbarth o Grestogion, yn ol trefn y Baron Cuvier.

Amphipodous, *a.* (Gr. *amphi* a *pous*) ambedogaidd, ambedogol.

Amphiprostyle, *s.* (Gr. *amphi* a *prostulos*) ambendist, pendist dyblyg.

Amphisben, } *s.* (Gr. *amphisbaina*) amwibon:
Amphisbœna, } *pl.* amwiboniaid=enw rhywogaeth o seirff.

Amphiscii, } *s. pl.* (Gr. *amphi* a *scia*) amgys-
Amphiscians, } godiaid, deugysgodiaid=trigion y trofanau.

Amphitheatre, *s.* (Gr. *amphitheatron*) amchwareufa, amddrychfa.

Amphitheatral, *a.* (o *amphitheatre*) ar ddull amchwareufa, fel amddrychfa; hirgrynol, hirgrwn.

Amphitheatrical, *a.* (o *amphitheatre*) amddrychfaol, amchwarwyfaol.

Amphitropal, *a.* (Gr. *amphi* a *trepô*) cyfamdroawl.

Ample, *a.* (Ll. *amplus*; Ff. *ample*) helaeth, ehelaeth, eang, maith, llydan; mawr, braisg, praff, llawn, aml, digonol; bras.
Ample tears—dagrau mawrion.
An ample plain—gwastadedd eang, gwastadedd helaeth, gwastattir maith.
To make ample promises—addaw yn dda; addaw yn helaeth; addaw yn deg.

Ampleness, *s.* (o *ample*) helaethder, helaethrwydd, eangder, meithder, enngedd; mawrder; llawnder, amledd.

Amplexation, *s.* (Ll. *amplexor*) cofleidiad.

Amplexicaul, } *a.* (Ll. *amplexor* a *caulis*)
Amplexicaulent, } amblygol, amfonynol, amgalafol, amgoesigol.

Ampliate, *v. a.* (Ll. *amplio*) helaethu, eangu.

Ampliation, *s.* (Ll. *ampliatio*) helaethiad, eangiad, mwyhad.

Amplificate, *v. a.* (Ll. *amplificio*) helaethu, eangu, chwanegu.

Amplification, *s.* (Ll. *amplificatio*) helaethiad, helaethiant, eangiad, llydaniad; chwanegiad, mwyhad; amgylchiaeth, gogylchiaeth.

Amplify, *v. a.* (Ff. *amplifier*; Ll. *amplificio*)

helaethu, eangu, mwyhau; lledu, amlhau, amledu, chwanegu, cynnyddu; helaethiannu.
Amplifier, *s.* (o *amplify*) helaethwr, eangwr, helaethydd; chwanegwr.
Amplitude, *s.* (Ll. *amplitudo*) helaethrwydd, eangrwydd, eangder, meithder, praffder, rhefder; mawrder, maint, maintioli; llawnder, amledd, digonedd.
Ampullaceous, *a.* (Ll. *ampulla*) chwythigellaidd; potelaidd.
Amputate, *v. a.* (Ll. *amputo*) amdori, amdrychu, damdori, tori aelod.
Amputation, *s.* (Ll. *amputatio*) amdoriad, amdrychiad, damdoriad, toriad aelod.
Amulet, *s.* (Ll. *amuletum*) swynogl, cyfaredd, swyngyfaredd.
Amuletic, *a.* (o *amulet*) cyfareddol, swynoglaidd; swyngyfareddol.
Amurcosity, *s.* (Ll. *amurca*) gwaddodogrwydd.
Amuse, *v. a.* (Ff. *amuser*) difyru, dyddanu, lloddi, hudfoddio, lloddiannu, digrifio, digrifhau.
To amuse one's self—ymddifyru, ymddigrifio, ymloddi; difyru ei hun.
To amuse by flattering promises—porthi âg addewidion teg.
Thus he amused the enemy—fel hyn y dallodd efe y gelyn; fel hyn y dallodd efe lygaid y gelyn.
It amuses me—mae yn ddifyrwch genyf; mae yn ddigrifwch i mi; y mae yn ddifyr genyf.
Amusement, *s.* (o *amuse*) difyrwch, digrifwch, difyrwaith; difyriad, dyddanwch, lloddiant; gochwareu.
Endless amusements—difyrion diddiwedd, difyrion anniwedd.
Amuser, *s.* (o *amuse*) difyrwr, difyrydd, dyddanwr, digrifydd.
Amusing, *p. a.* (o *amuse*) difyr, difyrus, dyddanus, digrif, dyddanol.
Amusive, *a.* (o *amuse*) difyrus, difyr, difyrol, dyddanus, lloddus, hudfoddiol, digrifol.
Amy, *s.* (Ff. *ami*) amgeleddwr, ymddiriedai.
Amygdalate, *a.* (Ll. *amygdalus*) almonaidd, almonol.
Amygdalate, *s.* almonwy.
Amygdalic, *a.* (Ll. *amygdalus*) almonig.
Amygdalic Acid—sur almonig.
Amygdaline, *a.* (Ll. *amygdalinus*) almonain, almonaidd.
Amygdaline, *s.* almonaint.
Amygdalinic, *a.* (o *amygdaline*) almoneinig.
Amygdalinic acid—sur almonaint.
Amygdaloid, *s.* (Gr. *amugdalea* ac *eidos*) llyffanfaen.
Amygdaloid, } *a.* (o *amygdaloid*) llyffanfein-
Amygdaloidal, } in; almonwedd, almonaidd.
Amylaceous, *a.* (Ll. *amylum*) sythaidd, peillwyaidd.
Amylic, *a.* (*amylum*) sythig.
Amylic acid—sur sythig.
An, *art.* (S. *an*, *ane*, un)=*A*: arferedig o flaen llafarai neu *h* fud.
Ana, *ad.* (Gr.) yn gyfartal, yr un faint, yn gydradd.
Anabaptism, *s.* (Gr. *ana* a *baptismos*) ailfedyddiaeth, eilfedyddiaeth=athrawiaeth yr Ailfedyddwyr.
Anabaptist, *s.* (Gr. *ana* a *baptistês*) eilfedyddiwr, ailfedyddiwr, adfedyddiwr.
Anabaptistic, } *a.* (o *anabaptist*) adfedyddiol, ailfedyddiol.
Anabaptistical, }
Anabaptistry, *s.* (o *anabaptist*) yr Ailfedyddwyr, yr Adfedyddwyr, yr Eilfedyddwyr.
Anabaptize,† *v. a.* (Gr. *ana* a *baptizô*) adfedyddio, ailfedyddio.
Anabrosis, *s.* (Gr.) treuliad ymaith, curiad.
Anacamptic, *a.* (Gr. *anacamptô*) adlewyrchig, adlewyrchol, llewychol.
Anacamptic sound—adsain.
Anacamptics, *s.* (Gr. *anacamptô*) adlewyrcheg, adlewycheg=y rhan hòno o dremeg à dreitha ar oleuni adlewyrchol.
Anacathartic, *a.* (Gr. *ana* a *cathartikos*) cyfogol, chwydiadol; yn tueddu i beri cyfog.
Anacathartic, *s.* cyfogai, chwydiadai; cyffer at gyfogi.
Anachoret, } *s.* (Gr. *anachôrêtês*)=*Anchoret*.
Anachorite, }
Anachronism, *s.* (Gr. *ana* a *chronos*) camamseriad, camfrudiaeth, camfrudiad.
Anachronistic, *a.* (Gr. *ana* a *chronos*) camfrudiol, camamserol, camamseryddol.
Anaclasis, *s.* (Gr.) adgemi, adgamder, adblyg, adwyrad.
Anaclastic, *a.* (Gr. *anaclaô*) dattoriadol; adlewyrchol.
Anaclastic glasses, } adlamwydrau, gwydr-
Vexing glasses, } au adlamol, gwydrau adlam.
Anaclastics, *s.* trylewyrcheg, tryweleg.
Anaclisis, *s.* (Gr. *anaclinô*) ystum, clafystum.
Anacoenosis, } *s.* (Gr. *anacoinôsis*) cyffrediaeth
Anacœnosis, } =ffugr mewn areitheg.
Anacoluthon, *s.* (Gr. *anacolouthon*) anghload; annylyniad.
Anacreontic, *s.* (o *Anacreon*) Anacreoneg=cân ar ddull Anacreon.
Anadem, *s.* (Gr. *anadêma*) gwyrlen, gwullgoron, coron flodau; coronbleth.
Anadiplosis, *s.* (Gr.) adgymmeriad=ffugr neu drofeg mewn areitheg (*Deut.* viii. 7).
Anadrom, *s.* (Gr. *ana* a *dromos*) esgynbysg.
Anadromous, *a.* (Gr. *ana* a *dromos*) esgynol.
Anæmia, *s.* (Gr. *a*, di, a *haima*, gwaed) eswaed, anwaed, diffyg gwaed.
Anæsthesia, *s.* (Gr. *anaisthêsia*) annheimlad, dideimladrwydd, coll teimlad.
Anaglyph, *s.* (Gr. *anaglyphos*) cerfaddurn, cerflun.
Anaglyptic, } *a.* (Gr. *ana* a *glyphô*) cerfiol,
Anaglyphic, } cerfiadol; crifiol, crifiedig.
Anagnosis, *s.* (Gr.) adnabyddiad, adnabodaeth.
Anagoge, } *s.* (Gr. *anagôgê*) nefolfrydedd; ys-
Anagogy, } tyr ysbrydol; dirgeledd, cyfriniaeth, dirgelwch.
Anagogetical, *a.* (o *anagoge*)=*Anagogical*.
Anagogical, *a.* (o *anagoge*) cyfriniol, dirgel, dirgeledig, dirgelaidd; ysbrydol; allegol; tywyll, aneglur.
Anagogics, *s. pl.* (o *anagoge*) cyfrinfyfyrion, celfyfyrion, cyfrinolion, myfyrdodau cyfriniol.
Anagram, *s.* (Ll. *anagramma*, o'r Gr. *ana* a *gramma*) trawslythyriad, mysglythyriad, croeslythyreniad, croeseb.
Anagrammatic, } *a.* (Ll. *anagramma*) trawsAnagrammatical, } lythyrol, croeslythyrol, croesebus.
Anagrammatism, *s.* (o *anagramma*) trawslythyriant, croeslythyreniad.
Anagrammatist, *s.* (o *anagramma*) trawslythyrydd, croeslythyrwr, trawslythyrenwr.

Anagrammatize, *v.* (o *anagramma*; Ff. *anagrammatiser*) trawslythyru, trawslythyrenu, croeslythyru, croesebu.
Anagraph, *s.* (Gr. *anagraphê*) cofres, rhestreb; mynegfa.
Anal, *a.* (Ll. *anus*) rhefrol.
Analectic, *a.* (o'r Ll. *analecta*) detholedig, dewisiol.
Analectic magazine—greal detholedig.
Analecta, *s. pl.* (Ll. *analecta*) detholion, pigion, dewision.
Analemma, *s.* (Gr.) uchderell=offeryn mesur-onol.
Analepsis, } *s.* (Gr. *analêpsis*) edrydiad, adfer-
Analepsy, } iad, adferedigaeth; cyfnerth.
Analeptic, *a.* (Gr. *analêpticos*) adferol, cryfhaol, cyfnerthol, edrydol.
Analeptic, *s.* adferai, adferiadai: *pl.* adferolion, cyfnertholion, adferedigion, cyfnerthedigion, edrydolion.
Analogal,† *a.* (Ll. *analogus*)=*Analogous*.
Analogical, *a.* (Gr. *analogos*; Ll. *analogicus*) cyfaleddol, cymharol, cyffelybol, gogyffelyb, cyfatebol, gohanredol, cydweddol, hefelig; perthynol, perthynasol.
Analogically, *ad.* (o *analogical*) yn gyfalaidd; yn gymharol, yn gyffelybol, wrth gyfaledd.
To reason analogically—rhesymu yn gyfalaidd; rhesymu yn gyfosiadol.
Analogicalness, *s.* (o *analogical*) cyfatebolrwydd, cydweddolrwydd; cyssondeb, cyffelybrwydd.
Analogism, *s.* (Gr. *analogismos*) cyfatebiaeth, cyfaleddiant, cyfatebiant.
Analogist, *s.* (o *analogy*) cyfaleddwr, cyfatebydd, gohanredwr.
Analogize, *v. a.* (o *analogy*) cyfaleddu, cymharu, cyfateboli, gohanredu.
Analogous, *a.* (Gr. *analogos*) cyffelyb, cyfatebol, godebyg, cymharol, gogyfartal.
Analogue, *s.* (Gr. *analogos*) cyfatebair; cyfatebog, cyfaleddog.
Analogy, *s.* (Gr. *analogia*) cyfaledd, cyfatebiad, cyfatebiaeth, cyfateboliad, cydweddiad, cyffelybiad, gohanred, hefeliant, cyssondeb, tebygoldeb; perthynas.
According to the analogy of faith—yn ol cyssondeb y ffydd.
There is an analogy between plants and animals—y mae cyfatebiad *neu* gyfaledd rhwng llysiau a milod.
Analysis, *s.* (Gr. *analusis*) dadansoddiad, dosraniad, trychwaliad, dosbarthiad, dosbarthiant, dattodiad, dadglymiad, egoriad.
Analysis and synthesis—dadansoddiad a chyfosodiad; dosraniad a chydosodiad.
Analyst, *s.* (o *analysis*) dadansoddwr, dosranwr, trychwalwr, dosbarthydd, dattodydd.
Analytic, } *a.* (Gr. *analuticos*) dadansoddol,
Analytical, } dosranol, dattodol, dattodiadol, trychwaliadol, dadglymiol, dadglymiadol, dosbarthol, dosbarthiadol; egoriadol.
Analytics, *s.* (o *analytic*) dadansoddeg.
Analyzable, *a.* (o *analyze*) dosranadwy, dattodadwy, dosbarthadwy; à ellir ei ddosranu *neu* ddadansoddi.
Analyzableness, *s.* (o *analyzable*) dosranoldeb, dosbartholrwydd, dattodoldeb.
Analyze, *v. a.* (Gr. *analuô*) dadansoddi, dosranu, trychwalu, dosbarthu, dattod, dadglymu, egori, agor.
Analyzer, *s.* (o *analyze*) dadansoddwr, dosranwr, trychwalydd, dosbarthwr, dattodydd.
Anamnesis, *s.* (Gr.) adgofiaith=ffugr areithyddol.
Anamnestic, *a.* (o *anamnesis*) adgofiol, adgoffaol, cofweiniol.
Anamorphosis, } *s.* (Gr. *ana* a *morphoô*) aflun-
Anamorphosy, } iad, anffurfiant.
Ananas, *s.* afal y pinwydd.
Anandrous, *a.* (Gr. *a*, an, ac *anêr*, gwryw) anwrywol, anwrywaidd; benywaidd.
Anapest, } *s.* (Gr. *anapaistos*; Ll. *anapæstus*)
Anapæst, } corfan crych derchafedig, cynnwysedig o ddwy sill fêr ac un hir.
Anapestic, } *a.* (Ll. *anapæsticus*) perthynol i
Anapæstic, } gorfan crych derchafedig; crych derchafedig.
Anapestic, }
Anapæstic, } *s.* y mydr crych derchafedig.
Anaphora, *s.* (Gr.) adwediad=trofeg ymadrodd (1 *Cor.* i. 20): gwaedlif.
Anaphrodisia, *s.* (Gr. *a* ac *aphrodisia*) anŵredd, gwendid; anhiledd.
Anaplerotic, *a.* (Gr. *anaplêroô*) llenwadol, cyflawnol, cyflenwol, cyflenwadol.
Anaplerotic, *s.* cyflenwai=meddyginiaeth i adnewyddu cnawd neu ranau treuliedig.
Anarch, *s.* (Gr. *anarchos*) anllywodwr, terfysgwr, terfysgydd, cynhyrfydd aflywodraeth.
Anarchic, } *a.* (o *anarchy*) anllywodol, aflyw-
Anarchical, } odraethol, anllywodraethol, terfysgol, terfysgus, dilywodraeth.
Anarchism, *s.* (o *anarchy*) annhrefnedd, annhrefn, terfysgedd, cymhelri.
Anarchist, *s.* (o *anarchy*)=*Anarch*.
Anarchy, *s.* (Gr. *anarchia*) aflywodraeth, anllywodraeth, anllywiaeth, anmhenaeth; annhrefn, terfysg.
Anarthrous, *a.* (Gr. *anarthros*) difannod, difanog, heb fannod.
Anasarca, *s.* (Gr. *ana* a *sarx*) ollddyfrwst; dyfrwst, dyfrglwyf.
Anasarcous, *a.* (o *anasarca*) dyfrystog, dyfrglwyfus.
Anastaltic, *a.* (Gr. *anastellô*) rhwymol, dirglymol, argaeol.
Anastasis, *s.* (Gr.) adferiad, gwellhad; adgwnad, adgodiad.
Anastomatic, *a.* (Gr. *anastomoô*) rhyddhaol, agoriadol, agorol.
Anastomose, *v. n.* (*anastomoô*) geneugydio, cydfinio, cydeneuo.
Anastomosis, } *s.* (Gr. *anastomosis*) cydfiniad,
Anastomosy, } cydeneuad, cyfeneuad, geneugydiad.
Anastomotic, *a.* (o *anastomosis*) cydfiniol, cyfeneuol, geneugydiol.
Anastomotic, *s.* gwythagorai: *pl.* gwythagorolion, gwythagorion.
Anastrophe, } *s.* (Gr. *anastrophê*) gwrthdroad=
Anastrophy, } cyfnewidiad trefn naturiol geiriau mewn ymadrodd.
Anatase, *s.* (Gr. *anatasis*) estynith=enw math o ddelid.
Anathema, *s.* (Gr.) esgymuneb, rhydwng, esgymunad, melltith, melltithiad.
Anathematical, *a.* (o *anathema*) rhydyngol, esgymunol, esgymun, melltithiol.
Anathematization, *s.* (o *anathematize*) rhydyngiad, esgymunawd, melltithiad, esgymuniad.
Anathematize, *v. a.* (o *anathema*) rhydyngu, melltithio, melltigo, esgymuno, dïofrydu.
Anatiferous, *a.* (Ll. *anas*, hwyad, a *fero*, cynnyrchu,) hwyadogol.

Anatocism, *s.* (Ll. *anatocismus*) adlog, arlog, llog ar log.
Anatomical, *a.* (o *anatomy*) difyniadol, difynol, attoriadol.
Anatomist, *s.* (o *anatomy*) difyniwr, difyniedydd, attorydd.
Anatomize, *v. a.* (o *anatomy*) difyniadu, difynio, attori.
Anatomy, *s.* (Gr. *anatomê, anatomia*) difyniaeth, difyneg; difyniant, difyniad, attoriaeth.
Vegetable anatomy—llysddifyniaeth, difyniaeth llysiau.
Animal anatomy—milddifyniaeth, difyniaeth milod.
Human anatomy—dynddifyniaeth, difyniaeth dyn.
Comparative anatomy—difyniaeth gymharol, cyfddifyniaeth=difyniad pob math o anifel ond dyn.
Artificial anatomy—difyniaeth gelfyddol.
Pathological anatomy, Morbid anatomy, } difyniaeth glefydol, difyniaeth glefydegol.
Anatreptic, *a.* (Gr. *anatrepô*) dymchweliadol, dadymchwelog, dymchwelig, dymchwelus.
Anatron, *s.* (o'r Gr. *nitron*) sadalcali; gwydrysgai; murhalan.
Anatropous, *a.* (Gr. *anatrepô*) gwrthdroawl, dattroawl, dattroadol.
Anbury, *s.* (S. *ampre?*) ysgwl=twddf neu dyfiant ar rai llysiau.
Anceps, *a.* (Ll.) deufiniog, deufin, deufiniol.
Ancestor, *s.* (Ff. *ancestres, ancêtres;* Ll. *antecessor*) hynafiad: *pl.* hynafiaid, henafiaid, hyneifiaid; cyndadau, teidiau, hynaif, tadau, rhiaint, rhieni; y rhai gynt.
Ancestorial, *a.* (o *ancestor*)=*Ancestral.*
Ancestral, *a.* (o *ancestor*) hynafaidd, cyndadaidd, teidaidd, cyndadol, rhienïol.
Ancestress, *s.* (o *ancestor*) hynafes, henafes.
Ancestry, *s.* (o *ancestor*) hynafiaeth, cyndeidiaeth, gwelygordd, achau, bonedd, rhienïaeth, cyff cenedl, rhïachau, llinachau.
Anchilops, *s.* (Gr.) cilwst=penddüyn yn nghil y llygad.
Anchor, *s.* (Ll. *anchora;* Gr. *agcura*) angor, heor: *pl.* angorion, angorau, heorau.
The shank of an anchor—paladr angor.
The fluke of an anchor—palf angor.
The trend of an anchor—trifed angor.
The stock of an anchor—pill angor, cyff angor.
The peak of an anchor—pig angor.
To weigh anchor—dadangori, dïangori; codi yr angor, codi angor.
To ride at anchor, To lie at anchor, } gorwedd wrth angor; bod wrth angor.
To cast anchor—angori, heori, bwrw angor.
Sheet anchor—y prif angor, y prifangor.
Kedge anchor—y llusgangor.
Anchor, *v.* angori, heori, bwrw angor.
Anchorable, *a.* (o *anchor*) angoradwy, heoradwy.
Anchorage, *s.* (o *anchor*) angorfa, angordraeth; angordreth, heordreth; angoriad.
Anchored, *a.* (o *anchor*) angoredig, heoredig; angorol.
Anchoress, *s.* (o *anchoret*) meudwyes, didryfes.
Anchoret, Anchorite, } *s.* (Gr. *anachôrêtês*) meudwy, didryfwr, didryf, didrefwr, unigwr, golochwydwr.
Anchoretic, Anchoretical, } *a.* (o *anchoret*) meudwyol, didryfol, unigol.
Anchor-ground, *s.* angordir, heorfa.
Anchor-hold, *s.* angorddal; sicrwydd, diogelwch.
Anchor-smith, *s.* angorof, gof angorion.
Anchovy, *s.* (Port. ac Ysp. *anchova;* Al. *anschove*) brwyniad: *pl.* brwyniaid=math o fân bysg.
Anchusa, *s.* (Ll.; Gr. *agchousa*) tafod yr ych.
Anchylosed, *a.* (o *anchylosis*) sythreddedig, anmhlygedig, syth, anghymmalus.
Anchylosis, Ancylosis, } *s.* (Gr. *agculoô*) sythredd, anghymmaliad, sythder cymmalau.
Anchylotic, *a.* (o *anchylosis*) sythreddol, syth, anystwyth, anmhlygadwy, anhyblyg.
Ancient, *a.* (Ff. *ancien;* Ll. *antiquus*) hen, henafol, hynafol; oedranus, henaidd, hirhoedlog, oesol, oediog, henain.
The Ancient of Days—yr Hen Ddihenydd; Ior.
The ancient world—y cynfyd, yr hen fyd.
Ancient histories—hen hanesion, hanesion hynafol.
Ancient times—yr amseroedd gynt; yr hen amseroedd; yr amser gynt; y cynoesoedd; yr oesoedd gynt; y dyddiau gynt.
The ancient hills did bow—y bryniau oesol a grymasant.
Ancient things—y pethau gynt; hen bethau, pethau hynafol.
The work of an ancient hand—gwaith hen law.
An ancient demesne—hendref; hen dattref, hen dreftadaeth.
Ancient and modern—hen a diweddar; henafol a diweddar.
Let us keep the ancient feasts—cadwn ŵyliau yr hynafiaid; cadwn yr hen ŵyliau.
An ancient estate—hen diriogaeth; meddiannau *neu* gyfoeth hynafiaid.
Ancient statues—hen safluniau.
Ancient men—hynafwyr, henurion, henuriaid.
Ancient, *s.* henur, henuriad, henydd: *pl.* hynafiaid, hyneifion; henuriaid; y rhai gynt, gwŷr yr hen oesau.
Ancients and moderns—hynafiaid a diweddariaid; yr hen a'r diweddar.
With the ancient is wisdom—doethineb sy mewn henuriaid; gyda yr hynafiaid y mae doethineb.
The ancient and honourable—yr henwr a'r anrhydeddus; yr hen ac enrhydeddus.
Ancient, *s.* (Ff. *enseigne*) lluman, penwn; llumanwr, banerwr.
Anciently, *ad.* (o *ancient*) gynt, yn y cynfyd; yn y dyddiau gynt, yn yr hen amser, yn yr amseroedd gynt, yn yr hen oesoedd.
Ancientness, *s.* (o *ancient*) hender, hendra, heneiddrwydd, hendod; hynafiaeth.
Ancientry, *s.* (o *ancient*) hynafiaeth, bonedd, achau.
Ancienty,† *s.* (o *ancient*) henaint; hynafedd, hynafiaeth.
Ancillary, *a.* (Ll. *ancilla*) morwynol; iswreinyddol, iswasanaethol; cynnorthwyol, ffrwyol, attegol.
Ancipital, *a.* (Ll. *anceps*) ammheuol; dyblyg, deufiniol, deufiniog.
Ancome, *s.* (anhysbys) bystwn, y bystwn; llynoryn.

Ancon, *s.* (Ll.) arelin, penelin.
Ancone, *s.* (Ll. *ancon*) cornel, ongl, congl.
Ancony, *s.* (Gr. *agcôn?*) talp haiarn hanner ei wneyd; clamp gweithiedig.
And, *c.* (S. *and;* Al. *und;* Is. *ende, en*) a, ac; hefyd.
Better and better—gwellwell.
By and by—ar fyr, yn y màn.
By little and little—bob yn ychydig; bob yn dipyn; o dipyn i dipyn.
To sink deeper and deeper—suddo yn ddyfnach ddyfnach.
Bread and butter—brechdaen, brechdan.
And not—heb; fel na.
Apophasis, *s.* (Gr.) gogrybwylleb = trofeg areithyddol.
Apophlegmatic, *a.* (Gr. *apo* a *phlegma*) cnogyfferol; à gwyd lysnafedd.
Apophlegmatic, *s.* cnogyffer; cyffer i godi llysnafedd.
Apophlegmatisant, *s.* (o *apophlegmatic*)=*Apophlegmatic*.
Apophlegmatism, *s.* (o *apophlegmatic*) cnogyffer.
Apophthem, *s.* (Gr. *apophthegma*) doetheb, doethair, direb, ffraethair, areb.
Apophyge, Apophygy, *s.* (Gr. *apophugê*) ysgwrn, ysgythiad colofn.
Apophysis, Apophysy, *s.* (Gr. *apophusis*) twddf; oddf asgwrn.
Apoplectic, Apoplectical, *a.* (Gr. *apoplêctos*) menyddystol, parlysol, perthynol i'r parlys mud.
Apoplexy, *s.* (Gr. *apoplêxia*) menyddwst, y parlys mud.
Apopnixis, *s.* (Gr. *apopnigô*) mogiad, mygiad, tagiad.
Aporon, *s.* (Gr. *aporos*) anhoddeb.
Aporema, *s.* (Gr.)=*Aporon*.

Apory, } *s.* (Gr. *aporia*) petrusad, ammheuad;
Aporia, } anesmwythder, aflonyddyd.
Aporrhœa,† *s.* (Gr. *aporrhoê*) mws, mysoriad; deigyniad.
Aposiopesis, } *s.* (Gr. *aposiôpêsis*) attaliaith,
Aposiopesy, } attaliaeth=ffugr areithyddol.
Apostasy, *s.* (Gr. *apostasis, apostasia*) gwrthgiliad, adlithrad, gwrthgwymp, syrthiad ymaith, ymadawiad; cornwyd.
Apostate, *s.* (Gr. *apostatês*) gwrthgiliwr, adlithrwr, gwrthgilydd, enciliwr.
Apostate, *a.* gwrthgiliol, gwrthgiliadol; gau, ffals, bradychus.
The apostate angels—yr angelion syrthiedig.
Apostatical, *a.* (o *apostate*) gwrthgiliol, fel gwrthgiliwr.
Apostatize, *v. n.* (o *apostate*) gwrthgilio, adlithro, encilio, ymadael.
Apostemate, *v. n.* (o *aposteme*) llynori, cornwydo, addwydo, gorgeio, crawnu.
Apostemation, *s.* (o *apostemate*) llynoriad, addwydiad, gorgeiad, dargodiad, crawniad.
Apostematous, *a.* (o *apostemate*) llynorol, llynoraidd, gorgeiol, cornwydol.
Aposteme, } *s.* (Gr. *apostêma*) cornwyd, llynor,
Apostume, } addwyd, gorgai, crug.
Apostle, *s.* (Gr. *apostolos;* Ll. *apostolus*) apostol, ebostol, ebestol; anfonog: *pl.* apostolion, ebostolion, ebystyl, anfonogion.
The festival of the apostles—cofwyl yr apostolion; grawys ebystyl.
Apostleship, *s.* (o *apostle*) apostolaeth, ebostolaeth; anfonogaeth.
Apostolate, *s.* (Gr. *apostolê;* Ll. *apostolatus*) apostolaeth, ebostolaeth; anfonogaeth, cenadaeth.
Apostolic, } *a.* (Gr. *apostoliços*) apostolig,
Apostolical, } apostolaidd, ebostolig; anfonogol, cenadol.
The apostolic faith—y ffydd apostolig; ffydd yr apostolion.
The apostolic fathers—y tadau apostolig, y tadau apostolaidd.
Apostolicalness, *s.* (o *apostolical*) apostoligrwydd, apostoleiddrwydd.
Apostolics, *s. pl.* (o *apostolic*) Apostoligion=enw plaid grefyddol.
Apostrophe, *s.* (Gr.) tolnod; dadymchwel, gwrthdro; cyfarchiad=ffugr mewn gramadeg ac areitheg.
Apostrophic, *a.* (o *apostrophe*) tolnodol; dadymchwelol, dadymchwelig, gwrthdroawl; anerchiadol, cyfarchiadol.
Apostrophize, *v.* (o *apostrophe*) tolnodi; dadymchwelyd, gwrthdröi; cyfarch, anerch.
Apotactites, *s. pl.* (Gr. *apotactos*) Ymwrthodiaid=plaid o Gristionogion borenol.
Apotheca, *s.* (Ll.; Gr. *apothêcê*) cyfferifa.
Apothecary, *s.* (o *apotheca*) cyfferiedydd, cyfferïwr.
An apothecary's shop—cyfferifa.
Apothegm, } *s.* (Gr. *apophthegma*)=*Apoph-*
Apothem, } *them.*
Apothegmatic, } *a.* (o *apothegm*) doethebus,
Apothegmatical, } doetheiriol, ffraethebus, ffraetheiriol.
Apothegmatize, *v. n.* (o *apothegm*) doethebu, doetheirio, ffraethebu.
Apotheosis, *s.* (Gr.) dwyfolaeth, dwyfoliad, duwoliad.
Apotheosize, *v. a.* (o *apotheosis*) dwyfoli, duwio.
Apothesis, *s.* (Gr.) dodfa, dodiad.

Apotome, } *s.* (Gr. *apotomê*) trychiad; gweddill.
Apotomy, }
Apotrepsis, *s.* (Gr.) diflaniad, dymchwydd.
Apotrope, } *s.* (Gr. *apotropê*) dyhuddeg, dy-
Apotropy, } huddgan.
Apotropeans, *s. pl.* (o *apotrope*) dyhuddolion.
Apozem, *s.* (Ll. *apozema*, o'r Gr. *apo* a *zeô*) trwyth, isgell, llysdrwyth, dïod.
Apozemical, *a.* (o *apozem*) trwythol, trwythaidd.
Appair, *v.* (o *pair;* S. *apæra n*) anmharu; dirywio.
Appal, *v.* (Ll. *palleo;* Ff. *pâlir*) dychrynu, brawychu, arswydo, digaloni, peri braw; synu, llesghau.
Appalment, } *s.* (o *appal*) dychryn, braw, ar-
Appallment, } swyd, syndod, llesgedd, digalondid, dyddelwad.
Appanage, } *s.* (Ff. *apanage*) mesttir=tir à
Apanage, } rydd tywysog yn gynnysgaeth i'w blant ieuaf: cynnaliaeth, maeth.
Apparatus, *s.* (Ll.) cyfarpar, offer, peiriant; arlwy, darmerth, armerth; cêr, celfi, trec, taclau, peirianau.
Apparel, *s.* (Ff. *appareil*) dillad, gwisg, diwyg, gwisgad, archenad, trwsiad, trws; gwisgoedd; taclau; ymddangosiad.
Mourning apparel—galarwisg.
Apparel, *v. a.* gwisgo, dilladu, arwisgo, gwisgadu, trwsiadu, taclu, addurno, trecio.
Apparence, } † *s.* (Ll. *appareo*)=*Appearance.*
Apparency, }
Apparent, *a.* (Ll. *apparens*, o *appareo*) amlwg, eglur, goleu, hywel, dibetrus, eglwg; ymddangosol, ymddangosiadol, tebygol, rhithiannol.
Heir apparent—edlin; *pl.* edlinoedd.
The apparent magnitude of a star—maint ymddangosiadol seren.
An apparent lie—celwydd goleu.
It is apparent—y mae yn amlwg, mae yn eglur; amlwg yw, eglur yw; mae yn hywel.
To make apparent—amlygu, egluro, dangos, rhithioli, rhithiannu, drychioli; hysbysu.
Apparently, *ad.* (o *apparent*) yn amlwg, yn eglur, yn oleu; mewn ymddangosiad, yn ymddangosiadol.
Apparentness, *s.* (o *apparent*) amlygrwydd, amlygder, amlygedd, eglurder; rhithedd; ymddangosiad.
Apparition, *s.* (Ll. *apparitio*) drychiolaeth, gweledigaeth, lledrith, ysbryd, ellyll, anysbryd, gwagysbryd; ymddangosiad, ffurf.
Apparitor, *s.* (Ll.) rhingyll, gwysiwr, berllysgydd.
Apparitor's rod—pilo.
Appay, † *v. a.* (Ysp. a Port. *apagar*) boddloni.
Appeach, † *v. a.* (Ff. *empêcher*) cyhuddo, beio.
Appeachment, † *s.* (o *appeach*) cyhuddiad, beiad, cwyn.
Appeal, *v.* (Ll. *appello;* Ff. *appeler*) atalw, ymoralw, barngeisio, barnalw, ymddibleidio, ymddiheuro, holgeisio, gwrth-hawlu; cyfeirio, galw; galw yn dyst; cyhuddo.
To appeal for judgment—galw barn, ceisio barn.
To appeal to the law—dodi ar y gyfraith, rhoi ar y gyfraith.
To appeal against the decision—galw ar y dosbarth; ymddibleidio.
He appealed to him that judgeth right-

eously—rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn.
I was constrained to appeal to Cæsar—mi a yrwyd i ymddibleidio at Caisar.
I appeal to you—ymoralwaf arnoch *neu* atoch; atalwaf arnoch; ymddiheuraf atoch; gadawaf i chwi farnu; galwaf chwi yn dyst.

Appeal, *s.* atalwad, ymoralwad, barnalwad, adfarn, barngais, ymddibleidiad, ymddiheuriad, gwrth-hawl, galwad; cwynwys; cyhuddiad, achwyniad.
To make an appeal to heaven—galw y nef yn dyst.
To make an appeal to arms—ymgyrchu at arfau; cyrchu at arfau; defnyddio arfau.
Court of appeals—llys adfarnau.

Appealant, † *s.* (o *appeal*)=*Appellor.*

Appealer, *s.* (o *appeal*) barngeisydd, ymddibleidiwr, geilwydd barn.

Appear, *v. n.* (Ll. *apparec*) ymddangos; rhithio, ymrithio, darymrithio, damrithio, peithio, blanu, ymddrychioli, tywynu; bod i'w weled, bod yn weladwy *neu* weledig; dyfod i'r golwg; edrych.
As soon as the morning shall appear—pan oleuo y bore; pan ddelo y bore.
As appears this day—fel y gwelir heddyw.
It doth not yet appear what we shall be—nid amlygwyd eto beth a fyddwn.
Let it appear—ymddangosed; gweler.
It appeared—ymddangosodd; gwelwyd, canfuwyd.
It appears—ymddengys, mae yn ymddangos; mae yn debyg, mae yn debygol; tybir.
It appears to me—ymddengys i mi; mae yn ymddangos i fi; mi dybygwn; tybygwn, mi a dybiwn.
Not to appear—peidio âg ymddangos; gadaw y maes.
To appear in print—ymddangos drwy y wasg; cyhoeddi lyfr; bod yn awdwr.
To make to appear—dangos, amlygu, dadguddio.

Appear, † *s.*=*Appearance.*

Appearance, *s.* (o *appear*) ymddangosiad; gwedd, golwg, tebygoliaeth, dull, rhith, agwedd, edrychiad, edrithiad, gosgedd, llun, sut, ffed, darymrithiad, baranedd, trem, damrith, rhithiad; gweledigaeth, gweledigaeth.
False appearance—geurith, geuwedd, lledrith.
First appearance, Foremost appearance, } cynwedd, yr olwg gyntaf.
Divine appearance—dwyfolwedd, golwg ddwyfol, gwedd ddwyfol.
Glorious appearance—gwedd ogoneddus, gwedd ogoned, mygrwedd.
Variable appearance—eddrith, edrith, amrith, gwedd newidiol.
Outward appearance—ellwedd, allanrith, golwg allanol, ymddangosiad.
Faint appearance—gorith, lledrith, gwanrith.
Ruddy appearance—cochwedd, rhuddwawr.
Good appearance—hoen, hoenwedd, edrychiad da.
Right appearance—iawnrith, iawnwedd, iawnolwg.
Bad is her appearance—drwg yw y wedd arni; gwael yw ei gwedd.
To diversify the appearance—amrithio.
He is a good man to all appearance—gwr da yw efe wrth ddim à welir, *neu*, yn ol pob ymddangosiad.
In all appearance—wrth bob tebygoliaeth; wrth bob tebyg.
He makes a great appearance at court—y mae yn fawr *neu* uchel ei rwysg yn y llys.
He makes a good appearance in the world—mae yn gwneyd ymddangosiad gwych yn y byd; y mae efe mewn amsawdd da yn y byd.
He makes but a poor appearance—nid oes arno ond drych gwael; nid oes arno lun yn y byd; gwael *neu* salw yw ei osgedd.
A day of appearance—dydd tormach, dydd ymddangosiad.

Appearer, *s.* (o *appear*) ymddangosydd.

Appearing, *s.* (o *appear*)=*Appearance.*

Appeasable, *a.* (o *appease*) llonyddadwy, dyhuddadwy, gostegadwy; hynaws, rhywiog.

Appeasableness, *s.* (o *appease*) gostegrwydd, dyhuddogrwydd.

Appease, *v. a.* (Ff. *appaiser*) llonyddu, gostegu, llinaru, dyhuddo, heddychu, tawelu, teghau, dystewi, dylofi, diddigio, dilidio, anniglloni, llareiddio, heddychloni; cymmodi; datterfysgu, haru.
To appease strife—tori ymryson.
Thus they appeased the fury of his wrath—fel hyn y diffoddasant angerdd ei ddigofaint ef.
To be appeased—ymlonyddu, ymdawelu, gostegu, tawelu, llonyddu, arafu.
He is appeased at last—y mae efe wedi ymlonyddu o'r diwedd.

Appeasement, *s.* (o *appease*) gostegiad, taweliad, dyhuddiad, dyhuddiant, heddychiad, diddigiad; cymmodiad; heddychloniad, llonyddiad, datterfysgiad.

Appeaser, *s.* (o *appease*) llonyddwr, heddychwr, gostegydd, dyhuddwr, cymmodwr.

Appeasive, *a.* (o *appease*) llonyddol, llinarol, llareiddiol; dyhuddol.

Appellant, *s.* (o'r Ll. *appello*) barngeisydd, ymddibleidiwr; cyhuddwr, cwynwr, cwynieddydd, achwynwr, erlynydd; heriwr, beiddiwr.

Appellate, † *s.* (Ll. *appellatus*)=*Appellee.*

Appellate, *a.* (Ll. *appellatus*) barngeisiol, adfarnol, ymddibleidiol, ymoralwadol, atalwadol.

Appellation, *s.* (Ll. *appellatio*) enwad, enw, cyfenwad, galwad.

Appellative, *a.* (Ll. *appellativus*) enwol, cyfenwol, enwedigol, galwedigol; cyffredin.

Appellative, *s.* enw cyffredin, enwad.

Appellatory, *a.* (Ll. *appellatorius*) adfarnol, ymddibleidiol, barnalwol, barngeisiol.

Appellee, *s.* (o'r Ll. *appello*) cyhuddai, y cyhuddedig, amddiffynwr=yr un y dygir cyhuddiad neu adfarn i'w erbyn.

Appellor, *s.* (Ll.)=*Appellant.*

Append, *v. a.* (Ll. *appendo*) dibynu, dibynu wrth; cyssylltu, attodi, atddodi, chwanegu at.

Appendage, *s.* (o *append*) chwanegiad, dibynai, llabed, atddodiad, cyssylltiad.

Appendance, Appendence, } † *s.*=*Appendage.*

Appendant, Appendent, } *a.* (o *append*) dibynol, chwanegol, cyssylltiol, glynol; yn dibynu; perthynol.

Appendant, *s.* dibynai, dibyniad, llabed, dringl; chwanegiad.
Appendency, *s.* (o *appendence*) cyssylltiad, chwanegiad.
Appendicate, † *v. a.* (o *append*) atddodi; dibynu.
Appendication, † *s.* (o *appendicate*) chwanegiad, darymsoddiad, cyssylltiad.
Appendicle, *s.* (Ll. *appendicula*) diblin, llabedyn, dringlyn.
Appending, *s.* (o *append*)=*Appendency*.
Appendix, *pl.* Appendixes, *s.* (Ll) attodiad, atddodiad, chwanegiad, adchwanegiad, cyflenwad, ychwanegiad.
Apperceive, † *v. a.* (Ff. *apercevoir*) amgyffred.
Apperception, *s.* (Ll. *ad*, a *perception*) argynrith; cydwybodoldeb, cydwybodolrwydd.
Apperil, † *s.* (o *ad* a *peril*) perygl, enbydrwydd.
Appertain, *v. n.* (Ff. *appartenir*, o'r Ll. *ad* a *pertineo*) perthynu, perthyn, deiryd.
Appertaining, **Appertainment**, } *s.* (o *appertain*) perthyniad, perthynad, perthynasiad, perthynoldeb.
Appertenance, **Appertenence**, } *s.* (Ff. *appartenance*)=*Appurtenance*.
Appertinent, *a.* (Ff. *appartenant*) perthynol, perthynasol; yn perthyn, yn deiryd.
Appertinent, † *s.* perthynad, perthynedd, perthyniad.
Appetence, **Appetency**, } *s.* (Ll. *appetentia*) chwant, awydd, blys; chwantusrwydd, chwantsch; attyniad.
Appetent, *a.* (Ll. *appetens*) chwantus, chwennychol, gorawyddus.
Appetibility, *s.* (o *appetible*) chwennycholdeb, awyddolrwydd, chwennychiant.
Appetible, *a.* (Ll. *appetibilis*) chwennychol, dymunol; i'w ddymuno, i'w chwennychu.
Appetite, *s.* (Ll. *appetitus*) chwant, dychwant, blys, gwanc; ainc, awydd, awyddfryd, chwant bwyd, awch at fwyd.
A man given to appetite—dyn blysig.
A craving appetite—gorwanc.
I have an appetite for my dinner—y mae arnaf chwant fy nghiniaw.
To lose one's appetite—diflasu *neu* alaru ar fwyd; colli blas *neu* awch at *neu* ar fwyd.
Weakness of appetite—diarâwch, llerwedd, dichwantrwydd.
To get an appetite—ymawchu at fwyd; peri chwant bwyd; ennill awch at fwyd.
A voracious appetite, An insatiable appetite, } gwanc, gorwanc, rhythni, bolrythni, chwant diwala.
Appetition, *s.* (Ll. *appetitio*) chwennychiad, awydd, dymuniad.
Appetitive, *a.* (o *appetite*) chwennychol, dymuniadol; à chwennycha.
Applaud, *v. a.* (Ll. *applaudo*) canmawl, clodfori, canmoli, moli; cyforddylio.
Applauder, *s.* (o *applaud*) canmolydd, canmolwr, molydd, clodforwr, moliannydd.
Applause, *s.* (Ll. *applausus*) clod, bloddest, clodforedd, canmoliaeth, clodineb; cymmeradwyaeth; cyforddyl.
To seek after applause—clodymgeisio, clodgeisio.
Deserving applause—hyglod, clodwiw, gwiwglod, molediw, canmoladwy, clodforus, haeddglod.
Applausive, *a.* (o *applause*) clodforol, molianus, moleddus.

Apple, *s.* (S. *appl*, *appil*; Al. *apfel*; Is. *appel*; Sw. *aple*) afal; *pl.* afalau.
Apple tree—afallen, afallwydden, afalwydden, afall, pren afalau: *pl.* afallon, afallau, efyll, afallwydd, afalwydd, prenau afalau, coed afalau.
Apple yard—perllan, afallach, afaleule.
Crab apple—surafal, afal sur, afal sur bach.
Crab apple tree—afallen sur, surafallen.
Cultivated apple—afal per.
Summer apple—afal haf, afal cynnar.
Winter apple—afal gauaf, afal diweddar, afal eadw.
Bitter sweet apple—afal helyg.
St. James's apple—afal Awst.
Pigeon's bill apple—afal pig y golomen.
Cat-head apple—afal pryd y gwr.
Nonpareil apple—afal y marchog.
Jennetting apple—afal minswyn.
Cricketing apple—crencyn.
Oak apple—darafal, afal y derw.
Thorn apple—afal dreiniog, meiwyn.
Pine apple—afal pinwydd.
Apple moss—crynfwsogl, crynfwswn.
Apple core—calon afal, cod y cnewull.
Love apple, Apple of love, } moehlys; carafal.
To gather apples—afaleua, casglu afalau.
Apple blossom—afallflawd; *pl.* afallflodau.
Full of apples—afaleuog, afalog, llawn afalau, llawn o afalau.
Apple man—afaleuwr, afalwr, gwerthwr afalau.
Apple woman—afalyddes, gwerthwraig afalau, afaleuwraig.
Apple sauce—sibr afalau.
Apple dumpling—torpell afalau, afaldorpell.
Adam's apple—afal y gwddf, afal y gwddwg; afal Addaf.
Apple of the eye—canwyll llygad, canwyll y llygad, mablygad.
Appliable, *a.* (o *apply*)=*Applicable*.
Appliance, *s.* (o *apply*) cymhwysiad, cyfaddasiad; ymgynnygiad.
Applicability, *s.* (o *applicable*) cymhwysoldeb, addasrwydd, cyfaddasrwydd, priodolrwydd.
Applicable, *a.* (Ll. *applico*) cymhwysiadol, cymhwys, addas, cyfaddas, priodol.
Applicableness, *s.* (o *applicable*)=*Applicability*.
Applicancy, *s.* (o'r Ll. *applicans*) addasolrwydd.
Applicant, *s.* (Ll. *applicans*, o *applico*) ymgynnygwr, ymddeisiwr, ymddeisydd, ymroddwr, erfyniwr, ymgeisiwr, ceisiwr; cymhwysydd.
Applicate, *s.* (o'r Ll. *applico*) cromdor=llinell mewn medoniaeth.
Application, *s.* (Ll. *applicatio*) cymhwysiad, cyfaddasiad, addasiad; ymgynnygiad, ymroad, ymroddiad; ymddeisiad, ymgeisiad, ymgais; cais, deisyfiad; dyfalwch, ystigrwydd, astigrwydd, diwydrwydd; rhoddiad, dodiad.
Close application—arefryd, dwysefryd, astigrwydd, dwys astudrwydd.
To make application—ymgynnyg, ymddeisio; erfyn nawdd, erfyn.
Applicative, **Applicatory**, } *a.* (o'r Ll. *applico*) cymhwysol, addasol, à ellir ei gymhwyso.
Applicatory, *s.* cymhwysiant.
Applier, *s.* (o *apply*)=*Applicant*.
Appliment, † *s.* (o *apply*)=*Application*.
Apply, *v.* (Ll. *applico*) cymhwyso, addasu, cyfaddasu; rhoi, rhoddi, gosod, dodi; gofyn, erfyn;

astudio, ymröi, ymroddi, ymddeisio, ymgeisio, ymgyfeirio, ymgynghori; plygu at; arferu, defnyddio; troi, sutio, gweddu; cytuno.
To apply one's self—ymröi, ymroddi, ymosod, ymgeisio, ymgynnyg, ymddeisio, ymgyflwyno; anerch.
Apply thyself to reading—glŷn wrth ddarllen.
Apply yourselves to your work—plygwch at eich gwaith; ymröwch at eich gwaith.
Apply thy heart to understanding—gogwydda dy galon at ddeall; tro dy galon at ddeall; gosod dy galon ar ddeall.
That we may apply our hearts unto wisdom—fel y dygom ein calon i ddoethineb.
To apply a remedy—meddygu, meddyginiaethu; cymhwyso meddyginiaeth.
This applies to poetry only—hyn sy briodol i brydyddiaeth yn unig.

Appogiato, *s.* (It.) mysgoddeg.

Appogiatura, *s.* (It.) ysgipnod.

Appoint, *v. a.* (Ff. *appointer*) penodi, penu; gosod, trefnu, nodi, dodi; dogni; sefydlu, amcanu, llunio, penderfynu; cyfnodi.
To appoint before hand—rhagosod, rhaglunio, rhagderfynu, rhagarfaethu, rhagbenodi.
Appointed time—amser nodedig, penodedig, *neu* osodedig; cyfnod.
In its appointed season—yn ei dymmor.
In God's appointed time—pan ryngo bodd Duw; pan y myno Duw; pan fo dda gàn Dduw; yn amser penodol Duw.
Appointed day—dydd penodol, dydd ammodol, dydd penodedig, dydd penod, oed dydd.

Appointed, *a.* (o *appoint*) taclus, tacledig, treciedig, trwsiadus.
Well appointed—taclus, trwsiadus.
Ill appointed—annhaclus, annhrwsiadus.

Appointee, *s.* (Ff. *appointé*) penodai, y penodedig, y penedig.

Appointee, *a.*=*Aiguisce.*

Appointer, *s.* (o *appoint*) penodydd, penodwr, penwr, gosodwr, trefnwr.

Appointment, *s.* (o *appoint*; Ff. *appointement*) penodiad, gosodiad, trefniad; cyfnod, oed; ammod, ammodiad, cytundeb; archiad, arch, gorchymyn; trec, taclau; dogn.
To make an appointment—gwneyd penod, gwneyd oed, gwneuthur ammod; penodi, cytuno, penu.
They had made an appointment together to come to mourn with him—cytunasent ddyfod i gydofidio *neu* gydalaru âg ef.
A day of appointment—dydd oed, dydd penodol.
Thou art in a fine appointment—yr wyt mewn trec gwych.

Apporter, † *s.* (Ff.) dygiedydd, rhagarweinydd.

Apportion, *v. a.* (Ll. *ad* a *portio*) dogni, cynnogni, rhanu, cyfartalu, rhanu yn gyfartal.

Apportioner, *s.* (o *apportion*) dognwr, dognydd, cynnognydd, cyfartalwr, rhanydd.

Apportionment, *s.* (o *apportion*) dogniad, cynnogniad, cyfartaliant, cyfraniad.

Appose, *v. a.* (Ff. *apposer*; Ll. *appono*) holi, arholi, posio; cymhwyso.

Apposer, *s.* (o *appose*) holydd, holwr, holiedydd.

Apposite, *a.* (Ll. *appositus*) addas, cyfaddas, cyfaddasol, cymhwys, sutiol, priodol.

Appositeness, *s.* (o *apposite*) addasrwydd, cyfaddasrwydd, cyfaddasdeb, cymhwysder, priodoldeb.

Apposition, *s.* (Ll. *appositio*) atosodiad, arddodiad, attodiad; atgyflead.

Appositive, *a.* (o *apposite*) cyfaddasol, addasol, cymhwysol, cymhwysiadol.

Appraise, *v. a.* (Ff. *apprecier*; It. *apprezzare*) prisio, cywerthyddio, damdyngu.

Appraisement, *s.* (o *appraise*) prisiad, cywerthiad, cywerthyddiad, damdwng.

Appraiser, *s.* (o *appraiser*) prisiwr, prisiedydd, cywerthyddiwr, cywerthiedydd, damdyngydd.

Apprecation, *s.* (Ll. *apprecor*) taerweddi, gweddi daer.

Appreciable, *a.* (o'r Ff. *apprecier*) prisiadwy; gwerthfawr, prisfawr.

Appreciate, *v. a.* (Ff. *apprecier*) prisio; gwerthfawrogi, mawrhau.

Appreciation, *s.* (o *appreciate*) prisiad; gwerthfawrogiad.

Apprehend, *v. a.* (Ll. *apprehendo*) amgyffred, dirnad, dirnadu, deall, deallu; tybio, tybied, meddylied; ofni, llettybio; dàl, dala, gafaelu, ymafaelyd yn, cymmeryd *neu* gael gafael; amhercyd, ymhercyd, amglywed, synied.

Apprehender, *s.* (o *apprehend*) dirnadydd, deallwr; tybiwr; ofnwr; daliwr, gafaelydd.

Apprehensible, *a.* (o *apprehend*) dirnadwy, dealladwy, amgyffredol, amgyffredadwy.

Apprehension, *s.* (Ll. *apprehensio*) amgyffred, amgyffrawd, dirnadaeth, deall, dealliad; tyb, tybiant, syniad, barn; ofn, llettyb, pryder; daliad, gafael, gafaeliad.
A man of quick apprehension—dyn craff, dyn craffus, dyn manylgraff; dyn cyflym ei ddeall *neu* synwyr.

Apprehensive, *a.* (o *apprehend*) craff, craffus, treiddiol; hyddeall; synwyrol, synwyrlym; ofnus, ofnog, pryderus, llettybus.
To be apprehensive of—ystyried, ystyrio, synio, canfod, deall; bod yn deimladwy; ofni.

Apprehensiveness, *s.* (o *apprehensive*) dirnadoldeb, dealloldeb, llymder synwyr, synwyroldeb; craffder; ofnusrwydd, pryderusrwydd.

Apprentice, *s.* (Ff. *apprenti*) dysgadur, breintwas, egwyddorwas.

Apprentice, *v. a.* dysgaduro, breintwasu, rhwymo yn freintwas.

Apprenticehood, } † *s.* (o *apprentice*)=*Appren-*
Apprentisage, } *ticeship.*

Apprenticeship, *s.* (o *apprentice*) dysgaduriaeth, breintwasaeth.

Appressed, } *a.* (Ll. *appressus*) atwasgol, atwasg-
Apprest, } edig; cyngwasgedig.

Apprise, } *v. a.* (Ff. *appris*, o *apprendre*) hys-
Apprize, } bysu; rhybuddio; rhoi hysbysrwydd.
To be apprised of—gwybod, cael gwybod, cael gwybodaeth, cael hysbysrwydd; bod yn hysbys *neu* adnabyddus.

Apprize, *v. a.* (Ll. *ad*, a *prize*; Ff. *priser*) prisio, cywerthyddio.

Apprizement, *s.* (o *apprize*) prisiad, cywerthyddiad.

Apprizer, *s.* (o *apprize*) prisiwr, cywerthyddiwr.

Apprizing, *s.* (o *apprize*) prisiad.

Approach, *v.* (Ff. *approcher*) nesu, neshau, dynesu, cyfnesu, cyrchu, agoshau, agosi, ymnesu, nesoli; dyfod yn agos; bod ger llaw.
He shall approach to me—efe a ddaw ataf.

To cause to approach—neshau; peri neshau.
Approach, *s.* neshad, dynesiad, nesad, dynesad, cyrch, cyrchiad, deuad, dyfodiad, dyfodfa.
Mutual approach—cyfnesad, cyfneshad, cydneshad.
Not to be approached—anhygyrch, diymgyrch, anghyrchadwy.
To make approaches towards—nesu tuag at; tynu tuag at; tynu at.
Gentle approach—goneshad, gonesad.
To have an approach—cael neshau, cael dyfod, cael dyfodfa, cael cyrch.
Approachable, *a.* (o *approach*) hygyrch; nesadwy; cyrchadwy; à ellir dyfod ato.
Approacher, *s.* (o *approach*) neswr, nesäwr, dyneswr, ymneswr.
Approachless, *a.* (*approach* a *less*) anhygyrch, diymgyrch, anghyrchadwy.
Approachment, *s.* (o *approach*) nesiant, dynesiant, neshad.
Approbate, *a.* (Ll. *approbatus*) cymmeradwy; profedig.
Approbate, *v. a.* (Ll. *approbo*) cymmeradwyo, dadgan boddlonrwydd.
Approbation, *s.* (Ll. *approbatio*) cymmeradwyaeth, cymmeradwyad; ymfoddlonrwydd, ymfoddloniad; tystiad, gwarantiad.
Approbative, **Approbatory**, *a.* (o *approbate*) cymmeradwyol.
Approof, † *s.* (o *proof*)=*Approval.*
Approperate, † *v. a.* (Ll. *appropero*) brysio, buanu, prysuro.
Appropinquate, † *v. n.* (Ll. *appropinquo*) nesu, neshau.
Appropinque, † *v. n.* (Ll. *appropinquo*)=*Appropinquate.*
Appropinquation, † *s.* (Ll. *appropinquatio*) neshad, ymnesad, dynesiad.
Appropriate, *v. a.* (Ff. *approprier*) priodoli, neilltuoli; daerodi; nestu.
Appropriate, *a.* priodol, priod, daerodol; perthynasol; addas, dewisol; perthynus, gweddus.
Appropriateness, *s.* (o *appropriate*) priodolrwydd, priodolder; perthynasoldeb, perthynoldeb; addasrwydd, cymhwysder.
Appropriation, *s.* (o *appropriate*; Ff. *appropriation*) priodoliad, priodoliant, daerodiad; perthynasiad, neilltuoliad.
Appropriative, *a.* (o *appropriate*) priodoliadol.
Appropriator, *s.* (o *appropriate*) priodolwr; glwysberchen, glwysberchenog.
Approprietary, *s.* (o *appropriate*) lleygnoddwr, lleygdadog=gwr llëyg à fo yn berchenog bywoliaeth eglwysig.
Approvable, *a.* (o *approve*) cymmeradwy, derbynadwy; à ellir ei gymmeradwyo.
Approvableness, *s.* (o *approvable*) derbyniadolrwydd, cymmeradwyoldeb.
Approval, **Approvance**, *s.* (o *approve*)=*Approbation.*
Approve, *v. a.* (Ff. *approuver*; Ll. *approbo*) cymmeradwyo; canmol; hoffi; ymfoddloni; profi; dilysu; dangos; bod yn foddlawn; gweled yn dda.
To approve of=*Approve.*
Approving ourselves—gàn ein dangos ein hunain.
Their posterity approve their sayings—eu hiliogaeth sydd foddlawn i'w hymadrodd.
A man approved of God—gwr profedig gàn Dduw.
Well approved—cymmeradwy, profadwy; profedig.
Approvement, *s.* (o *approve*) cymmeradwyaeth; hoffder; ymfoddlonrwydd; tirwelliant.
Approver, *s.* (o *approve*) cymmeradwywr; profwr; cyfaddefwr.
Approximant, † *a.* (Ll. *ad* a *proximus*)=*Approximative.*
Approximate, *a.* (Ll. *ad* a *proximus*) nesafol, nesaf, dynesol, neshaol, cyfnesol.
Approximate, *v.* nesu, neshau, dynesu, agosi, agoshau, cyfagosi, cyfnesu, nesiannu, diwesu, echyngu, tynu at, cyrchu.
Approximation, *s.* (o *approximate*) dynesiad, dynesiant, cyfnesiad, cyfnesiant, ymnesiant, nesiant, neshad, nesedigaeth, agosiad, agoshad, cyfagosiad; addyngiad, diwesiad.
Approximative, *a.* (o *approximate*) dynesiadol, dynesiannol, cyfnesol, cyfnesiadol, neshaol, agosiadol, agosol, cyfneshaol, nesiannol, echyngol.
Appulse, *s.* (Ll. *appulsus*) gwrthgur, gwrthguriad, gwrthdarawiad; dyfodiad, tiriad.
Appulsion, *s.* (o *appulse*) gwrthguriad, gwrthdarawiad.
Appulsive, *a.* (o *appulse*) gwrthgurol, gwrthdarawol; atyrol.
The appulsive influence of the planets—dylanwad *neu* effaith atyrol y planedau.
Appurtenance, *s.* (Ff. *appartenance*) perthynas, perthynad, perthynoliad, perthynoldeb, perthynoledd, perthynasiad; atddodiad, darymsawdd, peth perthynol.
Appurtenant, *a.* (Ff. *appartenant*) perthynol, perthynasol; atddodol.
Apricate, *v. n.* (Ll. *apricor*) ymheulo, boldesu, bronheulo, ymdesota.
Apricity, *s.* (Ll. *apricitas*) heuledd, heulwen; heuliad.
Apricot, *s.* (Ff. *abricot*; C. *bricyll*) bricyllen; *pl.* bricyll.
Apricot tree—bricyllwydden; *pl.* bricyllwydd.
April, *s.* (Ll. *aprilis*; Ff. *avril*) Ebrill=y pedwerydd mis.
April-fool—ffwl Ebrill.
Apron, *s.* (Gael. *apran, aparan*; Gw. *aprun*) ffedog, arffedog, balog, barclod, barlen.
Apron-man—ffedogwr, gweithiwr.
Apropos, *ad.* (Ff. *à* a *propos*) yn brydlawn; i'r perwyl; gyda llaw; wrth fyned heibio.
Apsis, *pl.* **Apsides**, *s.* (Gr.) sodiad; *pl.* sodau, sodion=y pwnc nesaf at a phellaf oddi wrth yr haul neu y ddaiar yn nghylchdro planed: cromnen; cangell; creirfa; amgant, cantolwyn.
Apt, *a.* (Ll. *aptus*) chwannog, tueddol, parod; addas, cymhwys; hyddysg, hyfedr, hylaw; cyflym, craff; hy-, hyf, hawdd.
Apt for work—hywaith; cymhwys i waith.
Apt to learn—hyddysg, hawdd ei ddysgu; deallgar.
Apt to break—hydor.
Not apt to break—anhydor.
Apt to teach—athrawaidd, athrawus.
Too apt to indulge—rhyfwythus.
Apt to take fire—hylosg, hydan.
Apt to forget—anghofus.
Apt to fall—ar ei ogwydd; parod i syrthio *neu* gwympo; hygwymp.
He is apt to get drunk—y mae efe yn dueddol, parod, *neu* chwannog i feddwi; y mae yn hawdd ganddo feddwi.

Apt to be merry—gorawenus, arabeddus, digrif, llawen, cellweirus.
Apt,† *v. a.* (Ll. *apto*) addasu, cyfaddasu, sutio, cymhwyso.
Aptate, † *v. a.* (o *apt*)=*Apt.*
Apter, *s.* (Gr. *apteros*, o *a*, heb, a *pteron*, aden) anednog, anadeiniog.
Aptera, *s. pl.* (Gr. *apteros*) anadenogion, anednogion, anaesogion=trychfilod heb adenydd.
Apteral, *a.* (o *apter*) diaden, anadeiniol, heb adenydd.
Apterology, *s.* (Gr. *apteros* a *logos*) anadenogaeth=treithawd ar anednogion.
Aptitude, *s.* (Ll. *aptitudo*) chwannogrwydd, parodrwydd, tueddrwydd, tueddolrwydd; addasrwydd, cymhwyster; hyddysgrwydd, hyfedredd, deheurwydd; tueddiad, gogwyddiad, hyweddiant.
Aptitudinal, *a.* (o *aptitude*) chwannogol, tueddol, parodol.
Aptness, *s.* (o *apt*)=*Aptitude.*
Aptness of growth—hydyfiant.
Aptote, *s.* (Gr. *aptôtos*, *aptôs*) annhreigl, annhreiglair, enw didreigl: *pl.* annhreigliaid, enwau didreigl.
Apyrexy, *s.* (Gr. *apuretos*) annhwymyn, dysbaid twymyn.
Apyrous, *a.* (Gr. *apuros*) anhyloeg.
Aqua, *s.* (Ll.) dwfr, dwr; gwy, aw.
Aqua fortis—sur blorig.
Aqua vitæ—(dwfr y bywyd), gwirod, lloswin, pwtwn.
Aqua rosæ—rhoswy.
Aqua regina—sur blorhalig.
Aqua marina—beryl, morlasfaen.
Aqualegia, *s.* (Ll. *aqua* a *lego*) madwysg=enw llysieuyn.
Aquarians, *s. pl.* (Ll. *aquarius*) Dyfryddion=plaid yn y brif eglwys.
Aquarius, *s.* (Ll.) y Dyfrwr, y Dyfrydd=un o'r deuddeg arwydd.
Aquatic, Aquatical, *a.* (Ll. *aquaticus*) dyfrol, dyfrog, dyfrain, dyfrdrig.
Aquatic fowls—dyfrednod, adar dwr.
Aquatic plants—dyfrlysiau, dyfroglysiau.
Aquatic, *s.* dyfroglys: *pl.* dyfrolion, dyfrlysiau.
Aquatics, *s. pl.* (o *aquatic*) Dyfrolwyr, Dyfroliaid=enw plaid gynt.
Aquatile, *a.* (Ll. *aquatilis*)=*Aquatic.*
Aquatinta, *a.* (Ll. *aqua*, ac It. *tinta*) dyfradliw, dyfroliw.
Aqueduct, *s.* (Ll. *aquæductus*) awell; gwyffos, dyfrffos.
Aqueous, Aquose, *a.* (Ll. *aqueus*) dyfrol, dyfrllyd, dyfraidd.
Aqueousness, *s.* (o *aqueous*) dyfrogrwydd, dyfroldeb.
Aquiliform, *a.* (Ll. *aqua* a *forma*) dyfrwedd, gwyaidd, fel dwr.
Aquila, *s.* (Ll.) eryr, yr eryr.
Aquilated, *a.* (o *aquila*) eryredig; addurnedig â phenau eryrod.
Aquiline, *a.* (Ll. *aquilinus*) eryraidd, eryrol, eryrain; cam, bachog, crwca, (*f.* croca).
Aquiline nose—trwyn crwca; trwyn cam.
Aquilon, *s.* (Ll. *aquilo*) gogleddwynt, gwynt y gogledd, cleddwynt.
Arabesque, *a.* (Ff. o *Arab*) arabwedd; Arabaidd; yn ol dull yr Arabiaid.
Arabesque, *s.* arabadail; arabaddurn.
Arabis, *s.* (o *Arabia*) berfain=enw llysieuyn.
Arable, *a.* (Ll. o *arabilis*, o *aro*, aru) âr, arddadwy, aradol, hyar; cymhwys i'w arddu.
Arable land—llafurdir, tir llafur, tir âr, yttir.
Arachnida, Arachnidans, *s. pl.* (Gr. *arachnê* ac *eidos*) copynolion, corynolion=dosbarth o greaduriaid yn cynnwys y pryf copyn, gwiddon, a'r ysgorpion.
Arachnidan, *s.* copynolyn, un o'r copynolion.
Arachnoid, *a.* (Gr. *arachnê* ac *eidos*) copweaidd, copynweaidd.
Arachnoid membrane—copwebilen, pilen gopweaidd.
Arachnologist, *s.* (o *arachnology*) copynydd, copynolydd, corynegydd.
Arachnology, *s.* (Gr. *arachnê* a *logos*) copynoliaeth, coryneg=hanes corynod.
Arack, *s.*=*Arrack.*
Araeometer, *s.* (Gr. *araios* a *metron*)=*Areometer.*
Araignee, Araign, *s.* (Ff.) orglawdd.
Araise, † *v. a.*=*Raise.*
Araneidans, *s. pl.* (Ll. *aranea*) corynod, corod, copyniaid; copynryw.
Araneose, Araneous, *a.* (Ll. *araneosus*) copweaidd, copynweaidd; tebyg i we y còr.
Aration, *s.* (Ll. *aratio*) arddiad, arddwriaeth, ariad, aradiad.
Aratory, *a.* (Ll. *aratorius*) arddwrol, arddiadol; amaethol.
Arbalist, Arbalest, *s.* (Ll. *arcubalista*) albrys, bwa croes, croesfwa.
Arbalister, *s.* (o *arbalist*) albrysiwr.
Arbiter, *s.* (Ll.) canolwr, cylafareddwr, cyflafareddwr, dyddiwr, athrywynwr, cymrodeddwr; penderfynwr, barnydd; gorfodog; cyfryngiad; tyngedlyw.
Arbitrable, *a.* (o'r Ll. *arbitror*) arglwyddaidd, trawsawdurol; penderfynadwy.
Arbitrament, *s.* (o *arbiter*) penderfyniad; ewyllys, gwyllys; dewisiad; barn.
Arbitrariness, *s.* (o *arbitrary*) trawsarglwyddiaeth, trawsawduroldeb, hunanedd; trahausder, gormes, camrwysg, trâha.
Arbitrarious, † *a.* (Ll. *arbitrarius*) = *Arbitrary.*
Arbitrary, *a.* (Ll. *arbitrarius*) trawsarglwyddol, trawsawdurdodol, trawsawdurol, arglwyddaidd, gormesol, tra-awdurdodol, arbenig; wrth wyllys, gorfodol, unbenigol, ymbenol; pendant.
Arbitrary power—trawsallu, gorfodall; gorallu, tra-awdurdod.
Arbitrary term—enw awdurol; gair trawsawdurol.
Arbitrate, *v.* (Ll. *arbitror*) cylafareddu, cymrodeddu, cyfryngu, athrywynu, dyddio; penderfynu, barnu; tori amrafael, barnu rhwng pleidiau.
To arbitrate differences—dosbarthu cynhenau; athrywynu.
Arbitration, *s.* (o *arbitrate*) cylafaredd, cylafareddiad, cymrodedd, cymrodeddiad, cyfryngiad, dyddiad, athrywyniad; barn cylafaredd.
Arbitrator, *s.* (o *arbitrate*)=*Arbiter.*
Arbitratrix, Arbitress, *s.* (o *arbiter*) cyfrynges, athrywynes, cymrodeddes.
Arbor, Arbour, *s.* (Ll. *arbor*, pren) deildy, gwasgodfa, gwasgotty, gwasgodwydd, celli, celydd, gwasgodlwyn, goerfa, gwyddgell; pren; gwerthyd, echel.

Arborary, *a.* (Ll. *arborarius*) coedol, coedaidd; glasgoedol, gwasgodfaol.
Arborator, *s.* (Ll.) coediedydd; planwr *neu* ysgythrwr coed.
Arboreous, *a.* (Ll. *arboreus*) coedol, coedaidd; coettyfol.
Arborescence, *s.* (Ll. *arboresco*) coedweddiant; coedoldeb.
Arborescent, *a.* (Ll. *arboresco*) coedaidd, prenaidd, coedwedd; coettyfiannol.
Arboret, *s.* (Ll. *arboretum*) celli, celydd, pryslwyn; gwyddlan, pryselfa, prysfa: *pl.* celionos.
Arboriculture, *s.* (Ll. *arbor* a *cultura*) coedamaethiad, coedamaethiant.
Arborist, *s.* (o *arbor*) coedwyddwr, coedyddwr.
Arborization, *s.* (o *arborize*) coedoliant, coedoliad, coedeiddiad.
Arborize, *v. a.* (o *arbor*) coedeiddio, preneiddio, coedoli.
Arborous, *a.* (Ll. *arboreus*) coedol, coedaidd; glasgoedol, prysol, deiliar.
Arbour, *s.*=*Arbor*.
Arbuscle, *s.* (Ll. *arbusculus*) corwydden, manwydden; *pl.* corwydd, manwydd.
Arbuscular, *a.* (o *arbusculus*) corwyddol, manwyddin, prysgol.
Arbustive, *a.* (Ll. *arbustivus*) prysgol, prysol, prysain, prysglwynol, manwyddog, pryswyddog, prysgwyddog.
Arbustum, *s.* (Ll.) prysglwyn, prysg; pryscoed, glascoed, gwig; perllan.
Arbute, *s.* (Ll. *arbutus*) mefusbren, mefuswydden, pren mefus, pren syfi: *pl.* mefuswydd, mefusbrenau, coed mefus, coed syfi.
Arbute berry—mefusen, syfïen; *pl.* mefus, syfi.
Arbutean, *a.* (Ll. *arbuteus*) mefusol, mefusaidd, syfïaidd.
Arc, **Arch**, *s.* (Ll. *arcus*) crom, cromell=rhan o gylch neu gant.
Concentric arcs—cromau cynghreiddig.
Arcade, *s.* (Ff.; Ysp. *arcada*) nenfwd, gorthofa, mydrodfa, cromrodfa, archad.
Arcana, *s. pl.* (Ll.) dirgelion, cyfrinion; cyfrinach.
Arcane, *a.* (Ll. *arcanus*) dirgel, cudd, cel.
Archboutant, *s.* (Ff.) cromwanas.
Arch, *s.* (Ll. *arcus*; Ff. *arche*) bwa, mwd, mwdd; mydiant, mydiad, myddiant, gwarag.
Stone arch—bwa maen.
Segmental arch—bwa crwm, crymfwa.
Semicircular arch—bwa gogrwn, bwa gogylchol.
Equilateral arch—bwa cyfochrog, bwa cyfystlys.
Four-centred arch—bwa Tudur.
Triumphal arch—bwa buddugol, bwa gorchafus, bwa goruchafiaeth.
Arches-court—archlys, areglwyslys=un o'r llysoedd eglwysig.
Arch, *v.* bwäu, mydu; gwneuthur bwa; gwneyd yn fwa.
An arched roof—mydnen, cromnen.
To make an arched roof—mydu, bwäu, nenfydu.
Arch, *a.* (Al., D., ac Is. *arg*) cyfrwys, ystrywus, ystrancus, ystrywgar, gwalchaidd, ffelaidd; hocedus; digrif.
An arch lad—llencyn cyfrwys, llanc ystrywus.
Arch, *a.* (Gr. *archos*) arch-, ar-, pen-; prif, penaf; carn, nodedig.
Arch-thief—carnleidr, lleidr nodedig, lleidr difiog, lleidr cyfaddef.
He is an arch-rogue—dyhiryn yw heb ei fath; dyhiryn yw heb ei ail.
Archæologic, **Archæological**, **Archaiologic**, **Archaiological**, *a.* (o *archæology* neu *archaiology*) hynafiaethol, hynafiannol, henafiaethol, henefyddol.
Cambrian Archæological Association—y Gymdeithas Hynafiannol Gymreig; Cymdeithasfa Hynafiaethol Cymru.
Archæologist, **Archaiologist**, *s.* (o *archæology*) hynafiaethydd, hynafiadur, hynafiannydd, henefydd.
Archæology, **Archaiology**, *s.* (Gr. *archaios* a *logos*; Ff. *archéologie*) hynafiaeth, henafiaeth, hynafiant.
The Archaiology of Wales—Hynafiant Cymru.
Archaic, **Archaical**, *a.* (Gr. *achaïcos*) hen, henafol, henaidd.
Archaism, *s.* (Gr. *archaios*) henieithad, henebiaeth, heneiriad, heniaeth.
Archangel, *s.* (Gr. *archaggelos*) archangel, arangel, prifangel.
Archangel, *s.* marddanadlen goch, danadlen *neu* ddanaden farw goch.
Henbit archangel, Great henbit, marddanadlen goch gylchddail.
Archangelic, *a.* (o *archangel*) archangelaidd, arangylaidd, archangylain.
Archapostate, *s.* (*arch* ac *apostate*) archwrthgiliwr, prifwrthgiliwr.
Archbishop, *s.* (*arch* a *bishop*) archesgob, aresgob; *pl.* archesgobion, aresgobion.
The archbishop of Canterbury—archesgob Caergaint.
The archbishop of York—archesgob Caerefrog.
Archbishop's palace—archesgobdy, aresgobdy, archesgoblys, palas archesgob.
Archbishopric, *s.* (*archbishop*, a S. *ric* neu *rick*) archesgobaeth, aresgobaeth, archesgobawd, aresgobawd.
Archdapifer, *s.* (*arch*, a Ll. *dapifer*) arseigiwr, archdrulliad.
Archdeacon, *s.* (*arch* a *deacon*) archiagon, archddïacon, arddïacon, archaeddon, archddegon.
Archdeaconry, *s.* (o *archdeacon*) archiagoniaeth, archddïaconiaeth, arddïaconiaeth; archiagonfa, archiagondy.
Archdeaconship, *s.* (o *archdeacon*) archiagoniaeth, arddïaconiaeth.
Archdiocese, *s.* (*arch* a *diocese*)=*Archbishopric*.
Archdruid, *s.* (*arch* a *druid*) archdderwydd, ardderwydd.
Archducal, *a.* (*arch* a *ducal*) arddugiol, archddugiol.
Archduchess, *s.* (*arch* a *duchess*) archddug es, ardduges.
Archduchy, *s.* (*arch* a *duchy*) archddugiaeth, arddugiaeth, ardduciaeth.
Archduke, *s.* (*arch* a *duke*) archddug, arddug.
Archdukedom, *s.* (*arch* a *dukedom*) archddugiaeth, arddugiaeth, archdduciaeth.
Arched, *p. a.* (o *arch*) bwaog; mydedig, bwäedig.
Archenemy, *s.* (*arch* ac *enemy*) archelyn.
Archer, *s.* (Ff. *archer*; Ysp. *archero*; o'r Ll. *arcus*) saethydd, saethwr; bwäwr.
Archeress, *s.* (o *archer*) saethyddes.

Archery, *s.* (o *archer*) saethyddiaeth, saethiadaeth, saethwriaeth.
Archet, *s.* (It.) crythalaw.
Archetypal, *a.* (o *archetype*) cynnelwaidd, argynnelwaidd, argynddelwaidd; cynlluniol.
Archetype, *s.* (Gr. *archetupon*) cynddelw, cynnelw, argynddelw, argynnelw; cynllun.
Archheretic, *s.* (*arch* a *heretic*) archeugredwr, archeulithiwr, penaeth geugred.
Archhierey, *s.* (Gr. *archos* a *hieros*) archoffeiriad yn Rwssia.
Archiater, *s.* (Ll.; Gr. *archiatros*) prif feddyg, penfeddyg, archfeddyg.
Archical, *a.* (Gr. *archicos*) penaf, prif; cyntaf.
Archidiaconal, *a.* (Ll. *archidiaconus*) archiagonol, arddïaconaidd, archiagonaidd.
Archiepiscopacy, *s.* (o'r Ll. *archiepiscopus*) archesgobaeth, aresgobawd.
Archiepiscopal, *a.* (Ll. *archiepiscopalis*) archesgobol, aresgobol, archesgobaidd.
An archiepiscopal see—archesgobaeth.
Archimandrite, *s.* (Ll. *archimandrita*, o'r Gr. *archos*, a *mandrite*, gair Syrieig am fynach) arfynach, penfonach, abad.
Archipelago, *s.* (Gr. ddiweddar, o *Egio Pelago*, neu *Agio Pelago*,) ynysfor; yr Ynysfor.
Architect, *s.* (Gr. *architectôn*; Ll. *architectus*) adeiladydd, adeilydd, adeiladwr, pensaer, corfinydd, penadeilydd; saer.
Architective, *a.* (o *architect*) adeilyddol, adeiliannol, adeiladol.
Architectonic, } *a.* (Gr. *architectonicos*) pen-
Architectonical, } saeriannol, saeriannol, adeilyddol, adeilonol.
Architectonics, *s.* adeiloniaeth, adeileg.
Architectress, *s.* (o *architect*) adeilyddes, adeilades.
Architectural, *a.* (o *architecture*) adeilyddol, adeiladol, adeiliannol, pensaeriannol, saeriannol, corfinyddol, adeilonol.
Naval architecture—llongyddiaeth, llongsaerniaeth, llongsaeriaeth, llongwaith.
Military architecture—caerwaith, amgaerwaith.
Architecture, *s.* (Ll. *architectura*) adeilyddiaeth, adeiladaeth, pensaerniaeth, adeilwaith, corfinyddiaeth; saerniaeth.
Architrave, *s.* (Gr. *archos*, ac It. *trave*) pendrawst, penswdden, pensaffwn, pen colofn, pillgapan; cladde; gwarddrws.
Archival, *a.* (o *archives*) cofysgrifol; cofnodfaol.
Archivolt, *s.* (*arch*, ac It. *volta*) molttas.
Archives, *s. pl.* (Ff. *archives*; Ll. *archiva*; Gr. *archeia*) cofnodfa, cofysgrifdy; cofysgrifau, cofysgrifion.
Archivist, *s.* (Ff. ac It.) ceidwad cofysgrifau, cofysgrifionydd.
Archlike, *a.* (*arch* a *like*) bwaog, bwaol, bwaidd, ar wedd bwa.
Archlute, } *s.* (It. *arcileuto*) trysodell, gordelan
Archilute, } =math o offeryn cerdd.
Archly, *ad.* (o *arch*) yn gyfrwys, yn ystrywus; yn arabeddus; yn walchaidd.
Archmarshal, *s.* (*arch* a *marshal*) arfiliad, archfiliad=urddas berthynol i Etholydd Sacsonia.
Archness, *s.* (o *arch*) cyfrwysder, cyfrwysedd, ystrywgarwch, ystrancusrwydd, ffeldra, ffeledd; cellwair, arabedd.
Archon, *s.* (Gr.) archon; *pl.* archoniaid=penswyddog yn Groeg gynt.
Archonship, *s.* (o *archon*) archoniaeth, swydd archon.
Archpoet, *s.* (*arch* a *poet*) penprydydd, prifardd.
Archwise, *ad.* (*arch* a *wise*) ar wedd bwa, ar ddull mwd; yn fwaol; yn fydaidd.
Arcograph, *s.* (Ll. *arcus*, a Gr. *graphô*) cromellyr.
Arctation, *s.* (Ll. *arctatio*) gordynder; rhwymedd, rhwymiad, bolrwymedd, caethiwad.
Arctitude, *s.* (o'r Ll. *arctus*)=*Arctation*.
Arctic, *a.* (Gr. *arctos*, arth) gogleddol, gogleddig.
The Arctic pole—pegwn y gogledd, y pegwn gogleddol.
The arctic circle—cylch y gogledd, y cylch gogleddol=23° 28′ o begwn y gogledd.
Arcuate, *a.* (Ll. *arcuatus*) bwaol, ar ddull bwa; crwm, plygedig.
Arcuation, *s.* (o *arcuate*) crymedd, crymiad, camedd, camder, cemi, plygiad.
Arcuature, *s.* (Ll. *arcuatus*) bwagomedd, bwaogrwydd.
Arcubalist, *s.* (Ll. *arcubalista*) albrys, bwa croes, croesfwa.
Arcubalister, *s.* (o *arcubalist*) albrysiwr.
Ardea, *s.* (Ll.) crëyr, crychydd, crechydd.
Ardency, *s.* (Ll. *ardens*) angerdd, gwres, gwresogrwydd, poethder, poethni, twymder, taerni, taerineb, taerder, taeredd, awch, dirchwant, terwynder, awydd, angerddoldeb, mawrchwant, trynedd, craid, iasedd.
Ardent, *a.* (Ll. *ardens*, o *ardeo*) gwresog, brwd, taer, angerddol, angerddus, terwyn, twym, tanbaid, poeth, awchus, gwresoglym, eiddig; greidiol, graid, ffro, ffroch, arfwll, gwrdd, teryll, poethlyd; brwdfrydig; tanllyd, gwresoglym.
Ardent spirits—gwirodau poethion; gwirod poeth, poethwirod, alwirod; poethlynoedd.
Ardent inclination—taerawydd.
Ardentness, *s.* (o *ardent*)=*Ardency*.
Ardour, } *s.* (Ll. *ardor*) gwresogrwydd, brwd-
Ardor, } frydedd; mawrchwant, dirchwant, awyddfryd; gwres, poethder; arnyfel, nwyf, nyw, yni, taerni, angerddoldeb, aidd.
Arduous, *a.* (Ll. *arduus*) dyrys, astrus, afrwydd, anhawdd, llafurus, anhyffordd, peryglus; gorchestol, mawrbwys, caled; uchel, serth.
An arduous task—gorchwyl caled.
An arduous path—llwybr serth, llwybr anhyffordd, llwybr dyrys.
An arduous enterprise—uchel antur, uchel orchest.
Arduousness, *s.* (o *arduous*) dyrysder, astrusi, afrwyddineb, anhawsder; uchder.
Are, *v. n.* (Sw. *vara*; D. *være*) ydynt, ynt; maent; sy, sydd; mae.
We are—ydym, ym; yr ydym, yr ym.
You are—ydych, ych; yr ydych, yr ych.
They are—ydynt, ynt; maent, y maent; sy, sydd.
Are they?—a ydynt? a ynt? a oes?
We are loved—carir ni, cerir ni; ni a gerir, e'n cerir, fe'n cerir; yr ydys yn ein caru.
Are we?—a ydym? a ym? a ydym ni? a ym ni?
They are gone—aethant; y maent wedi myned.
There are—y mae, mae; y maent.
There are not—nid oes.
Area, *s.* (Ll.) arwyneb, arwynebedd, gwynebfesur, arwynebawd; clawr, eniad; llanerch, talwrn, cadlas; moelni, moeledd.
Area of a circle—clawr cylch.

Area of a table—clawr bwrdd, clawr bord.
Enclosed area—midlan.
Area of a triangle—arwyneb tryfal, arwynebedd triongl.

Aread, } †*v. a.* (S. *aredan*) cynghori; cyfar-
Areed, } wyddo.

Areal, *a.* (o *area*) arwynebol, eniadol; talyrnol.

Areek, *ad.* (o *reek*) yn anweddu, yn tarthu, dan anweddu.

Arefaction, *s.* (Ll. *arefacio*) sychiad, sychiant.

Arefy, *v. a.* (Ll. *arefacio*) sychu, sychiannu; crasu.

Arena, *s.* (Ll.) chwareule, cemmaes; tywod, graian.

Arenaceous, *a.* (Ll. *arenaceus*) tywodaidd, tywodol, tywodlyd; brau.

Arenaria, *s.* (Ll.) tywodwlydd.

Arenarious, *a.* (Ll. *arenarius*) tywodog, tywodol.
Arenarious soil—tywottir, tir tywodog.

Arenation, *s.* (Ll. *arenatio*) tywodiad; tywodfadd, tywodfaddon.

Arendator, *s.* (B. *arenda*, tyddyn) amaethydd, teyrnamaethwr.

Arenilitic, *a.* (Ll. *arena*, a Gr. *lithos*) tywodfeinin, tywodithig.

Arenose, *a.* (Ll. *arenosus*) tywodog, tywodol, tywodaidd.

Arennlous, *a.* (Ll. *arenula*) mandywodog, mandywodol, graianog.

Areola, } *s.* (Ll. *areola*) amlain, amgylchen;
Areole, } rhyngell.

Areolar, *a.* (o *areola*) amleinol; rhyngellol.

Areolate, *a.* (o *areola*) amleinaidd; rhyngellaidd.

Areolation, *s.* (Ll. *areola*) amleinad; rhyngelliad.

Areometer, } *s.* (Gr. *araios* a *metron*) ulfesur,
Arœometer, } gwyfeidyr=offeryn i brofi ansawdd gwlybyroedd.

Areometrical, *a.* (o *areometer*) ulfesurol, ulfeidrol.

Areometry, *s.* (Gr. *araios* a *metron*) ulfesuriaeth, gwyfesuriaeth.

Areotic, *a.* (Gr. *araioticos*) teneuol.

Areotics, *s. pl.* teneuolion; egorolion.

Aretology, *s.* (Gr. *aretè* a *logos*) rhinweddeg=y rhan o athroniaeth foesol à dreitha ar rinwedd.

Argal, } *s.* (hen Ff.) surgen=cèn barilau gwin.
Argol, }

Argent, *s.* (Ll. *argentum*) ariant, arian, arianliw; gwyn.

Argent, *a.* ariannaidd, arianaidd, ariannaid, arianliw; gwyn.

Argental, } *a.* (o *argent*) ariannus, ariannol, ar-
Argentic, } ianaidd.
Argental mercury — merchyr ariannol, arian byw ariannus.

Argentation, *s.* (o *argent*) ariannedd, arianedd, arianiad, arianliwiad, gorarianiad.

Argentiferous, *a.* (Ll. *argentum* a *fero*) arianddwyn, arianddygol.

Argentine, *a.* (o *argent*) ariannin, arianaidd, arianliw.

Argil, *s.* (Ll. *argilla*) priddgist, clai y crochenydd, pridd y crochenydd; gwyn-glai.

Argillaceous, *a.* (*argillaceus*) priddgistol; cleiog, cleilyd.

Argillaceous earth, } cleidir; cleibridd.
Argillaceous soil, }
Argillaceous schist, } cleilech, cleilechfaen.
Argillaceous slate, }
Clay slate, }

Argilliferous, *a.* (Ll. *argilla* a *fero*) cleiddwyn, cleiddygol.

Argillite, *s.* (o *argil*) cleilech, cleilechfaen.

Argillitic, *a.* (o *argillite*) cleilechig; perthynol i gleilech.

Argillo-arenaceous, *a.* cleidywodog.

Argillo-calcareous, *a.* cleigalchog.

Argillocalcite, *s.* (Ll. *argillâ* a *calx*) cleigalch; tir cleigalch.

Argillous, *a.* (Ll. *argillosus*) cleiog, cleilyd, cleiol.

Argosy, } *s.* (o *Argo*, llong Iason; Ysp. *Argos*)
Argosie, } trafnidlong=math o long fawr.

Argue, *v.* (Ll. *arguo*) rhesymu, dadlu, dadleu, cymhwyllo; ymresymu, ymddadlu, ymddadleu, dadleuo; profi, dangos; argymhenu, darddadlu, arbwyllo; ymgomio, parlio.
So many laws argue so many sins—cynnifer o gyfreithiau a ddangosant gynnifer o bechodau.
The order of the universe argues a Creator—y mae trefn y bydyssawd yn profi Creawdwr.
What doth your arguing reprove?—pa beth a argyhoedda argyhoeddiad un o honoch chwi?

Arguer, *s.* (o *argue*) dadleuwr, dadlwr, dadlydd, rhesymwr, ymresymwr, rhesymydd, cymhwyllwr, arbwyllwr, darddadlydd.

Argument, *s.* (Ll. *argumentum*) dadl, rheswm, cymhwyll; testyn, defnydd, crynodeb; dadliad; prawf.
False argument, } geuddadl.
Sophistical argument, }
To hold an argument—dadlu, dadleu, ymresymu, dala dadl, argymhenu.

Argumental, *a.* (Ll. *argumentalis*) rhesymiadol, cymhwylliadol, ymresymol, cymhwyllog.

Argumentation, *s.* (Ll. *argumentatio*) rhesymiad, ymresymiad, cymhwylliad, cymhwylliant; dadleuad, dadliad, darddadliad.

Argumentative, *a.* (o *argument*) rhesymiadol, cymhwylliadol, ymresymol, cymhwyllus, ymresymiadol; dadleuol.

Argumentativeness, *s.* (o *argumentative*) rhesymiadoldeb, cymhwyllogrwydd, cymhwyllusrwydd.

Argute, *a.* (Ll. *argutus*) cyfrwys, ffel; craff, craffus; ffraeth; llym.

Arguteness, *s.* (o *argute*) cyfrwysder, ffelder; craffder, ffraethder; llymder.

Aria, *s.* (It.) alaw, dygan.

Arid, *a.* (Ll. *aridus*) cras, crasedig; sych, gwyw, crin.

Aridity, *s.* (Ll. *ariditas*) crasder; sychder, gwywder, crinder.

Aridness, *s.* (o *arid*)=*Aridity*.

Aries, *s.* (Ll.) yr Hwrdd, arwydd yr Hwrdd.

Arietate, † *v. n.* (Ll. *arieto*) hyrddio, hyrddu; topi.

Arietation, *s.* (o *arietate*) hyrddiad, hyrddiant, hyrddawd; gyrthiad.

Arietta, *s.* (It. o *aria*) dyganig, bergan, berddygan.

Aright, *ad.* (*a* a *right*) yn iawn, yn gywir; yn uniawn, yn union, yn gymhwys; yn dda, yn addas; yn ei le; fel y dylai fod.
To set aright—gosod yn iawn *neu* uniawn; unioni, cymmoni, cymhwyso.
To order aright—iawn drefnu; trefnu yn uniawn.

Aril, } *s.* (Ll. *arillus*) amgib=gwisg nesaf
Arillus, } allan hadau.

Ariman, } *s.* (Persiaeg)=*Ahrimanes.*
Arima, }

Ariolation, } *s.* (Ll. *ariolatio*) dewiniaeth ;
Hariolation, } dewiniad.

Arioso, *a.* (It. o *aria*) dyganaidd ; gofygol ; ysgafn.

Arise, *v. n.* (S. *arisan ;* Goth. *reisan*) cyfodi, codi, cwnu, arwyrain, dyddwyre, dwyre ; esgyn, derchafu ; ymgodi, ymgyfodi, ymgwnu.

To arise again—adgyfodi, adgodi, eilgyfodi, dadwyre.

Arista, *s.* (Ll.) còl, barf.

Aristarchy, *s.* (Gr. *aristos* ac *archê*) madlywiaeth, madlywodraeth ; madbendod.

Aristated, *a.* (o *arista*) coliog, barfog.

Aristocracy, *s.* (Gr. *aristocratia, aristocrateia*) pendefigaeth, pendefigiant ; arbendodaeth= llywodraeth pendefigion : pendefigion.

Aristocrat, *s.* (o'r Gr. *aristocratês*) arbendodwr, arbendodydd, pendefigwr.

Aristocratic, } *a.* (Gr. *aristocraticos*) arben-
Aristocratical, } dodol, pendefigol, pendefigiannol, pendefigaidd.

Aristocraticalness, *s.* (o *aristocratical*) arbendodoldeb, pendefigolrwydd, pendefigoldeb.

Arithmancy, *s.* (Gr. *arithmos* a *manteia*) rhifarmes, rhifddewiniaeth.

Arithmetic, *s.* (Gr. *arithmêticê*) rhifyddiaeth, rhifyddeg.

Common arithmetic, } rhifiaeth, rhifydd-
Vulgar arithmetic, } iaeth gyffredin.

Practical arithmetic—rhifiadaeth, rhifyddiaeth ymarferol.

Theoretical arithmetic—rhifwyddoriaeth.

Fractional arithmetic—swlliadaeth.

Decimal arithmetic—degiadaeth.

Logarithmical arithmetic—dirprwyniaeth.

Integral arithmetic—rhifyddiaeth symion, rhifyddeg symiol.

Instrumental arithmetic — rhifyddiaeth offerynol.

Arithmetical, } *a.* (Gr. *arithmêticos*) rhifyddol,
Arithmetic, } rhifyddegol.

Arithmetical progression—rhifraddiaeth, rhifraddiad.

Arithmetical complement—cyflenwad rhifol, cyflenwad rhifyddol.

Arithmetician, *s.* (o *arithmetic*) rhifyddwr, rhifiadur, rhifyddegwr.

Ark, *s.* (Ll. *arca ;* It., Ysp., a Port., *arca ;* Ff. *arche*) arch ; cist, coffr ; cawell.

An ark of bulrushes—cawell llafrwyn.

The ark of the covenant—arch y cyfammod.

The ark of the testimonies—arch y dystiolaeth ; ysgrin y creiriau.

Noah's ark—arch Noah, arch Nöe.

Arkite, *s.* (o *ark*) archydd=un o'r rhai a gadwyd yn yr arch.

Arkite, *a.* archol, archaidd, perthynol i'r arch.

Arm, *s.* (S. *arm, earm ;* Al., Is., Sw., a D. *arm ;* Ll. *armus*) braich ; cainc, cangen ; angell, (*pl.* engyll) ; bàr.

Arms-ful—cofiaid, cyfiaid, breichaid.

I have lost the use of my arm—collais ffrwyth fy mraich.

Arm-hole—cesail ; breichell, twll y gesail.

Arm-pit—cesail, pwll y gesail.

As much as one can carry under his arm—ceseilaid.

To take under one's arm—ceseilio, ceseileidio, cymeryd dàn gesail.

A bundle that may be taken under the arm—ceseilwrn.

An arm of the sea—cainc o fôr, morgainc.

Arm-chair—cader freichiog, breichgader, cader ddwyfraich.

Assoilment, *s.* (o *assoil*) diwyniad, dwyniad.

Assonance, *s.* (Ff.; Ysp. *asonancia*, o'r Ll. *assono*) gogyfodl, gogyfodlaeth; gogyssain, gogydsain; adsain.

Assonant, *a.* (Ff.) gogyfodlog; gogysseiniol, adseiniol.

Assonant rhymes—gogyfodlau.

Assonate, *v. n.* (Ll. *assono*) adseinio, darysteinio, darystain.

Assort, *v.* (Ff. *assortir*; It. *assortire*) cymmathu, cyttrefnu, cyfalhau; dosbarthiadu; cytuno, sutio; amryfathu.

Assortment, *s.* (o *assort*) cymmathiad, cyttrefniad; dosbarthiad; amrywiad; pigion.

Assot, † *v. a.* (Ff. *assoter*) ynfydu, penwanu, syfrdanu.

Assuage, *v. a.* (S. *swigan*, *geswigean*, *geswican*, Is. *svygen*, yn ol *Webster*; Ll. *adsuadere* neu *assuaviare*, yn ol *Minshew*; S. *swœs*, yn ol *Junius*) tawelu, llonyddu, gostegu, llareiddio, esmwythäu, esmwytho, dofi, llinaru, llaesu, lloddi, gostwng; dyhuddo, tangnefu, llarychu; tyneru, lleddfu; dystewi; datterfysgu; treio, cilio, toli, tolio, peidio, lleihau, llacäu, ymlaesu, ymlonyddu; dadwytho, dylofi.

Does not the dew assuage the heat?—onid yw y gwlith yn gostwng *neu* leihau y gwres?

Time assuages grief—derfydd hiraeth mewn amser; amser a sych ymaith ddagrau.

My thirst is assuaged—torwyd fy syched.

The swelling assuages—y mae y chŵydd yn gostwng; mae y chŵydd yn lleddfu.

The pain begins to assuage—y mae y dolur yn dechreu llaesu; y mae y boen yn dechreu lleihau, llinaru, *neu* ymlaesu.

His fury was soon assuaged—ciliodd ei gynddaredd ar fyrder; ebrwydd y ciliodd ei lidiogrwydd.

The fever is assuaged—dysbeidiodd y dwymyn; peidiodd y cryd.

Assuagement, *s.* (o *assuage*) llonyddiad, gostegiad, taweliad, llareiddiad; esmwythâd, esmwythawd, esmwythiad, llinariad, tyneriad; dofiad, llaesiad, gostyngiad; dyhuddiad, dyhuddiant, tangnefiad, datterfysgiad; lleihad, toliad, treiad, llacâd.

Assuasive, *a.* (o *assuage*) llonyddol, llinarol, esmwythaol, esmwythol; tyner, tynerol; llareiddiol, lloniarol, dofiadol; datterfysgol, gostegol; dyhuddol.

Assuefaction, † *s.* (Ll. *assuefacio*) arferiad, cynnefodiad.

Assuetude, *s.* (Ll. *assuetudo*) defod, arfer, cynnefod; cynnefinder; arferiad.

Assume, *v.* (Ll. *assumo*) cymmeryd ar; cymmeryd at; cymmeryd; edryfu, rhyfygu, amryfu, ymryfygu, cymmyreddu, ffugio; ymhoni, ymgymmeryd; gwisgo; priodoli; cymmeryd yn ganiataol.

He assumes too much to himself—mae yn cymmeryd gormod arno; mae yn ymryfygu yn rhy bell.

He assumes in all companies—efe a fyn fod yn ben yn mhob cymdeithas.

Our Saviour assumed flesh—ein Hiachawdwr a wisgodd gnawd; ein Hiachawdwr a ymwisgodd â chnawd.

To assume consequence—gogoni, ymogoni.

Assumer, *s.* (o *assume*) edryfwr, rhyfygydd, amryfydd, cymmyreddwr.

Assuming, *p. a.* (o *assume*) cymmyreddus, edryfus, rhyfygus, amryfygus, rhydresgar, trahäus, hunanol; ffroenuchel, balch, gorhydrus.

Assuming, *s.* (o *assume*) rhyfyg, cymmyredd.

Assumpsit, *s.* (amser gorphenol o'r Ll. *assumo*) cymmyreb.

Assumpt, † *v. a.* (Ll. *assumo*, *assumptum*) codi, dyrchafu.

Assumpt, † *s.* cymmeriant.

Assumption, *s.* (Ll. *assumptio*) cymmeriant, cymmeriad; cymmyriad, cymmyreddiad, rhyfyg; edryfiad, ffugiad.

The assumption of the Virgin Mary—dyrchafiad Mair Forwyn=y 15fed o Awst.

Assumptive, *a.* (Ll. *assumptivus*) cymmyreddol; cyfreithlawn.

Assurance, *s.* (Ff.) dilysrwydd, dilysiant, dilysiad, dilysdod, sicrwydd, yswiriant; diogeliad; diogelwch, diogelrwydd; cadernid, anysgogrwydd; hyder, hyfder, hydeb, glewdid, conder, eondra, eofnder, haerllugrwydd, rhyfyg; cred, ymddiried; dïeurwydd.

Assurance office—dilysfa, digolledfa, diogelfa.
Life assurance office—dilysfa bywyd; digolledfa bywyd.
The full assurance of hope—llawn sicrwydd gobaith.
The full assurance of faith—llawn hyder ffydd.
A man of great assurance—dyn eofn, dyn digywilydd, dyn rhyfygus.

Assure, *v. a.* (Ff. *assurer*) dilysu, sicrhau, gwirio, gwarantu, yswirio; diogelu; cadarnhau, cyfnerthu; noddi, amddiffynu.
You may rest assured—gallwch fod yn sicr; bid yn ddilys genych.
I assure you—coeliwch fi; boed sicr i chwi; credwch fi; mi a warantaf i chwi.
An assured friend—cyfaill ffyddlawn; câr cywir.
Assure yourself—bid sicr, dilys, *neu* hysbys genych.

Assuredly, *ad.* (o *assure*) yn ddilys, yn ddïau, yn ddïammheu, yn sicr, yn ddiogel, yn ddïos.

Assuredness, *s.* (o *assure, assured*) sicrwydd, dilysdod, dilysrwydd, gwarantrwydd.

Assurer, *s.* (o *assure*) dilyswr, dilysydd, digolledydd, diogelwr; sicrhäwr, gwiriwr.

Assurgent, *a.* (Ll. *assurgens*, o *assurgo*) ymgodol, ymddyrchol; crymgodol.

Astacite, } *s.* (Gr. *astacos* a *lithos*) crancfaen,
Astacolite, } crancith.

Asteism, *s.* (Gr. *asteios*) tegwawdeb, moeswawdeb=ffugr areithyddol.

Aster, *s.* (Gr.=seren) serenllys.

Asterias, } *s.* (Gr. *astêr*) y serbysg, y forseren.
Aster, }

Asteriated, *a.* (o *asterias*) serianol, rheiddiog.

Asterisk, *s.* (Gr. *asteriscos*) serenig: *pl.* serenigion, sernodau=fel hyn,*.

Asterism, *s.* (Gr. *asterismos*) serdwr, tewdwr, tewdws; cydser=twr o ser sefydlog: serenig.

Asterite, *s.* (Gr. *astêr*, seren) serfaen.

Astern, *ad.* (*a* a *stern*) tua'r llyw, tuag at y llyw, wrth y llyw; tuag yn ol; ar ol llong; ar ol, yn ol.

Asteroid, *s.* (Gr. *astêr* ac *eidos*) goseren; *pl.* goser.

Asteroidal, *a.* (o *asteroid*) goserenol, goserol; serenaidd, seraidd.

Astert, † *v. a.* (newidiad o *start*) dychrynu, brawychu.

Asthenia, *s.* (Gr.) annerth, gwendid.

Asthenic, *a.* (Gr. *asthenicos*) dinerth, egwan, gwàn, anefrais.

Asthenology, *s.* (Gr. *asthenos* a *logos*) annertheg, gwendidaeth.

Asthma, *s.* (Gr.) mygodfa, y fogfa, mogfa, byranadl, caethanadl, caethanal, diffyg anadl.

Asthmatic, *a.* (Gr. *asthmaticos*) mygodol, mogfaol; anadlfyr, byr ei anadl; â diffyg anadl arno.

Astomous, *a.* (Gr. *a* a *stoma*) dïeneu, dïeneuol, heb eneu.

Astone, } *v. a.* (hen Ff. *estonner*)=*Astonish*.
Astony, }

Astonish, *v. a.* (hen Ff. *estonner*; Ff. ddiweddar *étonner*; S. *stunian*) synu, brawychu, dychrynu; uthro, rhyfeddu, peri syndod, irdangu, serfanu, anu, arsynu, synu ar.
I am astonished—y mae'n syn genyf; yr wyf yn synu.
She was greatly astonished—synodd yn ddirfawr; synodd arni yn aruthr; gwyneblasodd gàn ofn; braw mawr oedd arni; gorsynodd.
I stood astonished—sefais yn syn; mi a sefais yn syn; daliodd syndod fi.

Astonishing, *a.* (o *astonish*) syn, rhyfedd, synfawr, rhyfeddol; uthrol, brawychol.

Astonishment, *s.* (o *astonish*) syndod, dychryn, braw, synder, syndra, synedigaeth; irdang, irdanc, chwithdod, uthredd, uthroldeb, uthrolder, aruthredd, argythwy.
Great astonishment—syndod dirfawr, gorsyndod, gorsynder.
Slight astonishment—chwithdod, gosyndod, lledsyndod, goddychryn.

Astound, *v. a.* (hen Ff. *estonner*) syfrdanu, serfanu, hurtio, synu, taro â syndod.

Astoundment, *s.* (o *astound*) syfrdandod, serfandod, syndod.

Astraddle, *ad.* (*a* a *straddle*) â'i draed ar led; â'i droed o bobtu; troed o bobtu; coes o bobtu; yn fforchog.

Astragal, *s.* (Gr. *astragalos*) colofrwy, amaddurn=modrwy neu gylch addurnol bychan am ben colofn: y ffêr, bigwrn.

Astragalus, *s.* (Ll.) llaethwyg, geuber-wraidd.

Astral, *a.* (Ll. *astrum*; Gr. *astêr*) serenol, serenog; serol, seraidd, serenaidd, serog.
Astral lamp—serlygorn.

Astray, *ad.* (*a* a *stray*) ar gyfeiliorn, ar grwydr, ar ddisberod, ar goll, ar ddigrain, ar ddidro.
To go astray—myned ar gyfeiliorn, myned ar grwydr, myned ar ddisberod, myned ar goll, myned ar ddidro, myned ar ddigrain; cyfeiliorni, crwydro.
To lead astray—camarwain, camdywys; arwain ar gyfeiliorn, tywys o'r ffordd; tynu ar ddidro.
A going astray—cyfeiliornad, cyfeiliorni, crwydr, disberod, didro, crwydrad, digrain.

Astrict, *v. a.* (Ll. *astringo, astrictus*) tynrwymo, dirglymu; rhwymo.

Astrict, *a.* crynoawl, cryno; talfyredig, cwtogol.

Astriction, *s.* (Ll. *astrictio*) tynrwymiad, dirglymiad; cydglymiad, cynghlymiad.

Astrictive, } *a.* (o *astrict*) dirglymol, dirglym-
Astrictory, } iadol; rhwymol, clymiadol, argaeol.

Astride, *ad.* (*a* a *stride*) yn fforchog; o bobtu, o ddeutu; bob ochr.

Astriferous, *a.* (Ll. *astrifer*) serddygol, serddwyn; serenog.

Astrigerous, † *a.* (Ll. *astriger*)=*Astriferous*.

Astringe, *v. a.* (Ll. *astringo*) rhwymo, clymu, cylymu; cyngwasgu.

Astringency, *s.* (o *astringent*) rhwymolrwydd, bolrwymedd, dirglymoldeb.

Astringent, *a.* (Ll. *astringens*) rhwymol, dirglymol, bolrwymol, argaeol; rhwym; cyfnerthol.

Astringent, *s.* rhwymai, dirglymai: *pl.* rhwymolion, dirglymolion, argaeolion.

Astringer, *s.* (o *astringe*) perchen gorwalch.

Astrognosia, } *s.* (Gr. *astêr* a *gnôsis*) serwybod-
Astrognosy, } aeth, sywyddiaeth.

Astrography, *s.* (Gr. *astêr* a *graphô*) seronyddiaeth, seronddysg.

Astrolabe, *s.* (Ll. *astrolabium*; Gr. *astêr* neu *astron* a *labein*) serebyr=offeryn seryddol.

Astrolatry, *s.* (Gr. *astêr* neu *astron* a *latreia*) seraddoliad, seraddoliaeth.

Astrologer, } *s.* (Gr. *astrologos*, o *astron* a
Astrologian, } *logos*) serddewin ; *pl.* serddewiniaid, serddewinion.
Astrologic, } *a.* (Gr. *astrologicos*) serddewinol.
Astrological, }
Astrologize, *v. n.* (o *astrology*) serddewino.
Astrology, *s.* (Gr. *astrologia*) serddewiniaeth, serddewindeb, sywedgoel.
Astronomer, *s.* (Gr. *astronomos*) seronydd, seryddwr, serydd, serofydd, sywedydd, sywedur.
Astronomic, } *a.* (Gr. *astronomicos*) seryddol,
Astronomical, } seronol, seronyddol, serofyddol, sywedol, sewedol, sywedyddol.
Astronomize, *v. n.* (o *astronomy*) seryddu, seroni, sywedu, seryddiannu.
Astronomy, *s.* (Gr. *astronomia*) seryddiaeth, seroneg, seroniaeth, serofyddiaeth, sywedaeth, sewedyddiaeth, sywed, seryddiant.
Astroscope, *s.* (Gr. *astron* a *scopeô*) sersyllyr ; cydseriadyr=offeryn arferedig mewn seroniaeth.
Astroscopy, *s.* (Gr. *astron* a *scopeô*) sersylliaeth, sersylliadaeth.
Astrothemata, *s. pl.* (Gr. *astron* a *thema*) serosodion.
Astro-Theology, *s.* (Gr. *astron* a *theologia*) serddwyfyddiaeth, serddduwinyddiaeth.
Astrut, *ad.* (*a* a *strut*) dàn ucheldrodio, dàn rygyngu.
Astute, *a.* (Ll. *astutus*) craff, craffus ; cyfrwys, ffel ; llym, treiddiol, hydraidd, glew ; craff ei olwg.
Astuteness, *s.* (o *astute*) craffder, craffusder ; cyfrwysdra, ffelder, ffalsder ; llymder, treiddiolrwydd ; glewdid.
Asunder, *ad.* (S. *asundrian*) ar neilltu, o'r neilltu, ar wahan, ar ddydol, yn wahanredol ; ar ben ei hun ; wrtho ei hun.
To put asunder—dydoli, gwahanu, ysgar, ysgaru, dadgyssylltu, neilltuo ; tynu oddi wrth eu gilydd.
Let not man put asunder—nac ysgared dyn ; na wahaned dyn.
To cleave asunder—hollti, hollti yn ddau.
To cut asunder—tori yn ddau, tori ymaith ; gwahanu.
To take asunder—dadgyssylltu, dydoli ; gwaeanu.
Aswoon, † *ad.* (*a* a *swoon*) mewn llewyg, mewn llesmair, mewn llesmar.
Asylum, *s.* (Ll. o'r Gr. *asulon*) noddfa, noddle, achlesfa, gwestifiant ; nawdd, croes naid.
Lunatic asylum—lloerigfa, lloerigdy ; noddle *neu* noddfa lloerigion.
Asymmetral, } *a.* (Gr. *asummetros*) anghymmesurol, anedyl.
Asymmetrical, }
Asymmetry, *s.* (Gr. *asummetria*) anghymmesuriaeth, anghyfartaledd, anedyledd.
Asymptote, *s.* (Gr. *asumptôtos*) anghyrddell=llinell mewn gwyddoniaeth.
Asymptotic, } *a.* (o *asymptote*) anghyrddellol,
Asymptotical, } anghyrddol, digyssyllt.
Asyndeton, *s.* (Gr. *asundeton*) anghyssyllt, digyssyllt=ffugr mewn areitheg.
At, *prep.* (S. *æt* ; Goth. *at* ; Ll. *ad*) yn, mewn, wrth, ger, ger llaw, cèr, gàr ; ar ; o ; gyda.
At hand—ger llaw, yn agos ; wrth law ; agos ; ar law ; ar bwys ; bargaw.
To be at hand—agoshau, nesu, neshau ; bod yn agos, bod ger llaw.
The kingdom of heaven is at hand—neshaodd teyrnas nefoedd ; agoshaodd teyrnas nef.
At the hand of—o law, gàn ; oddi ar law, odd ar law.
At the hand of the children of Hamor—o law meibion Hamor ; gàn feibion Hamor.
At your hand—ar eich llaw ; genych.
I will not take this at your hand—ni oddefaf *neu* ni chymmeraf hyn genych.
Who hath required this at your hand ?—pwy a geisiodd hyn ar eich llaw ?
At second hand—ar yr ail law ; gàn yr ail law ; o'r ail law.
Hard *or* difficult to come at—anhawdd ei gyrhaedd ; anhawdd dyfod o hyd iddo.
At heart—yn ei galon ; yn ei chalon ; o'i galon ; o galon.
At what price ?—am ba bris ? er pa bris ? am ba faint ? er pa faint ? am ba gymmaint ?
At a high price—yn ddrud, yn brid ; am uchelbris.
Tenant at will—deiliad preswylfoddog.
At that place—acw, oco ; yn y fàn acw ; yn y fàn hòno.
To laught at—chwerthin am ben ; chwerthin yn ; bod yn wrthrych gwawd.
At a shilling a yard—am swllt y llath ; yn ol swllt y llath.
At London—yn Llundain.
At church—yn yr eglwys.
At a church—mewn eglwys.
At a house in the neighbourhood—mewn ty yn y gymmydogaeth.
At my house—yn fy nhy.
At home—gartref ; yn y ty.
The man is not at home—nid yw y gwr gartref ; nid yw y gwr yn y ty.
At the door—wrth y drws ; yn y drws.
At the fire—wrth y tân ; o flaen y tân ; o flaen tân.
At Easter—ar y Pasc.
At Christmas—ar y Nadolig ; Nadolig.
At sunset—ar fachludiad haul, ar fachlud haul ; yn mhryd machludo haul ; gyda machlud haul.
At day-break, } ar y wawr, gyda'r wawr ;
At break of day, } ar doriad y dydd ; ar y pylgain ; yn y pylgain ; gyda glasiad y dydd ; gyda thoriad y wawr ; gyda rhaciad y wawr.
At the beginning—ar y dechreu ; yn y dechreu ; yn y dechreuad.
Begin at my sanctuary—dechreuwch ar fy nghyssegr.
The judgment must begin at the house of God—rhaid dechreu o'r farn o dy Duw ; mae y farn i ddechreu o dy Duw.
They shall enter in at the windows—ânt i mewn trwy y ffenestri.
At that word—gyda'r gair ; gyda y gair hwnw ; ar y gair.
At my word—wrth fy ngair ; ar fy ngair.
At every word the tears fall—gyda phob gair y syrth y dagrau.
As they were at their cups—a hwy yn mysg, wrth, *neu* gyda eu cwpanau ; a hwy wrth *neu* gyda y ddïod ; tra yr oeddent wrth y gwin.
He grew pensive at the saying—efe a bruddhaodd wrth yr ymadrodd ; tristaodd oblegid yr ymadrodd.
At meat—yn bwyta ; wrth fwyd.

To sit at meat—eistedd i fwyta; eistedd wrth y bwrdd; eistedd wrth y ford; eistedd wrth fwyd.
At the presence of—ger bron, yn ngŵydd, ger gŵydd, o flaen; rhag, rhag bron.
At my presence—ger fy mron; rhagof.
They shall tremble at his presence—hwy a grynant rhagddo; crynant ger ei fron, *neu* o'i flaen.
At their own pleasure—wrth eu hewyllys eu hun; yn ol eu gwyllys eu hunain; fel y gwelont yn dda; wrth eu mympwy.
At dinner—ar giniaw; wrth giniaw.
At the banquet of wine—yn nghyfeddach y gwin.
At first, / At the first, } ar y cyntaf; yn y dechreu.
As at the first—fel cynt, megys cynt.
At the very first—ar y cyntaf oll.
At furthest—o bellaf, o eithaf; yn y fân bellaf.
At the furthest—o'r pellaf, o'r eithaf; o'r fân bellaf; yn y fân bellaf.
At least—o leiaf; o'r lleiaf.
At the least—o'r lleiaf; o'r hyn lleiaf.
At length—o'r diwedd; weithion, weithian; yn mhen ennyd; bellach; yn y diwedd.
At full length—mewn llawn hyd; yn ei lawn hyd; yn ei gyflawn hyd.
At last, / At the last, } o'r diwedd, yn y diwedd; yn ddiweddaf.
At the most, / At most, } o'r eithaf, o eithaf, o fwyaf, o'r mwyaf, o bellaf, o'r pellaf.
At best—ar y goreu.
At a distance—yn mhell, draw; o bell, o hirbell, yn bell; acw, oco; oddyma draw.
At no great distance—nid yn neppell, nid neppell.
At some distance—yn gryn bell; mewn tipyn o bellder; yn lled bell; encyd o ffordd; yn dran bell.
At unawares—yn ddisymmwth, yn ddisyfyd; yn ddirybudd; heb ei ddysgwyl; yn annysgwyliedig; heb edrych am dano.
At work—ar waith; wrth waith; mewn gwaith.
At present—yn bresennol; y pryd hwn; yn awr, yr awr hon; nan; weithion.
At first sight—ar yr olwg gyntaf.
At one blow—ar un ergyd.
At a venture—ar amcan, ar antur; yn ddïannel; yn annilys.
At the end—yn y diwedd; o'r diwedd.
At the end of—yn mhen, yn niwedd.
At the end of forty days—yn mhen deugain dïwrnod.
At the end of the days—yn niwedd y dyddiau.
At the end of every seven years—yn ol pob saith mlynedd; ar ddiwedd pob saith mlynedd.
At an end—gwedi ei ddybenu, ei ddiweddu, ei orphen, *neu* ei gyflawnu; wedi darfod; wedi myned ymaith.
It is at an end—darfu; dybenodd; y mae wedi darfod; deryw; darfu am dano.
At all—oll, dim; mewn un modd; dim oll; erioed, byth, un amser; dim yn y byd.
At any time—un amser, unrhyw amser; pob amser; un pryd, rhyw bryd; erioed, byth.
Lest at any time—rhag un amser.
At this time—y pryd hwn, y pryd hyn; yr amser hwn; heddyw, y dydd heddyw; yr awr hon, yr awron; ar hyn o bryd; ar y pryd hwn.
As at this time—ar gyfenw i'r amser yma.
At that time—y pryd hwnw; ar y pryd hwnw; yr amser hwnw; ar hyny o bryd; y pryd hyny; y waith hòno.
At that season—y cyfamser hwnw; y tymmor hwnw; yr amser hwnw; ar hyny o bryd.
At times—weithiau, ar brydiau, ar amseraau, ar droion; ar rai prydiau.
At no time—erioed ni fu; byth ni fydd; dim erioed, dim byth; nid un amser.
At this day—heddyw, y dydd heddyw; yn awr, weithion.
At leisure—mewn hamdden, mewn arfod; â hamdden *neu* arfod ganddo; yn cael ennyd; yn hamddenol; âg amser ganddo *neu* ganddi; pan geir ennyd *neu* seibiant.
At ease—yn esmwyth; yn esmwyth arno; yn ddiwaith, yn ddiofal, yn ddifraw, yn ddidaro; diofal.
At once—ar unwaith; ar untro; ar un waith.
At the worst—ar y gwaethaf; yn y fân waethaf; yn waethaf; a bod y gwaethaf yn waethaf; a myned y gwaethaf yn waethaf.
He is hard at it—y mae efe yn galed wrthi; mae wrthi yn galed; mae yn ddiflin ar waith; mae yn ddiflin mewn gwaith, *neu* wrth ei waith.
At ten o'clock—am ddeg ar gloch; am ddeg o'r gloch.
At his own expense—ar ei draul ei hun.
To be at the charge of—dwyn traul; cymmeryd y draul arno *neu* arni.
Be at charges with them—gwna draul arnynt.
They were at him—yr oeddent wrtho; yr oeddent yn ei ddirio; yr oent yn ei gymhell.
To be at the pains of doing a thing—cymmeryd y drafferth i wneuthur peth; cymmeryd arno y drafferth o wneyd rhyw beth.
At what time—pan; pa amser; pa bryd; ar ba amser *neu* bryd.
At my hearing of that—pan glywais hyny; wrth glywed o hanof hyny.
At variance—mewn amryson, mewn amrafael, mewn anghydfod; yn amrafaelio.
At liberty—yn rhydd, rhydd, mewn rhyddid.
At a loss—heb wybod; mewn cyfyng gynghor.
I am at a loss to know—nis gŵn; nis gŵn beth i'w wneuthur; yr wyf mewn cyfyng gynghor beth i wneyd.
To set at one—cymmodi, heddychu, athrywynu.
At stake—mewn perygl; ar lawr; mewn chwareu amdano; â chwareu am dano; mewn perygl o'i golli.
At a word—mewn gair.

At that rate—yn ol y cyfrif hwnw; felly.
At sea—ar y môr. [eangder.
At large—yn rhydd; mewn rhyddid, mewn
To walk at large—rhodio yn rhydd; rhodio mewn eangder.
What would you be at?—beth a fynech ei ddywedyd *neu* ei wneuthur? beth sy'n eich bryd?
Good at a dart—hyfedr ar daflu picell.
To play at billiards—chwarau pelre; pelrēu.
To shoot at a person—saethu at ddyn; saethu dyn.
Barrister at law—dadleuwr cyfreithiol; cynghawsydd, dadleuwr.
To be at law—ymgyfreithio.
To sue at law—cyfreithio; ymgyfreithio.

Atabal, *s.* (Ysp.) tabwrdd; tabyrdden y Mwriaid.
Ataraxy, *s.* (Gr. *ataraxia*) tawelwch meddwl; boddlonrwydd, cymmodlonedd, tawelfrydedd.
Ataxy, *s.* (Gr. *ataxia*) annhrefn; terfysg; afreoledd.
Atelene, *a.* (Gr. *atelès*) anghyflawn; anmherffaith. [digellog.
Athalamous, *a.* (Gr. *a* a *thalamos*) anghellog,
Athamanta, *s.* (oddi wrth *Athamas*) creigberllys.
Athanor, *s.* (Ar. a H. *thanor*) ffyrnais fwyglo, llarffyrnes. [dduwiaeth.
Atheism, *s.* (o'r Gr. *atheos*) annuwiaeth, di-
Atheist, *s.* (Gr. *atheos*, o *a*, an, a *theos*, Duw) annuwiad, annuw, (*pl.* annuwiaid), annuwydd.
Atheistic, **Atheistical**, } *a.* (o *atheist*) annuwaidd, didduw, annuw.
Atheisticalness, *s.* (o *atheistical*) annuweiddrwydd, annuwdeb.
Atheize, † *v. n.* (o'r Gr. *atheos*) annuweiddio, annuwio; llafaru fel annuwiaid.
Atheologian, *s.* (Gr. *a* a *theologos*) gwrthdduwinydd, annuwinydd, annwyfydd.
Atheology, † *s.* (Gr. *a* a *theologia*)=*Atheism.*
Atheous, † *a.* (Gr. *atheos*)=*Atheistical.*
Atheroma, *s.* (Gr.) ceulgrangen, llyngranc.
Atheromatous, *a.* (o *atheroma*) ceulgrangol, ceulgrangenol, llyngrangol, crangenol.
Athirst, *a.* (*a* a *thirst*) sychedig; â syched arno.
To be athirst—sychedu; bod yn sychedig; bod â syched arno.
Athlete, *s.* (Gr. *athlètès*) amdrechwr, ymdrechydd; campwr, rhyswr; codymwr.
Athletic, *a.* (Gr. *athlètès*) amdrechol, campwraidd; cryf, cadarn, pybyr, grymus, gwrol, cadarngryf.
Athleticism, *s.* (o *athletic*) amdrechiant; campryfedd; cryfder.
Athwart, *prep.* (*a* a *thwart*) ar draws, yn groes, ar groes; croes, traws.
Athwart, *ad.* ar draws, ar groes, yn groes; ar gam, ar ŵyr.
Atilt, *ad.* (*a* a *tilt*) ar ogwydd; ar annelfa.
Atimy, *s.* (Gr. *atimia*) anfri; gwarth, diraddiad.
Atlantes, *s. pl.* (Gr.) attegwys, dynattegion, dynwanasau; Atlantwys.
Atlas, *s.* (oddi wrth *Atlas*, un o'r Titaniaid; neu Al. *atlas*, math o bali) tudlenas, Atlas= casgliad o dudleni.
Atmometer, *s.* (Gr. *atmos* a *metron*) tarthiadyr =offeryn i fesur swmp tarth.
Atmosphere, *s.* (Gr. *atmos* a *sphaira*) awyrgylch, amawyr, nwyfre; gwybr, wybr, ewybr, ewybren, wybren.
Atmospheric, **Atmospherical**, } *a.* (o *atmosphere*) amawyrol, awyrgylchaidd, nwyfreawl; wybrenol, wybrenaidd, gwybrol, wybrig, ewybrenol.
Atom, *s.* (Gr. *atomos*; Ll. *atomus*) mymryn, temig, as, ith, gronyn, til, corffilyn: *pl.* mymrynau, temigau, temigion, asau, ithion, gronynau, tilion.
Atomic, **Atomical**, } *a.* (o *atom*) temigol, mymrynol, ithol, gronynol, asol.
The atomic theory—y ddamcaniaeth demigol, y ddamcaniaeth fymrynol.
The atomic philosophy—yr athroniaeth demigol, yr athroniaeth fymrynol.
Atomism, *s.* (o *atom*) temigiaeth, mymryniaeth. [rynwr.
Atomist, *s.* (*atom*) temigydd, temigwr, mym-
Atomize, *v. a.* (o *atom*) mymrynu, temigo, gronynu.
Atomology, *s.* (Gr. *atomos* a *logos*) temigiaeth, mymryniaeth.
Atomy, † *s.* (o *atom*)=*Atom.*
Atone, *v.* (*at* a *one*) cymmodi, heddychu, dyhuddo, penydio, penydu; gwneuthur iawn, gwneyd cymmod; dadolychu; iawnu, boddloni; cydfod, cytuno; adgymmodi.
Virtue atones for bodily defects—rhinwedd a guddia ddiffygion corfforol.
To atone for—gwneyd cymmod *neu* iawn dros; cymmodi dros.

Atone, † *ad.* yn gytun; yn unol; yn nghyd.
Atonement, *s.* (o *atone*) iawn; cymmod; penyd, cymrodedd, dadolwch, dyhuddiad; tâl, cyfwerth.
Atonement for a crime—iawn dros fai *neu* gamwedd; cymmod.
Atoner, *s.* (o *atone*) cymmodwr; penydiwr, iawnydd; dyhuddwr.
Atonic, *a.* (Gr. *atonos*) gwanhaol, gwanychol, egwanol, dinerthol, anefrais.
Atony, *s.* (Gr. *atonia*) egwander, llesgedd, eiddiledd, gwendid, annerth; cyhyrwst.
Atop, *ad.* (*a* a *top*) ar y top, ar gopa, ar ben.
Atrabilarian, **Atrabilarious**, } *a.* (Ll. *atrabilis*) athrist, prudd, pendrist, trist, trymllyd; duegol, pruddglwyfus, pruddinebus.
Atrabilariousness, *s.* (o *atrabilarious*) athristedd, pruddineb, pendristedd.
Atramental, **Atramentous**, } *a.* (o'r Ll. *atramentum*) du, duawg; muchwyol.
Atramentarious, *a.* (o'r Ll. *atramentum*) duaidd, muchwyaidd; addas i wneyd muchwy.
Atriplex, *s.* (Ll.) llygwyn, eurllys.
Atrocious, *a.* (Ll. *atrox*, *trux*) echryslawn, ysgeler, anfad, erchyll; creulawn, ffyrnig; drwg, drygionus, anfadus, esgymun, iwin; treisiol.
Atrociousness, *s.* (o *atrocious*) erchylldod, ysgelerder, ysgelerdod, anfadrwydd, echryslondeb, echryslonrwydd, erchyllder.
Atrocity, *s.* (Ll. *atrocitas*) ysgelerder, echryslondeb, erchylldod; creulondeb, creulonder, ffyrnigrwydd; anfadrwydd, drygioni.
Atropa, *s.* (Gr. *atropos*) codwarth. [faeth.
Atrophy, *s.* (Gr. *atrophia*) disborthiant; an-
Atrous, *a.* (Ll. *ater*) gorddu, duddu.
Attach, *v. a.* (Ff. *attacher*) dàl, gafaelu, gafaelyd; attafaelu, attafaela; glynu, cyssylltu.
To be attached—ymlynu, ymgyssylltu, ymglymu; pleidio, bod o blaid; tueddu; bod yn dueddol; hoffi, ymhoffi, ymserchu; caru; bod yn ddyfal *neu* ddiwyd.
To attach a friend—ennill cyfaill; ennill cariad cyfaill.

To attach one's self—ymlynu, glynu, ymgysylltu, ymglymu; ymröi.

Attache, s. (Ff.) ymlynwr, dylynydd, ymlyniad.

Attachment, s. (o *attach*) attafaeliad, gafaeliad; attafael, gafael; ymlyniad, ymglymiad; glyniad; ymlynedd; serch, serchiad, ymserchiad, tuedd, tueddiad, cariad, cysswyn, hoffedd; ffyddlondeb.

Attachment to liberty—rhyddgarwch; ymlyniad wrth ryddid.

Attachment to a party—pleidgarwch; ymlyniad wrth blaid.

Mutual attachment—cydhoffedd, cydhoffiant, cydserch.

Attachment to a friend—ymlyniad wrth [gyfaill.

Illicit attachment—ymlynedd anghyfreithlawn; cysswyn anghyfreithlawn.

Court of attachment—llys attafael.

Attack, v. a. (Ff. *attaquer;* Ysp. *atacar*) ymosod ar, rhuthro ar, ymgyrchu ar; ymosod, rhuthro, ymgyrchu, gosod, cyrchu; ymosod neu gyrchu yn erbyn; ffwyro, rhysgyru, dwyn cyrch, taraw, ymladd, ergyrchu.

To attack one another—ymgyrchu, ymhyrddio; ymosod ar y naill y llall.

Attack, s. rhuthr, cyrch, ymosodiad, ymgyrch, ergyrch, ymosawd, gosawd, rhysgyr, dyrch; rhysgyriad, rhuthrad, cyrchiad; chwiw; ymgyrth, lluchynt.

Attack and onset—dyrch a gosawd; dyrchaf a gosawd.

Mutual attack—ymgyrch, ymosawd, ymosodiad.

First attack—cynosawd, cynymgyrch.

Attack of cold—chwiw o annwyd.

Attacker, s. (o *attack*) rhuthrwr, ymosodwr, &c.

Attain, v. (Ff. *atteindre;* Ll. *attingo*) cyrhaedd, cyrhaeddyd, cyrhaeddu; cael, caffael; dyfod i, dyfod hyd, dyfod at, dyfod o hyd i, dyfod hyd at; dylyn; ennill, mwynhau; cael gafael.

To attain to the knowledge of a thing—cael cymmedr ar beth; cyrhaedd *neu* gael gwybodaeth o beth; medru ar *neu* oddiwrth beth.

To perform that which is good, I cannot attain—cwblhau yr hyn sy dda, nid wyf yn medru arno.

I cannot attain unto it—ni fedraf oddi wrthi.

That he may attain everlasting joy and felicity—bod iddo fwynhau llawenydd a dedwyddyd tragwyddol.

A man of understanding shall attain unto wise counsels—y dealligar a ddaw i gynghorion pwyllog.

The pious alone shall attain wisdom—y duwiol yn unig a gânt ddoethineb.

The gentiles have attained to righteousness—y mae y cenedloedd wedi derbyn cyfiawnder.

It is that which I could attain unto—hyny yw yr hyn a allwn ei ddwyn i ben.

Virtue is the ready way to attain a quiet life—ffordd rhinwedd a'th ddwg ar frys i lonyddwch buchedd.

Attainability, s. (o *attainable*)=*Attainableness.*

Attainable, a. (o *attain*) cyrhaeddadwy; caffaeladwy, hygael; à ellir ei gyrhaedd.

Attainableness, s. (o *attainable*) cyrhaeddolrwydd; caffaelogrwydd, hygaeledd.

Attainder, s. (Ff. *atteindre;* Ll. *attinctus*) anaddfwyniad, anaddfwyniant; lledrywiad; gwarthruddiad, anurddiad.

Attainment, s. (o *attain*) cyrhaeddiad, caffaeliad, caffawd, cyrhaedd, caffad; dawn, dysg, teithi.

Above attainment—uwch cyrhaedd; uwch law cyrhaedd; tu hwnt *neu* uch law i gyrhaedd; uwch na dawn.

Superior attainment—gorgaffad, gorgaffawd; rhagorddysg, gorddysg.

A man of superior attainments—dyn goddidog ei ddoniau; gwr doniog; dyn mawr ei ddawn a'i ddysg; dyn ardderchog ei gyrhaeddiadau; dyn rhagorddysg.

A man of great attainments—dyn aml ei gyrhaeddion; gwr mawr ei gyrhaeddiadau; dyn helaeth ei wybodau; undoniog.

Attaint, v. a. (Ff. *teindre, teinte;* Ll. *attingo*) anaddfwyno; difwyno, anurddo, gwarthruddo, gwarthnodi; llygru; lledrywio; dyfarnu, euogi.

Attaint, s. anurddas, gwarthnod, dufan, llwgr; clais; difwyneb.

Attaintment, s. (o *attaint*) anurddasiad, gwarthnodiad, gwarthruddiad; lledrywiad.

Attainture, s. (o *attaint*) anurddiad, difwyniad; gwarthrudd, gwarthnod, gwarth, difriant.

Attask, † v. a. (o *task*) tasgu; trethu.

Attemper, v. a. (Ll. *attempero*) tymmeru, ardymmeru; cymmedroli, cyttymmeru; meddalhau; cyfaddasu.

Attemperance, † s. (o *attemper*) tymmerusrwydd; cymmedroldeb.

Attemperate, a. (o *attemper*) tymmerus; cymmedrol, cyfaddas.

Attemperate, † v. a. (o *attemper*)=*Attemper.*

Attemperment, s. (o *attemper*) tymmeriad, tymmerusiad; cymmedroliad.

Attempt, v. a. (Ll. *attento;* Ff. *attenter*) cynnyg, anturio, ymgeisio, ceisio, amcanu, llyfasu, ymdrechu, argeisio, argynnyg, ymegnïo, osio; rhoi cais ar; gwneuthur cynnyg, prawf, *neu* ymgais; dargynnyg.

Attempt it—rho gais arno; dyro gynnyg arno; rho gynnyg arno; cynnyg ef.

He attempted her life—efe a amcanodd ddwyn ei bywyd; cynnygodd am ei bywyd; ceisiodd ddwyn ei bywyd.

He attempted it fairly—efe a'i cynnygiodd yn deg; gwnaeth gynnyg teg arno.

Attempt, s. cynnyg, cais, ymgais; anturiaeth, antur; ymdrech, gosod, llyfas, dargais, dargynnyg, argais; ymgyrch; cyrch; prawf; amcan. [ymgais.

Great attempt—argais, mawrgais, mawr-

Feeble attempt—llesgymgais, llesg ymgais.

Vain attempt—gwag ymgais, gwagymgais.

Slight attempt—lledymgais, lledgais.

Make an attempt upon it—rho gynnyg arno; rho gais arno; dyro gynnyg arno; cynnyg ef.

The attempt was not amiss—nid oedd bai ar y cynnyg; nid oedd dim bai ar y cynnyg.

He made two or three attempts—gwnaeth ddau neu dri gosod *neu* gynnyg.

Attempter, s. (o *attempt*) cynnygwr, ymgeisiwr, ceisiedydd, ymegnïwr, llyfaswr, anturiwr; profydd; amcanwr; ymgyrchydd.

Attend, v. (Ll. *attendo;* Ff. *attendre*) gweini; canlyn; canymdöi, hebrwng, cydfyned; dylyn, gweini ar, gweinyddu, gweini i; gofalu; gwrandaw, gwrando, andaw, oiaw, ystyried; heilio; areilio, gwarchod, gwarchadw, gwarched, gwylio; dàl sylw, talu

sylw, rhoi clust, clustymwrando, dàl ar; aros, aros wrth *neu* gyda; dysgwyl; bod yn; bod yn bresennol *neu* wyddfodol.

I will attend upon you with ten thousand men—mi a'ch canymdoaf â myrdd o wŷr; hebryngaf chwi â deng mil o wŷr.

Misery attends the wicked—trueni a erys y drygionus.

Ill luck attend you—anffawd a'ch canlyno; tynged ddrwg a'ch dylyno; anffawdi chwi.

He attends chapel—mae efe yn dylyn y capel; y mae yn arfer bod yn yr addolfa; y mae yn wyddfodol yn y capel; i'r capel y mae yn myned; mae yn arfer myned i'r addolfa.

He attends lectures—y mae efe yn y darlithiau; y mae yn dylyn *neu* ganlyn darlithiau; mae yn gwrandaw darlithiau; y mae e'n arfer bod yn y darlithiau; y mae yn oiaw darlithiau; y mae 'n arfer gwrando y darlithiau.

He diligently attends the worship of God—y mae efe yn dyfal lynu wrth addoliad Duw.

She never attends there—nid yw hi byth yn myned yno; nid yw hi byth yn arfer myned yno; nid yw byth yno.

The like punishment attends you—y mae yr un gosp yn nghadw i chwithau; y mae y gyffelyb gosp yn eich dylyn chwithau; mae yr un gosp yn eich aros chwithau.

Whom the king had appointed to attend upon her—yr hwn a osodassai y brenin i weini iddi *neu* arni; yr hwn a osodassai y brenin i wasanaethu o'i blaen hi.

I will attend you there—mi a'ch dysgwyliaf *neu* arosaf yno; arosaf wrthych yno.

Many misfortunes attend wars—aml afiwydd a ganlyn ryfeloedd; y mae llawer afiwydd yn cydfyned â rhyfeloedd.

To attend one's devotion—cyflawnu gwasanaeth crefyddol; cyflawnu dyledswyddau crefyddol; bod wrth ei ddyhewyd.

To attend to business—gofalu am fasnach, goruchwyliaeth, gorchwyl, *neu* drafnidiaeth; bod yn ddyfal, diwyd, *neu* ddiflin ar orchwyl, *neu* wrth alwad; bod wrth orchwyl; bod mewn goruchwyliaeth; bod yn ofalus am drafnidiaeth *neu* fasnach.

Let us attend to the ministry—byddwn ddyfal yn y weinidogaeth.

Attend to my words—gwrandöwch ar fy ngeiriau; ymwrandöwch â'm geiriau; rhowch glust i'm geiriau; clust-ymwrandöwch â'm geiriau.

Attendance, *s.* (Ff.) gweinyddiad, gwasanaeth, gweinid; gofal, diwydrwydd, dyfalwch, ystigrwydd; ymroddiad, ymroad; gosgordd, gosgorddyd; gosgorddiaid, gosgorddolion, gosgorddwyr; ymgeledd, amgeledd; ystyriaeth, sylw.

A man in attendance—gosgorddwr, dyn gosgordd.

King's attendance—gosgordd brenin.

To give attendance—glynu, ymlynu; ymröi; bod yn ddyfal, astud, *neu* ddiwyd; gweini.

No man gave attendance at the altar—nid oedd neb yn gwasanaethu yr allor.

Attendance at table—heiliad, heilyniaeth.

Give attendance to reading—glŷn wrth ddarllen.

Let us all give attendance to meditation—ymröwn *neu* ymroddwn oll i fyfyrdod.

He died for want of attendance—bu farw o eisieu ymgeledd; bu farw o eisieu *neu* ddiffyg triniaeth.

When Athenobius saw the glory of Simon, and his great attendance, he was astonished—pan welodd Athenobius ogoniant Simon, a'i arlwy mawr, rhyfedd fu ganddo.

Attendant, *a.* (Ff. o'r Ll. *attendo*) dylynol, cydfynedol; yn cydfyned, yn dylyn, yn canlyn, yn cydgerdded; gweinyddol, gweiniol, gweinidol; gosgorddol; yn gweini.

Intemperance with all its attendant evils—anghymmedroldeb a'r holl ddrygau sy'n ei osgordd.

Attendant, *s.* cydymaith, canymdeithydd, canymdöydd, cytteithydd; gweinydd, gweinidog, gwas, adnair; gosgorddwr, dyn gosgordd; ymddibynydd, ymddylynwr.

Female attendant—gweinyddes.

The king and his train of attendants—y brenin a'i osgordd.

He too has a little attendant—y mae iddo *neu* ganddo yntau wesyn; y mae gwesyn iddo yntau.

A disease and its attendants—clefyd a'i bethau cydfynedol; clefyd a'i gydbethau; clefyd a'i ddylynolion *neu* gymdeithion.

Attender, *s.* (o *attend*)=*Attendant*. [40).

Attent, *a.* (Ll. *attentus*)=*Attentive* (2 *Cron.* vi.

Attentates, *s. pl.* (Ll. *attentata*) lluddwysolion.

Attention, *s.* (Ll. *attentio*) ystyriaeth; gwrandawiad, ymwrandawiad, clust-ymwrandawiad; gofal, dyfalwch, dichlynedd; sylw, andawiad; moesgarwch.

To give attention—ymwrandaw; ymwrando, clust-ymwrandaw; dyfal wrandaw; rhoi clust, rhoi gosteg; ystyried; gofalu.

There was none that gave attention—nid oedd neb yn ymwrandaw.

Attention to business—dyfalwch, diwydrwydd, astudrwydd, *neu* astigrwydd mewn gorchwyl *neu* alwedigaeth; ymroddiad i orchwyl; plygiad *neu* ymblygiad at orchwyl, masnach, *neu* drafnidiaeth.

Let me entreat you to read it with favour and attention—byddwch, atolwg, yn ewyllysgar ac yn ddyfal i'w ddarllen; atolwg, byddwch ewyllysgar a dyfal i'w ddarllen.

Attentive, *a.* (o *attent;* Ff. *attentif*) dyfal, gofalus, eorth, dichlyn, astud; ystyriol, gwrandawgar, ymwrandawgar, gwrandawus, hyglust; gwyliadwrus.

To be attentive—ystyried, synied; dichlynu; gwylio, dàl sylw; bod yn wrandawgar, dyfal, *neu* ofalus.

Let thy ears be attentive to the voice of my supplications—ystyried dy glustiau wrth lef fy ngweddïau.

Let thy ear be attentive to the prayer of thy servant—bydded dy glust yn gwrandaw ar weddi dy was.

All the people were very attentive to hear him—yr holl bobl oeddent yn glynu wrtho i wrandaw arno.

Attentive ear is the desire of a wise man—clust y gwrandawydd yw dymuniad y doeth.
Attentiveness, *s.* (o *attentive*) gwrandawiad, ymwrandawiad; ystyriaeth, ystyriant, ystyrioldeb; gofal, dyfalwch, dichlynrwydd; gwrandawgarwch, hyglustedd, hyglustrwydd; gofalusrwydd.
Attenuant, *a.* (Ll. *attenuans*) teneuol, eiddiliadol: *pl.* teneuolion.
Attenuate, *v. a.* (Ll. *attenuo*) teneuo, teneuoli; eiddilo; manhau, lleihau.
Attenuate, *a.* (Ll. *attenuatus*) teneuedig; eiddiledig; teneu, mân.
Attenuation, *s.* (Ll. *attenuatio*) teneuad, teneuhad; eiddiliad; manhad, lleihad.
Atterate, *v. a.* (Ll. *attero*) treulio, rhuglo, treulio ymaith; treuldyru.
Atteration, *s.* (o *atterate*) treuliad, rhuglad, treuliad ymaith, treuldyriad.
Attest, *v. a.* (Ll. *attestor*; Ff. *attester*) tystio, tystiolaethu; gwirio, ardystio; dwyn tystiolaeth; galw yn dyst; cadarnhau, sicrhau, gorchwirio; tystebu.
Attest, *s.* tystiolaeth, tystiad.
Attestation, *s.* (Ll. *attestatio*) tystiolaeth; tystiad, ardystiad; gorchwiriad, dilysiad, sicrhad; tystebiad.
Attestor, } *s.* (o *attest*) tystiwr, tyst, tystiol-
Attester, } aethwr; dilyswr.
Attic, } *a.* (Gr. *Atticos*; Ll. *Atticus*) Attig;
Attical, } coeth, pur, dillyn, destlus, uchawdurol, awdurol, uchadurol; uchaf.
Attic story—croglofft, nenawr.
Attic faith—ffyddlondeb annhoradwy.
Attic, *s.* croglofft, nenawr; tlysiaith.
Atticism, *s.* (o *Attic*) Attigiaeth, Atticiaeth, priodwedd Attig.
Atticize, *v.* (o *Attic*) Attigeiddio, Attigio.
Attiguous, † *a.* (Ll. *attiguus*) cyfagos, agos, ger llaw, wng.
Attiguousness, † *s.* (o *attiguous*) agosrwydd, cyfagosrwydd, yngder.
Attinge, *v. a.* (Ll. *attingo*) gogyffwrdd, ysgafn gyffwrdd, gogisio.
Attire, *v. a.* (Norm. *attyrer*; Ff. *atourner*) gwisgo, dilladu; addurno, trwsiadu, trwsio, taclu; harddu *neu* addurno â dillad.
Attire, *s.* gwisg, dillad, trwsiad, diwyg; addurn, harddwisg, addurnwisg; cyrn carw.
Can a bride forget her attire?—a anghofia priodasferch ei harddwisg?
Clothed in rich attire—wedi ei wisgo mewn dillad gwychion; gwisgedig â dillad gwychion.
Attirer, *s.* (o *attire*) gwisgwr, addurnydd, trwsiedydd, harddwisgwr.
Attitle, † *v. a.* (Ll. drosgl, *attitulare*) rhoi bawl, seinwi.
Attitude, *s.* (Ff.) ystum, agwedd, gosgedd, dull, safiad.
Attitudinal, *a.* (o *attitude*) ystumiol, gosgeddol, agweddol.
Attollent, *a.* (Ll. *attollens*) cyfodol, cyfodiadol.
Attollent muscle—cyhyr cyfodol; cyfodydd, cyfodor.
Attollent, *s.* cyfodydd, cyfodor.
Attorn, *v. n.* (Ll. *ad* a *torno*; It. *attornare*; Llyd. *turnein*, *tuirym*) attrōi; trosi; ymdrosi o'r naill i'r llall.
Attorney, *s.* (Ll. drosgl, *attornatus*, o *torno*; Norm. *attournon*, o *tour* neu *tourn*, tro, twrn) attyrnai (*pl.* attyrneion), cyfreithiwr; dirprwywr.
Attorney-general—cyfreithiwr y goron; dirprwywr cyffredinol; attyrnai cyffredinol.
Letter of attorney—llythyr attyrnai, llythyr dirprwy, gwarant dirprwywr.
Attorney, † *v. a.* dirprwyo, prwyo.
Attorneyship, *s.* (o *attorney*) attyrneiaeth; dirprwyaeth.
Attornment, *s.* (o *attorn*) trosglwyddiad, trosiad; cydnabyddiad.
Attract, *v. a.* (Ll. *attraho*, *attractum*) attynu, tynu, tynu at, athynu; denu, hudo, llithio; cyfymgyrchu.
To attract attention—tynu sylw.
Attract, † *s.*=*Attraction.*
Attractability, *s.* (o *attractable*) tynadwyoldeb, attynoldeb, tynolrwydd; hudolrwydd.
Attractable, *a.* (o *attract*) tynadwy, attynadwy athynadwy; denadwy, llithadwy.
Attractile, *a.* (o *attract*) tyniadol, attyniadol.
Attraction, *s.* (o *attract*) attyniad, tyniad, tynedigaeth, tynfa; llithiad, deniad, hudoliaeth, llithiant; cunedd, ymdyniad.
Attraction and gravitation—attyniad a dysgyrchiad.
Attraction of cohesion—attyniad cydlynol; ymlyniad.
Attraction of gravity—attyniad dysgyrchol; dysgyrchiad.
Capillary attraction—attyniad brigerol.
Chemical attraction—attyniad fferyllol, attyniad fferyllaidd; attyniad cystlynol; tyniad detholig. [tyniad.
Centre of attraction—craidd cyrch, craidd
The point of attraction—attynfa, cyrchle.
Attraction of aggregation—attyniad cyfasol, attyniad cyngreol.
Magnetic attraction—tryfaendyniad, attyniad ehedfaen, tyniad yr hedfaen, attyniad y tynfaen; tynwyrth.
Electrical attraction—trydandyniad, attyniad trydanol.
Mutual attraction—cyfymgyrchiad, cyfymgyrch, cyfattyniad.
Attractive, *a.* (o *attract*; Ff. *attractif*) tyniadol, attyniadol, attynol, tynol, tynedigol; hudol, deniadol, denol, hudolaidd, llithiannol, llithiadol, cyfymgyrchol.
Attractiveness, *s.* (o *attractive*) tyniadolrwydd, attynoldeb, tynedigolrwydd; hudoldeb, denoldeb, dengarwch, llithioldeb.
Attractor, *s.* (o *attract*) attynydd, attynor; cuniad; hudolydd, denwr.
Attrahent, (Ll. *attrahens*) ymdynol, atymdynol, attynol.
Attrahent, *s.* ymdynai, attynai.
Attrap, † *v. a.* (Ff. *drap*, brethyn) gwisgo, trwsiadu.
Attrectation, *s.* (Ll. *attrectatio*) mynychlofiad, trafodiad mynych.
Attributable, *a.* (o *attribute*) priodoladwy; gosodadwy, cyfrifadwy.
Attribute, *v. a.* (Ll. *attribuo*; Ff. *attribuer*) priodoli, cyfrif, rhoddi, gosod, bwrw.
To attribute to one's self—cymmeryd iddo ei hun; cymmeryd arno ei hun; priodoli iddo ei hun.
He attributes praise to himself—cymmer glod iddo ei hun.
He attributes his vices to old age—y mae

efe yn bwrw ei feiau ar henaint; i henaint y mae yn priodoli ei feiau.
His own errors he would attribute to another—ei gyfeilornadau ei hun a fynai efe eu cyfrif i arall.
In all this he sinned not, nor attributed folly to God—yn hyn i gyd ni phechodd efe, ac ni roddodd ynfydrwydd yn erbyn Duw.

Attribute, *s.* priodoledd, priodoliaeth; aniad; arwydd, nodeb.

Attribution, *s.* (Ll. *attributio*) priodoliad, priodoliant; cyfrifiad; canmoliaeth.

Attributive, *a.* (o *attribute*) priodolig; ansoddol; perthynol, aniadol; cyfrifol.

Attributive, *s.* ansoddeb, aniadair, perthynair: *pl.* ansoddebion, aniadeiriau, aniadolion, priodolion.

Attrite, *a.* (Ll. *attritus*) treuliedig, treuliadol; cyffredin.

Attriteness, *s.* (o *attrite*) treuliedigrwydd, treuliogrwydd; cyffredinrwydd.

Attrition, *s.* (Ll. *attritio*) treuliad, ymdreuliad, rhwbiad, rhuglad; rhagedifeirwch, tristwch yn codi odd ar ofn cosp.

Attune, *v. a.* (o *tune*) cyweirio, rhoi mewn cywair, hwylio; cynghordio; perori.

Atwain, † *ad.* (o *twain*) yn ddau; ar wahan.

Atween, } † *ad.* (o'r S. *tweg, twegen*) rhwng,
Atwixt, } yn y canol.

Atwo, † *ad.* (o *two*) bob yn ddau, yn ddau.

Auburn, *a.* (Ff. *brun*, It. *bruno*, llwyd) gwineu, llwydwineu; gwineuddu.
Auburn hair—gwallt gwineu.

Auction, *s.* (Ll. *auctio*) arwerthiant, arwerthiad, gwerthiant cyhoedd.
To sell by auction—arwerthu, cyhoedd werthu.

Auctionary, *a.* (Ll. *auctionarius*) arwerthol, arwerthiannol, arwerthiadol.

Auctioneer, *s.* (Ll. *auctionarius*) arwerthydd, arwerthwr.

Auctioneer, *v. a.* arwerthu, cyhoedd werthu.

Aucupation, *s.* (Ll. *aucupatio*) adarwriaeth; adariad.

Audacious, *a.* (Ll. *audax*; Ff. *audacieux*) hyf; haerllug, rhyfygus, digywilydd, arfeiddiol; eofn, hy, hyfaidd; diarswyd, anturiog.

Audaciousness, *s.* (o *audacious*) = *Audacity.*

Audacity, *s.* (Ll. *audax, audacia*) eonder, eofnder, hyfder; rhyddewredd, hyfeiddrwydd, tradewredd; haerllugrwydd, digywilydd-dra, talgryfder; rhyfyg.

Audible, *a.* (Ll. *audibilis*) hyglyw; llafar, soniarus, clywedog, clywadwy, croew; croch, uchel.

Audibleness, *s.* (o *audible*) hyglywder, clywedogrwydd, llafarogrwydd, croewder.

Audience, *s.* (Ff. o'r Ll. *audio*) clyw, clywedigaeth; clywiant, clywiadaeth; gwrandawiad, gwrandawiant; gosteg; gwrandäwyr, cynnulleidfa; llys.
To give audience—gwrando, rhoi gwrandawiad, rhoi clust.
In the audience of the people of the land—lle y clybu pobl y tir; yn nghlyw pobl y tir; lle y clywai pobl y wlad.
He read the book in the audience of the people—darllenodd y llyfr lle y clywai y bobl; efe a ddarllenodd y llyfr yn nghlyw *neu* glywedigaeth y bobl.
Men of Israel, give audience—gwŷr Israel, gwrandëwch.
All the multitude gave audience to Barnabas and Paul—yr holl luaws a wrandawodd ar Barnabas a Paul.
The king gave audience to the embassadors—caniataodd y brenin wrandawiad i'r cenadau; y brenin a wrandawodd y cenadau; rhoes y brenin wrandawiad i'r cenadogion a'u cenadwri.
Audience chamber—clybodfa, clybodgell, clyw-ystafell.
Audience court—clybodlys, gwrandawlellys à gynnelir gàn Archesgob Caergaint.

Audient, † *s.* (Ll. *audiens*) gwrandäwr, gwrandawydd.

Audit, *s.* (Ll. *audit*, clywa, o *audio*) clywiad, prawiad, olrheiniad; prawodfa, prawf cyfrifon.

Audit, *v. a.* clywiadu; prawiadu, profi cyfrifon.
To audit accounts—profi cyfrifon, prawiadu cyfrifon.
Audit-house—clybotty, prawiatty.

Audition, *s.* (Ll. *auditio*) clywedigaeth, clybodigaeth, clyw.

Auditive, *a.* (Ff. *auditif*) clywiadol, clybodig.

Auditor, *s.* (Ll.) clywiadur, clywedydd, gwrandäwr; prawiadur; profwr *neu* olygwr cyfrifon.
Auditor of the Exchequer—prawiadur y Sylltty.
Auditor of accounts—prawiadur cyfrifon.

Auditorship, *s.* (o *auditor*) prawiaduriaeth, prawiadaeth.

Auditory, *s.* (Ll. *auditorium*) clywiadfa, clywiadle, gwrandofa; darlithfa; clybodfainc; gwrandäwyr, clywiant, cynnulleidfa.

Auditory, *a.* clywiadol, clybodol.
The auditory nerves—y clybodïau, y clywïau, y gïau clyw: *sing.* clybodïen, gïen glyw, clywïen.

Auditress, *s.* (o *auditor*) prawiadures; clywiadures.

Auf, *s.* (Is. *alf*) ffwl, ffol, cadafael, symlyn, delff, lleban, drel.

Auger, *s.* (Is. *avegaar*) taradr, (*pl.* terydr), tarad, (*pl.* teryd), ebill, trwyddew, trul, rhwmp.
Auger-hole—twll taradr.

Aught, *s.* (S. *awiht, aht, ohwit, owiht, oht*) dim, unpeth, unrhyw beth.
For aught I know—er dim à wn i; hyd y gwn i; am à wn i; er dim à wn; hyd y gwn.
For aught I care—er dim à'm dawr i; er dim à'm dawr; er dim à ofalaf i; er dim ag wyf yn falio; er dim à doraf.

Augment, *v.* (Ll. *augmento*; Ff. *augmenter*) cynnyddu, chwanegu, ychwanegu, mwyhau, amlhau, helaethu, achwanegu, angwanegu, cynnyrchu, mwyadu, dargynnyddu; ymhelaethu, myned yn fwy.
His fortune augments daily—y mae ei olud yn cynnyddu, chwanegu, mwyhau, *neu* ymhelaethu beunydd, *neu* o ddydd bwygilydd; y mae efe yn ymgyfoethogi beunydd *neu* yn feunyddiol.

Augment, *s.* (Ll. *augmentum*) cynnydd, chwanegiad; mwyad, rhagfwyad, atfwyad.
Temporal augment—mwyad amserol, oedfwyad; rhagfwyad amserol.
Syllabic augment—mwyad silliadol, sillfwyad; rhagfwyad sillawl.

Augmentable, *a.* (o *augment*) chwanegadwy, mwyadwy, helaethadwy.

Augmentation, *s.* (o *augment*) cynnyddiad, mwyhad, chwanegiad, mwyad, amlhad, helaethiad, mwyedigaeth, chwanedigaeth, argyanyddiad, atfwyad, cynnydd, dargynnydd, cynnyddiaeth.

Augmentation court—mwyadlys=llys i chwanegu cyllid y goron, yn amser Harri VIII.

Augmentative, *a.* (o *augment*) mwyadol, mwyhaol, achwanegol, chwanedigol, dyfwyol, cynnyddol, chwanegiadol, helaethol.

Augmenter, *s.* (o *augment*) cynnyddwr, chwanegwr, helaethydd, mwyhäwr, amlhäwr, achwanegydd.

Augur, *s.* (Ll.) adarddewin, ednarmesydd; dewin, dewinwr.

Augur, *v.* (Ll. *auguro*) ednarmesu, ednarmäu, adargoelio; dewino, dewinio; darogan, arddysgogan, darmain; argoelio, rhagddangos, arwyddoli; rhagarwyddo, rhagfynegu; dysgogan, brudio.

Augural, *a.* (Ll. *auguralis*) adarddewinol, ednarmesol; adargoelus; dewinol.

Augurate, *v.* (Ll. *auguro*) ednarmesu, adargoelio; dewino; darogan, rhagddarogan.

Auguration, *s.* (Ll. *auguratio*) ednarmesiad, adarddewiniad; dewiniad; daroganiad, rhagddarogan.

Augurial, *a.* (Ll. *augurius*)=*Augural.*

Augurize, † *v. a.* (o *augur*)=*Augur, v.*

Augurous, *a.* (o *augur*) daroganol, daroganus; argoelus, rhagargoelus; rhagfynegus.

Augury, *s.* (Ll. *augurium*) ednarmes, adargoel; dewiniaeth, armes; darogan, argoel, rhagargoel, rhagarwydd; daroganiad, rhagddaroganiad.

August, *s.* (Ll. *Augustus*) Awst=yr 8fed mis.

August, *a.* (Ll. *augustus*) mawreddog, mawreddig, mawreddus, mawrydig; ardderchog, urddasol, edmygol, mygr, gwymp, boneddig; breninol.

Augustness, *s.* (o *august*) mawredd, mygredd, mawreddogrwydd, mawreddigrwydd, mawreddusdeb, ardderchogrwydd, urddasoldeb, urddasolrwydd; mawrhydi.

Auk, *s.* (Ll. *alca*; Al. *alk*; D. *alke*) pengwyn=rhyw o adar dwr.

Aularian, *s.* (Ll. *aula*) neuaddwr, neuaddog, neuaddiad: *pl.* neuaddiaid, neuaddwyr, neuaddogion.

Aletic, *a.* (Gr. *aulêticos*) pibellig, pibellawl.

Aulic, *a.* (Ll. *aulicus*) llysol, breninol.

Aulic council—llys-gynghor; llysraith=y cynghor llys yn yr Almaen.

Aumail, † *v. a.* (Ff. *email*) amrywio, amrywioli.

Aumbry, *s.*=*Ambry.*

Aune, *s.* (Ff. o'r Ll. *ulna*) llathell Ffrengig.

Aunt, *s.* (Ll. *amita*; Ff. ac Al. *tante*) modryb; bodo.

Aunt by the father's side—modryb chwaer tad.

Aunt by the mother's side=modryb chwaer mam.

Great aunt by the father's side—modryb chwaer taid.

Great aunt by the mother's side—modryb chwaer nain.

Aura, *s.* (Ll.) chwa; tarth, anwedd, mygdarth.

Aurantium, *s.* (Ll.) eurafal, eurfal.

Aurate, *s.* (Ll. *aurum*) euraint; eurberen.

Aurated, *a.* (Ll. *aurum*) euraidd, euraid.

Aurated, *a.* (Ll. *auris*) clustenog, clustaidd, clustiog; â chlustiau iddo.

Aureate, *a.* (Ll. *aurum*) eurol, euraid, euraidd, eurin, euredig; melynwawr.

Aurelia, *s.* (Ll. *aurum*) chwiler, chwileryn, chwileren.

Aurelian, *a.* (o *aurelia*) chwilerol, chwileraidd.

Aureola, *s.* (Ll. *aurum*) rheigoron, rheiddgoron=cylch o belydron, yn arwyddlun o ogoniant.

Auric, *a.* (Ll. *aurum*) eurig.

Auric acid—sur eurig.

Auricle, *s.* (Ll. *auricula*) clusten, ysgyfar, godre y glust.

The auricles of the heart—clustenau y galon.

Auricled, *a.* (o *auricle*) clustenog; â chlustenau iddo *neu* iddi.

Auricula, *s.* (Ll.) clust yr arth.

Auriculæ Judæ—clustiau yr ysgaw; clust yr Iuddew=math o ffwng â dyf ar goed ysgaw.

Auricular, *a.* (Ll. *auricularis*) clustaidd, clustiol; perthynol i'r glust; traddodiadol; clywol; o ben i ben; dirgel.

Auricular confession—clustgyffes, celgyffes, dirgelgyffes, dirgeladdefiad, clustaddefiad.

To make auricular confession—clustgyfaddef, celgyffesu, clustgyffesu, clustaddef.

Auricular tradition—traddodiad clyw.

Auriculars—clustolion.

Auriculate, *a.* (Ll. *auricula*) clustaidd.

Auriculated, *a.* (Ll. *auricula*) hirglust, clustfawr.

Auriferous, *a.* (Ll. *aurifer*) eurddwyn, eurddygol, eurog.

Auriform, *a.* (Ll. *auris* a *forma*) clustaidd, ar wedd clust.

Auriga, *s.* (Ll.) y Cerbydwr, y Cerbydydd=cydser rhwng Perseus a'r Gefeilliaid.

Aurigation, *s.* (Ll. *aurigatio*) gyriadaeth; afwyniad, awyniad.

Aurigraphy, *s.* (Ll. *aurum*, a Gr. *graphô*) eurysgrifiaeth.

Auripigmentum, *s.* (Ll.) eurlliw.

Auriscalp, *s.* (Ll. *auriscalpium*) clustgrafell.

Aurist, *s.* (Ll. *auris*) clustfeddyg.

Aurocephalous, *a.* (Ll. *aurum*, a Gr. *cephalê*) peneuraid, peneurog.

Auroch, *s.* (Al. *urochs, aürochs*) math o fual, neu ych gwyllt, esgyrn yr hwn a geir mewn graiandir a maranedd.

Aurora, *s.* (Ll.) gwawr, y wawr, y wawrddydd; gwenddydd; gwawren: peneuraidd.

Aurora borealis, } y goleuni gogleddol, y
Lumen boreale, } wawr ogleddol; gogleddwawr, gogleddwawl.

Auroral, *a.* (o *aurora*) gwawrol, gwawraidd, gwawrain; perthynol i'r gogleddwawl.

Aurulent, *a.* (Ll. *aurum*) eurwawr, melynwedd.

Aurum, *s.* (Ll.) aur.

Auscultation, *s.* (Ll. *auscultatio*) gwrandawiad, clustfeiniad, clustandawiad.

Auscultatory, *a.* (o'r Ll. *ausculto*) gwrandawol, andawol, clustandawol, clywiadol.

Auspicate, *v. a.* (Ll. *auspicor*) llwyddiannu, ffoduso; rhagddangos; cychwyn, dechreu.

Auspice, *s.* (*auspicium*) ednarmes, adargoel; dewiniaeth; argoel; nawdd, nodded; llad, ffawd.

Under the auspices—tàn nodded, nawdd, ymgeledd, amddiffyn, awdurdod, *neu* ddylanwad.

Under the auspices of a general—tàn gyfarwyddiad *neu* gyfarwyddyd cadfridog; dàn dywysiad *neu* nawdd cadfridog.

Auspicious, *a.* (o *auspice*) llwyddiannus, hylwydd, ffyniannus, ffyniannol, ffodiog, tyciannus, dedwydd, ffynadwy, hwylus, lladol; hynaws, tirion; yn argoelio yn dda.

Auspiciousness, *s.* (o *auspicious*) llwyddiant, ffyniant, ffawd, ffodiant, ffynedigrwydd; lladoldeb, rhwydd-deb.

Auster, *s.* (Ll.) gwynt y de, deheuwynt, dewynt.

Be it as it may—bid fel y bo; bydded fel y byddo; bydded *neu* boed fel y bo.
Be quiet—paid; bydd lonydd; bydd yn llonydd; saf yn llonydd.
Be he ever so wise, } pe doethaf a fyddai;
If he be ever so wise, } er doethed y byddo; bid mòr ddoeth ag y byddo; boed mòr ddoeth ag y myno; er called y bo.
Though the man's speech be ever so fair—er teced y dywed y dyn.
It happened as well as could be—nis gallasai ddygwydd yn well.
Blessed be his name—bendigedig fo ei enw; bendithier ei enw.
About to be—ar fod, yn nghylch bod.
To be about to be—bod ar fod; bod o gylch bod.
To be called—cael ei alw; bod yn alwedig.
Having been—gwedi *neu* wedi bod.
Being sincere in love—gàn fod yn gywir mewn cariad.
As being yourselves also in the body—megys yn bod eich hunain hefyd yn y corff.
Caiaphas, being high-priest that year—Caiaphas, yr hwn oedd archoffeiriad y flwyddyn hòno; Caiaphas, ac efe yn archoffeiriad y flwyddyn hòno.
He being in torments—ac efe mewn poenau.
Because that thou, being a man—am dy fod di, a thithau yn ddyn.
Who, being in the form of God—yr hwn, ac efe yn ffurf Duw.
The owner thereof not being with it—heb fod ei berchenog gydag ef.
Being content—gàn fod yn foddlawn.
They are the children of God, being the children of the resurrection—plant Duw ydynt, gàn eu bod yn blant yr adgyfodiad.
Even our enemies themselves being judges—a bydded ein gelynion yn farnwyr.
Let us cut them off from being a nation—dyfethwn hwynt fel na byddont yn genedl; dyfethwn hwynt o fod yn genedl.
He removed his mother from being queen—efe a symmudodd ei fam o fod yn freniines.
Shame being lost, all virtue is lost—yn ol colli *neu* pan gollir cywilydd, collir pob rhinwedd; coll cywilydd, coll rhinwedd.
To keep a thing from being done—cadw peth rhag cael ei wneuthur; rhwystro gwneuthur peth.
It was near being done—prin nas gwnaed ef; braidd nas gwnaethpwyd ef; e'i gwnaed o fewn ychydig; gwnaethwyd ef o fewn ychydig.
I am far from being angry with you—yr wyf yn mhell o ddigio wrthych; yr wyf yn mhell o fod yn ddig wrthych; yr wyf yn mhell oddi wrth ddigio wrthych; digio wrthych sy bell oddi wrthyf; yr wyf yn mhell rhag digio wrthych.
The Selector being miscellanies in prose and verse—y Detholydd, sef amrywion rhyddiaithol a phrydyddol.
The chancellor for the time being—y canghellydd à fyddo y pryd hwnw; y canghellor à fyddo yn y dyddiau hyny; y canghellwr à fo yr amser hwnw; y canghellydd à fo yn ei swydd ar hyny o bryd.
Being of one substance with the Father—yn un hanfod â'r Tad.
Man, being in honour, abideth not—dyn mewn anrhydedd nid erys.
It being thus—gàn mai fel hyn y mae; gàn ei bod felly; gàn mai felly y mae yn bod.

Beach, *s.* (R. *bok?*) traeth, (*pl. t.* au, ydd), traethell, beisdon, tywyn, glàn y môr, llafan, gro, engwarth.
Sea-beach—glàn y môr, y feisdon, tywyn y môr, sawd y môr.

Beachy, *a.* (o *beach*) perthynol i'r traeth *neu* y feisdon; traethellog.

Beacon, *s.* (S. *beacen, becen*) pigwn, gwylfa, dysgwylfa, tŵr gwylied; goleudy, gwyldwr; tânfwdwl, coelcerth, certh; alarmdwr.

Beaconage, *s.* (o *beacon*) pigyndoll, pigyndal, treth gwylfa.

Bead, *s.* (S.; Al. *bethe*) glain, gleinron: *pl.* gleiniau, gleinronos, paderau.
Bead-roll—gleinres, rhes paderau, pader-res.
Bead-cuffs—gleindasau.
String of beads, } gleindorch, pader-
Necklace of beads, } gadwen, gleindorch mwnwgl.
String of beads for the arm—gleinfreichrwy.
Adder-beads—gleiniau nadroedd; glain y nadredd, glain neidr, maen glain, maen magl.
Beads-man—paderwr, paderydd, gleiniwr.
Beads-woman—paderes, paderwraig, paderyddes.
Bead-maker—gleinwerthwr, gleinwneuthurwr.
Bead-tree—gleinwydden; *pl.* gleinwydd.
To tell beads, } bod wrth ei bader;
To be at one's beads, } bod ar ei weddi; dweyd ei bader.
Beads of sweat—byrlymau chwys.
Beads on spirit—byrlymau *neu* forwys ar wirod.
Bidding of beads—gleinarchiad, paderarchiad, archiad paderau; annogaeth i weddïo.
He made me a pair of beads consisting of an uneven number—gwnaeth im' anghynnifer baderau.

Beadle, *s.* (S. *bædel, bydel;* Ysp. *bedel*) rhingyll, gwysiwr, gwysiedydd; gostegwr, hoeddiadwr; brysgyllydd.
Beadle of a parish—plwyfwas, rhingyll plwyf.
Beadle of a university—brysgyllwr prifysgol, rhingyll prifysgol.

Beadleship, *s.* (o *beadle*) rhingylliaeth; brysgyllyddiaeth; gwysiadaeth; swydd rhingyll *neu* frysgyllwr; plwywasiaeth.

Beagle, *s.* (Ff. *bigle*) corfytheuad, corhuad, olrhead, (*pl.* olrheaid), corhelgi, huadgi, (*pl.* huadgwn).

Beak, *s.* (Is. a Llyd. *bek;* Ff. *bec;* It. *becco*) pig, gylfin, gylf, gylfant, ysnid; pengarn; duryn; ban, bant, ucheldir.
Beak *or* beak-head of a ship—duryn llong, pen blaen llong.

Beak-ful—pigaid, gylfinaid, llonaid pig.
Beak (in farriery)—pengarn.
The gross beak—y gylfinbraff.
The cross beak—y gylfin-groes.
To snatch with the beak—ysgylfu, ysgylfio; ymaflyd â'r gylfin.
Beak, *v. a.* ymaflyd â'r big; ysgylfio, ysgylfu.
Beaked, *a.* (o *beak*) gylfinog, gylfog; durynog; â phig neu ylfin iddo; pigfain, blaenfain.
Long-beaked—gylfinhir, gylfhir; hirylfinog.
Hook-beaked—gylfin-gam, gylfgam; camylfinog.
Cross-beaked — gylfin-groes, gylfgroes; croesylfinog.
Thick-beaked — gylfinbraff, gylfindew; praffylfinog.
Broad-beaked — piglydan, gylfinlydan, gylfiydan; llydanylfog.
Even-beaked—cyfylfin; gylfin-gyfiol.
Short-beaked — pigfyr, gylfinfyr; byrylfinog.
Beaker, *s.* (Al. *becher*) cwpan, gwydryn, diodlestr.
Beakiron, *s.* (*beak* ac *iron*) pigarn, pighaiarn.
Beal, *s.* (Al. *beule;* It. *bolla;* S. *bile*) penddüyn, llynoryn, ploryn, crugdardd.
Full of beals—llynorog, plorynog, llawn crugynau.
Beal, *v.* llynori, crawnu, gori; codi yn grugdardd neu benddüyn; magu crawn.
Beam, *s.* (S.; Al. *baum;* Gw. *beim*) trawst, tylath, swmer, paladr; saffwn, swdden, swddyn, gweilging, dyrwynlath.
Weaver's beam—carfan gwëydd.
House beam—tylath.
Ridge beam, Upper roof beam, } nenbren, neniar.
Eaves' beam—llogail y bargod; llogail: *pl.* llogeiliau, llogeilwydd y bargod.
Plough beam—arnawdd, arnodd; *pl.* arnoddion, arnoddau.
Share beam of a plough—cŵar aradr.
Lever beam—trostlath.
Beam of a wain—trawst, llath, paladr, *neu* fforch men.
Beam of a wheel—ambren, ambren olwyn.
Beam of an anchor—paladr angor.
Draw-beam, Wind-beam, } tynlath, tyndrawst, trawst dyrwyn, dyrwynlath.
Beam of a balance—trawst clorian.
Beam compass—llathgwmpas.
Beam feathers—hirbluf aden gwalch.
The ship is on her beam ends—y mae'r llong ar y naill ochr; y mae'r llong braidd yn gorwedd ar ei hochr.
Beam tree—cerddinen wyllt.
White beam tree—cerddinen wèn, criafallen wèn.
Horn beam—oestrwydden.
Small beam—trewstyn, gweilging, carfan.
Beam, *s.* (S.) paladr, (*pl.* pelydr, pelydron, pelydrau), pelydryn, rhaidd, llugyn, llygedyn, flaw, hirell.
Sun-beams, Beams of the sun, } pelydr *neu* belydron yr haul; terydr yr haul; pelydr haul.
Compassed with beams—pelydrog, rheiddiog.
Beam, *v.* pelydru, rheiddio, ffloi, rhaiadu, rheio, pleinio, paladu; tywynu, dysgleirio, llewyrchu.

Beaming, *s.* (o *beam*) pelydriad, tywyniad, llewyrchiad, rheiddiad, pleiniad; gwawr, llewyrch; rhagddangosiad.
Beamless, *a.* (o *beam* a *less*) dibelydr, diraidd, didywyn, dilewyrch.
Beamy, *a.* (o *beam*) pelydrog, pelydraidd, pelydrol, rheiddiog; yn saethu allan belydr; braisg; cornosglog, corniog.
Bean, *s.* (S.) ffäen, (*pl.* ffa); ponar.
Kidney beans, French beans, } ffa ffreinig, ffa Ffrengig.
Scarlet beans—ffa cochion.
Buck beans—ffa y gors, ffa cors, meillion y gors.
Common buck beans—ffa y gors teirdalen.
Horse beans—ffa ceffylau.
Bean tree—ffaonwydden; *pl.* ffaonwydd.
Bean trefoil tree—euron, pyswydden.
Binding bean tree—draenen yr Aifft.
Stinking bean trefoil—drewgoed, y ddrewgoed.
Bean-cod—ffagib=llestr pysgota arferedig ar afonydd yn Portugal.
Bean-shells—pliag ffa, codau ffa, cibau ffa, masgl ffa.
To shell beans—masglu ffa, ysbeinio ffa, pilio ffa.
Bean-stalks—callodr ffa, callod ffa, gwellt ffa.
Bean-fly—ffagleren.
Every bean has its black—nid oes neb heb ei fai; nid difai neb a aned.
Bear, *v.* (S. *beran, beran, beoran, byran*) dwyn, dygyd; cludo, cario; cynnal, dàl, dala; arwain, arweddu, arwedd; dyddwyn, dyborthi; goddef, dyoddef; geni; ymarweddu, ymddwyn, ymddwyn ar, ymddygyd; pwyso; caniatäu.
To bear fruit—dwyn ffrwyth, ffrwytho.
To bear arms—dwyn arfau; dwyn arfau bonedd.
To bear with—cyd-ddwyn â; cyd-ddygyd; cydoddef; cydymaros; ymaröi â; ymaros â; goddef gyda; cannwyn.
How long shall I bear with you?—pa hyd y goddefaf chwi?
To bear a child—dwyn plentyn; geni plentyn; dwyn plentyn i'r byd; ymddwyn ar blentyn; esgor ar blentyn.
To bear up—dàl i fyny; cadw i fyny; cynnal; arddala; codi; cadw ar nawf; tynu tuag at; bod yn wrol; bod yn gryf, cadarn, *neu* ddïysgog; cael ei gynnal.
The waters bore up the ark—y dyfroedd a godasant yr arch.
I bear up the pillars of it—myfi sydd yn cynnal ei cholofnau.
In their hands they shall bear thee up—hwy a'th ddygant yn eu dwylaw.
They bear up with them—y maent cyfuwch a hwythau; y maent yn cadw i fyny â hwynt.
To bear up against—dàl yn erbyn; ymgynnal i fyny yn erbyn; ymegnïo *neu* ymorchestu yn erbyn; gwrthsefyll, gwrthladd.
To bear up to—hwylio at; hwylio cerddediad at.
To bear up under a calamity—bod yn dda ei amynedd mewn adfyd; bod yn dda ei oddef mewn blinfyd; ymgynnal yn wrol dan wasgfa *neu* galedi; dàl i fyny dàn flinfyd.

I have made, and I will bear—gwnaethym, arweddaf hefyd.
Every herb bearing seed—pob llysieuyn yn hadu had; pob llysieuyn yn dyborthi had; pob llysieuyn yn dwyn had.
I bore you on eagles' wings—codais chwi ar adenydd eryrod.
He is generous beyond what his estate will bear—y mae ei haelioni yn fwy na'i allu.
Whither do these bear the ephah?—i ba le y mae y rhai hyn yn myned â'r ephah?
Then all the cattle bore speckled—yna yr holl braidd a epilient fanfrithion.
She is past bearing—y mae hi yn rhy hen i blanta; y mae hi dros oedran planta; y mae hi dros oed dwyn plant.
To bear one's self—ymddwyn, ymarweddu, ymarwedd.
To bear the charge of a thing—dwyn traul peth; talu cost peth.
He cannot bear the expense—nid eill ateb i'r gost; nis gall efe ddwyn y draul.
To bear company — canymdöi, canymdeithio, hebrwng; bod yn gyfaill *neu* gyfeilles i; myned gyda.
To bear date—bod wedi ei ddyddio; bod yn ddyddiedig; dwyn dydd *neu* oed.
This letter bears date the twentieth of June—dyddiwyd y llythyr hwn yr ugeinfed o Fehefin; y llythyr hwn a ddyddiwyd *neu* ysgrifenwyd yr ugeinfed o Fehefin; y mae y llythyr hwn wedi ei ddyddio yr ugeinfed o Fehefin.
To bear down — suddo, soddi; myned, cwympo, *neu* ddisgyn i'r gwaelod; gwaelodi, gwaddodi, llorio; gyru yn mlaen; gwasgu i lawr; curo i lawr; dadymchwelyd, dymchwelyd; bwrw *neu* dafu i lawr o'i flaen; nesu *neu* dynu at.
To bear down upon—gwasgu, gwasgu ar; goddiweddyd; hwylio ar warthaf.
To bear hard—gwasgu, pwyso, dirwasgu, gorddwyo; pwyso yn drwm, gwasgu yn drwm; goreilidio.
To bear a part—cymmeryd rhan; bod â rhan ganddo; dwyn rhan.
To bear a part of the burden—cynnal pen [yr iau.
To bear a grudge—dàl gwg, cadw cilwg, cadw llid; dwyn malais; ymarfer o anysgymmod; bod ganddo frŷn.
He bears me a grudge—y mae ganddo frŷn ataf; y mae cilwg rhyngddo a mi.
Herodias bore him a grudge—Herodias a ddaliodd wg iddo.
To bear in mind—cofio; cadw mewn cof; dàl mewn cof; dàl yn nghof.
To bear great affection—dwyn mawr serch; caru o'r galon; gorhoffi, mawr hoffi; hoffi *neu* serchu yn fawr.
To bear good will—ewyllysio yn dda; dwyn ewyllys da.
To bear the loss of a thing—dwyn y golled; sefyll yn y golled; digolledu; gwneuthur colled yn dda; gwneyd i fyny golled; gwneuthur yn dda ryw golled; goddef colled; ymddwyn yn amyneddgar dàn golled; bod yn amyneddgar; bod yn amyneddus dàn golled o beth.
To bear off—cadw draw; dàl draw; attal; bwrw *neu* droi heibio; ymadael, myned ymaith; symmud ymaith; dwyn *neu* gludo ymaith; erddygyd.
To bear a price — dwyn pris; bod yn gwerthu yn uchel *neu* yn dda; bod â gwerth *neu* werthu mawr arno.
They bear a good price — y maent yn gwerthu yn dda; dygant bris da; y maent yn dwyn pris da.
They bear little *or* no price—hwy a werthir dàn draed; gwerthir hwynt tàn draed; gwerthir hwynt am ganu; hwy a werthir am iselbris.
What price bear oxen here?—pa fodd y gwerthir ychain yma?
He bore a great name—dygodd enw mawr; dug enw mawr; yr oedd enw mawr iddo.
To bear pain—dwyn poen, goddef poen.
To bear out—amddiffyn hyd yr eithaf; amddiffyn, amwyn, diffynu, myntumio; dàl yn gadarn; digolledu.
To bear through—cynnal hyd y diwedd; dàl i fyny; dwyn *neu* gynnal trwy; llywio, trefnu.
To bear on—pwyso *neu* wasgu yn erbyn; dwyn yn mlaen; annog, bywiogi; cymhell.
To bear in hand—twyllo; dallu llygaid, bwrw hud.
To bear a hand—brysio, ffullio; bod yn weisgi.
To bring matters to bear—dwyn pethau i ben; dwyn pethau i gael effaith; peri i bethau dycio; cyflawnu.
The land bore south-west from the ship—gorweddai y tir tua'r de-orllewin o'r llong; yr oedd y tir o du y de-orllewin i'r llong; gorweddai y tir i'r de-orllewin i'r llong.
To bear away—dwyn *neu* gludo ymaith; erddygyd, dyddwyn, dyddygyd; newid rhedfa, hynt, *neu* hwylfa.
To bear away the palm—myned â'r gamp; ennill y gamp; ennill y maes; ennill y bel; ennill y fuddugoliaeth; cael yr oruchafiaeth; cael y maes; cael y goreu; dwyn y bel.
To bear in — tynu, rhedeg, *neu* bwyso tuag at.
The ship bears in with the land—y mae y llong yn tynu tuag at y tir.
To bear upon *or* against—pwyso yn erbyn; pwyso ar; gorphwyso ar; dynesu i ruthro *neu* ymosod ar; bod yn barod i gyrchu ar.
To bear upon—gweithredu ar; effeithio ar; pwyso, gorphwys, *neu* orwedd ar; ymorphwys ar; bod â'i bwys ar; dwyn perthynas â; dylanwadu ar.
To bear an office—dwyn swydd; gwasanaethu *neu* wneuthur swydd; bod mewn swydd.
To bear witness, } tystiolaethu, tystio,
To bear record, } dwyn tystiolaeth; bod yn dyst.
To bear proportion to—bod yn cyfateb i; bod â chyssondeb *neu* gymmesurdeb rhyngddo â; bod â chyfartalwch rhyngddo â.
To bear resemblance to—bod yn gyffelyb *neu* debyg i; bod â chyffelybiaeth *neu* debygolrwydd rhyngddo â.
To bear a body—ymunoli; ymgorffoli o baent âg olew.
To bear sway, } arglwyddiaethu, rhwysgo;
To bear rule, } rheoli, meistroli, rhwyfo,

dwyn rhwysg; bod yn arglwydd, arlwydd, *neu* feistr.
To bear respect to—parchu, perchi; bod gàn un barch i.
To bear the blame—cymmeryd y bai; myned dàn y bai; cymmeryd y bai arno.
To bear such a sense—goddef *neu* gynnwys y cyfryw ystyr; cymmeryd y cyfryw ystyr.
The word does not bear that sense—ni oddef y gair yr ystyr hwnw; ni chymmer y gair yr ystyr hwnw; nid oes i'r gair y cyfryw ystyr.
To bear the sense of a thing—bod gàn un deimlad o beth; dwyn *neu* feddu teimlad o beth.
To bear towards a coast—morio, nofio, *neu* hwylio at làn *neu* oror; llongwrio i fàn; tynu tuag at y tir.
Bear-cloth, Bearing-cloth, } llian bedydd.

Bear, *s.* (S. *bera*; Al. *bär*; Is. *beer*) arth, (*c. g.*): *f.* arthes: *pl.* arthod, eirth.
She-bear—arthes, arth fenyw.
He-bear—arth, arth gwryw.
A bear robbed of her whelps—arth *neu* arthes wedi colli ei chenawon.
Little bear, Bear's cub, Bear's whelp, } arthan, arthen, cenaw arth, cenau arth, fel arth.
Bear-dog—arthgi: *f.* arthast: *pl.* arthgwn, artheist.
Bear-baiting—arthlygiad, arthlwg, arthannos.
To bait the bear—arthlygu yr arth, annos yr arth, arthannos.
To growl as a bear—arthal, arthio, arthu; rhuo fel arth.
Like a bear, Bearlike, } arthaidd, fel arth.
Bear-ward, Bear-herd, } arthgeidwad, ceidwad arthod.
Bear-garden—arthfa, arthgadlas; terfysgle.
Bear-berry—mefuswydd yr arth.
Bear's breech—llawdr yr arth, ellddrain.
Bear's foot—crafanc yr arth, troed yr arth, llun troed yr arth, llewyg y llyngyr, bylithr, hylyf.
Bear's ear—clust yr arth, golchwraidd.
Bear's ear sanicle—clust yr arth olcheuraid.
Bear's wort—efyrllys, cron, efwr cyffredin.
Bear's bind—cynghafog fawr, tagwydd, cloffrwym y mwci.
Bear's fly—arthgleren; *pl.* arthgler, arthglyr.
Bear's grease—blawn arth, iraid arth, blonеg arth.
The Bear—yr Arth = enw dau gydser gogleddol.
The Greater Bear, Ursa Major, } yr Arth Fwyaf.
The Lesser Bear, Ursa Minor, } yr Arth Leiaf.
The Great and Little Bear—yr Arth Fawr a'r Arth Fach.
To sell the bear's skin before one has caught him—pysgota o flaen y rhwyd; bwyta llygoden cyn ei dàl; gwerthu cyn meddu.

Bearable, *a.* (o *bear*, *v.*) dygadwy; cludadwy; cynnaladwy, daladwy; arweddadwy.

Beard, *s.* (S.; Is. *baard*; Al. a D. *bart*) barf; còl, cola, còl yd, ydgol; adfach, gaflach, gwrthfach.
Beard of corn—còl yd, barf yd, ydgol.
Beard of an arrow—adfach saeth, gaflach saeth.
Having a long beard—barflaes.
Having a grey beard—barflwyd.
Having a red beard—barfgoch.
Having a white beard—barfwyn.
Having a thick beard—barfdew, tewfarfog.
Having a thick strong beard—barfrwog, rhwog.
Hawk's beard—gwalchlys, llysiau y gwalch.
Goat's beard—barf yr afr.
Yellow goat's beard—barf yr afr felen.
Beard-grass—barf y gwr.
The old man's beard—barf y gwr hen, cudd y coed, dringiedydd.
Jupiter's beard—barf Iau; arianllwyn; bywfyth, byddarlys, dilosg.

Beard, *v.* barfu; tynu y farf; ymaflyd yn y farf; sarhau; sarhau un yn ei wyneb; herio, rhoi hew; tocio.
To beard wool—tocio gwlan; blaendocio *neu* flaengneifio gwlan.

Bearded, *a.* (o *beard*) barfog; coliog; adfachog, gwrthfachog.
Bearded arrow—saeth *neu* bicell adfachog; saeth aflachog, saeth farfog, picell aflog.
Bearded ears—twys coliog.
Bearded grain—grawn coliog, yd coliog, grawn barfog.

Beardless, *a.* (*beard* a *less*) difarf, difarfog, heb farf; moel; mebinaidd, bachgenaidd, ieuanc.

Beardlessness, *s.* (o *beardless*) difarfedd, anfarfedd, anfarfogrwydd.

Bearer, *s.* (o *bear*) dygiedydd, dygiadur, addygydd, addugwr, dygwr; cludwr, cludydd, cariwr; arweddwr, dygiawdr, (*pl.* dygiodron), dygiawdwr, arweddodwr, arweddawdr, (*pl.* arweddodron); cannalydd, cannaliedydd, daliedydd.
Ensign-bearer—llumanwr, banerwr, banierydd.
Armour-bearer—cludydd arfau, macwy, ysweiniad.
He touched the bier, and the bearers stood still—cyffyrddodd â'r elor, a safodd yr arweddodwyr; efe a gyffyrddodd â'r elor, a'r rhai oeddent yn ei dwyn a safasant.
Bearer of a corpse—dygiawdr, arweddwr, *neu* arweddodwr elor *neu* gorff.

Bearing, *s.* (o *bear*) dygiad; arweddiad, ystum, munud, ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, arweddawd; cyfeiriad; perthynas; cyssylltiad; safiad, sefyllfa; goddefiad, ymoddefiad; cludiad; daliad, cynnaliad.
Bearings, Armorial bearings, } arfarwyddion, pais arfau, arfbais, arfau bonedd.
I know him by his bearing—adwaen ef wrth ei arweddiad.
Past bearing—tros amser planta, epilio, *neu* ffrwytho; gwedi myned dros amser ymddwyn ar; hysp, (*f.* hesp).

Bearish, *a.* (o *bear*) arthaidd, arthog, arthol.

Bearlike, *a.* (*bear* a *like*) arthaidd, fel arth.

Bearn, **Bairn**, } *s.* (S. *bearn*) plentyn; maban.

Beast, *s.* (Ll. *bestia*; Is. a D. *beest*; Ff. *bête*) anifel, anifail, mil, milyn, ysgrubl, ysgrubliad; bwystfil; llwdn.
Four-footed beasts—pedryflod.

Wild beast—anifel gwyllt, gwylltfil, bwystfil, gwyddfil, bwystgun, gwyddlwdn, bwystfil coed.
Tame beast—anifel dof, anifail gwâr, gwestfil; anifail llawfaeth.
Beast of prey—bwystgun, ysglyfil, anifel ysglyfus, anifail ysglyfaethus.
Beast of the field—anifel y maes, maesfil.
Gregarious beast—gwysfil, gwysfilyn, anifel gregarus, anifail gregarol.
Huge beast—enfil, anifel mawr, anifel anferth.
Beast of burden—ysgrubl, anifail gwaith, pynfil, llwythfil, byrnfil, pynior.
Beasts of the chase, } helfilod, miledion;
Beasts of venery, } anifeiliaid, *neu* fwystfilod y maes; maesfilod; milod, bwystfilod, *neu* anifeiliaid y maesdir; preiddiawr.
A beast without horns—anifail moel; eidion moel.
A perfect beast—cenfil, anifail trwyadl.
Four-footed beasts—pedwar-carnolion, pedryfilod, pedrybediaid, pedrybedogion.
Man and beast—dyn ac anifel.
The lion is the most fearless of wild beasts—dewraf gwylltfil llew.
You nasty beast!—y llwdn brwnt!
To become a beast—ymanifeilio, mileiddio, bwystfileiddio, myned yn anifel.
Small beasts—mân-ysgrubliaid, ysgrubliaid mân, anifeiliaid mân.
Beastish, } *s.* (o *beast*) anifeilaidd, bwystfilaidd,
Beastlike, } ysgrublaidd; creulawn; fel anifel.
Beastliness, *s.* (o *beastly*) anifeleiddrwydd, anifeligrwydd, bwystfileiddrwydd, bwystni, mileiddrwydd; brynti, budredd, budreddi; ffieidd-dra, aflendid, anmhurdeb; mochyneiddrwydd.
Beastly, *a.* (o *beast*) anifeilaidd, anifelaidd, bwystfilaidd, bwystus, bwyst; ffiaidd, aflan, budr, brwnt, mochynaidd; serthaidd.
Beat, *v.* (S. *beatan*, *gebeotan*) curo, taro, taraw, baeddu, maeddu, dulio, pwyo, ffusto; gorchfygu, gorfod; myned â'r maes; cael *neu* ennill y maes; cael y llaw uchaf; cario ar; briwo, malurio, cymriwo; curo yn fân; pwyo *neu* guro â phwyodr; llachio, wabio, cobio, pwnio, chwatio, cnocio; dyrnu; tori; morthwylio; chwyfio, dygyfor; dychlamu, ysboncio.
To beat down—curo i lawr; bwrw, taro, *neu* daflu i lawr; dinystrio, dystrywio; gwasgu i lawr; iselu, gostwng.
To beat down the price—curo i lawr y pris; gostwng y pris; gostwng y farchnad; masnachu *neu* farchnata yn galed.
Thee also shall God beat down for ever—Duw a'th dery dithau i lawr yn dragywydd.
When thou beatest thine olive tree—pan ysgydwech dy olewydden; pan ysgydwot dy olewydden.
To beat back—gyru, curo, *neu* daro yn ol; gyru i gilio; cilgwthio, gwrthdaro, gwrthguro.
To beat into—gyru *neu* guro i mewn; taflu *neu* ymdaflu i mewn; curo *neu* yru yn; bwrw i mewn; curo *neu* bwyo yn; mynych adrodd yr un peth.
The waves beat into the ship—y tònau a ymdaflasant i'r llong.
They shall beat their swords into ploughshares—hwy a gurant eu cleddyfau yn sychau.
To beat on *or* upon—taro ar; curo ar; rhuthro ar; taro wrth.
The sun beat upon the head of Jonah—yr haul a darawodd ar ben Ionah.
To beat up—rhuthro yn ddisymmwth ar; dyfod ar warthaf yn ddisymmwth; cymeryd yn ngwrth; dàl yn ngwrth; brawychu, aflonyddu, alarmu; curo i fyny.
To beat up and down—rhedeg yn ol ac yn mlaen; rhedeg y ffordd yma a'r ffordd acw; ymredeg, darymred, rhedegain.
To beat the wing—curo, ysgwyd, *neu* chwyfio yr aden; ehedfan, ehedeg; chwareu yr aden.
To beat off—gyru *neu* wthio yn ol; gyru yn ei wrthol; gyru i gilio; gyru ar gil; gyru yn ŵysg cefn; cilgwthio, burthio, gwrthdaro.
To beat the hoof—cerdded, rhodio; myned ar draed.
To beat upon the hoof—myned *neu* gerdded dàn guro ei garnau; carnialu.
To beat to pieces—chwilfriwo, curo yn chwilfriw, dryllio, tori yn gandryll.
To beat soundly—dygaboli; rhoi maeddgen dda.
To beat a drum—curo *neu* bwyo tabwrdd; canu tabwrdd; chwareu tabwrdd; tabyrddu.
To beat an alarm—canu cyrn cychwyn; canu *neu* seinio alarm; canu alarwm; seinio alarm; galw at arfau drwy sain tabwrdd.
To beat against—taro wrth *neu* yn erbyn.
To beat a charge—canu *neu* seinio ymgyrch; rhoi sain gosod; rhoddi cyrch-sain; canu rhuthr; seinio *neu* dabyrddu i ddechreu y gad.
To beat to a parley—tabyrddu i gynnadledd *neu* gyflafaredd; galw allan *neu* wahodd i gynnadl trwy sain tabwrdd.
To beat the brains—curo yr ymenydd; rhoi *neu* osod yr ymenydd ar waith; gorweithio yr ymenydd.
To beat with a cudgel—ffonodio, ffondorio; curo â ffon *neu* glwpa; llachio.
To beat black and blue—cleisio, dugleisio; ffusto yn ddu ac yn las; gwneuthur yn dduglais; rhoi un dàn ei gleisiau.
To beat about—curaw o amgylch; ymdrechu cael; ymdrechu y ffordd hyn a'r ffordd arall.
To beat softly—cnithio, taro yn llaes, gogisio.
To beat the air—curo yr awyr.
To beat out—morthwylio, morthwylio allan; curo *neu* bwyo allan; dyrnu.
They did beat the gold into thin plates—gyrasant yr aur yn ddalenau teneuon.
The watch beats well—yr oriadyr a gur yn gywir; y mae yr oriawr yn tician yn dda.
To beat to death—curo, taro, *neu* faeddu i farwolaeth.
To beat out of countenance—peri gwrido; gorchuddio â gwrid wyneb; peri delwi; peri gwrid yn ngwyneb; cywilyddio.
To beat out the brains—difenyddio; curo yr ymenydd allan, diymenyddio.

My heart beat for joy—llamodd fy nghalon o lawenydd; fy nghalon a ddychlamodd gàn lawenydd.
They kept beating the door—parhasant yn curo *neu* gnocio y drws.
To beat together—cymhwyo, cydbwyo, cydguro.
To beat mutually—ymguro, ymbwyo.

Beat, Beaten, *p. p.* curedig, pwyedig, maeddedig, tarawedig, duliedig, &c.
Beaten gold—aur dilin, aur coeth.
Beaten path—llwybr sathredig, llwybr amsathr.
An old beaten soldier—hen filwr à ymadawodd â'r rhyfel.

Beat, *s.* cur, maedd, dul, pwy, llach, wab; curiad, pwyad, duliad, tarawiad.
Beat of a watch—tic oriawr, cur oriadyr.
Beat of a drum—sain tabwrdd; cur tabwrdd.

Beater, *s.* (o *beat*) curwr, pwywr, maeddwr, baeddwr, llachiwr, &c.; pwyedydd, pwyodr; gorddwyn, gordd balmantu.
Gold beater—eurddalenwr, eurddalenydd, eurdduliwr, pwywr aur; un à yro aur yn ddalenau.

Beath, † *v. a.* (S. *bath*) ymdrochi, baddo.

Beatific, Beatifical, *a.* (Ll. *beatificus*) gwynfydlawn, gwyneithiol, gwynfydol, gwynfydedig; à bair gwbl *neu* gyflawn ddedwyddwch.
Beatific vision—gweledigaeth wynfydlawn.

Beatification, *s.* (Ll. *beatus* a *facio*) gwyneithiad, gwynfydoliant, dedwyddiant, dywyniant; cyflead mewn gwynfyd=dadganiad gwynfydigrwydd un gàn y Pab.

Beatify, *v. a.* (Ll. *beatifico*) gwyneithu, gwynfydoli, dedwyddu, dedwyddoli; cyflëu yn myng y gwynfydedigion yn uhrigfanau dedwyddwch.
Beatified spirits—ysbrydion gwynfydedig; ysbrydion gwynfydlawn.

Beating, *s.* (o *beat*) curiad, pwyad, duliad, maeddiad; maeddgen, curfa; cyweiriad; ffustiad, ffonodiad.
Beating of time—curiad amser, awdguriad.
A beating down—dinystriad, dystrywiad; curiad, bwriad, *neu* darawiad i lawr.
A beating together—cymhwyad, cydbwyad, cydguriad.

Beatitude, *s.* (Ll. *beatitudo*) gwynfyd, gwynfydolrwydd, gwynfydigrwydd, gwynfydedigrwydd, bendigedigrwydd, dedwyddwch, dedwyddyd, llawn wynfyd, eithaf dedwyddusrwydd.

Beau, *pl.* Beaux, *s.* (Ff.) coegyn, ysgoegyn, pertyn, pefryn, dyn dillyn, gwas destlus; cariedyn, cariad.
Beau ideal—manon, tybfanon, gwir degwch dychymygol.
Beau esprit — ffraethebydd, arebydd, ffraetheiriog.
Beau monde—gwychfyd, arfuchedd, defodfyd, y byd dullweddus.

Beauish, *a.* (o *beau*) coegynaidd, coegaidd, ysgoegaidd, coegfalch, pefrynaidd, pefrin, murynaidd.

Beauteous, Beautiful, *a.* (o *beauty*) teg, prydferth, glandeg, glân, prydweddol, hardd, mirain, telediw, eirian, glwys, iesin, cain, dillyn, prydus, deiniol, dain, telaid, berth, tlws, (*f.* tlos), mir, cyfrdelaid, eirioes, pefr, gwymp, arbrydus, prydus; hyfryd.
She was beautiful to look on—glân yr olwg ydoedd hi.
The woman was beautiful—y wraig oedd deg ei gwedd.
Beautiful sound — sain hyfryd, hyfryd sain.
Beautiful voice—hyfrydlais, llais hyfryd.

Beauteousness, Beautifulness, *s.* tegwch, prydferthwch, glendid, harddwch, mireinedd, mireinwch, berthineb, telediwrwydd.

Beautifier, *s.* (o *beautify*) prydferthwr, harddwr, addurnwr, tegychydd, prydferthydd, addurnydd.

Beautify, *v.* (*beauty*, a Ll. *facio*) prydferthu, teghau, tecäu, harddu, addurno, gwychu, gorwychu, tegu, tegychu, mireinio, tlysio, berthu, hoewi, eirianu, ceinioni, eirioni, deinioli.

Beautifying, *s.* (o *beautify*) addurniad, harddiad, trwsiad.

Beauty, *s.* (Ff. *beauté*) tegwch, glendid, prydferthwch, harddwch, ceinder, ceindeb, glwysder, glwysedd, tegid, mireinder, mireinedd, mireindra, mireindod, mireindeb, mireinwch, mireinrwydd, telediwrwydd, berthineb, berthedd, berthyd, tegedd, tegaint, tegder, eirianedd, tlysder; pryd a gwedd; hyfrydwch.
Beauties—ceinion, teleidion, dillynion, prydferthion, tlysion.
Beauties of language—ceinion iaith, dillynion iaith; ceinion ymadrodd; dillynion *neu* deleidion ymadrodd.
Beauties of nature—ceinion anian, prydferthion natur, dillynion notur.
Paragon of beauty—manon.
Perfect beauty—gwir degwch; un landeg odiaeth.
Beauty spot—berthfan; ysmotyn, (*pl.* ysmotiau).
Beauty of face *or* mien—tegwch pryd, glendid gwedd, tegwch gwedd.
Beauty of shape—prydferthwch gosgedd; tegwch, glendid, *neu* brydferthwch gwedd *neu* osgedd.
Beauty of shape and mien—tegwch *neu* lendid pryd a gwedd.
Beauty of air *or* carriage—diwyg da, telediwrwydd.
Beauty of mien, shape, and air—pryd, a gwedd, a diwyg da; pryd, a gosgedd, a thelediwrwydd.
He was a perfect beauty—gwir ddelw tegwch ydoedd; o wadn ei droed hyd ei goryn nid oedd gwrthuni ynddo.
This was a virgin of perfect beauty—morwyn oedd hon o bryd, a gosgedd, a thelediwrwydd; un yn meddu perffaith *neu* wir degwch ydoedd y forwyn hon.
The beauty of eloquence—gloewder, hoewder, hoewedd, dillynder, gwychder, llathreiddrwydd, dysgleirder, trybelidrwydd, *neu* hyfrydwch hyawdledd; tlysni ffraethineb.
The beauty of a place—tirionwch *neu* diriondeb lle; hyfrydwch *neu* serchusrwydd lle; harddwch màn.
Beauty of style — ceinder ieithwedd; harddwch ieithwedd; harddwch *neu* lathreiddrwydd ymadrodd *neu* ysgrifen; dillyn ddull araeth.

In his beauty, In its beauty, yn ei flodau; yn nghanol ei degwch; yn ei degwch.

To lose one's beauty—colli ei flodau, ei wawr, *neu* ei degwch; dihoeni, edwi, gwywo, diflanu, difanu, edwino.
Beauty of holiness—harddwch santeiddrwydd.

Beauty, † *v. a.* addurno, harddu, tecäu.

Beautyless, *a.* (*beauty* a *less*) didegwch, anhardd, anferth.

Beaver, *s.* (S. *befor, biofor;* Ff. *bièvre*) llostlydan; ffrancon: *pl.* llostlydain=math ar anifel amelfenol, nid annhebyg iawn i ddyfrgi: pân *neu* fanflew y llostlydan.
Beaver hat—het lostlydan, het ffrancon, hed ffranconaidd; het o bân y llostlydan.
Beaver of a helmet—barfie penial, crib helm.

Bebleed, † *v. a.* (*be* a *bleed*) gwaedu.

Beblood, } † *v. a.* (*be* a *blood*) gwaedlydio,
Bebloody, } gwaedlydu, gwaedruddo.

Beblot, † *v. a.* (*be* a *blot*) dilëu, diwyno.

Becafico, } *s.* (It.) ffigysor=math o aderyn
Beccafigo, } tebyg i'r eos, ac yn byw ar ffigys.

Becalm, *v. a.* (*be* a *calm*) tawelu, gostegu, llonyddu, llinaru, lleddfu, dystewi, esmwytho, llareiddio; colli yr awel; attal ysgogi.

Becalming, *s.* (o *becalm*) tawelwch; gostegiad; tawelwch ar fôr.

Because, *c.* (S. *be*=by, a *cause*) o herwydd, oherwydd, oblegid, o blegid, o achos, herwydd, o ethryb; canys, am, gàn, càn, rhag, erwydd, gwaith, o waith, yn gymmaint a, o blaid.
Because of—o herwydd, oblegid, o blegid, o achos, o ethryb, am, serch, o ran.
Because that—am mai, o waith, herwydd mai.
Because thou hast done this thing—o herwydd i ti wneuthur y peth hwn; gàn i ti wneuthur hyn o beth; gàn, càn, *neu* am wneuthur ohonot hyn o beth.
Because he is an hireling—am mai gwas cyflog yw.
Because I live—canys byw wyf fi.
Because of these things—oblegid y pethau hyn; o achos y pethau hyn.
It is no use for thee because of that—nid gwiw i ti serch hyny; nid gwiw iti o ran hyny; nid gwiw i ti am *neu* oherwydd hyny.

Beccabunga, *s.* (Al. *bach* a *bunge*) llychlyn y dwr, goferini, rhwyddlwyn.

Bechance, *v. n.* (*be* neu *by* a *chance*) hapio, dygwyddo, dygwydd.

Bechics, *s. pl.* (Gr. *bêchica*) pesycholion, cyfferi rhag y peswch.

Beck,† *s.* (S. *becc;* Al. *bach*) cornant, gofer, rhidys.

Beck, *s.* (S. *beacn*) amnaid, awgrym, munud; awgrymiad, amneidiad.
To be at one's beck—bod wrth amnaid, awgrym, archiad, gorchymyn, ewyllys, *neu* alwad un; bod wrth addug un.
He is at his master's beck—efe a wna y peth à fyno ei feistr; mae efe wrth addug ei feistr.

Beck, *v.* amneidio, awgrymu; gwneyd amnaid *neu* awgrym; rhoddi amnaid; bwrw amnaid; rhoddi awgrym; munudio.

Beckon, *v.* (S. *beacnian*)=*Beck.*
Alexander beckoned with the hand for silence—Alecsander a amneidiodd â'i law am osteg.
He beckoned to them—gwnaeth amnaid iddynt *neu* arnynt.

Beckon, *s.* (S. *beacn*)=*Beck.*

Beclip,† *v. a.* (S. *beclyppan*) cofleidio.

Becloud, *v. a.* (*be* a *cloud*) cymylu, tywyllu, caddugo.

Become, *v. n.* (S. *becuman;* Is. *bekoomen*) dyfod yn, myned yn; dawed yn; dyfod, myned; dygwydd, damweinio; dyfod o; dyfod i fod yn.
What became of him?—beth a ddaeth o hono? pa beth sydd wedi dyfod o hono? beth a ddygwyddodd iddo?
What will become of him?—beth a ddaw o hono?
And the man became a living soul—a'r dyn a aeth yn enaid byw.
The man is become as one of us—y dyn sy megys un o honom ni.
To the Jews I became as a Jew—mi a ymwnaethym i'r Iuddewon megys yn Iuddew.
All things are become new—gwnaethpwyd pob peth yn newydd.
To become incarnate—ymgnawdoli.
To become cruel—creuloni, ymgreuloni.
It has become a proverb—y mae wedi dyfod *neu* fyned yn ddïareb; aeth yn ddïareb.

Become, *v. a.* (S. *be* a *cwceman*) gweddu, bod yn gweddu; gweddu i, bod yn gweddu i; bod yn weddus, addas, cymhwys, addwyn, priodol, *neu* hardd; perthynu, perthyn; bod yn perthyn.
It becomes—e weddai, gweddai, e gyngwedda; mae'n weddus, addas, cymhwys, *neu* addwyn; gweddus, addas, *neu* gymhwys yw.
It becomes a king—addwyn yw i frenin; gweddus *neu* addas yw i frenin.
It becomes not, } anweddus yw; anwedd-
It ill becomes, } aidd yw; anaddas, anaddwyn, anghymhwys, anhardd, *neu* anmhriodol yw; mae'n anweddus *neu* anweddaidd; drwg y gwedda; ni chyngwedda; nid yw addas.
Excellent speech becometh not a fool—anweddaidd yw i ffol ymadrodd rhagorol; nid gweddus i ffol yw ymadrodd rhagorol.
Let your conversation be as it becometh the gospel—ymddygwch yn addas i'r efengyl.
As it became thee—fel yr oedd weddus iti; fel y gweddai iti; fel yr oedd yn gweddu i ti.

Becoming, *a.* (o *become*) gweddus, addas, cymhwys, prydferth, addwyn, hardd, gweddaidd, priodol.

Becoming,† *s.* addurn.

Becomingness, *s.* (o *becoming*) gweddusrwydd, gweddusder, addasrwydd, gweddeidd-dra, gweddeiddrwydd, addwynder, prydferthwch, prydferthedd, prydferthrwydd.

Becripple, *v. a.* (*be* a *cripple*) cloffi, efryddu, gwneyd yn gloff.

Becurl,† *v. a.* (o *curl*) cryohu, crychgudynu.

Bed, *s.* (S. ac Is.; Al. *bett, best*) gwely; gorweddfa, gwâl, gwelyf, gorweddle, gwalas, cysgwal, gwalfa; priodas; haen, gwânaf.
Feather bed—gwely plu, gwely pluf.
Down bed—gwely manblu, gwely manbluf.
Straw bed—gwely gwellt.
Flock bed—gwely casnach, gwely casnod.
Press bed—cistwely, gwely ar wedd dilladgist.

Settle bed—meincwely, gwely ar wedd mainc.
Table bed—byrddwely, bordwely, gwely ar lun talford.
Pallet bed—glwth, gwely bach, glytha.
Folding bed—plygwely, gwely plyg; gwely codi.
Tent bed—tentwely, gwely tent.
Truckle bed, Trundle bed, } gwely tròl, trolwely, trwl.
Turn-up bed—gwely codi.
Bed of state—teyrnwely, rhwysgwely.
Marriage bed—gwely priodas, gwely priodasol.
Bride bed, Bridal bed, } gwely priodas, priod-wely.
Bed of a river—gwely afon; dyfrle; ffos, ceuffos, *neu* gafn afon; gwaelod afon; gwely y dwr.
Bed in a garden—gwely gardd, gwely mewn gardd, garddwely.
To make the bed—taenu *neu* gyweirio y gwely; gwneyd *neu* wneuthur y gwely.
The bed's head—pen gwely; pen y gwely.
The bed's feet—traed gwely; traed y gwely.
Bed's tester—gortho gwely, cysgodlen gwely.
Bed's post—post gwely, colofn gwely.
Bed mattress, Bed mat, } bannas gwely, matras gwely, rhestog gwely, mat gwely.
Bed hangings—crogleni gwely.
Bed curtain—croglen, cylched, cauadlen, rhedlen, tynlen, cylchedlen, cylchlen, *neu* gortyn gwely.
Bed clothes—dillad gwely.
Bed chamber—ystafell wely, gwelystafell, gwelygell, ystafell gwely, cuddigl, hungell, cysgell, gwelyfan, ystafell gysgu.
A gentleman of the king's bed chamber—ystafellydd y brenin; un o ystafellyddion y brenin; teyrn-ystafellydd; gwelygellydd y brenin.
Sick bed—clafwely.
To be sick in bed—gorwedd yn glaf; gorwedd ar ei glafwely; bod yn *neu* ar ei glafwely.
Death bed—gwely angeu, marw-ysgafn, llogwydd.
Bed of sand—tywoden, torlan dywod.
Bed of ease—gwely anwes.
Bed and its furniture, Bed with its appurtenance, } gwely a'i gylchedau.
Bed time—pryd cysgu; pryd myned i'r gwely; pryd *neu* amser gwely.
To go to bed—myned i'r gwely; myned i gysgu; myned i orwedd.
To bed with you—i'r gwely â chwi.
In bed, A-bed, } yn y gwely; mewn gwely.
Child-bed—gwely esgor; esgorfan, gwelyfod; etifeddwely.
A woman in child-bed, A child-bed woman, } gwraig ar *neu* yn ei gwely esgor; gwraig ar ei gwely; gwraig yn ei gwelyfod; gwraig yn gorwedd i mewn; gwraig etifeddog.
To be in child bed—gwelyfodi, gwelyodi; gorwedd i mewn; bod ar wely esgor.
She died in child-bed—bu farw ar *neu* yn ei hetifedd-wely; bu farw ar ei gwely esgor; bu farw ar enedigaeth dyn *neu* un bach.
To be brought to bed—esgor; bod wedi esgor; cael ei hebrwng i'w gwely; bod wedi ei hebrwng i'w gwely; dwyn i'r gwely.
She is brought to bed of a son—hi a esgorodd ar fab; ganwyd iddi fab.
She is now just brought to bed—y mae hi newydd ei hebrwng i'w gwely.
To put to bed—gwelyfu; colwyno; esgor; dwyn i'r byd; rhyddhau; cael ei rhyddhau; rhoi yn y gwely.
To keep one's bed—cadw y gwely; cadw ei wely; cadw ei gwely.
Bed of justice—gorsedd yr eisteddai brenin Ffrainc arni pan yr ai i'r senedd.
To hold a bed of justice—eistedd ar orsedd; cynnal barn.
From board and bed—o fwrdd a gwely; ar ysgariad.
As you have made your bed, so you must lie in it—fel y gwnaethoch y cawl, cymmerwch; fel y gwnaethoch y cawl, yfwch ef.
George, the son of his second bed—Georg, mab ei ail briodas; Georg, ei fab o'i ail briodas.
My beloved has gone to the beds of spices—aeth fy anwylyd i welyau y peraroglau; fy anwylyd a aeth i welyau y perlysiau.

Bed, *v.* gwelyo; gwelya; gwelyfu; cydwelya, cydorwedd; cyttrigo, cydgysgu; gorwedd, gorweddian; gosod, haenu, gwanafu; rhoi mewn gwely; cymmeryd i'r gwely.
Bedabble, *v. a.* (*be* a *dabble*) gwlychu; taenellu.
Bedaff,† *v. a.* (*be* a *daff*) ffylio, ffoli, gwneyd ffwl o un.
Bedagat, *s.* enw llyfrau cyssegredig y Bwdhiaid yn Burmah.
Bedaggle, *v. a.* (*be* a *daggle*) diblo, caglo, caglu, llodro.
Bedare,† *v. a.* (*be* a *dare*) beiddio; herio.
Bedash, *v. a.* (*be* a *dash*) taenellu, ysgeintio, ysgeinio, ysgaenu.
Bedaub, *v. a.* (*be* a *daub*) diwyno, dwyno, dwbio, plastro, edlynu, llytrodi, lluthrodi.
To bedaub with smut—pardduo, duo, gorddu.
To bedaub with dirt—gorchuddio, diwyno, *neu* ddwbio â baw *neu* dom; tomi, llytrodi; plastro â baw *neu* laid.
Bedazzle, *v. a.* (*be* a *dazzle*) teryllu, gorddysgleirio, serenu, llathru, seirianu.
Bedder, Bedetter, } *s.* (o *bed*) maen isaf melin olew.
Bedding, *s.* (o *bed*) gwely a'i gylchedau; defnydd gwely; dillad gwely; gwely.
Bed and bedding—y gwely a'i ddefnydd.
Bedead, *v. a.* (*be* a *dead*) marwhau, marweiddio.
Bedeck, *v. a.* (*be* a *deck*) addurno, trwsio, trwsiadu, prydferthu, gwychu, eirioni, pincio, tacluso.
Bedehouse, *s.* (S. *bead*, a *house*) paderdy, betws; elusendy, ysbytty.
Bedel, *s.* (S. *bœdel*)=*Beadle.*
Bedelry, *s.* (o *bedel*) brysgylliaeth, berllysgiaeth; brysgylldod.
Bedevil, *v. a.* (*be* a *devil*) dyrysu; dinystrio, dystrywio.
Bedew, *v. a.* (*be* a *dew*) gwlitho, gwlychu; taenellu â gwlith.

Bedewer, *s.* (o *bedew*) gwlithwr, gwlithydd, gwlychwr.
Bedewy, *a.* (o *bedew*) gwlithog; llaith gàn wlith.
Bedfellow, *s.* (*bed* a *fellow*) cydwely, (*c. g.*), cywely: *f.* cydwelyes, cywelyes.
Bedight, *v. a.* (*be* a *dight*) gwychu, harddu, addurno, pincio, trwsio; gwisgo, harddwisgo.
Bedim, *v. a.* (*be* a *dim*) dallu, tywyllu, caddugo.
Bedizen, *v. a.* (*be* a *dizen*) addurno, gwychu, trwsiadu.
Bedlam, *s.* (o *Bethlehem*, enw crefydd-dy yn Llundain, yr hwn a dröwyd wedi hyny yn ysbytty lloerigion) bedlem, gwallgofdy, lloerigdy, gorphwyllfa, ynfytty.
Bedlam is the fittest place for her—y bedlem yw y lle cymhwysaf iddi; cymhwysach iddi fod yn y bedlem nag yn rhodio yn rhydd.
Bedlam, Bedlamite, *s.* (o *bedlam*) bedlem, (*pl. t.* od), bedlemydd, bedlemig, lloerig, gorphwyllog, gorphwyllwr; gwallgofwr, dyn gwallgof, gwallgofus, ynfyd, *neu* orphwyllog: *f.* bedlemes, gwallgofes.
Bedlam, *a.* gorphwyllog, gwallgofus, lloerig, bedlemaidd, gwallgof.
Bedmaker, *s.* (*bed* a *maker*) taenydd, taenwr, cyweirydd, *neu* gyweiriwr gwely; taen-wraig gwely, taenyddes gwely.
Bedmate, *s.* (*bed* a *mate*) cydwely, (*c. g.*), cywely: *f.* cydwelyes, cywelyes.
Bedmoulding, *s.* (*bed* a *moulding*) addurndalaith gwely, rhigol gwely, addurn-rigol gwely.
Bedote, † *v. a.* (*be* a *dote*) dotio, dotian, peri dotio.
Bedpost, *s.* (*bed* a *post*) post gwely; *pl.* pyst gwely.
Bedpresser, *s.* (o *bed* a *press*) diogyn, seguryn, musgrellyn, un hoff o'r gwely.
Bedraggle, *v. a.* (*be* a *draggle*) caglo, diblo, llusgo'r llawr, ysdragio, llusgo.
Bedrench, *v. a.* (*be* a *drench*) tochi, trochi, swgio, mwydo, gwlychu.
Bedrid, Bedridden, *a.* (o *bed* a *ride*) gorweiddiog, gorweddog; à wanhawyd drwy anhwyldeb fel nas gallo godi o'r gwely.
Bedrite, *s.* (*bed* a *rite*) braint gwely; rhagorfraint y cyflwr priodasol.
Bedrop, *v. a.* (*be* a *drop*) taenellu, ysgeintio, dosi.
Bedside, *s.* (*bed* a *side*) ochr gwely, erchwyn gwely, ystlys gwely.
Bedstead, *s.* (*bed* a *stead*) erchwyn gwely, carfan gwely, pren gwely.
Bedstraw, *s.* (*bed* a *straw*) gwellt gwely: gwendon, gwenwlydd, briwydd.
White water bedstraw—gwendon, gwenwlydd y gors.
Smooth heath bedstraw—gwenwlydd lefn, briwydd wèn.
Rough marsh bedstraw—gwendon arw y migyn.
Yellow bedstraw—briwydd felen, briger twynau, ceulon, ceulion, llysiau y cywer, cywer y llaeth.
Bedswerver, *s.* (o *bed* a *swerve*) gwelygiliwr; un anffyddlawn i'w wely priodas.
Beduck, *v. a.* (*be a duck*) trochi, soddi, rhoi dàn ddwr.
Bedung, *v. a.* (*be* a *dung*) tomi, teilo; gorchuddio à thom *neu* dail.
Bedust, *v. a.* (*be* a *dust*) llychwino, llychio.
Bedward, *ad.* (*bed* a *ward*) tua'r gwely; at y gwely; tuag at y gwely.
Bedwork, *s.* (*bed* a *work*) hawddwaith, gwaith esmwyth, gwaith gwely.
Bedwarf, *v. a.* (*be* a *dwarf*) cori, rhwystro twf, attal tyfiant.
Bedye, *v. a.* (*be* a *dye*) lliwio, lliwo, ystaenio.
Bee, *s.* (S. *beo*; Is. *bye*; Al. *biene*) gwenynen; *pl.* gwenyn.
Queen bee—cornor, cornor y gwenyn; y freninesa.
Drone bee—begegyr, gwenynen ormes; bychygyr.
Gad bee—cacynen y meirch, (*pl.* cacwn y meirch), clyryn llwyd.
Humble bee—gwenynen wyllt.
Bee glue—glud gwenyn.
Bee eater, Eat bee, gwenynysor, delor y derw, cymmynydd y coed.
Swarm of bees—haid o wenyn.
The first swarm of bees—y gynhaid, y gyntaid, y gynt-haid.
Bee hive—cwch gwenyn, llestr gwenyn, cyff gwenyn, gwenyn lestr, modrydaf, bodrydaf.
Nest of wild bees—bydaf.
To hive bees—cychu gwenyn; llestru *neu* lestro gwenyn.
To drive bees—lladd, mogi, mygu, tori, *neu* dynu gwenyn.
Bee garden—gwenynog, gwenynlle, gardd wenyn.
Bee master—ceidwad gwenyn.
Bees' wax—cwyr gwenyn, cwyr melyn.
Bee flower—caineirian, blodyn y gwenyn.
As busy as a bee—mòr ddiwyd a'r wenynen; cyn ddiwyted a'r wenynen.
Beech, *s.* (S. *bece, boc*; Al. *buche*) ffawydden, pren ffawydd: *pl.* ffawydd, coed ffawydd.
Beech-tree=*Beech*.
Beech-mast—ffrwyth y ffawydd, cnau y ffawydd.
Beech-coal—golosg ffawydd, gologed ffawydd.
Beech-oil—olew ffawydd, olew y ffawydd.
Beech-grove, Grove of beech, ffawyddog, llwyn ffawydd.
Beechen, *a.* (o *beech*) ffawyddaidd, ffawyddain, ffawyddin, o ffawydd.
Beechen vessel—llestr ffawydd, llestr ffawyddin.
Beef, *pl.* Beeves, *s.* (Ff. *beuf, beuf*) eidion, ych; biw.
Beef, *s.* cig eidion, buchgig, bugig.
After beef cometh mustard—cynghawsedd wedi brawd.
Beef steaks—golwythion cig eidion, golwythion buchgig, tafelli cig eidion.
Beef-eater—bugiger, torlas; bugigwr; gosgorddwr y brenin; dyn ffyrf cydnerth.
Salted beef, Powdered beef, cig eidion hallt, buchgig hallt, bugig hallt.
Hung beef—cig eidion sych, cig eidion pen ty.
Roast beef—cig eidion rhost, bugig rhost.
Beef-witted—pendew, penfas, penfeddal, hurt, penbylaidd, synwyrbwl.
Beeld, Bield, † *s.* (S. *behlydan*) nodded, nawdd; noddfa; caban.
Beele, *s.* cyfegydd à arferir gàn fwnwyr.
Beemol, Bemol, *s.* (*b*, a Ll. *mollis*) hanner tôn.
Been, *s.* math ar offeryn cerdd tannau ar arfer yn yr India Ddwyreiniol.
Beer, *s.* (Ff. *biere*; Llyd. *bir, byer, ber*; Is. ac

Al. *bier*) cwrw, cwrwf, heiddlyn, bir, dïod frag; dïod, dïodlyn.
Small beer—dïod fain, chwiblen.
Ale and beer—cwrw a bir; dïod a chwrw.
Beer-house, Beer-shop, } dïotty, tafarndy, cyrfdy.
Beer-barrel—baril gwrw, baril ddïod.
Stale and hard beer—cwrw wedi caledu; cwrw â blas suri arno; cwrw merf.
Dead beer—dïod dreng; dïod wedi marw; cwrw egr diflas; cwrw marw.
Spruce beer—pyrddïod, cwrw pyrwydd.
Table beer—bordlyn, byrddlyn, ail ddïod, dïod ail, dïod y ford.

Beestings, Biestings, } *s. pl.* (S. *bysting, byst;* Is. *biest*) llaeth tor, llaeth mysg, llaeth melyn, llaeth brith, cynlaeth.

Beet, *s.* (Ll. *beta;* Is. *biet;* Al. *beete*) betysen, (*pl.* betys), melged.
Sea beet—melged arfor, betysen y môr.
White beet—melged wèn, betysen wèn.
Red beet—melged goch, betysen goch.
Beet-root—gwraidd melged, gwraidd betys, melged-wraidd, pid-wraidd.
Beet-rave, Beet-radish, } pidruddygl, pidheddig, bet-ys-ruddygl.

Beetle, *s.* (S. *betel*) chwilen, chwil: *pl.* chwilod.
Black beetle—chwilen ddu.
Long black beetle—gysp, chwilen ddu hir.
Great horned beetle—chwilen gorniog.
Elephant beetle—cawrchwilen, cawrchwil.
Dung beetle—chwilen y dom, tomchwilen, chwil y dom, chwilen wyllt.
Dorr beetle—chwilen y baw.
As blind as a beetle—mòr ddall a'r wadd; mòr ddall a'r wàl; heb weled mwy na'r wàl; heb weled trem *neu* dremyn; heb weled golwg ar y byd.

Beetle, *s.* (S. *bitl, bytl*) gordd, gorddwyn, pwysodr, pwyodr.
Pavier's beetle—pwysodr, pwyodr, gordd balmantu.
Small beetle—gorddan, gordd fechan.
Bucking beetle—golchbren, golchffon.
Beetle-stock—coes gordd.
Beetle-brow—cuch, cuwch, cuchiog ael, crogael.
Beetle-browed—cuchiog, cuwchiog, aeliog, banaeliog, aelfawr; sarig.
Beetle-head—hurthgen, llelo, penbwl, hurtyn, pendew, llob, cuall.
Beetle-headed—penbylaidd, penglogaidd, penwan, hurt, pwl, disynwyr.
Beetle-stones—chwilfain, chwilfeini.

Beetle, *v. n.* ysgwyddo, ysgythu, ysgwyddo allan, gorysgwyddo; crogi *neu* hongian allan; sefyll, pwyso, ymdaflu, *neu* estyn allan *neu* yn mlaen.

Beeves, *s. pl.* (o *beef*) eidionau; da duon, buch, biw, da cyrnig.
Threescore and twelve thousand beeves—deuddeg a thrigain mil o eidionau (*Num.* xxxi. 33).

Befall, *v.* (*be* a *fall*) dygwydd, dygwyddo, damweinio, hapio; dyfod; darfod i; tycio.
There shall no evil befall thee—ni ddygwydd i ti niwed; ni ddaw niwed i ti.
That which befalleth the sons of men befalleth beasts—dygwydd meibion dynion a ddygwydd i'r anifeiliaid.
It befell—dygwyddodd, e ddygwyddodd; damweiniodd; deryw, darfu; bu.

Befalling, *s.* (o *befall*) dygwyddiad; damwaen, dygwydd.

Befit, *v. a.* (*be* a *fit*) gweddu, sutio, addasu; bod yn gweddu; bod yn weddus, addas, *neu* gymhwys; cyngweddu, ymweddu.

Befitting, *a.* (o *be* a *fit*) gweddus, gweddaidd, cymhwys, addas, sutiol, tymmoraidd, cyfaddas; yn gweddu, yn cyngweddu.

Befoam, *v. a.* (*be* a *foam*) ewynu; gorchuddio âg ewyn.

Befool, *v. a.* (*be* a *fool*) gwatwar, gwawdio; ynfydu, gorphwyllo; twyllo; ffylio; ffoli; gyru yn ynfyd.
Men befool themselves—y mae dynion yn twyllo *neu* ffylio eu hunain; dynion a wnant ffyliaid o honynt eu hunain.
You befool me now—yr ydych yn awr yn fy ngwatwar; yr ydych yn awr yn chwerthin am fy mhen; yr ydych yn awr yn gwneuthur gwawd o honof.

Before, *prep.* (*be* a *fore;* S. *before, beforan*) o flaen, rhag, cyn, yn mlaen; gwydderbyn, ger bron, ger, ger gŵydd, ger wyneb, rhag, yn ngŵydd; rhag-, blaen-.
Before me—o'm blaen, rhagof, rhagddof, rhagddwyf, rhagwyf; o fy mlaen, ger fy mron.
Before thee—o'th flaen, rhagot, rhagddot; o dy flaen, ger dy fron.
Before him, Before it, } o'i flaen, rhagddo, rhago; ger ei fron.
Before her—o'i blaen, rhagddi, rhagi; ger ei bron.
Before us—o'n blaen, rhagom, rhagddom; ger ein bron.
Before you—o'ch blaen, rhagoch, rhagddoch; ger eich bron.
Before them—o'u blaen, rhagddynt, rhagynt; ger eu bron; gwydderbyn â hwynt.
From before thee—oddi ger dy fron; o ger dy fron; o dy rag; o rhagot.
I will go before you—af rhagoch; af o'ch blaen.
Before his face—o flaen ei wyneb; ger bron ei wyneb; ger ei fron; yn ei wyneb.
Before the house—o flaen y ty; cyferbyn *neu* gwydderbyn â'r ty; rhag y ty.
The house before him—y ty rhagddo; y ty o'i flaen; y ty cyferbyn âg ef.
Before the beginning of the world—cyn dechreuad y byd, cyn dechreu y byd.
Endeavour to come before winter—cais ddyfod cyn y gauaf.
My sighing cometh before my meat—o flaen fy mwyd y daw fy uchenaid.
Before all things—cyn pob peth; yn mlaen pob peth; o flaen pob peth.
Before the wind—o flaen y gwynt; gyda'r gwynt.
There was no day like that before it—ni bu y fath ddïwrnod a hwnw o'i flaen.
They are before my face—y maent ger bron fy wyneb; y maent ger fy ngwyneb; maent ger fy mron.
Them that sin rebuke before all—y rhai sydd yn pechu, cerydda yn ngŵydd pawb.
I reprimanded him before them all—mi a'i ceryddais ef yn eu gŵydd *neu* ger eu bron hwynt oll.
He ran before the multitude—rhedodd o flaen y dorf; rhagredodd *neu* rhagflaenodd y dyrfa; blaenodd ar y lluaws.

Before I was afflicted—cyn fy nghystuddio; cyn i mi gael fy nghystuddio; cyn cael o honof fy nghystuddio.
To go before—blaenu, myned o flaen, rhagflaenu, rhagu.
He knew my meaning before I spoke—deallodd fy meddwl cyn llefaru o honof; deallodd fy meddwl cyn imi lefaru; deallodd fy meddwl cyn nag y llefarais.
Every thing was finished before he came—gorphenasid pob peth cyn ei ddyfod; gorphenasid pob peth cyn dyfod o hono; yr oedd pob peth wedi ei orphen cyn ei ddyfodiad.
Before Abraham was, I am — cyn bod Abraham, yr wyf fi.
Before this time, } cyn hyn; cyn y pryd
Before now, } hwn *neu* hyn; cyn yn awr; cyn heddyw; cyn no hyn.
Before that time, } cyn hyny; cyn y pryd
Before then, } hwnw *neu* hyny; cyn no hyny; cyn na hyny.
Before, *ad.* cynt, gynt, o'r blaen, yn mlaen; cyn, cynt na, cyn na, cyn nag; cynt no *neu* nog.
The days that were before shall be lost—aed y dyddiau cyntaf yn ofer.
As before—megys cynt, megys gynt; fel cynt, fel o'r blaen; megys o'r blaen.
I told you before—rhagddywedais i chwi; dywedais i chwi o'r blaen; dywedais wrthych yn mlaen llaw.
You knew these things before—rhagwyddech y pethau hyn; gwyddech y pethau hyn o'r blaen.
Thou hast beset me behind and before—amgylchynaist fi yn ol ac yn mlaen.
They were full of eyes before and behind—yr oeddent yn llawn llygaid o'r tu blaen ac o'r tu ol.
The battle was before and behind—yr oedd rhyfel yn mlaen ac yn ol.
They smote them before and behind—hwy a'u tarawsant yn ngwyneb ac yn nghefn.
Neither before nor since—na chynt nac wedi; na chynt na gwedi.
Before and after—cyn a gwedi; cynt ac wedi; gynt a gwedi.
To be before—bod o flaen; rhagori ar; blaenori ar; bod yn well nag.
To get before—myned o flaen; cael *neu* ennill y blaen; blaenu, blaenu ar; gadael ar ol; achub blaen.
To set before—gosod *neu* ddodi o flaen; cyfrif yn well na; parchu yn well na.
Beforecited, *a.* (*before* a *cite*) crybwylledig, rhagddyfynedig; a ddyfynwyd o'r blaen; rhagenwedig.
Beforehand, *ad.* ac *a.* (*before* a *hand*) yn mlaen llaw, yn mlaenllaw; o'r blaen; rhag-.
Take no thought beforehand—na ragofalwch.
Some men's sins are open beforehand—pechodau rhyw ddynion sydd amlwg o'r blaen.
To be beforehand with one—rhagflaenu un; achub *neu* gael y blaen ar un; bod yn mlaen llaw gydag un.
To be beforehand in the world—bod yn mlaen llaw a'r byd; bod yn mlaen llaw yn y byd; bod yn ddiwall, digonol, *neu* gyfoethog; bod a'r trechaf ganddo ar y byd.
To pay beforehand—talu yn mlaen llaw; talu yn mlaen; rhagdalu.
Beforementioned, *a.* (*before* a *mention*) crybwylledig, rhagddywededig, rhagenwedig; a grybwyllwyd o'r blaen; rhag-grybwylledig.
Beforetime,† *ad.* (*before* a *time*) cynt, gynt, o'r blaen (1 *Sam.* ix. 9; *Ios.* xx. 5).
Befortune, *v. a.* (*be* a *fortune*) dygwydd, damweinio, hapio; dygwydd i.
Befoul, *v. a.* (*be* a *foul*) diwyno, budru, anurddo; llytrodi, bryntäu, lluthrodi.
Befreckle,† *v. a.* (*be* a *freckle*) brychu, brithliwo.
Befriend, *v. a.* (*be* a *friend*) gwneuthur cymmwynas; cymmwynasu, gwneyd rhan cyfaill; dangos caredigrwydd; pleidio, cynnorthwyo, llesoli, cedu.
Befringe, *v. a.* (*be* a *fringe*) sideru, amaerwyo; addurno a sider, rhidens, *neu* amaerwy.
Beg, } *s.* (Tyrc. *begh*, *bek*) llywydd tref neu wlad
Bey, } yn mysg y Tyrciaid: yn Tunis, y Bey neu Beg yw y brenin.
Beg, *v.* (Al. *begehren*; D. *begiærer*; Is. *begæren*) erfyn, deisyf, deisyfu, erfynied, erfynio, crefu, atolygu, ymbil am, ymbil, crëu; gofyn, ceisio, dymuno, damuno, erchi; cardota, ceinioca; gofyn cardod *neu* elusen; gofyn *neu* geisio peth yn gardod; cymmeryd yn ganiataol.
To beg the question—haeru cyn profi; haeru, taeru, hòni.
To beg in a round-about way—pedu.
To beg humbly *or* earnestly — atolygu, atolwg, adolwyn; ymbil âg *neu* am; ymhŵedd ar; ioli; ufydd atolygu; atolygu yn ufydd; atolygu yn ostyngedig; adolwyn er mwyn Duw; ymbil ar liniau; taer grefu, crefu.
To beg I am ashamed—cardota sy gywilyddus genyf.
She came to beg a kindness of him—hi a ddaeth i ofyn cymmwynas ganddo.
She was begging something of him—yr oedd hi yn deisyf rhywbeth ganddo.
I beg your pardon—erfyniaf eich nawdd; esgusodwch fi; deisyfaf eich maddeuant; maddeuwch i mi.
Let me beg it of you—gadëwch i mi ymbil â chwi; gadwch i mi ymbil arnoch; gadëwch imi dycio gyda chwi; gadwch i mi ymhŵedd arnoch.
I beg of you—erfyniaf arnoch; yr wyf yn erfyn *neu* yn deisyf arnoch; atolygaf i chwi.
Begall,† *v. a.* (*be* a *gall*) dolurio, ysbelwi, llygru; digio.
Beget, *v. a.* (S. *begetan*) cenedlu; epilio, hilio, essillio; ennill plant, ennill epil; rhialu; magu; deillio, dwyn allan; peri, peru, cynnyrchu.
To beget children—ennill plant.
He begat sons and daughters—efe a genedlodd feibion a merched.
Luxury begets vice—gloddest a bair ddrygioni.
To beget again—adgenedlu.
Bad air begets diseases—drygawr a fag glefydau; awyr afiach a genedla glefydau; o awyr afiach y deillia clefydau.
Begetter, *s.* (o *beget*) cenedlwr, cenedlor, tad, epiliwr, hiliwr; magwr; parwr.
Beggar, *s.* (o *beg*) cardotyn, (*f.* cardoten), cardotwr, (*f.* cardotwraig), cardotai, (*c. g.*), rheidusyn, (*f.* rheidusen), rheidusddyn; cref-

wr; honwr, taerwr: *pl.* cardotiaid, cardoteion, rheidusion, angenogion, cardotwyr.
An importunate beggar—clipan; cardotyn haerllug.
Beggar-woman, } cardoten, cardotes,
Beggar-maid, } rheidusen, cardotwraig, cardotferch, cardotai, angenog, angenoges.
Beggars' bush—llwyn cardoteion, llwyn rheidusion, llwyn cardotwyr, cyfarfodle cardotiaid.
Beggar-man=*Beggar*.
Set a beggar on horseback, and he will ride to the devil—nid trawsfalch ond tlawd à ddyrchafwyd.

Beggar, *s. a.* tlodi, llymhau, rheiduso; gwneuthur yn dlawd; dwyn i dlodi; dysbyddu, amddifadu.

Beggarliness, *s.* (o *beggarly*) rheidusrwydd, rheidusni, angenogrwydd, tlodi, gordlodi; cardoteiaeth; crintachrwydd, gwaelder.

Beggarly, *a.* (o *beggar*) rheidus, tlawd, angenog, angenus, llymrig; cardotynaidd; gwael, distadl, bawaidd.
Weak and beggarly elements—egwyddorion lleag a thlodion.
Beggarly fellow—bawai, cardotwas, adill; mab y crinwas.
Beggarly wretch — cardotyn gwael *neu* druan; adyn tlawd; truan gwael.

Beggary, *s.* (o *beggar*) tlodi, eisieu, angen; angenoctyd, angenusrwydd, rheidusni, rheidusedd; cardoteiaeth, cardotyniaeth; crwydri.

Begging, *s.* (o *beg*) cardota.
Begging is sweet in the mouth of the shameless—melus yw cardota yn ngeneu y digywilydd.
He lives by begging—ar gardota y mae yn byw; y mae yn byw wrth gardota.
The begging trade—celfyddyd cardota; cardotyniaeth.
To go a begging—myned i gardota.

Begilt, *a.* (*be a gilt*) euredig, goreuredig, eurdde.

Begin, *v.* (S. *beginnan*) dechreu, dechre; cychwyn, cychwynu, codi.
To begin anew, } ymadnewyddu; dechreu
To begin afresh, } *neu* ymddechreuo newydd.
This mischief begins afresh—y mae yr echrys hwn yn ymadnewyddu.
Since the world began—er dechreuad y byd; er dechreu y byd.
Charity begins at home—nesaf i bawb eu nesaf; nes elin nag arddwrn; nes imi fy nghrys na'm pais; nid hael ond hael gartref.
I intend to begin my journey to-morrow—bwriadaf ddechreu fy nhaith efory; yr wyf yn bwriadu cychwyn i'm taith fory; y mae yn fy mryd gychwyn fy nhaith efory.
The day begins to break—y mae yn dyddhau; mae yn dyddio; y mae yn dechreu dyddhau *neu* ddyddio; mae y wawr yn tori; mae hi yn rhacio y wawr.
When the year begins — yn nechreu y flwyddyn; pan ddechreuo y flwyddyn; pan ddechreua *neu* pan ddechry y flwyddyn.
To begin the world—dechreu byd; cymeryd galwad *neu* gelfyddyd; cymeryd ffordd o fywyd mewn llaw; dechreu byw.
Well begun is half done—deuparth gwaith ei ddechreu.
To begin to march — cychwyn, dechreu cychwyn; dechreu trodio.

Beginner, *s.* (o *begin*) dechreuwr, dechreuydd, cychwynwr; awdwr; dysgadur.
New beginner—newyddian.

Beginning, *s.* (o *begin*) dechreuad, dechreu, dechre, dechread; cychwyniad, cychwynfa; pen.
This was the beginning of my misfortunes—dyma ddechreu fy anffodion; o'r ffynnonell hon y tarddodd fy holl aflwydd.
Before the beginning of the world—cyn dechreuad y byd; cyn dechreu y byd; cyn bod y byd.

Beginningless, *a.* (*beginning* a *less*) diddechreu.

Begird, *v. a.* (*be* a *gird*) gwregysu, amwregysu; cylchynu, amgylchu, amgylchynu; gwarchau; ymwregysu â.

Beglerbeg, *s.* (Tyrc.) prif raglaw talaeth yn yr amherodraeth Dyrcaidd.

Beglerbeglik, *s.* talaeth y Beglerbeg, Beglerbeglic.

Begloom, *v. a.* (*be* a *gloom*)) caddugo, tywyllu.

Begnaw, *v. a.* (*be* a *gnaw*) cnoi, deintio; ysu, treulio, difa.

Begod, *v. a.* (*be* a *god*) duwio, dwyfoli.

Begone, *in.* (*be* a *gone*) ffwrdd! ymaith! hwnt! ymaith â thi! cerdd i gerdded! ffei!

Begot, } *p. p.* (o *beget*) cenedledig, wedi ei
Begotten, } genedlu, à genedlwyd.
Only-begotten—unig-anedig, unig-genedledig, unigenid; un mab tad a mam.
The only-begotten Son of the Father—unig-anedig Fab y Tad.
First-begotten — cyntaf-anedig, cynt-anedig, cynenid; cynfab; cyntaf genedledig.

Begrave,† *v. a.* (*be* a *grave*) claddu, rhoi mewn bedd; cerfio.

Begrease, *v. a.* (*be* a *grease*) seimio, ireidio, iro â saim, iro.

Begrime, *v. a.* (*be* a *grime*) pardduo, duo, gordduo; gorchuddio â pharddu; diwyno, anurddo, bryntau.

Begrudge, *v. a.* (*be* a *grudge*) grwgnach, grymial; cenfigenu; gwarafun.

Beguile, *v. a.* (*be* a *guile*) twyllo, hudo, llithio; somi, siomi, seithugio; difyru, hudfoddio, cyfrwysddenu.
To beguile the time, } difyru yr amser.
To beguile the hour, }
The serpent beguiled me — y sarff a'm twyllodd.
Beguiling unstable souls—yn llithio eneidiau anwadal.

Beguiler, *s.* (o *beguile*) twyllwr, hudwr, denydd, somwr, seithugwr.

Begum, } *s.* tywysoges neu bendefiges, yn
Bigum, } Hindwstan a manau ereill o'r
Begawm, } Ddwyreiniol India.

Behalf, *s.* (S. *behefe*; Al. *behuf*; Is. *behoef*) plaid, rhan, achos, plegid, parthed, tu.
In my behalf—o'm plaid, o'm plegid, o'm parthed; o'm plaid *neu* o'm plegid i; drosof; ar fy rhan; o'm tu.
In behalf of—dros, o blaid, o blegid, ar ran, o du, ar du, er.
He pleaded in behalf of the prisoner—dadleuodd dros y carcharor; dadleuodd o

blaid, yn mhlaid, o du, *neu* ar ran y carcharor.
I have yet to speak on God's behalf—mae genyf ymadroddion eto dros Dduw.
In the behalf of Christ—er Crist; dros Grist; o du *neu* o blaid Crist.
Let him glorify God on this behalf—gogonedded Dduw yn hyn o ran.
In his own behalf—drosto ei hun; ar ei ran ei hun.

Behappen, *v. n.* (*be* a *happen*) dygwyddo, dygwydd; hapio.

Behave, *v.* (*be* a *have*; S. *gehabban*, *behabban*) ymddwyn, ymarweddu, ymarwedd; arweddu.
To behave one's self—ymddwyn, ymarweddu, ymarwedd, dwyn ei hun, ymagweddu.
How we have behaved ourselves among you—pa fodd yr ymddygasom yn eich mysg chwi.
We behaved ourselves not disorderly among you—ni buom afreolus yn eich plith chwi.
To behave valiantly—ymddwyn yn wrol; bod yn wrol; ymwroli.
To behave proudly—ymfalchïo; bod *neu* ymddwyn yn falch; ymfawrygu.
To behave unseemly — ymddwyn yn anweddaidd; gwneuthur yn anweddus.
To behave wisely — ymddwyn yn gall; ymddwyn yn ddoeth; bod yn ddeallus.
Well behaved—moesog, moesol, moesgar, moddus, gweddus, gweddaidd; da ei foes; da ei ymddygiad.
Ill behaved — anfoesog, anfoesol, drygfoesog; drwg ei foes; mawr ei anfoes.
They behaved themselves ill in their doings—buant ddrwg yn eu gweithredoedd; drwg fuant yn eu gweithredoedd.

Behaviour, *s.* (o *behave*) ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, moes.
Good behaviour — ymddygiad da, ymarweddiad da, gwiwfoes.
Decent behaviour—ymddygiad gweddus, ymarweddiad gweddaidd.
To be upon one's behaviour, } bod mewn
To be on one's good behaviour, } sefyllfa o brawf; bod ar brawf; bod ar ymddygiad da.
Bad behaviour—ymddygiad drwg, ymarweddiad drwg, drygfoes.

Behead, *v. a.* (*be* a *head*) dibenu, tori pen, torfynyglu; lladd pen; cymmeryd y pen oddi ar y corff.

Beheading, *s.* (o *behead*) dibeniad, torfynygliad, toriad pen, pendoriad; lladdiad pen oddi ar y corff.

Behemoth, *s.* (H.) anifail à grybwyllir yn llyfr Iob (xi. 15), a thybir mai yr afon farch a olygir.

Behen, } *s.* enw llysieuyn.
Ben, }
Red behen—llemyg, llafant y môr.

Behest, *s.* (*be*, a S. *hæse*) gorchymyn, archiad, arch.

Behight, † *v. a.* (S. *behetan*) addaw; ymddiried; galw, enwi; gorchymyn; dyfarnu; anerch; hysbysu; meddwl; cyfrif.

Behind, *prep.* ac *ad.* (S. *behindan*) yn ol, ar ol, o'r ol, y tu ol, o'r tu ol, y tu cefn, o'r tu cefn, tu hwnt, gwrthol, trach.
Get thee behind me—dos yn fy ol i.
They came behind them—daethant o'u hol hwynt.
Behind the back—trach y cefn; tu ol i'r cefn.
Behind one's back—yn absen un; trach cefn un; yn nghefn un; hwnt i gefn un.
She looked behind her—hi a edrychodd drach ei chefn.
They cast thy law behind their backs—taflasant dy gyfraith o'r tu ol i'w cefn.
I left my money behind—gadawais fy arian ar ol.
There shall not a hoof be left behind—ni adewir ewin yn ol; ni thrig ewin yn ol.
He cometh not behind any—y mae efe gyda'r blaenaf; nid yw efe yn ol i neb.
I will come behind—mi a ganlynaf; deuaf ar ol.
He will be the same before your face and behind your back—yn eich gŵydd ac yn eich absen, yr un a fydd efe; yr un a fydd efe yn ngŵydd ac yn absen.
To be behind one in point of learning—bod yn ol i arall mewn dysg; bod yn llai nag un arall o ran dysg.
To ride behind—ysgilio; marchogaeth wrth ysgil.
She rode behind him—hi a farchogodd yn *neu* wrth ei ysgil ef; marchogodd is ei gil; marchogodd y tu ol iddo.
He took her behind him—ysgiliodd hi; cymmerodd hi wrth ei ysgil; efe a'i cymmerodd hi is ei gil.
Behind the door—yn ysgil y drws; is cil y drws; wrth ysgil y drws; tu cefn i'r drws.

Behindhand, *a.* ac *ad.* (*behind* a *hand*) yn ol llaw; ar ol.
He is behindhand in the world—y mae efe yn ol yn y byd; y mae efe yn ol llaw â'r byd.
He is behindhand in his business—mae efe mewn dyled i'w orchwyl; y mae efe yn ol â'i orchwyl; mae yn ol llaw yn ei alwad.

Behold, *v.* (S. *behealdan*, *beheoldan*) edrych, gweled, canfod, tremu, tremio, golygu, ardremu, ardremio, syllu, craffu; craffu ar; ceinio.
Behold here—llyma; dyma; wele dyma; wel dyma; wele yma.
Behold there—llyna; dyna; wele dyna; wel dyna; wel dacw; dacw, llacw, wele acw.
To behold earnestly *or* steadfastly—darsyllu, selu, synio, dàl sylw; dyfal *neu* graff edrych ar; edrych yn graff.
He beheld them earnestly—syllodd arnynt; edrychodd yn graff arnynt.
Behold thou yonder—sylla draw; edrych acw; sylla raco; gwel acw.
Behold your king—wele eich brenin.

Behold, *in.* wele! wela! nycha! enycha! wel!

Beholden, *a.* (o *behold*) rhwymedig; dàn rwymau; dàn ddyled.
We are greatly beholden to them—mae arnom fawr ddyled *neu* rwymau iddynt hwy.

Beholder, *s.* (o *behold*) gweladur, edrychydd, edrychwr; gweledwr, gwelwr, syllwr, selwr, canfyddwr.

Beholdingness, † *s.* (o *behold*) rhwymedigrwydd.

Behoney, *v. a.* (*be* a *honey*) melusu â mel; melusu, melysu.

Behoof, *s.* (S. *behofian*) budd, lles, mantais, mael, elw.

Behoovable, *a.* (o *behoove*) llesol, buddiol, manteisiol; rheidiol, angenrheidiol, gofynol, dir, gweddus.

Behoove, } *v. a.* (S. *behofian*) gweddu; bod yn
Behove, } weddus, cymhwys, *neu* addas; bod yn rhaid; bod yn rheidiol; llesoli.
It behooves, } dylai, e ddylai, fe ddylai;
It behoves, } mae yn rhaid; mae yn ddir; mae yn gofyn; rhaid yw; dir yw; e ddawr; e berthyn; mae yn gymhwys, addas, *neu* weddus; gweddus, addas, *neu* gymhwys ydyw; gweddai, e weddai; mae yn gweddu; mae yn fuddiol *neu* lesol; buddiol *neu* lesol yw; e dâl.
It behooves us—dylem; ni a ddylem; mae yn ddyled arnom; rhaid i ni; y mae yn rhaid ini; mae yn gofyn ini.
Thus it behoved Christ to suffer—felly yr oedd raid i Grist ddyoddef.
Wherefore it behoved him to be made like unto his brethren—am ba achos y dylai efe fod yn gyffelyb i'w frodyr.

Behooveful, *a.* (*behoove* a *full*) rheidiol, angenrheidiol; buddiol, llesol, buddfawr; gofynol.

Behove, } *v. a.* = { *Behoove.*
Behoove, } { *Behove.*

Being, *s.* (o *be*) bod, hanfod; en; bodolaeth, bodoliaeth, bodiad.
The supreme Being—y Bod goruchaf.
Heavenly beings—nefolion, bodau nefol.
Finite being—bod meidrol, hanfod terfynol.
Earthly beings — daiarolion, daiarblant, bodau daiarol.
Mortal beings—marwolion, bodau marwol.
Before we were in being—cyn ein bod; cyn ein geni.
In him we have our being—ynddo ef yr ydym ni yn bod.
I will sing to my God while I have my being—canaf i'm Duw tra byddwyf.

Being, † *c.* gàn, cân, cyd; yn gymmaint a *neu* ag; o herwydd.

Bejade, † *v. a.* (*be* a *jade*) peri lludded, blino.

Bejape, † *v. a.* (*be a jape*) chwerthin am ben; gwawdio; twyllo.

Bejesuit, *v. a.* (*be* a *jesuit*) Iesuadu, Iesuaddiddio; egwyddori yn egwyddorion yr Iesuaid.

Bekiss, † *v. a.* (*be* a *kiss*) cusanu; anerch.

Beknave, † *v. a.* (*be* a *knave*) galw yn ddrel, drelio.

Beknow, † *v. a.* (*be* a *know*) cyfaddef, addef.

Belabour, *v. a.* (*be* a *labour*) curo, ffusto, pwmpio, maeddu, tresio.
Thou shalt be belaboured—cei faeddgen; cei dy guro; cei dy dresio.

Belace, *v. a.* (*be* a *lace*) ysnodenu; rhwymo âg ysnoden; curo, ffrewyllio.

Belam, † *v. a.* (*be* a *lamm*) curo, rhoi maeddgen, llachio.

Belamour, † *s.* (Ff. *bel amour*) cariad, cydwedd.

Belamy, } † *s.* (Ff. *bel ami*) cyfaill; cyfaill
Belamie, } gwych.

Belate, *v. a.* (*be* a *late*) hwyrhau; dàl yn ol, rhwystro.

Belated, *a.* (o *be* a *late*) rhy hwyr; diweddar.
To be belated—bod yn rhy hwyr; bod yn rhy ddiweddar.
I was belated — nosasai arnaf; nosodd arnaf; aeth yn rhy hwyr arnaf; aethai yn nos arnaf.

Belatedness, *s.* (o *belate*) diweddarwch, rhyhwyredd.

Belave, † *v. a.* (*be* a *lave*) golchi.

Belay, *v. a.* (*be* a *lay*) gwarchau, gwarchae, cau i fyny; cynllwyn, rhagod; addurno; amgylchu, cuddio; rhwymo, sicrhau, ysblygu.

Belch, *v.* (S. *bealcan*) brytheirio, bytheirio, blytheirio, ysgyfogi, chwydu allan.
They belch out with their mouth—bytheiriant â'u geneu.

Belch, *s.* brythar, blythar, blytheiriad, brytheiriad, bytheiriad, archyth, ysgyfog.

Belching, *s.* (o *belch*) brytheiriad, blytheiriad, bytheiriad, ysgyfogiad.
Given to belching—brytheiriog, bytheiriog; à flytheirio lawer.

Beldam, *s.* (Ff. *belle dame*) gwrach, hen wrach, hen fenyw; gwiddanes.

Beleaguer, *v. a.* (Al. *belagern;* Is. *belegeren*) gwarchau, gwarchae, amgylchu, cylchynu, amgylchynu; gwersyllu yn erbyn; amgylchu â llu.

Beleaguerer, *s.* (o *beleaguer*) gwarcheuwr, gwarchaewr, amgylchynydd.

Beleave, † *v. a.* (*be* a *leave*) gadael, gado, gadaw.

Belee, *v. a.* (*be* a *lee*) gosod yn groes i'r gwynt.

Belemnite, *s.* (Gr. *belemnon*) bysfaen, saethfaen, pensaeth.

Beleper, *v. a.* (*be* a *leper*) peri y gwahanglwyf, gwahanglwyfo.

Belfry, *s.* (Ff. *beffroi*) llofft y gloch, clochdy.

Belial, *s.* (H.) y fall, mallt, march Malen; drygioni.
Sons of Belial—meibion y fall; meibion Belial.

Belibel, *v. a.* (*be* a *libel*) difenwi, goganu, cablu.

Belie, *v. a.* (*be* a *lie*) taflu y celwydd i ddannedd un; dywedyd celwydd; llunio celwydd ar; rhoi'r celwydd ar; celwyddu; ffugio, lledrithio, ffuantu; athrodi, enllibio, goganu.
I am the man whom thou didst belie—myfi ydyw y dyn y cymmeraist ti arnat mai tydi oedd.
They belied those whom they hated—lluniasant *neu* clytiasant gelwyddau ar y rhai hyny à gashäent.

Belief, *s.* (S. *geleaf*, *geleafan*) cred, crediniaeth, coel, ffydd, crededd, coeledd; credo.
False belief—geugred, camgred.
Orthodox belief—uniongred, gwirgred, iawngred.
Worthy of belief—gwiwgred, teilwng o'i gredu, credadwy, teilyngred, gwiwgoel.
Past belief—anghredadwy, anhygoel, anhygred; tu hwnt i gred *neu* grediniaeth.
Implicit belief—llwyrgred, gorgred; crediniaeth hollol *neu* drwyadl.
Faint belief—gogred, gwangred, gosgred, gosgoel; cred *neu* grediniaeth wàn.
True belief—gwirgred, gwirgoel, iawngred, gwir grediniaeth.
Divine belief—dwyfolgred, cred ddwyfol.
Strong belief—crediniaeth gadarn.
The believing world—y byd crediniol, cred.
Such is my belief—y cyfryw yw fy nghred; dyna fy nghred; dyna'm cred; felly mae fy nghred; dyna fel yr wyf yn credu.
I have a belief in him—y mae genyf gred *neu* goel ynddo.
Articles of belief—banau ffydd; erthyglau credo.
It is past my belief—y mae tu hwnt i'm cred i; y mae ef yn anghredadwy i mi; nis gallaf fi ei gredu; y mae yn anhygoel genyf.

Believable, *a.* (o *believe*) credadwy, coeladwy, hygoel, hygred.

Believe, *v.* (S. *geleafan, geleſan, geliefan*) credu, coelio; rhoi coel *neu* ymddiried; ymddiried i *neu* yn; credu i *neu* yn; ffyddio, hyderu.

I believe in God the Father—credaf yn Nuw Dad.

Believe in him—cred ynddo; rho dy goel arno; rho ynddo yth gred.

They believe amiss—rhoddant goel i gelwydd; camgredant.

Who hath believed our report?—pwy a gredodd i'n hymadrodd? pwy a gredodd ein hymadrodd?

It is believed on all hands—credir ef gàn bawb; credir gàn bawb; pawb a'i credant; pob un a'i cred; nid oes dyn nas creda.

If I may be believed—os caf fi fy nghredu; os credir fi; os caffy nghoelio; os coelir fi.

I only made you believe—nid oeddwn i ond cymmeryd arnaf.

Believer, *s.* (o *believe*) credadyn, crediniwr, credwr, credydd, coeliwr, ffyddloniad; un à gredo, un yn credu: *pl.* credinwyr, crediniaid, credwyr, ffyddloniaid, &c.

Belike, *ad.* (*be* a *like*) ysgatfydd, efallai, yn debygol, mae yn debyg, y mae yn debygol.

Belime, *v. a.* (*be* a *lime*) calchu; dwbio *neu* blastro â chalch.

Bell, *s.* (S. *bell, bella, belle*) cloch; *pl.* clych, clychau.

To ring a bell—canu cloch.

A ring of bells—caniad clych, clychseiniad; cynghanedd clych; tyaid o glychau.

Bell-ringer—canwr cloch; canwr clych.

Little bell—clochig, clochan, cloch fach, cloch fechan.

Passing bell—cnul, cnull.

His passing bell goes—mae ei gnul yn canu; cân ei gnull.

Alarm-bell—cloch alarm, cloch alw, alarmgloch.

Diving-bell—soddgloch, cloch soddi.

Hand-bell—llaw-gloch, cloch law, clochan, clochig.

Low-bell—cloch adarwr, nosgloch.

Bell-clapper—tafod cloch, tafod y gloch.

Bell-gable, } clochdy, tàldy cloch, cloch-
Bell-turret, } dyran, clochdal, twred cloch, clochdwred.

Bell-crank—cambill cloch, cranc cloch.

Bell-rope—rhaff y gloch; rhaff cloch.

Bell-animal—clochfil, clochfilyn.

Chime of bells—clochgynghan, clychgynghan, clychgynghanedd, cynghanedd clych.

To bear away the bell—ennill y gamp; myned â'r gamp; ennill y fuddugoliaeth, y gamp, y maes, y bel, *neu* y gâl; cael yr oruchafiaeth; cael y goreu; cael y maes; dwyn y bel; dwyn y gloch.

To curse with bell, book, and candle—rhegu *neu* felltithio â llyfr, cloch, a chanwyll.

Bell of a flower—cloch *neu* gwpan blodeuyn.

Bell-flower—clychlys.

Round-leaved bell-flower—clychlys amryddail.

Rampion bell-flower—clychlys bwytadwy, clychlys erfin-wraidd.

Nettle-leaved bell-flower—clychlys dynaddail, clychlys danadl-ddail.

Corn bell-flower—drych Gwener.

Hare-bell—cloch yr eos, glas y llwyn, croesaw haf, ceninen y brain, bwtias y gog, botasen y gog.

Canterbury bells, } clych y perthi.
Hedge bells, }

Blue-bell—clychlys amryddail, clychlys glas

Bell, *v. n.* tyfu ar ddull cloch; ymglochi.

Belladonna, *s.* (It. *bella*, teg, a *donna*, rhian) codwarth=enw llysieuyn.

Bellatrix, *s.* (Ll.) rhyfeloges=seren ddysglaer yn nghydser Orion.

Belle, *s.* (Ff.) tlosferch, ceinferch, pefren, perten; rhian.

Belled, *a.* (o *bell*) clochedig.

Belles-Lettres, *s. pl.* (Ff.) ceinddysg, deinddysg, deinddysgeidiaeth, amryddysgiaeth=y dosbarth o lenoriaeth à gynnwys brydyddiaeth, areitheg, hanes, ieithyddiaeth, &c.

Bell-fashioned, *a.* ar lun cloch, clochddulliog.

Bellfounder, *s.* (*bell* a *founder*) clochdoddwr, clochdoddydd, bwriwr clych, toddwr clych.

Bellibone, † *s.* (Ll. *bellus* a *bonus*) rhagorferch.

Bellicose, *a.* (Ll. *bellicosus*) rhyfelog, llueddog, llueddus, rhyfelgar.

Bellied, *a.* (o *belly*) boliog, cestog, chwyddedig, crothog: arferedig mewn cyfansoddiad.

Empty-bellied—bolwag, archlawd, gwag ei fol.

A big-bellied one—toroges; *m.* torogyn.

To grow big-bellied—torogi.

Round-bellied — bolgrothog, bolgrythog, bolgrwn, crynfoliog.

Broken-bellied—boldwn.

Big-bellied, } boliog, cestog, bolfawr,
Great-bellied, } rhythfoliog; torog; crothog, beichiog, tromfeichiog.

Full-bellied — boldyn, tordyn, cestlawn, llawn ei fol.

A short big-bellied person—torpwth.

Belligerate, † *v. a.* (Ll. *belligero*) rhyfelu, rhyfela, lluedda.

Belligerent, } *a.* (Ll. *belligerens*) rhyfelog, rhy-
Belligerant, } felus, rhyfelgar, llueddol, lliyddol, llueddus, rhyfelaidd.

Belligerent powers—rhyfel-bleidiau, rhyfelogion; y galluoedd à fônt mewn rhyfel â'u gilydd.

Belligerent, *s.* rhyfel-blaid, rhyfelog, rhyfelallu; cenedl *neu* deyrnas yn rhyfela.

Belligerous, *a.* (Ll. *belliger*)=*Belligerent.*

Belling, *s.* (S. *bellan*) hyddfref, rhidfref=lleisiad *neu* fref gafr ddanas yn amser rhidio.

Bellipotent, *a.* (Ll. *bellipotens*) cadarn mewn rhyfel; llueddog, lliyddog, llueddus, rhyfelog, cadffer, cadnerthol.

Bellique, † *a.* (hen Ff.)=*Belligerent.*

Bellis, *s.* (Ll.) aspygan, llygad y dydd.

Bellitude, *s.* (Ll. *bellitudo*) tegwch, harddwch.

Bellman, *s.* (*bell* a *man*) clochydd, canwr cloch; crïwr.

Bellmetal, *s.* (*bell* a *metal*) clochddelid, mettel clych; elydr, elydn=cymmysgedd o gopr ac alcan.

Bellmetal ore—mwn elydr, mwn clochddelid, mwn clochfettel.

Bellon, *s.* (?) mwnwst, mwynwst.

Bellow, *v. n.* (S. *bulgian*; Ll. *balo*) buguned, bugunad, buguno, breferu, brefu, buchio, beichio, bugadu; rhuo, gorddyar; crochfrefu, crochwaeddi.

The bull was bellowing and turning up the ground—yr oedd y tarw yn buguned ac yn bugloddio.
To bellow again—adfuguned; ateb drwy fugunad.

Bellow, *s.* bugunad, bugunawd, brefer, bref; rhu, gorddyar.

Bellowing, *s.* (o *bellow*) bugunad, breferad, buchiad, brefiad, beichiad; rhuad, crochfreflad; rhu, crochwaedd.

Bellows, *s. sing.* a *pl.* (S. *bilig*; Goth. *balgs*) megin; *pl.* meginau.
A pair of bellows—megin.
Bellows-fish—meginbysg.
Bellows-maker—meginwr.
Smith's bellows—megin gof.

Bellpepper, *s.* (*bell* a *pepper*) pupyr coch.

Bell-shaped, *a.* ar ddull *neu* lun cloch.

Belluæ, *s. pl.* (Ll.) milodolion, bwystfilod.

Belluine, *a.* (Ll. *belluinus*) bwystfilaidd, anifeilaidd, milaidd.

Bellwether, *s.* (*bell* a *wether*) llwdn y gloch, maharan y gloch, dafad y gloch; arweinydd y praidd.

Belly, *s.* (C. *boly*, *bola*; Gw. *bolg*) bol, boly, bola, ceudod, rhumen, crul; cest, tor; croth, bru.
The lower belly—rhumen, isfol, gwaelod y bol.
Great belly, Gorbelly, } gorfol, cest, tor, cestor, rhemmwth, tryfol, rhythfol.
The protuberance of the belly—talon, hwrwg bol.
The part of the belly on the side under the short ribs—achfen, yr achfen.
Rotundity of the belly—crynder y bol, bolgwd.
The belly of a bottle—cest *neu* fol potel.
Slow bellies—boliau gorddiog.
Belly *or* concave of a harp—ceudod telyn, croth telyn.
Upon thy belly shalt thou go—ar dy dor y cerddi.
What a belly he has!—y fath gest sy ganddo!
He thrust the dagger into his belly—efe a frathodd y ddager yn ei boten ef; gwanodd y fidog yn ei geudod.
What is got over the devil's back, is spent under his belly—à gasgler ar farch Malen, dàn ei dor ydd ä.
The belly robs the back—y bol a bil y cefn.

Belly, *v.* bolio, cestu, crothi; chwyddo allan, chwyddo yn fola; llanw; bolchwyddo.

Bellyache, *s.* (*belly* ac *ache*) bolwst, dolur bol, gwaew bol, gwewyr bola, cnofa coluddion.
He has the bellyache—mae y folwst arno; y mae gwaew, gwewyr, *neu* ddolur yn ei fol; mae cnofa yn ei goluddion.

Bellyband, *s.* (*belly* a *band*) cengl, torgaing, torgengl, tengl, bolrwymyn.

Bellybound, *a.* (*belly* a *bound*) bolrwym, rhefrwym, rhwym.

Belly-cheer, *s.* bwyd, cynnaliaeth, ymborth, lluniaeth.

Belly-fretting, *s.* bolysbelwad, bolddoluriad; poen bol.

Belly-friend, *s.* bolerwr, bolerai.

Bellyful, *s.* (*belly* a *full*) gwala, bolaid, crulaid, digon, llonaid bol.

Belly-god, *s.* gloddestwr, glwth, wttreswr, dyn glwth, bolrythwr, boldduw.

Belly-pinched, *a.* newynog, newynllyd; newynedig.

Belly-roll, *s.* bolrolen, cestrolen.

Belly-slave, *s.* bolwas, bolgaethwas, caethwas ei fola.

Belly-timber, *s.* cynnaliaeth, ymborth, lluniaeth, bwyd.

Belly-worm, *s.* llyngyren, llyngeren: *pl.* llyngyr, llynger, llyngyr bol.

Belock, *v. a.* (*be* a *lock*; S. *belucan*) cloi.

Belomancy, *s.* (Gr. *belos* a *manteia*) saetharmes, saethogan, dewiniaeth â saethau.

Belone, *s.* (Gr.) mornodwydd, y fornydwydd.

Belong, *v. n.* (Is. ac Al. *belangen*) perthyn, perthynu, deiryd; bod yn eiddo.
To me belongeth vengeance—i mi y perthyn dïal; myfi bïau dïal; mi bïaf ddïal; eiddof fi yw dïal; dïal sydd eiddof fi.
To the fire that belongs—i'r tân y deiryd hwnw.
Salvation belongeth unto the Lord—iachawdwriaeth sydd eiddo yr Arglwydd.
This matter belongeth unto thee—arnat ti y mae y peth; i ti y perthyn y peth hwn.
What does that belong to me?—pa beth yw hyny i mi?
To whom does this belong?—eiddo pwy yw hwn?—i bwy y mae hwn yn perthyn? pwy y mae hwn yn perthyn iddo?
To whom belongest thou?—i bwy yr wyt yn perthyn? i pwy y perthyni? gwas i bwy wyt ti?

Belonging,† *s.* (o (*belong*) ansawdd; teithi.

Beloved, *a.* (*be* a *love*) anwyl, hoff, cu, cariadus, caredig: *pl.* anwyliaid, caredigion.
Dearly beloved—anwyl gariadus; anwyl garedig: *pl.* anwyl garedigion; anwyliaid, caredigion.
Dearly beloved brethren—anwyl gariadus frodyr; anwyl garedig frodyr.
This is my beloved Son—hwn yw fy anwyl Fab.
Beloved of God—hoff gàn Dduw; caredig gàn Dduw.

Below, *prep.* (*be* a *low*) is, tàn, dàn, is law, oddi tàn, goris, o dàn, o tàn.
Below us—tanom, danom; is law i ni; is ein llaw.
Below ground—is daiar, tàn ddaiar, tàn y ddaiar.
Below the sun—tàn yr haul, is yr haul; is awyr, is nen, tàn y nen.
The praise of men below, and saints above—mawl dynion obry, ac y seintiau fry.
One of them sat above him, and the other below him—eisteddodd y naill o honynt uwch ei law, a'r llall is ei law; eisteddasant y naill uwch law, a'r llall is law iddo.

Below, *ad.* isod, obry, tanodd, danodd; iso; i waered, i lawr; is law; dobry.
From below—oddisod, odd isod, oddi isod, oddiso, oddobry, oddi obry, oddi waered, oddi tanodd, oddi lawr.
From below me—oddi tanaf, oddi tanof.
The heavens above and the earth below—y nefoedd uchod a'r ddaiar isod.
We have been above and below—buom fry ac obry; buom uchod ac isod.

They searched every place above and below—chwiliasant bob màn i fyny ac i waered.

The shades below—y cysgodion isod; y cysgodolion obry; y gwyllon isod.

Belowt,† *v. a.* (*be* a *lowt*) llysenwi, difrïo.

Belswagger, *s.* (*belly* a *swag!*) anlladwr, trythyllwr, puteiniwr.

Belt, *s.* (S.; Ll. *balteus*) gwregys; rhwymyn, amrwymyn, cylchrwy; gwregys cleddyf.

Shoulder-belt—gwregys ysgwydd, ysgwyddrwy.

The belts of Jupiter—gwregys Iau; modrwyon Iou; gwregysau Iou.

The Great Belt—y Gwregys Mawr; y Gwregys Mwyaf=culfor rhwng yr ynysoedd Sealand a Ffunen, yn Môr Llychlyn.

The Little Belt, } y Gwregys Bychan; y
The Lesser Belt, } Gwregys Lleiaf=culfor rhwng Ffunen a Iutland.

Sea belts—gwregysau y môr, morwregys.

Belt, *v. a.* gwregysu, amwregysu, cylchu.

Beltane, } *s.* (Gw. a Gael.=tân Belus neu Bel)
Beltein, } coelcerth Galanmai, yn yr Alban ac Iwerddon; Beldan, Beltan.

Belvidere, *s.* (Ll. *bellus* a *video*) tegwel=pabell ar nen adeilad; twyn mewn gardd: math o sawdl y crydd.

Belye, *v. a.*=*Belie.*

Bema, *s.* (Gr.) canghell; areithfa.

Bemad,† *v. a.* (*be* a *mad*) gorphwyllo, gwallgofuso.

Bemangle, *v. a.* (*be* a *mangle*) llarpio, rhwygo; rhwygo yn ddrylliau *neu* ddarnau.

Bemask, *v. a.* (*be* a *mask*) mygydu; cuddio, celu.

Bemaze, *v. a.* (*be* a *maze*) dyrysu; tywys i ddyryswch.

Bemete,† *v. a.* (*be* a *mete*) mesur, mesuro.

Bemingle, *v. a.* (*be* a *mingle*) cymmysgu, mysgu; gwneyd cymmysgedd.

Bemire, *v. a.* (*be* a *mire*) diwyno, dwyno, budro; tynu drwy y llaid; gorchuddio â thom.

Bemist, *v. a.* (*be* a *mist*) tywyllu, caddugo; toi â niwl.

Bemoan, *v. a.* (*be* a *moan*) cwyno, cwynfan, galaru, alaethu, gruddfan, wylofain; gofidio am *neu* dros.

Who shall bemoan thee for this misery—pwy a gwyna i ti am y gofid hwn? pwy a'th gwyna am y trueni hwn?

Bemoan her—alaethwch drosti.

Bemoan your children—galarwch dros eich plant.

To bemoan one's self—ymofidio, ymalaethu, ymalaru.

I have surely heard Ephraim bemoaning himself—gàn glywed y clywais Ephraim yn cwynfan.

He is not to be bemoaned—nid oes cwyn iddo; nid oes dim cwyn iddo.

Bemoaner, *s.* (o *bemoan*) cwynwr, ymofidiwr, galarwr, alaethydd.

Bemock, *v. a.* (*be* a *mock*) gwatwar, gwawdio; chwerthin am ben.

Bemoil,† *v. a.* (*be* a *moil*) caglo, diblo; diwyno.

Bemoisten, *v. a.* (*be* a *moisten*) gwlychu, ireiddio, lleithio.

Bemol, } *s.* (*b*, a Ll. *mollis*)= { *Bcemol.*
Beemol, } { *Bemol.*

Bemonster,† *v. a.* (*be* a *monster*) anferthu, afluniciddio, angenfileiddio.

Bemused, *a.* (*be* a *muse*) dros ei ben mewn myfyrdod; yn breuddwydio.

Ben, *s.* cneuen ryddhaol.

Bench, *s.* (S. *benc;* Ff. *banc*) mainc, eisteddle, sedd, esgemydd; brawdle, y llys; eisteddfa; eisteddfod; cydseddwyr.

King's bench—y llys penadur, llys y penadur, meinclys y penadur.

Queen's bench—y llys penadur, llys y benadures, y llys penadures.

A little bench—lleithig, corfainc, mainc fechan.

Bench, *v.* meincio; seddu.

Bencher, *s.* (o *bench*) arseddog, arseddwr; barnwr; henadur: *pl.* arseddogion, arseddwyr, arseddiaid, meincwyr.

Bend, *v.* (S. *bendan*) plygu, camu, crymu, gwyro, crwcäu, tumio, ystumio; gwneuthur yn gam; gogwyddo, tueddu; cyfeirio; annelu; dolenu, lledbeio, dolystumio; gostwng; ysgythu; sicrhau.

Easy to bend—hyblyg; hydro, ystumiol, plygadwy, hawdd i'w blygu.

To bend the brow—crychu y talcen; cuchio, talgrychu, gygu, blynghau; edrych yn guchiog; edrych yn flwng.

To bend one's steps—hwylio taith; hwylio cerddediad; hwylio camrau; myned, cerdded; troi wyneb; cyfeirio.

To bend a bow—annelu bwa; gosod bwa ar annel.

To bend one's mind—rhoi *neu* osod bryd, meddwl, *neu* fwriad; gofalu; bod gàn un duedd at beth; glynu; bod yn ystig *neu* ddyfal.

He bends himself wholly to this—hyn yw ei unig ofal.

She bends her mind to nothing but her book—ni rydd *neu* ni ddyry hi ei bryd ar ddim ond ei llyfr; ni phlyg hi at ddim ond ei llyfr.

To bend the mind to study—glynu wrth fyfyrio; ymröi i fyfyrio; rhoi bryd ar fyfyrio; rhoi cais ar efrydu; gogwyddo y bryd at efryd.

He bends his thoughts to nothing else—ni ofala efe am ddim arall; nid yw yn gofalu am ddim arall.

To bend the fist—cau dwrn.

To bend round—plygu yn grwn; plygu yn gylch; troi yn dorch.

To bend back—dadblygu, gwrthdumio, dattumio; plygu yn ol.

To bend forwards—crogi drosodd; gogwyddo yn mlaen; crymu yn mlaen.

To bend backwards—gogwyddo yn ol; plygu *neu* gamu yn ol.

To bend downwards—gogwyddo tuag i waered; pwyso i lawr; plygu i lawr *neu* i waered.

To bend about—damblygu, amblygu, amgrymu, damgrymu.

To bend over—plygu dros, dargrymu.

To bend in—plygu *neu* grymu i fewn.

To bend under a burden—ymollwng, llaesu, crymu, *neu* blygu dàn bwn *neu* faich.

He is bent on mischief—nid oes dim ond drwg yn ei fryd; mae ei holl fryd ar ddrygioni; y mae ei holl ogwydd ar ddrwg; mae ei holl ogwydd at ddrwg.

He is bent on doing it—y mae efe wedi penderfynu ei wneyd; y mae wedi rhoi ei fryd ar ei wneuthur.
With bended knees—ar liniau; ar ei liniau; ar ei gliniau; ar fy ngliniau, &c.
Bent bow—bwa annelog, bwa ar annel.
The eyes of all men are bent on you—y mae pawb â'u llygaid arnoch.
Bent on—â'i fryd, â'i feddwl, *neu* â'i fwriad ar; gwedi ymröi i; wedi ymroddi i; yn ymröi i; gwedi penderfynu.
He is bent on nothing but his pleasures—nid yw ei fryd ar ddim ond ei ddifyrwch; ar ei ddifyrwch y mae ei holl fryd.
Is he so bent upon it?—a ydyw efe felly wedi ymröi iddo? a yw efe felly wedi rhoddi ei fryd a'i fwriad arno?
Wholly bent on his work—â'i holl fryd *neu* fwriad ar ei waith.
Bent on war—parod i ryfel; â'i fryd ar ryfel; â'i ogwydd at ryfel; ar ei ogwydd at ryfel; tueddol i ryfel.
Bent against one—gwrthwyneb i un; â'i fryd *neu* â'i fwriad yn erbyn un; ar annel *neu* annelfa yn erbyn un.
To be firmly bent against—bod â'i fryd *neu* â'i fwriad yn dyn yn erbyn; dwyn meddwl anhyblyg yn erbyn; dala yn dyn yn erbyn; gwrthwynebu yn gadarn.
To be obstinately bent against—bod wedi ystyfnigo *neu* ymgyndynu yn erbyn; cyndyn wrthwynebu; dàl yn gyndyn yn erbyn; gwrthwynebu yn wrthnysig.
To be cruelly bent against—dwyn meddwl creulawn yn erbyn; bod wedi ymgreuloni yn erbyn; bod yn elyn marwol i.
To be fiercely bent against one—bod wedi ymffyrnigo *neu* ymgynddeiriogi yn erbyn un; bod yn ffyrnig yn erbyn un.
To be violently bent against a thing—gwrthwynebu peth â'r holl allu; ymosod yn erbyn peth â'r holl egni.
To be bloodily bent—bod â'i fryd ar dywallt gwaed; dwyn meddwl gwaedlyd; sychedu am waed; ymlosgi gàn ddygasedd yn annyhuddol.
To be earnestly bent on—bod â chwbl o'i fryd, o'i feddwl, *neu* o'i fwriad ar *neu* yn erbyn; bod â'i fryd, ei feddwl, *neu* ei fwriad yn hollol ar *neu* yn erbyn; bod â'i holl fryd ar.
Bent many ways—llawn ymdro, ystumiog, dolystumiog; wedi plygu *neu* ei blygu igam ogam.
Not to be bent—anmhlygadwy, anhyblyg, anhydro; anhawdd ei blygu; nas gellir ei blygu *neu* gamu; ystyfnig, cildyn, cyndyn, cildynus, cildynog.

Bend, *s.* plyg, cam, plygiad, plygfa, camedd, ystum, crymedd; camen; tum, gwyredd, gogwydd.
Bend of the knee *or* ham—camedd gàr, plyg gàr. [braich.
Bend of the arm—camedd braich, plyg
Bends—plygestyll; coed ceimion; plygion.
Bend (in heraldry)—talaith, taleithen.
Bend dexter—talaith dde.
Bend sinister—talaith chwith.
Bend-with—y winwydden wyllt.

Bend, † *s.*=*Band*.

Bendable, *a.* (o *bend*) plygadwy, hyblyg; à ellir ei blygu *neu* gamu.

Bender, *s.* (o *bend*) plygwr, plygiedydd, plygydd, camwr, ystumiwr, gogwyddwr.

Bendlet, *s.* (o *bend*) taleithig.

Bendy, *s.* (o *bend*) taleithran.

Beneaped, *a.* (*be* a *neap*) treiedig; heb allu nofio dros y bàr.

Beneath, *prep.* (S. *beneath*, *beneothan*, *benythan*) tàn, dàn, is, is law; oddi tàn, goris, o dàn.

Beneath, *ad.* isod, obry, tanodd, danodd, tano, iso, oddi tanodd, dobry.
From beneath—oddisod, odd isod, oddi isod, oddiso, oddobry, oddi waered.
In heaven above, or in earth beneath—yn y nefoedd uchod, neu ar y ddaiar isod.

Benedict,† *a.* (Ll. *benedictus*) iachaol, esmwyth, esmwythaol.

Benediction, *s.* (Ll. *benedictio*) bendith; bendithiad, lladaeth, gorllad, gorlad, lladiad; diolch, diolchgarwch, tâl diolch; moliant; cyssegriad, cyflwyniad; hawddammor; gwelling.
Nuptial benediction—bendith briodas.

Benedictive, *a.* (Ll. *benedictus*) bendithiol, bendithiadol, bendith-roddol.

Benefaction, *s.* (Ll. *benefacio*) cymmwynas; haeledd, llesiant, llesineb; gweithred dda, twrn da, tro da.

Benefactor, *s.* (Ll. *benefacio*) cymmwynaswr, noddwr, cyflesydd, cedroddwr, cyfroddwr, cyfladwr, lleswr, lladwr, llesolwr, cyfarwyswr, mwynaswr.

Benefactress, *s.* (o *benefactor*) cymmwynaswraig, cymmwynasoges, noddes, cyflades, mwynasoges.

Benefice, *s.* (Ff.; Ll. *beneficium*) glwysfudd, bywoliaeth eglwysig, eglwysfudd.

Beneficed, *a.* (o *benefice*) glwysfuddiog; â chanddo eglwysfudd; mewn meddiant o fywoliaeth eglwysig.
A beneficed clergyman—glwysfuddog; perchen bywoliaeth *neu* eglwys; offeiriad glwysfuddiog; person.
He is well beneficed—y mae ganddo fywoliaeth *neu* eglwys dda; mae glwysfudd da ganddo.

Beneficence, *s.* (Ll. *beneficentia*) haelioni, haeledd, cymmwynasgarwch, haelder, hygedrwydd, ciried, lladedd, madedd, buddged, cedolrwydd, caredigrwydd, daioni, cirwn.

Beneficent, *a.* (Ll. *beneficus*) haelionus, hael, cymmwynasgar, cymmwynasol, hyged, cedfawr, lladol, madus, madiain, rhwyddged, cedol, rhoddgar, haelgar.
A beneficent person—madwr, cedroddwr, gwr hael, dyn haelionus.
A beneficent protector—modur hael, modur llad, modwr mad.

Beneficial, *a.* (Ll. *beneficium*) buddiol, llesol, buddfawr, llesiannol, manteisiol, llesfawr, ennillfawr, llesinebol, madus, mad; defnyddiol, gwasanaethgar; buddiedig.
Extremely beneficial—gorlesol, gorfuddiol, o les mawr, o fawr les, tra buddiol.

Beneficialness, *s.* (o *beneficial*) buddioldeb, llesoldeb, llesolder; defnyddioldeb, gwasanaethgarwch, madusrwydd.

Beneficiary, *a.* (Ll. *beneficiarius*) yn dàl bywoliaeth *neu* swydd o werth dàn arall; glwysfuddiog.

Beneficiary, *s.* glwysfuddog; person; perchen bywoliaeth eglwysig.

Beneficiency, *s.* (o *beneficien* caredigrwydd, cymmwynas.

Beneficient, *a.* (Ll. *beneficium*) yn gwneuthur daioni; daionus, lladol, cymmwynasol.

Benefit, *s.* (Ll. *beneficium*; Ff. *bienfait*) cymmwynas; budd, lles, ennill, elw, lleshad, ced, llesineb, mwyniant; dawn; daioni, ewyllys da; twrn da.

Benefit of clergy—braint eglwyswyr.

General benefit—lles cyffredinol, amles, amfudd, amged.

Mutual benefit—cyfles, cydles, cyflesiant, cydlesiant.

Useless benefit—oferfudd.

To take the benefit of—mwynhau.

Benefit society—amlesged, cyflesfa, amlesfa, llesgymdeithas, buddgymdeithas.

Forget not all his benefits—nac anghofia ei holl ddoniau ef.

For the great benefits that we have received at his hands—am yr aml ddaioni à dderbyniasom ar ei law.

Remember the benefits that I have done unto you—cofiwch y cymmwynasau à wnaethym i chwi.

And all other benefits of his passion—a phob doniau ereill o'i ddyoddefaint ef.

He rewarded him not according to the benefits which he had received of him—ni thalodd adref yr ewyllys da à dalasai efe iddo.

He seeks the benefit of others—efe a gais fudd rhai ereill.

Benefit, *s.* lleschwareu, lles-gerdd=chwarcu y rhoddir ei ennill at wasanaeth rhyw un neilltuol.

Benefit, *v.* lleshau, llesu, buddio, llesoli; elwa, manteisio; bod yn llesol neu fuddiol; gwneyd cymmwynas; gwneyd tro *neu* dwrn da; gwneyd lles; peri budd; cael *neu* dderbyn lles; cedu, cirioli.

What will it benefit me?—pa leshad fydd i mi oddi wrtho? pa fudd a gaf trwyddo?

By the same things they were benefited—trwy yr un pethau y cawsant hwy les.

Trade benefits a nation—masnach a lesola genedl.

Benefited ticket—llesdocyn.

Beneme,† *v. a.* (S. *be* a *naman*) enwi; addaw; rhoddi.

Beneplaciture,† *s.* (Ll. *beneplacitum*) ewyllys; dewisiad.

Benet,† *v. a.* (*be* a *net*) rhwydo, maglu.

Benevolence, *s.* (Ll. *benevolentia*) caredigrwydd, cymmwynasgarwch, caredigedd, ewyllys da; hoffedd, cariad, serch; elusen, elusendod, elusengarwoh, rhodd wirfodd; daionedd, darladaeth; cirwn; gorfottreth.

Due benevolence—dyledus ewyllys da.

Benevolent, *a.* (Ll. *benevolens*) cymmwynasgar, cymmwynasol, caredig, caredigol, elusengar, dyngarol; yn dwyn ewyllys da; da ei wyllys; caruaidd, darladol, daionus, cariadus.

Benevolous,† *a.* (Ll. *benevolens*)=*Benevolent*.

Benight, *v. a.* (*be* a *night*) nosi; tywyllu; mantellu mewn tywyllwch.

He was benighted far from home—nosodd *neu* nosasai arno yn mhell oddi gartref; daliodd y nos ef yn mhell o'i gartref; goddiweddodd y nos ef yn mhell oddi gartref.

Benighted nations — cenedloedd tywyll; cenedloedd yn eistedd mewn tywyllwch.

In that benighted region—yn y fro dywell hòno; yn y wlad gaddugol hòno; yn yr ardal anwybodus hòno.

Benign, *a.* (Ll. *benignus*) tirion, hynaws, mwyn, mwynaidd, addfwyn; hael, haelwych; haelfrydig; rhywiog, rhywiogaidd; caruaidd, caredig, cymmwynasol, cyweithasol, rhadlawn; gwaraidd, gwareddog, mynog, cyweithas; iachus, iachaol, iachol.

Benign aspect—tirionwedd, mynogwedd.

Benign benefactor—cymmwynaswr hael, haelroddwr.

Benign medicine—meddyginiaeth iachaol; cyffer iachaol.

Benignant, *a.* (Ll. *benignus*)=*Benign*.

Benignity, *s.* (Ll. *benignitas*) tiriondeb, tirioni, tirionder, hynawsedd, cyweithasrwydd, mwynder, addfwynder, gwareddogrwydd, mynogaeth, rhywiogrwydd, mwyneidd-dra; haelioni, haeledd, haelder, cymmwynasgarwch; iacholrwydd, iachusdeb.

Benison, *s.* (Ff. *benir*, *benissant*) bendith; bendithiad; lladaeth.

Benjamin, *s.* y pren beniamin, benwydden; perlwyn; perystor.

Benjamin tree—benwydden; *pl.* benwydd.

Bennet, *s.* llysiau Benned, llysiau Bennet, mabgoll, mabgoll bendigaid, bendigeidlys, llysiau fy anwylyd, fy anwylyd.

Way Bennet—heiddwellt y muriau, heiddwellt y fagwyr.

Bent, *s.* (o *bend*) plyg, plygiad, camedd, crymedd, gwyredd, ystumiad; tuedd, gogwydd, tueddfryd, meddylfryd, bryd, bwriad, meddwl; gogwyddiad, tueddiad, tueddoldeb; nwyd, rhael; gorwaered, llechwedd.

Bent of the mind—tuedd, tueddiad, tueddfryd, meddylfryd, tueddoldeb; gogwyddiad y meddwl, tueddiad ewyllys; gogwydd bryd *neu* feddwl.

Of a stubborn bent—ystyfnig, gwrthnysig, gwydus, anhyblyg.

She has got the bent of his bow—hi a wyr y ffordd arno o'r goreu; medr ei drin o'r goreu; hi a wyr hyd ei droed i'r blewyn.

Bents—troadau, doleniadau, troion, ystumiadau, cyfeiriadau; hen wellt *neu* gawn.

Bent, **Bent-grass**, *s.* maeswellt, meuswellt.

Brown bent-grass—maeswellt y ci.

Fine bent-grass—maeswellt addfain.

Creeping bent-grass—maeswellt rhedegog.

Marsh bent-grass—maeswellt gwŷn y waen.

Sea bent-grass—maeswellt arfor.

Silky bent-grass—maeswellt sidanaidd.

Bristly bent-grass—maeswellt y bryniau.

Agrostis sylvatica — maeswellt gwŷn y coed.

Agrostis palustris—maeswellt y gors.

Benting time—amser maeswellt; yr amser yr ymbortha colomenod ar faeswellt, cyn yr addfedo pys.

Benumb, **Benum**, *v. a.* (S. *beniman*) merwino, marweiddio, fferu, cyffio, marwhau, cysgu; hurtio, syfrdanu; peri cysgu *neu* ferwino; gwneuthur yn ddideimlad; dwyn y teimlad; cymmeryd ymaith y teimlad.

To be benumbed by cold—fferu, rhynu, *neu* sythu gàn annwyd; merwino gàn oerfel; bod â'r ewinrew arno.

My hand is benumbed by cold—y mae yr

ewinrew ar fy llaw; mae fy llaw wedi merwino, fferu, sythu, *neu* rynu gàn annwyd; mae fy llaw yn ddiffrwyth *neu* ddideimlad gàn annwyd.

To benumb the senses — merwino *neu* hurtio y synwyrau.

Benumbedness, *s.* (o *benumb*) merwindod, fferdod, rhyndod; hurtrwydd, syfrdandod, madrondod; ewinrew; dideimladrwydd.

Benumbment, *s.* (o *benumb*) merwiniad, cyffiad, rhyniad, marweiddiad.

Benzoic, *a.* (o *benzoin*) bensöig, benwyddig.

Benzoic acid, } sur chwerwig, sur
Flowers of benzoin, } bensöig, sur bensoin, sur benwyddig.

Benzoin, } *s.* bensoin, beniamin, môl ben-
Benzoine, } iamin=math o sudd neu fôl pren
Benjamin, } à dyf yn Sumatra a manau ereill yn y dwyrain.

Bepaint, *v. a.* (*be* a *paint*) arliwio, paentio.

Bepowder, *v. a.* (*be* a *powder*) pylori, ffylori; ysgeintio â phylor.

Bepraise, *v. a.* (*be* a *praise*) tramoli, gorganmawl; canmawl tu hwnt i reswm.

Bepurple, *v. a.* (*be* a *purple*) porffori, rhuddgochi, lliwio yn borffor.

Bequeath, *v. a.* (S. *becwæthan*) cymmynu, gwyllysgedu; rhoddi *neu* adael mewn ewyllys; gwyllysio.

Bequeather, *s.* (o *bequeath*) cymmynwr, cymmynydd, gwyllysgedydd, gwyllysiwr.

Bequeathment, *s.* (o *bequeath*) cymmyniad, gwyllysiad; gwyllysged, gwyllysrodd.

Bequest, *s.* (o *bequeath*) cymmyn, gwyllysged, cymmynrodd, gwyllysrodd, rhodd ewyllys.

Berain,† *v. a.* (*be* a *rain*) gwlawio ar.

Berate, *v. a.* (*be* a *rate*) ymserthu, ymsenu, difrïo, clewtio, clewtian, cecru, dwrdio; cymhenu, tafodi, ymdaeru.

Berattle, *v. a.* (*be* a *rattle*) clocho, trystio, dwrdio, dwndro, tafodi.

Beray,† *v. a.* (*be* a *ray*) diwyno, budrogi, budreddu, bryntio.

Berberry, *s.* (Ll. *berberis*)=*Barberry*.

Bereave, *v. a.* (S. *bereafian*) difuddio, amddifadu, difeddu, difeddiannu; dwyn oddi ar; gwneuthur yn amddifad; difadu.

To bereave of children—diblanta.

You have bereaved me of my children—diblantasoch fi.

Abroad the sword bereaveth—y mae y cleddyf yn dyfetha oddi allan.

He bereaved me of my property—difuddiodd fi o'm heiddo; dygodd fy eiddo oddi arnaf.

For whom do I bereave my soul of good?—i bwy yr ydwyf yn difuddio fy enaid oddi wrth hyfrydwch?

A bear bereaved of her whelps—arthes wedi colli ei chenawon.

A bereaved one—amddifad, un amddifad.

Bereavement, *s.* (o *bereave*) amddifadiad, difadiad, difuddiad, difeddiad, difeddiant; amddifadrwydd, difadrwydd.

Berg,† *s.* (S. *beorg*, *beorh*) bwrdeisdref; castell.

Bergamot, *s.* (Ff. *bergamote*; Ysp. *bergamota*) math o beren; math o lebafal, neu afal melyn hir; math o berarogl; math o drewlwch perogledig â'r beren bergamot.

Bergamot, *s.* (oddi wrth dref *Bergamo*) math o deisban neu garped garw.

Bergander, *s.* (*berg*, a D. *and*, Al. *ente*, S. *ened*, hwyad) llwynogwydd=math o hwyad neu wŷdd wyllt.

Bergeret,† *s.* (Ff. *berger*) cân, canu, caniad.

Bergmaster, *s.* (*berg* a *master*) penfwynwr, penfwnwr=penswyddog yn mhlith mwnwyr swydd Derby.

Bergmote, *s.* (S. *beorg* a *mote*) brynlys, brelys=llys à gynnalir ar fryn yn swydd Derby, i dori ymrafael rhwng y mwnwyr.

Berhyme, *v. a.* (*be* a *rhyme*) rhigymu; crybwyll mewn cerdd.

Berlin, *s.* (oddi wrth *Berlin*, prifddinas Prwssia) math ar gerbyd.

Berme, *s.* (Ff.) rhynglas, caerffod.

Bernacle, } *s.* (Ff. *bernacle*) gwyran: *pl.* gwyr-
Bernicle, } ain, adar gwyrain=math o wŷdd fôr.

Berob,† *v. a.* (*be* a *rob*) ysbeilio, anrheithio.

Berry, *s.* (S. *beria*, *berga*) grawn; aeronen, magonen, baconyn, mwyaren, crawelen: *pl.* grawn, aeron, magon, bacon, macon, cyrawel, crawel, cyrafol, cyrawol, cair, mwyar, llusi, llus.

Bil-berries, } llus, llusi; llusi *neu* llus
Blea-berries, } duon bach; mwyar y
Whortle-berries, } brain.
Hurtle-berries, }

Great bil-berries—lluswydd mwyaf.

To gather bil-berries—llusa, hela llus, hel llus; casglu llusi duon bach.

Cow-berries—lluswydd y geifr.

Black-berries, } mwyar duon, mwyar y
Bramble-berries, } perthi.

Cran-berries, } llygaeron, llyged aeron,
Bog-berries, } llygaid aeron, llyged eirian, llygeirin, ceirios y waen, llyged eirin: *sing.* llygaeren, ceiriosen y waen, llygeirinen.

Crake-berries—creiglus, creiglys, cryglus, llus y brain, llus duon y mynydd.

Cloud-berries, } mwyar dwywan, mwyar
Roebuck-berries, } Berwyn, mwyar gwenith, mwyar y ddaiar.

Dew-berries—mwyar Mair, mwyar ffreinig, mwyar glaslwyd, mwyarllwyni gleision.

Goose-berries — eirin Mair, eirin perth eurddrain, grwys: *sing.* grwysen, eirinen Mair, eirinen perth eurddrain.

Rasp-berries—afan, mafon; *sing.* afanen, mafonen.

Straw-berries—mefus, syfi; *sing.* mefusen, syfïen.

Elder-berries — grawn ysgaw, crawel ysgaw, cyrawol yr ysgaw.

Ivy-berries—grawn eiddew, crawel eiddew, cyrafol eiddew, crawel e iddiorwg.

Service-berries, } crawel, cyrawol, cyr-
Service-tree-berries, } afon, rhafon, rhafol, grawn criafoleu; aeron criafol *neu* gerddin.

Hawthorn-berries, } ogfaen, (*sing.* og-
Whitethorn-berries, } faenen), egfaen, (*sing.* egfaenen), crawel y moch, grawn yr ysbyddaid.

Dogrose-berries—egroes, (*sing.* egroesen), aeron mïeri Mair, grawn y ciros, afalau y bwci, ffrwyth yr egroeswydd, mwcwg.

Bryony-berries—eirin gwion, aeron greol.

Heath-berries — gruglus, grugon, llus y llau, llus y brain.

Gritty berries—graianllus, grutlus.

One-berry—cwlwm cariad, llys Paris llysiau ungronyn.

Olive-berries—grawn olewydd.
Crop of berries—cnod o aeron, cnwd o aeron, cnwd o rawn.
Candle-berry tree—gwerwydden, gwerfanwydden.

Berry, *v. n.* dwyn *neu* gynnyrchu grawn; grawnddwyn.

Berry-bearing, *a.* grawnddygol, grawnddwyn.
Berry-bearing alder—breuwydd.
Berry-bearing chickweed—gwlyddyn gronynog.

Berth, *s.* (o *bear*) llongrawd, llongaaf; cysseigfa; gwelygell, cuddigl, cysgell.
He has got a berth—y mae ganddo sefyllfa, swydd, *neu* fywoliaeth yn y llong; y mae iddo gyflog morwr.

Bertram, } *s.* (Ll. *pyrethrum*) pelydr gwyllt.
Bartram, }

Beryl, *s.* (Gr. *bêrullos;* Ll. *beryllus*) beryl, maen beryl=math o wyrddfaen gwerthfawr.
Beryl-crystal—beryl-grisial.

Berylline, *a.* (o *beryl*) berylaidd; glaswyrdd; fel beryl, fâl maen beryl.

Besaint,† *v. a.* (*be* a *saint*) seintio, seintioli.

Besayle, *s.* (Norm. *ayle;* Ff. *aïeul*, taid) gorhendad.

Bescatter,† *v. a.* (*be* a *scatter*) gwasgaru, gwasgar, taenu ar led.

Bescrawl, *v. a.* (*be* a *scrawl*) ysgrifenu yn drwsgl *neu* anferth.

Bescreen, *v. a.* (*be* a *screen*) cuddio, cysgodi, gwasgodi.

Wisdom will not acquit a blasphemer of his words—doethineb ni weryd yr hwn a gablo â'i wefusau.

Blasphemous, *a.* (o *blaspheme*) cableddus, cablaidd, cablus; difenwol, melltigol.

Blasphemous words — geiriau cablaidd, geiriau cableddus, cableiriau.

Blasphemy, *s.* (Gr. *blasphêmia*) cabledd, cabl, cabledigaeth, cablawd, cablair; difenwad, melltigad.

Blast, *s.* (*blæst;* Sw. *blast*) chwa awel, pwff, piff; chwa *neu* bwff o wynt; chwyth, chwythad, gwynt, blwth, bloth, cwthwn, anadl; mellni, malldod, mallder, daif, deifiad, cawod, cafod, rhwd, pall, chwaw, grai; sain offer chwyth; ffrwydr.

Blast on trees—cawod ar goed; malldod, mallder, *neu* fellni ar goed; daif ar goed.

Blast on corn—rhwd *neu* rydni ar yd; malldod, mallder, *neu* fellni ar yd; pall ar yd.

Blast of wind—pwff, cwthwn, awel, chwa, *neu* gawod o wynt.

Blast of a trumpet—sain udgorn, udganiad, llais udgorn.

Blast of a pipe—chwyth pibell, sain pibell.

Blasted state—malledd, mellni.

Contagious blast—gwynt ffalm, awel boeth, awel ddrwg, deifwynt, mallwynt, llosgwynt.

Contrary blast—gwrthawel, gwrthwynt, gwrthchwa, gwrthchwyth.

Furious blast — rhuthrwynt, certhwynt, ffyrnigwynt.

Blast pipe—blothbib, pyff-bib, pyff-bibell, pibell chwyth.

Blast-furnace — ffyrnes chwyth, ffyrnes doddi, chwaffyrnes.

Measure me the blast of the wind—mesur i mi yr awel wynt.

Behold, I will send a blast upon him—wele fi yn anfon arno ef wynt.

At the blast of the breath of his nostrils—gàn chwythad anadl ei ffroenau ef.

When the blast of the terrible ones was as a storm—pan oedd gwynt y cedyrn fel tymhestl.

By the blast of God they perish—gàn anadl Duw y dyfethir hwynt.

When they make a long blast with the ram's horn—pan ganer yn hirllaes â chorn yr hwrdd.

Blast, *v. a.* deifio, golosgi, mallu; taro â mellni; peri mallu, diflanu *neu* wywo; taro â phla, dystryw, *neu* fellten; greio, chwawio, chwythu, gwyntio; anafu, difwyno, andwyo; cdwino *neu* wywo gàn; seithugio; ffrwydro.

To blast with lightning—taro â mellten *neu* lucheden; mellttaro; cael lluchedeu.

To blast a design—diddymu *neu* seithugio amcan; mallu amcan.

To blast one's reputation—rhoi drygair *neu* anair i un; dywedyd gair twn am un; dwyn gair da un oddi arno; hortio, enllibio, goganu; mallu enw da un; andwyo nodwedd.

His character is blasted for ever—mae ei enw wedi ei andwyo am byth.

The seven empty ears blasted with the east wind—y saith twysen wag wedi deifio gàn y dwyrein-wynt.

To blast a rock—ffrwydro craig; hollti craig â phylor; chwythu craig yn chwilfriw.

Blasted, *p. a.* (o *blast*) mall, malledig, deifiol, deifiedig; wedi ei ddeifio *neu* fallu, &c.

Blasted state—malledd, mallder, mellni, malldod.

Blaster, *s.* (o *blast*) deifiwr, mallydd, mallwr; chwythwr, chwythedydd; seithugiwr, andwywr.

Blasting, *s.* (o *blast*) deifiad, malledd, mellni, malldod, malliad, llosgiad, llosgfa; rhwd, rhydni, cawod, cafod; andwyad, diflaniad; seithugiad; ffrwydrad.

I smote you with blasting—tarewais chwi â diflaniad.

If there be blasting, or mildew—os bydd deifiad, neu falldod; os bydd llosgiad, neu falldod.

Their seed shall fail through the blasting—eu had a ddyfethir gàn falldod.

Blastment, *s.* (o *blast*)=*Blasting*.

Blatant, *a.* (S. *blætan;* Ll. *blatero*) yn brefu fel llo; brefol; trystfawr.

Blatter, *v. a.* (Ll. *blatero*) cadw swn disylwedd; trystio, dwndro.

Blatteration, *s.* (Ll. *blatteratio*) swn disylwedd; swn, dadwrdd, dwndwr.

Blatterer, *s.* (o *blatter*) dwndrwr, baldorddwr, bocsachwr trystfawr.

Blattering, *s.* (o *blatter*)=*Blatteration*.

Blay, **Bleak**, *s.* (Al. *bleye*) gorwyniad, yr abwyd gwyn, gwyniad=enw pysgodyn.

Blaze, *s.* (S.; Al. *blasen;* Sw. *blasa;* Is. *blazen*) gwenfflam, fflam, daith, ffagl, fflam wèn oleu; goleu, goleuni; bàli; (=seren wèn gynffonog àr dalcen ceffyl); cyhoeddiad newydd *neu* newyddion; taeniad chwedl; taeniad ar led; swn, cynhwrf, terfysg.

All in a blaze—yn wenfflam oleu; yn un wenfflam; yn un tanllwyth goleu.

Blaze, *v.* fflamio, fflamychu, ffaglu; cynneu yn wenfflam; llosgi *neu* gynneu yn oleu; llosgi yn ffagl; cynneu yn fflam; tânfflamu; llosgi yn dân goleu; tywynu, llewyrchu; taenu, lledaenu.

To blaze abroad, To blaze about, taenu ar led; taenu y gair ar led; rhoi y gair *neu* y son allan; hau ar led; gyru y son ar led; gyru ar gyrn a phibau; peri son; taenu yn mhell ac agos; taenu ar ledled byd; gwneyd yn gyhoedd; bwrw y gair allan; cyhoeddi, cyffredino, lledaenu, taenu.

He began to blaze abroad the matter—efe a ddechreuodd daenu y gair ar led.

It was blazed abroad — fe gerddodd y

gair; ymdaenodd y gair; aeth y gair allan; aeth y sôn ar led.

Blazer, *s.* lledaenwr, taenwr ar led; cyhoeddwr.

Blazing, *a.* (o *blaze*) fflamiol, ffaglog, fflamllyd, tanllyd.

Blazing fire—fflamdan, tân fflamllyd.

Blazing star—seren danllyd, seren gynffonog, seren lostog, rhonseren, seren losgyrnog.

Blazon, *v. a.* (Ff. *blasonner*) arfddehongli, arfofyddu, tynu arfau, arfebu, arfegu, achofyddu, arwyddfarddoni, arwyddoni; addurno, barddu, gwychu, eirioni; arddangos, gosod allan; taenu, taenu ar led, lledaenu; taenu yn mhell ac agos; hau ar led; gwneuthur yn gyhoedd; dangos yn eglur.

To blazon arms—tynu arfau, arfddehongli, achofyddu, arfebu, arfegu, arwyddfarddoni, arfofyddu, lluniadu arfau.

Blazon, *s.* arfofyddiaeth, arfeg, achofyddiaeth, arwyddfarddoniaeth, arfddehonglaeth, celfyddyd tynu arfau; arfbais, pais arfau, cwnsallt; cyhoeddiad, arddangosiad, dangosiad rhwysgfawr, dathliad.

Blazoner, *s.* (o *blazon*) arfegwr, arfofydd, achofydd, herodr, arwyddfardd, arfwyddwr, eirfydd, tynwr arfau; lledaenwr, goganwr.

Blazonry, *s.* (o *blazon*) arfofyddiaeth, arfeg, achofyddiaeth, arwyddfarddoniaeth, arfddehonglaeth, celfyddyd tynu arfau bonedd.

Bleaberry, *s.*=*Bilberry.*

Bleach, *v.* (S. *blæcan;* Al. *bleichen*) cànu, gwŷnu, dargànu, arwŷnu; gwynhau; myned yn wŷn.

Bleacher, *s.* cànwr, cànydd, dargànwr, dargànydd, arwŷnwr.

Bleachery, *s.* (o *bleach*) cànle, lle i gànu.

Bleaching, *s.* cànad, dargànad, darwŷnad.

Bleaching powder—canlwch, llwch cànu.

Bleak, *a.* (S. *blæk, blac*) oerllyd, oer, oeraidd, oerfelaidd, addoer, rhynllyd, gwlyboer, addoerlaith; yn chwythu yn deneu; noethlwm, oerlwm; gwag; gwelw, glaswelw; anhyfryd.

Bleak, *s.* gorwyniad, yr abwyd gwŷn, gwyniad: *pl.* gorwyniaid=math o bysg dwr croew.

Bleakish, *a.* (o *bleak*) oeraidd, oerllyd, lledoeraidd; go oer, gowelw, lledwelw, gwelwaidd.

Bleakness, *s.* (o *bleak*) oerni, oeredd, oerder, lledoeredd, rhyndod, oerllydrwydd; noethlymder.

Bleaky, *a.* (o *bleak*) oerllyd, oeraidd, addoer, oerfelog; rhynllyd, agored, digysgod.

Blear, *a.* (Is. *blaar;* D. *blære*) pwl, tost, *neu* llin gàn wlybwr; tostlaith, gwlyb, dyfrllyd, pwl, tywyll, gwàn, cibddall, cilgoch.

Blear-eyed—llygadlaith, llygad-wlyb, llygadgoch, cilgoch ei lygad; cibddall, coegddall, llygadbwl; â phall ar ei drem.

The blear-eyed owl—y ddalluan gibddall.

Blear-eyes—llygaid cilgoch, llygaid tost; llygaid pwl, tywyll, gwan, *neu* gibddall; llygaid tostlaith.

Blear, *v. a.* cibddallu; dallu, caddugo, *neu* dywyllu llygad; peri llygadgochni; peri cilgochni llygaid; llygadbylu.

Bleariedness, *s.* (o *blear*) cibddellni, pylni, coegddellni, llygadgochni, cochni llygaid; fflameg.

Bleat, *v. n.* (S. *blætan;* Is. *blæten;* Ll. *blatero*) brefu (fel dafad), efrefu, brëu.

Bleat, **Bleating**, } *s.* bref, brefiad.

The bleatings of the flocks—brefiadau y defaid; brefiadau y praidd.

Bleb, *s.* (Gael. *plub, blob*) chwysigl, chwysiglen, chwysigen, pothell.

Arsenic abounds with air blebs — mae arsenig yn llawn o bothellau awyrol.

Blebby, *a.* (o *bleb*) chwysiglog, chwysigenog, pothellog.

Blechnum, *s.* (Gr. *blechnon*) gwibredynen; *pl.* gwibredyn, rhedyn gwib.

Bleed, *v.* (S. *bledan;* Is. *bloeden*) gwaedu; gollwng *neu* daraw gwaed.

To bleed at the nose—gwaedu o'r trwyn.

A bleeding heart—calon glwyfus; calon yn gwaedu gàn ofid *neu* dosturi.

Bleeding, *s.* (o *bleed*) gwaediad; gollyngiad *neu* darawiad gwaed; gwaedred, gwaedlif.

Blemish, *v. a.* (Ff. *blêmir, blâmir*) anafu, difwyno, anurddo, anharddu, gwrthuno, llygru, halogi, hagrhau, meflhau; rhoi anaf ar beth; difrïo, gwarthruddo, goganu, athrodi, difenwi, anaddwyno.

Blemish not thy good deeds—na ddifwyna dy weithredoedd da.

Blemish, *s.* anaf, mefl, bai, diffyg, meth, anmherffeithrwydd, brycheuyn, gwrthuni, nam, gwall, anafod, anafiad, gwallygfa; anharddwch, anurddas, gwaradwydd, gwarth, gwarthrudd, anghlod, anair, drygair, gogan.

Without blemish—difai, difeius, dïanaf, dinam, perffeithgwbl, difefl, difrycheulyd, dïanair.

Spots they are and blemishes—brychau a meflau ydynt.

No kind of blemish was found in him—ni chaed ynddo *neu* arno na bai nac anaf; anmherffeithrwydd o un rhyw ni chaed ynddo.

Whatsover hath a blemish, that shall ye not offer—nac offrymwch ddim y byddo anaf arno.

There was no blemish in him—nid oedd gwrthuni ynddo; difai ydoedd; nid oedd arno anaf; dïanaf oedd efe.

Blemishless, *a.* (*blemish* a *less*) difai, difeius, dinam, dïanaf, perffeithgwbl, difrycheulyd, difrychau, difefl.

Blemishment, *s.* (o *blemish*) gwarth, gwarthrudd, cywilydd, anfri, gwaradwydd, achlod.

Blench, *v.* (Ff. *blanchir*) osgöi; tasgu yn ol; cilio oddi wrth; tynu ymaith *neu* yn ol oddi wrth; rhoi i fyny; rhwystro, lluddio; gwneyd yn aneffeithiol; gwanhau, seithugio.

Blench, *s.* naid, tarfnaid, tasgiad, mythlam, llam, tarflam.

Blend, **Blende**, } *s.* (Al. *blende*) math o fwn sinc; Blend.

Blencher, *s.* (o *blench*) seithugwr, somwr, lluddiwr, rhwystrwr.

Blench-holding, *s.* gwynddaliad, gwynafael.

Blend, *v.* (S. *blendian;* Al. *blenden*) mysgu, cymmysgu, cydgorffori, cynghorffori, cydgymmysgu, cyfymglymu, cydfysgu, tryfysgu, dyfysgu, cymhlithio, plithio, cysoddi, bloffi; ymgymmysgu, ymfysgu, ymuno, cyngresu; † difwyno, anurddo; † dallu.

A blending together—cymhlithiad, cymmysgiad, cydfysgiad.

Blend-water—mysgwy=math o anhwyldeb ar anifeiliaid.

Blender, *s.* (o *blend*) mysgwr, cymmysgydd, cymhlithiwr, ymfysgydd.

Blendous, *a.* (o *blend* neu *blende*) blendaidd, perthynol i Blend.

Blenorrhœa, *s.* (Gr. *blenna* a *rheô*) llysred, llysnaf, rhediad llysnafedd.

Bless, *v. a.* (S. *bledsian, bletsian, blessian*) bendithio, bendigo, lladu, addwyno, gorladu, arladu, dedwyddu; llwyddo; cyssegru.

To bless one's self—ymfendithio, ymfendigo; ymswyno, ymgroesi; dymladu.

The nations shall bless themselves in him—y cenedloedd a ymfendithiant ynddo; ynddo yr ymfendithia y cenedloedd.

I had not so much time as to bless myself—nid oedd genyf amser gymmaint ag i ymswyno; nid oedd genyf gymmaint ag amser i ymgroesi.

To bless God for his mercies—bendithio, bendigo, moli, moliannu, canmawl, *neu* glodfori Duw am ei drugareddau.

God bless your designs—bendithied, llwydded, *neu* rhwyddhäed Ior eich amcanion.

In blessing I will bless thee—gàn fendithio y'th fendithiaf.

Blessed, *p.* ac *a.* (o *bless*) bendigaid, bendigedig, bendithiedig, gwynfydedig, gwynfydig, dedwydd, hapus, addwyn, menwedig, dywynedig, menediw, gwŷn, (*f.* gwèn), menwydus, gwynfydlawn, gwynfydol.

Blessed is he—gwŷn ei fyd; gwynfydedig yw efe.

Blessed is the man—gwŷn ei fyd y gwr; gwŷn fyd y gwr; bendigedig yw y gwr; gwynfydedig yw y gwr.

Blessed are those servants—gwŷn eu byd y gweision hyny.

Blessed are the dead—gwŷn eu byd y meirw; gwynfydedig yw y meirw.

Blessed with a dutiful son—dedwydd mewn mab ufydd *neu* naturiol; bendithiedig â mab ufydd.

The blessed—y gwynfydedigion, y bendigedigion, y gwynfydolion, caneidlu gogoniant, y dyrfa wynfydlawn.

Come, ye blessed of my Father—deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad.

All generations shall call me blessed—yr holl genedlaethau a'm galwant yn wynfydedig.

The blessed Virgin—y Forwyn fendigaid, y Wyryf fendigedig, y fendigedig Forwyn.

King Charles of blessed memory—y brenin Carl o wynfydedig, bendigedig, *neu* ddedwydd goffadwriaeth; y brenin Carl, coffa da am dano; y gwiwgof frenin Carl; y brenin Carl, gwŷn fyd ei goffa, *neu* gwyn fyd y coffa am dano; Carl y brenin gwynfydedig ei goffa.

Blessed thistle—ysgallen fendigaid.

Blessedness, *s.* (o *blessed*) bendigedigrwydd, bendigedd, bendigrwydd, gwynfyd, dedwyddyd, dedwyddwch, gwynfydedigrwydd, gwynfydigrwydd, gwynfydoldeb, dedwyddoldeb, dywyndeb, gwynfydrwydd, gwynfydolrwydd, hapusrwydd, gwyndod, menwyd.

Blesser, *s.* (o *bless*) bendithiwr, bendigwr, bendithydd, bendigydd.

Blessing, *s.* (o *bless*) bendith; addwyniad, dedwyddyd, llad, dywyndeb, nawdd, rhad, gwyneithedd, addwyndod.

The Lord looked upon the earth, and filled it with his blessings—edrychodd yr Arglwydd ar y ddaiar, a llanwodd hi o'i ddaioni.

Supreme blessing—gorlad.

The smiles of pity shed blessings on the children of misfortune—gwenau trugaredd a dywalltant ladau ar blant aflwyddiant.

Blest, *p.* ac *a.* (o *bless*)=*Blessed.*

Bleyme, *s.* (?) pedfflameg=llosgfa ar droed ceffyl.

Blight, *s.* (S. *blæctha?*) mallder, llosgfallder, malldod, mellni, mall, pall, darball, deifiad, golosgiad, grai, cawod, rhwd.

Blight, *v. a.* mallu, llosgfallu, deifio, golosgi, greio; andwyo, difwyno, lladd, llygru; difa gàn ddeifwynt; peri crino, dihoeni, *neu* edwi; diddymu, seithugio.

Blin,† *v. a.* (S. *blinnan*) attal, rhwystro, peidio.

Blind, *a.* (S., Al., Is., Sw., a D.) dall; tywyll, anamlwg.

Blind man—dyn dall; dyn tywyll.

Blind woman—dynes ddall, benyw ddall, dalles, dyn dall; dynes dywell.

Blind persons—deillion, pobl ddeillion, rhai dall, rhai deillion.

Blind born—dall-anedig, dall-enedig, dall geni, dall cynhenid.

Half blind—hanner dall; yn mron yn ddall; cibddall, coegddall, lled-ddall, goddall.

To become blind—dallu; myned yn ddall, colli ei olwg; tywyllu o lygaid un.

Stone blind, } cwbl, hollol, *neu* berffaith
Stark blind, } ddall; mòr ddall a'r gareg; tryddall; heb weled cymmaint a godywyn.

Sand-blind—brycheuddall, mymrynddall; yn gweled yn y tywyll yn well nag yn y goleu.

Blind of one eye—unllygeidiog, llygadgoll; cam; wedi colli y naill lygad; dall o'r naill lygad.

A cock blind of one eye—ceiliog cam; ceiliog unllygeidiog; ceiliog naill lygad.

To become blind of one eye—colli y naill lygad.

He is blind—dall yw efe; y mae efe yn ddall.

To set the blind to lead the blind—rhoi y dall i dywys y dall.

He has been blind for some years—y mae efe wedi colli ei olwg *neu* olygon er ys blyneddau; y mae efe yn ddall ers rhai blyneddau.

Blind men cannot judge of colours—beth sydd i'r dall a wnelo â'r drych? nis gall deillion farnu lliwiau.

As blind as a beetle—mòr ddall a'r wadd; cyn ddalled a'r wadd; mòr ddall a'r wàl; heb weled mwy na'r wàl; heb weled golwg ar y byd; heb weled trem.

When the devil is blind—yn nghyfarfod deusul; pan gwrddo dau fynydd; byth ni bydd.

He is blind to his own interest—y mae efe yn ei oleu ei hun; nid yw yn canfod ei les ei hunan.

Blind to the future—anwybodus o'r hyn a ddel; dall am à ddaw; dall o'r dyfodiant.

Blind to our own defects—dall i'n diffygion *neu* wendidau ein hunain.

A blind story—chwedl dywyll, chwedl ddall, ystori ddall.

A very blind question—dadl ddyrys iawn; ymofyniad trathywyll; gofyniad anhawdd iawn.
A blind writing—ysgrifen anamlwg, ysgrifen bôl; ysgrifen anamlwg, bôl, *neu* wedi pylu gàn henaint.
He is but a sort of blind orator—nid yw efe ond areithydd godywyll; nid yw efe ond areithydd go drwsgl; nid yw ond areithiwr lled anhawdd ei ddeall.
A blind way—ffordd afrwydd; ffordd ddyrys.
A blind gate—porth tywyll.
A blind corner—cornel tywyll.
Blind chance—damwaen ddall, tynged ddall, tyngedfen ddall.
Blind side—ochr wàn, màn gwàn, gwendid, anmherffeithrwydd.
She has got the blind side of him—y mae hi wedi cael allan ei wendid; y mae wedi cael gafael ar ei ochr wàn; hi a ŵyr y ffordd arno; hi fedr ei drin.
To attack one on his blind side—chwareu ar wendid un; chwareu ar ochr wàn un.
The blind gut—y coluddyn pengauad, y boten bengauad.
Blind pretence—gwagesgus, coeg esgus, esgus gwàn.
Blind vessel—llestr pengauad.
Blind coal—glo careg, glo caled, maenlo, caledlo.
Blind nettle—danadlen ddall, danadlen farw, danadcn fud.
Blind ball—coden ddall=math o ffwng.
Blind man's buff—bwbach dallan, mwgwd y dall, mwgwd y ieir, mwgwd y glicied.
To play at blind man's buff, } chwareu
To play at blind and buffet, } bwbach dallan, chwareu mwgwd y dall, &c.
To make blind—dallu, tywyllu; gwneuthur yn ddall; tynu llygaid.
Blind, *v. a.* dallu; tywyllu, mygydu, caddugo; twyllo, somi, hudo; bwrw hud; bwrw hud ar *neu* dros lygaid.
Their minds were blinded—dallwyd eu meddyliau hwynt.
Their foolish heart was blinded—eu calon anneallus hwy a dywyllwyd.

Blind, } *s.* = { *Blend.*
Blinde, } { *Blende.*

Blind, *s.* gorchudd, caeadlen, cauadlen, mwgwd, taenlen; rhith, lliw, esgus, ffug, lledrith, gwagesgus.
All this is but a blind—nid yw hyn i gyd ond lliw.
One thing serves as a blind for another—gwasanaetha y naill beth yn esgus *neu* gysgod dros y llall.
Blindfold, *a.* (*blind* a *fold*) mygydol; â'i lygaid yn nghudd; dàn fwgwd; yn nghau, *neu* yn nghaead; gwedi ei ddallu *neu* dywyllu.
Blindfold, *v. a.* mygydu, dallu, tywyllu; gorchuddio *neu* guddio y llygaid; bwbachu; rhoi gorchudd ar lygaid.
When they had blinded him—gwedi iddynt guddio ei lygaid ef.
Blindly, *ad.* (o *blind*) yn ddall, yn dywyll, dàn fwgwd; â'i lygaid yn nghau; yn fyrbwyll; ar amcan; heb ystyriaeth *neu* ystyried; yn llwrw ei ben; yn ŵyàg ei ben; yn ias ei ben; yn y tywyllwch.
Blindness, *s.* (o *blind*) dallineb, dellni, delli, dalledigaeth; tywyllwch, tywyllni.
Blindness of mind—dallineb, tywyllwch, *neu* dywyllni meddwl.
Blinds, *s. pl.* (o *blind*) mygydion, taenleni.
Blindworm, *s.* (*blind* a *worm*) dall-neidr, maddall, madfall, pwl dall, pwr dall.
Blink, *v. n.* (S. *blican;* Al. *blinken;* D. *blinker*) ysmicio, ysmician, ysmigio, amrantu, llygadgamu, ysmiglygadu, amneidio â llygad, cil-lygadu; cau y naill lygad; bod yn bwl ei olwg; bod yn llygadwan; ymddangos a dad-ymddangos.
Blink, *s.* cipolwg, llettrem, llygaden, ysmig, ysmic, ysmigiad, ysmiciad, amrantiad, amrentyn, cythrym.
Blink-eyed—llygadgam, cam, llygadwan, ysmiglygad, camlygad.
Blink of ice—terylledd ia.
Blinkard, *s.* (o *blink*) ysmiciwr, ysmigiedydd, ysmigydd, llygadgamwr, amneidiwr; ysmiciwr ei lygad; un llygadgam *neu* lygadwan.
Begone, thou cowardly blinkard—ffwrdd â thi, y cilgi cam.
Go thy way, thou cunning blinkard—dos i'th ffordd, ysmiciwr ffals.
Why, blinkard, dost thou provoke me?—pa ham, lygadgam, y'm blini?
Blinkers, *s. pl.* (o *blink*) canwyl, clustiau ffrwyn, clustiau ffrwyn ddall.
Blinking, *p. a.* (o *blink*) ysmiciol; llygadwan, llygadgam; yn ysmician, &c.
Blinking light—goleuni glas, goleuni glas gwàn, tywyll oleu, glas oleu, gwàn oleu; goleu llwydlas gwanaidd; ysmig-oleu.
Blinking candle—canwyll dywell, ddïoleu, *neu* ddileufer; canwyll wàn ei goleu.
Blinking stars—ysmigser, ser ysmig; ser yn ymddangos ac yn diflanu. [non.
Blinks, *s.* dyfr-wlyddyn, dyfr-wlyddyn y ffyn-
Bliss, *s.* (S.) gwynfyd, dedwyddyd, dedwyddwch, gwynfydrwydd, gwenyd, ceinfod, gorffawg, dywyneb, dwyndeb, gwynfydedigrwydd.
Extreme bliss—gorwynfyd, gorffawg.
Mutual bliss—cyd-ddedwyddwch, cynnedwyddwch, cydwynfyd.
The region of bliss—gwenfro, bro gwynfyd, gwenydfa, gwynfa.
Blissful, *a.* (o *bliss* a *full*) gwynfydlawn, gwynfydedig, gwynfydig, dedwydd, dedwyddlawn, menwydus, menwydog; llawn *neu* gyflawn o ddedwyddwch.
Blissfulness, *s.* (o *blissful*) gwynfydedigrwydd, gwynfyd, dedwyddyd, dedwyddwch, gwynfydrwydd.
Blissless, *a.* (*bliss* a *less*) diwynfyd, diddedwyddwch, annedwydd.
Blissom, *v. n.* (C. *blysio*) rhidio, cathderica.
Blister, *s.* (Al. *blase, blatter*) pothell, chwydalen, ffothell, bothell, chwysigl, chwysiglen, coden; chwysiglai, chwysiglydd; ploryn, llynoryn.
Blister-fly—cylionen paradwys, cylionen Yspaen, cylionen y chwysigl.
Watery blister—chwydalen.
Blister under the skin—gwenan.
Blister, *v.* pothellu, chwydalu, ffothellu, bothellu, codenu, chwysiglenu; ymbothellu.
Blistering plaster—chwysiglai, chwysiglydd, pothellai, pothgyfod, blincwra, pothellgawd.
Blistering heat—gwres chwysiglenol, gwres pothellol; tandde, ennynfa.

Blistery, *a.* (o *blister*) pothellog, chwysiglenol, ffothellog, bothellog, codenog; llawn pothellau *neu* chwysiglau; llynorog, plorynog.
Blite, *s.* (Gr. *bliton;* Ll. *blitum*) pigoglys, pigoga.
Blithe, *a.* (S. *blithe, bleatha, bleathe*) llon, llawen, difyr, hylon, gorawenus, hoenus, gorhoenus, nwyfus, chwarëus, chwareol, chwareugar, gorawenol, siriol, hoew, gwych, bywiog, ysbrydlawn.
Be blithe—ymlawenhëwch.
Look blithe upon it—digrycha dy dalcen ac edrych yn llawen.
Very blithe and joyous—yn barod i neidiaw o'i groen gàn lawenydd.
To be blithe—bod yn llon, &c.; ymloni, ymlawenhau, ymlawenu.
Blitheful, *a.* (o *blithe* a *full*)=*Blithe.*
Blitheness, *s.* (o *blithe*) llonder, llawenydd, llonedd, digrifwch, hoen, hoenedd, hoenusrwydd, hoenusder, gorhoenedd, gorawen, difyrwch, dyddanwch, sirioldeb, gwychedd, gwychder, ysbrydlonedd, hoewedd, nwyfusrwydd.
Blithesome, *a.* (o *blithe*)=*Blithe.*
Blithesomeness, *s.* (o *blithesome*)=*Blitheness.*
Bloat, *v.* (C. *bluth;* o *blow*?) chwyddo, ymchwyddo, blytho; chwyddo gàn wynt; chwythu i fyny; ymledu, ymhelaethu, ymrythu.
Bloat,† *a.*=*Bloated.*
Bloated, *a.* (o *bloat*) chwyddedig, ymchwyddedig, blythedig; (*f.* blothedig), mwythig; gwedi ei chwythu.
A bloated person — blythach, blythai, mwythog.
A bloated female—blothach, mwythogen.
Bloated flesh—rhythgnawd, blythgnawd.
Bloatedness, *s.* (o *bloated*) chwyddedigaeth, chwydd, ymchwydd, chwyddaint, blythni, blythedigaeth.
Blobber, *s.* (Gael. *plub?* Gw. *blobaire*?) bwrlwm, cloch y dwr, morwysiad, clogoren: *pl.* byrlymau, morwys, clych y dwr, clych tawch.
Blobberlip, *s.* (*blobber* a *lip;* Gw. *blob, blobach*) gwefus dew, gwefl dew.
Blobberlipped, } *a.* (o *blobberlip*) gwefusdew,
Bloblipped, } gwefldew, gweflog.
Blobtale, *s.* (o *blab* a *tale*)=*Blab.*
Block, *s.* (Al. *block;* Is. *blok;* Ff. *bloc*) cyff, boncyff, cippill, ploc, plocyn, celff, hurt; talp, clamp; chwerfan, chwerfan dro, trogyff; attal, lluddias, llestair; gweilging; hurthgen, brebwl, penbwl, cadafael, cuall.
Stumbling block—cyff tramgwydd, maen tramgwydd, tramgwyddfa.
Small block—plocyn.
Hat block—ploc het, cyff het, mold hetiau.
To bring to the block—dwyn i'w ddïenydd; dwyn i'w farwolaeth; dwyn un i berygl am ei fywyd *neu* ei einioes.
Chopping block—trychgyff, cyff trychu, cyllgyff, ysgymmyngyff.
Horse block—esgynfaen, marchfaen, ystanc ceffyl, esgynfa.
To cast a block in one's way—taflu rhwystr *neu* dramgwydd yn ffordd un.
Block, } *v. a.* (Ff. *bloquer;* It. *bloccare*)
Blockade, } gwarchau, gwarchae, cau i fyny, argau, amgylchu, amgylchynu, damgylchu, cylchynu; bwrw clawdd yn erbyn tref; plocio.
To block up passages—cau, argau, gwarchau, *neu* gaethiwo ffyrdd; gwneuthur rhagod, *neu* ragodfa yn mhenau ffyrdd; cau bylchau *neu* adwyau; rhagod yr heolydd *neu* y ffyrdd.
Blockade, *s.* (It. *bloccato*) gwarchae, argae, amgae, amwarchae, amgylchyniad, cylchyniad, cauad i fyny; amglawdd, attalgauad.
Blockhead, *s.* (*block* a *head*) penbwl, cadafael, cadafel, hurthgen, pendew, brebwl, llob, llelo, hurtyn, hurtan, delff, hult, cuall, penglog, penbwla, penllorcan, penwan, symlyn, delbren, hwrdd o ddyn.
A down right blockhead—brenin y penbyliaid; hwrdd o ddyn; penbwl y penbyliaid.
Thou silly blockhead!—y penbwl gwirion!
Blockheaded, *a.* (o *blockhead*) penbylaidd, penffol, pendew, hurt, penblydd, penfas, penfeddal, delffaidd, penglogaidd, penwan, synwyrbwl, disynwyr, anhyddysg, dwl, (*f.* dôl), syn, trymhyrddig, cuall.
Blockheadly, *a.* (o *blockhead*) penbylaidd; fel penbwl, &c.
Blockhouse, *s.* (*block* a *house*) diffyndy, cadarnle, cadarndy, argaedy, diogeldy.
Blockish, *a.* (o *block*)=*Blockheaded.*
Blockishness, *s.* (o *blockish*) penbyledd, hurtrwydd, penffoledd, pendewedd, penglogedd, penglogeiddrwydd, penfasedd, penfasder, syfrdandod, penwendid, pengaledrwydd, trymhyrddigrwydd, anhyddysgedd, pylni.
Blocklike, *a.* (*block* a *like*) penbylaidd, pendewaidd, hurtaidd.
Blocktin, *s.* (*block* a *tin*) puralcan, alcan pur, prifalcan, goralcan.
Blomary, *s.* (o *bloom*, talp o haiarn) toddfa haiarn, haiarndoddle=y forthwylfa gyntaf yr eiff yr haiarn drwyddi ar ol ei doddi.
Blond-lace, *s.* (Ff. *blonde* a *lace*) rhwydwe sidan, rhwydronell sidan.
Blonket,† *a.* (*blanket?*) llwyd.
Blood, *s.* (S. *blod;* Sw., D., ac Al. *blut*) gwaed; crau; gwyar; gwaedogaeth, gwaedoliaeth; bonedd; cystlwn, carennydd, tras, ach; murn; llofruddiaeth, celanedd; afradog, penboeth, rhacai; sudd, nodd.
Congealed blood—ceulwaed, gwyar.
Flesh and blood—cig a gwaed.
Blood of grapes — gwaed y grawnwin; gwaed grawnwin; sudd, sugn, *neu* nodd y grawnwin.
Circulation of the blood—amlifad y gwaed, amrediad y gwaed, cylchrediad y gwaed, gwaedrawd, gwaedre.
To let blood—gwaedu; gollwng gwaed, taro gwaed.
To stain with blood—gwaedlydio, gwaedlydu, gwaedreiddio; gwneuthur yn waedlyd; halogi â gwaed; trybaeddu mewn gwaed; trochi mewn gwaed; ysbrychu â gwaed.
To shed blood—tywallt gwaed, gollwng gwaed, gwaedgolli, dynëu gwaed, gorddynëu gwaed.
To spit blood—poeri gwaed, gwaedboeri.
To stanch *or* stop blood—attal gwaed; sychu tarddelliad, ffynnonell, *neu* ddyferlif gwaed; peru i waedlif sefyll *neu* sychu.
Issue of blood—dyferlif gwaed; gwaedneu, gwaedling, gwaedlin.

And immediately her issue of blood stanched—ac yn y fàn y safodd dyferlif ei gwaedlin; ac yn y fàn y sychodd ffynnonell ei gwaed hi.

His blood is up—y mae y gwaed yn brydio yndo; y mae efe yn brydio, gwyniasu, poethi, *neu* ferwi gàn ddigofaint.

To dip hands in blood—trochi dwylaw mewn gwaed; ymdrochi mewn gwaed.

Our swords were dipped in blood—trochwyd ein cleddyfau mewn gwaed.

To train up in blood—dwyn i fyny, magu, meithrin, *neu* hyfforddi mewn lladdfa *neu* waed; arferyd i waed; arferyd i dywallt gwaed; cynnefino â gwaed; cynnefino â thywallt gwaed.

He was scourged till the blood came—ffiangellwyd ef nes gwaedu o hono; ffrewyllwyd ef nes i'r gwaed ffrydio.

A spot of ground reddened with blood—rhuddfa, rhuddfan, gwaedlan, creulan.

To breed ill blood—magu gwaed drwg; peri gwaed drwg; magu ymryson, casineb, *neu* anfoddlonrwydd; peri chwerwedd.

Defiled with blood—halog gàn waed; halogedig â gwaed; gwaedlyd, creulyd, gwyarog, gwyarllyd.

To drench in blood — gwyaru, creuoli; trochi mewn gwaed; gwaedreiddio.

Full of blood—llawn gwaed, llawn o waed; gwaedog, gwaedlawn, creulawn, gwyarllawn.

Reviling before blood—ymddifenwi o flaen celanedd.

Corrupted blood—gôr, gwyar, crawnwaed, drygwaed, gwaed drwg, hadlwaed, gwaed hadledig.

Full of corrupt blood—llawn drygwaed; llawn o ddrygwaed; gorllyd, gwyarllyd, crawnllyd.

Clotted blood—tonwaed, gwyar.

A man of blood — dyn gwaedlyd, gwr gwaedlyd.

To warm the blood—poethi y gwaed; cynhyrfu *neu* gyffröi y nwydau.

To colour with blood—gwaedliwio, creuliwio.

Kindred by blood—gwaedoliaeth, gwaedogaeth, carennydd.

Blood royal — gwaed breninol, breninol waed.

A prince of the blood—tywysog o'r gwaed breninol.

One of the blood royal — un o'r gwaed breninol; un o'r breninol deulu; un o'r teulu breninol.

He was a stranger to the Persian blood—estron oedd efe i waed y Persiaid.

Those that are of the king's blood—ceraint y brenin.

A gentleman of blood and breeding—boneddig o waed a bonedd; gwr o fonedd a moes.

Nearness of blood—cyfnesafiaeth, carennydd.

Next in blood—cyfnesaf, câr nesaf, perthynas agosaf.

Of noble blood — o waed, gwaedogaeth, neu waedoliaeth bendefigaidd *neu* ddyledog; pendefig *neu* bendefigaidd o waed; dyledogryw, pendefigaidd, boneddigryw.

High blood — uchelwaed, gwaedogaeth uchel, gwaedoliaeth uchel.

Of ignoble blood — lledryw, lledrywiog, lledachog, iselwaed, o iselwaed, o waed isel.

Blood, *v. a.* gwaedu, gollwng gwaed; gwaedlydio.

Blood-bespotted, *a.* gwaedfânog, mànog gàn waed, creufrithog.

Blood-boltered, *a.* gwaed-ysgeiniedig; taenelledig â gwaed.

Blood-bought, *a.* gwaed-brynedig; à brynwyd â gwaed; gwaedbryn.

Blood-clod, *s.* tonwaed.

Blood-consuming, *a.* gwaedysol, gwaed-dreuliol, creuddifaol.

Blood-coloured, *a.* gwaedliw, creuliw; gwaedliwiog, gwaedliwiol.

Blood-drenched, *a.* creudde, creulyd, creuled, gwyarllyd; trochedig mewn gwaed.

Blood-drinking, *a.* gwaedyfol; yn yfed gwaed.

Blood-drunk, *a.* gwaedfeddw; meddw gàn waed.

Blood-dyed, *a.* gwaedliwiedig, creuliwiedig, gwaedliwiog; gwedi ei liwo â gwaed.

Blood-flower, *s.* creuflodeuyn, creuflodyn; *pl.* creuflodau.

Blood-frozen, *a.* gwaedrewedig, creurewedig.

Blood-guiltiness, *s.* llofruddiaeth, llofruddiad; gwaed-euogrwydd; tywalltiad gwaed.

Deliver me from blood-guiltiness—gwared fi oddi wrth waed.

Blood-heat, *s.* (*blood* a *heat*) naws y gwaed, gwres y gwaed, creunaws, gwaed-wres.

Blood-horse, *s.* (*blood* a *horse*) gwaedfarch, creufarch.

Bloodhot, *a.* (*blood* a *hot*) o naws y gwaed; yn ngwres y gwaed; o wres y gwaed; yr un *neu* o'r un gwres a'r gwaed; creunaws.

Bloodhound, *s.* (*blood* a *hound*) gwaedgi, gwaedhuad, creugi, gorsawrgi: *f.* gwaedast, gorsawrast.

Bloodiness, *s.* (o *bloody*) gwaedogrwydd, creuder, creuolder, creulonedd, gwaedgarwch, creugarwch, gwaedlydrwydd.

Blood-land, *s.* gwaettir, creudir.

Bloodless, *a.* (*blood* a *less*) diwaed, heb waed; heb golli *neu* dywallt gwaed; digalon, marwaidd, difywyd.

A bloodless victory—buddugoliaeth ddiwaed; goruchafiaeth heb dywallt gwaed.

Blood-let, *v. a.* (*blood* a *let*) gwaedu; gollwng *neu* daro gwaed; gwythagor.

Bloodletter, *s.* (o *bloodlet*) gwaedydd, gwaedwr, gollyngydd gwaed.

Bloodletting, *s.* (*blood* a *let*) gwaediad, gwaedollwng, gollyngiad gwaed, gollwng gwaed.

Blood-marked, *a.* gwaedfânog, creufânog; wedi ei nodi â gwaed.

Bloodpudding, *s.* (*blood* a *pudding*) gwaedogen, poten waed.

Bloodred, *a.* (*blood* a *red*) gwaedrudd, gwaedgoch, gwaedliw, creuliw; mòr goch a'r gwaed; coched a'r gwaed; o liw y gwaed; creuliwiog, gwaedlyd.

Bloodred heat—twym gwaedliw.

Bloodred, *s.* gwaedrudd, gwaedgoch, gwaedliw, creuliw.

Blood-root, *s.* gwaed-wraidd, creu-wraidd.

Blood-shaken, *a.* gwaedsigledig, creusigledig.

Bloodshed, Bloodshedding, } *s.* (*blood* a *shed*) tywalltiad gwaed, gwaedgoll, gwaed-

rediad, lladdfa, llofruddiaeth, llofruddiad, gwaettywallt.
There was much bloodshed in that place—bu tywallt, tywalltiad, *neu* goll gwaed lawer yn y lle hwnw; bu lladdfa fawr yn y lle hwnw.
The strife of the proud is bloodshedding—amryson beilchion a bair gelanedd.

Bloodshedder, *s.* (o *bloodshed*) tywalltwr *neu* dywalltydd gwaed; llofrudd, lleiddiad dyn, llawrudd, llofruddiwr, llawruddiog.

Bloodshot, Bloodshotten, } *a.* (*blood* a *shoot*) gwaedglais, gwaedgleisiog, creuglais; cilgoch, coch, rhudd.
Blood-shot eyes — llygaid cilgochion, llygaid cochion, llygaid gwaedglais, llygaid gwaedgleisiog.

Bloodsnake, *s.* (*blood* a *snake*) creuneidr, gwaedneidr.

Bloodspavin, *s.* (*blood* a *spavin*) creulyncoes, gwaedlyncoes.

Bloodspilling, *a.* (*blood* a *spill*) gwaettywalltol, gwaedgoll, gwaedlifol, creulifol, gwaedraidd, gwaedffrau.

Bloodspitter, *s.* (*blood* a *spit*) gwaedboerydd, gwaedboerwr, poerydd gwaed.

Bloodstained, *a.* (*blood* a *stain*) creudde, gwaedlyd, gwaedled, gwaedlydiedig; halog gàn waed; gwyarog; llofruddiog, llofruddiol.

Bloodstone, *s.* (*blood* a *stone*) gwaedfaen.

Blood-stream, *s.* gwaedlin, gwaedling, gwaedlwrw, gwaedneu, gwaedlif.

Bloodsucker, *s.* (*blood* a *suck*) sugnydd gwaed, gwaedsugnydd; gele, gêl, geloden; gorneswr creulawn; llofrudd.

Bloodsucking, *a.* gwaedsugnol, gwaedgael, gwaedsugn.

Bloodswelled, Bloodswollen, } *a.* (*blood* a *swell*) gwaedchwyddedig; chwyddedig gàn waed.

Bloodthirstiness, *s.* syched am waed; gwaedsyched, gwaedgarwch, creugarwch; creuolrwydd, gwaedlydrwydd, creuolder.

Bloodthirsty, *a.* (*blood* a *thirsty*) sychedig am waed; yn sychedu am waed; à syched arno am waed; gwaedgar, creugar, creuol, gwaedlyd; llofruddiol, llawruddiog.

Blood-vessel, *s.* llestr gwaed, gwaedlestr, gwythen, gwythïen, gwythen waed, rhedweli: *pl.* llestri gwaed, gwaedlestri, gwythenau, gwythïenau, gwythi, rhedwelïau.

Bloodwarm, *a.* (*blood* a *warm*) o naws y gwaed; yn naws y gwaed; yn ngwres y gwaed; o wres y gwaed; clauar, llugoer.

Bloodwite, Bloodwit, } *s.* (*blood* a *wite*) ceiniog baladr, cysswyn paladr, galanas; camlwrw dros waed.

Bloodwon, *a.* (*blood* a *win*) gwaedennillog; à ennillwyd drwy dywallt gwaed.

Blood-wood, *s.* creuwydd, gwaedwydd, logwydd.

Bloodwort, *s.* (*blood* a *wort*) gwaedlys, canclwm, llysiau y milwr.

Bloody, *a.* (o *blood*) gwaedlyd; creulawn, creuol, creugar, creulyd, gwaedled; llofruddiol, llawruddiog.

Bloody, *v. a.* gwaedlydio, gwaedlydu.
Bloodied garments—dillad creulyd, creuddillad, dillad gwaedlydedig.
Woe to the bloody city!—gwae ddinas y gwaed.
A bloody fellow — dyn gwaedlyd, adyn gwaedlyd; un yn chwythu celanedd; un sychedig am waed.

Bloody torrent, Crimson torrent, } creulif.
Bloody surface—creulen, creugaen.

Bloody-eyed, *a.* gwaedlygad, llygadrudd, creulygeidiog.

Bloody-faced, *a.* gwynebrudd.

Bloody-flux, *s.* gwaedlif, gwaedlifiant, gwaedglwyf, gwaedlin, pib waed, clefyd y gwaed.

Bloody-hand, *s.* llaw rudd, gwaedlaw, rhuddlaw =llaw wedi ei throchi yn ngwaed danys, yn ol hen gyfreithiau coedwigol Lloegr.

Bloody-minded, *a.* gwaedfrydig; gwaedlyd ei feddwl; â'i fryd ar dywallt gwaed, *neu* ar greulonder; â meddwl gwaedlyd iddo *neu* iddi.

Bloody-mindedness, *s.* gwaedfrydigrwydd, gwaedfryd; creulondeb *neu* waedlydrwydd bryd *neu* feddwl.

Bloody-red, *a.* gwaedgoch, creugoch; coch fel gwaed; gwaedliw, creuliw.

Bloody-sweat, *s.* chwys gwaedlyd; chwyswst.

Bloom, *s.* (Is. *bloem*; Al. *blume*; Sw. *blomme*) blodau; fflur, gwull; glasbaill, pain, blodeuyn, gwrid.
Bloom of fruit—glasbaill, glesni, pain.
Bloom of trees—blawd gwydd, pain gwydd, glasbaill coed, bala coed.
The trees are in their bloom—mae y coed yn eu blodau.
The bloom of youth—blodau ieuenctyd, hoen ieuenctyd; blodau oes, blodau oed.
The bloom of health—hoen iechyd, hoenwedd iechyd.
He was then in his bloom—yr oedd efe y pryd hwnw yn ei flodau; yr oedd e y pryd hwnw yn mlodau ei oedran.
She is now past her bloom—y mae hi yn awr wedi myned dros flodau ei hoed *neu* oedran.
In your manly bloom—yn ngrymus oed eich blodau; yn ngrymus flodau 'ch oed.
The gay bloom of the green mead—glwysbert fflur y glasbawr.

Bloom, *v. n.* blodeuo, blaguro, ffluro, gwullio, blodio, blottarddu; dwyn blodau; bod yn ei flodau; bod yn dirf; bloenu, peinio, gwrido; ffynu, llwyddo.
The rod of Aaron had bloomed blossoms—gwialen Aaron a flodeuasai flodau.
Full-bloomed — blodeulawn, blodeuog, blodlawn; llawn blodau, gwull, *neu* fflur.

Bloom, *s.* (S. *bloma*) haiarndalp, talp o haiarn, clamp haiarn.

Blooming, Bloomy, } *a.* (o *bloom*) blodeuog, blodeuol, blagurog, ffurog, gwulliog, llawn blodau, mewn blodau, fflur; yn dwyn blodau; blodenol, bloenol, bloynol, blottarddol; gwridog, rhosliwiog; tirf, tirfias, hoewder, irlas, irlasdeg, ir, iraidd; nwyfiawn, ieuanc.
A blooming beauty — bun landeg yn ei blodau.
Blooming countenance—hoen blodau haf; rhosliwiog wedd; gwedd hinon haf; pryd à'i wrid fel bore Mai; prydmirain, blodeuwedd.
Bloomy beauties—ceinion lliw hinon haf; teleidion fel hinon haf; teleidion fel gwullion gwaen; teleidion fflur.

Blore, † *s.*=*Blare*.

Blossom, *s.* (S. *blosm, bloma, blosan*) blodeuyn, blodyn, bloden, blodon, gwull, fflur, blöen, blöyn, blaguren: *pl.* blodau, blodion, gwullion, flluroedd, flluron, blagur.

Blossoms and flowers—gwull a blodau.

The flowerets of the vale and the blossoms of the wood — gwull dolau a blodau gwŷdd.

Second blossoms—adflodau.

Blossom horse—march gwineuwyn, march broc, ceffyl broc.

Blossom, *v. n.* blodeuo, blaguro, gwullio, flluro, blodio; dwyn blodau; bod mewn blodau; bod yn dirf; blottarddu, blaendarddu, bloenu; peinio; ffynu, llwyddo.

The desert shall blossom as the rose—y diffaethwch a flodeua fel rhosyn.

Blossoming, } *a.* (o *blossom*) blodeuog, blodeuol,
Blossomy, } blodeulawn; llawn blodau; yn dwyn blodau; blagurog, flluroog, gwulliog.

Blossoming, *s.* blodeuad; blagurad.

Blot, *v. a.* (Goth. *blauthjan;* Sw. *plottra*) dufânu, ardduo, duo, mànu, ysmotio, diwyno, ystaenio; anurddo, difwyno, anafu, gwarthruddo, gwarthâu, anurddasu, dwyn anghlod; dilëu, diddymu.

To blot out—dilëu; crafu, croesi, bwrw, tynu, *neu* olchi ymaith *neu* allan; diddymu, dïelwi, difuddio, difodi; dystrywio.

To blot out of a book—dilëu allan o lyfr; dilyfru.

He blotted his letter oll over—dufânodd ei lythyr drosto i gyd; efe a fânodd ei holl lythyr drosto.

You have blotted the paper with ink—difwynasoch *neu* diwynasoch y papyr â du; dufanasoch y papyr; diwynasoch y papyr âg inc.

My paper has been blotted—dufanwyd fy mhapyr.

My paper blots — y mae fy mhapyr yn sugno y du; sugna fy mhapyr yr inc; sugn *neu* sugnedd fy mhapyr a bair i'r du redeg.

I blotted it with my tears—diwynais ef â'm dagrau; fy nagrau a barasant y llygrau sydd ynddo.

He blotted his character by this very thing—efe a anurddodd *neu* a ddifwynodd ei air da trwy yr un peth hwn; efe a dynodd waradwydd arno ei hun trwy hyn o beth yn unig.

To be praised by the base blots a man's reputation—anghlod yw i ddyn ei glodfori *neu* gael clodforedd gàn ddyhiryn.

To blot out one's own track—ymddïoli.

Blotting paper—tarnbapyr, sugnbapyr.

Blot, *s.* dufan, màn, màn du, ol du, arddnad, ysmotyn, dunod, ystaen; difwyniad, diwyniad; anair, anghlod, drygair, anaf, nam, anurddas, gwarth, gwaradwydd, gwarthrudd, nefi; dilead, diddymiad, dïoliad.

My tears caused the blots in my letter—fy nagrau a barasant y manau *neu* y llygrau yn fy llythyr.

If any blot hath cleaved to my hands—os glynodd dim afian wrth fy nwylaw.

This will leave an indelible blot upon him—pair hyn anair iddo tra y byddo efe byw; bydd hyn yn anghlod iddo tra y byddo yn fyw; fe ad hyn ei ol arno tra byddo efe byw yn y byd; e lŷn hyn wrtho tra y bo efe byw yn y byd.

A lie is a foul blot in a man—anaf mawr ar ddyn yw celwydd.

Lest he bring upon thee a perpetual blot—rhag iddo roddi arnat ti anaf byth.

He that rebuketh the wicked getteth himself a blot—yr hwn a feio ar y drygionus a gaiff anaf.

Blotch, *s.* (S. *blæctha*) crugdardd, cornwyd, llynoryn, ploryn.

Blotch, *v. a.* duo, ardduo.

Blote, *v. a.* (D. *blöder*, Sw. *blöta?*) mygsychu; sychu â mygu.

To blote herrings—sychu ysgadan *neu* benweig yn y mwg; mygsychu ysgadan.

Blotter, *s.* (o *blot*) goreslyfr.

Blow, *s.* (Is. *blowe*) ergyd, dyrnod, cnoc, llach, llab, chwap, chwepyn, ffat, dul, paff, panc, wab, cur, curfa, clap, cis, ffonod; cernod, bonclust, cernhep, palfod, ysmacht.

Blow on the cheek—cernod, cernhep.

Blow on the ear—bonclust, cernod, cernawd.

Blow on the head, } cernhep.
Blow on the cheek, }

Blow with the fist—dyrnod, dyrnawd.

Blow with the palm of the hand—palfod, palfawd.

Blow with a stick — llach, ffonod, ffonawd; llach â ffon.

They went from words to blows—aethant o ymdaeru i ymdaro; aethant o eiriau i arfau.

I am consumed by the blow of thy hand—gàn ddyrnod dy law y darfum i.

He gave him a blow with his fist—rhoddes iddo ddyrnod.

She gave him a blow on the ear—hi roddes iddo gernod; hi a'i cernodiodd; hi a'i bonclustiodd ef.

Gentle blow—cnith, cis, prad, gogis, ffat, ergyd ysgafn.

Side blow—dyrnod llettraws; ergyd yn ngwrthwyneb llaw.

At a blow—ar un ergyd; ar un dyrnod; ar unwaith.

Without striking a blow—heb daro ergyd; heb ymladd; yn ddïymladd.

To come to handy blows—ymladd lawlaw; dyfod i ymladd lawlaw; ymladd *neu* ddyfod i ymladd ddwrn tra dwrn *neu* law dra llaw.

A word and a blow—gair a chernod.

To give a blow—bwrw ergyd, rhoi ergyd, taro ergyd.

With a very grievous blow—â phla tost iawn (*Ier.* xiv. 17).

To deal blows—rhoi aml ddyrnodiau, ergydion, *neu* ffonodiau; amlhau dyrnodiau *neu* ergydion; dyblygu *neu* ddyblu dyrnodiau *neu* ergydion; rhoi dyrnodiau yn fân ac yn aml; llachio, ymarfodi, paffio.

Fly-blow—chwyth cylion.

Blow, *v.* (S. *blawen, blowan*, chwythu; *blowan*, blodeuo) chwythu, awelu; pwffio, pyffio, pyffian; anadlu, analu; blodeuo, blaguro, ymagor; canu, seinio, udganu; chwyddo.

It blows a pleasant gale—y mae yn chwythu yn hyfryd.

To blow away — chwalu, gwasgaru; chwythu ar wasgar; chwythu ymaith;

chwythu ar gerdded *neu* ar led; gwasgaru â chwyth.
They shall be blown away by the wind—hwy a chwelir gàn y gwynt.
He blew away their armies with a puff of his breath—gwasgarodd eu lluoedd hwynt â chwyth ei anadl.
To blow upon—chwythu *neu* anadlu ar; peri diflasdod; dïystyru, bychanu, dirmygu; rhedeg ar; lladd ar; dyweyd yn ddïystyrus am.
To blow against—chwythu yn erbyn; gwrthwyntio, gwrthchwythu; chwythu yn groes.
To blow down—chwythu i lawr; dadymchwelyd â chwyth; taflu *neu* fwrw i lawr â chwyth.
To blow off—chwythu ymaith; chwythu ffwrdd; chwythu, siglo, *neu* ysgwyd i lawr.
To blow out—chwythu allan; diffodd, diffoddi.
To blow up—chwythu i fyny; chwyddo; chwythu; llenwi o chwyth *neu* wynt; pyffio; pyffio i fyny; llanw i fyny; cynneu, megino; chwythu i gynneu; ffrwydro, dryllio, darnio; dadymchwelyd; gwasgaru, diddymu.
To blow up one's cheeks—chwyddo ei fochau.
To blow up the fire—chwythu y tân; chwythu y tân i gynneu; bwäu y tân.
To blow up with gunpowder—ffrwydro â phylor gŵn; chwythu i'r awyr â phylor gŵn; chwilfriwio â phylor saethu.
To puff and blow—erthychain, dychwythu, pyffial, pyffian, pyffio, pwffial, ymchwythu, dyhëu, tarthain, peuo, lluddedu.
He came in puffing and blowing—daeth i mewn dàn byffial; daeth i mewn dàn luddedu *neu* ddychwythu; daeth i mewn dàn chwythu a phwffial.
Sweating and blowing—yn chwys ac yn lludded; dàn chwysu a phyffian; gàn chwysu ac erthychain.
With the same breath he blows hot and cold—y mae efe yn dywedyd ac yn gwrthddywedyd â'r un anadl; y mae yn chwythu twym ac oer ar unwaith.
To blow gently—gochwythu; chwythu yn dirion; chwythu yn chwarian.
To blow vehemently—trachwythu, gorchwythu; chwythu yn angerddol, yn ddig, yn derig, yn danbaid, yn chwyrn, yn chwerw, *neu* yn afrywiog.
To blow over—tawelu, gostegu, dystewi; peidio; gwasgaru.
The storm is blown over—tawelodd y dymhestl; aeth y gawod heibio *neu* drosodd.
It blows—y mae hi yn chwythu; y mae hi yn wynt; y mae gwynt ganddi.
It blows a storm—y mae hi yn chwythu yn dymhestlog; y mae yn wynt ystormus; y mae hi yn ysgrech o wynt; y mae y gwynt yn ystormi; y mae yn ystormi *neu* ystormio.
It blew a terrible storm—hi wnaeth dymhestl ofnadwy; y gwyntoedd a ryferthwyasant yn ofnadwy; ystormiodd yn ddychrynllyd.
It begins to blow—y mae hi yn dechreu chwythu; y mae yn dechreu afrywiogi.
To blow a horn—canu corn; chwythu mewn corn; canu *neu* leisio â chorn; gwyntio corn.
To blow a trumpet—udganu; canu udgorn; chwythu mewn udgorn; canu âg *neu* mewn udgorn; udganu udgorn.
Do not blow a trumpet before thee—nac udgana o'th flaen.
The priests blew with the trumpets—yr offeiriaid a leisiasant â'r udgyrn; yr offeiriaid a chwythasant yn yr udgyrn.
He blew a trumpet—efe a udganodd mewn udgorn; chwythodd mewn udgorn; udganodd.
Blow ye the cornet in Gibeah—cenwch y corn yn Gibeah.
Blow ye the trumpet in Zion—cenwch yr udgorn yn Sïon.
Blow the trumpet in Tekoah—yn Tecoa udgenwch udgorn.
Blow an alarm with trumpets—cenwch alarm mewn udgyrn.
They come together when the trumpet bloweth—deuant yn nghyd wrth sain yr udgorn; deuant yn nghyd pan seinio *neu* pan gano yr udgorn.
The rose blows—y mae y rhosyn yn ymagor; y mae y rhosyn yn blodeuo.
To blow by puffs—pyffio, chwawio, cythynu, cythymu.
One might have blown them at a blast—gallasai un eu chwythu â'i anadl; gallasai un eu taflu i lawr â'i anadl.
Their iniquities are full blown—y mae eu hanwireddau yn gwbl addfed; y mae eu hanwireddau yn eu llawn flodau.

Blow, *s.* blodeuyn, gwull, ffiur; blodau, blagur; chwyth.
Blow-ball, *s.* blodeuyn dant y llew.
Blower, *s.* (o *blow*) chwythiedydd, chwythwr; chwythydd, chwythai.
Blower of a horn—canwr corn, cornganwr, chwythwr mewn corn.
Blowing, *s.* (o *blow*) chwythad, chwythiad.
Blowing machine—chwyth-ermig, peiriant chwythu, ermig chwythu.
Blowing lands—chwythdiroedd, chwythwerydau.
Blowpipe, *s.* (*blow* a *pipe*) chwythbib, chwythbibell, chwabibell.
Blowth, *s.* (Al. *blüthe;* Gw. *blath*) blodau; blodeuyn, ffiur, blagur, gwull.
Blowze, *s.* (Is. *blooxen*, gwrido) gwebruddes, llafnes fochgoch, llafnen fochgoch, dynes dew fochgoch; cap.
Blowzy, *a.* (o *blowze*) gwebrudd, gwynebrudd, gwynebgoch, bochgoch; tew a bochgoch; rhyliwiog.
Blub,† *v. a.* (Gw. a Gael. *blob*) chwyddo.
Blubber, *s.* (Gw. *blob*) brasder morfilod: morddanaden=math o filod môr: bwrlwm.
Blubber, *v.* igwylo; wylo nes chwyddo y bochau; chwyddo y bochau gàn wylo.
Blubbered cheeks—bochau chwyddedig gàn wylo; clugfochau.
Blubbered-cheeked—bochdew, bochglug.
Bludgeon, *s.* (Goth. *blyggwan*) cwlbren, clwpa, pastwn.
Blue, *a.* (S. *bleo, bleoh, bleow;* Al. *blau;* Is. *blaauw;* Ff. *bleu*) glas.
Sky blue—asur, nefliw, glasar, llasar, balasar, glas goleu, glas yr wybren.
Dark blue—dulas, glasddu, glas dwfn, glas tywyll.

Darkish blue—llai, goddulas, dulasaidd.
Blackish blue—dulas.
Black and blue—dulas, llur; du a glas; cleisiog.
Reddish blue—cochlas.
Blue red—glasgoch.
Crimson blue—rhuddlas.
Greyish blue—llwydlas; blawrlas, blorlas.
Yellowish blue — melynlas, glasfelyn, (*f.* glasfelen).
Yellow blue—melynlas, glasfelyn.
Pale blue, } golas, gwynlas, goleulas, glas-
Faint blue, } welw, gwelwlas, glaswyn, (*f.* glaswen), blawrwyn, gwynwelw, plymliw, marwlas.
Brownish blue—llwydlas, gwineulas.
Whitish blue—gwynlas, glaswyn.
Greenish blue—gwyrddlas, gwerddlas.
Dusky blue—erchlas, gwawrlas, blawr.
Mountain blue—glas y mynydd.
Light blue—goleulas, golas, glas goleu.
Variegated blue—brithlas, glas amrywiog.
Of a blue colour—lliwlas, glas, glasliw.
Enamelled with blue—calchlasar.
Fine blue—gorlas.
Fine blue enamel—gorlasar. [glasnen.
Blue sky—wybren las, wybr las, awyr glas,
The dark blue wave—y ddulas dòn, y dulas li, y waneg ddulas.
Blue-tipt—arlas, arlesin; briglas, glasfrig.
Thorough blue—trylasar.
Blue stone, } glasfaen; copras glas; hal
Blue vitriol, } efydd.
Indigo blue—glas yr India, Indigo, lliw glas.
Prussian blue—glas Prwssia, glas Prwssiaidd.
Reds and Blues—Cochiaid a Glasiaid.
Blue stocking — hosan las; dynes goegddysgedig, coeglenores; llenores.
Admiral of the blue—llyngesydd y faner las; penllywydd y llynges las; llyngesor y llynges a'r faner las; penswyddog y llynges a'r faniar las.
True blue will never stain—y gwir las ni chyll mo'i liw.
To look blue upon a thing — edrych yn ddiflasar beth; edrych yn biglwydar beth.
Blue devils—ellyllon gleision, glas-ellyllon; duegwst, pruddineb.
Blue eyes—llygaid gleision, glas-lygaid.
To become blue—glasu, myned yn las, ymlasu.

Blue, *s.* glas, lliw glas; llallas.
Blue, *v. a.* glasu, glasliwio, lliwlasu; lliwio yn las; cleisio.
Blue-bell, *s.* clychlys amryddail, clychlys glas.
Blue-bird, *s.* aderyn glas, glasednog: *pl.* glasadar, glasednod = aderyn bychan cyffredin iawn yn Nhaleithiau Cyfunol America.
Blue-book, *s.* llyfr glas, glaslyfr.
Blue-bottle, } *s.* cramenog yr yd, penlas yr yd,
Blue-bonnet, } penlas wèn.
Corn blue-bottle—cramenog yr yd, penlas yr yd, penlas wèn.
Blue-bottle, *s.* torlas = math o gleren foliog.
Blue-breast, *s.* y bronlas, y rhonellgoch bronlas = anw aderyn.
Bluecap, *s.* (*blue* a *cap*) y caplas = math o bysg.
Blue-eyed, *a.* llygadlas.
The blue-eyed goddess—y dduwies lygadlas.
Bluefish, *s.* (*blue* a *fish*) glasbysg = pysg à geir ar oruran Cuba, ac Ynysoedd Bahama.

Blue-haired, *a.* gwalltlas, penlas, glaswallt.
Blueing, *s.* (o *blue*) glasiad.
Blue-mantle, *s.* glasfantellog, glas ei fantell = herodr yn gwisgo mantell las.
Blueness, *s.* (o *blue*) glesni, glesid, glasder, glaswg, glasliw.
Greyish blueness—llwydlesni.
Reddish blueness—cochlesni.
Blackish blueness—dulesni.
Greenish blueness—gwyrddlesni.
Pale blueness—gwynlesni.
Blue-ointment, *s.* glasenaint.
Blue-peter, *s.* arwydd i hwylio, hwyl-amnaid.
Blue-pill, *s.* glasbelen, pelen las.
Blue-throat, *s.* y ceglas = aderyn à gyfannedda ogleddion Ewrop ac Asia.
Blue-veined, *a.* gwythenlas, glaswythenog; glaslinellog.
Bluey, *a.* (o *blue*) glasaidd, lledlas, golas.
Bluff, *a.* (C, *llwff?*) tren, gerwin, blwng, tryn, brochus, ffyrnig; chwyddedig, trawsfalch, tordyn, uchelgest, cestuchel, sythfalch; trystfawr.
See how bluff he looks—gwelwch mòr dren y mae yn edrych; gwelwch mòr drawsfalch y mae yn chwyddo ei fochau; gwelwch mòr dordyn ydyw.
Bluff, *s.* trenfa, brochlan = craig neu esgyndir uchel yn ymysgwyddo allan i'r môr.
Bluffness, *s.* (o *bluff*) blyngder, blyngedd, trenigrwydd; ymchwydd, blythni; sarigrwydd, afrywiogrwydd, trawsfalchedd.
Bluffy, *a.* (o *bluff*) trenfaog, brochlanog, sythgreigiog.
Bluish, *a.* (o *blue*) glasaidd, golas, lledlas.
Bluish red—glasgoch.
Bluish black—glasddu.
Bluish brown—glaslwyd.
Bluish yellow—glasfelyn; *f.* glasfelen.
Bluish grey—glaslwyd, glasflawr.
Bluish crimson—glasrudd.
Bluish green—glaswyrdd; *f.* glaswerdd.
Bluish bright—glasloew.
Bluish white—glaswyn; *f.* glaswen.
Bluishness, *s.* (o *bluish*) golesni, lledlesni, glaseiddrwydd.
Blunder, *v.n.* (Is. *blundreu*, yn ol *Johnson*) camsynied, camsynio, camgymmeryd, camddywedyd, amryfuso, amryfuseddu, cyfeiliorni, methu; camsynied *neu* gyfeiliorni yn chwithig; tramgwyddo, tripio; taro wrth *neu* yn erbyn peth; dywedyd methair; methu yn ei ymadrodd; bod yn drwsgl, afrugl, anhyfedr, *neu* drwstan.
The mole sometimes blunders into light—daw y wadd weithiau i oleuni heb wybod iddi.
Blunder, *s.* camsyniad, camgymmeriad, amryfusedd, cyfeiliornad, tramgwydd; coll, meth, methiad, methwaith, methymadrodd, camddywediad; camsyniad *neu* gamgymeriad chwithig *neu* warthus; chwithrwydd, cuallder.
Blunderbuss, *s.* (*blunder*, ac Is. *bus*) rhythwn = math o wn byr â cheuedd mawr iddo.
Blunderer, *s.* (o *blunder*) camsyniwr, camgymmerydd, camddywedwr, camwedydd, amryfuswr; dyn camsyniol *neu* ddiofal; camsyniwr chwithig; cuall.
Blunderhead, *s.* (*blunder* a *head*) cadafael, penbwl, penllorcan, cuall.
Blunt, *a.* (Al. *plump?* Gr. *amblunô?*) pwl,

Short-breathed—erthychlyd, byranadlog, anadlfyr; byr ei anadl; â'r fogfa arno.

The perfumes of Arabia breathe from her lips—peraroglau Arabia a anadlant o'i

gwefusau; o'i gwefus anadla peroglau Arabia.

Breather, *s.* (o *breathe*) anadlwr, anadlydd, analydd, chwythydd; perchen anadl; dyn byw; bywiogydd, ysbrydolwr.
The breather of all life—bywiawdwr, bywhäwr, *neu* fywhëydd pob peth; anadlydd pob peth byw; à rydd anal i bob peth byw.

Breathful, *a.* (*breath* a *full*) anadlog, llawn anadl; aroglus, arogleuog.

Breathing, *a.* (o *breathe*) anadlog; anadlus; i'r bywyd; dàn *neu* yn anadlu.

Breathing, *s.* anadliad, chwythad, analiad, analedd; dyheueg, gweddi ddirgel; awydd, chwennychiad; ffyned, ffynell, agerfa; chwyrnseiniad, chwernsain, acan, anadleb.
Breathing place—gorphwysle; saib, seibiant; ffynell, ffynel, agerfa, awyrdwll.
Breathing time—saib, seibiant, hamdden; amser i gymmeryd anadl; amser anadlu.
Breathing hole—awyrdwll, ffynell, ffynel, agerfa; twll yr awel *neu* yr ager.
Breathing pores—analdyllau=mân dyllau, anweladwy i'r llygad noeth, yn nglasgroen llysiau.
Breathing sweat — chwys cymmedrol; chwys mwyn *neu* naturiol; lluchwys, llugwys.
Hide not thine ear at my breathing—na chudd dy glust oddi wrth fy uchenaid.

Breathless, *a.* (*breath* a *less*) dïanadl, dïanal; maes *neu* allan o anadl; yn dyhëu; marw.
A breathless body—corff marw, celain.

Breathlessness, *s.* (o *breathless*) dïanadledd, dïanaledd.

Breccia, *s.* (It.) bregionos, creigronos, briwgraig.

Brecciated, *a.* (o *breccia*) briwgreigiog, bregionog, creigronog.

Brede, † *s. Braid.*

Bred, *p. p.* (o *breed*) magedig, meithrinedig; methedig; gwedi ei fagu *neu* ei feithrin; wedi ei ddwyn i fyny; à fagwyd; à feithrinwyd; cenedledig.
Thorough-bred — tryryw, tryrywiol, tryrywiog.
Half-bred—lledryw, cymmysgryw.
Well-bred — moesog, moesgar, moddus, moddgar; dygiadus, hyfforddedig, gwiwfoes, moeswych, boneddigaidd; da ei foes, ei ddygiad, ei ymddygiad, *neu* ei ddiwygiad; dillynwych; boneddigfoes.
Ill-bred—anfoesog, anfoesgar, drygfoesog, drygfoesol; drwg ei foes, ei ddygiad, *neu* ei ymddygiad; taiog, taiogaidd, trwsgl; mawr ei anfoes; aunillynwych.

Breech, *s.* (S. *bræc, brœccæ;* It. *brachesse, brace;* Ll. *bracca*, gair Galig) cyfeistedd, bon, tin, bontin, llafr, pen ol, parth ol; y ffolenau; clos.
Breech of a gun—bon gŵn, bon dryll, arlost gŵn.
Breech-pin of a gun—bonbin gŵn, bonbin dryll, cethr bon gŵn.
Breech-galling—pildin, y bildin.
Breech-mouldings—bonrigaddurnau.
Breech-band—bondres, tindres.

Breech, *v.* llodri, closi, llafru; gwisgo mewn clos; gwisgo â llodrau; gwisgo *neu* roi clos am; ffrewyllio, fflangellu.
He makes a rod for his own breech—efe a ddarpara wialen i'w gefn ei hun.

Breeches, *s. pl.* (o *breech*) clos, llawdr, llodrau, llafrog.
Breech-maker—llodrydd, llodrwr, closwr; teiliwr llodrau *neu* glosau.
A pair of breeches—clos, closyn, llawdr.
Breeches and leggins—clos ac amgoesau; clos a choesarnau.
The flap of the breeches—balog, balog clos.
She wears the breeches—hi sy'n gwisgo y clos; hi bïau y clos; hi sy ben; hi a bïau y ffon; hi sy feistres; hi sy benaf.
Bear's breech—llawdr yr arth; ellddrain.

Breeching, *s.* (o *breech*) bondres, tindres; bondrec; ffrewylliad, fflangelliad.
Breechings—bonddalion, bonraffau.

Breed, *v.* (S. *bredan, brædan;* Is. *broeden*) hilio, epilio, magu, planta, cenedlu; ennill plant, lŵl, *neu* epil; planta; essillio; silio; rhialu; ymddwyn; dwyn allan; peri, peru, creu, achlysuro; cynnyrchu; deor; maethu, meithrin, dwyn i fyny, meithrino, deifnio.
Christendom never bred a worthier divine—ni fagodd Cred erioed ragorach duwinydd; ni chododd Cred erioed fwy gwiw duwinydd.
To breed worms—magu pryfed, pryfedu.
To breed teeth—magu dannedd, danneddu.
The pond breeds fish—mae y llyn bysgod; mae y llyn yn hilio pysg; hilia pysg yn y llyn; mae y llyn yn magu pysg.
To breed mites—gwiddoni, magu gwiddon.
Fish breed in rivers—hilia pysg mewn afonydd; mewn afonydd y silia pysg.
Their cattle breed abundantly—eu hanifeiliaid a lydnant yn aml.
They may breed abundantly in the earth—epiliant hwythau yn y ddaiar.
It breeds mischief to me—mae flinder i mi; ymddwg ar flinder i mi; pâr ddrwg i mi.
Had he a heart to breed in—pe buasai ganddo galon i'w ddeor ynddi; pe buasai calon ganddo i ddeor *neu* ori arno ynddi.
To breed children—magu plant; meithrin *neu* faethu plant; dwyn plant i fyny.
He bred his eldest son to literature—dug ei fab hynaf i fyny i *neu* at lenoriaeth *neu* ddysgeidiaeth; efe a ddygodd ei fab hynaf i fyny mewn dysgeidiaeth *neu* lenoriaeth; meithrinodd *neu* addysgodd ei fab hynaf mewn llenyddiaeth.
He was bred to nothing—ni ddygwyd ef i fyny at ddim; ni chafodd ddygiad i fyny at ddim; ni chafodd efe addygiad i ddim.
He was bred at a university—dygwyd ef i fyny mewn prifysgol; cafodd addysg mewn prifysgol; derbyniodd ei ddysgeidiaeth mewn prifysgol; addygwyd *neu* addysgwyd ef mewn prifysgol.
The neglect of duties will breed repentance—esgeuluso dyledswyddau a bair, a grea, *neu* a ddwg edifeirwch.
Intemperance breeds infirmities—anghymmedroldeb a bâr *neu* a ddyga wendidau; anghymmedroldeb a esgor ar wendidau.
To breed cattle—magu, codi, cwnu, *neu* borthi anifeiliaid *neu* anifeilod.
Beasts are bred for the sake of man—

anifeiliaid a grëwyd er mwyn dyn; magir anifeiliaid er mwyn dyn.

What is bred in the bone will never be out of the flesh—hysbys y dengys y dyn o ba radd y bo ei wreiddyn; à wreiddio mewn drygioni, anhawdd fydd ei gynghori; anhawdd cynghori à wraidd mewn drygioni.

Their malice is bred in them—y mae eu drygioni yn anianol, yn naturiol, yn gynnwynol, yn gynhenid, yn reddfol, yn enedigol, *neu* wrth naturiaeth ynddynt.

To be bred of—geni, tyfu, tarddu, magu, codi, dyfod, hanu, hanfodi, dechreu, *neu* ddwyre o *neu* oddi wrth; cael ei ddechreu, ei haniad, *neu* ei ddechreuad oddi wrth *neu* o.

Breed, *s.* epil, hil, hiliogaeth, rhyw, rhywogaeth, rhywiogaeth, essill, rhial, enrhial, ystrain, ach, âl; bragad, essillyd; torlwyth.

Rams of the breed of Bashan—hyrddod o rywogaeth Basan.

One of the breed of the giants in former times—un o hil y cewri gynt; un o fragad y cewri gynt.

They are of good breed—y maent yn dda eu rhyw; y maent o rywogaeth dda.

Horses of the best breed in the north—meirch o'r rhyw goreu yn y gogledd; ceffylau o rywogaeth oreu y gogledd.

Half breed—lledryw; cymmysgryw, gohil, lledrïal.

Mixed breed—cymmysgryw, mysgryw.

Beware of the breed—gochel y gethern; gochel y giwed; ymswyna rhag y giwed; gwilia rhag yr ystrain; gochel yr ystrain.

A horse for breed—ystalwyn, amws, march.

Breedbate, *s.* (*breed* a *bate*) pwt y gynhen, parwr anghydfod; ffaglwr; cecryn, cecrusyn.

Breeder, *s.* (o *breed*) maethydd, magydd, meithrinydd, megidydd, magwr, magiawdwr; mam, mammaeth, magai, mag-wraig, epiles, hilioges, rhiales, magyddes, megides; epiliwr, hiliwr, perydd, cenedlydd.

Female breeder—mam, mammaeth, mag-wraig, magai, megides, epiles, hilioges, magyddes, magiodres.

Time is the nurse and breeder of all good—amser yw mam a mammaeth pob da.

Breeder of horses—magydd meirch; megidydd ceffylau.

Breeding, *s.* (o *breed*) epiliad, hiliad, cenedliad; magiad, magwraeth, meithrindod, meithriniad, meithriniaeth; dygiad i fyny, addygiad, dysg, addysg, deifnogaeth, addysgiant; moes, moesau, moesgarwch, moesogrwydd, moddgarwch, moddusrwydd, bonedd-garwydd, boneddigeiddrwydd, moesau da; ymddygiad; harddwch ymddygiad; medrusrwydd, addwyndeb, *neu* addwynder ymarweddiad.

Good breeding—moesau da, hyfoesedd, moesogrwydd, moesgarwch, moddusrwydd, &c.

Of blood and breeding—o waed a bonedd; o waed ac o fonedd; o waedogaeth a moes.

Land for breeding sheep—defeittir.

Land for breeding oxen—ycheindir.

Land for breeding horses—ceffyldir, marchdir, meirchdir, tir marchfag.

Furze-breeding land—eithindir, tir eithinog, tir eithinfag.

Nettle-breeding land—danadldir, danattir, tir danadfag, danaldir.

Breeding place for cattle—maethle *neu* faethfa anifeiliaid; megidle *neu* fegidfa anifeiliaid.

Breese, Breeze, *s.* (S. *briosa*) cacynen y meirch, marchgacynen: *pl.* cacwn y meirch, marchgacwn.

Breeze, *s.* (It. *brezza*; Ysp. *brisa*) awel, awelan, awelen, chwa; ffun o wynt.

Sea breeze—môrawel, awel y môr, awel o'r môr.

Land breeze—tirawel, awel y tir, awel o'r tir, awel dros y tir.

Gentle breeze—awel dirion, awelen leddf; awel fwyn, araf, wâr, *neu* esmwyth.

Breeze, *v. n.* awelu; chwythu yn dirion, yn araf, yn lleddf, *neu* yn fwyn.

Breezeless, *a.* (*breeze* a *less*) diawel, heb awel; digyffro, llonydd, disymmud.

Breezy, *a* (o *breeze*) awelog, awelaidd, chwaog; oeraidd.

Brehon, *s.* (Gw.) barnwr, brawdwr.

Brehon laws—barnreithiau; cyfreithiau y barnwyr; cyfreithiau cyffredin y wlad, yn yr Iwerddon gynt.

Breme, † *a.* (S. *bremman*) creulawn, llym gerwin.

Bren, † *v.* (S. *brennan*) llosgi.

Brennage, *s.* (o *bran*; Ll. drosgl, *brenagium*) brandreth, brandal, branged.

Brent, Brant, *a.* (C. *bryn*; Gael. *bret*) uchel, ban, bant; serth.

Brent, Brant, *s.* = *Brant.* *Brent.*

Brephotrophy, *s.* (Gr. *brephos* a *trephô*) meithriniaeth amddifaid.

Brest, Breast, *s.* (S. *breast*) sylgylch, seilgylch colofn.

Brest-summer, Breast-summer, Bressummer, *s.* (*brest* neu *breast* a *summer*) gwarswmer, gwardrawst, llorswddyn, gwarddrws.

Bret, Burt, *s.* (?) torbwt, lleden y môr, gwymell.

Bretful, † *a.* (?) llawn hyd yr ymyl; llawn.

Brethren, *s. pl.* (S. *brether*, *brother*) brodyr.

United Brethren—Brodyr Cyfunol, Brodyr Unol, Cyfrodyr; y Moraiaid.

Brettices, *s. pl.* (?) haenwenys, haenddalion.

Breve, *s.* (It.; Ll. *brevis*; Ff. *bref*) gwyslythyr, gwyseb, gwarant; banig, banig hir; byrnod.

Breve (in music)—banig, banig hir.

Breve (ᵕ)—byrnod.

Brevet, *s.* (Ff.) breintwyseb, breintwarant = gradd i swyddog milwraidd uch law ei dâl: trwydded; rhagorfraint; breintlythyr.

Bookseller's brevet—trwydded llyfrwerthwr, trwyddeb llyfrwerthydd.

Inventor's brevet—breintlythyr dyfeisiwr.

Brevet, *a.* breintwysol, breintwarantol, rhagorfreiniog, breintraddog.

Brevet colonel—milwriad breintradd; milwriad breintwysog, breintraddog, *neu* ragorfreiniog = milwriad o ran gradd, ond rhagfilwriad o ran tâl.

Brevet rank—breintradd.

Breviary, *s.* (Ll. *breviarium*; Ff. *breviaire*) talfyriad, crynodeb, crynoad, byr gasgliad; byriadur, byrlyfr, crynoadur.

The breviary of the Romish church—byriadur *neu* fyrlyfr Eglwys Rhufain; crynodeb Eglwys Rhufain = llyfr yn cynnwys gwasanaeth beunyddiol Eglwys Rhufain.

Breviat, *s.* (o'r Ll. *brevis*) byriad, talfyriad, crynodeb, byrgasgl; dewisran.

Breviate, † *v. a.* = *Abbreviate.*

Breviature, *s.* (o'r Ll. *brevis*, *abbreviatura*) talfyriad, byriad, cwtogiad, byrhad; geirdoriad; talfyrnod.

Brevier, *s.* (Ff. *breviaire*, herwydd mai â hi, meddir, yr argraffid y *breviary*) math o argraff-lythyren led fechan.

Breviloquence, *s.* (Ll. *brevis* a *loquor*) byreiriad, byrieithad.

Breviped, *a.* (Ll. *brevis* a *pes*) coesfyr, byrgoes, byrgoesog, byrbed.

Breviped, *s.* byrgoes, byrgoesog, byrbed, aderyn coesfyr: *pl.* byrbedogion, byrgoesion.

Brevipen, *s.* (Ll. *brevis* a *penna*) beradeiniog, byrblufenog.

Brevipennes, *s. pl.* (Ff. o'r Ll. *brevis* a *penna*) byradeinion, byradenogion, adenfyrion, adar adenfyr.

Brevity, *s.* (Ll. *brevitas*) byrder, byrdeb, byrdra, cwtogrwydd.

Brevity is the soul of wit—byrder yw enaid ffraethder.

The brevity of human life—byrder einioes dyn.

Brevirostris, *s.* (Ll. *brevis* a *rostrum*) byrylfinog; aderyn byrbig *neu* bigfyr: *pl.* byrbigiaid, byrylfinogion.

Brew, *v.* (S. *briwan;* Is. *brouwen*) darllaw; mysgu; berweddu; cydfradu, dyfeisio.

To brew a plot—llunio cydfrad; darllaw bradwriaeth.

To brew ale—darllaw cwrw.

To brew wines—mysgu gwinoedd; gwaethygu *neu* lygru gwinoedd.

The storm brews—mae yr ystorm yn brochi *neu* yn ymgasglu; mae yr ystorm yn dechreu cynnull; mae y dymhestl yn darllaw.

He is brewing mischief — mae efe yn dychymygu *neu* yn llunio drygioni.

As you have brewed, so you must drink—fel y gwnaethoch y cawl, cymmerwch.

Brew, *s.* darllaw, y darllaw.

Brewage, *s.* (o *brew*) darllaw, cymmysgedd; dïodlyn, cwrw.

Brewer, *s.* (o *brew*) darllawydd, berwydydd.

Brewer of mead, } meddydd, darllawydd
Mead brewer, } medd.

The trade *or* profession of a brewer—darllawyddiaeth.

Brewery, *s.* (o *brewer*) darllawfa, darllawdy, berwyddfa.

Brewhouse, *s.* (o *brew* a *house*) darllawdy, darllawfa, berwyddfa.

Brewing, *s.* (o *brew*) darllawiad; mysgad.

A brewing of ale—darllawiad o gwrw; brwd o gwrw *neu* ddïod.

There is a storm brewing—y mae ystorm yn ymgasglu, yn ymgynnull, *neu* yn ymgrynöi; y mae tymhestl yn darllaw.

Brewing tub—cwman, twba darllaw.

Brewis, † *s.* (S.) brywes, micas, mican; potes.

Briar, *s.* = *Brier.*

Bribable, *a.* (o *bribe*) dobradwy, &c.

Bribe, *s.* (Ff.; Gw. *brib*, *breab;* Gael. *briob*) gobr, dobr, gobrwy, gwobrwy, dobrwy, gwobr; hudwobr, namwobr, hudobrwy, celwobr, llygrwobr, brib.

Of whose hand have I received any bribe?—o law pwy y cymmerais wobr?

Their right hand is full of bribes—y mae eu deheulaw yn llawn gwobrau.

Bribe-devouring—gwobr-ysol, dobr-wancus; chwannog, trachwantus, *neu* awyddus i ddobrau.

Bribe-worthy — teilwng o ddobr *neu* wobrwy; gobrwiw, dobrwiw, gobrwywiw, gobrwiw.

Receiver of bribes — derbynydd, derbyniwr, *neu* gymmerwr gwobrau; gwr gwobr a gwerth; à lygrwyd â gwobrau.

Bribe, *v. a.* gobri, gwobri, dobri, gwobrwyo, dobrwyo; hudobri, hudobrwyo, namwobri, llygrwobrwyo, celwobrwyo, bribio; rhoi gwobr; tueddu, gwyro, denu, *neu* ennill trwy wobrau.

He is bribed not to speak—gobrwyd ef i dewi; gobrwywyd ef i beidio â dywedyd; dobrwyd ef i ddàl ei dafod; rhoddwyd ariandag arno i dewi; poerwyd yn ei eneu er iddo dewi.

To bribe for an office — swydd-ymgeisio drwy obrwyo, *neu* drwy roddi gwobrau; swydd-obri, swydd-obrwyo; bribio *neu* ddobrwyo am swydd.

Bribeless, *a.* (*bribe* a *less*) diwobr, dïobrwy, diwobrwy.

Briber, *s.* (o *bribe*) gwobrwywr, gobrwywr, dobrwywr, dobrydd, gobrwr, dobrwr, celwobrwr, llygrwobrwr, hudobrwr, bribiwr; rhoddwr gwobrau; llygrwr â gwobrwyon.

Bribery, *s.* (o *briber*) celwobraeth, celwobrwyaeth, celobrwyaeth, llygrobraeth, namwobrwyaeth, ariandag, afarn; gobrfasnach; rhoddiad *neu* dderbyniad gwobrau er gwyro barn.

Fire shall consume the tabernacles of bribery — tân a ysa luesttai gwobrwyr.

All bribery and injustice shall be blotted out—pob derbyn gwobr ac anghyfiawnder a ddilëir.

Brick, *s.* (Ff. *brique;* Llyd. *brigen*) priddfaen, priddlech, priddell, peithyn; crasfaen.

A little brick—priddfeinan, priddlechen, priddellan, priddellig.

Brick-burner—llosgwr priddfeini.

Brick-colour — rhuddgoch, cochliw, lliw priddfeini.

Flooring bricks — llawrbeithynau, llawrbriddlechau, priddfain llorio.

Brick-tile—peithyndo, peithynlech, priddlechen, tobriddfaen.

Buttress-bricks—priddfain gwanas, priddfeini atteg.

Brick, *v. a.* priddfaenu, priddlechu; llorio *neu* balmantu â phriddfeini.

To brick a floor—llorio â phriddfeini.

Brickbat, *s.* (*brick* a *bat*) darn, dernyn, *neu* ddryll o briddfaen: *pl.* darnau *neu* ddrylliau priddfeini.

Brickbuilt, *a.* (*brick* a *build*) priddfeinig, priddfeinin.

Brickbuilt house—ty priddfeinig, ty priddfeini; ty priddfaen, ty o briddfain.

Brickclay, *s.* (*brick* a *clay*) priddfein-glai, priddellglai, clai priddfeini.

Brickdust, *s.* (*brick* a *dust*) priddfeinlwch, llwch priddfeini.

Brickearth, *s.* (*brick* ac *earth*) priddfeindir, priddelldir, priddlechdir; daiar *neu* glai i wneuthur priddfeini.

Brickfield, *s.* (*brick* a *field*) priddfeinfaes, priddellfaes, priddlechfaes, priddlechgae; maes lle y gwneir priddfeini.

Brick-kiln, *s.* odyn briddfeini, cylyn priddlechau.

Bricklayer, *s.* (o *brick* a *lay*) saer priddfaen, peithynsaer, saer priddlechau, adeiladydd priddfeini.

Brickle,† *a.* (o *break*) brau, breuol, bregus, hydor.

Brickleness,† *s.* (o *brickle*) breuder, breuolder, breuedd.

Brickmaker, *s.* (o *brick* a *make*) priddfeinydd, priddfeinwr, priddellwr, priddellydd, gwneuthurwr priddfeini.

Brick-nogging, *s.* cyflenwad priddfeinwaith.

Bricklaying, *s.* (o *brick* a *lay*) priddfeinwaith; adeiladiad â phriddfeini; saernïaeth priddfeini.

Brickmaking, *s.* (o *brick* a *make*) priddfeinyddiaeth, priddellyddiaeth, gwneuthuriad priddfeini.

Bricktrimmer, *s.* (*brick*, a S. *trimman*) pentan priddfaen.

Brickwall, *s.* (*brick* a *wall*) priddfeinfur, priddlechfur, mur priddfaen, peithynfur.

Brickwork, *s.* (*brick* a *work*) priddfeinwaith, priddellwaith, peithynwaith.

Bricky, *a.* (o *brick*) priddfaenog, priddfeiniog, priddlechog; llawn o briddfeini.

Bridal, *a.* (o *bride*) priodasol, neithiorol, neithiorraidd, awysol, dyweddïol; perthynol i briodasferch, *neu* i neithior.

Bridal bed—gwely priodas, gwely priodasol, priod-wely.

Bridal ornaments — addurnau priodferch, addurnau priodasol.

Bridal song — priodasgan, priodasgerdd; cân *neu* gerdd briodas.

Bridal attire—gwisg priodas, gwisg briodas, priodwisg, priodaswisg, gwisg neithior, harddwisg priodas.

Bridal guests — gwahoddedigion neithior, gwesteion neithior, gwesteion priodas.

Bridal, *s.* neithior, awys, priodas.

Bridality, } † *s.* (o *bridal*) cadwad neithior,
Bridalty, } neithiorad.

Bride, *s.* (S. *bryd*; Sw. a D. *brud*; Is. *bruid*; Al. *braut*; C. *priod*-ferch; Gw. *brideach*) priodferch, priodasferch; y ferch, merch newydd-weddog, y wraig ieuanc; gwraig buys, gwraig ysbwys; dyweddi.

Bridebed, *s.* (*bride* a *bed*) gwely priodas, gwely priodasol, priod-wely.

Bridecake, *s.* (*bride* a *cake*) teisen briodas, teisen weddog, priottais, priotteisen.

Bridechamber, *s.* (*bride* a *chamber*) ystafell briodas, priodstafell.

The children of the bridechamber—plant yr ystafell briodas.

Brided, *a.* (o *bride*) dyweddïog; à wnaed yn briodferch.

Bridegroom, *s.* (S. *brydguma*, o *bryd*=bride, a *guma* neu *guma*, gwr) priodfab, priodasfab; ysbinglairch, gwr pwys; y mab ieuanc, y gwr ieuanc, y mab.

As a bridegroom coming out of his chamber—fel gwr priod yn dyfod allan o'i ystafell.

The bridegroom has come—daeth y priodfab.

Bridemaid, *s.* (*bride* a *maid*) llawforwyn, morwyn priodas; llawforwyn *neu* arweinyddes y briodferch.

Brideman, *s.* (*bride* a *man*) gwas priodas; cyfaill y priodfab, gwas y priodfab.

Bridemen—plant *neu* feibion yr ystafell briodas.

Bridestake, *s.* (*bride* a *stake*) dawnsbolyn, dawnsbawl; pawl dawnsio mewn priodas.

Bridewell, *s.* (oddi wrth *St. Bride's*, neu *Bridget's well*, yn Llundain) cospweithdy, gweithgarchar, cyweirdy, cystwyfa, carchar-weithdy, carchar.

Bridge, *s.* (S. *brigg*, *bricg*, *bric*, *brycg*; Is. *brug*; Al. *brücke*) pont; *pl.* pontydd, pontau, pynt.

Skew-bridge — gŵyrbont, pont ŵyr, osgbont, pont oleddf, pont addwyr.

Draw-bridge—ysgrogell, pont godi.

Pendent *or* hanging bridge—crogbont, pont grog, pont grogedig, pont grogi.

Stone bridge—pont faen, pont feinin, pont gareg.

Wooden bridge—pont goed, pont o goed; gwddor.

Foot-bridge—pontbren, pont droed, troedbont, pont unpren, pedbont.

Flying bridge—nofbont, pont nawf.

Little bridge—pontig, ponten, pontan.

Bridge of boats—pont fadau, badbont.

Bridge-building—pontyddiaeth, pontadeiliaeth.

Bridge-builder—pontydd, pontwr, pontadeilydd, adeiladydd pontau.

Bridge of a musical instrument—pont offeryn cerdd; crib offeryn cerdd; brân, seingrib.

Bridge of a violin—crib crwth, brân crwth, seingrib crwth.

Bridge of an organ—crib *neu* frân organ; seinfwrdd organ.

Bridge of the nose—pont y trwyn, crymedd y trwyn, asgwrn y trwyn.

Bridge-over—trosbont, trosbren.

Bridge-board—pontastell, rhigfwrdd.

Bridge-gutter—pontgafn; pontrewyn.

Bridge-head—pen y bont, tâl y bont; amddiffynfa ar ben pont.

Bridge-stone—pontfaen, careg pont.

Bridge, *v. a.* pontio; gwneyd pont ar; adeiladu, rhoddi, *neu* osod pont ar; taflu pont dros.

To bridge a river—pontio afon; taflu pont dros afon; gwneuthur, adeiladu, gosod, *neu* roddi pont ar *neu* dros afon.

Bridgeless, *a.* (*bridge* a *less*) dibont, heb bont.

Bridgings, *s. pl.* (o *bridge*) pontarnau.

Bridgy,† *a.* (o *bridge*) pontog; llawn o bontydd.

Bridle, *s.* (S. *bridl*, *bridel*; Is. *breidel*) ffrwyn; genfa.

Bridle-rein—awyn, awen, *neu* afwyn ffrwyn.

Head-stall *or* head-piece of a bridle—penffrwyn, penffestr ffrwyn, penlle ffrwyn, penffest ffrwyn; penfar *neu* benwar ffrwyn.

Fillet, frontlet, *or* front-stall of a bridle—talffrwyn, talre ffrwyn; talaith march.

Nose-band of a bridle—trwynffrwyn.

Throat-band of a bridle, } genffrwyn.
Chin-stay of a bridle, }
Curb of a bridle—genddal ffrwyn, gwenfa ffrwyn.
To give the bridle to—rhoi *neu* ollwng y ffrwyn i; rhoi rhyddid *neu* rydd-did i; gollwng yn benrydd; ymollwng gyda.
He lets them have the bridle—rhydd y ffrwyn iddynt; rhydd ormod o'r ffrwyn iddynt; gollwng hwynt yn benrydd.
I will keep my mouth with a bridle—cadwaf ffrwyn yn fy ngeneu.
Put a bridle on thy tongue—ffrwyna dy dafod.

Bridle, *v.* ffrwyno; attal, nadael, cyfattal, rheoli, llywodraethu, arafu, rhwystro; cadw i mewn; dàl yn dyn; dàl yn ol; ymffrwyno, ymdagellu.
How the fool bridles!—O! fel mae 'r ffwl yn ymffrwyno!
To bridle the tongue—attal *neu* ffrwyno y tafod.
He bridled his tongue with much difficulty—ffrwynodd *neu* attaliodd ei dafod drwy fawrwaith; bu cryn drafferth arno i attal ei dafod.
He is able to bridle the whole body—mae yn gallu ffrwyno yr holl gorff.
I will bridle my tongue—daliaf fy nhafod; ffrwynaf *neu* attaliaf fy nhafod.
He knows how to bridle his passions—efe a fedr ffrwyno *neu* reoli ei wyniau *neu* nwydau.
To bridle a horse—ffrwyno march; gwisgo ffrwyn march; rhoi ffrwyn yn mhen march *neu* geffyl.
Capable of being bridled—ffrwynadwy, hyffrwyn.
Not to be bridled—anffrwynadwy, anhyffrwyn.

Bridlehand, *s.* (*bridle* a *hand*) ffrwynlaw, llaw y ffrwyn; y llaw à ddeil y ffrwyn.

Bridler, *s.* (o *bridle*) ffrwynwr, ffrwynydd; attaliwr.

Brief, *a.* (Ff. *bref;* Ll. *brevis;* It., Ysp., a Port. *breve*) byr (*f.* bèr); cryno, cwta, talfyr, cynnwys.
A little brief authority—awdurdod byr bach.
Brief sentence—berwers, gwers fèr, synwyrwers, ymadrodd byr.
Brief memoir—cofiant byr, byrgofiant.
To be brief—yn fyr, mewn gair, ar fyr eiriau, ar ychydig eiriau; i gau ar y cwbl; i fod yn fyr; i dori yn fyr; i gael bod yn fyr; er mwyn bod yn fyr.
Very brief—gorfyr, tra byr, byr iawn.
Somewhat brief—lled fyr, go fyr, lledfyr.

Brief, *s.* gwyslythyr, gwyseb, gwarant, ysgrifwys, gwŷs; byrlythyr; llythyr casgl, llythyr gofyn, ceislythyr; cynghawseb; breintlythyr, insel agored; crynodeb; ysgrifen.
Brief (in music)=*Breve.*
Apostolical brief—byrlythyr apostolig, byrlythyr y Pab.

Briefless, *a.* (*brief* a *less*) digynghaws, digyssyl.
Briefless barrister — cynghawswr digynghaws, cynghawsydd diswydd; dadleuwr heb achos i'w ddadleu.

Briefly, *ad.* (o *brief*) yn fyr, yn gwta, yn gryno; ar fyr eiriau; ar ychydig eiriau; ar air; mewn gair.
I have written briefly — ysgrifenais ar ychydig eiriau; ysgrifais yn fyr.
It is briefly comprehended in this saying—y mae wedi ei gynnwys yn gryno yn yr ymadrodd hwn.

Briefness, *s.* (o *brief*) byrder, byrdra, byrdeb, crynoder, cwtogrwydd.

Brier, *s.* (S. *brær;* Gw. *briar*) mïeren, mïaren, dyrysïen, mwyaren, mïerïen, miar: *pl.* mïeri, dyrysi, mwyar.
Sweet brier—rhoslwyn per, mïeren Mair, mïaren Mair, dyrysïen ber.
Wild brier — ciros, egroeswydd, ogfaenllwyn, marchfïaren, rhosyn y cwn, rhosyn gwyllt, merddraenen.
Sweet brier berries—aeron mïeri Mair.
Wild brier berries—egroes, ogfaen, aeron y ciros.
Brier plat — mïerinllwyn, mïarllwyn, mïerinlle, dyrysïwyn, llwyn dyrysi, perth fïeri.
Dog brier—merddraenen; *pl.* merddrain.
White brier — marchfïaren, marchfïeren, marchddyrysïen.
Thorns and briers—drain a mïeri; drain a dyrysi.

Briered, *a.* (o *brier*) dyrysïog, mïerïog.

Briery, *a.* (o *brier*) dyrysïog, mïerïog, mïarog; dreiniog, pigog; garw, gerwin; llawn o fieri *neu* ddyrysi.

Brieve, *s.*=*Brief:* arferedig yn nghyfreithiau yr Alban.

Brig, *s.* (o *brigantine*) llong ddeuhwyliar, briglong, esgaflong.

Brigade, *s.* (Ff. ac Al.; It. *brigata;* Ysp. *brigada*) brigad, torfas; myntai, byddindorf, byddin.
Brigade-Major—isfrigadog, isfrigadwr.

Brigade, *v. a.* brigadu, torfasu; mynteio.

Brigadier, *s.* (Ff. o *brigade*) brigadfridog, brigadog, brigedydd, torfasog; cadfridog *neu* benaeth brigad.
Brigadier General=*Brigadier.*

Brigand, *s.* (Ff.; C. *brigant*) carnleidr, ysbeiliwr, ysbeilydd, brigantiad.

Brigandage, *s.* (o *brigand*) lladrad, lledrad, ysbeiliad, anrhaith.

Brigandine, *s.* (?) llurig, curas, cadbais, pais ddur, durbais.

Brigantine, *s.* (Ff. *brigantin;* It. *brigantino;* o *brigand*) brigantlong, briganten, esgaflong.

Bright, *a.* (S. *beorht, briht, byrht,*) dysglaer, gloew, claer, canaid, ysblenydd, llachar, eirian, llathraid, llathr, ffloew, goleu, eglur, amlwg, tanbaid, càn, cabol, cain, llewychedig, gwymp, effian, ysblan, glain, arwynig, dysgleiriol; enwog, godidog, ardderchog, clodfawr, rhagorol, gogoneddus; dysgywen, dysgleirwych, dysgleirwyn, (*f.* dysgleirwen); teg, mirain.
Very bright—tra gloew, gloew iawn, tra dysglaer, &c.; canloew, arysblenydd, gorlachar.
Bright through—tryloew, trylachar; dysglaer *neu* loew drwyddo; hyloew, hyglaer.
Bright colour—lliw dysglaer, gloew, canaid, goleu, *neu* glaer; goleuliw, claerliw.
Bright brass—pres gloew.
Bright sword—cleddyf dysglaer, gloew, llachar, claer, *neu* lathr.
Bright apparel — gwisg glaerwen; gwisg

ddysgleirwen *neu* ganaid; gwisg ddysglaer; dysgleirwisg, claerwisg.
Bright cloud—cwmwl goleu *neu* ddysglaer; cwmwl goleuwawr; cwmwl dysgleirwyn.
Bright fire—tân dysglaer, goleu, *neu* lachar.
Bright flame—gwenfflam; fflam oleu *neu* ddysglaer.
Bright sunshine—tes ysblenydd, canaid, llathr, *neu* lachar; heulwen oleu.
Star bright—serloew, serlachar; gloew *neu* ddysglaer fâl y ser; seirian.
The bright flames of the stars could not endure to lighten that horrible night—nis gallai dysglaer lewyrch y ser oleuo y nos erchyll hòno.
Bright light—goleu *neu* oleuni dysglaer; goleuni canaid, goleu, tanbaid, claer, *neu* ysblenydd.
Bright as the sun—dysglaer fel yr haul; mòr ddysglaer a'r haul; gloewed a'r haul; mòr llachar a'r haul; mòr oleu a'r haul.
Bright spot—màn dysglaer.
The bright and morning star, } y seren
The bright morning star, } foreu eglur (*Dad.* xxii. 16).
A bright one—airon, aeron, claerwen.
The bright shining of a candle—llewyrch *neu* lewych canwyll.
Bright crystal—crisial tryloew, crisial gloew, crisiant dysglaer.
Bright evidence—tystiolaeth eglur, oleu, amlwg, *neu* hywel.
A man of bright parts—dyn dysglaer ei ddoniau; gwr o ddoniau dysglaer; dyn enwog o ran doniau; gwr hynod ei ddoniau; dyn o ddoniau *neu* gynneddfau ysblenydd.
A person of bright character—un dysglaer ei nodwedd; dyn gloew ei nodweddiad; un â gair rhagorol iddo; dyn â gair da dros ben iddo; dyn â gair difan iddo; un o gymmeriad gloew, dianaf, *neu* ddysglaer.
A bright genius—dyn o athrylith ysblenydd, ardderchog, *neu* odidog; gwr ardderchog, hyglod, godidog, *neu* hynod ei athrylith; athrylith dysglaer *neu* ysblenydd.
This was a bright reign—teyrnasiad hyglod, clodfawr, hyson, *neu* enwog ydoedd hwn; teyrnasiad dysgleirwych, dysglaer, *neu* loew oedd hwn.
Bright sky—wybr ddigwmwl, eglur, glaer-*neu* eglur-loew; hin deg, hinon.
Somewhat bright — goloew, goddysglaer, lledloew, lled ddysglaer, lledoleu, lled glaer, &c.
To make bright=*Brighten*, *v. a.*
To grow bright=*Brighten*, *v. n.*
Light bay—claerwineu, gwineugoch.
Bright eyes — llygaid gloewon; llygaid dysglaer, claer, *neu* lachar; llygaid bywiog, terwyn, *neu* danbaid.
It grows bright with wearing—y mae yn gloewi wrth ei dreulio; mae yn gloewi yn ei draul; mae yn gloewi wrth ei wisgo.
Bright wine—gwin gloew, gwin tryloew.
Bright-haired — gwallt-oleu, goleu-wallt, claerwallt; âg iddo wallt goleu, &c.
Bright-eyed—claerlygad, llygadloew; eiriandrem; gloew, claer, llachar, *neu* fyw-iog ei lygad; â llygad gloew ganddo, &c.
Bright-hued—goleuliw, claerliw, eirianliw; o liw gloew, &c.
Bright-harnessed — arfloew, gloew-arfog, arflachar, claerarfog, trecloew.
Thou goddess heavenly bright!—ti nefol dduwies glaer! ti eirian dduwies nef! ti dduwies nefol eirian wawr!
Bright-burning — goleulosg, fflamoleu, gwenfflamiol.
To shine bright—llewyrchu, llewychu, dysgleirio, goleuo, lleuferu, lleueru.

Brighten, *v.* (o *bright*) dysgleirio, gloewi, llewyrchu, eirianu, llewychu, tywynu, tywynygu, echdywynu, goleuo, llathru, lluganu, llugeinio, caboli, cleirio, claeru, tryloewi; yslipanu, pefru, ysblenyddu, gleinio; diwyllu; enwogi, hynodi; sirioli, lloni; ymddysgleirio, ymloewi, &c.; peri dysgleirio, *neu* loewi; edlymu.
Brighten the arrows—gloewa y saethau.
To brighten a character—gloewi, enwogi, *neu* hynodi nodweddiad *neu* enw; gwneyd enw yn hynod, yn hyglod, yn glodfawr, &c.
To brighten, } teghau, tegychu, hinoni;
To brighten up, } cleirio i fyny; ymagor; gwasgaru, chwalu; gyru ymaith; ymsirioli, ymloni; lloni, sirioli, hoewi.
The news brightened her sorrow — y newydd a wasgarodd ei thristwch; chwalodd y newydd ei gofid.
Our prospects brighten—y mae yn goleuo arnom; y mae ein rhagolygon yn goleuo *neu* yn ymsirioli.

Brightness, *s.* (o *bright*) dysgleirdeb, dysgleirder, gloewder, gloewedd, ysblander, ysblanedd, claerder, llewych, llewyrch, eiriander eirianedd, eirianwch, caneidrwydd, ysblandra, goleuder, goleudeb, llewychiant, eglurdeb, eglurder, lleuer, lleufer, pefriant, gleinder, gwyndra, air; godidogrwydd, rhagoroldeb, enwogrwydd; edlymder, glewder, craffusrwydd.
Radiant brightness — llachar ddysgleirdeb.

Brigose,† *a.* (o *brigue*) cynhenllyd, cecrus, ymrysongar, amrafaelgar.
Brigue, *s.* (Ff.; It. *briga*) cydgyfrinach; dichell, dichelliaeth, brad, cydfrad, cydblaid; cynhen, amrafael, ymryson.
Brigue, *v. a.* ceisio, pleidgeisio, erfyn.
Brillante, *a.* (It.) hoew.
Brilliancy, } *s.* (o *brilliant*) dysgleirdeb,
Brilliantness, } dysgleirder, ysblander, ysblanedd, ysblandra, ysblandeb, eiriander, caneidrwydd, gorwychder, gorddysgleirdeb, gorysblander, terylder, serigledd, dywyndeb.

Brilliant, *a.* (Al.; Ff. *brillant;* It. *brillante*) gloew, dysglaer, ysblenydd, claer, tryloew, dysgleiriol, llachar, claerwych, rhagorwych, gleiniog; ardderchog; lluchedenol, yn serenu, gwreichionog, terwynol.
Brilliant achievements — gorchestion ysblenydd, gorchestion rhagorgamp.

Brilliant, *s.* claerem, gleinem = cellt neu adamant o'r toriad goreu: esgudfarch.
Brills, *s. pl.* (?) aeliau ceffyl, blew amrantau ceffyl.
Brim, *s.* (S. *brymm;* Sw. *bräm*) ymyl, min, cwr, byl, ôr; ochr, ael, cwr cithaf; cyfor.

Full to the brim—llawn hyd y byl; llawn hyd yr ymyl; hyd y gib; cyforiog, cyfor.
To fill up to the brim—cyforio; llanw hyd y byl *neu* ymyl.
Up to the brim—hyd y byl, hyd yr ymyl, hyd y gib.
In the brim of the water—yn nghwr y dyfroedd.
Having a brim—ymylog; âg ymyl iddo *neu* iddi.

Brim,† *a.* (S. *bryme*) cyhoeddus, cyhoedd; adnabyddus, enwog.

Brim, *v.* cyforio; ymylu; llenwi hyd y byl; llanw hyd yr ymyl; llanw hyd y gib *neu* y top; bod yn gyfor *neu* gyforiog; bod hyd y byl *neu* ymyl: llodi, bod yn llodig, gofyn baedd.
Narrow-brimmed hat—het ymylgul; het gul ei hymyl.

Brimful, *a.* (*brim* a *ful*) cyforiog, cyfor; llawn hyd y byl *neu* ymyl; llawn hyd y gib; yn barod i redeg *neu* lifo drosodd; trylawn, gorlawn.

Brimfulness, *s.* (o *brimful*) cyforiogrwydd, cyfordeb; llawnder hyd y byl; trylawnder.

Brimless, *a.* (*brim* a *less*) diymyl, dïor; heb ymyl *neu* fyl.
A heart brimful of tears—calon gyforiog o ddagrau; calon drylawn *neu* orlawn o ddagrau; calon lawn o ddagrau hyd y byl.
Our legions are brimful — gorlawn ein llengoedd.

Brimmer, *s.* (o *brim*) cyforgib, cwpan cyforiog, cwpan llawn; cyforaid, cwpanaid.

Brimming, *a.* (o *brim*) cyforiog, cyfor; gorlawn, trylawn; llawn hyd y byl *neu* ymyl: llodig.
Brimming sow—hwch lodig, hwch faeddredog.

Brimstone, *s.* (S. *bryne*, llosg, a *stone*,=burnstone) llosfaen, llosgfaen, mygfaen, melynfaen, ufeliar, brwmstan.
Fire and brimstone—tân ac ufeliar, tân a brwmstan.
Acid of brimstone, } sur ufelig, sur llos-
Sulphuric acid, } feinig.
Brimstone wort—pyglys.

Brimstony, *a.* (o *brimstone*) llosfeinin, llosgfeinin, llosfeinig, mygfeinin, ufelierin, brwmstanaidd; o losgfaen *neu* frwmstan.

Brinded, } *a.* (It. *brinato*) brych (*f.* brech),
Brindled, } brith (*f.* braith), mànog, brychog, arfrych, brychedig, ysmotiog, cymmysgliw, amryliw, brychliwiog; crych (*f.* crech).
Brinded cow—buwch frech.
Brinded ox—eidion brych.
Brinded mane—mwng crych.
Brindled bay—brychwineu.
Brindled white—brychwyn, brithwyn; *f.* brechwen, breithwen, brithwen.
Brindled brown—brychlwyd.

Brindle, *s.* brychni, brychogrwydd, arfrychni, brithedd, mànogrwydd.

Brine, *s.* (S. *bryne*) heli, dwfr hallt, dwr hallt, halwyn; dagrau, deigrau; y môr heli.
To season with brine—helïo, halu, halenu.

Brine, *v. a.* helïo, halenu, halu; cymmysgu halen â.

Brinepan, *s.* (*brine* a *pan*) heledd, helifa, pwll heli.

Brinepit, *s.* (*brine* a *pit*) pwll heli, heledd, pwll halen.

Brinespring, *s.* (*brine* a *spring*) ffynnon heli, ffynnon hallt, halffynnon, halffwnt.

Bring, *v. a.* (S. *bringan;* Al. *bringen;* Sw. *bringa;* D. *bringer*) dwyn, dygyd, cyrchu, arwain; cludo, cario, hol, nol, cywain, arwedd; tywyso, tywys; cynnyrchu, peru, peri; dyfod âg.
To bring about—dwyn i ben; peri, peru; peri bod; cyflawnu, cwblhau, gorphen, dybenu, effeithio, gwneuthur, gweithredu; cylcharwain; cylcharwain chwedl; llefaru yn amgylchiadol; dwyn *neu* ddygyd oddi amgylch *neu* o gwmpas.
To bring away—dwyn *neu* gludo ymaith; tywyso ymaith.
To bring abroad—dwyn, arwain, cywain, *neu* ddygyd allan *neu* i'r goleuni.
To bring to an end—dwyn i ben; gorphen, cyflawnu, cwblhau, dybenu, diweddu, perffeithio, talmu; dwyn i ddiwedd.
To bring again — eilgyrchu, adgyrchu, eilddwyn, dwyn drachefn, dychwelyd.
To bring aside—dwyn, tywys, tywyso, *neu* dynu o'r neilltu; twyllo, denu, *neu* hudo allan o'r ffordd; camdywys, camarwain, cildywys.
To bring back—dwyn yn ol; dwyn adref; attwyn, atddwyn, atddygyd, adgywain, edfryd, dychwelyd, attychwelyd; troi, troi yn ol.
To bring down—dwyn i lawr; lleihau, iselu; dwyn yn is; dwyn i waered; disgyn; tynu i lawr; peri disgyn.
To bring down, } darostwng, goresgyn,
To bring under, } gorchfygu, trechu, gorfod ar; gostwng; dwyn dàn *neu* danodd; dwyn, gwthio, gosod, dodi, bwrw, *neu* dynu i lawr; disgyn.
To bring by force—dwyn trwy drais *neu* orthrech; cymhell, gwthio, *neu* lusgo trwy drais; llusgo, gwthio, gorfodi.
To bring forth—dwyn, tynu, tywys, *neu* arwain allan; gosod ger bron; tynu o; dangos allan; gosod allan; dynoethi, dadguddio; esgor, esgori, dwyn, ymddwyn, ymddwyn ar, esgor ar, geni; dyfod â; bwrw; alu; heigio; cynnyrchu.
To bring forth abundantly—heigio; dwyn *neu* fwrw allan yn ffiwch.
To bring forth before the time—erthylu; esgor cyn tymp; ymddwyn ar *neu* ddwyn cyn tymp; esgor cyn yr amser.
To bring forth fruit — dwyn ffrwyth; ffrwytho.
To bring forth flowers — dwyn blodau; blodeuo, blaguro, ffluro.
To bring forward—dwyn yn mlaen; hebrwng yn mlaen; hyfforddi, hyrwyddo, hylwybro, hylwyddo, llwybreiddio, rhwyddhau, rhwyddino, hwyluso, hwylusu; dwyn i'r golwg.
To bring forward on a journey—hebrwng, canhebrwng, hebryngu, canymdaith, canymdeithio, canymdöi; anfon, danfon.
To bring from—dwyn o *neu* ymaith; dwyn *neu* gludo oddi wrth; cludo *neu* gywain ymaith; diddyfnu.
To bring in—dwyn i mewn, dygyd i fewn; arwain, tywys, cludo, *neu* gywain i

mewn; cyfarwain, rhagarwain, atarwain.

To bring in place of another—dwyn, dodi, *neu* osod yn lle un arall.

To bring in guilty—euogfarnu, collfarnu; bwrw *neu* farnu i'w golli; bwrw i farwolaeth; dwyn i mewn yn euog; cael yn euog; barnu *neu* fwrw yn euog; dyfarnu.

To bring in not guilty—dwyn i mewn *neu* gael yn ddïeuog; dïeuogi, rhyddhau, diheuro; barnu *neu* fwrw yn ddïeuog.

To bring into fashion—dwyn i arferiad; dwyn ar arfer; dyfod â pheth i ddefod ac arfer; peri mewn arfer; dwyn i gymmeriad; peri arferyd yn gyffredin.

To bring into a fool's paradise—hudo â theg eiriau; denu *neu* litho â gau addewidion; addaw yn dda i wneyd ffwl yn llawen; tywys *neu* arwain i wag obaith; somi, siomi; dwyn i wynfa yr ynfyd.

To bring one's hand in—cyweirio, cynefino, *neu* arferyd ei law; dwyn ei law i mewn *neu* i gywair; dyfod â'i law i mewn *neu* i gywair.

To bring into an office—derchafu i swydd; dodi *neu* roddi mewn swydd.

To bring into danger—dwyn *neu* arwain i berygl.

To bring into debt—dwyn i ddyled; rhoi mewn dyled; dwyn *neu* dynu dyled ar.

To bring into question—dwyn dàn holiad *neu* holedigaeth; holi.

To bring into subjection—dwyn yn gaeth; dwyn i gaethiwed; dwyn dàn lywodraeth; darostwng.

To bring low—darostwng, gostwng, iselu, iselhau; dwyn yn isel; tynu, taflu, *neu* fwrw i lawr; lleihau, culhau, prinhau, gwanychu, gwanhau, gwaethu, gwaethygu.

To bring matters to bear—peri tycio; peri llwyddo; gosod ar droed; dwyn yn mlaen yn hyrwydd; dwyn pethau i ben; dwyn pethau i gael effaith; peri i bethau dycio.

To bring off—dwyn ymaith; rhyddhau; tynu yn rhydd; tynu allan; gwaredu, diddyrysu, dirwystro; dwyn *neu* dynu oddi wrth; peri i un beidio â; darbwyllo un i beidio âg.

To bring on—dwyn yn mlaen; hyrwyddo, hylwybro; cychwyn; hebrwng yn mlaen.

To bring one on his way—hebrwng, hebryngu, canhebrwng, canymdeithio, canymdöi; anfon, danfon.

To bring to nothing — diddymu, dilëu, dyfetha, dinystrio, difanu, difa, difwyno, ysu, anrheithio, dïelwi, peri difanu; dwyn i ddim *neu* ddiddymdra.

To bring to perfection—dwyn i ben; dwyn i berffeithrwydd; perffeithio, cwblhau, dybenu, gorphen, cyflawnu, cwplorphen.

To bring over—dwyn drosodd; dwyn dros; dygyd trosodd; trosglwyddo; trosi; troi, gwyro, plygu, denu, trathynu.

To bring out—dwyn allan *neu* i maes; adrodd, dadgan; dywedyd *neu* dreithu allan; cyhoeddi, digelu, dïargelu, dadguddio; dyfod â pheth allan.

To bring to pass—dwyn i ben; cyflawnu, gorphen, gorphenu, perffeithio, effeithio, gwneuthur, gwneyd, cwblhau, dybenu, talmu, cwpla.

To bring to remembrance—dwyn ar gof; galw i gof; coffa, coffhau, cofio, adgofio, adgoffa, adgoffhau; galw *neu* osod mewn cof; dwyn cof am; dwyn adgof o.

To bring one to his trial—dwyn un i'w brawf; dwyn un ger bron; dwyn un i ateb i gyfraith; gosod, galw, dwyn, dygyd, *neu* lusgo un ger bron brawdle *neu* frawdlys; gosod un ar ei brawf.

To bring into a snare—dwyn, tynu, *neu* litho un i'r rhwyd *neu* i fagl; dwyn llathlud; rhwydo, maglu.

To bring into one's hand—dwyn *neu* ddygyd i law un.

To bring word, } mynegu, dadgan,
To bring tidings, } dangos, hysbysu; dwyn cenadwri, dwyn newydd, dwyn newyddion, dwyn gair, adrodd, dywedyd; rhybuddiaw o beth.

To bring word again—dwyn ateb; dwyn gair yn ol; dwyn gair eilchwyl.

To bring together—dwyn, casglu, cynnull, *neu* grynöi yn nghyd, at eu gilydd, *neu* i'r un fàn; cyssylltu, dodi, *neu* osod yn nghyd.

To bring under — darostwng; dwyn yn gaeth; dwyn i gaethiwed; dwyn dàn lywodraeth; dwyn *neu* yru tàn *neu* danodd.

To bring up — dwyn i fyny; magu, meithrin, meithrino, maethu; codi i fyny; codi, cyfodi, cwnu; deifnio, deifnogi; dwyn i arferiad; codi i arfer gyffredin.

To bring up the rear—dwyn *neu* dywys yr oliaid yn mlaen; dwyn yn mlaen fon y gad; dwyn y gwŷr ol yn mlaen.

To bring up children—magu plant; dwyn plant i fyny.

To bring up, } cyfogi; chwydu; chwydu
To vomit up, } allan; bwrw, codi, *neu* ddwyn i fyny; gloesi.

To bring up an evil report—dwyn anair *neu* anghlod ar; dwyn enw drwg ar; rhoi allan anghlod am; llygru gair da.

To bring upon—dwyn ar; dwyn ar warthaf.

To bring envy upon one—peri cenfigen i, wrth, *neu* at un; peri cenfigenu wrth un.

To bring upon the carpet—gosod *neu* roi yn destyn siarad; gosod ger bron *neu* o flaen eisteddfod; rhoi testyn *neu* yn destyn i ymddadleu *neu* ymholi yn ei gylch; dwyn i'r carped; rhoi *neu* osod ar y carped.

To bring mischief upon one's own pate—dwyn *neu* dynu drwg ar ei ben ei hun; dwyn *neu* dynu drwg ar ei gopa ei hun.

To bring the ship to—gosod *neu* roi y llong i orwedd wrthi; rhwystro hwyliad llong.

She brought him wine—hi a ddug iddo win; dygodd win iddo.

Bring me a sword—dwg i mi gleddyf; rho imi gledddyf.

That he may bring thee into the place which I have prepared—fel y'th arweinio i'r fàn à barotoais.

Bring her to me—cyrchwch *neu* dygwch hi ataf fi.

Them also I must bring — y rhai hyny hefyd sy raid i mi eu cyrchu.
Bringing his sheaves with him—dàn gludo ei ysgubau.
It was this that brought it about—dyma yr hyn a'i parodd; hyn a'i dygodd i ben.
He brought it happily about — efe a'i dygodd i ben da.
To give one as good as he brings—talu y pwyth.
To bring an action against one—rhoi cwyn yn erbyn un; cyffröi hawl yn erbyn un; rhoi cwyn ar ddyn; cychwyn hawl *neu* gynghaws yn erbyn un; cwyno ar un; rhoi cyfraith ar un.
He will bring you again unto the land of your fathers—efe a'ch dychwel i dir eich tadau; efe a'ch dwg yn ol i dir eich tadau.
You will be brought back *or* again to your God—troir chwi at eich Duw; dychwelir chwi at eich Duw.
To bring to bed—colwyno; derbyn etifedd *neu* blentyn i'r byd; hebrwng gwraig i'w gwely; dwyn i'r gwely.
To bring into bondage—caethiwo, caethgludo; dwyn i gaethiwed; dwyn yn gaeth; gwarogi.
He brought them down—tynodd hwynt i lawr; darostyngodd hwynt.
Thou shalt bring them down into the pit of destruction—disgyni hwynt i bydew dinystr.
That thou mayst bring them down—fel y darostyngot hwynt.
I will bring down their strength to the earth—eu cadernid a ddisgynaf i'r llawr.
Bring them down from the hill — dwg hwynt i waered o'r bryn.
Thence will I bring thee down—mi a'th ddisgynaf oddi yno; gwnaf i ti ddisgyn oddi yno.
Who shall bring me down to the ground? —pwy a'm tyn i'r llawr?
To bring forth young—esgor ar; dwyn i'r byd; dwyn newyddian i'r byd; ymddwyn, ymddwyn ar; geni; bwrw.
She brought forth a son—hi a esgorodd ar fab; hi a ymddug fab; ymddygodd ar fab.
That night she brought forth her first-born—y nos hòno y dygodd hi ei chynta-anedig i'r byd.
About this time she brought forth her second son—yn nghylch y pryd hwn yr ymddygodd hi ar ei hail fab.
Let the earth bring forth grass—dyged y ddaiar egin; egined y ddaiar egin; dyged y ddaiar laswellt.
Let the waters bring forth abundantly—heigied y dyfroedd.
The river shall bring forth frogs abundantly —yr afon a heigia lyffaint.
Thou knowest not what it may bring forth —nis gwyddost ti ar ba beth yr esgora.
The labour of virtue brings forth pleasure —gorchwyl rhinwedd a rydd hyfrydwch.
Ye have sown much, and brought in little —hauasoch lawer, a chludasoch ychydig.
Bring me in before the king—dwg fi o flaen y brenin.
He went with them to bring them on the way—aeth gyda hwynt i'w hanfon *neu* i'w hebrwng hwynt.
He brought them over to his own party—trodd hwynt i'w blaid ei hun; dug *neu* dygodd hwynt drosodd i'w blaid ei hun.
I will bring it to pass—mi a'i gwnaf; dygaf e i ben.
Into whose hands God bringeth abundantly—y rhai y cyfoethoga Duw eu dwylaw.
He brought her up from her childhood—dygodd hi i fyny o'i mebyd; efe a'i dygodd hi i fyny o'i hieuenctyd.
He shall bring upon them their own iniquity—efe a dâl iddynt eu hanwiredd.
Bring me word again—dwg imi air eilchwyl; dwg eilchwyl *neu* eilwaith air i mi; dwg imi air drachefn; dwg air *neu* ateb yn ol i mi.
To bring glad tidings—dwyn newyddion da; efengylu.
To bring one to his wits—dwyn un ato ei hun; dwyn un i'w bwyll; dwyn un i'w iawn bwyll.
Bringing to—gorweddiad wrthi; gorwedd wrthi.
Bringing forth—cynnyrch, cynnyrchiad; esgoriad, esgor, esgorfa, dygiad i'r byd, esgoredigaeth, ganedigaeth; ystarddiad.
To draw near the time of bringing forth—dywyddu; dychwyddu, dychwyddo.
To bring to light—dwyn i'r goleu; dwyn i'r golwg; dwyn i'r amlwg; dygyd i'r goleuni; dwyn i glawr.

Bringer, *s.* (o *bring*) dygydd, dygwr, dygiedydd, arweinydd, arweiniwr, arweddawdwr; cludydd, cludwr, cariwr, cyweiniwr.
Bringer in—dygwr i mewn; cyfarweinydd, cyfarweiniwr, cyarweinydd, arweinydd, atarweinydd.
Bringer up—maethydd, magwr, magydd, meithrinydd, meithrinwr, megidydd; addysgydd, addysgwr; dygydd i fyny; olfilwr, gorddinydd.
Bringer of tidings — dygwr newyddion; mynegydd, mynegwr, adroddwr; cenad.
Bringer of good tidings—dygwr newyddion da; un à ddygo newyddion da; efengylydd, efengylwr, coelfeinydd.
Bringer on one's way—hebryngydd, hebryngwr, canymdeithydd, canhebryngydd, canymdöydd, hebryngiad.

Brinish, *a.* (o *brine*) heliaidd, hallt, halltaidd, halltin; lled hallt, go hallt.
Brinishness, *s.* (o *brinish*) halltrwydd, helltni, hallted, hallteiddrwydd, halltineb; lledhalltrwydd, gohalltedd.

Brink, *s.* (D. a Sw.; C. *brymcyn*) min, glàn, ymyl, ceulan, torlan, cwr, gwàr, dibyn, arlan, dib, ael.
He is on the brink of destruction—y mae efe ar fin dystryw; y mae efe ar derfynau dïenydd; y mae yn ymyl dinystr; y mae mewn dirfawr berygl.
When you have come to the brink of the waters—pan ddelych hyd gwr y dyfroedd.
On the brink of the pit—ar làn y pwll; ar wàr y pwll.
On the brink of the precipice—ar ddibyn y clogwyn; ar ael y dibyn; ar ael y clogwyn.
From Severn's brink—o fin Hafren; o ymyl *neu* làn Hafren.

Briny, *a.* (o *brine*) hallt, heliog, heliaidd, hall.
The sun drinks of the briny deep—yf yr haul o fôr heli.
The briny waves — tònau y môr heli; tònau heli; gwenyg hallt, tònau heilltion.
Briny tears — dagrau heilltion, deigron hallt, dagrau heli.
To shed briny tears—wylo yr heli; tywallt dagrau heilltion.

Briony, *s.*=*Bryony.*

Brisk, *a.* (Gael. a Gw. *brisg, briosg;* C. *brysg*) bywiog, hoenus, heinif, heini, gweisgi, gwisgi, esgud, esgudlyn, eidiog, gorhoenus, brysg, hoew, cyflym, buan, sionc, chwai, chwimmwth, mwth, chwyrn, gwaisg, chwim, pabl, esgaidd, esgeiddig, blawdd, clau, hawntus, arialus, calonog, brywiog, brywus, pybyr, glew, gwych, llon, llawen, gorawenus, nwyfus; tirf, gwyrenig; ymgynhyrfus, cynhyrfus, llawn bywyd, ewynog.
A brisk gale of wind—awel ffraw, chwern, *neu* chwai o wynt.
Brisk cider—osai ewynog, gwreichionog, byrlymog, gorisgellog, *neu* ymgynhyrfus.
To give the enemy a brisk charge — rhuthro yn esgudlym ar y gelyn; ymosod yn bybyr, yn ddewrwych, yn daerddrud, *neu* yn frysg ar y gelyn.
Brisk fire—tân bywiog, tân brysg, tân gwych, tân brywus.
Brisk demand—gofyn brysg, gofyn mawr, gofyn bywiog, gofyn brywus.
Very brisk, Extremely brisk, } tra bywiog, gorhoenus, gornwyfus, gorhoeni, tra heinif, tra gwisgi, &c.

Brisket, *s.* (Ff. *brechet*) parwyden, y barwydau, hydgyllen.

Briskness, *s.* (o *brisk*) bywiogrwydd, hoenusrwydd, hoen, gorhoen, hoenusder, gweisgrwydd, esgudrwydd, hawnt, llonder, heinifder, nwyf, gorawen, eidiogrwydd, sioncrwydd, sioncusrwydd, sioncedd, hoewder, buander, buandra, cyflymder, chwimmythder, mythder, chweider, parodrwydd, gwrygiant, brywusder, bywiogder, brysgedd, hawnid, hoewedd, pybyrwch, glewder, calondid, gwychder, dewrder, arial, yni, gwychder, egni; ewynogrwydd, cynhyrfusder.

Brisk, *v.* bywiogi, bywiocäu, bywioli, arialu, lloni, sirioli, llawenhau, llawenu; ymloni, ymgaloni, ymlawenu, ymsirioli; brysio, prysuro, gorffullio, chweio, cyflymu; brysio yn mlaen yn orhoenus; brysgo; ymsythu.
To brisk up=*Brisk, v.*
To brisk one's self up—ymloni, ymfywiogi, ymsirioli, ymlawenu.

Bristle, *s.* (S. *bristl*) gwrychyn; rhawnyn mochyn: *pl.* gwrych, rhawn moch.

Bristle, *v.* gwrychu, gwrychio; codi gwrych; codi gwrychyn; codi yn wrych; codi yn ei wrych; codi ar ei wrych; sythu, ymsythu; gosod gwrychyn.
To bristle a shoemaker's thread—gwrychio edaf crydd.
To bristle at one—gwrychio wrth *neu* at un; neshau at un dàn godi ei wrych; gosod ar un dàn godi ei wrych; dyfod at un â'i wrych yn y gwrthwyneb.
To bristle the crest—gwrychio y gribell.
Bristle-armed—gwrycharfog, gwrycharfedig; arfog o wrych.
Bristle-like—mòr syth a gwrych; gwrychaidd.
Bristle-shaped—gwrychluniaidd, gwrychlun; ar ddull *neu* wedd gwrych; gwrychfal; o hyd a lled gwrychyn.
Bristle-bearing — gwrychddwyn, gwrychfag, gwrychddygol, gwrychog, gwrychiog.

Bristled, *p. a.* (o *bristle*) gwrychedig.

Bristly, *a.* (o *bristle*) gwrychog, gwrychol, gwrychiog; garw, gerwin, graenol; llawn gwrych.

Bristol-flower—blodyn Caerodor=math o luglys, neu flodeuyn rhudd.

Bristol-stone, Bristol-diamond, } *s.* creigrisial, crisfaen Caerodor, Crisial Caerodor = math o faen crisial à geir mewn craig ger Caerodor.

Bristol-water, *s.* dwfr Caerodor, dwr Odor= dwr ffynnonau twym ger dinas Caerodor, o dymmeredd 74°.

Brisure, *s.* (Ff.) osgragfur.

Brit, *s.* torbwt, lleden y môr.

Brite, Bright, } *v. n.* (?) goraddfedu; dyfod *neu* fod yn rhy addfed.

Britksa, Britchka, Britzska, } *s.* (Al. *britsche*) math o rythglud, neu gerbyd penagored, â phedrolwyn iddo.

Brittle, *a.* (S. *brittan, brytan*) brau, breuol, bregus, hydor, hyfriw, hydwn, bradw, athor; crin.
Brittle-edged—breufin, breulif, minfrau; brau ei fin.
As brittle as glass—càn freued a'r gwydr; fel y gwêr gwyn.

Brittleness, *s.* (o *brittle*) breuder, breuolder, breuoldeb, breuedd, breuoledd, breuolrwydd, breurwydd, breuawd, breuolaeth; bregusrwydd, hydoredd; crinder, crinedd.

Briza, *s.* (Gr. *brizô*) crydwellt, eigryn; yd Sant Pedr.
Briza media—gwenith yr ysgyfarnog.

Brize, *s.*=*Breese, Breeze.*

Broach, *s.* (Ff. *broche*) bêr, beran; brwyd, gwaell, gwachell, pwyned, nydell; gleinaddurn.

Broach, *v. a.* (Ff. *embrocher;* C. *procio*) beru; gwânu â bêr; gwaellu, gwachellu; dwselu, twselu; agor, tyllu, egori, ebillio, procio; gollwng, gollwng allan; cyhoeddi, taenu, hau; hau *neu* daenu ar led; rhoi ar led.
To broach lies—hau *neu* daenu celwyddau; taenu celwyddau ar led; lledu celwyddau.
To broach an error—hau, taenu, *neu* gyhoeddi cyfeiliornad; taenu *neu* hau camddaliad ar led; bod yn awdur, yn hauwr, *neu* yn ddychymygydd camdyb; dychymygu, cyhoeddi, *neu* haurgau athrawiaeth; cyhoeddi camddysg gyntaf.
To broach to—gogwyddo yn ddisymmwth at y gwynt.

Broacher, *s.* (o *broach*) bêr, beran; dwselydd, dwselwr, tyllwr, agorydd, gollyngwr; taenydd, hauwr, cyhoeddwr; taenwr *neu* gyhoeddwr cyntaf.

Bustard, *s.* (Ff. *bistarde*; Al. *busshard*) tyrciar y gwerni, gwerniar, gwyllttyrci.

Great bustard—yr araf ehedydd.

Thick-kneed bustard—y glinbraff.

Bustle, *s.* (Ll. *festino* ?) ffwdan, trafferth, ffwndwr, godwrdd, terfysg, cynhwrf, cythrwfl, twrdd, dadwrdd, trybestyd, trybestod, godwrf, twrw, ymodwrdd, tres, heldrin, helbul, helgur, cymhelri, godorun, ymffrwst, ffrawdd, dyfrys, brys, arbres, ffrystellach, trabludd, bludd, moloch, trybest, pestod, trin, ffrwst, blawdd, prwst, cynauaf, ffair.

Great bustle—mawrdres, mawrdrin, traffull; mawr ffwdan, &c.

Bustle, *v. n.* trafferthu, ffwdanu, godyrddu, ymdrafferthu, ymdraffullio, ffrystio, brysio, dyfrysio, ffwndro, trybestu, pestota, ffrystellach, ffrysio, ffiychio, traffullio, prysuro, estricio, prystio, trafodi, dwndro, terfysgu; gwneuthur cynhwrf *neu* derfysg; bod yn drystfawr *neu* yn ffwdanfawr.

He bustles about his work—y mae efe yn ddyfal yn *neu* yn nghylch ei waith; y mae efe yn brysio yn nghylch ei waith.

Bustler, *s.* (o *bustle*) ffwdanwr, trafferthwr, ymdrafferthwr, &c.; dyn gweithgar *neu* ddyfrysgar; dyn ystig yn ei waith; ymröwr i'w waith; dyfalddyn, prysurwas.

Busto, *s.* (It.)=*Bust:* saflun.

Busy, *a.* (S. *bysi; bysig*, Is. *bezig*) prysur, diwyd, dyfal, ystig, astud, gweithgar, llafurus, diflin, esgud, ansegur, disegur, anniwaith, dïorphwys, dïesgeulus, manol, manwl; trafferthus, ffwdanus, helbulus, gofidus; pres; ar waith, llawnweithus; â thrafferth *neu* waith arno; ystig wrth *neu* ar waith; ystig yn nghylch gwaith *neu* orchwyl; llawn trafferth; mawr ei dres *neu* drybestod; yn ei lawn waith; swyddgar, rhydresgar, ymyrgar, ymyrus, rhodresus, cymmyreddus, negesgar; mawr ei ymyraeth.

As busy as a bee—mòr ddiwyd a'r wenynen; càn *neu* cyn ddiwyted a'r wenynen.

It was the busy time of harvest—yr oedd hi yn bres gynauaf; prysur amser cynauaf ydoedd.

The busy time of market—pres marchnad; pres farchnad; marchnad brysur.

When we are busiest of all—pan fom yn mhres ein gwaith *neu* orchwyl; pan yr ym brysuraf wrth ein gorchwyl; pan y byddom brysuraf wrthi.

While I was busy in writing—a mi yn brysur yn ysgrifenu; a mi yn prysur ysgrifenu.

As thy servant was busy here and there—tra yr oedd dy was yn ymdröi yma ac acw.

A busy day—dïwrnod prysur.

Busy-minded—prysur-feddwl; gweithgar *neu* brysur ei feddwl.

Busy, *v. a.* trafferthu, ffwdanu; ymdrafferthu *neu* ymdraffullio â; dàl ar waith; cadw *neu* ddàl wrth waith; rhoi peth i'w wneuthur; rhoi llawnwaith; cadw *neu* ddàl mewn llawn waith; peri trafferth i.

To busy one's self with an affair—ymyru, ymyryd, ymyraeth, *neu* ymrwystro â pheth.

A busy day—dïwrnod prysur.

Busy not thyself with other men's affairs—nac ymyra â materion, negesau, *neu* bethau rhai ereill.

Busy-body, *s.* ymyrwr, ymyrydd, rhydreswr, rhodreswr; prysurwas; prysur heb ddiolch; dyn ymyrgar, rhydresgar, rhydresus, cymmyreddus, *neu* ymyrus; un â'i fys yn mrywes *neu* yn mhotes pawb; un à fwrio ei gryman i yd pawb; un a roddo ei lwy yn nysgl pawb; chwilgi.

But, *c.* (S. *butan, bute, buta*) ond, onid, eithr, oddi eithr; er hyny, eto, ond eto, yn unig; cyn, pan; hagen, anllai; eisoes, eisys; nid amgen, amgen; onis, onid e; etwaeth, eton, etwa; ag, nag.

But, *prep.* ond, onid, eithr, oddi eithr, odd eithr, oddi gerth; heb, heb law, namyn, amyn, nam, named; maes o; allan o; dim ond; dim amgen na *neu* no.

But yet—ond, eithr, eto, ond eto, eton, etwa, etwaeth, er hyny, eisoes, eisys, hagen; ond er hyny.

But it is plain—eithr eglur yw; ond y mae yn eglur.

But yet the king hearkened not to his words—ond eto, er hyny, er hyny eto, eisoes, *neu* hagen, ni wrandawodd y brenin ar ei eiriau ef.

But for—oni buasai, oni bai; heb; pe na buasai.

But for one man we should have perished—oni buasai un gwr, darfuasai am danom.

But for him—oni buasai ef; hebddo ef; hebo ef; oni buasai iddo ef; ped ond ef.

Her head was bare, but for her native ornament of hair—noeth oedd ei phen, ond ei haddurn naturiol o wallt; ei phen oedd noeth, oni buasai ei haddurn gwallt cynhenid.

But that—oni bai, oni byddai; oni buasai; pe na, pe nad, pe nas; nad oes.

But that I feared the king's displeasure—oni bai ofni o honof ddig y brenin; oni buasai ofni o honof ddig y brenin; pe nad ofnaswn ddig y brenin.

It cannot be but nature has some director—nis geill fod nad oes gàn natur ryw lywydd; nis geill lai na bod gàn natur ryw gyfarwyddwr; nis dichon fod nad oes i anian ryw lywydd; nis gall yn amgen na bod gàn anian ryw reolydd; ni ddichon fod amgen na bod i natur ryw gyfarwyddydd.

But that we were already employed—pe na buasem eisoes mewn gwaith; pe buasem heb fod ar waith eisys; oni buasai ein bod mewn gwaith eisoes.

But that I think you know it already—oni bai i mi dybied y gwyddoch ef eisoes; pe nas tybiwn y gwyddoch ef eisoes; pe na thybiwn ei wybod o honoch yn barod.

The moon was no sooner up but he opened the gate of Paradise—nid cynt y cododd y lleuad nag yr agorodd efe borth Gwynfa; yn gyntaf *neu* cyn gynted ag y cododd y lloer, efe a egorodd borth Paradwys.

Hardly was the former stir ended, but a new one arose—braidd y gostegasai y terfysg o'r blaen, cyn codi o un newydd; prin y peidiasai y terfysg o'r blaen, pan gyfododd un newydd.

But only you—neb ond chwi; neb onid chwi; chwychwi yn unig.

None but he could have done it—nid oedd neb, ond, onid, eithr, *neu* oddi eithr efe, a allasai ei wneuthur; nis gallai neb ond efe ei wneuthur.

A hundred but one—cant ond un; namyn un cant; amyn un cant; cant namyn un.

There was nobody at home but I—nid oedd neb gartref ond mi; nid oedd neb gartref onid myfi, nid oedd neb gartref heb law mi, *neu* heb fy llaw i.

There is none good but one—nid da neb ond un.

Our light affliction which is but for a moment—ein byr ysgafn gystudd (2 *Cor.* iv. 17).

There was nothing in his house, but what he shewed them—nid oedd dim yn ei dy ef ag *neu* a'r nas dangosodd efe iddynt.

None of them is lost but the son of perdition—ni chollwyd o honynt ond mab y golledigaeth.

We have done unto thee nothing but good—nis gwnaethom ddim ond da iti; nis gwnaethom ond da yn unig iti; nyni a wnaethom ddaioni yn unig â thi.

He did nothing but complain—ni wnaeth ddim ond achwyn.

Do you but be faithful to your promise—yn unig byddwch ffyddlawn i'ch addewid.

Obey but my voice, } yn unig gwran-
Do but obey my voice, } daw ar fy llais; yn unig gwrandawa fy llais.

These last have wrought but one hour—un awr y gweithiodd y rhai olaf hyn; ni weithiodd y rhai olaf hyn ond un awr.

Tell me nothing but that which is true—na ddywed wrthyf ond *neu* namyn gwirionedd; na ddywed i mi ddim ond yr hyn sy wir.

She does nothing but weep—ni phaid hi âg wylo; ni wna hi ddim ond wylo; nis gwna hi swydd ond wylo.

I cannot but speak the truth—nis gallaf na ddywedwyf y gwir; nis gallaf lai na dywedyd y gwir.

I cannot but love her—nis gallaf lai na'i charu; nis gallaf nas carwyf hi; ni allaf beidio â'i charu.

There is none but is afraid of you—nid oes neb nad yw yn eich ofni; nid oes dyn ag nad yw eich ofn chwi arno.

It cannot be but the multitude must come together—nid oes modd na ddel y lluaws yn nghyd.

There is none but knows—nid oes dyn ag nas gŵyr; nid oes neb nas gŵyr; nid oes un na ŵyr; pawb a wyddant; gŵyr pawb; gŵyr pob un.

There is no question but the king will reform—nid oes dadl na ddiwygia y brenin.

Did men but consider—petai dynion yn unig yn ystyried; petai dynion ond ystyried; pe bai dynion yn unig yn ystyried; petai dynion ddim ond ystyried; pe bai dynion ddim ond yn ystyried; ped ystyriai dynion.

Believe nothing concerning God, but what is honourable—na chred ddim am Dduw, amgen nag anrhydeddus; na chred ddim am Dduw, amgen na'r hyn a fyddo anrhydeddus.

You cannot buy it, but at a very dear rate—chwi a'i prynwch yn brid *neu* yn ddrud iawn, os ei brynu a wnewch, nis gallwch ei brynu ond am bris tra uchel.

He came but yesterday—nid oes ond er doe er pan ddaeth; ni ddaeth ond er doe.

He is but just now gone—yn awr fach yr aeth; gynneu fach yr aeth; nid yw ond newydd fyned.

There wanted but a little but he had struck him—ni bu ond y dim lleiaf rhyngddo a'i daraw; prin *neu* braidd y peidiodd â'i daraw.

I would but for hurting him—mynwn oni bai imi ofni ei niweidio ef; mynwn oni bai imi ofni gwneuthur iddo niwed.

What ails you but that you may do it?—beth a'ch rhwystra i'w wneuthur?

But if—ond os, eithr os, ond pe, ond ped, ond od, eithr od, eithr o, ond o.

But if not—ac onid e, ond onid e, eithr onid e, ac onid, eithr onid, eithr os nid, eithr os nad, ond os na.

But if you worship not—ac onid addolwch; ac onid ymgrymwch; eithr os nid ymgrymwch *neu* addolwch.

But rather—yn hytrach; eithr *neu* ond yn hytrach; eithr sy fwy; echre.

But seldom—yn anfynych, yn anaml, ond odid; ond yn anfynych; ond anfynych.

This is but seldom seen—anfynych y gwelir hyn; ni welir hyn ond anfynych; hyn ni welir ond yn anfynych.

But a while ago—yn ddiweddar; ond ychydig bach yn ol; yn hwyr; yn hwyr o amser; yn ddiweddar iawn; yn hwyr iawn; gynneu; er ys talm bach; ers ennyd bach; er ys meityn bach; er ys cetyn bach o amser.

But just now—yn awr fach; gynneu fach; ychydig bach yn ol.

Not but that—nid am na; nid am nas; nid am nad.

But only that—ond yn unig mai; ond yn unig bod.

But though—ond er, eithr er; anllai.

There is no doubt but—nid oes ammheu nad; nid oes ammheuaeth na *neu* nas.

The Thursday but one before Whitsuntide—y dydd Iau nesaf ond un cyn *neu* o flaen y Sulgwyn; y dydd Iau nesaf ond un i'r Sulgwyn.

The last line but one—y llinell olaf ond un; y llinell olaf namyn un.

It is but necessary—nid yw ond rheidiol, angenrhaid, *neu* angenrheidiol.

She is anything but handsome—mae hi yn unrhyw beth ond hardd; y mae hi yn beth à fynoch ond hardd; y mae hi yn unpeth ond hardd; mae hi y peth à fynoch ond hardd.

It is all but blank—y mae yn oll ond gwagle; mae yn oll ond gwagle hollol; y mae o fewn i ddim yn wagle hollol; y mae bron yn wagle hollol.

We shall but die — byddwn farw; ni wnawn ond marw.

But, } *s.* (Ff. *bout*) ffin, terfyn, cyffin, ffinedd;
Butt, } bon, y bon, bonwn.

But, *v.* ffinio, cyffinio, cydio, terfynu.

Butcher, *s.* (Ff. *boucher*) cigydd, cigwr; lleiddiad.

The butcher, } y cigydd=math o aderyn.
Butcher-bird, }

Great butcher-bird—y cigydd mawr.

Red-backed butcher-bird—y cigydd cefngoch.

Least butcher-bird—y barfog, y cigydd lleiaf.

Butcher's trade — cigyddiaeth, celfyddyd cigydd.

Female butcher—cigyddes.

Butcher-row—cigfa, y gigfa, marchnad y cig, y farchnad gig, cigle, cigyddfa, cigyddle; rhes o gigfau, cigres.

Butcher's shop — cigdy, cigyddfa, cigfa, cigydd-dy, cigfwth, bwth cigydd, gwerthdy cigydd.

Butcher's meat—cig, cig ir, cig ffres, cig ffresg, cig y cigydd.

Butcher's broom — banadl pigog, celyn Mair, celyn Ffrainc, gewynllys, gïeulys, llysiau y gïau, pryseg.

Butcher, *v. a.* cigyddio, dïenyddio, lladd.

Butcherliness, *s.* (o *butcherly*) cigyddolrwydd, cigyddlydrwydd, gwaedlydrwydd, creulonrwydd, creulonder.

Butcherly, *a.* (o *butcher*) cigyddaidd, cigyddlyd, cigyddol; cïaidd, creulawn, gwaedlyd, ffyrnig, barbaraidd.

A butcherly fellow—cigydd o ddyn.

Butchery, *s.* (o *butcher*) cigyddiaeth; cigfa, cigyddfa, cigle, cigyddle; marchnadfa cig; galanasdra, lladderedd.

Buteoninæ, *s. pl.* (Ll. *buteo*) boncatholion, bwncathogion, boncathogion.

Butler, *s.* (Ff. *boutillier*) trulliad, trulliwr, heilyn, gwallofiad, menestr, gwallofydd, gwallofwr.

The chief of the butlers—y pentrulliad (*Gen.* xl. 2).

Female butler—trulliades, heilynes, gwallofyddes, gwallofiades.

Under-butler—isdrulliad, iswallofiad.

Butlerage, *s.* (o *butler*) trulliadaeth, heilyndoll.

Butlerage, } *s.* (o *butler*) trulliadaeth, heilyn-
Butlership, } iaeth, heilynyddiaeth; swydd trulliad.

He restored the chief butler unto his butlership again — gosododd y pentrulliad eilwaith yn ei swydd (*Gen.* xl. 21).

Butment, *s.* (hen Ff. *aboutment*) pentan, mydatteg, mydwanas.

Butment of an arch—mydatteg, mydwanas, pentan, bwa.

Butment cheeks — morteisarnau, ochrau mortais.

Butomus, *s.* (Gr. *bous* a *temnô*) engraff, brwynen flodeuog=math o frwyn.

Butshaft, *s.* (*but* a *shaft*) nodsaeth, annelsaeth, parselsaeth, saeth annel.

Butt, *s.* (Ff. *bout*) nod, parsel, annelnod; cyff cler, gwawdnod, gwatwargyff, nod y gwatwar, gwawdgyff, gwatwarnod; pwt, gwth, hyrddiad, gyrth, hwrdd, corniad; bon, arlost.

Butt of ridicule—cyff cler, gwatwargyff, cyff gwawd.

Butt and butt—bonfon; talcen yn nhalcen.

Broad butt—bauol, bon llydan.

To start *or* spring a butt—ymollwng yn mon y planciau; ymollwng *neu* ymryddhau yn y bon.

Butt-end, / But-end, } bon, arlost, bonwn.

To run full butt at one another — ymgyfredeg, ymgyhydreg, *neu* ymgyfranc dalcen yn nhalcen; ymruthro dalcen yn nhalcen.

Butt, *v. n.* (C. *pwtio;* It. *buttare*) cornio, hyrddio, hyrddu, gyrthio, pwtio, pwtian, cernial, ymgornio, gwthio, gwrthdaro, hergornio, ymhyrddio.

Butt, *s.* (S. *butte, bytt;* Ysp. *bota*) bauol, bytaid, bauolaid=baril o 126 galwyn o win, neu 2 fyddi.

Butter, *s.* (Al.; S. *buter, butera;* Ll. *butyrum;* Gr. *bouturon*) ymenyn.

Fresh butter — ymenyn gwyrf, ymenyn gwyra, ymenyn ffres, ymenyn ffresg.

Salt *or* salted butter—ymenyn hallt.

Butter tray—ciler, ciler ymenyn.

To make butter — cyweirio ymenyn; gwneyd ymenyn, gwneuthur ymenyn.

A lump *or* print of butter—agalen, breian, brefan, rhisgen, manaid, calen, *neu* seigen o ymenyn.

Bread and butter—bara ac ymenyn; brechdan, brechdaen.

A slice of bread and butter—brechdan, brechdaen; tafell o frechdan; clem *neu* dafell o fara ac ymenyn.

Butter and cheese — ymenyn a chaws; enllyn gwŷn; enllyn.

She looks so demurely, as if butter would not melt in her mouth—gellid meddwl wrth ei golwg na lyncai hi mo'r llefrith.

A pot of butter, / A pot-ful of butter, } ystenaid o ymenyn, potaid o ymenyn.

Butter trade—masnach *neu* drafnid ymenyn.

He that has a good store of butter may lay it thick on his bread—à fo aml ei fêl, rhoed ar ei fara; a fo aml ei fêl, rhoed yn ei uwd.

Butter, *v. a.* ymenynu; iro *neu* ddwbio âg ymenyn.

Buttered toast, / Toast and butter, } crasdafell ymenynedig *neu* ymenynog; crasdafell iredig âg ymenyn; crasfrechdan, brechdan grasboeth, brechdaen gras.

He knows on which side his bread is buttered—efe a ŵyr ar ba wyneb i'r bara y mae yr ymenyn; e ŵyr y gath pa farf a lyf.

To butter a cake—ymenynu teisen; rhoi *neu* osod ymenyn ar deisen; iro teisen âg ymenyn.

Fair words butter no parsnips—ni lenwir cylla gwag â geiriau teg.

Butter-bump, *s.* aderyn y bwn, aderyn y bwmp, bwmp y gors.

Butter-bur, / Butter-burr, } *s.* alan mawr, dail y tryfan.

Common butter-bur=*Butter-bur.*

Butter-cups, / Butter-flower, } *s.* blodau yr ymenyn, blodau ymenyn, chwys Mair, egyllt cnapwraidd, egyllt cnapwreiddiog.

Butterfly, *s.* (S. *buter-flege*) ilir, eilir, eilier, glöyn byw, glöen fyw, pilai, pila, clöyn, clöyn byw, iar fach yr haf.

Butterfly-shaped—pileiaidd, eiliraidd, iliraidd, clöynaidd; ar ddull *neu* lun ilir.

Butterfly-shell — yr ilirgragen; *pl.* ilirgragod=math o grestlibogion.

Butterfly-plant—eilirlys, ilirlys.

Butterfly gymnadenia—baldar dwyddeiliog.

Butteris, / Butters, } *s.* (?) naddiadyr, carndaclyr, hairn naddu.

Butter-milk, *s.* (*butter* a *milk*) llaeth enwyn, enwyn.

Butternut, *s.* (*butter* a *nut*) olewgneuen, cneuen ymenyn: *pl.* olewgnau.

Butter-print, / Butter-stamp, } *s.* print ymenyn, nodyr ymenyn, breiannodyr.

Butter-spoon, / Butter-scraper, } *s.* crafell ymenyn.

Buttertooth, *s.* (*butter* a *tooth*) llaethddant, rhagddant llydan, rhagddant, blaenddant.

Buttertree, *s.* (*butter* a *tree*) ymenynwydden, pren ymenyn: *pl.* ymenynwydd, coed ymenyn.

Butter-wife, / Butter-woman, } *s.* ymenyn-wraig, gwerthwraig ymenyn, ymenynyddes.

Butterwort, *s.* (*butter* a *wort*) y doddaid felen, y doddedig felen, eiryfedig.

Common-butterwort — toddaid felen gyffredin, y doddaid felen, y doddedig felen.

Buttery, *a.* (o *butter*) ymenynaidd, ymenynog, ymenynol, ymenynllyd.

Buttery, *s.* (o *butter*) bwydgell, bwytty; trullfa.

Buttock, *s.* (o'r Ff. *aboutir*, yn ol tyb *Skinner*) pedrain, ffolen, bontin, tin, clun, morddwyd, cwman, crymal.

The buttock of a ship—crymal llong.

A little buttock—ffolenig, crymalen.

With buttocks uncovered — yn dinnoeth (*Esa.* xx. 4).

Button, *s.* (Ff. *bouton;* It. *bottone;* C. *botwn*) botwm, botwn; boglwm, boglyn, cnap; blaguryn.

Button, / Button-fish, } morddraenog, draenog y môr.

Button and loop—botwm a dolen.

A thing not worth a button—peth diddym; peth heb ddim; baw-beth; peth heb fod yn werth brwynen; anober, anoberi.

His tail makes buttons—y mae yn rhefro *neu* yn crynu gàn ofn; y mae yn rhefro.

Button, *v. a.* botymu, botynu, botyno; boglymu, boglynu.

Bachelor's button—lluglys ysgar, llys yr ychain, blodeuyn rhudd; botwm mab ieuanc.

Button-bush, *s.* botymlwyn.

Buttoned, *a.* (o *button*) botymog, boglymog; botymedig, boglymedig, boglynedig.

Button-flower, *s.* botymflodyn, cnapflodyn: *pl.* botymflodau, cnapflodau.

Buttonhole, *s.* (*button* a *hole*) twll *neu* rwyll botwm, twll botwn, bwt.
Button-maker, *s.* botymwr, botynwr, gwneuthurwr botymau.
Button-stone, *s.* botymfaen.
Button-tree, *s.* botymbren, botymwydden, cnapwydden: *pl.* botymwydd, cnapwydd.
Button-weed, *s.* botymlys, botymchwyn, botymwlydd.
Button-wood, *s.* botymwydd, bytwydd, cnapwydd, cnapgoed.
Buttress, *s.* (o *but*) atteg, attegwaith, cynnalfur, attegfur, canbost, cambost, gwanas, murwanas, seilddar, gwrthgefn; cynneiliad, cynnalydd, cynnaliawdr.
Flying buttress — hedwanas, hedatteg, croesatteg, atteg hedegog.
Buttress, *v. a.* attegu, cynnal; cynnal *neu* ddàl i fyny; rhoi atteg dàn; gwrthgefnu.
Buttressed, *a.* (o *buttress*) attegedig, cynnaledig; âg atteg *neu* gynnalfur dano, &c.
Butts, *s. pl.* (o *butt*) parselfa, saethfa, saethle, saethfan; cilrynau, (*sing.* cilrwn); pyncirch, argaeau.
Butwink, *s.* butwinc=enw aderyn.
Butyraceous, **Butyrous**, *a.* (Ll. *butyrum*) ymenynaidd, ymenynog, ymenynol, ymenynllyd; o ansawdd ymenyn.
Butyric, *a.* (Ll. *butyrum*) ymenynig.
Butyric acid—sur ymenynig.
Butyrine, *s.* (Ll. *butyrum*) ymenynain, ymenynin=math o ddefnydd olewaidd à geir o ymenyn.
Buxbaumia, *s.* (oddi wrth I. C. *Buxbaum*) Bwcsbawmia, pyrfwswn.
Buxeous, *a.* (Ll. *buxus*) ysbeinwyddain, ysbeinwyddin, bocysaidd; perthynol i'r ysbeinwydd *neu* y bocys.
Buxina, **Buxine**, *s.* (Ll. *buxus*) bodlysbal, bocysin, bocsin=llysbal, llysalcali, *neu* alcali llysiesaidd, à geir o'r pren bocys.
Buxom, *a.* (S. *bocsum*) bywiog, hoenus, heinif, heini, hoew, hawntus, llawen, gweisgi, gwisgi, sionc, nywus, gorhoenus, gorawenus, brywus; nwyfus, hynwyf, anllad, hyserch, trythyll; †ufydd, ufyddgar, hydrin.
The buxom air—yr awyr hyran, hydraidd, hyhollt, *neu* deneu; yr awyr hawntus.
The buxom morn—y bore bywiog *neu* nwyfus.
Buxomness, *s.* (o *buxom*) bywiogrwydd, hoen, nyw, gorhoen, hoenusrwydd, heinifder; nwyfusrwydd, nwyfiant, hynwyfedd, anlladrwydd, anlladedd, trythyllwch; † ufyddgarwch, hydrinedd, uddyfdod.
Buxus, *s.* (Ll.)=*Box*, *Box-tree*.
Buy, *v.* (S. *bigan*, *bygan*, *bycgan*) prynu, pwrcasu; masnachu.
To buy a pig in a poke—prynu cath mewn cwd; prynu cath mewn cod *neu* ffetan.
He shows that he has a mind to buy—dengys ei bryngarwch; dengys ei fod ar fedr *neu* ar oddeu prynu.
He has not wherewith to buy a halter—nid oes ganddo mo'r ewinedd i ymgrafu.
It is good buying with other men's money—arfog à gaffo rybudd; rhybudd i ddedwydd; prynu synwyr ar draul ereill.
To buy a bargain—prynu â newid *neu* â bargen arno; rhadbrynu; cael newid *neu* fargen ar beth.
To buy dear—prynu yn ddrud; prynu yn brid; prynu cyhyryn gàn gath.
To buy and sell—prynu a gwerthu; marchnata, masnachu; porthmona.
To buy again — adbrynu, eilbrynu, ail brynu; dirbrynu.
To buy before hand—rhagbrynu; prynu yn mlaen llaw.
To buy at the best hand—prynu ar *neu* gàn y llaw flaenaf; prynu o lygad y ffynnon; prynu gàn y gwneuthurwr; prynu ar y llaw oreu.
To buy often—mynych brynu; prynu yn fynych; ymarfer o brynu.
To buy together—cydbrynu, cydfasnachu; prynu *neu* fasnachu yn nghyd.
Bought wit is the best—goreu synwyr, synwyr pryn.
To buy off a criminal—prynu rhyddid *neu* faddeuant i droseddwr.
To buy off conscience—prynu ymaith gydwybod; peri i'r gydwybod ddystewi; llonyddu *neu* ddyhuddo cydwybod euog; dystewi llef cydwybod euog; dallu llygaid cydwybod drwy wobrau.
To buy off a judge—prynu barnwr i ochr un; gobrwyo barnwr er peri iddo wyro barn; gobrwyo barnwr er peri iddo gyfiawnhau yr euog; llygru barnwr drwy wobrau.
To buy out of one's hand—dwyn masnach *neu* nwydd o law un; prynu ymaith o law un.
To buy up—prynu, pwrcasu; prynu i fyny.
To buy by the lump—prynu wrth y talp; prynu wrth y swmp; prynu yn y crynswth; prynu wrth y llaw; prynu yn y cyfan; prynu yn grynswth.
To buy upon tick *or* trust—prynu ar goel; prynu ar air; prynu ar ddydd; prynu heb arian parod; prynu heb dalu i lawr; prynu heb dâl ar law; prynu yn *neu* ar echwyn.
To buy with ready money—prynu âg arian parod; prynu âg arian ar lawr; prynu âg arian ar law; prynu â thâl ar law; prynu drwy dalu i lawr.
To have a mind to buy—bod â chwant prynu arno; bod âg ambrynu arno; bod âg ambryn arno; bod ar fedr *neu* ar oddeu prynu; bod yn bryngar.
A mind to buy—ambryn; chwant prynu; meddwl prynu; bwriad i brynu; blys i brynu; pryngarwch.
To buy in—prynu i mewn; prynu i fewn.
To buy off—prynu ymaith, i ffwrdd, *neu* oddi wrth.
Easy to be bought—hybryn; hawdd ei brynu.
Buyer, *s.* (o *buy*) prynwr, prynydd, pwrcaswr.
A great buyer—prynwr mawr, prynwr diwala; ambrynydd, ambrynwr.
Buzz, *v.* (It. *buzzicare*) sïo, suo, husting, sibrwd, sistrain, sisial, sisruo; lleisio, gryngian, chwyrnu, *neu* sisial fel gwenyn; isel sibrwd *neu* siffrwd.
To buzz about *or* abroad—bwrw y gair allan; rhoi y gair allan; cyhoeddi dàn sibrwd; husting; taenu ar led; gyru ar gyrn a phibau.
Buzz, *s.* su, si, husting, sis, sibrwd, siffrwd, sisial, eddrin, sygan, goruad, hust; llais, mwngial, *neu* si gwenyn.
Buzzard, *s.* (Is. *buzaard*; Al. *bussaar*, *busshard*)

boncath, bwncath : cadafel, penbwl, pendew, brebwl, cuall.

Common buzzard—bod teircaill ; bwncath cyffredin, boncath cyffredin.

Honey buzzard—bod y mel.

Bald buzzard—bod tinwyn, iar dinwen, y dinwen frech ; bod y gwerni, bwncath y wern.

Moor buzzard, White-headed harpy, } bod y gwerni, bwncath y wern, y bod penwyn, y penwyn.

Buzzard, *a.* pendew, penbylaidd, cuall, disynwyr.

Buzzardet, *s.* (o *buzzard*) boncath hirgoes ; boncathyn.

Buzzer, *s.* (o *buzz*) sisialwr, sisialydd, sŭwr, sïwr, eddrinwr, siffrwr, siffrydd.

Buzzing, *s.* (o *buzz*) sïad, suad, sisial, hustingiad, hustiad.

By, *prep.* (S. *be, big ;* Sw. a D. *be ;* Is. *by ;* Al. *bei, bey*) gàn, trwy, drwy, wrth, â, âg ; ger, ger llaw, ger llaw i, gàr, gàr llaw, càr ; wrth law ; yn agos i *neu* at ; yn gyfagos i *neu* at ; agos i *neu* at ; yn nesaf i *neu* at ; ar ymyl, yn ymyl ; ar ael, yn ael, ar fin, yn min, ar làn, yn nglàn ; gyda, yn llaw, trwy law ; gerfydd ; yn ; erbyn ; heibio, heibio i ; heb law, heb ; ar warthaf ; ar hyd, hyd ; myn ; i ; llwrw, llwyr ; yn agos *neu* gyfagos ; ach ; er, er mwyn ; yn ngŵydd, ger bron, ger gŵydd ; o ; wrtho, wrthi, wrthynt.

By me —genyf, ganof, cenyf, ganddof, canddof ; wrthyf, wrthof, wrthwyf ; trwyddof, trwyof, trwof, trwyddwyf ; yn fy ymyl.

By thee—genyt, genot, genyd ; wrthyt, wrthot ; trwyddot, trwyot, trwot ; yn dy ymyl.

By him, By it, } ganddo, ganto ; wrtho ; trwyddo, trwyo ; yn ei ymyl.

By her, By it, } ganddi, ganti, genddi ; wrthi ; trwyddi, trwyi ; yn ei hymyl.

By us—genym, ganom, ganddom, cenym ; wrthym, wrthom ; trwyddom, trwyom, trwom, trwyddym ; yn ein hymyl.

By you—genych, ganoch, ganddoch, canddoch, cenych ; wrthych, wrthoch ; trwyddoch, trwyoch, trwoch ; yn eich ymyl.

By them—ganddynt ; wrthynt ; trwyddynt, trwyddont, trwyynt ; yn eu hymyl.

By myself — wrthyf fy hun ; wrthyf fy hunan ; wrthof fy hunan ; wrthof fy hun.

By thyself—wrthyt dy hun ; wrthot dy hunan ; wrthyt dy hunan ; wrthot dy hun ; ar dy ben dy hun *neu* hunan.

By himself—wrtho ei hun ; wrtho ei hunan ; wrth ei hun ; wrth ei hunan ; ar ei ben ei hun *neu* hunan.

By herself—wrthi ei hun ; wrthi ei hunan ; wrth ei hunan ; ar ei phen ei hun *neu* hunan.

By ourselves—wrthym ein hunain ; wrthym ein hun ; wrthom ein hunain ; wrthom ein hun ; ar ein pen ein hun *neu* hunain.

By yourselves — wrthych eich hunain ; wrthych eich hun ; wrthoch eich hunain ; wrthoch eich hun ; ar eich pen eich hun *neu* hunain.

By themselves—wrthynt eu hun *neu* hunain ; ar eu pen eu hun *neu* hunain.

By itself—wrtho ei hun ; wrtho ei hunan ; ar ei ben ei hun *neu* hunan ; ar ddydol ; ar neilltu ; ar wahan ; o'r neilldu ; yn wahanredol.

Hard by, Close by, } yn ymyl, yn nghyfyl, ger, gàr, ger llaw, ar warthaf, yn agos, yn gyfagos ; wrth ; yn agos at ; ger llaw i ; yn agos i *neu* at ; yn gyfagos i *neu* at ; yn nesaf i *neu* at ; ar ael ; yn ymyl, ar ymyl ; eiddwg, wnc, wng, ach ; ach law ; yn min ; ar bwys ; yn mron.

By the gate—ger llaw y porth ; ger llaw i'r porth ; wrth y porth ; ger y porth.

He sat by the king's side—efe a eisteddodd wrth ystlys y brenin.

As gardens by a river—fel gerddi wrth afon.

By the sea—wrth y môr ; ar fin y môr ; yn nglàn y môr ; yn ymyl y môr ; ar làn y môr ; ger y môr.

By the edge of the sword—â min y cleddyf ; trwy fin y cleddyf ; ar fin y cleddyf.

He was slain by his enemies—lladdwyd ef gàn ei elynion.

By man shall his blood be shed—trwy ddyn y tywelltir ei waed ef.

By weapons of war—âg arfau rhyfel.

My people shall die by the sword—fy mhobl a fyddant farw gàn *neu* drwy y cleddyf.

By thy sword shalt thou live—wrth dy gleddyf y byddi fyw.

By the sweat of his brow—trwy chwys ei wyneb.

By reason of—o herwydd, oblegid, o achos, herwydd, o ethryb ; gàn, rhag, trwy, o.

By reason of the famine—oherwydd, o achos, *neu* gàn y newyn.

By reason of the very long journey—rhag meithed y daith ; gàn *neu* herwydd meithder y daith.

If by reason of strength they be fourscore years—os o gryfder y cyrhaeddir pedwar ugain mlynedd.

By reason that—o herwydd mai *neu* bod ; o achos *neu* o ethryb mai *neu* bod ; am mai, am fod, am taw.

By his side—wrth ei ystlys, ei ochr, *neu* ei glun ; yn ei ymyl *neu* ei ochr ; ar ei glun.

Put *or* gird thy sword by thy side—gwisg dy gleddyf ar dy glun ; gwregysa yth gledd ar dy glun.

He had a writer's inkhorn by his side—yr oedd ganddo gorn du ysgrifenydd wrth ei glun.

By the side of—cyfarystlys, cydystlys, cyfystlys, cyfochr, *neu* gyfochrog â ; ystlys yn ystlys â ; ochr yn ochr â *neu* âg ; wrth ystlys *neu* ochr ; wrth glun.

By the hand of—yn llaw, trwy law, gyda, gydag, â llaw.

Send by them—danfonwch gyda hwynt.

By the hand of a fit man—yn llaw gwr cymhwys ; gyda dyn addas.

By the hand—gerfydd y llaw ; erbyn y llaw ; ger *neu* gàr ei law ; wrth y llaw.

He took her by the hand—efe a'i cymerodd hi gerfydd *neu* erbyn ei llaw ; efe a ymaflodd yn ei llaw hi.

They dragged him by the hair—llusgasant ef gerfydd ei wallt.

They hung him by his feet—crogasant ef gerfydd, ger, *neu* wrth ei draed.
By the way—ar hyd y ffordd; hyd y ffordd.
By the way by which thou camest—ar hyd yr un ffordd ag y daethost.
By way of illustration—mewn ffordd o eglurhad; er mwyn eglurhad; mewn dull o egluriad.
By way of recreation—er mwyn difyrwch; mewn ffordd o ddifyrwch.
To pass one another by—myned heibio i'w *neu* eu gilydd; myned yn heblaw eu gilydd; myned yn ngwrthol eu gilydd; myned law heblaw â'u gilydd; pasio heibio eu gilydd.
There he is going by—dyna efe, ef, *neu* fe yn myned heibio.
By some means—trwy ryw ffordd *neu* fodd; yn rhyw ffordd; yn rhyw fodd; yn rhywfodd; yn rhywffordd.
By all means—yn mhob modd; yn mhob gwedd; trwy bob modd; trwy bob cyflwr; er dim; yn mhob rhyw fodd; yn ddilai; yn ddïau; beth bynag a fo; beth bynag a fyddo; pa fodd bynag; bynag pa fodd; er dim ag a fo.
By no means, Not by any means, } nid mewn un modd; nid er dim; nid felly er dim; nag e; nag e ddim; na ddo ddim; nid mewn un modd yn y byd.
Thou shalt by no means do this—na wna mo hyn er dim; paid â gwneyd hyn er dim ag a fo; na wna hyn mewn un modd.
I will by no means forsake thee—ni'th adawaf ddim.
By any means—mewn un modd; yn un modd; yn rhyw fodd; rhyw fodd, rhywfodd; mewn rhyw fodd; mewn neb rhyw fodd; mewn modd yn y byd; yn hollol.
Nothing shall by any means hurt you—nid oes dim à wna ddim niwed i chwi.
By some means or other—yn rhywfodd neu gilydd; yn rhyw fodd neu gilydd; trwy ryw fodd neu gilydd.
By what means?—pa fodd? trwy ba foddion? pa wedd? pa sut? trwy ba fodd? yn mha fodd? yn mha wedd? yn mha sut? yn mha ddull?
By this means—trwy *neu* drwy hyn; wrth, herwydd, *neu* o herwydd hyn; trwy y ffordd hon *neu* yma; wrth hyny; fel hyn; yn y modd hwn *neu* hyn.
By that means—trwy, wrth, *neu* herwydd hyny; trwy y ffordd hòno; y ffordd hòno; y modd hwnw *neu* hyny; fel hyny; yn y modd hwnw *neu* hyny.
By means of—trwy, drwy; trwy waith; o waith; gàn, o achos, oblegid, oherwydd, herwydd, o herwydd.
By my means, By means of me, } trwyodd, trwyddof, *neu* trwof fi; o'm gwaith i; o'm hachos i; o'm plegid i; o'm herwydd i; trwy ym gwaith *neu* ym llafur i; trwy fym gwaith i.
By thy means—trwyot ti, trwot ti, trwyddot ti; o'th waith di; trwy yth waith di, &c.
By his means—trwyddo ef, &c.
By their means—trwyddynt hwy, &c.
This hath been by your means — o'ch gwaith chwi y bu hyn.
By fair means—trwy deg.
By foul means—trwy hagr.
By degrees—yn raddol, yn raddau, o radd i radd, bob yn radd; bob ychydig; bob yn ychydig; o gam i gam; o glun i glun; yn araf deg; gàn bwyll; yn chwarian; o fesur ychydig ac ychydig; o fesur cam a cham; o dipyn i beth; o lwff i lwff.
By chance—o ddamwaen, o ddygwydd, o ddygwyddiad; fel y damweiniodd; yn ddamweiniol; trwy chwaen.
By course, By turn, By turns, } ar gylch; bob yn ail; ol-ynol; yn olynol; ar dro; bob eilwers; bob yn eilwers; gwers tra gwers; y naill ar ol y llall; ail tra ail.
By little and little—bob yn ychydig; bob ychydig ac ychydig; bob ychydig; o fesur ychydig ac ychydig; o fesur cam a cham; bob yn ronyn; bob yn dipyn; gàn bwyll; yn chwarian; chwyf a chwyf; o dipyn i dipyn; bob yn dipyn bach.
By heart—ar dafodleferydd; ar ei dafodleferydd; ar ei thafodleferydd; ar eu tafodleferydd; ar dafod; ar gof; ar ei gof; ar ei chof; heb y llyfr.
By stealth—yn lladradaidd, yn lledradaidd, yn lladrad.
By and by, By-and-by, } yn y màn, ar fyr, yn ddïan-nod, yn ddïoed, yn ddïaros, yn ddïattreg, ar fyrder, ar frys, allan o law, maes o law, heb attreg, yn lleigus, yn fuan, yn ebrwydd, ar y gair, toc.
By the by, By the way, } ar y ffordd, ar gerdded; ar redeg; ar ei hynt; wrth fyned heibio; gyda llaw; wrth frysio *neu* brysuro; gyda myned heibio.
By day—y dydd, wrth liw dydd, liw dydd, yn y dydd, ar hyd dydd, ar hyd y dydd.
Day by day—o ddydd i ddydd; beunydd; yn feunyddiol; bob dydd; o ddydd bwygilydd; o ddydd bygilydd; dydd yn ei ddydd; o ddïwrnod i ddïwrnod; o'r naill ddïwrnod i'r llall.
Day by day we magnify thee—beunydd a byth y clodforwn dydi.
By day-break — gyda thoriad y dydd; gyda'r wawr; gyda thoriad y wawr; ar doriad y dydd; erbyn toriad y wawr; erbyn y wawr, &c.
By night—y nos, liw nos, wrth liw nos, yn y nos, cefn y nos, ar hyd y nos, o hyd nos, ar hyd nos.
By much, By far, } o lawer, o lawer byd, yn mhell, yn llawer, llawer iawn.
By far the most learned—y dysgedicaf o lawer; y dysgedicaf yn mhell; yn mhell y dysgedicaf.
More by much—mwy o lawer; mwy o dalm; llawer mwy; mwy lawer.
By how much—o ba faint; o ba gymmaint; o gymmaint ag; po.
By how much the tighter the string is, so much the sooner will it snap—po tynaf fo'r llinyn, cyntaf y tyr.
By how much the hotter the season is—po gwresocaf fo yr hin.
He is by so much worse than his companions, by how much he is older than they—y mae efe o hyny yn waeth na'i gyfeillion, o gymmaint ag y mae efe yn hŷn na hwynt-hwy.

By so much—o hyny; o gymmaint a hyny.
By what place?—trwy ba le? heibio i ba le? heibio pa le?
By some place—trwy ryw le; heibio i ryw le; heibio rhywle.
By some way—trwy ryw ffordd; ar hyd rhyw ffordd; yn rhywffordd.
By rule—wrth reol; yn ol rheol.
By example—trwy *neu* wrth gynllun *neu* enghraifft; yn ol anghraifft *neu* gynddull.
By the example of the proto-martyr—yn ol enghraifft y cynferthyr; wrth gynnrych y cynferthyr.
Drop by drop—bob yn ddyferyn; bob yn ddafn; bob yn ddefnyn; bob yn ddyferyn a dyferyn; o fesur dafn a dafn.
By the drop—wrth y dyferyn, y dafn, *neu* y defnyn.
By drops—yn ddafnau, yn ddefni, yn ddyferynau, yn ddefnynau.
Morning by morning—bob bore; o fore i fore; bore yn ei fore.
Man by man—bob yn wr; bob yn wr a gwr; o wr i wr; o wr bwygilydd.
One by one—o un i un; bob yn un; bob yn un ac un; bob un ac un; bob un o'r neilltu; bob un ar ei ben ei hun.
Year by year—bob blwyddyn; o flwyddyn i flwyddyn; o'r naill flwyddyn i'r llall; o flwyddyn bwygilydd.
By handfuls—yn ddyrneidiau, yn funeidiau, yn llaweidiau.
They drank it by pailfuls—hwy a'i hyfasant wrth yr ystyceidiau.
A model to build others by—cynllun i adeiladu ereill wrtho.
Good rules to live by—rheolau da i fyw wrthynt.
He is by the head taller than you—y mae efe o'i ben yn uwch *neu* dalach na chwi.
The towers are higher than the walls by ten feet—uwch yw y tyrau na'r muriau o ddeg troedfedd; y mae y tyrau ddeg troedfedd yn uwch na'r muriau.
He has very pleasant fields by the Thames—y mae ganddo faesydd trahyfryd ar làn *neu* yn nglàn Tafwys.
He has money by him—y mae iddo *neu* ganddo arian wrth ei ochr; y mae ganddo ef arian.
He keeps some of it by him still—y mae ganddo beth o hano byth yn nghadw; y mae peth o hono ganddo eto.
When thou hast it by thee—A chenyt beth yn awr.
He stood by me—safodd yn fy ymyl.
By the morning—erbyn y bore.
By this day fortnight—erbyn pythefnos i heddyw; yn mhen pumthegnos.
By this time to-morrow—y pryd hwn efory; erbyn y pryd hwn efory.
By the space of seven years—yn mhen saith mlynedd; erbyn pen saith mlynedd; yn mhen ystod saith mlynedd.
By this time three years—yn mhen tair blynedd; erbyn pen tair blynedd; erbyn tair blynedd i yn awr; yn mhen tair blynedd i heddyw.
By taking heed thereto according to thy word—wrth *neu* drwy ymgadw yn ol dy air di.

By Jove—myn Iau, myn Iou.
By the life of Pharaoh—myn einioes Pharaoh.
By your rejoicing—myn eich gorfoledd.
By my life—myn fy einioes; ar fy einioes; ar ym heinioes.
Swear unto me here by God—twng wrthyf fi yma i Dduw.
By the mercies of God—er trugareddau Duw.
I adjure thee by God—yr ydwyf yn dy dyngedu trwy Dduw.
I charge you by the Lord—yr ydwyf yn eich tyngedu yn yr Arglwydd.
I charge you by the hinds of the fields—tyngedaf chwi trwy ewigod y maes.
To pass by—myned heibio; pasio heibio; hybio; neithio heibio.
He would not let us pass by him—ni fynai efe ein gollwng heb ei law; nis mynai ein gollwng heibio iddo.
I was minded to pass by you—yr oeddwn yn ewyllysio myned heb eich llaw chwi (2 *Cor.* i. 16).
I will come by you into Spain—mi a ddeuaf heibioch i'r Hispaen.
By the author—gàn yr awdur.
David by name—Dafydd wrth ei enw; Dafydd dàn ei enw; â'i enw Dafydd; Dafydd erbyn ei enw.
John went by—aeth Ioan heibio.
I will not be by—ni fyddaf yn bresennol *neu* wyddfodol; ni fyddaf yno.
By that time I shall have ended my year's office—bydd blwyddyn fy swydd i allan *neu* i maes erbyn hyny.
By that time he had just ended his speech—cyn braidd orphen o hano ei araeth; gyda'i waith yn gorphen ei ymadrodd.
He could not take example by a wiser person—nis gallasai byth ddylyn *neu* ganlyn ol gwr oedd gallach.
To sell by retail—manwerthu, darnwerthu, rhanwerthu, dryllwerthu; gwerthu yn fân; gwerthu yn ddrylliau, yn fanddrylliau, yn ddarnau, *neu* yn rhanau; gwerthu bob yn ddryll, bob yn ddarn, *neu* bob yn rhan.
To sell by wholesale—cyfanwerthu, mawrwerthu; gwerthu yn gyfan; gwerthu y cwbl dàn un; gwerthu yn gyfanwerth.
By the pound—wrth y pwys; wrth y bunt.
By trade—wrth alwad, wrth alwedigaeth, wrth grefft, wrth gelfyddyd; yn ol galwad.
By word—ar air, mewn gair.
By thought, word, and deed—ar feddwl, gair, a gweithred.
By word of mouth—ar air; ar dafodleferydd; trwy *neu* mewn ymadrodd; ar air geneu; mewn gair o'r geneu; â'i eneu *neu* â'i dafod ei hun.
By the way of France—trwy Ffrainc; trwy ffordd Ffrainc.
Thirty feet by twenty—trideg troedfedd wrth ugain; deg troedfedd ar ugain o hyd, ac ugain o led.
Be advised by me—cymmer gynghor genyf fi; derbyn gynghor oddi wrthyf fi.
By twelve o'clock—erbyn deuddeg o'r gloch; am ddeuddeg ar gloch.
Gone by—à aeth heibio; neithiedig; gwedi myned heibio.

Ages gone by—yr oesoedd à aethant heibio; yr oesoedd gynt; yr oesau sy wedi myned heibio; yr oesoedd heibio.
By the bulk—wrth swmp, wrth y swmp, dàn swmp, wrth y clamp, yn y crynswth, yn grynswth, wrth y llaw.
By land or by water—ar fôr neu ar dir; ar dir neu ar ddwr.
By sea and land—ar fôr a thir.
To slip by the board—llithro dros yr ochr; llithro dros y bwrdd.
South by east—de wrth ddwyrain; de-ddwyrain.
South-east by east — de-ddwyrain wrth ddwyrain; de-ddwyrain at ddwyrain.
By mistake—mewn camsyniad; trwy gamsyniad; yn gamsyniol.
To lie by—bod, sefyll, *neu* orwedd ger llaw; gorphwys, gorphwyso; bod gyda; bod yn nghadw gyda *neu* gàn; gorwedd *neu* aros gyda.
To put by—rhoi heibio; rhoi o'r neilltu; rhoi i gadw; rhoi yn nghadw; gosod o'r neilltu; gosod i gadw; troi *neu* fwrw heibio.
By hook or by crook—rhyw fodd neu gilydd; rhyw ffordd neu gilydd; o fodd neu o anfodd; trwy deg neu drwy hagr; trwy gam neu drwy gymhwys; trwy gam neu drwy union; naill ai o fodd neu o anfodd; bid gam bid gymhwys; bid cam bid cymhwys; bid gam bid anion; naill ai ar groes neu ar hyd; naill ai ar draws neu ar hyd; trwy hwg neu ddwg; ar hyd neu ar groes; ni waeth pa fodd; yn rhywffordd neu gilydd; o dde neu o chwith; i'r rhyd neu i'r bont.

Byard, *s.* bronledr, brongarai.
By-blow, *s.* cil-ergyd, cel-ergyd, cilddyrnod, celddyrnod; anffawd; plentyn gordderch, bastardd.
By-business, *s.* cilneges, cil-orchwyl, goalwad.
By-concernment, *s.* cil-orchwylìaeth, cilfater, gofater.
By-corner, *s.* cilgornel, celgornel, celgilfach.
By-design, *s.* celddyben, cilamcan, camamcan, camddyben, geuamcan, genddyben; amcan gau, dyben gau, gau amcan.
By-drinking, *s.* celyfed, cilyfed.
Bye, *s.* (S.) trigfa, trefad; safle, gorsaf.
By-end, *s.* celddyben, cilddyben, camddyben, camfwriad, genddyben, geuamcan, geufwriad; amcan neilltuol *neu* hunanol.
By-gone, *a.* à aeth heibio; neithiedig; wedi myned heibio.
By-interest, *s.* hunanelw, hunelw, hunanles, hunanfudd, hunfudd; priod-elw, cilfuddiant.
By-lane, *s.* coegheolan, cilheolan, cilfeidr, heol gefn, heolan ddïarffordd.
By-law, *s.* gogyfraith, cilgyfraith, goraith, cilddeddf, cilraith; deddf *neu* gyfraith gartrefol, leol, *neu* neilltuol.
By-lead, } *s.* cilreden, cilollyngfa.
Bye-wash, }
By-matter, *s.* cildestyn; testyn ystlysol, dygwyddiadol, *neu* ddamweiniol; ystlys-destyn; defnydd, mater, *neu* destyn dyfod.
By-name, *s.* llysenw, cilenw; enw dygwyddiadol.
By-name, *v. a.* llysenwi; rhoi llysenw.
By-past, *a.*=*By-gone.*
By-path, *s.* coeglwybr, llwybr coeg, coeg lwybr; llwybr cel, neilltuol, *neu* anghyhoedd.
By-place, *s.* lle dïarffordd *neu* anhygyrch; dirgelfa, llechfa, godechfa, cilfach, cilfan, cil, llechfod, llechfan.
To retire to a by-place to hide in—lleigio.
If he attempts to make England a by-place for him—os i Loegr y cais leigio.
By-respect, *s.* ystyr ystlysol *neu* hunanol; golwg ystlysol *neu* hunanol; hunan-olwg; ystlys-olwg; cilddyben, celamcan.
By-road, } *s.* cilffordd, gochelffordd; ffordd
By-way, } goeg *neu* gel; ffordd anhygyrch, ddisathr, anghyhoedd, *neu* ddidramwy.
By-room, *s.* cilgell, celystafell, cilystafell, cuddigl.
By-speech, *s.* cil-araeth, ystlys-araeth, araeth ddygwyddol.
By-stander, *s.* edrychydd, edrychwr, gerseifiad, gersafwr; safwr ger llaw; sefyllwr ger llaw; llygad segur; à safo ger llaw; à safo yn segur i edrych ar ereill.
The by-stander will discover what is amiss —y llygad segur a wel y gwall.
By-street, *s.* cilheol, coegheol; heol goeg *neu* gel; heol anhynod.
By-stroke, *s.* celddyrnod, cel-ergyd, cilddyrnod.
By-turning, *s.* cildro, cildroad, cilffordd.
By-way, } *s.* = { *By-road.*
By-road, } { *By-way.*
By-west, *ad.* tua'r gorllewin; wrth orllewin; tua gorllewin; yn orllewinol; at orllewin.
By-word, *s.* dïareb, cyfadgan; gwawd, gwawdnod, gwatwargyff; gwatwargerdd; gair dannod; dywediad cyffredin.
Byssaceous, *a.* (o *byssus*) sirigaidd, siriglinaidd.
Byssifera, } *s. pl.* (Ll. *byssus* a *fero*) siriglyniaid,
Byssifers, } sirigymlyniaid=teulu o libogion neu feddalogion pengoll.
Byssin, } *s.* (Gr. *bussos*; Ll. *byssus*) siriglin, sir-
Byssus, } iglined, llinsirig, mansirig: *pl.* siriglinion, llinsirigion.
Byssine, *a.* (o *byssus*) sirigol, sidanol, sidan; llinaidd.
Byssocladium, *s.* (Gr. *bussos* a *clados*) sirigosglon=math o wymon.
Byssoid, *a.* (Gr. *bussos* ac *eidos*) siriglinaidd, mansirigaidd; fel siriglin.
Byssolite, *s.* (Gr. *bussos* a *lithos*) sirigfaen, llinedfaen.
Byssus, *s.* (Ll.; Gr. *bussos*) sirig; sidan; llian main; urael, llinurael.
Byzant, } *s.* (o *Byzantium*) Bysant, Bisant,
Byzantine, { Besant=enw darn aur bathedig
Bizantine, { yn Nghaercystenyn, yr hon gynt
Bezant, } a elwid *Byzantium.*



C.

C, (talfyriad o'r Ll. *centum*, cant) fel rhifnod, a saif am gant=100.
CC—dau gant, dengant=200.
CCC—tri chant, trichant=300.

Cab, *s.* (H.) sychfesur Iuddewig, yn cynnwys yn nghylch tri pheint Seisonig.

Cab, s. (talfyriad o *cabriolet*) cab, cerbydell, cerbydan, cludan, cabglud.

Cabal, *s.* (Ff. *cabale*; It. *cabala*; neu oddi wrth lythyrenau dechreuol *Clifford*, *Ashley*, *Buckingham*, *Arlington*, a *Lauderdale*, gweinyddiaeth Carl II.) cydgyfrinachwyr, celymgynghoriaid, cydgynghoriaid, celfwriadwyr, cydbleidwyr, cnud o drawsmeanwyr, cuddamcanwyr; ymgyfrinach, cydgyfrinach, celgyfrinach, cydfwriad, cydgynghrair, cuddamcan, dichell, cydfrad, gogyfrad, ymgynnull cyfrinachol, cabidwl.
He too was of the cabal—yr oedd yntau o'r gyfrinach.
He was admitted into the cabal—derbyniwyd ef i'r cabidwl.

Cabal, *v. n.* celymgynghori, celgyfrinachu, cydfwriadu, cydgyfrinachu, cydymgynghori, cydgynghreirio, cydlunio, cuddamcanu, dichellu, cydfradu, celymbleidio, cyfradu, bradgynllwyn, cydgynllwyn, bradfwriadu; cydfwriadu yn ddirgel; cynnal neu lunio cyfarfod dirgel; ymuno yn ffau bleidiau.

Cabal, } *s.* (H.) rhinddysg, cyfrinddysg, dir-
Cabala, } gelion Iuddewig, cyfriniaeth Iuddewig, traddodiadau Iuddewig, cyfrinolion Iuddewiaeth, cyfrindraddodion.

Cabalism, *s.* (o *cabal*) rhinddysgeidiaeth, rhinddysgiaeth, cyfrinddysg.

Cabalist, *s.* (o *cabal*) rhinddysgawdwr, rhinddysgedydd, rhinddoethor, rhinddysgwr, athraw cyfrinddysg=an hyfedr yn nhraddodiadau a chyfrinddysg yr Iuddewon.
Cabalist (in French commerce) — gorchwyliwr, trowseinydd, trosfaelydd, prwywr.

Cabalistic, } *a.* (o *cabalist*) rhinddysgol, rhin-
Cabalistical, } ddysgeidiol, rhinddysgaid; dirgeledigol, cyfrinol, traddodiadol; perthynol i rinddysg yr Iuddewon.

Cabaline, *v. n.* (o *cabal*) cyfrino, cyfrinio; arfera dull neu iaith y rhinddysgawdwyr.

Caballer, *s.* (o *cabal*) cydgyfrinachwr, celfwriadwr, cydfwriadwr, cuddamcanwr, cuddfwriadwr, cydluniwr, cydfwriadwr cyfrinachol, dichellydd, dirgel fradwr, cydfradwr.

Caballine, *a.* (Ll. *caballinus*) ceffylaidd, ceffylog, marchol; perthynol i geffyl; yn perthyn i farch neu feirch.
Caballine aloes—elyw ceffylaus, elyw ceffylog, march-elyw, brasselyw, aloes meirchaidd.

Cabaret, *s.* (Ff. o'r Ll. *caupo*) tafarn, tafarndy, ty tafarn: *pl.* tafarnau, tefyrn.

Cabassous, *s.* math o armellog.

Cabbage, *s.* (It *coppuccio*; Ff. *caboc*) bresych, cawl, cawl gwyllt: *sing.* bresychen, cawlen.
White cabbage—bresychen bengrwn wen, bresychen benwen, bresychen wen.
White-heart cabbage—bresychen galonwen.
Red cabbage—bresychen bengrwn goch, bresychen goch.
Green cabbage—bresychen las, bresychen Milan.
Sea cabbage—morfresych, cawl y môr, cawl y graig, bresych arfor, ysgodd arfor, morgawl, llysgawl, llysfresych.
Common cabbage—bresychen bengrwn: *pl.* bresych pengrwn, bresych pengrynion.
Dog's cabbage—bresych y cwn, cawl y cwn, cifresych.
Cabbage plant—cawlen, bresychen.
Turnep cabbage—meip-fresych, erfin-fresych, bresych meip.
Cabbage bark—bresychrisg, bresychrisgl.
Cabbage caterpillar—llindys y bresych, pryf y bresych, pryf y dail.
Cabbage net—rhwyd fresych, rhwyd cawl.
Cabbage-palm, } bresych wyddau, cawl-
Cabbage-tree, } wyddau: *pl.* bresychwydd, bresychgoed, coed bresychaidd=math o bren â dyf mewn hinsoddau gwresog.
Cabbage-wood—bresychgoed, bresychwydd, coed bresych.
Cabbage-worm—pryf y bresych, llindys y bresych, pryf y dail, pryf y cawl.

Cabbage, *v. a.* bresycha, ymfresycha; tyfu fel bresychen; pengrynu; tyfu yn grwn neu bengrwn; myned yn bengrwn; myned neu dyfu yn bengron.

Cabbage, *v. a.* (Is. *kabassa*) darngyddio, darnladrata; lladrata, lledrata, lledgyddio, lladrata rhan o beth; ciniochu.

Cabini, *s.* y gwyfochyn, y tapir trwyndewaidd=math o anifel perthynol i Ddeheudir America.

Cabin, *s.* (Ff. *cabane*; It. *capanna*) caban, cell, cuddigl, cab, ystafellan, cellan, ystafell; bwth, bwthyn, llwest, llwestty, cotty, pabell, pesty; cut.
A cabin to sleep in—hun-gaban, hun-gell, cell gysgu, cysgell.

Cabin, *v.* cabanu; byw mewn caban; llettya, cau neu gaethiwo mewn caban.

Cabin-boy, *s.* cellwasyn, cabanwas, cellwas.

Cabinet, *s.* (Ff.) cafell, cell, cuddigl, ystafell, cistan, llosgell, llysgell, llosgafell, llysgwst, trysorgell, trysorgwst, ysgrin; cysylgell, cynghorgell, cynghorfa, teyrn-gafell, cyfrin-gafell; y cynghor, y cyfrin-gynghor.
Cabinet-council—cyfrin-gynghor, dirgelgynghor, teyrn-gynghor, cynghor cyfrinachol, cellgynghor, y cynghor; teyrn-

gyssyliaid, cyfrin-gynghorwyr, dirgel-gynghoriaid, argyssyliaid; cellgyssedd.
Intrigues of the cabinet—dirgelion llywodraeth, dirgel gynghorion llywodraeth; cuddamcanion y cellgynghor; cydgyfrinach y cynghor dirgel *neu* gyfrin; ystrywiau teyrn-gafell.
Members of the cabinet—aelodau y cyfrin-gynghor, teyrn-gysseddwyr, teyrn-gyssyliaid; y cyfrin-gynghor; aelodau y gafell; y teyrn-gafelliaid.
Cabinet of curiosities—cywreinfa, amgueddfa, amgueddgell, creirfa, cafell cywreinion, cell hynodion, trysorfa cywreinion, cywreingell, trysorfa hynodion.
Cabinet for jewels—gemgist, amgueddgist, tlysgist, trysorgist, cistan gemau, ceinionfa, gemidfa, gemidgell.
Cabinet-drawers—llogodau cistan, treillion cistan, cist-logodau.

Cabinet, *v. a.* cau i mewn; amgau, argau.

Cabinet-maker, *s.* cistanwr, cistanydd, saer dodrefn, dodrefniedydd, dodrefn-saer.

Cabin-mate, *s.* cydgabanwr, cydgellwr; un yn byw yn yr un gell âg arall.

Cable, *s.* (Ff. ac Ysp.; Is., D., ac Al. *kabel*) rhaff angor.
Stream cable—rhaffan angor.
To pay out the cable, } yslacio, llacio, *neu*
To veer out the cable, } lacsu rhaff angor.
To serve the cable, } amrwymo rhaff
To keckle the cable, } angor; bancawio rhaff angor; rhwymo mân reffynau o amgylch rhaff angor.
Cable's length—hyd rhaff angor=120 gwrhyd, neu 720 troedfedd.
To slip the cable—llithro y rhaff angor; gollwng rhaff angor; saethu rhaff angor.
To bitt the cable—ystancio rhaff angor; ystancio rhaff.
To shoot the cable—ysblygu rhaff angor; cymhlethu rhaff angor; cydblethu deupen rhaff angor; saethu rhaff angor.
Sheet-anchor cable—rhaff y prifangor, y rhaff angor fwyaf, y brif raff angor.
Best lower cable—yr ail raff angor; rhaff angor y ffloreg.
Cable tier—torchfa *neu* ddyrwynfa rhaff angor.
Cables—rhaff-foldiau, rhaff-rigolau; moldaddurnau ar ddull rhaff angor; troraffau, ffillraffau, trofoldiau. [rhaff.

Cabled, *a.* (o *cable*) rhaffedig, rhaffog; wrth y
Cabled columns—colofnau rhaffedig, rhaffgolofnau, ffillgolofnau, trogolofnau.

Cablet, *s.* (o *cable*) llusgraff, rhaffan, rhaffan angor, rhaff angor fechan.

Cabling, *s.* (o *cable*) rhafflenwad; llenwad â rhaff-ddarnau.

Caboched, } *a.* (o'r Ff. *caboche*) pendaldal; â'i
Caboshed, } ben daldal.

Caboose, } *s.* (Al. *kabuse*; D. *kabyse*) cegin
Camboose, } llong, llong-gegin; blwch am sawell llong.

Cab-man, *s.* cabwr, cabddyn, cabyrwr, gyrwr cab, cerbydwr.

Cabos, *s.* math o lyswen.

Cabriole, } *s.* (Ff. *cabriolet*) cab, cerbydan, cer-
Cabriolet, } bydell, cludan, cabglud.
Cab, }

Caburns, *s. pl.* rhwymreffynau, amlinynau, ciymlinynau, edeu fancawio.

Cacalia, *s.* (Gr. *cacos* a *lian*) alan mynyddig, ebolgarn mynyddig, ebolgarn y mynydd.

Cacao, } *s.* (enw brodorol) y pren Cacao neu
Cocoa, } Cocoa; dwyfyswydd.

Cachalot, *s.* y morfil gwŷn.

Cachectic, } *a.* (Gr. *cachexia*) drygnawsol,
Cachectical, } drygansoddol, drygnaws; drwg ei ddyli.

Cachet, *s.* (Ff.) sel, insel, insail, golöen.
Lettre de cachet—sel-lythyr, insel anagored, llythyr seliedig; teyrnlythyr cyfrinachol yn Ffrainc gynt.

Cachexy, *s.* (Gr. *cachexia*) drygnaws, drygddyli, drygansawdd, drygarfer, drygddefod; anniwyg; llifiant; drwg ansawdd corff.

Cachinnation, *s.* (Ll. *cachinnatio*) crechwen, chwerthin croch, banchwerthin, banchwardd, croch chwerthin, uchel chwerthin, crechweniad, chwerthin uchel.

Cacholong, *s.* (oddi wrth *Cach* neu *Cash*, afon yn Bucharia, a *cholon*, gair yn iaith y Calmuciaid am faen) math ar faen gwerthfawr.

Cack, *v. n.* (Ll. *caco*) ystlomi, cachu, cagu, tomi, ysgothi, cothi, cagalu.

Cackerel, *s.* (Ll. *caco*) cacrell, (*pl.* cecryll, cacrellod), ysgothbysg, cothbysg.

Cackle, *v. n.* (Is. *kaakelen*) crecian, gregar, clegru, cogor, clochdar, clochdardd, clochdarddain, clwcian; crechwenu; chwerthin byth a hefyd; nwyf-chwerthin; bragaldio, bragaldian, baldorddi, clebran, clebarddu, ffregodi, clecian, cleca; taenu chwedlau.

Cackle, *s.* greg, gregar, clegar, crec, clegyr, creg, cregar, cogor, clochdar, clochdardd, clec, clwc; clebar, clap, clep, baldordd, dwndwr, llol, ffrec, ffreg, gwagsiarad, ofersiarad.

Cackler, *s.* (o *cackle*) gregarydd, clegrydd, clecydd, crecydd, cogorydd; baldorddwr, lloliwr, bragaldiwr, cloliwr, clebryn, llolyn, gwagsiaradwr, clecai, clepai, pepryn.

Cackling, *s.* (o *cackle*)=*Cackle, s.*
Rome was saved by the cackling of a goose—achubwyd Rhufain gàn glegar gŵydd.

Candify, *v.* (Ll. *candefacio*) cànu, gwynu, gwynhau, caneidio.

Candle, *s.* (Ll., Ysp., ac It. *candela*; S. *candel*) canwyll; goleu.
Rush candle—canwyll frwyn, canwyll frwynen.
Medicated candle—truddiadyr, taeniadyr; cwyrganwyll.
Tallow candle—canwyll wer, gwerganwyll.
Wax candle—canwyll gŵyr.
Mold candle—canwyll fold, canwyll foldeu.
Corpse candle, Petch candle, } canwyll gorff, canwyll corff, canwyll dyn marw.
A small candle—canwyllan, canwyllen, canwyllig, canwyll fechan, canwyll fach.
To light a candle—cynneu, ennyn, ennynu, goleu, *neu* oleuo canwyll.
To put out a candle—diffoddi *neu* ddiffodd canwyll; taro canwyll allan.
To snuff a candle—tori pen canwyll; gleiniadu *neu* salltringo canwyll.
Candle-fly, Jack of the candle, } pryf y ganwyll, gwas y ganwyll, pryfyn y ganwyll.
Candle-snuffers—gleiniadyr, glaniadyr, salltring, toriadyr pen canwyll.
His candle burns within the socket—y mae efe ar làn *neu* wàr ei bwll; mae ei ganwyll yn llosgi yn y carn.
When candles are out, all cats are grey—un lliw du a gwŷn yn y tywyllwch.
He is not fit to hold a candle to him—nid yw deilwng i ddàl canwyll iddo.
Candle-coal—glo rhinc, glo rhing.
Candle-berry tree—gwerwydden, cwyrfyrtwydden, cwyr-fadywydd, gwer-fadywydd.

Candle-bomb, *s.* bwrlwm canwyll, fflach canwyll.

Candle-ends, *s. pl.* tameidach, briwsionach, gweddillach, catiau.

Candle-holder, *s.* goleuddal, canwyllarn; daliwr canwyll, daliedydd canwyll.

Candle-light, *s.* goleu canwyll, goleuni canwyll, llewyrch canwyll.
By candle-light—wrth oleu canwyll; wrth ganwyll.

Candlemas, *s.* (*candle* a *mass*; S. *candel-mæssa*) Gŵyl Fair y canwyllau; dydd Gŵyl Fair y canwyllau; Puredigaeth Mair=Chwefror 2.
Candlemas day=*Candlemas*.

Candlestick, *s.* (*candle* a *stick*; S. *candel-stica*) canwyllbren, canwyllarn, goleuddal, goleusaf; canwyllyr.

Candle-stuff, *s.* defnydd canwyllau.

Candle-waster, *s.* difäwr, gwastraffydd, *neu* ddifrodwr canwyllau; myfyriwr caled, nos-fyfyriwr; afradlawn, gwastraffwr.

Candle-wick, *s.* pabwyryn canwyll; pabwyr canwyll; pabwyr.

Candoc, *s.* (?) afonlys, nantlys.

Candour, *s.* (Ll. *candor*) tegwch, cleuder, gonestrwydd, didueddrwydd, anmhleidgarwch, didwyllni, didwylledd; hynawsedd, hynawsder, rhywiogrwydd, addwynder, addwyndra, mwyneidd-dra; diffuantrwydd, tirionwch, tirionder, cywirdeb, purder, puredd, unionder.

Candy, *v.* (Ff. *candir*; It. *candire*) crawenu â sugr; caensugro, crofensugru, sugrgaenu, sugargrestu, arsugru, crisialu, crisgyffeithio.

Candy, *s.* crisgyffaeth, crisgai, crisancwyn, sugrancwyn.
Sugar candy—sugargris, crissugar, sugr crisial, caensugr, sugr crisgai.

Candying, *s.* (o *candy*) crisgyffeithiad, crisgeiad, sugrad, sugrgyffeithiad, caensugrad.

Candy-tuft, *s.* beryn.
Bitter candy-tuft—beryn chwerw.
Naked-stalked candy-tuft—beryn coesnoeth.

Cane, *s.* (Gr. a Ll. *canna*; Ff. *canne*) corsen, calaf, cecysen; ffon, llawffon, cecysffon, ffon gorsen, corsffon; cecyslost, cecysreinen, cyrswaew: *pl.* cyrs, celyf, calafau, cecys.

Sugar cane—corsen, calaf, *neu* gecysen sugr; sugr-gorsen, sugar-gorsen.
Cane chairs—cadeiriau cyrs, cyrs-gadeiriau.
Cane-reed—cawnen; *pl.* cawn.
Cane-brake — cecysog, corsenog; cecyslwyn, corslwyn, calaflwyn, celyflwyn, corsle, cyrsle.
Cane-hole—cecys-dwll; y twll *neu* rigol lle y planir tocion cyrs.
Cane-trash—ysgarthion cyrs *neu* gecys.
Full of canes—corsenog, cecysog, calafog; llawn cyrs, celyf, *neu* gecys.

Cane, *v. a.* ffonodio, ffondorio, ffonio; curo â ffon; curo â chorsen.

Canescent, *a.* (Ll. *canescens*) llwydwynaidd, llwydaidd; briglwyd, llwyd, henaidd; yn dechreu penwynu, penllwydo, *neu* friglwydo; gwynaidd.

Canes Venatici, *s. pl.* (Ll.) yr Helgwn=cydser gogleddol, yn cynnwys 25 seren.

Canicula, } *s.* (Ll. *canicula*, ci bach) Seren y
Canicule, } Ci, y Cïan, Ciseren, Sirius=seren o'r maintioli mwyaf, a'r ddysgleiriaf o'r ser sefydlog.

Canicular, *a.* (Ll. *canicularis*) perthynol i seren y Ci; yn perthyn i Sirius; cïanol.
Canicular days, } dyddiau y cwn=y dydd-
Dogs' days, } iau pryd y mae Seren y Ci yn codi a machlud gyda'r haul.
Canicular year — blwyddyn y Cïan, blwyddyn y cwn=blwyddyn yr Aifftiaid gynt, yn dechreu gyda dyddiau 'r cwn.

Canine, *a.* (Ll. *caninus*) cïaidd, costogaidd, cïol; perthynol i'r ci.
Canine madness—cynddaredd, y gynddaredd.
Canine appetite—y wanc, newyn anniwall.
Canine teeth—y dannedd llygaid, ciddannedd, ciddaint, llygad-ddaint, dannedd ysgythrog.

Caning, *s.* (o *cane*) ffonodiad, ffondoriad; curfa â chorsen.

Canis Major, *s.* (Ll.) y Ci Mwyaf, y Ci Mawr =cydser yn yr arddrych ddeheuol, yn cynnwys 31 seren.

Canis Minor, *s.* (Ll.) y Ci Lleiaf, y Ci Bychan =cydser yn yr arddrych ogleddol, yn cynnwys 14 seren.

Canister, *s.* (Ll. *canistrum*; Gr. *canastron*) golwrch, blychau, blychen, blochas, ceuflwch, ceten, ceulestr; basgedan.

Canker, *s.* (Ll. *cancer*; S. *cancre*) cancr, cranc gwyllt; gân, yr ân; ysglwyf; rhydni, rhwd, ysrwd; mythl.

Canker, *v.* cancru, cancro; rhydu, ysu, ysrydu, mythlu, difa, llygru; ymgancru, ymrydu.

Cankerbit, *a.* (*canker* a *bite*) ysedig gân gancr *neu* rwd; cnöedig gân ddaint gwenwynig.

Cankered, *a.* cancredig; rhydlyd, ysedig; sarig, traws, afrywiog, blwng, dreng.

Canker-fly, *s.* ysgleren, ysglyryn; cleren à ddifa ffrwythau.

Canker-like, } *a.* à ddifa fel cancr; yn ysu fel
Cankerous, } cancr; mythlaidd, cancraidd; difaol, ysol.

Canker-worm, *s.* pryf y rhwd, pryf y dail, ysbryf, ysbryfyn, pryf cadachog, ysbryf llysiau, pryf melfedog.

Cankery, *a.* (o *canker*) rhydlyd.

Cannabine, *a.* (Ll. *cannabinus*) cywarchaidd, cywarchog.

Cannabis, *s.* (Gr. a Ll.) cywarch, cywarchen, meirion; cas gàn fursen.

Cannel-coal, } *s.* (o *candle*) glo rhinc, glo
Candle-coal, } rhing.

Cannibal, *s.* (gair Indiaidd) breuad, dynfwytäwr, cnawdyswr, bwytäwr dynion.

Cannibalism, *s.* (o *cannibal*) breuadaeth, cnawdysiad, dynfwytad; barbariaeth.

Cannon, *s.* (Ff. *canon*; Al. *kanone*) cyflegr, magnel, gŵn mawr; blif, conon.
Small cannon, } meiarn, cyflegr bychan,
Field piece, } maesgyflegr.
Cannon metal—mettel *neu* adwyn cyflegrau; elydr, elydn, pres.

Cannonade, *s.* (o *cannon*) cyflegriad, magneliad, blifiad.

Cannonade, *v.* cyflegru, magnelu, blifio; dryllguro, blif-ergydio; saethu â chyflegr *neu* gyflegrau.

Cannon-ball, *s.* pelen cyflegr, peled cyflegr, peled magnel, maen blif, blifaen, magnelfaen, blifyn, blifan, bwled.
Cannon-ball tree—blifanwydden, blifynwydden.

Cannon-bone, *s.* blifasgwrn.

Cannoneer, } *s.* (o *cannon*) cyflegrydd, cyflegr-
Cannonier, } wr, magnelwr, magnelydd.

Cannon-proof, *a.* à ddeil ergyd cyflegr; anhydraidd i fagnel.

Cannon-shot, *s.*=*Cannon-ball:* ergyd cyflegr, blif-ergyd.

Cannot, *v.* (*can* a *not*) nis gellir, nis gallir, nis dichon, ni ddichon; bod heb fedru.
I cannot—nis gallaf, ni allaf; nis medraf.
Thou canst not—nis gelli, nis galli, ni elli.
He cannot—nis geill, nis gall, nis galla, ni eill; nis geill efe, &c.

Cannular, *a.* (Ll. *canna*) chwibolog, chwibolaidd.

Canoe, *s.* (It.; Ff. *canot*; Ysp. *canoa*) ceufad, ysgeufad, ysgeuan, ysgeugwch, ceubal, cafnfad, cafn unpren, cwch unpren, bad Indiaidd.

Canon, *s.* (Gr. *canôn*; Ll., S., Ff., Ysp., a Port. *canon*) rheol, canon, (*pl.* canonau), rheithiadur, gofyddeb; deddf, cyfraith, gosod, gosodiad, rhaith, glwysraith; cynon, canon, (*pl.* canoniaid), canoniad; canonlyfr.
Canon law—rhaith eglwys, cyfraith yr eglwys, y gyfraith eglwysig, cyfraith eglwys, glwysraith, glwysddeddf, eglwysraith.
Civil and canon law—rhaith gwlad ac eglwys; cyfraith gwlad ac eglwys; y gyfraith wladol a'r eglwysig; cyfraith y byd a'r eglwys; rhaith byd ac eglwys; cyfraith lëyg a llên.
Doctor of civil and canon law—doethor yn rhaith gwlad ac eglwys; doethor cyfraith lëyg a llên; doethor y ddwy gyfraith; athraw yn y ddwy gyfraith; doethor llëyg a llên.
Canon of scripture—canon yr ysgrythyr.
Canon of speech—rheitheg, rhaith ymadrodd.
Canon of the Romish Church—canon Eglwys Rhufain, canonur Eglwys Rhufain, canonlyfr yr Eglwys Babaidd.
Canon of a monastery—canon mynachlog. rheithiadur abatty, llyfr rheolau monachdy.
Minor canon—adganon, adgynon, isganon.

Canon residentiary—cynon trigiannol, canon cyfarosol.
Cardinal canons—canoniaid cynnorog, cynoniaid prifuriadol.
Domiciliary canons—cynoniaid trefredol, canoniaid trefred.
Expectative canons—cynoniaid dysgwyliannol.
Foreign canons—cynoniaid alltrefig, canoniaid annhrigiannol, canoniaid pellenig.
Honorary canons—cynoniaid mygedol, cynoniaid llẽyg.
Lay canons, Secular canons, } cynoniaid llëyg, canoniaid lleygiol, cynoniaid anfynachol, canoniaid anfonachol.
Regular canons—cynoniaid rheolaidd, cynoniaid rheolus, canoniaid mynachol, urdd-ganoniaid.
Tertiary canons—cynoniaid trydyddol, canoniaid trydeddol, cynoniaid trianol.
Canon, Canon-type, } canon, canondeben, canonen: *pl.* canondebion, canondebau =math o argraff-lythyren fras.
Canon (in surgery)—rheithiadyr.
Canon-bit—safn-enfa, haiarn ffrwyn, safn-haiarn.

Canoness, *s.* (o *canon*) cynones, canones.
Canonic, Canonical, } *a.* (Ll. *canonicus*) canonaidd, canonawl; rheolaidd, rheithiadus, rheithiadurol, gofyddus; eglwysol, eglwysig, eglwysaidd; perthynol *neu* gyfatebol i gyfraith yr eglwys; cytunol â chyfraith eglwys; glwysreithiol, cyfreithiol, deddfol, awduredig, awdurdodedig, awduraidd.
Canonical scriptures—yr ysgrythyrau canonaidd=yr Hen Destamenta'r Newydd; a'r Apocrypha hefyd, yn ol daliadau Eglwys Rhufain.
Canonical Epistles—yr Epistolau Canonaidd, y Llythyrau Cyffredinol.
Canonical hours—oriau canonaidd, oriau eglwysaidd; oriau gweddi a dyhewyd= o 8 hyd 12 yn y bore.
Canonical obedience—ufydd-dod canonaidd; ufydd-dod i ganonau yr eglwys; ufyddiant isafiaid idd eu huchafiaid mewn pethau eglwysig.
Canonical punishments—cospau canonaidd *neu* eglwysig; megys, esgymundod, penyd, diraddiad, &c.
Canonical life—buchedd ganonaidd; buchedd lai gerwin na'r un fonachol, a mwy caeth na'r un llëyg *neu* anfonachol.
Canonical sins—pechodau canonaidd; troseddau marwol yn yr eglwys gynt; megys, eilunaddoliaeth, llofruddiaeth, godineb, geugred, a'r cyffelyb.
Canonical letters—llythyrau canonaidd; tystlythyrau canonaidd *neu* eglwysol (yn mhlith y gwŷr llên gynt).
Canonical cap—corgap, capan côr, cap côr, cap canonawl.
To render canonical—canoni, canoneiddio.

Canonicalness, *s.* (o *canonical*) canoneiddrwydd, rheithiadusrwydd, rheoleiddrwydd, canonoldeb, awduroldeb, cyfreithlondeb, cyfreithlonrwydd, glwysreithioldeb.
Canonicals, *s. pl.* canonwisg, clerigwisg, offeiriadwisg, canonolion, glwyswisg, glwyswisgoedd, gwisgoedd offeiriadol.
Canonicate, *s.* (Ll. *canonicatus*) cynoniaeth, canoniaeth; swydd ac urddas cynon.

Canonist, *s.* (o *canon*) cynonydd, cynonwr, canonydd, canonwr, glwysreithur; proffeswr cyfraith eglwys; un hyfedr yn nghyfraith yr eglwys.
Canonistic, *a.* (o *canonist*) cynonyddol, canonyddol, glwysreithurol.
Canonization, *s.* (o *canonize*) seintiad, seintoliad, mabsantaeth, santurddiad; seintiadaeth, menwedigaeth.
Canonize, *v. a.* (o *canon*) seintio, santoli, santioli, mabsantu, mabsanta, mabseintio, santurddo; cyfrif yn saint; gwneyd yn sant.
Canonized saint—mabsant.
Canonry, Canonship, } *s.* (o *canon*) cynoniaeth, canoniaeth, cynonfudd, canonfudd.
Canopied, *a.* (o *canopy*) gorthöedig, gorthoawl, gorthoawg, mydlenog.
Canopus, *s.* (Ll.) seren o'r maintioli mwyaf, yn llyw y cydser Argo.
Canopus, *s.* math o gostrel neu ysten Aifftig; cestrel Aiphtig.
Canopy, *s.* (Gr. *cŏnŏpeion*) gortho; mydlen, nenlen, nenfwd.
The canopy of heaven—llèn y nef, entrych nef, entyrch nef, entyrch y nef, entyrch nen, yr entrych, yr entyrch.
The canopy wherein he did lie—y brycau yr oedd efe yn gorwedd ynddo (*Iudeth* xiii. 15).
Canopy, *v. a.* gorthöi; mydlenu, nenfydu; cuddio â gortho.
Canorous, *a.* (Ll. *canorus*) perorawl, perseiniol, cywyddol, cowyddol, cerddorol, cerddgar, cynghaneddol, cynghan, canorus, peroriaethol, peroriaethus, caniadol, seinber; croew, llafar.
Canorousness, *s.* (o *canorous*) peroroldeb, perseinioldeb, cywyddolrwydd, cerddgarwch, canorusrwydd, alawiaeth, persain, croewder.
Cant, *v.* (Ll. *canto;* Ysp. a Port. *cantar*) ffugio, ffugodi, ffuantu, trutheinio, truthieitho, truthio, ffregodi, rhagrithio; cwynfan, cwynseinio; clafleisio, oerleisio, oergwyno, gwneuthur cwynlais, cwynieithio, cwynleisio, cwyno; gwagsynio; llafaru yn gwynfanus; amdröi, treiglo, cantu, tafiu.
Cant, *s.* truthiaith, trutheb, rhagritheb, rhagrithiaith, ffugiaith, ffrec, ffregod, ffregiaith, rhagrith, truth, ffug, ffugiant, cwyniaith, oerlais, cwynlais, oergwyn, oerlef, udlef, udlais, claflais, cwyndon, cwyn, cwynfan; briwiaith, llediaith, brithiaith; gwaedd, bloedd; tafliad, tafl, codwm, treigl.
Cant language—briwiaith, llediaith, brithiaith, trosgliaith, llygriaith; celfiediaith; ffregodiaith, ffregiaith.
Cant word—gair llediaith, llygrair, briwair, gair trwsgl; celflygrair; ffregodair.
To sell by cant—arwerthu, gwerthu yn gyhoedd, cyhoedd werthu.
Cant, *s.* (Is. *kant*) cornel, cil, congl, cilfan, ebach; rhagongl, rhagelin.
Cant-timbers—cilgoed, cilwydd.
Cant-pieces—cilarnau, cilddarnau.
Cant-moulding—cilfoldiad, ciladdurn.
Cantabile, *ad.* (It.) yn deleideddol; yn delediw.
Cantaliver, Cantilever, } *s.* (*cantle* ac *eaves*, neu Ll. *canteri labrum*) asbantwrn, bargodarn, bargodwrn.

Cantar, } *s.* pwysi dwyreiniol: yn Acra yn
Cantaro, } Nhwrci, 603 pwys ydyw; yn Tunis a Tripoli, 114; yn yr Aifft, 98½; yn Naples, 25; yn Genoa, 150; ac yn Leghorn, 150, 151, neu 160.

Cantata, *s.* (It. o'r Ll. *canto*) alogan, alawgan, adroddeg.

Cantation,† *s.* (Ll. *cantatio*) caniadaeth, caniad.

Canteen, *s.* (It. *cantina*) gwirodgib, milorgib.

Canteloup, *s.* math o fwsgfelon.

Canter, *v.* (Llyd. *cantreal, cantrew;* neu o *cant*) gogarlamu, rhygyngu, tuthgarlamu, llawgarlamu, tuthio.

Canter, *s.* gogarlam, rhygyng, tuthgarlam; llaw-garlam; carlam, tuth, *neu* drot Caergaint.

Canter, *s.* (o *cant*) ffugiwr, truthiwr, ffugiolwr, &c.

Canterbury-Bell, *s.* cloch y perthi; *pl.* clych y perthi.

Canterbury-Tale, *s.* chwedl ddisail, ffugiol, *neu* ddychymygol; chwedl Caergaint.

Cantharidin, } *s.* (o *cantharis*) pothchwilod-
Cantharidine, } ain=math o ddansawdd à geir o gylion Paradwys.

Cantharis, *pl.* Cantharides, *s.* (Gr.) cylionen Paradwys, cylionen Yspaen, pothchwilen, pothgleren: *pl.* cylion Paradwys, cylion Yspaen, pothchwilod, pothgler.

Canthus, *s.* (Gr. *canthos;* Is. *kant*) cil y llygad, cil llygad, llygadgil, cornel y llygad.

Canticle, *s.* (Ll. *canticum;* It. ac Ysp. *cantico*) cân, caniad, cathl.

The Canticles—y Caniadau, Caniad Solomon, Caniadau Salomon, Cân y Caniadau, Canau Selyf.

Cantile, *v. a.* (Ff. *chanteau;* Llyd. *chantell*) tori yn ddarnau; tori yn yfflon, briwo, darnio, catio, dryllio.

Cantillate, *v. a.* (Ll. *cantillo*) corganu, llafarganu, achanu; canu.

Cantillation, *s.* (o *cantillate*) corganiad, llafarganiad, achaniad, can-adroddiad.

Cantingness, *s.* (o *cant*) ffugioldeb, ffregodolrwydd, trutholdeb; cwynolrwydd, cwynleisioldeb.

Cantion,† *s.* (Ll. *cantio*) cân, caniad; pennillion.

Cantle,† *s.* (Llyd. *chantell;* Ff. *chanteau*) darn, dernyn, cetyn, talp, dryll; rhan, cyfran.

Cantle,† *v. a.* darnio, catio, briwio, dryllio; tori yn ddarnau *neu* yn yfflon; rhanu, parthu.

Cantlet, *s.* (o *cantle*) dernyn, darn, cetyn, dryllyn, telpyn, cilcyn; cornelyn, conglyn.

Canto, *s.* (It.) cân, caniad, canran, canbarth, gosgan; meinlais, uchalaw, uchlais.

Canto-fermo—sylgan, seilgan.

Canton, *s.* (Ff. ac Ysp.; It. *cantone*) rhandir, cantref, cwmmwd, cantir, talaeth, ardal, rhandwy; parth, rhan; rhandirogion, rhandiriaid; ciwdod, cenal.

Canton (in heraldry)—cornel, cil.

Canton, *v. a.* rhanu tir; rhanu yn rhandiroedd, yn gantrefi, yn gantiroedd, *neu* yn gymmydau; cantiro, rhandiro, rhandwyo, rhanu, dosbarthu, dyranu.

To canton forces—gorsafu milwyr; dosbarthu llueddwyr rhwng trefi *neu* gestyll; gorsafu *neu* ddofri catrodau; dosbarthu *neu* ranu catrodau.

Cantonal, *a.* (o *canton*) rhandirol, cantrefol, cantirol, cymmydol.

Cantonize, *v. a.* (o *canton*) dosbarthu, rhanu, dyranu; rhandiro, cantrefu, cantiro, rhandwyo.

The country was cantonized among them—rhanwyd y wlad rhyngddynt.

Cantonment, *s.* (o *canton;* Ff. *cantonnement*) dosbarth, rhan, parth; trefran, gorsafran.

Cantred, } *s.* (C.) cantref, cantred, cwmmwd.
Cantref, }

Canvass, } *s.* (Ff. *canevas;* Al. *cannevas;*
Canvas, } Llyd. *canavas;* Gw. *canbhas*) sachlïan, sachlïain, cywarchlen, braslïan, canfas, cynfas, llian garw; llian.

Cushion canvass—cywarchlen rwyllog *neu* rythwe.

Canvass climber—morwr; dringwr yr hwyliau, yr hwylbrenau, *neu* yr hwylraffau.

The canvass of a ship—hwyliau llong.

Canvass, *v.* (hen Ff. *cannabasser*) pleidgeisio, pleidymgeisio, tugeisio, ceisio pleidlais, swyddymgeisio; holi, chwilio, ymholi, ymchwilio; dadlu; ceisio, gofyn; ymofyn am; dylanwadu o blaid.

To canvass for votes—pleidgeisio, tugeisio, ceisio pleidlais; ymofyn am bleidleisiau.

Canvass, *s.* pleidgais, pleidymgais, tugais, swyddymgais; holiad, chwiliad, trychwiliad, meinholiad; dadl, dadleu, dadliad; ceisiad, cais.

Canvasser, *s.* (o *canvass*) pleidgeisiwr, pleidgeisydd, tugeisiwr, tugeisydd; swyddgeisydd; ceisydd, ceisiwr; chwiliwr.

Canvassing, *s.* (o *canvass*) pleidgeisiad, tugeisiad; swyddgeisiad; ceisiad; chwiliad, holiad.

Cany, *a.* (o *cane*) cyrsog, corsenog, calafog, cecysog; llawn cyrs, cecys, *neu* gelyf.

Canzone, *s.* (It.) algan, cân, canu.

Canzonet, *s.* (It. *canzonetta*) canigan, canigen, canig, canuan, canen, cenig.

Caoutchouc, *s.* twythlws, twythygl, rhwbiedydd yr India, twythrwbyr, twythruglydd.

Cap, *s.* (S. *cæppe;* Is. *kap;* Al. *kappe*) cap, capan; cwflen, cwlen, toc; top; capiad.

A small cap—cepyn, capan, cap bychan.

Canonical cap—capan côr, cap côr, corgap, cap canonawl.

Cap of maintainance—urddasgap=teyrnaddurn à ddygir o flaen breninoedd Prydain ar ddydd eu coroniad.

Cap of liberty—cap rhyddid.

Cap of a cannon—balog cyflegr, ffedog magnel, cap cyflegr.

Square cap—cap pedrongl, capan ysgwar, cap pedrogl.

Three-cornered cap—cap trionglog, capan triongl; cap trichonglog.

Cardinal's cap—cynnorgap, cap cynnorog, priforgap.

Night cap—cap nos, nosgap, nosgapan.

Straw cap—cap gwellt, capan gwellt.

Fur cap—cap pân, cap panog, cap ffwr.

Woman's cap—cap benyw, cap menyw, cap merch.

Cap-case—capgod, capgaes, capan-god, cod cap, gwerchyr cap; cod i gadw cap.

Cap-maker—capanwr, capwr, gwneuthurwr capiau; gwerthwr capiau *neu* gapanau.

With cap in hand—dàn gapio, dàn ymgrymu; â'i gap *neu* het yn ei law.

His cap is lined with a loggerhead—hurthgen yw; llelo ydyw.

The cap of all the fools alive—ffwl y ffyliaid; brenin y ffyliaid; pen, top, *neu* gap holiffyliaid y byd; yr hurthgen penaf yn fyw.

To put on one's considering cap—dyfal *neu* ddwys ystyried peth; dyfal bwyso peth; ystyried peth rhyngddo âg ef ei hun.

Skull-cap—cycyllog, cycyllys.

Common skull-cap—cycyllog mwyaf, cycyllys mwyaf.

Lesser skull-cap—cycyllog lleiaf, cycyllys lleiaf.

Black cap—penlöyn, penddu, y lleian benddu, penddu 'r brwyn.

Cap, *v. a.* capio, capanu; digapanu, digapio; pennoethi; tynu cap oddi ar *neu* oddi am ben; gorchuddio, taenu dros.

Cap,† *v. n.* capio, ymgrymu, ymbennoethi, tynu het, tynu cap.

To cap verses—capio pennillion; ymorchestu *neu* ymdrechu am y goreu drwy adrodd am y mwyaf o bennillion.

The cloud-capped towers—y tyrau cymylgapiog; y tyrau cymyl-gap.

Capability, *s.* (o *capable*) gallu, galluedd, galluogrwydd, galluogedd, galluolrwydd, hyalledd, gall, digoniant; medr, medrusrwydd, medredd, cymhwyseder, cyfaddasrwydd, addasdeb.

Capable, *a.* (Ff.) galluog; yn gallu, yn medru; medrus, cyfarwydd; addas, cyfaddas, cymhwys, gwiw, cymmesur, digonol; deallus, gwybodus; argyfiol; à eill, à allo, à alla; à ddichon, à ddichyn; à fedra, à fedr; agored, darostyngedig, darostyngol, tueddol; yn agored, yn ddarostyngedig, yn dueddol; parod i dderbyn, i lettya, *neu* i gynnwys; gwedi ei addasu *neu* gymhwyso; -adwy.

He is capable to do it—efe a eill, a ddichon, *neu* a fedr ei wneuthur; y mae yn alluog idd ei wneuthur.

Capable of pain — agored *neu* ddarostyngedig i boen; à eill dderbyn *neu* deimlo poen.

Capableness, *s.* (o *capable*) gallu, galluedd, galluogrwydd, hyalledd, galluolrwydd, gall; medr, medruarwydd, medredd, medroldeb, medrolder, medroledd, medrusedd, cyfarwyddyd; addasrwydd, addasdeb, cyfaddasrwydd, cymhwyseder, cymmesurdeb, cymhwysdra; gwybodaeth, deall, dealltwriaeth; digonoldeb, digoniant.

Capacify,† *v. a.* (Ll. *capax* a *facio*) addasu, cyfaddasu; galluogi.

Capacious, *a.* (Ll. *capax*) cynnwysfawr, helaeth, eang, ehelaeth, helaethfawr, helaethlawn; anghyfyng, ang, angol, angfawr, angdde, gannawl, cynnwysedigol, cynnwysol, maith, llydan, mawr; rhwth, (*f.* rhoth); gwybodus, deallus, craff, craffus; à anno, à anna, à ganno, à ganna, à gynnwyso, à gynnwysa, à ddalio, *neu* à ddeil lawer ynddo; y ganno, y canno, y gweddo, *neu* y cynnwyso llawer ynddo.

A capacious vessel—llestr cynnwysfawr.

Having a capacious maw—ceulrwth, ceulfawr.

Capaciousness, *s.* (o *capacious*) helaethrwydd, helaethder, ehelaethrwydd, eangrwydd, eangedd, angder, eangder, cynnwysforedd, cynnwysolrwydd; mawrder, maint, meithder; rhythni.

Capacitate, *v. a.* (o *capacity*) galluogi, galluoli; addasu, cyfaddasu, cymhwyso; gwneuthur yn addas, yn gyfaddas, yn gymhwys, *neu* yn gymmesur; donio, cynneddfu; cynmesuro, cymmedroli, *neu* gynnysgaethu â gallu *neu* â doniau.

Capacitation, *s.* (o *capacitate*) galluogiad, galluoliad; addasiad, cymhwysiad, cyfaddasiad; gwneuthuriad yn addas, &c.

Capacity, *s.* (Ll. *capacitas*) gallu; cymhwyseder, galluedd, galluogrwydd; cynnwysiad, cynnwysedd; eangrwydd, eangder, eangedd, eng; cyflwr, ansawdd, gradd, nodwedd; lle; swydd, sefyllfa, galwad, cylch; deall; synwyr, pwyll, medr, cyrhaedd, cyrhaeddiad, dawn, cynneddf; teithi, atheithi, cynneddfau, doniau; grym, mesur, *neu* gyrhaedd synwyrau.

Beyond the capacities of our infirmities—uwch mesur ein gwendid.

A book fitted to the meanest capacity—llyfr cyfaddas i'r gwanaf ei ddeall; llyfr wedi ei gyfaddasu i'r deall gwanaf.

The capacities of youth—deall, dawn, doniau, *neu* gynneddfau ieuenctyd.

Of good capacity—synwyrol; cyflym ei synwyr *neu* synwyrau; cryf ei ddeall; da ei athrylith; o athrylith da; athrylithfawr; deallus, deallgar; o gynneddfau, o alluoedd, *neu* o ddoniau da.

It is on a level with my capacity—y mae yn cyttaraw, yn cyfladd, *neu* yn cydweddu â mesur fy synwyr i; y mae yn cyfateb i'm deall *neu* i'm cyrhaedd i.

I am not in a capacity to do much—nid wyf mewn cyflwr *neu* sefyllfa i wneuthur llawer; nid wyf mewn cylch i wneyd llawer.

Cap-a-pie, *ad.* (Ff.) o'r pen i'r traed; o'i ben i'w draed; i gyd drosto; drosto i gyd; o ben bwygilydd; o'r gwadn i'r coryn.

A knight armed cap-a-pie—marchog arfog o'i ben i'w draed; marchog arfog o'r pen i'r traed; marchog ollarfog, marchog cyfgaened, marchog amarfog.

Caparison, *s.* (Ysp. *caparazon;* Ff. *caparaçon*) suder, marchaddurn, addurn march, addurnwisg march.

Caparison, *v. a.* suderu, marchaddurno; addurno, addurnwisgo, ceinwisgo, trwsiadu, harddwisgo; gwisgo mewn addurnwisg.

Caparisoned, *p. a.* suderog; addurnedig, harddwisgedig; treciedig, seirchiedig, mewn seirch; gwedi ei drwsiadu *neu* addurno; llurigog, llawn-arfog, cyfgaened, llawndreciedig.

Cape, *s.* (Ff. ac Al. *cap;* Ysp. a Port. *cabo;* It. *capo*) penryn, pentir, penarth, peniarth, penardd, morben; pen, garth, rhŷn, trwyn; coler, gwarlab, gwarlabed, gwarlain.

Cape of Good Hope—Penryn Gobaith Da.

Cape Town—Tref y Penryn.

Spanish cape—Yspaen-wisg, cochl fèr Yspaeniad; cochl â chwcwll wrthi; capwarlab, gwarlab Yspaenig.

Capella, *s.* (Ll.) Gafran=seren ddysglaer yn ysgwydd aswy cydser y Cerbydwr.

Capellet, *s.* (Ff. *capelet*) chwydd egwyd, elinchwydd.

Caper, *v. n.* (Ff. *cabrer*, o'r Ll. *caper*, gafr) llamsachu, llamsach, crychneidio, cyrchneidio, cyrchlamu, cyrneidio, ysboncio, crychlamu, llamu, llemain, dychlamu, prancio, neidio, dawnsio, corelwi, hobelu, pystyled, pystylu, darchwareu, ystumio, digrif ystumio.

Capering horse—march llamsachus.

He came capering — daeth dàn grychneidio *neu* lamsach.

Caper, *s.* llamsach, crychlam, cyrchlam, cyrchnaid, crychnaid, cyrnaid, llam, naid, corelw, dawns, ystum, pranc, ystum digrif.

Cross caper—trawsnaid, trawslam, croesnaid, croeslam, gwrthnaid, gwrthlam, croeslamsach.

Caper-cutting—llamsachiad, crychlamiad, cyrchneidiad, llamiad, neidiad.

Caper, *s.* (Ff. *capre*; Al. *kaper*; Ll. *capparis*; Syr. *capar*) caprwydd; capr-fywull, blagur capr.

Caper-bush, Caper-tree, } caprwydden; *pl.* caprwydd.

Caperer, *s.* (o *caper*) llamsachwr, crychlamwr, crychneidiwr, crychlamydd, llamwr, llamydd, neidiwr, ystumiwr; corelwydd, dawnsiwr.

Capias, *s.* (Ll. *capio*) cipwys.

Capias ad respondendum — cipwys cyn barn; cipwys i ateb.

Capias ad satisfaciendum — cipwys wedi barn; cipwys attafael, attafaelwys.

Capibar, *s.* y gwyfochyn, y tapir trwyndew.

Capillaceous, *a.* (Ll. *capillaceus*) brigeraidd, brigerol, gwalltaidd, gwalltog.

Capillaire, *s.* (Ff.) surfedd diwlith, llysgyfiaeth, llysnodd diwlydd; surfedd o wallt y forwyn.

Capillament, *s.* (Ll. *capillamentum*) llinen, blodlined, brigerlin, llinan, llinionen, manedefyn, meinedefyn, meinfrigeryn, edafeddeu: *pl.* llinion, blodlinion, brigerlinion, brigwallt, gwullflewiach, manedafedd, briger blodau, briger.

Capillary, *a.* (Ll. *capillaris*) brigeraidd, brigerol, gwalltaidd, blewaidd, llinedol; main, mân.

Capillary attraction — attyniad brigerol, attyniad brigeraidd, brigerdyniad.

Capillary tube *or* pipe—brigerbib, brigerbibell, chwibol brigeraidd, meinbib, meinbibell.

Capillary veins—manwythenau, manwythi, meinwythenau.

Capillary plants—brigerlysiau.

Capillary action — brigerwaith, gweithrediad brigeraidd.

Capillary, *s.* manwythen, meinwythen, meinwythïen, llinwythen; meinbib, meinbibell.

Capillation, *s.* (Ll. *capillo*) manwythen, meinwythen.

Capilliform, *a.* (Ll. *capillus* a *forma*) ar ddull *neu* lun briger; brigeraidd, gwalltaidd, blewaidd.

Capital, *a.* (Ll. *capitalis*) prif, penaf, arbenig, arbenigol, pen; rhagorol.

Capital letter—prif lythyren, priflythyren, llythyren benigol, llythyren fawr.

Capital city—prif ddinas, prifddinas, pendinas, dinas benaf, mamddinas, mamdref, prifgaer, mamgaer.

Capital ship—priflong.

Capital stock—argyffre, cynnawdd, ariannawdd, penawm, pensum, prifsum, dechreuawdd, y cyff, y prifgyff; cyfalaf, elw; trysorgyff, cyffnwyddau.

Capital crime *or* offence—trosedd marwol, trosedd dïenydd, trosedd angeuol, achos crog, mater crog, bai collfywyd; caredd teilwng o angeu; trosedd yn haeddu marwolaeth *neu* angeu; prif drosedd, camwedd dïenydd; cyflafan farwol *neu* angeuol.

Capital punishment — prif gosp; cosp benigol; cosp farwol *neu* angeuol; cosp ddïenydd, cosp ddïenyddol, prif gospedigaeth, dïenyddiaeth; cosp marwolaeth *neu* angeu.

War is capital to thousands—angeuol i filoedd yw rhyfel; mae rhyfel yn angeuol *neu* ddïenyddol i filoedd; dwg rhyfel brif gosp ar filoedd.

The seven capital sins—y saith prif-wyd, y saith prif wŷd, y saith prif bechod.

Capital trial—prawf am fywyd, prawf bywyd.

Capital advantages—manteision rhagorol; y manteision goreu.

Capital bruise—briw penaidd; briw ar *neu* yn y pen.

Capital cross — croes benynog, argonog, *neu* benclymog.

Capital, *s.* (Ll. *capitellum*) argyffre, cynnawdd, cyn-eiddo, cyn-alaf, cyfalaf, prifgyff, ariannawdd, cynsum, elw; priflythyren; prifddinas, pendinas; penclwm.

Capital (of a column, pillar, *or* pilaster) —penclwm, penglwm, heiliog, argon, argwn, penyn, pillben, pen colofn.

Composite capital — penclwm cymmysg, heiliog gyfansawdd.

Doric capital—penclwm Dorig, penyn Doraidd.

Capitals—priflythyrenau, llythyrenau penigol, penigolion, penigoliaid.

Small capitals — penigolion bychain *neu* fân; priflythyrenau mân *neu* fychain; prif lythyrenau mân.

Capital of a state—prifddinas gwlad; tref benaf gwlad *neu* deyrnas.

Capital and interest—argyffre a llog, cyfalaf a llog, prifsum a llog, cyn-eiddo a llog, &c.

Capital and labour—eiddo a llafur; argyffre a llafur; meddiannau a gwaith.

Capitalist, *s.* (o *capital*) cyfalafydd, cyfalafwr, cyn-alafydd, ariansoddog; perchen argyffre; goludog.

Capitally, *ad.* (o *capital*) yn arbenig; mewn modd arbenig; yn rhagorol; yn y cyfryw fodd ag a ddygo un dàn farn marwolaeth; yn ddïenyddol, yn eneid-faddeu.

To be capitally convicted — cael ei gollfarnu; cael ei fwrw i farwolaeth; cael ei farnu yn euog o farwolaeth; cael achos angeu mewn un; cael ei farnu yn eneid-faddeu; cael yn euog o drosedd marwol.

To punish capitally—cospi â marwolaeth *neu* ddïenydd; prif-gospi; dïenyddu; rhoi i farwolaeth.

To be punished capitally—cael ei ddïenyddu *neu* ddïenyddio; cael ei roddi i farwolaeth; dyoddef prif gosp; goddef eithaf y gyfraith.

Capitalness, *s.* (o *capital*) trosedd marwol, achos crog, mater crog.
Capitate, *a.* (Ll. *capitatus*) pendyfog, pendyfol.
Capitation, *s.* (Ll. *capitatio*) peniant; treth y penau, treth penau, treth ben, arian pen, taliad pen, tâl pen.
Capite, *s.* (Ll. *caput*) pendaliad, prifddaliad.
Tenure in capite—pendaliad, pendeiliadaeth, prifddaliad, prifddeiliadaeth.
Tenant in capite—pendeiliad, prifddeiliad=un à ddaliai dir yn ddigyfrwng oddi gàn y brenin.
Capitular, **Capitulate**, **Capitellate**, *a.* (Ll. *capitalis*, *capitellum*, *capitulatus*, o *caput*, pen) pendyfigol, llysbenig.
Capitol, *s.* (Ll. *capitolium*) teml lau yn Rhufain; y Capitol, Capitoldy; cabidwl, cabidyldy; llywotty.
Capitular, **Capitulary**, *s.* (Ll. *capitulum*) penodraith, clasraith, cabidylraith; clasreithres, clasddeddfawd; corff o ddeddfau neu gyfreithiau Cynghor Eglwysig.
Capitulary, *a.* cabidylaidd, eglwysgorol, glwysgorol.
Capitulate, *v. n.* (o'r Ll. *capitulum*) cynghreirio, ammodi, gal-ammodi, gal-gynghreirio; ammodi yn nghylch rhoi amddiffynfa i fyny; gildio ar deleraù; ymroddi ar ammodau; cytuno ar neu gynnyg ammodau ymroad; gwneuthur ammodau rhoi i fyny; ceisio heddwch dàn ammodau penodol; rhoi lle neu ddiffynfa i fyny dàn ammodau sicr; ymroddi i fyny; rhoi i fyny; cylafareddu.
Capitulation, *s.* (o *capitulate*) cynghreiriad, ammodiad, gal-ammodiad, gal-gynghrair; ammodiad neu gytundeb yn nghylch ymroddi i fyny; rhoddiad i fyny dàn ammodau; banau yr ymroad; erthyglau yr ymroddiad; cylafareddiad.
To demand a capitulation—gofyn cylafaredd yn nghylch rhoddi amddiffynfa i fyny; gofyn gal-ammodiad.
Articles of capitulation—erthyglau galgynghrair; banau yr ymroad; yr ammodau dàn y sawl y rhoir amddiffynfa i fyny.
Capitulator, *s.* (o *capitulate*) cylafareddwr, cynghreiriwr, ammodwr, gal-ammodwr, galgynghreiriwr.
Capitule,† *s.* (Ll. *capitulum*) crynodeb, crynoad.
Capitulum, *s.* (Ll.) pencnaw, penclymyn.
Capnomancy, *s.* (Gr. *capnos* a *manteia*) mygarmes, mygddewiniaeth, dewiniaeth â mwg.
Capnomor, *s.* (Gr. *capnos* a *moira*) mygwy, mygbylif.
Capoch, *s.* (Ff. *capuchon*)=*Capouch*.
Capoch, *v. a.* digycyllu, dadgycyllu, digwflenu.
Capon, *s.* (Ysp.; Ff. *chapon;* Ll. *capo*) cabwllt, capwllt, adgeiliog, ceiliog dysbadd, ceiliog dysbaidd, ceiliog dysbaddedig, caprwn.
Capon's tail—cynffon y cabwllt, cynffon y ceiliog, llysiau Cadwgan, gwell na'r aur.
Caponniere, *s.* (Ff.; Ysp. *caponera*) llechfa danddaiarol.
Caponize, *v. a.* (o *capon*) cabylltu, dysbaddu ceiliog.
Capot, *s.* (Ff.) cast ar gardiau.
Capot, *v. a.* castio ar gardiau.
Capote, *s.* (Ff.) hirsegan, trosdoron.
Capouch, *s.* (Ff. *capuchon*, *capuce*) cwcwll, cwflen, cwfl, hwf mynach.
Cappadine, *s.* (o *cap?*) math o sidan.
Cap-paper, *s.* cappapyr, papyr cap.
Capper, *s.* (o *cap*) capanwr, capwr; gwneuthurwr neu werthwr capiau.
Capping, *s.* (*cap*) capiad; tap, tapyn, tepyn, tapig, capan.
Capra, *s.* (Ll.) yr afr, gafr.
Caprate, *s.* (o *capra*) gafraint, llillaint: *pl.* gafrhalion.
Capreolate, *a.* (Ll. *capreolus*) amdorchog, amdorchol, amglymol, amdorchsidd.
Capric, *a.* (Ll. *capra*) gafrig, llillig.
Capric acid—sur gafrig.
Capriccio, *s.* (It.) nwythalaw.
Capriccioso, *s.* (It.) alaw nwythrydd, nwythryddal.
Caprice, *s.* (Ff.; It. *capriccio*) mympwy, nwyth, chwidredd, asbri, nwyd, gwŷn anwadal, chwim, chwimp, nwythas, chwidrad, cymyg; anian anwastad, anhysaf, neu ansafadwy; tymmer newidiol; nwyd ysgafn, ysgoewan, gwammal, neu wagsaw; ias pen, gwib meddwl; anwadalwch, gwamalder, anynadrwydd; gwamaldyb; hynt.
Capricious, *a.* (o *caprice*) mympwyol, gwamal, anwadal, nwythol, nwythus, nwythig, nwythog, nwydus, penchwiban, oriog, anwastad, ansafadwy, anhysaf, newidiol, cyfnewidiol, ansefydlog, ysgoewan, ysgoewain, ysgoew, syfal, ysgafn, gwagsaw, ysmala, anystywallt, anhydyn, anhywaith, trofäus, chwidr, chwidrog, cymygol, coegdybus, gofregus, arnwythus, ffoldybus; gwynafog, anynad, drygnwydus, drygnawsus; hyntiog; llawn o goegfeddyliau.
A capricious man — gwamalddyn; dyn anwadal, nwythus, &c.; chwidryn, monyn.
Capriciousness, *s.* (o *capricious*) anwadaledd, anwadalwch, gwamalder, gwamalrwydd, gwamaldod, gwamaledd, anwadalrwydd, mympwyolrwydd, mympwyoldeb, nwythuster, nwythusrwydd, nwythigrwydd, nwythogrwydd, newidioldeb, anwastadrwydd, ysgafnder, gwagsawrwydd, oriogrwydd, penchwibandod, chwidredd, syfaldod, ysmaldra, ysmalder, ansefydlogrwydd; anhydynrwydd, anhynawsedd, anhyweithdra; coegfeddylgarwch.
Capricorn, *s.* (Ll. *capricornus*, o *caper*, gafr, a *cornu*, corn) yr Afr, arwydd yr Afr; Alban Arthan=y mwyaf deheuol o'r 12 arwydd.
Tropic of Capricorn—trofa yr Afr, trofan yr Afr; trofa byrddydd gauaf; trofan Alban Arthan; Alban Arthan.
Caprid, *a.* (Ll. *caper*) perthynol i'r gafrolion; gafrolig, gafrol.
Caprification, *s.* Ll. (*caprificatio*) ffigysriliad=dull dwyreiniol o gyflymu addfediad ffigys, trwy offerynoliaeth math o bryfyn.
Caprificus, *s.* (Ll.) ffigyswydden wyllt, ffigysbren gwyllt.
Caprifole, **Caprifolium**, *s.* (Ll. *caprifolium*) gwyddfid, gwynwydd, melog, crydnydd, llaeth y geifr, sugn y geifr, gwyddwydd, tethau'r gaseg.
Capriform, *a.* (Ll. *caper* a *forma*) gafraidd; ar lun gafr; âg iddo neu iddi ddull gafr.
Caprigenous, *a.* (Ll. *caprigenus*) gafreigiol;

gafr-anedig; gafr-fagedig; cynnyrchedig gàn afr.

Caprine, *a.* (Ll. *caprinus*) gafraidd, gafrol, gafrin, gafrain; tebyg i'r afr.

Capriole, *s.* (Ff. *cabriole*, o'r Ll. *caper*) gafrlam, gafrlam march; llam *neu* naid i fyny fel eiddo gafr.

Capriped, *a.* (Ll. *capripes*) gafrbedog, gafrbediog, gafrdroediog, gafrbed, gafrdroed; â chanddo draed fel traed gafr.

Caproate, *s.* (o'r Ll. *caper*) gafroaint.

Caproic, *a.* (o'r Ll. *caper*) gafröig.

Caproic acid—sur gafröig.

Cap-sheaf, *s.* cap-ysgub, yr ysgub gap, y cap; cap beisgawn *neu* ddas.

Capsicum, *s.* pupyr yr adar, poethrawn yr adar; pupyr, poethrawn, poethlys.

Capsize, *v.* (?) dymchwel, dymchwelyd, ymchwelyd, diwelu, diwel.

Cap-squares, *s. pl.* cap-ysgwarion.

Capstan, *s.* (Ff. *cabestan*; Ll. *capistrum*) rhwyniadyr, cyngrodyr, dyrwynlath, dyrwyndrawst.

Capstone, *s.* (*cap* a *stone*) capfaen.

Capsular, } *a.* (Ll. *capsula*) cistol, cistaidd,
Capsulary, } cistenaidd, cistanaidd, ceuaidd, ceuol, amgeuol, cellog.

Capsulate, } *a.* (o *capsula*) cibedig, cistedig,
Capsulated, } blychedig, ceuedig, amgeuedig; yn cau am; yn tyfu dros; amguddiol.

Capsule, } *s.* (Ll. *capsula*; Ff. *capsule*) hadgib,
Capsula, } hadgell, ponar, caffelgib, cib, amgib, paisg, amgod, hadgod, hadgaen.

Captain, *s.* (Ff. *capitaine*, o'r Ll. *caput*) cadben; pen, penaeth, blaenor.

Captain-general — penciwdod, cadlywydd, pencadlyw.

Captain-lieutenant—rhaglaw cadben, rhaggadben.

Captain of five men—pumwriad, blaenor pumwr, cadben ar bump.

Captain of ten men—dengwriad, blaenor dengwr, cadben ar ddeg.

Captain of fifty—pumdegwriad, pumdengwriad, blaenor pumdeg; cadben deg gwr a deugain; cadben ar bumdeg.

Captain of a hundred—canwriad; cadben ar gant.

Captain of a thousand—milwriad; blaenor mil, cadben ar fil, penaeth mil.

Captain of a ship—cadben, llywydd, penaeth, *neu* feistr llong; llong-gadben.

Chief captain—pencadben.

Captain of a castle—ceidwad castell, penceidwad castell, cadben castell.

Captain Bashaw, } penllyngesydd; yr ar-
Capudan Bashaw, } lyngesor yn amherodraeth Twrci.

Sea-captain — morgadben; cadben *neu* feistr llong.

Let us make a captain—gosodwn ben arnom (*Num.* xiv. 4).

God himself is with us for our captain—Duw ei hun gyda ni (2 *Chron.* xiii. 12).

Captain of the Lord's host—tywysog llu yr Arglwydd (*Jos.* v. 14, 15).

Captaincy, } *s.* (o *captain*) cadbenaeth, cad-
Captainship, } beniaeth, cadbendod, cadbenogaeth; penciwdodaeth, cadlywiaeth.

Captainry, *s.* (o *captain*) cadbenaeth, cadbeniaeth; pendodaeth.

Captation, *s.* (Ll. *captatio*) truth, gweniaith; truthiad; ennilliad bodd drwy weniaith *neu* druth; truthennilliad.

Caption, *s.* (Ll. *captio*) daliad, gafaeliad; gwaeseb; rhagre.

Captious, *a.* (Ll. *captiosus*) cecrus, ymrafaelus, cipgar, dichellgar, ystrywgar, cyfrwysgall, hocedus, twyllgar, dichellus, dichellog, bradus, cyfrwysddrwg; dadleugar, ymrysongar, sengar; chwannog i rwydo; chwannog i faglu; â'i fryd ar ddàl drwy ddichell; croes, croesarain, cynhenus, anfoddgar, anfoddog; hoff o wrthatteb *neu* wrthddywedyd.

A captious question—holiad dichellgar a thwyllodrus; gofyniad cecrus *neu* ystrywgar.

A captious fellow—cecryn, cecrusyn, cecrwr; un cyfrwys-ddadl; un â'i fryd ar ddàl *neu* rwydo arall yn ei ymadrodd drwy ddichell; gwarchäwr geiriau; un chwannog i feio ar ymadroddion rhai ereill; un cecrus, &c.

Captiousness, *s.* (o *captious*) cecrusrwydd, cecrusedd, cipgarwch, dichellgarwch, ystrywgarwch, dadleugarwch, sengarwch, cynhenusrwydd; tuedd i warchau geiriau; chwannogrwydd i feio; anfoddgarwch.

Captivate, *v. a.* (Ll. *captivo*) caethiwo; dwyn yn gaeth; rhoi yn gaeth; dwyn i gaethiwed; darostwng; dàl yn garcharor; caethiadu; swyno, rhinio, hudo, llygattynu.

To captivate the affections—ennill, denu, *neu* dynu y serchiadau; myned â'r serch; dwyn y syrch; caethiwo, maglu, *neu* rwydo y serch; swyno y serchiadau.

Captivate, *a.* caethgludedig, caethiwedig, caethiwus; caeth, caethiw, argaethig.

Captivating, *a.* (o *captivate*) hudolus, hudol, hudolaidd, swynol, swyniadol, swynlawn; yn denu y serch; caethiwol.

Captivation, *s.* (o *captivate*) caethgludiad, caethiwad; daliad yn garcharor; caethiad, darostyngiad; swyniad, hudiad, rhiniad, swynoliaeth, hudoliaeth.

Captive, *s.* (Ll. *captivus*) caeth, caethwas, caethyn, caethddyn, gwr caeth, caethwr; carcharor rhyfel; caethglud; un o'r gaethglud.

A female captive — caethes, caethferch, caethforwyn, caethddynes, caethwraig, benyw gaeth; un o'r gaethglud.

Captives—y gaethglud, caethglud; meibion y gaethglud.

Among the captives—yn mysg y gaethglud (*Esec.* i. 1).

Captive, *a.* caeth, caethiwus, caethgludedig, caethiwedig, caethiw, argaethig, caethedig.

To lead *or* carry away captive—caethgludo; dwyn i gaethiwed.

Captive, † *v. a.* caethiwo, caethgludo, caethu.

Captivity, *s.* (Ll. *captivitas*; Ff. *captivité*) caethiwed; caethglud; alltudedd, alltudiaeth; caethder, caethfyd, caethiant, caethnawd, caethrawd; caethgludiad, caethiwad, caethiacledd.

He led captivity captive—efe a gaethiwodd gaethiwed.

To lead into captivity—caethgludo; dwyn i gaethiwed.

To bring into captivity—caethiwo; dwyn i gaethiwed.

Get thee to them of the captivity—dos at y gaethglud.

Bringing into captivity every thought—gàn gaethiwo pob meddwl.
Those led into captivity—y gaethglud.

Captor, *s.* (o'r Ll. *capio, captus*) ysgafaelwr, ysglyfiwr, ysglyfydd, gafaelwr, daliwr; caethgludwr, cadwynor; à ddeil *neu* à ddalio yn garcharor; à gymmero ysgafael.

Capture, *s.* (Ll. *captura*) ysgafael, ysbail, ysglyfaeth, ysgafaeth, helfa, dalfa, caffaeliad, praidd; daliad, ysglyfiad, ysgafaeliad, gafaeliad, gafael; cymmeriad ysgafael.

Capture, *v. a.* dàl, dala, gafaelu, gafaelyd; ysgafaelu, esgafaelu, ysglyfio; cydio yn; cymmeryd.

Capuccio, *s.* (It.) cwcwll, cwfl, cwflen, hwf.

Capuched, *a.* (Ff. *capuce*) cycyllog.

Capuchin, *s.* (Ff. *capucin, capuchon, capuce*) cwcwll, cwfl; colomen gycyllog, colomen gopog, hwfgolomen.
Capuchin friar—brawd cycyllog, cycyllfrawd, brawd llwyd; mynach o urdd Sant Ffransis.

Capuchins, *s. pl.* Cycyllfrodyr, Cycyllogion, Brodyr Llwydion, Mynachod Llwydion; Mynachod o urdd Sant Ffransis.

Capucine, *s.* (Ff.) math o epa.

Capulin, *s.* ceirios Mecsico.

Caput, *s.* (Ll.) pen, y pen; pendod.

Capward, *s.* creadur amelfenol yn Brasil.

Car, *s.* (C.; Gw. *carr, carra;* Llyd. *qarr;* Al., Is., a D. *karre*) càr; cerbyd, clud.
Car (in astronomy)—Llun y Llong, y Llong foel, yr Arth, y saith seren ogledd, saith seren y gogledd; Men Carl.

Carabine, } *s.* (Ff. *carabine*) corwn, corddryll,
Carbine, } gwn byr, carbin.

Carabineer, } *s.* (o *carabine, carbine*) corynwr;
Carbinier, } byrynwr, carbinwr; milwr à gario gorwn *neu* gorddryll; *pl.* coryniaid, byryniaid, carbinwyr, carbiniaid.

Carac, } *s.* (Port. ac Ysp. *carraca;* Ff. *caraque*)
Carack, } math ar long fawr briodol i Portugal; trafnidlong *neu* Ind-long y Portugiaid.

Caracole, *s.* (Ff.) gogylchdro, goamdro, hanner tro, hanner troad, gwyrdroediad; trorisiau, nyddrisiau.

Caracole, *v. n.* gogylchdroi, goamdroi, gochwylo, hanner troi; gwyrdroedio.

Caracoly, *s.* cymmysg o aur, arian, a chopr.

Carafe, *s.* (Ff.) dyfrel, gwydrel ddwr, gwybotel, potel ddwr.

Caramel, *s.* (Ff.) llosgsugr, llosgsugar, dusugr; sugrdarthion, sugardarthion.

Carapace, *s.* (?) argragen, argresten, argrest.

Carasow, *s.* aderyn Amerig o ryw y goediar.

Carat, *s.* (Ff. ac Al.) pedwar gronyn; y 24edd ran o unrhyw faint *neu* swm o aur.
Gold of twenty carats—aur o ugain carat; aur â'r ugeinfed ran o hono yn ddelid pur; ugain rhan o aur, a phedair o rywbeth arall.

Caravan, *s.* (Ysp. *caravana;* Ff. *caravane;* Per. *cdrwdn*) teithfyntai, cytteithlu, teithlu, myntai—myntai o deithwyr, pererinion, neu fasnachwyr, yn cydymdeithio, yn y Dwyrain: cludfen, mydfen, togar, tofen, car-fen.

Caravansary, } *s.* (o *caravan;* Ff. *caravansera*)
Caravansera, } teithletty, teithwestty, teithletty dwyreiniol.

Caravel, } *s.* (Ysp. *caravela;* Ff. *caravelle*)
Carvel, } math o long fechan.

Caraway, *s.* (Gr. *caros, caron;* Ll. *caros, careum;* o *Caria,* yn Asia Leiaf) garddwy, carddwy, carwas.
Caraway seed—had garddwy.

Carbazotic, *a.* (*carbon* ac *azote*) creisflorig.
Carbazotic acid—sur creisflorig, sur blorulwin, sur cresflorig.

Carbon, *s.* (Ll. *carbo;* Ysp. *carbon;* Ff. *charbon*) ulyf, ulyfai, llosged, ulw, ulwan, ulwyn, creisid, purlosged, carbon.
Wood carbon—golosgoed, golosg, golosged.
Animal carbon—ulyf milaid, mil-losged, milgarbon.
Oxide of carbon—egrid ulyfig, creisegrid, egr-ulyf.

Carbonaceous, *a.* (o *carbon*) golosg, golosgaidd, golosgedaidd, llosgedaidd.

Carbonade, } *s.* (Ff. *carbonnade,* o'r Ll. *carbo*)
Carbonado, } brwyll, briwl; cig wedi ei rostio yn ddarnau ar farwor.

Carbonade, *v. a.* brwyllo, brwyllan, briwlio, briwlian.

Carbonate, *s.* (o *carbon*) ulyfaint, ulwaint, creisidas; hal sur ulyfig.

Carbonated, *a.* (o *carbonate*) ulyfedig; cymysgedig âg ulyfaint, *neu* â sur ulwin.

Carbonic, *a.* (o *carbon*) ulyfig, ulwig, ulwin, creisin, carbonig.
Carbonic acid—sur ulyfig, sur ulwin, sur creisin, ulyfsur, sur carbonig.
Carbonic acid gas—nwy sur ulwin, tagnwy, nwy ulyfsur.
Carbonic oxide, } egrid ulyfig, &c.; egr-ulyf,
Oxide of carbon, } creisegrid, cresrwd.

Carboniferous, *a.* (Ll. *carbo* a *fero*) ulyfddwyn, ulyfddygol; yn cynnyrchu ulyf *neu* olosg.

Carbonization, *s.* (o *carbonize*) ulyfiad, ulyfeiddiad, ulwad.

Carbonize, *v. a.* (o *carbon*) ulyfu, ulwadu; troi yn ulyf *neu* losged.

Carbonohydrous, *a.* (*carbon,* a Gr. *hudôr*) ulyfulaidd, cresulaidd, creisulaidd; o ulyf ac ulai.

Carbo-surphuret, *s.* ulyf-ufeled, creisufeled.

Carboy, *s.* basgwydrel, basgbotel; costrel wydr mewn basgwaith.

Carbuncle, *s.* (Ll. *carbunculus*) carbwncl, carbunclus, y maen carbuncl: llosdardd, llosglynor, llosbigodyn, tandde chwyddedig.

Carbuncled, *a.* (*carbuncle*) carbuncledig; addurnedig â charbuncl; amryfrith, amryliw.

Carbuncular, *a.* (o'r Ll. *carbunculus*) carbunclaidd, carbynclaidd; perthynol i'r carbwncl; fel y carbuncl; coch, llidiog, llidus.

Carbunculation, *s.* (Ll. *carbunculatio*) blagurddeifiad, blagurfalliad.

Carburet, *s.* (o *carbon*) ulyfed, creisured, ulyfured, llosgured=cyfuniad o ulyf âg unrhyw ddelid, alcali, neu ddaiar.
Carburet of iron—dur; creisured *neu* ulyfured haiarn.
Carburet of hydrogen—creisulai, ulyf-ulai.
Carburet of azote—creisflorai, cresflorai.

Carburetted, *a.* (o *carburet*) ulyfedog, ulyfurog, ulyfedig, ulyfaidd.
Carburetted hydrogen — nwy creisulai, creis-ulnwy, llosnwy, tanchwa.

Carcanet, *s.* (Ff. *carcan*) gemgadwyn, gemgadwen, gemdorch, gleindorch, gemdid.

Carcass, *s.* (Ff. *carcasse*) celain, celan, corff marw, ysgerbwd, ysgorwg, corwg, abwy, abo, burgun, llurgun, abod, buria, ysgrwd, ysgrud, abar, dylaith; corff.

Carcass of a saddle—tumon cyfrwy.
Carcass of mutton—corwg mollt, cwrwg mollt.
The carcass of a fat cow—corwg *neu* gwrwg buwch dew; cig buwch fras heb groen, heb ymysgar.
He is a mere carcass — ysgerbwd hollol ydyw; nid yw ond croen ac esgyrn; nid oes ond ei lun.
Like a dead carcass—celaneddaidd, celanaidd, celeinaidd; tebyg i gelain, corwg, *neu* abwy.
Full of dead carcasses—celaneddog, llawn celanedd, llawn o gelanedd.
Carcass, *s.* llosgeubel, ceulosbel, eialosbel.
Carcerage, *s.* (Ll. *carcer*) charchardal, gobr carchar.
Carcer, *s.* (Ll.) cychwynfa, cychwyniad.
Carceral, *a.* (Ll. *carcer*) carcharol.
Carcinoma, *s.* (Ll.; Gr. *carcinôma*) cancr, cranc, mythl.
Carcinomous, *a.* (o *carcinoma*) cancraidd, crancaidd, cancrog.
Card, *s.* (Ff. *carte;* It., Ysp., a Port. *carta;* Ll. *charta*) carden, cerdyn, sethlen, sethen: *pl.* cardiau, cardau, sethleni, sethlenau.
Pack of cards—cyff o gardiau, cniw o gardiau.
The pack of cards—y cyff cardiau, y cniw cardiau.
Suit of cards—sut o gardiau; cardiau o'r un nod oll.
Court card—carden fraith.
The trump card, } y garden fynegai, y
The turn-up card, } sethlen fynag, y ddangoseg.
A small card—cardenan, cerdyn, sethlenan, carden fechan.
A deal *or* hand of cards—gyr o gardiau, hobyn o gardiau; hobyn, gyr.
To cut the cards—tori y cardiau, tori'r cardau.
To deal the cards—rhanu, cyfranu, dosbarthu, *neu* yru y cardiau.
Deal away—gyrwch y cardiau.
I am to deal next—myfi sydd i ranu yn nesaf; mi bïau rhanu yn nesaf.
To pack the cards—cymmoni, cydosod, *neu* daclu y cardiau; cuiwio y cardiau.
To shuffle the cards—cymmysgu y cardiau; mysgu y cardau. [au.
Card room—cell y cardiau; ystafell y card-
Visiting card—carden ofwy, sethlen ofwy, cerdyn ymweled, carden alw.
Card-playing — chware cardiau, chwareu cardau; chwareuaeth *neu* chwaryddiaeth cardiau.
Card-player—cardeuwr, chwareuwr cardiau, chwariwr cardau.
The cards go against you—y mae ffawd yn eich gwrthwynebu; try y cardiau yn eich erbyn; y mae y cardiau yn eich gwrthwynebu.
Card of the compass—carden y compawd, gwyneb y cwmpas.
Card, *v. n.* cardio, chwareu cardiau; chware llawer ar gardiau; ennill.
Card, *s.* (Is. *kaard;* D. *karde;* Ff. *carde*) crib, crib wlan.
Stock cards—cribau cyffion.
Iron card for flax *or* hemp—heislan, heisyllt, trafel, rhipai.
Back-board of a card—clawr crib, cefn crib.
Card, *v. a.* cribo, cribo gwlan, gwlan-gribo; heislanu.
Carding and spinning—cribo a nyddu.
To card wool—cribo gwlan.
Cardamine, *s.* (Gr.) hydyf.
Cardamoms, *s. pl.* (Gr. *cardamômon*) grawn Paradwys, grawn Paris.
Carder, *s.* (o *card*) cribydd, cribwr, cribwr gwlan; chwareuwr cardiau, cardeuwr, cardiwr, cardenwr.
Carder and spinner—cribwraig a nyddwraig; cribwr a nyddwr.
Cardia, *s.* (Gr.) y galon, calon.
Cardiac, } *a.* (Gr. *cardiacos;* Ll. *cardiacus*)
Cardiacal, } calonol; perthynol i'r galon; adfywiol, cryfhaol, cyfnerthol, gwrygiol, llonïannol, llonedigol, siriol, cysurol.
Cardiac passion=*Cardialgy*.
Cardiac, *s.* sirgyffer, ffaethgyffer, sirlyn, cysurlyn; cyffer à fywioga yr ysbrydoedd.
Cardiace, *s.* (Gr. *cardia?*) cardias, maen gwerthfawr.
Cardialgy, *s.* (Gr. *cardia* ac *algos*) lloes cylla, cyllagwst, y dwr poeth, y dwfr poeth, ingloes, yr ingloes.
Cardieurysma, *s.* (Gr. *cardia* ac *eurunô*) calonlediad.
Cardinal, *a.* (Ll. *cardinalis*) prif, penaf, arbenig; sylfaenol.
Cardinal virtues — prifrinweddau, prif rinweddau=Cyfiawnder, Callineb, Cymedroldeb, a Gwroldeb, yn ol tyb y Paganiaid gynt.
Cardinal points—prif bynciau, prif bwyntiau, y prifranau; pedwar ban y byd=gogledd, de, dwyrain, a gorllewin: codi a machlud haul; y nenbwnc a'r pedbwnc.
The cardinal points of the compass—prif bynciau *neu* brif bwyntiau y compawd; prifranau y compawd, prif bigau y compawd, prif ysbagau y cwmpas.
The cardinal winds—y prifwyntoedd=y gwyntoedd à chwythant o'r prif bynciau.
Cardinal signs — y prif arwyddion = yr Hwrdd, y Fantol, y Cranc, a'r Afr.
Cardinal numbers — rhifau arbenig, prif rifolion, prifrifau, rhifolion, prifrifedi=un, dau, tri, &c.
Cardinal, *s.* cyniadur, penuriad, prifor, penurddor, cynnorog.
Cardinal, } prifordwyg, cynnordwyg.
Cardinal cloak, }
Cardinalate, } *s.* (o *cardinal*) cyniaduraeth,
Cardinalship, } penuriadaeth, priforiaeth, cynnorogaeth.
Cardinalize, *v. a.* (o *cardinal*) gwneyd cyniadur; gwneuthur yn brifor.
Carding-Machine, *s.* peiriant cribo, ermig cribo, crib-ermig.
Cardiography, *s.* (Gr. *cardia* a *graphô*) calonddysgrifiad, dysgrifiad o'r galon.
Cardioid, *s.* (Gr. *cardia* ac *eidos*) calongom, asgregom, com ar lun calon.
Cardiology, *s.* (Gr. *cardia* a *logos*) caloneg, caloniaeth; treithawd ar y galon.
Cardiospermum, *s.* (Gr. *cardia* a *sperma*) calonhadog.
Cardiotomy, *s.* (Gr. *cardia* a *temnô*) calondrychiad, calondrwch.
Cardite, *s.* (Gr. *cardia*) efrith.

Cardiopathia, *s.* (Gr. *cardia* a *pathos*) clefyd y galon, calonwst.
Carditis, *s.* (Gr. *cardia*) calondandde, fflameg y galon, ennynfa calon.
Card-maker, *s.* cardenwr, sethlenwr, cardiwr; cribwr; gwneuthurwr cribau *neu* gardau.
Cardoon, *s.* (Ysp. a Ff. *cardon*) gorysgallen y gerddi, marchysgallen Yspaen.
Cardnelis, *s.* (Ll. *carduus*) ysgallednod, y penrod.
Carduus, *s.* (Ll.) ysgallen; *pl.* ysgall.
Carduus benedictus—ysgallen fendigaid.
Care, *s.* (S. *car, cara;* Gw. *car;* Ll. *cura*) gofal, pryder, carc, cur, dyddoriant, dawr, pryderi, dyddoriad, helbul; astigrwydd, ystigrwydd, dyfalwch, diwydrwydd; nodded, ymgeledd, amgeledd, nawdd; ystyriaeth, sylw, meddwl; baich, pwys, goreilid; gocheledd, gwiliawd, gochel.
Anxious care—gofal pryderus, cur, gofalgur, cur a gofal, helbul, trymfryd, tragofal, dygn ofal, gofal dygn, pryder, tra phryder, dygnedd, gofeiliant, prwysti.
To take care—gofalu, pryderu, dori, gwilio; cymmeryd gofal; dwyn cur a gofal; meddylio, meddylied; rhoi *neu* osod y meddwl ar; ymorol, astudio; bod ynystig *neu* ddyfal; prisio; gochelyd, gochel.
To take care of—gofalu am, &c.; amgeleddu, areilio, golygu, gwylio, cyfarchwylio, goruchwylio, dyddori; gofalu am *neu* dros; cymmeryd gofal am, dros, *neu* o; gwylio dros.
To care for—gofalu am, &c.; gofalu dros; darbod dros; darparu i; bod â gofal am, dros, *neu* yn nghylch.
To have a care—gochel, gochelyd, gwilio, ymochelyd, ymogelyd.
Have care—gochel, ymochel, ymogela, cymmer ofal.
To have care of, } gofalu am *neu* dros;
To have a care for, } bod â gofal am *neu* dros.
To have the care of—cael gofal; cael gofal arno; cael llywodraeth arno; cael goruchwyliaeth arno *neu* iddo; bod gofal, goruchwyliaeth, *neu* lywodraeth arno.
To put *or* cast away cares—bwrw *neu* yru ymaith ofalon; anghofio ei ofid; gyru *neu* fwrw ymaith dristwch; gyru gofal ymaith; gyru gofal byd ar dawl; ymgysuro, ymloni; codi, cysuro, *neu* loni calon.
Cast away care—cwyn *neu* cysura dy galon ac anghofia dy dristyd.
To be much disquieted with care—cael ei ddygn flino, ei ddygn boeni, *neu* ei ddirboeni gàn ofal *neu* ofid; dwyn mawr ofid; bod yn dwyn cur a gofal.
To take care to do a thing—gofalu ar *neu* am wneuthur peth.
To be under a person's care—bod dàn ofal un; bod yn ngofal un; bod dàn nawdd, nodded, *neu* amgeledd un.
I commit him to your care—gorchymynaf ef i'ch gofal *neu* i'ch ymgeledd chwi.
Extreme care—gofal dwys, pryder dwys, gofal mawr, dwys ofal, tragofal.
The care of love—cur cariad, cur serch.
Care will kill a cat—gwyw calon gàn hiraeth; gofal a ddwg henaint cyn yr amser.
Watching care will not let a man slumber—gofalus wylio a lestair hepian.
Without care, } diofal, dibryder, ysgyfFree from care, } ala, diofalus; heb ofal, bryder, heb gur; mewn diofalwch.
Take care to pay—meddwl am dalu; gofala am dalu; meddylia ar dalu o honot.
They will not take care for us—ni osodant eu meddwl arnom; ni ofalant am danom.
He takes care for none but himself—ni dderbyd, ni ddarboda, *neu* ni ofala dros neb ond ei hunan.
I take no great care of these things—nid wyf yn gwneuthur nemawr o gyfrif o'r pethau hyn; nid wyf yn gofalu fawr am y pethau hyn.
He takes care for the rising age—y mae efe yn darparu i'r to ieuanc; y mae yn darbod dros y to ieuanc; y mae yn gofalu ar gyfer y to sy'n codi.
He took care of the flock—areiliodd y praidd; gofalodd am y ddeadell.
He took care of him—efe a'i hamgeleddodd; gofalodd am dano; cymmerodd ofal drosto.
Have a care not to do it—gwel nas gwnelych; gwel nas gwnelot; gwel nas gwnelit; gofala *neu* syna nas gwnelit.
I have a care—y mae arnaf ofal.
Have a care not to fall—gwilia *neu* cadw arnat rhag cwympo; edrych na chwympot; edrych na chwympych.
Have a care lest he hurt thee—ymgadw, gochel, *neu* ymochel rhag iddo dy niweidio; gwilia rhag iddo dy niweidio; cymmer ofal rhag gwneuthur o hono i ti niwed.
He had the care of instructing the children—arno ef yr oedd gofal addysg y plant; arno ef y rhoddwyd gofal addysgu y plant.
He had the care of the plate—cadwraeth y llestri arian a roddwyd iddo *neu* arno ef; arno ef yr oedd cadw y llestri arian.
Is she thy care?—ai hi yw dy ofal? ai hi yw gwrthddrych dy ofal? ai hi dy ofal?

Care, *v. n.* gofalu, pryderu, malio, dori, dyddori, gwilio, cymmeryd gofal, dwyn gofal, meddylio, meddylied; rhoi *neu* osod y meddwl ar; astudio; bod yn astig *neu* ystig; ystyried; prisio.
I care not, } ni'm dawr; ni ddoraf; nid
I do not care, } wyf yn malio; nid gwaeth genyf; nid gwaeth gàn i; nid yw waeth genyf; nid yw waeth gàn i; nid yw fater genyf fi; nid yw fater gàn i; nid oes mater genyf; ni phrisiaf; nid wyf yn prisio dim; nid wyf yn dewis; nid wyf am; nid wyf yn chwennych.
What do I care?—beth waeth gàn i? beth waeth genyf fi? beth gwaeth yw genyf fi? beth wyf fi yn ei falio? beth wyf fi yn ei ofalu?
What would I care?—beth a ddorwn? beth ddorwn? beth fyddai waeth gàn i? beth fyddai waeth genyf *neu* genyf fi?
Care not for it—na fydded waeth genyt; na fid gwaeth genyt.
Carest thou not?—ai difater genyt? onid oes gofal genyt? ai nis gofali? ai nid oes genyt ofal?

I care not for knowing—nid gwaeth genyf wybod na pheidio.
Not that he cared for the poor—nid oherwydd bod arno ofal dros y tlodion.
I do not care for riding—nid oes arnaf chwant marchogaeth; nid oes imi ddim chwant marchogaeth.
Were he interred she careth not—niddawr hi ddaiaru hwn.
She cares nothing about you—nid yw hi yn malio dim am danoch.
They will not care for us—ni ofalant am danom; ni osodant eu meddwl arnom.
For aught I care—er dim à'm dawr; er dim à'm dawr i; er dim à ofalaf *neu* à ofalaf fi; er dim à faliaf; er dim ag wyf yn *neu* yn ei falio; er dim à ddoraf; er dim sy waeth gàn i.
Care-crazed—cur-friw, cur-friwedig, cur-yssig, cur-sigedig; cur-anmhwyllog.
Care-defying—cur-feiddiol, cur-heriol; à herio gur *neu* ofal; à ofyn waethaf cur.
Care-tuned—cur-gywair, cur-gyweiriol; galarus.
Care-wounded—cur-glwyfedig, cur-glwyfus.

Careen, (Ff. *caréner*, o'r Ll. *carina*) llongosgi, goleddu llong; goleddu, gogwyddo; llongdaclu, llongdrwsio; taclu, trwsio, cyweirio.

Careening, *s.* (o *careen*) goleddiad, osgoad, osgiad, gogwyddiad, goleddiad llong.

Career, *s.* (Ff. *carriére; It. carriera*) gyrfa, rhedfa, helynt, hynt, rhediad, rhedegfa, ystod, rhawd, cerhynt, gyrhynt, rhwysg, rhodre, rhedrawd, chwyl, darchwyl.
Full career—llawn-yrfa, llawn-frys, llawn gerhynt; gyrfa chwern *neu* wyllt.
In full career—ar y pedwar carn gwyllt; ar y gyrfau gwyllt; ar y cerhynt gwyllt; nerth traed y ceffyl.
Career (in falconry)—hedfa yr aderyn uwch 120 llath.

Career, *v. n.* rhedeg; rhedeg yn wyllt *neu* chwyrn; hwysgo, hyntio.

Careful, *a.* (*care* a *full*) gofalus, darbodus, gwyliadwrus, carcus, pryderus, diesgeulus; gwiliadwrus, gochelgar, ymogelgar; dyfal, diwyd, astig, ystig, manol, manwl, ystyriol, pwyllog; trafferthus, trafaelus, prysur, poenus, trymfrydig, diflin; yn edrych yn ei gylch; yn dwyn cur a gofal; llawn gofalon; gofalfawr.
Very careful—tragofalus, tradyfal, tradiwyd; gofalus iawn, &c.
To be careful—gofalu; bod yn ofalus; cymmeryd gofal; pryderu; bod yn bryderus; gwilio, gochel; bod yn wiliadwrus *neu* ochelgar.
Being careful of the common good—gàn ofalu am y budd cyffredinol (2 *Mac.* xi. 15).
Be careful for the country—cymmer ofal dros y wlad.
We have been careful—buom ofalus; cymmerasom ofal.
To make careful—peri gofal.
If thou carefully hearken—os gàn wrandaw y gwrandewi (*Deut.* xv. 5).
Carefully made—cywrain, cywraint, dichlyn, taclus; à wnaed yn ofalus; gwedi ei wneyd gyda gofal.
Though he sought it carefully—er iddo ei thaergeisio.

Carefulness, *s.* (o *careful*) gofal, pryder, pryderi, cur, carc; gofaledd, gofalusrwydd, pryderusrwydd, pryderoldeb, carcusrwydd; dyfalwch, dyfalrwydd, diwydrwydd, astudrwydd, astigrwydd, ystigrwydd, manylwch, manyldeb, manolrwydd; trymfryd, tristyd, ingder; cur a gofal; trymder, cythrudd, blinder, *neu* ofid meddwl; diesgeulusdra; gwiliadwriaeth, gochelgarwch, gocheledd.
Without carefulness—yn ddiofal.
What carefulness it wrought in you—pa astudrwydd ei faint a weithiodd ynoch (2 *Cor.* vii. 11).

Careless, *a.* (*care* a *less*) diofal, esgeulus, anystyriol, anofalus, annarbodus, diddarbod, dibryder, difraw, ysmala, ysgyfala, anmhryderus, difeddwl, didraflerth, didres, digarc, didawr, annysgwylgar, anwyliadwrus, anochelgar, anystyrus, diystyr, difwriad, diymdawr, difwrw, gwallus, gwallygus, anghryno, gwagsaw, annichlyn.
A careless discourse—ymadrodd anghywrain, annestlus, esgeulus, annhaclus, annyben, annichlyn, aflerw, *neu* anghryno.
Careless of his reputation—diddarbod am ei air da; diofal o'i *neu* am ei nodweddiad.
A careless person—dyn diofal, difraw, esgeulus, *neu* anystyriol.
To be careless of—bod yn ddiofal am, &c.; esgeuluso, dibrisio, dirmygu, diystyru, gwallygio.
To grow careless—diddarbodi, dibryderu; myned yn ddiofal, &c.

Carelessness, *s.* (o *careless*) diofalwch, esgeulusdod, esgeulusdra, esgeulusder, diofaledd, diofaldod, anofaledd, diofalrwydd, diddarbodaeth, annarbodaeth, anystyriaeth, anmhryder, dibryderwch, difrawder, anocheledd, anochelgarwch, diymogelwch, anghyfarchwyledd, diystyrwch, ehudrwydd, annhaclusrwydd, annestlusrwydd, annestlusder, annybendod, annichlynedd, annichlynder, anghrynoder, aflerwch; gwall, gwallusrwydd, gwallusdra.
Great carelessness—mawrwall, mawr wallusrwydd; diofalwch mawr, &c.

Carentane, *s.* (Ff. *quarantine*) pabanwes, deugeinfaddeb.

Caress, *v. a.* (Ff. *caresser*) cofleidio, monwesu, mynwesu, caredigo, anwesu, maldodi, anwylo, hofflochi, pratio, cocri, cuo, amgaru, dorlota, breicheidio; rhoi mewn monwes, achlesu, llochi, croesawu, coledd; ymgaredigo â, ymwasgu â, gwresog gofleidio, anwyldodi.

Caress, *s.* cofleidiad, ymgofleidiad, monwesiad, carad, carawd, anwylder, anwylawd, anwyldod, anwylad, maldod, anwesdod, dorlawd, caredigad, cocr; gwresog gofleidiad, berchgeidiad.

Caret, *s.* (Ll. *careo*) gwallnod, collnod=(^)

Carex, *s.* (Ll.) hesg; *sing.* hesgen.
Common separate-headed carex—hesgen ysgar.
Flea carex—chwein-hesgen, hesgen y chwain.
Little prickly carex—hesgen bigog leiaf; hesgen seraidd.
White carex—hesgen benwen.

Oval spiked carex—hesgen hirgylchaidd.
Remote carex—hesgen anghyfagos.
Sea carex—hesgen arfor, hesgen y tywod.
Soft brown carex—hesgen lygliw benblydd.
Great spiked carex—hesgen dwysenog fwyaf.
Lesser panicled carex—hesgen rafunog leiaf.
Great panicled carex—hesgen rafunog fwyaf.
Pendulous wood carex—hesgen ddibynaidd y goedwig, hesgen y coed.
Green and gold carex—hesgen eurwerdd.
Yellow carex—hesgen felen.
Œder's carex—hesgen Oeder.
Long-bracteated carex—hesgen hiriain.
Tawny carex—hesgen dywyll felen.
Loose carex—hesgen anghysbell.
Green-ribbed carex—hesgen ddeulasnod.
Vernal carex—hesgen gynnar.
Round-headed carex—hesgen bengron.
Pink-leaved carex—hesgen benigan-ddail.
Glaucous heath carex—hesgen oleulas wyrgamddail; hesgen lasiwyd y graig.
Tufted bog carex—swp-hesgen y fawnog.
Glaucous straight-leaved carex—hesgen oleulas sythddail.
Slender-spiked carex—hesgen eiddil dwysenog.
Lesser common carex—hesgen ganolig dwysenog.
Great common carex—hesgen braff-dwysenog.
Smooth-stalked beaked carex—hesgen ylfinog lefn.
Short-piked bladder carex—hesgen chwysigenaidd fer-dwysenog.
Slender-beaked bladder carex—hesgen chwysigenaidd ylfinfain.
Hairy carex—hesgen flewog.
Slender-leaved carex—hesgen feindwf.

Cargason,† *s.* (Ff. *cargaison*)=*Cargo.*
Cargo, *s.* (Ysp.) llwyth llong, llonglwyth. llwyth, carg, (*pl.* cargoedd).
Cargoose, *s.* y trochydd copog.
Cariated,† *a.* (Ll. *caries*)=*Carious.*
Caricature, *s.* (It. *caricatura*) digriflun, gwawdlun, gwatwarlun, anferthlun, rhithlun.
Caricature, *v. a.* digriflunio, gwawdlunio, gwatwarlunio, rhithlunio, tynu digriflun; gwatwar.
Caricaturist, *s.* (o *caricature*) digriflunlwr, gwawdlaniwr, gwawdluniedydd, rhithluniwr, rhithluniedydd, gwatwarluniwr, tynwr gwawdluniau.
Caricography, *s.* (Ll. *carex*, a Gr. *graphô*) hesgyddiaeth, darluniad o'r hesg.
Caricous, *a.* (Ll. *carica*) ffigysaidd.
Caries, *s.* (Ll.) pydredd asgwrn, braenedd asgwrn; braen, braenedd, pydredd; malldod.
Carillon, *s.* (Ff.) clochan, clochig, cloch fechan; clochalaw.
Carina, *s.* (Ll.) trumyr, trumwydd, trumwydd blodau, trumflodeilen.
Carinate, Carinated, *a.* (Ll. *carinatus*) trumflodeilaidd, trumyraidd, trumwyddaidd, trumsin.
Carinthine, Carinthin, *s.* math o ddelidfaen o Carinthia, yn Awstria.

Cariole, *s.* (Ff.) math o gerbyd penagored.
Cariosity, *s.* (o'r Ll. *cariosus*) pydredd *neu* fraenedd asgwrn; braenedd, pydredd, braen, pydri.
Carious, *a.* (Ll. *cariosus*) pwdr, braen, braenllyd, pydraidd.
Cark,† *s.* (S.; C. *carc*) carc, gofal, pryder, cur, dyddoriant.
Cark,† *v. n.* gofalu, pryderu, carcu.
Carl, Carle, †*s.* (S. a C. *carl*; Al. *kerl*) carl, cerlyn, bawddyn, taiogyn, drelyn, delff.
Carl-hemp—cywarch gwryw; cywarch à ddwg hadau.
Carl-cat—gwrcath, cath wryw.
Carl, Carle, †*v. n.* ymddwyn fel drel; bod yn garl, yn gerlyn, *neu* yn fawddyn.
Carline, Carlin, Caroline, *s.* carlin, carolin=darn arian bychan perthynol i Naples, gwerth 4*c.*
Carlina, Carline-Thistle, *s.* (oddi wrth *Carolus Magnus*, neu *Charlemagne*) ellast, ysgallen ddreinwen.
Carline, Carling, *s.* (Ff. *carlingue, escarlingue*) trumdrawst, ardrumbren; trawstgoed.
Carline knees—trum-ystanciau, byrddystanciau.
Carlish,† *a.* (o *carl*)=*Churlish.*
Carlishness,† *s.* (o *carlish*)=*Churlishness.*
Carlock, *s.* math o bysglud.
Carlot,† *s.* (o *carl*)=*Carl.*
Carman, *s.* (*car* a *man*) certwynwr, cartwr, certiwr; gyrwr.
Carmelite, *s.* (oddi wrth *Carmel*, yn Syria) math o beren.
Carminative, *a.* (Ff. *carminatif*, o'r Ll. *carmen*) gwyntyrol; gwresogol; da i chwalu gwynt; gwrthwynegol.
Carminative, *s.* gwyntgyffer, gwrthwyntor; cyffer *neu* gyffyr i chwalu gwynt, a gwella gwynegion: *pl.* gwyntgyfferi, gwyntyrolion, gwrthwyntorion, gwrthwynegion.
Carmine, *s.* (Ff. *carmin*) rhufliw, lliw claergoch =math o liw neu baent coch neu gochlas tra gwerthfawr.
Carnage, *s.* (Ll. o'r Ll. *caro*) lladdfa, celanedd, galanasdra, cigyddiad, cigyddfa, cigyddiaeth, lladderedd, difrod, hafog, galanas, cyflafan.
Carnal, *a.* (Ll. *carnalis*; Ff. *charnel*) cnawdol; anianol; anllad, chwantus, trythyll.
Carnal mind—syniad cnawdol, syniad y cnawd, meddwl cnawdol, meddwl anianol.
Carnal appetite—chwant y cnawd, cnawdwylltrwydd, cnawdolflys, chwant cnawdol.
Carnal knowledge—cywestach, cywestach ystlenol, nabyddiaeth ystlenol.
Carnal connexion—cydgnodiad, cydgnawd, cywestach.
Carnal-minded—cnawdolfrydig, cnawdolfryd; bydolfrydig.
Carnal-mindedness—cnawdolfrydedd, cnawdolfryd; bydolfrydedd, bydolfryd.
Carnal pleasure—difyrwch cnawdol.
Carnalism, *s.* (o *carnal*) cnawdolrwydd; ymroddiad i ddifyrwch y cnawd.
Carnalist, *s.* (o *carnal*) cnawdolwr; ymroddwr i ddifyrwch cnawdol; un cnawdolfrydig.
Carnalite, *s.* (o *carnal*) bydgarwr, un bydolfrydig, bydolddyn.
Carnality, *s.* (o *carnal*) cnawdolrwydd; difyrwch cnawdol; ymroddiad i ddifyrwch y

cnawd; chwant cnawdol, blys cnawdol; cnawdolfrydedd.

Carnalize, *v. a.* (o *carnal*) cnawdoli; gwneuthur yn gnawdol.

Carnation, *s.* (Ff. o'r Ll. *caro*) cigliw, cnodliw; cnodlys, ciglys, blodyn cigliw.

Carnation colour — cigliw, cnodliw, lliw y ciglys.

Carnationed, *a.* (*o carnation*) cigliwiog, cnodliwiog, cigliwedig, cnodliwedig.

Carnelian, } *s.* (Ff. *cornaline*, o'r Ll. *caro*)
Cornelian, } cigliwem, cnodem, maen cigliw= math o faen calcedon.

Carneous, *a.* (Ll. *carneus*) cnodig, cigog, cnodaidd, cigol, ciglyd, cnodlyd.

Carney, *s.* (o'r Ll. *caro*) cenwst.

Carnification, *s.* (o *carnify*) cnawdogiad, cnodigiad; troad yn gnawd.

Carnify, *v. a.* (Ll. *caro* a *facio*) cigo, cnodigo, cnawdogi; troi yn gnawd; prifio yn gnawd; magu cig.

Carnival, *s.* (It. *carni vale*, yn iach i gig) cigwyl, cnodwyl; gloddestwyl, glothwyl = amser difyrwch a gwledda cyn y Grawys, mewn gwledydd Pabaidd.

Carnivora, *s. pl.* (Ll. *caro* a *voro*) cigysolion, cigysogion, ysgigolion, cigysiaid, ysgigion= creaduriaid yn byw ar gig, neu ar greaduriaid ereill; megys y llew, y llwynog, y ci, &c.

Carnivoracity, *s.* (Ll. *caro* a *voro*) cigysrwydd, cigwancusrwydd, cigraib, gwanc am gig.

Carnivorous, *a.* (Ll. *caro* a *voro*) cigysol, ysgig, ciglwng, ciglwnc, cigreibus; à ysa gig; à yso gig; à fo yn byw *neu* ymborthi ar gig.

Carnivorous tribe—cigysolion, ysgigolion, cigysiaid, cigysaryw; y llwyth ysgig *neu* gigysol.

Carnivorous animals — cigysolion, ysgigolion, cigys-filod, milod cigysol, anifeiliaid ysgig.

Carnivorous birds — adar cigysol, adar ysgig, buryon, cigednod.

Carnose, } *a.* (Ll. *carnosus*) cigog, cnodig, cigol,
Carnous, } cnodaidd; ciglyd; cnodlyd; tew.

Carnosity, *s.* (Ll. *carnositas*; Ff. *carnosité*) cnodigrwydd; cigyn, cnod-oddfyn, cig-oddfyn, oddfgig, chwyddgig, hwrwg cigog.

Carob, *s.* (Ysp. *algarroba*) y Carob, y pren Carob, bara Sant Ioan.

Carob-tree=*Carob.*

Caroche, *s.* (Gr. *carouchion*; It. *carrozza*) difyrglud, difyrgerbyd; cerbyd.

Caroched, *a.* (o *caroche*) mewn difyrglud, mewn difyrgerbyd; difyrgludog.

Carol, *s.* (C.; It. *carola*) carol, mawlgerdd, glwysgerdd; cân.

Christmas carol—carol Nadolig.

Carol, *v.* caroli; canu, telori, moli, odli, cathlu.

Caroling, *s.* (o *carol*) carol, cân; cân o lawenydd.

Carolitic, *a.* (o Ll. *carus*, a Gr. *lithos*?) osgladdurnog; osglog, cangog.

Caromel, *s.* (Ff. *caramel*) llosgsugr, llosgsugar, dusugr; sugrdarthion, sugardarthion.

Carota, *s.* (Ll. drosgl ac It.)=*Carrot.*

Carotid, *a.* (Gr. *carôtides*, o *caros*) gyddfol, gyddygol; perthynol i'r gwddf.

Carotid arteries, } rhedwelïau y gwddwg;
Carotids, } rhydwelïau y gwddf; arwythenau y gwddf.

Carousal, *s.* (Ff. *carrousel*, *carrousse*) wttres, wttreswyl, cyfeddach, cyfedd, cyfeddwch, eryfed, gwledd, gloddest, prain, difyrddydd.

Carouse, *v. n.* (Ff. *carrousse*) wttresu, wttresa, gloddesta, cyfeddach, cyfedd, eryfed, ymyfed, cofftio, dyfoli, dyfolio, ymddyfoli, ymfolio, dïota, yfed, meddwi; preinio, gwledda, cynnal cyfeddach.

Carouse, *s.* wttres, gloddest, cyfeddach, cyfedd, cyfeddwch, ymyfed, eryfed, trafiwnc; term o yfed, term cyfeddach.

Carouser, *s.* (o *carouse*) wttreswr, gloddestwr, cyfeddachwr, ymyfwr, eryfwr, dïotwr, yfwr, cofftiwr, cydyfwr, ymddyfoliwr, cyfeddwalch, meddwyn.

Carp, *v. n.* (Ll. *carpo*) cecru, beio, cablu, pigo beiau; goganu, cnoi, tymmigo; dwrdio, ysdwrdio, senu, bychanu, sardio.

To carp at—beio ar; rhedeg ar; lladd ar; cablu, goganu, &c.

Carp, *s.* (Ll. *carpo*; Ff. a Port. *carpe*) y carp, cippysg; math o bysg llŷn.

Carpal, *a.* (Ll. *carpus*) arddyrnol; perthynol i'r arddwrn.

Carpel, *pl.* Carpels, } *s.* (Gr. *carpos*)
Carpellum, *pl.* Carpella, } ffrwythel.

Carpellary, *a.* (o *carpel*) ffrwythelaidd, ffwythelus.

Carpenter, *s.* (Ll. *carpentarius*; Ff. *charpentier*) saer, saer coed, prensaer, saer pren, saer prenau, coedsaer.

House-carpenter—saer tai.

Ship-carpenter—saer llongau, llong-saer.

Carpenter of a ship—saer llong.

Master-carpenter—pensaer, y prif saer, y saer penaf.

Unskilful carpenter—eilun o saer, eilun saer, saer anghelfydd.

Carpenter's line—llinyn saer, saerlinyn.

Carpenter's shop—saerdy, gweithdy saer, gweithfa saer.

Carpenter's work—gwaith saer, saerwaith.

Carpentry, *s.* (o *carpenter*) saerwaith, saerniaeth, coedsaernïaeth, coedgelfwaith, saergelfyddyd.

House-carpentry—ty-saernïaeth, ty-saerwaith, saerwaith tai.

Ship-carpentry — llong-saernïaeth, llong-saerwaith; saerwaith *neu* saernïaeth llongau.

Carper, *s.* (o *carp*) cecryn, cecrwr, beiwr, cablwr, goganwr, hyfeiwr; un chwannog i feio.

Carpet, *s.* (Is. *karpet*) llorlen, llawrlen, carped, byrddlen; tudded, gorchudd.

To be on the carpet—bod o flaen y cynghor; bod dàn sylw *neu* ystyriaeth; bod mewn dadl; bod mewn chwyf; cael ei barotöi; bod ger bron; bod ar y carped; bod ger bron i'w holi.

The matter is on the carpet—y mae y mater yn awr mewn holiad, mewn dadl, o flaen y cynghor, *neu* o flaen yr holfainc; mae y peth yr awr hon ar y carped.

Carpet-knight—marchog y carped; dyn destlus, dillyn, meddfaeth, *neu* fwythus.

Carpet-monger=*Carpet-knight.*

Carpet-slip—llain carped, carpedlain.

Carpet-walk, } ffordd wastadlefn *neu* was-
Carpet-way, } tadlas; ffordd werydlas.

Turkey carpet—carpet amliwiog *neu* gyfrestrog; carped Twrci.

Grassy carpet, } carped glas-
A carpet of green grass, } welltog, llorlen laswellt, llorlen laswelltog, llorlen o laswellt; gorchudd glaswelltog *neu* irlas.

Carpet, *v. a.* llorlenu, carpedu; gorchuddio â charped *neu* lorlen; lledu llorlen *neu* garped dros; gorchuddio.

The earth was carpeted over with grass—y ddaiar a orchuddiasid drosti â glaswellt.

Carpeting, *s.* (o *carpet*) defnydd carpedau *neu* lorleni; carpedau, llorleni.

Carphology, *s.* (Gr. *carphos* a *legô*) usorphwylledd, uswallgofrwydd.

Carping, *s.* (o *carp*) cecraeth, cecri, cecr, beiad, sardiad; sen, cabl, sard, gogan.

Carpinus, *s.* (Gr. *carpos*) yr oestrwydd.

Carpmeals, *s.* brasgarped; brethyn garw.

Carpolite, *s.* (Gr. *carpos* a *lithos*) ffrwythfaen; ffrwythau wedi ymgaregu.

Carpologist, *s.* (Gr. *carpos* a *logos*) ffrwythegydd, ffrwythegwr; un â ddarlunia ffrwythau.

Carpology, *s.* (Gr. *carpos* a *logos*) ffrwytheg; darluniad *neu* ddysgrifiad o ffrwythau.

Carpus, *s.* (Ll.) arddwrn, yr arddwrn.

Carraway, *s.* math o afal.

Carriable,† *a.* (o *carry*) cludadwy, cariadwy.

Carriage, *s.* (Ff. *charriage*; Gr. *carrhon*) clud, cerbyd, cludai, càr, saen, men, arglud; cludiad, dygiant, cyweiniad, dyddygiad, gwaith cario; y cludiad, arian clud, tâl cludiad, traul cludiad, cluttal; mud, mudfa, cludfa; baich, llwyth; yr hyn a gludir; ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, arweddiad, diwyg, moes; dull, gosgedd, trawd; mesurau, arferion, ardwy;† caffaeliad, buddugoliaeth.

Travelling carriage—teithglud, teithgludai, teithgerbyd.

A gentleman's travelling carriage—teithglud boneddig, teithglud boneddwr, ardeithglud.

A gentleman's private carriage—clud neilltuol *neu* briodol boneddig; boneddglud priod, priodol, *neu* neilltuol; boneddglud.

A wheeled carriage — clud olwynog *neu* droellog; cludai olwynog, rhodog, *neu* droellog; troellglud, troellgludai.

Two-wheeled carriage—clud dwyolwyn, cerbyd dwyrod, cerbyd dwyrodog, dwyrodglud, clud dwyrod.

Four-wheeled carriage—clud pedrolwyn, cerbyd pedrrod, clud pedrrodog, cludai pedair olwyn, pedrrodog, pedrrodglud.

Cannon-carriage—magnelgar, magnelglud, clud cyflegr, càr magnel, magnelglwyd, trwyllglwyd cyflegr.

Block-carriage—cyffglud, cyffgludai, cyffgar.

Truck-carriage — trylgar, trylglud, trylswth.

Carriage of an army—clud llu, clud y llu, clud byddin; y clud, y mud; dodrefn, celfi.

They put the carriage before them—gosodasant y clud o'u blaen (*Barn.* xviii. 21).

David left his carriage in the hand of the keeper of the carriage—Dafydd a adawodd y mud oddi wrtho dàn law ceidwad y dodrefn (1 *Sam.* xvii. 22).

He laid up his carriages—rhoddes ei ddodrefn i gadw.

We took up our carriages—cymmerasom ein beichiau.

Carriage of sounds—cludiad seiniau; cludiad swn.

Beast of carriage—anifail clud, clud-anifail, ysgrubl, pynfarch.

Carrick-bitts, *s. pl.* ystanciau y sidlath.

Carrier, *s.* (o *carry*) cariwr, cludydd, cludwr, cyweiniwr, cyweiniedydd, dygwr, dygiedydd, arweddawdr, arweddodwr, dygiawdwr, dygiawdr, dyborthwr; cludgolomen.

Letter-carrier—dygiedydd, dygiadur, dygiawdr, cludwr, *neu* gariwr llythyrau; llythyrddygwr, llythyrgariwr.

Carrion, *s.* (It. *carogna*; Ff. *charogne*) burgun, llurgun, abwy, abo, abod, cclain, celan, buria, abar, ysgerbwd, ysgrwd, dylaith.

Carrion, *a.* burgunaidd, llurgunaidd, aboaidd, abodaidd, celanaidd; braenllyd, braen.

Carrion crow—breuan.

Carronade, *s.* (oddi wrth bentref *Carron*, yn yr Alban) byrgyflegr, byrfagnel, corgyflegr.

Carroon, *s.* (o *car*?) mendoll, carttoll: math o surian.

Carrot, *s.* (Ll. drosgl ac It. *carota*; Ff. *carotte*) moronen, moronyn, moronen goch, moronyn coch: *pl.* moron, moron cochion, moron coch, llysiau cochion.

Wild carrots—moron y maes, moron gwyllt, meddyglyn, llysiau meddyglyn, nyth aderyn.

Cultivated carrots—moron cochion, moron coch.

Carroty, *a.* (o *carrot*) moronaidd, moronliw; coch, pengoch.

Carroty hair—gwallt coch.

Carroty-haired—pengoch, gwalltgoch; â gwallt coch ganddo.

Carrows, *s. pl.* (Gw. *corruigh*; Gael. *carruich*) gwibchwareuwyr, gwibchwampiaid, darllenwyr tesni; gwibiaid, crwydriaid, treinwyr.

Carry, *v. a.* (C. *cario*; Ff. *charrier*; Al. *karren*) cludo, cario, cywain, dwyn, arwain, trosglwyddo, trosi, trosgludo, arweddu, llamdwyo; cynnal, dàl; cael; cymmeryd, myned â, symmud, mudo; ennill; cynnwys; cyrchu.

To carry one's self—ymddwyn, ymarweddu, ymarwedd, arweddu, ymgario, ymagweddu; dwyn ei hun.

To carry about—amgludo, amgario, amgywain, cylcharwain; dwyn o amgylch; dygywain.

To carry arms — dwyn arfau; bod dàn arfau.

To carry away — dwyn ymaith, cludo ymaith, cario ymaith, cywain ymaith, mudo; erddygyd, dyddwyn, dyddygyd.

To carry away by force—cipio, ysgipio, ysbeilio, anrheithio, ysglyfio, cribddeilio; treisio, llathludo, llathruddo; dwyn yn llathrudd; dwyn o *neu* drwy drais; dwyn o anfodd.

To carry away the bell, day, *or* prize—ennill y gamp; myned â'r gamp; enuill y fuddugoliaeth; cario y dydd; ennill y dydd; cael y gorfod *neu* yr oruchafiaeth; myned â'r maes; ennill y maes; ennill y bel *neu* y gâl; dwyn y gloch *neu* y bel; cael y goreu; cael y maes; trechu.

To carry away captive—caethgludo; dwyn i gaethiwed.
To carry all before one—myned dros *neu* drwy bob anhawsder; tori drwy bob anhawsder; gorchfygu yn llwyr; tycio yn hollol; myned drwy y tew a'r teneu.
To carry back—dwyn, cario, *neu* gludo yn ol; eilddwyn, attwyn, atddwyn, addwyn, adgywain, adgludo, edfryd, dwyn adref; dychwelyd â *neu* âg.
To carry before—rhagddwyn, rhagddygyd; dwyn o flaen.
To carry beyond—llamdwyo tu hwnt i; dwyn hwnt i; dwyn heibio i; cludo tu hwnt i.
To carry a cause—ennill hawl; ennill ei hawl; gorfod yn ei gwyn; gael y goreu; cael y maes; ennill y maes; ennill y *neu* gario y dydd; cyrhaedd *neu* gael ei amcan.
To carry closely—dwyn yn mlaen dàn gel; trefnu *neu* drin yn ddirgel; trin *neu* drefnu yn guddiadan; dwyn yn mlaen yn guddiadan.
To carry coals—goddef cam, sarhad, niwed, *neu* argywedd.
To carry coals to Newcastle—iro blonegen; bwrw dwfr i *neu* mewn afon; bwrw heli i'r môr; bwrw heli yn y môr; cyrchu dwr dros afon; gwneuthur gorchwyl afraid *neu* afreidiol.
To carry forth—dwyn, cario, cludo, cywain, *neu* fwrw allan.
To carry from place to place—dwyn o le i le; cario *neu* gludo o fàn i fàn; cywain o'r naill le i'r llall; llamdwyo, trosglwyddo, trosi; mudo, symmud.
To carry it high—ymddwyn yn falch, yn drahäus, yn drahausfalch, yn drawsfalch, yn ucheldrem, yn uchel, yn warsyth, *neu* yn wynebsyth.
To carry it—ennill peth; ennill mewn ymdrech, dadl, *neu* ymddadl; ei hennill hi.
To carry headlong—dwyn yn mlaen yn ddirwystr; dwyn yn mlaen heb ludd na rhwystr; diddymu.
To carry news — dwyn newyddion *neu* chwedlau; adrodd, mynegu; dangos.
To carry news back—dwyn gair yn ol; dwyn gair drachefn; dwyn newydd *neu* newyddion yn ol.
To carry off—dwyn, cludo, cario, *neu* gywain ymaith; myned ymaith â; lladd; dwyn i fedd; dïeneidio, dwyn bywyd; symmud; symmud ymaith *neu* hwnt.
To carry off a distemper—iachäu clefyd; gyru clefyd ymaith; gyru anhwylderb ar ffo.
To carry on—dwyn yn mlaen; cario yn mlaen; gyru, gwthio, *neu* hyrddu yn mlaen; cynnal yn mlaen; myned yn mlaen â *neu* âg; parhau yn gwneuthur; parhau wrth; hwylio gwaith *neu* orchwyl; annog, cymhell, dirio; dylyn, canlyn.
To carry on a suit *or* lawsuit—gyru hawl.
To carry on a jest too far—gormod gellwair, gormodd gellwair, gormod cellwair, gormodd cellwair.
To carry out—dàl allan; dwyn allan; dàl *neu* gynnal hyd y diwedd; amddiffyn hyd yr eithaf; para *neu* barhau hyd y diwedd.
To carry over—trosglwyddo, trosgludo, trosgario, trosi, argludo; cludo, cario, cywain, *neu* symmud dros *neu* drosodd.
To carry a price—dwyn pris; myned â phris; bod yn ddrud; bod yn brid; bod yn uchelbris.
To carry together — cydgario, cydgludo, &c.; cario yn nghyd *neu* i'r unfan, &c.
To carry through—cynnal *neu* ddàl hyd y diwedd; cynnal *neu* ddàl drwy; dwyn drwy; dàl i fyny; &c.
To carry to *or* into—dwyn i; cario, cludo, *neu* gywain i.
To carry the matter too far—erlyn yn rhy dyn; dylyn yn rhy bell; gyru yr hoel yn rhy bell; gormod ddirio; dirio *neu* gymhell gormod; myned â pheth yn rhy bell.
They are carried with full sails—y maent yn myned yn mlaen yn hwylus; hwy a ddygir yn mlaen yn hwylus; ânt rhagddynt ar gyflawn hwyliau; ânt rhagddynt ar lawn hwyl.
To carry corn—cywain yd.
Corn carries a price—y mae yr yd yn ddrud *neu* brid; y mae yr yd yn dwyn pris.
They carry two faces under one hood—dynion deuwynebog ydynt.
He carries his expectations too far—nid oes cymmedrolder yn ei ddysgwyliadau.
The Spirit of the Lord shall carry thee—Ysbryd yr Arglwydd a'th gymmer di.
Clouds that are carried before a tempest—cymylau à yrir gàn dymhestl.
A bird of the air shall carry the voice—ehediad yr awyr a gyhoedda y llais.
He carried himself like a fool—ymfyd y gwnaeth; ymddygodd yn ynfyd *neu* ffol; ymddygodd fel ffwl.
He will carry thee away—efe a'th fwra di.
Thou shalt be carried away into a strange country—ti a symmudir i wlad ddyeithr.
As chaff that the storm carries away—fel manus yr hwn a gipia'r corwynt.
Precious jewels more than they could carry away — tlysau dymunol beth anfeidrol (2 *Cron.* xx. 25).
Carry back the ark of God—dychwel âg arch Duw.
And I will carry you away beyond Babylon—minnau a'ch symmudaf tu hwnt i Babilon.
He shall carry them forth out of the city—bwried hwynt y tu allan i'r ddinas (*Isa.* xiv. 45).
He carried his point in that dispute—efe a orfu yn y ddadl hòno; efe a enillodd y pwnc hwnw.
To carry tidings unto their gods—i ddangos i'w delwau (1 *Cron.* x. 9).
The spring carries off the consumptive—y gwanwyn a ladd y llifiannus.
He carried me on to my ruin—efe a'm dygodd i ddinystr; efe a ddaeth â mi i ddinystr.
To carry a town—ennill tref; myned â thref; dwyn *neu* gario tref.

Carried about—amgludedig; yn cael ei gylcharwain, &c.
Carrying, *s.* (o *carry*) cludiad, cyweiniad, trosiad, troesgiwyddiad, mudiad, symmudiad, llamdwyad, dygiad, arweddiad.
Carrying trade — cludyddiaeth, cludfasnach; masnach cludo *neu* gario.
Carry-tale,† *s.* hustingwr, clapgi.
Carse, *s.* (anhysbys) maranedd diwylliedig; glyndir.
Cart, *s.* (C.; Gw. *cairt*; S. *crat, crat*) cart, men, trol, certwyn, ben; càr, cludai.
Child's cart — càr cerdded, cart bach; chwareu-fen plentyn.
Dray cart — càr llusg, ysledfen, ysled; cart heb olwynion; tyn-gar.
Cart-horse—menfarch, ceffyl gwedd, ceffyl cart.
Cart-house—cartty, mendy, certty, troldy; ty ceirt *neu* gerti; ty y ceirt; ty men, ty y fen.
Cart-load—cartaid, certaid, menaid, trolaid, benaid; llwyth cart, men, ben, *neu* drol.
Cart-harness—trec men, trec cart, offer men, harnais cart, mendrec.
Cart-bote—cartgoed, trolgoed, cartwydd.
Cart-jade — culfarch cart, cart-gulfarch, salfarch men; culfarch, salfarch.
Cart-rope—rhaff gart, rhaff cart, cartraff, rhaff men.
Cart-rut—ol cart, ol men, ol ben, ol olwyn, traul cart, traul men, ol olwyn cart, ol troell men, cartrawd.
Cart-saddle—ystrodyr, ystarn, pynoreg.
Cart-tire — cartrwym, rhwymyn olwyn, amgant olwyn.
Cart-way—ffordd gart, ffordd fen.
Cart-wheel — olwyn cart; cart- *neu* fen-olwyn.
Hoop of a cart-wheel—cant olwyn.
Cart-wright—saer ceirt, saer meni, saer troliau, saer men, mensaer, cartsaer.
To put *or* set the cart before the horse—rhoi y cart o flaen y ceffyl; rhoi y càr o flaen y ceffyl; rhoi y càr o flaen y march; gwneuthur peth o chwith; gwneyd peth yn y gwrthwyneb.
Cart, *v. a.* certio, cartio, certwyno; cludo *neu* gario mewn cart.
Cartage, *s.* (o *cart*) cartiad, certiad, meniad, certwyniad; carttal, certtal, mendal.
Carte, *s.* (Ff.) cardsn; bwydreseb, bwydres tafarn.
Carte-blanche, *s.* (Ff.) gwenlen, rhyddammodeb; llawn awdurdod—papyr gwŷn wedi ei lofnodi, ac weithiau ei selio, gàn y blaid y defnyddir ef yn ei herbyn, gyda chaniatâd i'r blaid arall ei lenwi i fyny â'r ammodau à fyno.
Cartel, *s.* (Ff., Ysp., a Port.) newid-gynghrair, ammodau cyfnewid, newideb, gâl-ammodeb; cytundeb *neu* ammod i newid carcharorion: herlythyr, beiddlythyr; her, baidd.
Cartel-ship — newidlong; llong à ddefnyddir i newid carcharorion.
To settle the cartel—cytuno ar ammodau cyfnewid; sefydlu, penu, *neu* benodi newid-gynghrair.
Cartel,† *v. a.* herio, beiddio; rhoi her *neu* faidd.
Carter, *s.* (o *cart*) cartwr, certiwr, menwr, certwynwr; cerbydwr.

Cartilage, *s.* (Ff.; Ll. *cartilago*) madruddyn, madrudd, mwythan.
Cartilagination, *s.* (Ll. *cartilago* a *fio*) madruddiad, mwythaniad.
Cartilaginous, *a.* (o *cartilage*) madruddog, madruddaidd, madruddynog, madruddynaidd, mwythanog.
Cartoon, *s.* (It. *cartone*; Ysp., Al., a Ff. *carton*) cynddarlun, brasddarlun, rhagarfel, cynarfel, rhagbaentiad=cynllun ar bapyrlen dew i'w gymmeryd oddi arni i'w baentio mewn cymrwd ir ar bared.
The cartoons of Raffaelle *or* Raphael—rhagarfelion Raffael, cynddarluniau Raphael.
Cartouch, *s.* (Ff. *cartouche*) pelgist, pelgaes, pelgod, peledgaes, bwledgaes, ergydgist, ergydgaes; gaddeintwrn, manddeintwrn, taladdurn; eswyddeb, gollyngeb.
Cartridge, *s.* (llygriad o *cartouch*) ergydlwyth, ergydrol, ergydsypyn; ergyd.
Blank cartridge—pylorgod; ergydlwyth heb beledau; ergydsypyn o bylor.
Cartridge-box—ergydgaes, ergydgist, ergydgod, cist ergydlwyth, pylorgist.
Cartridge paper — papyr ergydion, caesbapyr.
Cartulary, *s.* (Ff. *cartulaire*) cofiyfr, cofionlyfr; cofionfa; cofionydd.
Carucate, } *s.* (Ll. *caruca*) gweddgyfar, ieu-
Carve, } gyfar=cymmaint o dir ag a ardda un wedd mewn blwyddyn.
Carum, *s.* (o *Caria*) garddwy, carddwy, carwas.
Caruncle, } *s.* (Ll. *caruncula*, o *caro*, cig)
Carunculus, } cigyn, difyn o gig; crib.
Caruncular, *a.* (Ll. *caruncula*) cigynaidd.
Carunculated, *a.* cigynog, cigoddfog.
Carus, *s.* (Gr. *caros*) hunwst, hunglwyf.
Carve, *v.* (S. *ceorfan, cearfan*; Is. *kerven*) cerfio, ysgythru, cerflunio, crifellu; trychu, trychnaddu, naddu; bwyttori, tori bwyd, rhanu bwyd; tori, difynio, dryllio, darnio; rhanu, cyfranu, tori allan, cynllunio; rhanu a dewis.
To carve out—tori allan, cynllunio, trefnu, llinellu, llinellu allan, llinynio allan.
To carve out one's own fortune—llunio ei dyngedfen, ei dynged, *neu* ei gyfiwr wrth ei fympwy ei hun; cael ei ddewisran; cynllunio ei ffawd ei hun.
That may be carved—cerfiadwy, ysgythradwy, hydrwch.
Carved work — cerfwaith, cerfiadwaith, cerfiad; cerfluniau.
Carving instrument — cerfiadyr, croper, cerfaing, cŷn cerfio, cŷn ysgythru, ysgythraing.
Carving knife — cyllell ddifynio, cyllell fwyttori.
Carvel, *s.* (Ysp. *caravella*) llyrddanadl, morddanad.
Carver, *s.* (o *carve*) cerfiwr, cerfiedydd, ysgythrwr, ysgythrydd, cerfluniwr, cerfyllwr, crifellwr; bwyttorwr, torwr bwyd, rhanwr bwyd; rhanwr, cyfranwr; cyllell ddifynio *neu* fwyttori; cyllell dori.
Carving, *s.* (o *carve*) cerfiad, ysgythrad, crifelliad; cerfiadaeth, cerfwaith, cerfiadwaith; cerfluniau; bwyttoriad, toriad bwyd, rhaniad bwyd.
Caryates, } *s. pl.* (Gr. *Caryatides*, o *Carua* yn
Caryatides, } y Peloponnesus) attegesau, attegesod, bunattegion, attegwys.

Caryatic, *a.* attegesol, bunattegol.
Caryatic order—y dull attegesol.
Caryatic figure—atteges, bunatteg, atteglun dynes.
Caryatid, *s.* atteges, bunatteg, atteglun dynes.
Caryocrinites, *s. pl.* (Gr. *caruon* a *crinon*) maenelestrod, maenelest.
Caryophylleous, } *a.* (Gr. *caruon* a *phullon*)
Caryophyllaceous, } cneuddeiliog, cneuddail.
Caryophyllic Acid, *s.* sur penigan rhuddgoch, sur clows.
Cascabel, *s.* (Ysp.; Port. *cascavel*) pwmpl cyflegr, olygnap magnel, cnap cyflegr.
Cascade, *s.* (Ff.; It. *cascata*) rhaiadr, rhaiadren, dyfrgwymp; eirwy : *pl.* rheieidr, rhaiadrau, eirw.
Case, *s.* (Ff. *caisse*) cod, gwain, amwisg, blwch, cist, cistan, cloer, caes, crud, caen, gorchudd, tudded, caeniad, hul, amlen, arlen, gwerchyr, prenfol, cloer.
Case of instruments—cistan offer; caes o gelfi; offergist, offergaes.
Book-case — llyfrgloer, llyfrgaes, cloer llyfrau.
Letter-case — llythyrgloer, llythyrgaes, llythyrgist, cloer llythyrenau; llythyrgod, cod llythyrau; llogellgod.
Outer case—amgaes, amgist, amgod, argaes, gorgaes, gordudded.
Upper case—y llythyrgloer uchaf, y cloer uchaf, y caes uchaf; prif lythyrenau.
Lower case—y llythyrgloer isaf, y cloer isaf, y caes isaf; llythyrenau mân, mân lythyrenau.
Case of a door—ystram drws.
Case, *v. a.* amwisgo, amlenu, gwisgo, gweinio, caesu, caenu, arhulio, caenenu; gosod mewn cloer *neu* gistan; blingo, digroeni.
Case, *s.* (Ll. *casus*; Ff. *cas*; It. *caso*) achos, cyflwr; peth, mater, pwnc; amgylchiad, dygwydd, dygwyddiad, ham, helynt, ystad, ansawdd, cyflwrw, modd; dadl, hawl; cwympod, treigl.
Case (in Grammar) cyflwr, achos, cwympod; treigl.
Case of a noun—cyflwr enw, achos enw, cwympod enw.
Nominative case—cyflwr enwadol, enwedigol, *neu* enwol; enwai, enwadydd; gosail, sylfon, testyn.
Possessive case—cyflwr *neu* achos meddiannol; cwympod meddiannol.
Genitive case—cyflwr genidol, achos genidol; achos genedigol, tarddiadol, *neu* ddeilliadol; cyflwr meddiannol.
Dative case—cyflwr *neu* achos rhoddiadol; cyflwr rhoddedigol, y rhoddai.
Accusative case—cyflwr cyhuddol, achos cyhuddiadol; y cyhuddai.
Objective case—cyflwr gwrthrychol, achos gwrthrychol; y gwrthrych; y gwrthrychai.
Ablative case—cyflwr *neu* achos gwrthodol; y gwrthodai.
Vocative case — cyflwr galwadol, achos galwedigol; y galwai.
Case absolute—cyflwr annibynol; cyflwr *neu* achos arbenig; yr annibynai.
Adnominal case—cyflwr adenwol, achos adenwadol.
Subnominal case—cyflwr goradenwol.
Neutral case—cyflwr canolig, achos canolig.
The nominative case to the verb—y gosail i berwyddiad; gosail *neu* sylfon berf.
In the nominative case—yn y cyflwr enwadol.
Case and declension—cyflwr a threigl.
Oblique case—cyflwr treigledig *neu* leddfedig; cyflwr treigl; pob cyflwr ond yr enwadol.
Without case—didreigl, heb gyflwr.
Of one case—untreigl.
Of two cases—deudreigl.
Of three cases—trithreigl.
Of many cases — amrydreigl; *pl.* amrydreigliaid.
Noun without case—enw didreigl, enw digyflwr.
Put in the same case—cyfachos.
In case—os, od, o; pe dygwyddai felly; a bod hyny yn bod; os dygwydda.
In the case of—yn achos, yn mhwnc, yn mater.
In any case—yn mhob rhyw fodd; yn mhob modd; yn hollol.
Thou shalt in any case bring them again—gàn ddwyn dwg hwynt drachefn (*Deut.* xxii. 1).
In good case—mewn cyflwr *neu* ansawdd da; mewn llwyddiant; mewn hawddfyd; mewn pwynt da; gwedi pwyntio.
In evil case—mewn cyflwr *neu* ansawdd drwg; mewn drwg ddamwaen *neu* gyflwr; mewn aflwydd, trychineb, *neu* anghyflwr.
In that case—yn yr achos *neu* y cyflwr hwnw; a bod y peth felly; a bod y mater felly.
The case is not the same—nid yr un peth ydyw.
So the case stands—fel hyn mae y peth yn sefyll.
It is a plain case—mater eglur ydyw.
In no case—nid mewn un modd; nid ar neb rhyw achos.
Thou shalt in no case do it—na wna ef mewn un modd; na wna ef ar un cyfrif; na wna mo hono ar unrhyw gyfrif.
A case already decided—dadl *neu* hawl farnedig; hawl benod; cyfraith.
Is it all a case?—ai yr un peth ydyw?
It is a tried case—hawl farnedig ydyw; pwnc sefydlog yw; mater terfynedig ydyw.
If the case be so—os felly y mae yr achos (*Mat.* xix. 10).
It is a very hard case that I should suffer—y mae yn galed iawn i mi ddyoddef.
The case is altered—dadl arall yw hòno; mater arall ydyw hwnw.
I pity your case—yr wyf yn gresynu wrth eich cyflwr; y mae yn resyn genyf drosoch.
Were my case yours—pe baech chwi yn fy nghyflwr i; petaech chwi yn fy lle i.
If such is the case—os felly mae; os felly y mae yn bod; os ydyw felly; os yw y peth felly.
Put the case—gadwch, gadëwch, gedwch, bwriwch, caniatëwch, meddyliwch, cyfrifwch, gosodwch, tybiwch, bid, boed, bydded; pe rhon a; caniatäer.
Put the case it be so—gadwch *neu* gadëwch i hyny fod; bid felly, bydded felly.

bœd felly, poed felly; gadwch iddi fod felly; pe rhon a bod y peth felly; a chaniatäu hyny; caniatäer ei bod fel hyny.

Put the case the entrance were narrow—bwrw fod mynediad cyfyng i mewn iddo (2 *Esd.* vii. 4).

A case of conscience—achos, mater, *neu* ddadl cydwybod; ammheuaeth cydwybod.

To argue the case—rhesymu, ymresymu, dadlu, dadleu, ymddadleu, argymhenu; rhesymu *neu* ddadleu y pwnc.

Case,† *v. n.* dwyn achosion yn mlaen.

Caseate, *s.* (Ff. o'r Ll. *caseus*) cawsaint: *pl.* cawshalion.

Caseation, *s.* (Ff. o'r Ll. *caseus*) cawsiad, cawseiddiad.

Case-harden, *v. a.* durgaledu; durfingio.

Case-hardened, *a.* durgaled; durfing.

Case-hardening, *s.* durgalediad; durfingiad.

Caseic, *a.* (Ll. *caseus*) cawsig.

Caseic acid—sur cawsig, sur caws.

Caseine, *s.* (Ll. *caseus*) cawsain, cawsnur, cawsed.

Caseknife, *s.* (*case* a *knife*) cyllell gegin, cyllell cegin, caesgyllell, cyllell gaes, cyllell wain.

Casemate, *s.* (Ff.) ceuglawdd; daiargell fydedig.

Casmated, *a.* ceugloddiog; daiargellog.

Casement, *s.* (It. *casamento*) rhwyll, rhwyll ffenestr, ffenestrwyll; ffenestr yn cau ac agor; colofrwyll; rhwyll-addurn.

I looked through my casement—edrychais drwy fy nellt (*Diar.* vii. 6).

Caseous, *a.* (Ll. *caseus*) cawsaidd, cawsiog.

Casern, *s.* (Ff. *caserne;* Ysp. *caserna*) llulystyn, cadlystyn, llystyn milwyr; llystyn.

Case-shot, *s.* codbelau, caesbelau.

Case-worm, *s.* caesbryf, caesbryfyn, caesbwr, hulbryfyn, caenbryf, pryf y gwellt, gwelltbryfyn, pryf ysgoed.

Cash, *s.* (Ff. *caisse*) arian, arian parod, arian bath, arian bathol, mwnai.

To pay in cash—talu yn arian; talu mewn neu âg arian; ariandalu.

Ready cash—arian parod; arian ar law.

Cash, *v. a.* ariandalu; troi yn arian; newid yn neu mewn arian; talu arian am; mwneio, arianu; talu.

To cash a bill—talu dyleb, ariandalu dyleb; arian *neu* fwneio dyl *neu* ddyleb; talu dyleb mewn arian; talu gofyn; troi yn arian.

Cash,† *v. a.*=*Cashier, v. a.*

Cash, *s.* darn bath yn China, ac India alltra'r Ganges.

Cash-account, *s.* cyfrif arian; arian-gyfrif.

Cash-book, *s.* coflyfr arian, llyfr arian, llyfr yr arian, arianlyfr, mwneilyfr.

Cashier, *s.* (Ff. *caissier*) ceidwad arian, arianawdr, mwneiwr; talwr, talawdr.

Cashier, *v. a.* (Ff. *casser*) diswyddo, difreintio, difreinio, dïawdurdodi; diraddio; bwrw, troi, neu dafiu o'i neu allan o'i le; troi allan o swydd; troi ymaith, gwrthod; diddymu, dilëu.

Cashierer, *s.* (*o cashier*) diswyddwr, difreintiwr, diraddiwr, bwriwr allan.

Cash-keeper, *s.* ceidwad arian, arian-geidwad.

Cashmere, *s.* (=gwlad yn Asia) gwarlen; gwarlen Cashmer.

Casing, *s.* (o *case*) gorchudd, amdudd, amdudded, caes, tudded; gorchuddiad, toad, amdoad, caesiad, caeniad, caeswaith, rhithfeinwaith: *pl.* gleiaid, gleiadau.

Casino, *s.* (It.) gwlatty bychan, cotty.

Cask, Casque, *s.* = *Casque. Cask.*

Cask, *s.* (Ysp. a Port *casco*) baril, casg, casgen, barilan.

A small cask — barilan, baril fechan, casgen fechan.

The head of a cask—talcen baril; astellan pen baril.

To head a cask—talcenu baril *neu* gasgen; gwaelodi llestr pengauad.

Tasting of the cask—yn sawru o'r llestr; â blas y llestr arno; â blas *neu* sawr y faril arno.

Casket, *s.* (bychanig o *cask*) cistan, cisten, llawgist, llogellan, blychyn, cilior, ysgrin; gemfiwch, tlysgistan, creirell, gemgist.

Locked up within the casket of thy breast—à roed i'w gelu yn dy galon.

Casket, *v. a.* cistanu, cistenu; rhoi mewn cistan.

Casket, Gasket, *s.* (Ysp. *caxeta*) plethreffyn, plethrwy.

Casque, Cask, *s.* (Ff. *casque;* Ll. *cassis*) penial, helm, penffestin, penor, penddarn, penwisg ddur.

Cask-shaped — penialaidd, helmaidd; ar ddull helm *neu* benffestin.

Cass,† *v. a.* (Ff. *casser*) diddymu; diffoddi; maeddu.

Cassada, Cassado, Cassava, *s.* math o blanigion tramor; paill y cyfryw blanigion.

Cassate,† *v. a.* (Ff. *casser*) gwaghau, diddymu, dirymu, gwanhau.

Cassation, *s.* (Ff.) diddymiad, dirymiad, dilead; dadfarn, adfarn, adfarniad, dadfarniad.

Court of cassation — llys dadfarn (yn Ffrainc).

Cassia, *s.* (Gr., Ll., ac It.; Ff. *casse*) cassia, casia=math o blanigion, ac hefyd yr olew perarogl à geir onaddynt.

Cassia pulp—bywyn cassia.

Cassideous, *a.* (Ll. *cassis, cassida*) penialaidd, helmaidd, penoraidd; ar lun penffestin *neu* benial.

Cassidea, *s. pl.* (Ll. *cassida*) penialogion.

Cassidony, *s.* (Ff. *cassidoine*) edafeddog; llafan Ffreinig; math o ddelidfaen.

Cassimere, *s.* (Ysp. *casimira*) eisfrethyn, eisnwydd, meinfrethyn.

Cassino, *s.* (It. *casino*) chwareu ar gardiau.

Cassiopeia, *s.* (Gr.) Llys Don=cydser yn yr arddrych ogleddol, yn cynnwys 55 seren.

Cassis, *s.* (Ll.) penialfaen, penorfaen, helmfaen.

Cassiteria, *s.* (Ll. *cassiteron*) canrisial, cangrisial.

Cassock, *s.* (Ysp. *casaca;* It. *casacca;* Ff. *casaque*) casul, toryn; gwisg offeiriad, iswisg offeiriad, crysbais offeiriad.

Cassocked, *a.* (o *cassock*) casulog, torynog; yn gwisgo casul.

Cassonade, *s.* (Ff.) sugr barilau, sugr casg, sugr anmhur.

Cassoon, *s.* (It. *cassone*) cwarel dwfn; dyfnrigol.

Cassowary, *s.* (Ysp. *casuel*) math o aderyn mawr o deulu yr Estrys.

Cast, *v. a.* (D. *kaster ;* Sw. *kasta*) bwrw, taflu, tawlu, ergydio, lluchio ; saethu ; toddi, toddlunio, dynëu, gorddynëu, rhedeg ; cyfrif, cyfrifo, sumgyfrif ; barnu, bwrw barn ; collfarnu, dyfarnu, bwrw yn euog, barnu yn euog, euogfarnu ; llunio, cynllunio, dychymygu, dychymyg, dyfeisio, llyfelu, dyfalu ; gwrthod ; gorchfygu, trechu ; gorbwyso ; bwrw yn mlaen ; gwyro ; codi.

To cast about—amdaflu ; amsaethu ; amdywallt ; amfwrw ; bwrw *neu* daflu o amgylch ; dyfeisio, cynllunio ; troi o gylch.

To cast one's eyes all about—amdremu, amdremio, amsyllu ; edrych o amgylch ; edrych yn ei gylch.

To cast all abroad—gwasgaru, gwasgar, taenu, amdaenu, lledaenu, taenellu, heu, hau, chwalu ; bwrw *neu* daflu ar led.

To cast accounts—cyfrif, bwrw cyfrifon, bwrw cyfrif, cyfrifo, rhifo.

To cast again—adfwrw, eilfwrw, eildaflu, ail fwrw, ail daflu.

To cast against—bwrw *neu* daflu yn erbyn ; edliw i ; cyfedliw i ; edliwio *neu* edliwied i ; dannod i ; lliwied i.

To cast along—taflu *neu* fwrw i lawr ; bwrw o'i hyd gyhyd ar y llawr ; rhoi i orwedd ; rhoi yn ei orwedd ; taflu o hyd gyhyd ; dymchwelyd.

To cast anchor—angori, bwrw angor, heori.

To cast aside, } taflu ymaith ; bwrw ymaith ;
To cast away, } taflu *neu* fwrw heibio ; gwrthod, gwrthodi, llysu ; ymwrthod â ; diystyru, dibrisio, dirmygu ; troi ymaith ; gwastraffu ; chwalu ymaith.

To cast at—bwrw at, taflu at, ergydio at ; lluchio at.

To cast away one's self—taflu *neu* fwrw ei hun ymaith ; dinystrio *neu* ddyfetha ei hun ; dibrisio ei hun.

To cast away care—bwrw *neu* yru ymaith ofalon ; anghofio ei ofid ; gyru *neu* fwrw ymaith dristwch ; gyru gofal ymaith ; gyru gofal byd ar dawl ; ymgysuro, ymloni ; codi, cysuro, *neu* loni calon.

To cast away wastefully—gwastraffu, afradu, afradloni, gwario ; treulio *neu* wario yn anghymmedrol ; trathreulio, oferdreulio ; difa, dyfetha, difrodi, ysu, gormesu.

To be cast away—bod wedi ei fwrw ymaith, &c. : cael llongddrylliad.

To cast awry—gwyro, agwyro, addwyro, lledbeio, lleddfu, goleddfu, osgöi.

To cast back—bwrw *neu* daflu yn ol ; bwrw i'r tu cefn.

To cast back one's eyes—edrych yn ol *neu* yn ei ol ; bwrw golwg yn ol ; gwrthedrych, gwrthdremu ; ystyried, ystyrio, synied.

To cast before — rhagfwrw, rhagdaflu ; bwrw *neu* daflu yn mlaen ; rhoi, bwrw, *neu* daflu ger bron ; taflu *neu* fwrw o flaen.

To cast behind the back—bwrw *neu* daflu drach cefn ; bwrw *neu* daflu o'r tu cefn ; bwrw y tu ol i'r cefn.

To cast between—bwrw, taflu, *neu* osod rhwng.

To cast by—gwrthod, llysu ; bwrw heibio ; taflu o'r neilltu ; diswyddo.

To cast the coat, } bwrw ei hen flew ; bwrw
To cast the skin, } henflew ; bwrw ei groen *neu* ei chroen.

To cast darts—taflu, bwrw, *neu* luchio picellau ; taflu gaflachau ; picellu ; bwrw *neu* ergydio saethau.

To cast down—taflu, bwrw, *neu* droi i lawr ; dystrywio, dinystrio ; gwthio i lawr ; dymchwelyd, ymchwelyd, gorthrechu, maeddu, gostwng, darostwng, cwympo, disgyn, iselu ; ymollwng.

To be cast down—ymollwng, llaesu, digaloni, llyfrhau, ymlaesu ; bod yn ddigalon.

To cast down headlong—bwrw *neu* daflu bendramwnwgl ; taflu i lawr ben dra mwnwgl ; bwrw i lawr ben dra mwnwg ; taflu i lawr yn wysg *neu* yn llwrw ei ben ; torfynyglu.

To cast down under foot—taflu *neu* fwrw i lawr dàn draed ; mathru, sathru, damsang, dansang, gwasarnu, maesyng. mysangu ; sathru *neu* fathru dàn draed.

To cast a figure—dewinio, brudio, *neu* ddarogan oddi wrth gyfluniad y planedau ; rhagddywedyd *neu* ddewinio wrth y planedau ; serddewinio.

To cast forth—taflu, bwrw, *neu* yru allan ; saethu *neu* luchio allan ; anfon *neu* roddi allan ; anadlu *neu* darthu allan.

To cast forth beams—pelydru, paladru, tywynu, llewyrchu, llathru ; pelydru fel yr haul ; bwrw *neu* daflu allan belydr.

To cast forth a breath—anadlu allan ; gwehyn anadlu ; bwrw allan darth *neu* fygdarth ; tarthu, anadlu.

To cast *or* hawk forth—hochi ; poeri allan, bwrw allan ; taflu ; bwrw *neu* daflu i fyny ; pesychboeri.

To cast in—bwrw i mewn ; bwrw i fewn ; ergydio *neu* saethu i mewn ; tywallt, arllwys, *neu* roi i mewn.

To cast in the teeth—bwrw i ddannedd ; bwrw yn nannedd ; taflu i ddannedd ; taflu yn nannedd ; edliw, edliwio ; edliwied i ; lliwied i ; cyfedliw i ; dannod ; ymliw *neu* ymliwied â *neu* âg.

To cast into—bwrw *neu* daflu i ; tywallt i ; gyru i ; rhoddi i ; bwrw yn.

To cast into a sleep — rhoddi i gysgu ; rhoddi yn nghwsg ; peri cwsg *neu* drymgwsg.

To cast into prison — bwrw i garchar ; taflu i garchar ; bwrw *neu* daflu yn ngharchar ; rhoddi mewn carchar ; rhoi yn ngharchar ; carcharu.

To cast a light—taflu *neu* fwrw goleuni ; taflu *neu* fwrw goleu ; rhoi goleu *neu* oleuni ; goleuo.

To cast lots—bwrw coelbreni *neu* goelbrenau ; bwrw cytysau ; tynu cwtws *neu* gytysau ; tynu blewyn cwta.

To cast a lustre upon—taflu dysgleirdeb *neu* ddysgleirder ar ; peri dysgleirio ; peri dysgleirdeb ar ; taenu dysgleirdeb dros.

To cast metals — bwrw, toddi, rhedeg, dynëu, *neu* orddynëu metteloedd.

To cast a mist over one's eyes—taflu *neu* fwrw niwl ar lygaid un ; bwrw hud o flaen llygaid un ; gosod lledrith o flaen llygaid

un; caddugo *neu* dywyllu llygaid un; twyllo, somi.

To celebrate the Sacrament—gweini, gweinyddu, *neu* wasanaethu y Cymun.
To celebrate divine service—cadw *neu* gynnal gwasanaeth dwyfol; darllen gwasanaeth; darllen y gwasanaeth; gweinidogaethu.
To celebrate praise—cyhoeddi, dadgan, gweini, *neu* weinyddu mawl; dathlu, clodfori, &c.
To celebrate the Sabbath—cadw y Sabbath.
Celebrated, *a.* (Ll. *celebratus*) enwog, clodfawr, hyglod, clodforus, canmoledig, clodforedig, clodwiw, gwiwglod, clodlawn, dathl, dathledig, nodedig, hynod, canmoladwy, hyson; hybarchus, parchus, anrhydeddus; â gair mawr iddo; â son mawr am dano; cynnaliedig; â gynnaliwyd, â gadwyd, &c.
Celebration, *s.* (Ll. *celebratio*) dathlad, dathliad; cadwad, cynnaliad, cyfargofiad; gweinyddiad; gweinidogaeth; clodforiad, molawd, moliannad, mawrygiad, canmoliad; mawl, clod, clodforedd, moliant; bri, enwogrwydd; anrhydedd.
Celebrator, *s.* (Ll.) dathlwr, dathlydd, &c.
Celebrious, *a.* (Ll. *celebris*) clodfawr, enwog, dathl, clodlawn, clodforus, clodol, clodog, clodus, clodiwiw, gwiwglod, clodfan, hynod, nodedig, hyson, honaid.
Celebriousness, *s.* (o *celebrious*) enwogrwydd, clodforedd, &c.
Celebrity, *s.* (Ll. *celebritas*) enwogrwydd, clodforedd, hynodrwydd, hyglodedd, clodforusrwydd, clodiaeth, dathledd, clodusrwydd,

clod, bri; clod ac enw, gair mawr, son mawr.

Celeriac, *s.* (o *celery*) meip-helogan, helogan feip-wraidd.

Celerity, *s.* (Ll. *celeritas*) buander, buandra, cyflymder, cyflymdra, cyflymedd, buanedd, buanrwydd, mythder, ffysgedd, chwimmythder, ffull, brys, cud.

Celery, *s.* (Ff. *celeri*; Al. *sellerie*) helogan, perllys yr hel, mers.

Wild celery — perllys y morfa, helogan wyllt.

Red celery—helogan goch.

White celery—helogan wèn.

Celestial, *a.* (Ll. *cœlestis, cœlestis*) nefol, nefolain, nefolaidd, nefolig, nefolus; nwyfreawl.

Celestial world—y byd nefol, nefolfyd.

Celestial globe — sergronen, nef-gronen, nen-glob, nen-gronen, nen-gronell, nefen.

The twelve celestial signs — deuddeg arwydd y ffurfafen; y deuddeg arwydd nefol, nenol, *neu* wybrenol.

Celestial, *s.* nefolydd, nefolur, nef-anneddwr, nef-drigydd, nef-drigiannydd, preswylydd nef: *pl.* nefolion, nefoliaid, nefiaid.

Celestialize, *v. a.* (o *celestial*) nefoli, nefoliannu, nefoleiddio.

Celestify,† *v. a.* (Ll. *cœlestis* a *fio*) nefoliannu, nefoli, nefoluso.

Celestin, Celestine, } *s.* (Ll. *cœlestis*) nefolin, nenfwnid, nefliwfaen, golasfwn.

Celiac, *a.* (Ll. *cœliacus*; Gr. *coiliacos*) bolaidd, bolyol, bolaol, rhumenol, ceudodol; coluddol, perfeddol; perthynol i'r bol.

Celibacy, Celibate, } *s.* (Ll. *cœlibatus*, o *cœlebs*) anweddogaeth, gwyryddiaeth, gwyryfiaeth, annyweddïaeth, gweddwdod, unigrwydd; buchedd anweddog, unig, *neu* anmhriod.

Celidography, *s.* (Gr. *cêlidoô* a *graphô*) brychuaeth, ysmotiaeth=darluniad o'r ysmotiau ar wyneb yr haul neu blaned.

Celine, *a.* (o'r Gr. *coilia*) bolaidd, bolaol; perthynol i'r bol.

Cell, *s.* (Ll. *cella*) cell, cuddigl, cafell, celfa, dirgelfa; ystlysgell; caf, ogof; bwth, bwthyn; cau; coden; hadgell.

Cell of a hermit—cuddigl, cell, *neu* ogof meudwy.

Adipose cells—brasgelloedd, brasgeuoedd, brasgodau.

Cell of a honeycomb—melgorn, melgell, melgod.

Cella, *s.* (Ll.) tu mewn teml.

Cellar, *s.* (Ll. *cellarium*; Al. *keller*) seiler, syler, diodgell, gwirodgell, trull, trullfa; cell.

Cellarage, *s.* (o *cellar*) seilerfa, seilergell, cellfa, cellfan, trullfan; seiler, seileri; seilerdal, trulldal.

Cellaret, *s.* (o *cellar*) potelgell.

Cellariæ, Cellaridæ, } *s. pl.* (Ll. *cellarium*) cellogolion, cellfywiaid.

Cellarist, Cellarer, } *s.* (o *cellar*) seilerydd, trulliad, trulliwr, ceidwad syler, ceidwad bwyd.

Celliferous, *a.* (Ll. *cella* a *fero*) cellddwyn, cellddygol, cellog.

Cellular, *a.* (Ll. *cellula*) cellog, mân-gellog, tyllog, cellanog, mân-dyllog, ceuol.

Cellular tissue—cellogwe, tyllogwe, bywynwe gellog, cubwe.

Cellular, *s.* celloglys.

Cellulares, *s. pl.* (Ll. *cellula*) celligolion, anghibogion, anhadgellogion, celweddogion.

Cellularia, *s. pl.* (Ll. *cellula*) cellogorion, cellwylar.

Cellulated, *a.* cellog, cellogol, llawn celloedd.

Cellule, *s.* (Ll. *cellula*) cellan, cellen, cell fechan.

Celluliferous, *a.* (Ll. *cellula* a *fero*) cellanddwyn, cellweog, cellanog.

Celosia, *s.* (Gr. *cêloô*) cribammor.

Celotomy, *s.* (Ff. *celotomie*, o'r Gr. *cêlê* a *tomê*) torgesttrwch, torgesttrychiad.

Celsitude, *s.* (Ll. *celsitudo*) uchder, uchelder, ucheledd, uchedd.

Cement, *s.* (Ll. *cæmentum*; Ff. *ciment*) glygymrwd, gludgymrwd, asgymrwd, cymrwd, cynglud, cydlud; ysgroling, asgroling, asglawring, ysgrawling, gly, syth; cydiad, undeb, rhwymyn undeb.

Water cement, Roman cement, } gwy-gymrwd, gwy-gynglud, glygymrwd dwr.

Cement, *v. a.* glygymrydu, asgymrydu, gludgymrydu, cymrydu; cydludio, cyngludio, ysgrolingo; cydio, uno, cydlynu; gludio yn nghyd.

Cementation, *s.* (o *cement*) cyngludiad, cydludiad, cydlyniad, ysgrolingad; cyssylltiad, cydiad, cynghydiad.

Cementatory, Cementitious, } *a.* (o *cement*) cyngludiol, cydludiol, cydlynol, gludiol, ysgrolingol, unoliadol, cyghydiol.

Cementer, *s.* (o *cement*) cyngludydd, cydludydd, cydludiwr, ysgrolingydd, cydiedydd, asiwr.

Cemetery, *s.* (Ll. *cœmeterium*; Gr. *coimêtêrion*) claddfa, monwent, mynwent, anglawdd, beddrodfa, corffian, beddle, beddfan, beddlan, beddrawd; hunfa y meirw.

Cenatory, *a.* (Ll. *cœnatorius*) cwynosol, swperol, hwyrbrydiol.

Cenobite, *s.* (Gr. *coinobiotês*) brodorog, cyfrodor, brodor, cyfeinnwr: *pl.* brodorogion.

Cenobitic, Cenobitical, } *a.* (o *cenobite*) brodoriol, cyfrodorol, cyfeinniol, cymrodogol, cyttrigiannol, cymdeithasol.

Cenoby, *s.* brodorfa, brodordyn, brodordy.

Cenotaph, *s.* (Gr. *cenotaphion*) ceufeddrod, gwagfeddrod, ceufeddgor, gwagfedd, ceufedd.

Cense, *s.* (Ll. *census*) treth, trethiad; gradd, cyflwr.

Cense, *v. a.* (Ff. *encenser*) arogldarthu, mygdarthu, perdarthu, addoldarthu.

Censer, *s.* (Ff. *encensoir*) thuser, padell dân, peroglyr, crombadell.

Golden censer—thuser aur.

Cension, *s.* (Ll. *censio*) treth, trethiad, ardrethiad.

Censor, *s.* (Ll.) senodur, seniadur, senor, sudiadur, diwygiadur, beirniad; senwr, beiwr, beiadur, cyhuddwr, hyfeiwr.

Censor of the press — senodur y wasg; beirniad y wasg, seniadur y wasg.

Censorial, Censorian, } *a.* (o *censor*) senodurol, sudiadurol, seniaduraidd; beiadurol, hyfeiol, hyfarn.

Censorious, *a.* (Ll. *censorius*) hyfeiol, hyfarn, hyfai, cyhuddgar, sengar, beigar, hygabl, hyfeiol, ceryddgar, goganus, caledfarn, enllibus; beiol, ceryddol, senol, senedigol; hoff o feio.

Censorious person—hyfeiwr, hyfarnwr.

Censoriousness, *s.* (o *censorious*) cyhuddgarwch, ceryddgarwch, senoldeb, senolder, hyfeigarwch, sengarwch, hyfeioldeb, hyfeiedd, beigarwch, hygabledd, &c.
Censorlike, *a.* (*censor* a *like*)=*Censorious.*
Censorship, *s.* (o *censor*) senoduriaeth, senoriaeth, seniaduriaeth, seniadaeth, barnoriaeth, beirniadaeth; senwriaeth, cyhuddiadaeth; beiaduriaeth; swydd senodur.
Censual, *a.* (Ll. *censualis*) cofrifiadol, cofrifol, niferiadol.
Censurable, *a.* (o *censure*) beius, ceryddadwy, ceryddus, beiadwy; i'w feio, i'w geryddu; ceryddwiw; hygwl, camgylus, beiol.
Censurableness, *s.* beiusrwydd, beiusdod, beiusder, beioldeb, ceryddusrwydd, beiolrwydd, hygyledd, cylusrwydd.
Censure, *s.* (Ff.; Ll. *censura*) sen, cerydd; bai, gwŷd, sard, cwl, argywedd; barn, dedfryd, bwriad barn; beiad, sennwd.
The best cannot escape censure—ni all y goreu ddïanc heb eu barn *neu* eu bai; ni eill y goreu ddïanc heb gael eu beio; ni ddïanc y goreu yn ddisen, heb sen, *neu* heb eu beio.
Hard censure—barn galed.
To deserve censure—haeddu cerydd *neu* sen.
The censure of the vulgar—enllib y werin; sen *neu* feiad y werinos.
This action met with various censures—y weithred hon a feiwyd gàn rai yn fwy, a chàn rai yn llai; bu gwahanol farnu a beio ar y weithred hon.
Addicted to censure=*Censorious.*
He exposed himself to the censure of the whole world—efe a dynodd arno ei hun gerydd yr holl fyd; tynodd arno ei hun sard a sen yr holl fyd.
Censure, *v. a.* beio, senu, ceryddu, sardio, cablu, cylu; rhedeg ar; beio ar; lladd ar; dedfrydu, barnu, dyfarnu; rhoi sen *neu* gerydd; † cyfrif, prisio.
Censurer, *s.* (o *censure*) beiwr, senwr, ceryddwr.
Censuring, *s.* beiad, seniad, senawd, ceryddiad; bai, gwaradwydd.
Census, *s.* (Ll.) cofrifiad, niferiad, cofrifeb, sudrifiad, deiliadeb; cyfrif, cyfrifad.
Cent, *s.* (Ll. *centum*; Ff. *cent*) cant; *pl.* cannoedd, cantoedd.
Five per cent.—pump y cant; pump yn y cant; pum punt y cant.
Cent, *s.* dimai America=y ganfed ran o ddoler.
Centage, *s.* (o *cent*) canttal, canttoll, y cant, cantedd; dogn yn ol y cant; dognedd wrth y cant.
Per-centage—yn ol y cant; wrth y cant; canttal, canttoll, cantedd, y cant.
Centaur, *s.* (Ll. *centaurus*; Gr. *centauros*) Centawr, Centaur, dynfarch=anghenfil dychymygol, hanner dyn a hanner march.
Centaur, } y Saethydd, y Centawr=rhan o
Centaurus, } gydser deheuol, yn cynnwys 35 seren.
Centaurize, *v. n.* (o *centaur*) Centawreiddio, Centoreiddio, Centorio, dynfarchu.
Centaurlike, *a.* Centawraidd, Centoraidd; fel Centawr; tebyg i ddynfarch.
Centaury, *s.* (Ll. *centaurea*; Gr. *centaureon*) canri, arlladlys, bustl y ddaiar.
Common centaury — canri goch, ysgol Fair, ysgol Crist, bustl y ddaiar, llysiau y bleurwg.
Yellow centaury—canri felen.
Dwarf tufted centaury—canri goch arfor.
Lesser centaury—canri leiaf.
Marsh centaury—canri y gors, arlladlys y gors.
Centenarian, *s.* (Ll. *centenarius*) canmlwyddwr, canmlwyddog, un canmlwydd oed.
Centenary, *s.* (Ll. *centenarius*) canmlwyddiant, canrifiant; canrif, cantrif, cant.
Centenary, *a.* canrifol, canrifiannol, cannawl; perthynol i gant.
Centennial, *a.* (Ll. *centum* ac *annus*) canmlwyddol, canmlyneddol; bob càn mlynedd; unwaith bob càn mlwydd.
Centering, *s.* (o *center*) creiddiad; ystramwaith, cynnalgoed.
Centesimal, *a.* (Ll. *centesimus*) canfed, canfedol, canranol, cantranol, canfedranol, y canfed, y ganfed.
Centesimal, *s.* canran, cantran, canfedran.
Centesimation, *s.* (Ll. *centesimus*) canfediant, canfediad, cantraniad; dïenyddiad un o bob cant.
Centesm, *s.* (Ll. *centesimus*) canran, cantran.
Centicipitous, *a.* (Ll. *centum* a *caput*) canpen, canpenog; â chàn pen iddo.
Centifidous, *a.* (Ll. *centum* a *findo*) canholltog, canranog, cantranog, candrylliog, candryll, cantwn.
Centifolious, *a.* (Ll. *centum* a *folium*) cannalenog, candalenog, cannalen, candalen.
Centigrade, *a.* (Ll. *centum* a *gradus*) canraddog, cantraddog, cantraddol.
Centigrade thermometer — y gwresfynag cantraddog.
Centigrade, *s.* cantraddog, canraddog, canraddyr=gwresfynag cantraddog And. Celsius, o Upsal.
Centigram, } *s.* (Ll. *centum*, a Ff. *gramme*,
Centigramme, } mesur yn Ffrainc) canfedram =y ganfed ran o'r *gram.*
Centiliter, } *s.* (Ll. *centum*, a Ff. *litre* neu
Centilitre, } *litron*) cantlitron, canfedlitron= y ganfed ran o'r *litron.*
Centiloquy, *s.* (Ll. *centum* a *loquor*) ymadrodd canplyg, cantarawd.
Centimeter, } *s.* (Ll. *centum*, a Gr. *metron*)
Centimetre, } canfesur, canfydrai = mesur Ffrengig, yn nghylch pedair rhan o ddeuddeg o fodfedd.
Centinody,† *s.* (Ll. *centinodia*)=*Knotgrass.*
Centiped, } *s.* (Ll. *centipeda*) canttroed, can-
Centipede, } troed, cantroedyn, cantroetyn, pryf cantroed, canped, canpedog.
Centner, *s.* (Ll. *centenarius*) delgantran, delgant.
Cento, *s.* (Ll.) cynnullgan, clytgan, amrywgan, amrygan; pryddest à gasglwyd o wahanol awdwyr.
Central, *a.* (Ll. *centralis*) canolog, canolaidd, canol, creiddiol, canolbarthol, cymherfeddol, canolbwyntiol, canolbarthig, canolbarthaidd; perthynol i'r canolbwynt; yn y canol; ar y canol; perfedd, perfeddol.
Central Asia—canol Asia, Asia ganol.
Central forces—creiddalluoedd, galluoedd canolog, galluoedd canol, medalluoedd, canolrymoedd.
Central point—pwynt perfedd *neu* greiddiol; pryffwnt, canolbwynt.

Centrality, *s.* (o *central*) canologrwydd, canoledd, cymherfeddoldeb.

Centralization, *s.* (o *centralize*) canoliad, canoleiddiad, cymherfeddiad, canolbwyntiad; canoldyniad, canolduedd.

Centralize, *v. a.* (o *central*) creiddio, canoli, canologi, canolbwyntio, cymherfeddu; canoldynu.

Centrally, *ad.* (o *central*) yn y canol; yn ganolog, &c.

Centre, } *s.* (Ll. *centrum*; Gr. *centron*) canol,
Center, } y canol, craidd, canolbwynt, canolbarth, canolbwnc, alafon, cymherfedd, canolfan, pryffwnt, cnewullyn, pwynt perfedd, rhidd, med, ces.

Centre of attraction—craidd cyrch, craidd y cyrch, craidd attyniad, craidd tyniad.

Centre of gravity—craidd dysgyrchiad, craidd dysgyrchiant, craidd dymgyrch.

Centre, } *v.* canoli, creiddio, canolbwyntio,
Center, } cymherfeddu; cydgyfarfod; gorphwys ar; cyfeirio, terfynu; cyfarfod yn y canolbwynt.

Their designs centred in peace—at heddwch yr oedd eu hamcanion yn tueddu neu yn cyfeirio.

Centric, } *a.* (o *centre*) creiddig, creiddiol,
Centrical, } canolaidd, cymherfeddol, canolbarthol, cymherfedd, perfeddol.

Centric and eccentric — creiddig ac echreiddig, creiddig ac esgreiddig.

Centricalness, *s.* creiddiolrwydd, creiddioldeb, creiddigrwydd, canolrwydd, canoldeb.

Centrifugal, *a.* (Ll. *centrum* a *fugio*) canolffo, canolffoawl, creiddffoawl, esgreiddiol, canolochel.

Centrifugal force—gallu canolffo, grym creiddffoawl; y gallu sy'n ffoi, tynu, neu yru oddi wrth y canolbwynt.

Centripetal, *a.* (Ll. *centrum* a *peto*) canolgyrch, canolgais, creiddgeisiol, canolgyrchol, creiddgyrch.

Centripetal force—y gallu canolgyrch, y grym canolgais; y gallu sy'n tynu tuag at y canolbwynt.

Centrolineal, *s.* (Ll. *centrum* a *linea*) creiddlinellyr.

Centumviral, *a.* (Ll. *centumviralis*) canbarnorol, cantwyriadol; perthynol i'r Canbarnwr.

Centumvirate, *s.* (o *centumviri*) cantwyriaeth, canbarnwriaeth, canbarnoriaeth.

Centumviri, } *s. pl.* (Ll. *centumviri*) y Can-
Centumvirs, } barnwr (yn Rhufain gynt); y Cantwyriaid, y Canbarnoriaid.

Centunculus, *s.* (Ll.) brilys, bril-lys.

Centuple, *a.* (Ff. o'r Ll. *centuplex*) canplyg, canmhlyg, cannyblyg, cantro; càn cymmaint; ar ei ganfed.

Centuple, } *v. a.* canplygu, canmhlygu,
Centuplicate, } cannyblygu; lluosi ganwaith neu gantro; canfedu.

Centurial, *a.* (o *century*) canrifol; can mlwyddol, canmlyneddol.

Centuriate, *v. a.* (Ll. *centurio*) cantranu, canranu, canbarthu; rhanu yn gannoedd.

Centuriator, } *s.* (Ff. *centuriateur*, o'r Ll. *cent-*
Centurist, } *uria*) canrifydd, canrifwr, canrifadur, canrifiad, canrifiedydd, oeshanesydd; hanesydd à rano ei hanes i ganrifau.

Centurion, *s.* (Ll. *centurio*) canwriad; pen ar gant.

Century, *s.* (Ll. *centuria*) canrif, (*pl. t.* au, oedd), càn mlynedd, canmlwydd; cant; oes.

The first century—y canrif cyntaf.

By centuries—yn gannoedd; wrth y cannoedd; yn ganrifau.

Cepa, *s.* (Ll.) wynwyn.

Cephalalgic, *a.* (o *cephalalgy*) perthynol i ddolur pen; penboenus, penystog, pen-guriog.

Cephalalgy, *s.* (Gr. *cephalalgia*) dolur pen, cur pen, gwaew pen, penwst, dolur y pen, penboen, pen-gur, penwaew.

Cephalalgus Occidentalis, *s.* (Ll.) botymwydd.

Cephalatomy, *s.* (Gr. *cephalè* a *tomè*) pendrychiad, penddifyniaeth.

Cephalic, *a.* (Gr. *cephalicos*, o *cephalè*, pen) perthynol i'r pen; da rhag dolur pen.

Cephalic medicines — pen-gyfferi, pen-gyffyriau.

Cephalic, *s.* pen-gyffer, pen-gyffyr; cyffer rhag dolur pen.

Cephalinæ, *s. pl.* (Gr. *cephalè*) yr heulbysg.

Cephalo-Extractor, *s.* pendynyr, penefail.

Cephalography, *s.* (Gr. *cephalè* a *graphô*) penddarluniad, penddifyniad.

Cephaloid, *a.* (Gr. *cephalè* ac *eidos*) penaidd, penddulliog; ar lun pen; crwn, cynghrwn.

Cephalology, *s.* (Gr. *cephalè* a *logos*) penwyddeg, ymenyddiaeth.

Cephalopoda, } *s. pl.* (Gr. *cephalè* a *pous*) pen-
Cephalopods, } bedogion, pendroedogion, ambendroediaid, penbedogiaid.

Cephalopode, *s.* penbedog, penbedogyn, pendroedyn; un o'r penbedogion.

Cephalopodic, } *a.* penbedogaidd, penbedogol,
Cephalopodous, } pendroedogol, ambendroedog; perthynol i'r penbedogion.

Cephalus, *s.* (o'r Gr. *cephalè*) yr heulbysg, y tesbysg.

Cepheus, *s.* (=brenin Ethiopia) cydser gogleddol, yn cynnwys 35 seren.

Cera, *s.* (Ll.; Gr. *cêros*) cŵyr.

Ceraceous, *a.* (Ll. *ceraceus*) cwyraidd; fel cŵyr.

Ceraine, *s.* (Ll. *cera*) cwyrain.

Cerasin, *s.* (Ll. *cerasus*) surianlws, suriansug, eirinsug.

Cerasite, *s.* (Ll. *cerasus*) ceiriosith, ceiriosfaen; ceirios *neu* surinin wedi ymgaregu.

Cerastes, *s.* (Gr.) cyrnig, cyrnog, cyrnsarff, sarff gyrnig.

Cerastium, *s.* (Gr. *ceras*) llynorlys, brechlys, gwlyddyn y cywion.

Cerate, *s.* (Ff. *cérat*; Ll. *ceratum*) cwyreli, eli cŵyr; suglïan.

Cerated, *a.* (Ll. *ceratus*) cwyredig, cwyrog.

Ceratonia, *s.* (Gr. *ceration*) y pren Carob; bara Sant Ioan.

Ceratophyllum, *s.* (Gr. *ceras* a *phullon*) gwygyrnddail.

Ceratoptera, *s. pl.* (Gr. *ceras* a *pteron*) cornasgelliaid, cornasgellogion.

Cere, *v. a.* (Ll. *cera*) cwyro; pygo.

Cere, *s.* (Ll. *cera*) bylgroen; croen noeth bon pig hebog.

Cereal, *a.* (oddi wrth *Ceres*, duwies yr yd) ydronol, ydrawnol, ysronol.

Cereal grasses—ydwellt, grawnwellt.

Cerealia, *s. pl.* ydrawn, grawn bwytadwy; yd.

Cerebel, } *s.* (Ll. *cerebellum*) olymenydd,
Cerebellum, } gormenydd, yr emenydd bychan.

Cerebites, *s.* (Ll. *cerebrum*) fflameg yr ymenydd.

Cerebral, } *a.* (Ll. *cerebrum*) ymenyddol,
Cerebrine, } emenyddol, menyddol, emenyddaidd.
Cerebric Acid, *s.* sur ymenyddig, sur menyddig, sur emenydd.
Cerebrosity, *s.* (Ll. *cerebrosus*) penchwidredd, gowallgofrwydd.
Cerebrum, *s.* (Ll.) yr ymenydd, yr emenydd, y menydd.
Cerecloth, *s.* (Ll. *cera*, a *cloth*) cwyrlïan, sugliïan, pyglian; aiglïan, yssiglïan.
Cerement, *s.* (Ll. *cera*, cŵyr) cwyrleni, cwyrlïeiniau, cwyrlïan.
Ceremonial, *a.* (Ff. o'r Ll. *ceremonia*) defodol, cynnefodol, arddefodol, deddfol, arddeddfol, moesddefodol, moesffurfiol, moesffurfiog; perthynol i ddefodau.
Ceremonial law — cyfraith ddefodol *neu* gynnefodol; deddf ddefodol, cyfraith defodau, defodraith.
Ceremonial, *s.* defodlyfr, cynnefodlyfr, defodiadur, defodur, defodlith, llyfr defodau; ffurf allanol, defod allanol, ffurf.
Ceremonious, *a.* (o *ceremony*) defodgar, cynnefodgar, arddefodgar; ffurfiol, moesffurfiol, moesffurfiog, defodaidd, cynnefodaidd, arddefodaidd; ffurfgar, moesog, rhyfoesog, moesgar, rhyfoddus, moddus, dygiadus, moesddefodol, dillynwych, rhyfoesgar; llawn moesau, llawn o foesau, llawn ffurfiau; manylaidd, hydrefn.
Ceremoniousness, *s.* (o *ceremonious*) defodgarwch, ffurfioldeb, &c.
Ceremony, *s.* (Ll., It., Ysp., a Port. *ceremonia*) defod, cynnefod, arddefod, arfer, hen ddefod, hen arfer, moesffurf, ffurf, ffurf allanol; moesgarwch, rhyfoes, moesddefod, moesarfer, dillynfoes; rhwysg, rhodres; rheol gwasanaeth; defod ac arfer.
Before the ceremony was over—cyn gorphen y gwasanaeth.
I went there only out of ceremony—aethym yno yn unig o ran defod ac arfer.
Without ceremony — heb na rhwysg na rhodres; yn ddïymanerch; heb na moes na defod.
Master of ceremonies—cyfeistyddiwr llys; meistr y chwareon; meistr y moesffurfiau.
Cereolite, *s.* (Gr. *cêros* a *lithos*) cwyrfaen.
Cereopsis, *s.* (Gr. *ceras* ac *opsis*) y golomenwydd.
Cereous, *a.* (Ll. (*cereus*) cwyraidd, cwyraid; fel cŵyr.
Cerin, } *s.* (Ll. *cera*) cwyrin, crisgwyr.
Cerine, }
Cerinthe, *s.* (Ll. *cera*, a Gr. *anthos*) githran, githrog.
Cerite, *s.* (o *Ceres*) cerith, ceresfaen.
Cerium, *s.* (oddi wrth *Ceres*) delid à gafwyd allan gàn Hisinger a Berzelius, yn Sweden, yn 1804.
Cernuous, *a.* (Ll. *cernuus*) gogwyddol, llipa, llibin, ar ogwydd.
Cerographical, *a.* cwyrysgrifol; cwyrgerfiadol.
Cerographist, *s.* cwyrysgrifydd, cwyrysgrifenwr; cwyrgerfiwr, cwyrgrifellydd.
Cerography, *s.* (Gr. *cêros* a *graphô*) cwyrysgrifiaeth, cwyrysgrifiad; cwyrysgrifen; cwyrgerfiad.
Ceromancy, *s.* (Gr. *cêros* a *manteia*) cwyrddewiniaeth, cwyrarmes, cwyrogan.
Ceroon, *s.* (Ysp. *ceron*) croensypyn.
Ceroplastic, *a.* (Gr. *cêros* a *plasticê technê*) cwyrddelwadol, cwyrluniol, cwyrgynlluniol.
Ceroplastic, *s.* cwyrddelwadaeth, cwyrgynllun, cwyrluniad.
Cerrial, *a.* (o *cerrus*) chwerdderwin; perthynol i'r dderwen chwerw.
Cerrus, *s.* (Ll.) y dderwen chwerw, chwerdderwen, chwerddar.
Certain, *a.* (Ff.; Ll. *certus*) sicr, dilys, dïau, dïammheu, dir, diogel, disom, anhysom, diddadl, gwir, cywir, dibetrus, dïymwad, dïammheuol, hysbys, dïos, diball, dinam, diffael, difeth, dïanwadol, dïysgog, ceugant, safadwy; penodol, gosodedig, penodedig, terfynedig, sefydledig, nodedig: rhyw, rhai; un.
A certain person—un, (*pl.* rhai); rhyw ddyn, rhyw wr, rhyw un; y dyn a'r dyn; y gwr a'r gwr; hwn a hwn; hon a hon.
A certain sum—hyn a hyn; rhyw swm.
I am certain of it—dilys genyf; y mae yn ddilys genyf; yr wyf yn sicr, &c.; mi a'i gŵn yn ddilys.
On a certain day—ar ddydd hysbys, penodol, nodedig, *neu* osodedig; ar ryw ddydd; ar y dydd a'r dydd.
Certain days—rhai dyddiau; ennyd o ddyddiau; talm o ddyddiau; rhyw ddyddiau.
After certain years—yn mhen rhai blyneddoedd; yn mhen ennyd o flyneddoedd.
I am as certain as I am alive—mòr sicr yw genyf a'm bod yn fyw; cyn wired a'm bod yn fyw.
I am not certain whether I shall return or not—nid oes gwybod a ddychwelaf ai peidio.
Certain men came in—rhai gwŷr a ddaethant i mewn; daeth rhywrai i mewn.
There arose certain—rhai a gyfodasant.
The dream is certain—y breuddwyd sy wir.
There came certain—daeth gwŷr.
A certain rate every day—dogn dydd yn ei ddydd.
There are no certain days of meeting—nid oes dyddiau gosodedig i gyfarfod arnynt.
By a certain number—dàn rifedi; wrth *neu* dàn rifedi neilltuol.
Certain others—ereill, rhai ereill, rhyw rai ereill, rhywrai ereill.
What seemeth good to God is certain—à fo da gàn Dduw sy ddir.
For certain — yn ddïau, yn ddilys, yn wir ddïau, yn sicr, &c.; trwy brawf.
I will certainly do it—gàn wneuthur y gwnaf ef.
It will certainly come—gàn ddyfod y daw.
Certainness, *s.* (o *certain*)=*Certainty*.
Certainty, *s.* (o *certain*) sicrwydd, dilysrwydd, dilysdod, dilyswch, dïeurwydd, disomrwydd, dinamedd, hysbysrwydd, dïammheuedd, dïammheusaeth; gwir, gwiredd, arwiriant, dir; gwadalwch.
To leave certainty and stick to chance—gadaw y dilys a chymmeryd yr annilys.
There is no certainty of any thing—nid ceugant dim; nid oes sicrwydd am ddim; nid oes dim sicr.
There is no certainty in him—nid oes ond yr anwadalwch ynddo.
We must go upon certainties only—nid

oes i ni à wnelom ond â'r hyn sy gwbl ddilys a dïymwad.

We have now the certainty of his death—gwyddom bellach yn sicr ei farw ef; y mae genym weithian sicrwydd o'i farwolaeth.

I would fain be at some certainty—ewyllysiwn gael hyd yn rhyw fesur fy niogelu; nis mynwn lai na bod i'm hadeilad ryw sylfan.

Certes,† *ad.* (Ff.; Ll. *certè*) yn sicr; yn ddïau; yn wir, &c.; mewn gwirionedd.

Certhia, *s.* (Gr. *ceras*) y grepianog.

Certhiadæ, *s. pl.* (o *certhia*) crepianogion, crepianogryw=rhywogaeth o adar.

Certificate, *s.* (Ff. *certificat*, o'r Ll. *certus*) tystysgrif, tystysgrifen, tystiadur, tysteb, tystlythyr, arwaeseb, arwaesaf, llythyr hysbysrwydd, llythyr dilysrwydd.

Certificate, *v.* ysgrifdystio, tystebu, arwaesu, arwaesafu; dilysu, sicrhau; rhoi tystysgrif i.

Certification, *s.* (o'r Ll. drosgl, *certifico*) sicrhad, dilysiad, dilysiant, ardystiad, arwaesiad, hysbysiad, mynegiad.

Certifier, *s.* (o *certify*) dilyswr, dilysydd, arwaeswr, ardystiwr, ardystydd, &c.

Certify, *v. a.* (Ff. *certifier;* Ll. drosgl, *certifico*) sicrhau, dilysu, ardystio, tystebu, tystio; gwirio, yswirio; hysbysu, mynegu.

Certiorari, *s.* (Ll. *certus, certior*) gwaesafwys, sicrwys = gwŷs i godi cynghaws i lys uwch.

Certitude, *s.* (Ll. drosgl, *certitudo*)=*Certainty.*

Cerulean, } *a.* (Ll. *cæruleus*) nefliw, asur, glas,
Cerulcous, } glasar, glasarol, asurol, glesin, nefliwiog, awyrliw, awyrliwiog; o liw yr wybr.

Cerulific, *a.* (Ll. *cæruleus* a *fio*) asurogol, nefliwiadol.

Ceruliu, *s.* (Ll. *cæruleus*) asurain; lliw glas wedi ei ddadgyssoddi mewn sur ufelig.

Cerumen, *s.* (Ll. *cera*) cŵyr clust, cŵyr y glust, clustgwyr.

Ceruse, *s.* (Ff.; Ll. ac It. *cerussa*) plwm gwŷn, gwynblwm; creisblwm, cresblwm.

Cerused, *a.* (o *ceruse*) cresblymedig; gwedi ei olchi â phlwm gwyn.

Cervical, *a.* (Ll. *cervicalis*, o *cervix*) gyddfol, gyddygol; yn perthyn i'r gwddf; perthynol i'r gwddwg.

Cervical nerves—gïau y gwddf.

Cervicobranchiata, *s. pl.* (Ll. *cervix* a *branchiæ*) gyddfdagellogion.

Cervine, *a.* (Ll. *cervinus*) carwin, carŵaidd, hyddaidd, eilonaidd, cerwydin; perthynol i'r carw.

Cervix, *s.* (Ll.) gwddf, gwddwg, gwddw; gwegil.

Cervus, *s.* (Ll.) carw, hydd, eilon; carwolion, hyddolion, cerwydiaid, rhyw y carw, hyddryw.

Cespititious, } *a.* (Ll. *cespes*) mawnol, mawnog,
Cespitous, } mawnaidd, tywarchol, tywarchlyd, tywarchog, tywarchaidd.

Cespitose, *a.* (Ll. *cespes*) mawndyfol, mawndwf; à dyfa mewn mawn.

Cess, *s.* (llygriad o *assess*) treth, trethiad.

Cess, *v. a.* trethu, ardrethu, trethiadu, gosod treth.

Cess,† *v. n.* (Ll. *cesso*) esgeuluso.

Cessant, *a.* (Ll. *cesso*) peidiol, dysbeidiol, ymbeidiol, ymarbedol.

Cessation, *s.* (Ll. *cessatio*) peidiad, dysbeidiad, peidiant, paid, tor, seibiant, toliad, tawl, ymattaliad, ymattal, ymbaid, ymbeidiad, godor, gorphwysiad, gorphwys, talmiad; saib, hoe.

Cessation of arms—arfymbaid, arfoed, cadymbaid, cadoediad, arfattal, arfattaliad, heddwch dros amser, goheddiad, addoedgyrch, byr gynghrair, cynghreiryn; ymbaid dros ennyd mewn rhyfel; tawl ar gad.

Cessavit, *s.* (Ll. o *cesso*) peidwys, peidysgrif, methwys.

Cesser, *s.* (Ll. *cesso*) peidiad, peidiant; peidiad am ddwy flynedd.

Cessibility, *s.* (o *cessible*) ciliad, ymroddiad, rhoddiad ymaith, gildiad.

Cessible, *a.* (Ll. *cessio, cedo*) ciliol, ciliadol, gildiol, ymroddol.

Cession, *s.* (Ll. *cessio*) ciliad, enciliad, gildiad; ymroddiad, ymroad, rhoddiad i fyny; ymadawiad, gadawiad; trosiad, hawldrosiad, dadrosiad, cyflychiad; gwaghad.

A benefice void by cession—bywoliaeth wag drwy ymadawiad.

Cessionary, *a.* (o *cessio*) ciliadol, enciliol; ymroddiadol, trosiadol, cyflychol, hawldrosiadol.

Cessionary bankrupt—torged ymroddiadol, cyflychol, *neu* hawldrosiadol; methdalwr à roddo ei foddion i fyny.

Cessment,† *s.* (o *cess*) trethiad, treth.

Cessor, *s.* (Ll. *cesso*) trethwr, trethydd; peidiogwr, ymbeidiwr.

Cesspool, } *s.* (It. *cesso*, a *pool*) ceubwll, gwaddSesspool, } odbwll, ysgarthbwll, gwaelodfa.

Cest, *s.* (Ll. *cestus;* Gr. *cestos*) gwregys benyw.

Cestus, *s.* (Ll. o'r Gr. *cestos*) gwregys Gwener; gwregys priodas.

Cestus, *s.* (Ll. *cæstus*) amddyrnau, cobfenyg, menyg dyrnodio.

Cesura, } *s.* (Ll. *cæsura;* Ff. *césure*) gorphwysCesure, } eb, gorphwysfa, saib, gorphwysle, ardransaib; hirodeb; gosaib.

Cesural, *a.* (o *cesura*) seibiol, gorphwysfaol, adranseibiol, goseibiol.

Cetacea, } *s. pl.* (Gr. *cêtos;* Ll. *cetus*) morCetaceans, } filogion, moranolion, morfilryw, morfronogion.

Cetaceous, *a.* (Ll. *cetus*) morfilaidd, moranaidd; perthynol i'r morfarch *neu* i'r morfilogion.

Cetaceous fishes—moranbysg, morfilbysg, morfilogion, morfronogion.

Cetate, *s.* (o'r Ll. *cetus*) moranaint, morfilaint.

Cetene, *s.* (o'r Ll. *cetus*) moranwy, morfilwy.

Cetic, *a.* (Ll. *cetus*) morfilig, morfilaidd; perthynol i'r morfil *neu* forfarch.

Cetic acid—sur morfilig, sur morfil, sur morfarch.

Cetological, *a.* (o *cetology*) morfilegol, morfilogol, morfildreithol.

Cetologist, *s.* (o *cetology*) morfilegydd, morandreithydd, morfilodydd.

Cetology, *s.* (Gr. *cêtos* a *logos*) morfileg, morfilaeth, morandraith, morfildraith.

Cetosaurians, *s. pl.* (Gr. *cêtos* a *sauros*) morfadfilod.

Cetus, *s.* (Ll.) y Morfil, y Morfarch=cydser yn yr arddrych ddeheuol, yn cynnwys 97 seren.

Chace, *v. a.*=*Chase.*

Chace, *s.*=*Chase.*

Chad, *s.* (Al. *schade*) ysgetyn, corbenwsg; math o bysg.

neu gyfrinachol; cell-gynghor, cynnadledd gyfrinachol.
Chamber-counsel—cynghorwr cyfrinachol, cynghawsydd cyfrinachol, cynghawsydd ystafellaidd, cynghawswr ystafell, cell-gynghawswr.
Groom of the chamber—gwastrawd yr ystafell, ystafellydd, ystafellwr, ystafellog, trwsgellydd.
Page of the chamber—gwas ystafell, ystafellwas, gwastrodyn ystafell.
The chamber of London—trysorgell Llundain, trysordy Llundain, ystafell Llundain.
Chamber-ful—ystafellaid, llonaid ystafell.
Imperial chamber—ystafell amherodrol, cynnullgell ymherodrol.

Chamber, *v.* ystafellu; trigo mewn ystafell; rhoi mewn ystafell; cydorwedd, ymdrythyllu, trythyllu, llodino, anlladu; bod yn drythyll.

Chamberer, *s.* (o *chamber*) cydorweddwr, trythyllwr, anlladwr, cywestachwr, trythyllwas.

Chamber-fellow, *s.* cydystafellwr, cydystafellydd, cyfystafellydd, cydgellwr, cydgysgwr.

Chamber-hanging, *s.* crogleni ystafell.

Chambering, *s.* (o *chamber*) cydorwedd, trythyllwch, anlladrwydd, cywestach.

Chamberlain, *s.* (Ff. *chambellan*; Ll. *camerarius*) ystafellydd, ystafellwr; ystafellwas, gwas ystafell.
Lord chamberlain—arglwydd ystafellydd, ystafellior, archystafellydd, penystafellydd, gorystafellydd, arlwydd benystafellydd.
Lord high chamberlain—arglwydd arystafellydd, arglwydd brif-ystafellydd, arlwydd archystafellydd, arlwydd ystafellydd, &c.
The chamberlain of North Wales—trysorgellydd Gwynedd, ystafellydd Gwyndud, cyllidior Gogledd Cymru.
Chamberlain of a city—trysorgellydd, trysorydd, *neu* drysorwr dinas; dinasgellwr; ceidwad y trysor cyffredin; goruchwyliwr (*Rhuf.* xvi. 23).

Chamberlainship, *s.* ystafellyddiaeth, swydd ystafellydd.

Chamber-lye, *s.* troeth, trwnc, lleisw, golch sur, golch.

Chambermaid, *s.* morwyn ystafell, ystafellyddes, ystafelles.

Chamber-pot, *s.* troethbot, troethyr, cellbot, pisbot, troethai, troethlestr.

Chamber-practice, *s.* cellbreithiant, cyfrinbreithiant, ystafellbraith, praith ystafell.

Chamblet,† *v. a.* (o *camelot*) amrywio, britho, brithliwio.

Chambranle, *s.* ymyldwdd.

Chambrel, *s.* (It. *gamba*) gàr ceffyl, camar.

Chameleon, *s.* (Ll. *chamæleon*; Gr. *chamaileôn*) edrithfil, lledrithfil, mudfil, mudfall, mudliw, mudliwiad.
Chameleon mineral—mudfwnid.

Chameleonize, *v. a.* (o *chameleon*) lledrithio, edrithio, mudliwio, symmudliwio, newidliwio, amryliwio, amliwio.

Chamfer, *v. a.* (Ff. *chanfreiner*, *chanfrein*) rhigoli, rhychu, rhygnu, cwyso, pillrychu, gylfu, ffosi, sylchu, pannoli; rhygnu *neu* gwyso colofn; crychu.

Chamfer, } *s.* rhigol, sylch, rhych, rhwgn,
Chamfret, } rhygn, ffosig, rhign, pillrych, pillgwys, pillrigol; oegо, llethr, llechwedd.

Chamfrain, *s.* (Ff. *chanfrein*) cadwisg pen march, penarfwisg, ffrwynarfwisg.

Chamois, *s.* (Ff.; It. *camozza*) gwillafr, creigafr, alpafr, gwylltafr, gafr wyllt.

Chamomile, *s.* (Gr. *chamai* a *melon*) camri, milwydd.
Wild chamomile—amranwen, bronwen.
Stinking chamomile—camri y cwn.
Ox-eye chamomile—llygad yr ych.

Champ, *v.* (Ff. *champayer*) cnoi, mallgnoi, tymmigo, dygnoi.
He is ever champing upon the bit—y mae efe byth yn cnoi, yn dygnoi, *neu* yn deintio haiarn y ffrwyn.

Champ, *s.* arwynebedd gwastad, gwastadlawr, asafweb.

Champagne, } *s.* (=talaeth yn Ffrainc) gwin
Champane, } Champagn, gwin Champân.

Champaign, } *s.* (Ff. *campagne*) gwastadedd,
Champain, } gwastattir, bro, brodir, rhos, gwlad ddigoed agored, tir digoed, tir iâl, gwaen, gwaent. [bröig.

Champaign, *a.* gwastad, agored, ial, broaidd,
Champaign country=*Champaign*, *s.*

Champain, *s.* anaddwynnod.

Champer, *s.* (o *champ*) cnöwr, dygnöwr, mallgnöydd.

Champertor, *s.* (o *champerty*) hawlranog, hawlranydd, cyttreulgwynwr; cydbleidiwr, cyneiliad.

Champerty, *s.* (Ff. *champart*) cynghaws cyttraul, cyttreulgwyn, hawlraniad; hawlbryniad.

Champignon, *s.* (Ff.) math o faesrin, neu fwyd y barcud.

Champion, *s.* (Ff.) campwr, campiwr; pencampwr; rhyswr, ornestwr, cysbwywr; ymdrechwr; gwron, arwr, rhuon; cawr.
When the Philistines saw their champion was dead—pan welodd y Philistiaid farw o'u cawr.
Champion of the king—campwr *neu* ryswr y brenin.

Champion, *v. a.* campwrio; herio i ornest; chwareu y campwr.

Championess, *s.* (o *champion*) campwres; gwrones.

Championship, *s.* (o *champion*) campwriaeth, rhyswriaeth; gwroniaeth.

Chance, *s.* (Ff.) damwaen, damchwaen, dygwydd, dygwyddiad, hap, chwaen, dychwaen, amchwaen, hab; tynged; ffawd; anffawd; cyfle, cyfleusdra; dichonolrwydd, galledigaeth; tebygolrwydd; cynnyg, ergyd; llam, syrth, maig.
Good chance—damwaen dda, ffawd, cynrabad, mad ddamwaen, tynged dda, dygwydd da.
Ill chance—damwaen ddrwg, drwg ddamwaen, anffawd, drwg dynged, dygwyddiad drwg, tynged ddrwg, trychineb, annawn, anmhorth, trychni.
The doctrine of chances—athrawiaeth tebygolion.
By chance—o ddamwaen, o ddygwydd, o ddygwyddiad; yn ddamweiniol, yn ddygwyddiadol; fel y damweiniodd *neu* y dygwyddodd; ar ddamwaen *neu* ddygwydd.

By mere chance—o wir ddamwaen, &c.; yn ddamweiniol hollol; yn hollol ddygwyddiadol.
Dire chance—damwaen erchyll, oer chwaen.
Whatever chance may happen—pa beth bynag a ddygwyddo; deued à ddel; beth bynag a ddelo.
We have but one chance—nid oes genym ond un cynnyg *neu* ergyd; nid oes i ni ond un ddamwaen.
Every chase is a chance—damwaen pob hely.
To take care of the main chance—gofalu am yr eiddo *neu* y peth penaf.
It is a chance if he come this way—odid iddo ef ddyfod y ffordd hon; damwaen y daw efe y ffordd yma.
I shall take my chance—anturiaf, deued à ddel; cymmeraf fy hynt *neu* antur; anturiaf; bwriaf *neu* rhoddaf ar ddamwaen; rhedaf fy rhwysg; gwnaf gynnyg.
At all chances—dygwydded à ddygwyddo; bydded à fyddo; bid à fo; deued à ddel; doed à ddelo; bid y canlyniad y peth y bo.
You have no chance—nid oes genych obaith *neu* debygolrwydd; nid oes un modd *neu* ffordd i chwi; nid oes genych un cynnyg.
What a poor chance have I?—pa mòr wàn *neu* fychan yw y cynnyg sy genyf? pa mòr annhebyg i dycio yw y cynnyg sy genyf? pa nifer o ddamweiniau sydd i'm herbyn? pa mòr wàn yw fy ngobaith?
To get by chance—cael wrth goelbren; cael o ddamwaen, &c.
The chance of arms is uncertain—annilys tynged arfau; tynged *neu* ddyben rhyfel pwy a'i gŵyr?
To try the chance of—gwneuthur prawf o; anturio ar; rhoi ar brawf; profi; bwrw ar dynged, ar dyngedfen, *neu* ar ddamwaen.
Happening by chance=*Chance, a.*

Chance, *a.* damweiniol, dygwyddol, dygwyddiadol, hapiol, damchweiniol; à ddel o ddamwaen; annysgwyledig; yn dyfod heb ddysgwyl am dano.

Chance, *v. n.* dygwyddo, dygwydd, damweinio, hapio, damchweinio, dychweinio, cymmeryd lle.
It may chance—ysgatfydd, agatfydd, efallai, dichon.
I may chance to go thither—efallai yr af yno; efallai yr awn yno.
To chance upon—damweinio, dygwydd, *neu* ddygwyddo ar; dyfod o ddamwaen ar; damweinio am ben; dyfod o ddamwaen am ben *neu* ar draws.
As it chanceth, } fel y damweinio; fel
As it may chance, } y dygwyddo; fel y bo y peth, y matèr, *neu* yr achos yn gofyn; fel y bo yr achos yn galw.
If any man chance to ask—o *neu* os dygwydd i neb ofyn.

Chanceable, *a.* (o *chance*) damweiniol, dygwyddol, dygwyddiadol, hapiol, chwaenol.

Chance-comer, *s.* damweiniwr, dygwyddwr; un annysgwyledig; un à ddelo ar ddamwaen.

Chance-customer, *s.* prynydd, prynwr, *neu* fasnachwr damweiniol.

Chanceful, *a.* (*chance* a *full*) enbyd; darostyngedig i ddamwaen; haplawn, damweinus.

Chancel, *s.* (Ff.) canghell, cafell; cyssegrfa.
Chancel of a church—canghell eglwys, llogawd eglwys.

Chancellor, *s.* (Ll. *cancellarius*; Ff. *chancelier*) canghellydd, canghellor, canghellwr.
Lord Chancellor—Arglwydd Ganghellydd, Arglwydd Ganghellor, y Prif-ganghellydd.
Lord high Chancellor—Arglwydd Arganghellydd, Arlwydd Brif-ganghellwr.
Vice-chancellor—isganghellydd, rhagganghellwr, adganghellor.
Chancellor of the Exchequer—Canghellydd y Trysorlys, Canghellor yr Argedlys, Canghellwr y Sylltty.
Chancellor of a University—Canghellwr Prifysgol.
Chancellor of the Duchy of Lancaster—Canghellydd Dugiaeth Hirgaer; Canghellwr Duciaeth Lancaster.
Chancellor of a cathedral—canghellwr eglwys gadeiriol.
Chancellor of an ecclesiastical court—canghellydd llys eglwysig.
Chancellor of the order of the Garter—canghellor urdd y Gardas.

Chancellorship, *s.* canghelloriaeth, canghellyddiaeth, canghellwriaeth.

Chance-medley, *s.* (*chance* a *medley*; neu Norm. *chaudemellé*) anoddeu, hapladdiad, damweinladdiad; llofruddiaeth ddamweiniol *neu* ddifwriad.

Chancery, *s.* (Ff. *chancellerie*; Ll. *cancellaria*) canghellys, canghell-lys, canghellorlys, canghellfa, llys y canghellydd; llys unionder.

Chancre, *s.* (Ff.) chwantachlwg, anlladlynor, yslynor.

Chancrous, *a.* (o *chancre*) yslynoraidd; llynoraidd, gorfaog, llynorog.

Chandelier, *s.* (Ff.) canwyllyr, goleuddal, ceincganwyllyr, canwyllarn cangenog.

Chandler, *s.* (Ff. *chandelier*) canwyllydd, canwyllwr; masnachwr.
Tallow chandler—gwer-ganwyllydd, canwyllwr gwer.
Wax chandler—cŵyr-ganwyllydd, canwyllwr cŵyr.
Corn chandler—gwerthwr yd, yd-werthydd, yd-werthwr.

Chandlery, *s.* (o *chandler*) nwyddau canwyllwr; canwyllolion.

Chandry, *s.* (o *chandler*) canwyllfa, canwyllfan.

Chanfrin, *s.* (Ff. *chanfrein*) talcen ceffyl, gwyneb march, marchweb.

Change, *v.* (Ff. *changer*) newid, newidio, cyfnewid, cyfnewidio, arallu, amgenu, troi; ymnewid, ymnewidio; ffeirio.
To change one's colour *or* countenance—newid ei liw; newid ei wedd; drygliwio, amliwio; newid lliwiau.
His countenance changes—y mae efe yn drygliwio; y mae ei wedd yn ymnewid.
To change lodgings—symmud *neu* newid lletty; newid *neu* symmud trigias.
To change often—cyfnewidial; mynych newid; newid yn fynych.
To change one's mind often—anwadalu,

gwamalu; hwntian *neu* fwhwman yn ei feddwl; bod yn anwastad yn ei feddwl; newid ei feddwl yn fynych.

To change one's manners—diwygio ei foesau *neu* ei fuchedd; ymddiwygio; newid er gwell; ymadnewyddu; newid ei foesau.

To change one's name—troi *neu* newid ei enw.

To change for the worse—newid er gwaeth; dirywio, lledrywio, afrywio, afrywiogi; gwaethygu; myned yn waeth.

To change the night into day—gwneuthur y nos yn ddydd.

To change one's opinion—newid ei farn, ei dyb, *neu* ei ddaliad; gwyro oddi wrth ei gynfarn.

To change one's purpose—newid ei amcan; tynu oddi wrth ei amcan.

To change out of one form into another—ymrithio, lledrithio, gweddnewidio, gweddnewid, dullnewidio, ymddyeithro; newid ei ddull, ei wedd, ei ddrych, *neu* ei olwg; troi o'r naill lun i'r llall.

I change not—ni'm newidir; ni newidiaf; nid ymnewidiaf.

Change, *s.* newid, newidiad, cyfnewidiad, cyfnewid, aralliad, amgeniad; tro, tröedigaeth, troad; symmud, symmudiad; amrywiaeth, amrywiad, amryfaliad; newidiaeth, cyfnewidiaeth, newidwriaeth; trynewidiaeth, rhifnewidiad; newidfa, cyfnewidfa, newitty, newidle; trafn.

The change of the moon—newid *neu* newidiad y lleuad.

Change of weather—newid *neu* newidiad tywydd; symmud *neu* symmudiad tywydd.

A change of garments—pâr o ddillad.

Change of officers—newid swyddogion; symmudiad swyddogion.

Given to change=*Changeable.*

The changes and chances of this mortal life—cyfnewidiau a damweiniau y bywyd marwol hwn; cyfnewidion a damweinion y fuchedd farwol hon.

Changeability, *s.* (o *changeable*)=*Changeableness.*

Changeable, *a.* (o *change*) cyfnewidiol, newidiol, cyfnewidiog; newidadwy; ansefydlog, oriog, ansafadwy, anhysaf, hydro, syfal, trohydyn, anwastad, ysgoewan, gwamal, anwadal; symmudliw, newidliw, amryliw, amliwiog, amliw.

Not changeable—anghyfnewidiol, digyfnewid; sefydlog, safadwy, &c.

Changeable colour—symmudliw; newidliw.

Changeableness, *s.* (o *change*) cyfnewidioldeb, newidiolrwydd, newidiolder, newidioldeb; anwadalwch, anwadaledd, anwadalrwydd, anwastadrwydd, &c.

Changeful, *a.* (*change* a *full*) cyfnewidiol, cyfnewidiog, newidiol, newidiog; hydro, anhysaf, anwastad, anwadal, oriog, gwamal, ysgoewan, trohydyn, ansefydlog.

Changeless, *a.* (*change* a *less*) digyfnewid, anghyfnewidiol, annewidiol; dïanwadal, dïysgog, gwadal, dinewid, anoriog, ffyddlawn, dïymmod, disigl, sefydlog.

Changeling, *s.* (*change* a *ling*) plentyn newid, plentyn ffugiol, ffugblentyn; anwadalyn, un anwadal, anwadalddyn; dyn anwadal, oriog, gwammal, *neu* ysgoewan; dyn anwastad ei feddwl; un à dry gyda phob awel; cadafael, hurtan, hurtyn, symlyn, (*f.* symlen, symlogen), hurthgen, ffwlcyn, ffwl.

He is no changeling—gwr yw efe à geir byth yn debyg iddo ei hun; un dïanwadal yw; ni cheir anwadalwch ynddo; efe a saif wrth à ddywedo; efe a saif wrth ei air.

He is a mere changeling—symlyn *neu* hurtyn yw.

Changer, *s.* (o *change*) newidiwr, cyfnewidiwr, arallydd, &c.

Channel, *s.* (Ff. *canal;* Ll. *canalis*) eglan, meinfor, lleinfor, cyfyngfor; canol; dyfrle, ystrym, ystrych, rhedle, dyfrwely, ffrydle; gŵyth, gwythred; ffos, rhewin, rhin; rhych, rhigol, cwys, gwlf, pillrych, colofrych, pillgwys, pillrigol, sylch; cyfrwng, cyfryngau, moddion.

Channel of a river—brwynen afon, gwely afon, hoewal afon, canol afon, ffrydle afon, llyr afon, rhedle afon; dyfrle.

English Channel—Môr Udd.

Bristol Channel—Môr Hafren.

St. George's Channel—Eglan Sant Siór; Lleinfor Sant Georg; Môr Sant Georg.

Irish Channel—Môr Iwerddon, Môr Gwerddonig.

Chop of a channel—aber; geneu afon, ceg afon.

Channels of a ship—tidestyll llong.

Channel, *v. a.* rhigoli, rhychu, rhychio, cwyso, pannoli, pannelu, pillrychu, pillgwyso, rhygnu, sylchu.

Channel-leaved—rhychddeiliog, cwysddeiliog, rhigddail, rhigddeiliog.

Chanson, *s.* (Ff.) cân, caniad, canu.

Chant, *v.* (Ff. *chanter;* Ll. *canto*) canu; côrganu, achanu, llafarganu; pyncio, telori, perori, cathlu, emynu; canu yn llafar.

They chant to the sound of the viol—dadganant *neu* pynciant gyda llais y nabl.

Chant, *s.* cân; côrgan, llafargan, melodeg, melawd, mwynen; persain, erddygan, dygan, mawlgan, pergan; gwasanaeth yr eglwys: *pl.* melodion.

Chanter, *s.* (o *chant*) ceiniad, côrgeiniad, côrgantor, llafargeiniad, ceiniad côr; canor, cantor, cantwr, caniadydd, caniedydd; prifgantor, blaengeiniad, blaengeiniad y côr; achanor.

Chanticleer, *s.* (o *chant* a *clear*) claergeiniad, crochgeiniad, yr uchelgainc, ceiliog.

Chanting, *s.* (o *chant*) côrganiadaeth, côrganiaeth, côrganiad, achaniad, llafarganiad; caniad, canawd.

Chantress, *s.* (o *chant*) ceiniades, canores, cantores, caniadyddes, caniedyddes.

Chantry, *s.* (Ff. *chantrerie*, o *chant*) côrgafell, côrgell, côrgapel, capel côr.

Chaology, *s.* (Gr. *chaos* a *logos*) tryblitheg; treithawd ar dryblith.

Chaos, *s.* (Ll. a Gr.) tryblith; cymmysgedd, cymmysgfa, dyfysgi, annhrefn, amrygymmysg, cymmysg.

Chaotic, *a.* (o *chaos*) tryblithig, tryblithog, tryblithaidd; cymmysg, didrefn, annhrefnus, cydgymmysgedig, rhwystrus.

Chap, *v.* (Al. ac Is. *kappen;* D. *kapper*) agenu, ymagenu, ymagor, hollti, ysgardio, egori,

agor, ymegori; bregu, tori; hollti yn agau neu agenau.

Chap, *s.* agen, hollt, gagen, ag, ysgard, breg, tor, egoriad.
A small chap—agenig, holltyn, ysgardyn, agen fechan.
Chaps in the heels—terig ar sodlau; y gibwst, y gibi.
Full of chaps—agenog, gagenog, holltog; llawn agenau.

Chap, *s.* (S. *ceaft*) turs, tursyn, gen; y safn, y gweflau; gen uchaf ac isaf; gen anifel.

Chap, *s.* (byriad o *chapman*) hogyn, llanc, llencyn, gwelchyn; gwr; prynydd, maelier.

Chap,† *v. n.* gofyn pris; maeliera.

Chapbook, *s.* (*chap* a *book*) edwiclyfr.

Chape, *s.* (Ff.) attalfach, dalfach, cliced, clicied, dalledydd, dalyr; blaenwain.

Chapeau, *s.* (Ff.) het, hed, toc, cap, talaith.

Chapel, *s.* (Ll. *capella;* Ff. *chapelle*) capel; eglwysan, addolfa, iolfa, addoldy, ioldy.
A small chapel—capelan, capelyn, capel bychan.
Chapel of ease—capel anwes.
Parochial chapel—capel plwyfol, capel plwyf.
Free chapels—capelau rhyddion, capeli rhydd.
Domestic chapel—capel teuluaidd, capel teulu, addolfa deuluol.
Chapel royal—capel breninol, eglwysan freninol; capel y brenin *neu* y frenines.
Chapel (among printers)—capel argraffdy, capel argraffyddion.
College chapel—capel coleg, addolfa clasgor, clas-gapel.
Chantry chapel—côrgapel, capel côr.

Chapel, *v. a.* capelu; gosod mewn capel.

Chapeless, *a.* (o *chape* a *less*) digliced, diafael, diddalfach.

Chapelet, Chaplet, } *s.* (Ff. *chapelet*) dwyar, gwarthaflau.

Chapellany, *s.* (o *chapel*) capelaniaeth.

Chapelling, *s.* llongdroad.

Chapelry, *s.* (o *chapel*) capeliaeth, capelogaeth, plwyf capel.

Chaperon, *s.* (Ff.) cap *neu* gwfl marchog y gardas.

Chaperon, *v. a.* gweinyddu ar rian mewn cynulleidfa gyhoeddus; rhianweini.

Chapfallen, *a.* (*chap* a *fall*) llaesweft, llaesweflog, gwefl-laes, bochlaes; yn crogi ei en; digalon, llwfr, llwrf, llipa, llibin; â thaw arno.

Chapiter, *s.* (Ff. *chapiteau;* Ll. *capitellum*) heiliog, penclwm, penglwm, argon, argwn, pen colofn; rhybuddeg ynad.

Chaplain, *s.* (Ll. *capellanus;* Ff. *chapelain*) caplan, capelwr, capelydd, offeiriad teulu.
Family chaplain—caplan teulu, caplan teuluaidd, offeiriad teulu, ty-offeiriad.
Chaplain in ordinary to the queen—caplan cyffredin y frenines; capelwr teuluaidd y frenines; offeiriad teulu i'r frenines.
Chaplains of the Pope—caplaniaid y Pab, capelwyr y Pab.
Army chaplain—caplan y fyddin; capelwr i'r fyddin; llu-offeiriad.
Navy chaplain—caplan y llynges; capelwr llyngesol; capelwr i'r llynges.

Chaplancy, *s.* (o *chaplain*) caplaniaeth, capelyddiaeth, capelwriaeth, ty-offeiriadaeth.

Chaplainship, *s.* (o *chaplain*) caplaniaeth; capelogaeth, bywoliaeth capelwr.

Chapless, *a.* (*chap* a *less*) diweflau, disafn, diwefl, cegnoeth.

Chaplet, *s.* (Ff. *chapelet*) pendel, coronrwy, coronig, talaith, taleithig, taleithrwy, coronbleth; paderlinyn, padergadwen, gleinres; paderau; siobyn, tyffyn; creirgell, capelan.

Chapman, *pl.* Chapmen, *s.* (S. *ceapman*) maelier, masnachwr, prynydd, ymbrynydd, cynnygiwr; gwerthwr, marchnatwr.

Chapournet, *s.* (Ff. *chaperonnet*) cromran, crymran.

Chappy, *a.* (o *chap*) agenog, gagenog, holltog, agog; llawn agenau; agored; wedi ymagor.

Chaps, *s. pl.* (o *chaps*) y genau, y gweflau, y safn, turs.

Chapter, *s.* (Ff. *chapitre;* Ll. *capitulum*, o *caput*) pennod.
Chapter and verse—pennod ac adnod.
Chapter by chapter—bob yn bennod; wrth y bennod.

Chapter, *s.* cabidwl, glwysgor, offeiriadgor; cynnullgor, clerigfa.
Dean and chapter—deon a glwysgor; deon a chabidwl; y deon a'i gôr.

Chapter-house, *s.* cabidyldy, cabidwl, cadeirdy, ty cadeiriog, glwysgordy, cynondy.

Chaptrel, *s.* (o *chapitre*) mydargwn, mydargon, mydheiliog, crymheiliog, penclwm dân fwa.

Char, *s.* (S. *cerre, cyrr?*) hapwaith, gorchwyl, gorchwylyn, haporchwyl, tasg.

Char, *v.* hapweithio; gweithio wrth y gorchwyl; gorchwylio, gorchwyl-weithio, dyddweithio; gwneyd mân orchwylion.
Char-woman — hapweithes, odweithes, gorchwyles, hurwraig, gwraig hur, gorchwyl-wraig, benyw hur, gweithwraig hur.

Char, *s.* torgoch, y pysg torgoch.

Char, *v. a.* (Ff. *charrée*) golosgi, dylosgi; llosgi yn löyn.
Charred wood—dylosgoed, coed dylosg, golosgoed.

Chara, *s.* (Ll.) rhawn yr ebol.

Charact, Charect, } † *s.* (Gr. *charactêr*) arysgrifen, arysgrifiad, craifft, argraifft.

Character, *s.* (Ll. a Gr.) nodweddiad, nodwedd, cymmeriad, gair, enw; bri, gair da, enw da, enw mawr; bucheddnod; teithi, atheithi, anian, ansawdd, natur, naturiaeth, tymmer, ardymmer, rhâl, nawd, cynneddf; nod, marc, arwydd; llythyren, coel, coelen, têb, ffugr; dull, arddull, llun; argraff; dull ar ymadroddi *neu* ysgrifenu; dynsawd; sodwedd; rhinfynag, moesddull.
Good character—nodweddiad da, gair da, gair mawr, enw da, enw mawr; clod, bri.
Bad character—nodweddiad drwg, gair drwg, drygair, anair, anghlod; hort, sarhad.
To give a good character—rhoi gair da; rhoi nodweddiad *neu* gymmeriad da; rhoi clod; rhoi gair mawr; dadgan *neu* gyhoeddi cynneddfau da; moli, canmawl, clodfori.
To give a bad character—rhoi gair drwg; rhoi cymmeriad *neu* nodweddiad drwg; rhoi drygair *neu* anair; rhoi gair twn; rhoi drwg enw *neu* enw drwg; cablu, hortio, enllibio, difenwi.
To act in character—ymddwyn yn debyg

ormesu arnat; rhag pwysaw o honom arnat.
That we might not be chargeable to any of you—fel na phwysem ar neb o honoch.
Duty is chargeable on wine—y mae cyllid ar win; gofynir toll ar win.
He is chargeable with something worse—mae efe yn gyhuddadwy *neu* yn euog o rywbeth gwaeth.

Chargeableness, *s.* (o *charge*) treulfawredd, costfawredd, traul, cost, costusrwydd, prisfawredd, mawrgost.

Chargé d' Affaires, *s.* (Ff.) perwylfodog, negesiadur, isgenad, isgenadwr,

Chargeful, † *a.* (*charge* a *full*) costus, treulfawr, costfawr, drud.

Chargeless, *a.* (*charge* a *less*) didraul, digost, anghostus; rhad; heb draul.

Charger, *s.* (o *charge*) cadfarch, rhyfelfarch, aerfarch, march rhyfel.

Charger, *s.* dysgl; cawg.

Charientism, *s.* (Gr. *charientismos*) anhagreb.

Chariness, *s.* (o *chary*) gocheliad, gofal, pryder, pwyll, darbwyll, hybwylledd, gochelgarwch; manylwch, neisrwydd; petrusder.

Chariot, *s.* (Ff.) cerbyd; hannerglud, carrod.
War chariot, } cadgerbyd, aergerbyd,
Chariot of war, } rhyfelgerbyd, cerbyd rhyfel.
Chariots armed with hooks — cerbydau bachog (2 *Mac.* xiii. 2).
Chariot-race—cerbydred, } rhedegfa cerbydau, rhedfa cerbydau.

Charioteer, *s.* (o *chariot*) cerbydwr, cerbytai, cerbydydd; gyrwr cerbyd.

Chariot-man, *s.* cerbydwr, cerbydydd, gyrwr, cerbyd-yrwr, cerbytai.

Charitable, *a.* (Ff.) hael, haelionus; elusengar, elusenol, elusenaidd, alwysengar, cardodol, cymmwynasol, athrugar; cariadus, caredig, caredigol, cariadlawn, cariadus, hynaws, tyner, tirion, diragfarn, clau; tyner *neu* dirion ei farn; haelfrydig, cleufryd; trugarog, tosturiol; parod i dybied *neu* i feddylied y goreu; elus.
Charitable institution—sefydliad elusenol, elusenfa.
Charitably inclined—elusengar, &c.; parod i gynnorthwyo y tlodion.
To judge charitably—barnu yn dyner, yn gariadus, yn hynaws, yn gariadlawn, *neu* yn ddiragfarn.

Charitableness, *s.* (o *charitable*) elusengarwch, elusendod; cymmwynasgarwch, haeledd, haelioni; caredigrwydd, cariadlondeb, hynawsedd, tiriondeb; tiriondeb *neu* dynerwch barn.

Charites, *s. pl.* (Gr.) Teleidesau, Teleidiaid, Teleidion, Lladesau.

Circulate, *v.* amlifo, cylchlifo, amredeg, cylchredeg, amdroi, cylchgerdded, damredu, amlifeirio, cylchlifeirio, amdeithio, cylchdeithio, amgynniwair, amgynnired, coreddu, amlenwi, chwyldroi; llifo, rhedeg, cerdded, treiglo, amdreiglo, cylchdramwy; myned o amgylch; myned o law i law; gwasgaru, chwalu, taenu, rhanu; cylchanfon.
The blood circulates very briskly—y mae y gwaed yn amlifo *neu* yn amredeg yn dra chwyrn.
Money circulates but poorly now-a-days—nid oes nemawr o arian yn myned, yn cerdded, *neu* yn pasio y dyddiau hyn; nid oes ond ychydig o arian yn myned *neu* yn cerdded y dyddiau hyn; nid

oes nemawr o drafod ar arian y dydd heddyw; nid oes ond ychydig o drafod *neu* drin ar arian y dydd heddyw.

To circulate a report — taenu chwedl; taenu hanes ar led; lledaenu hanes.

Circulating, *a.* (o *circulate*) damredol, amredol, amlifol, cylchynol, cylchredol, cylchrediadol, cylchfynedol, amdröedig, coreddus, amgylchol; oliannol.

Circulating decimals — corddegiadau, addegiadau; corddegiadaeth, ad-ddegiadaeth.

Circulating library — lloglyfrgell, cylchlyfrgell, llyfrgell gylchredol, llyfrfa dreigl, llyfrgell gylchynol.

Circulating medium — tâl cylchynol, treinwerth, cyfrwng train, arian damred.

Circulation, *s.* (Ll. *circulatio*) cylchrediad, amrediad, amdroad, cylchdroad, damred, damrediad, amlifad, amlifiant, amlifiad, cylchlifiad, cylchlifiant, amdreiglad, treiglad, damgylchiad, coreddiad; rhediad, mynediad; cylcharian, cylchdal; taeniad, gwasgariad, lledaeniad.

Circulation of the blood — amlifad y gwaed, amrediad y gwaed, cylchrediad y gwaed, gwaedrawd, gwaedre.

Organs of circulation — amrediadon, peiriadau amrediad.

Gold in circulation — aur damred, aur ar drain.

Circulatorious, *a.* (Ll. *circulatorius*) cylchdeithiol, amdeithiol, cylchdeithiog, amdeithiog; yn teithiaw o fân i fân.

Circulatory, *a.* (Ll. *circulatorius*) cylchynol, cylchynaidd, cylchredol, amredol, amgylchynol, cylchanfonol, damredol, amgylchol, coreddol.

Circulatory letter — cylchlythyr, llythyr cylchanfon, llythyr cylchynol.

Circulatory, *s.* damredell=math o lestr fferyllig.

Circum, (Ll.) rhagddawd yn dynodi *am, cylch, amgylch, oddi amgylch, yn nghylch, o amgylch, o bob tu.*

Circumagitate, *v. a.* (Ll. *circum* ac *agito*) amgyffröi, amgynhyrfu, amysgogi.

Circumambiency, *s.* (Ll. *circum* ac *ambio*) amgylcholdeb, amgylchynoldeb, cylchynoldeb, cylchynolrwydd, cylchyniad, amgylchyniad, amgylcholrwydd, cylchrediad, amredoldeb, cwmpasiad.

Circumambient, *a.* amgylchol, amgylchynol, cylchynol, cylchredol, amredol, cwmpasol, amgylchyniadol, cylchynedig.

The circumambient air — yr awyr o'n hamgylch; yr awyr amredol, yr awyr amgylchol, yr awyr amgylchynol.

Circumambulate, *v. n.* (Ll. *circumambulo*) amrodio, cylchrodio, darymred, amredeg, rhodiaw o amgylch, amwibio, tramwyo, amdramwy.

Circumambulation, *s.* (o *circumambulate*) amrodiad, cylchrodiad, amdramwyad, amdreiniad, amwibiad.

Circumcellians, *s. pl.* (Ll. *circum* a *cella*) Amgelliaid, Amgellwibiaid=rhyw bobl anwybodus â ymlynent wrth y Donatiaid, yn y pedwerydd canrif.

Circumcise, *v. a.* (Ll. *circumcido*) enwaedu; enwaedu ar; cylchdori, blaendori.

To circumcise one's self — ymenwaedu.

Circumciser, *s.* (o *circumcise*) enwaedydd, enwaedwr.

Circumcision, *s.* (Ll. *circumcisio*) enwaediad; cylchdoriad, blaendoriad.

Circumclusion, *s.* (Ll. *circumcludo*) amgaead, amgaead, cylchedigaeth.

Circumcursation, *s.* (Ll. *circum* a *curso*) daramred, darymrediad, daramrediad; rhediad yn ol ac yn mlaen.

Circumduct, *v. a.* (Ll. *circumduco*) diddymu, difodi, dilëu, dirymu, dïeffeithio; gwneyd yn ddïeffaith; amdrosi, cylcharwain, amarwain, amdywys, damdywys.

Circumduction, *s.* (Ll. *circumductio*) diddymiad, difodiad, dilead, dirymiad; amarweiniad, amdywysiad, cylcharweiniad.

Circumfer,† *v. a.* (Ll. *circumfero*) amgario, amgludo, amgywain.

Circumference, *s.* (Ll. *circumferentia*) amgylchedd, cylchedd, rhygylch, cylch, amgant, cwmpas, cylched, coras, cant, tronad, dargylchiad, gogylch, gogylchedd.

Circumference,† *v. a.* cylchedu, gogylchu, gogylchiadu.

Circumferential, *a.* (o'r Ll. *circumferentia*) cylchiadol, cylcheddol, amgylchol, amgantol, amgylchiadol, gogylchiadol, cwmpasol, cylchedol, rhygylchol.

Circumferentor, *s.* cylchedydd, cylchedyr, congliadyr, amgylchyn.

Circumflect, *v. a.* (Ll. *circumflecto*) hirnodi, hiracenu; gosod acan amgylchedig ar.

Circumflex, *s.* (Ll. *circumflexus*) hirnod, hiracan, hiracen, acan hir, acan amgylchedig, acen hirdon, tôn amgylchedig, fforchnod=^.

Circumflex, *v. a.* hirnodi, hiracenu; hirseinio, hirgynanu.

Circumflexed accent, } =*Circumflex, s.*
Circumflected accent, }

Circumfluence, *s.* (Ll. *circumfluens*) amlifeiriad, amlifeiriant, cylchlifeiriant, cylchlifeiriad, damlifiant, cylchlifad, amffrwd, damffrwd, llifad o amgylch, dyfrgylchyniad.

Circumfluent, } *a.* (Ll. *circumfluo*) amlifeiriol,
Circumfluous, } cylchlifeiriol, amlifol, cylchlifol, amlifiannol, amddyfrol, amddyfrog, amddyfrwys, amffrydiol, dyfrgylchynol, damffrydiol, damlifol.

Circumforanean, } *a.* (Ll. *circumforaneus*) am-
Circumforaneous, } wibiol, amgrwydrol, cylchgrwydrol, gwibiol, crwydrol, cylchfynedol, cylchdramwyol, amryred, crwydredigol; yn gwibiaw o dy i dy.

Circumforaneous fiddler — crythor crwydr, ffilor crwydrad.

Circumfulgence, *s.* amdywyniad, cylchdywyniad, amlewyrchiad, damlewyrch, amleufer.

Circumfulgent, *a.* (Ll. *circumfulgeo*) amdywynol, amlewyrchol, damlewyrchol, cylchdywynol, amlachar, damdywynol, damlewychol.

Circumfuse, *v. a.* (Ll. *circumfundo*) amdywallt, cylchdywallt, amwallofi, amsoddi, damdywallt; tywallt o amgylch; amdaenu; amgylchu, cylchynu.

Circumfusile, *a.* (Ll. *circumfusus*) amdywalltadwy, amhydywallt, amdywalltol, cylchdywalltol, amhydaenol, amwallofol, amdaenadwy.

Circumfusion, *s.* (o *circumfuse*) amdywalltiad, cylchdywalltiad, amwallofiad, damdywalltiad; amdaeniad.

Circumgestation, *s.* (Ll. *circum* a *gestatio*) amgludiad, amgariad, amgyweiniad; dygiad neu gludiad o gylch; amborthiad.

Circumgyrate, } *v. a.* (Ll. *circum* a *gyrus*) am-
Circumgyre, } dreiglo, cylchdreiglo, amrolio, amdroi, amdreillio, amrolian.

Circumgyration, *s.* (o *circumgyrate*) amdreiglad, cylchdreiglad, amdreilliad, amroliad, cylchdroad.

Circumition, *s.* (Ll. *circumitio*) amfynediad, cylchfynediad, chwyliad.

Circumjacent, *a.* (Ll. *circumjacens*) amorweddol, cylchorweddol; yn gorwedd o amgylch; à orwedd o amgylch; amgyffiniol, amminiog, argyffiniol.

Circumligation, *s.* (Ll. *circum* a *ligatio*) amrwymiad, cylchrwymiad, damglymiad; amrwymyn, cylchrwymyn.

Circumlocution, *s.* (Ll. *circumlocutio*) cylchymadrodd, amgylchiaith, gogylchiaith, amgylchiaeth, amiaith, cylchareithiad, cylchlafariad, ammrawdd, ameiriad, amair.

Circumlocutory, *a.* cylchymadroddol, amgylchieithol, amieithol, ameiriog, ammroddol, cylcheiriog.

Circummured, *a.* (Ll. *circum* a *murus*) amgaerog, amgadarn, ammuriedig, amfuriedig, cylchfuriedig, caerog, damgaerog, damgaerol.

Circumnavigable, *a.* (Ll. *circumnavigo*) amfordwyadwy, amfordwyol, cylchfordwyol, amhylong, damfordwyol.

Circumnavigate, *v. a.* (Ll. *circumnavigo*) amfordwyo, cylchfordwyo, amhwylio, cylchhwylio, amforio, amlongwrio, damfordwyo; hwyliaw o amgylch.

Circumnavigation, *s.* (o *circumnavigate*) amfordwyad, cylchfordwyad, amhwyliad, cylchhwyliad, amfordwyaeth, amforiad.

Circumnavigator, *s.* (o *circumnavigate*) amfordwywr, cylchfordwywr, amhwyliwr.

Circumplexion, *s.* (Ll. *circumplexus*) amblygiad, cylchblygiad, damblygiad.

Circumplication, *s.* (Ll. *circumplico*) amblygiad, cylchblygiad, amleniad, amdwygiad, amddiad, amgaeniad.

Circumpolar, *a.* (Ll. *circum*, a *polar*) ambegynol, cylchbegynol; am y pegwn; oddeutu neu o gylch y pegwn.

Circumposition, *s.* (Ll. *circum* a *positio*) cylchosodiad, amgyflead, amosodiad, cylchgyflead.

Circumrasion, *s.* (Ll. *circumrasio*) amnaddiad, amraglad, amrwbiad, ameilliad.

Circumrotary, } *a.* (Ll. *circum* a *rota*) amdro-
Circumrotatory, } awl, cylchdroawl, amroliadol, amdreigladol, chwyldroawl.

Circumrotation, *s.* (Ll. *circum* a *rotatio*) amdroad, cylchdroad, amdreiglad, cylchdreiglad, chwyldroad, amdröedigaeth, amdro, damdreilliad.

Circumsciasile, *a.* (Ll. *circumscindo*) amholltol, amholltadwy, amholltaidd.

Circumscribe, *v. a.* (Ll. *circumscribo*) amgau, amgyffinio, amgylchu, damgylchu, amgylchiadu, amgylchynu, damgylchynu, cylchynu, terfynu; rhoi, cadw, *neu* attal o fewn terfynau; gosod terfyn; tynu o fewn llinellau; terfynu â llinellau; cyfyngu, argyfyngu; cyffinio, ffinio; amysgrifenu, cylchysgrifenu.

Circumscribable, *a.* (o *circumscribe*) terfynadwy, amgaeadwy, amgylchadwy, damgylchadwy.

Circumscription, *s.* (Ll. *circumscriptio*) terfyniad, cyffiniad, amgauad, terfyn, cyffin, ffiniad, amgae, amgylchyniad, cylchyniad, damgylchiad; mesur; gosodiad terfyn *neu* derfynau; cyfyngiad; amysgrifeniad, cylchysgrifeniad; amddarluniad.

Circumscriptive, *a.* (Ll. *circumscriptus*) terfyniadol, terfynol, amgauol, amgauedig, cyffiniadol, ffiniadol, cylchynol, cylchynedig, cyfyngol, cyfyngedig, damgylchiadol.

Circumspect, *a.* (Ll. *circumspectus*) amwel, amgraff, amgraffus, amgall; gochelgar, gwiliadwrus, ymogelgar, gwagelog, amgelog; gofalus, rhagofalus, darbodus, pryderus; pwyllog, ystyriol, hybwyll, diesgeulus, call, doeth, pwyllus, synwyrol; yn edrych o'i flaen ac o'i ol; yn edrych yn ei gylch *neu* o'i amgylch; gwyliadwrus o bob tu.

To be circumspect—bod yn ochelgar, &c.; rhagddarbod, rhagofalu, gwilio, gwiliad, gwylio, ymgadw; edrych o'i flaen; edrych yn ei gylch; ceinadu, amweled, damdremio.

Circumspection, } *s.* (Ll. *circumspectio*) gochel-
Circumspectness, } garwch, gwyliadwriaeth, gwiliadwriaeth, gocheliad, gofal, pryder, pwyll, ystyriaeth, callineb, doethineb, callder, rhagofal, darbodaeth, rhagddarbodaeth, cynnarbod, hybwylledd, ystyrioldeb, amgraffineb, amgraffder, amsyniad, amweliad, amwelediad, rhagbryder, rhagbryderiad, ceinad; edrychiad o amgylch.

Circumspective, *a.* (Ll. *circumspectus*) gochelgar, gwiliadwrus, gwyliadwrus, darbodus, gofalus, rhagofalus, call.

Circumstance, *s.* (Ll. *circumstantia*) amgylchiad; dygwyddiad, dygwydd; cyflwr, sefyllfa, helynt, ansawdd, cyflwrw; peth, mater, achos; haiu, damwaen, chwaen, amchwaen, hap, traill; cylchiad, cylchsafiad, amberthynas.

Circumstances being so—gàn fod y peth, y mater, yr achos, *neu* yr amgylchiad felly; gàn fod y peth *neu* y mater yn sefyll felly.

In tolerable circumstances—yn ddïangen, yn ddiddiffyg; mewn amgylchiadau gweddol.

Circumstances are such—mae y peth *neu* yr amgylchiad yn sefyll felly.

I am in that unhappy circumstance—yr wyf yn y cyfryw gyflwr *neu* ansawdd annedwydd.

He is in good circumstances—y mae efe mewn amgylchiadau da; y mae mewn ansawdd da; y mae yn dda ei ansawdd; mae efe yn gyfoethog; mae efe yn gynhes yn y byd.

He is in bad circumstances—y mae efe mewn amgylchiadau drwg; y mae yn ddrwg ei ansawdd *neu* sefyllfa; y mae mewn sefyllfa ddrwg; y mae mewn cyflwr drwg; mae mewn cyflwr helbulus; y mae efe mewn anghyflwr.

Circumstance, *v. a.* amgylchiadu; gosod mewn amgylchiad, cyflwr, *neu* sefyllfa; gosod yn y cyflwr a'r cyflwr; gosod mewn sefyllfa neilltuol; cylchynu gàn ddamweiniau priodol.

I being thus circumstanced—a mi yn y sefyllfa hon; a mi yn y cyflwr hwn; a mi yn sefyll fel hyn; a mi yn yr amgylchiadau hyn.

Circumstant, *a.* (Ll. *circumstans*) amgylchol, cylchynol.

Circumstantial, *a.* (Ll. *circumstans*) amgylchiadol, cydfynedol; perthynasol; dygwyddiadol, dygwyddol, damweiniol; gogylchiadol, cylchynol; helaethlawn, cynnwysfawr; manwl, penodol, neilltuol; anhanfodol.

Circumstantial mistake—amryfusedd *neu* gamsyniad mewn amgylchiadau; camsyniad amgylchiadol.

Circumstantial evidence—prawf amgylchiadol; eglurder amgylchiadol.

Circumstantials—dygwyddolion, amgylchiadolion, amgylcholion; pethau amgylchiadol; pethau nad ynt hanfodol.

Circumstantiality, *s.* (o *circumstantial*) amgylchiadoldeb, amgylcholrwydd; manylder, manoldeb, manylwch, manylrwydd; penodoldeb, neilltuolrwydd.

Circumstantiate, *v. a.* (o'r Ll. *circumstantia*) arddangos, amgylcholi, amgylchiadu; darlunio yn amgylchiadol; darlunio peth yn nghyd â'i amgylchiadau; rhoi mewn amgylchiad; cyflawn egluro; manwl egluro; manylu ar; arbenodi; darlunio, dadgan, *neu* egluro amsawdd, cyflwr, *neu* gynneddf; amgylchnodi.

Circumterraneous, *a.* (Ll. *circum* a *terra*) amddaiarol; am y ddaiar; amddaiardrig.

Circumundulate, *v. a.* (Ll. *circum* ac *undulatus*) amdonogi, cylchdonogi, amlifeirio.

Circumvagant, *a.* (Ll. *circumvagus*) amgrwydrol, cylchgrwydrol, amlwybrol, amwib, damgrwydrol.

Circumvallate, *v. a.* (Ll. *circumvallo*) amgloddio, damgloddio, cylchgloddio.

Circumvallation, *s.* (Ll. *circumvallo*) amglawdd, cylchglawdd, gwarchglawdd; amgaer; amgloddiad, damgaeriad, damgloddiad.

Circumvection, *s.* (Ll. *circumvectio*) amgludiad, damgludiad, cylchgludiad, cludiad oddi amgylch.

Circumvent, *v. a.* (Ll. *circumvenio*) twyllo, hocedu, somi, camgolledu, hudo; damgylchu, amgylchu.

Circumvention, *s.* (o *circumvent*) hocediad; twyll, hoced, hocediaeth, somiant, twyllofaint, disodliad;† lluddiad, rhwystr, rhagflaeniad.

Circumventive, *a.* (o *circumvent*) twyllodrus, hocedus, hudolus.

Circumvest, *v. a.* (Ll. *circumvestio*) amwisgo, amddilladu, amdrwsio, amdöi, amguddio.

Circumvollation, *s.* (Ll. *circumvolvo*) amhediad, amhedeg, amehedeg, amhedfan, amhedegiad.

Circumvolution, *s.* (Ll. *circumvolo*) amdreiglad, cylchdreiglad, amdreilliad, amrod, amchwyl, amdro, amdroad, cylchrediad, cylchdroad, chwyldro, chwyldroad, amdraill, amroliad, amdreigl, cylchdro, damdreiglad.

Circumvolution (in architecture)—amrod, amdraill.

Circumvolve, *v. a.* (Ll. *circumvolvo*) amdreiglo, amdreillio, amdroi, cylchdreiglo, cylchdroi, cylchdreillio, amrodi, chwyldroi, amchwylo, amrolio; treiglaw o amgylch.

Circus, *pl.* Circuses, *s.* (Ll.; Gr. *circos*) cemmaes; camplanerch, campasfa, chwareule.

Circus Maximus—y Cemmaes Mawr (yn Rhufain gynt).

Cirl, *s.* math o aderyn Italig.

Cirrhigrada, *s. pl.* (Ll. *cirrus* a *gradus*) crycheddogion, crychysgogiaid.

Cirrhiped, Cirriped, } *s.* (Ll. *cirrus* a *pes*) crychbedog, siderbedog, blewbedog.

Cirrhipeda, Cirripeda, } *s. pl.* crychbedogion, siderbediaid, crychdroedogion.

Cirrhopoda, *s. pl.* (Ll. *cirrus*, a Gr. *pous*) crychbedogion, blewbedogion, blewdroediaid.

Cirrhopode, *s.* crychdroed, crychbedog, blewbedog, blewbedogyn.

Cirriferous, *a.* (Ll. *cirrus* a *fero*) amglymog, llysglymog, amdorchog, amglymddwyn.

Cirrigerous, *a.* (Ll. *cirrus* a *gero*) crychgudynog, crychlofnog, llofnog, cudynog.

Cirro-cumulus, *s.* brithgwmwl, màn-gwmwl.

Cirro-cumulo-stratus — gwlawgwmwl, cwmwl crychdarth.

Cirro-stratus, *s.* cilgwmwl, sarngwmwl, crychwasarn, traethawyr.

Cirrose, Cirrhose, Cirrhous, Cirrous, } *a.* (Ll. *cirrosus*) amglymaidd, amdorchaidd, llysdorchaidd, llysglymaidd, llysrwyaidd; crychderfynol.

Cirrus, *s.* (Ll.) crychgragen, crychgrogen.

Cirrus, *s.* (Ll.) amdorch, amglwm, amglymydd, amdorchiad, amdorchydd; llysrwy.

Cirrus, *s.* (Ll.) crychgwmwl, plugwmwl, cwmwl blaengam, cwmwl blew geifr.

Cirsocele, *s.* (Gr. *cirsos* a *cêlê*) torhadbib.

Cissoid, *s.* (Gr. *cissos* ac *eidos*) eiddewgom.

Cissus, *s.* (Gr. *cissos*) gwylltrab, grabwydd gwyllt.

Cist, *s.* (C.; Ll. *cista*; Gr. *custis*) cod, gwain, coden, gwysigen, crawngod, crawngoden, llidgai, gorgai; cornwyd.

Cistern, *s.* (Ll. *cisterna*) dyfrgist, dyfrgerwyn, cerwyn; pydew, pydaw, ffynnon, pwnt, cronfa.

Cistic, *a.* (o *cist*) gorgeiol, llidgeiol, crawngodog.

Cistus, *s.* (Gr. *cistos*) creigros, corros; creigrosyn, corrosyn, rhosyn y graig.

Common cistus, Common rock-rose, } creigros cyffredin, corros cyffredin; creigrosyn cyffredin.

Hoary dwarf cistus—corrosyn lledlwyd, creigrosyn lledlwyd.

Spotted-flowered cistus—corrosyn rhuddfanog, creigrosyn rhudd mànog.

Cit, *s.* (talfyriad o *citizen*) dinesydd, dinaswr; bwrdais.

Citadel, *s.* (Ff. *citadelle*, It. *citadella*) castell, amddiffynfa, diffynfa, tŵr, arfle, arforsaf, arfgell.

Cital, *s.* (o *cite*) cerydd, sen; cyhuddiad; dyfyn, gwŷs; dyfyniad, geirallebiad; llythyr gwŷs *neu* ddyfyn.

Citation, *s.* (Ll. *citatio*) gwŷs, dyfyn, dyfyneb, glwyswys, gwyslythyr, llythyr gwŷs, llythyr dyfyn; dyfyniad, dyfynawd, gwysiad, arwysiad; geirallebiad, allebiad; dygiad tystiolaeth *neu* awdurdod; cyfrifiad, crybwylliad, crybwyll.

To neglect to answer to a citation — tremygu gwŷs.

Citatory, *a.* (o *cite*) dyfynol, dyfyniadol, gwysiol, gwysiadol, arwysiol, dyfynodol, geirallebol; galwadol; yn galw ger bron.

Letters citatory—gwyslythyrau, llythyrau dyfyn, llythyrau gwŷs.

Cite, *v. a.* (Ll. *cito*; Ff. *citer*) dyfynu, gwysio, arwysio, dyfyn; galw; galw ger bron; geirallebu, allebu; gorchymyn, erchi, cyfar-

wyddo, annog; cymhell; dwyn tystiolaeth neu awdurdod; rhybuddio.

Citer, *s.* (o *cite*) dyfynwr, dyfynydd, gwysiwr, gwysiedydd, rhingyll; geirallebydd.

Citess, *s.* (o *cit*) dinesyddes, dinasyddes, dinaswraig.

Citharistic, *a.* (Gr. a Ll. *cithara*) telynol, telynaidd, telanaidd.

Citharoxylum, *s.* (Gr. *cithara* a *xulon*) crythwydd.

Cithern, } *s.* (Gr. a Ll. *cithara*) telynan; math
Cittern, } ar offeryn cerdd dannau ar arfer gynt.

Citicism, *s.* (o *cit*) dinasfoesau, moesau dinesydd, moesau dinasol, moes y ddinas, moes y dref.

Citied, *a.* (o *city*) dinasol, dinasog, dinasaidd.

Citigrade, *a.* (Ll. *citus* a *gradus*) buanred, mythred, mythredol.

Citigrade, *s.* mythredion, mythredolion, mythsymmudiaid, corynod buanred, mythysgogiaid

Citizen, *s.* (Ff. *citoyen*, o'r It. *citta*) dinesydd, dinasydd, dinaswr; bwrdais, bwrgais; trefwr; trigiannydd.

Fellow-citizen—cyd-ddinesydd.

Citizen, *a.* dinesyddol, dinasyddol, dinasfreintiol, dinasfreiniol.

Citizenize, *v. a.* (o *citizen*) dinesyddio, dinesyddu, dinasfreintio; gwneyd yn ddinesydd.

Citizenship, *s.* (o *citizen*) dinasfraint, dinesyddiaeth, dinasyddiaeth.

Citole, *s.* dwsmel.

Citrate, *s.* (Ll. *citrus*) llebronaint, hal llebafal, coedronaint.

Citrene, *s.* (o *citron* neu *citrus*) llebronul, hedolew eurafal.

Citric, *a.* (Ll. *citrus*) llebronig, eurafalig, eurfalig, coedronig, llebafalig, aeronig.

Citric acid—sur llebronig, sur eurfalau.

Citril, *s.* cethlydd tlws yn Italia.

Citrination, *s.* (o *citrine*) llebliwiad, eurliwiad, melynliwiad.

Citrine, *a.* (Ll. *citrinus*) llebronol, llebronaidd, llebliw, llebliwiog, melynliw, eurliw; o liw yr eurafal; glasfelyn.

Citrine, *s.* llebrisial, llebgris, melyngris.

Citron, } *s.* (Ll. *citron*, *citrus*, *citreum*, *citrum*;
Citrus, } Ff. *citron*) llebron, llebrawn, coedron, llebafal, llebfal; eurafal, eurfal.

Citron-tree—llebronwydden, llebfalwyddden, eurfalwydden: *pl.* llebronwydd, llebafalwydd, eurafalwydd, eurfalwydd.

Citron-water—llebronwy, llebafalwy, dwr llebron.

Citrul, } *s.* (Ll. *citrus*, a Gr. *hulé*) melon,
Citrule, } mwlon, pompiwn.

City, *s.* (Ff. *cité*; It. *citta*; o'r Ll. *civitas*) dinas; caer, caerdref, tref gaerog, din.

Chief city — prifddinas, pendinas, mamddinas, prifgaer, pencaer, mamdref, dinas benaf.

City freedom, } dinasfraint.
Freedom of a city, }

To make one free of a city—dinasfreintio; gwneuthur un yn ddinasfreiniol; gwneyd un yn gyfranog o ddiuasfraint; derbyn un i'r gymdeithas ddinasol.

Royal city—dinas freninol, dinas freiniol, llysddinas, llysddin.

The city is up in arms—y mae gwŷr y ddinas oll mewn arfau; y mae y ddinas oll dàn arfau.

A small city—dinasan, dinas fechan, corddinas, trefan, cordref.

Walled city—dinas gaerog.

A city of defence—dinas gadarn; dinas gaerog; dinas amddiffyn, dinas amddiffynol.

City, *a.* dinasol, dinasaidd, dinesig. [unol).

City court—dinaslys (yn y Taleithiau Cyf-

City manners—moesau dinasol, moesau dinesig; moesau y ddinas; moes y dref.

City life—buchedd ddinesig.

Citysin, *s.* (o *cytisus*) eurongyfog, llebgyfog.

Cives, *s. pl.* (Ff. *cive*; Ll. *cepa*) cenin Pedr, cenin syfi, cenin Ffrainc; sibwl, sibol, corwynwyn.

Civet, *s.* (Ff. *civette*; Al. *zibeth*; Per. *zabad*) cathfwsg, cathystor, milfwsg.

Civet-cat, *s.* pergath, y gath ber, ystorgath.

Civic, *a.* (Ll. *civicus*) dinesig, dinasol, dinasaidd; gwladol.

Civic crown—coron ddinesig=coronbleth o gangau derw à roddid gàn y Rhufeiniaid i un à achubasai fywyd dinesydd.

Civil, *a.* (Ll. *civilis*) dinasol, dinasaidd, dinesig; gwladol, gwladaidd, gwledig; moesog, moesgar, hyfoes, moeswych, moddgar, moddus, dygiadus, dillynwych, moeswymp, moesweddol, moesol, boneddigaidd, syber, syberw; hynaws, rhywiog, rhywiogaidd, gweddaidd, cyweithasol, rhadlawn, mwynaidd, mwynlan, mwyn, caruaidd; gwaraidd, gwareiddiol, gwareiddiedig; difrifol, difrif, sobr, syber, symul; diwair, gŵyl; mewnol, cartrefol; hawliadol.

Civil war—rhyfel cartrefol, rhyfel ciwdodol, rhyfel teisban, rhyfel teyrnasol.

Civil law—cyfraith wladol, cyfraith lëyg, cyfraith fyd, cyfraith y byd, bydraith, gwladraith; y gyfraith Rufeinig.

Doctor of civil law—doethor cyfraith lëyg; doethor cyfraith wladol; doethor y *neu* yn y gyfraith lëyg.

Civil and ecclesiastical — gwladol ac eglwysig; gwledig ac eglwysig; gwladaidd ac eglwysig; gwladol ac eglwysol; mewn gwlad ac mewn eglwys.

Civil list—cynnaliaeth y goron, traul y goron; brenindraul, teyrndraul; y rhes wladol, traul y wladwriaeth, talion gwladol.

Civil architecture—adeilyddiaeth ddinesig, adeiladaeth ddinasol, adeiloniaeth wladol.

Civil engineer—peiriannydd dinesig, peiriannydd dinasaidd.

In civil causes—mewn materion dinasol *neu* wladol.

Civil suit—cwyn gwladol, hawl ddinasaidd; cwyn hawliadol, cynghaws gwladol, cynghaws gwledig.

Civil rights—iawnderau gwladol, defion gwladol.

Civil society—brodoriaeth, gwledigaeth, y gymdeithas wladol; cymdeithas wareiddiol.

Civil constitution—cyfansoddiad gwladol, cyngosodiad gwladol, ffurflywodraeth, gwladoldeb, gosodiad gwladol.

Civilian, *s.* (o *civil*) rheithofydd, bydreithiwr, cyfreithiwr gwladol, gwladreithiwr; gwr o gyfraith fyd; doethor cyfraith lëyg; cntraw

cyfraith wladol; rheithysgolor, ysgolor y gyfraith wladol.

Civilist, † *s.*=*Civilian.*

Civility, *s.* (Ll. *civilitas*) moesgarwch, moesogrwydd, hyfoesedd, moeswychedd, moddgarwch, moddusrwydd, dillynwychedd, dygiadusrwydd, moes, moes ac arfer, cyflysdod, mynogaeth, syberwyd; hynawsedd, addfwynder, mwyneidd-dra, caredigrwydd, cyweithasrwydd, rhadlonedd, mwynedd, mwyneiddwch, mwynder, boneddigrwydd, boneddigeiddrwydd, gweddeidd-dra; gwareiddiant.

To offend against custom and civility—troseddu yn erbyn moes ac arfer y byd.

I was willing to perform this part of civility towards him — yr oeddwn yn ewyllysio gwneuthur hyn o garedigrwydd *neu* wasanaeth iddo.

Civilities — gweithredoedd o foesgarwch, &c.

Civilization, } *s.* (o *civilize*) gwareiddiad, gwar-
Civilisation, } eiddiant, moesoliad, gwaredd, gwareidd-dra, gwareddogaeth, moesogiad, gweddeiddiad, hyweddiad, gwarhad; † gwladoliad.

Civilize, *v. a.* (Ff. *civiliser;* It. *civilizzare*) gwareiddio, moesoli, gwareddu, gwareddoli, hyweddu, gweddeiddio, gwarhau; moesogi.

Civilized, *a.* (o *civilize*) gwareiddiedig, gwareiddiol, gwareiddig, moesedig, gwareddig, hyweddedig, moesoledig, moesol, diwygiedig, gwâr.

Civilizer, *s.* (o *civilize*) gwareiddiwr, moesolwr, &c.

Civism, *s.* (Ll. *civis*) gwladgarwch, brolwydd, cariad gwladol.

Clabber, *s.* (Gw. *clab, claba;* Al. *lab*) enwyn sur, llaeth enwyn sur, llaeth sur.

Clachan, *s.* (Gael.) llandref, corddlan.

Clack, *s.* (Ff. *claquer;* C. *clec*) clec, clep, clap, clegar, clegr, clegyr, dadwrdd, clebar, twrdd, dwndwr; clecai, clepai, clappren, tafod.

Mill-clack—clap melin, clepai melin, clappren melin.

Clack-valve—clapgaffell, clepddor.

Thy clack never lies still—nid oes byth daw ar dy glap; nid oes byth daw ar dy dafod.

Clack, *v. n.* clecian, clepian, clapian, clepio, clegru, clegr, clegyr, clegrain; clebran, clolian, dadwrdd, dadyrddu, baldordd, trystio, bragaldian; † nod-docio, tori y nod ymaith.

Clacker, *s.* (o *clack*) clepiwr, clapiwr, clepai, cleciwr, clecai; clebrwr; clepydd, clepiedydd, clappren.

Clacking, *s.* (o *clack*) clepiad, clapiad, clap, clec, dadwrdd, siaradach, baldordd, llol.

Claim, *v. a.* (Ll. *clamo*; S. *hlemman*) arddelwi, arddelw, arddel, hawlio, hawlu; hòni hawl; rhoi hawl ar; gofyn; holi, ceisio; ymarddelwi o; ymhoni o; dyly; honi, mynu; gwneyd arddel; † galw; † cyhoeddi.

That which nobody claims — dïarddelw, dïarddel, dihawl.

Claim, *s.* hawl, arddelw, ymarddelw, arddel, arddelwad, gofyn, dyled, dylyed; braint; † galwad.

To lay claim to=*Claim, v. a.*

Pending claim—hawlir, hawl anfarnedig.

Defunct claim—hawl wywedig.

Having no claim—difraint.

Claimable, *a.* (o *claim*) hawladwy, arddelwadwy, arddeladwy, gofynadwy, holadwy.

Claimant, } *s.* (o *claim*) arddelwr, arddelwydd,
Claimer, } ymarddelwr, hawlwr, hawlydd, ymhonwr, ymhonydd, gofynwr, gofynydd, holiedydd, holwr.

Claimless, *a.* (*claim* a *less*) dihawl; difraint; heb hawl.

Clair-obscure, *s.*=*Clare-obscure.*

Clairvoyance, *s.* (Ff.) claerweliad; claerganfod, claerganfodiad, tryweliad, tryweliant, tryweledíad; athreiddiad, treiddiad, dirnadaeth=y bummed radd mewn Mesmeriaeth.

Clairvoyant, *a.* claerwel, claerganfodol, claerganfyddol, trywel, tryweliannol, tryweliadol; treiddiol, athreiddiol, dirnadol.

Clam, *v. a.* (S. *clæmian;* Al. *klamm*) glynu, gludio, cyngludio, gludu, gwydnu, gwydnhau, gwydno, clymu, ewydno; gludluddio; lleithio; bod yn llaith; gludseinio.

Clam, *s.* glybysg, gludbysg, rhython y brain.

Clam-shell — glygragen, gludgragen: *pl.* glygregyn, glygragod.

Clamant, *a.* (Ll. *clamo*) gwaeddol, llefol, gwaeddfan; deisyfol.

Clamber, *v. n.* (o *climb*, neu o'r Is. *klampen*) dringo; dringo ar draed a dwylaw; dringaw o braidd; ymgripio, ymgripian.

Clamminess, *s.* (o *clammy*) gludiogrwydd, gwydnedd, gludrwydd, ewydnedd, gludedd, gwydnolrwydd, gwydnogrwydd, glynolder.

Clammy, *a.* (o *clam*) gludiog, gwydn, ewydn, gwydnol, gwydnaidd, glynol, ymlynol, ymgydiol, gafaelus; yn glynu, yn gludio; toeslyd.

Clamorous, *a.* (o'r Ll. *clamor*) dadyrddus, trystfawr, gwaeddgar, bloeddfawr, dadyrddol, seinfawr, bloeddgar, aedd, aeddfawr, croch, soniawr, trystiog, gorddyar, rhuadus, crochlefol, gwaeddfan, iwin, garmus, annystaw, siaradus; terfysgus, cyffroawl, brochus; haerllug, rhydaer.

Clamorousness, *s.* (o *clamorous*) trystforedd, gwaeddgarwch, bloeddforedd, seinforedd, trystiogrwydd, dadyrddusrwydd, dadyrddiant, annystawrwydd, &c.

Clamour, *s.* (Ll. *clamor*) dadwrdd, twrdd, twrf, trwst, dwrdd, dwndwrdd, dwndwr, swn; gwaedd, bloedd, dolef, banllef, llef, arwaedd, crochlef, gwaeddolef, garm, gawr, ysgarm, ynglef, diaspad, nad, dysgri, cri, dysgreth, argynan, dïas, annystawrwydd, llefain.

Clamour, *v.* dadyrddu, trystio, tyrddu, rhuo, diaspedain, gwaeddi, bloeddio, llefain, nadu, diasped, drygnadu, crochlefain, gwaddolef, ebychu, dylefain, goddolef, germain, ysgermain, gawri, garmu, garmio, crio, dysgrio, cadw swn, dwndro, arwaeddi; byddaru â sŵn syfrdanu â swn.

To clamour against — llefain yn erbyn; gwrthlefain, gwrthgrïo, gwrthdyrddu, gwrthodyrddu; gwaeddi yn erbyn.

To clamour bells—dadyrddu clych.

Clamourer, *s.* (o *clamour*) dadyrddwr, &c.

Clamp, *s.* (Is. *klamp*) rhingwar; cryfas, clymydd, cyfrwymydd.

Clamp of bricks—rhingwar o briddfeini, odynaid o briddfeini.

Clamp-irons—rhinghaiarn, clymhaiarn.

Clamp-nails—clymhoelion, rhinghoelion.

Clamp, *v. a.* rhingwaru, cryfasio, cryfasu, cyfrwymo, cydgylymu.

Clams, *s. pl.* (D. *klemmer*) hoelgraff, gwrthrimyn; dalgraff: rhython y brain, glybysg.

Clan, *s.* (Gw. a Gael. *clann*) llwyth, tylwyth, ciwdod, gwelygordd, cenal, teulu, epil, hil, hiliogaeth, cystlynan, cenedl, pynas, ach, cenel; gosgordd, cordd; plaid, cydymlynwyr.

Chief of a clan—pencenedl, pencordd, pentylwyth, penteulu, pencenal, penllwyth, penaeth llwyth.

Royal clan—breninllwyth, llwyth breninol, teyrnlwyth.

That old philosopher and his clan—yr hen athronydd hwnw a'i asgordd, a'i blaid, a'i ganlynwyr, *neu* a'i ddysgyblion.

Clancular, *a.* (Ll. *clancularius*) dirgel, anghyhoedd, cyfrinachol, cuddiedig, lledradaidd.

Clandestine, *a.* (Ll. *clandestinus*) dirgel, celedig, cuddiedig, cuddiadan, dystaw, cyfrinachol, diarwybod, lladradaidd, dàn llaw, cel, cudd.

Clandestine marriage—priodas wyllt, priodas guddiadan.

Clandestineness, *s.* (o *clandestine*) dirgeledd, dirgelrwydd, celedigrwydd, cuddiedigrwydd, celedigaeth.

Clang, *v. a.* (Ll. *clango*; Gr. *claggô*; Al. *klang*) cloncio, clongio, tolseinio, crochseinio, clincian.

Clang, Clangour, *s.* (Ll. *clangor*) clonc, clong, tolsain, crochsain, llymsain.

Clangorous, Clangous, *a.* (o *clangor*, *clang*) clonciol, clongiol, tolseiniol, crochseiniol, llymseiniol, crochsain.

Clank, *s.* (Ll. *clango*) clonc, tinc, crasdinc, clec, craglec.

Clank, *v. a.* cloncio, tincio, tincian, tincial, crasdincio, crasdincian; crochdyrddu, crochddadwrdd.

Clannish, *a.* (o *clan*) ciwdodaidd, ciwdodol, tylwythaidd; unedig, tyn-unedig, cydymlynol; fel un teulu.

Clannishness, *s.* (o *clannish*) ciwdodeiddrwydd, ciwdodoldeb, cytteuluaeth; cydunolrwydd, tyn-unolrwydd, cydlynoldeb.

Clanship, *s.* (o *clan*) ciwdodaeth, tylwythdod, cenaldod, ceneldod.

Clansman, *s.* (*clan* a *man*) ciwdodwr; un yn perthyn i lwyth *neu* dylwyth neilltuol.

Clap, *v.* (Is. ac Al. *klappen*) curo, clapio, clepio, dulio, taraw, taro, ergydio, ffusto, pwyo; bwrw, tafiu, dodi, rhoi, gosod; gwthio, hyrddu, hyrddio, gyru; brysdaflu; prysuro, brysio; canmawl, cyforddylio; poethredu, llosfrechu.

To clap hands—curo dwylaw; cyforddylio.

To clap on—dodi, gosod, rhoddi, *neu* rhoi ar *neu* wrth; clapio ar; gafaelyd yn *neu* ar; hoelio ar.

To clap down—rhoi, dodi, *neu* osod i lawr; bwrw, taflu, *neu* daro i lawr; gwasgu i lawr; secu i lawr; clapio i lawr.

To clap in—bwrw, dodi, rhoddi, rhoi, taro, *neu* glapio i mewn.

To clap spurs to—ysbarduno; rhoi ysbardunau ynddo *neu* wrtho; brathu ysbardunau mewn *neu* yn.

To clap up—gwneuthur ar frys; clapio i fyny; cyflawnu, cwblhau; gwneyd i fyny; gwneuthur heb na rhwysg na rhodres.

To clap up in prison—carcharu; dodi, gosod, rhoi, *neu* daro yn ngharchar; bwrw, tafiu, rhoi, *neu* rhoddi mewn carchar; bwrw *neu* daflu i garchar; bwrw *neu* daflu yn ngharchar; cau mewn carchar.

To clap a door to—cau drws yn chwyrn; chwyrndaraw drws; taro drws yn nghyd *neu* yn nghauad.

To clap the wings—curo adenydd, ffusto adenydd; curo *neu* ffusto adenydd yn nghyd; curo *neu* ffusto ei adanedd, ei edyn, *neu* ei adenydd.

To clap on sails—codi hwylian.

To clap close to—gwasgu, dodi, dàl, rhoi, *neu* daro yn dyn wrth *neu* yn erbyn.

To clap one on the back—curo, ffusto, taro, pwyo, *neu* gnithio cefn un; llochi, gorlyfnu.

To clap up together—plygu, sypio, *neu* sypynu yn nghyd.

To clap hands on—rhoi, gosod, *neu* ddodi dwylaw ar; dàl yn garcharor.

To clap a writ on one's back—rhoi ysgrifwys ar gefn un; rhoi ysgrifwys i un; rhoi cyfraith i *neu* ar un; dodi cyfraith ar un.

Clapping of hands—cyforddyl, curiad dwylaw.

Clap, *s.* (Al. *klapp*) clap, clep, clonc, twrf, trwst, diaspad; gwth, hyrddiad; cnoc, dul, ffat, cis, ysbonc, ergyd; isfyl.

Clap of thunder—twrf taran, trwst, (*pl.* trystau), taranglap, taranglep, clap taran, talym, talm, tarandwrf, tarandrwst.

At one clap—ar unwaith; ar un ergyd.

After-clap—olglap, eilddyrnod, eildarawiad, ergyd yn ol llaw, dygwyddiad disymmwth.

Clap, *s.* (Ff. *clapoir*; Is. *klapoor*) hadred, poethred; llosfrech, anlladwst, poethwst, poethglwyf.

Clap-board, *s.* erwydden, astyllen erwydd, estyllen baril; to-erwydden, to-astell.

Clap-dish, *s.* dysgl bren, cawg pren, ffiol bren.

Clap-doctor, *s.* meddyg llosfrech, poethredfeddyg.

Clap-net, *s.* claprwyd, rhwyd ehedydd, rhwyd hedydd.

Clapper, *s.* (o *clap*) clapiwr, clepiwr, clapiedydd, clap, clepai, clappren, clecai, tafod, clepdafod; ystwffwl; †cwning-gaer.

Bell-clapper—tafod cloch, clap cloch.

The bell-clapper—tafod y gloch, clap y gloch.

Door-clapper—ystwffwl, morthwyl drws, dorglap, dorglecai, cnocyr.

Mill-clapper—clap melin, clappren melin.

Bird-clapper—adarglap, clap adar.

Clapperclaw, *v. a.* (*clap* a *claw*) difrïo, difenwi, tafodi, ymdafodi â, clewtian, danneddu, cecru.

Clap-trap, *s.* clapdelm, clepdag.

Clarenceux, Clarencieux, *s.* (oddiwrth ddugiaeth *Clarence*) yr ail arwyddfardd, yr ail arffrenin, arwyddfardd Clarens, defrenin pen beirdd.

Clare-obscure, *s.* (Ll. *clarus* ac *obscurus*) claerwyll, claerwylliad.

Claret, *s.* (Ff. *clairet*) claered, claerwin, ffuonwin.

Clarichord, *s.* (Ll. *clarus* a *chorda*) claerdant, claergord.

Clarification, *s.* (o *clarify*) teriad, gloewad, claerad, cleiriad, purad, dïanmhurad.

Clarifier, *s.* (o *clarify*) teriedydd, terydd, claerydd, gloewydd; terlestr.

Clarify, *v.* (Ff. *clarifier;* Ll. *clarifico*) teru, gloewi, puro, puriannu, claeru, cleirio, dïanmhuro; ymderu, ymloewi, goleuo; tynu yr ewyn, dïewynu.

To clarify honey—teru mêl.

Clarified honey—mêl ter.

Clarinet, } Clarionet, } *s.* (Ff. *clarinette*) tolgorn, tolbib.

Clarion, *s.* (Ff. *clairon;* Ysp. *clairin*) rhueinell, claergorn, udgorn meinllais.

Clarion of war—llugorn, cadfan, cadgorn, udgorn cad.

Clarisonous, *a.* (Ll. *clarisonus*) claerseiniol, llafarseiniol, llafarleisiol, croewseiniol, llafargroew, llafarglaer, crochlafar, croch, llafar; arianllais.

Claritude, } Clarity, } *s.* (Ll. *claritudo, claritas*) terineb, claerineb, gloewder, gloewineb, purder, claerder.

Clary,† *v. n.* (Ll. *clarus*) crochleisio, banllefain.

Clary, *s.* (Ll. *clarus*) gwerddonell, ceidwad, claer.

Wild English clary—torfagl, claer, gorchwyraid, gorchwyraidd, gorchwyrydd, llygad Crist, clais Mair, had y llygad.

Purple clary—cochlas, clais y moch, clych Durham.

Meadow clary—gwerddonell y waen.

Clary-water, *s.* claerwy.

Clash, *v.* (Is. *kletsen;* Al. *klatschen*) gwrthdaraw, gwrthdaro; taraw wrth, taraw yn erbyn; targio, targu, trystio, grillio, seinio; anghytuno, anghydsynio, anghordio, anghyttynu, amrafaelio; gwrthgyfarfod.

Clash, *s.* gwrthdaraw, gwrthdarawiad, targ, trwst; anghydfod, anghordiad, anghytundeb, amrafael, amryson, anundeb, gwrthwynebiad.

Clash of arms—trwst arfau, grill arfau, targ arfau, llach arfau; trwst, swn, grill, *neu* sain arfau yn curo *neu* yn taro yn erbyn eu gilydd; ymgur arfau.

Clashing, *a.* (o *clash*) targiol, gwrthdarawol; gwrthwynebol, croes, anghytunol, anghordiol, amrafaelus, anghydsyniol, ymyrol, gwrthawl.

Clashing, *s.* targiad, gwrthdarawiad, gwrthergydiad; anghordiad, anghytunad; amryson, amrafael, anghydfod, anundeb; gwrthwynebiad, gelyniaeth; mawrdrwst.

Clasp, *s.* (Gw. *clasba*) gwäeg, craff, creffyn, tytmwy, amfach, boglyn, boglwm, dalfach, gafaelfach, clymgraff, gwanas, llaing; cofleidiad, coflaid, gwasgiad.

The hook of a clasp—ewinfach, dalfach, gafaelfach, gafael; dant, bach, *neu* ewin gwäeg.

Clasp, *v. a.* gwaegu, amfachu, tytmwyo, boglymu, boglynu, dalfachu, craffu, gafaelfachu, byclu; cofleidio, breicheidio; cau am, amgau, gwasgu, tynwasgu, argau, cau; plethu, cynghlymu, amglymu.

To clasp one's hands—plethu ei ddwylaw.

To clasp about—amglymu, amdorchi, amfachu, amblethu, amgydio, amrwyo; ymglymu am, ymblethu am, cymhlethu am, ymdorchi am; ymrwyo am; ymafael â.

She clasped him about the neck—hi a dafodd, a blethodd, *neu* a gymhlethodd ei breichiau am ei wddf.

To clasp to one's bosom—monwesu, mynwesu, twymfynwesu, twymgofleidio; cofleidio yn ei fonwes; gwasgu yn ei fonwes.

To clasp together—ymrabinio, ymrabin, cydymwasgu, cydgofleidio, ymgofleidio; ymwasgu yn nghyd.

Clasper, *s.* (o *clasp*) amdorch, amglwm, amglymydd, amdorchydd, amdorchiad, amglymiad, llysdorch, llysrwy, llysdorchiad: *pl.* amdyrch, amdorchau, amglymau, amglymiaid, amglymyddion, &c.

Claspered, *a.* (o *clasper*) amdorchog, amglymog, amdorchedig.

Clasping, *a.* (o *clasp*) amdorchol, amglymol, amdorchiadol, amglymiadol; yn amglymu.

Clasp-knife, *s.* ceu-gyllell, cyllell gau, cyllell yn cau yn y carn, cyllell blyg.

Clasp-nails, *s. pl.* clymhoelion, hoelion cloplydau, clobhoelion.

Class, *s.* (Ll. *classis;* It., Ff., ac Al. *classe*) dosbarth, trefn, gradd, rhestr, rhes, rhest, rheng, rhenc, urdd; cenedl, cenel; mainc; desebres, desebradd.

The first class—y dosbarth blaenaf; y fainc flaenaf *neu* uchaf.

He is in the second class—mae efe yn yr ail ddosbarth; y mae efe ar yr ail fainc.

Labouring classes—gwŷr gwaith a gorchwyl; y bobl weithgar; y werinos, y werin, y werin bobl; y dosbarthau *neu* y graddau llafurus *neu* lafuriol; y bobl weithiol *neu* lafuriol.

Class, *v. a.* trefnu, dosbarthu, rhestru, rhesu, rhesraddu; meincio.

Classic, } Classical, } *a.* (Ll. *classicus;* Ff. *classique*) uchawdurol, uchadurol, prifawdurol, arddysgaid, prifraddol, uchraddol, awdurol, awduraidd, awdurog, awduredig; arlenorol; coeth, coethedig, purieithol, pur, caboledig, tlysgoeth, ceinwych, gorwych, coethwych; safonol; profedig, hyglod, arglodig; cymmeradwy, profadwy; cymmanfaol.

Classical literature—arddysg, arlenoriaeth, arlenyddiaeth, uchlenoriaeth, arddysgeidiaeth, llenddysg; llenoriaeth uchawdurol *neu* arddysgaid, &c.

Classical languages—yr ieithoedd uchawdurol *neu* arddysgaid, &c.; ieithoedd Groeg a Rhufain; Groeg a Lladin; y Lladin a'r Groeg; yr ieithoedd dysgedig.

Classic, *s.* uchawdur, uchawdwr, prifawdur, arddysgur, arddysgeidur; awdur tlysgoeth, coethwych, *neu* goethieithol; awdur o'r radd uchaf; arddysglyfr, arddysgeidlyfr, saflyfr.

Classicality, } Classicalness, } *s.* (o *classical*) uchawduroldeb, uchadurolrwydd, arddysgeidrwydd, prifraddoldeb, awduroldeb; coethineb, purdeb, tlysgoethni, tlysieitholdeb, &c.

Classific, *a.* (o *classify*) dosbarthol, dosbarthus, dosbarthedigol, dosbarthiannol, trefniadol, trefnol.

Classification, *s.* (o *classify*) dosbarthiad, dosbarthiant, trefniad, rhestrad, desraddiad.

Classify, *v. a.* (Ll. *classis* a *facio*) trefnu, dosbarthu, dosbarthiannu, trefnoli, desraddio, rhestru, graddu.

Classis, *s.* (Ll.) dosbarth, trefn, gradd; math, rhyw; cynnullfa, cymmanfa.

Clatter, *v.* (Is. *klateren*, *kletteren*) clewtian, clewtio; diaspedain, clechdyrio; baldorddi, baldorfi, clolian, dadyrddu, dadyrddain, tyrddu, dwndro, dadwrdd, crochddadwrdd, gwagddwndro, rhuo, cecru, ymgecru, amrafaelio, ymserthu, ymdafodi, manson, grymial, ymlefain; trystio, clecian, treisglo, darstain, darsteinio, deldrystio, clychdaro, clychdori, clechdori.

To clatter and break things—clechdyrio, clechdori, clychdori, tori yn glechdyr.

Clatter, Clattering, *s.* diaspad, twrdd, trwst, tyrdd-glep, dadwrdd, clec, clewt, ffreg, dadsain, ysgort, godwrdd, godwrf, cynhwrf, treisglad, darstain, darsteiniad, deldrwst, ergydsain, baldordd, baldorf, ffregod; clechdyriad, clechdyr.

Clatterer, *s.* (o *clatter*) clewtiwr, darsteiniwr, clewtydd, &c.

Claudent, *a.* (Ll. *claudens*) cauol, caeol, cauadol, ymgauol; cyttynol, cydymdynol.

Claudent muscle—cyhyr cyttynol.

Claudicant, *a.* (Ll. *claudicans*) cloff, clunlaes, hecianol, clunheciol, gogloff.

Claudicate, *v. n.* (Ll. *claudico*) cloffi, clunhecian, hecian, gogloffi.

Claudication, *s.* (Ll. *claudicatio*) cloffni, cloffi, hecian, clunhecian, gogloffni.

Clause, *s.* (Ff.; Ll. *clausura*) adran, dosran, gosran, adranig; erthygl, pwynt, pwnc, penran, pyncyn; bannod, adnod, gwers, gwersig; aelod, rhan, darn, *neu* gymmal o ymadrodd; broddegran, adfrawdd, ameg; trofiad, trofaden.

By short clauses—yn doriadau; yn ddarnau bychain; yn rhanau bychain; yn wersi byrion; yn fyrwersi; bob yn aelod neu gymmal; bob yn adran, &c.

Claustral, *a.* (Ll. *claustrum*) clasorol, clwysol, clasol, clwysdyol, clasdyol, achuddol, clasaidd; monachlogaidd; perthynol i glwysdy neu grefyddfa.

Claustral prior—prior clwysdy, clwys-brior, prior clwys, prior clwysol.

Clausural, *a.* (Ll. *clausura*) adranol, dosranol, gosranol; bannodol, pynciol, baunodog, penranol.

Clausure, *s.* (Ll. *clausura*) cauad, cauedigaeth; cenbibell, annhrybibell, pibell gauedig.

Clavate, Clavated, *a.* (Ll. *clava*) clwpaog, clwpaidd, clobaidd, clopaidd, clopaol.

Clave, *s.* (Ll. *clavus*) ystol saer llongau.

Clavellated, *a.* (Ll. *clava*) clwpedig, clobedig, clopedig, clwpaog.

Claver, *s.* (Ll. *clavus*) meillionen grageilog, llysiau y myheryn, maglys amrywedd.

Claviary, *s.* (Ll. *clavis*) gofodradd, llinellradd; engraddeg, llinellang.

Clavichord, *s.* (Ll. *clavis* a *chorda*) cyweirdant, cyweirgord=offeryn cerdd.

Clavicle, *s.* (Ll. *clavicula*) pont yr ysgwydd, pont ysgwydd, trybedd yr ysgwydd.

Clavicornes, *s. pl.* (Ll. *clavus* a *cornu*) clobgornogion=math o drychfilod.

Clavier, *s.* (Ll. *clavus*) cyweirsain, cynghywair.

Claviger, *s.* (Ll.) allweddor, allwyddor, allweddog, agoriawdwr, agoriawdr.

Claw, *s.* (S.; Al. *klaue*) ewin, crafanc, carnewin, craf, bach, ysbag, palf: *pl.* ewinedd, ewinod, crafangau, &c.

Having red claws—crafrudd, crafgoch; coch ei grafangau.

Having strong and sharp claws—ewinddrud.

Claw, *v. a.* crafu, crafangio, crafangu, cripio, cripian, ewino, palfu, bachu; rhwygo; †truthio, gwenieitho.

To claw off *or* away—difrïo, clewtian, tafodi, cecru, danneddu; cosi; talu i; cael gwared o; dïanc rhag; troi at y gwynt.

Clawback, *s.* (*claw* a *back*) truthiwr, gwenieithwr.

Clawed, *a.* (o *claw*) crafangog, ewinog, bachog, ysbagog, ysbachog; crafangedig, cripiedig.

Clawless, *a.* (*claw* a *less*) digrafanc, digrafangau, dïewin, anghrafangog.

Clay, *s.* (S. *clæg*; Al. *kley*, *klei*) clai.

Potter's clay—priddgist, clai y crochenydd, pridd y crochenydd, cleigist, gwynglai.

Fuller's clay—pridd y panwr, clai y panwr, priddgalch, priddgalch y panydd, pridd gogarth.

Black clay—tombridd, tomdail.

Pipe clay—pibglai; clai pibau *neu* bibelli.

To cover with clay—cleio; gorchuddio *neu* wrteithio â chlai.

Full of clay—cleiog, llawn clai, llawn o glai, cleilawn.

Houses of clay—tai o glai, tai clai, cleidai.

Man is but a lump of clay—nid yw dyn ond telpyn o glai; nid yw dyn ond talp o bridd.

Clay, *v. a.* cleio; cuddio â chlai; puro â chlai.

Clay-built, *a.* clei-adeilog, clei-adeiledig; adeiledig o glai; à adeilwyd â chlai.

Clay-cold, *a.* oer fâl y clai; cân oered a'r clai; cleioer; oer, difywyd, anfyw, marw.

Clayes, *s. pl.* (Ff. *claie*) plethglwydau, clwydau.

Clayey, *a* (o *clay*) cleiog, cleilyd, cleiol; o glai.

Clayey soil—cleibridd, cleidir, cleiweryd, tir cleiog, daiar gleiog.

Clay-ground, *s.* cleidir, cleiddaiar, cleilawr, cleidud.

Clayish, *a.* (o *clay*) cleilyd, cleiog, cleiaidd, cleiol.

Clay-land, Clay-soil, *s.* cleidir, cleibridd, cleiweryd, tir cleiog, tir clai, pridd cleiog, daiar gleiog.

Clay-marl, *s.* cleifarl.

Claymore, *s.* (Gael. *claidheamh mòr*) gleifawr, cledd mawr; cleddyf llafnllydan Ucheldiriaid yr Alban.

Clay-pit, *s.* cleibwll, pwll clai, pwll y clai, cleiglawdd.

Clay-slate, *s.* cleilech, cleilechfaen, llech glai.

Clay-stone, *s.* cleifaen.

Clean, *a.* (S. *clæne*) glân; gloew, purlan, coeth, ter, terydd, pur, glain; glanwaith, taclus; dihalog, diwair; diwyg, disothach, dinam, dilwgr, difrycheulyd, llwys; clws, tlws, del, dillyn, destlus, syberw, syber, syw, teg, glandeg; hylaw, medrus, deheu.

As clean as a penny—cân laned a'r lamp.

To make clean—*Clean*, *v. a.*

Clean, *ad.* yn lân; yn hollol, yn llwyr, yn gwbl, achlân, yn llwyrgwbl; yn llwyr ac yn gwbl; yn llwyr achlân; o'r sylfaen, o'r

gwaelod, o'r gwraidd, o'r gwreiddyn, o'r gwadn; yn hylaw, yn fedrus, yn ddeheu.

Is his mercy clean gone for ever?—a ddarfu ei drugaredd ef dros byth? (*Salm* lxxvii. 8).

He hath made it clean bare—gàn ddynoethi dynoethodd hi (*Ioel* i. 7).

Clean and neat—glanwaith, glanwedd.

Clean, *v. a.* glanhau; puro, glanburo, glanweithio, teru, gloewi, coethi; dadfànu, dirydu; arloesi, chwynu; hoewi, pincio; diheuro, esgusodi; golchi yn lân; golchi ymaith; sychu, sychu ymaith; llyganu, llugeinio.

To clean shoes—glanhau esgidiau, sychu esgidiau.

Clean-handed, *a.* llawlan; glân ei ddwylaw.

Clean-hearted, *a.* glangalon, purgalon, calonlan; glân ei galon; glân o galon.

Clean-limbed, *a.* meindwf, tlws, gosgeddig; glân ei aelodau.

Cleanliness, *s.* (o *cleanly*) glendid; glanweithdra, glanweithdod, taclusrwydd, dillynder, destlusrwydd, sywder, sywdra, syberwyd, pefredd, tlysni; purdeb, purder, puredd.

Cleanly, *a.* (o *clean*) glân; glanwaith, glanwedd, glanweddus; pur, puraidd; diniwed, digymmysg; glanhaol; hylaw, medrus, deheuig; †tlws, nais, clws, cyfrwys.

Cleanly, *ad.* yn lân; yn bur, &c.

Cleanness, *s.* (o *clean*) glendid; purdeb, puredd, purder, purdra; gloewedd, gloewder; diniweidrwydd, gwiriondeb; manyldeb, manylwch, cywirdeb, cyweirdeb; tlysni, destledd, destlusrwydd, pefredd; diweirdeb; uniondeb, uniondeb.

Cleansable, } *a.* (o *cleanse*) glanadwy, purad-
Cleansible, } wy.

Cleanse, *v. a.* (S. *clænsian*) glanhau; puro, coethi, teru, gloewi, pureiddio; arloesi, dygarthu, gogarthu, carthu, dysgarthu; golchi; hidlo; iachäu; symmud ymaith.

To cleanse from chaff—nithio; digibo.

To cleanse from dregs—diwaddodi, diwaelodi; dïanmhuro, teru, puro, pureiddio; glanhau oddi wrth waddodion.

To cleanse from dross—disorodi; coethi, puro, glânburo; glanhau oddi wrth sorod.

To cleanse by straining—hidlo.

Easily cleansed—hawdd ei lanhau; hygarth, hylan.

Cleanser, *s.* (o *cleanse*) glanhäwr, purwr, coethwr, coethiedydd, golchwr, glanweithiwr, purydd, coethydd, coethai, purai: *pl.* coetholion, purolion, glanhaolion, glanweithiolion, coetheion.

Cleansing, *a.* (o *cleanse*) glanhaol, purol, coethol, teriadol, pureiddiol, puriadol; à lanhao, &c.

Cleansing spud—carthbren.

Cleansing, *s.* glanhad; purad, puredigaeth; glanweithiad, coethiad, golchiad; arloesiad.

Clean-timbered,† *a.* gwiwgyfartal, cywirwedd.

Clear, *a.* (C. *claer*; Ff. *clair*; Ll. *clarus*) eglur, amlwg, goleu, hysbys, hywel, honaid, dïargel, dilys; claer, gloew, dysglaer, ffloew, llachar, llathr, claerdeg, ter, pur, ysblan, ysblenydd, annhywyll; glân, cain, glain; araul, digwmwl, digaddug, anghymylog, digymylau, teg, tawelglaer; croew, llafar, eglurlawn, anghryg; rhydd, rhwydd, dirwystr, dinidr; diddyled, allan o ddyled; pur, digymmysg, purlan; dïeuog, diargyfedd, difai, gwirion, diddrwg, dilwgr, rhyddedig, diniwed, anllygredig, digwl; agored, iâl, gâl, gaith, oeth; difyngial, difyngus; craff, craffus, hyddeall, trywel; tawel, esmwyth, llonydd; iach, diglefyd; dïammheu, dibetrus, anwadadwy; difrychau, difrycheulyd; diragfarn.

Thoroughly clear—tryloew, tradysglaer, dysglaer drwyddo, claer drwyddo, gloew drwyddo, tragoleu, trallewyrchedig; hyglaer, hyloew, canloew.

Clear of sight—craff *neu* graffus ei olwg; llygadgraff; teryll *neu* gyflym ei olwg.

Clear of understanding—craff ei ddeall; craffus ei ddeall; parod *neu* gyflym ei synwyr; bywiog ei feddwl; call, synwyrol, synwyrgraff, deallgraff, doeth, parodbwyll, pwyllgraff, hyddeall.

Clear shining—llewyrchiad.

Clear of trouble—didrafferth, didrallod, dïofid, digaeth, didres; wrth ei fodd ei hun; rhydd oddi wrth drafferth *neu* drallod.

Clear voice—llais croew, llais llafar, llafarlais, llais anghryg, llais hyseiniol.

Having a clear voice—croewlais, eglurlais, pedrylef, llafarlef; â chanddo lais croew, &c.

Clear weather—tywydd teg, tywydd goleu, hin deg, hin oleu, hin araul, tywydd claer, hinon, hindda, hin dda, cynnwll; sychin.

A clear night—noswaith oleu, nos oleu, nos ddigaddug, noswaith serloew, noswaith serloer, noswaith serigl.

Clear glass—gwydr goleu, gwydr gloew.

As clear as crystal—mòr loew, mòr glaer, mòr ddysglaer, *neu* mòr eglur a'r crisial.

As clear as the day—mòr oleu a'r haul; mòr eglur a'r haul; mòr oleu a'r dydd.

In the clear day—liw dydd goleu; ar ganol dydd goleu.

It is a clear case—mater diddadl ydyw; mater eglur *neu* amlwg yw; mae yn amlwg; mae yn eglur; mae yn ddilys.

The matter is clear—y mae y peth yn eglur; nid oes lle i ymddadleu yn nghylch y peth.

He embarassed a very clear case—efe a dywyllodd fater eglur iawn; efe a dywyllodd yr hyn oedd ar y cyntaf mòr amlwg a'r haul yn dysgleirio ar hanner dydd.

Clear conscience—cydwybod lân; cydwybod lân ddirwystr; asgre lân.

Safe is the owner of a clear conscience—asgre lân, diogel ei pherchen.

Clear character—nodweddiad dïargyhoedd; cymmeriad gloew; gair da dienllib, dïogan, dinam, dinag, dihort, *neu* ddifefl.

Clear estate—treftadaeth rydd, treftadaeth ddiddyled; treftadaeth rydd ddiddyled; tiriogaeth ddiddyled; tir heb ddyled arno.

Clear forehead—talcen digrychni; talcen digrych; talcen agored; gwyneb llawen, araul, *neu* siriol; talcen hywel.

A woman of a clear complexion—gwraig

deg ei gwedd; dynes deg ei phryd; benyw deg ei phryd a'i gwedd.

Clear title—hawl ddiddadl, ddïammheu, ddïwrthddadl, *neu* ddïwrthladd; hawl amlwg *neu* honaid.

The coast is clear—nid oes neb yma; yr ydym ni yma yn gwbl ddiogel *neu* ddiberygl; darfu y perygl; aeth y gelyn i'w gilfach; mae'r cost yn rhydd.

Clear water—dwfr gloew, dwr croew, dwfr glân, gloew-ddwfr.

Clear land—tir gâl, tir agored, iâl, tir diwylledig, diwylldir, ialdir, galdir.

Clear (of a building) — goleu, eangder, gàniad, cynnwys, cynnwysiad, helaethrwydd.

The clear of a liquid—gloewon.

To make clear=*Clear, v.*

To come off clear—dïanc allan o berygl; dyfod *neu* fyned ymaith yn ddïangol, yn ddïasgen, yn ddïanaf, *neu* yn iach ddïanaf.

To get clear—ymryddhau, ymddirwystro, ymddirwydo; hebrwng oddi wrtho.

To keep clear from danger—cadw *neu* ymgadw rhag perygl; gochel enbydrwydd; cilio rhag perygl *neu* enbydrwydd; sefyll allan o ffordd enbydrwydd.

To stand clear—rhoi lle; rhoi ffordd; cilio *neu* sefyll oddi ar ffordd.

Clear of guilt—dïeuog; rhydd oddi wrth euogrwydd.

Clear from infection—iach, dïasgen, diniwed, dilwgr, dihaint, diglefyd.

Clear space—iâl; goleu; lle agored; lle rhydd, lle gwag.

Clear profit—ennill digoll, ennill cyfan, ennill didwn, llwyr ennill, glân ennill, ennill digolled, ennill glân, mael rhydd, ennill hollol.

Clear, *ad.* yn eglur, yn amlwg, &c.; yn lân, yn hollol, yn llwyr, yn gwbl.

To fall into one's clutches — syrthio i grafangau *neu* fachau un; syrthio i ddwylaw un.
Clutter, *s.* (C. *cluder*) pentwr, cruglwyth, cadgamlan, cluder, crug annyben; annybendod; dadwrdd, dwndwr, godwrdd, baldordd, twrf, twrdd, trwst, cynhwrf, cythrwfl, terfysg.
Clutter, *v.* cludeirio; cyttyru yn annhrefnus; gwneyd cymmysgfa; annhrefnu, annybenu; dadyrddu, dwndro, dadwrdd, trystio, terfysgu, cynhyrfu; ymdyru, ymgasglu.
Clypeaster, *s.* (Ll. *clypeus* ac *astrum*) asddraenog.
Clypeate, *a.* (Ll. *clypeatus*) tarianaidd, tarianddull; ar ddull tarian.
Clypeus Sobieski, *s.* Tarian Sobieski=enw cydser.
Clysmic, *a.* (Gr. *chlusma*) golchol, golchiadol; glanhaol.
Clyster, *s.* (Ll.; Gr. *clustêr*) rhefrolch, llafrolch; llafrelliad.
Clysterize, *v. n.* (o *clyster*) rhefrolchi, llafrellu, chwistrellu y rhefr.

Clyster-pipe, *s.* rhefrell, llafrell, rhefrbib, rhefrchwistrell.
Clysterwise, *ad.* fel llafrell, fel rhefrbib.
Cnicus Benedictus, *s.* ysgallen fendigaid.
Co, Col, Com, Con, Cor, } blaenddodion Lladin yn cyfateb i *cyd, cym, cyf, cys, cy, cyn, yn nghyd, cyng, gyda,* yn y Gymraeg.
Coacervate, *v. a.* (Ll. *coacervo*) pentyru, crugio, tyru, cyttyru, tyru yn nghyd; cynnodi, chwanegu.
Coacervate, *a.* (Ll. *coacervatus*) pentyrol, crugiol, crugiog, athyrol, cyttyrol, cynnulledig.
Coacervation, *s.* (o *coacervate*) pentyriad, crugiad, crugiant, tyriad, cyttyriad, dasyliad.
Coach, *s.* (Ff., Port., ac Ysp. *coche*) cerbyd; clud.
Mail coach — llythyrglud, llythyrgerbyd, cerbyd llythyrddwyn.
Stage coach—teithglud, teithgerbyd.
Hackney coach—cerbyd llog, hurgerbyd, hurglud, llog-gerbyd, clud llog, cerbyd hur.
Mourning coach — galarglud, alaethglud, cerbyd galar.
Coach, Couch, } *s.* olgell (mewn cadlong).
Coach, *v.* cerbydo; cludo; clutteithio, cerbytteithio; teithio mewn cerbyd; cludgario, cerbydgario; cario mewn cerbyd.
Coach-box, *s.* cerbydgist, cludgist, cludsedd, eisteddle cerbydwr.
Coachful, *s.* (*coach* a *full*) cerbydaid, llonaid cerbyd.
Coach-hire, *s.* cluttal, cerbyttal, hur cerbyd.
Coach-horse, *s.* cerbydfarch, cludfarch, march cerbyd.
Coach-house, *s.* cerbytty, clutty, ty cerbydau.
Coachmaker, *s.* (*coach* a *maker*) saer cerbydau, cerbydsaer, cludsaer, gwneuthurwr cerbydau.
Coachman, *s.* (*coach* a *man*) cerbydwr, cerbyddydd, cerbytai, cludyrwr.
Coachmanship, *s.* (o *coachman*) cerbydwriaeth, cludyriadaeth; medrusrwydd i yru cerbydau.
Coact, † *v. a.* (Ll. *coacto*, o *con* ac *ago*) cydweithredu, cyfweithredu, cydweithio.
Coaction, *s.* (Ll. *coactio*) cymhelliad, cymhelliant, diriad, dirgymhelliad, gorfod, gorfodiad, dirdra, dirmi.
Coactive, *a.* (Ll. *coacto*) cymhelliadol, cymhellol, gorfodol, argymhelliadol; cydweithredol, cydweithiol, cyweithiol.
Coadjument, *s.* (Ll. *con* ac *adjumentum*) cymhorth, cynnorthwy, cydborth, cysborth, cyffirwy.
Coadjutant, *a.* (Ll. *con* ac *adjutans*) cynnorthwyol, cymhorthol, cannorthol, cydborthol, cyffirwyol, cyfnerthol; cydweithiol, cyweithiol.
Coadjutor, *s.* (Ll. *con* ac *adjutor*) cynnorthwywr, cynnorthwr, cymhorthwr, helpwr, cannorthwr, cynnorthydd, cyfnerthydd, cyfnerthwr, cydgynnorthwywr, cydswyddog, cyffirwywr, cydhelpwr, cydgymhorthydd.
Coadjutorship, *s.* (o *coadjutor*) cynnorthyddiaeth, cannorthyddiaeth, cymhorthiant, cannerthiant.
Coadjutrix, *s.* (o *coadjutrix*) cynnorthwyes, cymhorthes, cannorthyddes, &c.
Coadjuvancy, *s.* (Ll. *con* ac *adjuvans*) cydgymhorth, cydgynnorthwy, cyffirwy, cydborth, cysborth, cymhorth, cynnorthwy, cydborthyd.
Coadunate, *a.* (Ll. *coadunatus*) bongydiol, bonunedig; cyfasedig.
Coadunition, *s.* (Ll. *con*, *ad*, ac *unitio*) cynghydiad, uniad, unad, cynghasgliad, cyttaliad, cynhalpiad, defngydiad, casgliad yn nghyd.
Coadventurer, *s.* (Ll. *con*, ac *adventurer*) cydanturiwr, cydlyfaswr, cyflyfaswr, cydarfeiddiwr.
Coafforest, *v. a.* (Ll. *con*, ac *afforest*) cydbrysori, cydfforestu, troi yn goedwig; prysori, fforestu.
Coagent, *s.* (Ll. *con* ac *agens*) cydweithredydd, cydweithydd, cydoberwr, affeithiwr.
Coagment, *v. a.* (Ll. *coagmento*) cyttyru, cydbentyru, cydgrugio; tyru *neu* fwrw yn nghyd; gwneuthur yn un twr, yn un garn, yn un corff, *neu* yn un clamp; cydgyssylltu; cyssylltu yn nghyd.
Coagmentation, *s.* (o *coagment*) cyttyriad, cydbentyriad, cydgrugiad; tyriad *neu* fwriad yn nghyd, &c.
Coagmented, *a.* (o *coagment*) cyttyrog, cyttyredig, pentyrog, crugiog, crugiedig; cyttalpiedig.
Coagulability, *s.* (o *coagulable*) ceulogrwydd, hygeulogrwydd, ceiadolrwydd, ceuladwyoldeb.
Coagulable, *a.* (Ll. *coagulo*) ceuladwy, cawsadwy, ceiadwy, tolchadwy, fferadwy; cyttyradwy.
Coagulate, *v.* (Ll. *coagulo*) ceulo, ceuledu, cawsio; troi yn geuled; peru ceulo; ceio, tolchi, cyttyru; fferu; cyttewychu, ymdewychu; cydgasglu.
Coagulated, *a.* ceuledig, cawsiedig, tolchedig, ceulog, cawsiog, tolchog.
Coagulation, *s.* (o *coagulate*) ceulad, cawsiad; cyttewychiad, ceiad, cynghorffoliad, cynghorffiad, cyttyriad; fferad, fferdod; tolchiad, tolcheniad; tolch, tolchen.
Coagulative, *a.* ceuladol, cawsiadol, ceulediadol, cyttewychol, tewychiadol, cyttyriadol; à bair geulo.
Coagulator, *s.* ceuledydd, ceuledyr, ceulydd, cyttewychydd.
Coagulum, *s.* (Ll.) ceuled, caul; cywer; tolch, tolchen.
Coak, *s.* = *Coke.*
Coaking, *s.* cesgydiad.
Coaks, *s. pl.* trodyllau; hirdrumiau.
Coal, *s.* (S. *col, coll;* Al. *kohle*) glo: *dim.* glöyn.
Bind coal, Binding coal, } glo rhwym.
Cannel coal, Candle coal, } glo rhinc, glo rhing, glo canwyll, glo ffaglog.
Burning coal, Live coal, } glo byw; rhysod, marwor, marwydos, marwor tanllyd.
Blind coal, Stone coal, Glance coal, Anthracite, } glo caled, glo careg, caledlo, maenlo, glo maen.
Flaky coal—glo ysbagog.
Splint coal—ysgyrlo.
Small coal, Culm, } glo cwlwm, glo cwlm, glo clwm, cwlwm, cwlm.
Cob coal—glo clampiog.
Coked coal—glo golosg, golosglo.
Black coal, Bituminous coal, } pyglo, glo du, glo duglist.
Brown coal, Lignite, } glo llwyd, llwydlo, coedlo, coedlo duglistaidd.

Jet coal—glo muchudd, glo much.
Coals of fire—marwor tanllyd.
As coals are to burning coals—fel glo i'r marwor.
To carry coals to Newcastle—iro blonegen; bwrw heli i'r môr; bwrw heli yn y mór; bwrw dwfr i, i'r, *neu* mewn afon; cyrchu *neu* nol dwr dros afon; gwneuthur gorchwyl afraid.

Coal, *v. a.* golosgi; llosgi yn olosg; glonodi; nodi â golosg.

Coal-basin, *s.* basarn glo, pannyledd glo, globant, haenbant glo, pant glo; cae glo.

Coal-basket, *s.* basged glo, basged lo; basged golosg.

Coal-black, *a.* mòr ddu a'r glo; càn ddued a'r muchudd; gloddu, gorddu, gloewddu, duddu, gloliw.

Coal-box, *s.* hawg glo, crwth glo, ysgutell glo, ysgutell lo, cafn glo, hawg, ysgutell, ysgutyll.

Coal-cart, *s.* cart glo, glo-gart.

Coalery, *s.* (o *coal*) gwaith glo, glofa, glowaith, globwll, pwll glo, clawdd glo.

Coalesce, *v. n.* (Ll. *coalesco*) cyduno, cydymuno, cyfuno, ymgyduno, uno yn nghyd; ymlynu, cydlynu, glynu, ymgyssylltu; cyttyfu, cyfdyfu, ymgyttyfu; tyfu yn un *neu* yn nghyd; myned yn un *neu* yn nghyd.

Coalescence, *s.* (o *coalesce*) cyduniad, cydymuniad, cyfuniad, unad, uniad, uniant, undeb, ymgyduniad; uniad yn nghyd; ymlyniad, glyniad, ymgyssylltiad, cyssylltiad, cynghorffiad; cyttyfiad, cyfdyfiad; tyfiad yn nghyd.

Coalescent, *a.* (Ll. *coalesco*) ymunol, cydunol, cyfunol; cyttwf, cyttyfol, undwf; yn tyfu yn un *neu* yn nghyd; yn myned yn un *neu* yn nghyd.

Coal-eyed, *a.* llygadlo, dulygeidiog, llygad-ddu; â'i lygaid mòr ddu a'r glo; glo-lygeidiog.

Coal-field, *s.* cae glo, maes glo, glofaes.

Coal-fire, *s.* tân glo.

Coal-fish, *s.* globysg. [haenau glo.

Coal-formation, *s.* glowanafau, gwanafau glo,

Coal-gas, *s.* glo-nwy, nwy glo.

Coal-hod, *s.* ysgutell lo, hawg glo.

Coal-hole, *s.* glodwll, twll glo.

Coal-house, *s.* ty glo.

Coalier, } *s.* (o *coal*) glöwr.
Coallier, }

Coalite, † *v. a.* uno, cyfuno.

Coalition, *s.* (Ll. *coalesco*) cyfuniad, cyduniad, cydymuniad, cyfymuniad, cyssylltiad, cydiad, ymgydiad, uniad, unad, undeb, ymuniad.

Coalitioner, *s.* cyfymunwr, &c.

Coally, *s.* (Ll. *con*, ac *ally*) cydblaid, cydbleidiwr, cymhleidydd.

Coal-measure, *s.* mesur glo.

Coal-measures, *s. pl.* glowanafau, gwanafau glo, haenau glo, glofesurau.

Coal-meter, *s.* glofesurydd, golygwr mesur glo.

Coal-mine, *s.* globwll, gloglawdd, pwll glo, globwll.

Coal-miner, *s.* glöwr, glofwrwr.

Coal-mouse, *s.* y benlöen lygliw, penlöyn llygliw, yswigw benddu, yswidw benddu.

Coal-office, *s.* swyddfa glo, glo-swyddfa.

Coal-pit, *s.* globwll, pwll glo, gloglawdd, glowaith, gwaith glo.

Coal-plants, *s. pl.* globlanigion, glolysiau, llysiau glo.

Coal-scuttle, *s.* hawg glo, crwth glo, ysgutyll glo, cafn glo, ysgutell glo, hawg, ysgutell.

Coal-ship, *s.* llong lo, llestr glo.

Coal-stone, *s.* glofaen.

Coal-tar, *s.* tàr glo, ulbyg glo.

Coal-work, *s.* gwaith glo, glowaith, glofa, globwll, gloglawdd, pwll glo.

Coaly, *a.* (o *coal*) gloaidd.

Coal-yard, *s.* buarth glo.

Coamings, *s. pl.* (?) ymylau gorddor, ymylau clorddrws.

Coannex, *v. a.* (Ll. *con*, ac *annex*) cydattodi, cyfatddodi, cydgyssylltu, dodi wrth.

Coapprehend, *v. a.* (Ll. *con*, ac *apprehend*) cydamgyffred, cyd-ddirnad, cyd-ddeall.

Coaptation, *s.* (Ll. *con* ac *apto*) cyfaddasiad, cydaddasiad, cymmesuriad, addasiad, cydgymhwysiad.

Coarct, } *v. a.* (Ll. *coarcto*) cydwasgu, cy-
Coarctate, } wasgu, cyngwasgu; crugio, pentyru; cyfyngu, caethiwo, caethu; rhwystro, attal, lluddias, nadael.

Coarctation, *s.* (o *coarctate*) cydwasgiad, cywasgiad, cyngwasgiad; caethiwad, caethiad, cyfyngiad; attaliad, attalfa, attal, rhwystr, lludd, cwtogiad.

Coarse, *a.* (Ll. *crassus*) garw, braisg, bras; trwsgl, (*f.* trosgl), trysglaidd, gwrthun, trwstan, taiog, taiogaidd, anfoneddigaidd, difoes, difwyn, anfoesog, afiednais, annillyn, annestlus, annillynwych, anhyfoes; gwael; anghoethedig, anghoethus, anghoeth, anmhur; anfedrus, anhyfedr.
Coarse cloth—brethyn garw; llian garw, lliain garw.
Coarse thread—edeu fraisg, edaf fraisg, edef fraisg, edef fras.
Coarse wool — gwlan garw, bras-wlan, gwlan bras.
Coarse language—iaith drosgl, trosgliaith, iaith anghoeth, iaith anfoneddigaidd.
Coarse behaviour — ymddygiad trwsgl, ymddygiad anfoneddig, ymddygiad difoes, ymarweddiad anfoneddigaidd, &c.
Coarse metal — mettel anghoeth *neu* anghoethedig; adwyn anmhur.

Coarseness, *s.* (o *coarse*) garwedd, gerwinder, breisgedd; trysgledd, taiogedd, taiogrwydd, anfonedd, anfoneddigrwydd, anfoesedd, anfoesogrwydd, afiedneisrwydd, annillynedd, anharddwch; anghoethedd, anghoethineb, anmhurdeb, gwaelder, gwaeledd, gwaelineb.

Coassessor, *s.* (Ll. *con*, ac *assessor*) cydeisteddwr, cyfeisteddog, cyfeisteddwr; cyttrethwr.

Coassume, *v. a.* (Ll. *con* ac *assumo*) cydgymmeryd; cydgymmeryd ar *neu* at; cydamryfu.

Coast, *s.* (Ll. *costa*; Ff. *côte*; Al. *küste*) goror; arfordir, mordir, glàn y môr, morlan, arfordwy, cost; bro, gwlad, ardal, parth, tuedd, tiriogaeth; terfyn, cyffin, or, ymyl; cwr, ymyl, eithaf, min, *neu* derfyn gwlad; blaenau, minion, *neu* gyffiniau gwlad; ystlys, ochr; eithafdir.
Sea-coast—arfordir, mordir, glàn y môr, arfordwy, traeth, tywyn, morfin, morlan, morfan, ardalwy, dyarfor, mordai, ardudwy.
The inhabitants of the sea-coast—trigolion y mordir (*Iudeth* ii. 28).
Towns along the coast—arfordrefi, trefi arfor, trefi arforol.
Towards the north coast—ar dueddau y gogledd; ar ororau y gogledd; ar duedd y gogledd; ar gost y gogledd.

In our coasts—yn ein hardaloedd; yn ein parthau, &c.
The coasts of the earth—ystlysau y ddaiar (*Ier.* xxv. 32).
The coast is clear—nid oes neb yma; yr ydym ni yma yn gwbl ddiogel *neu* ddiberygl; darfu'r perygl; aeth y gelyn i'w gilfach; mae'r cost yn rhydd.

Coast, *v.* glànforio, orhwylio, gororhwylio; morio *neu* fordwyo gyda'r tir; hwylio gyda'r làn; gerhwylio, ori; hwylio ger llaw, wrth, neu yn agos i.
To coast along — morio, mordwyo, *neu* hwylio gyda'r tir; morio gyda'r làn.

Coaster, *s.* (o *coast*) orlong, arforlong; glànforwr, hwyliwr gyda'r tir.

Coasting-trade, *s.* ordrafnid, gororfasnach; masnach arfor *neu* arforol.

Coasting-vessel, *s.* orlong, llestr arfor; llong à hwylio gyda'r tir.

Coast-rock, *s.* orgraig, arforgraig, craig arfor.

Coast-sediment, *s.* orwaddod, costwaddod, gwaddod arfor. [cwnsallt.

Coat, *s.* (Pf. *cotte;* It. *cotta*) hugan, coban, côb, hug, hugyn, pais; amwisg, arwisg, twyg, bonffest, telyw; tudded, caen, caenen, rhuchen, huchen, rhuch, crawd, haen, haenen, gorchudd, gwisg; carden.
Coat of arms—pais arfau, achen, arfbais, arfeb; cwnsallt.
Coat of mail—llurig, cadbais, pais ddur, durbais, cynddyl, crys mael, crys dur, llurig emog; curas.
Wearing a coat of mail, } llurigog; dur-
Armed with a coat of mail, } gaen, durgaenog, durgaenedig, cynddylog.
To put on a coat of mail—llurigo, gwisgo llurig, ymlurigo; ymwisgo â *neu* mewn llurig.
To strip one of his coat of mail—dadlurigo un, dilurigo un; dihatru un o'i lurig.
Herald's coat—tabar, pais arwyddfardd;
Riding coat — côb farchogaeth, hugan farchogaeth.
Travelling coat — teithgob, teithgoban, teithbais, hyntbais.
Great coat—côb uchaf, hugan fawr, côb fawr, argoban, uchgoban, uchbais.
Dress coat—trwsgob, trwsgoban, trwsbais.
Frock coat—mantgoban, mantbais.
Waist-coat—gwasgod; berdwyg, crysbais.
Loose coat—llaesgob, llaesgoban, llaesbais, hugan laes.
Close coat—tynhug, tynhugan, tyngoban, coban den.
Petticoat—pais benyw, pais merch, pais bun, pais.
Coat of many colours — hugan fraith; siaced fraith (*Gen.* xxxvii. 3).
Turn-coat—enciliad, ciliad, ffoadur, encilydd, gwrthgiliwr, pleidgiliwr.
Horse's coat—blew ceffyl, blew march.
To cast his coat—bwrw ei henflew; ysgythru ei hen flew.
A hawk of the first coat—hebog dwyflwydd; gwalch dwyflwydd oed.
Coat-feathers—plu, pluf, mânesgyll.
Coat of a mast—amwisg yr hwylbren; amwisg bon hwylbren.
To put on a coat—gwisgo hugan; gwisgo neu roi pais am dano; dilladu â hugan *neu* bais; rhoi gwisg am *neu* ar; gwisgo.
Cut your coat according to your cloth—tor dy bais yn ol dy frethyn; oni elli wneuthur fel y mynot, gwna fel y gallot.
My coat must pay for that—fy nghroen i a orfydd dalu; arnaf fi y syrth y gosp am hyn.
Near is my coat, but nearer is my skin—nes i mi fy nghrys na'm pais; nes penelin nag arddwrn; agos fy nghrys, agosach fy nghroen.

Coat, *v. a.* caenu, caenenu, gwisgo; rhoi gwisg am *neu* ar; gorchuddio, huddo; taenu dros; gorchuddio dros; tuddedu, tuddo; rhucho, rhuchio.

Coat-armour, *s.* pais arfau, achen, arfbais, arfeb; cwnsallt, arfarwyddion, arwyddion bonedd.

Coating, *s.* (o *coat*) gorchudd, gorchuddiad, toad, caeniad, tuddad, gwisgad, amwisgad; caen, haen; llurigad; brethyn huganau, defnydd cobau, brethynion.

Coax, *v. a.* (C. *cocri*) coegio, gwenieitho, gwenieithu, cocri, truthio, hudo, boddio, gwenfoddio, hudfoddio, twyllfoddio, llithio, lloddi, pratio; tynu drwy deg; hudo â geiriau teg.

Coaxation, *s.* (o *coax*) coegiad, cocraeth, cocr, truthiad, gwenieithad, boddiad, deniad.

Coaxer, *s.* (o *coax*) coegiwr, gwenieithydd, truthiwr, hudwr, llithiwr, denwr, hudfoddiwr, pratiwr, cocrwr.

Cob, *s.* (C.; Al. *kopf*) pen, y pen, cop, côb, copa, top; crinwas, cybydd, gwr crin; pelen, pelan, pel, bwl; blanc, ebol annysbaidd; merlyn, corfarch; còr, pryf copyn, còryn; cleiwellt; breichfasged, breichgesten; maenan.
Herring cob—penwegyn, penweigyn; ysgadenyn ieuanc heb gyrhaedd ei lawn dwf.

Cob, *s.* (It. *gabbiano*) hucan, gwylan lwyd.

Cob, *v. a.* ffiangellu âg astell, llafrastellu.

Cobalt, *s.* (Al. ac Is.) cobalt=math o ddelid brau, o liw cochlwyd neu lwydwyn.
Cobalt-bloom—fflur cobalt. [cobaltog.

Cobaltic, *a.* (o *cobalt*) cobaltig, cobaltaidd,

Cobalto-cyanide, s. cobaltlesid.

Cobble, } *s.* (o *cop;* C. *cob, cop*) crynfaen,
Cobble-stone, } grofaen, treiglfaen, treigfaen,
Copple-stone, } caregan, maenan, treiglarn,
Cob-stone, } creigarn: *pl.* crynfain, crynfeini, grofeini, grofain, caregos, cerygos, creigarnau, &c.

Cobble, } *s.* (S. *cuople*) cwch pysgota, pysgod-
Coble, } fad; ceubal.

Cobble, *v. a.* (D. *kobbler*) clytio, brasglytio, brasdaclu, brasgyweirio, brasdrwsio, trwsio.
To cobble old shoes — clytio, taclu, *neu* gyweirio hen esgidiau.

Cobbler, *s.* (o *cobble*) clytiwr, brasglytiwr, brasdaclwr, brasdrwsiwr, brasbwythwr, cyweiriwr trwsgl; bongler, bwngleryn, bongleryn; gweithiwr anghelfydd; gwaelyn.
Let not the cobbler go beyond his last—digon i bob un ei gelfyddyd ei hun.

Cobby, † *a.* (o *cob*) cryf, pybyr, gwrdd; bywiog, sionc.

Cobcal, *s.* llopan ddwyreiniol; sandal benyw yn y Dwyrain.

Cobcoals, *s. pl.* glo clampiog.

Cobelligerent, *a.* (Ll. *con*, *bellum*, a *gero*) cydryfelog, cydryfelus, cyfryfelog, cydryfelgar, cyflueddog, cydllüyddog, cydlueddus.
Cobelligerent, *s.* cydryfelblaid, cyfryfelog, cydaerallu; cenedl *neu* deyrnas yn cydryfela.
Cobiron, *s.* (*cob* ac *iron*) gobed, brigwn.
Cobishop, *s.* (Ll. *con*, a *bishop*) cydesgob, cyfesgob.
Cobitis, *s.* (Ll. *cobio*) llyfrothod, llyfrothogion.
Coble, *s.* (S. *cuvple*) cwch pysgota, pysgodfad.
Cobloaf, *s.* (S. *cop*, a *loaf*) torth afreolaidd, anwastad, *neu* grofenog.
Cobnut, *s.* (*cob* a *nut*) y gneuen orchfygol (mewn chwareu).
Coboose, *s.* =*Caboose*.
Cobra da Capello, } *s.* (Port.) y sarff gycyllog,
Cobra Capello, } peithwiber, hwfwiber, peithsarff.
Cob-stone, *s.*=*Cobble*, *Cobble-stone*, &c.
Cobswan, *s.* (*cob* a *swan*) cob-alarch, penalarch, alarch blaen; alarch gwryw.
Cobwall, *s.* (*cob* a *wall*) cleifur, mur clai, gwàl glai.
Cobweb, *s.* (o *cob* a *web;* Is. *kopweb*) gwe y còr, gwe'r còr, gwe'r copyn, gwe'r coryn, gwe copyn, gwe y pryf copyn, copwe, adargopwe, copynwe, rhwd y pryf copyn, còrwe, cyffiniden; magl.
Cobweb, *a.* copweaidd, copweol; fel gwe'r còr; fel rhwyd y pryf copyn; teneu, gwàn, llymsi, masw, gwecry, main, disgraff.
Cobwebbed, *a.* (o *cobweb*) copweog, copweaidd, copynweog.
Cobwebby, *a.* (o *cobweb*) copweog, copynweog, copweaidd; troellog, troellenog; gorchuddiedig â chopwe; ar ddull rhwyd pryf copyn.
Coca, *s.* sychddail gwydden à dyf yn Periw, hynod am beri cwsg.
Cocagne, *s.* (Ff.) gwlad llaeth a mêl; gwlad ddychymygol o segurdod a gorlewnded; Llundain a'i maesdrefi.
Cocalon, *s.* (Ff. *cocon*) gorlindyswe, llindyswe fawr, chwilerwe.
Coccides, *s. pl.* (Ll. *coccus*) llysdrogod, llysdrogenod.
Cocciferous, *a.* (Ll. *coccus* a *fero*) grawnddygol, grawnddwyn, grawnddygus, aeronddwyn, aeronog, baconog, eirinog, llusddygol.
Coccinella, *s.* (Ll. *coccinus*) cochrilion.
Coccolite, *s.* (Gr. *coccos* a *lithos*) gronfaen, aeronfaen.
Coccothraustes, } *s. pl.* (Gr. *coccos* a *thraustos*)
Coccothraustinæ, } y pig-gelyd, y gylfin-gelyd, y gylfinbraff.
Coccus, *s.* (Ll.) grarilion: cell, hadgell.
Coccygeal, *a.* (Gr. *coccux*) cogylfog, cogylfinog; fel gylfin *neu* big y gog.
Coccygeal bones—esgyrn cogylfin.
Coccyx, *s.* (Gr. *coccux*) asgwrn cogylfin, cogylfin.
Coccyzinæ, *s. pl.* (Gr. *coccux*) cogau camylfin, cogau cambig, cogau pig gam.
Cochineal, *s.* (Ysp. *cochinilla;* Ff. *cochenille;* o'r Gr. *coccos*) eirosbryf, cochbryf; eirosnwydd, eirosne, airosne, eirosliw.
Cochineal fig—ffigys y cochbryf, y Nopal.
Cochlea, *s.* (Ll.) cogwrn y glust, clust-gogwrn; cogyrndro.
Cochlean, *a.* (Ll. *cochlear*) llwyaidd.
Cochleare, *s.* (Ll.) llwyaid, llonaid llwy.
Cochlearia, *s. pl.* (Ll. *cochlear*) llwylys, lleynlys, morlwyau, llysiau y llwy.
Cochleary, } *a.* (Ll. *cochlea*) cogyrnog, cogyrnCochleate, } ol; nydd-droawl, dynyddol,
Cochleated, } nydd-droellog, grisdroawl, troellog, ymnyddol, nydd-dröedig, sidrwyol.
Cochlite, *s.* (Gr. *cochlias*) malwenfaen, malweneu.
Cock, *s.* (S. *coc;* Ff. *coq*) ceiliog; *pl.* ceiliogod: dwsel.
Cock (in composition with the names of birds)—gwryw, gwrywol; ceiliog.
A little cock—ceiliogyn, cyw ceiliog.
Cock of the wood—ceiliog y coed, ceiliog coed.
Black cock, } ceiliog du, ceiliog mynBlack game, } nydd, ceiliog y mynydd,
Black grouse, } ceiliog du y mynydd,
Grouse cock, } ceiliog y grugieir: *f.*
Heath cock, } grugiar, iar fynydd.
Cock of the rock—ceiliog y graig.
Weather cock—ceiliog gwynt; chwaſynag.
Wood-cock—cyffylog.
Game cock—ceiliog ymladd.
Turkey cock—ceiliog Twrci.
Cock-pigeon—colomen wryw.
Cock's tread, } gorllydd, rhith.
Cock's treadle, }
Cock's wattles — tagellau ceiliog, tegyll ceiliog.
Cock's spur—ysbardun ceiliog.
Cock of a dial—nodwydd, dangoseg, dangosai, bys, *neu* fynegbost heulfynag.
Cock of a bow—rhigol bwa, rhygn bwa, gwlf bwa.
Cock of a cistern—dwsel, ceg y dwsel, ceiliog y pistyll.
Cock of an arrow—gwlf saeth.
Cock of a gun—teryn gwn, cnicyn dryll, morthwyl clo gwn, tândarawydd.
Cock of a hat—gwalc het.
Cock of hay—mwdwl .o wair, mwdwl [gwair.
A little cock of hay—mydylyn o wair.
The young cock croweth after the old one—à gre y frân fawr a gre y frân fechan.
Cock a hoop, } gorfoleddus gan
Cock on the hoop, } lwyddiant; yn ei gyflawn orfoledd; yn eithaf ei lawenydd; yn uchel ei grib; yn uchel ei ben; ar adenydd ffawd; â'r byd wrth ei fodd; yn nofio mewn gwynfyd; yn *neu* wedi chwyddo gàn falchder; gorhoenus, gorllawen; ar ei uchelfanau.
A story of a cock and a bull—chwedl y ceiliog a'r tarw; chwedl heb na phen na chynffon; chwedl heb na dyben na dosbarth; chwedl ddilun.
Cock, *v.* gwalcio, sythgodi, sythu, codi, ymgodi, dyrchafu; troi i fyny; torchi i fyny; ymylgodi, byldorchi; cafnu; codi y pen i fyny; pensythu; mydylu; edrych yn sur *neu* fwng; edrych yn fras, yn fawr, *neu* yn sarig; † cocri.
To cock a gun—codi cnicyn dryll; cod morthwyl gwn.
To cock an arrow—addasu saeth i'r bwa; trecio saeth.
To cock a hat—gwalcio het; codi ymylau hed; cafnu het ar i fyny; ymylgodi het.
To cock hay—mydylu gwair.
Cockade, *s.* (Ff. *cocarde;* Ysp. *cocarda*) hetrosyn, hetnodyn, hedrosyn, swyddrosyn.
Cockaded, *a.* hetrosynog, hetrosog, hetnodog.
Cockal, *s.* math ar chwareu.

Cockatoo, *s.* (oddi wrth ei lais) coccatŵ, tyff-barrot=math o barrot.
Cockatrice, *s.* (Ff. *cocatrix*) ceiliog neidr, y fad felen, teyrnsarff=math o sarff neu wiber â ofergoelid ei bod yn cael ei chynnyrchu o wy ceiliog.
Cock-bill, *s.* gollyngbig.
Cockboat, *s.* (It. *cocch*, C. *cwch*, a *boat*) cwch bach, bad bychan; cwch, bad, cwch llong, corgwch, corfad.
Cockbrained, *a.* (*cock* a *brain*) penchwiban, chwidr, chwibwrn, ehud, ysgoewan, byrbwyll.
Cockbroth, *s.* (*cock* a *broth*) cawl ceiliog, potes ceiliog.
Cockchafer, *s.* (*cock* a *chafer*) chwilen y baw, chwilen y dom, chwil, chwilen.
Cock-crow, Cock-crowing, } *s.* caniad ceiliog, caniad y ceiliog; pylgain, plygain.
Cocker, *v. a.* (C. *cocri*) cocri, anwesu, maldodi, llochi, anwylo, pratio; porthi mwythau; porthi nwythau; gwneuthur anwes i; magu yn foethus; dwyn i fyny yn foethus; tramawrhau; mawrhau yn ormodd; rhoi gormod o'r ffrwyn *neu* o'r ffordd i. [og.
Cockered child—plentyn anwesog; anwes-
Cocker, *s.* (o *cock*) ceiliogwr, ceiliogydd, ymladdwr ceiliogod: socas; ysnidgi.
Cockerel, *s.* (bychanig o *cock*) ceiliogyn, ceiliog ieuanc, cyw ceiliog, cyw-geiliog.
Cockering, *s.* (o *cocker*, *v. a.*) anwes, cocr, cocraeth, maldodaeth, maldod, llochiad, darfoethiant.
Cocket, *s.* (Ff. *cachet?*) tollysgrif, tollysgrifen; sel cyllitty; breinsel; trafnwarant, trafndocyn, tollwarant; gwarant; cyllitty, cyllidfa, tolldy; gollyngeb.
Cocket, *a.* hoew, bywiog, heini, chwim, nwyfus, gweisgi, esgudlym; cymhen; tafodrydd, pert.
Cocket-bread, *s.* bara manbaill, bara man-gan.
Cock-fight, Cock-fighting, } *s.* ymladd ceiliogod, ymladdfa ceiliogod.
Cock-headed, *a.* penceiliog; â phen fel pen ceiliog iddo.
Cock-horse, *a.* ar gefn ceffyl; ar geffyl; ar gefn ei geffyl; ar ei uchelfanau; gorfoleddus; yn eithaf ei lawenydd; yn uchel ei grib; yn uchel ei ben; â'r byd wrth ei fodd; yn uchel ei rwysg; yn uchel ei drem; yn benuchel.
Cocking, *s.* (o *cock*) ymladd ceiliogod.
Cockle, *s.* (S. *coccel*, *cocel*, *cocle*) bulwg, ydig, gith; llèr, efrau, efre, efr: *sing.* efryn, lleren: *pl.* efrau.
Corn cockle—bulwg Rhufain, ydig, pabi'r gwenith.
Cockle, *s.* (Gr. *cochlos;* Ll. *cochlea;* Ff. *coquille*) cocos, rhython: *sing.* cocosen, cocysen, rhythonen:† ceiliogyn.
Hot-cockles—llawdaro, llawdaraw.
To play at hot-cockles—chwareu llawdaro.
Cockle, *v.* crychu, ymgrychu, cori, ymgrynöi; tynu ato; tolcio.
Cockled, *a.* crych, crychiog, crychedig, ymgrychedig; nyddawl, troawl; cregynog, rhythonog.
Cockle-coat, *s.* odyn hopys, odyn bensag.
Cockler, *s.* (o *cockle*) rhythonwr, cocosydd; gwerthydd rhython *neu* gocos.
Cockle-stairs, *s. pl.* grisiau tro, nyddrisiau, grisiau tröedig.
Cockloft, *s.* (*cock* a *lofft*) croglofft, coeglofft, nenawr; ystafell hen gelfi.
Cock-master, *s.* magwr ceiliog, ceiliogfagwr, megidydd ceiliogod ymladd.
Cock-match, *s.* ymladd ceiliogod, ymladdfa ceiliogod.
Cockney, *s.* (Ff. *cocagne;* Ll. *coquina*, cegin?) Llundeinydd, Llundeiniad; dyn meddfaeth; plentyn anwesog; cocryn; un nas gŵyr wahaniaeth rhwng ceiliog yn canu a march yn gweryru.
Cockney dialect — llafarwedd Llundain, llafariaith Llundain.
Cockney-like, *a.* Llundeinaidd; meddfaeth, anwesaidd, cocraidd.
Cockneyism, *s.* (o *cockney*) Llundeiniaeth; anwesogaeth, cocrynaeth.
Cock-paddle, *s.* morddylluan, morddalluan, clamppysg.
Cockpit, *s.* (*cock* a *pit*) cadlas ceiliogod; ymladdle, cadfa, midlan, *neu* dwmpath ceiliogod; trinfa.
Cockroach, *s.* (*cock* a *roach*) rhufchwilen, archwilen.
Cockscomb, *s.* (*cock* a *comb*) crib ceiliog; cribell; coegyn.
Cock's-foot Grass, *s.* byswellt, grugwellt, troed y ceiliog, dant y ci.
Cockshead, *s.* (*cock* a *head*) codog.
Cockshut, *s.* (*cock* a *shut*) cyflychwyr; pryd yr â yr ieir i gysgu *neu* i'r glwyd; cyfliw gwr a llwyn.
Cockspur, *s.* (*cock* a *spur*) ysbardun ceiliog.
Cocksure, *a.* cwbl sicr, tra hyderus; hyderus, sicr, diogel.
Cockswain, *s.* (*cock*, cwch, a *swain*) badlywydd.
Cockweed, *s.* (*cock* a *weed*) pupyrlys, pybyrlys.
Cocoa, Cacao, } *s.* (Ysp. Port. *coco*) Cocoa, Coco, Cacao, Cocos, dwyfyswydd=math o balmwydden: cocoswy, cneulyn.
Cocoa-nut, *s.* cneuen Cocoa, cocöen; cneuen *neu* ffrwyth y pren Cocoa; cocosgneuen.
Cocoic Acid, *s.* sur cocöig, sur cocosig.
Cocoon, *s.* (Ff. *cocon*) llindyswe, chwilerwe.
Cocoonery, *s.* (o *cocoon*) gweudy sidanbryf.
Cocos, *s.* (Ysp. *coco;* o *macoco*, gair Portugeig am epa) y pren Cocoa, Cocos, Cocoswydd.
Coctible, *a.* (Ll. *coctibilis*) berwadwy, hyferw, hygras; hawdd ei ferwi, ei bobi, *neu* ei grasu.
Coctile, *a.* (Ll. *coctilis*) crasedig, cras, pob, pobedig.
Coction, *s.* (Ll. *coctio*) berwad; traul, treuliad.
Cod, Cod-fish, } *s.* (Ll. *gadus*) y penfras, y pysg penfras.
Cod's head—dyn pendrwm, dyn pendew, clwpa, hurthgen.
Cod, *s.* (C.; S. *codd*) cod, cibyn, cib, masgl, paisg, plisglyn, ponar; coden, cwd; ceillgod, caill; gobenydd, clustog.
Cod, *v. a.* codenu, cibynu; cau mewn masgl.
Coda, *s.* (It.) adgload, adglwm.
Codded, *a.* (o *cod*) codog, codenog, peisgog, masglog; codenedig, masgledig, peisgedig.
Codder, *s.* (o *cod*) peisgydd, peisgwr, cibeuwr.
Coddy, *a.* (o *cod*) masglog, cibog, plisgog, peisgog, cibynog. [gyntaf.
Coddy-moddy, *s.* gwylan yn mhluf ei blwyddyn
Code, *s.* (Ff.; Ll. *codex*, *caudex*) rheithlyfr, deddflyfr, deddfres; llyfr *neu* gasgl o gyfreithiau; llyfr; greal, greawd, greant.
The Theodosian code—deddflyfr Tewdws, rheithlyfr Theodosius.

Code of laws—deddfres, rheithres, rheithlyfr.

Codeia, Codeina, Codeine, } *s.* (Gr. *cbdeia*) nillalcali, nillwrthsur, llysalcali nillaidd, cysgalcali.

Codex, *s.* (Ll.) ysgriflyfr; llawysgrif.

Codger, *s.* (Ysp. *coger?* o *cottager?*) busch, delff, taiog, cabrotyn; cybydd, crinwas, cerlyn, crintachwr.

Codicil, *s.* (Ll. *codicillus*) olwyllys, atwyllys, chwanegiad at ewyllys.

Codicillary, *a.* (o *codicil*) olwyllysiol, atwyllysiol; chwanegol at ewyllys.

Codification, *s.* (Ll. *codex* a *facio*) deddflyfriad, rheithlyfriad, deddfodiad.

Codifier, Codist, } *s.* (o *code*) deddflyfrwr, rheithlyfrwr, deddfodydd.

Codify, *v. a.* (Ll. *codex* a *facio*) deddlyfru, rheithlyfru, deddfodi, rheithgasglu; greodi, greannu.

Codille, *s.* (Ff.) enw ar chwareu cardiau.

Codle, Coddle, } *v. a.* (Ll. *coctulo*) goferwi, lledferwi, berwi.

Codle,† *v. a.* mawrhau, maldodi.

Codling, Codlin, } *s.* (o *codle*) còrafal rhagaddfed; afal berwadwy; afal hyferw *neu* oferwedig; afal berwedig; afal cynnar.

Codlins and cream—helyglys per, helyglys panog.

Codling, *s.* (o *cod*) penfresyn, penfras ieuanc.

Coefficacy, *s.* (Ll. *con*, ac *efficacy*) cydeffaith, cydeffeithioldeb, cydeffeithrwydd, cydnerthineb, cydnerthedd, cydnerthusrwydd, cydallu, cyfallu.

Coefficiency, *s.* (*con*, a *efficiency*) cydweithrediad, cyweithrediad, cydeffeithiad, cydeffeithioldeb, cydeffaith, cydachosiaeth, cyfachosiad, cydberiadaeth, cyfallwyedd.

Coefficient, *a.* (Ll. *con* ac *efficiens*) cydweithredol, cyweithiol, cydweithiol; cydachosol, cydeffeithiol; à gydweithio; yn cydweithio; cyfallwy.

Coefficient, *s.* cyweithydd, cydweithydd, cydeffeithydd.

Coelder, *s.* (*con* ac *elder*) cydhenuriad, cydhenadur.

Coelection, *s.* (*con* ac *election*) cydetholiad, cydetholiant, cydetholedigaeth, cyd-ddewisiad.

Cœlature, Celature, } *s.* (Ll. *cœlo*) cerfiadaeth, crifiadaeth; crifelliad, cerfiad, cerfwaith, crifellwaith.

Cœliac, Celiac, } *a.* (Gr. *coiliacos*) bolaidd, bolyol, bolaol, rhumenol, ceudodol; coluddol, perfeddol; perthynol i'r bol.

Cœlogenus, *s.* (Gr. *coileb* a *gennab*) y ceuanogion.

Coemption, *s.* (Ll. *coemptio*) ollbryniad, hollbryniad, cyfanbryniad.

Coenjoy, *v. a.* (*con* ac *enjoy*) cydfwynhau, cydfeddu.

Coequal, *a.* (Ll. *con* ac *æqualis*) gogystal, gogyfurdd, gogyfuwch, cyfartal, cydgyfartal, gogyfartal, cydradd, cydraddol, cystal, cystadl, cyfeisor, cydwastad, gogyfiol.

Coequal, *s.* cystedlydd; un cydradd, &c.

Coequality, *s.* (*con* ac *equality*) cydraddoldeb, gogystalrwydd, cyfartalrwydd, cydgyfartaledd, cydgyfartalrwydd, gogyfurddiant, gogyfartaledd, cydraddwch, cystadledd, cydgystadledd, cydwastadrwydd, gogyfioldeb.

Coerce, *v. a.* (Ll. *coerceo*) attal, rhwystro, nadael, arattal, gorfodi, gorfodogi, ffrwyno, ystwyo, lluddias; cymhell, dirio; cadw i lawr.

Coerceableness, *s.* (o *coerceable*) attaliadwyedd, attaliadolrwydd.

Coercible, Coerceable, } *a.* (o *coerce*) attaliadwy, rhwystradwy, gorfodadwy, ffrwynadwy, cymhelladwy.

Coercion, *s.* (o *coerce*) attaliad, attal, cyfattaliad, rhwystrad, rhwystr, lludd, gorfod, gorfodaeth, gorfodogaeth; ystwy, ffrwyniad; cerydd, cosp.

Coercive, *a.* (o *coerce*) attaliadol, rhwystrol, lluddiadol; gorfodol, cymhelliadol; à ettyl *neu* à ddichon attal rhag gwneuthur peth.

Coerectant, Coerected, } *a.* (*con* ac *erect*) cydsythgodol, cydgodiadol.

Coessential, *a.* (*con* ac *essential*) cydhanfodol, o'r un hanfod, anian, *neu* natur;

Coessentiality, *s.* (o *coessential*) cydhanfodoldeb, cydhanfodaeth.

Coestablishment, *s.* (*con* ac *establishment*) cydsefydliad, cyssefydliad.

Coestate, *s.* (*con* ac *estate*) cydradd, cydystad, cydstad.

Coetaneous, *a.* (Ll. *coætaneus*) cyfoed, cyfoes, gogyfoed, cyfoediog, cydoed, unoed, cyfoes, cyfoesol; o'r un oes *neu* oed.

Coeternal, *a.* (Ll. *con* ac *æternus*) cyttragwyddol, cyttragywyddol, gogyd-dragwyddol, cyd-dragwyddol, cydfythol, cyfdragywyddol, cyddragywyddol.

Majesty coeternal—mawrhydi gogydtragywyddol.

Coeternity, *s.* (Ll. *con* ac *æternitas*) cyttragwyddoldeb, cyttragywyddolrwydd, cyd-dragwyddolrwydd, cydfytholdeb.

Cœur, *s.* (Ff.) calon, y canol, cesbwynt.

Coeval, Coevous, } *a.* (Ll. *cœvus*) cyfoed, cydoed, cyfoediog, cyfoes, cyfoesol, cydoesog, cydoes, unoed, cydoediog, gogyfoed; o'r un oed.

Coeval, *s.* cyfoediog, cyfoed, cyfoeswr, cydoeswr, cydoesydd, cyfoedydd, cydoed, cyfoes: *pl.* cyfoedion, cyfoesau, &c.

Coexecutor, *s.* (*con* ac *executor*) cydweinydd cymmyn, cydgymmyniadur, cydweinifiad.

Coexecutrix, *s.* cydweinyddes cymmyn, cydgymmyniades, cydweinifes, cydgymmynes.

Coexist, *v. n.* (Ll. *con* ac *existo*) cydhanfod, cydhanfodi, cydfod, cydfodoli, cysbod, cydfydio.

Coexistence, *s.* cydhanfod, cydhanfodaeth, cydfod, cydfodolaeth, cydfodaeth, cydfydiant.

Coexistent, *a.* cydhanfodol, cydfodol, cydfydiol.

Coextend, *v. n.* (Ll. *con* ac *extendo*) cydestyn, cyfestyn, cydymestyn, cyhydeddu, cyhydu, cyfledu.

Coextension, *s.* (Ll. *con* ac *extensio*) cyfestyniad, cydestyniad, cyhydedd, cyfledíad, cyhydiad.

Coextensive, *a.* cyfestynol, cydestynol, cyfledol, cyfhelaeth, cyfiydan, cyfeang.

Coextensiveness, *s.* (o *coextensive*) cyfestynedd, cydhelaethrwydd, cyfledrwydd, cyfledolrwydd.

Coffee, *s.* (Ff., Ysp., a Port. *café*, oddi wrth *Caffee*, talaeth yn Narea, yn Affrica) coffi.

Coffee-cup, *s.* cwpan coffi.

Coffee-house, *s.* ty coffi, gwerthdy coffi, coffifa; gwestty.

Coffee-man, coffiwr; ceidwad ty coffi.

Coffee-mill, *s.* melin goffi.

Coffee-pot, *s.* pot coffi, callor coffi.
Coffee-room, *s.* ystafell goffi, cell goffi; ystafell gyhoeddus gwestty; darllenfa gyhoeddus.
Coffee-shop, *s.* maelfa goffi; gwerthfa goffi.
Coffee-tree, *s.* coffiwydden, pren coffi.
Coffein, Coffeine, *s.* (o *coffee*) coffein, coffain.
Coffer, *s.* (Is. ac Al. *koffer;* Ff. *coffre*) coffr, coffor, cist, prenfol; trysorgist; trysor.
Coffer, *v. a.* coffri, cistio; gosod mewn cist *neu* goffr.
Cofferdam, *s.* (*coffer* a *dam*) seilddargae, seilargae, cistargae; argae, cronfa, pwnt.
Cofferer, *s.* (o *coffer*) coffrwr, coffrydd, cistiwr; trysorydd, trysorwr.
Coffer-work, *s.* (*coffer* a *work*) cofforwaith, astellfur; grofeinwaith.
Coffin, *s.* (Gr. *cophinos;* Ll. *cophinus;* Ysp. *cofin*) arch, prenial, ysgrin; arch *neu* gist corff marw.
Paper coffin—papyrgorn, papyrflwch, papyrgon.
Coffin of a printing press—ysgrin argraffwasg.
Coffin, *v. a.* gosod mewn arch; rhoi mewn ysgrin *neu* brenial; cau mewn arch.
Coffinless, *a.* (*coffin* a *less*) heb arch, heb brenial, heb ysgrin.
Coffin-maker, *s.* gwneuthurwr eirch *neu* brenialau; eirchydd, prenialwr.
Cofounder, *s.* (*con* a *founder*) cydsylfaenwr, cydsylfaenydd, cydseilydd, cydseiliwr.
Cog, *v.* (C. *coegio*) truthio, gweneitho, coegio, hocedu, twyllo, hudo; hudo â theg eiriau; ffugio, ffuantu; celwyddu, dywedyd celwydd, geuo; gwthio *neu* gymhell yn dwyllodrus; chwareu y ffon ddwybig.
To cog a die—taflu dis yn hyfedr *neu* gelfydd; bod yn dra hyfedr ar daflu dis; medru taflu yr ergyd à fyno; coegio dis; twyll-chwareu ar ddisiau.
Cog, *s.* (C. *cocos*) cocas, cog, cocosen, dant, dant rhod, rhod-ddant, dant mewn olwyn: *pl.* cocos, cocasau, cogiau, cogion, daint rhod.
Cog, *v. a.* cogio, cocasu; gosod cocos *neu* ddannedd.
Cog, Coggle, *s.* (C. *cwch;* It. *coca*) cwch, bad; cwch pysgota.
Cogency, *s.* (Ll. *cogens*, o *cogo*) grym, nerth, yni, dirni, dirnerth, gallu, gall, nerthineb, nerthoideb, effeithioldeb, grymusedd.
Cogency of argument—grym rheswm, grym ymresymu.
Cogenial,† *a.*=*Congenial.*
Cogent, *a.* (Ll. *cogens*) grymus, nerthol, nerthus, nerthog, hyrym, dirnerthol, cadarn; effeithiol; cymhellus, cymhellgar, cymhelliadol, taer, dir, pwysfawr, egnïol.
Cogged, *a.* (o *cog*) cocasog, cocosog, deintog.
Cogger, *s.* (o *cog*, *v.*) coegiwr, truthiwr, gweneithydd, twyllwr, hocedydd, ffugiwr, pratiwr.
Coggery, *s.* (o *cogger*) hoced, twyll, twyllofaint, coegedd, ffugiant, ffalsedd; cast.
Cogging, *s.* (o *cog*) twyll, hoced, cast, ystryw; falsedd, geuedd; celwydd; truthiad, gweneithad.
Cogging gamester—disiwr dichellgar, disiwr twyllodrus.
Coggle-stone, *s.* mân-garegan, mân-grynfaen; caregyn, caregan.
Cogitable, *a.* (Ll. *cogito*) meddyliadwy, syniadwy.
Cogitate, *v. n.* (Ll. *cogito*) meddylied, meddylio, meddwl, synied, ystyried, ystyrio; myfyrio, myfyrian.
Cogitation, *s.* (o *cogitate*) meddwl, syniad; meddyliad, ystyriaeth, ystyriad, meddylfryd, myfyriad, myfyrdod, myfyriaeth, arystyriad, myfyriawd, bwriad, amcan, bryd, argynghyd; meddylgarwch.
Cogitative, *a.* (o *cogitate*) meddyliol, meddyliog, syniol, syniadol; myfyriol, myfyriadol, meddylgar, myfyrgar, myfyr, myfyrdodol, myfyriannol, myfyrus, myfyriedigol, argynghydus, cynghydus, adfeddyliol.
Cognate, *a.* (Ll. *cognatus*) cyttrasol, cyttrasog, cystlynaidd, cystlynol, perthynasol, perthynol, cyfathrachol, undras, cytteuluol, cyddechreuol, cydhanol, cydhanedig, cydgenedl, cydfonedd; ystlenaidd; cydrywiol, cyfrywiol; o'r un tarddiad, haniad, gwraidd, *neu* deulu.
Cognate, *s.* perthynas; mamdras; carennydd, cystlynedd; carennydd gwryw o du y fam.
Cognateness, *s.* (o *cognate*) cyttrasogrwydd, cyttrasoldeb, cyttrasolrwydd, cystlynedd; cyfathrach.
Cognation, *s.* (Ll. *cognatio*) cyttras, cyttrasedd, cystlynedd, cystlyned, carennydd; bonedd o du tad a mam; cyfathrach, cystlwn, perthynas, tras, cydberthynas, cydgarennydd; cyfanian.
Cógniac, *s.* (o *Cognac*, tref yn Ffrainc) lloswin Cognac, Coniac, y poethwin goreu, alferwin.
Cognisee, Cognizee, *s.* (o'r Ll. *cognosco*) dirwyai, derbynydd dirwy; hawlblaid, cwynwr.
Cognisor, Cognizor, *s.* (Ll. *cognosco*) dirwyog, addefwr dirwy; amddiffynydd, ymddiffynwr, diffynblaid.
Cognition, *s.* (Ll. *cognitio*) gwybyddiaeth, gwybodaeth, adnabyddiaeth, nabyddiaeth, nabodaeth, nabyddiad, nabodiad, nabod, gwyddyd.
Cognitive, *a.* (Ll. *cognitus*) gwybyddol, gwybodol, gwyddiadol, nabyddol, nabodol, nabyddus; à fedr wybod.
Cognizable, *a.* (Ff. *connoissable*, o'r Ll. *cognosco*) gwybyddadwy, gwybodadwy, nabodadwy; holadwy, cynghawsadwy, prawfadwy, gwrandawadwy; gwiw i'w holi; agored i'w brofi; barnholadwy.
Cognizance, Cognisance, *s.* (Ff. *connoissance*) gwybyddiaeth, gwybodaeth, nabyddiaeth, nabodaeth, gwyddyd, adnabyddiaeth, nabyddiad; holiad, holawd, chwiliad, barnholiad, barnwybyddiaeth, holedigaeth, clywedigaeth; gwrandawiad cwyn *neu* achos; addefiad, cyfaddefiad; sylwad, sylw, canfodiad; nabodnodeb.
To take cognizance, To have cognizance, gwrandaw dadl, cwyn, *neu* achos; profi, holi, *neu* chwilio achos; profi hawl; chwilio *neu* holi mater; profi cwyn *neu* gynghawsedd; gwrandaw cynghawsedd; gwrandaw cynghawsedd; gwrandaw dadl er rhoi barn ynddi *neu* arni.
To fall under a person's cognizance—dyfod i wybodaeth un; dyfod dàn holiad un; dyfod dàn sylw un.
Cognizant, *a.* gwybyddus, gwybodus, nabyddus, nabodus, adnabyddus, cydnabyddus; holiadus; cymhwys i ddarbyn rhybudd cyfreithiol.

Cognomen, *s.* (Ll.) cyfenw, gorenw, atenw, adenw; llysenw.

Cognominal, *a.* (o *cognomen*) cyfenwol, gorenwol, atenwol, adenwol, cyfenwadol; llysenwol; cydenwol, o'r un enw.

Cognomination, *s.* (o *cognomen*) cyfenwad, gorenwad, atenwad; llysenwad.

Cognominate,† *v. a.* (Ll. *cognomino*) cyfenwi, enwi.

Cognoscence, *s.* (Ll. *cognosco*) gwybyddiaeth, gwybodaeth, nabyddiaeth.

Cognoscente, *s.* (Ll. *cognosco*) hyfeirniad, hywyddon, gwybodwr, cyfarwydd, celfwyddwr, celfwyddiad, beirniad.

Cognoscibility, *s.* (o *cognoscible*) gwybyddoldeb, gwybodoldeb, hywybodedd, nabyddadwyedd, gwybodadwyedd.

Cognoscible, *a.* (o'r Ll. *cognosco*) gwybodadwy, gwybyddadwy, nabodadwy, nabyddadwy; chwiliadwy, holadwy, olrheinadwy; à ellir ei wybod.

Cognoscitive, *a.* (o'r Ll. *cognosco*) gwybodiadol, gwybyddiadol, gwybodaethol.

Cognovit, *s.* (Ll.) hawladdefiad.

Coguar, *s.* un o bedrybedogíon cigysol America.

Coguardian, *s.* (*con* a *guardian*) cydwarchodydd, cydwarcheidydd, cydgeidwad.

Cogwheel, *s.* (*cog* a *wheel*) deintrod, rhod gocasau.

Cohabit, *v. n.* (Ll. *cohabito*) cyttrigo, cydfyw, cydfywio, cyttal, ymgyttal, cystrigo, cyttrigiannu, cyttrefu, cydanneddu, cydlettya; cydwelya; cyfanneddu yn nghyd; cydfyw fel gwr a gwraig.

Cohabitant, *s.* (Ll. *cohabitans*) cyttrigydd, cyttrigwr, cyttrigiannydd, cystrigydd, cydanneddwr, cyttywr, cydbreswylydd, cyfanneddwr: *pl.* cyttrigolion.

Cohabitation, *s.* (Ll. *cohabitatio*) cyttrigiad, cyttrigias, cyttref, cyttrefiad, cyttrefad, cyttrefiant, cystrigiad, cyttyaeth, cydanneddiad; cywelyogaeth, cydwelyaeth, cywestwch, cywestach.

Coheir, *s.* (Ll. *cohæres*) cydetifedd, cyttifedd, cyfetifedd, cyttreftadog, cydetifeddwr.

Coheiress, *s.* (o *coheir*) cydetifeddes, cyttifeddes, cyfetifeddes.

Coherald, *s.* (*con* a *herald*) cydherodr, cydherodur, cydherodydd.

Cohere, *v. n.* (Ll. *cohæreo*) cydlynu, glynu, cyflynu, ymlynu, cydymlynu, glynu yn nghyd, ymwasgu; cytuno, cyduno, cydymuno, ymgyssylltu; sutio, cyngweddu, cyfateb.

Coherence, } *s.* (o *cohere*) cydlyniad, cydym-
Coherency, } lyniad, cyflyniad, glyniad, cydiad, ymgydiad; cydundeb, cytundeb; cyssylltiad, cyfuniad, cyfunedd, cyfundod, cynghydiad, unad; cyssondeb, cyssonder, cyssonedd.

His discourse had no coherence—nid oedd cyssondeb yn ei ymadrodd.

Coherent, *a.* (Ll. *cohærens*) cydlynol, cyflynol, ymlynol, cyfymlynol, ymgydiol; yn cydlynu; cyfunol, cydunol, cytunol, cytun, cyngweddol; yn cytuno, yn cyngweddu; cyssylltiol, cyssylltedig, unol, unedig; addas, cyfaddas, sutiol, cymhwys, cymmesur; cysson.

Cohesibility, *s.* (o *cohesible*) glynolrwydd, hylynedd, cydlynoldeb, hylynrwydd, cydlynedd.

-esible, *a.* (Ll. *cohæsum*) glynadwy, hylyn, -lynadwy, ymlynadwy.

Cohesion, *s.* (Ll. *cohæsio*, o *cohæreo*) cydlyniad, cyflyniad, glyniad, ymlyniad, cydymlyniad, cydiad, ymgydiad; cyssylltiad, cyfuniad, unad, uniad; cydymrwymiad; ymddibyniad.

Cohesive, *a.* (Ll. *cohæsum*) cydlynol, cyflynol, cydlynaidd, cydlyniadol, ymlynol, cydymlynol, ymgydiol, ymunol.

Cohesiveness, *s.* (o *cohesive*) cydlynoldeb, cydlynolrwydd, glynoldeb, glynolrwydd, ymlynoldeb, cydlynogrwydd.

Cohibit, *v. a.* (Ll. *cohibeo*) attal, rhwystro, lluddias, gwahardd, bustachu; cadw i mewn.

Cohobate, *v. a.* (Port. *cohorar*) ad-ddystyllu, ad-ddystyllio, adferino, arddystyllu, arddystyllio, ailddystyllio, arhidlo.

Cohobation, *s.* (Ysp. *cohobacion*) ad-ddystylliad, arddystylliad, adferinad, ailddystylliad, arhidlad.

Cohort, *s.* (Ll. *cohors*) catrawd Rufeinig, myntai Rufeinig=y ddegfed ran o leng, sef o 500 i 600 o wŷr: byddin, llu, cadlu.

His cohorts were gleaming in purple and gold—ei fyddin mewn porffor ac aur a ddysgleiniai.

Cohortation,† *s.* (Ll. *cohortatio*) annogaeth, annog.

Coif, *s.* (Ff. *coiffe*) moled, penwisg, cap, penguwch; graddgap, graddgapan, urddgap, brigap.

Net-work coif—penguwch rhwyllog, brigap rhwyllog.

Coif, *v. a.* moledu, penwisgo, brigapio; gwisgo â phenguwch.

Coifed, *a.* moledog; yn gwisgo graddgap; brigapiog.

Coiffure, *s.* (Ff.) penwisg, penllian.

Coigne, } *v. n.* (Gael. *co'cignich*) byw ar grib-
Coiny, } ddail; cribddeilio.

Coigne, *s.* (Ff. *coin*) cornel, congl, ebach.

Coil, *v. a.* (Ff. *cueillir*) torchi; dyrwyn yn dorch; amddyrwyn, cylchddyrwyn, dyrwyn; ymdorchi; rhaffrwyo.

To coil itself up—ymdorchi, ymddyrwyn, ymddolenu.

Coil, *s.* torch, rhaffrwy, rhaff dorchedig; gwden: terfysg, cythrwfl, cynhwrf, dwndwr.

Coiled, *a.* torchog, torchedig, ymdorchol.

Coin, *s.* (Ff.; Ysp. *cuna*) bath; arian bath, arian bathol, mwnai, arian, ariant, arian rhif; da bath, da bathol; bathell, bathon, bathyn, bathodyn, batharn: *pl.* bathion, bathau, batholion, batharnau, &c.

Gold coin—aur bath; bath aur, bathell aur, eurfath.

Silver coin—arian bath; bath arian, ariangan, bathell arian, arianfath.

Current coin—arian bath, arian cymmeradwy, arian damred, arian gwirfath.

Ancient coins—batholion hynafol, bathion henafol, hen ddarnau bath=yn benaf eiddo yr Iuddewon, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid.

Much coin, much care—cyfoeth a bair ofal.

To pay a person in his own coin—talu cast am gast; talu un yn ei fath ei hun; gwneuthur âg *neu* i un fel y gwnaeth yntau âg *neu* i un arall.

Coin, } *s.* (Ff.; Gr. *gônia*; Ll. *cuneus*) corn-
Coigne, } el, congl, ebach; adeildwdd; naddfaen congl; gaing, cŷn, llettem.

Coin, *v. a.* bathu; llunio, ffurfio, dyfeisio; ffugio; gwneuthur; dychymygu.

To coin money—bathu arian, bathu.
To coin words — bathu geiriau, ffurfio geiriau.
Coined words—geiriau bathedig, geiriau gwneuthur, geiriau bath, batheiriau.
New-coined words—geiriau newyddfath; dyfeiseiriau diweddar *neu* newydd; geiriau newydd fathedig; geiriau bathedig newyddion; batheiriau newyddion.
To coin a lie—llunio celwydd, dyfeisio celwydd.
Coined specie—da bathol, arian bathol.
Live stock and coined specie—da byw a da bathol.
Coining press, } bathwasg, bathermig,
Coining apparatus, } bathoffer, cyfarpar bathu, bathgyfarpar.
Coinage, } *s.* (o *coin*) bathiad, bathawd, bath-
Coining, } iadaeth; arian bath, arian bathol; batharian; bathdal; batholion, bathion, bathonau; gwaith bathwr; dyfeisiad, dyfais, lluniad, ffurfiad, gwneuthuriad, ffugiad, ffugiant, ffugwaith.
The coinage of William the Fourth—bathion, batholion, *neu* fatharnau Gwilym y Pedwerydd; arian bath Gwilym y Pedwerydd.
Coincide, *v. n.* (Ll. *con* ac *incido*) cyttaraw, cyttaro, cydgyfarfod; cyttuno, cydsynied; cyfladd, cydredeg, cyfredeg; ymgyfarfod, cyd-ddygwyddo; syrthio *neu* ddygwyddo ar yr un amser; cydfyned; amddal.
Coincidence, *s.* (Ll. *con* ac *incido*) cyttarawiad, cydgyfarfod, ymgyfarfod, cytuniad, cytundeb, cyfladdiad, cydrediad, cyfrediad, cyfred, ymgyfred, cyd-ddygwyddiad, cyfddygwyddiad, cyfddamwaen, cyd-ddamwaen, cydchwaen; cyssondeb.
Coincident, *a.* cyd-ddygwyddol, cyttarawol, cyfladdol, cydamserol, cydredol, cyfredol, cytunol, cydunol, cydachlysurol, cyfarfodol, cydred, cyfred; yn cytuno, &c.; yn *neu* wedi dygwyddo *neu* syrthio ar yr un amser.
Coincider, *s.* (o *coincide*) cyfladdwr, cydredydd, cyfredwr, cytunwr; à gyttarawo, &c.
Coindication, *s.* (Ll. *con* ac *indicatio*) cydarwydd, arwydd cydred.
Coiner, *s.* (o *coin*) bathwr, bathydd; bathwr arian; lluniwr, dyfeisydd, dychymygwr, ffugiwr.
Coinhabitant, *s.* (*con* ac *inhabitant*) cyttrigwr, cyttrigydd, cyttrigiannydd, cyttrigianwr, cyttrefwr, cydbreswylydd: *pl.* cyttrigolion.
Coinherit, *v. a.* (*con* ac *inherit*) cydetifeddu, cyttifeddu, cyfetifeddu.
Coinheritance, *s.* (*con* ac *inheritance*) cydetifeddiaeth, cydetifiant, cyttifeddiaeth, cyttreftadaeth, cyfetifeddiaeth.
Coinheritor, *s.* (*con* ac *inheritor*) cydetifedd, cyttifedd, cyfetifedd, cydetifeddwr, cyttreftadog.
Coinquinate,† *v. a.* (Ll. *coinquino*) halogi, di-
Coinquination,† *s.* (o *coinquinate*) halogiad.
Coinstantaneous, *a.* (Ll. *con*, ac *instantaneous*) cyd-ddiattreg, cyd-ddisymmwth, cyfddisyfyd.
Coir, *s.* edef à wneir o gib y Cocoa.
Coistril, *s.* (o *kestrel*) ciliad, cilydd, ciliwr, ffoslur, cilgi, llyrfwas, llwfr, anwr; llencyn, hachgenyn, hogyn.
Coit, *s.* (Is. *coite*) coetan, coeten, taflechen, tafgant, llechen dafl; *pl.* coetanau, coetau.
Coit-caster, } coetanwr, chwareuwr coet-
Coit-player, } anau, tafiwr coetanau.
Coit, *v.* taflu *neu* chwareu coetanau; tafiu; coetanu; chwareu coetan.
Coition, *s.* (Ll. *coitio*) cydiad, cyd, cydgnawd, cydgnodiad, ymread, cyrid, ymrewydd, cywestach, cnuchiant, cnuchiad, cynglyn, cynghlwm, ymgyd.
Coix, *s.* (Gr.) dagrau Iob, deigr Iob.
Cojoin, *v. a.* (Ll. *con*, a *join*) cyfuno, cydgyssylltu, cydswyddogi.
Cojuror, *s.* (Ll. *con* a *juro*) cyttyngwr.
Coke, *s.* (Ll. *coquo?*) golosglo, glo golosg, llosglo; marwor.
Colander, *s.* (Ll. *colo*) hidl, hidlyr, hidyl.
Colares, *s.* gwin digymmysg Portugal.
Colation, *s.* (Ll. *colo*) hidlad; gwyburad, awgocthiad.
Colature, *s.* (Ll. *colo*) hidlad; hidlion; y peth hidledig.
Colbertine, } *s.* (oddi wrth I. B. *Colbert?*) math
Colberteen, } o ysnoden, colberten.
Colchicum, *s.* (o *Colchis*) saffrwm y gwaenydd, saffr y gwaenydd, saffyr y gwaenydd.
Colchicum autumnale, } saffrwm y gwaen-
Meadow saffron, } ydd, saffryr y gwaenydd, saffr y gwaenydd.
Colcothar, *s.* (?) haiarnrwd, harnegrid.
Cold, *a.* (S. *cald*; D. *kold*; Al. *kalt*) oer, oerllyd, addoer, rhynllyd, oerfelog, annwydog, anghynhes, fferllyd, diwres, anwresog, anghlyd; dïymdawr, dïawydd, diofal, dideimlad.
Somewhat cold—lledoer, llugoer, go oer, tran oer, oeraidd, geloer.
Extremely *or* very cold—oer iawn, &c.; oer dros ben; tra oer, &c.; goroer.
Neither hot nor cold—clauar; na brwd nac oer; na thwym nac oer; mwygl, mwll, mwrn, gwygyl.
Cold and dry—oersych, sychoer.
Cold and wet—oerwlyb, gwlyboer.
To grow cold—oeri; myned yn oer; dyfod yn oer.
To make cold—oeri; gwneuthur yn oer.
Cold weather — tywydd oer, hin oer; oerni, oerfel; amser oerfel.
As cold as ice—mòr oer a'r ia; mòr oer a'r eira; cyn oered a'r ia; cyn oered a'r eiry; mòr oer a'r rhew; fel talp o rew.
Cold, *s.* oerni, oerder, oerfel, oeredd, oer; annwyd; yr annwyd, y gormwyth; fferdod, rhyndod, rhŷn, ffêr; gwresball, twymball.
To catch cold—dàl yr annwyd; dàl, dala, cael, *neu* gymmeryd annwyd; cael yr annwyd; cael dàl yr annwyd.
Starving cold—rhŷn, rhyndod, ffêr, fferdod.
A fit of cold—chwiw o annwyd; pang, ergyd, *neu* ias o annwyd.
A shivering with cold—achreth, creth; cryndod annwyd.
To be stiff with cold—sythu gàn annwyd.
To starve with cold, } rhynu, fferu; rhynu,
To perish with cold, } fferu, *neu* farw gàn *neu* o annwyd.
Cold-blooded, *a.* gwaedoer, oerwaed; mewn gwaed oer.
Coldfinch, *s.* (*cold* a *finch*) clochdar y mynydd.
Cold-hearted, *a.* oergalon, oerfron, calon-oer; dideimlad, oerdeimlad, calon-galed.
Cold-heartedness, *s.* calon-oeredd, oergalonedd; dideimladrwydd, calongaledwch.

Coldish, *a.* (o *cold*) oeraidd, lledoer, llugoer, go oer, cryn oer, tran oer, annwydaidd, oerllyd, geloer.

Coldness, *s.* (o *cold*) oerni, oeredd, oerder, oerdra, oerdeb; oerfelgarwch, annwydedd; rhyndod, rhynder, fferdod; gwresball, twymball; dideimladrwydd; gochelrwydd.

Cold-shot, *a.* oerfrau; oerfyr; brau pan yn oer.

Cole, *s.* (S. *caul, cawl, cawel;* Ll. *caulis*) bresych, cawl; *sing.* bresychen, cawlen.

Cole-mouse, *s.* = *Coal-mouse.*

Colophyllum, *s.* (Gr. *coleos* a *phullon*) gweinddail, caesddail.

Coleopter, } *s.* (Gr. *coleoptera*) caesednog,
Coleopteran, } caesednogyn, caeseden; chwilen.

Coleoptera, } *s. pl.* (Gr. *coleoptera*) caesednogion, gweinednogion, gweinasgelliaid, caesadeinion; chwilod.
Coleopterans, }

Coleopterous, } *a.* caesednogol, caesednogaidd,
Coleopteral, } caesadeinaidd; chwilenaidd.

Coleorhiza, *s.* (Gr. *coleos* a *rhiza*) caeswraidd.

Cole-perch, *s.* globysg, ysbinbysg Dantsig.

Cole-seed, *s.* had ydfaip, had bresych yr yd, had maip yr yd; had bresych; bresych yr yd; maip yr yd, ydfresych, ydfaip.

Colewort, *s.* (*cole* a *wort*) bresych, bresychlys; bresych arfor, llyrfresych, cawl y graig; deilgawl.

Colic, *s.* (Gr. *cólicos;* Ll. *colicus*) rhefrwst, coluddwst, bolwst, cyllagwst; cnofa y coludd, sychfolwst.

Wind colic—rhefrwst y gwynt, clefyd y gwynt.

Stone colic—tostedd, y tostedd, maen tostedd, clefyd y maen, clwyf y maen, y maen, y gareg.

Painter's colic—rhefrwst ypaentiwr, plymrefrwst.

Colic, } *a.* perthynol i'r rhefrwst; rhéfrystol, coluddgnoawl.
Colical, }

Colicky, *a.* (o *colic*) rhefrystaidd, cnofaol.

Colin, *s.* sofliar, rhegen yr yd, rhinc.

Coll,† *v. a.* (Ff. *collet*) cofleidio.

Collapse, *v. n.* (Ll. *collapsus*) cydsyrthio, cydgwympo; syrthio *neu* gwympo yn nghyd; adfeilio, dadfeilio.

Collapse, *s.* dadfail, adfail, cydfethiant, cydymollwng, cyfymollwng, nwyfball, curiad.

Collapsed, *a.* dadfeiliedig, cydfethiannus, &c.

Collapsion, *s.* (o *collapse*) cydsyrthiad, cydgwymp, cydfethiant, cydymollyngiad; cydgauad.

Collar, *s.* (Ll. *collare;* Ff. *collier*) coler, torch, mynwar, mynwor; aerwy, cadwyn; gorthorch, mwndorch, mynygldorch, mwndlws, gyddfdorch; mynci, myncyn; penfar, penffestr, cebystr; modrwy, gwregys, rhwym; gwddf; torch fwnwgl.

Golden collar—eurdorch, eurgadwyn, torch aur, cadwyn aur, gorthorch aur, eurhual, eurgoler, coler aur.

Wearing a golden collar—eurdorchog, eurgadwynog, eurhualog; yn gwisgo *neu* yn dwyn cadwyn aur.

Collar of brawn—trol o faeddgig; trolyn o faeddgig.

An iron collar for offenders — carchar gwddf.

Collar of a garment—coler dilledyn.

Collar of the garter—coler y gardas, torch urdd y gardas.

Colleague, *v.* cydswyddo, cysswyddo, cydswyddogi.

Collar of SS—eurdorch Es-au, cadwyndorch Es-au, coler SS; eurdorch marchog y gardas, â'i dolenau ar wedd SS.

To slip the collar—tynu ei ben o'r cebystr; ymddirwydo, ymddirwyllo; tynu ei ben o'r rhwyd; myned yn rhydd.

To take by the collar—ymaflyd yn ngholer un; ymaflyd yn un gerfydd ei goler; ymaflyd yn un gerfydd ei wddf; coleru; llindagu.

Horse-collar — mynci, myncyn; coler march, mynwar ceffyl.

Collar, *v. a.* coleru; ymaflyd yn ngholer un; ymaflyd yn un gerfydd ei goler *neu* ei wddf; llindagu; aerwyo, torchi, gorthorchi, mynwaru, mynwori; gwisgo coler.

To collar meat — trolio cig, corni cig; rhwymo cig yn drolyn.

Collerdal.

Collarage, *s.* (o *collar*) colerdreth, colerdoll,

Collar-beam, *s.* colerdrawst.

Collar-blades, } *s. pl.* mynci pren, myncyn
Collar-hames, } pren, arfynwar.

Collar-bone, *s.* pont ysgwydd, pont yr ysgwydd, trybedd yr ysgwydd.

Collar-day, *s.* torchddydd, colerddydd = y dydd yr ymddengys y marchogion yn y llys yn eu heurdorchau.

Collared, *a.* (o *collar*) torchog, aerwyog, colerog, gorthorchog, gorthorchedig, torchedig.

Collar-maker, *s.* colerydd, mynwerydd, mynworydd, mynciwr.

Collate, *v.* (Ll. *collatum*) cymharu, cydgymharu, cyfalu; chwilio; cyflëu; cyflwyno; glwysgyflwyno; cyflwynosod; cyflwyno i fywoliaeth eglwysig; cyflëu mewn bywoliaeth eglwysig; cyflëu *neu* gyflwyno i fywoliaeth eglwys; rhoi bywoliaeth *neu* eglwysfudd i un; rhoi, rhoddi, anrhegu.

Collateral, *a.* (Ll. *collateralis*) cyfochrol, cyfochrog, cyfystlys, cyfarystlys, cyfochr, cydystlys, cydystlysol, cyfystlysol, cydgyferbyn, cyfeisor, cyfael; ochr yn ochr; cyfredol; anuniongyrch.

Collateral, *s.* cyfystlysog, cyfochrog, perthynas gyfochrol, câr cyfystlys.

Collateralness, *s.* (o *collateral*) cyfochredd, cyfystlysedd, cyfochroldeb, cyfystlysdod.

Collation, *s.* (Ll. *collatio*) cymhariad, cydgymhariad, cyfaliad, cymhariaeth; cyflead, cyflwyniad, glwysgyflwyniad, cyflwynosod; cyflead mewn bywoliaeth; cystadliad; cydosodiad; cyfluniaeth, byrbryd, adwledd, adfaeth, cynarmerth, arlwy, ymborth, bwyd, amryfwyd.

Collatitious, *a.* (Ll. *collatitius*) à wneler o gydran llawer; o gydgost; cyfranogiadol.

Collative, *a.* (Ll. *collatum*) cyfleadol, cyfleuedigol, glwysgyfleol; cyflwynol.

Collator, *s.* (Ll.) cymharwr, cymharydd, cydgymharwr, cyfalydd; cyfleuwr, glwyslèwr, cyflwynydd.

Collaud, *v. a.* (Ll. *collaudo*) cydfoli, cydfoliannu, cydglodfori, cydganmawl.

Collaudation, *s.* (Ll. *collaudatio*) cydfoliant, cydfawl, cydglodforedd, cydfoledd, cydganmoliaeth.

Colleague, *s.* (Ll. ac It. *collega*) cydswyddog, cysswyddog, cydswyddwr, cysswyddwr, un cydswydd; cyfaill, cydymaith, cymhar, cydwr, cydwas.

Colleagueship, *s.* (o *colleague*) cydswyddogaeth, cyswyddogaeth, cydswydd, cyswydd.

Collect, *v.* (Ll. *colligo, collectum*) casglu, cynnull, cydgasglu, cydgynnull, cynnullo, crynöi, dargynnull, croni, dargroni, hel, hela, clasgu, gwraddu, crugio, pentyru; ymgasglu, ymgynnull, ymgrynöi, grëu.

To collect one's self—dyfod ato ei hun; ymdawelu *neu* ymlonyddu yn ei feddwl; casglu ei feddyliau gwasgaredig *neu* frawychedig yn nghyd.

Apt to collect together — cynnullgar, casglgar, helgar.

To collect remains—casglu gweddillion; cynnull olion; sarita.

Collect, *s.* crynodeb, colect, berweddi, byrgais, casgl, clasg.

Collectanea, *s. pl.* (Ll.) cynnullion, casglion, casgliadau; pigion, dewision, detholion, detholiadau.

Collectaneous, *a.* (Ll. *collectaneus*) casgledig, cynnulledig, cydgasgledig.

Collected, *a.* (o *collect*) gwedi ymdawelu *neu* ymlonyddu yn ei feddwl; gwedi dyfod ato ei hun; tawel, araf, digyffro, digynhwrf, diderfysg, llariaidd, llary; tawel ei feddwl; tawelfryd; dïysgog, dïymmod, sad; parod; casgledig, &c.

Collected together — cynnulledig, casgledig, crynöedig, &c.

Collectedly, *ad.* ar un olwg; yn nghyd; i gyd; i gyd yn nghyd; tàn un; yn un corff; yn dawel, yn ddigyffro, &c.

Collectedness, *s.* (o *collected*) tawelfrydedd, tawelwch, tawelwch meddwl; dïysgogrwydd, dïymmodedd, sadrwydd; parodrwydd.

Collectible, *a.* (o *collect*) casgladwy, cynnulladwy, crynoadwy; à ellir ei gael *neu* ei gasglu.

Collection, *s.* (Ll. *collectio*) casgliad, cynnulliad, casgl, cynnull, clasg, cydgasgl, casglfa, clasgiad, crawn, cynghrawn; cronfa, croniad, cynnulliad, crynoad, gwraddiad; greant, greawd; cai; detholiad; cyfroddiad; cydgynnulliad.

Collection of vapours—cyfager, cyttarth.

Collectitious, *a.* (Ll. *collectitius*) cynnulledigol, cynnulledig, casgledigol.

Collective, *a.* (Ll. *collectivus*) cynnulliadol, casgliadol, casgledig, casgledigol, cynnulledig, cynnullol, casglgar, crynoawl, cryno, twysgol, gwraddol; unig-luosog.

Collective noun—enw cynnulliadol, enw cynnulledig, enw lluaws, enw unig-luosog, sylweddair cynnulliadol = gair *unig* yn arwyddo *lluaws*; megys, *pobl, tyrfa*, &c.

Collectively, *ad.* (o *collective*) yn gynnulliadol, &c.; yn nghyd, i gyd; i gyd yn nghyd; y cwbl dàn un; yn un swm; yn un swp; yn gyfan, yn gryno.

Collectiveness, *s.* (o *collective*) casgliadolrwydd, cynnullolrwydd, cynnulloldeb; crynodeb, crynoad, casgliad; twr, pentwr.

Collector, *s.* (o *collect*) casglwr, casglydd, cynnullwr, cynnullydd, clasgwr, crynöwr; detholydd; amobrydd; ceisiad, cais, tollur, cyllidwr.

Collectorship, *s.* casglyddiaeth, cynnullyddiaeth; amobryddiaeth, cyllidyddiaeth, tolluriaeth.

Collegatary, *s.* (Ll. *con* a *lego*) cydwyllysgodai, cyd-dderbyniwr cymmynrodd.

College, *s.* (Ll. *collegium*) coleg, clasgor, bangor, côr, brodorfa, prifysgoldy, clas; cydfrodoriaeth, brodoriaeth, brawdoliaeth; cynnullaid.

Head of a college—pen coleg, penaeth coleg, pen clas, clas-ben.

Fellow of a college — cymrawd coleg, brodor coleg, cymrodor coleg, cyfaill clasgor; cymrawd o goleg; aelod o gymdeithas coleg; brawd clas.

Student of a college — efrydydd coleg, efrydwr clasgor, myfyriwr mewn coleg, dysgybl clas, clas-efrydydd.

Doctor of a college —doethor coleg, athraw clas, clas-athraw, clas-ddoethor.

Professor of a college—entraw, proffeswr, proffesor, *neu* broffesydd coleg; cadeirdraw clasgor.

College of Surgeons--Coleg y Llawfeddygon.

College of Physicians—Coleg y Meddygon.

Imperial colleges — llysoedd *neu* deyrngynghorau amherodrol (yn Rwssia).

College of Heralds—coleg herodron, clasgor heroduriaid, coleg achyddiaeth, achwyddfa, achyddfa; coleg arfarwyddion.

Sacred college—glwysgoleg, y coleg santaidd, coleg y cyniaduriaid, glwysgor y Pab, y clas santaidd, glwysgynghorfa.

College-like, *a.* colegaidd, clasgoraidd; yn ol dull coleg.

Collegial, *a.* (o *college*) colegaidd, colegol, clasgorol, clasgoraidd, bangoraidd, bangorol.

Collegian, } *s.* (o *college*) colegiad, colegwr,
Collegiate, } colegydd, colegor, clasgoriad, clasgorydd, brodor, urddysgolor; myfyriwr, efrydydd, ysgolor, aelod coleg: *pl.* colegiaid, clasgoriaid, colegwys, colegwyr, &c.

Fellow collegian—cydgolegiad, cydgolegwr, &c.

Collegiate, *a.* (o *college*) colegol, colegawl, colegaidd, clasgorol, brodorfaol, brodorol; perthynol i goleg *neu* glasgor.

Collegiate church — eglwys golegol *neu* glasgorol; claseglwys, claslan.

Collegiate house — brodordy, colegdy, colecty, clasgordy.

Collet, *s.* (Ff.) maenrwy, boglyn; claeremas; gwddf, coler.

Collet of a ring—boglyn, bogel, bolgelglwm, *neu* gnap modrwy; maenrwy modrwy.

Collet, *s.* (Gr. *collêtos*) gludai, gludran, glyran, glud.

Colletes, *s.* (Gr.) gludwenyn, glywenyn.

Colletic, *a.* (o *collet*; Gr. *collêticos*) gludiol, gludol, glynol, cyflynol, gludig.

Colletic, *s.* glud, asgroling, asgrawling, asglawring, asgroling, ysglawring; glynai: *pl.* gludion, gludolion, glynolion.

Colliculus, *s.* (Ll.) trumen, trumyn, cnycyn, bryncyn.

Collide, *v. a.* (Ll. *collido*) gwrthdaraw, gwrthergydio, cyttaraw; taraw yn erbyn eu gilydd; gyrthio.

Collier, *s.* (o *coal*) glöwr, glöydd; masnachwr glo; glolong, glolestr, llong lo.

Colliery, *s.* (o *coal*) gwaith glo, glofa, globwll, glowaith, pwll glo, clawdd glo, gloglawdd.

Colliflower, *s.* (Ll. *caulis*, a *flower*) blodfresych, blodeugawl, blodgawl.

Colligate, *v. a.* (Ll. *colligo*) cydrwymo, cyd-

glymu, cydgylymu, cyfrwymo, cynghlymu; rhwymo yn nghyd.

Colligation, *s.* (Ll. *colligatio*) cydrwymiad, cyfrwymiad, cydglymiad, cydgylymiad, cynghlymiad; clymiad *neu* rwymiad yn nghyd.

Collimation, *s.* (Ll. *collimo*) annel, anneliad, cyfeiriad, cyfeirnod, nod, selnod.

Line of collimation—tremlin, tremidlin.

Collimating telescope=*Collimator.*

Collimator, *s.* (Ll. *collimo*) annelsyllyr.

Collineation, *s.* (Ll *collineo*) cyfeirliniad, llyfeliad, anneliad.

Colling,† *s.* (Ll. *collum*) cofleidiad; maldod, cocr.

Collingual, *a.* (Ll. *con* a *lingua*) cydieithol, cydieithog, cydiaith, cyfiaith; yn perthyn i'r un iaith.

Colliquable, *a.* (Ll. *colliqueo*) cyttoddadwy, toddadwy.

Colliquament, *s.* (o'r Ll. *colliqueo*) cyttawdd, tawdd, toddiant; y rhith, milrith, gorllydd; cywrith.

Colliquant, *a.* toddiadol, toddiannol, cyttoddol, cyttoddiadol, dadmerol.

Colliquate, *v.* (Ll. *colliqueo*) cyttoddi, toddi, ymdoddi, dadmer, dadfer, dadleithio; llyneiddio, gwyo.

Colliquation, *s.* (Ll. *colliquatio*) cyttoddiad, toddiad, toddiant, tawdd, dadmeriad, dadferiad; curiad, treuliad, teneuad; llifiant, llifiad, tawdd corff, darymred.

Colliquative, *a.* toddiadol, toddol, cyttoddiadol, toddiannol, llifiannol, llifiadol; darymredol, curiol, treuliadol.

Colliquefaction, *s.* (Ll. *colliquefacio*) cyttoddiad, cyttoddiant, toddiad, toddiant, cyttoddiadaeth.

Collision, *s.* (Ll. *collisio*) gwrthdarawiad, gwrthdaraw, gwrthergydiad, cyfergydiad, cyfergyr, gwrthdar, cyttarawiad, cydbwyad, cymhwyad, ermid, tarawiad, targiad; tarawiad wrth; cyferbyniad, gwrthwynebiad, ymyraeth, ymyrthiad.

Collitigant, *s.* (Ll. *con* a *litigo*) cydgecryn, cydymgecrwr, cydgecrydd, cydymrafaelydd, cydgipryswr, cydymgyfreithiwr.

Collocate, *v. a.* (Ll. *colloco*) cyflëu; gosod, gosodi; rhoi, dodi; sefydlu; llëu, lleoli, mànu, llehau; swyddiadu; rhoddi mewn lle *neu* swydd.

Collocate, *a.* cyfleol, cyfleadol, gosodedig, cyfleuedig.

Collocation, *s.* (Ll. *collocatio*) cyflead, gosodiad, dodiad, llead, sefydliad, rhoddiad, lleoliad.

Collocution, *s.* (Ll. *collocutio*) cydymddyddan, cynnadledd, cylafaredd, cydlafaredd, ymddyddan, ymgomiad, cymddyddan, siarad, cydsiarad, cyssiarad, cydgomiad, cydlafariad, cyflafariad.

Collocutor, *s.* cymddyddanwr, ymddyddanwr, cydymddyddanydd, ymgomiwr, cydlafarwr, cydsiaradwr.

Collogue,† *v. a.* (Ll. *colloquor*) truthio, gwenieitho.

Collop, *s.* (Gr. *collops*) golwyth; llyweth; plentyn.

He maketh collops of fat on his flanks—efe a wna dyrch o floneg ar ei deuewynau (*Iob* xv. 27).

Colloquial, *a.* (Ll. *colloquium*) ymddyddanol, cydymddyddanol, cydgomiol, ymgomiol, cynadlol, cydlafarol, chwedleuol; mewn siarad cyffredin; mewn ymddyddan cyffredin; ar arfer gwlad.

A colloquial word—gair cyffredin wrth siarad *neu* ymddyddan; gair arferedig wrth siarad; gair mewn arfer wrth ymddyddan; gair siarad, gair ymddyddan; siaradair, ymgomair, gair cymddyddan.

Colloquially, *ad.* wrth siarad *neu* ymddyddan; ar arfer gyffredin, &c.

Colloquist, *s.* (Ll. *colloquor*)=*Collocutor.*

Colloquy, *s.* (Ll. *colloquium*) ymddyddan, cydymddyddan, cymddyddan, siarad, cydsiarad, cyssiarad, cyflafaredd, cylafaredd, cydlafaredd, cynnadl, cynnadledd, cydleferydd, ymgomiad, cydgomiad, ymgom, cydgom, ymadroddiaeth, ymddywediad, cyfariaith, cydchwedl, chwedleuaeth.

Collow, } *s.* (o *coal*) parddu, huddygl.
Colly, }

Colluctancy, *s.* (Ll. *colluctor*) gwrthymdrech, gwrthymdrechiad, gwrthrynedd, gwrthwynebiad; ymdrech yn erbyn natur.

Colluctation, *s.* (Ll. *colluctor*) cydymdrech, ymdrech, ymdrechfa, cydymdrechiad, cydymdrechfa, cyfymdrechiad; gwrthwynebiad, gwrthrynedd, gwrthedd, gwythwynebedd.

Collude, *v. n.* (Ll. *colludo*) cyttwyllo, cydhocedu; cydfradu; cydgastio; cydchwareu; chware y ffon ddwybig; cytuno i wneuthur hoced.

Colluder, *s.* (o *collude*) cyttwyllwr, cydhocedydd.

Colluding, *s.* (o *collude*) cyttwylliad, cydhocediad; cast.

Collum, *s.* (Ll.) gwddf, gwddwg, mwnwgl.

Collum of plants—mwnwgl planigion.

Collusion, *s.* (Ll. *collusio*) cyttwyll, cydhoced, cystwyll; hoced, twyll, somiant, dichell, dichelliad, twyllofaint, cyttwylliad; cytundeb dirgel i dwyllo.

Collusive, *a.* (o'r Ll. *colludo*) cyttwyllol, cydhocedus, cyttwyllodrus, cydffuantus; twyllodrus.

Collusiveness, *s.* cyttwylledd, cydhocedusrwydd, cyttwylloldeb.

Collusory, *a.* (Ll. *collusor*) cyttwylliadol, cydhocedol, cydhocedus, twyllodrus, hocedus.

Collutorium, *s.* (Ll. *colluo*) geneuolch.

Colluvies, *s.* (Ll.) budreddi, ysgarthion, carthion, brynti; sybwll, carthffos, soch.

Colly, } *s.* (o *coal*) parddu, huddygl.
Collow, }

Colly, *v. a.* pardduo, diwyno.

Collyrite, *s.* (Gr. *collurion*) eliglai.

Collyrium, *s.* (Ll. o'r Gr. *collurion*) llygadolch, eli llygaid, llygadeli.

Colmar, *s.* (Ff.) math ar beren.

Colocolo, *s.* cigfran y dwr, gwygigfran.

Colocynth, *s.* (Gr. *colocunthis*) chwerafal, chwerwafal, afal chwerw, cicaion chwerw, surgicaion, yr afal gwyn.

Colocynthin, } *s.* (o *colocynth*) chwerafal-
Colocynthine, } nur.

Cololite, *s.* (Gr. *cŏlon* a *lithos*) coluddith, coluddfaen; coluddion pysg wedi ymgaregu.

Colon, *s.* (Gr. *cŏlon*) y coluddyn mawr, y rhefrgoluddyn, y coluddyn rhefr, y coluddyn uniawn, gorgoluddyn; gorwahanai.

Colon (in Grammar)—gorwahanai, gorwahannod=fel hyn (:).

Colonel, *s.* (Ff.; Ysp. *coronel*) milwriad, pencatrawd.

Lieutenant-colonel—rhagfilwriad, iafilwriad, adfilwriad.
Colonel - lientenant — rhaglaw filwriad, rhaglaw milwriad.
Colonelcy, } *s.* (o *colonel*) milwriadaeth, pen-
Colonelship, } catrodiaeth.
Colonial, *a.* (o *colony*) trefedigol.
Colonist, *s.* (o *colony*) trefodog, trefedigwr, trefedig: *pl.* trefedigion, trefodogion.
Colonization, *s.* (o *colonize*) trefedigiant, trefiant, trefodiad, trefedigiad.
Colonize, *v.* (o *colony*) trefedigo, trefiannu, trefogi, trefodi; poblogi; symmud ac ymsefydlu; planu *neu* sefydlu trefedigaeth.
Colonizing, *s.* (o *colony*) trefedigiant, trefedigiad, trefodiad, trefiant.
Colonnade, *s.* (Ff.; It. *colonnata*) colofnedd, colofnawd, colofres, colofnres, pillres, rhes o golofnau.
Colony, *s.* (Ll. *colonia*) trefedigaeth, trefod, trefodogaeth; trefedigion, trefodogion.
Chief city, and a colony—prifddinas, a dinas rydd (*Act.* xvi. 12).
Colophon, *s.* (=dinas yn Ionia) terfyn llyfr, gynt yn cynnwys lle ac amser ei ysgrifeniad; diwedd llyfr; dybenawd, diweddawd, diwedd; cyflawniad.
Colophouic Acid, *s.* sur muchystorig.
Colophonite, *s.* (o *colophon* neu *colophony*) ysfarfaen, colophonith.
Colophony, *s.* (oddi wrth ddinas *Colophon*) muchystor, ystor du; pyg.
Colloquintida, *s.* (Gr. *colocunthis*; Ll. *colocynthis*)=*Colocynth.*
Colorate, *a* (Ll. *coloratus*) lliwog, lliwiog, lliwedig, lliwiedig.
Coloration, *s.* (Ll. *coloro*) lliwad, lliwiad, lliwiant, gnead, lledliwiad.
Colorature, *s.* (Ll. *coloro*) addurnolion, addurnebion; addurnebiaeth.
Colorific, *a.* (Ll. *color* a *facio*) lliwiadol, lliwiol, lliwol, lledliwiol; lliwbair, lliwddwyn.
Colossal, } *a.* (o *Colossus*) cawraidd, enfawr,
Colossean, } gorfawr, dirfawr, anferthol, anferth, dirfaint, amrosgo.
Colosseum, } *s.* (Ll.) Colosëum, Colisëum,
Coliseum, } Colosseion; cawradail, enadail; amddrychfa.
Colossus, *s.* (Ll.; Gr. *Colossos*) Colossus; cawrddelw, gorddelw, delw gawraidd; cawrgerfyll.
Colossus-wise, *ad.* fel cawrddelw.
Colostrum, *s.* (Ll.) cynlaeth, llaeth tor, llaeth nyag, llaeth melyn, llaeth brith.
Colour, } *s.* (Ll. *color*) lliw, gne; gwawr, eiliw,
Color, } gorne, agne; ffugliw; lledliw, adliw, paent; rhith, ffug, lledrith, cyfrith, esgus, ffaant, cysgod, enw; ymddangosiad; gwrid, hoen, cochni; math, rhyw, sut.
Colours — llumanau, banerau; lluman, baner; arwyddion rhyfel, lliwiau rhyfel; arwydd.
False colour, } ffugliw, lliw ffug-
Counterfeit colour, } iol.
Changeable colour—symmudliw, newidliw.
Dark colour—lliw tywyll, erch, twtnai, lliw twtnai, lliw duaidd.
Dun colour, } dulwyd, gwrm, dwn,
Dark brown colour, } gell, arddufrych, gwineuddu.
Darkish blue colour, } llai, dulas, lliw du-
Dark grey colour, } las.

Rose colour, } rhosliw, gwridliw, lliw
Ruddy colour, } y rhos.
Motley colour—cymmysgliw, brithliw.
Reflected colour—mabliw, adrithliw.
Russet colour—gwywgoch, lliw gwywgoch, rhuddgoch, rhuddlwyd, cochlwyd, llwydgoch, rhydgoch, rhytgoch, blawrgoch, gwywliw, gwineugoch; gwywllyd ei liw; lliw adfeiliedig.
Sea-green colour — morlas, morwyrdd, morliw, gwyrddlas, gwrmlas; lliw morlas, &c.; gwyrddlas tryloew, gwyrddliw.
Mouse colour—llygliw, lliw llygoden.
Pitch colour—pygliw, lliw pygddu.
Dust colour—lliw llychwin.
Fresh colour, } lliw gwyrenig.
Lively colour, }
Azure colour, } asur, glasar, nefliw, llasar,
Sky colour, } balasar, glas goleu, goleulas, glas, lliw goleulas.
Murrey colour, } lliw cochddu, lliw
Dark crimson colour, } dugoch, lliw rhuddgoch, porfforliw, porfforliw tywyll.
Flame colour—fflamliw, fflamgoch, lliw y fflam, lliw gloewgoch; lliw gloewgoch fâl y tân; tânliw, eiriasliw.
Ardent flame colour — gorfflamliw, gorfflamgoch.
Flea-bitten colour — lliw ceiniogog, lliw mànog, mànogliw.
Gold colour, } eurliw, eurliw; melynliw
Golden colour, } fel yr aur; lliw melyngoch, lliw cochfelyn, lliw dysgleirfelyn, lliw yr aur, eurne.
Grey colour—lliw llwyd, llwydlas, llwydwyn, *neu* flawrwyn; blawr.
Swarthy colour—lliw cethin, lliw pygddu; llygliw, pygliw; lliw arddufrych, tywyll, gwineuddu, llyglwyd, dulwyd, *neu* felynddu.
Dark grizzle colour—broc; lliw y gwilfrai; lliw y broch; brochliw.
Very high red colour—lliw coch tanbaid, lliw coch fflamliw, coch tanbaid.
Smoke colour—mygliw, lliw y mwg, lliw myglyd, lliw tywyll.
Straw colour—lliw y gwellt, lliw gorfelyn, lliw melynwyn, gwelltfelyn.
Venice blue colour—glas y ddinas, glas Gwenethia.
Whitish purple colour — lliw blodau'r bocys; cochlas goleu, lliw porfforwyn.
Black and blue colour—dulas, llur; du a glas.
Ground colour—cynlliw, gorliw, seilne, safliw.
Of the same colour—cyfliw, gogyfliw, cyfeiliw, unlliw, o'r un lliw, o'r unlliw.
Of the same colour all over *or* through—tryliw, tryliwiog.
Of many colours — amryliw, amliwiog, amryliwiog, amliw; o amryw liwiau; brith, (*f.* braith).
Of one colour—unlliw, unlliwiog; o un lliw.
Of two colours—deuliw, deuliwiog, deune; o ddau liw.
Of three colours—trilliw, trilliwiog; o dri lliw.
Of sundry, various, *or* divers colours—amryliw, amliwiog, amliw, amryliwiog; o amryw liwiau; brith, tryfrith.

Of a changeable colour — symmudliw, newidliw, amliw, newidliwiog, mudliwiog.
Of a dark pitchy colour—pygliw, pygddu; o liw y pyg.
Perfect in colour—pedryliw, pedryliwiog; perffaith ei liw.
Having lost its colour—llychwin; wedi colli ei liw; lliwgoll, lliwgolledig.
Different colour—gwahanliw.
Water colours—dyfrliwiau, gwy-liwiau.
Under colour of, } dàn rith, dàn esgus,
Under the colour of, } dàn enw, dàn gyfrith, yn rhith.
Under colour of friendship — dàn enw hen gyfeillach.
With colours displayed — â'u banieri ar daen; â'u banerau ar daen; â'u llumanau ar led; â'u lliwiau yn hedfan *neu* ehedfan.
He came off with flying colours—efe a ddaeth ymaith gyda chlod, yn fuddugol, yn fuddugoliaethus, *neu* yn orfoleddus.
To variegate colours—amryliwio, amliwio, amliwo.
To change colour—newid ei liw; colli ei liw; amliwio; drygliwio; newid lliwiau; newid ei wedd; glasu, delwi, ddelwi; myned yn laswelw.
He endeavoured to colour his avarice—amcanodd guddio ei gybydd-dod.
To fear no colours—cyfarfod â pheryglon yn ddigryn; bod yn gwbl ddïarswyd *neu* ddïofn; bod heb ofni dim yn y byd.
Fear no colours—nac ofnwch ddim yn y byd.
Adjective colours—lliwiau anhysaf, lliwiau diesaf, lliwiau ansafol, lliwiau ansafadwy.
To divest of colour—dadliwio, disliwio, diliwio.
Colour, } *v.* lliwo, lliwio; cochi, gwrido,
Color, } ymliwo, ymliwio; ffugio, ffuantu, gorffugio, esgusodi, cuddio, lledrithio; bwrw hud, lliw, *neu* hug ar; rhoi *neu* fwrw esgus dros; cyluro; enhuddo; rhoi lliw ar; gwneuthur lliw o; cywilyddio.
To colour highly — rhyliwio, dyfnliwio; lliwio yn uchel; rhoi lliw uchel *neu* ddwfn ar.

Colourable, *a.* (o *colour*) lliwadwy, lliwiadwy; ymddangosiadol, rhithdeg, tebygol, golygus, ymddangosiadus, wynebdeg; teg yr olwg arno.
A colourable pretence—esgus teg a golygus; esgus teg o liw.
Colourableness, *s.* tebygrwydd, golygusrwydd, tebygolrwydd, rhithdegedd.
Coloured, *p. a.* (o *colour*) lliwedig, lliwiedig, lliwiog, lliwog; amliwiog, amryliw, amryliwiog, brith; ffugiol, ffug-; âg eiliw arno; ymddangosiadol.
High coloured — rhyliwiog, dyfnliwiog, arliwiog, rhyliwedig, dyfnliwedig; lliwiog, lliwus; uchel ei liw; â lliw uchel arno; dyfnliw; bywiog, llawn byw, llawn bywyd.
Fine-coloured — harddliw, harddliwiog, harddliwus.
Well-coloured—lliwus, lliwgar.
Ill-coloured — drygliwiog, drygliw, drygliwus.
Coloured cloth—breth lliwiedig, brethyn lliw.
Coloured in grain—gwedi ei liwio ddwywaith cyn ei nyddu; â liwiwyd ddwywaith; wedi ei ddeuliwio; deuliwiedig.
Silver-coloured—arianalliw, arianliw, arianaidd, arianaid.
Coloured people—pobl dduon; Affriciaid a'u hiliogaeth, ai cymmysg ai anghymmysg; pobl anwynion.

Colouring, *s.* (o *colour*) lliwiad, lliwad, lliwiant, lliwedigaeth; ffugiad, esgusiad; hyliwedd; lliw.
Colouring (in phrenology) — hyliwedd, lliwgarwch.
Colouring matter—lliwnwyddau, defnyddiau lliwo, lliwneoedd.

Colourist, *s.* (o *colour*) lliwydd, lliwiedydd, lliwiwr, lliwiadur.
Colourless, *a.* (*colour* a *less*) diliw, afliwiog, anlliwiog, disliw; tryloew.
Colporteur, *s.* (Ff.) llyfrwicwr, llyfrwicydd, teith-lyfrwerthwr, llyfranwerthydd, llyfrwerthwr teithiol; teithwerthwr.
Colstaff, *s.* (*cowl* a *staff*) trosol, trostan, gwif.

Colt, *s.* (S.) ebol; blanc; llwdn: *f.* eboles, ffilog.
Horse-colt—ebol, ebolfarch.
Mare-colt—eboles, ffilog.
The colt of an ass—ebol asen, llwdn asen; llwdn asyn, ebol asyn.
A mare and colt—caseg ac ebol; caseg a llwdn.

Colt,† *v.* eboli; bod yn ebol; chwareu fel ebol; bod yn benrydd; gwamalu, rhonts; ffoli.

Colt's-foot, *s.* alan, alan bychan, carn yr ebol, ebolgarn, pesychlys, troed y tarw, dail troed yr ebol, llun troed yr ebol.
Colt's-tail, *s.* rhawn yr ebol.
Prickly colt's tail—rhawn yr ebol gwrychog.
Smooth colt's tail—rhawn yr ebol hyblyg.
Colt's-tooth, *s.* dant yr ebol, ebolddant; dyre; dyre ar wrach *neu* ar gleirioch.
She has a colt's tooth in her head—y mae dyre ar yr hen greadur.

Colter, } *s.* (Ll. *culter;* Al. *kolter*) cyllyr, cwlltyr,
Coulter, } yr, cyllor, cwllyr.

Coltish, *a.* (o *colt*) ebolaidd, ebolig; rhontus, gwamal, gwamalus, gofregus, nwyfus, prancïol, chwareugar, chwarëus, trythyll; fel ebol.
Coluber, *s.* (Ll.) neidr; colwiber, crestwiber: *pl.* nadroedd, nadredd, neidredd, &c.
Coluberidæ, *s. pl.* (o *coluber*) gwirnadroedd; neidrolion, nadrolion.
Colubrina, *s.* (Ll.) neidr-wydd, nadr-wydd.
Colubrine, *a.* (Ll. *colubrinus*) sarffol, neidrol, nadraidd; cyfrwys, ffalst, ffel.
Columba, *s.* (Ll.) colomen; y colomenod.
Columba Noachi—Colomen Noah=cydsei yn yr arddrych ddeheuol, wrth draed o y Ci Mawr, yn cynnwys 26 seren.
Columbary, *s.* (Ll. *columbarium*) colomendy, colomdy, ty colomenod.
Columbate, *s.* (o *columbium*) columbaint, columbhalan.
Columbic, *a.* (o *columbium*) columbig.
Columbic acid—sur columbig.
Columbidæ, *s. pl.* (Ll. *columba*) colomenod, colomenolion, colomenlwyth, colomryw.

Columbiferous, *a.* (*columbium*, a Ll. *fero*) yn dwyn neu gynnyrchu Columbium.
Columbine, *a.* (Ll. *columbinus*) colomenaidd; colomenliw; o liw gwddf colomen.
Columbine, *s.* (Ll. *columbina*) madwysg.
Feathered columbine — arianllys, troed y barcud.
Columbine, *s.* (It. *columbina*) ysgenten, ysgentes, digrifen, digrifes.
Columbine, *s.* columbain.
Columbite, *s.* (o *columbium*) columbith, mwn Columbium.
Columbium, *s.* (o *Columbia*, America) Columbium, Tantalum = delid à gafwyd allan gyntaf yn y flwyddyn 1801.
Columel, } *s.* (Ll. *columella*) colofnig, colofn-
Columella, } en, llysgolen, cesbegor.
Column, *s.* (Ll. *columna*, *columen*) colofn, piler, post, colof, pill, celff, llorf, colon, crynbill, tybost; lledwyneb: cydfriger.
Sepulchral column—beddgolofn.
Cruciferal column — croesgolofn, colofn groesddwyn.
Mammial column — colofn gadfuddug, colofn gadgymmer.
A small column—colofnig, colofnen, colofnan, pileryn.
Full of columns—colofnog, pilerog, llawn colofnau.
Columnar, *a.* (o *column*) colofnaidd, colofnol, pileraidd.
Columnarish, *a.* (o *columnar*) gogolofnaidd.
Columnula, *s.* (Ll.) colofnig, colofnan, colofnyn, colofn fechan.
Colure, *s.* (Gr. *colouros*) colrod; *pl.* colrodau.
Colymbus, *s.* (Gr. *columbos*) y trochydd.
Coma, *s.* (Gr. *cóma*) hunglwyf, hunwst, hunhaint, gorgysgrwydd, cysgadrwydd, cysgrwydd, gorhunedd.
Coma, *s.* (Ll. o'r Gr. *comé*) gwallt, blew; llysiwallt; gwalltogrwydd, blewogrwydd; gwallt seren.
Coma Berenices—Gwallt Berenice, Gwallt Berenica = cydser yn yr arddrych ogleddol.
Comart,† *s.* (Ll. *con*, a *mart*) cytundeb, ammod.
Comarum, *s.* (Gr. *comaros*) llygad ysgyfarnog, corsgudyn.
Comate, *a.* (Ll. *comatus*) gwalltog, gwalltaidd; flluwchaidd.
Comate, *s.* (Ll. *co* neu *con*, a *mate*) cydymaith, cyfaill, cyfail.
Comatose, } *a.* (o'r Gr. *cóma*) hunglwyfus,
Comatous, } hunglaf, hunystog, hunheintus, cysglyd, gorgysglyd, trymllyd.
Comatula, *s.* (Gr. *comé*) elestfilod.
Comb, *s.* (S. *camb*; Al. *kamm*) crib; cribell; ysgrafell; melgell, melgod.
Honey-comb — dil mêl, melgell, melgod, melgorn, crwybr, cwybr, crib.
Curry-comb — ysgrafell, crafell, rhistyll, crib march.
Flax-comb—heislan, heisyllt, trafel, rhipai, heisyllt cywarch.
Small-tooth comb — crib fân, crib fânddaint, crib ddanmedd mân.
Tangle comb—crib ddadrys, crib ddaddyrys.
Venus' comb—nodwydd y bugail, creithig, crib Gwener.
Lady's comb—crib Mair.
Cock's comb—cribell, crib y ceiliog, crib ceiliog.
To cut one's comb—tori crib un; darostwng neu iselu un; tori brig un; darostwng balchder un.
Having a comb—cribog; âg iddo grib.
Comb, *v.* *a.* cribo; ysgrafellu, rhistyllio; dadrysu; trosdreiglo.
Comb, } *s.* (S.; C. *cwm*) cwm, glŷn, cwmarch.
Combe, }
Coombe, }
Comb, } *s.* (Gr. *combos*) hobaid, hob, hanner
Coomb, } crynog, pedwar pwysel, pedwar llestraid Caerwynt.
Combat, *v.* (Ff. *combattre*) ymladd; ymladd â; ymryson, cysbwyo, ymornestu, ymornest, brwydro, ymdrechu, ymwrio, gwrthladd, gwrthsefyll, gwrthwynebu; ymdynu âg, ymdrechu âg, ymwrio âg, ymorchestu âg; catäu, cadhau, aeru, batelu, gyrthio; sefyll yn erbyn; ornestu; gwrthbrofi, disbrofi.
To combat by way of argument—ymddadleu, ymddadlu; ymosod ar un drwy resymau; ymwrio âg un drwy resymau; ymresymu yn erbyn.
Combat, *s.* ymladd, ymladdfa, brwydr, ymdrech, ymdrin, cysbwy, ymwan, trin, cad, aer, ymgyrch, ymryson, amryson, breithell, breithred, ymdrafod, gwrthladd, gwrthladdiad, cyfrysedd, gwrthryn, gwrial, trafod, cyfarf, gyrth, gyrthiad, ymwrthryn, cadwent; ornest.
Single combat—ornest, cysbwy, ymgysbwy.
Combatable, *a.* (o *combat*) ymdrechadwy, &c.
Combatant, *a.* (o *combat*) ymdrechol, gwrthwynebol, cysbwyol, ymladdgar, ymrysonol; yn ymdrechu, yn ymladd, &c.
Lions combatant — llewod ymladdgar; llewod cysbwyol; llewod yn ymladd neu yn ymdrechu.
Combatant, *s.* ymladdwr, ymdrechwr, ymdrechydd, rhyswr, cysbwywr, brwydrwr, brwydrydd, campwr; ornestwr, ornestydd; ymddadleuwr, ymdynwr, ymrysonydd, ymwanwr, ceimhiad: *pl.* ceidron.
Combater, *s.* (o *combat*) ymladdwr, ymdrechwr, rhyswr, cysbwywr.
Combative, *a.* (o *combat*) ymladdgar, cysbwygar, ymrysongar, ymrysgar.
Combativeness, *s.* (o *combative*) ymladdgarwch, ymrysgarwch, cysbwygarwch, ymrysedd, ymrysonedd.
Comber, *s.* (o *comb*) cribwr, cribydd, cribiedydd.
Comb-brush, *s.* crib-wrychell, cribgarthydd, gwrychell crib, carthydd crib.
Comber,† *s.* (Ff. *encombrer*) rhwystr, attalfa.
Comber, *s.* crippysg, y cribiedydd=math o bysg ar dueddau Cernyw.
Combinable, *a.* (o *combine*) cyfunadwy, cyssylltadwy.
Combinableness, *s.* cyfunadwyedd, hygyssylltedd, cyfunoldeb.
Combinate,† *a.* (Ff. *combiner*; Ll. *combino*) dyweddïol, dyweddïedig, cyfneithiol; gwedi ei dyweddïo.
Combination, *s.* (Ff. *combinaison*) cyfuniad; cydundeb, cytundeb, cydsyniad; cyssylltiad, cydblethiad, cymhlethiant, cymhlethiad, cydgyssylltiad, cyfymlyniad, cydymglymiad, cyduniad, cyfunedd, uniad, cydiad, cyplysiad, cyfundod, cyfunawd, undeb, uniant; cym-

gres,cymmysgiad, cydgymmysgiad, cymhlithiad, cydfysgiad, cyssoddiad; cydfwriad, cynghrair, cysswyn; cynnulliad; rhifuniad.

Chemical combination—cyfuniad fferyllaidd.

Combine, *v.* (Ll. *combino;* Ff. *combiner*) cyfuno; cyduno, cytuno, cydymuno, uno, ymuno, cydsynio; cyssylltu, cydgyssylltu, cydblethu, cymhlethu, cyfymlynu, cydymglymu, cydio, cyplysu; cymmysgu, cydfysgu, cyssoddi, cydgymmysgu, cymhlitho, cymhlithio, trymysgu, cydgorffori, cyfrwymo, tasio; cynghreirio, cydfwriadu, cysswyno; ymgyplysu, ymgyfeillachu, ymgyssylltu, cymgresu.

Combined expedition—cyforddwy.

Combiner, *s.* (o *combine*) cyfunwr, cyfunydd, cyfunai, cydunwr, &c.

Combless, *a.* (*comb* a *less*) digrib, heb grib, digobyn

Combust, *a.* (Ll. *combustus*) cyngreidiol, cydlosgol, yn gydlosg; agos i'r haul.

Combustible, *a.* (Ff. o'r Ll. *combustibilis*) hylosg, llosgadwy, magdan, hydan, ennynol, hyboeth; à gymmero dân.

Combustible, *s.* dysgymmon, gosgymmon, magdan, hylosgyn: *pl.* hylosgion.

Combustibleness, } *s.* hylosgedd.
Combustibility, }

Combustion, *s.* (Ll. drosgl, *combustio*) cydlosgiad, cyflosgiad, llosgiad, cyflosgfa, banffagliad, goddeithiad, goddaith, llosg, llosgfa, ennyniad, cynneu, cynne, tanllwyth; dyfysgi, terfysg, cynhwrf, trabludd, cyffro, cythrwfl, annhrefn, dwndwr, ffwndwr, ffrawdd, trybestod.

Spontaneous combustion — ymhylosgiad, ymlosgiad, hylosgiad; llosgiad o hono ei hun.

Combustive, *a.* (Ll. *combustus*) hylosg, hydan; tueddol i losgi.

Come, *v. n.* (S. *cuman, cwiman;* Al. *kommen;* Is. *koomen*) dyfod; dawed, dawad, delu, delyd, dod, doddi; dygwyddo, hapio, damweinio; dynesu.

Come—tyred, dyred, dere, dyre; deuwch, dewch, dowch; awn.

To come along—dyfod rhagddo; myned rhagddo; dyfod yn mlaen; myned yn mlaen; dyfod gyda.

Come along — tyred, dyred, dere, dyre; deuwch, dewch, dowch; dere *neu* dowch oddyna; iddo.

To come after—dyfod *neu* fyned ar ol; dylyn, canlyn, erlyn; dyfod i gael.

To come abroad—dyfod allan, ar led, *neu* yn gyhoedd; myned allan, ar led, *neu* yn gyhoedd; cael ei gyhoeddi; cymmeryd gwynt.

To come again—dychwelyd, attychwelyd, atddychwelyd, adchwelyd; dyfod drachefn, eilwaith, eilchwyl, *neu* eilwers; dyfod yn ol.

To come asunder—ymadael â'u gilydd; syrthio ar led; ymollwng.

To come about—dyfod o amgylch; dyfod oddi amgylch; dyfod i ben; dyfod o gylch; dyfod o gwmpas; dygwyddo, dygwydd, hapio, damweinio, cymmeryd lle; bod; troi, newid.

To come at—cyrhaedd, cyrhaeddyd; goddiwes, goddiweddyd, gorddiwes, gorddiweddu; dyfod i; dyfod o hyd i; dyfod o hyd; cael, caffael, ennill; cael gafael; cael gafael ar; bod o fewn cyrhaedd; dyfod yn mlaen.

To come away—dyfod *neu* fyned ymaith; ymadael, ymadaw, ymadu; myned i ffwrdd.

Come away — tyred ymaith; dowch ymaith.

To come back—dychwelyd; dyfod yn ol; myned yn ol; dyfod *neu* fyned yn ol i adwedd; adwedda, attroi; troi adref; troi yn ol.

To come by—dyfod heibio; myned heibio; pasio; cael, caffael, ennill; dyfod o hyd i; dyfod i; dyfod hyd; dyfod yn agos at.

To come before—dyfod o flaen; rhagflaenu, blaenu, blaenori; dyfod o'r *neu* i'r blaen; dyfod ger bron.

To come down—disgyn, gostwng; dyfod i lawr; dyfod i waered.

To come from—dyfod o; hanu o, hanfod o, deilliaw o, tarddu o, codi o, cyfodi o, cychwyn o; dechreu; cael dechreuad o; geni o; dwyre o, arwyre o, arwyrain o; ymadael o; ymadaw oddi.

To come for—dyfod am; dyfod i gael; dyfod i dderbyn; dyfod ar ol; canlyn, dylyn.

To come forth — dyfod allan; deilliaw, tarddu, hanu; ymadael o; ymadael, ymadaw; gadaw, gadael; dyfod ar led.

To come home — dyfod adref; myned adref; myned *neu* ddyfod i adwedd; myned *neu* ddyfod i'w adlam; dychwelyd i'w wlad ei hun; dyfod i dir ei wlad; adwedda.

To come in—dyfod i mewn *neu* i fewn; myned i mewn; ymröi, ymroddi, ymostwng, ymddarostwng, ymblygu, plygu, cydsynio; gwneuthur gwarogaeth; cyrhaedd; cael *neu* gyrhaedd y porthladd; dyfod i arferiad.

To come in request—dyfod i barch *neu* fri; dyfod i fod mewn parch *neu* mewn bri; dyfod i gymmeriad; dyfod i fraint a bri; dyfod i fri a braint; dyfod i fod âg ymofyn mawr am dano.

To come in place of another—dyfod yn lle un arall; dyfod ar ol un arall; canlyn.

To come in for—dyfod i mewn am *neu* i; dyfod mewn pryd i gael rhan.

To come into—dyfod i; dyfod yn; ymuno âg, uno â; cytuno yn *neu* mewn; cytuno i; cyduno â; cydsynio i.

To come near, } dyfod yn agos; neshau, dy-
To come nigh, } nesu, nesu, dyneshau; agoshau; myned yn agos; tebygu.

To come of—dyfod o; tarddu o, hanu o, deilliaw o.

To come off—dyfod ymaith; dïanc, dïengyd; myned ymaith; ymadaw, ymadael, ymadu; dyfod yn rhydd; diweddu.

To come off well — llwyddo, ffynnu; myned rhagddo yn rhwydd.

To come off ill—aflwyddo; bod yn aflwyddiannus *neu* anffodus.

To come off from—ymadael âg, ymadaw â; gadael, gadaw.

To come often—dyfod yn fynych; mynych

gyrchu; mynych ddyfod; mynych dreiglo.

To come on—dyfod yn mlaen; myned yn mlaen; dyfod *neu* fyned rhagddo; ffynnu, llwyddo, gwrygio, cynnyddu; dygwyddo; rhuthro ar; dyfod am ben.

To come over—dyfod *neu* fyned drosodd; gorchuddio; newid ochr; troi, cyfnewid.

To come over to a party—dyfod *neu* fyned drosodd at blaid; newid ei blaid; newid ei ochr; gadael ei blaid ac ymuno *neu* ymgyssylltu â phlaid arall; gwrthgilio, pleidgilio.

To come out—dyfod allan; dyfod i maes; dyfod i'r amlwg; dyfod i'r goleu; cael ei gyhoeddi; cyhoeddi, dadguddio, amlygu, digelu, dynoethi; diweddu, terfynu; dyfod i ben; hanu o, deilliaw o, tarddu o, disgyn o; ymadael o *neu* âg; troi allan.

To come out of—dyfod allan o; myned o; ymadael o.

To come out with—dyfod allan âg; dadguddio, digelu, dynoethi, amlygu.

To come short—bod yn fyr; bod yn ol; dyfod yn fyr; syrthio yn fyr; methu cyrhaedd; methu â chyrhaedd; pallu, diffygio.

To come far short—bod yn llawer is; bod yn is o lawer; bod yn llawer gwaelach; bod yn waelach o lawer; bod yn mhell ar ol; dyfod yn fyr o gyrhaeddiadau *neu* ragoriaethau; bod yn dra byr, &c.

To come to—dyfod i; dyfod yn; cyrchu i; myned i; cyrchu at; cydsynio, ymostwng, cytuno; costio, talu; cyrhaedd; dyfod at; dyfod ato ei hun; codi *neu* ymgodi i.

To come to himself—dyfod ato ei hun; dychwelyd iddo ei hun; dychwelyd i'w bwyll; dychwelyd i'w iawn bwyll; dadebru, dadlewygu, dadlesmeirio, dadhuno, eilsynwyro, dadfasu.

To come to an end—darfod, darfod am; diweddu, dybenu, terfynu; dyfod i derfyn *neu* ddiwedd.

To come to an agreement—cytuno; dyfod i gytundeb.

To come to hand—dyfod i law; cael ei dderbyn; cyrhaeddyd.

To come to the knowledge of—dyfod i wybodaeth o; dyfod i adnabyddiaeth o; cael gwybod *neu* adnabod; cael cydnabyddiaeth ar; cael ei wybod *neu* adnabod gàn; dyfod i wybodaeth *neu* nabyddiaeth; myned yn hysbys.

To come to mind—dyfod i gof; cael ei adgofio; dyfod i feddwl; dyfod ar feddwl; dyfod ar gof.

To come to light—dyfod i oleuni, i'r goleuni, i'r goleu, *neu* i'r amlwg; bod yn amlwg; dyfod i fod yn amlwg; myned yn amlwg; dyfod *neu* fyned yn weledig, yn weladwy, yn honaid, *neu* yn hysbys; ymddïargelu, ymegluro, ymddadguddio.

To come to life again—adfywio, ymadfywio; myned yn eilfyw; myned yn fyw drachefn; dadebru, dadlewygu, dadfasu, dadlesmeirio.

To come to pass—bod; dygwyddo, dygwydd, damweinio, damchweinio, dyfod i ben, hapio.

To come to nought, } dyfod i ddim;
To come to nothing, } myned yn ddiffrwyth; myned yn ddim; methu yn llwyr; diflanu, difanu.

To come to preferment—dyfod i dderchafiad; cael dyrchafiad; dyfod i anrhydedd *neu* urddas.

To come to one's share—dyfod i ran un; dyfod i un; dygwyddo i un;

To come together—dyfod yn nghyd; ymgynnull, ymgasglu, cyfarfod, ymgyfarfod, cwrdd; cydio, ymgydio, cymharu; ymgymharu, cydgyffelybu.

To come up—dyfod i fyny; esgyn; bod i fyny; codi, cyfodi, ymgodi, ymgyfodi, dygynu, ymddyrchafu, cwnu; egino, tarddu, tori allan; dyfod i arfer.

To come up with—goddiweddyd, gorddiwes, goddiwes; dyfod i fyny â.

To come up with one—dyfod i fyny âg un; bod i fyny âg un; bod gydag un; talu y pwyth i un; talu gast am gast i un; talu y naill dros y llall i un.

To come up to—dyfod i fyny at; neshau at, nesu at; codi i; cyrhaedd; dyfod i; dyfod i fyny i.

To come upon—dyfod ar; rhuthro ar; dwyn gwib ar; dyfod ar warthaf; dyfod am ben; dyfod ar wàr; cyrchu *neu* ruthro am ben; syrthio ar; ymosod ar; taro wrth; dygwyddo cyfarfod â; damweinio ar; damweinio am ben; gorddiwes.

Come, come—dyre, dyre; dewch, dewch; dyna, dyna.

To come—i ddyfod; à ddaw; à fydd; dyfodol; à ddeuant; à fyddant.

The world to come—y byd à ddaw; y byd i ddyfod; y byd dyfodol.

The judgment to come—y farn à fydd.

About to come—ar ddyfod; yn nghylch dyfod; ger llaw.

Ready to come—yn barod i ddyfod; ar ddyfod.

Come near—dynesha, dynesa, agosa, nesha; dere yn nes.

He is come, } daeth; efe a ddaeth;
He has come, } doddyw, dyddyw, dyfu.

I will come—deuaf, doaf; mi a ddeuaf, mi a ddoaf.

Thou wilt come—deui, döi.

He, she, *or* it will come—daw, deua, doa.

We will come—deuwn, down, dewn.

You will come—deuwch, dewch, dowch.

They will come—deuant, doant, dônt.

They would come—deuent, döent, delent.

Come here—tyred yma; dyre yma; dere yma; dyred yma; dabre, debre.

If it comes—os daw; o dyfydd.

It came to pass—bu; dygwyddodd; darfu; deddyw.

Come hither—tyred, dyred, dere, *neu* dyre yma; dabre, debre.

Come out here—tyred allan; allan â thi; dere i maes; ffwrdd, hwt.

Come what will—doed à ddelo; deued à ddel; dygwydded à ddygwyddo.

As soon as the commandment came abroad—pan gyhoeddwyd y gorchymyn.

Thou art come from kings—o freninoedd y'th hanwyd.

All things come of thee—oddi wrthyt ti y mae pob peth.
When all comes to all—yn y diwedd; yn ol y cwbl; o'r eithaf; o'r pellaf; pan elo y gwaethaf yn waethaf.
Destructions are come to an end—darfu am ddinystr.
The former shall not come to mind—y rhai cyntaf ni feddylir am danynt.
It came by chance—dygwyddodd; damweiniodd, damwaen oedd; hapiodd.
How came your name to be Owen?—pa fodd y gelwid chwi Owain?
The night came on them—y nos a'u goddiweddodd hwynt; daliodd y nos hwynt.
It came into my mind—daeth i'm meddwl; e redodd i'm meddwl; adgofiais.
Of nothing, nothing comes, } o ddim
Nothing can come of nothing, } dim a ellir; ni ddaw dim o ddim; o ddim ni cheir dim.
All is come out—daeth y cwbl allan; dadguddiwyd y cwbl; gwybüwyd y cwbl; cafwyd allan y cwbl.
Come Sunday—pan ddel dydd Sul; pan ddelo y Sul.
As thou comest unto Soar—ffordd yr elych i Soar.
The earth and that which cometh out of it—y ddaiar a'i chnwd.
Your letter is come to hand—derbyniwyd eich llythyr; eich llythyr a dderbyniwyd; daeth eich llythyr i law; daeth eich llythyr i'm llaw.
This comes often to my mind—mynych y daw-hyn i'm cof *neu* i'm meddwl; mynych yr adgofir hyn genyf.
I will come by you—deuaf heibioch; doaf heibio i chwi.
Come,† *s.* eginyn, baldardd.
Come-off, *s.* esgus, lliw, ffuant, ffugiad, rhith, rhithesgus, coegesgus; dïangfa, ymddïangfa, ymocheliad, gocheliad.
Comedian, *s.* (o *comedy*) cymwawdwr, cymwawdydd, cymwawdur, cymwodydd, goguswr; chareuydd cymwawd; ysgrifenydd cymwawd; chwareuwr.
Comedy, *s.* (Ll. *comœdia* o'r Gr. *comêdia*) cymwawd, gogusgerdd, goguseg, goguschware.
To act a comedy—cymwawdio, gogusa; chwareu cymwawd.
Comeliness, *s.* (o *comely*) gweddusder, gweddusrwydd, gwedduadra, prydferthwch, telediwrwydd, prydweddoldeb, prydferthedd, prydferthrwydd; glendid, tegwch, harddwch, prydusedd, prydusrwydd, prydusdra, teleidrwydd, gweddeidd-dra, gweddeiddrwydd, mireinwch, mireinder, arbryd, hawddgarwch, trefnusrwydd, taclusrwydd; pryd a gwedd; addasrwydd.
Comely, *a.* (o *come*) gweddus, gweddaidd; prydferth, prydweddol, prydus, golygus, gweddol; glân, teg, glandeg, mirain, pefr, hardd, harddwedd, berth, gosgeddig, gosgeiddig, telediw, telaid, teledig, arbrydus, gwiwdeg, trefnus, taclus, cryno, dillyn, lluniaidd, tlws, glwys, hawddgar, eirian, eirioes, gwymp, addwyn, addas, cymhwys, cyfaddas, priodol, sutiol.
It is comely—e weddai, gweddai, cyngweddai, e gyngweddai, e gyngwedda, e gynghanai; mae yn weddus; mae yn addas; mae yn gymhwys; mae yn addwyn; gweddus yw; cymhwys neu addas yw.
To make comely—gwedduso, prydferthu, harddu, teghau, tegychu, gwychu, addurno; gwneyd yn weddus, &c.
Comely form—harddlun.
His comely proportion—gweddeidd-dra ei ystum (*Iob* xli. 12).
Comely, *ad.* yn weddus, &c.
Comer, *s.* (o *come*) gwestai, oep, llettywr; à gaffo letty; dyfodiad, un dyfod, dyn dyfod, gwr dyfod, un dyfodedig, dyfodadyn, dyeithr, dyeithr ddyn, dyn dyeithr, dyeithryn, estron, dyfod-ddyn; dawedadyn; yr hwn a ddelo: *pl.* dyfodiaid, dyfodedigion, dawodedigion, dyeithriaid, estroniaid.
Comers and goers—tramwywyr, tramwyaid; rhai yn myned ac yn dyfod; mynediaid a dyfodiaid.
A comer to—dyneswr, à ddel at; à ddeuo at.
His house is open to all comers—gwestle cyffredin yw ei dy; y mae ei ddrysau ef yn agored i bawb heb na lludd na gwahardd; mae ei dy yn agored i bawb à ddelont.
They give themselves up to the first comers—hwy a goeliant bob chwedl newydd à glywont; hwy a dderbyniant bob athrawiaeth newydd à glywont.
Comessation, *s.* (Ll. *comessatio*) cyfoddach, wttres; wttresiad, gloddestiad.
Comestible, † *a.* (Ff.) bwytadwy.
Comet, *s.* (Ll. *cometa*; Gr. *comêtês*) seren gynffonog, seren y gynffon, rhonseren, llostseren, seren losgyrnog, seren walltog, seren wib, gwibseren, sereu lostog, gwalltseren: *pl.* ser cynffonog, rhonser, ser gwib, &c.
Comet, *s.* chware ar gardiau.
Cometarium, } *s.* (o *comet*) rhonseriadyr,
Cometary, } rhonserfynag.
Cometary, } *a.* (o *comet*) rhonserol, rhonseren-
Cometic, } ol; perthynol i seren gynffonog.
Comet-like, *a.* rhonseraidd, rhonserenaidd: tebyg i *neu* fel seren losgyrnog; synfawr.
Cometography, *s.* (Gr. *comêtês* a *graphô*) rhonseryddiaeth, rhonseroneg, rhonseryddiant, gwibseryddiaeth, gwibseroneg.
Comfit, } *s.* (Ff. *confit*, *confiture*; Ll. *con-*
Comfiture, } *fectura*) ancwyn, sychancwyn: *pl.* ancwynion, sychancwynion, sychfelusion, chwegusion, chwegion, sugraeron.
Comfit, *v. a.* ancwyno, sychfelusu; cyffeithio yn sych â sugr.
Comfit-maker, *s.* ancwynwr, sychfelusydd.
Comfort, *s.* (Ff. *comforter*; Ll. droegl, *conforto*) cysur; dyddanwch, hyfrydwch, cysurdeb, sir, lloddiant, lloniant, adferthwch, dyhuddiant, dyhudded, cysuriant, cysuriaeth, damgeledd.
Comfort, *v. a.* cysuro; dyddanu, lloni, sirioli, adferthu, sirio, llonychu, lloddi, dyhuddo; rhoi cysur i; cynnorthwyo; nerthu.
To comfort one's self—ymgysuro, &c.
Comfort thyself — ymgysura; cymmer gysur; nac ymofidia; nac ymflina; cyfod dy galon; nertha dy galon; bydd lawen; ymwrola.
Comfortable, *a.* (o *comfort*) cysurus, cysurol, dyddan, cysurlawn, dyddanus, dyddanol, dyddanaidd; hylon, hyfryd, hyfrydber,

llonol, esmwyth; clyd, cyfannedd; à gysuro, à ddyddano, à ddyhuddo; à bair *neu* à rydd gysur.

Comfortableness, *s.* (o *comfortable*) cysurusrwydd, cysuroldeb, dyddanusrwydd.

Comfortably, *ad.* yn gysurus, &c.

Speak comfortably—dywed yn deg (2 *Sam.* xix. 7).

Speak ye comfortably to Jerusalem—dywedwch wrth fodd calon Ierusalem (*Esa.* xl. 2).

To live comfortably—byw yn gysurus, &c.; byw yn dymmoraidd.

Comforter, *s.* (o *comfort*) cysurwr, cysurydd, dyddanydd, dyddanwr, llonwr.

The Comforter — y Dyddanydd (*Ioan* xiv. 26).

Comfortless, *a.* (*comfort* a *less*) digysur, anghysurus, anghysurol, annyddan, amyddanus, anhylon; amddifad.

I will not leave you comfortless—nis gadawaf chwi yn amddifaid (*Ioan* xiv. 18).

Comfortlessness, *s.* (o *comfortless*) anghysuroldeb, anghysurusrwydd, annyddanwch, anghysur.

Comfortress, *s.* (o *comforter*) cysures, cysurwraig, dyddanes.

Comfrey, } *s.* (Ll. *confirmo?*) cyfardwf, llysiau
Comfry, } y cwlwm.

Tuberous-rooted comfrey--llysiau y cwlwm.

Comic, } *a.* (Ll. *comicus*; Gr. *cômicos*) digrif,
Comical, } digrifol, digriflawn, ysmala, digrifwedd, cellweirus, arab, arabeddus, arabol, cellweirgar; afieithus, difyr, difyrus, annifrif, annifrifol, digriflan, dysmal; cymwawdus, cymwawdiol, cymwodol, gogusol, goguslawn.

Comical fellow—digrifwas, gwas digrif, un digriflawn, gwas digriflawn, gwas digriflan.

Comicalness, *s.* (o *comical*) digrifwch, digrifder, digrifedd, digrifoldeb, ysmaldod, cellweirgarwch, afieithusrwydd, arabedd, gogusoldeb, cymmwedd.

Coming, *s.* (o *come*) dyfodiad, dawodiad, dawediad, dyfodfa, dyfodedigaeth, dawawd; dyneiad, neshad, dyneshad.

Coming, *a.* dyfodol, dawedol, dawodol; i ddyfod; à ddaw; parod i ddyfod; yn dyfod.

Coming-in, *s.* dyfodiad i mewn; dechreu, dechreuad; dygiad i fewn; daered, ardreth; ymostyngiad.

At the coming-in at the doors—yn ymyl y dryssu (*Diar.* viii. 3).

Comitatus, *s.* (Ll.) gosgordd, myntai, tyrfa; ardal, swydd.

Comitia, *s. pl.* (Ll.) maonfa; cymmanfa y bobl (yn Rhufain gynt).

Comitial, *a.* (Ll. *comitialis*) maonfaol; cymmanfaol; perthynol i'r faonfa.

Comity, *s.* (Ll. *comitas*) hynawsedd, mwynder, moesogrwydd, moesgarwch, moes, mwyneiddwch, tiriondeb, rhywiogrwydd, mynogrwydd, mynogaeth, cyweithasrwydd, mwyneidd-dra, moddusrwydd, moesau da.

Comma, *s.* (Gr.) gwahanai; rhagwahannod, lledwahan=(,).

Comma, semicolon, colon, and period—gwahanai, adwahanai, gorwahanai, a diweddnod.

Command, *v.* (Ff. *commandcr*; It. *comandare*; Ll. *mando*) gorchymyn, erchi, peru, peri; rhoddi gorchymyn; gorchymyn i, erchi i, peru i; rhoi gorchymyn i; dywedyd wrth un am; llywio, rheoli, llywodraethu, llywyddu, arglwyddiaethu ar, meistroli, meistroli ar; bod yn ben, yn flaenor, yn llywydd, *neu* yn feistr; bod â'r awdurdod ganddo; bod âg awdurdod ar; gosod, penodi; bod, sefyll, *neu* orwedd yn uwch na; rhoi golwg ar, bod uch ben; uchselu, gorddrychu, uchsefyll; cyfarchwylio; bod ganddo wrth alwad; anfon; dylanwadu; arwain; cadlywio; gorfodi.

To command silence—peru gosteg; galw *neu* waeddi gosteg; gostegu; peru *neu* alw gosteg ar y maes.

To command a sum of money—meddu swrn *neu* swm o arian; bod yn berchen swm *neu* swrn o arian.

The citadel commands the city—y mae y castell yn sefyll yn uwch na'r ddinas; saif y castell uwch y ddinas; rhydd y castell olwg ar y ddinas.

Who commands there?—pwy sy'n rheoli, llywio, *neu* lywodraethu yno? pwy sy *neu* sy'n flaenor yno? pwy sydd yno yn cadlywio?

He commands—efe sy'n ben; efe sy'n rheoli, &c.

I was commanded to call thee—perwyd i mi dy alw; gorchymynwyd i mi dy alw.

To command the waves of the sea—gorchymyn tònau y môr (2 *Mac.* ix. 8).

Command, *s.* gorchymyn, arch, archiad, pariad; gair; llywodraeth, awdurdod, rheolaeth, blaenoriaeth, meistrolaeth, gallu, swydd, swyddogaeth, rhwysg; neges, cais; rhai dàn lywiaeth, awdurdod, *neu* reolaeth.

I am at your command—yr wyf wrth eich gorchymyn, eich arch, eich galw, *neu* eich galwad; yr wyf wrth eich amnaid *neu* ewyllys.

He will obey your command—efe a ufyddha i'ch gair *neu* i'ch gorchymyn chwi.

He has no command of himself—nid oes ganddo lywodraeth arno ei hun.

He has a command over them—y mae iddo *neu* ganddo awdurdod arnynt.

He has the command of his passions—y mae efe yn feistr ar ei anwydau; efe a fedr reoli ei nwydau; y mae ganddo feistrolaeth *neu* lywodraeth ar ei nwydau.

A dog under good command—ci â dysg da arno.

To have the command of a language—bod yn feistr ar iaith; bod yn hyddysg mewn iaith; bod yn gyfarwydd mewn iaith; bod yn meddu cyfarwyddyd ar iaith; bod ganddo feistrolaeth ar iaith.

I have this in command to do—gorchymynwyd i mi wneuthur hyn.

To be in chief command—bod yn benllywydd, yn benciwdod, yn briflywydd, yn benllywiawdwr, *neu* yn gadflaenor.

Without command—yn ddïorchymyn; heb erchi iddo; o hano ei hun.

Questions and commands—llawfrenin.

To play at questions and commands—chwareu llawfrenin.

Commands—cymmediwau, neges, cais, gorchymyn.

Commandable, *a.* (o *command*) gorchymynadwy, archadwy, &c.; gorchymynol.

Commandant, *s.* (Ff.) llywydd, blaenor, penllywydd, penciwdod, cadflaenor, cadlywydd, llywiadur, priflywydd.

Commandatory, *a.* (o *command*) gorchymynol, archiadol.

Commander, *s.* (o *command*) penaeth, llywydd, llywiadur, cadflaenor, cadlyw, priflywydd, penciwdod, blaenor, ffelaig, penswyddwr, penswyddog, rheolwr, aergun, aerlyw, rhwyf, cadrwyf, arweinydd; gorchymynwr, archwr; pwyodr, pwyedydd, hyrddiedydd, gordd.

Commander in chief—cadlywydd, penciwdod, pencadlyw, priflywydd, penllywydd, pendragon, gorthywys, penllueddwr.

I have given him for a leader and commander to the people—rhoddais ef yn flaenor ac athraw i'r bobloedd.

Competitory, *a.* (o *competitor*) cyngheisiol, cydymgeisiol, cystadleuol, cyderlynol, cydeirchiol, cyderfyniol.

Competitress, } *s.* (Ll. *competitrix*)
Competitrix, } cydgeisyddes, cystadles, cystedlyddes, cyderlynes, cydgeiswraig.

Compilation, *s.* (Ll. *compilatio*) casgliad, casgl, casglfa, cydgasgliad, cydgasgl, cynnulliad, cynnull; amrygasgliad; pentyriad; cyfansoddiad.

Compilator,† *s.* (Ll.) casglydd.

Compile, *v. a.* (Ll. *compilo*) casglu, cynnull, crynöi; amrygasglu; cyfansoddi, ysgrifenu, cyfeilio; casglu o amryw awduron; †adeilo, adeiladu.

Compilement, *s.* (o *compile*) pentyriad, crugiad, cynnulliad.

Compiler, *s.* (o *compile*) casglydd, casglwr, amrygasglydd, detholydd, cynnullwr, cynnullydd.

Complacence, } *s.* (Ll. *complacens*) hyfrydwch,
Complacency, } ymhyfrydiad, boddlonrwydd, boddhad, ymfoddhad, ymfoddloniad, bodd, boddineb, dywenydd, dyfoddiant; hynawsedd, mwyneiddwch, mwyneidd-dra, mwynder, moesgarwch, moes, cyweithasrwydd; boddlondeb, boddoldeb, cymmodlonedd, darfoddiad; cyfanneddrwydd.

Complacent, *a.* (Ll. *complacens*) hynaws, mwyn, addfwyn, mwynaidd, hyfwyn, tirion, moesgar, hyfoes, cyweithasol; hyfryd, hyfrydaidd, boddhaol, boddlawn, boddlonol, boddus, cyfoddus, cyfoddol, boddwych, cymmaws, darfoddol, darfoddus.

Complacential, *a.* (o *complacent*) cyfoddiannus, boddlonol, boddhaol; cymmeradwyol; hynaws.

Complain, *v. n.* (*Ff. complaindre*) cwyno, achwyn, cwynfan, cwynofain, ymgwyno, ymgwynfan; alaethu, galaru, galarnadu, galargwyno; grwgnach, grymial, tuchan, ubain, oernadu, ebychu, drygyrferthu; gwneuthur cwyn; beio; ymliw.

To complain of—achwyn *neu* gwyno ar, rhag, *neu* yn erbyn; cyhuddo; beio ar.

He complains lest he be complained of—achwyn rhag achwyn rhagddo; achwyn rhag achwyn arno.

Shall I go to him and complain of this injury?—a af fi ato i ymliw âg ef am y cam hwn?

Apt to complain—cwynfanus, achwyngar; yn gwneuthur ei gwyn byth a hefyd; tuchanllyd; galarus, oernadus.

Complainable,† *a.* (o *complain*) achwynadwy.

Complainant, *s.* (*Ff. complaignant*) achwynwr, achwynydd, cwynwr, hawlydd, hawlwr, hawlblaid, holydd; erlynydd, erlynwr.

Complainer, *s.* (o *complain*) cwynwr, achwynwr, achwynydd, alaethwr, galargwynwr; grwgnachydd, grymialydd, tuchanwr, ebychwr, ymliwiedydd.

Complainful,† *a.* (*complain* a *full*) cwynlawn, llawn achwynion.

Complaining, *s.* (o *complain*) achwyniad, cwyniad, achwynad, cwynad; ergwyniad; cwyn, achwyn.

Complaint, *s.* (*Ff. complainte*) cwyn, achwyn, cwynfan; galargwyn; tuchan, grwgnach; dolur, gwst, poen, clefyd, anhwyldeb, haint; gofid, cur; cyhuddiad, cyhudded, achwyniad.

False complaint—camgyhuddiad, camgyhudded, camachwyn, trawsgyhudded; athrawd.

A complaint against one—cyhudded, cyhuddiad, cwyn, achwyn, cweryl.

Mutual complaint—cydachwyn, cydgwyn, cyfachwyn, cydgyhudded.

Heavy complaint — trymgwyn, trymgyhudded, cyhuddiad trwm.

Sad complaint—dirgwyn, tristgwyn.

Slight complaint—gogwyn, gosgwyn, lledgwyn; cwyn bychan *neu* ysgafn.

Complaisance, *s.* (Ff.) hynawsedd, mwynder, mynogaeth, moesogrwydd, moesogaeth, moesgarwch, cyweithasrwydd, cyweithaswch, mwyneiddwch, mwyneidd-dra, mynogrwydd, mynogiant, mynogi, cyflyndod, rhadlonedd, rhadlonrwydd, boneddigrwydd, boneddigaeth, boneddwch, tirionder, tirionwch, natur dda, naturiaeth dda, ymddygiad mwynaidd, rhywiogrwydd; hynaws ymadrodd ac ymddygiad; parodrwydd i ganiatäu yr hyn a geisir ganddo; cydostyngiad, ymddarostyngiad; moesfoddineb, parod-fwynder; cymmwynasgarwch; ostlys.

Complaisant, *a.* (Ff.) hynaws, mwyn, mwynaidd, cyweithasol, cyweithas, addfwyn, moesgar, rhadlawn, boneddigaidd, llariaidd, da ei natur, tirion, tyner, mynogol, mynog, mynogiannol, hyfoes, moesog, cyflys, moddgar, moddus, mwynlan, rhywiog, rhywiogaidd, moesfoddus, moesfoddhaol, parodfwyn, cymmwynasgar; mwyn ei ymadrodd a'i ymddygiad; parod i ganiatäu yr hyn a erchir ganddo.

Complaisantness, *s.* hynawsedd, hynawsder, cyweithasoldeb, cyweithasder, cyflyndod.

Complanate, } *v. a.* (Ll. *complano*) gwastadu,
Complane, } gwastatu, gwastadhau, llyfnu, cydlyfnu, cydlyfnhau, llyfelu, gwyneb-lyfnu.

Complement, *s.* (Ll. *complementum*) cyflanw, cyflenwad, cyfanod; cyflawniad, cyflawnad, cwblhad, cyfaniad; llanw, llenwad, cyflawnder; perffeithiad, gorphen; dogn, hawg; cyfoll, cyfan, oll; llawnrif, cyflawnrif, llawn rifedi, cyflawn rifedi; yr hyn a röer i gyflawnu y diffyg; moes, defod.

Arithmetical complement — cyflenwad rhifyddol, cyflenwad rhifol, rhiflenwad, rhiflanw.

Complemental, *a.* (o *complement*) cyflenwol, cyflenwadol, cyflawniadol; yn llenwi, yn cyflawnu; yn gwneyd i fyny; llawnrifol.

Complementary,† *s.* cymmediwydd.

Complete, *a.* (Ll. *completus*) cyflawn, perffaith, hollol, cwbl, cyfan, cyflwyr, cyfa, digoll, cyfrdo, cyfoll, cydol, perffeithgwbl, cyfangwbl, cyflawngwbl, cyflawnwedd, perffeithlawn, cyfrgwbl, di-dwn, cyfrben, diddiffyg; llawn, llwyr, trylwyr, allwyr; gorphenedig, dybenedig; gorphenol; gwedi ei orphen; cyflawnedig; taclus, cliw, cymhen, cywair, pyw, glân; cyfr-.

A complete suit—cyflawnwisg, llawnwisg; cyfosod *neu* gyflawnbar o ddillad.

Complete, *v. a.* cyflawnu, gorphen, gorphenu, perffeithio, cwblhau, diweddu, dybenu; llanw, llenwi, cyflenwi; penu, cyfannu, cyfrdoi, cyfrbenu; neithio.

Completely, *ad.* yn gyflawn, yn hollol, achlân, yn berffaith, &c.

Completeness, *s.* (o *complete*) cyflawnder, perffeithrwydd, cyfanrwydd, cyflawndid, llwyrder, llwyrdeb, digollrwydd, allwyrder, perffeithder.

Completion, *s.* (o *complete*) cyflawniad, cwblhad, perffeithiad, cyfanodiad, cyflenwad; gorpheniad, diweddiad, gorphen, diwedd, cyngorphen, perffeithrwydd, cyflawnedd; neithiad.

Completive, *a.* (o *complete*) cyflawnol, cyflawniadol, cwblhaol, cyflenwol.

Completory, *a.* (o *complete*) cyflawniadol, cyflawnol, cwblhaol.

Completory, *s.* hwyrweddi, hwyrwasanaeth, hwyriolad, hwyraddoliad.

Complex, } *a.* (Ll. *complexus*) cymhlyg; Complexed, } amrywiog, amrywiedig, amrywedd, amryfal; cyfansawdd; cymmysg, cymmysgedig; dyrys, anhawdd, astrus, rhwystrus; cymhleth, cymhlith, cymhlygedig, cymhlethol; yn cynnwys amryw rannau neu bethau; cyfansoddedig o amryw bethau neu foddion.

Complex, *s.* amrygasgl, amrygasgliad; casgliad, cynnulliad, casgl, cydgasgliad, cymhlethiad, cymhlithiad.

Complexedness, *s.* cymhlethiad, cymhlithiad, cymhlithiant, cydblethiad, cymmysgedd, cymhlygoldeb, cymhlethedigrwydd, cymhlygrwydd.

Complexion, *s.* (Ll. *complexio*) gwedd, pryd, gwynebpryd, pryd a gwedd, hoen, gwawr, eiliw, lliw, lliw y gwyneb, gne, llewyrch, llewych, drych, diwyg, gosgedd; edrychiad, golwg; croen; tymmer, dyli, naws, anawdd, hwyl, creth, diwyg, ardymmer, cywydiaeth, cyfansoddiad; nodwedd, cymeriad; cymhlygiad, cymhlygedd.

Fine complexion—lliw teg, gwyndeg, glandeg, neu hardd-deg; lliw y lili; lliw yr eiry; lliw yr eira; lliw y manod; lliw y blodau; deuliw y blodau; deune yr eiry; eiliw yr eiry; lliw hoew ne Mair; hoen blodau haf; hoen ewyn llŷn.

Pale complexion—lliw gwelw, lliw gwynwelw; gwedd lwyd, gwedd laswen; lliw dail yr ywen.

Lively complexion, } lliw gwridgoch, Sanguine complexion, } lliw gwridog; cydne gwin; lliw gwyrenig.

Of good complexion—lliwgar, hoenwych, llewyrchus.

Complexional, *a.* perthynol i liw neu wawr; perthynol i bryd neu wedd; prydol, prydweddol, hoenus, hoenwawr; tymmeraidd, ardymmeraidd, tymmerol, ardymmerol, crethus, crethol, nawsol.

Complexionary, *a.* yn perthyn i bryd a gwedd; perthynol i liw neu wawr; hoenus, hoenwedd, hoenwawr.

Complexioned, *a.* hoenog; tymmerog, crethog, dyliog; o'r cyfryw naws neu liw.

Complexity, } *s.* (o *complex*) cymhlygrwydd, Complexness, } cymhlygedd, cymhlethrwydd, cymhletholdeb, cymhlygoldeb; dyrysni, dyryswch, astrusi, dyrysi, nidredd; amrywiogrwydd.

Complexture, *s.* (o *complex*) cymhlygedd, cymhlygrwydd, cymhlethrwydd, cydblethni, cymmysgedd, cymhlithedd.

Complexus, *s.* (Ll.) cymhlygydd, cymhlygyr; cyhyr y gwegil.

Compliable, *a.* (o *comply*) ymroddadwy, plygadwy.

Compliance, *s.* (o *comply*) cydsyniad, cydymblygiad, cydymagweddiad, cydagweddiad, ymostyngiad, ymroddiad, cydymweddiad, ymfoddloniad, cymmodlonedd, ymoddef, cydymoddef, goddefiad, ymblygiad, ufyddod; caniatâd neu wneuthuriad dymuniad; cydsyniad â chais.

Compliant, *a.* (o *comply*) cydsyniol, ymroddol, hyblyg, plygadwy, ymblygol, ymagweddol, ymgydweddol, cydymblygol, cymmodlawn, cyfoddol, ymostyngol, ufydd, ufyddgar; yn cydsynio, yn cydymblygu, yn cydymagweddu, &c.; darweddol, hynaws.

Complicacy, } *s.* (o *complicate*) cymhleth- Complicateness, } oldeb, cymhletholrwydd, cymhlethrwydd, cymhlethni, cymhlethedd, cydblethedd, cymhlethogrwydd, cymhlygolrwydd, cymhlygoldeb, cynghawogrwydd; penbleth, dyryswch, dyrysi, dyrysni, astrusi, nidredd, petrusder, cymmysgedd.

Complicate, *v. a.* (Ll. *complico*) cymhlethu, cydblethu, cymhlygu, cydweu; cymmysgu, dyrysu, methlu, nidro, penblethu, dyfysgu.

Complicate, } *a.* cymhleth, cymhlyg, cy- Complicated, } mhlethedig, cymhlethog, cydblethedig, cymhlygedig, cymhlethol; cydweuedig; amryran, amlran, amlryw, amryw, lluosryw, lluosog; amrygymmysg, cymmysgryw, cymmysg; cynghawog, cynghafog; dyrys, astrus, nidrog, dyrysedig; cymmysgedig.

Complication, *s.* (o *complicate*) cymhlethiad, cymhlygiad, cydblethiad, cydweuad, cydwead, cymhleth; cadblyg; cydgasgliad, cynghlasgliad; cymmysgiad, dyrysiad; amrywiad, amrywiaeth; cadwynbleth o bethau.

A complication of figures—twr o luniau amryfath.

Complicative, *a.* (o *complicate*) cymhlethiadol, cymhlygiadol, cydblethiadol, cymhlethol, cydweol; dyrysol, nidrol.

Complice, *s.* (It.) cyfranogwr, cyfranogydd, cysswyniad, cyfranog, cysswynwr, cydgyfranog, affeithiwr, cyfrinachwr, cydblaid, cydymaith.

Complicity, *s.* (o *complex*) cymhlygiaeth; cymhletholdeb; cymhlethiad.

Complier, *s.* (o *comply*) cydsyniwr, cydagweddwr, cydymagweddwr, &c.

Complier with the times—à dry gyda'r amseroedd; à dry yn wastad gyda'r trechaf; trŵr gyda'r amser; cydymagweddwr â'r amseroedd.

Compliment, *s.* (Ff.; It. *complimento*) cymmediw; moesair; cyfarch, cyfarchiad, anerch, anerchiad, cyfanerch, moesgyfarch, damarch, dameirchiad; gair moes ac arfer; defodair; moliaith, mawlair, moesogiaith; cymmyredd, canmoliaeth; anrheg, rhodd; argymmediw; gweniaith; moesgarwch.

Present my compliments to him—rhoddwch fy nghymmediwau iddo; cyflwynwch fy nghyfarchiad iddo *neu* ato; anerchwch fi ato; cofiwch fi ato; anerchwch ef yn fy enw; cyfarchwch iddo yn fy enw; rhoddwch *neu* gyflwynwch fy ngwasanaeth iddo; cyfarchwch well iddo yn fy enw; cyflwynwch fy anerchion iddo.

Without compliment—yn ddiweniaith, yn ddigymmediw.

He made me a compliment of Homer's Iliad—anrhegodd fi âg Iliad Homer; efe a roes Iliad Homer i mi yn gymmediw; gwnaeth i mi argymmediw o Iliad Homer.

To stand upon compliments—sefyll ar gymmediwau; bod yn rhy foesgar; bod yn rhy foesffurfiog; sefyll ar foesffurfiau.

Compliment, *v.* canmawl, moli; cymmediwo; moesgyfarch, moesanerch; anerch, cyfarch, cyfanerch; cyfloddi, llongyfarch, cydlawenhau; cyfarch gwell; gwagfoli, truthio, gwenieitho, rhithfoli; arferu moeseiriau; defnyddio parcheiriau; arfer moesogiaith;

ymgyfarch yn foesgar; arfer moesfurfiau; anrhegu; talu anrhydedd i; cymmyreddu.

Complimental, *a.* cymmediwol, moesog, moeseiriog, cyfarchol, moesgyfarchol, gnerchol, cymmyreddol.

Complimentary, *a.* cymmediwol, cymmediwaidd, dameirchiol, cyfloddus, cydgyfarchol, cyfanerchol, cyfarchol, anerchol, moesgyfarchol, moesnnerchol.

Complimentary present — argymmediw; rhodd *neu* anrheg gymmediw.

Complimenter, *s.* cymmediwydd, moesgyfarchwr; gwenieithydd, truthiwr.

Compline, } *s.* (Ff. *complie*) hwyrweddi, hwyr-
Complin, } wasanaeth, hwyraddoliad, hwyriolad, y weddi olaf.

Complore,† *v. n.* (Ll. *comploro*) cydalaru, cydalaethu, cyfalaru.

Complot, *s.* (Ff. o *com* a *plot*) cydfrad, cydfwriad, cydfradwch, cyfrad, cymrad, brad, bradfwriad.

Complot, *v. a.* cydfradu, cydfwriadu, cyfradu, cymradu, bradfwriadu, cydlunio, cyddychymygu, bradlunio.

Complotment, *s.* (o *complot*) cydfwriad, cydfrad, cymrad, cydfradwch, brad, bradwriaeth.

Complotter, *s.* (o *complot*) cydfradwr, cyfradwr, bradfwriadwr, bradwr, bradluniwr.

Compluvium, *s.* (Ll.) cydffos, ffosle; bargod, penty.

Comply, *v. n.* (Ysp. *cumplir*; Ff. *complaire*) cydsynio, cytuno, ymroddi, cydymblygu, cydymagweddu, cydagweddu, ymfoddloni, ymgydweddu, cydymweddu, cyflychu, cydweddu, gildio, ymostwng, ufyddhau; bod yn gymmodlawn; ymoddef, cydymoddef, cyddwyn, cynghordio; cariatäu *neu* wneuthur dymuniad; cyflawnu, darweddu.

Compone,† *v. a.* (Ll. *compono*) cyfansoddi; trefnu.

Compone, } *a.* britheiliog, brithymylog.
Componed, }

Component, *a.* (Ll. *componens*) cyfansoddol, cyssoddol, ansoddol, cyssodol, elfenol, elfyddol, hanfodol, cyfreidiol, silltiol, cyfansawdd.

Component parts — rhanau cyfansoddol; rhanau elfenol; cysseiliau; rhifranau.

Component, *s.* rhan gyfansoddol, cyfansoddor, cyfansoddai, rhan elfenol, cyssoddai; elfen, cysran, cyssodran, cyssail.

Comport, *v.* (Ll. *comporto*) cydweddu, ymweddu, cyngweddu, cytuno, cydfyned, cyfladd, gweddu, cyfateb, sutio; ymddwyn, ymarweddu, cydymweddu; † goddef, dwyn.

To comport one's self—ymddwyn, ymarweddu, ymarwedd, ymagweddu.

Comport, *s.* ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, moes, bucheddiad, buchedd, agwedd.

Comportable, *a.* (o *comport*) cydweddadwy, &c.; cytun, cytunol, cyngweddol, cysson, gweddus.

Comportance, } † *s.* (o *comport*)=*Comport, s.*
Comportment, }

Comportation,† *s.* (Ll. *comportatio*) cynnulliad, casgl.

Compose, *v. a.* (Ll. *compono*; Ff. *composer*) cyfansoddi; cyssoddi; cyssodi; gwneuthur; trefnu, cymmoni, cydosod; ysgrifennu; cyfeilio; llonyddu, esmwytho, esmwythäu, tawelu, llinaru, llareiddio, tangnefu, taugnefoli. arafu, dofi, dystewi, gostegu, dyhuddo, gwarhau, lloddi, lleddfu; sefydlu, gosod; eilywio, alawio.

To compose (in printing)—cyssodi.

To compose one's self—ymlonyddu, ymdawelu, &c.

To compose one's self to sleep — ymgymhwyso, ymroddi, *neu* ymwneuthur i gysgu; ymesmwytho *neu* ymlonyddu i gysgu.

To compose a difference—tori amryson; tori ymrafael; dosbarthu cynhen *neu* anghydfod; cylafareddu, heddychu, cymmodi, tangnefeddu, tangnefu; dyddio.

To compose verses—cyfansoddi pennillion; prydyddu, cywyddu, prydu.

The Lord composed the pater-noster—yr Arglwydd a brydodd y pader; yr Arglwydd a gyfansoddodd y pader.

Composed, *a.* tawel, llonydd, dystaw, heddychol, tangnefus, tangnefog, tangnefol, tangweddog, digyffro, digynhwrf, diderfysg, didrafferth, diofal, araul, esmwyth, llariaidd, arafaidd, cyfarwar, dysbwyll; cyfansoddedig.

Composed countenance — gwyneb tawel, digwmwl, llon, *neu* siriol; gwyneb difrif.

Composed mind — meddwl tawel *neu* heddychol, &c.; tawelfryd, gwastadfryd.

Composedness, *s.* (o *composed*) tawelwch, llonyddwch, esmwythyd, taweledd, anghynhwrf, anghyffro, anghyffroad, arafwch, tangnefusrwydd, areuledd, &c.; tawelfrydedd, gwastadfrydedd.

Composer, *s.* cyfansoddwr, cyfansoddydd, cyssoddwr; awdur, awdwr, gwneuthurwr; cyssodwr; alawydd, eilwy, perorydd; heddychwr, llonyddwr, tangnefydd, esmwythydd.

Composing-stick, *s.* cyssodyr, cyssodbren.

Compositæ, *s. pl.* (Ll. *compositus*) cyssoddogion, cyfansoddogion, cyssoddolion.

Composite, *a.* (Ll. *compositus*) cyfansawdd, cymmysg, cyfansoddedig, cyssoddedig, cyfansoddog; cyssylltedig.

Composite order—y dull cyfansawdd, y dull cymmysg.

Composite flowers—blodau cyfansawdd.

Composition, *s.* (Ll. *compositio*) cyfansoddiad, cyfansoddiant, cyssoddiant; cyssodiad; cydosodiad, cyfosodiad; canyddiaeth; cyfansawdd, cymmysg, cymmysgedd, cymmysgiad; undeb, uniad, cyfuniad, cyfymlyniad, cyssylltiad; gwaith, gwneuthuriad; trefniad, trefnid, trefnedigaeth, cymmoniad; cydead; cyssondeb, cytundeb, anmod; cymmod, cylafaredd; rhandaliad, cyfrandaliad, godaliad; cyflaeth: *pl.* cyfansoddiadau, cyfansoddion.

Metrical composition — pryddestawd, pryddest, cowyddaid, cywyddaid; cyfansoddiad prydyddol *neu* fydrol.

Compositive, *a.* cyfansoddol, cyfansoddiannol, cyssodiadol; dygymmysg, dychymmysg.

Compositor, *s.* (Ll.) cyssodydd, cyssodwr; cyfansoddwr; trefnwr, cymmonydd.

Compossessor, *s.* (*com* neu *con* a *possessor*) cydberchen, cydberchenog, cymherchen, cymherchenog, cydfeddiannydd, cyfeddiannwr.

Compossible,† *a.* (*con* a *possible*) cysson, cydweddol.

Compost, *s.* (It. *composta*; Ll. *compositum*)

plithwrtaeth, mysgwrtaeth, gwrtaeth cymmysg, cymmysgdail; gwrtaeth; cymmysg.
Compost, *v. a.* plithwrteithio, mysgwrteithio; gwrteithio â phlithwrtaeth; gwrteithio.
Composto, *a.* (It.) cyfansawdd; dyblyg.
Composture,† *s.* (hen Ff.) gweryd; gwrtaeth.
Composure, *s.* (o *compose*) tawelwch, arafwch, arafedd, tawelfryd, gwastadfryd, tawelfrydedd, tangnefusrwydd, taweledd, llonyddwch; tawelwch, cyfartalwch, cyfartaledd, *neu* wastadrwydd meddwl; cymmodlonedd, anghyffro, anghynhwrf; cyfansoddiad; gwaith; cyfuniad, trefniad; trefn; gwneuthuriad; agwedd, gwedd, sut, ansawdd, hwyl, tymmer, naws; cytundeb, ammodiad.
Compotation, *s.* (Ll. *compotatio*) cydyfed, cyfedd, cyfeddach, ymgyfeddach, cydlymeitiad; cydwledd.
Compotator, *s.* cydyfwr, cyd-ddïotwr, cyfddïotwr, cyfeddachwr, cydbotiwr, cestgyfaill.
Compound, *v.* (Ll. *compono*) cymmysgu, cydgymmysgu, cymhlitho, cydfysgu; cyfuno, uno; cyfansoddi, cyssoddi; cyfymlynu, cydduno; cytuno, ymgytuno, ammodi; dyfod i delerau; cyssylltu, cydglymu, clymu; cyfaddaw; cyfrandalu, rhandalu, godalu; terfynu, cymmoni.
Compound, *a.* cyfansawdd, cyfansoddedig, cyssawdd; cymmysg, cymmysgedig, cymhlith, dygymmysg, dychymmysg, cymmysgadwy.
Compound word—gair cyfansawdd, cyfansoddair, cylmair, gair cyfansoddedig, cyssoddair.
Compound interest—adlog, arlog, llog ar log; adlogaeth, arlogaeth.
To borrow at compound interest—adlogi, arlogi; benthycio ar adlog.
Compound tense—amser cyfansawdd.
Compound metre — adlawiad, cynghog; mydr cyfansawdd, mydr cymmysg, mesur cyfansawdd.
Compound, *s.* cyfansawdd, cymmysg, cyssawdd, cymmysgedd, amrygymmysg, peth cymmysgedig, cymmysgiad, cynghog; cyfrandal, rhandal: *pl.* cyfansoddion, cyfansoddolion.
Compoundable, *a.* (o *compound*) cymmysgadwy, mysgadwy, &c.
Compounder, *s.* cymmysgwr, mysgwr, mysgydd; cyfansoddwr; heddychwr, dyddiwr, cymmodwr; cyfrandalwr, rhandalwr, godalydd.
Comprecation, *s.* (Ll. *con* a *precatio*) cydweddiad, cydweddi.
Comprehend, *v. a.* (Ll. *comprehendo*) cynnwys, cynnwyso, argynnwys; amgyffred, cyffred, argyffred, dirnad, deall, dirnadu, deallu, gwybod; genni; amgyffred am; cymmeryd i fewn; gorymddwyn; craffu.
Comprehensible, *a.* (Ll. *comprehensibilis*) amgyffredol, dirnadwy, dirnadadwy, dealladwy, cynnwysadwy, cyffredadwy; mesuradwy, mesuredig; â ellir ei amgyffred.
Comprehensibleness, } *s.* amgyffrediad, am-
Comprehensibility, } gyffredolrwydd, amgyffredoldeb, dirnadoldeb, cynnwysoldeb, dirnadaeth.
Comprehension, *s.* (Ll. *comprehensio*) amgyffred, amgyffrediad, cyffrediad, dirnadaeth, deall, cyffred, amgyffrawd, dealltwriaeth; gwybodaeth; cyrhaedd, cyrhaeddiad, cyrhaeddiant, amgyrhaedd, cangedd; craffder, craffineb, craffaint; cynnwysiad, cynnwysder, crynodeb, talfyriad, crynodeb; dirnadiad, dealliad, dealltiad; gorymddwyn.
Slight comprehension—gogyffred, &c.
Comprehensive, *a.* cynnwysfawr; cyrhaeddgar, cyrhaeddfawr, helaeth, helaethfawr, eang, dirnadus; ystyrfawr; cynnwysedigol; o ystyr helaeth; yn cynnwys llawer mewn ychydig le *neu* eiriau.
Comprehensiveness, *s.* cynnwysforedd, cynnwysfawredd; helaethrwydd, eangder, eangedd, cyrhaeddgarwch; dirnadusrwydd.
Comprehensor, † *s.* (o *comprehend*) deallwr, un gwybodus.
Compresbyterial, *a.* (*con* a *presbyter*) cydhenaduriol, cydhenuriadol, henaduraidd.
Compress, *v. a.* (Ll. *compressus*) cydwasgu, cyngwasgu, cyfwasgu, gwasgu, cywasgu, dirwasgu; gwasgu yn nghyd; cydgynnwys, dwyso, amwasgu; cofleidio; ymwasgu â, ymgaredigo â; pentyru, crugio, crynöi.
Compress, *s.* cydwasg, cydwesgydd, gwasgdusw, clustogan, gobenyddyn, clustog llawfeddyg.
Compressibility, } *s.* cydwasgoldeb, cydwasg-
Compressibleness, } edd, hywasgedd, gwasgadwyedd, hywasgolrwydd.
Compressible, *a.* (o *compress*) cydwasgadwy, cyngwasgadwy, gwasgadwy, dirwasgadwy, cyfwasgadwy, dwysadwy, hywasg; â ellir ei wasgu yn nghyd.
Compression, } *s.* (Ll. *compressio*) cydwasgiad,
Compressure, } cyngwasgiad, cyngwasg, cydwasg, cyfwasg, dirwasgiad, amwasgiad, amwasg, gwasgiad, dwysedd; gwasgiad yn nghyd; cyflwythiad, cyflwyth.
Compressive, *a.* cydwasgol, cyngwasgol, cyfwasgol, dirwasgol, cywasgol, cydwasgiadol, gwasgiadol, dywasgol.
Compressor, *s.* (Ll.) cydwasgydd, cyngwasgydd, cyngwasgor.
Compriest,† *s.* (*con* a *priest*) cydoffeiriad.
Comprint, *v. n.* (*con* a *print*) cydargraffu; celcargraffu, twyllargraffu.
Comprisal, *s.* (o *comprise*) cynnwysiad, amgyffrediad, cyffrediad.
Comprise, *v. a.* (Ff. *compris*) cynnwys, cynnwyso; cydgynnwys, argynnwys; amgyffred, argyffred, cyffred; gannu, genni, annu; cymmeryd i mewn.
Comprobate, *v. a.* cydgymmeradwyo; cyttystiolaethu, cyttystio, tystio, tystbrofi.
Comprobation, *s.* (Ll. *comprobatio*) cyttystiolaeth, cyttystiad; cydbrawf, prawf, llawn brofiad, sicrhad.
Compromise, *s.* (Ll. *compromissum*) cyfaddawd, cyfaddewid, gogyfaddawd; cymrodeddiad; goammod, ymgytundeb, cytundeb.
Compromise, *v. a.* cyfaddaw, gogyfaddaw; ymgytuno â; goammodi, amodi, cytuno; cylafareddu; rhoi ar ddyddwyr; dyfod i hanner y ffordd.
Compromiser, *s.* cyfaddodwr, cyfaddawydd, cyfaddawur.
Compromissorial, *a.* (o *compromise*) cyfaddodol, cyfaddawol; ymgytunol, ammodol; perthynol i gyfaddawd.
Compromit, *v. a.* (Ll. *compromitto*) gwystlo, arwystlo; addaw; anturio.
Comprovincial, *s.* (*con* a *provincial*) cyttaleithiog; un o'r un dalaeth *neu* archesgobaeth: *pl.* cyttaleithiaid.
Compt,† *s.* (Ff. *compte*) cyfrif, cyfrifiad.

Compt,† *v. a.* cyfrif, cyfrifo.
Compt,† *a.* (Ll. *comptus*) tlws, clws, dillyn, hardd, pert, del.
Comptible,† *a.* (o *compt*) cyfrifol; darostyngol, ymostyngol.
Comptness,† *s.* (o *compt*) tlysni, clysni, dillynder, harddwch, pefredd.
Comptonite, *s.* (oddi wrth Argl. *Compton*) comptonith=math o ddelidfaen.
Comptrol, *s.* (Ff. *contrôle*)=*Control.*
Comptrol, *v. a.*=*Control.*
Comptroller, *s.* (o *comptrol*)=*Controller.*
Compulsative, Compulsatory, Compulsive, } *a.* (Ll. *compulsus*) gorfodol, cymhellol, cymhelliadol, gorfodogol, treisiol, dirgymhellol, diriol, rhysgyrol; trwy gymhell, trwy orfod, o anfodd, o drais; gorthrechol.
Compulsion, *s.* (Ll. drosgl, *compulsio*) gorfod, gorfodaeth, gorfodogaeth, gorfodiad, cymhelliad, cymhell, dirgymhell, dirgymhelliad, argymhelliad, dir, dirdra, dirdrais, rhysgyr, dir a chymhell, gorthrech, trais.
Compulsiveness, *s.* gorfodoldeb, gorfodolder, gorfodolrwydd, gorfodaeth, gorfodogrwydd, cymhelliad, dirgymhell, grym.
Compulsorily, Compulsatively, Compulsively, } *ad.* yn orfodol, yn gymhellol, &c.; trwy gymhell, o anfodd, dan orfod, trwy orfod, trwy orfodaeth; yn erbyn ei ewyllys; heb ddiolch iddo; trwy drais neu orthrech.
Compulsory, Compulsive, } *a.* gorfodol, cymhellol, cymhelliadol, dirgymhellol, argymhelliadol, gorfodogol, diriol, diriadol, rhysgyrol, gorthrechol, treisiol; trwy orfod; o anfodd.
Compunction, *s.* (Ll. *compunctio*) pigiad, pigad, dwysbigiad, tymmigiad; pigad calon; gofid meddwl; edifeirwch, edifarwch, edifeiriant; adgno, adgnofa, edloes, gorbicrwydd.
Compunctionless, *a.* dibigad; anedifar, anedifarus, diedifar, diedifeirwch, diedifarus, diedifeiriol; dignofa.
Compunctious, *a.* dwysbigol; edifarus, edifeiriol, edifar, edifeiriog; athrist, trist, galarus.
Compunctive, *a.* edifarus, edifeiriol, edifarol; dwysbigol, pigiadol.
Compupil, *s.* (*con* a *pupil*) cydysgolaig, cydysgolor.
Compurgation, *s.* (Ll. *compurgo*) cymhurad, dyheurad; dieuogiad ar lw ereill.
Compurgator, *s.* (Ll. *compurgo*) cymhurydd, cymhuror; un a dwng ddiniweidrwydd un arall.
Computable, *a.* (o *compute*) cyfrifadwy, hyrif.
Computation, *s.* (Ll. *computatio*) cyfrif, cyfrifiad, cyfrifiant, bwriad cyfrif; cywerthiad; damfwriad.
By computation—yn ol y cyfrif a wnaed; wrth gyfrif.
Compute, *v. a.* (Ll. *computo*) cyfrif, cyfrifo, bwrw cyfrif; bwrw, damfwrw; barnu, tybio.
Compute,† *s.*=*Computation.*
Computed, *p. a.* cyfrifedig.
Computer, *s.* (o *compute*) cyfrifydd, cyfrifwr, cyfrifor, cyfrifiadur, rhifiadur, bwriwr cyfrifon.
Computist,† *s.* (o *compute*)=*Computer.*
Computo, *s.* (Ll.) cyfrifwys; gwŷs i orfodi rhoi cyfrif i fyny.
Comrade, *s.* (Ff. *camarade*) cyfaill, cydymaith, cyfaillt; cyfaill neu gydymaith ystafell; cydfilwr; un o'r un fyntai; llallogan.
Comradeship, *s.* (o *comrade*) cydymaithas, cyfeilldod.
Comrogue,† *s.* (*con* a *rogue*) cyd-ddyhiryn.
Con, *s.* (talfyriad o'r Ll. *contra*) erbyn, gwrth, yn erbyn.
Pro and con—dros ac yn erbyn; o blaid ac yn erbyn; tros ac erbyn; er a gwrth; drosto ac i'w erbyn.
Con, *v. a.* (S. *connan, cunnan, cunnan*) myfyrio, adfyfyrio, meddylied, adfeddylied; meistroli; dysgu ar dafod; dysgu ar dafodleferydd; dysgu ar gof; trysori neu blanu yn y cof; cofio; † gwybod, deall, dirnad.
To con thanks†—diolch, talu diolch.
To con with one's self—ymfyfyrio.
Conatus, *s.* (Ll.) ymgais, ymdrech, dirgais, argais, hypynt.
Concamerate, *v. a.* (Ll. *concamero*) mydu, bwau; mydu dros, bwau dros; trosfydu, cromglwydo; gwneuthur mwd dros.
Concameration, *s.* (Ll. *concameratio*) mydiad, mydiant, bwad, nenfydiad, trosfydiad.
Concatenate, *v. a.* (Ll. *concatenatus*) cydgadwyno, cynghadwyno, cadwyno yn nghyd; cydfodrwyo, cyfrwymo.
Concatenation, *s.* cydgadwynad, cynghadwynad; ymgadwynad; cyfres, rhes olynol; cynghlymiad, cydglymiad; cadwynad yn nghyd.
Concause,† *s.* (*con* a *cause*) cydachos, cyfachos.
Concavation, *s.* (o *concave*) ceugrymiad, argeueddiad, gwrthgrymiad, ceueddiad, cyngheuad, argeuad, ceuedigaeth.
Concave, *a.* (Ll. *concavus*) ceuol, cau, argeuol, cyngheuol, echrwm, anghrwm, crymbantol, pannylog, gwrthgrwn, gwrthgrynol, gwrthgrymol, cwddol; rhonca; cafnog.
Concave lens—llugell geuol, ceulain, cromlain geuol.
Double concave—ceugau, ceugyngheuol, ceuol dyblyg; cynghau ar y ddwy ochr.
Double concave lens—llugell ddyblyg, llugell geugau.
Concave glass—ceuwydr, ceuwydryn, gwydr cynghau, gwydryn anghrwm.
Concave mirror—ceuddrych, argeuddrych, drych cyngheuol.
Concave, *s.* cau, ceuedd, argeuedd, gwrthgrwm, gwrthgrwn, cwdd, wm; bwa, mwd, ceugant, crymgant, nenfwd; y ffurfafen.
Concave, *v. a.* ceuo, cafno, cafnu, cyngheuo, crymbantu, cwddedu.
Concaveness, *s.* (o *concave*) ceuedd, argeuedd, ceudod, cychedd, gwrthgrymedd, anghrymedd.
Concavity, *s.* (Ll. *concavitas*; Ff. *concavité*) ceuedd, argeuedd, anghrymedd, echrymedd, ceudod, cychedd, gwrthgrymedd, cwdd, cwdded, cwddyn.
Concavo-concave, *a.* ceugau, ceugeuol, ceugyngheuol, ceuol dyblyg; cynghau ar y ddwy ochr.
Concavo-convex, *a.* ceugrwm, ceugrwn; cynghrwm ac anghrwm; ceuol ar un wyneb a chrwn ar yr wyneb arall.
Concavous, *a.* (Ll. *concavus*)=*Concave, a.*
Conceal, *v. a.* (Ll. *concelo*) celu, cuddio, dirgelu, argelu, cynghelu, celcio, celcu; gorchuddio, arguddio; arlechu, celiadu, cadw yn nghudd, dan gel, yn guddiedig, neu yn gyfrinachol; bod heb yngan dim yn nghylch.
That I may not conceal from you—fel na chelwyf rhagoch.

To conceal one's self—ymgelu, ymguddio, ymddirgelu, &c.

Concealable, *a.* (o *conceal*) celadwy, hygel, cuddiadwy, &c.

Concealed, *p. a.* celedig, cuddiedig, dirgeledig, damguddiedig, celcedig, &c.; cudd, cel, cuddiog, cynghel; dàn gel, dàn gudd, yn nghudd, dàn gelc.

Concealedness, *s.* celedigrwydd, &c.

Concealer, *s.* (o *conceal*) celwr, cuddiwr, cuddiedydd, celor, dirgelwr, &c.

Concealing, *s.* celiad, cuddiad, dirgeliad, argeliad, cyngheliad, celciad, cel, ymgel, ymgeliad, argel.

Concealment, *s.* (o *conceal*) celedigaeth, cuddiedigaeth, dirgeliad, argeliad, cuddiad, cuddcd, argelwch, cuddawd; cuddfa, dirgelfa, ymguddfa, ymgelfa, argel; dirgeledd, dirgelwch, cele, celciad, encudd, cuddeidiaeth.

Concede, *v. a.* (Ll. *concedo*) caniatäu, ceniadu, cenadu; gadael, goddef, addef, gildio, cysbeidio; cydsynio, cytuno; ymroddi i; cymeryd fel gwir; rhoddi, cyfroddi.

Conceit, *s.* (Ll. *conceptus*; It. *concetto*) tyb, coel, barn, tybiant, tybiaeth, meddylrith, meddylddrych, meddwl, delwedd, delfryd; coegdyb, gwagdyb, oferdyb, dychymyg, asbri, hunandyb, cymyg; crebwyll; llettyb, drygdyb, godyb; cymhendod, ffraethder, coethder, digrifair, cydgam; deall, amgyffred; balchder, hunanoldeb, coegfalchder.

In his own conceit—yn ei olwg ei hun; yn ei dyb ei hunan.

Idle conceit, } gwagdyb, coegdyb; ofer-
Empty conceit, } dyb; ofergoel.

Fantastic conceit — ofered; mympwy, ffoldyb; arabedd; trawsfeddwl.

High conceit—ucheldyb; tyb rhy dda; tyb rhydda.

Self-conceit—hunandyb, hunanoldeb; gormodd gred neu ymddiried ynddo ei hun; tyb da neu rydda am dano ei hun.

Merry, pleasant, or pretty conceits—digrifeirian, geirian digrifgall, mwyn-gellwair, afiaeth, arabedd, arabeddiaeth; dyfais neu ddychymyg synwyrgall; digriflon.

Full of pleasant conceits—arab, arabeddus, arabol, cellweirus, digrif, digriflon, afieithus, digriflan, difyr, digrif, geirlon, mwyngellweirus.

Witty conceit — ffraethder, ffraethdeb, coethder, ffraetheb, ffraethair, cymhendod, cymhenair, gair cymhen, pefr ymadrodd, areinrwydd ymadrodd; tyb neu feddwl cyfrwysgall.

Out of conceit with—anfoddlawn i; â gwrthwyneb at; yn ddihoffder at; heb dyb da am; diflas ar; yn anhoffi; heb fod yn hoff o; heb fod â fyno â.

To put one out of conceit with—peri annhuedd, anhoffder, neu ddyeithrwch mewn un at; peri tyb drwg mewn un am; gyru rhwng un â; peri i un anhoffi.

Conceit, *v. a.* tybio, tybied, tybygu, coelio, lledgoelio; meddwl, dychymyg, meddylio, dychymygu; llettybio.

Conceited, *a.* (o *conceit*) hunandybus, hunandybiol, hunandybiog; coeg, balch, coegfalch, gwagfalch, cymmyreddus; yn llawn o'i dyb ei hun; llawn o dyb da am dano ei hun; llawn hunandyb; doeth yn ei dyb ei hun; doeth, da, neu fawr yn ei olwg ei hun; â fo neu y sydd â thyb da am dano ei hun; llawn o hono ei hun; da, mawr, neu uchel ei dyb am dano ei hun; à'i hoffo ei hun yn fawr; à wnelo ormod gyfrif o hano ei hun; rhydda, rhy dda; rhyddillyn, rhyddichlyn.

Conceited of their own wit—yn tybied yn rhy dda am eu synwyr eu hunain; â thyb da am eu synwyr eu hun.

Conceited style—ieithwedd ryddillyn neu ryddichlyn; rhyddillyn ddull ymadrodd; ieithwedd goegfalch.

To be well conceited of one's self—bod gàn un dyb da am dano ei hun; bod â thyb da am dano ei hun; bod yn ddoeth, yn fawr, neu yn uchel yn ei olwg ei hun.

Conceitedness, *s.* (o *conceited*) hunandyb, coegedd, coegni, coegfalchder, coegfalchedd, hunandybioldeb, hundybiolrwydd, tybgarwch, balchder, mursendod; rhyddillynder, &c.

Conceitless,† *a.* (*conceit* a *less*) difeddwl; penbwl, cuall, pendew.

Conceivable, *a.* (o *conceive*) hydyb, hygred, hygoel; amgyffredadwy, dealladwy, dirnadwy; à ellir ei feddwl, ei dybied, ei goelio, ei gredu, ei ddeall, ei amgyffred, neu ei ddirnad; tebygol.

Conceivableness, *s.* (o *conceive*) hydybioldeb, hydybiolrwydd, hygrededd, hygrediniaeth; amgyffrededd, dirnadoldeb, cyffredoldeb.

Conceive, *v.* (Ff. *concevoir*; Ll. *concipio*) beichiogi, ymddwyn, beichiogi ar, dymddwyn, ymgael, arfolli; deall, amgyffred, dirnad, synied, synio; tybio, tybied, tybygu, meddylio, meddylied, meddwl, barnu, bwrw, dychymygu, dyfeisio, bwriadu, myfyrio; bwrw, dychymygu, neu lunio yn y meddwl; gosod; brithdybio; bod o'r farn; bod o'r meddwl; planta, cenedlu, ennill; cyfebru.

Who was conceived by the Holy Ghost—yr hwn a gaed drwy yr Ysbryd Glân.

Women after they have conceived — gwragedd gwedi yr arfollont, &c.

To conceive young—cyfebru.

As I conceive—i'm tyb i; yn fy nhyb i; fel yr wyf fi yn tybied, yn barnu, yn bwrw, yn meddwl, neu yn dirnad, &c.

Conceiver, *s.* (o *conceive*) amgyffredydd, dirnadydd, tybiwr, &c.

Conceiving, *s.* amgyffred, deall; amgyffrediad, dealliad, dirnadaeth; beichiogiad, beichiogi, ymddwyn.

Concelebrate,† *v. a.* cydglodfori, cyd-ddathlu.

Concent, *s.* (Ll. *concentus*) cydlais, cydsain, cytton, cynghan, cyngherdd, cynghanedd, cysseinedd, cysseinrwydd; cyssondeb, cyssonedd, cyngweddiad, cydweddiad.

Concentful, *a.* (*concent* a *full*) cysseiniol; cysson, cydgordiol.

Concentrate, *v. a.* (Ff. *concentrer*, o'r Ll. *con* a *centrum*) cymherfeddu, canolbwyntio, cysbellu, canoli, creiddio, cynghreiddio, cydgreiddio; gyru at y canolbwynt; gyru neu wthio yn nghyd; dwyso, clynu, cynnwyso; tueddu at.

Concentration, *s.* (o *concentrate*) cymherfeddiad, cysbelliad, cysbelliant, canoliad, cynghreiddiad, cydganoliad, uncanoliad, creiddiad, craidd; gyriad at y canolbwynt; gyriad neu wthiad yn nghyd; cyngwasgiad; dwysad, dwysiad, clyniad; cynghasgliad.

Concentrativeness, *s.* (o *concentrate*) cynghreidd-

ioldeb, cysbelloldeb, cysbelledd, cysbellgarwch.

Concentre, *v.* (*Ff. concentrer*) cymherfeddu, cysbellu, canolbwyntio, canoli, cydganoli, cynghreiddio, creiddio; gyru i'r canol; cyfarfod *neu* ymgyfarfod yn yr un canolbwynt; cyfarfod mewn pwnc; tueddu at; dwyso, cynnwyso; cytuno yn gwbl; cytunaw o eigion calon.

All her cares concentred on her son—canolbwynt, gwrthrych, *neu* dueddnod ei holl ofalon hi oedd ei mab.

Concentric, } *a.* (Ll. *concentricus*; Ff. *con-*
Concentrical, } *centrique*) cymherfeddol, cymherfeddig, cymherfedd, cydgymherfedd, cydgymherfeddol, cysbellus, cynghreiddig, cydgreiddig, cydgreiddiol, creiddiol; âg iddynt *neu* â chanddynt yr un canolbwynt; yn tueddu i'r un peth *neu* i'r un lle.

Concentric and eccentric—cydgreiddig ac echreiddig; cynghreiddig ac esgreiddig.

Concentricity, *s.* (o *concentric*) cymherfeddoldeb, cydgreiddioldeb, cynghreiddioldeb, cysbellusrwydd.

Concentual, *a.* (o *concent*) cyssonol, cydgordiol, cydweddol; cysseiniol, cydleisiol.

Conceptacle, *s.* (Ll. *conceptaculum*) derbynfa, derbynle, derbyniawdr, derbynydd; llestr; hadgib, hadgell, hadgoden, hadgod, hadgaen.

Conceptible,† *a.* (Ll. *conceptus*)=*Conceivable*.

Conception, *s.* (Ll. *conceptio*) beichiogiad, beichiogi, ymddwyn, dymddwyn, ymgael; yr ymddwyn; deall, amgyffred, dirnad, dirnadaeth, tyb, meddwl, syniad, bryd, bwriad, cyffred, gwybodaeth; amgyffrediad, amgyffrawd; tybiant; coegdyb, gwagdyb, dychymyg; yr hyn y bo un yn ei amgyffred, &c.

False conception—pel y famog, llo lleuad; camdyb, &c.

Conceptious,† *a.* (Ll. *conceptus*) hyfeichiog; beichiog; ffrwythlawn.

Conceptive, *a.*=*Conceivable*.

Conceptualist, *s.* (Ll. *conceptus*) cyffrediedydd.

Concern, *v. a.* (Ff. *concerner*; Ll. *concerno*) perthyn i, perthynu i, deiryd i; dori, dyddori; malio; gofalu am; bod mewn gofal; peri gofal; dawr; effeithio ar; bod o bwys i; llanw o; taraw â; blino, aflonyddu, cyffroi; ymyryd â; bod à fyno *neu* à wnelo âg; ymbwyllo yn nghylch.

It concerns me—e berthyn i mi; e ddawr i mi; e gyngweddai i mi; e'm dawr; buddiol yw i mi; mae'n llesu i mi; fy nyledswydd yw; fy nyled ydyw; y mae o bwys i mi.

It concerns me not—ni'm dawr; nid gwaeth i mi; nid gwaeth genyf fi; ni'm dyddawr; nid yw yn perthyn i mi.

I should not be concerned—ni ddorwn, nis dorwn; nis gofalwn.

To concern one's self in—gofalu am, dori am; ymofalu am *neu* yn nghylch; cymeryd gofal am *neu* i; ymyryd â; ymdrafferthu am *neu* yn; ymflino am; ymofidio yn nghylch.

It much concerns us—y mae o bwys mawr i ni.

To be concerned in a thing—bod gàn *neu* i un berthynas *neu* neges mewn peth; bod â llaw mewn peth; bod i un à wnelo â pheth; bod gàn un law mewn peth.

My life and fortune are concerned—mae fy hoedl a'm dedwyddyd mewn perygl.

He thinks himself not concerned in it—y mae efe i'w *neu* yn ei dyb ei hun yn rhydd oddi wrtho.

To be concerned with one—bod â llaw gydag un; bod yn nghyfrwym âg un; bod yn rhwym gydag un; bod yn gyfrwym âg un.

I will not be concerned with him any more—nid ymgystlynaf, ni chydfasnachaf, *neu* ni chydymrwymaf âg ef mwy; ni bydd i mi neges âg ef mwy; ni fydd i mi à wnelwyf âg ef mwyach.

I am concerned to think—syn genyf feddwl.

I shall not be concerned—ni ofalaf; ni phryderaf; ni faliaf; ni'm dorbi; ni fydd à wnelof; ni bydd à wnelwyf.

Concern, *s.* achos, neges, gorchwyl, mater, peth; dyddordeb; gofal, pryder, dyddoriant, dyddawr, ymdawr; meddylfryd; trafferth, helynt, cymhlegid; pwys, pwysigrwydd, cyfrif; gwaith, gwasanaeth, gweithred, perwyl, amgylchiad; cur, dawr; ffwdan, trybestod, gofid, blinder, trymder; syndod; cydfasnach, masnach; ymyraeth, ymyr; cyfrano.

Mutual concern—cydachos, cydofal, cydymarbod, cydhelynt, &c.

That is my concern—i mi y perthyn hyny; i mi y perthyn gofalu am *neu* edrych ai hyny.

Have a care of the common concern—gofalwch am y lles cyffredin.

Let that be my concern—bydded *neu* gadwch hyny arnaf fi; gadwch rhyngof fi a hyny.

Concerned, *a.* dyddorgar, dyddorus, dyddorol; pryderus, gofalus; yn teimlo pryder; cydfasnachol; cyfymrwynol mewn gorchwyl *neu* neges.

Concerning, *p.* neu *prep.* (o *concern*) am, yn nghylch, o ran, yn achos, oblegid, o herwydd, herwydd, tuag at am, tuag at, gyda golwg ar, o barthed, o barth, parth, cylch, cymhlegid; mewn perthynas i; yn mherthynas i; yn perthyn i; perthynol i; yn dwyn perthynas â.

As concerning me—o'm rhan i; am à berthyn i mi.

Concernment, *s.* (o *concern*) achos, gorchwyl, neges, mater, peth; gofal, pryder, dyddordeb, dyddoriant, doriad, gofaledd, dawr, pryderi; pwys, pwysigrwydd, pwysfawredd, mawrbwys; ymyraeth, ymyryd, ymyriad; perthynas.

Of great *or* high concernment—o bwys; pwysfawr, pwysig; o bwys mawr; o fawr berthynas; o berthynas fawr; o ganlyniadau mawr.

An affair of concernment—mater o bwys; mater pwysfawr.

Concert, *v. a.* (Ll. *concerto*) cyttrefnu, cydlunio, cyd-ddyfeisio; ymgynghori *neu* cydymgynghori yn nghylch; cydbwyso, cydgynghori; cydgyfranu amcanion.

Concert, *s.* cydluniad, cyttrefniad, cydgynghor, cydfwriad, ymgynghoriad; cynghanedd, cydgerdd, cydgan, cydgor, cyngherdd, cynghan, cytton, cydlais, cyssongerdd, cyfangan, cyfangerdd, cydganedd, cymheroriaeth;

cyssondeb, cyssoniant, cydgordiad, cyttundeb; cydgais, cydymdrech, cyfymdrech.

By concert — trwy gytundeb, trwy gynghrair.

Concertation, *s.* (Ll. *concertatio*) ymryson, amryson, amrafael, anghydfod, cyfarwas, cynhen, cydymdrech, ymddadleu, cywrysedd, cyfrysedd.

Concertative, *a.* (Ll. *concertativus*) ymrysongar, amrafaelus, cynhenus, cynhenllyd, amrafaelgar, cwerylus, cywrysol, cysbwyol.

Concerto, *s.* (It.) cynghanawd.

Concession, *s.* (Ll. *concessio*) caniatâd, cenad, cenadiad, goddefiad, addefiad, cysbeidiad, cysbeidiant, rhoddiad i fyny, gildiad, rhoddiad.

Concession (in rhetoric)—goddefiad, goddefineth.

Concessionary, *a.* (o *concession*) goddefiadol, cysbeidiol, ceniadol.

Concessionist, *s.* cysbeidydd, cysbeidiwr, addefwr, goddefydd.

Concessive, } *a.* cysbeidiol, goddefol, goddef-
Concessory, } iadol, ceniadol, cenataol, addefol, caniataol, ymroddol.

Conch, *s.* (Ll. *concha;* Gr. *cogchê;* Ff. *conque*) morgragen, cragen.

Concha, *s.* (Ll.) dwygaffell, deuglawr; cragen ddeugloriog, cragen ddeuglawr.

Conchifer, *s.* (Ll. *concha* a *fero*) cragenog, cragenfil; dwygaffellog.

Conchifera, } *s. pl.* dwygaffelliaid, dwygaffellog-
Conchifera, } ion, dwygaffellion, deugloriaid; craglibogion.

Conchiferous, *a.* cragenddwyn, cragenog, cregynog.

Conchilious, *a.* cragenol, cragenaidd, cregynol, cregynaidd.

Conchite, *s.* (Ll. *concha*) cragenfaen, maengragen; cragen wedi ymgaregu.

Conchoid, *s.* (Gr. *cogchê* ac *eidos*) cragengom.

Conchoidal, *a.* (o *conchoid*) morgragenaidd, cragenaidd, cragenddull.

Conchological, *a.* cregynyddol, cregyniaethol; perthynol i gregynyddiaeth.

Conchologist, *s.* cregynydd, cregynwr; un hyddysg yn hanes cregyn a chregynbysg.

Conchology, *s.* (Gr. *cogchê* a *logos*) cregynyddiaeth, cregyniaeth, cregyneg; gwybodaeth o gregyn a chregynbysg.

Conchometer, *s.* (Gr. *cogchê* a *metron*) cregynfesur, cregynfeidyr, cregynfeidrydd, cregynyr.

Conchus, *s.* (Ll.) creuan; ceudod y llygad.

Conchylaceous, *a.* (Ll. *conchylium*) cregynaidd, cregynol; cragenaidd.

Conchyliologist, *s.* (Ll. *conchylium*)=*Conchologist.*

Conchyliology, *s.*=*Conchology.*

Conchyllious, *a.* (Ll. *conchylium*) cregynaidd; o anianawdd cregyn.

Conciator, *s.* tymmerydd gwydr.

Conciliable,† *s.* (Ll. *conciliabulum*) cynnullcidfa fechan.

Conciliar, *a.* (Ll. *concilium*) cynghorfaol, cynghorol.

Conciliate, *v. a.* (Ll. *concilio*) cymmodi, gwneuthur cymmod, heddychu, athrywyn, athrywynu, cymmodloni, boddloni, trywynu; cymylio; ennill; cael, peri; denu serch, peri hoffi.

Conciliation, *s.* (Ll. *conciliatio*) cymmod; cymmodiad, heddychiad, athrywyniad, athrywyn, trywyniad, dyhuddiant; ennilliad; llonyddwch.

Conciliator, *s.* (Ll.) cymmodwr, athrywynwr, trywynwr, heddychwr, dyhuddwr.

Conciliatory, *a.* cymmodol, boddlonol, bodlonol, athrywynol, heddychol, heddychiadol, llonyddol, trywyngar.

Concinnity, *s.* (Ll. *concinnitas*) crynoder, cynnwysder; addasrwydd, cyfaddasrwydd, gweddusder, gweddusrwydd, tlysni, dillynder, dillynedd, destledd; cydweddiad; gogydlais; geirdincian.

Concinnous, *a.* (Ll. *concinnus*) cryno; addas, cyfaddas, gweddus; hyfryd, dyddan, difyr, mwyn, boddhaol; sutiol.

Concionator, *s.* (Ll.) pregethwr, pregethydd.

Concionatory, *a.* (Ll. *concionatorius*) pregethol, pregethyddol, pregethwrol.

Concise, *a.* (Ll. *concisus*) byr, cryno, cynnwys, cwta; cynnwysfawr; byr a chynnwysfawr; yn cynnwys llawer mewn ychydig.

Concisely, *ad.* yn fyr, yn gryno, &c.; toc; ar fyr eiriau; ar ychydig eiriau.

Conciseness, *s.* (o *concise*) crynoder, byrder, byrdra, byrdeb, cynnwysder, cwtogrwydd; cynnwysforedd; crynodeb.

Concision, *s.* (Ll. *concisio*) cyttoriad; enwaediad.

Concitation, *s.* (Ll. *concitatio*) cyffroad, cynhyrfiad, cydgyffroad.

Concite,† *v. a.* (Ll. *concito*) cyffröi, cynhyrfu, annog.

Concitizen, *s.* cyd-ddinesydd.

Conclamation, *s.* (Ll. *conclamatio*) cydlefiad, cydfloedd, cydwaedd, cydlef, cydfloeddiad, cydarm, cyd-ddolef, cydawr; dolef.

Conclave, *s.* (Ll.) cyniadurfa, cysbwyllfa, cynghelfa; celgydfa, celgymmanfa, celgynnullfa=cymmanfa y cyniaduriaid i ddewis Pab, yn nghyd â'r ystafell lle yr ymgynnullant.

Conclude, *v. a.* (Ll. *concludo*) dybenu, gorphen, terfynu, gorphenu, diweddu, talmu, cyngorphen; cwblhau, cyflawnu; casglu, tynu casgliad; barnu; dirnad, deall; hôni; cloi ar, cau ar; cydgau; dyfarnu, cyfrif, bwrw; tachweddu, terfynoli; gosod y cwbl yn nghyd; penderfynu, sefydlu, penodi, penu; dwyn i ben; cynnwys; cau i mewn; cau; attal, rhwystro.

To conclude—i derfynu, i ddiweddu, i ddybenu, i dalmu, &c.; i fod yn fyr; mewn gair; yn ddiweddaf; i dynu at y diwedd; i dynu at ddiwedd; i gau *neu* i gloi ar y cwbl; i ddyfod i ben y bêr.

The matter is concluded upon — mae y peth wedi ei sefydlu *neu* benderfynu.

The day is concluded—y mae y dydd wedi ei benodi.

Concludence, } *s.* (o *conclude*) casgliad; yr hyn
Concludency, } a gesglir oddi wrth beth.

Concludent, *a.* terfynol, dybenol, dybenus, diweddol, gorphenol, terfynedigol.

Concluder, *s.* dybenwr, terfynwr, terfynydd, casglwr, casglydd, &c.

Concluding, *a.* terfynol, diweddol, gorphenol, dybenus; diweddaf, olaf; cloawl; yn dybenu, yn diweddu.

Conclusible, *a.* terfynadwy, casgladwy, &c.

Conclusion, *s.* (Ll. *conclusio*) terfyn, diwedd, dyben, gorphen; diweddglo, cload, cynghload, pengload; terfyniad, diweddiad,

gorpheniad, cyngorphen, penderfyniad; casgliad, canlyniad, y canlyniad; pen, clo, cydglo, cynghlo, clöedigaeth, terfynedigaeth, diweddfa, diweddbarth; argeisiad; swm *neu* sum y cwbl à glybüwyd; dystawrwydd.

To come to a conclusion=*To conclude.*

To draw a conclusion from—casglu oddi wrth; tynu casgliad *neu* ganlyniad oddi wrth.

To try conclusions—profi; gwneuthur prawf *neu* brofiad; peryglu, ymberyglu, pydio, ymbydio.

Conclusional,† *a.* terfynol, penderfynol.

Conclusive, *a.* (It. *conclusivo*) penderfynol, terfynol, dybenus, dybenol, gorphenol, cloawl, cynghloawl; casgladwy; rhwymedigol, terfynedigol, cyngorphenol.

Conclusiveness, *s.* terfynoldeb, terfynolrwydd, terfynoledd, gorphenoldeb, penderfynoldeb, dybenolder, casgliadoldeb, cloadolrwydd, cloadedd.

Conclusory, *a.*=*Conclusive.*

Concoagulate, *v. a.* (*con* a *coagulate*) cydgeulo, cyngheulo, cydgawsio, cydgeuledu, cydfferu.

Concoagulation, *s.* cydgeulad, cyngheulad, cydgawsiad, cyttewychiad; cynghrisiant.

Concoct, *v. a.* (Ll. *concoquo*) cydferwi, cymmerwi, berwi; treulio, bwyttreulio; treulio yn y cylla; ceulo; puro, coethi, teru, coethiannu, coethodi; addfedu.

To concoct measures—trefnu moddion; trefnu mesurau.

Who concocted the scheme?—pwy yw trefnwr y ddyfais? pwy a drefnodd y cynllun?

Concoction, *s.* (Ll. *concoctio*) cydferwad, cymmerwad, berwad; berw y cylla; treuliad, bwyttreuliad; ceulad; purad, coethiad; addfediad, twymaddfediad.

Concoctive, *a.* (o *concoct*) treuliadol, bwyttreuliol; ceuladol; addfedol; cymmerwol.

Concolour, *a.* (Ll. *concolor*) cyfliw, cydliw, eiliw, unliw; o'r un liw.

Concomitance, } *s.* (Ff. *concomitance*) cydfyned-
Concomitancy, } iad, cydganlyniad, cydgerddediad, cyngherddediad, cyngherddedrwydd, cydfodiad, cydrediad, cytteithiad, cydymdeithiad, canymdeithiad, ymgyfred.

Concomitant, *a.* (Ff. o'r Ll. *con* a *comitor*) cydfynedol, cydredol, cydred, cydganlynol, cyfrediadol, ymgyfredol, cydfodol, cydgyrch, cytteithiol, cydymdeithiol, cyhynt; cyttrefnol; yn cydfyned.

Concomitant with—yn cydfyned â; yn cydgerdded â; cydfynedol â.

Concomitant, *s.* cydymaith, cyfaill, cytteithydd, cytteithiwr, cydredydd, cydfynedydd, cydganlynydd; un yn cydfyned âg.

Concomitate,† *v. a.* cydfyned, hebrwng, canlyn; cyfystlysu â.

Concord, *s.* (Ll. *concordia*; Ff. *concorde*) cytundeb, cyfundeb, cydweddiad, cyfundod, cynghordiad, cydgordiad, cydgord, cynghord, undeb, cyssondeb, cyssonedd, cyssoniant, cydsain, cyssain, cyfundon, cydlais, cytton, cynghanedd, cysseinedd; cydfod, cymmod, hedd, heddwch, cymmodlonedd, cydfod, unoliaeth, cymmodedd, teuluedd; ammod, cyfammod, cynghrair, cysswyn; cyfunsawd.

Government and concord—llywodraeth a chydweddiad; rheolaeth a chyfundod.

False concord—anghydweddiad, anghyfundod, camgydweddiad; twyllgynghanedd; twyllawdl, twyllodl.

To be at concord—cydfod, cytuno, cydgordio, cynghordio, cordio; bod yn gytun, &c.

Concord,† *v. n.* cydfod, cytuno, cydgordio.

Concordable, *a.* cytunadwy, &c.; cysson, cydweddol, cytunol.

Concordance, *s.* (Ff.; Ll. *concordantia*) cytundeb, cyfundeb, cydgordiad, cydweddiad; mynegair, mynegiadur, mynegai, dangoseg, mynegur, mynegiyfr.

Scripture concordance—mynegair ysgrythyrol, mynegiadur ysgrythyrol.

Concordancy, *s.* cytundeb, cyfundeb, cydgordiad, cynghordiad, cyfundod, cyssonedd.

Concordant, *a.* (Ll. *concordans*) cysson, cytunol, cyfunol, cytun, cytûn, cytunus, unol, cyfun, cydgordiol; cyfatebol; cydfodol, cydfodus, cymmodol, cymmodlawn, unfeddwl, ungalon, unweddol; hyfryd, boddhaol.

Concordant, *s.* cytunog; yr hyn sydd yn gysson, &c.

Concordat, *s.* (Ll. *concordo*) cynghrair, cytundeb, ammod, cydgordeb, cytuneb, cytuniad.

Concordist, *s.* mynegeirydd, mynegeiriwr, mynegiyfrwr, casglydd mynegair.

Concorporal, *a.* (Ll. *concorporo*) cydgorfforol, cynghorfforol, cydgorffol.

Concorporate, *v.* (Ll. *concorporo*) cydgorffoli, cynghorffoli, cydgorffori, cynghorffori, cynghorffi, corffoli; ymgorffori, ymgorffoli; cymmysgu; ymgymmysgu; gwneuthur yn un corff.

Concorporation, *s.* cydgorffolaeth, cydgorffoliad, cynghorffolaeth, cydgorfforaeth, cynghorfforaeth, cydgorfforiad; ymgorfforiad; ymgymmysgiad.

Concourse, *s.* (Ll. *concursus*; Ff. *concours*) tyrfa, torf, ymgynnull, cynghad, cydgasgliad, cynnulliad; cyrchfa, cynnullfa, cyrch, cyfrwch, ymgyrch, ymgyfarfod, cyfarfod, cyfred, ymgyfred, ymgyfredeg, rhedegfain.

In the chief place of concourse—yn mhrif leoedd y dyrfa (*Diar.* i. 21).

Concreate, *v. a.* (*con* a *create*) cydgreu; creu gyda; creu ar yr un pryd.

Concredit,† *v. a.* (*con* a *credit*) ymddiried.

Concremation, *s.* (Ll. *concremo*) cydlosgiad, cyflosgiad.

Concrement, *s.* (Ll. *concrementum*) cyttyfiad, cyttyfiant, cydgasgliad; cyttelpyn.

Concrescence, *s.* (Ll. *concrescentia*) twf, tyfiant, prifiad, cynnydd.

Concrescible, *a.* (Ll. *concresco*) cyttyfadwy; ceuladwy; tewychadwy.

Concrete, *a.* (Ll. *concretus*) cyttwf, cyttyfol; undwf; cydgasgledig, cynghasgledig, cydgorfforedig, cydgorffol, cyttyrol, cyttyreg, cyfun, cymmysg, cymmysgedig; ceuledig, ceiedig, cyttew; cynghrethol, cynghreth, anseddol; ymlynol, cynghlynol, cyfunsawdd.

Concrete term—cynghreth; enw neu air cynghrethol; sylfonsawdd, seilansawdd.

Concrete, *s.* cyfansawdd; cynghreth; y cyttwf, y cydwasg, y cynghlwm, y cyfun; sylfonsawdd; cydgorff, clamp, talp, cymmysg, cymmysgedd, mwl, mwlyn, cai, cyttalp, cymmysgdalp; corff cyfansawdd; ansawdd; cyttwr, crynswth.

In the concrete—yn y cyfun; yn y cynghreth.

God is not only the perfection of the creatures in the concrete, but in the abstract too—nid yw Duw yn unig yn berffeithrwydd y creaduriaid, ond yn berffeithrwydd ei hun.

Concrete, *v.* cyfuno, cyfymuno; casglu, cydgasglu; ceulo, cydgeulo; tewhau, tewychu, cyttewychu, tochi; caledu, ymgaledu; cyttyru; cynghrethu; cymmysgu, talpio, clapio, clampio, ceio, mwlu, ymlynu; cyttyfu; fferu.

Concreteness, *s.* (o *concrete*) cyttyroldeb, tewycholdeb, ceuladoldeb; fferdod, fferdra, fferder; ceulad, tewychiad, tewhad, calediad, cyttyriad.

Concretion, *s.* (Ll. *concretio*) cyttyfiad; cyttyriad; ceulad, cydgeulad, cyttewychiad, tewhad, cyttewhad, tewychiad, talpiad, cyttalpiad; cydgorfforiad, cydgorffiad, cynghorffiad; cydgasgliad, casgl; calediad, ymgalediad; talp, tolch, tolchen, cyttalp, clamp, mwl, cal, môl, torp, telpyn, pelen, cyttwr, crynswth, fferiant.

Concretional, *a.* cyttewychol, cyttyrol, ceuladol, &c.

Concretionary, *a.* cyttewychol, cyttyfol, tewychol, ymdewychol, ymgasgliadol, ceuladol; â ffurfiwyd drwy gyttyriad.

Concretive, *a.* cyttyfol, cyttyrol, cynghorffol, cydymgorffol, cydymunol; tewychiadol, tewhaol, cyttewhaol, cyttyriadol, cyttalpiadol, tolchenol, talpiol, ceuladol, fferol.

Concreture,† *s.* (Ll. *concretum*) ceulad, talp, cyttalp, telpyn.

Concrew,† *v. n.* (Ll. *concresco*) cyttyfu, tyfu yn nghyd.

Scruple of conscience—petrusder, petrusedd, petrusrwydd, ammheuaeth, *neu* ofnusrwydd cydwybod; cyfyngder meddwl; arswyd y gydwybod rhag gwneuthur ar fai.
I have a scruple of conscience—y mae fy nghydwybod yn petruso; y mae arnaf betrusrwydd cydwybod, &c.
Of a scrupulous conscience—tyner, petrus, *neu* ammhëus ei gydwybod; ofnog, ofnus, ammhëus, arswydog, rhy ofalus, ammheugar, petrusgar; cydwybodol bryderus.
To be troubled in conscience—bod mewn cythrudd, mewn gofid, *neu* mewn afonyddwch meddwl *neu* gydwybod; bod yn flin gàn gynhwrf meddwl; cael ei ddirboeni gàn ei feddwl *neu* ei gydwybod.
To make conscience of—gwneuthur cydwybod o; bod yn gydwybodol mewn; gwneyd yn fater cydwybod; credu ei fod yn rhwymedig i wneuthur.
To charge one's conscience — caethiwo, llwytho, beichio, blino, *neu* ofidio ei gydwybod; cyfyngu ar ei gydwybod; rhoi baich ar ei gydwybod; gosod rhwymau ar ei gydwybod; peri petruster cydwybod; gwneuthur addunedau; rhoi diofryd.
To discharge one's conscience—dilwytho, dadlwytho, dadfeichio, *neu* ryddhau ei gydwybod; talu ei addunedau.
Enough in all conscience—digon a digonedd; digon a thros ben; digon a digon dros ben; hen ddigon.
In conscience—ar gydwybod; yn gydwybodol; yn wirioneddol; mewn gwirioneddau; o gydwybod; mewn cyfiawnder; yn gyfiawn; ar dir teg *neu* gyfiawn; wrth reswm; ar air a chydwybod.
Court of conscience—llys cydwybod; cydwybodlys; mânddyledlys, llys mânddyledion.
Conscienced, *a.* cydwybodog; âg iddo gydwybod.
Conscienceless, *a.* digydwybod, anghydwybodol.
Conscient, † *a.* (Ll. *consciens*)=*Conscientious.*
Conscientious, *a.* (o *conscience*) cydwybodol, cydwybodus; cywir, didwyll, cyfiawn.
Conscientiously, *ad.* yn gydwybodol; gyda chydwybod lân ddirwystr; yn ol cydwybod.
Conscientiousness, *s.* cydwybodoldeb, cydwybodolrwydd, cydwybodusrwydd; cydwybodoledd, cydwybodedd.
Conscionable, *a.* (Ll. *conscio*) cydwybodus, cydwybodol; cyfiawn, cywir, didwyll, uniawn, rhesymol.
Conscionably, *ad.* yn rhesymol, &c.; yn ôl iawnder a rheswm; yn ol cydwybod.
Conscionableness, *s.* rhesymoldeb; cyfiawnder, uniondeb, cywirdeb; cydwybodusrwydd.
Conscious, *a.* (Ll. *conscius*) ymwybodol, ymwybyddus, ymwybyddol, cydwybodus, cydwybodol; yn gwybod; yn wybodus; cyfrin; teimladwy; à wypo am dano ei hun.
To be conscious—bod yn ymwybodol, &c.; ymwybod; gwybod amdano *neu* ynddo ei hun; bod yn gyfrin; gwybod.
I am conscious to myself — yr wyf yn gwybod ynof fy hun; yr wyf yn ymwybod; yr wyf yn ymwybodol.
I am not conscious of sin—nis gwn fy mod yn gyfrin o bechod; nid wyf ymwybodol o bechod.
I am conscious that I am not handsome—gwn fy hun nad wyf fi hardd.
He is conscious of his superiority—gwyr yn dda ddigon mai efe sy ben; efe a wyr yn burion ei fod yn rhagori; mae yn ymwybodol o'i ragoriaeth.

Consciously, *ad.* yn ymwybodol, &c.; drwy wybod iddo *neu* amdano ei hun; drwy ymwybod.

Consciousness, *s.* ymwybod, ymwybyddiaeth, ymwybodoldeb, ymwybodolrwydd, ymwybodaeth, gwybyddiaeth; cydwybod; syniad, ymsyniad, ymdeimlad.

Consciousness of sins—cydwybod pechod (*Heb.* x. 2).

Conscript, *a.* (Ll. *conscriptus*) ysgrifenedig, ysgrifedig; rhestredig, cofresedig, cofrestredig, cofresol, coflyfredig, cofrestrig.

Conscript fathers—y tadau rhestredig, y tadau cofrestrig = seneddwyr Rhufain gynt.

Conscript, *s.* milwr rhestredig, crifilwr, gwr rhif: *pl.* rhestredigion, cofrestrigion.

Conscription, *s.* (Ll. *conscriptio*) rhestriad, cofrestriad, cofresiad, coflyfriad, cyfrestriad; milwyr rhestredig; y filwriaeth, y milwyr.

Consecrate, *v. a.* (Ll. *consecro*) cyssegru; santeiddio; bendigo, bendithio, glwyso; urddo; neilltuo; seintio, dwyfoli; offrymu, aberthu, dïofrydu; segru.

To consecrate one's self — ymgyssegru, ymsanteiddio; ymddïofrydu, ymgyflwyno.

Who is consecrated for evermore—yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd (*Heb.* vii. 28).

Consecrate, } *a.* (Ll. *consecratus*) cyssegredig,
Consecrated, } cyssegrol, cyssegrlan, santaidd, cyssegr, glwys; cyflwynedig, dïofrydol; urddedig; gorlladol, segr, segrol, segredig, cyferthus.

Consecrated wafer—arlladen, arladen, afrlladen, llethen gysegredig.

Consecratedness, *s.* cyssegredd, cyssegrwydd, cyssegroldeb, cyssegredigrwydd, segredigrwydd, cyferthrwydd.

Consecration, *s.* (Ll. *consecratio*) cyssegriad, cyssegredigaeth; santeiddiad, glwysiad; bendithiad, gorlladiad, cyferthiad; neilltuad; seintiad, seintiadaeth, dwyfoliad. [ydd.

Consecrator, *s.* cyssegrwr, cyssegrydd, segried-

Consecratory, *a.* cyssegraidd, cyssegriadol, cyssegredigol.

Consectary, *a.* (Ll. *consectarius*) canlyniadol; canlynol; yn canlyn; â fo yn canlyn; casgladwy, casgliadol; à ellir ei gasglu.

Consectary, *s.* canlyniad, casgliad, cload, cynghlo, cynghload, tyniad, diweddglo, casgl.

Consecution, *s.* (Ll. *consecutio*) canlyniad, canlyniawd, dylyniad, arganlyniad; cydolyniaeth; casgliad, cynghload, cynghlo; cyfres o ganlyniadau *neu* gasgliadau; oliannaeth, olyniant; cyfres o bethau yn canlyn eu gilydd; cyfres.

Consecution month—y mis cyfrwng, mis oliannol.

Consecutive, *a.* (Ff. *consecutif*) canlyniadol, canlynol, dylynol, dylynedigol; à ganlyno; à fo yn canlyn; olynol, oliannol, olyniadol; cyfresol; yn ol; ar ol eu gilydd; yn dyfod ar ol.

Consecutiveness, *s.* oliannaeth, oliannoldeb, olynoldeb, olynolrwydd, canlynoldeb, dylynolrwydd.

Conseminate, *v. a.* (Ll. *con* a *semino*) hau had cymmysg; amhadhau, cydhau amryw had, myseghadhau.

Consenescence, } *s.* (Ll. *consenesco*) cydhen-
Consencscency, } eiddiad, heneiddiad; methiant gàn henaint.

Consension, *s.* (Ll. *consensio*) cydsyniad, cyssyniad, cytundeb, cynghordiad, cyfundod.

Consent, *s.* (Ll. *consensus, consentio*) cydsyniad, cyssyniad; caniatâd, cenad, cenadiad, cynnwys; cytundeb, dundeb, cydgordiad, cynghordiad, cynghord; unfryd, unfarn; bodd, cymmodlonedd, cymmodloudeb; cyssondeb, cyfatebiad; cytteimlad.

Against one's consent—o anfodd, o'i anfodd; yn erbyn ewyllys un; yn groes i wyllys un.

Without consent—heb genad, heb ganiatâd, heb gydsyniad; yn ddigenad; heb gael *neu* ofyn cenad.

With one consent—o unfryd, yn unfryd, yn unfrydol, yn gytûn, yn gydgordiol; yn unair; o un geneu; âg un ysgwydd.

By consent — o gytundeb, o gydsyniad, trwy gytundeb, trwy gydsyniad, trwy fodd, o fodd; o fodd a rhodd; o wirfodd.

Consent, *v. n.* cydsynio, cydsynied, cyssynio; cytuno, cyduno, cynghordio, cydgordio; caniatâu, cenadu, ceniadu, rhoi cenad; rhoi cydsyniad; rhoi ei fodd; rhoi ei ewyllys da; bod yn gymmodlawn; gildio; gwrandaw ar.

To obtain one's consent—cael cydsyniad un; mynu, cael, *neu* ennill bodd un; mynu cenad *neu* ganiatâd gàn un.

Consentaneity, } *s.* cydsynioldeb, cytun-
Consentaneousness, } deb, cydundeb; cyssondeb, cyssonedd, cyssoniant, cyssonder, cytunoldeb; cyfaddasrwydd.

Consentaneous, *a.* (Ll. *consentaneus*) cydsyniol, cyssyniol; cytun, cydunol, cytunol, cysson, cyfatebol, addas, cyfaddas, cymhwys; yn cytuno, yn cyfateb; cydgordiol, cyngweddol.

Consenter, *s.* (o *consent*) cydsyniwr, cyssyniwr, cydsyniedydd.

Consentient, *a.* (Ll. *consentiens*) cydfarn, cydfarnol, unfarn, cyfunfarn, unfryd, unfrydol, unfeddwl; cyssyniol; cydsyniol, cydunol, cytûn, cytun; o'r un farn.

Consequence, *s.* (Ll. *consequentia*) canlyniad, canlyniant, dylyniad, cyd-ddylyniad, cyfymlyniad; casgliad, cynghlo, cydgload, cynghload; effaith, effeithiad; pwys, pwysfawredd, cyfrif, pris, cymmeriad, cymmyredd, bri, grym, nerth; tuedd, dylanwad; yr hyn a fo yn canlyn.

In consequence—o ganlyniad, yn ganlynol, trwy ganlyniad, mewn canlyniad; trwy, am, o herwydd, am hyny, herwydd hyny; wrth; o waith, trwy waith; o achos, o blegid.

By consequence—yn ganlynol; o ganlyniad; trwy ganlyniad; am hyny; o herwydd hyny.

Of great consequence—pwysfawr, pwysig, mawrbwys; o bwys mawr; o bwys a phris mawr; o fawr ganlyniad.

Of little consequence — ysgafn, ysgafnbwys, bychan-bwys, bychan-bris; o ychydig bwys; ond o ychydig bwys.

Of no consequence—dibwys, dibris, diddym; heb arwyddocâu dim; heb fod o bwys yn y byd.

Of dangerous consequence—enbyd, enbyd-

us, peryglus; à dywyso afiwydd ar ei ol; o ganlyniad peryglus.

What consequence do you draw from thence?—beth *neu* pa beth a gesglwch oddi wrth hyny? beth yw y casgliad à dynwch o hyny? pa gasgliad a dynwch oddi wrth hyny?

That is no good consequence—ni ddeillia, ni chyfyd, *neu* ni chesglir mo hyny yn naturiol oddi wrth yr hyn a ddywedpwyd.

A man of consequence—dyn rhwysgfawr; dyn mawr ei rwysg; dyn o rwysg; dyn o bwys; dyn pwysig; gwr o bwys, &c.

Consequent, *a.* (Ll. *consequens*) canlynol, dylynol, cyd-ddylynol; yn canlyn, yn dylyn; à ganlyno.

Consequent, *s.* canlyniad, effaith; casgliad, cydglo, cynghlo, cynghlοad; canlynor: *pl.* yr olion, yr oliaid, canlynorion, canlynolion.

Consequential, *a.* canlyniadol, canlyniannol; cyfymlynol; yn canlyn; deilliadol, tarddiadol; casgliadol, casgladwy, cynghloawl, cydgloawl; pwysig, pwysfawr; hunandybus, hundybiog, hunanol, cymmyreddus, coeg, balch, coegfalch, gwagfalch, uchelfryd, uchelfrydig, ucheldybus; rhwysfawr, rhodresgar, rhyfus, ymchwyddedig, tefyddog; llawn o'i dyb ei hun.

Consequentially, *ad.* yn ganlyniadol; trwy ganlyniad, o ganlyniad; yn gasgliadol; yn angenrheidiol; yn anocheladwy.

Consequentialness, *s.* cyd-ddylyniad, cydrediad rheolaidd; canlynoldeb, canlyniadoldeb, cydoliannaeth.

Consequently, *ad.* yn ganlynol, &c.; o ganlyniad, mewn canlyniad, trwy ganlyniad; gàn hyny; yn nesaf.

Consequentness, *s.* (o *consequent*) canlynoldeb, canlynolrwydd, dylynoldeb; cydolyniaeth, cydoliannaeth.

Consertion, *s.* (Ll. *consero, consertum*) cyssylltiad, cydiad, cyfuniad; cyfaddasiad, addasiad.

Conservable, *a.* (o *conserve*) cadwadwy, ceidwadwy.

Conservancy, *s.* (Ll. *conservans*) cadweidiaeth, cadwad.

Court of conservancy — cadwadlys, llys cadwad=llys à gedwir i ddiogelu pysgodfa yr afon Tafwys.

Conservant, *a.* ceidwadol, cadwadol, cadwyol, cadwol.

Conservation, *s.* (Ll. *conservatio*) ceidwadaeth, cadweidiaeth, cadwraeth, cadwedigaeth, cadwaeth, cadwyaeth, gwarcheidiaeth, cadwad, gwarchodiad, gwarchodaeth; nodded, amddiffyniad.

He applied himself diligently to the conservation of the state—efe a ymosododd yn lew *neu* a ymroddodd yn astud i noddi ac amddiffyn ei wlad.

Conservatism, *s.* diogeliaeth, ceidwadaeth, achlesyddiaeth, amddiffyniaeth, ceidwedyddiaeth, cadwriaeth, cadwadaeth, egwyddorion y diogelwyr, cadwadwriaeth, gwarchodaeth.

Conservative, *a.* ceidwadol, cadwadol, cadwol, cadwyol, cadwriaethol, cadwedigaethol, cadwedigol, ceidwadig, gwarchodol, achlesol, diogelawl, noddol, amddiffynol; à geidw, à gadwo.

Conservative, *s.* ceidwadwr, ceidwedydd, cadwedydd, ceidwadydd, diogelwr, achlesydd: *pl.* diogelwyr, ceidwadwyr, cadwedyddion, cadweidiaid, gwarchodiaid, cadwadolion, ceidwadigion.

Conservator, *s.* (Ll.) ceidwad, gwaredwr, gwaredydd, ceidwedydd, cedwidydd, ymwaredwr, gwarchodydd, diogelydd; noddwr, amddiffynydd, amddiffynwr.

Conservator of the peace—ceidwad *neu* amddiffynydd yr heddwch; ynad heddwch, ynad hedd, hedd-ynad, heddyngnad.

Conservatory, *a.* ceidwadol, cadwadol, cadwol, cadwyol, cadwriaethol, cadwedigol, cadwedigaethol, gwarchodol, moduriol.

Conservatory, *s.* ceidwadfa, achlesfa, addodfa, gwarchadfa, cadwyfa, cadwfa, cadwyfan; pwnt, cronfa; maethle, noddle; llyseufa, llysieufa, llysieudy; ystorfa, ystordy; lle i gadw peth ynddo.

Conservatory for fish—pysgodlyn.

Conservatory for fruits — ffrwythgell, ffrwythle, ffrwythfa.

Conservatory for corn—ytty, ydle, heiniardy, ystordy yd.

Conserve, *v. a.* (Ll. *conservo*) cadw, achlesu, noddi, amddiffyn, cadwyd; cyffeithio, cyweirio, blasuso, pereiddio, ammoethi.

Conserve, *s.* ancwyn, cyffaeth, chwegfwyd, chwegfaeth, ammeuthyn, ammoethyn, cyffeithfwyd; peth cyffeithiedig; peth cadwadwy; irgyffaeth; cadwyfa, cadwfa.

Conserve of roses—rhosgyffaeth, rhosgywair, cywair rhos, cyweir-dorth rhos.

Conserver, *s.* (o *conserve*) ceidwad, ceidwedydd, diogelwr, achlesydd; cyffeithydd, cyffeithiwr, ancwynwr, cyweiriwr.

Consession, *s.* (Ll. *consessio*) cydeisteddiad, cysseddiad.

Consessor, *s.* (Ll.) cydeisteddwr, cysseddwr.

Consider, *v.* (Ll. *considero*) ystyried, ystyrio, meddylied, meddwl, meddylio; meddylied am, meddylio am, meddwl am; myfyrio; myfyrio ar, myfyrio am; synied, synio, arsynied, pwyllo; edrych ar, synied ar, synio ar, craffu ar, syllu ar, dàl ar; dàl sylw ar; bwrw golwg ar; gweled, edrych; astudio, hambwyllo, ambwyllo, hanbwyllo, cysbwyllo, pryderu; pwyso, dyfal bwyso; dyfal bwyso yn y meddwl; darbod, gofalu tros, gofalu am; ystyried wrth; sylwi, sylwi ar; adfyfyrio, adfeddylied, adystyried, adystyrio; adgofio; ymgynghori, ymbwyllo; ammheu, petruso; edrych yn ei gylch; parchu, perchi, gorpherchi; gwneuthur cyfrif o; cydnabod, attalu, gobrwyo, talu y pwyth, talu adref.

Let us consider one another—cydystyriwn ein gilydd.

You shall be considered for your pains—cydnabyddir chwi am eich llafur.

Considerable, *a.* (Ff. ac Ysp.) crŷn; gwiwbwyll; o bwys, o werth, o gyfrif; teilwng o sylw *neu* ystyriaeth; nid bychan; nid ychydig; o bwys nid bychan; ni ddylid mo'i ddirmygu, mo'i esgeuluso, mo'i ddïystyru, *neu* mo'i ddibrisio; o fri a chymmeriad; o gymmeradwyaeth; nodol, nodedig, hynod, pwysfawr, pwysig, dirfawr; annirmygus, parchadwy, parchus; haeddbwyll; teilwng i'w ystyried; encyd o, swrn o, diamdlawd, cetyn o,

crỳn lawer, lledbwysig, lled dda; maith; gwerthfawr; gwiw; llawer.
A considerable sum of money—crỳn sum o arian; swrn o arian; twysged o arian.
A considerable way—encyd o ffordd; crỳn ffordd; crỳn lawer o ffordd.
Considerable fortune—crỳn gynnysgaeth, crỳn waddol; swrn o waddol; cynnysgaeth ddïamdlawd; cryn lawer o waddol.
Considerable quantity — twysged, crỳn swrn, swrn.
Considerable number—bagad; crỳn nifer; rhynawd o nifer; rhifedi nid bychan; nifer nid bychan.
Considerableness, *s.* gwiwbwylledd; cyfrifoldeb, mawredd; teilyngdod o sylw *neu* ystyriaeth; lledbwysigrwydd, lledbwysfawredd; syrnedd, twysged, twysgedd; nodedigrwydd, anfychanrwydd, llaweredd.
The considerableness of things is to be estimated by their usefulness — dylid pwyso pethau yn ol eu defnyddioldeb; dylid barnu am werth a phwysigrwydd pethau wrth eu defnyddioldeb.
Considerably, *ad.* yn wiwbwyll, &c.; o lawer; yn mhell; o getyn; o swrn; o grỳn radd.
Considerably better — gwell o lawer; llawer gwell; llawer yn well; yn rhagori yn mhell ar; yn mhell o flaen; cryn dwysged yn well.
This is considerably larger than the other —y mae hwn lawer yn fwy na'r llall.
Considerance,† *s.* (Ll. *considerantia*)=*Consideration.*
Considerate, *a.* (Ll. *consideratus*) ystyriol, pwyllog, pwyllig, pwyllus, hybwyll; call, doeth, synwyrol; gofalus, rhagofalus, darbodus, cynghorus, amgelog, gwagelog, gochelgar, ymogelgar, gwiliadwrus, amwel, craff, craffus, amgraff, amgraffus, pryderol, pryderus, diesgeulus, hanbwyllus, hanbwyllog, hambwyllus, arbwyllig, arsyniol; difrifol, difrif, myfyrgar, meddylgar, myfyriol, ystyrgar, ystyriannol, gwastadbwyll, gwastadfryd; anfyrbwyll, anehud, dysbwyllog, hirbwyllig, meddylddwys; cymmedrol, rhesymol; yn rhagweled, yn rhagddarbod; yn edrych o'i gylch; yn edrych o'i flaen ac o'i ol; tawel, hamddenol.
Considerately, *ad.* yn ystyriol, &c.; gàn bwyll; trwy bwyll da; trwy gynghor; trwy gymmeryd hamdden.
Considerateness, *s.* ystyrioldeb, pwyllogrwydd, pwylligrwydd, hybwylledd, callineb, callder, hanbwylledd, pwyllineb, &c.
Consideration, *s.* (Ll. *consideratio*) ystyriaeth, sylw, ystyriant, ystyr, pwyll, pwylledd, ymbwyll, cysbwyll, pwyllineb; diledfrydedd, myfyriad, myfyrdod, meddwl, meddyliad; cyfrifoldeb; darbodaeth, rhagddarbodaeth; pryder; meddylgarwch; bwriad yn y meddwl; ymgynghoriad; cymmeriad cynghor, pwyll, *neu* hamdden; ystyriedigaeth; bri, parch, cymmeriad, pwys; rheswm, rheswm cynhyrfiol; achos, achlysur; tâl, taledigaeth, ad-daliad, iawn, tâl pwyth; cydnabyddiaeth; ammod.
To have consideration of a thing—gofalu dros *neu* am beth; darbod o beth.
Diligent consideration—dwys ystyriaeth, dyfal fyfyrdod; ystyriaeth ddifrifol *neu* ddwys.
Worthy of consideration — gwiwbwyll; teilwng o ystyriaeth; gwiw o sylw *neu* ystyriaeth.
Upon what consideration?—pa ham? pam? er pa beth? er mwyn pa beth? am ba beth? am beth? am ba achos? ar ba reswm? ar ba ammod? ar ba gyfrif? ar ba gyfrifon? ar ba ystyriaeth? pa achlysur oedd?
Upon that consideration—tàn yr ammod hòno; am yr achos *neu* y rheswm hwnw; er mwyn hyny; ar yr ystyriaeth hòno; ar y cyfryw ammod.
Under consideration — dàn sylw, dàn ystyriaeth.
For many considerations — am amryw resymau *neu* ystyriaethau; am lawer achlysur *neu* achos; ar, oblegid, *neu* oherwydd amryw achosion; ar amryw gyfrifon *neu* ammodau.
Without consideration—heb ystyriaeth; heb ystyried; yn fyrbwyll, yn anystyriol, yn ddïystyr, yn anfeddylgar, yn ddibwyll, yn ddigynghor, yn ddifyfyr, yn anfyfyr, yn wylltnaws, yn chwidr, &c.
A person without consideration—dyn anystyriol.
After consideration—gwedi ystyried peth, mater, *neu* amgylchiad; yn ol *neu* ar ol difrifol bwyso peth; ar ol ystyriaeth *neu* ystyried.
To take into consideration — ystyried; dwys ystyried; ymgynghori yn nghylch peth; pwyso yn y meddwl; cymmeryd dàn ystyriaeth.
An author of consideration—awdur o grỳn gyfrifoldeb; awdur o grỳn gyfrif *neu* sylw; awdur o gyfrifoldeb; awdur cyfrifol; awdur o gyfrifoldeb nid bychan.
Considerative, *a.* yn ystyried; dwys-ystyriol, ystyriannol, ystyriol.
Considerer, Considerator,† *s.* ystyriwr, pwyllwr, myfyriwr.
Considering, *s.* ystyriad, &c.; petrusiad, petrusedd, ammheuaeth.
Considering, *p.* gàn ystyried, yn ystyried, dàn ystyried, &c. âg ystyried; yn gymmaint a *neu* ag; gàn mai; gàn fod y peth felly.
Considering that — yn gymmaint a; gàn mai; gàn fod y peth felly.
Considering the weakness of our nature—âg ystyried gwendid ein natur; pan ystyriom wendid ein natur.
Considering what servants are now-a-days —wrth fel y mae gwasanaethyddion *neu* wasanaeth-ddynion y dydd heddyw; pan ystyriom y modd y ceir *neu* y gwelir gweision y dydd heddyw.
Consign, *v. a.* (Ll. *consigno*) trosglwyddo, trosi; rhoddi, rhoi, dodi; traddodi, trosddodi; ymddiried; anfon, danfon; gorchymyn; symmud; dwyn trosodd.
To consign to writing—ysgrifenu; gosod mewn ysgrifen; rhoi ar lawr mewn ysgrifen; rhoi *neu* osod ar bapyr.
Consign,† *v. n.* llofnodi, arwyddo; cytuno, cydsynio; ymostwng, gildio.
Consignable, *a.* trosadwy, trosglwyddadwy.
Consignation, *s.* (Ll. *consignatio*) trosiad, trosglwyddiad, traddodiad; anfoniad, danfoniad.

Consignature, *s.* (*con* a *signature*) cydlofnodiad, cydlofnod, llofnodiad, llawn lofnodiad.

Consignee, *s.* (o *consign*) trosiadai, trosddoddai =yr un y trosir neu y traddodir iddo.

Consigner, } *s.* (o *consign*) troswr, trosydd,
Consignor, } trosiedydd, trosadog, trosddodog, trosglwyddwr, anfonwr=yr un à draddoda neu à drosglwydda.

Consignification, *s.* (*con* a *signification*) cydarwyddiad, cydarwyddocâd, cydystyr.

Consignificative, *a.* cydarwyddol, cydarwyddocaol, cydystyrol, cydystyr, gogyfystyr.

Consignment, *s.* (o *consign*) trosiad, trosglwyddiad, trosglwydd, dadrosiad, anfoniad, traddodiad; trosiadeb, trosglwyddeb, ysgrifen drosglwydd.

Consimilar, *a.* (*con* a *similar*) cynhebyg, godebyg, cyffelyb, gogyffelyb, cyfal, gogyfal, lled debyg, cyttebygol.

Consimilitude, } *a.* cynhebygiaeth, cyttebygol-
Consimility, } iaeth, tebygrwydd, tebygoliaeth, cyffelybrwydd.

Consist, *v. n.* (Ll. *consisto*) cydsefyll, sefyll, ymsefyll, cyssefyll; bod, hanfodi, hanfod; cynnwys, annu, gannu; bod yn cydsefyll; parhau i fod; parhau mewn bod; cytuno, cydsynio.

To consist of—cynnwys; hanfod o; bod yn gyfansoddedig *neu* wneuthuredig o; gwedi ei gyfansoddi o; cael ei wneuthur o.

To consist in—bod yn; sefyll yn; bod yn gynnwysedig yn *neu* mewn; bod yn sefyll *neu* yn gorwedd yn; sefyll ar.

To consist together—cydsefyll, cyssefyll, cydhanfod, cydhanfodi, cydfodoli, cydfod.

To consist with—cytuno, cydsynio, cydsefyll, cyssefyll, cydweddu, cyngweddu, cyssoni, cydfod, dygymmod; bod yn gysson.

By his word all things consist—trwy ei air ef y cyfansoddwyd pob peth (*Eccles.* xliii. 26).

Consistence, } *s.* (o *consist*) tewdra, sylwedd,
Consistency, } tewder; cydsafiad, cyssafiad, cydsafedd, cydseifiad; cyssondeb, cyngweddiad, cydweddiad, cytundeb; bod, hanfod, cydhanfod; tewedd, tewychedd; gwneuthuriad, cyfansoddiad, ffurfiad; ansawdd, sylweddoldeb; unffurfiad, unweddiad; cymhwysder; gwadalwch; safiad.

Consistent, *a.* (Ll. *consistens*) cysson, cytunol, cytun, cytunus, cyfun, cyngweddol, cydweddol, unffurf, cydffurfiol, unrhywiol, cyfunfod, unweddol; cydsafol, cyssafol, cydsaf, cyfladdol; yn cydsefyll, yn cyssefyll, yn cytuno; à fo yn cydsefyll; uneiriog; tew, tewychol, syfn, clwn.

To be consistent with one's self—bod yn gysson âg ef ei hun; bod yn unair *neu* uneiriog; dàl ar yr un chwedl.

They are not consistent—nid ydynt yn cytuno, yn cyngweddu, *neu* yn cyfladd Â'u gilydd; y maent yn gwrthwynebu eu gilydd; maent yn anghysson; nid ynt yn cytuno, &c.

Consistorial, } *a.* eglwysalysol, glwysalysol;
Consistory, } perthynol i lys eglwysig; perthynol i lys yr esgob; gorseddol, cabidylaidd.

Consistorial court — llys yr esgob, llys esgobol, llys eglwysig.

Consistory, *s.* (Ll. *consistorium*) llys yr esgob, gorsedd esgob, llys eglwysig, eglwysalys, glwysalys, cynglwysalys; glwysalysdy; cynghordy, dadleudy; cymmanfa esgobion, cynghorfa, glwysgynghor; cynghorfa gweinidogion.

Consociate, *s.* (Ll. *consociatus*) cydymaith, cymrawd, cymrodor, cyfaelod, cyfaill; cyfranog, cyfranogwr, cydblaid, cysswyniad, cysswynwr, cydgyfranog, cyfrinachwr, cyfrinydd, cydwedd, cydwelydd.

Consociate, *v.* cyfeillachu, cymdeithasu, cymdeithogi, uno, cyfuno, cyssylltu, cyduno, ymuno, cydymuno, cyfeillio, cydbleidio, cyssylltu cymdeithas, ymgyfeillachu, ymgyfeillio.

Consociation, *s.* (*consociatio*) cymdeithas, cymdeithasiad, cydgymdeithas, cyfeillach, ymgyfeillach, cymdeithiad, cymrodoriad, cyfathrach, ymuniad, cystlynedd, cydbleidiad, ymgymdeithasiad; cymdeithasfa, cymdeithfa, cyfaelodiaeth.

Consociational, *a.* cymdeithasol, cymdeithasiadol, cymdeithasfaol, cymdeithfaol.

Consol, *s.* (o *consolidate*) cydsoddan, cyssoddan, cedsoddan: *pl.* cyssoddion.

Consolable, *a.* (Ll. *consolabilis*) cysuradwy, dyddanadwy; hylon, siriol, llon, cysurus.

Consolate, † *v. a.* (Ll. *consolor*) cysuro.

Consolation, *s.* (Ll. *consolutio*) cysur, dyddanwch; cysuriant, cysuriaeth, cysurdeb, dyhuddiant, dyhudded, cysuriad, dyddaniad, lloddiant; sirioldeb, hyfrydwch.

Consolator, } *s.* (Ll. *consolator*) cysurydd, cy-
Consoler, } surwr, dyddanydd, dyddanwr, siriolwr, llonychwr.

Consolatory, *a.* cysurol, dyddanol, cysurus, dyddanus, lloddiannol, cysurlawn, lloddol.

Consolatory, *s.* dyhuddiant, dyhudded, dyhuddeg, cysurdraith.

Console, *v. a.* (Ll. *consolor*) cysuro; dyddanu, sirioli, lloni, adferthu, dyhuddo, sirio, llonychu; rhoi cysur i; lloddi; cynnorthwyo.

Console, *s.* (Ff.) tyddfyn, ysgwyddyn.

Consolidant, *a.* (Ll. *consolidans*) cyfanol, cyfaol, cyfhaol, croengyfanol; yn tueddu i uno archollion; yn cyfanu.

Consolidant, *s.* bancawydd, cyfanydd; iachgyffer; meddyginiaeth yn tueddu i wella *neu* gyfanu archoll.

Consolidate, *v.* (Ll. *consolido*) cyfanu, cyfhau; uno, cyssylltu; gwneuthur *neu* fyned yn gyfan, yn groengyfan, *neu* yn holliach; iachâu; cyfu; caledu, ymgaledu, durfingu, clyno, ymffurfhau, cyd-ddwyso, cyfddwyso, cydgasglu, cydgrynöi; gwneuthur *neu* fyned yn galed, yn galedgorff, *neu* yn ddurfing; cydsylweddu, cyssylweddu, cydgorffori, cynghorffoli, cydsoddi; gwneuthur yn un; cryfhau.

To consolidate two benefices—uno *neu* gyssylltu deublwyf; gwneuthur deublwyf yn un; cydgorffori dwy fywoliaeth *neu* eglwys.

Consolidated fund—cydsawdd, cydargyfre, cydgyllid.

Consolidate, *a.* cyfan, durfing, clwn, caledcdig, cynghorffedig; yn un caledgorff.

Consolidation, *s.* cyfaniad, cyfuniad, cyssylltiad, uniad, cydgyssylltiad, cyd-ddwysiad, cyfddwysiad, clyniad, cydgorfforiad, cynghorffoliad, cydsylweddiad; cydgalediad,

ynghaledlad; gwneuthuriad deugorff, deubeth, *neu* ddeublwyf yn un.

Consolidative, *a.* cyfanol, cyfaol, cyfhaol; iachaol; cynghorfforol.

Consoling, *a.* (o *console*) cysurol, dyddanol, cysurus, dyddanus, cysurfawr.

Consols, *s. pl.* (o *consolidate*) cydsoddion, cedsoddion, cyssoddion=cryn gyfran o'r ddyled wladol.

Consonance, } *s.* (Ll. *consonantia*) cydsain,
Consonancy, } cyssain, cydseinedd, cysseinedd, cydseiniant, cysseiniaeth, cysseiniant, cydlais, cytton, cyttonedd, cynghan, cynghanedd, cydganedd, cynhonedd; cyssondeb, cyssonedd, cynghordiad, cydgordiad, cytundeb, cydundeb, cydsyniad, cyssyniad, cydweddiad, cyngweddiad.

Consonance of words—cynghanedd; cynghanedd geiriau; geir-gynghanedd.

Consonant, *a.* (Ll. *consonans*) cydsain, cydseiniol, cyssain, cysseiniol, cydseiniog, cysseiniog, cysseinig, cydseinig, cydlais, cydleisiol, cyttonol; cysson, cytun, cytûn, cytunol, cyssonol, cynghordiol; addas, cyfaddas, gwiw.

To be consonant — cydseinio, cydleisio; cytuno, cydgordio, cyssoni, cyttoni; bod yn gysson, &c.

Consonant, *s.* cydsain, cydseiniad, cyssain, cysseiniad, llythyren gydsain, llythyren gydseinig: *pl.* cydseiniaid, cysseiniaid, cydseinogion.

Vowels and consonants—llafariaid a chydseiniaid, llafareion a chysseiniaid, llafarogion a chysseinigion.

Inflective consonant—cydsain dreigl, cyssain leddf, cydsain dreigledig, cydsain hydreigl.

Consonantness, *s.* cyssondeb, cyssonoldeb, cyssonedd, cyngweddoldeb.

Consonous, *a.* (Ll. *consonus*) cyssain, cydsain, cydseiniol, cysseiniol, cyflafar, cydleisiol, cynghanaidd, cynghan.

Consonous and synonymous — cyssain a chyfystyr; cyflafar a chyfystyr; o'r un sain a'r un ystyr.

Consopiate, } † *v. a.* (Ll. *consopio*) suo i gysgu,
Consopite, } sïo i gysgu, susganu, suo, rhoi i gysgu, sigysgu, siganu, canu i gysgu.

Consopiation,† *s.* suad i gysgu, susganiad, siganiad, suad, sïad, sigysgiad.

Consopite, *a.* tawel, llonydd; wedi ei sïo; lloddedig.

Consort, *s.* (Ll. *consors*) cydwedd, priod; gwr priod, gwr; gwraig briod, gwraig; cywely; cydymaith, cyfaill, cyfeilles, cyfail, cydwelydd, cydradd, cyfath; undeb, uniad, cyssyltiad, cydrediad; cynnullfa, cymmanfa, cymdeithasfa; cyugherdd.

Queen consort—breninesgydweddog, brenines gydwedd=gwraig brenin, nid brenines deyrnasol.

Royal consort — cydwedd freninol, priod freninol, brenines, gwraig brenin; cydwedd breninol, priod breninol, brenin.

Consort, } cydweddlong. llong gyd-
Consort ships, } wedd, cydwedd.

Consort, *v.* cyfeillachu, cymdeithasu; priodi, cydweddogi; uno, ymuno; cadw cyfeillach neu gymdeithas; cyfeillachu âg, ymwasgu â; ymgyfeillachu, ymgyssylltu, cystlynu, ystlynu; cymmysgu; cydweddu.

With his consorted Eve—Â'i gydwedd Efa.

Consortable, *a.* (o *consort*) cyfaddas, addas, cydweddol.

Consortion,† *s.* (Ll. *consortio*) cymdeithas, cyfeillach.

Consortship, *s.* (o *consort*) cymdeithas, cyfeillach, cyfranogaeth, brawdoriaeth.

Consound, *s.* (*con* a *sound*) cyfardwf, llysiau y cwlwm.

Conspection, } † *s.* (Ll. *conspicio*) gweledigaeth,
Conspectuity, } edrychiad, golygiad, tremiad, golwg.

Conspersion,† *s.* (Ll. *conspergo*) taenelliad, ysgeiniad, ysgeintiad.

Conspicuity, *s.* (Ll. *conspicuus*)=*Conspicuousness.*

Conspicuous, *a.* (Ll. *conspicuus*) amlwg, hywel, hynod, eglur, hysbys, honaid, hynodol, nodol, eglwg, gogyfarch, argyfiwg, arwel; hawdd i'w ganfod; hawdd i'w weled; enwog, clodfawr, ardderchog, nodedig, hyglod; enddodol, enddawd, arbeithig.

A conspicuous scar — craith ogyfarch; craith amlwg, hywel, *neu* hynod.

Conspicuousness, *s.* amlygrwydd, eglurder, eglurdeb, amlygder, egluredd, hyweledd, eglygder; hynodrwydd, honeidrwydd, enwogrwydd, clod, bri, uchafedd, hyglodedd, clodforedd, dathledd.

The conspicuousness of an author—enwogrwydd awdur.

Conspiracy, *s.* (Ll. *conspiratio*) cydfradwriaeth, cydfrad, bradwriaeth, brad, cydfwriad, bradfwriad, cymrad, cymradwriaeth, cyfrad, cyfradwch, traffaith, bradgynghrair, bradgysswyn, cysswyn, bradgyfarfod; cydrediad.

Conspirant, *a.* (Ll. *conspirans*) cydfradol, cymradol, bradfwriadol, bradol, bradwriaethol, traffeithus.

Conspiration, *s.* (Ll. *conspiratio*) cydfradwriaeth, cydfrad, bradwriaeth, bradfwriad, cydfwriad, brad, cymrad, cyfrad, cymradwriaeth, cydfradiad; cydrediad, cydred, cyttueddiad, cytundeb.

Conspirator, } *s.* cydfradwr, bradwr, cyfradwr,
Conspirer, } bradfwriadwr, cydfwriadwr, cymradwr, cysswynydd.

Conspire, *v. n.* (Ll. *conspiro*) cydfradu, cydfwriadu, bradfwriadu, cyfradu, bradlunio, bradgynghreirio, cymradu; gwneuthur bradwriaeth, gwneuthur cydfrad; ymgynghreirio er gwneuthur brad; cyfuno er gwneuthur drwg *neu* gyflafan; cytuno, cydsynio, cyssynio, cyduno, cyfuno, cydgordio, cynghordio, cordio, ymuno; cyttueddu, tueddu; cydymegnïo, cydweithio.

All things conspire to make him happy—y mae pob peth yn cydweithio er ei ddedwyddyd ef.

Conspiring powers *or* forces — gallueedd cydweithiol; nerthoedd cyweithiol.

Conspiringly, *ad.* yn gydfradol, &c.; trwy fradwriaeth; o fradwriaeth; o frad.

Conspissation, *s.* (Ll. *conspissatus*) tewychiad, tewiad, tewhad; cyttewedd, tewychedd, tewedd.

Conspurcation,† *s.* (Ll. *conspurco*) halogiad, diwyniad, halogrwydd, halogedigaeth, aflanhad.

Constable, *s.* (Ysp. *condestable*; Ll. *comes stabuli*) heddwas, heddgeidwad, dyheddwr,

heddur, heddswyddog, swyddog yr heddwch; penceidwad.
Petty constable—heddwas, heddgeidwad.
High constable—penceidwad, argeidwad, penswyddog yr heddwch, arddyheddwr, gorcheidwad, arheddwas.
Constable of a castle—castellwr, castellydd, caerwr; ceidwad *neu* lywydd castell *neu* amddiffynfa.
Constable of the Tower of London—penceidwad Tŵr Llundain; penllywydd, penceidwad, argeidwad, pencaerwr, *neu* bencaerydd y Tŵr Gwŷn yn Llundain.
Constable of France—penceidwad Ffrainc; penllywydd, penswyddog, *neu* benaeth y marchoglu yn Ffrainc gynt.
Lord high constable—arglwydd argeidwad, arlwydd benceidwad, arlwydd arheddwr.
To overrun the constable—byw uch law ei foddion; treulio mwy na'i feddiant; rhedeg i ddyled dros ei ben a'i glustiau; bod mewn dyled dros ei ben a'i glustiau.

Constablery, *s.* (o *constable*) heddweision, heddgeidwaid, heddlu, arheddlu; hedduriaeth, heddswyddogaeth; swyddogaeth, awdurdod, *neu* dalaeth heddwas.

Constableship, *s.* heddgeidwadaeth, heddgadwyaeth, heddwasaeth, hedduriaeth, swydd heddgeidwad.

Constablewick, *s.* talaeth *neu* gylchdaith heddwas; heddwasbarthed, heddwasgylch.

Constabulary, *a.* heddwasol, heddgeidwadol, heddgadwyol, heddurol; perthynol i heddgeidwaid, heddweision, heddweis, *neu* heddweisiaid.
Constabulary force—heddlu, arheddlu, arheddwys, heddweislu; yr heddgeidlu, yr heddgeidwaid, y corff heddgadwol.

Constancy, *s.* (Ll. *constantia*) gwastadrwydd, gwastadfod, gwadalwch, dïanwadalwch, dïanwadaledd, gwadaledd, gwadalrwydd, dïysgogrwydd, dïanwadalrwydd, dïymmodrwydd, dïymmodedd, disigledd, ansigledd, sadrwydd, annewidiolder; ffyddlondeb, ffyddlonder; sicrwydd, dilyswydd, sicredd, gwirionedd, gwireddoldeb, sylweddolder, parhad, dyfal barhad, dyfalwch; sywder, sywdeb, sywdra.
Constancy in suffering—goddefgarwch, dyoddefedd, dyoddefgarwch, goddefedd, ymoddef, ymaros, amynedd, gorthaw.

Constant, *a.* (Ll. *constans*) dïanwadal, sefydlog, dïymmod, gwastad, dïysgog, diwamal, safadwy, hysaf, anserfyll, diserfyll, disigl, gwadal, anghyfnewidiol, dinewid, digyfnewid, ansigledig, sicr, disymmud, dïoriog, anoriog, cadarn, sad, dyfal, gwastadol, dibaid, didor, didawl, dïorphwys, parhäus, bythig, bythol, didranc, anorphen; cysson, unwedd; ffyddlawn, cyfartal, cyfartelid, syw; diwair.
Constant mind—bryd *neu* feddwl cyfartal; gwastadfryd.
Constant faith—ffydd barhäus, ffydd annifan, ffydd annifan, ffydd ddïysgog.
There is a constant report—mae'r gair yn rhugl.
Constant to his purpose—dïanwadal *neu* sefydlog yn ei fwriad, &c.; anhawdd ei symmud oddi wrth ei arfaeth; hylyn *neu* hylud yn ei amcan; tyn yn ei feddwl; anhyblyg, anystwyth, ystyfnig, taerlud hylyn, hylud, dïanwadal.
If he be constant to do my commandment — os efe a ymegnïa i wneuthur fy ngorchymynion.

Constant, *s.* sadrif, sadgyfran: *pl.* sadion, sadogion.

Constat, *s.* (Ll.) eglureb, amlygeb.

Constellate, *v.* (Ll. *constellatus*) cydseirianu cydserenu, cydseriglo, cydlewyrchu, cydleuferu, cyd-ddysgleirio, cyttywynu

Constellation, *s.* (Ll. *constellatio*) cydser, cyfseryddiad, sergynnull, sergynnulliad, cydseryddiad, cydserad, serdwr: *pl.* cydserau.

Consternation, *s.* (Ll. *consternatio*) braw dychryn, dychryndod, syndod, synder, syndra, synedigaeth, uthredd, arswyd, cymraw echryn, echryd, gorsyndod, gorsynder, irdang irdanc, irdant, uthroldeb, aruthredd, syndod dirfawr, serfandod, sanedigaeth, ofn, cythrudd

Constipate, *v. a.* (Ll. *constipo*) cydsechu, cydsecu, cydsagio, sechu, secu, sagio, tynlenwi gorlenwi, cyttyru, cyssychu; gyru yn dyn gwthio yn nghyd; tewychu, cyttewychu tewhau; gwneuthur yn dew; cau, canad cau i fyny; gwneuthur yn ganad; attal rhwystro; rhwymo, bolrwymo, rhefrwymo rhwymo y bol.

Constipation, *s.* (o *constipate*) cydsechiad, cydseciad, sechiad, seciad, cyssychiad, tynlenwad; tewychiad, tewhad, cyttewychiad tewychiant; rhwymiad, rhwymedd, bolrwymiad, bolrwymedd, bolrwym, bolrwymiant, rhefrwymedd; ymgalediad.

Constituency, *s.* (Ll. *constituens*) cyfansoddiad dewisiad, etholiad; etholwyr, etholiaid etholyddion; yr etholiadaeth.

Constituent, *a.* (Ll. *constituens*) cyfansoddol elfenol, elfyddol, sylfaenol; hanfodol, angenrheidiol; sylweddol, gwreiddiol; ansoddol sefydlawl, gwneuthurol; à bair i beth fod yn hyn ydyw; à gyfansoddo.
Constituent parts — rhanau cyfansoddol, rhanau hanfodol, rhanau elfenol, cyfseilian.

Constituent, *s.* cyfansoddydd, cyfansoddwr, cyfansoddai, cyd-gyfansoddydd; elfen, elfydd, cyssail, cysran; gwneuthurydd, ffurfiedydd; rhan gyfansoddol; aelod hanfodol, sylfaenol, *neu* anhebgorol; etholydd, etholwr, etholai, dewisydd, dewiswr; gosodydd, anfonydd.

Constitute, *v. a.* (Ll. *constituo*) gosod, gosodi; gwneuthur, gwneyd, cyfansoddi, cyssoddi; sefydlu, ffurfio, trefnu, penodi, penu, nodi, cyfosod, cysseilio, arosod, deddfu; ethol, dewis, swydd-enwi; gosod *neu* gyflëu mewn swydd; rhoi bod *neu* sylwedd i beth; peru i beth fod yr hyn ydyw; gwneuthur i fyny; elfenu, elfyddu; gwneuthur ac awdurdodi; crethu.

Constituter, *s.* gosodydd, gosodwr, &c.

Constitution, *s.* (Ll. *constitutio*) cyfansoddiad; gosodiad, gwneuthuriad, cyngosodiad, ffurfiad, sefydliad, cysseiliad, cyssodiad, penodiad, &c.; ffurflywodraeth, ffurf llywodraeth, ffurf o lywodraeth; trefn *neu* ffurf sefydledig; ansawdd, cyflwr, tymmer, ardymmer, ardymmyr, tymmyr, dyli, naws, creth, credd, crethineb, greddf, anian, nwyd, anwyd, diwyg, hwyl, ystâd; cyflwr, ansawdd, *neu* dymmer y corff; gosodiaeth, gosodigaeth; gosodedig-

aeth, deddfawd, ffurfosodiad, gosod, gosawd, (*pl.* gosodau, gosodion), ystatyn; cyfraith.

British constitution—ffurflywodraeth Prydain; y ffurflywodraeth Brydeinig; y cyfansoddiad Prydeinig *neu* Brydeinaidd.

Civil constitution—cyfansoddiad gwladol, cyngosodiad gwladol, ffurflywodraeth, gwladoldeb, gwladoliaeth, gosodiad gwladol.

Constitution of the mind — cyfansoddiad *neu* gyngosodiad y meddwl; dyli, ardymmyr, *neu* ansawdd y meddwl.

Constitutions and canons ecclesiastical—gosodiaethau a chanonau eglwysig.

The constitutions of Justinian—deddfodau Iustinian.

The constitution in church and state—y ffurflywodraeth wladol a'r eglwysig; y ffurflywodraeth yn yr eglwys ac yn y wladwriaeth; y drefn sefydledig mewn gwlad ac mewn eglwys; y drefn sefydledig wladol ac eglwysig; y cyfansoddiad gwladol a'r eglwysig.

Good constitution—cyfansoddiad da, dyli da, diwyg da, ardymmyr da.

Of a good constitution—o gyfansoddiad da; da ei gyfansoddiad; ardymmerus; diwygus; da ei dyli; da ei naws *neu* ansawdd.

Bad constitution — cyfansoddiad drwg; drygnaws, anniwyg.

Of a bad constitution — o gyfansoddiad drwg; drwg ei ddyli; drwg ei naws; anniwygus, clefyca; drwg ei gyfansoddiad.

Constitutional, *a.* crethol, anianol, gwreiddiol, crethus, greddfol, ardymmerol; perthynol i gyfansoddiad; cyfansoddiadol; cysson, cytunol, cytun, *neu* gyngweddol â'r ffurflywodraeth; unol â ffurflywodraeth; cyfreithlawn, cyfreithus, cyfreithiol; sefydlawl, sefydledig.

Constitutionalist, *s.* ffurflywodydd, flurflywodur; ymlynwr wrth drefn sefydledig o lywodraeth: hoffwr y ffurflywodraeth Ffreinig yn 1791.

Constitutionality, *s.* ffurflywodoldeb, ffurfwladoldeb; cyfreithlonedd; cretholdeb, greddfolder, anianoldeb.

Constitutionary, *a.*=*Constitutional.*

Constitutionist, *s.* ffurflywodydd, ffurflywodwr, flurflywodur; ymlynwr wrth ffurflywodraeth y wlad.

Constitutive, *a.* cyfansoddol, cyfansoddiadol; hanfodol, gwreiddiol, sylfaenol, elfenol, elfyddol, elfyddus; gosodiadol, gosodedigol.

Constrain, *v.a.* (Ll. *constringo;* Ff. *contraindre*) cymhell, dirgymhell, argymhell, gwasgu, dirwasgu, dychymhell, dirio, gyru, gwthio; rhwymo, caethiwo, cadwyno, tynrwymo; gorfod, gorfodi, peri i, gwneuthur i; cyfyngu; rhwystro, attal, rhabu, ystwyo; cadw i lawr; cadw tàn *neu* danodd; rheidioli; treisio.

I was constrained — gorfu arnaf; gorfu imi; bu gorfod arnaf.

He constrained them to depart — efe a wnaeth iddynt ymadael; perodd iddynt fyned ymaith.

I was constrained to appeal to Cæsar—mi a yrwyd i ymddibleidio at Caisar.

Not constrained — digymhell, ewyllysgar, gwirfodd, gwirfoddol.

Constrainable, *a.* cymhelladwy, gorfodadwy, caethiwadwy, &c.

Constrainedly, *ad.* trwy gymhell, o anfodd, trwy orfodaeth, trwy orfod, o orfod, yn anewyllysgar, yn anfoddlawn; yn erbyn ei ewyllys; heb ddïolch iddo.

Constrainer, *s.* cymhellydd, cymhellwr, gorfodwr, diriwr, gyrwr, gorfodog.

Constraint, *s.* (Ff. *contrainte*) cymhell, cymhelliad, dirgymhell, dirgymhelliad, argymhell, dir, dir a chymhell, diriad, gorfod, gorfodaeth, gorfodogaeth, gyriad, gwth, gwthiad, hyrddiad, hwrdd, dirdrais, dirdra, dirwasg, dirwasgiad, rhwymiad, caethiwed, cyfyngder, rhab, rhabedd, trais, rhysgyr.

Without constraint—o fodd, o wirfodd; heb na dir na chymhell; yn ddigymhell, yn ewyllysgar, yn wirfoddol.

By constraint=*Constrainedly.*

Constraintive, *a.* (o *constrain*) dirgymhellus, diriol, gorfodol.

Constrict, } *v. a.* (Ll. *constringo, constrictum*)
Constringe, } dirwasgu, rhwymo, tynrwymo, tynwasgu, cydwasgu, cyngwasgu, cyfwasgu; rhwymo yn dyn *neu* yn gaeth; cylymu yn dyn *neu* yn gaeth; caethrwymo, cydgylymu, cydrwymo; caethiwo, gwasgu, amwasgu, cyfyngu; tynu yn nghyd; crybychu, crebachu, còri, tyrfu.

Constriction, *s.* (Ll. *constrictio*) dirwasg, dirwasgiad, cydwasgiad, dywasg, gwasg, cyngwasgiad, cydrwymiad, cydrwymad, cyfrwymiad, tynrwymiad, caethrwymiad; tyniad yn nghyd; crebachiad, crybychiad; cyfyngiad, caethiwad.

Constrictor, *s.* (Ll.) crebachydd, crybychydd, crybychyr, cyttynydd: sarff ddu Taleithiau Cyfunol America.

Boa constrictor—yr alsarff, gwagsarff, dirglymsarff=y fwyaf o'r holl seirff nabyddus, weithiau o 30 i 40 troedfedd o hyd.

Constringent, *a.* (Ll. *constringens*) dirwasgol, crybychol, crebachol; rhwymol, rhwymiadol, argaeol, bolrwymol, dirglymol; âg ynddo rinwedd i rwymo.

Construct, *v. a.* (Ll. *construo, constructum*) adeiladu, adeilo, llunio, gwneuthur, gwneyd, cyfeilio, eilio, cyflunio, cyfansoddi, ffurfio, cydosod, saernïo, dyfeisio; cyttyru; cystrawu, dehongli, deongli, deall.

Constructer, *s.* adeiladydd, ffurfiwr, cyfeilydd, cyfluniwr, cyfluniedydd, &c.

Construction, *s.* (Ll. *constructio*) adail, adeiladaeth, adeilad, adeilwaith, adeiladwaith, adeiladiad, cydadail, cyfadail; lluniad, cyfluniad, gwneuthuriad, ffurfiad, cyfeiliad, eiliawd, eiliant, cyfansoddiad, saernïaeth, saernïad; cydosodiad, cyfosodiad, cystrawiaeth, cystrawen, cystrawiad; cyssylltiad, cyttrefn; ystyr, dehongliad, deongliad, eglurhad, eglurad, esboniad, dirnadaeth, lladmeriaeth; cyfleithad; cymmeriad ystyr.

Construction, } cystrawiaeth, cystrawen,
Syntax, } cystrawiad, cyfosodiad, cydosodiad; cyttrefn.

Construction of language — cystrawiad iaith; ieithadaeth, ieithad.

To put the best construction on—rhoi yr ystyr goreu ar; rhoi y lliw goreu ar; cymmeryd, derbyn, *neu* ddeall yn yr

ystyr goreu; rhoi y cystrawiad goreu i *neu* ar.

To put the worst construction on—rhoi yr ystyr *neu* y lliw gwaethaf ar; cymmeryd, derbyn, *neu* ddeall yn yr ystyr gwaethaf; gwyrdroi yr ystyr; drygliwio.

Constructional, *a.* adeiladol, adeiladaidd, cyfluniol; cystrawol; ystyrol.

Constructive, *a.* (o *construct*) cystrawol, cystrawenol; cyfosodol, cydosodol; cyfluniol; debongliadol, ystyrol; casgliadol; trwy gasgliad teg.

Constructiveness, *s.* (o *constructive*) cyfluniedd, adeilgarwch.

Constructure, *s.* (Ll. *con* a *structura*) adail, adeilad, adeiladaeth, cydadail; adeilres.

Construe, *v. a.* (Ll. *construo*) dehongli, dehonglyd, deongli, esbonio, egluro; cyfieithu; troi o un iaith i'r llall; amlygu, lladmeru.

Is it so you construe the matter?—ai felly y deallwch, y barnwch, *neu* y cyfrifwch chwi y peth? ai felly yr ydych chwi yn deall y peth? ai hwna yw y lliw à roddwch chwi ar y peth?

Constuprate, *v. a.* (Ll. *constupro*) halogi, treisio, diforwyno, llathruddo, dwyn trais; gwneyd gwaith anfodd ar.

Constupration, *s.* (o *constuprate*) treisiad, diforwynad, llathruddiad, halogiad, dygiad trais.

Consubsist, *v. n.* (*con* a *subsist*) cydhanfodi, cydhanfod, cydsefyll.

Consubstantial, *a.* (Ll. *consubstantialis*) cydsylweddol, cyssylweddol, unsylweddol, cydhanfodol, cyd-ddefnyddiol; cyfanianol, cydrywiol; o'r un natur *neu* ryw.

Consubstantialist, *s.* cydsylweddwr, cyssylweddwr; credwr mewn cydsylweddiad: *pl.* cydsylweddiaid.

Consubstantiality, *s.* cydsylweddoldeb, cyssylweddoldeb, cydsylweddolrwydd, cydhanfodoldeb, cydsylwedd; cyfranogiad o'r un natur.

Consubstantiate, *v.* (Ll. *con* a *substantia*) cydsylweddu, cyssylweddu, cydsylweddoli; uno yn un sylwedd; proffesu cydsylweddiad.

Consubstantiation, *s.* (o *consubstantiate*) cydsylweddiad, cyssylweddiad=uniad corff a gwaed Crist â'r elfennau, wedi eu cyssegrer yn y cymun, yn ol barn Luther a'i ganlynwyr.

Consuetude, *s.* (Ll. *consuetudo*) defod, arfer, cynnefod, moes, arferiad.

Consuetudinary, *a.* (o *consuetude*) defodol, arferol, cynnefodol, cynnefodig.

Consuetudinary law—cyfraith defod ac arfer; cyfraith moes a defod; cyfraith gynnefodol.

Consul, *s.* (Ll.) alfaer, uchelfaer, cyssylior, cyssylfaer, consul; trafnidfaer, trafnidior, negesydd masnachol, trafnnoddwr; cynghorydd.

Chief consul—pentrafnidfaer, pencyssylfaer, penconsul.

British consul—trafnidfaer Prydeinig, consul Prydeinaidd, cyssylior Prydeinig.

Roman consul—alfaer Rhufeinig, consul Rhufeinig, cyssylior Rhufeinaidd.

Consulage, *s.* trafnittoll.

Consular, *a.* (Ll. *consularis*) alfaeronol, alfaerol, uchelfaeronol; perthynol i gonsul *neu* alfaer.

Consulate, *s.* (Ll. *consulatus*) alfaeroniaeth, alfaeronaeth, uchelfaeroniaeth, uchelfaeronaeth, consuliaeth; trafnidioraeth, trafnidlywiaeth.

Consul-general, *s.* pencyssylior, pentrafnidfaer, prif drafnidfaer, pencyssylfaer, prif gyssylfaer, penconsul.

Consulship, *s.* alfaeroniaeth, consuliaeth; swydd, swyddogaeth, *neu* urddas consul neu uchelfaer; trafnidioraeth, trafnnegesiaeth, trafnnoddiaeth.

Consult *v.* (Ll. *consulto*, *consulo*) ymgynghori, ymgynghori â, cyssylio, cydymgynghori, cydgynghori; ymofyn â, gofyn cynghor, gofyn cynghor gàn; golygu, ystyried, gofalu; gofalu dros, gofalu am, darbod dros, darpar dros, pryderu am, edrych at, dysgwyl at; ymbwyllo, cymmeryd pwyll; cadw golwg ar; dychymygu, dyfeisio, bwriadu.

To consult together—cydymgynghori; ymgynghori â'u gilydd; ymgynghori yn nghyd.

To consult with one's self—ymgynghori âg ef ei hun; bwrw *neu* bwyso peth yn y meddwl; cymmeryd pwyll; meddylied, ystyried; ymgyssylio.

To consult an author—ymgynghori âg awdur; edrych beth à ddywed awdur; mynu gwybod beth a ddywed awdur; ymofyn âg awdur; chwilio awdur; cyssylio awdur; cyssylio âg awdur.

To consult one's interest—edrych ato ei hun; gofalu am ei les ei hun.

Thou hast consulted shame to thy house—cymmeraist gynghor gwarthus i'th dy (*Hab.* ii. 10).

Consult, *s.* ymgynghoriad, ymgynghorfa, cynghorfa.

Consultation, *s.* (Ll. *consultatio*) ymgynghoriad, cydymgynghoriad, cyssyliad, ymgyssyliad; ystyriaeth; cymmeriad cynghor a phwyll; myfyriaeth, myfyrdod; cynghor, cynghorfa, ymgynghorfa, cydgynghorfa; ymgynghoriaid, ymgynghorwyr.

Writ of consultation—cyssylwys.

To hold a consultation—ymgynghori, cydymgynghori, cyssylio; ymgynghori yn nghyd; cadw ymgynghorfa.

Consultative, *a.* (o *consult*) ymgynghorol, cyssyliol, cydgynghorol.

Consulter, *s.* ymgynghorydd, ymgynghorwr, cyssyliwr; gofynydd *neu* ofynwr cynghor; ymofynydd, ymofynwr; à ymgynghoro.

A consulter with familiar spirits—dewin.

Consumable, *a.* (o *consume*) ysadwy, difadwy, treuliadwy, llosgadwy, &c.

Asbestos is not consumable by fire—nid ysir urael gàn dân; ni lyag tân mo'r asbestinos; ni ellir llosgi *neu* ddifa yr urael â thân.

Consume, *v.* (Ll. *consumo*) difa, dyfetha, treulio, ysu, cyfysu; treulio ymaith, afradu, afradloni, difrodi, gwario, gwastraffu, anlloeddi; dystrywio, dinystrio, diddymu, drybenu, diffeithio, anrheithio, difawro; nychu, dihoeni, curio, edwino, edwi, deiwino, darfod, dyddfu, culhau, pallu, gwywo, todi, toddi ymaith, difianu, difanu, adfeilio, methu, salwino; gwneuthur pen am; llosgi, llwyrlosgi, goddeithio, llosgi yn llwyr; cegu, gwancio, hopranu, llyncu, traflyncu, bwyta.

To consume by fire—llosgi, goddeithio; difa *neu* losgi â than.

To consume in boiling—berwi ymaith; myned dàn y berw.

I am consumed by slow degrees—yr wyf yn darfod bob yn ronyn; yr wyf yn darfod yn raddol; yr wyf yn darfod wrth y blewyn.

To consume away—nychu, dihoeni, curio, edwino, &c.

Consuming away—yn darfod, gàn ddarfod, &c.; nychlyd, edwin, gwyw, darfodedig, dihoenus, dihoenedig, difan, difanw, curiol, &c.

Consumer, *s.* treuliwr, dyfethwr, afradwr, difrodwr, difäwr, ysydd, yswr, &c.

Consuming, *a.* ysol, llosgol, cyfysol, difaol, treuliol, difrodol, dystrywiol.

Consuming fire—tân ysol.

Consummate, *v. a.* (Ll. *consummo*) cyflawnu, diweddu, terfynu, gorphen, gorphenu, cwblhau, perffeithio, dybenu, cyfrbenu; gwneuthur yn gyfrben *neu* gyfrdo; darfod.

Consummate, *a.* (Ll. *consummatus*) cyflawn, perffaith, cwbl, hollol, cyflwyr, llwyr, allwyr, digoll, perffeithlawn, perffeithgwbl, cyfangwbl, cyflawngwbl, cyfrben; gorphenedig; eithaf; cyfr-.

Consummate happiness—eithaf dedwyddweh; dedwyddwch perffaith, cyflawn, *neu* ddigoll.

Consummate virtue—eithaf rhinwedd.

A man of consummate prudence—gwr cyfrgall, dyn cyfrddoeth, dyn llwyrgall, gwr cwbl-ddoeth, dyn perffeithgall; gwr hyfedr yn nhriniaeth negesau.

A man of consummate impudence—dyn llwyr ddigywilydd; dyn cwbl ddyeithr i gywilydd; dyn hollol ddigywilydd; dyn haerllug i'r eithaf.

Consummation, *s.* (Ll. *consummatio*) cyflawniad, perffeithiad, cwblhad, gorpheniad, diweddiad, dybeniad, cyfrbeniad; perffeithrwydd, perffeithder, cyflawnder; diwedd, pen, dyben, gorphen, terfyn; cyssymiad; angeu.

Perfect consummation—diwedd perffaith.

Consumption, *s.* (Ll. *consumptio*) traul; treuliad, treuliant; darfodiad, darfodiant, darfodedigaeth, nych, nychdod, nychedd, nychiant, nychglwyf, llifiant, y llifiant, disborthiant, edwinwst, edwst, dihoeniad; ysiad, cyfysiad, llosgiad, goddeithiad, difäedd, dyfethiad, difrodiad.

Home consumption—traul gartrefol.

Consumption of food—treuliant ymborth.

Joint consumption—cyttraul.

Pulmonary consumption—ysgyfeinwst, darfodiant ysgyfeiniol, darfodedigaeth ysgyfeiniog; cuad, auad.

Consumptive, *a.* (Ll. *consumptus*) treuliol, treuliadol, treuliannol; nychlyd, llifiannus, llifiannol, llifiannaidd, darfodedigol, darfodiannol; treulfawr, difaol, difrodol, ysol.

Consumptiveness, *s.* darfodedigrwydd, nychlydrwydd, llifiannusrwydd, llifiannoldeb, llifianneiddrwydd.

Consutile,† *a.* (Ll. *consutilis*) cydwniol, cydwaiedig.

Contabulate, *v. a.* (Ll. *contabulo*) byrddio, llorfyrddio, llawrfyrddio, llawrfyrddu, llorfyrddu, estyllodi llawr, llorio âg estyll.

Contabulation, *s.* (Ll. *contabulatio*) byrddiad, llawrfyrddiad, llorfyrddiad.

Contact, *s.* (Ll. *contactus*) cyffyrddiad, cyffwrdd, cyfhwrdd, cyfhyrddiad, cwrdd, cyhyrddiad, cyfarfod, gyrth, cymminedd, ymgyhwrdd, ymgyffwrdd, cyrddyd, cyflwch.

In contact—yn nghyd, wrth, yn ymyl; at eu gilydd; yn nghyfor, yn cydgwrdd, yn cydgyfarfod, yn cydgyffwrdd; yn cwrdd â'u gilydd; yn cyffwrdd eu gilydd.

To come in contact—cyffwrdd, cwrdd, cyfarfod, cyhwrdd, cyhyrddu, cyfhwrdd; dyfod yn nghyd; gyrthio, cyrddu, cyrddyd.

Mutual contact—ymgyffwrdd, ymgyffyrddiad, ymgyhwrdd, ymgyhyrddiad; cydgyffwrdd, cydgyffyrddiad, cydgyrddiad, ymletgynt.

Angle of contact—cyrddelin, cyffyrddongl, ongl gyffwrdd.

Contaction, *s.* cyffyrddiad, cyfhyrddiad, cyhyrddiad, cyrddiad, cyfarfodiad, gyrthiad, cymminad.

Contagion, *s.* (Ll. *contagio*) ymglwyf, haint, heintnaws, heinnaws, cynghlwyf, haint llŷn, haint glynol, clefyd cael, clefyd llusg; pla, heintnod; adwyth, gwenwyn; llwgr, llygriad; heintred, adwythred; cyffwrdd.

Contagioned, *a.* heintus, heintiog, heinniog.

Contagious, *a.* (ôr Ll. *contagio*) heintus, heintiol, heinnus, heintiog, llŷn, glynol, llynol, heintnodol, heintlynol, ymlynol, cynghlwyfol, cynghlwyfus, heintddwyn, heintddygol; adwythig, gwenwynig, gwenwynol, llygrol; angeuol, marwol, peryglus, echryslawn.

Contagious disease—haint llŷn, haint glynol, haint llynol, haint cael, clefyd cael, clefyd llusg, cynghlwyf, cynghaint; haint ymlynol, &c.

Contagiousness, *s.* heintusrwydd, heinnusrwydd, heintiogrwydd, glynoldeb; adwythigrwydd, gwenwynigrwydd, gwenwynder, heintnodoldeb.

Contain, *v.* (Ll. *contineo*) cynnwys; dàl, dala; cymmeryd, derbyn, *neu* ddàl ynddo; gannu, cannu, genni, annu, angu, gweddu; amgyffred, cyffred; cymmeryd i mewn; attal, ffrwyno, rhwystro, cyfattal; cadw i mewn; dàl i mewn; ymgadw, ymgynnal, ymattal, ymarbed; bod yn ddiwair.

To be contained—gannu, genni, annu, angu, gweddu; cael ei gynnwys; bod yn gynnwysedig.

As much as the vessel could contain—cymmaint ag a gannai, a annai, *neu* a gynnwysai y llestr; cymmaint a allai y llestr ei ddàl; llonaid y llestr.

Convince, *v. a.* (Ll. *convinco*) argyhoeddi; dysbwyllo, darbwyllo, dirbwyllo, llwyr argyhoeddi, diddadlu; gorchfygu *neu* ladd à rheswm; dangos yn oleu i; profi yn eglur i; arbrofi; ceryddu; peri credu, coelio, deall, *neu* gyfaddef; ennill y maes; profi yn euog; euogbrofi; † gorchfygu.

Convincement, *s.* (o *convince*)=*Conviction.*

Convincer, *s.* argyhoeddwr, argyhoeddydd, darbwyllwr, diddadlydd; amlygwr.

Convincible, *a.* (o *convince*) argyhoeddadwy; disbrofadwy.

Convincing, *a.* anwrthwynebol, argyhoeddol, argyhoeddiadol, dïymwad, diddadl, eglur, coelbar, darbwyllus, darbwyllawl; à bair ei goelio; à bair argyhoeddiad; à ddwg argyhoeddiad gydag ef.

Convincingly, *ad.* yn anwrthwynebol, &c.; tu hwnt i bob dadl *neu* ammheuaeth; yn eglur ddigon; gydag argyhoeddiad.

Convincingness, *s.* dïymwadrwydd, anwrthebolrwydd, anwrthwynebedd, argyhoeddolder, eglurder, coelbaredd.

Convitious,† *a.* (Ll. *convitior*) gwaradwyddus.

Convive,† *v. a.* (Ll. *convivo*) gwledda, arfolli, difyru.

Convivial, (Ll. *convivialis*) gwleddol, cydwleddol, cywleddol, gwesteiol, cydwestol, gwestfaol; llawen, difyr, gorhoenus, gorawenol, gorawenus, llonwych, llon, siriol, digriflon, difyrus, dyddan, difyrgar, digriflan; cyfeillgar, cymdeithgar, cymdeithasgar.

Conviviality, *s.* gwleddoldeb, cydwleddoldeb, cywleddoldeb, cydwleddiad; hwyl lawen, ddifyr, orhoenus, *neu* lonwych; difyrgarwch, digriflonder, llonwychedd; gorhoen, gorawen, gorhoenusrwydd.

Convocate, *v. a.* (Ll. *convoco*) cydalw; cydwysio; gwysio *neu* alw yn nghyd; gwysio.

Convocation, *s.* (Ll. *convocatio*) cymmanfa, eisteddfod; cydwys, cydwysiad, cydalwad; glwys-gymmanfa, glwys-eisteddfod, cymmanfa o wŷr eglwysig, cymmanfa eglwysig, llensenedd; gorsedd.

House of convocation—cymmandy, cynnulldy, dadleudy, cynghordy, cyfrdy, ty yr ymgynnull, ty y gymmanfa.

Convoke, *v. a.* (Ll. *convoco*) cydalw, cydwysio, gwysio; galw, casglu, *neu* gynnull yn nghyd; dyfynu.

Convolute, } *a.* (Ll. *convolutus*) cydroledig,
Convoluted, } ymroledig, amdorchedig, cydroliog, ymdorchol, ymdorchedig, cyttorchog, amdroawl, amdröedig, rholiog.

Convolution, *s.* (Ll. *convolutio*) ymroliad, cydroliad, ymdorchiad, amdorchiad, canrawd, cyttorchiad, cynghorniad, dyrwyniad, ffilliad, rholiad, amddyrwynad, cyd-ddyrwyniad.

Convolve, *v. a.* (Ll. *convolvo*) cydrolio; ymrolio am *neu* ar; amdorchi, amdröi, cyttreiglo, cyttreillio, cyttorchi, sidio; ymdorchi am; cyd-ddyrwyn, cydrwyno; dyrwyn yn nghyd; rholio yn nghyd.

Convolvulus, *s.* (o'r Ll. *convolvo*) cynghafog, ffithys.

Convoy, *v. a.* (Ff. *convoyer*; Ll. *conveho*) canymdoi, canymdöi, canymdaith, canymdeithio, canhebrwng, teithnoddi; amddiffyn ar daith; myned yn borth *neu* amgeledd i un *neu* i beth ar hyd ei ffordd.

Convoy, *s.* canymdo, canymdaith, nawddosgordd, nawddlu, diffynlu; nawddfyddin; nawddlynges; byddin *neu* lynges amddiffyn; canymdöydd, canymdeithydd, canhebryngydd, canymdöwr; canymdoad; † trosiad.

Convoy ship—nawddlong, llong ganymdo.

Convulse, *v. a.* (Ll. *convello, convulsus*) dirdynu, dirgrynu, diryagwyd, dirgynhyrfu, dirgyffröi, pango, pangu; ysgwyd.

Convulsion, *s.* (Ll. *convulsio*) dirdyniad, dirdynfa, dirdyn, dirgryn, dirgryd, dirgrynad; pang, dirdynwst, pangiad; dirgynhwrf, dirgyffro, dirgyffroad, dirgynhyrfiad, terfysg, cynhwrf, trabludd, cyffro, brythwch.

Convulsion fit—pang, gloes o ddirgryn, dirdynloes.

To have a convulsion fit—pango, pangu; cael gloes o ddirgryn; cael dirdynloes.

Convulsionaries, *s. pl.* (o *convulsion*) Dirdynogion, Dirdyniaid = math o benboethiaid yn y canrif diweddaf, yn Ffrainc.

Convulsive, *a.* (Ll. *convulsus*) dirdynol, pangol, dirgrynol, dirgrydol, dirgynhyrfiol.

Cony, } *s.* (Is. *konyn*; Al. a Sw. *kanin*; Ll.
Coney, } *cuniculus*; Gw. *cuinin*) cwningen, ffiogen: *pl.* cwningod, ffiogod.

Full of conies—cwningog, llawn cwningod.

Cony-burrow, *s.* twll cwningen, cloddfa cwningod, ceudwll cwningod, cwning-gaer.

Cony-catch, *v. a.* (*cony* a *catch*) twyllo, hocedu, castio; tymmigo; chwareu'r chwiwgi.

Cony-catcher,† *s.* chwiwgi, lleidr, twyllwr, twyllydd, tymmigwr.

Cony-catching,† *s.* twyll, hoced; cellwair, cydgam.

Cony-warren, *s.* cwningfa, cwningfaes, cwning-gaer.

Cony-wool, *s.* manflew cwningod, blewiach cwningod, ffwrw cwningen, blew cwningod.

Conyza, *s.* (Gr. *conuza*) cedowydd, cedowys, anmhrydlwyd.

Coo, *v. n.* (o'r sain) grŵna, grŵnan; cwyno, cwynfan, *neu* leisio fel colomen *neu* ysguthan.

Cooing, *s* (o *coo*) grŵn, grŵnan, grŵnad; cwyn, cwynfan.

Cook, *v. a.* (Is. *kooken*; S. *gecocnian*; Ll. *coquo*) coginio, ceginio, cogio, coginiaethu, ceginiaethu, arlwyo, trin, parotöi, darparu, darmerthu; arlwyo ymborth; trin bwyd.

Cook, *s.* (S. *coc*; Ll. *coquus*; Gw. *coca*) cogydd, cog, ceginydd, ceginwr, arlwywr, trinydd bwyd: *f.* coges, cogyddes, ceginес.

Pastry cook—pasteiwr, pasteiydd, cogydd pastai, cyffeithgog, pasteigog, cogydd pasteiod, moethgog: *f.* pasteies, pasteiwraig, pasteigoges, moethgoges.

Cook's shop — bwytty, bwydfa, ceginfa, cogwerthfa, bwydwerthdy.

To play the cook—bod yn gog *neu* gogydd; chwareu'r cog; ceginiaethu.

Cook, Cook-fish, } cogbysg, y bolfelyn.

Cook, *v. n.* (o'r sain) canu cwcw.

Cookery, *s.* cogyddiaeth, ceginiaeth, coginiaeth, arlwyaeth, bwyttriniaeth, triniad bwyd, triniaeth ymborth.

Cookmaid, *s.* (*cook* a *maid*) cogyddes, cegines, coges, cogines.

Cookroom, *s.* (*cook* a *room*) cegin, cegindy.

Cool, *a.* (S. *col*; Al. *kühl*) oeraidd, lledoer, llugoer, oer, addoer, oerllyd; go oer, lled oer, tràn oer, anwresog; awelog; tawel, araf, llariaidd, pwyllog, arafaidd, digyffro, digynhwrf, diderfysg, diddig, llary, tawelfryd; diofal, difater, dïymdawr; diserch; oerfelgar; ysgafn; cysgodog.

To make cool=*Cool, v. a.*

To grow cool=*Cool, v. n.*

A cool place—oerfa, lle oeraidd.

A cool sheltered place—lle oerglyd, màn oergled; oerfa gled.

To become cool—oeri, &c.; ymlaesu, ymlacäu, ymlacio; myned yn ddiofal, yn ddifater, *neu* yn ddïymdawr.

Cool, *s.* oer, lledoeredd, llugoeredd, oerni, oerder, yr oer; y göer, y gŵer, y cysgod, y cyhudd.

In the cool of the day—gydag awel y dydd (*Gen.* iii. 8).

Cool, *v.* oeri, lledoeri, llugoeri, addoeri, oeriain, diboethi; gwneuthur yn oer; myned yn oer; tawelu, arafu, llarieiddio, llinaru, llonyddu, pwyllogi, esmwythäu; llaesu, ymlaesu, ymlacäu; myned yn ddiofal; tori awch.

To cool one's self—ymoeri.

To cool one's courage — tori awch un; digaloni, gwanhau, llyfrhau, *neu* wangaloni un; llaesu dwylaw un.

Cool-cup, *s.* oerlyn, oergib, dïod oeri.

Cooler, *s.* (o *cool*) oeriadyr, oerydd, oeriedydd, mit, llestr oeri; llestr i oeri peth ynddo.

Cool-headed, *a.* pwyllus, pwyllog, tawel, hirfrydig, diffrom, disar.

Cooling, *a.* (o *cool*) oerol, lledoerol, llugoerol, oeriadol; à dueddo i oeri ac adfywio.

Cooling place — oerfa, oerfan, göerfa, gŵerfa.

Cooling medicines—cyfferioerol, oergyfferi; meddygiaethau naturiol i oeri ac esmwytho.

Coolish, *a.* (o *cool*) lledoer, llugoer, lled oer, go oer, tràn oer, lled oeraidd, tràn oerllyd.

Coolness, *s.* oerder, oeredd, oerni, oerdra, lledoeredd, lledoerni, llugoerder; oerfelgarwch, oerfel, anwresogrwydd, diboethder; arafedd, pwyll, pwyllineb, tawelwch, hirfrydedd, tawelfryd; difaterwch, diofalwch, diflasdod, diflasrwydd, clauarwch; anhoffedd.

Cooly, *s.* cludydd (yn yr India Ddwyreiniol).

Coom, *s.* (Ff. *cambouis*) huddygl, parddu; echelsaim, iraid echel, saim troell.

Coomb, Comb, } *s.* (Gr. *combos*) hobaid, hob, hanner crynog, pedwar pwysel, pedwar llestraid Caerwynt.

Coop, *s.* (Is. *kuip*; Ll. *cupa*) cwb; ffronc, cut; cut ieir, cwb ieir; adardy, adargaes, iargut; lloc; milgut; baril, casgen; argae.

Coop, *v. a.* ffroncio, cutio, llocio; rhoi mewn ffronc, lloc, cut, *neu* argae; cau ar beth mewn ffronc; cau, argau, cau ar; carcharu.

To coop up — cau ar, argau, gwarchau, gwarchau ar, cloi ar; cau *neu* gadw i mewn; amgylchu, amgylchynu; rhoddi mewn ffronc, cut, *neu* argae.

To coop in—cau, argau, cadw, cloi, *neu* warchau i mewn; amgylchu, amgylchynu; cau, argau, *neu* gloi ar.

Coopee, Coupee, } *s.* (Ff. *coupé*) ystum mewn dawns.

Cooper, *s.* (o *coop*; Is. *kuiper*; Al. *küfer*) cylchwr, cylchydd, cylchur, cylchlestrwr, saer cylchlestri, barilwr, barilydd, tunellwr.

Cooper's knife—cyllell ddeugarn.

Cooper's axe—neddyf, neddai, bwyell gam, bwyellan, bwyell cylchydd.

Cooperage, *s.* (o *cooper*) cylchyddfa, cylchurdy; cylchurdal.

Co-operate, *v. n.* (Ll. *con* ac *opero*) cydweithio, cydweithredu, cyweithio, cyweithäu, cydymegnïo.

Co-operation, *s.* cydweithiad, cydweithrediad, cyweithiad, cydwaith, cydweithred, cywaith, cyweithiant, cyweithäed, cydober, cyfober, cyweithi, cyweithâd.

Co-operative, *a.* cydweithiol, cyweithiol, cydweithredol, cydoberol, cyweithaol, cydymegnïol; cyfarfaethol.

Co-operator, *s.* cydweithydd, cydweithiwr, cyweithydd, cyweithiwr, cydweithredwr, cyweithiedydd, cydymegnïwr.

Coopering, *s.* (o *cooper*) cylchyddiaeth, cylchwriaeth, cylchuriaeth, cylchlestraeth, barilaeth, saernïaeth, cylchlestri.

Co-optate, *v. a.* (Ll. *coopto*) cyd-ddewis, cydddethol, cyfddewis.

Co-optation, *s.* (Ll. *cooptatio*) mabwysiad, cydfabwysiad, cymmeriad, dewisiad.

Co-ordinance, *s.* cydosodaeth, cydbenodaeth, cyttrefniad, cydordeiniaeth.

Co-ordinate, *a.* (Ll. *con* ac *ordinatus*) cydradd, cyfradd, cyfurdd, cyfurddol, cyfraddol, cydraddol; cyfochr, cyfrestrol.

Co-ordinateness, *s.* cydraddoldeb, cyfraddoldeb, cyfurddoldeb, cydraddolrwydd.

Co-ordinates, *s. pl.* cyfraddolion, cydraddolion, cyfrestrigion, cyfrestrolion.

Co-ordination, *s.* cydraddiad, cyfraddiad, cyfrestriad; cyttrefniad.

Sea coot—morgotiar, morgwtiar, cotiar y môr.

Coot, *s.* (Is. *koet*) cotiar, cwtiar, dyfriar, rhegen y dwfr, iar y dwfr, iar ddwfr foel, bronwen.

Cop, *s.* (S. *'cop, copp*; C. *cob, cop*; Al. *kopf*) copa, cop, cob, cobyn, copyn, siobyn, siob, crib, coryn, twff.

Cop-castle, Cob-castle, } castell ar fryn, cob-gastell, castell cop.

Copaiva, Copaiba, Capivi, } *s.* (Ysp. a Port.) math o sudd ystoraidd neu durpant, à lifa o bren yn Neheudir America.

Copal, *s.* (*copalli*, yn y Mecsicöaeg) ystor, sudd, neu glaernodd ceuledig pren à dyf yn Mecsico; ystorlws.

Copaline, *s.* copalain=taeth neu sylwedd hynod à geir mewn copal.

Copang, Coban, } *s.* darn bath yn mysg yr Iapanwys.

Coparcenery, Coparceny, } *s.* (*co* neu *con*, a Norm. *parcenier*) cydetifeddiaeth, cyttifedd-

faeth, cyfetifeddiaeth, cyttreftadaeth, cyttifeddiant, cydfeuedd, cyfetifeddran.

Coparcener, *s.* (*co* a *parcener*) cydetifedd, cyttifedd, cyfetifedd, cyttifeddwr, cydetifeddwr, cyttreftadog, cydfeddiannydd, cydbriodor.

Copartment, † *s.* = *Compartiment, Compartment.*

Copartner, *s.* (*co* a *partner*) cyfranog, cyfranogydd, cyfranogwr, cydwr, cydranog, cydranwr, cydfaelur; cydymaith, cyfaill; cydswyddog.

Copartnership, *s.* cyfranogaeth, cydranogaeth, cydgyfranogaeth, cydraniaeth, cydfaeliaeth, cydfaeluriaeth, cyttriniaeth, cydswyddogaeth; cyfranogiaid.

Copatan,† *a.* (o *cop*) dyrchafedig; blaenfain, pigfain.

Copatriot, *s.* (*co* a *patriot*) cydwladgarwr, cywladgarwr.

Cope, *s.* (S. *cæppe;* C. *côl*) offerendor, côb, toryn, toryn offeiriad; cwcwll, cwfl, penwisg; mwd; mydlen, gortho, nenlen, nenfwd; enfys, enfysg; trum, trumau, trumen, crib; ceugant, cryngant.

Under the cope of heaven—tàn *neu* dàn y nefoedd; tàn lèn y nefoedd; tàn y nen; tàn y ffurfafen; tàn entrych awyr; tàn yr entrych.

Cope, *v. a.* toroni; gwisgo megys â thoryn *neu* gôb; trumio, bangori, copio, mydu; rhoi crib ar; tori pig *neu* grafangau hebog; † cofleidio.

Cope, *v. n.* (C. *cobio;* Sw. *käppas, kifwa*) ymdrechu, ymdrech, ymladd, ymwrio, ymgystadlu, cystadlu, ymgyrchu, amryson, ymbrofi, ymegnïo, ymgeisio, ymorchestu, brwydro, cysbwyo, cobio, gwrthsefyll, cyttaro, ymdynu; gwrthwynebu yn llwyddiannus; tynu 'r dorch; sefyll; † gwobrwyo; † cyfnewid.

Copeck, *s.* (Al. *kopeke*) copec, ceiniog Rwssia.

Coped, *a.* gorchuddiedig â chrib, trum, *neu* gopa; trumiog, trumain, cribog; torynog.

Copeman,† *s.* (S. *ceapman*) masnachwr, maelier.

Copesmat,† *s.* (*cope* a *mate*) cyfaill, cydymaith.

Copestone, *s.* (*cope* a *stone*) topfaen, copfaen, penfaen.

Cophosis, *s.* (Gr.) byddarwch, byddardra, bydderi.

Copier, } *s.* (o *copy*) adysgrifydd, adysgrifwr,
Copyist, } adysgrifenwr, adysgrifenydd, cysgrifwr, cysgrifydd, cyfysgrifydd, tynysgrifydd, dadysgrifwr, ail ysgrifenydd; adluniwr, eilyniwr, eiluniwr; dynwaredwr, dynwaredydd, efelychydd; llênysbeilydd.

Coping, *s.* (o *cope*) trum, crib, truman, trumen, bangoren, bangor, topres, cobres, copiad.

Coping of a wall—crib mur, trum gwàl; llogail mur (1 *Bren.* vii. 9); cload gwàl.

Coping of a house—trum ty.

Feather-edged coping—trum plufin, crib blufin.

Saddle-back coping—trum cefnbant, trum cefnbantog.

Flat coping, } trum gwastad, crib am-
Parallel coping, } hafal.

Coping over—osgdrum, trosdrum, trum osgoawg, crib osgoawg.

Copious, *a.* (Ll. *copiosus;* Ff. *copieux*) helaeth, helaethlawn, ehelaeth, dïamdlawd, dibrin, llawn, cyflawn, lluosog, amlderog, aml, digonol; cynnwysfawr; toreithiog, haflug.

Copiousness, *s.* helaethrwydd, helaethdra, helaethder, ehelaethrwydd, digonedd, arddigonedd, digonolrwydd, digonoldeb, haflug, amlder, amledd, amldra, llawnder, cyflawnder, gorlawnder, haflugrwydd, haflugder, toraeth, edrysedd, lluosogrwydd, anmhrinder; gordyfiant.

Copist, *s.* (o *copy*)=*Copier, Copyist.*

Copland, *s.* (*cop* a *land*) corneldir, copdir; darn o dir yn terfynu yn bigfain.

Coplant,† *v. a.* (*co* a *plant*) cydblanu.

Coportion, *s.* (*co* a *portion*) cyfran, cydran.

Copped, } *a.* (o *cop*) pigfain, blaenfain, pen-
Coppled, } fain, brigfain; cobynog, copynog, copog, copaog, cribog.

Copped like a sugar-loaf — pigfain fel torth sugr.

Coppel, } *s.* (Ll. *cupella*) coethadyr, coethgib,
Cupel, } coethlestr, puradyr, toddyr, toddlestr.

Copper, *s.* (Is. *koper;* Sw. *koppar;* Al. *kupfer:* Ll. *cuprum*; o ynys (*Cyprus*, meddylir) copr; rhudd-efydd, elydr, elydn, efydd.

Fine copper — pres melyn da (*Ezra* viii. 27).

Copper mixed with zinc—pres; copr cymysg â sinc.

Copper dust, } copregrid, rhwd
Diacetate of copper, } copr, efyddrwd, gwyrddrwd, egrid copr, llwch copr.

Copper, *a.* o gopr, copraidd, coprog.

Copper pan—padell efydd, efydden.

Copper vessel — efyddyn, efydden, llestr efydd, padell efydd, efyddell, efyddlestr.

Copper, *s.* efydden, efyddan, efyddell, pan efydd, pair, efyddyn; copr, pres, mân arian, ceiniogau, newid mân.

Copper, *v. a.* copro, efyddu, efyddeidio; cuddio, gorchuddio, *neu* wisgo â chopr.

Copperas, *s.* (It. *copparosa;* Ff. *couperose*) copras; du y crydd.

Blue copperas, } copras glas, careg las,
Sulphate of copper, } efyddhal, efyddhalan, coprhalan, efyddgris, glasfaen.
Blue stone, }
Cyanose, }
Blue vitriol, }

Green copperas, } copras gwyrdd, ufelgris haiarn, haiarnhal.
Sulphate of iron, }
Green vitriol, }

White copperas, } copras gwŷn, ufelgris sinc.
Sulphate of zinc, }
White vitriol, }

Copper-belly, *s.* torfelen, y dorfelen, y dorgopr =sarff Americaidd.

Copper-bottomed, *a.* copr-waelod, copr-waelodog.

Copper-coloured, *a.* cochfelyn, (*f.* cochfelen); o liw y copr; coprliw, melyngoch, efyddliw.

Coppered, *a.* efyddaid, coprog, copraid; caesog.

Copper-head, *s.* (o'i lliw) pencopr, pencopren, y sarff bencopr.

Copperish, *a.* (o *copper*) copraidd; efyddaidd, elydraidd.

Copper-nose, *s.* trwyn coch, trwyn coch crugynog.

Copper-ore, *s.* mwn copr, mwyn efydd.

Copperplate, *s.* (*copper* a *plate*) copryslafn,

efyddlafn, coprlafn, preslafn, efyddblad, llafn copr; argrafflafn; coprargraff.

Copperplate illustrations — egluriadau ar gopr.

Coppersmith, *s.* gof copr, coprof; efyddof, gof efydd.

Copperwork, *s.* gwaith copr, coprwaith, efyddwaith, gwaith efydd.

Copperworm, *s.* gwyfyn, mochdyn, meisgyn.

Coppery, *a.* (o *copper*) copraidd, efyddaidd, efyddaid; â blas *neu* arogl copr arno; o gopr.

Coppice, } *s.* (Norm. *coupiz;* Gr. *coptó*) prys-
Copse, } goed, prysgwydd, prysg, prys, glasgoed, glaswydd, manwydd, mangoed, prysglwyn, irlwyn, glaslwyn, pryswydd, prysgl; coedwig; prysel, prysain, prysgle, brycell, prysceldir.

Hazel copse—prysgyll, collwydd, collwyn, prysg cyll.

Coppled, *a.* (o *cop*) pigfain, blaenfain, penfain, brigfain, conaidd.

Copple-dust, *s.* coethlwch, llwch coethi, llwch delgoethi.

Copple-stones, *s. pl.* crynfain, crynfeini, grofeini, grofain, caregos, cerygos, creigarnau, treiglarnau.

Coprolite, *s.* (Gr. *copros* a *lithos*) tomfaen, eulfaen, tom maenedig: *pl.* tomfeini, tomfain.

Coprolitic, *a.* tomfeiuin, tomfeinig, tomfaenaidd.

Copromesia, } *s.* (Gr. *copros* ac *emeó*) tomgyf-
Copromesis, } og.

Coprophaga, } *s. pl.* tomysolion, eulonysiaid,
Coprophagans, } tomchwilod.

Coprophagous, *a.* (Gr. *copros* a *phagó*) tomysol, eulonysol; yn ymborthi ar dom, eulon, *neu* ysgarthion.

Copse, } *s.* = { *Coppice.*
Coppice, } { *Copse.*

Copse, *v. a.* pryselu, preselu, cadw prysgoed.

Copsy, *a.* prysgog, prysgoedog, prysgwyddog, manwyddog, prysog, pryselog, pryswyddog.

Copula, *s.* (Ll.) cyssylliteb, cyssylltair, cyplysair, cwplws, cysswllt=y gair à una y sylfon a'r adroddol mewn gosodiad rhesymegol.

Copulate, *a.* (Ll. *copulatus*) cyssylltedig, cynglyn, cynglynol, cynglynedig.

Copulate, *v.* (Ll. *copula*) cydio, ymgydio, ymrain, ymrewydd, ymrewyddu, ymreain, cyridio, cnuchio, ymgyplu, ymglymu, ymgymharu, cydgnodio; cymharu, uno, cyplu.

Copulation, *s.* (Ll. *copulatio*) cyd, cydiad, cyrid, cyridiad, cydgnawd, cydgnodiad, ymread, ymrain, ymrewydd, cnuchiad, cnuchiant, cywestach, ymrewyddiad, cynghlwm, cynglyn; cypliad, cyssylltiad, ymgypliad, cynghlymiad, cymhariad.

Incapable of copulation—heb allu ymrain.

Copulative, *a.* (Ll. *copulativus*) cydiadol, cyssylltiadol, cyssylltiol, cynglynol, cyssylltedigol, cyplysol, ymgyplys, cydiol, unol, cynghlymol; cyridiol, ymreiniol, ymrewyddol.

Copulative conjunction—cyssylltiad cydiadol, cyssylltiad cydiol, cyssylltiad cynglynol, cyssylltiad cyssylltiol, cyssylltair cyssylltiol, cynglyn, cynghlwm: *pl.* cydiadolion.

Copulative, *s.* = *Copulative conjunction.*

Copy, *s.* (Ff. ac Al. *copie;* It., Ysp., a Port. *copia*) adysgrif, adysgrifen, dadysgrif, tynysgrif, dadysgrifen; cyfysgrif, cyfysgrifen, cysgrifen, cysgrif; cynysgrif, cynysgrifen, cynsgrifen, cynsgrif; ysgrifwaith, ysgrifen, ysgrifed, llawysgrifen; cyfargraff; ad argraff; adlun, eilyn, eilun; cynllun, cynddelw, cynnelw, cynbryd, bath, egluryn, cynddull, rhagddull, rhaglun; gwrthran, gwrthysgrifen; ail ysgrifen, eilyn ysgrifen; testyn, ystyr, cyflun, arddull; llyfr, un llyfr; gwaith gwreiddiol; ysgriflyfr; cysgriflyfr, ysgriflun; argraffiad.

Printed copy—cyfargraff.

First copy—cynllun, cynnelw, cynddelw, cynffurf, cynysgrifen, cynysgrif.

Is it an original, or a copy?—ai cynllun ai adlun yw? ai cynllun neu adlun ydyw?

To set one a copy—gosod cynllun, rhaglun, cynffurf, rhagffurf, *neu* gynnelw i un; ysgrifenu o flaen un; ysgriflunio i un.

Certified copy—cysgrif ardystiol, &c.

He wrote a copy—efe a ysgrifenodd gopi (*Ios.* viii. 32).

Copy, *v.* adysgrifenu, adysgrifo, adysgriflo; dadysgrifo; cyfysgrifo, cyfysgriflo, cysgrifo, cysgriflo; adlunio; efelychu, dynwared, cynnelwi, cynddelwi; tebygu, ymdebygu; ymdrechu bod yn debyg; canlyn cynllun; bathu; tynu allan, tynu o.

Copy out — adysgrifenu, adlunio; tynu allan, tynu o.

Proverbs which the men of Hezekiah copied out—dïarebion y rhai a gasglodd gwŷr Hesecïah (*Diar.* xxv. 1).

Copying machine — adluniadyr, ermig adlunio, peiriant cysgrifo.

Copying press — adlunwasg, cysgrifwasg, gwasg adlunio.

Copy-book, *s.* cysgriflyfr, ysgriflyfr, llyfr ysgrifenu.

Copyer, } *s.* = *Copier, Copyist.*
Copyist, }

Copyhold, *s.* (*copy* a *hold*) twncafael, nawddfeddiant, twncfeddiant, deillfeddiant, daliad wrth adysgrif, gafael adysgrif, dalfa dàn wrogaeth.

Copyhold land—tir cyfrif, tir cyllidus.

Mere copyhold, } caethafael, caethddaliad,
Base tenure, } taiogafael.

This affair toucheth your copyhold — y mae'r mater hwn yn perthyn yn agos i chwi; mae'r mater hwn o ganlyniad *neu* berygl nid bychan i chwi.

Copyholder, *s.* nawddfeddiannwr, deillfeddiannydd, twncddeiliad; perchen tir wrth adysgrif rhol llys.

Copyist, *s.* (o *copy*) adysgrifydd, adysgrifwr, adysgrifenydd, cyfysgrifydd, cysgrifwr, cysgrifydd, dadysgrifydd, tynysgrifwr; adluniwr, eilyniwr, eiluniwr; dynwaredwr, efelychwr, efelychydd.

Copyright, *s.* (*copy* a *right*) awdurfraint, awdurfeddiant, hawlysgrif, llênfraint, hawl awdur; hawl ar waith gwreiddiol; ysgrifhawl, ysgrifraint.

Coquallin, *s.* gwiwer anhyddring.

Coquelicot, } *s.* (Ff. *coquelicot*) pabi gwyllt,
Coquelico, } pabi coch yr yd, pabi cryuben llyfn, llygad y cythraul; lliw y pabi.

Coquet, } *s.* (Ff.) hoeden, mursen, coegen,
Coquette, } chwidwen, penhoeden, chwidren,

mursogen, coegen dwyllodrus, twyllen, twyllodres, ffiloges.
Coquet, *v.* hoedena, mursenu, coegena, chwidwena, rhithgaru, twyllgaru, esgusgaru; chwareu yr hoeden, &c.; anwadalu; ymgaru â phawb heb feddwl ymbriodi â neb; tynu neu ddenu serch un ac yna ei wrthod.
Coquettish, *a.* hoedenaidd, mursenaidd, coegenaidd, chwidwenaidd, mursogenaidd.
Coquetry, *s.* (Ff. *coquetterie*) mursendod, hoedendod, coegendod, hoedenwaith, chwidwendod, rhithgariad, twyllgariad, esgusgariad, hoedeneiddrwydd, murseneiddrwydd; hoedeniad, coegeniad; gwagsawrwydd, anwadalwch.
Cor. *s.* (H.) mesur Iuddewig, yr un ag omer= 10 bath neu ephah; neu 75 galwyn, 5 peint.
Cor, *s.* (Ll.) calon, y galon.
Cor Caroli—Calon Carl=cydser gogleddol, rhwng gwallt Berenica a'r Arth Fwyaf.
Cor Leonis — Calon y Llew = seren o'r maintioli mwyaf yn nghydser y Llew.
Coracina, *s.* (Gr. *corax*) gofrain.
Coracinæ, *s. pl.* (Gr. *corax*) ffrwythfrain.
Coracle, *s.* (o'r C.) corwgl, corwg, cwrwgl, cwrwg.
Coracoid, *s.* (Gr. *corax* ac *eidos*) branylfindwddf, branbigoddfyn.
Coracoid, *a.* branylfinaidd, branbigaidd, gylfinaidd.
Coral, *s.* (Gr. *corallion*; Ll. *corallium*) gwylar, cwrel, lluchochr, llysiau y llongwr.
Coral, *a.* o wylar, o gwrel; gwylaraidd, cwrelaidd, lluchochraidd, lluchochrol.
Coral islands—ynysoedd gwylar.
Coral rocks — creigiau gwylar, gwylargreig.
Corallaceous, *a.* (o *coral*) gwylaraidd, cwrelaidd, lluchochraidd.
Coralliform, *a.* (o *coral* a *form*) gwylaraidd, cwrelaidd, gwylarddull, gwylarwedd; camfforchog.
Coralligenous, *a.* (*coral*, a Gr. *gennaô*) gwylarddwyn, cwrelddwyn, gwylarddygol, gwylarog, lluchochrog; yn cynnyrchu gwylar.
Coralline, *a.* (o *coral*) gwylaraidd, cwrelaidd, gwylerin, gwylerain, lluchochraidd; yn cynnwys gwylar.
Coralline, *s.* gwylarig, gwylarlof, gwylarbryf, gwylarfil: *pl.* gwylarigion, gwylarolion, gwylarlofod; maenfilod.
Corallinite, *s.* (o *coralline*) gwylarfaenan, gwylarfaen.
Corallite, *s.* (o *coral*) gwylarith, gwylarfaen.
Corallium Rubrum, *s.* gwylar coch, cochwylar.
Corallodendron, *s.* (*coral*, a Gr. *dendron*) gwylarwydd, cwrelwydd, gwylargoed.
Coralloid, *a.* (*coral*, a Gr. *eidos*) gwylar-
Coralloidal, aidd, cwrelaidd, gwylarddull, gwylarwedd; tebyg i lun gwylar.
Coralloid, *s.* cornwyg, cornwymon, gwylarwyg; gwylarwymon.
Corallorhiza, *s.* (*coral*, a Gr. *rhiza*) gwylarwraidd.
Coral-rag, *s.* gwylargalch, calchwylar.
Coral-island, *s.* ynys wylar, gwylar-ynys, ynys gwrel.
Coral-reef, *s.* gwylargraig, basgraig wylar, creigres wylar, iselgraig wylar.
Coral-root, *s.* gwylar-wraidd, cwrel-wraidd.
Coral-tree, *s.* gwylarwydd, gwylargoed, cwrelwydd: *sing.* gwylarwydden.
Coral-wort, *s.* deintlys.
Coranich, Cronach, *s.* (Gael. *coronach*; Ysg. *cronack*) galarnad, galargan, galareb, alaethgan, marwnad.
Corant, *s.* (Ff. *courant*) dawns rhedegog, nwyfddawns, rhedegddawns.
Corb, *s.* (Ll. *corbis*) basged glo, basged lo, glofasged, glogib, cawell; adeiladdurn, corbed.
Corban, *s.* (H.; Ll. *corbis*; Al. *korb*) elusengist, elusgist, alwysgist, arlwysfa, cyff elusen, cist y tlawd; coffr elusen, blwch elusen; elusen, alwysen, rhodd, corban; rhodd i Dduw; aberth.
It is Corban, that is to say, a gift — Corban, hyny yw, rhodd (*Marc.* vii. 11).
Corbe,† *a.* (Ff. *courbe*) crwca, cam.
Corbeil, *s.* (Ff. *corbeille*) caerfasged, caergawell, nawddgawell, cawell, corbedwaith.
Corbel, *s.* (Ff. *corbeille*; It. *corbello*) corbal, corbed, gobenyddiad: *dim.* corbedyn, corbelyn.
Corbel, *v. a.* corbelu, corbedu.
Corbel-sous, *s.* dirgorbal, corbed hanfodol.
Corbel-steps, *s. pl.* corbedrisiau, corbelrisiau.
Corbel-table, *s.* corbedres, corbedrawd, corbalred, corbedred; corbedau.
Corbets, Corbetts, *s. pl.* (Ff. *corbeille*) corbedau, corbalau; eilunfau, delwgelloedd.
Corby, *s.* (Ff. *corbeau*; Ll. *corvus*) cigfran.
Corchorus, *s.* (Gr. *coreô*, *coreô*) hocys yr Iuddew.
Corcule, Corcle, *s.* (Ll. *corculum*, bychanig o *cor*) calon, calonen, calon had, hadgalon.
Cord, *s.* (C.; Ff. *corde*; Ll. *chorda*) rheffyn, corden, cortyn, cordyn, cord, cort, llinyn, rhaffan, rhaff, llyfan, llyfanen, tennyn; tant; cluder, cordaid: *pl.* cyrt, cyrd, cortynau, tannau.
Cord of wood—cluder o goed; cord o goed; cordaid o goed=128 troedfedd chwechochrog; neu 8 troedfedd o hyd, 4 o led, a 4 o uchder.
Mailing cords—catiau o raffau i rwymo peth; catreffynau.
Cords of a man—rheffynau dynol (*Hos.* xi. 4).
To make into a cord—cyfrodeddu, cordeddu, cyrdeddu.
Cord moss—rheffyn-fwsogl, rhaff-fwswn.
Cord, *v. a.* cortio, cordio, cortynu, cordenu, rhaffo, rheffynu, llinynu, tennynu; rhwymo neu glymu â rheffyn, â rhaff, â chordyn, â llinyn, â rhaffau, neu â rheffynau; tantio; cludeirio, cordeidio.
To cord wood—cludeirio coed, cordio coed, cordeidio coed; cludeirio coed wrth fesur.
Cordage, *s.* (Ff. ac Ysp.) rhaffau, brasraffau, llong-raffau, rhaffau llong; rhaffdaclau; cordwaith; pob math ar raffau; rhaffwaith, rheffynwaith.
Cordage of a ship—rhaffau llong, rhaffdaclau llong, rhaffdrec llong, taclau llong.
Cordals, *s. pl.* (o *cord*) cordolion, llafanolion.
Cordate, Cordated, *a.* (Ll. *cordatus*) calonaidd, calonddull, calonwedd; ar lun calon.
Corded, *a.* cordiog, cortynog, cortiog; cortiedig, cordiedig; cordeddig, cordeddedig, cyfrodedd, cyfrodeddig, cyfrodeddedig, cyf-

rodeddog; rhwymedig â rheffynau; cludeiriog.
Corded silk—sidan cyfrodeddig.
Corded ladder—ysgol raffau, ysgol reffynau, ysgol o raffau.
Cross corded—croes gyfrodedd, croes gordeddig, croes gordiedig.
Cordelier, *s.* (Ff. o *corde*) rheffynog, cordfynach, cordfonach, cortfynach, rheffynydd; mynach llwyd, brawd llwyd, lleiog; monach o urdd Sant Ffransis.
Cordelling, *a.* cyfrodedd, cordeddog, cordeddig.
Cord-grass, *s.* cordwellt, cortwellt.
Cordial, *a.* (Ff. ac Ysp. o'r Ll. *cor*) calonog, diffuant, didwyll, cywir, o'r galon, diragrith; caredig, cariadus, careugar, serchog, serchus, gwir garedig, pur garedig; gwresog, croesawgar, croesawus, ewyllysgar; cysurol, cysurlawn, cysurus, cyfnerthol, adnerthol, adfywiol, cryfhaol, gwrygiol, lloniannol, llonedigol, adlonol, adfywiol, siriol; â lona, â adfywia, â gyfnertha; yn lloni, yn adfywio, yn cyfnerthu; â fywioga yr ysbrydoedd; â bair *neu* â rydd gysur, llonder, *neu* adnerth; iesinol, cleufryd, clau, gonest.
Cordial, *s.* sirgyffer, sirgyffyr, sirlyn, sirwy, ffaethgyffer, cysurlyn; meddyglyn; eli 'r galon; adnerthydd, siriolydd, cyfnerthydd, cysur, dyddanwch.
Cordial-hearted, *a.* cywir-galon, gwir galonog, gwir ddiffuant.
Cordiality, } *s.* didwylledd, diffuantrwydd,
Cordialness, } cywirdeb, diragrithrwydd, caredigrwydd; gwresogrwydd, croesawgarwch, croesaw; cleuder, cleufrydedd, cleudeb, gonestrwydd, puredd; serchogrwydd, serchusrwydd, calonogrwydd, calondid; ewyllysgarwch; gwresogrwydd, purdeb, rhyddid, neu rwydd-deb calon.
Cordialize, *v. a.* sirioli, sirio, lloni; gwneuthur yn galonog, &c.
Cordially, *ad.* yn galonog, &c.; â'r holl galon; â'i holl galon; o galon; o'r galon; o'i galon; o wraidd y galon; o wreiddiau y galon; o ferion y galon; o eigion calon; o wir ewyllys calon; heb na hud na lledrith; yn bur garedig.
Cordierite, *s.* (oddi wrth Nic. *Cordieri*, y cerfyllydd) millfaen.
Cordiform, *a.* (Ll. *cor* a *forma*) calonaidd, calonddull; ar lun *neu* ddull calon.
Cordiner,† *s.*=*Cordwainer.*
Cordmaker, *s.* rheffynwr, rheffynydd, rhaffwr, cortynwr, cortynydd, cordydd.
Cordon, *s.* (Ff. ac Ysp.) maenres, maenreng, maendedd, maenwanaf; gwerthyr; cyfres, cyfrestr, gorsafres; cordolion, tasgyrt.
Cordovan, } *s.* (Ysp. *cordoban*, o *Cordova*, *Cor-*
Cordwain, } *doba*, neu *Corduba*, yn Yspaen) cordwal, cwrdwal; lledr Yspaen; lledr Cordoba; lledr o groen gafr, ceffyl, *neu* forlo; gafrledr.
Corduroy, *s.* (Ff. *corde du roi*) cord y rhi.
Cordwainer, *s.* (o *cordwain*) crydd, archenwr.
Cordwood, *s.* (*cord* ac *wood*) cordwydd, cluderwydd, cortwydd, cludergoed.
Core, *s.* (Norm.; Ll. *cor;* Ff. *cœur*) calon, y galon, bywedyn, bywyn, bywed, deincodyn, dincodyn; crawn, calon cornwyd; bywedwst; † corff.
Cored, *a.* hallt, halltedig; â dröwyd mewn halen.
Co-rector, } *s.* cydreithor, cyreithor, cydlyw-
Conrector, } ydd.
Coregent, *s.* (*con* a *regent*) cydraglyw, cydraglaw, cydlywiadur, cydlywodraethwr.
Corelation, *s.*=*Correlation.*
Coriaceous, *a.* (Ll. *coriaceus*) lledraidd, lledrin; o ledr; tebyg i ledr.
Coriaceous liverwort—croeneiddgen.
Coriander, *s.* (Ll. *coriandrum*) brwysgedlys; coriander.
Coriander seed — had coriander (*Ecs.* xvi. 31).
Coriander of Rome—bulwg Rhufain, bulwg, ydig, pabi'r gwenith, gith.
Corindon, *s.* (Ff.)=*Corundum.*
Corinth, *s.* (dinas yn Groeg) rhyf, rhyfen: *pl.* rhyfon, grawn Corinth.
Corival, *s.* (*con* a *rival*) cydgeisiwr, cydgeisydd, cydymgeisiwr, cyfymgeisydd, cyderlynwr, cystadlydd, ymgystadlydd; cydgarwr.
Corival, *v. a.* cydgeisio, cydymgeisio, cystadlu, ymgystadlu â.
Corivalry, } *s.* cydgais, cydymgais, cyfym-
Corivalship, } gais, cyderlyniaeth, cystadlaeth, cystadleuaeth, cyfergais; cyfymryson, cydymryson, cyngorchest.
Cork, *s.* (Al. *kork;* Is. *kurk;* Ll. *cortex*) corcyn, corc, twythwydd, madarch; twyth.
Cork tree — corcwydden, twythwydden: *pl.* corcwydd.
Cork, *v. a.* corcio, corco, madarchu; rhoi corc *neu* gorcyn mewn *neu* yn.
Cork-fossil, *s.* ammorfaen,
Cork-jacket, *s.* nawf-hugan, corcdoryn, corcynbais, corbais gorcyn, pais gorcyn.
Cork-screw, *s.* allwedd costrel, allwydd potel, sidrwy potel, asgrwy costrel, corcyll, corcdroell, corcysgrwy.
Corky, *a.* (o *cork*) corcaidd, corcynaidd, madarchaidd.
Cormorant, *s.* (Ff. *cormoran;* Ll. *corvus marinus*) morfran, mulfran, godde gwrych; glwth, cegrwth.
Cormus, } *s.* (Gr. *cormos*) paladr, bonyn, bon,
Corm, } llysfonyn.
Corn, *s.* (S.; Al., D. a Sw. *korn;* Ll. *granum*) yd; grawn yd, grawn, llafur; gronyn.
A grain of corn—yden, ydyn, gronyn yd, gronyn o yd.
Standing corn—yd byw; yd ar ei draed; yd ar ei droed; ydau.
Mixed corn—amyd, brithyd, cymmysgyd, mysgyd, yd cymmysg.
Reaped corn—yd mededig.
Ears of corn—twys, twysenau, twys o yd, twys yd, bleiniaid: *sing.* twysen, bleiniad, rhafn o yd.
Ground corn—yd maledig, blawd; talch, (*dim.* telchyn) talchyd, malurion yd.
Parched corn — crasyd, yd cras, yd crasodyn.
Tail corn — mân yd, gwehilion, hedion, tinion, godreon, grawnusion.
A stack of corn—das, daswrn, bera, cyrnen, *neu* feisgawn o yd.
A ledge, layer, *or* lay of corn—seldrem o yd.
A heap of corn, } ysgafn; ysgafn o yd
A shock of corn, } (*Ruth* iii. 7; *Iob* v. 26); ystwc, gweisgon.

To tread out the corn—dyrnu.
Corn tribute—uchelgyllid.
Corn that rises from what was shed the previous year—attwf.
India corn—Ind-yd, Ind-rawn, grawn Ind, gwenith India.
A corn of salt—gronyn o halen, halenyn.
Corn beard—còl yd, cola yd, ydgol, barf yd: *pl.* colion.
Bearded corn—yd coliog.
Corn-bin—ydgist, cist yd.
Barley corn—heidden, heiddyn, barlysen, barlysyn.
Light corn—ffwlach, gwehilion, swtrach yd, yd ysgafn.
Corn in the ear, } yd yn ei hawd; yd yn
Eared corn, } hodi; yd yn hedeg; yd yn hadu; yd yn y dwysen; yd twysenog; yd yn ei hosan.
Seed corn—hadyd, yd had.
St. Peter's corn—yd cibog, yd Sant Pedr, yd Pedr.
Goose corn—troellgoryn.

Corn, *v. a.* ysgeintio â halen; halltu yn ysgafn; caledu â halen; halltu, sychu, argaledu; cornio; gronynu, graenu; ceirchio; rhoi yd i.

Corn, *s.* (Ll. *cornu*) corn, caleden, caledyn, pedgorn, oddf.

Cornage, *s.* (Ll. *cornu*) cornafael, corneddaliad, gafael cornad; yttreth, yttoll.

Corn-beef, } *s.* cig eidion wedi ei ysgeintio â
Corned-beef, } halen; ychgig wedi ei ysgeinthalltu; ychgig hallt.

Corn-chandler, *s.* yd-werthydd, yd-werthwr, yd-adwerthwr, adwerthwr yd.

Corn-clad, *a.* yd-wisgedig, yd-wisgog.

Corn-cockle, *s.* ydig, bulwg Rhufain, pabi'r gwenith, bulwg yr yd, gith.

Corn-crake, *s.* rhegen yr yd, rhegen y rhych, creciar.

Corn-cutter, *s.* corndorydd, corndrychydd, cornaddwr.

Cornea, *s.* (Ll. *cornu*) gleingorn, cornbilen.

Cornel, } *s.* (Ll. *cornus*, o *cornu*; Ff. *cornouille*) cwyros.
Cornel-tree, }
Cornelian-tree, }
Wild cornel—cwyrwialen, cwyrialen.
Dwarf cornel—corwyros.

Cornelian, } *s.* (Ff. *cornaline*) cigliwem, cnod-
Carnelian, } em, maen cigliw=math o galcedon.

Cornels, *s. pl.* (o *cornel*) cwyrosolion.

Cornemuse, } *s.* (Ff. *cornemuse*) cornbib, codbib,
Cornamuse, } codbibell, pib gorn, cornicell.

Corneous, *a.* (Ll. *corneus*) cornaidd; caled; caled fel corn.

Corner, *s.* (C. *cornel*; Cern. *kornal*) cornel, congl, ongl, elin, cil, cilfach, ebach, ebaeth; bagell, bachell, lloches, llechfa, llechfan, llech, llechfod, godechfa, cuddfa, cilan, cinmael; cwr; ymyl; tu.
Close corner — meingornel, mein-gil, culgornel, cornel cul.
Corner of the eye—cil y llygad.
Corner of the beard—cwr y farf.
Corner house—ty cornel; ty ar y cornel, ty yn y cornel, ty'n y cornel, tu ar y gongl.
Corner teeth—cilddannedd, cilddaint ceffyl.
A little corner—cornelyn.
In a corner—mewn congl, cornel, *neu* gilfach, &c.; yn ddirgel, o'r neilltu, yn gyfrinachol, dàn gel, dàn gudd, yn guddiadan.
To remove into a corner—cornelu, cilfachu; symmud i gornel, i gongl, i gilfach, *neu* i ebach.
To drive into a corner—cornelu, cilfachu, ebachu; llocio; gyru i gornel, i gongl, i ebach, *neu* i gilfach.
To withdraw into a corner to lurk in—lleigio.
From the right corner—o'r tu deheu (2 *Bren.* xi. 11).
The north corner — tu y gogledd (*Ec.* xxxvi. 25).
Having corners=*Cornered.*
Having two corners, } deugornelog, dwy-
Of two corners, } onglog, dwygonglog, dwyongl, deugyriog, deugwr, deuonglog, deuongl; âg iddo ddau gornel.
Having three corners, } triongl, trionglog,
Of two corners, } teirongl, trichornel, trichornelog, trichonglog; âg iddo dair congl.
Having four corners, } pedrogl, pedrongl,
Of four corners, } pedronglog, pedwaronglog, pedrygonglog, pedrorog, ysgwar; âg iddo bedwar cornel.
Having many corners—amlgonglog, amrygonglog, amryonglog, amlonglog, amrygongl, amrygornel, amlgornelog, amrygornelog; âg iddo amryfal onglau *neu* gonglau; âg aml gornelau iddo; llawn conglau *neu* gornelau.
Full of secret corners—cilfachog, ebachog, llochesog; llawn cilfachau, ebachau, llochesau, godechfaoedd, *neu* lechfodau.

Cornered, *a.* (o *corner*) cornelog, conglog, onglog, cilfachog, ebachog; âg onglau *neu* ebachau iddo; â chornelau, conglau, cyrau, *neu* gilfachau iddo; cyriog.
Three-cornered — triongl, trionglog, trichonglog, trichornel, trichornelog, teirongl; âg iddo dair congl *neu* ongl; tryfal.

Corner-stone, *s.* conglfaen, careg gongl, careg gornel, onglfaen, cornelfaen.
Chief corner-stone—pen conglfaen, penconglfaen.

Cornerwise, *ad.* o gongl i gongl ar draws peth; o gornel i gornel; â'i gongl yn mlaen *neu* tuag at un; yn llwrw ei gornel.

Cornet, *s.* (Ff. *cornet*, *cornette*) chwythgorn, corned, udgorn; marchlumanwr, torflumanwr; cornyn, papyrgorn; penwisg; doethorwisg, ysgablar doethor; † marchoglu.
Cornet of a horse—isegwyd march, coronegwyd ceffyl.
Cornet-a-piston—corn syflath, corn ceuffyn=math ar offeryn cerdd.
Cornet-stop—chwythattalfa.

Cornetcy, *s.* (o *cornet*) torflumaniaeth, marchlumaniaeth; swyddogaeth marchlumanydd.

Corneter, *s.* (o *cornet*) cyrniad, chwythgornydd, chwythgornwr, udganwr: *pl.* cyrniaid.

Corn-exchange, *s.* ydnewidfa, cyfnewidfa yd, ydnewitty, newidfa yr yd.

Corn-factor, *s.* ydfasnachydd, ydfasnachwr, ydwerthydd; masnachwr *neu* drafnidiwr yd.

Corn-field, *s.* ydfaes, ydgae, maes yd, cae yd, cae llafur.
Corn-flag, *s.* gelleog yr yd, yd-ellheog; cleddyflys, cawen.
Corn-floor, *s.* llawr dyrnu, ydlawr.
Corn-flower, *s.* ydflodeuyn, ydflodyn; blodyn à dyf mewn yd; cramenog yr yd, penlas yr yd, penlas wèn.
Corn-harvest, *s.* cynaaf yd, cynauaf yr yd, yd-gynauaf.
Corn-heap, *s.* yttwr, twr o yd, pentwr yd, crug yd, crugyn yd; ysgafn, beisgawn.
Cornice, *s.* (It. o'r Gr. *cornis*) taleithwrn, rhagdalwrn, talefwrn, trumdalaith, taladdurn, gordwdd, ardwdd, talaith addurn, addurndalaith, talwrn, talfoldiad.
Cornicle, *s.* (Ll. *corniculum*) cornyn, cornig, corn bychan, corn bach, cornigl.
Corniculate, *a.* (o'r Ll. *cornu*) cyrnig, cyrniog, corniog; cornynog; cornfasglog.
Cornific, *a.* (Ll. *cornu* a *facio*) cyrnddygol, cyrnddwyn; yn cynnyrchu cyrn.
Corniform, *a.* (Ll. *cornu* a *forma*) cornaidd, cyrnaidd, cornddulliog; ar lun *neu* ddull corn.
Cornigerous, *a.* (Ll. *corniger*) cyrnig, cyrniog, corniog; âg iddo gyrn.
Corning-house, *s.* pylordy, gronyndy.
Cornish Moneywort, *s.* ceinioglys Cernyw.
Cornist, *s.* (o *cornet*) cyrniad, chwythgornydd, udganwr: *pl.* cyrniaid.
Corn-land, *s.* yttir, tir yd, tir âr, tir llafur, llafurdir, tir aradwy.
Corn-laws, *s pl.* cyfreithiau yr yd, deddfau yr yd, ydreithiau, ydgyfreithiau.
Cornless, *a.* (*corn* a *less*) heb yd.
Corn-lofft, *s.* ydlofft, ydle, ytty, heiniardy.
Corn-marigold, *s.* aban, gold, gold yr yd, graban yr yd, graban, golt yd.
Corn-master,† *s.* un à dyfo yd i'w werthu.
Corn-market, *s.* marchnad yd, marchnad yr yd, ydfarchnad, marchnad lafur.
Corn-merchant, *s.* masnachwr yd, masnachydd yd, ydfasnachwr.
Corn-meter, *s.* ydfesurydd, ydfesurwr.
Corn-mill, *s.* melin yd, ydfelin.
Corning-house, *s.* pylordy, gronyndy.
Corn-parsley, *s.* githran, githrog, githrag.
Corn-pipe, *s.* ydbib, ydbibell.
Corn-rent, *s.* ydrent, yd-ardreth.
Corn-rocket, *s.* hegydd, ydhegydd.
Corn-rose, *s.* pabi coch yr yd, pabi gwyllt, pabi crynben llyfn, llygad y cythraul.
Cornsalad, } *s.* gwylaeth yr oen, dïadwyth,
Corn-sallad, } llysiau yr oen.
Corn-snake, *s.* (*corn* a *snake*) cornsarff.
Corn-stalk, *s.* paladr yd, bonyn yd, coes yd.
Corn-stone, *s.* cornfaen.
Cornua, *s. pl.* (Ll.) cyrn.
Cornu Ammonis, *s.* corn Ammon; cragen ar ddull corn hwrdd; cragen nydd-dro.
Cornucopia, *s.* (Ll.) corn llawndid, corn amlder, corn llawnder, y corn dïamdlawd, achrwysgorn, corn achrwys; rhad penllad.
Cornularia, *s. pl.* (Ll. *cornu*) cornigolion.
Cornus, *s.* (Ll.) cwyros, cwyrialen, cwyrwialen.
Cornute, *v. a.* (Ll. *cornutus*) cycwalltu, hoffdynu, cyrnicyllu, dïwrio; gwneuthur yn gycwallt.
Cornuted, *a.* (Ll. *cornutus*) corniog, cyrnig, cyrniog, hoffdynog, cycwalltog; cyrnaidd, cornaidd; cycwalltedig.

Cornuto, *s.* (It.) cycwallt, hoffdyn, cyrnicyll, cyrnig, cornog; cyrnigddyn, gwr corniog; gwr i wraig anffyddlawn.
Cornutor, *s.* (o *cornute*) cycwalltwr, cyrnicyllwr, hoffdynwr.
Corn-violet, *s.* clychlys, mill yr yd.
Corn-wain, *s.* ydfen, ydgertwyn, oertwyn yd.
Corny, *a.* (Ll. *cornu*) cornaidd, cyrnaidd; cornol; caled.
Corny, *a.* (o *corn*) ydaidd, ydol, ydog, grawnaidd.
Corn-yard, *s.* ydlan, ydgordd, cadlas yd.
Corody, } *s.* (It. *corredo*) dawnbwyd=dogn o
Corrody, } fwyd a dïod, dyledus i'r brenin oddi wrth abatty, neu oddi wrth esgobaeth.
Corol, } *s.* (Ll. *corolla*) coronig, corolen,
Corolla, } corolan; blodeugaes, gwullamlen, fflur.
Corollaceous, *a.* (o *corolla*) coronigaidd, corolenaidd, corolanaidd.
Corollary, *s.* (Ll. *corollarium*) casgliad, cynghload, cynghlo, cload, diweddglo, canlyniad; sarid, gwarged, rhelyw.
Corollet, } *s.* (o *corolla*) blodionen, blodenig,
Corollule, } gofloden, goflodyn; bloden mewn blodyn cyfansawdd.
Corona, *s.* (Ll.) coron, talaith, corynrwy; gnotai; copa; gwullgoron.
Corona borealis—Arianrod, Caer Arianrod=cydser yn yr arddrych ogleddol.
Corona australis — y Goron ddeheuol, Coron y de=cydser yn cynnwys 12 seren.
Coronal, *a.* (Ll. *coronalis*) corynol, caranol, coronol; perthynol i'r coryn.
Coronal suture—cydiad blaen yr iad; y cydiad *neu* y gwniad corynol; cysswllt yr iad.
Coronal, *s.* coron, talaith, corynrwy, pendel; coronbleth, gwyrlen, deilbleth, gwulldorch; coryn, cysswllt yr iad, iadgysswllt.
Coronary, *a.* (Ll. *coronarius*) coronaidd, coronol; corynaidd, corynol, caranaidd, caranog, caranaid.
Coronate, *a.* (Ll. *coronatus*) coronog, caranog, corynog, coronedig.
Coronation, *s.* (o *corona*) coroniad, coronedigaeth; taleithiad.
Coronel,† *s.* (Ysp.; Ff. *colonel*)=*Colonel.*
Coroner, *s.* (Ll. gyfreithiol, *coronator*) trengholwr, trengholydd, trengholur, corffynad; coronwr.
Coroner's inquest—trengholiad, ymholiad corffynad, ymchwil trengholwr.
Coronet, *s.* (o *corona*) coronig, talaith, taleithig.
Coroneted, *a.* coronigog, coronigol, taleithiog; yn gwisgo coronig; â hawl ganddo i wisgo coronig.
Coroniform, *a.* (Ll. *corona* a *forma*) coronaidd; ar lun coron.
Coronilla, *s.* (Ysp.) darn bath yn Yspaen, gwerth 4*s.* 0½*c.*
Coronoid, *a.* (Gr. *corônê* ac *eidos*) branylfinaidd, branylfaidd; fel gylfin brân.
Coronopus, *s.* (Gr. *corônê*) olbrain, olfran, berwr y moch, berwy y moch.
Coronule, *s.* (o *corona*) coronen, coronigyn, hadgoronig; hadflew.
Corporal, *s.* (It. *caporale;* Ff. *caporal*) dengwriad=y swyddog isaf yn y fyddin.

Corporal, *a.* (Ll. *corporalis*) corfforol, corffol; sylweddol, defnyddiol.

Corporal, } *s.* corfflen, corfflïan, corfflïain,
Corporale, } segraflen, llian cymun = llian main yn yr hwn y gosodir y segrafen.

To take ones's corporal oath—tyngu ar lyfr *neu* ar y llyfr; cymmeryd *neu* wneuthur ei lw ar lyfr *neu* ar y llyfr.

Corporality, *s.* (o *corporal*) corffolaeth, corfforoldeb, corffoldeb, corfforolrwydd, corfolaeth.

Corporally, *ad.* yn gorfforol; yn ei gorffolaeth; yn y corff.

Corporalship, *s.* dengwriadaeth.

Corporas,† *s.* (Ll. *corpus*) = *Corporal, Corporale.*

Corporate, *a.* (Ll. *corporatus*) corfforedig, cydgorffedig, cynghorffedig, cydgorffol, corffol, corfforaidd; unedig, cyfunedig, cyfunol, unol; cyffredinol; gwedi ei uno *neu* ei wneuthur yn un corff.

Corporate town — tref gorfforedig, tref gorfforaidd; bwrdeisdref, bwrgeisdref.

Corporateness, *s.* corfforoldeb, corfforolrwydd, corffoldeb, corfforedigrwydd.

Corporation, *s.* (Ll. *corporatio*) corfforaeth; bwrdeisiaeth; bwrdeisiaid, bwrdeiswyr, bwrgeisiaid; bwrdeisdref, tref gorfforedig; cydfrawdoliaeth, corff cymdeithasol, cymdeithas gorfforedig, corff cyfansawdd, corff.

Corporator, *s.* bwrdais, bwrgais; aelod o gorfforaeth.

Corporature,† *s.* (Ll. *corporatura*) corfforoldeb, corffoliad.

Corporeal, } *a.* (Ll. *corporeus*) corfforol, corff-
Corporeous, } ol; sylweddol, defnyddiol.

Corporealist, *s.* defnyddiolwr, defnyddiawdr.

Corporeality, *s.* corffolaeth, corfforoldeb, corfforolrwydd, corffoldeb.

Corporeally, *ad.* yn gorfforol; yn ei gorffolaeth; yn y corff.

Corporeity, *s.* corffolrwydd, corffoledd, corffoldeb, corffeg; defnyddiolder, defnyddiolrwydd, sylweddolrwydd.

Corporify,† *v. a.* (Ll. *corpus* a *facio*) corffori, corffoli.

Corposant, *s.* (Ysp. *cuerpo santo*) hwylbrenwyll, hwynyn=drychiolaeth à welir ar y môr ar nosweithiau tymhestlog.

Corps, *s.* (Ff. o'r Ll. *corpus*) corff, cadgordd, cadgorff, byddin, byddinran, corfflu.

Corps of reserve, } adfyddin, cefnfyddin.
Corps de reserve, }

Corps de garde—byddin osgordd, gosgorddfyddin, gwarchlu, gwardlu, gwartlu, gwardfyddin, corddfyddin.

Corpse, *s.* (Ll. *corpus*) corff, corff marw, celain, celan: *pl.* celanedd, celaneddau, celeinod.

To lay forth a corpse—trin corff marw; estyn corff allan; troi corff heibio.

Corpsegate, *s.* (*corpse* a *gate*) porth y cyrff, porth y fonwent.

Corpulence, } *s.* (Ll. *corpulentia*) corffogrwydd,
Corpulency, } cnodigrwydd, cigogrwydd, tewder, tewdra, tewedd, tewdra corff, cnawdolrwydd; breisgedd, praffrwydd, praffder.

Corpulent, *a.* (Ll. *corpulentus*) corffog, corffol, tew, cnodig, cigog, efras; praff, braisg.

Corpus, *pl.* Corpora, *s.* (Ll.) corff; defnydd.

Corpus Christi—Corff Crist=gŵyl y cymun, à gedwir yn Eglwys Rhufain ar lau y Trindod.

Corpuscle, *s.* (Ll. *corpusculum*) corffilyn, mymryn, as, temig, temigyn, gronyn, til, ith.

Corpuscular, } *a.* corffilynaidd, corffilynol,
Corpuscularian, } mymrynol, ithol, gronynol.

Corpuscularian, *s.* corffilynwr, corffilyniad, mymrynwr: *pl.* corffilyniaid.

Corrade, *v. a.* (Ll. *corrado*) rhwbio ymaith, cydrathu, cynghrafu, esrwbio.

Corradiation, *s.* (Ll. *con* a *radiatio*) cydreiddiad, cydbelydriad, cydlewyrchiad, cyngreiddiad.

Correct, *a.* (Ll. *correctus*) cywir, uniawn, cywair, iawn, diwygus, diwygiedig, diwygiol, difai, difwlch, cywrain, cywraint, pur, cyweiriedig.

Correct, *v. a.* diwygio, cywiro, cyweirio, unioni, uniawnu, gwella, gwellhau, difeio, cymhwyso; ceryddu, cystwyo, cospi, dysgyblu, anghreifftio, dwrdio, senu, sardio, ystwyo, argyhoeddi; adgyweirio; gwella beiau *neu* wallau; tymmeru.

A servant will not be corrected by words—ni chymmer gwas addysg ar eiriau (*Diar.* xxix. 19).

Correction, *s.* (Ll. *correctio*) cyweiriad, diwygiad, diwygiaeth, gwellhad, gwelliant, adgyweiriad, difeiad; cerydd, cystwy, cosp, cospedigaeth, sard, sen; ceryddiad, cystwyad, ystwyad, cospad, argyhoeddiad; dysgyblaeth, cystwyaeth, cystwyedigaeth; adfryd, sylw beirniadol; cyweirnod, diwygnod.

House of correction—cyweirdy, cerydd-dy, ty cerydd, cystwyfa, cospweithdy, gweithgarchar; carchar.

As a fool to the correction of the stocks—fel ynfyd yn myned i'r cyffion i'w gospi (*Diar.* vii. 22).

Correctional, *a.* diwygiol, cyweiriol, diwygus, diwygiadol; cystwyol, ceryddol.

Correctioner,† *s.* un à fu mewn cyweirdy.

Corrective, *a.* (o *correct*) diwygiadol, cyweiriol, cyweiriadol, gwellhaol, cyweiriedigol; ceryddol, cystwyol, ystwyol, cospol, cospedigol, anghreifftiol; tymmerol, ardymmerol; âg ynddo rinwedd i wellhau, i ddiwygio, i ddifeio, *neu* i dymmeru.

Corrective, *s.* cywair, cyweirydd, ardymmerydd, tymmerydd, gwellydd; cystwy, attalfa, cyfyngiad, ystwy.

Correctly, *ad.* yn gywir, yn gywair, yn uniawn; yn fanwl, yn fanylaidd, yn gymhwys, yn hollol; yn ddifai, yn ddifwlch.

Correctness, *s.* (o *correct*) cywirdeb, cywirder, cyweirdeb, cywiredd, manyldeb, manylder, manylrwydd, manylwch.

Corrector, *s.* (Ll.) diwygiwr, diwygydd, diwygiedydd, cyweirydd, cywirydd, gwellhäwr, gwelladur; cystwyor, cystwywr, ceryddwr, cospydd, cospadur, cospwr; tymmerydd, ardymmerydd.

Corregent, *s.* (Ll. *corregens*) tymmerydd, lleddfydd.

Corregidor, *s.* (Ysp.) ynad Yspaenig, penswyddog Yspaenaidd.

Correi, } *s.* (Gael.) ceufron; ochr geuol
Corri, } bryn.

Correlate, *s.* (Ll. *con* a *relatus*)=*Correlative, s.*

Correlation, *s.* (Ll. *con* a *relatio*) cydberthynas, cydgarennydd, cyngharennydd.

Correlative, *a.* (Ll. *con* a *relativus*) cydberth-

ynol, cymherthynol, cydberthynasol ; à fo yn cydberthynu y naill i'r llall.

Correlative, *s.* cydberthynas, cymherthynas, cydgarant, cyngharant, cydgyfathrach : *pl.* cydgeraint.

Correlativeness, *s.* cydberthynasedd, cydberthynoldeb.

Correption, *s.* (Ll. *correptio*) cerydd, sen, sard, cystwy ; seniad, dwrdiad, ceryddiad, cystwyad.

Correptory, *a.* ceryddol, cystwyol.

Correspond, *v. n.* (Ll. *con* a *respondeo ;* Ff. *correspondre*) cyfateb, ateb, atebu, cydweddu, ymateb, cytuno ; bod yn gysson ; cynhebygu, cyngweddu, sutio, gweddu, cyfladd, cyttaro, cydgordio ; gohebu, cydohebu, goheb, ymohebu, cydymateb ; cyfrinachu drwy lythyrau ; bod yn gyfartal *neu* gyfaddas.

Correspondence, } *s.* (o *correspond*) cyfatebiad,
Correspondency, } cyfatebiaeth, cyfatebrwydd, ymatebiad, ymgyfatebiad, cyfateboliaeth, cyfatebolrwydd, cyfateboliad ; cydweddiad, cyttarawiad, cyfladdrwydd, cytundeb, addasrwydd ; gohebiaeth, goheb, gohebawd, ymohebiad ; gohebion, gohebiaethau ; llythyrgyfateb, llythyr-gyfnewid, cyfnewid llythyrau ; cyweithas, cymdeithas, cyfathrach, cystlynedd, cyfeillach ; cyssylltiad.

To hold correspondence—gohebu, goheb, cydohebu, cydymateb ; gohebu â'u gilydd.

Correspondent, } *a.* cyfatebol, cydweddol, cyf-
Corresponding, } laddol, addas, cyfaddas, cytunol, cytun, cymhwys, sutiol, atebol, cysson, cyngweddol, addasedig ; yn cyfateb, yn cyfladd, &c. ; gohebol.

Corresponding member—aelod gohebol ; aelod ohebol ; aelod gyfateb.

Correspondent, *s.* gohebydd, gohebwr ; cyfatebwr, cyfatebydd, cyfarhebwr, cyfarhebiad ; cystlynwr.

Corresponsive, *a.* cyfatebol, atebol ; addas, cyfaddas, addasedig.

Corridor, *s.* (Ff.) traworiel, tryddedfa, oriel ; trydded, hir-rodfa ; rhodfa gudd *neu* orthöedig, amrodfa, celffordd, amguddrawd ; y rhodfa gudd o gylch caer *neu* gastell.

Corrigenda, *s. pl.* (Ll.) diwygion, diwygolion ; cyweirolion, cyweiriadau, cyweirion ; geiriau i'w diwygio.

Corrigible, *a.* (Ff. o'r Ll. *corrigo*) diwygiadwy, gwelladwy, cyweiriadwy ; cospadwy, hygosp, ceryddadwy, cystwyadwy ; à ellir ei ddiwygio neu ei gospi.

Corrigibleness, *s.* diwygiadoldeb, gwelladwyoldeb ; hygospedd ; yr ansawdd o fod yn gyweiriadwy *neu* yn geryddadwy.

Corrigiola, *s.* (Ll. *corrigia*) corglymig, canclymig.

Corrival, *s.* (*cor* neu *con* a *rival*) cydgeisiwr, cydgeisydd, cydymgeisydd, cydymgeisiwr, cyfymgeisydd, cystadlydd, ymgystadlydd, cystadleuwr, cyderlynwr, cyderlynydd ; cydgarwr ; cydymdrechydd.

Corrival, *v. a.* cydymgeisio, cydgeisio, cystadlu, ymgystadlu â, cyderlyn.

Corrivalry, } *s.* cydgais, cydymgais, cyfym-
Corrivalship, } gais, cystadlaeth, cystadleuaeth, ymgystadlaeth, cyderlyniaeth ; cydymryson, cyfymryson, cyngorchest, cyfergais.

Corrivate, *v. a.* (Ll. *corrivo*) cydiffrydio, cydwehynu, cydoferu.

Corrivation, *s.* (Ll. *corrivatio*) cydiffrydiad, cydiffrydiant, cydwehyniad, cydoferiad.

Corroborant, } *a.* (Ll. *corroborans*) cyfnerth-
Corroborative, } ol, cryfhaol, cryfbarol, cyfnerthedigol ; à gyfnertho, à gryfhao, à gadarnhao ; yn cyfnerthu ; cadarnhaol, cryfhäus.

Corroborant, } *s.* cyfnerthai, cyfnerthydd,
Courage, *s.* (Ff. o *cœur*, Ll. *cor*) dewredd, dewrder, gwroldeb, glewder, glewdid, calondid, dewrdra, gwrolder, pybyrwch, pybyredd, glewineb, dewrineb, gwychder, gwrolfryd, gwrolfrydedd, mawrfrydedd, mawrfrydigrwydd, hyfder, hyfdra, gwronedd; calon, cysur, yni, ysbryd, hawnt, gyrdd-der.

Be of good courage—ymnertha, ymgryfha; ymwrola yn lew; cymmer galon; cymmer gysur; ymwrola; na lyfrha.

To gain courage—cymmeryd calon; ymwroli, adfywiogi.

To inspire one with courage—rhoi calon, ysbryd, yni, arial, *neu* gysur mewn un.

To abate one's courage, To cool one's courage, To lessen one's courage, } digaloni, gwanhau, tori awch, llyfrhau, *neu* wangaloni un; llaesu dwylaw un.

A wicked woman abateth the courage—gwraig ddrwg a wna galon isel.

He abated their courage—efe a'u darostyngodd hwynt.

Their courage was abated—hwy a lyfrhasant.

To lose courage—digaloni, llesghau, llyfrhau, gwangaloni, llaesu, ymlaesu, ymollwng; edwi, edwino, dihoeni.

To take courage—cymmeryd calon; cymmeryd cysur; gwroli; ymwroli, ymgysuro, ymloni, ymsirioli.

Be strong and of good courage—ymgryfhëwch ac ymnerthwch.

Noble courage—calon ddihafarch, mawrwriaeth.

Void of courage—annewr, anwrol, annewrwych, anŵraidd, anfilwraidd, digalon, gwangalon, llwfr, llwrf, ofnog, llesgenaidd, llesg, anwych.

Want of courage—annewredd, annewrder, anwroldeb, annewrwychedd, anwychedd, anghalondid, gwangalondid, digalonrwydd, anghalonogrwydd, ofnogrwydd, llyfrder, &c.

Courageous, *a.* (o *courage*) dewr, gwrol, calonog, dewrwych, glew, gwych, (*f.* gwech), eofn, eon, drud, dihafarch, ysbrydlawn, gwychr, mawrfrydig, gwrolfryd, gwrolfrydig, hy, hyf, hyderus, anturus, anturiog, llyfasol, gwronaidd, gwrolwych, glewddrud, drudlew, dilwfr, cefnog, dilesg, mawrfrydus, agwrdd, ffysgiolin.

Be thou strong and courageous—ymgryfha ac ymwrola.

Be thou very courageous—ymwrola yn lew.

He that is courageous among the mighty—y cryfaf ei galon o'r cedyrn (*Amos* ii. 16).

The lion is the most courageous of wild beasts—dewraf gwylltfil llew.

Courageousness, *s.* (o *courageous*) dewrder, dewredd, dewrdra, gwroldeb, gwrolder, gwriolaeth, gwroledd, gwrolfrydedd, glewder, glewdra, glewineb, dewrwychder, dewrwychedd, dewrineb, gwychder, calondid, calonogrwydd, mawrwriaeth, mawrfrydedd, mawrfrydigrwydd, gwronedd, gwroniaeth, ysbrydlonedd; arial, yni, ysbryd, calon, hawnt.

Courant, *a.* (Ff.) rhedol, rhedegol, yn rhedeg, dywadnol, ar redeg.

Courant, Couranto, } *s.* (Ff. *courante*) brysgorelw; brysdaplas; brysalaw; brysiadur.

Courap, *s.* math o grafu dwyreiniol.

Courb,† *v. n.* (Ff. *courber*) plygu, ymblygu, camu.

Courb,† *a.* cam, crwca.

Courbaril, *s.* math o sylwedd ystoraidd.

Courier, *s.* (Ff. *courrier*) brysgenad, brysiadur, brysnegesydd, negesydd; cenad gyflymred, negesydd cyflymred, rhedwr, rhedegydd; teithwas.

They dispatched a courier—anfonasant genad ar redeg.

Course, *s.* (Ff.; Ll. *cursus*) gyrfa, rhedfa, ystod, hynt, rhedegfa, rhawd, rhediad; helynt, hwyl, hwylfa, hytynt; gyr, gyriad, talm; ffordd, llwybr, trefn, cwrs, cylch, tro, chwyl, lle, cylch cyfnewid; moes, arfer, defod; rhes, cyfres; haen, taen, tedd; hail, saig, huliad; rhwysg, nwyth; rhyd, rhedle, cerhynt, cerynt, gyrynt, rhedrawd, rhodre, rhysfa; helfa, ymlidfa, hely; chwylfa, cyrch, hwylhynt, trawd, ystrawd, ystre, llwyprad; oed, hyd; sias; cwmpas, amgylchedd; dyddgylch, cylchddydd; gradd, rhestr, rhenc, sefyllfa, dosbarth; rheol, cyfraith; rhed, ffawr, erdd; rhodwedd; ffrwd, rhill.

Course of life—buchedd, helynt, hynt, bucheddiad, ymarweddiad, buchwedd; ystod bywyd; hwyl a threfn bywyd; oes.

Through the whole course of life—trwy holl ystod bywyd; trwy gyffred einioes.

Course of nature—trefn natur, troell naturiaeth, ystod anian, chwyl noturiaeth, trefn anian, cwrs natur.

By course of nature—wrth drefn natur; yn ol trefn anian; wrth reol natur; wrth gwrs natur.

I must take another course of life—rhaid yw i mi gymmeryd buchedd arall *neu* newydd; rhaid yw i mi fyw mewn modd amgen; rhaid i mi droi dalen newydd *neu* arall.

You follow the same course still—yr ydych chwi yn rhodio *neu* yn dylyn yr un ffordd byth.

By course—ar gylch; bob yn ail; olynol; yn olynol; ar dro; yn ei dro; bob eilwers; bob yn eilwers; gwers tra gwers; ail tra ail.

Every one in his course—pob un yn ei gylch; pob un yn ei dro; bob yn ail; pob un yn ei le; pob un yn ei drefn ei hun.

The course of this world—helynt y byd hwn; cwrs y byd hwn.

The course of the world is this—moes y byd a'i arfer yw hyn; moes ac arfer y byd yw hyn.

Of course—o ganlyniad; wrth ganlyniad; yn naturiol; wrth natur; wrth ddefod; o hono ei hun; bid sicr; trwy ganlyniad; am hyny; o herwydd hyny; wrth gwrs; o angenrheidrwydd; o wir ganlyniad; ar hynt; wrth reswm.

Words of course—geiriau defodol; geiriau o ran defod ac arfer; geiriau gweigion.

The idle must of course fall into poverty—rhaid yw i'r segur o wir ganlyniad syrthio i dlodi.

A matter of course—peth o ganlyniad; peth o wir ganlyniad; peth o ddefod ac arfer.

Swift course—buanred, mythred, cyflymred, gwylltred.

We will take another course—ni a gymmerwn *neu* a brofwn ffordd arall *neu* amgen.

They thought it their best course to—hwy a'i tybiasant yn oreu iddynt i.

He knew not what course to take—nis gwyddai pa beth a wnai; nis gwyddai pa lwybr i'w gymmeryd.

Take your own course—gwnewch à fynoch; dylynwch eich ffordd eich hun; cymmerwch eich llwybr eich hunan; cymmerwch eich hynt.

He took a wise course—efe a wnaeth yn gall.

To take a course with one—galw un i gyfrif; cospi; talu y pwyth i; talu i; canlyn un mewn cyfraith.

By a long course of—o hir ddylyn; wrth hir ddylyn; o hir ganlyn; wrth hir ddylyn ar.

Course of the year—chwyl y flwyddyn; ystod y flwyddyn; cwrs y flwyddyn; blwyddyn o amser; oed *neu* hyd y flwyddyn; ysbaid blwyddyn; cyffred y flwyddyn.

Course of victuals—hail, saig; hail *neu* saig o fwyd; hul *neu* huliad o fwyd: *pl.* heilion o seigiau, heilion seigiau.

First course—cynsaig, hail gyntaf.

Second course—eilsaig, ail hail.

Last course—olsaig, saig olaf, hail olaf; ancwyn, ammoethynion, ammeuthynion, prif ancwyn.

The tenor and course of things—hwyl a cherddediad pethau; hwyl a cherhynt pethau.

Course of lectures—cyfres o ddarlithiau.

The course of Abia—dyddgylch Abïa (*Luc* 1. 5).

In the course of the week—yn ystod yr wythnos; yn nghorff yr wythnos; yn hyd yr wythnos; yn oed yr wythnos.

With a straight course—yn uniongyrch; âg uniongyrch; yn uniawn; ar uniawn hynt *neu* hwylhynt.

The stars in their courses—y ser yn eu graddau; y ser yn eu llwybrau.

All the foundations of the earth are out of course—holl sylfaenau y ddaiar a symmudwyd o'u lle.

By course of nature—wrth reol natur; wrth drefn anian; wrth gwrs natur.

Course of the sun—chwylfa yr haul; chwyl yr haul; traul yr haul; llwybr yr haul; cwrs yr haul; trogylch yr haul; rhawd yr haul; cylch yr haul; rhedfa *neu* redegfa yr haul; rhodwedd yr haul.

Swift is the sun in his course, for he compasseth the heavens round about, and fetcheth his course again to his own place in one day—buan yw yr haul yn ei gwrs, canys efe a dry o amgylch y nef mewn un dydd, ac a red eilwaith i'w le ei hun (1 *Esd.* iv. 34).

Course of studies—myfyrgylch, efrydgylch, astudgylch, astudrawd; cylch o efrydion; ystod efrydion; trawd o astudion; talm o fyfyrion; cylch trefnus *neu* reolaidd o fyfyrdodau.

We are in a course of studies—yr ydym yn myned yn mlaen yn drefnus yn nghylch *neu* yn ystod dysgeidiaeth.

The course of water—cerhynt y dwr, hytynt dwfr, dyfrhynt, dyfrgerhynt, rhediad y dwr; llyr.

Water-course—dyfrffos, gwyffos; pynfarch; ystrym, ffrydle, gwythreden; ffrwd ddwfr.

Course of crops—trafn cnydau; olyniaeth cnydau.

In course of time—yn rhwysg amser; mewn ennyd, gwth, *neu* ysbaid o amser; yn ol talm *neu* lawer o ddyddiau; gwedi talm *neu* lawer o ddyddiau; yn ol talm o amser; yn ol dyddiau lawer; yn ol *neu* ar ol swrn o amser; yn mhen tro; yn mhen chwyl o amser; yn ngyrfa amser.

In course—yn rhes; olynol; ar gylch; yn ei dro; yn ei le; yn ei drefn.

In course of publication, } yn cael ei
In the course of publication, } gyhoeddi; yn awr yn dyfod allan; yn cael yn awr

ei gyhoeddi; yn cael ei gyhoeddi yn rhanau; yn ystod cyhoeddiad; yn nhrawd cyhoeddiad.

Course of exchange—trafn cyfnewid.

Evil course — gyrfa ddrwg, drygarfer, mallred; drygfuchedd.

Free course—rhwydd hynt, rhedfa rwydd, redfa rydd, ffordd rydd, ffordd rwydd, rhydd hynt, rhwyddred, rhwydded, rhwydd-deb, rhwyddineb, rhwyddrediad, rhwyddredfa.

To follow the course of the times—cydymffurfio â'r amser *neu* 'r amseroedd; ymwasgu â'r ddefod; dylyn chwyl yr amser *neu* yr amseroedd; troi gyda'r amseroedd; cydymagweddu â'r amseroedd.

Right course—gyrfa gywir, gyrfa uniawn, iawnred, unionred.

Orbicular course — rhodwedd, cylchred, cylchrawd, cylchdro, trogylch.

I have finished my course—gorphenais fy ngyrfa.

Course, *v.* hela, hely, ymlid, erlyn; gyru; hyntio, rhedeg, rhedu, rhedegfain; rhedeg yma a thraw; rhedeg i fyny ac i waered.

To course away with dogs—cŷno; hel â chwn.

Courser, *s.* (o *course*) rhedfarch, helfarch, rhedant, buanfarch, gyrfarch; march buan, mwth, cyflym, cyflymred, buanred, *neu* ysgafndroed; rhedegfarch, brysfarch, cloefarch, cleufarch, cadfarch; beliwr, helydd; †ymddadleuwr: *pl.* rhedfeirch, rhedaint.

Courers, *s. pl.* (Ll. *cursores*) rhedegyddion, rhedyddion, rhedorion, rhedadar.

Courses, *s. pl.* (o *course*) misglwyf, mislifiant, mislif, teithi gwraig; prifhwyliau.

Coursey, *s.* rhan o warddrws rhwyflong.

Courting, *s.* hely, hela, helwriaeth, heliad, helwaith, ymlid, ymlidfa.

Court, *s.* (S. *curt*; Ll. *curia*; Gw. *cuirt*) llys, breninllys, brenindy, breinllys, palas, teyrnllys, llys brenin, palas brenin, plas brenin; y llys; cyntedd, cynteddfa, cwrt, beili, talwrn, cadlas, rhwyl, clos, llanerch, cynhordy, hongl, buarth; neuadd.

King's court—llys y brenin, breninllys, teyrnllys, brenindy, breinllys.

The court—y llys; gosgordd brenin; gosgordd tywysog taleithiog.

Court of law—llys cyfraith, llys y gyfraith, llys cyfreithiol, cyfreithlys, rheithlys, eisteddfod llys, dadleudy, llys, gorsedd.

Court of justice—brawdlys, barnlys, llys cyfiawnder.

Supreme court—prifllys, penllys, gorsedd benbaladr, uchaflys.

Principal court—llys penaf, llys arbenig; llys penadur, llys beunyddiol; argyfreithlys.

Provincial court—taleithlys, llys taleithiol, llys talaeth.

Criminal court—troseddlys, llys troseddau.

Court of chancery—canghellys, canghellys, canghellorlys, llys y canghellydd; llys unionder.

Court of admiralty—llyngeslys, morlys.

Court of common pleas—deflys, llys dadleuon cyffredin—ail lys gwladol Prydain.

Court of queen's bench—llys penadur, y llys penadur, llys y benadures, y llys penadures, meinclys y penadur, meinclys y benadures.

Court of exchequer—cyllidlys, argedlys, trysorlys, ardrethlys.

Court of equity—llys uniondeb, llys unionder, llys cyfiawnder.

Court of conscience—llys cydwybod; manddyledlys.

Court of oyer and terminer—llys clyw a dosbarth; proflys, prawflys.

Court of common law—cyffredinlys, llys cyffredin; llys cyfraith gyffredin.

Court of record—coflys.

Record of court—cof llys.

Duchy court—duglys; llys dugiaeth Hirgaer.

Court-martial—cadreithlys, cadraith, cadlys, cadreithgor, llys milwraidd, llys cadraith.

Court-baron — baronlys, breyrlys, llys baron, llys brëyr, llys breyrol, llys maenor, llys baroniaeth.

Court-leet—pentreflys, llys pentrefol, llysfawr, llys cantref, cantreflys.

Ecclesiastical court—llys eglwysig, eglwyslys, glwyslys.

Court of arches—llys yr archau, archlys, areglwyslys.

Dean of the Arches—Deon yr Archau, Deon yr Archlys.

Prerogative court—breintlys, uchfreintlys, llys rhagorfraint.

Audience court—clybodlys, gwrandawle.

Court of peculiars—gwahanlys, llys gwahanfraint.

Consistory court, Bishop's court, } llys yr esgob, llys esgob, gorsedd esgob, llys esgobol; llys eglwysig.

Courts christian—llysoedd eglwysig, llysoedd cristionogol.

Spiritual court—llys eglwysig, llys esgob.

Court of bankruptcy—torgedlys, llys torgedaeth.

Insolvent debtors' court—llys methdal, llys methdalwyr.

County court — llys sirol, llys swyddig, llys y sir; manddyledlys, llys manddyledion, llys manddyled.

General court—llys cyffredinol.

Extraordinary court — llys dygynnull, gorsedd ddygynnull.

Augmentation court—mwyadlys.

Inns of court — rheithwesttai, rheithostlau, gwesttai y gyfraith, gwestlysoedd; rheithglasau.

Court of session—arseddlys; prifllys gwladol yr Alban.

Court of civil judicature—llys gwlad ac arglwydd; gorsedd gwlad ac arglwydd.

Contempt of court—tremygiad llys, tremyg llys, tormach, tremyg gwŷs.

Court of adjournment—llys ail goffa.

Base court — adlys, llysyn, llys dinod; llys heb goflyfrau.

High court—uchel lys, llys goruchel, goruchel lys.

High court of parliament—uchel lys y senedd; goruchel lys y senedd.

Court-roll—coflyfr llys, rhol llys, cof llys.

Tithing court—degtreflys.

In court—ger bron y llys; yn y llys.

In open court—mewn llys ar osteg; mewn llys agored.
Silence in court—gosteg ar y maes; gosteg yn y llys.
To keep silence in court—cadw *neu* gynnal gosteg ar y maes; gostegu.
Officers of the court—swyddogion y llys.
Court before a house—cwrt, clos, claws, beili, cyntedd, cynteddfa, rhag-gyntedd, talwrn; llanerch o flaen ty.
A little court—cynteddan.
Court-poet—bardd lys.
Court of the gentiles—cyntedd *neu* gynteddfa y cenedloedd.
Shrubs growing in the courts—manwydd yn tyfu yn y neuaddau (1 *Mac.* iv. 38).
Court holy water—addewidion teg hyrwydd heb gwblhad; addewidion teg hyrwydd heb feddwl am eu cywiro; truth, ymoleuthiad.
A friend in court is better than a penny in purse—gwell câr mewn llys nag aur ar fys.

Court, *s.* moes; truthfoes, truthbarch; ymerlyniad am fodd, ffafr, *neu* nawdd; truth, gweniaith; mwynder, cyflysdod, mwyniaith, moesgarwch, moeswychedd, mynogaeth; truthbarch.

Court, *v.* gwenieitho, truthio, godruthio, cynffonloni, denu; denu â geiriau teg; caru, ymerlyn am; ymganlyn am; ymganlyn â; ceisio; erfyn, erfynio, erfynied, crefu, dymuno, adolygu, *neu* ddeisyfu ar; arddeisyf, argeisio, deisyf; chwareu'r gwr llys.
To court a lady—caru merch; ymerlyn am gariad merch; ymerlyn am ewyllys da merch; ymganlyn â rhian.
To court favour—cynffonloni.

Court-bred, *a.* llys-foesog, llys-foesgar, llysddygiadus; gwedi ei ddwyn i fyny yn y llys.
Court-breeding, *s.* llys-foes, llys-foesau, llys-foesgarwch, addysg llys, moes llys, moesau llys.
Court-bubble, *s.* ffrilbeth llys, bwrlwm llys.
Court-chaplain, *s.* caplan llys, capelwr llys, llys-gaplan, offeiriad llys.
Court-cupboard, *s.* hen gilfwrdd, llysgwpbwrdd.
Court-day, *s.* dydd llys, dydd hawl, llysddydd, dïwrnod llys; dydd coll a chaffael; dydd ar yr hwn y cynnelir cyfraith.
Non-court-days—dyddiau dyddon.
Court-dress, *s.* llys-wisg, llys-gwisgoedd, gwisg llys, gwisgoedd llys, gwisg gynnwyre.
Court-dresser, *s.* truthiwr, gwenieithwr, llysdruthiwr.

Courteous, *a.* (o *court*; Ff. *courtois*) hyfoes, moeswych, mwynfoes, moesog, moesgar, moeswymp, dillynfoes, cyflys, moddgar, moddus, dygiadus, moesweddol, llysaidd, llysol, cyflysol, boneddigaidd, boneddigfoes, hynaws, mwyn, cyweithasol, cyweithas, syber, syberw, mwynaidd, mynog, rhywiog, mwynlan, rhywiogaidd, mynediw, cymmwynasgar, tirion, hyfwyn, rhadlawn; ceinwych, gorwych, dillynaidd, telediw, gwych.
A courteous one—mynogan; un hyfoes, &c.
A courteous female—mynogen, mynoges; benyw hyfoes, &c.
A courteous man—mynogwr, gwr mynog; gwr hyfoes *neu* fwynfoes, &c.
Courteously fair — mwynlan, mwyndeg, mynoglan.

Courteousness, *s.* hyfoesedd, moeswychedd, moesogrwydd, moesgarwch; mwynfoesedd, moeswympedd, mynogrwydd, cyflysdod, mynogaeth, dillynwychedd; tiriondeb, hynawsedd, mwynder, mwyneidd-dra, mwynedd, mwyneiddwch, moddusrwydd, cyweithas, llysolrwydd, &c.

Courter, *s.* (o *court*) carwr, cariad, gwr caru, mab caru, cariwr, cariadfab.
A general courter — carwr y merched; Harri caru cant; carwr cyffredinol.

Courtezan, } *s.* (o *court*; Ff. *courtisane*) puten,
Courtesan, } putan, putain, cyffoden, llysbuten, putan llys.

Courtezan,† *s.* gwr *neu* wraig llys.

Courtesy, *s.* (o *court*; Ff. *courtoisie*; Ysp. ac It. *cortesia*) hyfoesedd, moesogrwydd, moesgarwch, cyweithas, mynogaeth, cyflysdod, cyflysrwydd, mynogiant, mynogi, mwynfoes, moeswychedd, moes, moddgarwch, moddusrwydd, syberwyd, dygiadusrwydd, boneddigrwydd, hynawsedd, mwynder, hyfwynder, mwynedd, cyweithasrwydd, mwyneiddwch, rhywiogrwydd, caredigrwydd, rhadlonedd, addfwynder, mwyneidd-dra, llysolrwydd; tiriondeb, tirionwch, tirioni, cyweithaswch; cymmwynas, mwynas, lles, tro da, twrn da, llad, ced, ffafr; ymblyg, carsawd, ymostyngiad, plygiad glin, glinblygiad, glin-ostyngiad.
Courtesy of England—mynogaeth Lloegr, hynawsedd Lloegr=bod i'r gwr fwynhau tir ei wraig, os bu iddo blentyn o honi, er ei marw hi a'i phlentyn.
To make a courtesy—plygu glin, camu glin, gwneuthur mynogaeth, gwneyd mynogiant, gwneuthur carsawd, gwneuthur moes; ymblygu o barch.
You have done me many great courtesies—gwnaethoch imi aml a mawrion gymmwynasau; gwnaethoch imi aml fwynasau mawrion.

Courtesy, *v. n.* plygu glin, camu glin, glinblygu, glin-ostwng, carsodi; gwneuthur moes, mynogaeth, *neu* fynogiant; gwneuthur carsawd.

Court-fashion, *s.* dullwedd llys, llyswedd.
Court-hand, *s.* llys-ysgrifen, llys-ysgrifiaw, llyslaw, ysgrifen llys.

Courtesy,† *v. a.* trin yn hynaws.

Court-favour, *s.* mwynas llys, llys-fwynas, ffafr llys.
Court-house, *s.* llysdy, dadleudy.
Courtier, *s.* (o *court*) gwr llys, llyswr; truthiwr, ceisiwr bodd.
Courtiery,† *s.* moesau llys.
Court-lady, *s.* gwraig llys, llys-wraig, rhian llys.
Court-leet, *s.* pentreflys, llys pentrefol, llysfawr, cantreflys, llys cantref.
Court-like, *a.*=*Courtly*.

Courtliness, *s.* (o *courtly*) moesgarwch, moesogrwydd, moeswychedd, cyflysdod, cyflysrwydd, llysolrwydd, llysoldeb, llysciddrwydd, moeswychedd, moeswychder, moeswympedd, hyfoesedd, mwynfoes, mwynfoesedd, hynawsedd, mwynder, cyweithasrwydd, urddasfwynder, dillynder, moes, dillynwychedd, boneddigrwydd, llysfoesau, syberwyd.

Courtling, *s.* gwr llys, ymlynwr llys, llysymlyn.

Courtly, } *a.* (*court* a *like*) llysaidd, llysol,
Court-like, } cyflys, cyflysaidd; moeswych, hyfoes, moesog, moeswymp, dillynwych, moesgar, moesgarol, mynog, mwynfoes, tirionfoes, dillynfoes, moesweddol, moddus, moddgar; hynaws, tirion, mwyn, hyfwyn, carsaidd, boneddigaidd, cyweithasol, mwynlan, destlus, dillyn, hoew, telediw, gorwych, harddwych, gwych; boneddigaidd ei ymadrodd a'i ymddygiad; da ei foes; llawn moesau da; tebyg ei *neu* yn ei foes i wr llys; gwenieithus, gwenieithol, truthiol.

Court-martial, *pl.* Courts-martial, *s.* cadreithlys, cadraith, cadlys, cadreithgor, llys cad, llys milwraidd, llys milwrol, llys cadraith.

Court-plaster, *s.* llysblastr.

Courtship, *s.* (o *court*) carwriaeth, caru; ymgaru; cais; ymerlyniad am fodd *neu* garedigrwydd; † moesgarwch.

Cousin, *s.* (Ff.) cefnder; câr, (*f.* cares), cydgar, undras; câr o waed.

First cousin, } cefnder, cefnderw: *pl.*
Cousin german, } cefndyr, cefndyrw, cefnderoedd, cefnderon, cefnderwedd, cefnderwydd, cefnderwyr: *f.* cyfnither, cyfnitherw: *pl.* cyfnitheroedd, cyfnithcron, cyfnitheredd.

Second cousin—cyfyrder, cyfyrderw: *pl.* cyfyrdyr, cyfyrderon, cyfyrdyrw.

Cater cousin, } perthynas o bell; câr o bell; câr pell.
Quater cousin, }

Cousin, † *a.* cyfathrachol.

Cousinet, *s.* (Ff.) toplech, corynfaen.

Couteau, *s.* (Ff.) anglas, bidog, byrgledd.

Cove, *s.* (S. *cof*, *cofe*) cilfach, crigyll, ebach, cil, cilfa; gwasgodfa, gwasgod, cysgodfa; ceuaddurn, ceugant.

Cove, *v. a.* cilfachu, ebachu.

Covenable, † *a.* (hen Ff.) addas, priodol.

Covenant, *s.* (Ff. *convenant*; o'r Ll. *convenio*) cyfammod, ammod, cynghrair, cytundeb, dygymmod; ammodeb; cofen.

Covenant of works—cyfammod gweithredoedd.

Abrahamic covenant—cyfammod Abrahamig, cyfammod Abrahamaidd; y cyfammod âg Abraham.

Covenant of grace—cyfammod rhad, cyfammod gras.

Covenant-breaker—torwr ammod, torwr cyfammod. [cyflog.

Covenant servant—gwas ammod; gwas

Under covenant—tàn ammod, tàn gofen.

Breach of covenant—tor ammod, toriad cyfammod.

To stick to one's covenant—sefyll wrth ei air *neu* ei ammod; bod yn ffyddlawn i'w addewid.

To enter into covenant, } = *Covenant, v.*
To make a covenant, }

Made by covenant—ammodedig; à wnaed dàn ammod; à gytunwyd arno; ammodol, cyfammodol, cynghreiriol.

Covenant, *v.* cyfammodi, ammodi, cytuno, cynghreirio; ymgyfammodi; gwneuthur ammod *neu* gyfammod; cytuno ar ammodau; rhoi *neu* addaw dàn ammod.

They covenanted with him for thirty pieces of silver—hwy a osodasant iddo ddeg ar ugain o arian (*Mat.* xxvi. 15).

Covenantee, *s.* cyfammodai, ammodai; yr un y gwneir ammod iddo.

Covenanter, *s.* cyfammodwr, cyfammodydd, ammodwr, cytunwr.

Covenanters—Cyfammodiaid, Cyfammodwyr = y rhai a yngyfammodasant yn yr Alban yn erbyn y blaid uchel-eglwysig, tua chanol y 17fed canrif.

Covenous, } *a.* (o *covin*) twyllodrus, cyttwyll-
Covinous, } odrus, cyttwyllol, hocedus, ffals.

Cover, *v. a.* (Ff. *couvrir*; Norm. *coverer*) toi, gorchuddio, cuddio, gorthöi, amlenu, cysgodi, hulio, gwisgo, tuddo, enhuddo, tuddedu, taenu ar, lledu ar, gorlenu; celu, celcu, celcio, dirgelu, cynghelu, celiadu; clorio, fforelu, caesu, caeadu, caesio; gordaenu, caenu, caenenu; rhoddi arno *neu* am dano; cysgodi dros; cadw yn gyfrinachol; marchogaeth, neidio, neidio ar, rhidio, cyridio, cyfebru, llamu, rhoi naid i; rhoi dàn dudded, dàn do, mewn tudded, *neu* mewn amlen; gwasgodi, amddiffyn, noddi; deor, deori; eistedd ar; ateb i; bod yn gyfartal i; talu, cleirio; cynnwys; ffugio; bwrw hug ar; dwyn cwmwl ar.

To cover a table—hulio bwrdd.

To cover the fire—huddo y tân; dyhuddo y tân; enhuddo y tân.

To cover a book—clorio, fforelu, caesu, caesio, caeaadu, *neu* gaeadu llyfr; rhwymo llyfr.

To cover a letter—tuddedu llythyr; amlenu llythyr; rhoi llythyr dàn dudded; rhoi llythyr mewn tudded *neu* amlen.

To cover one's self, } ymorchuddio; gwisgo
To be covered, } het; gwisgo am ei ben.

Be covered—gwisgwch eich het.

To be covered in the presence of the king—ymorchuddio yn ngwydd y brenin.

To cover with a lid—rhoi clawr, cauad, caead, *neu* werchyr ar; cau â chlawr, â chauad, *neu* â gwerchyr; clorio, gwerchyrio.

To cover all about, } amdöi, amorchudd-
To cover all around, } io, amguddio, amwisgo, amhulio, amddilladu, amhuddo, amgysgodi.

To cover before—blaenguddio, rhagguddio, blaendöi, rhagorchuddio.

To cover the feet—gwasanaethu ei gorff; esmwythäu ei gorff; cuddio ei draed.

To cover with boards—byrddio, estyllodi, astellodi, bordio, byrddu; toi âg estyll.

To cover with shade—cysgodi, gwasgodi.

To cover over—gorchuddio, gorthöi; enhuddo, cuddio; gwisgo â; rhoi, gosod, dodi, *neu* fwrw gorchudd ar *neu* dros.

The receipts do not cover the expenses—nid yw y derbynion yn cyfateb *neu* yn gyfartal i'r draul; nid yw y derbynion yn talu y gost; nid yw yn talu ei ffordd; ni thâl y derbynion mo'r draul.

His sin had covered him with shame—toasai ei bechod ef â chywilydd.

They shall cover themselves—ymddilladant, ymorchuddiant.

Cover, *s.* clawr, cauad, caead, to, llèn, gorchudd, tudded, amlen, gortho, hudded, enhudded, tuddedyn, tuell, enhudden, fforel, gwerchyr, hulier, hul, hulen, arhul, huddad, gwisg, caes, crud, croeg, caen, caenen, huliad, cloryn, achre, gwarchen, gwarch, golof, tais, tawr, pall; diddos, diddosrwydd, di-

ddosfa, diddosgudd, amddiffynfa, noddfa, gwasgodfa, achwre; gwarthan, cudd, hudd, cel, celc, argel, encil, celfa, ymguddfa, cilfa; esgus, enw, rhith, lliw; cudd ac amddiffyn.

Under cover—dàn do; dàn gudd; yn nghudd; mewn ymguddfa; mewn amlen, &c.; cowyllog, cowylledig.

We are under cover—yr ydym dàn do; yr ydym mewn diddos *neu* ddiddosfa.

Cover of a house—to.

Cover of a book — amlen llyfr; clawr llyfr.

A handsome cover for his imperfections—esgus teg am ei anmherffeithion; gorchudd teg i'w *neu* dros ei anmherffeithion.

While the army was under cover—tra yr oedd y llu mewn amddiffynfa.

To take off a cover—dadgaeadu, dadorchuddio, dadlenu, &c.

Coverchief,† *s.* (*cover* a *chief*; Ff. *couvrechef*) gorchudd pen, penwisg.

Covercle, *s.* (Ff. *couvercle*) cloryn, hulier, clawr bychan, clawr, gwerchyr.

Covered, *p. p.* (o *cover*) töedig, gorchuddiedig, &c.; dàn do, dàn orchudd, dàn enhudded, dàn amlen; yn nghudd, yn nghel; diddos; hudd, cudd.

Covered all over with armour—ollarfog, cwbl-arfog, amarfog; arfog oll drosto.

Covered with feathers—pluog, plufog.

Covered with gold—eurdo, eurdöedig, eurgaen, eurgrwydr, eurdde.

Gold-covered corselet — brondor eurdo, bronfoll eurdde, llurig eurdo, llurig eurdde.

Six covered waggons—chwech o feni diddos (*Num.* vii. 3).

Thou art covered with fatness—pwyntiaist (*Deut.* xxxii. 15).

Covered-way, } *s.* rhodfa gudd, rhodfa orthö-
Covert-way, } edig, ffordd gudd, amgudd-rawd, diddosrawd, celffordd.

Coverer, *s.* gorchuddiwr, töydd, cuddiwr, huliwr, hulior, achludwr, &c.

Covering, *s.* (o *cover*) gorchudd, gwisg, tudded, to, amlen, arlen, amwisg, hul, arhul, enhudded, gortho, llèn, tuell, tuddedyn, enhudden, telyw, caen, caenen, hug; dillad, achre, amde, amdawd, archre, archro, achris, hws, pilyn; clawr, hulier, gwerchyr, cauad, caead; croeg, gol, caes; toad, gorchuddiad, tuddediad, &c.

The covering of a bed—gortho gwely; dillad gwely.

Verdant covering—glasgaen, irgaen, irwisg, tudded werdd.

Summer covering — telyw haf, hafwisg, gwisg haf, &c.

Head covering—diddosben.

Covering for the tabernacle—pabell-len (*Ecs.* xxvi. 7).

Coverlet, *s.* (*cover*, a Ff. *lit*, gwely) huling, torsed, teisban, cwrlid, cadwy, brycan, tudded, pallen.

Coversed Sine, *s.* cydwrthddiblin.

Cover-shame, *s.* gwarthgudd, gwarthguddiad; gorchudd dros gywilydd.

Cover-slut, *s.* bryntgudd, budrgudded, budreddgudd, cudd budredd.

Covert, *a.* (Ff. *couvert*) cudd, cuddiedig, cel, dirgel, argel, celedig, dirgeledig, dirgelaidd, cuddiadan, gorchuddiedig; dàn gudd, dàn gel, dàn orchudd; celgar, cyfrinachol, anghyhoedd; lledrithiog, lledrithiol, ffals, twyllodrus, cipgar, cyfrwys, dichellus; cysgodog, cysgodol, gwasgodol, gwasgodog, diddos, hudd; dàn awdurdod, dàn nawdd.

Feme-covert, } gwraig briod, gwraig
Femme-couvert, } briodol, gwraig ysbwys; gwraig gowyllog; gwraig dàn gowyll; gwraig dàn nawdd ac awdurdod gwr; gwraig wrnawdd.

Covert, *s.* cuddfa, ymguddfa, cuddle, llechfa, llechfod, llechfan, encilfan, celfa, dirgelfa, cudded, cuddigl, cufigl, llech, cil; gwasgodfa, diddosfa, diddos, diddosfan, diddosgudd, cysgodfa, achlud, amddiffynfa, diffynfa, diffyniad, noddfa, ysgorfa, gwarthan, cysgodle; prysg, prys, prysglwyn, brycell, cysgodlwyn, gwasgodlwyn, brycini, gwyddelwern, prysgle, clŷn, cuddlwyn, coedlwyn, gwasgodwydd; göerfa, hudd, cyhudd; cinmael; gorchudd, cudd; ffau.

By the covert of the hill—ar hyd ystlys y mynydd (1 *Sam.* xxv. 20).

Covertly, *ad.* yn gudd, &c.; tàn law, dàn llaw, tàn gudd, dàn gel.

Covertness, *s.* dirgelrwydd, dirgeledd, celgarwch, celedigrwydd.

Coverts, *s. pl.* teisblu, hulbluf, tuddedion, adenblu, pluf adenydd.

Lesser coverts—y teisblu lleiaf, y tuddedion lleiaf=y plu mân ar fon yr adenydd.

Greater coverts—y teisblu mwyaf, y tuddedion mwyaf=y plu ar y pinesgyll neu y pinbluf.

Under coverts—isduddedion, teisbluf isaf =y plu o dàn yr adenydd.

Coverture, *s.* (Ff. *couverture*) gorchudd, tudded; cysgod, cysgodfa, gwasgodfa; diddos, diddosfa, diddosgudd; achles, amddiffyn, nawdd, diffyniad; cowyll; bod dàn orchudd, nawdd, *neu* awdurdod gwr; cyfiwr *neu* ansawdd gwraig briod; gwrnawdd, gwrnoddiad.

Covet, *v.* (Ff. *convoiter*) chwennychu, chwennych, trachwennychu, trachwennych, cybyddu, awyddu, chwantu, trachwantu, deisyfu, deisyf, hiraethu am, sychedu am, hiraethu, rhybucho, rhybuchu, pucho, dybucho; bod yn awyddus; bod yn chwannog i; canlyn, erlyn, ymgais â; ymegnïo i gael *neu* gyrhaedd.

All covet, all lose — yn ceisio 'r cyrn, colli'r clustiau.

Covet earnestly the best gifts—deisyfwch y doniau goreu (1 *Cor.* xii. 31).

He coveteth greedily—y mae yn fawr ei awydd (*Diar.* xxi. 26).

Covetable, *a.* (o *covet*) chwennychadwy, dymunadwy; i'w chwennych.

Coveter, *s.* chwennychwr, trachwantwr, &c.

Coveting, *s.* chwennychiad, &c.; chwant, trachwant, drygchwant, gorchwant, gormodchwant, awydd, gorawydd.

Covetise,† *s.* cybydd-dod.

Covetous, *a.* (Ff. *convoiteux*) trachwantus, cybyddus, cybyddaidd, cybyddlyd, dirchwantol, gorchwantol, bydolfryd, bydolfrydig; crintach, cyrrith, llawgaead, crin, anhael, crinwasaidd, cynnil, anghawr; awyddus, chwannog, awyddgar, trachwennychol; ariangar; barus.

Covetous of money—ariangar; chwannog i arian.
Covetous of wisdom—chwannog i ddoethineb; awyddus i ddoethineb.
Covetous of learning—awyddus i ddysg.
A covetous person — cybydd, gwr crin, crinwas, crintachwr, mab y crinwas, bydolddyn, bydgarwr, codog, dyn afrull: *pl.* bydolion, cybyddion, cotiaid.
A covetous wretch — cybydd anghawr, crinwas, mab y crinwas, bawai, cerlyn.

Covetousness, *s.* cybydd-dod, cybyddiaeth, cybydd-dra; ariangarwch, bydgarwch, bydolrwydd, bydolfrydedd, cyfoethgarwch, goludgarwch; trachwant, dirchwant, gorchwant, awydd; argynnildeb, trachynnildeb, crinder, anghawrdeb, crintachrwydd, bawciddrwydd; awydd *neu* chwannogrwydd i arian *neu* gyfoeth.
To serve the ends of covetousness—porthi cybydd-dod.
Without covetousness — yn ddïariangar (*Heb.* xiii. 5).

Covey, *s.* (Ff. *couvée*) nythaid, nythlwyth, nythal, deoraid; haid, tŵr, llu, cyfor; haid o adar; cynnulliad, cymdaith; llawnrif.
A covey of partridges—nythaid, haid, tŵr, llu, *neu* gyfor o betrus.

Covin, *s.* (Ff. *couvine*) cyttwyll, cydhoced, cystwyll, cyttwylliad; twyll, hoced, somiant, twyllofaint, twyll-ammod; cytundeb i dwyllo.

Coving, *s.* (o *cove*) mydwrn, myddwrn, ysgwyddiad bwaog.
Covings of a fire-place—ochrau y pentan; cornelau y tân.

Covinous, *a.* (o *covin*) cyttwyllol, cydhocedus, cyttwyllodrus, twyllodrus, hocedus, ffals, twyllgar.

Cow, *s.* (S. *cu*; Al. *kuh*; Is. a D. *koe*) buwch, bu, buch; henfon: *pl.* buchod, buwchod, gwartheg, buch, buw, biw.
Barren cow—buwch hesp, buwch goeg, buwch ryderig.
Cow with calf—buwch gyflo.
Milch cow — buwch flith: *pl.* buchod blithion, gwartheg blithion, da blithion, da blithog, buwchod blithog, buchod blith.
Hard cow—buwch gronedig.
Farrow cow—myswynog, buswynog.
Young cow, Little cow, } buwchan, buchan, buchig, anneirfuwch, treisiadfuwch; buwch ieuanc *neu* fechan.
Cow in her first calving—cynflith, buwch gynflith; buwch y llo cyntaf.
Cow near calving—buwch ddywydd; buwch yn dywyddu.
Tufty cow—buwch wasod, buwch derfenydd.
Cow that has a calf—buwch mam llo; buwch fam llo.
Cow's conception of a fœtus—cyflodawd.
Having many cows, Abounding with cows, } gwarthegog, buchog.
Lady cow—y fuwch goch gota; y fuwch goch.
Sea-cow—morfuwch, morfuch, buwch fôr.
Cow (in the bardic theology) — henfon, mon.
Curst cows have short horns—rhoes Duw gorn byr i'r eidion dyrys; da gwaith Duw, rhoi cyrn byrion i'r fuwch à hwyio; gwnaeth Duw bob peth yn drefnus, rhoes gorn byr i'r eidion dyrys.
To a cow's thumb—at drwch y blewyn.

Cow, *s.* (o *cowl*) cwcwll, cwfl, cwcwll sawell, top simne.

Cow, *v. a.* (o *coward*? Isl. *kufwa*, *kuga*?) digaloni, gwangaloni, tori ysbryd, tori calon, tori awch, hurtio, llyfrhau; cystwyo; brawychu.

Coward, *s.* (Ff. *couard*) anwr, annewryn, llyrfwas, cilgi, adwr; dyn llwfr, llwrf, digalon, gwangalon, annewr, anŵraidd, dïysbryd, ofnus, ofnog, anhy, llegach, llegus, *neu* lyferthin; cachadur, cachgi, cachan, cachad, ofnog, llegach, llibinwas, llwfr, bawyn.

Coward, Cowardly, } *a.* annewr, anŵraidd, llwfr, llwrf, digalon, gwangalon, llyrfaidd, dïysbryd, ofnog, ofnus, anwrol, anlew, llipa, llibin, llyferthin, llegus, llegach, gwael, distadl, isel, bawaidd, brwnt, cachgïaidd, cilgïaidd.

Coward, Cowardize, } *v. a.* digaloni, llyfrhau, hurtio, anwroli, gwangaloni; gwneuthur yn ofnog.

Cowardice, Cowardliness, } *s.* (Ff. *couardise*) anwredd, annewredd, llyrfder, llyrfdeb, llyrfdra, llyfrder, llyfrdra, llyfrdeb, llyfredd, llyrfedd, llyfrineb, ofnogrwydd, ofnusrwydd, anghalondid, anlewdid, anwroldeb, adwriaeth, cilgïedd, cilgïeiddrwydd, cachgïeiddrwydd, cachgïedd, llyrfwasedd, aneofnder, llibindod, aneondra.

Cowardlike, *a.* anŵraidd, llyrfaidd, bawaidd, annewraidd; fel llyrfwas.

Cowardly, *ad.* yn annewr, yn anŵraidd, &c.

Cowardous,† *a.*=*Coward*, *Cowardly*.

Cowardship,† *s.*=*Cowardice*, *Cowardliness*.

Cow-bane, *s.* (*cow* a *bane*) buladd, bumustl; cegyr mawr, cegid y dwr.

Cow-berry, *s.* lluswydden y geifr; *pl.* lluswydd y geifr.

Cow-bunting, Cattle-bunting, } *s.* bras y buchod=math ar aderyn Americaidd.

Cowdie-pine, Cowrie-pine, } *s.* math o binwydd perthynol i Sealand Newydd.

Cow-dung, *s.* tom gwartheg, tail gwartheg, biswal gwartheg, biswail gwartheg, budail, beudail.
Dried cow-dung, Cow-blake, } gleiad, gleiaden: *pl.* gleiaid.

Cower, *v. n.* (C. *cwrian*; Al. *kauern*) cwrian, cyrcydu, crycydu, yswatio; bod yn ei gwrwm; eistedd ar y sodlau *neu* ar y fferau.
She cowereth (in falconry)—y mae yn gwrthgodi.

Cower,† *v. a.* coleddu yn ofalus.

Cow-fetter, *s.* burwy.

Cow-grass, *s.* meillion gwyrgam, maill gwyrgam, buchwellt, buchlaswellt.

Cowhage, Cowage, Cowitch, Couhage, } *s.* (yn y Bengalaeg, *al cwshi*) ymgraflys, coslys, ysbinffa, colffa=math o blanigyn plisgrawnol à dyf mewn hinsoddau cynhes.

Cow-herd, *s.* bugail gwartheg, heusor gwartheg; porthwr, buborthwr, bugail, heusor, buchwr, budywr, beudywr.

Cow-house, *s.* beudy, budy, cleity, buchdy.

Cowish, *a.* (o *cow*) llyrfaidd, anŵraidd, anwrol, annewraidd, ofnog, ofnus, gwangalon, cachgïaidd.

Cow-keeper, *s.* gwarthegydd, gwarthegwr, bugeidwad.

Cowl, *s.* (S. *cugle, cugele;* Ll. *cucullus*) cwcwll, cwfl, hwf, penwisg mynach; mit, ystondir, ystondart; cwfl, cwcwll, *neu* dop sawell.
Bard's cowl—barddgwcwll.
Cowled, *a.* (o *cowl*) cycyllog, cwflog, cwfliedig, hwfog.
Cowled-leaved—cycyll-ddeiliog.
Cow-leech, *s.* buchfeddyg, biwfeddyg, bufeddyg, meddyg gwartheg.
Cow-leeching, *s.* buchfeddygiaeth, bufeddyginiaeth, meddygiaeth gwartheg.
Cow-lick, *s.* llyfgudyn, trogudyn, crychlofn, cudyn crych.
Cowlike, *a.* buwchaidd, buchaidd; fel buwch.
Cowl-staff, *s.* trosol, gwif, trosol ystondir.
Coworker, *s.* (*co* neu *con* a *worker*) cydweithydd, cydweithiwr, cydweithredydd.
Cow-parsley, *s.* gorthyfail, cegiden fenyw.
Rough cow-parsley—gorthyfail garw.
Cow-parsnep, *s.* efwr, efyrllys, cron, moronen y meirch.
Cow-pen, *s.* buches, ffald buchod, cut gwartheg.
Cow-plant, *s.* buchlys, buwchlys.
Cow-pox, *s.* bufrech, biwfrech, brech buchod, brech y fuwch, buchfrech.
Cow-quakes, *s. pl.* crydwellt, eigryn, gwenith yr ysgyfarnog.
Cowry, *s.* cragen Fair.
Cowslip, } *s.* symylen, symwl, tewbanog fech-
Cow's-lip, } an, briallu Mair sawyrus, briallu Mair sawrus, dagrau Mair, llysiau y parlys; briallu, (*sing.* briallen).
Great cowslip, } briallu Mair disawr.
Ox-lip, }
Cow's-lungwort, *s.* buchysgyfeintlys, bubanog.
Cow's-stone, *s.* buchfaen, buwchfaen.
Cow-tree, *s.* buchwydden, buwydden, llaethwydden: *pl.* buchwydd.
Cow-weed, *s.* buchwyn, math ar orthyfail.
Cow-wheat, *s.* biwlith, bulith, gliniogai.
Crested cow-wheat—gliniogai cribog, bulith cribog.
Common yellow cow-wheat — gliniogai melyn, biwlith melyn.
Wood cow-wheat—gliniogai y coed, biwlith y coed.
Cow-yard, *s.* buches, buarth, buchas.
Coxcomb, *s.* (*cock's comb*) coegyn, ysgoegyn, coegwr, ysgogyn, dyn coegfalch, mursyn, mursen o ddyn, pertyn, pefryn, gwas dillad, mursenwr; crib ceiliog, crib y ceiliog; cribell; coryn, caran.
Coxcombly,† *a.* coegynaidd.
Coxcombry, *s.* coegyndod, ysgoegyndod, coegwriaeth, coegyniaeth, coegni, coegfalchedd, coegedd, coegwychedd, coegwychder.
Coxcomical, *a.* coegynaidd, ysgoegynaidd, coegaidd, coeg, coegfalch, mursynaidd, pefrynaidd, rhyddillyn, ucheldybus, ysgoeg.
Coy, *a.* (Ff. *coi, coy*) osgoilyd; mursenaidd, mursenllyd, yswil, goryswil, gŵyl, gwylaidd, cynwyl, cywilyddgar; gwagelog, tawedog, dystaw, ymgelgar; ansiaradus; yn cadw draw; â gymmer arni fod yn ŵyl dros ben; syml, gweddaidd.
A coy lass — mursen; merch ysgoilyd, llances fursenaidd.
Coy, *v. n.* mursenu, ysgoegi; bod yn osgoilyd, mursenaidd, *neu* fursenllyd, &c.; chwaren y fursen; cadw draw; cadw yn mhell; gwneuthur yn anhawdd; llyfnhau.
Coyish, *a.* lledfursenaidd, gofursenllyd, lled ysgoilyd.
Coyness, *s.* (o *coy*) mursendod, osgoilydrwydd, murseneiddrwydd; tawedogrwydd, gochelgarwch, ymgelgarwch, gochelrwydd; yswildod, gorwyledd, gwyldra; tuedd i ymgadw draw.
Coystrel, *s.*=*Castrel, Casteril, Kestrel.*
Coz, *s.* cos=bathon copr bychan, yn Persia.
Cozen, *v. a.* (Llyd. *couchicis, couchesa!*) twyllo, hocedu, hudo, somi, coegio, camgolledu; twyll-ddenu, cyfrwys-ddenu.
Cozenage, *s.* (o *cozen*) twyll, hoced, dichell, hud, ystryw, chwired, som, somiant, twyllofaint; cast; cyfrwysder, cyfrwysdra, cyfrwyswaith.
Cozener, *s.* twyllwr, twyllydd, hocedwr, hocedydd, dichellwr, hudwr, castiwr.
An old cozener—hen gadnaw; hen lwynog; hen ddyn cyfrwysddrwg dichellgar.
Cozy, *a.* (?) cysurus; clyd *neu* gynhes ei sefyllfa.
Crab, *s.* (S. *crabba;* Al. *krabbe;* Gr. *carabos;* Ll. *carabus*) cranc, morgranc, cranc mór, crafanc; ceimwch coch; afal sur, surafal, corafal, cogwrn, grobosyn, (*pl.* grobos), afal sur bach; surafalwydden, afallen sur, surafallen, corafallen; cambill, dyrwynydd, rhwyniadyr; monyn, (*f.* mones, monen), soryn, sarigyn, gwrechyn, drengyn, dyn blwng, soriad.
Crab, } y Cranc, arwydd y Cranc;
Cancer, } Alban Hefin.
Crab, *a.* sarig, sur, blwng, garw, gerwin, sorig, swr.
Crab-apple, *s.* afal sur, surafal, cogwrn, grobosyn, corafal, afal sur bach.
Crab-apple-tree, } afallen sur, surafallen,
Crab-tree, } corafallen, pren grobos, surafalwydden, afallen wyllt, pren afal sur.
Crabbed, *a.* (o *crab*) sarig, sur, sorig, anfoddog, croes, blwng, (*f.* blong), drygnawsus, drygnwydus, dryganwydus, dreng, anhynaws, gorflwng, rhwystrus, gygus, anhywaith, dysgyfrith, dysgethrin, anniddig, anyuad, gwynafog, cuchiog, trwynsor, trwynsur, ffroensur, anfwyn, craseiriog, cras, anhyfodd, anhydrin, garw, gerwin, gerwinol, cystig, chwefrin, agarw, tryn, swr, traws; astrus, dyrys, rhwystrus, dyrysllyd, nidrus, anhawdd, afrwydd, tywyll, caled, anhyddeall.
Crabbedness, *s.* sarigrwydd, sorigrwydd, surni, anfoddogrwydd, croesder, blyngder, drygnawsedd, anniddigrwydd, anfwynder, crasder, blyngedd, swri, gerwinder, garwedd, astrusi, &c.
Crabber, *s.* llygoden y dwr.
Crabby, *a.* anhawdd, dyrys, astrus, nidrus, caled, afrwydd.
Crab-eaters, *s. pl.* crancysiaid, crancysolion=math o grechyddion.
Crab-grass, *s.* crancwellt.
Crabite, *s.* (o *crab*) cranc wedi ymgaregu.
Crab-louse, *s.* crancleuen; *pl.* cranclau.
Crabro, *s.* (Ll.) cacwn.
Crab's-claws, *s. pl.* cranc-ewinedd, crafangau cranc.
Crab's-eyes, *s. pl.* cranc-lygaid=cyttyriad yn nghylla crancod.
Crab-yaws, *s.* troedlwg, gwadn-orfa, gwadnwell.

Crack, *v.* (*Ff. craquer ;* Al. *krachen*) bregu; agenu, hollti, gagenu; tori; briwo, yssigo, crinellu, clecian, crecian, grillian, grillio, trystio, clindarddach, clindarddu; ymdori, ymhollti, ymagenu, crigo, ymagor, agor, agu, ymrwygo; crechian, ysgortio; hollti yn agau *neu* agenau; peri breg; gwichio, gwichleisio; bostio, ymffrostio, brolio, gwagfostio, bragio; difwyno, anmharu, annhrefnu.

To crack nuts—tori cnau.

I will crack your crown—mi a doraf *neu* a friwaf eich pen.

The boat cracked under them—yr oedd y bad yn crinellu danynt.

To crack a bottle—egori costrel; yfed costrel *neu* gostrelaid gydag un; crinellu potel.

To crack one's credit—dwyn anair *neu* anghlod ar un; tori, llygru, *neu* ddifwyno gair da un.

The clouds crack—y mae y cymylau yn clecian.

To crack a whip—clecian ffrewyll.

To crack a joke—gollwng allan air o gellwair; dywedyd gair o gellwair *neu* arabedd; cellwair, cydgam, cymmŵedd; dywedyd digrifair; dywedyd digrifwch.

Crack, *s.* (Al. *krack, krach ;* Gr. *rhagas*) breg, bradwy; agen, hollt, gagen, ag, crig, gorimyn; crec, clec, trwst, ysgort, clap, grill, gwring; tor, toriad, ymdoriad; gwichlais, creglais, cryglais; penwendid, pendrondod; bost, ymffrost, ffrost; anniweirdeb; cyffoden, puten ;† llanc.

It sounds as if it had a crack in it—mae yn synio *neu* leisio yn glwc *neu* glwyfus; mae ei glec fel pe bai glwc.

Crack-brained, *a.* penchwiban, penwan, penfeddal, penffol, chwidr, gwibwrn, chwibwrn, penglwc, syfrdan, lledfrydig, penysgafn, penddarus, hurt, anmhwyllog, disynwyr, ffol, ehud, gwallgof, gwallgofus, gorphwyllus, gorphwyllog, gwallbwyllog, pendron, lloerig; â phenwendid *neu* bendrondod arno.

Cracked, *p. p.* bregus, toredig, cleciedig, &c.; briw, agenog, holltog, ysgig; penwan, penfeddal, anmhwyllog.

Cracked brain—y bendro wibwrn; y bendro chwibwrn.

Cracker, *s.* (o *crack*) bostiwr, broliwr, boccachwr, ymffrostydd, bragaldiwr; tânbelen, crinell, crinellydd, esruthren, cleciedydd, ysgortydd; hwyad gynffonfain, hwyad lostfain.

Nut-crackers—gefail gnau, cneuell.

Crack-hemp, } *s.* crogyn; crogyn o ddyn;
Crack-rope, } llwyth y cebystr; cyw y cebystr; cyw y crogbren; un addfed i'r crogbren; un parod i'r *neu* deilwng o'r crogbren.

Crackle, *v. n.* (o *crack*) clindarddach, crinellu, crecian, crecio, grillian, grillio, ysgwrlwgach, gwringain, gwringellu.

Crackling, *s.* (o *crackle*) clindarddach, crinelliad, ysgwrlwgach, ysgwrlwg, clindarddiad, gwringelliad, grilliad; crinell.

Crackling of pork — crinell glasdwrch, crinell porch, crinell cig tyrchyn, crinell porchellyn.

The crackling of thorns under a pot—clindarddach drain dân grochan.

Cracklings, *s. pl.* (o *crackle*) gwergreision, gwerdeisenau, creisionod, teisenau cwn.

Cracknel, *s.* (o *crack*) breudeisen; teisen ddeugrus; breudeisen galed; teisen frau galed.

Crack-skull, *s.* chwidryn; dyn penchwiban, penwan, *neu* benfeddal; bral o ddyn; penchwidryn, chwidrwr; chwibwrn ei benglog.

Cradle, *s.* (S. *cradel*) cryd, cawell maban, cader maban; cawell, cauel; crud; llithrystram; croper, crifyr; mabandod; dechreufa; cyff.

Cradle of a scythe—cawell pladyr, clwyd pladyr, cader pladyr.

Iron cradle—cryd haiarn, alch.

Cradle of a lobster—ceuedd, cropa, bol, *neu* foly ceimwch.

Cradle band—rhwymyn maban, rhwymyn magu.

Cradle clothes—dillad cryd; dillad magu; dillad maban.

A cradle for a broken leg—crud coes dòn; crud coes friw.

From his cradle—o'i gryd; o'i febyd; o'i fabandod.

Cradle, *v.* gosod *neu* siglo mewn cryd; siglo cryd; siglo y cryd i; llonyddu, esmwytho, susganu, suo; magu mewn mabandod; crydu; tori â phladyr â chawell.

Cradle-scythe, *s.* pladyr gawell, pladyr glwyd, pladyr gawellog; pladyr â chawell arni.

Cradling, *s.* (o *cradle*) crudgoed, crymattegwydd.

Craft, *s.* (S. *cræft ;* Al., Sw., a D. *kraft*) crefft, celfyddyd, celf, celfyddawd, celfyddiaeth; gallu, medr, medredd, medrusrwydd, hyfedredd, cymmedr; cyfrwysdra, cyfrwysder, cyfrwysedd, dichell, ystryw, ffalstedd, chwired, hoced, ymdro, chwiongl; elw; hud, cast, somiant; llawgelfyddyd, celfyddyd llaw, galwedigaeth; corlong, ysgraff; mân longan, (*pl.* mân longau).

Craft, † *v. n.* castio, chwareu castiau.

Craftiness, *s.* (o *crafty*) cyfrwysder, cyfrwysedd, cyfrwysdra, ystryw, ystrywgarwch, dichell, dichellgarwch, dichellrwydd, ffelder, ffeldra, ffelrwydd, hoced, twyll, chwired, ffalstedd, ymdro, chwiongl, dichellwaith, cyfrwyswaith, dichelldro, ffesawd.

Craftsman, *s.* (*craft* a *man*) crefftwr, celfyddwr, celfyddydwr, gwr o gelfyddyd, celfwr, llawgelfyddwr, llawgelfyddydwr, gallofydd, llofweithydd, saer; dyn penigamp, celfydd, *neu* gywrain.

Craftsmaster, *s.* (*craft* a *master*) meistr yn *neu* ar ei gelfyddyd; pencrefftwr, celfyddwr penigamp, crefftwr.

Crafty, *a.* (o *craft*) cyfrwys, cyfrwysgall, ystrywgar, ystrywiog, ystrywus, cyfrwysddrwg, dichellgar, dichellus, dichellog, ffalst, ffel, hocedus, twyllodrus, chwiredus, ffur; medrus.

Crag, *s.* (C. a Gw. *craig ;* Gael. *creag*) clogwrn, clogwyn, clegr, clegyr, craig, pencraig, ysgythredd, ysgyryd, clwg, taren; craig ysgyryd, ysgythrog, *neu* serth; ysgyrgraig, briwgraig.

The crag of the rock—ysgythredd y graig (*Iob* xxxix. 28).

Crag, † *s.* (S. *hracca*) gwddf, gwddwg; gwàr, gwegil.

Crag-built, *a.* clegr-adeiledig, creig-adeiliog; wedi ei adeiladu â chlogyrnau.

Cragged, } *a.* (o *crag*) clogyrnog, ysgythrog,
Craggy, } clegyrnog, clegrog, clogwynog,

clogyrnaidd, creigiog, ysgyryd, ysgyrgreigiog, tarenog, cerygog, garw, agarw, serth.
Craggy hill—clogfryn.
Craggedness, Cragginess, } *s.* clogyrnedd, clogyrnach, clogyrnogrwydd, ysgythrogrwydd, clegrogrwydd, clogwynogrwydd, clogwyncdd, &c.
Crake, (o *crack*) bost, ymffrost, brawl.
Crake, *s.* (o'r sain) rhegen yr yd, rhegen y rhych, creciar.
Corn-crake, Bean-crake, Corn-drake, } rhegen yr yd, rhegen y rhych, creciar.
Crake-berry, Crow-berry, } *s.* creiglusen, creiglysen, cryglusen: *pl.* creiglus, creiglys, cryglus, grugon, gruglys, llus y brain, llus duon y mynydd.
Cram, *v.* (S. *crammian*) sechu, secu, gorlenwi, tynlenwi, sachu, sagio; llenwi dàn sang: tyru, pentyru; glythu, cegu, pesgi; gwthio i mewn; bod dàn sang.
To cram one's self—ymsechu, ymsecu, ymsengu; ymlenwi dàn sang; cegu, glythu, ceglyncu, sagio, gwancio, ymddyfoli, ynddyfolio, ymbesgu.
Crambe, *s.* (Gr.) ysgedd.
Crambe maritima, Sea-kale, } ysgedd arfor, morfresych, bresych arfor, cawl y graig, cawl y môr, morgawl, llyrgawl, llyrfresych.
Crambo, *s.* (?) rhosp; chwareu rhospau; rhospau; rhospiad; odl, cydodliad.
To play at crambo—chwareu rhospau, rhospa.
Crameric Acid, *s.* (oddi wrth y Drd. I. G. H. a G. H. *Kramer*) sur Cramerig, sur rhatanig.
Cramp, *s.* (S. *hramma;* Al., D., a Sw. *krampe*) gwrwst, cwlwm gwythi, yr wrwst, gwyneg, dirgrebychiad, cnodglwm, dirdynwst, crebachwst; caethiwed, attalfa, rhwystr, attaliad, cyfyngiad.
Cramp, *v. a.* crebychu, dirgrebychu, dirwasgu, gwasgu, parlysu; caethiwo, attal, cyfattal, rhwystro, cyfyngu, cyfyngu ar; dàl yn dyn; creffynu, craffu, craffo, cyfrwymo à chraff.
Cramp, Crampern, Cramp-irons, } *s.* craff, craffhaiarn, creffyn, dalgraff, caff, crwca, gafaelfach, dalfach.
Cramp, *a.* anhawdd, dyrys, tywyll, anhyddeall, anghynnefin, caled; clymog, cygnog.
Cramp-fish, yswythbysg, cyffiedydd, cyffbysg.
Crampit, *s.* blaen gwain, dyflaen mettel.
Crampoons, *s.* (o *cramp*) craffau, creffynau, dalgraffau, esgidgraffau, gafaelgraffau.
Cranage, *s.* (o *crane;* Ll. drosgl, *cranagium*) cambilliaeth; defnyddiad cambill *neu* ddyrwynydd; cambilldal, garanlog; tâl am ddefnyddio cambill.
Cranberry, *s.* (*crane* a *berry*) llygaeren, llygeirinen, ceiriosen y waen: *pl.* llygaeron, llyged aeron, llygaid aeron, llygad eirian, llygeirin, llygedeirin, ceirios y waen.
Cranch, *v. a.* (Is. *schranssen*)=*Craunch.*
Crane, *s.* (S. a Sw. *cran;* Al. *kralın;* Is. *kraan:* D. *krane*) garan, cregyr, crychydd, crechydd, crëyr, y gwddf cryg, gwddwf cryg, aderyn garhir.
The little crane—garan-grychydd.
Crane's peas—pys y garanod.
Crane, *s.* cambill, garan, garanbill, dyrwynydd; cambibell, dysbyddell.
Crane-fly, *s.* garan-gleren.
Crane's-bill, *s.* pig yr aran, mynawyd y bugail, garanbig; gefail llawfeddyg.
Stinking crane's bill, Herb Robert, } troedrudd, llysiau y llwynog, llysiau Robert.
Crowfoot-leaved crane's bill—pig yr aran y weirglawdd.
Shining crane's bill—pig yr aran dysglaer, garanbig llachar.
Dove's-foot crane's bill—troed y golomen, pig yr aran cyffredin.
Small-flowered crane's bill—pig yr aran manflodeuog, pig yr aran bychan.
Jagged-leaved crane's bill—pig yr aran llarpiog.
Long-stalked crane's bill—pig yr aran hirgoesog.
Bloody crane's bill—pig yr aran rhuddgoch.
Soft crane's bill—pig yr aran masw, garanbig maswaidd.
Craniognomy, *s.* (Gr. *cranion* a *gnômôn*) creuanwyddeg, creuanwyddor, creuanwyddiaeth.
Craniological, *a.* creuanegol.
Craniologist, creuanegydd, creuanegwr, creuanydd.
Craniology, *s.* (Gr. *cranion* a *logos*) creuaneg, creuanaeth, creuanyddiaeth, menyddeg.
Craniometer, *s.* (Gr. *cranion* a *metron*) creuanfesur, creuanfeidyr, creuanfydrai, creuanyr.
Craniometrical, *a.* creuanfesurol, creuanfydrol.
Craniometry, *s.* creuanfesuriaeth, creuanfeidraeth, creuanfydraeth, mesuriaeth creuanau.
Cranioscopy, *s.* (Gr. *cranion* a *scopeô*) creuansylliaeth.
Cranium, *s.* (Ll.; Gr. *cranion*) creuan, penglog, siôl, siâd, iad; padell yr ymenydd.
Crank, *s.* (Is. *kronkel;* talfyriad o *crane-neck?*) cranc, trogambill, cambill; tro, plyg, bachdro; craffhaiarn.
Crank, *a.* (Al. a D. *krank*) pybyr, heini, heinif, hoenus, cryf, gwrdd, bywiog, iachus, hawntus; hyf, eon; syth; hyddymchwel; parod i ddymchwelyd.
Crank, Crankle, } *v.* dolenu *neu* ddolystumio fel afon; dolenu, dolystumio, ymddolenu, ystumio, ymnyddu; plygu yn ol ac yn mlaen; plygu yn ddilliau; amlwybro; dillio, plygu, crychu; myned yn fachog.
Crankle, *s.* plyg, dolen, camedd, plygiad, plygfa, tum; doleniad, dolystumiad; ystumiad *neu* ddoleniad glàn afon; crych, crychiad: *pl.* doleniadau, bachdroion, dolystumiau, crychion.
Full of crankles—llawn plygiau, plygiadau, ymdroion, dilliau, doleniadau, dolystumiau, *neu* fachdroion; llawn ymdro; dolenog, dolystumiog, bachog, cilfachog, ystumiog, dilliog; rhychog, cygnog.
Crankness, *s.* (o *crank*) pybyrwch, hoenusder, bywiogrwydd, hawntusrwydd, iachusrwydd, cryfder; sythder; hyddymchweledd; parodrwydd i ddymchwelyd *neu* ddiwel.
Cranky, *a.* (o *crank*)=*Crank, a.*
Crannied, *a.* (o *cranny*) agenog, holltog, agog, gagenog, gorimynog, bregus.
Cranny, *s.* (Ff. *cran;* Ll. *crena*) agen, hollt, ag, agenig, gagen, gorimyn; twll, lloches, llechfod; cegluniodyr.
Crannying, *a.* agenol, holltol, gagenol.
Crantara, *s.* (Gael. *crean tarigh*) ufelgroes, croes gwarth, croes dân.

Crants, *s.* (Al. *krantz*) beddwyrlen, bunwyrlen, elorbleth.

Crapandine Doors, *s. pl.* (Ff. *crapandine*) colddorau; drysau yn troi ar golyn.

Crape, *s.* (Ff. *crêpe, crêper;* Al. *krepp*) galarwe; crychwe.

Crape, *v. a.* crychu, modrwyo, llofni, argrychu.

Crapnel, *s.* (Ff. *grappin;* C. *crap*) bach, bechyn, tynfach.

Crapple, *s.* (C. *craf, crap*) crafanc, ewin, craf, ysbag.

Crapula, *s.* (Ll.) alar, tordyn, alariad, brwysgedd.

Cross-wise, *ad.* ar groes, ar draws, yn groes; ar wedd croes; ar lun crog; ar ddull crwys.
Cross-wort, *s.* croeslys, llysiau y groes.
Crotalaria, *s.* (Gr. *crotalon*) cribellys, rhuglys.
Crotalum, *s.* (Ll.; Gr. *crotalon*) math o symbal, arferedig gynt, yn enwedig gan y Corybantwys, neu offeiriaid Cybele.
Crotalo, *s.* (Ll. *crotalusa*) symbal y Tyrciaid.
Crotalus, *s.* (Gr. *crotalos, crotalon*) y neidr gynffondrwst, y neidr gynffonrugl, y gynffondrwst.
Crotch, *s.* (Ff. *croc;* It. *croccia*) fforch, ffwrch, fforchbren; bach.
Crotched, *a.* fforchog, ffyrchog.
Crotchet, *s.* (Ff. *crochet, croche*) crymfach, cromfach, camfach; corfanig; cynnalbren; asbri, dychymyg, coegdyb, gwagdyb, chwim ias pen, coegfeddwl, coeg ddychymyg, nwyth, mympwy.
Crotchets (in typography)—crymfachau, cromfachau, camfachau=[ ].
Crotchet (in music)—corfanig=
Idle crotchets—arabedd; gwag ddychymygion; mympwyon ofer.
Crotcheted, *a.* crymfachog, cromfachog, corfanigog; asbrïog, nwythog, mympwyog.
Croton, *s.* (Gr.) math o blanigion.
Crotonic Acid, *s.* sur crotonig, sur y croton.
Croton-oil, *s.* olew y croton, olew croton.
Crotophaga, *s.* (Gr. *crotôn* a *phagô*) crotonysiaid.
Crouch, *v. n.* (Al. *kriechen, kröche*) ymgrymu, capio, ymblygu; ymgrymu *neu* ymblygu yn isel; myned yn ei gwrwm; cwricnu, cynffonloni, gwenieitho, truthio, trutheinio; gorwedd gyda'r llawr.
Crouch,† *v. a.* nodi âg arwydd y grog, bendithio.
Crouched-Friars, *s. pl.* Brodyr y Groes, Croesfyneich, Croesfonachod.
Croude, } *s.* (Gr. *cruptô* ?) cuddgell, celgafell,
Crowde, } cuddgell eglwys.
Croup, *s.* (Ff. *croupe*) pedrain, ffolen, crymal, cwman, bontin.
Croup, } *s.* (Ysg. *croup;* S. *kreopan;* Goth.
Croop, } *kropyan*) grygwst, crygwst, gyddfwst, gyddglwyf.
Croupade, *s.* (o *croup*) crymalnaid, crymnaid, gorlam, gornaid.
Croupier, *s.* (o *croup*) un à eistedd wrth drofwrdd.
Crout, } *s.* (Al. *kraut;* Is. *kruid*) surpawl,
Krout, } surfresych, il resych.
Crow, *s.* (S. *crawe;* Al. *kräke;* D. *kraqe;* Is. *kraai*) brân; *pl.* brain.
Hooded crow, } brân yr Iwerddon, brân
Royston crow, } Iwerddon, brân y Werddon, brân ludlyd, brân ludliw, brân lludw.
Carrion crow—breuan, abwyfran.
Red-legged crow, } brân pig goch, brân
Cornish chough, } Cernyw.
The Iraw, } Y Gigfran, y Frân = cydsefydlol,
Corvus, } deheuol, yn cynnwys 9 seren

A flock of crows—branes, branas, llu o frain.
Young crows—branos, brain ieuainc, brain bach.
To pluck *or* pull a crow—bod yn ddiwyd yn nghylch peth dibwys; ymryson yn nghylch ffrilion.
The crow thinks her own birds the fairest—gwŷn y gwel y frân ei chyw.
To strut like a crow in a gutter—cerdded yn uchelfalch; cerdded yn ucheldrem; rhygyngu gân falchder.
Crow of iron, Iron-crow, } trosol haiarn, gwif haiarn.
Crow, Crow-bar, } *s.* gwif, trosol.
Crow, *s.* canu, caniad; llais neu gân ceiliog.
Cock-crow, Cock-crowing, } caniad ceiliog, caniad y ceiliog; pylgain, plygain.
Crow, *v. n.* (S. *crawan*) canu (fel ceiliog); crëu; ffrostio, ymffrostio, bostio, ymddyrchafu, bocsachu, torsythu; bygylu.
The young cock croweth after the old one—â gre y frân fawr a gre y frân fechan.
Crow-berry, *s.* creiglusen, creiglysen, cryglysen, llusen y brain: *pl.* creiglus, creiglys, cryglus, llus y brain, llus duon y mynydd.
Crowd, *s.* (S. *cruth, cread*) twr, pentwr, torf, tyrfa, haid, haib, llu, lluaws, ymsang, ymwasg, tyndorf; y werin, y werinos, y bobl gyffredin; twr, crug, neu gruglwyth o bobl.
To go in crowds—myned yn dyrau, yn fynteioedd, yn lluoedd, neu yn heidiau; ymdyru, heidio.
Crowd, *v.* llenwi, gorlenwi, tynlenwi, secu, sechu, gwasgu, tynwasgu, llethu; ymdyru, tyru, heidio, ymwasgu, ymwthio, torfi, tormi, sengu, ymsecu, ymsengu, pwyso ar, cyfyngu ar; myned yn dyrau; bod yn orlawn.
To crowd one to death—gwasgu neu lethu un i farwolaeth.
To crowd a thing in—gwasgu, gwthio, secu, sechu, neu sengu peth i mewn.
To crowd to a place—ymdyru i le; myned yn dyrau, yn fynteioedd, neu yn lluoedd i le; myned dân ymwasgu neu ymwthio i le; heidio i fân.
To crowd things together—tyru neu bentyru pethau yn nghyd; cydsecu, cydsechu, cydwasgu, neu gydsengu pethau; dwyso pethau; crugio yn nghyd.
To crowd in—ymwthio, ymwasgu, neu ymdyru i mewn; ymsecu neu ymsechu i fewn.
To crowd together—ymdyru yn nghyd; cydymdyru, twysgo, cydsecu, cydsechu, cyttyru.
Crowd, Crowth, } *s.* (C. *crwth*; Gw. *cruit*) crwth.
A player on the crowth=*Crowder*.
Crowder, *s.* crythor, crythwr, ffilor: *f.* crythores, ffilores.
Crowdy, *s.* cawl dwr, blawd a dwr.
Crow-flower, *s.* blodau y frân, blodeuyn y frân.
Crowfoot, *s.* (*crow* a *foot*) egyllt, crafanc y frân, llun troed y frân, troed y frân.
Wood crowfoot—peneuraid, peneuraidd.
Bulbous crowfoot, Buttercups, } chwys Mair, blodau yr ymenyn, blodeuyn yr ymenyn, egyllt cnapwraidd, egyllt cnapwreiddiog.
Celery-leaved crowfoot—crafanc yr eryr, troed yr eryr.
Creeping crowfoot—egyllt ymlusgol, crafanc y frân ymlusgaidd.
Upright meadow crowfoot—egyllt syth y gwaenydd; crafanc y frân syth boethus; crafanc y frân syth boethus y gwaenydd.
Small-flowered crowfoot—crafanc y frân manflodeuog, egyllt manflodeuog.
Ivy crowfoot—egyllt eiddewddail, crafanc y frân eiddewddail.
Water crowfoot—egyllt dyfrdrig; crafanc y frân dyfrle.
River crowfoot—egyllt yr afon; crafanc y frân afonol.
Crow-garlick, *s.* garlleg gwyllt, craf gwyllt, garlleg y brain, wynwyn gwyllt, wynwyn y maes, wynwyn y cwn, triagl y tlawd.
Crow-keeper,† *s.* bwbach, bwgan, tarfhutan, bolol.
Crown, *s.* (Gr. *corôné*; Ll. *corona*; Ff. *couronne*; Al. *krone*) coron, corynrwy, talaith, teyrngoron; coronbleth, gwyrlen; coryn, caran, copa, top, cwnwg, copa pen, siâd, gwarthaf, gwarthaf pen, iad, siôl; siobyn, cobyn; pumswllt, pum swllt; cwblhad, cyflawniad.
Crown, Crown piece, } coron, pumswllt, dernyn coron.
Crown of gold—coron aur, eurgoron.
Crown of a plant—llygattardd.
Crown of a hat—copa het, cwch capan.
Crown of state—teyrngoron.
Imperial crown—coron amherodrol.
Royal crown—teyrngoron, coron freninol.
Crown of the head—coryn, copa, copa pen, caran, siôl, siâd, gwarthaf pen.
Civic crown—coron ddinesig.
Mural crown—coron gaerog.
Triumphal crown—coron orfoleddol, coron orfoledd.
Crown lands, Demesne lands, } tiroedd y goron, tir y goron, tir y faerdref, tir bwrdd, tir bwrdd y llys.
Having a high crown—copaog, coryn-uchel, copa-uchel, caran-uchel.
Wearing a crown—coronog, taleithiog; yn gwisgo coron; caranog, corynog, caranaid.
Wearing a golden crown—eurgoronog, eurdaleithiog.
To invest with a crown—coroni.
From the sole of his foot even to the crown of his head—o wadn ei droed hyd ei goryn.
Crown of the Sun—coron yr Haul=darn o arian bath gynt yn Ffrainc.
Crown paper—papyr coronol, papyr coron.
The northern Crown, Corona borealis, } Arianrod, Caer Arianrod.
The southern Crown, Corona australis, } Coron y de, y Goron ddeheuol.
Crown, *v. a.* coroni; rhoi coron, teyrngoron, neu dalaith am ben; cylchynu pen â choron neu â thalaith freninol; addurno; cwblhau, perffeithio, gorphen.
Crowned, *a.* coronog; coronedig; taleithiog, teyrngoronog; gorphenedig.
Crowner, *s.* (o *crown*) coronwr, coronydd; gorphenydd, perffeithydd; trengholydd.
Crownet, *s.* (o *crown*) coronig, taleithig, talaith.

Crow-net, *s.* rhwyd adar, rhwyd adar gwylltion, rhwyd frain.
Crown-glass, *s.* gwydr dilin, purwydr; y gwydr ffenestri goreu.
Crown Imperial, *s.* peurôs=math ar flodeuyn.
Crowning, *s.* coroniad, coronedigaeth; cwblhad, perffeithiad, gorpheniad; gorphenwaith, cyfrwaith; gorphenran.
Crownless, *a.* (*crown* a *less*) digoron, heb goron.
Crown-office, *s.* swyddfa y goron; coron-swyddfa.
Crown-post, *s.* teyrnbost, teyrnbiler, coron-bost, teyrnddarn, prif bost.
Crown-saw, *s.* cronlif, llif gron, coronlif.
Crown-scab, *s.* cilgrach, cilgramen; crachen yn nghiliau carn ceffyl.
Crown-thistle, *s.* ysgallen goronog.
Crown-wheel, *s.* coronrod, prifolwyn.
Crown-work, *s.* coronwaith.
Crown-worts, *s. pl.* coronlysiau, taleithlysiau, coronwydd.
Crow's-bill, *s.* pelgraff=math o efail llawfeddyg.
Crow's-feet,† *s.* traed y frân, traed brain, bagl-au brain; crychion dân lygaid.
Crow's-foot, *s.* pigogyr, pedbigogyr, troed y frân=math ar offeryn milwraidd.
Crow-silk, *s.* cyflafan, llafanog, llinwydd, llinwisg, llinwydd yr afon, llinwisg yr afon, sidan y brain, gwymon yr afon.
Crow-stone, *s.* branfaen.
Crow-toe, *s.* blodau cenin y brain; blodau cloch yr eos.
Croylstone, *s.* croilfaen, brasganfaen crisialaidd.
Croze, *s.* offeryn cylchwr.
Crucial, *a.* (Ff. *cruciale*, o'r Ll. *crux*) croes, traws, croesol; ar wedd croes *neu* grog; yn croesi eu gilydd, yn trawsdori eu gilydd.
Crucian, *s.* byrbysg.
Cruciate, *v. a.* (Ll. *crucio*) arteithio, poeni, dirboeni, cystuddio.
Cruciate, *a.* (Ll. *cruciatus*) arteithiog, arteithiedig; croesaidd, croesffurfiog, croesddulliog.
Cruciation, *s.* (o *cruciate*) arteithiad; artaith, poen, dirboen, poenedigaeth.
Crucible, *s.* (Ll. drosgl, *crucibulum*; It. *orogiuolo*, *crociuolo*) toddlestr, toddiadyr, toddbot, toddgib; ffyrnes.
Crucifer, *s.* croesddyglys; un o'r croesddygiaid.
Cruciferæ, } *s. pl.* (Ll. *crucifer*) croesogion,
Crucifers, } croesddygolion, croesddygiaid, croesddyglysiau.
Cruciferous, *a.* (Ll. *crucifer*) croesddygol, croesddwyn; arweddol; yn dwyn y groes.
Cruciferous plants — croesddyglysiau, croesddygiaid, planigion croesddwyn, llysiau croesddygol.
Crucifier, *s.* (o *crucify*) croeshoeliwr, croeshoeliedydd.
Crucifix, *s.* (Ll. *crucifixus*) croglun, crogwedd, croeslun, croes, crog, argroeslun; llun *neu* ddelw Crist ar y groes: y grefydd gristionogol.
Crucifixion, *s.* (Ll. *crucifigo*) croeshoeliad, croeshoeliant.
Cruciform, *a.* (Ll. *crux* a *forma*) croesaidd, croesddulliog, crwysffurfiog; ar lun croes; ar ddull croes.
Crucify, *v. a.* (Ll. *crucifigo*) croeshoelio; hoelio ar groes.
Crucigerous, *a.* (Ll. *cruciger*) croesddygol, croesddwyn, crwysddygol, croesarweddol; yn dwyn y groes; croesog.
Crude, *a.* (Ll. *crudus*) llymrig, anmrwd, of, ir, cri, crai, anaddfed; rhagaddfed, rhygynnar, anffaeth; anhyddysg; annhrefnus, annosbarthus; heb ei dreulio yn y cylla; anorphenedig; trwsgl.
The crude form of a word—ffurf lymrig gair.
Crudeness, } *s.* (Ll. *cruditas*) llymrigedd,
Crudity, } llymrigrwydd, anmrydedd, ofedd, ofder, irder, criedd, creider; anaddfedrwydd, anffaethder; annhrefnusrwydd; annhreuledd.
Crudities—llymrigion; ysgarthion, eulon.
Crudle, *v. a.* (Gw. *cruth*; Ysg. *cruds*) ceulo, ceuledu, cawsio.
Crudy,† *a.* (o *crude*) anaddfed; addoer; ceuledig.
Cruel, *a.* (Ff.; Ll. *crudelis*) creulawn, gwaedlyd, ffyrnig, didrugaredd, annynol, milain, mileinig, cïaidd, ysgeler, barbaraidd, dywal, enguriol, digar, echryslawn, erchyll, anfad, creugar, creuol, anwar, didostur, annhosturiol, dideimlad.
To be cruel, } ymgreuloni, creuloni,
To become cruel, } ffyrnigo, cynddeiriogi,
To wax cruel, } gwaedlydio; brochi, sarigo, blynghau, chwerwi.
Cruelty, } *s.* (Ll. *crudelitas*; Ff. *cruauté*) creu-
Cruelness, } londeb, creulonder, creulonedd, creulonrwydd, creulonaeth, dywalder, gwaedlydrwydd, ffyrnigrwydd, mileinrwydd, milusrwydd, annynoldeb, cïeidd-dra, euguriolaeth; trawsder, traha, dirdra, gormes, anghyfiawnder, trais; gweithred greulawn.
Cruentate, *a.* (Ll. *cruentatus*) creuddc, creulyd, gwaedlyd, gwaedled, gwaedrudd, gwaedraidd, gwaedlydiedig.
Cruentous, *a.* (Ll. *cruentus*) gwaedlyd, creulyd.
Cruet, *s.* (Ff. *cruchette*) chwaethel; costrelig, gwydrel; potel surwin, &c.
Sance cruet—taethel, sibrell.
Cruise, } *s.* (Is. *kroes*) costrelan, potelan; cib,
Cruse, } cwpenyn, cwpanig, cwpan, ffiol fechan, ffiol; ffiolaid, costrelaid; ystên.
Cruise, *v. n.* (Is. *kruissen*; Al. *kreuzen*) gwibforio, gwibhwylio; hwylio yma a thraw; hwylio draw ac yma; hwylio yn ol ac yn mlaen; hwylio i fyny ac i waered; hwntian, morhwntian.
To cruise for plunder—hwylio am ysglyfaeth; hwylio ar ol ysglyfaeth; chwilio, hely, fforio, *neu* wibio am anrhaith; hwntian, ysbeio, ysbïo, ysbeiana, *neu* fforio am braidd; preiddio.
Cruise, *s.* gwibforiad, gwibhwyliad; hwyliad yma a thraw; gwibfa, gwibdaith, gwiblongdaith.
Cruiser, *s.* (o *cruise*) gwiblong; preiddlong; ysbeienlong; gwiblongwr, gwibhwyliwr, gwibforiwr.
Crumb, } *s.* (S. *cruma*; Al. *krume*) briwsion-
Crum, } yn, briwionyn, breubysyn, briwysyn, difyn, tip, mymryn; bywyn; briwfwyd: *pl.* briwsion, briwysion, briwion, breubysion, mwydion, briwys, breubys.
Crumbs of bread—briwsion bara; bywyn bara, mwydion bara; bara briw.
To pick up one's crumbs—gwrygio; gwrygio ar ol clefyd; ail wrygio; dechreu

cyrchu *neu* gyrhaedd ei wedd; gwellhau ar ol bod yn glaf.

Crumb, *v. a.* briwo, briwio, briwsioni, briwioni, breubysu, malurio, malu, mânu, manhau.

To crumb bread into milk—briwo bara mewn llaeth; rhoi bara briw mewn llaeth; rhoi briwfara mewn llaeth.

Crumble, *v.* (Is. *kruimelen;* Al. *krümeln*) briwo, briwio, malurio, briwsioni, briwioni, malu, mânu, manhau; ofi; adfeilio, dadfeilio, ymollwng; darfod.

Crum-cloth, *s.* llian briwsion, lliain briwion.

Crummable, *a.* (o *crum*) briwadwy; hyfriw, briwsionllyd.

Crummy, } *a.* (o *crum* neu *crumb*) briwsionog,
Crumby, } briwionog; llawn briwsion; briwsionllyd; bywynog, llawn bywyn, mwydiog; tyner, masw, meddal, mwyth; cnodig, tew.

Crump, *a.* (S.; Al. *krumm*) crwm, crwca, cam, achrwm.

Crump-shouldered—gwargrwm, ysgwyddgrwm, ysgwyddgam, gwargam, ysgwyddgrwca.

Crumpet, *s.* (o *crumb*) mwythdeisen, mwythen, teisen fwyth, teisen fasw: *pl.* mwythdeision, mwythdeisenau, teisenau mwythus.

Crumple, *v.* (o *crump*) crychu, crybychu, crebachu, ymgrychu, sybybio; gwneuthur *neu* fyned yn grychiadau; còri, dygrychu; annhrefnu.

Crumpling, *s.* (o *crumple*) corafal, afalyn, crychafal, cogwrn.

Crunk, } *v. n.* (o'r sain) lleisio fel garan;
Crunkle, } ysgrechian.

Cruor, *s.* (Ll.) gôr, gwyar, ceulwaed.

Crup, } *s.* (Ff. *croupe*) pedrain, ffolen, bontin,
Croup, } crymal, cwman.

Crupper, *s.* (Ff. *croupière*) pedrain, crymal, cwman; cloren; pystylwyn.

Crupper, *v. a.* gwisgo pystylwyn, pystylwyno.

Crural, *a.* (Ll. *cruralis*, o *crus*) coesol, esgeiriol, beglaidd; perthynol i'r goes.

Crural vein—gwythen y goes; gwythïen goesol.

Crusade, *s.* (Ff. *croisade;* Ysp. *cruzada*) croesawd, croessawd, crwysgad, croesgad, crwysad, rhyfel y groes, croes-ryfel.

Crusade, } *s.* crwysad = bathon Portugaidd,
Cruzado, } gwerth oddeutu 2*s.* 6*c.*

Crusader, *s.* (o *crusade*) croesodydd, crwysadwr, croessawdiwr, crwysgadwr, milwr y groes, croes-filwr.

Cruce, *s.* (Is. *kroes*) costrelan, potelan, cib, cwpenyn, cwpanig, cwpan, ffiol fechan, ffiol; ffiolaid, costrelaid; ystên.

Cruset, *s.* (Ff. *creuset*) toddbot eurych, toddlestr eurydd, toddlestr gof aur, toddiadyr, toddgib.

Crush, *v.* (Ff. *écraser*) gwasgu yn chwilfriw; llethu, gwasgu, mathru, sathru, malurio, ysigo, sigo, dywasgu, cyngwasgu, sengu, briwo, cymriwo, cymhwyo, cyfarsangu, candryllio; gwasgu yn llethion; gormeilio, gorthrechu, gormesu, gorthrymu, gorddwyo; llethu i'r llawr; darostwng, cywarsangu, gorchfygu, diddymu, dystrywio, dinystrio, dyfetha; pylori, meiloni, ffylori, manbwyo.

Crush, *s.* ffrwch, gwasgiad, llethiad; gwasgiad yn chwilfriw; yssigdod, briwiant, sigad, targiad; clindarddach, grill, candrylliad.

Crusher, *s.* (o *crush*) llethwr, gwasgwr, yssigwr.

Crust, *s.* (Ll. *crusta;* Al. *kruste*) crofen, crawen, crafen, crest, cresten, ysgrawen, crestyn, crystyn, crwst, ysgrofen, tònen, tòn, caen, caenen; cramen, cen; cragen; plisg, plisgyn, plisgen; crawyn, crawenig, crawd, teryg.

Crust of bread—crofen bara, crystyn bara; cilcyn o fara; crofen o fara, crystyn o fara.

Crust, *v.* crofenu, crawenu, crestenu, crestynu, cresto, crafenu, crawynu, crystio, crystynu, ysgrawenu, ysgrofenu, ysgrafenu; cramenu, cenu; caenenu, caenu; cragenu; plisgenu, ysgrawio; gorchuddio â chrofen, â chrawen, â chrest, *neu* â chrystyn.

Crusta, *s.* cragem, crestem; cramen; cragen.

Crustacea, } *s. pl.* (Ll. *crusta*) crestogion,
Crustaceans, } crofenogion, crawenogion, crawogion, crestfilod: *sing.* crestfil, crestogyn.

Crustacean, *a.* crestenaidd, crawenaidd, crestogaidd, crestenogaidd; perthynol i grestfilod.

Crustaceology, *a.* (*crustacea*, a Gr. *logos*) crestfilodiaeth, crestfilodeg, crestogaeth.

Crustaceous, *a.* (Ll. *crusta*) crofenaidd, crestaidd, crawenaidd, crystynaidd, crawynaidd, crestogaidd; cramenaidd; crofenog, cragenaidd; âg iddo gragen dyner gymmalog.

Crustaceous animals=*Crustacea, Crustaceans.*

Crustaceousness, *s.* crestogrwydd, crestogeiddrwydd, crofenogrwydd, craweneiddrwydd.

Crustalogical, *a.* crestfilodol, crestogaethol; perthynol i grestfilodiaeth.

Crustalogist, *s.* crestfilodydd, crestogaethwr, crestogwr.

Crustalogy, *s.* (Ll. *crusta*, a Gr. *logos*) crestfilodiaeth, crestfilodeg, crestogaeth.

Crustated, *a.* (Ll. *crustatus*) crofenog, crestenog, crawenog, crystynog; gwedi ei orchuddio â chresten *neu* grofen.

Crustation, *s.* (Ll. *crusta*) crofeniad, craweniad, cresteniad, crestyniad, ysgraweniad, crawyniad, ysgrawiad, crameniad, crestiad, crageniad, teryg.

Crusta Petrosa, *s.* (Ll.) ffergrest.

Crustiness, *s.* (o *crusty*) crofenogrwydd, crawenogrwydd, crestogrwydd, crystynogrwydd, crestlydrwydd, cresteiddrwydd; sarigrwydd, terigrwydd, anniddigrwydd, anynadrwydd, anwesogrwydd, drygnaws, ceintach, afrywiogrwydd.

Crusty, *a.* (o *crust*) crofenog, crawenog, crestenog, crestog, crystog, crystynog; cramenog, cenog; crestol, crofenol, crawenol; crofenaidd, crystaidd; afrywiog, anniddig, sarig, blwng, anynad; anwesog, ceintachlyd, dreng, anfwyn, sur, croes; brathlyd.

Crut, *s.* (?) rhan arw rhisg derw.

Crutch, *s.* (It. *croccio;* S. *kryka;* Al. *krücke*) bagl, ffon fagl, ffonfagl; tudfach; henaint: *pl.* ffyn baglau.

Crutch, *v. a.* cynnal ar ffyn baglau; tudfachu.

Crutched, *a.* ar ffyn baglau; croesog.

Cruth, } *s.* (C. *cruth*) crwth; *pl.* crythau=
Crwth, } math ar offeryn cerdd dannau.
Crooth, }

Crux, *s.* (Ll.=croes) ffaig, dyryswch, dyrysbeth.

Cruyshage, *s.* tryfalben=math o bysg.

Cry, *v.* (Ff. *crier*) llefain, gwaeddi, crio, bloeddio, wylo, wylofain, uban, ubain, wbain, dolefain, dylefain, garmio, nadu, ysgrechian, ysgrechain, banllefain, ysgarmain, diaspedain, ysgego, bloeddian, gawri, lleisio,

gawrian, germain; gerain, geran, cwynfan, cwyno, cwynofain, dysgrïo, ebychu, drygyrferthu, drygyrferth; crefu, crëu; cyhoeddi, cyffredino; udo.

To cry out, } banllefain, crochlefain,
To cry aloud, } crochwaedddi, dolef-
To cry out aloud, } ain, dylefain, gwaeddolef; gwaeddi yn groch; llefain yn groch; galw yn groch; gwaeddi, diaspedain, dysgrïo; llefain allan; bloeddio allan; gawri, gawrian, ysgarmain, ysgego, garmio, eugi; uban, ubain; rhoi banllef, crochlef, garm, ysgarm, ynglef, *neu* ddiaspad; dadyrddu; rhoi cri allan.

To cry out for joy—bloeddiaw o lawenydd; rhoi bloddest.

To cry (as a child)—geran, gerain, crewtian, crewtio, pipian, pipianu; golefain; crïo, llefain; cwynleisio, cwynfan; cymmichdan, michdan, gwichleisio, gwichio, gwawchio, gwawchain, cwynleisio.

To cry against—llefain yn erbyn.

To cry out for mercy—ymbil, ymbilio, gwaeddu, *neu* lefain am drugaredd; gofyn, dymuno, *neu* erfyn maddeuant; gwaeddi allan am drugaredd.

To cry out against—cwyno yn uchel yn erbyn; banllefain yn erbyn; beio, beio ar; lladd ar.

To cry to—gwaeddi ar; llefain ar; erfyn ar; ymorol ar; ymbilio ar; galw ar.

To cry down—beio, difrïo, goganu, bychanu, beio ar; rhoi anair, drygair, *neu* anghlod i; hortio, enllibio; lladd ar; rhedeg ar; rhedeg i lawr; anfrïo, difenwi; dywedyd gair twn am; collfarnu, dyfarnu.

To cry up—canmawl, canmoli, canmol, dyrchafu, moli, mawrhau, codi, arwyrain, brolio.

To cry goods—crïo nwyddau; cyhoeddi nwyddau.

To cry out upon—gwaeddi wfft i; gwaeddi allan ar.

To cry out often—goriain, gorian, diaspedain, bloeddian, dysgrethain, bloeddain, dylefain, ysgarmain, germain; crochwaeddi yn fynych, &c.

To cry together—cydwaeddi, cydlefain, cydfloeddio; llefain yn nghyd.

Cry aloud, spare not—llefa â'th geg, nac arbed (*Esa.* lviii. 1).

To Thee all angels cry aloud—arnat Ti y llefa yr holl angelion.

The voice of one crying in the wilderness—llef un yn llefain yn y diffaethwch.

Cry, *s.* llef, gwaedd, cri, bloedd, dolef, dylef, garm, gawr, gwawch, diaspad, ysgrech, nad, dias, llais; garmlais, banllef, crochwaedd, gwaeddolef, crochlef; llefain, wylad, galarnad; swn, son; ud; erchwyn, cniw o fytheuaid.

A loud cry—banllef, crochlef, crochwaedd, crochlais, gwawch, llef uchel, gwaedd fàn, dolef groch, gwaedd groch, gawr fàn, llef fàn, gorfloedd, dirwaedd, arwaedd, arddolef, dysgri, baich, gorlef, garm, ysgarm, anglef.

A faint cry—golef, llef wàn, gwanllef; crewt.

A loud and a bitter cry—chwerw lef uchel (*Esth.* iv. 1).

A cry of distress—ynglef, ynglais, inglef, angenfloedd, gwaeddolef, inglais.

A cry of lamentation—oerlef, oernad, oerlais, galarnad, oergri, oerwaedd, galargwyn, oergwyn, alaeth.

To make a mournful cry—cwynfan, cwynofain, cwyno, alaethu, oerlefain, oernadu, oergrïo, oergwyno.

A cry of joy *or* triumph—llef gorfoledd; bloddest, oroïan, bloedd oroïan.

The cry of hounds—wö; llais *neu* gri bytheuaid yn hely.

Hue and cry—wbwb, iwbwb, gwaedd wbwb; cri a gwaedd; gwaedd ac ymlid; cri a gwaedd y wlad.

To set up *or* raise a hue and cry—gwaeddi wbwb, llefain wbwb; codi y wlad; codi ac ymlid.

A hoarse cry—cryglais, creglef, creglais, cregwaedd.

A confined doleful cry—daergri.

A squeaking cry—gwich, gwichlef, gwichlais, mich, fflich, michlef, gwilrin, gwichgri, ysgrechlais, ysgrech, crech, llef ysgrechlyd.

War-cry—rhyfelfloedd, cadlef, cadfloedd, rhyfelwaedd, cadwaedd, bloedd rhyfel.

To set up a cry, } codi llef, dyrchafu llef;
To raise a cry, } rhoi llef, gwaedd, *neu* floedd; garmio, gawrio, gwawchain.

They set up a cry—dyrchafasant eu llef; rhoisant waedd, llef, *neu* floedd.

Great cry and little wool—dadleu mawr mynych, ac ongu ar lygoden.

Cryal, *s.* (C. *crëyr, creyyr*) crëyr, crechydd, cregyr, garan, crychydd.

Cryer, } *s.* (o *cry*) crïwr; gwaeddwr, llefwr,
Crier, } dolefwr, dolefydd; cyhoeddwr, hoeddiedydd.

Public cryer, } gwaedd gwlad, crïwr,
Common cryer, } cyhoeddwr, cenad fawr ergryd, geilwad; dodwr cri *neu* nad; rhingyll; crïwr cyffredin.

Cryer of a court—gostegwr=gostegydd, cyhoeddwr y llys.

Cryer, *s.* criedydd, gelyn y golomen=math o walch.

Crying, *a.* (o *cry*) gwaeddfawr, mawrwaedd, bloeddfawr, uchelwaedd, ysgreol; hynod, cyhoedd, cyffredin, honaid, hysbys, carn.

Crying sins—pechodau gwaeddfawr, pechodau uchelwaedd.

Crying, *s.* criad, cyhoeddiad, llefad, gwaeddiad, bloeddiad; cri, gwaedd, bloedd, llef, crochwaedd, banllef, crochlef; ymbil, erfyniad, dadwrdd; llefain, wylofain, cwynofaint, geran, gerain, ulwain, galar, galargwyn, beichiad; galwad daer.

Cryolite, *s.* (Gr. *cruos* a *lithos*) rhewfaen.

Cryophorus, *s.* (Gr. *cruos* a *phoreô*) rhewddygydd, rhewddygai, rhewadyr.

Crypt, *s.* (Ll. *crypta*, o'r Gr. *cruptô*) celgafell, cuddgell, dirgelfa, celfa, cuddadail; cuddogof, celogof; tanddaiargell; beddgell, cel-feddgell.

Crypta, *s.* (Ll.) celdderbynfa, celaddawd.

Cryptæ, *s. pl.* (Ll.) celoddfau, gorthyfigion.

Cryptic, } *a.* (Ll. *crypticus*) dirgel, cudd,
Cryptical, } cuddiedig, cel, celedig, cynghel, dirgeledig, cuddiog.

Cryptocephalus, *s.* (Gr. *cruptô* a *cephalê*) cuddbenogion.

Cryptogam, *s.* (Gr. *cruptos* a *gamos*) cuddweddog, dirgelbriod.

Cryptogamia, *s. pl.* cuddweddogion, celweddogion, celweddogiaid, celbriodiaid; dirgelbriodol; anghibogion, anhadgellogion; uchdyfiaid, pendyfolion=enw cenedl o blanigion, yn ol trefn Linnæus.

Cryptogamian, Cryptogamic, Cryptogamous, } celbriodol, dirgelbriodol, cuddweddog, celweddogaidd, dirgelweddogol.

Cryptogamic plants=*Cryptogamia.*

Cryptogamist, *s.* celweddogwr, cuddweddogwr; un hyddysg mewn llysieuaeth gelbriodol; hoffwr cyfundraith cuddweddogaeth planigion.

Cryptogamy, *s.* (Gr. *cruptos* a *gamos*) cuddweddogaeth, celweddogaeth, celbriodaeth, dirgelweddogaeth.

Cryptographer, *s.* (Gr. *cruptos* a *graphô*) celysgrifenwr, celysgrifenydd, celysgrifydd, cuddysgrifwr.

Cryptographical, *a.* celysgrifol, cuddysgrifol, dirgelysgrifol, cuddysgrifenol.

Cryptography, *s.* (Gr. *cruptos* a *graphô*) celysgrifiaeth, cuddysgrifiaeth, cuddysgrifenad; celysgrifen, cuddysgrifen, cuddysgrif; celnodau, cuddnodau, celnodion.

Cryptology, *s.* (Gr. *cruptos* a *logos*) celiaith, dirgeliaith, cuddiaith, iaith gyfrin, cymygiaith.

Crypto-porticus, *s.* celoriel, cuddoriel, oriel cel.

Cryptorhynchides, *s. pl.* (Gr. *cruptô* a *rhin*) celrynogion, cuddrynogiaid, cuddryniaid.

Crystal, *s.* (Gr. *crustallos*; Ll. *crystallus*; Ff. *cristal*) crisial, crisiant, grisial, grisiant, cris.

Rock crystal, Mountain crystal, } creigrisial, creigrisiant, crisial y graig, crisial y mynydd.

Iceland crystal — crisial Ynys yr Ia; crisiant Island, crisial Islandig.

Crystal, *a.* crisialaidd, crisiannaidd, grisialaidd, grisiannaidd; tryloew, gloew, crisialwawr, trybelid, claer, dysglaer, dysglain, hyloew, canloew, ffloew.

Crystal streams—ffrydiau crisial, ffrydiau crisialaidd, ffrydiau tryloew, ffrydiau tryloewon, ffrydiau gloew, &c.

Crystal tears—dagrau tryloewon, gloew ddeigr, dagrau crisialaidd, dagrau gloewon, &c.

Crystalform, *a.* crisialaidd, crisialwedd; ar lun crisial.

Crystalline, Crystaline, } *a.* (Ll. *crystallinus*) crisialaidd, crisiannaidd, grisialaidd, grisiannaidd; crisialog, crisiannog; tebyg i grisial; crisialwawr, tryloew, gloew, trybelid, trylachar, claer, dysglaer, dysglain, hyglaer, hyloew, canloew, llachar, ffloew, pur, ter, eglur-loew.

A crystalline palace—palas crisial, plas o grisial, palas crisialog, llys crisialaidd.

Crystalline lens of the eye—crisbilen y llygad; llugell grisial y llygad; crislyn y llygad; crisnaws y llygad.

Crystallite, *s.* (*crystal*, a Gr. *lithos*) eithinfaen, aethfaen.

Crystallizable, *a.* (o *crystallize*) crisialadwy.

Crystallization, *s.* (o *crystallize*) crisialad, crisiannad, crisianniad, tryloewad.

Crystallize, *v.* (o *crystal*) crisialu, crisiannu; ymgrisialu, ymgrisiannu; tryloewi.

Crystallographer, *s.* (*crystal*, a Gr. *graphô*) crisialydd, crisiannydd, crisiannwr; un a ddysgrifio grisialau.

Crystallographic, Crystallographical, } *a.* crisialyddol, crisiannyddol, crisialegol; perthynol i grisiannaeth.

Crystallography, *s.* (*crystal* a Gr. *graphô*) crisiannaeth, crisialeg, crisialyddiaeth, crisiannyddiaeth; gwyddor crisialad a chrisialau.

Crystal-worts, *s. pl.* crisiantlysiau, crisialwydd, crislysiau.

Crystalomancy, *s.* (Gr. *crustallos* a *manteia*) crisialarmes, crisddewiniaeth.

Ctenoid, *a.* (Gr. *cteis* ac *eidos*) cribaidd; ar lun crib.

Ctenoidians, Ctenoidans, Ctenoidea, } *s. pl.* (Gr. *cteis* ac *eidos*) cribgenogiaid, cribgenogion.

Ctenoidean, *a.* cribgenogaidd, cribgenogol; perthynol i'r cribgenogiaid.

Cub, *s.* (Gw. *caobh?*) cenaw, cenau, colwyn, pothan; cïan: *f.* cenawes: *pl.* cenawon.

Cub of a bear—cenaw neu genau arth; arthan, arthen.

Cub of a fox—cenaw llwynog; cenau cadnaw.

Cub, *s.* preseb, côr ychain.

Cub, *v. a.* dyfod â chenawon; bwrw cenawon; dyfod â chenaw neu genau; bwrw neu ddwyn rhai ieuainc; alu; cyfyngu ar, caethiwo.

Cubation, *s.* (Ll. *cubatio*) gorweddiad, gorweddawd; lledorweddiad.

Cubatory, *a.* gorweddol, arorweddol; yn gorwedd ar; lledorweddol.

Cubature, *s.* (o *cube*) cydryfaint, cubiadaeth.

Cube, *s.* (Ff.; Gr. *cubos*; Ll. *cubus*) cub, cubyn, tryfaid, tryfaint; corff chwechochrog; trygorff chweochrog, chwechochrog, chwegyfochrog, chwegyfochr, neu chwechwynebog; corff o'r un hyd, lled, a dyfnder.

Cube root—trysawdd, trysawd, gwreiddyn trysawdd.

Cube root (as a rule)—trysoddiaeth, trysoddiaeth.

The sign of the cube root—trysoddeb.

Cubeb, Cubeba, } *s.* (Ar. *cababan*; Indaeg, *kebaba*) math ar bupyr.

Cubebine, *s.* cubebin.

Cube-ore, *s.* cubfwn.

Cubic, Cubical, } *a.* (Ll. *cubicus*) cubig, cubaidd, cubol, chwegyfochrog, chwechochrog, chweochrog, chwegyfochr; ar wedd dis.

Cubic number—cubrif, rhif cubig.

Cubic foot — troedfedd gyfan, troedfedd dryfaint, troedfedd gub, troedfedd gubig, troedfedd chweochrog.

Cubicalness, *s.* cubigrwydd, cubeiddrwydd.

Cubicular, *a.* (Ll. *cubiculum*) ystafellol, ystafellaidd, cufiglaidd; perthynol i ystafell.

Cubiculary, *a.* (Ll. *cubiculum*) addas i ystum eistedd.

Cubiform, *a.* (Ll. *cubus* a *forma*) ar wedd neu ddull cub; cubynaidd, cubaidd, cubddull.

Cubit, *s.* (Ll. *cubitus*; Gr. *cubiton*) cufydd, cyfelin, elinad; iselin.

Cubital, *a.* (Ll. *cubitalis*) cufyddol, cyfelinol; cufyddeidiol; cufydd ei hyd; iselinol.

Cubited, *a.* cufyddog, cyfelinog.
Cubless, *a.* (*cub* a *less*) digenaw; heb genaw; heb genawon.
Cuboid, *a.* (Gr. *cubos* ac *eidos*) cubaidd; gogubaidd, tryfeintaidd.
Cuboidal, *a.* cubaidd, cubynaidd; ar wedd *neu* ddull cub.
Cubo-octahedral, *a.* cub-wythsodog, cub-wythsodol, cub-wythochrog.
Cucking-stool, *s.* (o *ducking* ?) trochgader, ystol drochi, cystwyfa=offeryn à arferid gynt i gosbi benywod anystywallt.
Cuckold, *s.* (Ll. *cuculus*) cycwallt, hoffdyn, cyrnicyll, cyrnig, corniog, cyrnigddyn, gwr corniog; gwr i wraig anffyddlawn *neu* odinebus.
Cuckold wittol, } cycwallt cyfaddef, cyc-
Tame cuckold, } wallt trugarog, cyc-wallt boddlon.
Cuckold, *v. a.* cycwalltu, hoffdynu, cyrnicyllu, diwrîo; gwneuthur yn gycwallt.
Cuckoldly, *a.* cycwalltaidd, hoffdynaidd, fâl cycwallt; gwael, isel, bawaidd; llechŵraidd, llechgïaidd, llechiannus.
Cuckold-maker, *s.* cycwalltwr, hoffdynwr, cycwalltydd, cyrnicyllwr.
Cuckoldom, *s.* (*cuckold*, a'r terfyniad *dom*) cycwalltawd, cycwalltedd, cycwalltaeth, hoffdyndod, cyrnigdod; godineb.
Cuckoo, *s.* (o gân yr aderyn; Ll. *cuculus;* Gr. *coccux;* Al. *kuckuck;* Ff. *coucou*) cog, y gog, cwcw, y gwcw, cethlydd: *pl.* cogau.
To sing like a cuckoo—cadw byth yr un acen fel y gwcw; dàl ar *neu* at yr un acen fel y gwcw; canu byth yr un cywydd; dywedyd yr un peth ganwaith; canu fel y gwcw; lleisio fel y gog; canu gwcw.
The cuckoo's note—gwcw; cân y gog.
The cockoo's note is still the same—yr un acen sy gàn y gwcw; yr un acen sy gàn y gwcw eleni ac ellynedd; byth yr un yw cân y gog.
Cuckoo's meat—suran y gog, suran y coed, bara càn y gog, bwyd y gwcw, suran deirdalen, triagl teirdalen, alelŵia.
Cuckoo flower, } hydyf, hydwf, hydyf y
Cuckoo bud, } waen, blodyn y gwcw, blodau y gog.
Cuckoo pint—pidyn y gog, calaf y cethlydd, calaf y mynach.
Cuckoo spit, } poeryn y gog, poer y gog,
Cuckoospittle, } poeryn y gwcw, poer y gwcw.
Cuckoo chafer, } *s.* gwichell y gog, ceth-
Cuckoo chatter, } lydd y gog, gwas y gog, gwas y gwcw, cethlydd cog, gyddf-dro, pengam.
Cuckoo-like, *a.* fel y gog; cogaidd, cwcŵaidd.
Cucquean,† *s.* (Ff. *coquine*) mwyglen, anllades, anlladferch, anlladwraig, puten.
Cucubalus, *s.* (o'r Gr. *cacos* a *bolê*) gwlydd.
Cuculidæ, *s.* (Ll. *cuculus*) cogolion, coglwyth, llwyth y gog.
Cucullate, } *a.* (*cucullatus*) cycyllog, cwfl-
Cucullated, } edig, cycylledig, hwfog, hodog; â chap penfain iddo.
Cucumber, *s.* (Ll. *cucumer;* Ff. *coucombre*) cucumer, chwerfwr, chwerddwfr, chwerwddwr, chwerwddyfrlys.
Cucurbit, } *s.* (Ll. *cucurbita*) dystyllgib,
Cucurbite, } merinlestr, dystyllyr.
Cucurbitaceous, *a.* (Ll. *cucurbita*) cucumeraidd, cicaionaidd, greolaidd.
Cucurbitive, *a.* fel hadau y cicaion; greol-hadaidd.
Cud, *s.* (C. *chwyd*, yn ol *Iunius*, ond ?) cil, cilfoch; cynghylla, cil boch, cyngwll, cynghwll, cyn-gylla; cilfochaid; adgnofaeth, adgnofwyd; safnaid, tamaid.
To chew the cud—cnoi cil, cnoi y cil, cnoi'r cil, adgnoi, eilgnoi, cilgnoi.
Cudbeär, *s.* (oddi wrth Dr. *Cuthbert* Gordon) porfforgen; pylor Cuthberth; mwswn Cuthbert.
Cudder, } † *s.* (?) cuall, buall, delff, cadafael,
Cuddy, } hurtyn, symlyn, drel, delbren, hurthgen.
Cuddle, *v.* (C. *cuddio;* Llyd. *cuddyo*) cyrcydu, crycydu, yswatio, cwrian; gorwedd yn gryno; llechu, lleigio; cofleidio; llochi.
Cuddy, *s.* ystafell (mewn llong), cuddigl, cufigl, cell, cegin; globysg.
Cudgel, *s.* (C. *cogel*) pastwn, cwlbren, llachffon, llachbren, ystwyal, dulbren, dulffon, ialenffon, gwialffon, gwialenffon, ffon, clwpa, cogel.
To cross the cudgels—rhoi i fyny yr ymdrech, y ddadl, *neu* y chware; peidio â'r ymdrech; cyfaddef cael o hono ei orchfygu; cyfaddef ei orchfygu; tafiu ei arfau i lawr; ymröi, ymroddi, ymostwng; rhoi y chware i fyny.
To take up the cudgels — cymmeryd yr ymdrech, y ddadl, yr ymddadl, *neu* y chware arno; dechreu yr ymdrech, yr ymddadl, *neu* y chware.
To play at cudgels—chwareu â ffyn; ymdrech â ffyn; chwareu â phastynau.
To beat with a cudgel=*Cudgel, v. a.*
Cudgel, *v. a.* pastyno, pastynu, ffonodio, ffondori, ystwyalu; llachio, ffusto, dulio, curo; curo, llachio, *neu* faeddu â phastwn; curo â ffon *neu* glwpa; ysbodoli.
To cudgel one soundly—dygaboli un; rhoi maeddgen, golchfa, cosfa, *neu* grasfa i un; rhoi cosfa dda i un.
To cudgel one's brains—pwyo ei ymenydd; pwnio ei ymenydd; curo *neu* ddulio ei ymenydd; syn fyfyrio, syn feddylied; gorweithio yr emenydd.
Cudgeller, *s.* (o *cudgel*) pastynwr, llachiwr, ffonodiwr; curwr â chwlbren, &c.
Cudgel-proof, *a.* à ddeil *neu* â oddef ffonod; à ddeil bastynawd; à geidw allan *neu* â wrthsaif ffonod; llach-brofedig.
Cudle, *s.* (Ysg. *cuddie* ?) globysg.
Cudweed, *s.* (*cotton-weed* ? ai *cud* a *weed* ?) edafeddog, yr edafeddog.
Mountain cudweed—edafeddog fynyddig, edafeddog ysgaredig.
Upright wood cudweed—edafeddog unionsyth y goedwig.
Marsh cudweed—penddu, edafeddog benddu.
Least cudweed — edafeddog leiaf, digoll lwyd.
Common cudweed—edafeddog lwyd, llwyd y ffordd, llwydyn y ffordd, penllwyd, llysiau y gynddaredd.
American cudweed—hir ei hoedl.
Cue, *s.* (Ff. *queue;* Ll. *cauda*) cynffon, llosgwrn, godre; diwedd, dyben; geiriau diweddaf araeth *neu* ymadrodd; awgrym,

amnaid, arwydd; cyfarwyddyd, hyfforddiad, addysg; tymmer, hwyl, ardymmer, tuedd; rhan; gorchwyl, swydd; tro; pelffon, ffon belre; ffyrling, ffyrlingwerth; adeg, cyfle, cyfamser, odfa, oedfa, arfod, achlysur, amser cyfaddas; cymhwysder lle ac amser.

Were it my cue to fight—pe fy rhan i fyddai ymladd; ped ymladd fyddai fy rhan i.

Mind your cue — nac esgeuluswch eich adeg, eich odfa, eich oedfa, *neu* eich arfod.

He is now in the cue for doing this—y mae efe yn awr mewn hwyl i wneuthur hyn.

In a merry cue — mewn anian lawen; mewn hwyl lawen.

He is not in the cue at present—nid yw yr awr, yr hwyl, *neu* yr ardymmer arno ar hyn o bryd.

If he be caught in the cue—os delir ef ar y tant.

Cuerpo, *s.* (Ysp.; Ll. *corpus*) corffwedd, corff.

To be in cuerpo, } bod heb gochl; bod
To walk in cuerpo, } heb hugan; bod heb orchudd; bod yn ddïorchudd, yn ddïargel, heb gudd, *neu* heb gel; bod yn ei osgedd ei hun; ymddangos yn ei liw a'i lun ei hunan.

Cuff, *s.* (Ll. *colaphus*?) dyrnod, paff, wab; cernod, bonclust, palfod.

To be at fisty-cuffs—dyrnodio, paffio; ymladd â dyrnau.

Cuff, *v.* dyrnodio, paffio, wabio; bonclustio, cernodio; curo, ymladd, ymbaffio; taraw â dwrn; crafangu; taraw â chrafangau *neu* esgyll.

Cuff, *s.* (Ff. *coeffe, coiffe*) torch llawes, llawesdorch, blaendorch llawes, arddyrndorch, llawdorch, llofdorch.

Cuinage, *s.* hychiant, clampiad, talpiad alcan.

Cuirass, *s.* (Ff. *cuirasse*) curas; dwyfroneg, broneg, llurig.

Cuirassier, *s.* (Ff.) curaswr, curasydd, curasog; milwr wedi ymwisgo â churas.

Cuish, } *s.* (Ff. *cuisse;* C. *coes*) morddwyd-
Cuisse, } wisg, clunwisg.

Culdees, *s. pl.* (Gael. *céiltich, coilltich;* Ll. *cultores Dei*?) Culdwys, Cywyllwys = math o fynachod boreol yn yr Alban a'r Iwerddon.

Culerage, *s.* (Ff. *cul*) elinog, tinboeth, yr elinog goch.

Culex, *s.* (Ll.) gwibedyn; gwibedryw: *pl.* gwibed.

Culicides, } *s. pl.* (Ll. *culex*) gwibedlwyth, y
Culicidæ, } gwibedlwyth.

Culiciform, *a.* (Ll. *culex* a *forma*) chwanenaidd; o lun neu wedd chwanen; tebyg i chwanen; chweinaidd.

Culinary, *a.* (Ll. *culinarius*) ceginaidd, ceginol; perthynol i gegin *neu* i geginiaeth.

Culinary fire—tân cegin; tân cyffredin.

Culinary art—ceginiaeth, coginiaeth, cogyddiaeth; celfyddyd y gegin.

Cull, *v. a.* (Ff. *cueillir;* It. *cogliere*) dewis, dethol, pigo, pigo allan, detholi, cwlio, dichlynu; pigaw o fysg ereill.

Cullender, *s.* (Ll. *colo*) hidl, hidyl, hidlyr.

Culler, *s.* (o *cull*) dewiswr, dewisydd, pigydd, pigwr, detholydd, etholydd, cwliwr; à bigo allan o fysg ereill.

Cullet, *s.* gwydr briw.

Cullibility, *s.* (o *cully*) coelgarwch, hygoeledd, rhygoeledd, penfasedd.

Cullion, *s.* (It. *coglione*) bawddyn, bawyn, anfadyn, bryntyn, dyhiryn.

Cullion, *s.* (Ll. *coleus*) crynwreiddyn, llorwreiddyn; tegeirian, eiria y ci, caill y ci, ceilliau'r ci.

Cullionly, *a.* bawaidd, brwnt, gwael, dyhiraidd.

Cullis, *s.* (Ff. *coulis*) isgell, potes, cawl hidledig.

Cullis, *s.* (Ff. *coulisse*) cwlas, cwlis, rhintlath, sylchymyl.

Cully, *v. a.* (Is. *kullen*) twyllo, hocedu, hudo, somi; chwareu y dwyllodres âg un; ffylio, ffoli.

Cully, *s.* un twylledig *neu* somedig gàn ferch; un à dwyllwyd *neu* à somwyd gàn hudolion *neu* ddyhirogod; cuall, symlyn, dyn hydwyll, hydwyllog, bawddyn hydwyll.

Cullyism, *s.* symlyndod, cualldod, cualldra, hurthgendod.

Culm, *s.* (C. *colm*) cwlm, cwlwm, clwm, glo cwlm, glo clwm, glo cwlwm.

Culm, *s.* (Ll. *culmus, caulis;* C. *calaf*) callodr, paladr, calaf, corsen, coes, troed, bonyn, gwellt, cyff, conyn, gwrysg, gwlydd, sofl.

Culmen, *s.* (Ll.) copa, top, cop, cwnwg, crib, pen, trum, uchedd, argon.

Culmiferous, *a.* (Ll. *culmus* a *fero*) callodrog, paladrog, calafog; cylmog, llawn cwlm.

Culmiferous plant—called-lysiau, llysiau callodrog, celyf-lysiau.

Culminate, *v. n.* (Ll. *culmen*) ucheddu; dyfod i'r de; bod yn y de; esgyn i'r uchedd, i'r nen, *neu* i'r entrych; bod yn yr uchedd; nawnoli, nawnu.

Culmination, *s.* (o *culminate*) ucheddiad, nawniad; dyfodiad i'r de; trosiad y nenbwnc; uchder mwyaf seren; top, cwnwg, coryn, gwarthaf, cop, copa, nenbwnc, uchder, entrych, uchafnod, pwnc uchaf, uchder mwyaf.

Culpability, } *s.* (o *culpable*) beiusrwydd, bei-
Culpableness, } usder, beioldeb, cylusrwydd, hygyledd, hygwyledd; bai, cwl, cwyl; euogrwydd.

Culpable, *a.* (Ll. *culpabilis*) beius; i'w feio; cylus, cwylfawr, cylfawr, camgylus, hygwl, ar fai, ar y cam; euog o fai; euog, troseddol, pechadurus.

Culprit, *s.* (o *cul*, am *culpable*, a *prit*, parod, tybygir) un dàn gyhuddiad; cyhuddog, cyhuddol, cyhuddedig; troseddwr, troseddur, drygweithredwr, camweddwr, camweddog.

Culter, *s.* (Ll.) cylltyr, cwlltyr, cylltor, cwlltr, crywyn.

Cultirostres, } *s. pl.* (Ll. *culter* a *rostrum*)
Cultrirostres, } cwlltrylfiniaid, swchylfiniaid = llwyth o adar, âg iddynt big hirgref flaenfain.

Cultivable, *a.* diwylliadwy, &c.

Cultivate, *v. a.* (Ff. *cultiver*, o'r Ll. *colo, cultus*) diwyllio, gwrteithio, coleddu, coledd, diwygio, trin, meithrin, maethu, amgeleddu, achlesu, meithrino, amaethu, llafurio, aru, areddu, arddu, gweryddu; diwyllu, cywyllio, amwesu, gwellhau, gwella, cyweirio, trwsio, ardymmeru, addurno; myfyrio, astudio; ymdrechu gwella; gwareiddio; cynnyrchu, codi.

To cultivate a language—diwyllio, coleddu, *neu* amgeleddu iaith.

To cultivate friendship—coledd, coleddu, cynnal, magu, amgeleddu, *neu* feithrin

cyfeillgarwch; dwyn cyfeillach yn mlaen.
Cultivated land—tir diwylliedig, &c.; tir ffaeth, tir diwylliog, tir diwyllus, diwylldir, tir cyfannedd.
Cultivated apples—afalau perion.
Cultivation, } s. (Ll. *cultura*) diwylliad, diwyll-
Culture, } iant, gwrteithiad, diwyllodraeth, triniaeth, triniad, trin, diwylliaeth, coleddiad, amgeleddiad, meithriniaeth, meithriniad, amaethiad, amaethad, amaethiaeth, tirdriniaeth, tirdriniad, tirddiwylliad, tirddiwyllodraeth, amaethyddiaeth, llafuriaeth, aredd, hwsmonaeth, llafurwriaeth; trin tir, cywylliad, diwyllawd, diwylliawd, cywyllawd, cywyllodraeth, cywyll, diwyll, gwrtaeth, gwellhad, gwelliant, gwellineb, amgeledd, coledd; addysg, addysgiad, addygiad, diwygiad, cyweiriad; cynnyrchiad, codiad.
Cultivation of language—diwylliad iaith, &c.; ieithgarwch.
Cultivator, } s. diwylliwr, diwyllydd, gwrteith-
Culturist, } iwr, diwyllodrydd, triniwr, coleddwr, amgeleddwr, amaethwr, areddwr, meithrinwr, &c.
Cultrated, } a. (Ll. *cultratus*, o *culter*) cylltr-
Cultrate, } og, cylltraidd, cylltyraidd;
Cultriform, } ar lun cwlltyr; llym a blaenfain.
Culture, s. (Ll. *cultura*)=*Cultivation*.
Culture, v. a.=*Cultivate*.
Cultureless, a. (*culture* a *less*) diddiwyll, anniwylliog, anniwyllus; heb ddiwylliad, &c.
Culturist, s.†=*Cultivator*.
Culver, s. (S. *culfer*, *culfra*) colomen, ysguthan.
Wood culver—ysguthan, cuddan, cuddon, cuthan.
Culver-house, s. colomendy, ty colomenod, cwb colomenod.
Culverin, s. (*Ff. couleuvrine*; Ll. *colubrinus*) hirfagnel, hirgyflegr.
Culverkey, s. allwedd y golomen.
Culvert, s. (*Ff. couvert*) tànffordd; mynedfa dàn ffordd *neu* gamlas; mydfa, crymfa; tànwythen, tànffos.
Culvertail, s. (*culver* a *tail*) peusyth, rhon barcud, lloegwrn y golomen, cynffon y golomen.
Culvertailed, a. peusythog, peusythedig.
Cumbent, a. (Ll. *cumbens*) gorweddol, gorweddog; yn gorwedd i lawr.
Cumber, v. a. (D. *kummer*; Al. *kümmern*; Ff. *encombrer*) rhwystro, lluddio, lluddias; llestair, arluddio, ystwyo; attal, cyfattal, llwytho, beichio, gorlwytho; diffrwytho; dyrysu, afrwyddo, nidro, methlu, trafferthu; ymdrafferthu yn nghylch; bod yn drafferthus i.
To cumber one's self about a thing—trafferthu *neu* ymdrafferthu yn nghylch peth.
Martha was cumbered about much serving—Martha oedd drafferthus yn nghylch llawer o wasanaeth (*Luc* x. 40).
Why cumbereth it the ground?—pa ham y mae efe yn diffrwytho y tir?
Cumber, s. rhwystr, lludd, arludd, lluddias; beichusrwydd, methledd, dyryswch, trafferth, cyfyngder, afrwyddineb.
Cumbersome, } a. (o *cumber*) rhwystrus,
Cumbrous, } rhwystrol, afrwydd, rhwystrog, nidrol; trafferthus, blinderus, blin, trallodus; beichus, beichiol, trwm, amdrwm, gorthrwm, trathrwm, arlwythol, amrosgo; anhyddwyn, anhyglud; anhawdd ei ddwyn; gormesol, gormeilus, goreilidus, gorthrymus; anhydyn, anhydwyth; cymmysg, annhrefnus.
Cumbersomeness, } s. rhwystrusrwydd, rhwystr-
Cumbrousness, } oldeb, rhwystrusedd, rhwystri, afrwyddineb, rhwystrogrwydd; trafferthusrwydd, trafferthusdra, nidri, afrwydd-deb, beichusrwydd, beichioldeb, trymder; gorthrymder, gormesoldeb, gormeilusrwydd, blinderusrwydd; anhydynder, anhydwythder, anhydwythdra.
Cumbrance, s. (o *cumber*) rhwystr, ludd, lluddias, baich, lwyth, trymfaich, gorlwyth, nidr, nidri, llestair, arludd, methl, methledd, dyryswch, goludd, attal, rhagod, ffaig, lluddiant, rhwystri, arluddiad, rhwystrad, afrwyddad, rhwystrusi.
Cumfrey, } s. (Ll. *confirmo*?) cyfardwf, llysiau
Comfrey, } y cwlwm.
Cumin, s. (Gr. *cuminon*; Ll. *cuminum*) cwmin.
Cuminic Acid, s. (o *cumin*) sur cwminig, sur cwmin.
Cumulate, v. a. (Ll. *cumulo*) pentyru, tyru, crugio, crugo, casglu, carneddu, athyru, sypio, dasylu, dasyrnu, cludeirio, carnu, cyttyru, cynnull yn nghyd.
Cumulation, s. (Ll. *cumulatio*) pentyriad, tyriad, crugiad, casgliad, carneddiad, carniad, crugiant, cludeiriad, casgl, dargynnull, cyttyriad, dasyliad, dasyrniad, clasg, twr, pentwr.
Cumulative, a. (o *cumulate*) pentyrol, athyrol, crugiol, tyrol, carneddol, dasyrnol, dasylaidd; chwanegol, attodol.
Cumulose, a. (Ll. *cumulus*) pentyrog, athyrog, crugiog; llawn pentyrau neu grugiau.
Cumulo-stratus, s. (Ll.) tarthgwmwl, crynngwmwl tarthog.
Cumulus, s. (Ll.) crynngwmwl, cwmwl gwŷn, dasgwmwl.
Cun,† v. a.=*Con*.
Cunctation, s. (Ll. *cunctatio*) oediad, gohiriad, gohiriant, gohir, oed, oediant, llercian.
Cunctator, s. (Ll.) oedwr, gohiriwr, gohirydd.
Cund, v. a=*Cond*.
Cuneal, a. (Ll. *cuneatus*, o *cuneus*) cŷnaidd, geingaidd, llettemaidd; ar lun neu wedd cŷn; ar wedd neu ddull gaing; fel gaing neu gŷn; cŷniol, geingiol, llettemol.
Cuneate, } a. (Ll. *cuneatus*) geingaidd, cŷn-
Cuneated, } aidd, llettemaidd, cŷniol, geingiol.
Cuneiform, } a. (Ll. *cuneus* a *forma*) cŷnaidd,
Cuniform, } geingaidd, llettemaidd, geing-lun; ar lun neu ddull gaing neu gŷn; gaing-ffurfaidd, cŷn-ffurfaidd.
Cuneiform letters—llythyrenau geingaidd, llettemaidd, neu gŷnaidd; llythyrenau geingiol, llythyrenau geing-lun; llythyrenau pen gaing; llythyrenau pensaeth, llythyrenau pen saeth.
Cunner, s. brenigen, llygad myharan.
Cunning, a. (S. *cunnan*, *connan*) cyfrwys, cyfrwysgall, ffel, ffalst, gochelgar, ystrywus, ystrywgar, ystrywiog, dichellgar, twyllodrus, cyfrwysddrwg, chwiredus, castiog, hocedus, dichellog, ffur, craff, ffetus, call; cywrain, cywraint, medrus, hyfedr, celfydd, manwl, dichlyn, cyfarwydd, cynnil, saernïaidd; gwybodus, dysgedig, deallgar; yn medru.
Cunning work — cywreinwaith, cynnilwaith, manylwaith.

He made cunning devices—efe a wnaeth ddychymygion celfydd (1 *Mac.* xiii. 29).
To devise cunning works—i ddychymygu cywreinrwydd (*Ecs.* xxxi. 4).
Cunning man—gwr hysbys, dyn hysbys, darllenwr tesni, darllenydd tesni.
Cunningly devised fables—chwedlau cyfrwys (2 *Pedr* i. 16).

Cunning, Cunningness, *s.* cyfrwysder, cyfrwysdra, cyfrwysedd, ffelder, ffeldra, ffelrwydd, ystrywgarwch, ffalstedd, ffalsder, ffalsedd, ystryw, dichell, dichellgarwch, dichellrwydd, hoced, twyll, ffesawd, chwiongl, chwired, ymdro, dichelldro, cyfrwyswaith, dichellwaith, hud, cast, ffetusrwydd, ffelgraffder; cyfrwysgallder, callder, calledd, callineb; medr, medrusrwydd, hyfedredd, cywreinrwydd, cywreindeb, cynnildeb, cyfarwyddyd, celfyddyd, gwybodaeth.

Cuntur, *s.* yr aderyn Condor.

Cup, *s.* (S. *cupp, cop;* Ll. *cupa, cuppa;* Pf. *coupe*) cwpan, cib, mail, meilen, carfen, ffiol, cogan, cogyn, ban, gorffwch, pân, gŵn, buelin, dïodlestr, godard; cwpanaid, cibaid, ffiolaid, llonaid cwpan.
A small cup—cwpenyn, cwpanig, cibyn, gynyn, cwpan bychan, cwpan bach.
A large cup—cibno, gŵn, cwpan mawr.
Drinking cup — cwpan yfed, yfgib, yfgwpan, ban yfed, ban; hirlas.
Tea cup—cwpan te, te-gib.
Grace cup—cwpan cariad.
Standing cup—cwpan troedog.
Parting cup—ymadgib; cwpan ymadael; cwpan heddwch wrth ymadaw.
Communion cup—caregl, cwpan y cymun, cwpan cymun, cymungib.
Gold cup—cwpan aur; eurgwpan, eurfail, eurgib.
Cup of an acorn—cap *neu* gapan mesen; cwpan mesen.
Cups made of buffalo's horns—bualgyrn, buelinau (*sing.* bualgorn, buelin).
Flower cup — cwpan blodau, y cwpan, blodeugib, blodamlen, gwullamlen, blodeugaes, blodeulen, amwullen, amhulen; amwisg *neu* amlen blodau.
Golden cups—egyllt, crafanc y frân, troed y frân, llun troed y frân.
To take a cheerful cup—yfed i ymloni *neu* i ymgysuro; yfed o ffiol cysur; yfed o gwpan cysur.
Cup and can—cwpan a phïser; cymdeithion; cyfeillion moswesol.
To take a cup too much—yfed cwpanaid yn ormod; yfed ar y mwyaf; yfed nes myned dros y llestri.
In one's cups—yn ei ddïod; yn ei gwrw; yn ei freci; yn ei feddwdod; yn ei gyfeddach; ar ei derm; ar ei noswaith lawen.
To take off one's cups—yfed yn llwyr; yfed y cwbl; yfed i'r gwaelod.

Cup-shot, Cup-shotten, gwedi yfed yn uchel *neu* yn helaeth; agos i feddwi; gofeddw, lledfeddw, gofrwysg; brwysg, meddw.

Cup-ful—cwpanaid, cibaid, cibynaid, carfenaid, meilaid, gynaid, &c.
Cup-liverwort—ffiolgen, cwpanau'r ddaiar.

Cup, *v.* cibwaedu, trychwaedu, craffinio, ysgraffinio, cwpanu.

Cupbearer, *s.* (*cup* a *bearer*) heilyn, trulliad, gwallofiad, menestr, heilydd, cibheilur: *f.* heilynes, trulliades, gwallofiades.
Cupboard, *s.* (*cup* a *board*) cwpbwrdd, nester, cibgell, llogawd, bwrdd cwpanau, cwpgell, cloer, bwydgist.
Cupboard,† *v. a.* nesteru, cwpbyrddu; casglu i gwpbwrdd; crugio.

Cupel, Coppel, *s.* (Ll. *cupella*) coethadyr, puradyr, coethgib, coethlestr, toddyr, toddlestr.

Cupel-dust, *s.* coethlwch, llwch coethi, llwch delgoethi; llwch i goethi *neu* buro metteloedd.
Cupellation, *s.* (Ll. *cupella*) coethgibiar, sorodiad; purad metteloedd â choethadyr.
Cup-fern, *s.* ffiolell, ffiolredyn, cibredyn.
Toothed cup-fern — ffiolredyn deintiog, ffiolell ddeintiog, cibredyn deintiog.
Cup-gall, *s.* cibafal, cibafal dail derw.
Cupidity, *s.* (Ll. *cupiditas*) chwant, trachwant, awydd, gorawydd, darchwant, chwennychiad, dirchwant, gorchwant, chwantwch.
Cup-moss, *s.* cnwpfwsogl, clwpfwsogl, cnwpfwswn, clobfwsog.
Cupola, *s.* (It.) cromen, croman, crymdwr, nendwr, cromgop, cromgopa, copolan=tŵr pengrwn bwaog ar nen adeilad.
Cupolaid,† *a.* (o *cupola*) cromenog.
Cuppa, *s.* pân mewn arfarwyddion.
Cupper, *s.* (o *cup*) cibwaedwr, trychadur, ysgraffinydd, ysgraffiniwr, craffiniwr, cwpanydd.
Cupping, *s.* (o *cup*) cibwaediad, craffiniad, ysgraffiniad.
Dry cupping—sychgraffiniad, ysgraffiniad diwaed.
Cupping instrument—craffinai, ysgraffinai.
Cupping-glass, *s.* cibwydryn, gwaedwydryn, cibwaedryn, sugnwydr, sugnwydryn, craffinai, ysgraffinai, gwydryn craffiniol.
Cupreous, *a.* (Ll. *cupreus*) copraidd, o gopr, efyddaidd, efyddaid.
Cupressus, *s.* (Ll.) ffyllwydd, cypreswydd.
Cupriferous, *a.* (Ll. *cuprum* a *fero*) coprog; yn rhoddi copr; yn dwyn copr.
Cupriferous silver—arian coprog, coprarian.
Cuprose, *s.* (*cup* a *rose*) pabi, drewg, drewlys, drewglys, bulwg Ffreinig, bulwg Ffrengig, cibrosyn, cibros.
Cup-valve, *s.* cibgaffell, cibgloryn, cibfalog.

Cupule, Cupula, *s.* (Ll. *cupula*) cwpenyn, cwpanig; cibyn, had, capan ffrwyth.

Cupuliferæ, *s. pl.* (Ll. *cupula* a *fero*) derlwyth, llwyth y derw.
Cur, *s.* (Gw. a Gael. *cuor*, defaid, malpai *cur-dog*, ci defaid? C. *corgi?*) corgi, costog, costog costawcci; ci bach afrywiog.
Curable, *a.* (o *cure*) gwelladwy, iachadwy, meddygadwy, meddyginiaethol, hywell; â ellïr ei iachäu, ei wella, *neu* ei feddygu.
Curableness, *s.* iachadoldeb, gwelladoldeb, hywelliant, hywelledd; dichonoldeb iachâd.

Curacy, Curateship, *s.* (o *curate;* Ll. *cura*) curadiaeth, curadaeth; bugeiliaeth, plwyfoffeiriadaeth.
Perpetual curacy — curadiaeth barhäus, curadiaeth barhaol, curadiaeth sefydlog, curadiaeth wastadol.

Curassow, Curassow bird, *s.* yr aderyn Curassow.

Curate, *s.* (Ll. *curator*, *curatus*, o *cura*) curad, curadur; offeiriad plwyf, plwyf-offeiriad, isberiglor: *dim.* curedyn.
Perpetual curate — curad parhäus, curad parhaol, curad sefydlog.
Curative, *a.* (o *cure*) iachaol, iachol, meddygol, meddygin, meddyginiaethol.
Curator, *s.* (Ll.) ucholygwr, arolygwr; ceidwad, oedwidydd; ymddiriedur, ymddiriedai.
Curatrix, *s.* (o *curator*) meddyges, iachyddes.
Curb, *s.* (Ff. *courb*) genfa, genddal, gwenfa ffrwyn, genasyg, genffrwyn, haiarn gen; ffrwyn; attal, rhwystr, attalfa, ystwy, rhagod, lludd, attaliad; perging, achwre; chwydd, cornwyd.
Curb, *v. a.* ffrwyno, attal, rhwystro, ystwyo, cyfattal, nadael, rheoli, arafu, twyo; cadw i mewn; cadw dàn llaw; dàl yn dyn;† plygu, camu, crymu.
Curbing, *s.* (o *curb*) rhwystr, ystwy, attalfa, attaliad.
Curbless, *a.* (*curb* a *less*) dirwystr, diattal; heb na lludd na gwahardd arno.
Curb-plate, *s.* (Ff. *courber*) crymlafn, plyglafn, crymblad.
Curb-roof, *s.* crymglwyd, plygnen, cromnen.
Curb-stone, *s.* asfaen, minfaen, ymylfaen: *pl.* asfain, asfeini, &c.
Curcuma Longa, *s.* y turmerig, tyrmerig, trumrig.
Curd, *s.* (Gw. *cruth;* Ysg. *cruds*) caul; ceuleden, ceuledan; ceuled; blochda, caws gwŷn, caws, sopen caws, caws newydd geulo, llaeth ceuledig. [gaws.
Cheese curds--ceulfraen, caws gwŷn, gwyn-
Whey curds—caws maidd, meiddgaws.
Curds and whey—maidd, meiddion.
Second whey from the curds—maidd glas, llaeth glas, glasfaidd.
Crumbled curds—ceulfraen.
Posset-curds—caws posel, ffaced.
To crumble curd—ceulfraenu, ceulfraenu caws.
Curd, *v. a.* ceulo, ceuledu, cawsio, cawsu; peru ceulo; troi yn geuled *neu* yn gaws; troi.
Curdle, *v.* (o *curd*) ceulo, ceuledu, cawsio, cawsu, chwarelu; troi yn geuled *neu* yn gaws; peru ceulo *neu* gawsu; troi; tewychu, tewhau, cyttewychu, cydfferu, caledu.
Curdy, *a.* (o *curd*) ceulog, cawsog; ceulaidd; ceulfraenog.
Cure, *s.* (Ff.; Ll. *cura;* C. *cur*) gwellhad, gwellad, iachâd, gwelliant, meddyginiaeth, ymwared; adferiad i iechyd; meddygiad, meddyginiaethad; adferai, cyfnerthai; diwygiad, cyweiriad, cyweirdeb; gofal, cur, perigloriaeth, bugeiliaeth, bugeilwriaeth.
Cure of souls—gofal eneidiau, cur eneidiau; cur *neu* ofal dros eneidiau; cur; bugeiliaeth eneidiau.
Past cure—anaele, anfeddygol, anfeddyginiaethol; heb feddyginiaeth iddo.
My sore will be past cure—anaele fydd fy nolur.
It is past cure—nid oes meddyginiaeth iddo; nid oes meddyg iddo; darfu am dano; deryw am dano; y mae yn anfeddygol; mae yn anfeddyginiaethol.
He performed many considerable cures—efe a iachaodd laweroedd o glefydau *neu* glwyfau enbyd ac anobeithiol.
To effect a cure—iachäu, gwella, gwellhau, meddygu, meddyginiaethu.
Cure, *v. a.* (Ll. *curo;* Ff. *curer*) iachäu, gwella, gwellhau, meddygu, meddyginiaethu; gwneuthur yn iach *neu* holliach; adferyd un i'w iechyd; adferu ei iechyd i un; diwygio, difeio, adgyweirio; halltu, cyweirio, sychu.
To cure hay—cyweirio gwair, sychu gwair.
To cure fish—halltu pysg, cyweirio pysg.
Cureless, *a.* (*cure* a *less*) anfeddygol, difeddyg, anfeddyginiaethol, anwelladwy, aniachadwy, anaele; nad oes meddyg *neu* feddyginiaeth iddo; nas gellir ei iachäu; diwelliant, diwellhad.
Curer, *s.* (o *cure*) iachäwr, iechydwr, meddygwr, meddyg, meddyginiaethydd; halltwr, cyweiriwr.
Curfew, *s.* (Ff. *couvre-feu*) dyhuddgloch, huddgloch; hwyrgloch=y gloch wyth o'r nos, ar ganiad yr hon y gorfyddai i bob un, yn amser Gwilym Oresgynydd o leiaf, enhuddo ei dân, a diffoddi ei ganwyll.
Curfew bell — dyhuddgloch, huddgloch; hwyrgloch.
Curfew,† *s.* gorchudd aelwyd, clawr lle tân, tângudd.
Curialistic, *a.* (Ll. *curialis*) llysol; perthynol i'r llys.
Curiality,† *s.* (Ll. *curialis*) llysolion; breintiau a gosgordd llys.
Curing-house, *s.* sychdy, cyweirdy, sychdy sugr.
Curiologic, Kyriological, } *a.* (Gr. *curiologia*) arwyddlun-iol, rhanarwyddol, bathluniol, cyforddwynol.
Curiosity, *s.* (Ll. *curiositas*) manylwch, manylder, cywreinrwydd, manylrwydd, cywreindeb, cywreinder, celfyddgarwch; manylgais, manylgarwch, holgarwch, chwilgarwch, holgaredd, ymofyngarwch; lledneisrwydd, neisrwydd, dillynder, dillynedd, destlusrwydd, tlysni; cywreinbeth, hynodbeth, cywreinwaith, peth cywrain, peth hynod, amguedd, rhyfeddod, prinod, tlysyn, hynodyn; chwant gwybod, gweled *neu* glywed rhywbeth newydd; tra dyfalwch, prysurdeb, dichlynrwydd, dichlynedd; bryd ar ddillynedd *neu* ddestlusedd; serch at *neu* ymroddiad i ddillynedd *neu* ddestlusrwydd: *pl.* cywreinion, hynodion, manylion, gorbrinion, tlysion, prinodion, detholedigion, pethau cywrain, &c.
Curiosities of literature—cywreinion llenoriaeth; hynodion llenyddiaeth; cywreinbethau dysgeidiaeth.
Curioso, *s.* (It.; Ll. *curiosus*) hoffwr cywreinion, cywreinhoffwr, prinionhoffydd, prinodgarwr, hoffiedydd pob cywreinbeth, tlyshoffwr, tlyshoffydd, tlysionydd.
Curious, *a.* (Ll. *curiosus*) cywrain, cywraint, manwl, manol, dichlyn, cynnil, celfydd, celfyddgar, celfyddus, rhy fanwl; ymofyngar, holgar, ymchwilgar, chwilgar, manylgar, manylgeisiol, ymorolgar; chwannog i wybod, i weled, *neu* i glywed rhywbeth newydd; ymofyngar am newyddion *neu* newydd bethau; astud, gofalus, pryderus, diesgeulus, destlus, destl, hyddestl, nais, llednais, dillyn, tlws, clws; hynod, nodedig, rhyfedd; prin, anghyffredin, anaml, òd, anarferol; tost, llymdost; anhyfodd; hoff; dyfal yn chwilio am bethau dyfnion a dirgel.
Curious work—cywreinwaith, manylwaith,

cynnilwaith, hynodwaith; cywreinrwydd.
Curious arts—rhodreswaith (*Act.* xix. 19).
Be not curious in unnecessary matters—na fydd ry fanwl mewn pethau afraid.
We must be curious to distinguish between—rhaid i ni fod yn graff i wahanu rhwng.
Too curious—rhy fanwl, rhy ymofyngar, &c.; anhawdd ei *neu* i'w foddio; anhyfodd.
Too curious a question—ymofyniad rhy fanwl, rhy ddyrys, *neu* ry rwystrus.
To be curious of high things—ymofyn yn fanwl am bethau uchel.
To do a thing curiously—cywreinio peth; gwneuthur peth yn gywrain.

Curiousness, *s.* (o *curious*) manyldeb, cywreindeb, cywreinrwydd, cynnilwch; cywreingarwch, holgarwch, ymofyngarwch; destlusrwydd, dillynder, hynodrwydd, &c.

Curl, *v.* (Is. *krullen;* D. *kröller*) crychu, torchi, dolenu, modrwyo, ymdorchi, ymgrychu, argrychu, pengrychu, llofni; nyddu, troi, ymdröi, ffillio, rholian; crybychu, crebachu, ymgrybychu; tònogi, tòno, ffreulo.

Curl, *s.* cudyn, crychgudyn, crych, crychyn, argrych, llofn, llyweth, modrwy; cudyn o grychwallt; llyweth o wallt modrwyog; doleniad, ymddoleniad, crychiad, tòniad, tònogiad, chwyfiad, ystuniad; tòn, tònen; mallgrychni.
Curl (in potatoes)—crychaint, grychni; grychni cloron, crychaint bwytatwys.

Curlew, *s.* (Ff. *courlis, corlieu*) gylfinhir, gylfinog, gylfhir, chwibanogl y mynydd, chwibanog y mynydd.

Curl-headed, Curl-pate, Curl-pated, *a.* pengrych, gwalltgrych, crychgudynog; â gwall crych iddo; â chanddo wallt modrwyog *neu* gudynog.

Curliness, *s.* (o *curly*) crychedd, crychni, crychineb, crychiant, crychder, crychogrwydd, cudynogrwydd, llofnogrwydd, llywethogrwydd.

Curling, *s.* (T. *krullen;* Ff. *crouler*) math o chware ar ia, yn yr Alban.

Curling-irons, Curling-tongs, *s. pl.* crychiadyr, haiarn crychu, gefail grychu, crychefail.

Curling-stuff, *s.* crychgoed, crychnwydd.

Curly, *a.* (o *curl*) crych, (*f.* crech), argrych, crychog, crychedig, cudynog, cudynaidd, modrwyog, modrwyaidd, llofnog, llywethog.

Curly-headed, Curly-pated, pengrych, gwalltgrych: *f.* pengrech.

Curmudgeon, *s.* (llygriad o'r Ff. *cœur méchant*) cerlyn, bawyn, carl, bawai, cerlyn cybyddlyd, cybydd, crinwas, cybydd anghawr, mab y crinwas, gwr crin; delff, drelyn, drengyn, taiogyn.

Curmudgeonly, *a.* cybyddaidd, cybyddlyd, cybyddus, crinwasaidd, crintach; cerlynaidd, delffaidd, drelaidd, bawaidd.

Currant, *s.* (o *Corinth*, yn Groeg) rhyfonen, rhyf; rhyfwydden, rhesinwydden: *pl.* rhyfon, rhyfion, grawn Corinth; rhyfwydd, rhesinwydd.
Currant tree—rhyfwydden, rhesinwydden: *pl.* rhyfwydd, rhesinwydd, rhyfwyni, coed rhyfon.
Black currants—rhyfon duon; rhyfwydd duon, eurddrain duon: *sing.* rhyfwydden ddu, eurddraenen ddu.
White currants—rhyfon gwynion; rhyfwydd gwynion.
Red currants—rhyfon cochion; rhyfwydd cochion.
Tasteless mountain currants—rhyfon mynyddol *neu* fynyddig; rhyfwydd mynyddol.
Currant worts—rhyfonwydd.

Currant, Current, Coursant, *a.* (Ll. *curro;* Ff. *cours*) rhedegol, rhedol, ar redeg, yn rhedeg, dywadnol, rhedeg.

Currency, *s.* (o *current*) cylchrediad, hyrediad, rhediad, hydreigledd, amdreiglad, amrediad, amred, damred, treiglad; mynediad o law i law; cerddediad, mynediad; cylcharian; treiglarian, arian treigl, cylchdal; bod o arian yn gymmeradwy; pasiad; mynediad arian o law i law; rhead, cerhynt; rhugledd, hylithredd, rhwydd rediad, cerddediad rhwydd; gwerth, cyfrif; treinwerth, talbenedd.
Silver currency—arian damred, arian train, arian treigl, arian ar drain, cylcharian.
Gold currency—aur damred, aur train, aur treigl, aur ar drain.
Currency of a discourse—rhediad ymadrodd *neu* araeth; rhugledd ymadrodd.
The report has had a general currency—y mae y chwedl wedi myned yn rhugl.
Currency of time—rhedfa amser, gyrfa amser, rhediad amser, treiglad amser, treigl amser.

Current, *a.* (Ll. *currens*, o *curro*) cylchredol, damredol, amredol; cymmeradwy, derbyniol, derbyniadwy, derbynedig; cyffredin, rhugl, cyhoedd, poblogaidd; cyfreithlawn; â dderbynir yn gyffredinol; derbynedig yn gyffredin; â fo mewn parch *neu* gymmeriad; â gerddo, â basio; pasiadwy; â gaffo dderbyniad; sefydledig, sefydlog; presennol; arferol, gnodol.
The current price—y pris cyffredin; y pris sy'n cerdded; y pris â fo yn cerdded; y pris â fo ar gerdded.
The current year—y flwyddyn sydd yn cerdded, yn treiglo, yn rhedeg, *neu* yn pasio; y flwyddyn hon, eleni, y flwyddyn bresennol, y flwyddyn re; y flwyddyn yr ydys ynddi.
Current money—arian cymmeradwy, arian bath, arian derbyniol; cylcharian, treiglarian, arian treigl, arian train.
Current value—treinwerth, treiglwerth, talbenedd, talbenig; gwerth cyffredin.
The tenth current—y degfed cyfisol; y degfed o'r mis hwn; y degfed o'r mis sy'n cerdded; y degfed rhe.
To pass for current—myned *neu* gerdded yn lle gwir; cael ei gredu *neu* ei goelio yn gyffredin.
If that part of the history may pass for current—os ydyw y rhan hòno o'r hanes i'w choelio; os oes coel ar y rhan hòno o'r hanes.
It is currently reported—mae y gair yn rhugl; y mae y gair yn hollol.

Current, *s.* rhediad, cerhynt, ffrwd, gyrhynt, llif, gorlifiad; rhedfa, gyrfa, rhawd, rhed, rhe, llyry, ystrym, rhedegfa; cyfres; parhad: *pl.* cerhyntiau, cerhyntoedd.
A small current—ffrwd fechan; gofer, nant, cornant, afonig.

A strong current—cerhynt cryf, gorffrwd, gorlifiant, gorlifiant.
Current of a river--ffrwd afon, cerhynt afon, ffrydle afon, brwynen afon, rhed afon, rhedle afon.
Account current—cyfrifred.
The current of public opinion—rhediad llais y wlad.
To stem the current—sefyll, ymgynnal, *neu* nofio yn erbyn y llif *neu* y dwr; dàl i fyny yn erbyn y llif *neu* y dwr; gwrthsefyll y ffrwd *neu* y cerhynt; nofio yn erbyn y ffrwd.

Currentness, *s.* (o *current*) rhediad, cylchrediad, hyrediad; rhugledd, hylithredd, hydreigledd; cyffredinoldeb, cyffredinolrwydd; derbyniad cyffredinol.

Curricle, *s.* (Ll. *curriculum*) cerbydan, rhedglud, hannerglud; cerbyd dwy olwyn, à dynir gàn ddau geffyl; † cerbyd; † hynt.

Curriculum, *s.* (Ll.) rhedegfa, rhedegfan, rhedegrawd, rhedrawd, rhedyrfa; efrydrawd, myfyrgylch, cyfanred; cyfres o efrydion; cerbyd, clud.

Currier, *s.* (Ll. *coriarius*; Ff. *corroyeur*) lledrwr, lledrydd, lledreilliwr, lledrgyffeithiwr, cyffeithydd, lledr, uchafedwr, ysgrafellwr lledr, lledr-ysgrafydd.

Currish, *a.* (o *cur*) corgïaidd, fàl corgi; costog, costogaidd, sarig, anfwyn, crasciriog, difoes, afrywiog, sur, sor, taiog, anhynaws, croes, anwesog; cecrus, cynhenllyd, cwerylus, cwerylgar, cynhengar, cynhenus, anhydrin, anhydyn; brathlyd, hygno, cipgar; annynol, dideimlad, milain, gwrgïaidd, derfoes.
A currish fellow—sarigyn, monyn, costogyn, soryn, taiogyn.

Currishness, *s.* costogrwydd, sarigrwydd, afrywiogrwydd, derfoes, taiogrwydd, anfwynder, &c.

Curry, *v. a.* (Ff. *corroyer*) cyffeithio, cyweirio, *neu* gaboli lledr; lledreillio, ysgrafellu, rhistyllio, crafellu, gwrychellu; crafu, crafangio; rhathu, rhwbio, llyfnu, llyfnhau; truthio i; gwenieitho i; cynffonloni ar; boddio; ystwytho; cosi, gogleisio.
I will curry thy coat for thee—mi dy gosaf di; ti a gei genyf gosfa *neu* faethgen.
To curry favour with one—cynffonloni ar un; ymerlyn am fodd un; ceisio ymlusgo i ffafr *neu* gyfeillach un; ceisio ymlithro i ffafr *neu* gyfeillach un; ymbil, ymbilio, ymgais, *neu* ymgeisio âg wyneb un.

Curry, *s.* dofedn, pysg, *neu* gig mallferw (yn yr India).

Curry-comb, *s.* ysgrafell; crafell, rhistyll, crib march.

Currying, *s.* (o *curry*) ysgrafelliad, rhistylliad; cyffeithiad, cyweiriad, gwrteithiad, *neu* gaboliad lledr; ymerlyniad am fodd.

Curry-powder, *s.* mysglwch, plithbylor, poethfysg, poethbylor; cymmysgedd o had coriander, turmerig, sinsir, a phupyr, yn nghyd â halen, grawn paradwys, clows, canel, wynwyn, garlleg, a chnau Cocoa, os ewyllysir.

Curse, *v.* (S. *cursian*, *corsian*) melltithio, melltigo, rhegu, ymregu; cablu; erchi aflwydd ac echrys; dymuno drwg i.
To curse and swear—tyngu a rhegu.
To curse mutually—ymregu.
To curse to the pit of hell — gorchymyn *neu* offrymu i ddiawl; offrymu *neu* orchymyn i ddiafol.
Apt to curse—rheglyd.

Curse, *s.* melltith; rheg; ymreg; cabl; cystudd, artaith, torment.
The curse causeless shall not come — y felldith ddïachos ni ddaw; nid adwyth rheg ni haeddder.
They entered into a curse and an oath—aethant mewn rhaith a llw (*Neh.* x. 29).
They bound themselves under a curse—rhwymasant eu hunain â dïofryd (*Act.* xxiii. 12).

Cursed, *a.* melltigedig, melltigaid, melltithiedig, rhegedig; esgymun, ysgymun, esgymunedig, echryslawn, ysgeler, adgas, atgas, achas, dygas, hygas, cas, anfad, erchyll, diriaid, diried, diras, ffiaidd, ffieiddgas, adwythig, aethus; blin, trallodus, cythryblus.
Cursed thing — esgymunbeth, ysgymunbeth, dïofrydbeth, peth esgymun.
Cursed fellow — dyhiryn melltigedig, esgymun, *neu* atgas, &c.; direidyn, direiddyn, diried-ddyn, drygddyn, direidwas; adyn ysgeler *neu* anfad.

Cursedness, *s.* (o *cursed*) melltigedigrwydd, melltigrwydd, melltigeidrwydd, melltithrwydd, esgymunrwydd, anfadrwydd, echryslonrwydd, echryslonedd, ysgelerder, ysgelerdod, direidi, atgasrwydd, dygasrwydd, rhegedd, &c.

Curser, *s.* (o *curse*) melltithiwr, melltigwr, rhegwr, rhegydd, ymregwr, cablydd, cablwr.

Curship, *s.* (o *cur*) costogrwydd, costogeiddrwydd, sarigrwydd, anfwynder, anhynawsedd, afrywiogrwydd, taiogrwydd, blyngder, cïeiddrwydd, drygnaws, dryganian, dryganiaeth, dryganedd, dryganwyd, natur ddrwg, anian ddrwg, derfoes.

Cursing, *s.* (o *curse*) melltithiad, rhegiad, melltigiad; melltith, rheg, ymreg.

Cursitor, *s.* (o'r Ll. *curso*, *cursito*) gwysgofiadur, gwysgofnodydd, arwysiadur, gwysebiadur.

Cursive, *a.* (Ff.; It. *corsivo*; o'r Ll. *curso*) rhedeg, rhedegol, rhedegog, rhedol, brysiol, brysfawr; ar redeg, ar frys.
Cursive hand—llaw redeg, ysgrifiaw redeg; llawysgrifen redeg *neu* redegog; brys-law, rhedlaw.

Cursor, *s.* (Ll.) rhedyr, llithrydd = offeryn gwyddonol.

Cursorary, † *a.* = *Cursory*.

Cursorily, *ad.* (o *cursory*) ar frys, ar redeg, dàn redeg, ar ddyfrys, ar ffrwst, ar hynt, ar ei hynt, ar ffull, ar yrfa, ar redfa, ar gip, wrth fyned heibio, ar gipdrem, ar gerdded; yn ysgafn, yn ddiofal, yn frysfawr, &c.

Cursoriness, *s.* (o *cursory*) brys, ffrwst, ffull, ffullder, ffulldra, dyfrys, brysforedd, brysioldeb, brysiogrwydd, buanwedd, cyflymedd, cyflym rediad, brysrediad; cipolwg, cipdrem, diofalwch, anystyrioldeb, annwysder; rhediad dros beth mewn gormod brys.

Cursorius, } *s.* (Ll. *curso*) y rhedadar, y rhed-
Courser, } yddion, y rhedegyddion; rhedaderyn; llwyth y rhedadar.

Cursory, *a.* (Ll. *cursorius*) brysiog, brysfawr, brysiol, ffrystiol, ffrystiog, ffulliog, buan, buanred, cipdremiol, ysgafn, ysgafnddull, difyfyr, disymmwth, rhull, ffest, ffestin; à wnaed ar redeg, ar frys, ar ffrwst, yn ddifyfyr, *neu* yn frysiog; diofal, dibryder,

esgeulus, dïymdawr, diddarbod; arwynebol; ansefydlog.
Cursory view—cipolwg, cipdrem; golwg ar beth wrth fyned heibio.
Curst, *a.* (o *curse*) cas, adgas, atgas, ffiaidd, achas, hygas; melltigedig, melltigaid, esgymun, esgymunedig, ysgymun, ysgeler, echryslawn, echrys, anfad, erchyll, andwyol, diriaid, diried, diras, adwythig, aethus; creulawn, ffyrnig, anynad, annynol, anhynaws, dywal, sarig, blwng, hyddig, afrywiog, crasciriog, dryganianol, dryglawn, rhempus.
Curstness, *s.* casineb, adgasedd, ffieidd-dra, ffieiddiant, melltigedigrwydd, esgymunrwydd, ysgelerder, ysgelerdod, anfadrwydd, anynadrwydd, afrywiogrwydd, sarigrwydd, blyngder, creulonder, &c.
Curt, *a.* (Ll. *curtus*) cwta, byr, talfyr: *f.* cota, bèr.
Curt penny—ceiniog gota.
Curtail, *v. a.* (Ll. *curtus*, a Ff. *tailler*) cwtogi, byrhau, talfyru, cytio, dyfyru, cilfyru, gofyru; tori ymaith; tori yn fyr; tocio, toli; lleihau; cymmedroli.
He will curtail the expense — y draul a gymmedrola efe; efe a gymmedrola y draul; efe a gwtoga y draul.
Curtail-dog, *s.* ci cwta, ci cwtog.
Curtailer, *s.* (o *curtail*) cwtogwr, cwtogydd, talfyrwr, byrhäwr, lleihäwr.
Curtailing, *s.* cwtogiad, talfyriad, byriad, byrhad, tociad.
Curtail-step, *s.* cwtogris, gris gota.
Curtain, *s.* (It., Ysp., a Port. *cortina*; Ff. *courtine*) croglen, llèn, canadlen, caeadlen, cylchlen, cylchedlen, rhedlen, tynlen, cylched, cortyn; cysgodlen, ffedon; brithlen: *dim.* llenig. [en.
Curtain rod—llenlath, llenialen, llenwialThe curtains of thy habitations—cortynau dy breswylfëydd (*Esa.* liv. 2).
Curtain lecture — pregeth y cortyn; darlith y groglen; llenlith; ymremial *neu* ymserth gwraig â'i gwr yn y gwely.
To drop the curtain — cau *neu* ddiweddu yr olygfa; dybenu, diweddu, talmu; gadael i'r cysgodlen syrthio; diweddu *neu* ddybenu y chware; gollwng y llèn i lawr.
To raise the curtain—codi y llèn; codi y cysgodlen; dechreu chwareu; dechreu o'r chware.
To draw the curtain—cau y llèn; tynu y llèn; cuddio, celu, dirgelu; cau yr olygfa i fyny.
Behind the curtain — tu draw i'r llèn; tu draw y llèn; yn y dirgel; mewn dirgelwch; yn nghudd, yn gel, yn nghel, yn ddirgel, dàn gel; wrth gefn; allan o'r golwg.
Curtain, *v. a.* croglenu, llenu, canadlenu, cysgodlenu, cylchedu, cylchlenu; cau â chrogleni.
Curtainless, *a.* (*curtain* a *less*) digroglen, digylched, digauadlen; heb grogleni.
Curtal, *s.* (Ll. *curtus*) ceffyl cwta, ceffyl toc, march cynffon-gwta.
Curtal, *a.* (Ll. *curtus*) cwta, byr, talfyr, talfyredig, byredig.
Curtate, *a.* (Ll. *curtatus*) byr, talfyr, cwta.
Curtate distance — byr bellder, pellder byredig.
Curtation, *s.* (o *curtate*) cwtogiant, talfyriant, byriant.
Curtein, } *s.* (Ll. *curtus*?) teyrn-gledd, teyrn-
Curtana, } gleddyf; cleddyf Iorwerth y Cyffeswr=cleddyf â ddygir o flaen breninoedd Prydain ar ddydd eu coroniad.
Curtesy, } *s.* =*Courtesy*.
Courtesy, }
Curtilage, *s.* (o *court*) cadlas, buarth, gower, llanerch wrth dy.
Curtness, *s.* (o *curt*) byrder, byrdra, cwtogrwydd, talfyrder.
Curucui, *s.* coed-delor Brasil.
Curule, *a.* (Ll. *curulis*) cerbydol; perthynol i gerbyd; gorfoleddol.
Curule chair—cludgader (yn Rhufain gynt).
Curules — cludgadeiriaid, cadeirogion = uchel swyddogion yn Rhufain gynt.
Curvant, } *a.* (Ll. *curvans*, *curvus*) crwm,
Curval, } crwca, cam, cyrfedig.
Curvated, *a.* (o *curve*) crwca, crwm, cam, cyrfog, crymedig, gwyrog, cam rheolaidd.
Curvation, *s.* (Ll. *curvatio*) plygiad, camiad, crymiad, cyrfiad, comiad, doleniad, gwyrgamiad, arystumiad.
Curvature, *s.* (Ll. *curvatura*) camedd, plygedd, crymedd, camder, cemi, camni, crymder, comder, comer, cyrfedd, crwcanedd, gwyrgamedd, gwyredd, gwyrogrwydd; doleniad, dolystumiad, arystum, dolystum, doliad, gwyrgamiad, doliad.
Circle of curvature — crymgylch, cylch camedd.
Curve, *a.* (Ll. *curvus*) crwm, crwca, achrwm, cam, plygedig, gŵyr, agwyr, addwyr, gwyrog, bwaog, dolenog, dolystumiog, dolystumiol, gwyrgam: *f.* crom, croca, achrom.
Curve line — cyrflin, cyrflinell, comlinell, crymlinell, cromlinell, com, comell; llinell grom, &c.
Curve, *s.* com, comell, cwrf; cyrflin, cyrflinell, comlinell, comlin, comell, crymlinell, cromlinell; plyg, plygedd, camedd, crymedd, crymder, crymbeth, dôl, dolen, dolystum, comer: *pl.* comion, comau, cromau, cyrfau.
To describe a curve—crynlinellu, cyrflinellu; tynu crymlinell; tynu llinell grom.
Curve, *v. a.* camu, plygu, crwcäu, cyrfu, comi, crymu, doli, dolenu, dolystumio, gwyro, gwyrgamu, crwcanu, lleddfu.
Curvet, *s.* (It. *corvetta*; Ff. *courbette*) cyrflam, cyrfnaid, crychnaid, crychlam, cwrnaid; pranc, carlam, rhont, llamsach.
Curvet, *v. a.* (It. *corvettare*; Ff. *courbetter*) cyrflamu, cyrfneidio, crychlamu, crychneidio, carlamu, cwrneidio; prancio, rhonta, llamsach, llamsachu; bod yn amgyrfod.
Curvilinear, } *a.* (Ll. *curvus* a *linea*) crymlin-
Curvilineal, } ellaidd, cromlinellaidd, cyrflinellaidd, cyrflinaidd, comlinellaidd, cromlinaidd; cyrflinellog, crymlinellog, cyrflinog, cromlinellog; cyrflinellol, cyrflinol, gwyrlinellol, crymlinol.
Curvilinearity, *s.* cyrflinogrwydd, crymlinogrwydd, crymlinellogrwydd, cyrflineiddrwydd.
Curving, *s.* (o *curve*) cyrfiad, plygiad, camiad, crymiad; cwrf.
Curvity, *s.* (Ll. *curvitas*) crymder, cyrfedd, camder, camedd, crymedd, crymder, cemi, gwyredd, gwyrni, gwyrogrwydd, cyrfog-

rwydd, cromedd, dolenedd, camrwydd, camni.
Cuscuta, *s.* (*cechout*, yr enw Arabig) llindag, llinglwm, llindro, cyfnydd.
Cushat, *s.* (?) ysguthan, cuddan, cuthan, cuddon.
Cushew-bird, *s.* tyffantog, gobfantog.
Cushion, *s.* (Ff. *coussin;* Al. *küssen*) clustog, gobenydd, gob, seddob.
To be beside the cushion, } colli ei amcan;
To miss the cushion, } colli ei ergyd; methu cyrhaedd ei ddyben; camsynied, camgymmeryd, cyfeiliorni; bod allan *neu* i maes o'r ffordd.
Sea cushion—clustog Mair, clustog Fair, archmain.
Lady's cushion—tormaen mwsoglaidd.
Cushion, *v. a.* clustogi; seddobi; gosod ar glustog.
Cushioned, *a.* clustogol, clustogog; yn cael ei gynnal â chlustogau.
Cushionet, *s.* (o *cushion*) clustogan, clustog fechan, seddoban.
Cuskin,† *s.* cwpan ifori.
Cusp, *s.* (Ll. *cuspis*) corn; lloergorn; blaen, dyflaen, pig; cornel, cil.
Cusps of the moon—cyrn y lloer, lloergyrn, lleuadgyrn, cyrn y lleuad.
Cuspated, *a.* (Ll. *cuspis*) pigfain, blaenfain, penfain, brigfain.
Cuspidal, *a.* (Ll. *cuspis*) blaenfain, pigfain, blaenllym.
Cuspidate, } *a.* (Ll. *cuspidatus*) pigfain, pen-
Cuspidated, } fain, blaenfain, brigfain, blaenllym, blaenbigog, piglym.
Cuspidate,† *v. a.* blaenllymu, llymhau, piglymu, pigfeinio.
Cuspidation,† *s.* blaenllymiad, blaenfeiniad, pigfeiniad.
Cuspis, *s.* (Ll.) blaen, dyflaen, pig, corn, crif.
Custard, *s.* (C. *custard*, yn ol y Drd. *Johnson* a *Webster*) brithog, cwstardd, cwstard, costardd, cawstardd, ceulfwyd.
Custard-apple, *s.* afal cwstardd, afal brithog.
Custodial, *a.* (o *custody*) gwarchodol, cysdodol, cadwyol; gwarchodyddol, gwarcheidwadol.
Custody, *s.* (Ll. *custodia*) cadwraeth, ceidwadaeth, cadwadaeth, cadwyaeth, gwarchodaeth, gwarchad, gwarchadw, cadw, cadwedigaeth, cysdodiaeth, cyfarchwyl, gofal; dalfa, carchar, carchardy, cysdotty; carchariad; caethiwed; diffyniad, adne, adnes, nodded, amddiffyn, sicrwydd, diogelwch; gwarcheidwadaeth, gorfodogaeth; ceidwadaeth ac amgeledd.
To put in custody—rhoi *neu* osod mewn dalfa; rhoi *neu* fwrw yn ngharchar; rhoi yn nghadw; rhoi yn nghadwraeth; rhoi yn ngofal; traddodi i garchar *neu* gysdotty.
Under the custody and charge of the sons of Merari—yn nghadwraeth meibion Merari (*Num.* iii. 36).
Unto the custody of Hege—dân law Hege (*Esth.* ii. 3).
Custom, *s.* (Ff. *coûtume*, am *coustume;* It. *costuma, costume*) defod, arfer, cynnefod, moes, henfoes, arferiad, ymarfer, ymarferiad, gnawd, hen arfer, hen arferiad, arddefod, dullwedd, moesffurf; trefn, dull, modd, ffurf, munud; ffordd; cynneddf, gnotâd, cynnefindra, gorddyfn, gorddyfnad; prŷn, gwerth, cysmeriaeth, trafnid, masnach; cyrchfa; gwaith; toll, cyllid, treth, tâl, nwydd-dreth, dofraeth, arian porth, mâl, teyrnged.
An evil custom—drygfoes, drygddefod, mall-arfer, arfer ddrwg, defod ddrwg.
The custom is—mae yn arfer; mae yn ddefod ac arfer; yr arfer yw; y ddefod ydyw.
The custom of the world is this—moes y byd a'i arfer yw hyn; defod ac arfer y byd yw hyn.
To grow into a custom—tyfu *neu* fyned yn arfer; dyfod i fod yn arfer; gnotäu.
For it had grown into a custom—canys gnotasai; canys daethai yn ddefod.
He has plenty of custom—y mae ganddo ddigon o brŷn, o brynu, o drafnid, o gysmeriaeth, *neu* o gysmeriaid.
An agreement will break a custom—ammod a dyr ddefod.
To take custom—tolli, derbyn toll, codi toll.
To pay custom—talu toll.
Receipt of customs—tollfa, tolldy, y dollfa, y tolldy, cyllidfa.
Custom-free—didoll, tollrydd.
Customs' union—toll-undeb.
A levier of customs—casglwr *neu* gasglydd toll; tollwr, tollydd, tollur, amobrydd, ceisiad, cais, codwr treth.
Customs, } cyllid, y cyllid; tollau,
Custom duties, } cyllidau.
Custom, *v.* arfer, arferu, arferyd, darferu; ymarfer, ymarferu, ymarferyd, cynnefino, ymgynnefino, gnotäu, gnodi.
Customable, *a.* (o *custom*) arferol, arferedig, cynnefin, cynnefinol, cynnefodig, gnodol, gnotaol, defodol; cyffredin, mynych.
Customableness, *s.* arferoldeb, cynnefinoldeb, cynnefinolrwydd, cynnefindra; cyffredinrwydd, mynychrwydd, mynychder.
Customably, *ad.* yn arferol, &c.; fel arferol; yn ol yr arfer; yn y dull arferol.
Customarily, *ad.* yn arferol, &c.; yn ol yr arfer; yn ol y ddefod; fel arferol.
Customariness, *s.* arferoldeb, defodoldeb, defodolrwydd, defodrwydd, cynnefindra, arferedigrwydd, cynnefodogrwydd; cyffredinrwydd, cyffredinoldeb, mynychrwydd, mynychder, mynychdra, arferiad.
Customary, *a.* (Ff. *coutumier*) arferol, arferedig, cynnefodol, cynnefodig, cynnefin, cynnefinol, gnodol, gnotaol, gnawd, gnodus, gnodig, defodol; unol â defod ac arfer; cyffredin, mynych.
This is now become customary—aeth hyn weithian yn ddefod.
It is customary—mae yn arferol; mae yn arfer; mae yn ddefod; gnawd yw, gnodol yw, arferol yw.
Customary, } *s.* arferlyfr, defodlyfr, gnodlyfr;
Custumary, } llyfr arferion *neu* ddefodau.
Customed, *a.* (o *custom*) arferedig, cynnefodig, cynnefin, gnotäedig, cyffredin; trafnidiog, cysmeriog; âg iddo brynwyr; hygyrch; â mawr gyrchu iddi; âg iddi aml gysmeriaid.
Customer, *s.* (o *custom*) prynwr, cysmeriad, cysmer, prynwr gwastad, prynydd arferol, dybrynydd, masnachwr; trethgasglydd;† mwyglen.
Tarshish was thy customer—Tarsis oedd dy farchnadyddes.

Custom-house, *s.* cyllidfa, tollfa, tolldy, cyllitty.
Custom-house brokers — rhyngfaelwyr y gyllidfa.
Custos, *s.* (Ll.) ceidwad, cedwidydd, gwarcheidwad.
Custos rotulorum — ceidwad llysgofion, ceidwad y rholau, ceidwad cofnodau brawdlys, ceidwad y cofnodau.
Custrel, *s.* (hen Ff. *coustillier*) ysgwydwas, tarianwas, aesddyn, cludydd tarian; costrel win, cunnach.
Cut, *v.* (Gr. *coptô*; Norm. *cotu*; C. *catio, cytio*) tori; trychu, gorthori, naddu, hacio, cymmynu; lladd, lladd ar; ymdori; gwahanu; briwo, archolli; lleifio, catio, cateia; croesi, croesdori, cynghroesi; cerfio.
To cut about—amdori, amdrychu; tori o gylch.
To cut across—croesi; tori yn groes; myned yn groes i; myned y ffordd feraf.
To cut asunder, } tori ymaith; tori yn
To cut in two, } ddau; gwahanu; rhanu yn ddau; tori i ffwrdd.
To cut away—tori ymaith, trychu ymaith; dystrywio, dyfetha, dinystro, dinystrio, dilëu; tori ar.
To cut before—rhagdori, blaendori, rhagladd.
To cut capers — carlamu, crychneidio, prancio.
To cut down—tori i lawr; trychu i lawr; lladd; lladd â phladyr *neu* â chryman; cymmynu *neu* gwympo â bwyell; cymmynu; medi; taro â; cwympo; dryllio; arloesi; cywilyddio, darostwng, dystewi; rhagori, gorchfygu.
To cut in pieces—tori yn ddarnau, yn ddryllian, yn gatiau, yn dipiau, yn ddifynion, yn yfflon, yn gandryll, *neu* yn dameidiau; darnio, dryllio, catio, difynio, manddryllio; cinynio.
I will cut thee to pieces—mi'th anafaf di; mi'th doraf yn ddarnau, &c.
To cut into slices—tafellu; tori yn defyll.
To cut into thongs—careio; tori yn gareiau.
To cut off—tori ymaith; tori i ffwrdd; trychu ymaith; lladd; dystrywio, dyfetha, dinystro, dinystrio, dilëu, difodi; diwreiddio; ysgythru, brigladd; gwahanu, dydoli; rhwystro, attal; dybenu, diweddu; gosod terfyn ar; symmud ymaith; rhagod, rhagflaenu; cau allan, byrhau, ewtogi; lliasu; ysu.
To cut off the boughs *or* branches—ysgythru, digeincio, brigladd, brigladd coed.
To cut off the head—tori pen, lladd pen, dibenu, torfynyglu, dïyddfu, pendori.
To cut off an heir—dïetifeddu; tori etifedd ymaith.
To cut off a speech—ewtogi araeth; tewi yn ddisymmwth; tori yn fyr; diweddu *neu* ddarfod yn ddirybudd; talmu yn swta.
To cut off delays—gwneuthur *neu* fyned yn ddïannod; myned yn nghylch peth yn ddïannod; gwneuthur yn ddïohir, yn ddïaros, *neu* yn ddïoed.
To cut off the stragglers of an army—lloffa y gwasgaredigion; tori ymaith y rhai gwasgaredig.
To cut off the top—brigdori, blaendori, brigladd; tocio, brigdocio; tori y brig.
To cut out—tori allan; tori i maes; ffurfio, llunio, amcanu, dyfeisio, cynllunio, tori; naddu, naddu allan; cymhwyso, addasu; blaenori; cymmeryd y blaen ar; rhagori ar; cau allan.
To cut one out *or* down — rhagori *neu* flaenori ar un; myned dros un; bod *neu* fyned yn drech nag un; maeddu un; gorchfygu un; trechu un; cael y goreu ar un.
To cut one to the heart—tori i'r byw; dygn ofidio *neu* ddygn flino un; gofidio *neu* flino calon un; gofidio *neu* flino un yn ei galon; peru i un ffromi yn ddirfawr *neu* yn aruthr; brathu *neu* wanu i'r byw; dwysbigo un.
To be cut to the heart—ymofidio *neu* ffromi yn ei galon.
To cut on—brysio, prysuro, crysio, ysguto, ysgudo, ysgutho; bwrw arni; ffrystio, ffullio, ffysgio, cyflymu.
To cut the air—hollti y gwynt; gwanu y gwynt; gwahanu y gwynt; ehedeg drwy yr awyr; hollti yr awyr; tori yr awyr.
To cut the sea—hollti *neu* wanu y môr; aredig y môr; hollti y tònau; cwyso y weilgi; cwyso y dyfnder.
To cut short—tori yn fyr; cwtogi, cwtäu, byrhau, talfyru, tocio, dyfyru; lleihau; rhwystro.
To cut up—tori i fyny; tori; dadwreiddio, diwreiddio; tori ymaith; tori i ffwrdd; tori ffwrdd; tori yn ddarnau.
To cut as a tally—rhygnu, rhicio; tori rhwgn *neu* ric; tori rhiciau *neu* rygnau.
To cut one's throat—torfynyglu un; tori gwddf *neu* wddwg un; tori corn gwddf un; tòri corn breuant un; tori ceg un; tori gwythi gwaed un; tori mwnwgl un.
To cut one's short—tori ar chwedl un.
To cut hay—lladd gwair; tori gwair.
To cut turf—lladd mawn, lladd tywarch; tori mawn.
To cut with a saw—llifio; tori â llif.
To cut with a knife—tori â chyllell; cyllellu.
To cut a great figure—dwyn rhwysg mawr; ymddangos yn wych; gwneuthur rhodres; tori cynllun gwych; torsythu.
To cut (as the teeth)—tori; tori allan; tyfu allan.
He cuts teeth, } y mae efe yn cael
He is cutting teeth, } dannedd; y mae efe yn magu dannedd; y mae ei ddannedd yn tori allan; y mae yn cael dannedd.
To cut (as horses do)—swrn-daro; briwo; taro wrth eu gilydd.
To cut for the stone—maenddeoti, maendrychu.
He cut short their communication—torodd ar eu hymddyddan hwynt.
To cut trees—tori coed, cymmynu coed, cwympo coed.
To cut and mangle—llurgunio, sinachad, sinachu; cigyddio, merthyru; tori yn annhrefnus, yn afluniaidd, *neu* yn anfedrus.
To cut into mis-shapen luncheons—ysgylffo; tori yn gylffau; ysgolpo.

This tongue of yours must be cut out—rhaid yw tori eich tafod.
The froward tongue shall be cut out—y tafod cyndyn a dorir ymaith.
I will cut out work for you—mi a beraf *neu* a roddaf waith i chwi i'w wneuthur; mi doraf i chwi waith allan.
He cutteth him out windows—efe a nadd iddo ffenestri (*Ier.* xxii. 14).
To be cut out for some particular business *or* profession—bod wedi ei eni, ei ddonio, ei gynnysgaeddu â doniau, ei gymhwyso, *neu* ei gyfaddasu i fod o ryw swydd *neu* alwad neilltuol; gwedi ei dori allan i orchwyl, &c.
He is cut out for a scholar—ganwyd ef i fod yn ysgoläig.
They were cut to the heart—ffromasant yn eu calonau (*Act.* vii. 54).
He cutteth large thongs out of another man's leather—hael Hywel o bwrs y wlad.
I cut him to the quick—mi a'i gwanais *neu* a'i brathais i'r byw; mi a'i dygn flinais ef; mi a berais iddo flinder nid ychydig.
Cut the sole according to the foot—tor *neu* lladd y gwadn yn ol y troed; lladd y gwadn yn ol fel y bo'r troed; tor dy bais yn ol dy frethyn.
To cut each other at right angles—croesi eu gilydd; croesdori eu gilydd; trawsdori y naill y llall yn union; uniongroesi y naill y llall; ymgroesi yn gyfongl.
Neither shall men cut themselves for them—nid ymdorir drostynt.

Cut, *s.* toriad, tor, gorthoriad, gorthoriant, trwch, trychiad; archoll, briw, clwyf, anaf, gweli; lladd; ergyd; hac, twc, bwlch, hollt, agen, adwy; cymmyn; darn, dernyn, cat, cetyn, dryll, cinyn, difyn, trychyn; tafell, tafellan; rhwgn, rhign, rhygn, gwlf, rhigol, cwys, sylch; ffos, dyfrffos, dyfrglawdd; dull, modd, ffurf, llunwedd, dullwedd, delw; argrafflun, argrafflafn, cerfiad, cerflun; cwtws, coelbren, blewyn cwta; berffordd; trychineb, trychni, aflwydd; llach, ffonod; parthiad, gwahaniad, rhwyg;† ffwlcyn.
A cut with a weapon — arfawd; archoll âg erfyn.
A cut with a sword--cleddyfawd, cleddyfal, ffosawd, cleddyfod; archoll â chleddyf.
A cut with a knife—cyllellawd; archoll â chyllell.
A cut with a whip—ffrewyllawd, fflangellawd; archoll â fflangell; ysleifiad.
A cut with an axe--bwyellawd; cymmynad; archoll â bwyell.
This is the shortest cut—dyma y ffordd feraf *neu* agosaf.
There was the shortest cut—yno yr oedd y croesiad byraf; yno yr oedd y lle byraf *neu* y fân feraf i fyned drosodd.
Wood-cut—coedlun, coettor, coettoriad, argrafflun ar goed, coedgerflun, coedargraff, coedarlun, coedgerfiad.
In cuts — yn ddarnau, yn ddrylliau, yn gatiau, yn doriadau, yn drychau, yn drychion, yn yfflon.
Cut and long tail—y gwych a'r gwael; pawb o bob gradd.

Cut, *p. p.* toredig, &c.; trwch; anafus; cwta, byr, swta; cerfiedig, cerfluniedig.
Cut about--amdrwch, amdoredig, amdrychedig.
Cut asunder — gwahanedig, rhanedig, parthedig; gwahanol.
Cut short—cwta, (*f.* cota), byr, (*f.* bèr), talfyr, talfyredig, dyfyr; rhyfyr.
Easily cut, } hydor, hydrwch, hyfriw;
Easy to be cut, } hyladd; hyfed; hawdd ei dori, &c.
Not easy to be cut—anhydor, anhydrwch; anhyladd; anhawdd ei dori, &c.

Cutaneous, *a.* (Ll. *cutis*) croenaidd, croenol, croendarddiadol; perthynol i'r croen.
Cutaneous diseases — clefydau y croen, clefydon y croen, heintiau y croen; clefydau croenaidd.
Cutaneous eruption — croendarddiant; tarddiant yn y croen; llyfrithiad *neu* lyfrithiant y croen; toriad allan yn y croen.

Cute, *a.* (o *acute*) craffus, craff, llym, glew, deallus.

Cuticle, *s.* (Ll. *cuticula*) croenen, croenyn, glasgroen, pilen, pilionen, tònen, tòn, caen, caenen, en, teneugroen, argroen, uchgroen; y croen *neu* y groenen uchaf; tòn *neu* dònen y croen.
A thin cuticle — glasgroenen, glasgroen, croenen deneu.

Cuticular, *a.* (Ll. *cuticularis*) croenynol, croenenaidd, glasgroenaidd, pilenaidd, argroenaidd, uchgroenaidd, croenynaidd, croenaidd, croenol; yn nhòn *neu* yn nhònen y croen.

Cutlas, } *s.* (Ff. *coutelas*; Ll. *cultellus*) anglas,
Cutlass, } crymgleddyf, crymgledd llydan; ffoswn, cleddyf, bidog.

Cutler, *s.* (Ff. *coutelier*; o'r Ll. *culter, cultellus*) cyllellwr, cyllellydd; cyllellof, cleddof; gof cyllyll.
Sword cutler — cleddof, gof cleddyfau, cleddyfof.

Cutlery, *s.* (Ff. *coutellerie*) cyllellyddiaeth, cyllellwriaeth, cyllyriaeth, cyllellofiaeth, cleddofiaeth; gwneuthuriad arfau awch; miniogaeth; miniogion, arfau awch.

Cutlet, *s.* (Ff. *côtelette*) golwyth; dernyn.

Cutpurse, *s.* (*cut* a *purse*) ysbeiliwr llogellau, lleidr alwarau, lleidr pyrsau, pyrsleidr, codbigwr, llogellbigwr; lleidr, ysbeilydd.

Cutter, *s.* (o *cut*) torwr, torydd, toriedydd, trychwr, trychydd, naddwr, ysgythrydd, ysgythrwr, cymmynwr; toriadyr, cyllen, cyllan, cyllyr, catai, ysgïen; blaenddant;† murniwr, llofrudd, dyhiryn.

Cutter, *s.* ysgoren, ysgilong, ysgafnlong, trychlong; trychfad; llong unfwrdd, unhwyliar, fuanred.

Cutters, *s. pl.* trychbriddfeini, priddfeini meddal.

Cut throat, *s.* torgeg, llofrudd, murniwr, lleiddiad, bidogwr, grafil, drygddyn, dyhiryn, mab y fall.

Cut-throat, *a.* llofruddiol, llofruddiog, llawrudd, murniol; cïaidd, barbaraidd, milain, mileinig.

Cutting, *s.* (o *cut*) toriad, trychiad, gorthoriad, gorthoriant, naddiad, rhwygiad, maendrychiad: *pl.* toriadau, &c., naddion, trychion, torion, ciniach, cinynion, darnau, dernynau, tocion, plan-dorion, lleinellau, lleinian.

Cutting, *a.* brathol, trywanol; yn treiddio i'r byw; yn treiddio i'r galon; llym, pigoglym, pigog, treiddlym, llymbigog, brathiadol, llymdost, tostlym, chwerw, gwanol, terig; i'r byw.

Cuttle, } *s.* (S. *cudele*) ystifflog, morgyllell,
Cuttle-fish, } morlawes, ystiffog: dyhiryn cegddu.

Cuttle bone—bron alarch, asgwrn ystifflog.

Cutwater, *s.* (*cut* a *water*) torddwr, torddwfr, duryn llong; barglawdd: llurs, gwalch y penweig.

Cyamilede, *s.* sur creisflorig anhydawdd.

Cyanates, *s. pl.* (Gr. *cuanos*) glashalion.

Cyanic Acid, *s.* (Gr. *cuanos*) sur llasnfelai, sur creisflorig, sur glasarig.

Cyanide, *s.* (Gr. *cuanos*) creisflorid, cresflorid.

Cyanilic Acid, *s.* sur glasilig, sur lleblychig, sur melonig.

Cyanite, } *s.* (Gr. *cuanos*) glasith=math o
Kyanite, } ddelidfaen.

Cyanogen, *s.* (Gr. *cuanos* a *gennaô*) glasai, glasarai, llasai, creisflorai, cresflorai = nwy, cynnwysedig o un ran o florai, a dwy o ulyf.

Cyanometer, *s.* (Gr. *cuanos* a *metron*) glasfesur, glasfeidyr, glasfesurydd = offeryn i fesur gleani yr wybren.

Cyanuret, *s.* (Gr. *cuanos*) creisflorid, cresflorid.

Cyanopathy, } *s.* (Gr. *cuanos* a *pathos*)
Cyanosis, } glasglefyd, glasglwyf, glas-
Cyania, } wst, y glesni.

Cyanose, *s.* (Gr. *cuanos*) copras glas, careg las, efyddgris, coprhalan, glasfaen.

Cyanuric Acid, *s.* sur creisfloridig, sur creisflorid.

Cynnus, *s.* (Gr. *cuanos*) penlas yr yd, penlas wèn, cramenog yr yd.

Cyathea, *s.* (Gr. *cuathos*) ffiolell, ffiolredyn, cibredyn.

Cyathiform, *a.* (Gr. *cuathos*; Ll. *cyathus* a *forma*) cwpanaidd, cibynaidd, ffiolaidd, cibaidd; ar ddull cwpan.

Cyclamen, *s.* (Gr. *cuclos*) egel, llysiau y ddidol, bara yr hwch, moch-wraidd, didol.

Cyclamine, *s.* (o *cyclamen*) egelnur=dansawdd à geir yn ngwraidd yr egel, neu lysiau y ddidol.

Cycle, *s.* (Gr. *cuclos*; Ll. *cyclus*) cylch, chwyl; cylchred, cylchrediad, cylchwy, rhygylch, cant; ysbaid cyfnodol.

Cycle of the moon, } cylch y lleuad, cylch
Lunar cycle, } y lloer, y cylch lleuadol, y rhif euraid, y prif, y cylch Metonig=ysbaid à gwblheir yn mhen pob 19 mlynedd, pan y dychwel y lleuadau newydd a llawn i'r un dyddiau o'r mis ag o'r blaen, ac y dechreu y lloer ei gyrfa drachefn gyda'r haul.

Cycle of the sun, } cylch yr haul, y cylch
Solar cycle, } heulog, y cylch heulaidd, cylch y Suliau=ysbaid o 28 flynedd, ar ddiwedd y sawl y dychwel y llythyrenau Sul i'w lle blaenorol, ac y dechreuant drachefn ar y cylch o newydd.

Cycle of indiction—cylch y cyhoeddiant, cylch y pumthegiant, cylch y cyhoeddwys=ysbaid o 15 mlynedd, à sefydlwyd gàn Cystenyn Fawr, a dechreuwyd cyfrif wrtho, Ionor 1, 313.

Paschal cycle—cylch y Pasc.

Cyclic, *a.* (Gr. *cuclicos*) cylchig; cylchol, cylchaidd.

Cyclic poets—prydyddion cylchig, cylchbrydyddion, cylch-feirdd, cyrchynfeirdd; Homeridiaid.

Cyclic chorus—cylchgor, cydgor cylchig (yn Athen gynt).

Cyclical, *a.* cylchig, cylchol, cylchaidd, cylchynol.

Cyclobranchia, } *s. pl.* (Gr. *cuclos* a *bragchia*)
Cyclobranchians, } cylchdagellegion, cylchda-
Cyclobranchiata, } gelliaid, cylchdagellion.

Cyclograph, *s.* (Gr. *cuclos* a *graphô*) cylchgomellyr, cylchgraff, cylchofferyn.

Cycloid, *s.* (Gr. *cuclos* ac *eidos*) crogyrfen, crogwrf, cylchgom, cylchgomell.

Cycloidal, *a.* crogyrfol, cylchgomaidd, cylchgam.

Cycloidal pendulum—dringlyn crogyrfol.

Cycloidians, *s. pl.* (Gr. *cuclos* ac *eidos*) rheiddlibogion, creiddlibogion, rheiddfeddalogion.

Cyclolite, *s.* (Gr. *cuclos* a *lithos*) cylchwylar.

Cyclometry, *s.* (Gr. *cuclos* a *metron*) cylchfesuriaeth; cylchfesuriad.

Cyclopean, } *a.* (o *Cyclops*) cawraidd, gorfawr,
Cyclopic, } erfawr, amrosgo, anferth; erchyllfawr, dychrynllyd; anwar; Cyclopig, Cyclopaidd.

Cyclopedia, } *s.* (Gr. *cuclos* a *paideia*, *egcuclo-*
Cyclopædia, } *paideia*) gwyddoniadur, gwyddCyclopede, } iadur, gwybodiadur, geiriadur gwyddorol a chelfyddol, arleniadur, cyfwyddonur; cylch gwybodaeth; llyfr gwybodaeth gyffredinol.

The Penny Cyclopædia—y Gwyddoniadur Ceiniog.

Cyclopedia of arts--gwyddoniadur y celfyddydau, gwyddoniadur celfyddol, gwyddiadur celfyddydol, celfeiriadur.

Cyclopedia of sciences — gwyddoriadur, gwyddoniadur y gwyddorion, gwybodiadur gwyddorol.

Cyclopedian, } *a.* gwyddiadurol, gwyddoniad-
Cyclopediac, } urol, gwyddiaduraidd.

Cyclosis, *s.* (Gr.) ysgogiad llyswy, cylchwyad.

Cyclostoma, *s. pl.* (Gr. *cuclos* a *stoma*) cychsafnogion, cylcheneuaid, crynsafniaid.

Cyclostomes, *s. pl.* (Gr. *cuclos* a *stoma*) safngrynogion, prysg safn-grwn, pysg geneugrwn.

Cyclostomous, *a.* safn-grwn, geneugrwn.

Cyclostylar, *a.* (Gr. *cuclos* a *stulos*) cylchgolofnog, cylchbilerog, cylchbillog, cylchbillresog.

Cyclura, *s. pl.* (Gr. *cuclos* ac *ouros*) cylchlostogion.

Cyder, *s.* (Ff. *cidre*, *sidre*) osai, afalwy, dïod afalau.

Cydonia, *s.* (o *Cydon* yn Candia) Cydonia, cwins.

Cygnet, *s.* (Ll. *cygnus*, *cycnus*) alarchen, alarchan, alarch ieuanc, cyw alarch.

Cygnus, *s.* (Ll.) yr Alarch=un o'r hen gydseraau.

Cylinder, *s.* (Gr. *culindros*; Ll. *cylindrus*) rhol, rholyn, trolyn, trolen, trol, hirgrwn, rholen; rholbren, rholfaen, corff hirgrwn.

Cylindraceous, *a.*=*Cylindric*, *Cylindrical*.

Cylindric, } *a.* (o *cylinder*) rholaidd, trol-
Cylindrical, } aidd, rholynaidd, trolynaidd, rholenaidd; trolenaidd, trolynog, rholynog; hirgrwn, hirgrynol; ar wedd rhol.

Cylindricity, *s.* rholynogrwydd, trolynogrwydd, rholeiddrwydd, troleiddrwydd, trolyneiddrwydd, rholyneiddrwydd, hirgrynedd, rholynoldeb; ffurf drolynaidd. [llysfadfall.

Cylindricodon, *s.* (Gr. *culindricos* ac *odôn*)

Cylindriform, *a.* (Ll. *cylindrus* a *forma*) rholaidd, trolaidd, rholynaidd, trolynaidd; ar ddull rhol.

Cylindroid, *s.* (Gr. *culindros* ac *eidos*) gorolyn, godrolyn, lledrolyn, lledrolen.

Cylindrometic, *a.* (Gr. *culindros* a *metron*) rholfesurol, trolfesurol.

Cymar, *s.* (It. *ciamare;* Ff. *simarre*) ysgablar, ystola; gwisg deneu, godudded; simwr.

Cymatium, } *s.* (Ll.; Gr. *cumation*) tònfolden,
Cyma, } tònfold, tònaddurn; moldaddurn.

Cymbal, *s.* (Gr. *cumbalon;* Ll. *cymbalum*) symbal, taron.

High-sounding cymbals—symbalau soniarus, symbalau llafar.

Cymbiform, *a.* (Ll. *cymba* a *forma*) cychaidd, badaidd; ar ddull cwch neu fad.

Cyme, } *s.* (Gr. *cuma*) impyn, impen; cydflod-
Cyma, } ionos; paniglen.

Cymbling, *s.* math o afal melyn hir.

Cymoid, *a.* (Gr. *cuma* ac *eidos*) impaidd, impenaidd; cydflodionaidd; paniglaidd.

Cymophane, *s.* (Gr. *cuma* a *phainô*) eurferyl.

Cymophanous, *a.* (o *cymophane*) lliwdonog, cathlygeidiol, troliwemol; yn llewyrchu fel llygad cath yn y tywyll.

Cymose, } *a.* (Ll. *cymosus*) impynog; cyflod-
Cymous, } ionog, cydflodionog; paniglog.

Cynanche, *s.* (Gr. *cunagchê*) hychgryg, oegwst, dolur gwddf.

Cynanthropy, *s.* (Gr. *cuôn* ac *anthrôpos*) dynddaredd, cynddaredd=math o gynddaredd neu wallgofrwydd, yn yr hwn y mae i ddynion deithi cwn.

Cynarctomachy, *s.* (Gr. *cuôn, arctos*, a *machê*) cynarthannos, arthannos â chwn; annos arth â chwn.

Cynegetics, *s. pl.* (Gr. *cunêgeticos*) cynyddiaeth, helgyneg, helwriaeth, helwreg; helyddiaeth â chwn.

Cynic, } *a.* (Gr. *cunicos*, o *cuôn*, ci) costog-
Cynical, } aidd, costog, craseiriog, sarig, afrywiog, anfwyn, croes, anhynaws, anwesog, difoes, anynad, sor, sur, taiog, cras, duchanus, duchanllyd, duchangar, cipgar, cecrus, cecraidd, cwerylus, cwerylgar, cymhendraws, brathlyd; gerwin, garw, tost; cŷnig, cïaidd, terig.

Cynic spasm—gwyneg gŷnig; udwyneg, ciwyneg; gwyneg â bair i'r goddefydd udo fel ci.

Cynic, *s.* costogyn, cŷnig, gwrgi, sarigyn, monyn, taiogyn, soryn; athronydd craseiriog; dyngashäwr, annyngarwr: *pl.* cŷnigiaid, costogiaid, sarigiaid, sarigion, &c.

Cynicalness, *s.* costogrwydd, sarigrwydd, costogeiddrwydd, afrywiogrwydd, &c.; dirmyg cyfoeth a difyrion.

Cynicism, *s.* (o *cynic*) costogaeth, cŷnigaeth, taiogaeth, afrywiogaeth; derfoes; dyngasineb.

Cynoglossum, *s.* (Gr. *cuôn* a *glôssa*) pigl, pigyl, tafod y bytheuad.

Cynoglossus, *s.* (Gr. *cuôn* a *glôssa*) pigylbysg.

Cynography, *s.* (Gr. *cuôn* a *graphô*) cihanes, hanes cwn.

Cynolyssa, *s.* (Gr. *cuôn* a *bissa*) cynddaredd, y gynddaredd.

Cynosbatus, *s.* (Gr. *cunosbatos*) ciros, egroeswydd, ogfaenllwyn, rhos y cwn, marchfieri.

Cynorexy, *s.* (Gr. *cuon* ac *orexis*) gorwanc, y wanc, rheibglwyf.

Cynosure, } *s.* (Gr. *cunosoura;* Ll. *cynosura*)
Cynosura, } yr Arth Leiaf, yr Arthan; seren y morwyr, seren y gogledd, cyfarwyddyd y morwyr; Rhonell y ci; Men Carl, y Cerbyd.

Cynosurus, *s.* (Gr. *cuôn* ac *oura*) rhonwellt y ci.

Cynoxalic Acid, *s.* sur cisuranig.

Cynthia, *s.* (un o enwau Diana, oddi wrth fynydd *Cynthus*) y lloer, y lleuad.

My fair Cynthia—fy lloer wèn.

Cyophoria, *s.* (Gr. *cuos* a *phereô*) cyfebrawd, cyfebriad, beichiogiad, beichiogi, cyfebri.

Cypher, *s.*=*Cipher.*

Cyphonism, *s.* (Gr. *cuphôn*) melgosp.

Cyperaceæ, *s. pl.* (Ll. *cyperus*) hesg, yr hesg.

Cuperaceous, *a.* hesgaidd; perthynol i'r hesg.

Cyperus, *s.* (Ll.) ynoden Fair.

Cyphel, }
Cyphelle, } *s.* (Gr. *cuphos*) eilun briweg.

Cypræa, *s.* (*Cypria*, enw ar Gwener) cregyn Mair.

Cypress, *s.* (Ll. *cupressus;* Gr. *cuparissos*) ffyllwydd, cypreswydd: *sing.* ffyllwydden, cypreswydden.

Cypress tree—ffyllwydden, cypreswydden.

Evergreen American cypress—ffyllwydden fythwerdd Amerig: cedrwydden feidiog America; cypreswydden wèn.

Spreading cypress—ffyllwydden ymledenol, cypreswydden lorwedd.

Cypress spurge—ffiamgoed gedrol.

Cyprian, *s.* (o *Cypria*, un o enwau Gwener) mwyglen, anllades, puten.

Cypripedium, *s.* (*cypris*, enw ar Gwener, a *podion*, llopan) esgid Fair, llopan Fair.

Cyprus, *s.* (llygriad o *cypress*?) teneuwe du.

Cyriologic, *a.* (Gr. *curios* a *logos*) prifiythyrenol, braslythyrenol, prifiythyrol.

Cyst, } *s.* (Gr. *custis*) coden, cod, gwain,
Cystis, } crawngod, crawngoden, llidgai, gorgai, coden hwrwg, cod crawn, crawnwain; pledren.

Cystic, *a.* (o *cyst*) crawngodog, crawngodenol, crawngodenog, crawnweiniol, llidgeiol, gorgeiol.

Cystic oxide—crawn-egrid.

Cystocele, *s.* (Gr. *custis* a *cêlê*) torbledren.

Cystotomy, *s.* (Gr. *custis* a *tomê*) agoriad crawngoden, agoriad cornwyd, gorgeiagiad, agoriad gorgeion.

Cytisine, *s.* (o *cytisus*) euron-gyfog, llebgyfog; dansawdd chwerw euron.

Cytisus, *s.* (Ll. oddi wrth ynys *Cythnus*, yn yr Ynysfor) euron, pyswydd, eurwydd, euronwydd.

Cytisus Scoparius, *s.* banadl, banal, banad.

Czar, } (o *Cæsar* neu *Kaisar?*) Csar, Tsar=
Tzar, } senw neu enwawd â roir i Amherawdwr Rwssia: teyrn, brenin, penadur.

Czarina, *s.* Csares, Csarina, Tsares=enw â roddir i Amherodres Rwssia.

Czarinian, *a.* (o *czarina*) Csaresaidd, Csarinaidd; perthynol i Amherodres Rwssia.

Czarish, (o *czar*) Csaraidd, Tsaraidd, Csarig; perthynol i Csar Rwssia.

Czarowitz, *s.* (*czar*, a R. *witz* neu *vits*, mab) Csarowits, Tsarowits, Csarab=mab hynaf y Csar, neu Amherawdwr Rwssia.

D.

D, fel rhifnod, a saif am bum cant=500.

Dab, *v. a.* (Ff. *dauber*) cnithio, ffatio, cisio, gogisio, ysgafn daraw; ysgafn gyffwrdd â; ysiapio, llabio; cyffwrdd, cwrdd, *neu* daraw yn ysgafn; tirion daraw; godarsw; taraw â pheth masw *neu* wlyb.

Dab, *s.* cnith, cis, ffat, gogis, yslapen, llab, cnipws; ergyd, palfod, *neu* fonclust ysgafn; talp, telpyn, clap, soegyn, sypyn gwlyb, tylffyn, telpyn masw: lleden genog, llythïen genog: un hyfedr, hyfedrydd, medrusydd, crefftwr.

A dab of fat—llab, tameidyn, telpyn, *neu* dylffyn o frasder.

A dab at a thing—un hyfedr ar ryw beth; meistr ar beth; crefftwr, medruswr.

Dabble, *v.* (Is. *dabbelen, dabben;* H. *tabal*) ymdryboli, tryboli, yslotian; trybaeddu, ymdrybaeddu, trochi, ymdrochi, ymdröi, ymsicio, ymolchi; chwareu mewn dwr; chwareu mewn dwr a llaca; ymyryd, ymyru, ymyraeth, ymhel â; gwneuthur *neu* drin peth yn anhyfedr; cyffwrdd yma ac acw; gwneuthur peth yn arwynebol; dwbio; gwlychu, taenellu, ysgeintio, lleithio; tasgu dwr; diblo.

To dabble in the water—yslotian yn y dwr; chwareu â'i ddwylaw yn y dwr; mynych drochi ei ddwylaw yn y dwr; ymsicio, ymolchi, *neu* ymdrochi yn y dwr; chwareu yn y dwr.

To dabble in the dirt—trybaeddu, ymdrybaeddu, tryboli, ymdryboli, trochi, ymdrochi, maeddu, *neu* ymdröi mewn tom; trin, trafod, *neu* faeddu tom â dwylaw.

To dabble one's clothes—diblo, ymddiblo, ymdryboli, &c.

You must be always dabbling—rhaid i chwi fod â bys yn mhob peth.

To dabble with one—erlyn ar un; llithio, denu, *neu* gyffröi un i wneuthur rhyw beth; arferu amryw ffyrdd, amryw foddion, *neu* amryw resymau er denu un.

Dabbler, *s.* (o *dabble*) yslotiwr, ymdrybolwr, ymdrybaeddwr; ymyrydd, ymyrwr arwynebol; gwagdriniwr; à ymyro â'r hyn ni bo hyfedr arno; hanner crefftwr, eilun crefftwr.

Dabchick, *s.* (*dab* a *chick*) tindroed, ymdrochiar, soddiar=math o wylan fechan.

Dabster, *s.* (o *dab*, neu *adept*, a'r terfyniad *ster*) un hyfedr, un medrus; medruswr, hyfedrydd; meistr ar ei waith; crefftwr.

Da Capo, *ad.* (It.) at y pen, eilchwyl, eilwaith, eto, etwa, o'r dechreu.

Dace, *s.* (Is. *daas*) brwyniad=math o gippysg.

Dactyl, } *s.* (Gr. *dactulos;* Ll. *dactylus*) corfan
Dactyle, } crych disgynedig; bysgorfan, bysfan=mydr teirsill, y flaenaf yn hir, a'r ddwy olaf yn fyr, fel cymmalau bys (– ⏑ ⏑).

Dactylar, *a.* (o *dactyl*) bysgorfanol, bysgorfanaidd; perthynol i gorfan crych disgynedig.

Dactylet, *s.* (o *dactyl*)=*Dactyl, Dactyle.*

Dactylic, *a.* (o *dactyl*) bysgorfanig, bysfanig, bysgorfanog, bysfanog.

Dactyliography, } *s.* (Gr. *dactulios* a *graphô*)
Dactylography, } gemgerfiadaeth, gemgerfiaeth, gemgrifiadaeth, crifemrwyaeth.

Dactyliomancy, } *s.* (Gr. *dactulios* a *manteia*)
Dactylomancy, } modrwyarmes, bysonarmes, modrwygoel, dewiniaeth â modrwyau.

Dactylology, *s.* (Gr. *dactulos* a *logos*) bysiaith, llawiaith, llofebiaeth; bysoneg, bysoniaeth, bysrwyeg.

Dactyloglyph, } *s.* (Gr. *dactulos* a *gluphô*)
Dazzling, *a.* teryll, llachar, dysglaer, gorddysglaer, ffloew, llathraid, llathr, llathraidd, echdywynol, ysblenydd, serenol, seirian, gloew, llewyrchol, ysblan, claer, claerwych, glai, eirig, eirian, tanbaid, lluglawn, pelydrol, effan; yn dallu y llygaid.

De, (Ll.) rhagddawd yn dynodi *oddi wrth, o, ymaith; i lawr; an- dad-, di-, dis-; tra, gòr-; hollol.*

Deacon, *s.* (Gr. *diaconos;* Ll. *diaconus*) dïacon, diagon, degon, aeddon, iagon.

Deaconess, *s.* dïacones, dïagones, aeddones, degones, iagones; gweinidoges.

Deaconry, Deaconship, } *s.* (o *deacon*) dïaconiaeth, dïagoniaeth, degoniaeth, aeddoniaeth, iagoniaeth; swydd *neu* urddas dïacon.

Dead, *a.* (Is. *dood;* Sw. *död;* Al. *todt*) marw; marwaidd, difywyd, dïenaid, dïysbryd; wedi marw; wedi trengu; heb nac enaid nac anadl; merwin; yn merwino; â chwsg *neu* gysgfa ynddo; syth; diffrwyth, gwyw, gwywedig, crin; cysglyd, llwfr, llwrf; musgrell, diog, swrth, (*f.* sorth), trwm, trymaidd, trymllyd, trymhyrddig, anfywiog, dïymadferth, anweithgar, llesg, llesgenaidd, llibin; pwl; henaidd; oerllyd, anwresog, dïwres; dïeffaith; dideimlad, dïymdeimlad; difias, merf, merllyd; dwfn; digyffro; gwag.

To make dead=*Deaden.*

Naturally dead—gwedi marw a threngu; gwedi trengu a marw.

Dead sleep — trymgwsg, trymhun, margwsg, cwsg marw, marw gwsg.

To be dead—bod yn farw; bod wedi marw *neu* drengu; bod wedi darfod am dano; bod wedi ymadael â'r byd; bod wedi terfynu.

He is dead—y mae wedi marw; y mae yn farw; y mae wedi trengu, &c.

When he was dead—pan oedd efe wedi marw; pan oedd efe yn farw; gwedi ei farw; ac efe wedi marw; gwedi marw o hono; gwedi ei farwolaeth.

Dead of itself—burgunaidd, llurgunaidd; gwedi marw *neu* drengu o hono ei hun.

That is dead of itself—abwy, abo, burgun, llurgun, buria, abod, abar; à fo farw o hano ei hun.

Half-dead—hanner marw; lledfarw, gallmarw, go-farw; lledfyw, breiddfyw.

Dead body—corff marw, celain, celan.

Dead coal—marworyn diffoddedig, glo marwor.

Dead drink—dïod farw, ferf, *neu* ddiflas; dïod egr ddiflas; dïod wedi colli ei grym *neu* nerth; dïod ddinerth.

Dead pays—talion coll; talion marw; cyflog y lladdedigion a'r ffoedigion mewn rhyfel.

Dead-born — marw-anedig, marw-enedig, marw geni; à anwyd *neu* à enir yn farw.

Dead water—dwr sefydlog, marw, merydd, *neu* ferllyd; merddwfr, merddwr, merllyn, llynwyn, marwddwfr, marddwfr.

Stone dead—marw syth; mòr farw a'r gareg; marw gelain.

Dead language—iaith farw; iaith ddïarfer; iaith nad yw ar arfer gwlad.

Dead letter—llythyr dïarddel, llythyr dïarddelw; llythyren farw.

Dead-letter office — swyddfa llythyrau dïarddel.

Dead, *s.* marw; meirw, meirwon; dyfnder, cefnaint, canol.

The dead—y meirw, y meirwon.

The quick and the dead—y byw a'r meirw.

The dead of night—dyfnder nos, cefnaint nos, canol nos, trymder nos, perfeddion y nos.

The dead of winter — dyfnder gauaf; canol gauaf.

To mourn for the dead—arwylo; galaru am y marw.

Make no mourning for the dead—na wna farwnad (*Esec.* xxiv. 17).

Dead,† *v.* marweiddio, lladd, marwolaethu; ymfarweiddio.

Dead-doing, *a.* dinystrol, dinystriol, angeuol, dyfethol, dystrywgar, adwythig; à laddo yn ddifeth.

Dead-doors, *s. pl.* dorau segur; dorau i ddysgwyl taro.

Dead-drunk, *a.* llwyrfeddw, llwyrfrwysg, abrwysg, cwbl feddw; marw gàn feddwdod; cancr-feddw; meddw chwibwrn.

Deaden, *v.* (Is. *doolen;* Al. *tödten;* o *dead*) marweiddio, marwhau, marwolaethu, marwolhau, lladd, marwoli; peri yn farw; marthu,

gwanhau, gwanychu; pylu, dïawchu; merfu, diflasu.

Dead-eye, *s.* marlygad; math o chwerfan dro.

Dead-flat, *s.* marblyg.

Dead-freight, *s.* llonglog marw, gwag longlog.

Dead-hearted, *a.* calon-farw, calon-leag; digalon, gwangalon, dïysbryd, llwfr.

Dead-heartedness, *s.* gwangalondid, digalondid, llyfrdra, llyrfedd.

Dead-hedges, *s. pl.* margloddiau, cloddiau annhyfol, cloddiau tocion.

Deadish, *a.* marwaidd, gofarw, lledfarw, marth, marthig.

Dead-lift, *s.* trymbwysi, pwysi; angen, angenoctyd; dygn angen, dygnedd, cyfyngder, cyfyng-gynghor, eithaf perygl; y cynnyg diweddaf; y weddi ddiweddaf; angen diobaith; yr hwp olaf.

He came to their assistance at a dead-lift —efe a ddaeth yn gynnorthwy iddynt pan oedd reitaf iddynt wrtho; daeth yn gynnorthwy iddynt pan oeddent ar y weddi ddiweddaf, yn eu hangenoctyd, yn eu cyfyng-gynghor, *neu* ar yr hwp olaf.

Dead-light, *s.* marlewyrch; rhwyllglawr; tyllglawr; canad goleu *neu* ffenestr llong.

Deadlihood,† *s.* marwolrwydd; sefyllfa *neu* gyflwr y meirw.

Deadliness, *s.* angeuoldeb, angeuolder, angeuolrwydd, marwolder, marwoldeb, marwolrwydd, dinystroldeb, dinystrioldeb.

Deadly, *a.* (o *dead*) marwol, angeuol; dinystrol, dinystriol, gwenwynig, gwenwynllyd, niweidiol, adwythig, creulawn.

Deadly, *ad.* yn farwol, &c.; fel yr angeu; fel angeu; fel un marw; dygn, iawn, dros ben, tra.

Deadly pale—gwelw fel yr angeu; glas fel yr angeu; glas angeuol; gwelw angeuol; cyn lased a'r angeu; cyn welwed a'r angeu; mòr welw a'r angeu.

Deadly wounded—gwedi cael *neu* dderbyn archoll farwol; gwedi cael *neu* dderbyn archoll *neu* glwyf angeuol.

He was deadly fatigued—yr oedd efe yn mron marw gàn ludded; yr oedd yn barod i farw gàn ludded; yr oedd ar farw gàn ludded; yr oedd efe yn ddygn luddedig; yr oedd efe yn lluddedig iawn; yr oedd yn lluddedig dros ben.

Deadly-carrot, *s.* moron marwol.

Deadly-nightshade, *s.* codwarth = math o blanigyn gwenwynig.

Dead-neap, *s.* trai, gordrai, iseldrai, iselfor, marwddwfr, llanw isel, dystyll.

Deadness, *s.* (o *dead*) marweidd-dra, marwedd, marweidd-dod; gwendid, syrthni, marthrwydd; marweiddiad; pylni, pyledd; oeredd, oerder; diflasdod, difaterwch; merfedd, merfdra.

Deadnettle, *s.* (*dead* a *nettle*) marddanadlen, marwddanadlen, marwddanaden, marddanaden; danadlen ddall, fud, *neu* farw; danaden ddall, fud, *neu* farw.

Yellow deadnettle — eurddanadlen, marddanadlen felen.

Red deadnettle — marddanadlen goch, marwddanadlen goch, danaden farw goch, danadlen farw goch.

White deadnettle — marddanadlen wèn, marwddanadlen wèn, danadlen farw wèn, danaden fud wèn.

Dead-pledge, *s.* marwystl, marw-wystl, gwystl

Dead-reckoning, *s.* margyfrif, marwgyfrif, marw gyfrif.

Dead-ropes, *s. pl.* marwraffau.

Dead-shoar, } **Dead-shore**, } *s.* marbren, marwddarn.

Deads, *s. pl.* amsothach mwn; y pethau sy' amgylchu mwn yn y ddaiar.

Dead-struck, *a.* gwedi delwi; gwedi ei daru â syndod, â dychryn, *neu* âg arswyd; gwedi ei daraw yn farw.

Dead-water, *s.* marwddwfr, marddwfr, merddwfr, merddwr, merllyn, llynwyn; dŵr marw, sefydlog, llonydd, merllyd, *neu* ferydd.

Dead-wind, *s.* marwynt; gwrthwynt, gwynt gwrthwyneb.

Dead-works, *s. pl.* y rhanau uwch y dwr (long).

Deaf, *a.* (S.; Is. *doof*; D. *döv*; Sw. *döf*) byddar, trymglyw, clustfyddar; trwm ei glywed; trwm ei glybod; diglyw; aneglur, anghroch, anhyglyw; anystyriol; gwedi ei fyddaru.

To be deaf — bod yn fyddar; bod yn glustfyddar; bod yn drwm ei glywed *neu* glybod.

To be deaf to—troi y glust fyddar at; bod heb fynu *neu* chwennych clywed; bod yn fyddar i.

To make deaf — byddaru; syfrdanu gwneuthur yn fyddar.

To become deaf, } myned yn fyddar; trymhau o'r clybod; trymhau o'r clywed; byddaru; myned yn drwm ei glywed.

A deaf person—byddar, dyn byddar, un byddar: *pl.* byddariaid.

A deaf woman—byddares, byddar, dyn fyddar, dyn fyddar, benyw fyddar, un fyddar.

Deaf eared—clustfyddar.

A deaf ear—clust fyddar, byddarglust.

Deaf and dumb—mud a byddar; mud fyddar, byddarfud.

Somewhat deaf — go fyddar, lledfyddar, anhyglust; trwm ei glybod; trwm ei glywed; tràn fyddar.

Deaf,† *v. a.* byddaru.

Deafen, *v. a.* (o *deaf*) byddaru; syfrdanu tynu clustiau.

Deafness, *s.* (o *deaf*) byddarwch, bydderi, byddardra, byddardod; trymder clyw, trymder clywed, trymder clybod, trymglybod.

Deal, *v.* (S. *dælan*, *bedælan*, *gedælan*; D. *deeler*) rhanu, cyfranu, dosbarthu; rhoi rhoddi; rhoi rhan; rhoi peth yn rhanau tori i; gwasgaru, taenu, lledu; tafiu amgylch; masnachu, trafnidio, ymdrafnidio maeliera, marchnata, negesea, trafnu trin, ymdrin, trafod, trafodi, ymdrafod, ymdrafodi; cywerthu, cyfaelio; ymgystlynu gwneuthur, gwneyd; ymddwyn; ymwneyd, ymwneuthur, gweithredu, ymweithredu; gweithio; llywodraethu; bod à wnel; bod à wnelo; cyfryngu; rhoddi un ar ol y llall; rhoi yn aml.

To deal blows — rhoi aml ddyrnodiau, ergydion, *neu* ffonodiau; amlhau dyrnodiau *neu* ergydion; mynychu ergydion; dyblygu *neu* ddyblu dyrnodiau *neu*

ergydion; tafiu ergydion; rhoi dyrnodiau yn fân ac yn aml; llachio, paffio, dyrnodio, ymarfodi.

I will deal plainly — gwnaf yr hyn a fyddo amlwg, eglur, goleu, *neu* ddidwyll; ymddygaf yn deg *neu* yn ddidwyll.

Deal not foolishly—nac ynfydwch.

You deal friendly—yr ydych yn gwneuthur yn garedig; yr ydych yn gwneuthur fel câr *neu* gyfaill; caredig y gwnewch; fel câr yr ydych yn gwneuthur.

To deal deceitfully—ymddwyn yn dwyllodrus; gwneuthur *neu* drin yn dwyllodrus; gwneuthur lliw o beth; somi, bradychu, twyllo; bod yn anffyddlawn i; gwneuthur dirdra; bod yn dwyllodrus.

To deal deceitfully in bargaining—twyllfarchnata, twyll fasnachu.

He dealeth very subtilely—mae efe yn gyfrwys iawn.

The men of Shechem dealt treacherously with Abimelech—gwŷr Sichem a aethant yn anghywir i Abimelech (*Barn.* ix. 23).

To deal with one about *or* concerning—ymddyddan, ymchwedleua, siarad, *neu* ymdrin âg un yn nghylch.

About whom all the Jews have dealt with me — oblegid pa un y galwodd holl luaws yr Iuddewon arnaf fi (*Act.* xxv. 24).

To deal with *or* by—gwneuthur âg; ymddwyn tuag at; ymddwyn at; trin, trafod; ymwneyd âg.

Deal not with us after our sins—na wna â ni yn ol ein pechodau.

To deal with—gwneuthur â; gwneyd â; ymddwyn at *neu* tuag at; trin, trafod; ymwneyd â; gweithredu â; ymgystlynu âg; ymgystlwn âg; ymweithredu â; masnachu âg; ymfasnach âg; ymdrin â; bod â wneloâg; ymryson â; gwrthsefyll; rhybuddio, rhagrybuddio.

To deal in — ymfasnachu yn *neu* mewn; masnachu yn *neu* mewn; trafnidio yn *neu* mewn; ymfasnachu; ymwneyd âg; ymwneuthur â; bod â wnel âg; arferu, arfer; ymdrin â; cytuno, bargena; arfer cadw.

Do you deal with me so?—ai felly y gwnewch â mi? ai felly yr ymddygwch ataf?

He dealt basely by me—efe a wnaeth yn frwnt, yn anaddas, yn anffyddlawn, yn gywilyddus, yn fawaidd, yn greulawn, yn anŵraidd, *neu* yn anfoneddigaidd â mi.

He dealt roughly with her—triniodd hi yn anhynaws.

Deal not with me according to my deserts —na thâl i mi yn ol fy haeddiant.

Deal truly with me—dywed y gwir i mi; na thwylla fi; na soma fi; na thwylla mo honof.

Wherefore dealt ye so ill with me?—pa ham y'drygasoch fi?

God hath dealt graciously with me—Duw a fu dda wrthyf; Duw a fu raslawn wrthyf.

He becometh poor that dealeth with a slack hand—y neb a weithio â llaw ddïog fydd dlawd.

He dealt with familiar spirits—mawrhaodd swynyddion (2 *Bren.* xxi. 6).

Who dealeth in proud wrath—â wnelo beth mewn digllonedd balch.

To deal with one another—ymdrafnidio.

To deal the cards—rhanu, cyfranu, dosbarthu, *neu* yru y cardiau.

I am to deal next—myfi sydd i ranu yn nesaf; mi bïau rhanu yn nesaf.

Deal away—gyrwch y cardiau; gyrwch arni.

Deal, *s.* (S. *dæl, dal, gedal;* Is. *deel;* Al. *theil*) twysged, swrn, twysgen, llawer, amledd, amlder, llaweroedd, nid ychydig, swm, swmp, syrnyn, crŷn swrn, crŷn lawer, rhan, cyfran, cetyn, tipyn, craff, wmredd; hobyn, gyr.

A great deal, } llawer, twysged, swrn, aml-
A good deal, } edd, amlder, helaethran, llaweroedd, llawer iawn, nid ychydig, mwy na mwy, llawer byd, cyfran fawr.

He has a deal of wealth—y mae ganddo lawer o gyfoeth; y mae ganddo amledd o gyfoeth; mae ganddo lawer iawn o gyfoeth; y mae ganddo gyfoeth lawer; y mae yn berchen da lawer; y mae ganddo gyfoeth nid ychydig; y mae ganddo gyfoeth mawr aneirif; mae ganddo beth anfeidrol o gyfoeth; y mae ganddo swrn o gyfoeth, &c.

It is a great deal better—mae yn well o lawer; y mae yn llawer gwell; llawer gwell yw; gwell o lawer ydyw.

One of them is a great deal better than the other—y mae un o honynt yn rhagori yn mhell ar y llall; y mae y naill o honynt yn well o lawer na'r llall.

He is a great deal wiser—mae efe yn gallach o lawer; y mae efe lawer yn gallach; mae efe yn llawer callach.

It is a great deal better to beg than starve—llawer iawn gwell yw cardota na newynu.

A considerable deal—syrnyn, swrn, crŷn swrn, twysged, twysgen, craff, talm, twysg.

I have but a very unconsiderable deal of it—nid oes genyf graff yn y byd o hono; nid oes genyf ddim craff o hono; nid oes genyf ond y prinder o hano; nid oes genyf fawr swrn o hono.

A deal of cards—gyr o gardiau, hobyn o gardiau; hobyn, gyr.

Deal, *s.* (Al. *diele;* Is. *deel*) ffaw-wydd, pren ffaw-wydd, ffeinidwydd; astell, llifwydden, ystyllen: *sing.* ffaw-wydden.

Deal boards—byrddau ffaw-wydd, estyll ffaw-wydd.

Dealbate, *v. a.* (Ll. *dealbo*) gwynhau, gwŷnu, cànu.

Dealbation, *s.* (Ll. *dealbatio*) gwynhad, gwŷnad, cànad.

Dealer, *s.* (o *deal*) masnachwr, masnachydd, trafnidiwr, marchnatwr, maelier, maelierydd, maelierwr, maelotai, maelur, maelanydd, cyfaeliwr, cywerthydd; prynwr; gwerthwr; rhyngfaelwr; rhanwr, cyfranwr, dosbarthwr, dosbarthydd, rhoddwr; hobynydd, hobynwr, gyrwr y cardiau.

Petty dealer — maelotyn, gofasnachydd, maeleryn, maelieryn.

Itinerant dealer — teithwicwr, gwicwr,

gwicydd, edwicwr, cylchwicydd, gwerthwr teithiol.
Wholesale dealer—cyfanwerthwr, cyfanwerthydd.
Retail dealer—manwerthwr, mânwerthydd, adwerthwr, adwerthur, mânwerthiedydd.
Dealer in linens—llieinydd, llianwerthwr, llieinwerthydd; masnachydd mewn llian; masnachwr llieiniau; gwerthydd lliain.
Double dealer, } twyll-fasnachwr, hocedFalse dealer, } ydd, twyllwr, somwr, bradwr, twyll i'w gyfaill, twyll i'w gydymaith, dyn anffyddlawn, dyn bradwrus, dyn twyllodrus, dyn deuwynebog; à chwareuo y ffon ddwybig; à fedro chwareu y ffon ddwybig.
Plain dealer—cywirddyn, cleuddyn, dyn gonest, dyn clau, dyn cywir, dyn difrad; dyn teg *neu* onest yn ei fasnach; dyn uniawn a gonest yn ei fasnach; dyn dihoced yn ei fasnach.

Dealing, *s.* (o *deal*) masnach, trafnid, trafnidiaeth, marchnadaeth, cyfaeliaeth, cydfasnach, ymdrafnidiaeth, maelieraeth, cysmeriaeth; ymddygiad, ymarweddiad, arfer, ymarfer; gwaith, gweithred; triniaeth, ymdriniaeth, trafod, trafodiaeth, gorchwyl; cystlwn, ymgystlwn, cyfathrach, cyweithas, cyfeillach; neges, negeswriaeth; cyfraniad, rhaniad.
I never had any dealing with him—ni bu i mi erioed fasnach, neges, *neu* drafnid âg ef; ni bu rhyngof fi ac ef fasnach erioed; ni bu rhyngof fi ac ef na masnach na neges erioed.
I will have no dealing with you—ni bydd i mi à wnelwyf â chwi.
The Jews have no dealings with the Samaritans—nid yw yr Iuddewon yn ymgyfeillach â'r Samariaid. [air i chwi.
I hear of your evil dealings—clywaf ddryg-
We have no dealings with them—nid oes i ni ymdriniaeth â hwynt; nid ydym ni yn ymdrin â hwynt.
Such was his dealing toward me—y cyfryw oedd ei ymddygiad tuag ataf fi; dyma y fath oedd ei ymddygiad tuag ataf fi; dyma y driniaeth à gefais ganddo; dyma y driniaeth à gefais oddi ar ei law ef; dyma y modd y triniodd efe fi.
There is no dealing with him—nid oes dim i'w wneyd âg ef.
Double dealing, } twyll-fasnach, deuFalse dealing, } wynebedd, anonestIndirect dealing, } rwydd, hoced, twyll, twyll-ymddygiad, somchware, anffyddlondeb, brad, bradwriaeth, dichell, chwired, ffalsedd, chwiongl, somedigaeth; twyll drwy ymddiried; chware y ffon ddwybig; chware y llaw wèn.
A double-dealing man—dyn deuwynebog, hocedus, twyllodrus, cyfrwysddrwg, dichellgar, *neu* ystrywgar; twyllfasnachwr.
Hard dealing — gwasg-farchnad, gwasgwerth, caled-werth, gwasg-bryniad, gwasg-bryn, caled-bryn, gwasgiad, caledrwydd, *neu* galedwch wrth brynu *neu* werthu; cribddail, gormail; triniaeth anhynaws *neu* galed.

Deambulate,† *v. n.* (Ll. *deambulo*) gwibio, crwydro, rhodiana, amrodio; rhodio yn rhydd.
Deambulation, *s.* (Ll. *deambulatio*) rhodiad, amdramwyad, amwibiad; gorymdaith.
Deambulatory, *s.* (Ll. *deambulatorium*) rhodfa, rhodle, rhodianfa.
Deambulatory, *a.* rhodianol, amdramwyol, tramwyol, rhodiol, amwibiol.
Dean, *s.* (Ff. *doyen*; Ysp. *dean, decano*; It. *decano*; o'r Ll. *decanus*) deon, dean: *pl.* deoniaid, deonau, deaniaid.
Rural dean—deon gwladol, ardal-ddeon.
Dean and chapter—deon a glwysgor; deon a chabidwl; y deon a'i gôr.
Dean of the Arches—Deon yr Archau, Deon yr Archlys.
Dean of Peculiars—Deon y Gwahanlysoedd, Deon y Gwahanfreintiau.
The Very Reverend the Dean—y Trapharchedig y Deon; y Gorbarchedig Ddeon; y tra Pharchedig Ddeon.
The Very Reverend the Dean of Bangor—y Trapharchedig Deon Bangor; Gorbarchedig Ddeon Bangor; Tra pharchedig Ddeon Bangor.
Deanery, *s.* (o *dean*) deoniaeth, deaniaeth; deondy, deonfa; llywodraeth *neu* awdurdod deon; ardal deon; cyllid deon.
Deanship, *s.* (o *dean*) deoniaeth, deaniaeth; swydd ac urddas deon.
Dear, *a.* (S. *deor*; Al. *theuer*; Sw. *dyr*; Is. *dyur*) anwyl, hoff, cu, cariadus, caredig, anwylgu, cusin, cuaidd, hoffain, hoffaidd, anwylaidd; drud, prid, gwerthfawr, prisfawr, costus, costfawr, uchelbris, mawrwerth, mawrbris, mawrwerthiog.
Too dear—rhy ddrud, rhy brid, rhybrid.
Dearly beloved—anwyl gariadus, anwyl garedig, anwylgu; anwylyd: *pl.* anwyl garedigion, anwyliaid, caredigion, anwylion.
Dearly beloved brethren—anwyl gariadus frodyr; anwyl garedig frodyr; fy anwyl gariadus frodyr; brodyr anwylgu.
Somewhat dear — gobrid, go ddrud, go brid, lled ddrud, crŷn ddrud.
To make dear—gwneuthur *neu* beri yn hoff *neu* yn anwyl; peri bod yn hoff *neu* yn anwyl; gwneuthur yn ddrud *neu* yn brid; codi y pris; peri bod yn ddrud *neu* yn brid; gwneuthur *neu* beri yn brid *neu* yn ddrud.
To buy dear—prynu yn ddrud; prynu yn brid; prynu cyhyryn gàn gath; prynu ar grogbris.

Dear, *s.* anwylyd, anwylyn, (*f.* anwylen, anwyles), anwylddyn, hoffddyn, hoffyn, (*f.* hoffen), enaid ac anwyl, enaid ac anrhaith, calon anwyl, gwir galon, unig enaid.
My dear—fy anwylyd, fy nghalon, fy anrheithi, fy anrhaith, fy anwyl un, fy nghofiaid.
My dear boy—fy machgen anwyl, fy anwyl fachgen; fy machgen hoff; fy machgen bach i.
My dear sir—fy anwyl syr.

Dear,† *v. a.*=*To make dear.*
Dear,† *a.* (S. *derian*) niweidiol, blin, cas, adgas.
Dearborn, *s.* pridglud (yn y Taleithiau Cyfunol).
Dearbought, *a.* (*dear* a *bought*, o *buy*) drud-

brynedig; à brynwyd yn ddrud *neu* yn brid; wedi ei brynu ar grogbris; drud, prid, costus, costfawr.

Dearbought and far-fetched—bargen ddrud a'i chyrchu o bell.

Dearling, *s.* (o *dear*)=*Darling*.

Dearloved, *a.* (*dear* a *love*) anwylgu, anwyl garedig, tra charedig, tra anwyl, gorhoff, goranwyl, anwyl iawn.

Dearn,† *a.* (S. *deorn*) unig, unigol; prudd, pruddaidd; wrtho ei hun.

Dearness, *s.* (o *dear*) drudaniaeth, prinder, pris uchel, uchelbris, mawrbris, mawrwerth; anwyldeb, anwylder, anwylwch, anwyledd, hoffedd, hoffder, cudeb, hoffaint, hoffiant, cuedd.

Dearth, *s.* (o *dear*) drudaniaeth, prinder, prindra; angen, dirangen, newyn, eisieu, diffyg, pall; diffrwythder, diffrwythdra, anffrwythlondeb.

Dearticulate,† *v. a.* (Ll. *deartuo*) dadgymmalu, dadgysylltu; tynu bob yn gymmal.

Death, *s.* (S.; Is. *dood;* Al. *tod;* D. a Sw. *död*) marwolaeth, angeu, tranc, trancedigaeth, trang, dylaith, dïen, dïenydd, llaith, golaith; ymadawiad, ymddattodiad, cwymp, dinystr, dystryw; mas.

Death (personified)—angeu, yr angeu.

Pale death—yr angeu glas, angeu glas, yr angeu gwelw.

Sudden death—angeu disyfyd, angeu sydyn; marwolaeth ddisyfyd *neu* ddisymmwth.

Present death—angeu parod.

Ignominious death—marwolaeth ddifenwol, marwolaeth waradwyddus.

Lingering death—angeu hirboenus, nychlyd, anhyfrys, afrys, *neu* hwyrfrydig; nych-ddïenydd.

To put to death — marwolaethu, lladd, dïenyddu, dïenyddio; rhoi *neu* rhoddi i farwolaeth; rhoi i farw; dyfetha; cymmeryd *neu* dori ymaith.

To put one to a lingering death—nych-ddïenyddu, nych-ddïenyddio; rhoi i farwolaeth hirboenus; rhoi i angeu hirboenus, &c.

Worthy of death—yn haeddu marwolaeth *neu* angeu; yn haeddu barn marwolaeth *neu* angeu; yn haeddu barnedigaeth angeu; yn teilyngu marwolaeth; eneidfaddeu, collfywyd, dywynfaddeu; dïenyddadwy, colladwy.

At the point of death—ar farw; yn mron marw; ar ddarfod am dano; ar dranc; ar drancedigaeth; ar drengu; ar ei derfyn; yn barod i farw; yn mhorth angeu; yn nrws angeu; yn mhorth marwolaeth; yn safn angeu; ar fin angeu; gwàn dïobaith; llesg dïobaith; arfarwol.

From death to life—o farw i fyw; o farwolaeth i fywyd.

Death pangs—gloesion angeu, gwasgfaon [angeu.

Civil death — angeu gwladol; ysgariad oddi wrth gymdeithas ac oddi wrth freintiau gwladol.

Instruments of death — arfau angeuol; offerynau angeu.

It is death to do it—peth angeuol *neu* farwol yw gwneuthur hyn; angeu *neu* farwolaeth yw ei wneuthur; mater *neu* berygl bywyd yw ei wneuthur; marw sy raid os gwneir ef.

Let me not see the death of the child—ni allaf fi edrych ar y bachgen yn marw (*Gen.* xxi. 16).

Isaac was comforted after his mother's death—Isaac a ymgysurodd ar ol ei fam (*Gen.* xxiv. 67).

If these men die the common death of all men—os bydd y rhai hyn marw fel y bydd marw pob dyn (*Num.* xvi. 29).

The place of one's death—marw dywarchen, marwdy, mardy.

The gates of the shadow of death—pyrth cysgod angeu.

Deathbed, *s.* gwely angeu, marw-ysgafn, llogwydd, gwely marw.

Death-bed song—marw-ysgafn, cân gwely angeu.

Death-boding, *a.* yn darogan angeu; angeufynag.

Death-darting, *a.* angeu-luchiol, aerfwrw; yn lluchio angeu; yn saethu angeu at.

Death-doing, *a.* angeuol, marwol, dinystriol, lladdol, lladdedigol, dyfethol, adwythig; à laddo yn ddifeth.

Death-doomed, *a.* dyfarnedig i farw; eneidfaddeu, collfywyd, dywynfaddeu.

Deathful, *a.* (*death* a *full*) angeulawn, angeuol, marwol, angeuog; dinystriol, dyfethol, llofruddiol.

Deathfulness, *s.* angeuoldeb, angeuogrwydd, angeulonedd, marwoldeb; angeusaeth.

Deathless, *a.* (*death* a *less*) anfarwol; bythol; na fydd farw byth.

Deathlike, *a.* (*death* a *like*) angeusaidd, dïenig; fel angeu; tebyg i angeu; trengwedd, celansaidd, llurgunaidd; glas fel yr angeu; gwelw, gwelwlas, glaswelw, oerwelw, hyll, irad; gwyll, gwrm, (*f.* gorm); tawel, tangnefus, llonydd, digyffro; mòr dawel a'r bedd; marwol.

Death-like countenance — celyrwedd; gwedd angeusaidd, &c.

Death's-door, *s.* porth angeu, porth marwolaeth, drws angeu; pyrth angeu, pyrth marwolaeth; min trancedigaeth.

Death-shadowed, *a.* yn nghysgod angeu; hudd gàn angeu; yn nglyn cysgod angeu.

Death's-head Moth, *s.* gwyfyn pen angeu; pryf pen angeu.

Deathsman, *s.* dïenyddwr, crogwr, crogydd, dïaleddwr, lladdwr.

Death-stroke, *s.* dyrnod angeu, ergyd angeu.

Death-token, *s.* marwgoel, argoel angeu; arwydd agoshad angeu; angeu-goel.

Death-ward, *ad.* tuag angeu; tua marwolaeth.

Deathwatch, *s.* (*death* a *watch*) marw-oriawr, maroriawr, oriawr farw, ticbryf.

Deaurate, *v. a.* (Ll. *deauro*) goreuro, euro; gorthöi *neu* orchuddio âg aur.

Deaurate, *a.* goreurog, goreuredig, euredig.

Deauration, *s.* goreurad, eurad.

Debacchate, *v. n.* (Ll. *debacchor*, o *Bacchus*) llerthu, ymleferydd, ynfydu; wttresu a dwndro.

Debacchation, *s.* (Ll. *debacchatio*) llerthiad, ynfydiad; wttres a dwndwr; llerth, penwendid.

Debacle, *s.* (Ff.) tudlifer, tudlifeiriant, llifeiriant, dylit, rhyferthwy.

Debar, *v. a.* (*de* a *bar*) attal, rhwystro, llestair, llesteirio, lluddias, lluddio, arluddio, goluddio, rhagod; llysu, gwahardd, rhag-

rwystro, dyor; cadw oddi wrth; cau, cadw, *neu* fwrw allan; attal rhag; attal oddi wrth; gwarafun i; cadw *neu* gau rhag; rhagu.

Debark, *v.* (Ff. *débarquer*) glanio, tirio, arlanio, dadlongi, dadforio; myned i dir; myned i'r làn; disgyn o long; rhoddi ar y làn; bwrw i dir; dilwytho, dadlwytho.

Debarkation, *s.* (o *debark*) glaniad, tiriad, arlaniad, dadlongiad, dadforiad; dadlwythad; disgyniad o long; dyfodiad *neu* fynediad i dir.

Debarring, *s.* (o *debar*) rhwystrad, attaliad, attalfa, llesteiriad; cauad allan.

Debase, *v. a.* (*de* a *base*) iselu, iselhau, gwaethygu, gwaethu, gwaethäu, bychanu, dibrisio, dirmygu, dïystyru, diraddio, difrïo, darostwng, ishau; gwneuthur yn waeth *neu* waelach; peri yn waeth *neu* waelach; llygru, difwyno, diwyno, anharddu, anurddo, enserthu; lleihau *neu* iselu pris; bwrw, gyru, gwthio, *neu* daflu i lawr; gwaradwyddo, gwarthruddo, gwarthäu, anmherchi, dïelwi, gwarthnodi.

To debase one's self—ymiselu, &c.; gwael ddarostwng ei hun; dibrisio ei hun; iselu ei hun; gwneuthur ei hun yn wael a dirmygus.

To debase silver—llygru arian, gwaethygu arian, gwaelu arian; erblithio arian.

Debased, *p. a.* iseledig, gwaethygedig, llygredig, &c.; isel, gwael, gorisel, dibris, dirmygus, dïelw, dïelwig, difwyn, difanw; gwrthdröedig; enserthus.

Debasement, *s.* (o *debase*) gwaethygiad, iselhad, iseliad, darostyngiad, diraddiad, ymddibrisiad, anfrïedd, difrïedd; llygriad, anurddiant, anurddiad; anmharch, dibrisdod, dirmyg.

Debaser, *s.* gwaethygwr, gwaethygydd, iselwr, iselhäwr, bychanydd; llygrwr, llygrydd, anurddwr, difwynwr; anmharchwr, anmherchwr, gwaradwyddwr, enserthwr.

Debasing, *a.* iselhaol, anurddol, diraddiol, andwyol; yn tueddu i iselu; à dueddo i waethygu.

Debatable, *a.* (o *debate*) dadladwy, dadleuadwy, hyddadl; agored i ddadl; à fo mewn dadl; ammhëus.

Debate, *s.* (Ysp.; Ff. *débat*) dadl, dadleu, ymddadl, ymddadleu, arddadl, arddadledd; ymresymiad, cymhwylliad, ymbyncìad; cynnadl; gwrthddadl; ymryson, amryson, amrafael, anghydfod, cecr, cecraeth, cweryl, cynhen, gwaethl, gwrthryn; cwyn.

Ye fast for strife and debate—i ymryson a chynhen yr ymprydiwch (*Esa.* lviii. 4).

Friendly debate — cynnadl, cynnadledd; dadl gyfeillgar; cydymddyddan cyfeillgar ar ryw bwnc dadleuadwy.

Beyond debate—diddadl, dïammheu; tu hwnt i ddadl.

Debate, *v.* dadlu, dadleu, arddadlu, ymddadlu, ymddadleu; rhesymu, cymhwyllo, ymresymu, arbwyllo, argymhenu; cynnadlu; pyncio, ymbyncio, ymgomio, parlio; dadleu am, dadlu yn nghylch; ymrafaelio, amryson, cecru, cweryla, ymeirio, cywaethlu, cynhenu; dàl dadl; dàl y tant.

Debate thy cause with thy neighbour—ymresyma â'th gymmydog.

He debated this matter with himself rightly—da y barnodd, y pwysodd, *neu* yr ystyriodd efe y peth yma yn ei fonwes ei hun.

To debate on *or* in—ymresymu yn nghylch; ymgynghori; ymgynghori yn nghylch.

Debateful, *a.* (*debate* a *full*) dadleugar, ymddadleugar, cwerylgar, ymrysongar, gwrthddadleugar, cecrus, amrafaelus; dadleuol, ammhëus.

Debatement, *s.* (o *debate*) dadl, dadleu, dadleuad, dadliad, ymddadleu, ymresymiad, cymhwylliad.

Debater, *s.* dadleuwr, dadlwr, dadleuor, ymddadleuwr, arddadlwr, ymresymwr, ymresymydd, rhesymwr, rhesymydd; ymbyncìwr.

Debauch, *v. a.* (Ff. *débaucher*) llygru, halogi, diwyno, difwyno; wttresa, wttresu, gloddesta, trythyllu, rhewyddu, rhyseddu; treisio, diforwyno, llathludo, llathruddo, anlladu; ymlygru â; gwneuthur yn llygredig, yn anfoesol, yn anniwair, yn anllad, *neu* yn anghymmedrol; peri gwyraw oddi wrth yr hyn sy dda.

To debauch a woman—llygru *neu* halogi merch; treisio *neu* ddiforwyno un; llitho merch o lwybr rhinwedd.

A debauched course—ymroddiad i aflendid ac anlladrwydd; ymroddiad i wttres a gloddest; ymroddiad i feddwdod a glythineb; wttres, gloddest, meddwdod, anlladrwydd, aflendid; llwybr llygredig, halogedig, trythyll, anllad, anniwair, aflan, *neu* anfoesol; llwybr anghymmedrol, gwingar, *neu* feddw; gyrfa ddiffaeth; drygfuchedd, buchedd lodinebus.

Debauch, *s.* wttres, gloddest, gormodedd, rhysedd, meddwdod, meddwaint, anghymmedroldeb, cyfeddach; anlladrwydd, anlladedd, llodineb.

Debauchedness, *s.* anghymmedroldeb, wttresiaeth, trythyllgarwch, trythylldod.

Debauchee, *s.* (Ff. *débauché*) wttreswr, wttresydd, gloddestwr, meddwyn, rhyseddwr, glwth, oferddyn, cyfeddachwr; anlladwr, anlladfab, trythyllwr, trythyllfab, llodinebwr, trythyllgarwr, anlladyn, merchetwr, rhewyddwr, anfadwr, dyn anfucheddol, dyn anfoesol.

Debaucher, *s.* llygrwr, llygrydd, halogwr, llygror; anlladai, llathludwr, llathruddwr; trythyllwr, trythyllgarwr.

Debauchery, *s.* wttres, gloddest, wttresiaeth, wttreswaith, rhyseddwaith; trythyllwch, llodineb, anlladrwydd, anlladedd, rhewyddiaeth, rhewydd, aflendid, trythyllgarwch, afradlonrwydd; meddwdod, meddwaint, anghymmedroldeb, cyfeddach, yfgarwch, gormod rhysedd; diffeithder; brynti, drygfuchedd; llygriad, halogiad, llithiad.

Debauchment, *s.* (o *debauch*) llygriad, halogiad, diwyniad, difwyniad, llygrawd; llwgr, llygredigaeth; hud, rhith.

Debellate, } † *v. a.* (Ll. *debello*) darostwng,
Debel, } gorchfygu, goresgyn.

Debellation, † *s.* (Ll. *debellatio*) darostyngiad, gorchfygiad, cadorfod, cadorfodiad.

Debenture, *s.* (Ff. o'r Ll. *debco*) dylysgrif, dyladdefeb, dyledysgrif, dyledeb, hawleb, hawlysgrif.

Debentured, *a.* dylysgrifog, dylebedig, dyledebog.

Debentured goods — nwyddau dylebog, nwyddau dyledebog.

Debile, *a.* (Ll. *debilis*) egwan, gwàn, gwan-

aidd, dinerth, eiddil, gwanllyd, llesg, diffygiol, nychlyd, llegach, llegus, llyth.

Debilitate, *v. a.* (Ll. *debilito*) gwanhau, gwanychu, dinerthu, annerthu, llesghau, eiddilo, dirymio, dirymu, llesgu, egwanu.

Debilitating, *a.* gwanychol, gwanhaol, llesg- [haol.

Debilitation, *s.* (Ll. *debilitatio*) gwanhad, gwanychiad, egwaniad, eiddilad, llacâd.

Debility, *s.* (Ll. *debilitas*) gwendid, gwander, egwander, llesgedd, eiddilwch, gwandra, gwanwch, llesgrwydd, eiddiledd, annerth, annerthedd, methiant, llythiant, egwanaeth, llesgarwch, nychdod; mall.

Debit, *s.* (Ll. *debitum*) dyled.

Debit, *v. a.* dyledu; gofyn yn ddyled.

Debitor, *s.* (Ll.) dyledwr, dyledydd.

Debonnair, } *a.* (Ff.) moesgar, hyfoes, moesog,
Debonair, } moeswych, cyweithasol, rhadlawn, cyflys, mynog, mwyn, mwynlan, mwynaidd, hynaws, hyfwyn, dygiadus, moddgar, moddus; da ei foes; addfwyn, gwâr, llariaidd, llary; ceinwych, gorwych, dillynwych, dillynaidd, dillynfoes, berthyll; hoenus, gorhoenus.

Debonnairness, *s.* moesgarwch, hyfoesedd, cyflysdod, mwynder, addfwynder, hynawsder, gwaredd, gwarineb, llaryedd, llarieidd-dra, ceinwychedd, gorwychedd, &c.

Debouch, *v. n.* (Ff. *déboucher*) dylifo *neu* darddu allan; ymarllwys; cyrchu, rhuthro, *neu* neidio allan; ymdywallt allan o fwlch *neu* gyfyngle.

Debris, *s.* (Ff.) malurion, ysbwrial, teilchion, creigdeilchion, creigdeilch, marlurgreig; darnau, adfeilion; dibrision.

Debruised, *a.* trososodig.

Debt, *s.* (Ll. *debitum*) dyled, dylyed; gofyn.
Pretended debt—annyled.
Original debt—cynnyled, cynddyled.
In debt—mewn dyled; tàn ddyled, dàn ddyled; dyledog.
To be in debt—bod mewn dyled; bod dàn ddyled; bod â dyled *neu* ddyledion arno; bod â gofynion arno; bod yn ddyledwr.
To contract debt—tynu dyled; myned i ddyled; rhedeg i ddyled; rhedeg mewn dyled; tynu dyled arno.
To run in debt — rhedeg mewn dyled; rhedeg i *neu* dàn ddyled; myned i ddyled.
To pay the debt of nature—talu teyrnged natur; talu dyled natur; talu olaf ddyled anian; marw.
National debt — dyled y wlad; dyled y wladwriaeth; dyled y goron; y ddyled wladol.
Forgive us our debts—maddeu i ni ein dyledion.
To liquidate a debt — toddi dyled; talu dyled; lleihau dyled.
Dribbling debts—dyledach, mân ddyledion.

Debtee, *s.* (o *debt*) dyledai, achretor, coeliwr, gofynwr, credidwr.

Debtless, *a.* (*debt* a *less*) diddyled.

Debtor, *s.* (Ll. *debitor*) dyledwr, dyledydd.
Original debtor—cynnogn, cynddyledwr, cynnyledwr.
Debtor and creditor—dyledwr a gofynwr; dyledwr ac achretor; dyledwr a chredidwr.
You are on the debtor side—yr ydych mewn dyled; yr ych yn sefyll mewn dyled.

Debullition, *s.* (*de* a *bullition*) berwad drosodd, trosferwad, bwrlymad trosodd.

Debut, *s.* (Ff.) cynwedd, dechreu, dechreuad, cynnechreu; y cynnyg cyntaf; y cais cyntaf; ymddangosiad cyntaf; y cam cyntaf; argynnyg, cychwyniad.

Deca, *s.* (Gr.; Ll. *decem*) deg: arferedig yn nghyfansoddiad geiriau Seisonig.

Decachord, } *s.* (Gr. *deca*, deg, a *chordê*, tant)
Decachordon, } degtant, dectant.

Decadal, *a.* (o *decade*) degeidiol, degrifol.

Decacuminated, *a.* (*de* a *cacuminate*) tociedig, blaendociedig, blaendociog, difrigedig.

Decade, *s.* (Ff.; Ll. *decas, decadis*) degaid, deg, degrif.
The decades of Livy—degeidiau Livius.
A decade of years—dengmlynedd, deng mlynedd, deg mlynedd; deg o flyneddau, degaid o flyneddoedd.
To divide into decades—degeidio; dosbarthu yn ddegau neu ddegeidiau.

Decadence, } *s.* (Ll. *de* a *cado*) adfeiliad, dad-
Decadency, } feiliad, adfail, methiant, methineb, gwaethygiad, edwaint, meth, pall, cwymp, dinystr, diffygiad.

Decagon, *s.* (Gr. *deca* a *gônia*) degongl, degonglon, degochr, degochron, degochryn, dengochryn, degonglyn.
Regular decagon—degochr rheolaidd.

Decagram, *s.* (Ff. *décagramme;* o'r Gr. *deca*, a Ff. *gramme*) degram=pwysi Ffreinig, yn cynnwys deg *gram*, neu 154·44 gronyn.

Decagyn, *s.* (Gr. *deca* a *gunê*) degbenyw, dengfenyw.

Decagynia, *s.* degbenyw; y llwyth degbenyw, yn nhrefniant Linnæus.

Decagynian, *a.* degbenywaidd, dengfenywaidd, degbenyw.

Decahedral, *a.* (Gr. *deca* a *hedra*) degochrog, dengochrog, degochrol, degochraidd, degochr.

Decahedron, *s.* (Gr. *deca* a *hedra*) degochr, degochron, degochryn.

Decalitre, } *s.* (Ff. *décalitre;* o'r Gr. *deca*, a
Decaliter, } Ff. *litre*) degliter, deglitr=mesur Ffreinig yn cynnwys 610·28 o fodfeddi cubig.

Decalogist, *s.* (o *decalogue*) dengeirydd, dengeirwr, eglurwr y deg gorchymyn.

Decalogue, *s.* (Ff.; Gr. *decalogos*) dengair, y dengair, y dengair deddf, y deg gorchymyn.

Decameron, *s.* (Gr. *deca* a *meros*) degparth, degparthog; cyfrol yn cynnwys deg llyfr; degnydd.

Decametre, } *s.* (Ff. *décamètre;* o'r Gr. *deca* a
Decameter, } *metron*) degmesur, degmydrai=hydfesur Ffreinig, o 393·71 modfedd Seisonig.

Decamp, *v. a.* (Ff. *décamper*) dadwersyllu, dadwersylltu, symmud gwersyll, symmud gwersyllt, mudo gwersyll; mudo, myned ymaith, cychwyn; cilio, ffoi.

Decampment, *s.* dadwersylliad, dadwersylltiad; symmudiad gwersyll; mynediad *neu* symmudiad ymaith; mud.

Decanal, *a.* (Ll. *decanus*) deonol, deanol; perthynol i ddeoniaeth.

Decander, *s.* (Gr. *deca* ac *anêr*) degwrywaidd, blaenigyn degwryw, dengwryw.

Decandria, *s.* Degwryw, Dengwryw=dosbarth y ddegfed genedl o blanigion, yn ol trefn Linnæus.

Decandrian, } *a.* degwrywaidd, dengwrywaidd,
Decandrous, } degwryw.
Decangular, *a.* (Gr. *deca*, ac *angular*) degonglog, degonglaidd, degonglawl.
Decant, *v. a.* (Ll. *decanto ;* Ff. *décanter*) allwys, tywallt, gwallofi, arllwys, dywallaw, gwehynu, gwehyn, glân dywallt, dynëu, dyneuo, gorddynëu ; tywallt *neu* arllwys yn arnf ; tywallt o'r naill lestr i'r llall.
Decantation, *s.* gwallofiad, allwysiad, tywalltiad, gwehynad ; diwaddodiad ; tywalltiad araf oddi ar waddod.
Decanter, *s.* (o *decant*) gwydrel, trancel, gwallofiestr, gwallofyr, tranced ; gwallofydd, wallofi ad, gwallofwr, tywalltydd.
Glass decanter—gwydrel, tranced wydr.
Water decanter — dyfrel, tranced ddwr, dwr-wydrel.
Spirit decanter—tranced wirod, gwydrel-wirod, gwallofiestr gwirod, gwirodyr.
Decaphyllous, *a.* (Gr. *deca* a *phullon*) degdalen, degdalenog, degnalenog, degnalen, dengnalenog.
Decapitate, *v. a.* (Ll. *decapito*) dibenu, tori pen, lladd pen, torfynyglu, pendori.
Decapitation, *s.* dibeniad, torfynygliad, toriad pen, pendoriad, lladdiad pen.
Decapod, } *s.* (Gr. *deca* a *pous*) degtroed, dec-
Decapode, } troed, degped, degtroedog.
Decapoda, } *s. pl.* degtroediaid, degpediaid,
Decapods, } degtroedogion, degpedogion.
Decapodal, *a.* (o *decapod*) degtroed, degtroedog, degtroedaidd, degpedaidd.
Decarbonate, *v. a.* (*de* a *carbon*) dadulyfu, dadulwadu ; difodi ulyf o'i lysnur *neu* soda.
Decarbonization, *s.* (*de* a *carbonization*) dadulyfiad, dadulyfeiddiad, dadulwad.
Decarbonize, *v. a.* dadulyfu, dadulyfeiddio, dadulwadu.
Decardinalize, *v. a.* (*de* a *cardinal*) dadgyniaduro ; difuddiaw o urdd cyniadur.
Decastich, *s.* (Gr. *deca* a *stichos*) degban, pennill deg llinell.
Decastyle, *s.* (Gr. *deca* a *stulos*) degpiler, degpillres, degpillas ; rhes o ddeg colofn.
Decasyllabic, *a.* (Gr. *deca*, a *syllabic*) degsillog, degsill, degsillafog, degsillafol, degsillol, degsillafaidd.
Decasyllabic verse—mydr degsill.
Decay, *v.* (Ff. *déchoir ;* Ysp. *decaer ;* o'r Ll. *de* a *cado*) dadfeilio, adfeilio, methu, gwaethu, gwaethygu, gwaethäu, nychu, dihoeni, pallu, anmharu, edwi, edwino, gwywo, difianu, difanu, gwanychu, gwanhau, llesghau, difancolli, ffaelu, llaesu, ymlaesu, llipäu, lliprynu, diwrygio, dyddfu, bradwyo ; myned ar feth ; ymollwng, aballu, gwallygio, erino, gwystno, diffrwytho ; colli ei wawr a'i degwch ; pydru, braenu, llygru ; pylu ; digynnyddu, anghynnyddu.
To decay utterly—darfod ; myned ar ddim ; methu yn llwyr ; cyfrgolli ; methu *neu* ballu yn hollol.
To decay with age—heneiddio ; myned yn hen ; talmu ar henaint ; methu gàn henaint ; amdrymu o henaint.
Decay, *s.* dadfail, adfail, adfeiliad, dadfeiliad, meth, methiant, methineb, gwaethygiad, pall, anmhariad ; edwaint, nych, nychdod, darfodedigaeth, darfodiant, edwinwst ; dihoeniad, difianiad, difaniad ; gwendid, llesgedd ; bradwy ; pydredd, pydrni, braen, hadledd, llwgr, gwywder.
In decay — methedig, dadfeiliedig, &c. ; wedi methu ; wedi myned ar feth ; yn adfeiliedig ; mewn dadfail.
To go to decay, } dadfeilio, adfeilio,
To fall to decay, } methu, &c. ; myned ar feth ; bod yn methu ; bod yn adfeilio, &c.
Apt to decay—hyfeth, difian, difan, difianol, difianus, difiannus, difanus, difanw.
Decayed, *p. p.* dadfeiliedig, adfeiliedig, methedig, &c. ; wedi dadfeilio, &c. ; wedi myned ar feth ; ar feth ; anmhar, anmharus, bradw, bradwyog ; edwin, edw, nychlyd, gwyw, crin, gwystyn ; dadfeiliog ; ar syrthio ; serfyll ; wedi colli ei wawr a'i degwch ; hadl, braen, pwdr, llygredig, braenllyd, wedi braenu ; henaidd ; wedi myned yn hen *neu* yn henaidd ; wedi heneiddio *neu* henu.
Decayed appearance — edwedd ; golwg adfeiliedig, &c.
Decaying, *p.* yn dadfeilio, &c. ; methiannus, methiannol, edwinol.
Decayedness, *s.* (o *decayed*) methedigrwydd, adfeiliedigrwydd, dadfeiliedigrwydd, dadfeiliogrwydd, anmharusrwydd, &c. ; methiant, methineb.
Decayer, *s.* dadfeilydd, adfeilydd, anmharydd, anmharwr.
Decaying, *s.* meth, methiant, methineb, dadfail, adfail, nychdod, nych, anmhariad.
Decease, *s.* (Ll. *decessus ;* Ff. *décès*) marwolaeth, tranc, trancedigaeth, trang, trengiad, ymadawiad ; ymadawiad â'r byd ; mynediad oddyma.
Decease, *v. n.* marw, trengu, ymadaw, trancu ; ymadaw â'r byd ; myned oddyma ; myned oddi yma.
He deceased—bu farw, marwodd, trengodd ; ymadawodd â'r byd.
Deceased, *a.* trengedig, trancedig, marw, ymadawedig, marwedig ; wedi marw ; wedi ymadaw â'r byd.
Decedent, *s.* (Ll. *decedens*) un trengedig, trancedig, *neu* farw ; y trengedig, y marw.
Deceit, *s.* (Ll. *deceptio ;* Norm. *deceut*) twyll, hoced, twyllofaint, dichell, geudeb, som, somiant, somedigaeth, siom, hud, hudoliaeth, ffalsedd, ystryw, cyfrwysedd, cyfrwysdra, cyfrwysder, hudiaith, hiced, chwired, ffug, ffuant, chwiongl, geuawd, dichellgarwch.
To ensnare by deceit—tynu i'r rhwyd ; tynu i'w rwyd ; tynu i'r fagl ; denu i ddystryw ; dyrwyn un i mewn ; bachellu, methlu ; maglu drwy dwyll ; bachellu â dichell.
Deceitful, *a.* (*deceit* a *full*) twyllodrus, hocedus, dichellgar, twyllfawr, twyllog, ystrywgar, cyfrwys, chwiredus, chwiredol, anffyddlawn, anghywir, deuwynebog, deueiriog, bradog, bradwrus, bradychus, ffals, geuog, geunol, llithiog ; llawn o dwyll.
A deceitful knave — hocedydd ; diffeithwr twyllodrus.
To speak deceitfully—llafaru yn dwyllodrus, &c. ; dywedyd geiriau amwys, deu-ddeall, *neu* ddeu-ystyr ; dywedyd mwyseiriau.
Favour is deceitful — siomedig yw ffafr (*Diar.* xxxi. 30).

Deceitfulness, *s.* twyll, dichellgarwch, twyllgarwch, hudoliaeth, dichell, ffalsedd, ffalsder, twyllodrusedd, twyllodrusrwydd, somedigaeth, siomedigaeth.

Deceitless, *a.* (*deceit* a *less*) didwyll, dihoced, diddichell, &c.

Deceivable, *a.* (o *deceive*) twylladwy, hydwyll; à ellir ei dwyllo; hawdd ei *neu* i'w dwyllo; hyhud; twyllodrus, dichellgar, hudoliaethus.

Deceivableness, *s.* hydwylledd, hyhudrwydd; twyllgarwch, twyll, dichellgarwch, dichell, hudoliaeth; somedigaeth.

Deceive, *v. a.* (Ll. *decipio;* Ff. *décevoir*) twyllo, hudo, hocedu, somi, coegio, ffalsu; camarwain, camdywys; tywyllu llygaid; bwrw hud ar lygaid; dallu; seithugio, ffugio; peri seithugio.

To be deceived—camgymmeryd, camsynied, camsynio, camdybied, cyfeiliorni; cael ei dwyllo, &c.

You are deceived—twyllwyd chwi; e'ch twyllwyd chwi; fe'ch twyllwyd chwi; chwi a dwyllwyd; yr ydych yn camsynied.

They have deceived my expectation—nid atebasant fy nysgwyliad; twyllasant fy nysgwyliad.

Easy to be deceived, } hydwyll, hyhud;
Easily deceived, } hawdd ei *neu* i'w dwyllo.

Deceiving and being deceived — gàn dwyllo a chael eu twyllo.

To deceive with crafty wiles—chwareu y cadnaw âg un; methlu, bachellu, bagellu, ffyrnigo.

Deceiver, *s.* (o *deceive*) twyllwr, twyllydd, twyllodwr, twyllawdr, twyllor, hocedwr, hocedydd, somwr, somydd, hudwr, coegiwr, geuwr, geuadur, hudolydd, hudolwr, hudol, un twyllodrus, ffugiwr.

The deceived and the deceiver are his—efe biau y twylledig a'r twyllodrus.

Deceiving, *s.* twylliad, twyllawd, hocediad; twyll, hoced.

In their own deceivings—yn eu twyll eu hunain (2 *Pedr* ii. 13).

Decem, *s.* (Ll.; Gr. *deca*) deg: arferedig yn nghyfansoddiad geiriau Seisonig.

December, *s.* (Ll.) Rhagfyr, mis Rhagfyr; y mis du bach cyn y Nadolig=y 12fed mis; ond y 10fed yn mhlith y Rhufeiniaid boreuol.

Decemdentate, *a.* (Ll. *decem*, deg, a *dentatus*, o *dens*, dant) degdeintiog, dengneintiog, degdant, degdaint.

Decemfid, *a.* (Ll. *decem* a *findo*) degholltog, degholltog, degranog, degparthog.

Decemlocular, *a.* (Ll. *decem* a *loculus*) deghadgellog, deg-cellog.

Decempedal, *a.* (Ll. *decem* a *pes*) degtroedfeddol; deg troedfedd o hyd; degtroed, degtroediog, degtroedog, degpediog.

Decemvir, *pl.* Decemvirs, Decemviri, *s.* (Ll. *decemviri*) dengwr, degwr: *pl.* dengwyr, degwyr=deg penswyddog yn Rhufain gynt.

Decemviral, *a.* (Ll. *decemviralis*) dengwriol; perthynol i'r dengwyr.

Decemvirate, *s.* (Ll. *decemviratus*) dengwriaeth, y ddengwriaeth.

Decence, *s.*=*Decency*.

Decency, *s.* (Ll. *decentia;* Ff. *décence*) gweddusrwydd, gweddusder, gweddusdra, gweddeiddrwydd, gweddeidd-dra, addasrwydd, addwynder, cymhwysder, harddwch, prydferthwch, telediwrwydd, iawnfoes; gwylder, gwyledd, lledneisrwydd; glendid, sywder, sywdra, syberwyd; priodolder.

Decennary, *s.* (Ll. *decennium*, o *decem* ac *annus*) degmlwyddiant, dengmlwyddiant, degriflant, deng mlynedd; degoliaeth; ysbaid 10 mlynedd; degtref.

Decennial, *a.* (Ll. *decennis*) dengmlwyddol, dengmlyneddol, degmlyneddol; bob deng mlynedd.

Decennoval, } *a.* (Ll. *decem*, deg, a *novem*,
Decennovary, } naw) degnawol, dengnawol; perthynol i bedwar ar bumtheg; bob 19 blynedd.

Decent, *a.* (Ll. *decens;* Ff. *décent*) gweddus, gweddaidd, gweddol, addwyn, addas, cymhwys, cymmesur; hardd, trefnus, prydferth, harddwedd, moddus, moddgar, teledlw; gwylaidd, llednais; glân, glanwedd, glanwaith, syw, syber, syberw.

Decent clothes — dillad gweddus, dillad addwyn, &c.

Decentness, *s.* (o *decent*)=*Decency*.

Deceptibility, *s.* hydwylledd, hyhudrwydd, twylledd.

Deceptible, *a.* (Ll. *deceptio*) twylladwy, hydwyll, hyhud, somadwy; à ellir ei dwyllo.

Deception, *s.* (Ll. *deceptio*) twyll, hud, hoced, twyllofaint, hudiad, twyllad, twyllawd, som, somiad, siomiad, dichell, hudoliaeth, lledrith; ffalsedd, ffug.

Deceptious, *a.* twyllodrus, twyllgar, somgar, dichellgar, geuol, hocedus.

Deceptive, } *a.* twyllodrus, hudolawl, twylladDeceptory, } ol, twylledigol, twyllgar, hudol, ffals; à ddichon dwyllo; yn cynnwys twyll; yn tueddu i dwyllo.

Deceptive cadence — twyll-oslef, twyllostyngiad.

Decern, *v. a.* (Ll. *decerno*) barnu, dyfarnu.

Decerniture, *s.* (Ll. *decerno*) barn, barn llys, dedfryd.

Decerp, *a.* (Ll. *decerptus*) pliciedig; wedi ei dynu ymaith; casgledig, tociedig.

Decerptible, *a.* pliciadwy, tociadwy; à ellir ei dynu ymaith; gwahanadwy, ffwyradwy.

Decerption, *s.* (Ll. *decerptio*) pliciad, tyniad, tyniad ymaith, tociad, blaendoriad, tyniad ffwrdd.

Decertation, *s.* (Ll. *decertatio*) ymryson, amryson, anrafael, cyuhen, dadl, ymrysoniad, ymrafaeliad, ymdrech, ymdrechiad. [fynt.

Decession, *s.* (Ll. *decessio*) ymadawiad, ed-

Decharm, *v. a.* (*de* a *charm*) dadswyno, dadrinio, diswyno, gwrthswyno, dadreibio, dadgyfareddu.

Dechristianize, *v. a.* (*de* a *christianize*) dadgristionogi, dadgristionoli, dadgristioneiddio, angharistionogi.

Decidable, *a.* (o *decide*) terfynadwy, penderfynadwy.

Decide, *v.* (Ll. *decido*) penderfynu, terfynu, dybenu, diweddu; gosod terfyn ar; tori ymryson, ymrafael, *neu* ddadl; barnu; dosbarthu; barnu *neu* gylafareddu rhwng pleidiau; rhoi barn; gwneuthur cylafaredd; rhoi barn cylafaredd.

To decide controversies—dosbarthu cynhenau; penderfynu dadleuon; tori anrafaelion.

Thyself hast decided it—ti a'i rhoddaist ar lawr (1 *Bren.* xx. 40).
Is it thus you decided it?—ai felly y bernwch chwi y peth? ai hon yw y farn à roddwch chwi yn yr achos?
To decide by battle—ymbroti drwy frwydr; terfynu drwy frwydr; terfynu mewn brwydr; rhoi *neu* fwrw ar dyngedfen brwydr; penderfynu drwy frwydr.

Decided, *a.* penderfynol, dïammheuol, dïammheu, diddadl, sicr, dilys; amlwg, eglur; anamwys; hollol, cwbl; penderfynedig, terfynedig; tu hwnt i ddadl.

Decidedly, *ad.* yn benderfynol, &c.

Decidence, *s.* (Ll. *decidens*) syrthiad ymaith; syrthiogrwydd.

Decider, *s.* penderfynwr, penderfynydd, terfynwr; torwr ymryson, dadl, *neu* amrafael; barnwr, cylafareddwr; dosbarthwr.
Decider of controversies — dosbarthwr cynhenau; penderfynwr dadleuon; torwr amrafaelion.

Deciduous, *a.* (Ll. *deciduus*) syrthiol, cwympol, syrthiadol; yn syrthio *neu* gwympo yn yr hydref; diweddar-gwymp, anmharhäus.

Deciduousness, *s.* syrthioldeb, cwympoldeb; syrthiad unwaith yn y flwyddyn; blwyddsyrthioldeb.

Decigram, *s.* (Ff. *décigramme*) degfedram=pwysi Ffreinig, yn cynnwys y ddegfed ran o'r *gram*.

Decil, *s.* (Ll. *decem*; Gr. *deca*) pelldrem (dwy blaned); degfedran (y sidydd).

Decilitre, } *s.* (Ff. *décilitre*) degfedlitr, degfed-
Deciliter, } liter=mesur Ffreinig, yn cynnwys y ddegfed o'r *litr*.

Decillion, *s.* (Ll. *decem*) degsawdd, degsoddrif.

Decillionth, *a.* degsoddol; perthynol i'r degsawdd.

Decimal, *a.* (Ll. *decimus*) degol, degiadol, degfedol, degfed, degranol; degymol.
Decimal fractions—degiadau; swlliadau degol, yllion degol, yllion degranol, toriadau degol; degiadaeth, swlliadaeth ddegol, ylliadaeth ddegol.
Decimal arithmetic—degiadaeth, degrifiaeth; rhifyddiaeth ddegiadol *neu* ddegranol.
Decimal numbers—rhifau degol, degiadol, *neu* ddegranol; degrifau.
Decimal part—degfed ran, y ddegfed, y degfed, degfedran.
Decimal notation—nodiant degol, nodiant degiadol, degnodiant.

Decimal, *s.* degiad, degran; y degfed: *pl.* degiadau, degolion, degranau.
Decimals (as a rule)—degiadaeth, degrifiaeth.
Circulating decimals—corddegiadau, adddegiadau; corddegiadaeth, ad-ddegiadaeth.

Decimally, *ad.* yn ddegol, &c.; bob yn ddeg; yn ddegau.

Decimate, *v. a.* (Ll. *decimo*) degymu, degoli, degu; cymmeryd *neu* dynu un o bob deg; tynu *neu* gymmeryd y ddegfed.

Decimation, *s.* (Ll. *decimatio*) degymiad, degoliad; cymmeriad y ddegfed; tyniad y degfed.

Decimator, *s.* (o *decimate*) degolwr, degiedydd, degymwr; tynwr y ddegfed.

Decimetre, } *s.* (Ff. *décimètre*) degfedfydrai,
Decimeter, } degfedfesur=hydfesur Ffreinig, o 3 modfedd a rhyw ychydigyn.

Decimo-sexto, *s.* (Ll.) 16 plyg, un plyg ar bumtheg.

Decipher, *v. a.* (Ff. *déchiffrer*) dehongli, deongli; dehongli, esbonio, egluro, darllen, *neu* egori dirgelnodau; darllen celnodau; egluro celysgrif; dadrysu, dad-ddyrysu, diddyrysu, annirgelu, egluro, amlygu, darllen, dadguddio, annirgelu, dadblygu, dadenhuddo, dattod, dirnad, celagori, celegori; dadguddio tywyllbeth; darlunio, nodi, argraffu, nodebu, awyddnodi, tynu llun.

Decipherable, *a.* dehongladwy, dattodadwy.

Decipherer, *s.* dehonglydd, dehonglwr, deonglwr, esboniwr, eglurwr, dadblygwr, &c.; dehonglwr dirgelnodau.

Deciphering, *s.* dehongliad celnodau, esboniad dirgelnodau, darlleniad celysgrifen; celagoriaeth, celegoriad.

Decision, *s.* (Ll. *decisio*) penderfyniad, terfyniad, dybendod, terfyndod, penderfyndod, pendod, dedfryd, tor ymryson, terfyniad ymryson; toriad ar ymryson; barn, dybeniad, dyben, barniad, cylafareddiad, dïofryd; dïysgogrwydd, sadrwydd, gwadalwch, ansigledd, gwadaledd; † ysgariad.
Decision of controversies — dosbarthiad cynhenau; penderfyniad dadleuon.
In the valley of decision — yn nglyn terfyniad.

Decisive, *a.* (Ll. *decido*, *decisum*) penderfynol, terfynol, dybenol, dybenus, terfynedigol, pendant; à derfyna yr ymryson *neu* y mater.

Decisiveness, *s.* penderfynoldeb, terfynoldeb, terfynolrwydd, penderfynolrwydd, terfynder, terfynoledd, dybenolder, dybenolrwydd, pendantrwydd.

Decisory, *a.* à eill benderfynu *neu* farnu; penderfynol, terfynol, dybenol, dybenus.

Deck, *v. a.* (Is. *dekken*; Al. *decken*; S. *gedecan*, *thecan*) trwsio, tacluso, taclu, trwsiadu, addurno, gwychu, harddu, teghau, pincio, harddwisgo, gwisgo, arwisgo, dilladu, hatru, neisio; hulio, byrddio.
To deck one's self—ymdrwsio, &c.

Deck, *s.* bwrdd llong, bwrdd; hurtyr, hul; cnud *neu* dŵr o gardiau.
Quarter-deck — pedryfwrdd, uchelfwrdd, uchelfwrdd llong.
Upper deck, } trydefwrdd, trydyfwrdd.
Main deck, } uchfwrdd, bwrdd uchaf.
Half-deck—hannerfwrdd, hanner bwrdd.
Middle deck—canolfwrdd, bwrdd canol.
Gun-deck — gynfwrdd, magnelfwrdd, bwrdd y gynau, bwrdd y cyflegrau.
The deck of honour — maes anrhydedd, bwrdd clod.

Decker, *s.* (o *deck*) trwsiwr, tacluswr, taclusydd, addurnwr, &c.; huliwr; hulier, hulieydd.
A two-decker — llong ddeufwrdd.
A three-decker—llong dribwrdd.
She is a two-decker — llong ddeufwrdd ydyw hi; y mae iddi ddau fwrdd.

Decking, *s.* (o *deck*) addurn, harddwch, harddwisg; addurniad, harddiad, taclusiad.

Declaim, *v.* (Ll. *declamo*) areithio, ymadroddi; llafaru yn areithyddol; gwneuthur araeth; gwneuthur araeth ddychymyg; gwneuthur tôn *neu* acen; chwareu yr areithiwr; arebu,

Those that defraud the hireling of his wages—camattalwyr cyflog y cyflogedig.

Defraud not the poor—na thwylla y tlawd.

Defraudation, Defraudment, *s.* (o *defraud*) twyllofaint, twyllad, hocediad, somiant, somedigaeth, camattaliad, camgolledіad, twyll.

Defrauder, *s.* twyllwr, twyllydd, hocedwr, camattaliwr, camgolledwr, somwr.

Defray, *v. a.* (Ff. *défrayer*) talu; talu traul, dwyn cost, dwyn traul, talu cost, digostio; dwyn y gost; dwyn y draul; † digoni, llenwi.

I will defray their expenses—dygaf eu traul.

He said he would defray the charges belonging to the sacrifices — dywedodd y rhoddai efe yr holl gost à ydoedd yn perthynu i'r ebyrth (2 *Mac.* ix. 16).

Defrayer, *s.* talwr; dygwr traul, dygydd cost, dygiawdr traul, talawdr traul, treulddygwr.

Defrayment, *s.* (o *defray*) taliad, talment, taledigaeth, tâl; dygiad traul, taliad cost, cost-ddygiad, digostiad.

Deft,† *a.* (S. *dæft*) twt, tlws, clws, trefnus, hardd, taclus, dillyn, destlus, gwych, pinc; addas, cyfaddas; hylaw, medrus, deheu, hyddysg, parod.

Defter-dar, *s.* (Tyrc.) llyfrgeidwad; Canghellwr y Trysorlys (yn amherodraeth Twrci).

Deftness,† *s.* tlysni, clysni, twtneisrwydd, destledd, harddwch, glendid.

Defunct, *a.* (Ll. *defunctus*) marw, wedi marw; trengedig, trancedig, trangedig.

Defunct claim—hawl wywedig.

Defunct, *s.* un trengedig, trancedig, *neu* farw; y marw, y trengedig, y trancedig.

Defunction,† *s.* marwolaeth, angeu, tranc.

Defy, *v. a.* (Ff. *défier*) herio, beiddio, arfeiddio, annog, hyrio, dir-annog, llafasu, llyfasu; rhoi her i; rhoi baidd i; rhoi hew i; gofyn gwaethaf; peri *neu* erchi i un wneuthur ei waethaf; galw allan; annog i ymladd; dirmygu, gwaradwyddo, cablu, difenwi; ymherio i; ffieiddio, ymwrthod.

I defy any one to accuse me—her i un gwr à'm cyhuddo i.

I defy thee—gwna dy waethaf; her iti; hew iti; gwaethaf dy ddannedd di; gwna waethaf dy ddannedd; gwna os beiddi; yr wyf yn dy herio.

Defy,† *s.* her, baidd, heriad.

Defyer, *s.* (o *defy*) = *Defier*.

Degarnish, *v. a.* (Ff. *dégarnir*) dadaddurno, dadharddu, anaddurno, dadeirioni, annhrwsio, dïosg, dihatru; dad-ddodrefnu, datddodrefnu, diddodrefnu, dattrecio, dadgyfarparu.

Degarnishment, *s.* (o *degarnish*) dadaddurniad, dadharddiad, dattreciad, dadgyfarpariad.

Degender,† *v. n.* (*de* a *gender*) dadrywio.

Degeneracy, Degenerateness, *s.* (Ll. *degenero*) dirywiad, dirywiaeth, afrywiaeth, afrywiad, afrywiogaeth, afrywiogiad, afrywiogrwydd, lledrywiaeth, lledrywiad, lledrywiogaeth, afrywiogrwydd, lledrywiogrwydd, dirywiogaeth, dadrywiad, dadrywiaeth, dadrywiogaeth, llygredigaeth, llygriad, gwaethygiad; salwedd, gwaeledd, tlodi; ymadawiad, enciliad, *neu* ymlithrad oddi wrth rinwedd a moesau da.

Degenerate, *v. n.* (Ll. *degenero*) dirywio, afrywio, dadrywio, afrywiogi, lledrywio, lledrywiogi, gwaethygu, gwaelu; myned yn waeth; myned yn ddiryw; bod yn ddirywiedig; myned yn waeth ei ryw; gwaethygu yn ei ryw; anurddo ei genedl; pallu mewn rhinwedd a moes; anfoesogi; cilio *neu* ymlithraw oddi wrth rinwedd a moesau da.

Degenerate, Degenerous, *a.* dirywiedig, diryw, dirywiog, dirywiol, lledrywiog, lledryw, afrywiol, afrywiog, afryw, dadryw, dadrywiog, dadrywiol, dadrywiedig; dirinwedi; gwedi dirywio, &c.; llygredig, llygraidd, bras, gwael, isel, dirmygus, annheilwng, syrthiedig, gwaethafed.

Degenerate kind—lledryw, dadryw, afryw, goryw, rhywogaeth ddirywiog.

In these degenerate days—yn y dyddiau diryw hyn.

Degeneration, *s.* (o *degenerate*) dirywiad, lledrywiad, afrywiad, dadrywiad, afrywiogiad, gwaethygiad, llygriad; cyfnewidiad er

gwaeth; dirywiaeth, afrywiaeth, afrywiogaeth, afrywiogrwydd; lledrywiaeth, lledrywiogaeth, lledrywiogrwydd, dirywiogaeth, dadrywiaeth, dadrywiogaeth, llygredigaeth; ymlithrad *neu* enciliad oddi wrth rinwedd a moesau da.

Deglutinate, *v. a.* (Ll. *deglutino*) dadludio; diludio; dadysgrolingo; dadgyssylltu; llacäu.

Deglutination, *s.* dadludiad, diludiad; dadysgrolingad.

Deglutition, *s.* (Ff.; Ll. *deglutio*) llynciad, darlynciad; llwnc, llwng.

Degradation, *s.* (Ff.; o'r Ll. *de* a *gradus*) diraddiad, dadurddiad, dadurddiant, dïurddiad, anurddasiad, anurddas, difreiniad, diswyddiad; iseliad, iselhad, bychaniad, lleihad; diraddiaeth, dirywiad, dirywiaeth, gwaethygiad; gwaelder, iselder, salwedd; anfrïad, dïanrhydeddiad, anurddiant, anurddiad, anurddedigaeth.

Degrade, *v. a.* (Ff. *dégrader*; Ll. *degredior*, o *de* a *gradus*) diraddio, diraddu, dadurddo, dïurddo, dïurddasu, anurddasu, difreinio, diawdurdodi, diswyddo, dadraddio; iselu; anmharchu, anmherchi, bychanu, dirmygu, gwarthruddo, anfrïo, difrïo; lleihau parch, bri, cymmeriad, *neu* gymmyredd; difuddio un o'i swydd *neu* alwad; iselu, iselhau, gostwng.

He is degraded of all his honours—dïosgwyd ef o'i holl anrhydedd; diraddiwyd ef o'i holl urddas.

Degraded cross—croes ddiraddedig, croes ddiraddiedig, croes fychanol.

Degradement, *s.* (o *degrade*) diraddiad, dadraddiad; difuddiad o radd, swydd, *neu* urddas.

Degrading, *a.* (o *degrade*) diraddiol, dadraddiol, iselhaol, anurddol, anurddasol, dïurddasol, dïawdurdodol, diswyddol, gwarthus, gwaradwyddus, gwarthruddol, gwaradwyddol, anfrïol, difrïol, difreiniol, andwyol.

Degravation, *s.* (Ll. *degravo*) trymhad.

Degree, *s.* (Ff. *degré*; Ll. *gradus*) gradd; gris, cam; urdd; graddiant, sefyllfa, ystâd, trefn, cyflwr; mesur; ach, achres, tras; graddoliaeth, graddogaeth; peth.

Degree (in geometry)—gradd=y 360fed ran o eithaf neu amgant cylch.

Degree of latitude—gradd lledred.

Degree of longitude—gradd hydred.

Degrees of comparison—graddau cymhariaeth, graddau cymharol, graddau cymhariad.

Positive degree—y wastadradd, y gyssefinradd, gradd gyssefin, gradd wastad, cyssefin radd.

Adjective of the positive degree—enw gwàn gwastad, ansoddair gwastadradd, enw gwàn gwastadradd, ansoddair cyssefinradd, ansoddeb gwastadradd; ansoddair yn y gyssefinradd; chwanegair yn y wastadradd; adenw yn y radd gyssefin *neu* wastad.

Comparative degree—y ganolradd, y radd gymharol, y radd ganol, y ganol radd, y berfeddradd; y chwanegol o un radd.

Superlative degree—eithafradd, yr uchafradd, yr uchelradd, y radd eithafol, y radd uchafol; y radd eithaf, uchaf, *neu* uchelaf.

Degree of equality—y radd gyfraddol, y radd gydraddol, cystalradd, cyfartalradd, cystadlradd.

Nouns of degree—graddenwau, enwau gradd.

Academical degree—gradd athrofaol.

First degree—cynradd, y gynradd, y radd gyntaf.

Bachelor's degree—mabradd, gradd mebydd, gradd baglor; cynradd.

Master's degree—gradd athraw, athrawradd, gradd celf-athraw, gradd athraw celfyddydau.

Doctor's degree—gradd doethor, doethoriaeth, doethorurdd, doethor-radd, athrawurdd.

Honorary degree—gradd fygedol, mygedradd, gradd fyged, gradd fygedog.

To take a degree—cymmeryd gradd; ymraddio, ymraddogi, ymraddoli; graddio, graddu, graddogi, graddiannu.

To confer degrees—graddogi, graddoli, graddu, graddiannu, urddoni; rhoi mynegradd.

Preferred to a degree, Having taken a degree, } —graddog, graddedig, urddog, urddol.

Degree of consanguinity—gradd carennydd; ach, tras.

The ninth degree—y nawfed ach.

A man of degree—graddwr, graddog, graddolwr.

In some degree—mewn rhyw fesur; mewn rhyw radd; i raddau; i ryw raddau.

In a great degree—yn rhagor, yn fwy, yn chwaneg.

Of the same degree—cydradd, cyfradd.

Of high degree—uchelradd.

Men of high degree—meibion gwŷr (*Salm* lxii. 9); gwŷr uchelradd; dynion uchel radd; rhai uchel eu gradd.

Of low degree—iselradd.

Men of low degree—meibion dynion (*Salm* lxii. 9); gwŷr iselradd; dynion isel radd; rhai isel eu gradd.

To such a degree—i'r fath radd; i'r fath uchder; i'r fath raddau; i'r fath beldder; i'r fath faint; i'r fath faintioli; i'r gyfryw radd; i'r cyfryw uchder, &c.; cyn belled; càn belled; cymhelled; cymmaint.

The highest degree of honour—eithafnod anrhydedd; uchafnod anrhydedd; uchafradd anrhydedd; gradd uchaf anrhydedd; pigyn anrhydedd; pinagl anrhydedd; pinygl anrhydedd; uchafbwnc anrhydedd; anrhydedd i'r eithaf.

To divide into degrees—rhanu yn raddau; dosbarthu yn raddau; graddranu, graddori, graddio, graddu.

By degrees—yn raddol; o radd i radd; yn raddau; bob yn radd; bob ychydig; bob yn ychydig; o gam i gam; o fesur cam a cham; o ris i ris; o fesur ychydig ac ychydig; o glun i glun; gàn bwyll; yn araf deg; yn chwarian; o dipyn i beth; o dipyn i dipyn; o lwff i lwff; o litrwm i litrwm; gam a chan; o fesur gradd a gradd; bob yn dipyn.

By slow degrees—yn araf; yn chwarian; yn araf deg; yn araf o radd i radd; bob ychydig, &c.

Degust, † *v. a.* (Ll. *degusto*) archwaethu, profi, blasu.

Degustation, *s.* (Ll. *degustatio*) archwaethiad, blasiad, chwaethiad.

Dehisce, *v. n.* (Ll. *dehisco*) ymagor, ymegori, ymagori, ymagoryd, agor, agenu, ymagenu; dylyfu gen, safnrythu, dyhëu; dironi.

Dehiscence, *s.* (Ll. *dehiscens*) agoriad, egoriad, ymagoriad, ymegoriad, agorad; dylyfiad gen, safnrythiad, dyhead; droniad.

Dehiscent, *a.* (Ll. *dehiscens*) ymagorol, ymegorol, agorol; yn ymagor, yn agoryd.

Dehonestate, *v. a.* (Ll. *dehonesto*) gwarthruddo, gwarthâu, gwaradwyddo, mefihau.

Dehonestation, *s.* gwarthruddiad, gwaradwyddiad, gwarthâd.

Dehort, *v. a.* (Ll. *dehortor*) gwrthgynghori, anghynghori, gwrthannog, dïannogi, dadgynghori, croesgynghori, gwrthgymhell, trewynu; cynghori i'r gwrthwyneb; cynghori peidio â.

Dehortation, *s.* (Ll. *dehortatio*) gwrthgynghor, anghynghor, croesgynghor, gwrthannog, gwrthannogaeth, gwrthgynghoriad, anghynghoriad, dadgynghoriad, croesgynghoriad, cynghoriad yn y gwrthwyneb.

Dehortatory, *a.* (Ll. *dehortor*) gwrthgynghorol, anghynghorol, dadgynghorol, croesgynghorol, gwrthannogol.

Dehorter, *s.* gwrthgynghorydd, anghynghorwr, anghynghorydd, &c.

Deicide, *s.* (Ll. *Deus*, Duw, a *cædo*, lladd; It. *deicidio*) Dwyfladdiad, Duwladdiad, Dwyfladd, Cristladdiad; Dwyfleiddiad, Duwleiddiad, Dwyfladdwr, Cristleiddiad.

Deific, *a.* (Ll. *Deus* a *facio*) dwyfol, duwol, dwyfolig; duweiddiol; perthynol i'r duwiau.

Deification, *s.* (o *deify*) dwyfoliaeth, dwyfoliad, duwoliad, duwiolad, duwoliaeth, duwiolaeth; gwneuthuriad yn dduw.

Deifier, } *s.* (o *deify*) dwyfolwr, duwolwr,
Deifyer, } duweiddiwr.

Deiform, *a.* (Ll. *deus* a *forma*) duwaidd, duwiaidd, dwyfuniaidd, dwyfolwedd; âg iddo ffurf duw.

Deify, *v. a.* (Ll. *deus* a *facio*) dwyfoli, duwio, duweiddio, duwoli, duwioli; gwneuthur yn dduw; rhestru *neu* gyfrif gyda'r duwiau; addoli megys duw.

Deign, *v.* (Ff. *daigner*; Ll. *dignor*) teilyngu; bod yn wiw gàn un; tybied *neu* dybio yn deilwng; caniatäu, ceniadu, rhoddi; caniatäu *neu* roddi ar ddymuniad; caniatäu o hynawsedd; ymostwng, ymddarostwng.

Deign to do this for me—rhynged bodd i chwi wneuthur hyn erof.

Deinotherium, *s.* (Gr. *deinos* a *thêrion*) hyllfil, erchyllfil.

Deintegrate,† *v. a.* (*de* ac *integer*) Heihau, digyfanu, anghyfanu.

Deiparous, *a.* (Ll. *deiparus*) duwddygol, duwddwyn, dwyfddygol; yn dwyn *neu* yn geni duw.

Deipnosophist, *s.* (Gr. *deipnon* a *sophistês*) preinofydd, gwestofydd, preinathronydd.

Deism, *s.* (Ff. *déisme*, o'r Ll. *Deus*) duwiaeth, duwiadaeth, duwiant, dwyfiaeth, dwyfaddefiaeth, duwaddefiaeth; anffyddiaeth, rhyddybiaeth, anghristiaeth, anghristionogaeth, anghred, anghrediniaeth, Deistiaeth.

Deism and theism—duwiaeth a duwgred; duwiadaeth a duwgrediniaeth; dwyfiaeth a duwgrededd; diffyddiaeth a duwffyddiaeth.

Deist, *s.* (Ff. *déiste*; It. *deista*; o'r Ll. *Deus*) duwiad, (*pl.* duwiaid), duwaddefwr, dwyfaddefwr, duwiaethwr; anffyddiwr, anghredwr, diffydd, rhydd-dybiwr, anghristydd, Deistiad =un à gred fod Duw, ond à wad grefydd ddadguddiedig.

Deistic, } *a.* (o *deist*) duwiaethol, duwiannol,
Deistical, } duwaddefol, anffyddiol, diffydd, rhydd-dybiol, anghrefyddus, anghredol, gwrthgredol, anghristiol; Deistiaidd; perthynol i'r dwyfaddefiaid.

Deity, *s.* (Ll. *deitas*; Ff. *dèitè*; It. *deità*) Duwdod, Duwdeb, Duwdid; Duw; Dwyf; duwdod, duw.

Deject, *v. a.* (Ll. *dejectus*, o *dejicio*) tafiu *neu* fwrw i lawr; gostwng, iselu, darostwng, tristäu, digaloni, llyfrhau, pruddhau, gofidio, blino, cystuddio, peri ymollwng.

To deject one's self—ymollwng, ymlaesu, ymdafiu i lawr, llyfrhau, digaloni, gwangaloni, pruddhau, ymofidio, ymgystuddio, ymdristäu.

Deject, } *a.* prudd, digalon, llwfr, llaes, trist,
Dejected, } athrist, wynebdrist, cystuddiol, galarus, trymllyd, trymfrydig, pendrist, dihoen, brwyn, isel, cwla, llibin, anhylon, dilon, yn ymollwng, yn ymlaesu; gwedi ymostwng, gwedi ymlaesu; allwynig, allwynin.

With dejected countenance—â'i wynebpryd wedi syrthio; yn brudd ei wedd.

Dejectedly, *ad.* yn brudd, &c.; yn ddïysbryd; yn isel ei ysbryd.

Dejectedness, } *s.* (Ll. *dejectio*) pruddineb,
Dejection, } prudd-der, trymfryd, tristedd, tristyd, tristwch, trymder meddwl, ymollyngiad meddwl, iselder meddwl, athristedd, athristwch, athristyd, llyfrder, llyrfder, digalondid, iselder ysbryd, iselder ysbrydoedd, llawrydedd, brwyn, ardrymedd, dihoenedd, anhoender, brwynfryd, bryd brwyn, llawryd, galar, alaeth, iselder calon; pruddglwyf, dueg; gwendid; ysgothiad, cothiad.

Dejectory, *a.* yn tueddu i dafiu *neu* fwrw i lawr; llawrydol; ysgothiadol, ysgothol, cothiadol, cothol.

Dejecture, *s.* (o *deject*) yr ysgothiad; ysgothion, ysgarthion, cothion, cothau, eulon, ystlom, ysgarth, aul, tom.

Dejerate, *v. a.* (Ll. *dejero*) dwys dyngu, trydyngu; tyngu yn brudd; cymmeryd llw.

Dejeration, *s.* (o *dejerate*) tyngad, cymmeriad llw, llw-gymmeriad.

Dejeune, *s.* (Ff.) boreubryd, borebryd, boreufwyd, borefwyd, cynbryd, torympryd, bregwest.

Dejeuner, *s.* (Ff.) byrbryd, byrwest, rhyngbryd; boreubryd.

Delaceration, *s.* (Ll. *delacero*) darnedigaeth, llarpiad; rhwygiad yn yfflon.

Delacrymation, *s.* (Ll. *delacrymatio*) gorddeigrad, gorddeigryniad; dyfrogrwydd y llygaid.

Delactation, *s.* (Ll. *delactatio*) diddyfniad, dilaethiad.

Delapsation, *s.* (o *delapse*) syrthiad, cwympad; syrthiad *neu* lithrad i lawr.

Delapse, *v. n.* (Ll. *delapsus*, o *delabor*) syrthio, cwympo; cwympo, syrthio, *neu* lithro i lawr.
Delapsion, *s.* (o *delapse*) syrthiad, cwympad, brusyrthiad, rhefrsyrthiad.
Delate, *v. a.* (Ll. *delatus*) dwyn, dygyd, cludo, cario, cywain, trosi; cyhuddo, achwyn ar, cwyno, cwyno ar.
Delation, *s.* (Ll. *delatio*) cludiad, cyweiniad, trosglwyddiad; cyhuddiad, cyhudded, achwyniad, achwyn, cwyn.
Delator, *s.* (Ll.) cyhuddwr, achwynwr, achwynydd.
Delay, *v.* (Ff. *délai;* It. *dilata;* Ll. *delatus*) oedi, gohirio, addoedi; aros, ymaros, godrigo, hirdrigo, ymdröi, llercian, hoetian, gohytian, gohoetial, sefyllian, hiriannu, ymohirio, ymoedi, dyoedi, cyngydio, twtial, godechial; lluddio, rhwystro, attal; bod ar gyngyd; bod ar ei gynghor.
He delayed not the doing of it—nid oedodd ei wneuthur.
Delay, *s.* oed, gohir, aros, attreg, gohiriant, godrig, ymaros, cyfaros, hiriant, attregwch, annod, llercian, oediad, gohiriad, godorant, addoed, hoed, arosiad, addoediad, cyngyd, gwaradrig, gwaradrigiant; rhagod, nidr, rhwystr, godor; hwyrder, hwyrfrydigrwydd, diweddarwch, annybendod.
Long delay—hiroed, hirdrig, hir aros, hir arosiad.
To make long delays—hiroedi, hirdrigo; aros yn hir, &c.
Without delay—yn ddïoed, yn ddïattreg, yn ddïaros, yn ddïohir, yn ddïannod, yn ddïodor, yn ddinidr; heb oedi, heb oed; yn hwylus.
Without any delay—heb wneuthur dim oed (*Act.* xxv. 17).
Delayer, *s.* oedwr, oedydd, gohiriwr, addoedwr, addoedur, godrigwr, llercyn, llerciwr, nidrwr, rhwystrwr, lluddiwr.
Delayment, *s.* (o *delay*) lludd, rhwystr, lluddiad, rhwystrad, oediad, gohiriad.
Del Credere, *s.* (It.) gwarantydd; gwarant.
Dele, *v. a.* (Ll. gorchymynol o *deleo*) difoder, dilëer, dïoler, gadawer allan; dilea, difoda; dilëwch, difodwch, gadwch allau.
Deleble, *a.* (Ll. *delebilis*) dileadwy, difodadwy, dïoladwy; à aller ei adael *neu* ei dynu allan; diddymadwy, dystrywiadwy.
Delectable, *a.* (Ll. *delectabilis*) hyfryd, hyfrydlon, hyfrydlawn, hyfrydlwys, hyfrydber, dymunol, damunol, melusber, tirion, difyr, dyddan, cysurlawn, araul, digrif, mwyn, cyfannedd, llawdd, ffawg, dywenol, darddewisol.
Delectableness, *s.* hyfrydwch, hyfrydlonedd, hyfrydedd, tirionwch, tirioni, tiriondeb, dymunoldeb, dymunolrwydd, areuledd, dyddanwch, mwynder, glwysedd, mawsder, mawsedd, lloddiant, hyfrydiant.
Delectation, *s.* (Ll. *delectatio*) hyfrydwch, hyfrydedd, dywenydd, difyrwch, dyddanwch, digrifwch, tiriondeb, tirionwch, tirioni, dymunoldeb, hoffedd, mawsder, mawsedd, ffawg, cyfanneddrwydd.
Delegacy, *s.* (o *delegate*) = *Delegation.*
Delegate, *v. a.* (Ll. *delego*) cenadu; anfon yn genad *neu* yn ddirprwywr; anfon, anfon ymaith, aranfon; anfon ar genadwri; trosglwyddo, trosi; trosglwyddo i, trosi i; dirprwyo, prwyadu; ymddiried i; enwi, ethol, *neu* ddewis i swydd; rhoddi mewn swydd; rhoddi *neu* gymmynu swydd i.
I delegated my care to him—trosglwyddais, rhoddais, *neu* bwriais fy ngofal arno ef; gorchymynais fy ngofal iddo.
Delegate, *s.* (Ll. *delegatus*) cenad, cenadwr, cenadydd, anfonog, dirprwywr, prwyadur, prwyedydd, cynnrychiolydd, cynnrychiolwr, rhaglaw, negeswr; un anfonedig dros arall.
Court of delegates—llys anfonogion.
Delegate, *a.* anfonedig, danfonedig; dirprwyol; anfonedig dros arall; trosglwyddol.
Delegation, *s.* (Ll. *delegatio*) anfoniad, danfoniad; anfoniad yn lle un arall; dirprwyad, enwedigiad; anfoniad yn genad; etholiad, enwad, *neu* ddewisiad i swydd; rhoddiad swydd; trosglwyddiad, trosiad; cenadwri, negesyddiaeth; dirprwyaeth, cynnrychiolaeth; dirprwywr, cynnrychiolydd; dirprwywyr, cynnrychiolwyr; gorchymyn, gwarant, awdurdod; dyethol, dyetholiad.
Delenda, *s. pl.* (Ll. o *deleo*) dileolion, difodigion; pethau i'w dilëu.
Delenifical, *a.* (Ll. *delenio* a *facio*) llinarol, esmwythol, esmwythaol; yn llaesu poen.
Delete,† *v. a.* (Ll. *deleo*) dilëu, difodi, dinystro.
Deleterious, } *a.* (Ll. *deleterius*) dinystriol, di-
Deletery, } nystrol, dystrywiol, marwol, gwenwynig, gwenwynol, gwenwynllyd, angeuol, adwythig, niweidiol; à ddinystro fywyd.
Deletion, *s.* (Ll. *deletio*) dilead, difodiad; dinystrad, dystrywiad; dinystr, dystryw.
Deletory, *s.* (Ll. *deletor*) difodydd, dilëydd, dileor; à ddileo.
Delf, *s.* (S. *delfan*) cloddfa, cleddiwig, clawdd, chwarel.
Delft, } *s.* (o *Delft*, yn Holand) llestri pridd,
Delft-ware, } llestri priddion, priddlestri, priddlestri Delfft, llestri Delfft, llestri arliwiog.
Deliac, *s.* (o *Delos*, yn yr Ynysfor) delgawg, cerfyllgawg; arian-bres.
Delibate, *v. a.* (Ll. *delibo*) profi, archwaethu, sipian, sipio, cymmeryd sip.
Delibation, *s.* (Ll. *delibatio*) chwaethiad, archwaethiad, chwaeth, profiad, prawf, dargais.
Deliberate, *v.* (Ll. *delibero*) ystyried, ystyrio, ymgynghori, pwyllo, arystyried, meddylied, meddylio, meddwl, adfeddylied, adfeddylio, adfeddwl, pwyso, myfyrio, rhagfyfyrio, holi, pryderu; pwyso yn y meddwl; pwyllo ac ystyried; ymgynghori yn nghylch; meddylied am; myfyrio ar; ammheu, petruso; cymmeryd dàn ystyriaeth.
We shall deliberate on that matter hereafter—ni a ymgynghorwn yn nghylch y peth *neu* y pwnc hwnw ar ol hyn; ni a bwyswn, a bwyllwn, a holwn, *neu* a chwiliwn y peth *neu* y pwnc hwnw ar ol hyn.
Deliberate, *a.* pwyllog, pwyllig, pwyllus, pwyllgar, hybwyll, ystyriol, pwysgar, hanbwyllus, hanbwyllog, hambwyllus, arbwyllig, hamddenol, pryderus, gochelgar, gwagelog, ymogelgar, cynghorus, rhagfyfyriol, darbodus, difrif, difrifol; araf, hwyrfrydig, chwarian, cyngydiol, maith, hirfaith; prudd, sad.
Deliberately, *ad.* yn bwyllog, &c.; trwy gynghor; gàn bwyll; mewn tawelwch meddwl; yn nhawelwch ei feddwl; mewn gwaed oer; yn wir fwriadol; o wir waith goddeu; o wir gwaith oddeu; o wir waith oddeu; o'r gwaith goddeu.
Deliberateness, *s.* pwyllogrwydd, pwylligrwydd,

pwyllusrwydd, hybwylledd, pwyllder, ystyriaeth, pwyllineb, pwyll, pwysgarwch, darbwyll, arafedd, arafwch, ystyriaeth dawel, gochelgarwch, hanbwylledd, &c.

Deliberation, *s.* (Ll. *deliberatio*) ymgynghoriad, pwylliad, pwyllad, ystyriad; ystyriaeth, pwyll, pwyllogrwydd, pwylligrwydd, pwyllineb, hybwylledd, cysbwyll, ymbwyll, pwylledd, darbwylliant, pwyllusrwydd; bwriad *neu* bwysiad yn y meddwl; cymmeriad cynghor, pwyll, *neu* hamdden; pryder, pryderi, hamdden; arafedd, arafwch, gofal, darbodaeth, ystyriant.

Mature deliberation—ystyriaeth bwyllog, ddifrifol, ddifrif, ddyfal, ddwys, faith, *neu* hirfaith; dwys *neu* ddifrifol ystyriaeth; ystyriaeth lawn, gyflawn, iawn, *neu* ddyladwy; pwyll ystyriol; ystyriaeth wiw *neu* ddyledus; iawn *neu* gyflawn ymgynghoriad, &c.

Deliberative, *a.* (Ll. *deliberativus*) ystyriol, ymgynghorol, pwyllog, ymgynghoriadol, pwyllus, pwyllig, hybwyll, ystyriannol, pwysgar, myfyrgar, meddylgar, pryderol, darbwyllus; perthynol i ymgynghoriad.

Deliberative, *s.* pwylliaith, pwyllaraeth, pwyllogaeth, ymadrodd hybwyll.

Delicacy, *s.* (o *delicate*; Ff. *délicatesse*; It. *delicatezza*) tegwch; dillynder, dillynedd, destlusedd, tlysni, dillyndra; manylder, manyldra, manylwch, manoldeb, manyledd, cynnilwch; tynerwch, tyneredd, plyddedd, plyddni, meddalwch; moethusder, moethusdra, moethusrwydd, mwythusder, mwythusrwydd, mwythedd; moeth, almes, mwyth, ammeuthyn, ammoethyn, melusfwyd, ancwyn; lledneisrwydd, moesgarwch, hyfoesedd, boneddigrwydd, boneddigdod, tlysni ymddygiad, dillynder ymddygiad; prydferthwch, tegwch pryd, prydferthwch gwedd; tegwch pryd a gwedd; tynerwch pryd a gwedd; neisrwydd; meindra, meinder, addfeinder, eiddilwch, eiddiledd; llyfnder, llyfndra, llyfnedd; esmwythder; gorfanylder, tramanyldeb, teleidrwydd, ceinder; harddwch, glendid, dillni; hyfrydwch, perdod, mwynder; anwes.

Delicacies — danteithion, moethau, mwythau, danteiddfwyd, danteithfwyd, ancwynion, ammeuthynion, ammoethau, melusion.

Delicacies of the banquet—ceinion cyfeddach, moethau gwledd, &c.

Affected delicacy — mursendod, mursen-eiddrwydd, coegni, rhyddillynedd, ffugledneisrwydd.

Delicate, *a.* (Ll. *delicatus*; Ff. *delicat*) tyner; moethus, mwythus, meddal, blydd, plydd, esblydd, masw, meddfaeth, mwyth, deintaidd, danteithiol, ammeuthyn; llednais, nais, teg, tlws, (*f.* tlos), destlus, destl, hyddestl, dillyn, taclus, misi, dain, prydus, prydweddol, glwys, pefr, cain; manwl, manol, cynnil, dichlyn, cywrain, cywraint, celfydd; moesgar, hyfoes, dillynfoes, boneddigaidd, boneddig; addfain, main, addfeinus, meindlws, meinus, eiddil, teneu, mân, meindwf; tirion, araf, mwyn; gwŷn, (*f.* gwen); llerw, esmwyth, gwâr, llaidd; hyfryd; gwàn, egwan, gwanaidd, eiddilaidd; canaidd; pur, ter, dianmhur, coeth, claer, teneuglaer; llyfn; cywair, godidog, etholedig, ardderchog; mursenaidd; mein-.

Delicate and pretty, } meindlws, (*f.* mein-
Delicately pretty, } dlos, ceindlws, (*f.* ceindlos), tlysgain, tlosgain.

Delicate and meek, } meinwar.
Delicate and gentle, }

Delicate and fair, } meindeg, meinwen,
Delicately fair, } mwyndeg.

One that is delicately fair — meinwen, meinir, meingan.

Delicately sweet—melusber.

Delicate growth—meindwf, twf llerw.

Delicate aspect—meinwedd, lledneiswedd; gwedd *neu* olwg lednais.

Delicate question — pwnc cynnil, mater cynnil.

Delicate children—plant moethus; plant meddfaeth; plant eiddil; plant tyner *neu* lednais.

A delicate young animal — meiniles, meinoles; anifel ieuanc tyner.

A delicate piece of work — manylwaith, cynnilwaith, cywreinwaith.

Delicate thread—edef fain, edef fân.

Delicate health—iechyd gwàn, egwan, eiddil, gwaelaidd, *neu* eiddilaidd.

To live delicately—byw yn foethus, &c.; arfer moethau.

The tender and delicate woman — y wraig dyner a'r foethus (*Deut.* xxviii. 56.)

Susanna was a very delicate woman, and beauteous to behold — Susanna oedd dyner, a phrydferth ei gwedd (*Sus.* 31).

Delicate, *s.* † dantaeth, moeth, ammoethyn; neisbeth.

Delicateness, *s.* (o *delicate*) tynerwch, moethusder, moethusdra, moethineb, mwythusrwydd, mwythusder, mwythusdra, mwythusrwydd, meddalwch, &c.

For delicateness — gàn fwythau (*Deut.* xxviii. 56).

Delicious, *a.* (Ff. *délicieux*; Ll. *delicatus, deliciæ*) danteithiol, danteiddiol, moethus, mwythus, deintaidd, dantaidd; melusber, melusig, per, peraidd, perfelus, chweg, melusiannol, maws, mychweg; hyfryd, hyfrydlwys, hyfrydber; gorddymunol.

Delicious entertainment — gwledd ddanteithiol.

To fare deliciously—byw yn foethus, &c.; byw mewn moethau; byw ar foethau; byw yn finflysg, yn finfelus, *neu* yn finfoethus; cymmeryd byd da yn helaethwych beunydd.

Deliciousness, *s.* danteiddrwydd, danteithrwydd, moethusder, moethusdra, mwythusder, mwythusrwydd, danteithioldeb; melusder, melusrwydd, melusdra, melusigrwydd, melusedd, meluswedd, pereiddrwydd, perder, perdod, perdra, peredd, pereidd-dra, perfelusrwydd; hyfrydwch, hyfrydedd, gorhoffedd.

Deligation, *s.* (Ll. *deligatio*) rhwymiad, amrwymiad, cyfrwymiad, rhwymiad i fyny.

Delight, *s.* (Ff. *délice*; Ysp. *deleytar*; Ll. *delector*) hyfrydwch, hyfrydedd, difyrwch, digrifwch, hoffedd, hoffder, gorhoffedd, gorhoffder, gorhoffiant, dyddanwch, dywenydd; llawenydd, hoen, gorhoen, boddineb, bodd, boddlonrwydd, elwch, llawdd, ffawg; cyfanneddrwydd; ewyllys, gwyllys, pleser, meluswedd, serch; gwŷn.

One's delight—hoffder, hoffedd, gorhoffder, gorhoffedd, difyrwch, *neu* hyfrydwch un; mwythau, moethau.
Rational delight—dyddanwch pwyll, difyrwch rhesymol.
Extreme delight—gorhyfrydwch, trahyfrydwch, gorddigrifwch.

Delight, *v.* difyru, hyfrydu, dyddanu, digrifhau, digrifo, digrifu, hyfrydhau; ymhyfrydu, ymddifyru, ymddigrifu, ymddigrifo, ymfoddloni, ymfoddhau, ymhoffi, ymserchu, ymblesera; cymmeryd difyrwch; cymmeryd difyrwch yn; gwneuthur difyrwch i; boddhau, boddio, boddloni, bodloni; llawenhau, llawenu, llawenychu, llonychu, lloni; caru, serchu, hoffi, gorhoffi; rhoi serch ar; rhoi ei serch ar; bod yn foddlawn i; bod yn dda, yn hoff, yn llawen, yn hyfryd, *neu* yn gymmeradwy gàn; bod wrth fodd; bod â'i ewyllys ar; chwennychu; lloddi, atre.
To delight one's self—ymhyfrydu, ymddigrifo, ymddigrifu.
God delights to forgive a penitent sinner—llawen gàn Dduw faddeu i bechadur edifeiriol.
To delight to do a thing—mynu (*Est.* vi. 11); bod yn hyfryd ganddo wneuthur peth; ymhyfrydu i wneyd peth.
To delight one's self in—ymhyfrydu yn, &c.
To take delight, To have delight, } ymhyfrydu, ymddifyru, &c.

Delighted, *a.* hyfryd, hyfrydlon, difyr; llawn hyfrydwch.
Delighter, *s.* ymhyfrydydd, ymhyfrydwr, &c.
Delightful, Delightsome, } *a.* hyfryd, hoff, hyfrydlon, hyfrydlawn, difyr, digrif, hyfrydlwys, dyddan, cysurlawn; tirion, araul, cyfannedd; maws, ffawg, llawdd, tra dymunol.
Delightfully, *ad.* yn hyfryd, &c.; mewn modd hyfryd.
Delightfulness, Delightsomeness, } *s.* hyfrydwch, hyfrydedd, hyfrydlonedd, hyfrydrwydd, hyfrydlonder, digrifwch, difyrwch, tiriondeb, tirionwch, areuledd, areulwch, cyfanneddrwydd, dymunolrwydd, hyfrydwch tramawr, mawsder, lloddiant.
Delightless, *a.* (*delight* a *less*) anhyfryd, dihyfrydwch, annigrif, annifyr, anhylon.
Delineament, *s.* (Ll. *delineo*) llunweddiad; arddangosiad drwy ddarluniad.
Delineate, *v. a.* (Ll. *delineo*) darlunio, dylunio, llinellu, arlunio, darlinellu, llunweddu, dysgrifio, arlinellu; tynu llun, tynu darlun, tynu, arfelu, arfelyddu, delweddu, ardebu, dyfalu; llunio, ffurfio, cynllunio; braslunio, brasnaddu; hynodi, darddullio.
To delineate a character—darlinellu nodweddiad, darlunio nodwedd, llunweddu cymmeriad.
Delineation, *s.* (Ll. *delineatio*) darluniad, darlinelliad, llunweddiad, arluniad, dysgrifiad, arlinelliad, brasluniad, dyluniad, tyniad, lluniad, tyniad llun; llun, ffurf, llunwedd, dull, darluniedigaeth, darddulliad, arfeliad, delweddiad, darluniawd, llinelliad, ardebiad; brasnaddiad; cynllun, amlinell, braslun.
Delineator, *s.* (Ll.) darluniwr, darlunydd, darluniedydd, arluniwr, darlinellwr, lluniedydd, llunweddwr, &c.
Delineatory, *a.* darluniadol, darluniol, arluniadol, llunweddol, llunweddiadol, dysgrifiadol, dysgrifiol, brasluniol.
Delineature, *s.* (o *delineate*)=*Delineation.*
Deliniment, † *s.* (Ll. *delinimentum*) llinariad, esmwythâd.
Delinquency, *s.* (Ll. *delinquo*) bai, trosedd, camweithred, camwedd, drygweithred, drygwaith; camweithrediad; diffyg, pall, meth, ffael, *neu* fyrdra yn nghyflawniad dyledswydd; gwall, ffael, cwl, cwyl, nam, caredd.
Delinquent, *a.* camweddus, camweithredol, troseddol; yn esgeuluso dyledswydd; euog o fai; cwylfawr, beius.
Delinquent, *s.* troseddwr, camweithredydd, camweithredwr, gwneuthurwr bai, camweddwr, camweddydd, drygweithredwr; un byr yn ei ddyledswydd; à ballo yn ei ddyledswydd; gwallygiwr, gwallygydd; un euog o fai; tramgwyddwr.
Deliquate, Deliquesce, Deliquiate, } *v.* (Ll. *deliqueo, deliquesco*) toddi; ymdoddi; dadlaith, dadmer, meirioli; dattod; ymddattod; araf doddi; toddi o hano ei hun.
Deliquation, Deliquescence, Deliquiation, } *s.* toddiad, toddiant, ymdoddiad, toddedigaeth; araf doddiad; toddiad o hano ei hun; dadleithiad, dadmeriad.
Deliquescent, *a.* ymdoddol, toddol; yn toddi; yn ymdoddi; toddedigol.
Deliquium, *s.* (Ll.) toddiad, toddiant, ymdawdd; toddedd, tawdd, llŷn, gwlyb; llewyg, mas, llesmar.
Deliracy, † *s.* (Ll. *deliro*)=*Delirium.*
Delirament, *s.* (Ll. *deliramentum*) meddylwib, ffol asbri, penwendid, pendrondod, crwydrad y meddwl.
Delirate, *v. n.* (Ll. *deliro*) ymleferydd, ynfydu, gorphwyllo, pendroni; bod yn benwan.
Deliration, *s.* (Ll. *deliratio*)=*Delirium.*
Delirious, *a.* (Ll. *delirus*) penysgafn, penwan, syfrdan, pensyfrdan, lledfrydig, anmhwyllog, gorphwyllog, gorphwyllus, pwyllglaf, pwyllgoll; heb na chof na chyfrif ganddo; allan o'i bwyll; allan o'i gof; yn ymleferydd, yn syfrdanu; ansynwyrol, anrhesymol; chwibwrn, gwibwrn; yn gwibio; â cholled ynddo; â'i feddwl yn crwydro.
To be delirious—ymleferydd, pendroni, syfrdanu, gorphwyllo, anmhwyllo, gwallgofi, ynfydu; bod yn benysgafn, &c.; bod â choll ynddo.
Deliriousness, *s.* penysgafnder, penwendid, &c.
Delirium, *s.* (Ll.) ymleferydd, marwerydd, myrwerydd, penysgafnder, penwendid, pendrondod, penysgafndra, penysgawnder, lledfryd, lledfrydedd, syfrdandod, madrondod; gwallsynwyr, gorphwyll, gwallgof, ynfydrwydd, coll pwyll, collbwyll.
Delirium tremens—marwerydd y meddwon, ymleferydd crŷn, pendrondod hygryn, haint y meddwon.
Delitescence, *s.* (Ll. *delitescentia*) neilltuedd, enciledd, encil, echaeth; dinodedd, anweledd.
Delitigate, *v. a.* (Ll. *delitigo*) senu, dwrdio, ysdwrdio, amryson.
Delitigation, *s.* seniad, dwrdiad, amryson, ymgiprys.
Deliver, *v. a.* (Ff. *délivrer*; Ll. *delibro*) gwaredu, gwared, achub, rhyddhau, achubo; traddodi, trosi, trosglwyddo, rhoddi, rhoi, dyroddi, dodi; rhoddi i fyny; dïanc, dïengyd,

dïangu, dïengu; tynu allan, cipio allan; dadrwystro; rhwyddhau; colwyno, esgoryd; traethu, treithu, ymadroddi, llafaru, llefaru, dywedyd, mynegu, yngan, gweyd, dosbarthu allan; rhoddi allan.

To deliver a sermon — traddodi pregeth, treithu pregeth, pregethu pregeth, parablu pregeth, pregethu.

To deliver a speech — traddodi araeth; areithio, traethu, ymdroddi, parablu, llafaru, llefaru.

To deliver from confinement—rhyddhau o gaethiwed; digaethiwo; edfryd i ryddid; rhoi *neu* osod mewn eangder; gwared o garchar; gwaredu o gaethiwed.

To deliver (as an accoucheur)—rhyddhau, colwyno, esgoryd; rhoi gwregys rhydd i.

To deliver one's self—ymryddhau, ymddirwyllo, dïanc, ymachub; achub ei einioes ei hun.

God deliver me—Duw a'm gwaredo; Duw a'm dïango.

Deliver me from the sword — gwared fi rhag y cleddyf; ysgwlf *neu* ysgylfa fi rhag y cleddyf.

To deliver down—trosglwyddo i lawr.

To deliver into one's hands — rhoddi *neu* ddodi yn llaw un; traddodi i law un.

To deliver up—rhoi i fyny; rhoddi i fyny; edfryd, adferu, adferyd, adroddi, dadroddi, dadroi, gwrthferu, gwrthfer, gwrthfryd; rhoi *neu* dalu adref; talu *neu* roddi yn ol; traddodi, bradychu; rhoi yn fradwrus yn nwylaw *neu* i ddwylaw gelyn.

To deliver to the wind—traddodi i'r gwynt; bwrw *neu* daflu gyda'r gwynt; gwrthod; bwrw *neu* daflu ymaith.

To deliver to memory—rhoi ar gof; gyru ar gof; rhoi ar gof a chadw; trosglwyddo i'r oes à ddel; trosglwyddo i'r to nesaf.

To be delivered of young—esgor; cael ei rhyddhau; dwyn newyddian i'r byd, &c.

To be delivered before her time — esgor cyn tymp; erthylu.

To deliver a message — traethu neges; traddodi cenadwri.

To deliver an office to one—rhoi swydd i un; gwystlo swydd i un.

Deliver, † *a.* (Ll. *liber*) rhydd; gweisgi, bywiog.

Deliverable, *a.* gwaredadwy, &c.

Deliverance, *s.* (Ff. *délivrance*) gwaredigaeth, gwared, ymwared, achubiaeth, rhyddhad, gollyngdod, dïangfa, gwarediant, gwarededigaeth; iechydwriaeth, iachawdwriaeth; traethiad,† ymadroddiad;† esgoriad, esgorfa.

Delivered, *p. p.* gwaredig, gwarededig, achubedig, gwaredol; traethedig, &c.

The delivered—y gwaredigion.

Deliverer, *s.* (o *deliver*; Ff. *délivreur*) gwaredwr, gwaredydd, achubydd, achubwr, achubiad, ymwaredwr, gwaredog, ceidwad, ymddiffynwr, diffynwr; iachawdwr; rhyddhäwr o gaethiwed; traddodwr, traddodydd; traethwr, parablwr.

Delivery, *s.* (o *deliver*) gwarediad, gwarediant, gwaredigaeth, gwared, ymwared; rhyddhad, gollyngdod, gollyngiad; traddodiad, rhoddiad, dodiad, dyroddiad; trosglwyddiad, trosiad; rhoddiad i fyny; rhoddiad allan; parabl, parabliad, llafar, llafariad, llefariad, traethiad, adroddiad, ymadrodd, cynaniad; esgorfa, esgoredigaeth, esgor, colwyniad, genedigaeth, tymp.

A good delivery—parabl croew, parabl da; parabliad rhwydd *neu* rydd; ymadrodd rhugl, rhwydd, rhydd, croew, *neu* drybelid; per araeth; hyawdledd.

He has a good delivery — y mae iddo *neu* ganddo barabl croew; y mae efe yn groew ei barabl; mae ganddo barabl da.

I know not one that has a better delivery —nid adwaen i yr un sydd yn fwy parablus; nid adwaen i neb gwell ei barabl.

A poor delivery — parabl gwael, parabl anghroew, ymadrodd afrugl, ymadroddiad anhyawdl, parabl afrwydd.

He has but a poor delivery — nid oes iddo ond parabl anghroew; nid yw efe ond gwàn *neu* wanaidd ei barabl; nid yw ei barabl ond gwael.

Woman's delivery—rhyddhad, esgorfa, esgoriad, esgoredigaeth, esgor, genedigaeth, tymp.

Dell, *s.* (Is. *dal*; Al. *thal*; S. *degle*) ceule, ceubwll, ceufan, ceugwm, ceunant, ceubant; glyn, pant, nant; pwll.

Delph, *s.* (o dref *Delft*, yn Holand)=*Delf*.

Delphin, *s.* enw à roddir i'r argraffiad o'r uchawduron Lladin, à gyhoeddwyd ar orchymyn Lewis XIV. o Ffrainc, er budd ei fab, edlin y goron ('*in usum Delphini*').

The Delphin classics — yr uchawduron Delphinaidd, yr uchawdwyr Delphinig.

Delphinate, *s.* (Gr. a Ll. *delphin*) dolffynaint.

Delphine, *a.* (Ll. *delphinus*) dolffynaidd; perthynol i'r dolffyn: Delphinaidd, Dolffinaidd; perthynol i etifedd coron Ffrainc.

The delphine edition of the classics — yr argraffiad Delphinaidd o'r uchawduron.

Delphinic Acid, *s.* (Ll. *delphinus*) sur dolffynig; sur à geir o olew y pysg dolffyn.

Delphinina, Delphinia, Delphina, Delphia, Delphine, *s.* (o *delphinium*, ysbardun y marchog, o *delphis*) alcali llysieuaidd à dynir o'r lleulys, llysiau y llau, *neu* lewyg y llau; llysalcali lleulys; alcali llysieuaidd y lleulys.

Delphinite, *s.* dolffynfaen.

Delphinium, *s.* (Gr. a Ll. *delphin*) ysbardun y marchog, llysiau yr hedydd, tafod yr hedydd.

Delphinus, *s.* (Ll.) y dolffyn.

Delta, *s.* (Gr.) enw y llythyren Δ yn y Groeg, yn ateb i D yn y Gymraeg: ynys yn aber afon fawr, megys y Neilus.

Deltoid, *a.* (Gr. *delta* ac *eidos*) ar lun Δ; triongl, trionglog, trichonglog; lleddbedrog; llwyarnaidd; Deltaidd.

Deludable, *a.* (o *delude*) twylladwy, hydwyll, hyhud, ffugiadwy; hawdd ei dwyllo *neu* ei hudo.

Delude, *v. a.* (Ll. *deludo*) twyllo, hudo, llithio, hocedu, coegio, somi, seithugio, gwatwar, gwatwor; tynu ar ddïdro; llithio ar gyfeiliorn; hudo, denu, *neu* lithro à geiriau teg a thwyllodrus; camdywys, camarwain; bwrw hud ar lygaid; ffugio.

Deluder, *s.* twyllwr, twyllydd, twyllodwr, twyllawdr; hudwr, somwr, somur; camdywysydd, camarweinydd; ffugiwr.

Deluding, *s.* twyll, hoced, hud, twylleb, twyllawd, geudeb.

Deluge, *s.* (Ff. *déluge;* Ll. *diluvium, deluvies*) dylif, diluw; gorlif, llifeiriant, gorllif, rhyferthwy, llifddwr, llif, lli, dyli, ffrydlif, lliant, dwll.

Deluge, *v.a.* gorlifo, llifeirio, gorlifeirio, dylifo, gorllifo; peri *neu* wneuthur yn fôr; gwneuthur yn ddylif; gorchuddio â dwr *neu* â llifddwr; rhoi dàn ddwr; troi dwr *neu* lifddwr dros; dyllio, dyllu, cluddio, dargluddio, gorchuddio; boddi.

Delusion, *s.* (Ll. *delusio*) twyll, hudoliaeth, hud, twyllofaint, somiant, somedigaeth, som, ffug, lledrith, geurith, geuwedd; twyllad, twyllawd, twylledigaeth; geudeb, ffalsedd, hoced; camarweiniad, camdywysiad; amryfusedd, cyfeiliornad, camolygiad.

Strong delusion — amryfusedd cadarn (2 *Thess.* ii. 11).

Optical delusion — twyll-olwg, twyllwelediad, tremdwyllad, twylldremiad, twyllymddangosiad, gau ymddangosiad.

Delusive, } *a.* (Ll. *deludo, delusi*) twyllodrus,
Delusory, } twyllgar, somgar, hudolawl, twylledigol, twylladol, lledrithiol, hudol, hudolaidd, lledrithgar.

Delusiveness, *s.* (o *delusive*) twylledd, twyllodrusedd, twyllodrusrwydd, twyllgarwch; somgarwch; twyll, hud, hoced.

Delve, *v. a.* (S. *delfan;* Is. *delven*) cloddio; palu; treiddio i; plymio; beisio; chwilio; mesuro; cael gwaelod; gwaelodi.

Delve, † *s.* clawdd, pwll, bradbwll, cloddbwll, ffos; ogof, gogof.

Delver, *s.* (o *delve*) cloddiwr, cloddiedydd, palwr.

Demagogue, *s.* (Gr. *dêmagôgos*) cornor yr adlawiaid, penadlawiad, pénadlaw, cyrniad y cyffro, pen yr adlawiaid, blaenor yr adlawiaid, corn y gynhen, arweinydd y werin, rhwyf yr ymraniad, eilun y werinos, arweinydd y bobl, cornor, pencyffröydd, ciwedlyw, gwaerflaenor.

Demain, } *s.* (Norm. *demainer*) eiddionydd,
Demesne, } maerdref, maenor, maenol, tyddyn cartrefol; tiriogaeth, treftadaeth, treftad, tattref; y maenordy a'r tir cyfagos.

Demesne land — tir y faerdref, tir bwrdd, maenordir, maenoldir; tir y goron, tir bwrdd y llys.

The king's demesnes—y frenindref, y faerdref.

The king's demesne lands—tir bwrdd y llys, tir y faerdref, tir y frenindref, tiroedd y goron.

Demand, *v. a.* (Ff. *demander; de,* a Ll. *mando*) gofyn, holi, ceisio, erchi; gofyn i; ymofyn âg; ymofyn am; ymholi â; ymoralw am, ymorol am; arddelwi, arddelw; hòni hawl i; ymarddelw o, hòni o; ymgeisio am, ymgais am; dyerchi; gofyn yn awdurdodol; mynu.

I will demand of thee, and answer thou me —a mynega i mi yr hyn a ofynwyf i ti (*Iob* xxxviii. 3).

The chief captain demanded who he was—y pen-cadben a ymofynodd pwy oedd efe (*Act.* xxi. 33).

They were demanded—dywedwyd (*Ecs.* v. 14).

David demanded of him how Joab did—Dafydd a ymofynodd am lwyddiant Ioab (2 *Sam.* xi. 7).

Demand, *s.* gofyn, gofyniad, hawl, holiad, holedigaeth, arch, archiad, mynad; arddelwad, arddelw; ymofyn, ymofyniad, galw, galwad; erfyn, deisyf, deisyfiaeth, eidduned, dymuniad, dymuniant; y peth à ofyner; y peth à geir wrth ofyn; gofyn awdurdodol; âyled.

What is your demand?—beth yw eich gofyn?

I promise to pay on demand—mi a dalaf i chwi pa bryd bynag y galwoch arnaf; talaf bryd bynag y gofyner *neu* y ceisier; talaf pryd y mynir.

That lady is in great demand—y mae ymofyn mawr am *neu* ar y rhian hòno.

Demandable, *a.* gofynadwy; à ellir ei ofyn.

Demandant, *s.* (o *demand*) gofynydd, gofynwr, hawlydd, holydd, holwr; hawlblaid, ymofynblaid, achwynydd, achwynwr.

Demander, *s.* (o *demand*) gofynwr, gofynydd, mynwr, ymofynwr, holwr, holydd, ymholwr, deisyfwr, eirchiad, archwr, archydd.

Demandress, *s.* (o *demander*) gofynes, gofynyddes, gofynwraig, holyddes, holiedyddes, achwynwraig; hawlblaid.

Demarcation, } *s.* (Ysp. *demarcacion*) terfyn-
Demarkation, } iad, terfyn, ffiniad, rhaniad, parthiant, ffin, cyffin, cyffinlin, terfynlin, llinell ffin; tirbarthiad.

Line of demarcation—llinell ffin, cyffinlin, cyffinidlin.

Demarch, *s.* (Gr. *dêmarchos*) penswyddog plwyf yn Attica; pencordd: *pl.* demarchiaid.

Demarch, † *s.* (Ff. *démarche*) trawd, trodiad, cerddediad, mynediad.

Demean, *v. a.* (Ff. *démener*) ymddwyn, ymarweddu, ymarwedd, arweddu, agweddu, dwyn; trin.

To demean one's self—ymddwyn, ymarwedd, ymarweddu, ymagweddu; dwyn ei hun.

Demean, *v. a.* (*de* a *mean*) iselu, diraddio, iselhau, difrïo, dibrisio, darostwng, gwael ddarostwng.

To demean one's self—iselu ei hun, &c.; ymiselu, ymddibrisio; dibrisio ei hun; gwael ddarostwng ei hun; gwneuthur ei hun yn wael a dirmygus.

Demean, † *s.* ymddygiad, ymarweddiad, moes, agwedd.

Demeanour, *s.* (o *demean*) ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, moes, buchedd, buchwedd, bucheddiad; ymagweddiad; dull.

Good demeanour—ymddygiad da, ymarweddiad da, gwiwfoes, syberi.

Kingly demeanour — teyrnfoes, moes brenin.

Chaste demeanour—diweirfoes, ymddygiad diwair.

Demeanure, † *s.* = *Demeanour.*

Demembration, *s.* (Ll. *de* a *membrum*) dïaelodiad.

Demency, } *s.* (Ll. *dementia*) gwallgofrwydd,
Dementia, } gorphwylledd, gwallgof, gorphwyll, llerthedd, collbwyll, gwallsynwyr, lledfryd, lledfrydedd, gwallbwyll, penwendid, ffoledd.

Dementate, *a.* (Ll. *dementatus*) gwallgof, gorphwyllog, gorphwyllus, gwallgofus, llerth, ynfyd, lledfrydig, iwin.

Dementate, *v. a.* (Ll. *demento*) gwallgofi, gor-

phwyllo; gwneuthur yn wallgof, &c.; peri gorphwylledd.
Dementation, *s.* (Ll. *dementatio*) gwallgofiad, gorphwylliad, ynfydiad; gwneuthuriad yn orphwyllog; lledfrydedd, ynfydedd, gwallgofrwydd.
Demented, *a.* (o'r Ll. *demento*) gorphwyllog, gwallgofus, gwallgof.
Demephitization, *s.* (o *demephitize*) dad-ddrygsawriad; purad oddi wrth ddrygsawr, drewsawr, *neu* ddrewchwa.
Demephitize, *v. a.* (*de* a *mephitis*) dad-ddrygsawru; puraw o ddrygsawr; puraw o awyr afiach.
Demerge, *v. a.* (Ll. *demergo*) trochi, soddi, suddo; gyru i'r gwaelod; boddi, grawthu, cleigio.
Demerit, *s.* (Ff. *démérite*) anhaeddiant, anhaedd, dryghaeddiant, drwg haeddedigaeth, afryglyddiant, anrhyglyddiant.
Demerit, *v. a.* dryghaeddu, anhaeddu, afryglyddu; haeddu cosp *neu* gospedigaeth.
Demersed, *a.* (Ll. *demersus*) soddedig, suddedig, trochedig, boddedig, grawthedig; o dàn y dwr; yn tyfu tàn ddwfr.
Demersion, *s.* (Ll. *demersio*) trochiad, soddiad, suddiad, suddiant, soddiant, grawth, boddiad, bawdd; toddiad.
Demesne, } *s.* = { *Demain.*
Demain, } { *Demesne.*
Demi, (Ff. o'r Ll. *dimidium*; Gr. *semi*) rhagddawd arferedig mewn cyfansoddiad, yn arwyddo *hanner, go, lled.*
Demibath, *s.* (*demi* a *bath*) hanner baddon, hannerfadd, hannerfaddon.
Demibastion, *s.* hanner rhagfur, goragfur, lledragfur.
Demibrigade, *s.* hanner brigad, hanner torfas.
Demicadence,† *s.* lledoslef, goddisgynsain.
Demicannon, *s.* hanner cyflegr, gogyflegr, hannerfagnel.
Demicross, *s.* hannergroes = offeryn i fesur uchder yr haul a'r lloer.
Demiculverin, *s.* lledhirfagnel.
Demideify, *v. a.* goddwyfoli, godduwio, godduweiddio.
Demidevil, *s.* hanner diafol, hanner diawl, hanner cythraul, go-ddiafol; dieflyn, diawlyn, diawlddyn.
Demidistance, *s.* hannerbellder, gobellder, hanner pellder.
Demiditone, *s.* (*demi*, a Gr. *ditonos*) godrydydd, isdrydydd.
Demigod, *s.* godduw, hanner duw, hannerdduw, [lled-dduw.
Demigoddess, *s.* godduwies, hanner duwies.
Demigorge, *s.* hannerlwnc.
Demigrate, *v. n.* (Ll. *demigro*) mudo, ymfudo, ymmudo, trawsfudo, ymsymmud, newid trigias, preidio.
Demigration, *s.* (Ll. *demigratio*) mudiad, ymfudiad, ymmudiad, symmudiad, trawsfudiad, preidiad.
Demilance, *s.* hanner gwaew, hannerlost, hanner rheinen, hannerwaew, gobicell.
Demilune, *s.* hanner lleuad, hanner lloer, hannerlloer, lledloer, cilgant.
Demiman, *s.* hanner dyn, hannerddyn, lledddyn; adyn.
Demi-natured, *a.* hanner-anianog, hannernaturiog.
Demi-official, *a.* hannerswyddol, lledswyddol, lledswyddogol, go-swyddol.
Demipremises, *s. pl.* gogynseiliau.
Demiquaver, *s.* gogrychyn, gogrychnod, hanner crychyn, hanner crychnod.
Demirep, *s.* (*demi*, a thalfyriad o *reputation*) gofudrogen, gobuten, gobutan; benyw o nodwedd ammhëus.
Demirilievo, *s.* hannerraf, goddelwad.
Demisable, *a.* (o *demise*) cymmynadwy.
Demise, *s.* (Ff. *démis, démise*; Ll. *demissio*) marwolaeth, tranc, trancedigaeth; ymadawiad; rhoddiad i lawr; trosiad, trosglwyddiad, symmudiad, trosglwydd.
Demise, *v. a.* trosi, trosglwyddo; cymmynu, ewyllysio, cymmynroddi, gwyllysgedu, gadael; rhoi mewn ewyllys; rhentu allan.
Demisemiquaver, *s.* trygrychyn, trygrychnod, gorgrychyn, hanner gogrychyn.
Demission, *s.* (Ll. *demissio*) gostyngiad, iseliad, diraddiad; bwriad *neu* dafliad i lawr; dirmyg.
Demiss, } *a.* (Ll. *demissus*) gostyngedig, isel,
Demissive, } ufydd.
Demit,† *v. a.* (Ll. *demitto*) gollwng i lawr; iselu, iselhau, gostwng, darostwng; dirmygu.
Demitint, *s.* lledliw, lledwawr, hannerne, hannerliw.
Demitone, *s.* hannerton, hannersain, lledsain, [hanner tôn.
Demiurge, } *s.* (Gr. *dêmiourgos*, o *dêmios* ac
Demiurgus, } *ergon*) Dwyfadmer, Dwyfadmerydd; Demiurgus; gallu creadol, creallu.
Demiurgic, *a.* (Gr. *dêmiourgicos*) dwyfadmerol; perthynol i allu creadol; crealluol.
Demivill, *s.* (Ff. *demi* a *ville*; Ll. *villa*) gobentref, lled bentref, hanner pentref.
Demivolt, *s.* hannerllam, hannermaid, llednaid.
Demiwolf, *s.* hannerflaidd, hanner blaidd, goflaidd; bleiddgi, ciflaidd.
Democracy, *s.* (Gr. *dêmocratia*) gweriniaeth, gwerinlywiaeth, gwaerlywodraeth, gwerinlywodraeth, gwerinwladwriaeth, gwaerlywiaeth.
Democrat, } *s.* (o'r Gr. *dêmocratia*) gwer-
Democratist, } iniaethwr, gweriniaethydd, gwaerlywodydd, gwerinwladwr.
Democratic, } *a.* (Gr. *dêmocraticos*) gwerin-
Democratical, } iaethol, gwaerlywodraethol; perthynol i werinlywodraeth; poblogaidd.
Democraty,† *s.* = *Democracy.*
Demolish, *v. a.* (Ff. *démolir*; Ll *demolior*) dinystro, dinystrio, dystrywio, dymchwelyd; tynu, taflu, tori, *neu* fwrw i lawr; difrodi, dyfetha, andwyo, dadymchwelyd, dadadeiladu, dadadeilio, diadeilio, dryllio, adfeilio, anrheithio; gwneuthur yn garnedd; gwneuthur yn gydwastad â'r llawr.
Demolisher, *s.* dinystrydd, dinystrwr, dinystriwr, dystrywiwr, dymchwelwr, tynwr i lawr.
Demolishment, *s.* (o *demolish*) dinystr, dystryw, adfail, adfeiliad, dymchweliad, dadymchweliad.
Demolition, *s.* (Ll. *demolitio*) dinystriad, dinystrad, dystrywiad, dymchweliad, dadymchweliad; tyniad, tafliad, toriad, *neu* fwriad i lawr; dinystr, dystryw, adfail.
Demon, } *s.* (Gr. *daimôn*; Ll. *dæmon*; Ff.
Dæmon, } *démon*) cythraul; elfod, dwyfon; ysbryd da; ysbryd drwg, drygelfod, ellyll, elff.
Demon of war—buddugre, elfod rhyfel.
Demoness, *s.* elfodes, dwyfones; cythreules, elffes, ellylles.

Demoniac, } *a.* (Gr. *daimoniacos, daimonios*)
Demoniacal, } cythreulig; elfodol, dwyfonol;
Demonian, } meddiannedig gàn gythraul; gwedi ei feddiannu gàn ysbryd aflan; â'r ysbryd drwg ynddo; dieflig, diawlaidd, ellyllig.

Demoniac, *s.* cythreulig, gwanasiad, gwanasgiad; un cythreulig; un âg ysbryd drwg *neu* aflan ynddo; sach diawl: *pl.* cythreuligion, cythreuligiaid.

Demoniacism, *s.* cythreuligaeth, gwanasiadaeth.

Demoniacs, *s. pl.* Cythreuligion=cangen o'r Adfedyddwyr, y rhai a gredent y bydd y diafol, ar ddiwedd byd, yn gadwedig.

Demonianism, *s.* cythreuligaeth.

Demonism, *s.* elfodaeth, dwyfoniaeth, cythreulgred; geudduwiaeth.

Demonocracy, *s.* (Gr. *daimôn* a *crateô*) elfodlywiaeth, elfodlywodraeth, llywodraeth cythreuliaid.

Demonolatry, *s.* (Gr. *daimôn* a *latrêia*) cythreuladdoliaeth, cythreuladdoliad, elfodaddoliant, addoliad cythreuliaid.

Demonology, *s.* (Gr. *daimôn* a *logos*) cythreuliaeth, cythreuleg, elfodeg, treithawd ar gythreuliaid.

Demonomist, *s.* (o *demonomy*) deiliad cythraul, cythreul-ddeiliad.

Demonomy, *s.* (Gr. *daimôn* a *nomos*) cythreuloniaeth, elfodlywiaeth, llywodraeth cythreuliaid.

Demonship, *s.* cythreuldeb, cythreuldod, dwyfondod, dwyfondeb, cythreuligrwydd, elfodigrwydd.

Demonstrable, *a.* (o *demonstrate*) hybrawf, profadwy, dangosadwy, egluradwy, amlygadwy, hyglaer; à ellir ei brofi yn eglur; à ellir ei ddangos yn oleu; hawdd ei egluro.

Demonstrableness, *s.* hybrofedd; hawddineb i'w brofi; hyglaeredd; yr ansawdd o fod yn hybrawf, &c.

Demonstrate, *v. a.* (Ll. *demonstro*) arddangos, dangos, amlygu, damlygu, profi, tryddangos, goleufynegu, eglurhau, hysbysu, egluro, dirbrofi; dangos yn oleu *neu* yn amlwg; profi yn eglur *neu* ddïymwad.

Demonstrator, *s.* arddangoswr, arddangosydd, eglurydd, amlygwr, eglurhäwr.

Demonstration, *s.* (Ll. *demonstratio*) arddangosiad, arddangos, goleufynag, dangosiad, tryddangosiad, profiad, dirbrofiad, arbrofiad, damlygiad, eglurhad, amlygiad, dangos; prawf *neu* brofiad eglur a dïymwad; rheswm dïymwad; ymddïosfa; ymddangosiad.

Geometrical demonstration—arddangosiad meintonol, tryddangosiad medonol.

Ocular demonstration — arddangosiad golygol, arbrofiad llygadol, golygbrawf; prawf à welir â'r llygaid; prawf â'r llygaid.

Will you not be convinced by ocular demonstration?—oni chredwch chwi eich llygaid eich hun?

Demonstrative, *a.* (Ll. *demonstrativus*) arddangosol, dangosol, dangosiadol, dangosedigol, arddangosiadol, arddangosiadus; amlwg, eglur, dïymwad, dïammheuol, goleu; eglurhaol, eglurol, amlygol, damlygol.

Demonstrative pronoun—rhagenw dangosiadol, rhagenw dangosol, rhagenw cyfeiriadol, rhagenw dangos.

Demonstrativeness, *s.* arddangosoldeb, dangosoldeb, dangosiadolrwydd, amlygder, dïymwadrwydd.

Demonstrator, *s.* (Ll.) arddangosydd, arddangoswr, eglurhäwr, amlygwr, eglurydd, tryddangoswr.

Demonstratory, *a.* dangosiadol, arddangosol, arddangosiadol, dangosedigol, tryddangosol.

Demoralization, *s.* (o *demoralize*) anfoesoliad, dadfoesoliad, difoesoliad; llygriad egwyddorion moesol; llygriad moesau.

Demoralize, *v. a.* (*de* a *moralize*) anfoesoli, dadfoesoli, difoesoli; llygru *neu* andwyo moesau; gwneuthur yn anfoesol; llygru.

Demoralizing, *a.* andwyol i foesau *neu* i foesoldeb; anfoesolawl, dadfoesolawl, dadfoesol; llygriadol, andwyol; yn andwyo moesau.

Demotic, *a.* (Gr. *dêmoticos*) poblogaidd, poblog, poblig; pobaidd; perthynol i'r bobl; cyffredin, gwerinol, gwerinaidd.

Demotic alphabet—egwyddor boblogaidd, egwyddor werinol; egwyddor y werin *neu* y bobl.

Demulce, *v. a.* (Ll. *demulceo*) esmwytho, esmwythäu, lloddi, lleddfu, tyneru, meddalu, mwytho, tawelu, llinaru.

Demulcent, *a.* (Ll. *demulcens*) esmwythol, esmwythaol, tynerol, llinarol, llareiddiol, meddalhaol, meddalus, mwythol, llonyddol, lloddiadol, dofiadol, lleddfiadol; yn esmwytho, yn tyneru, &c.

Demulcent, *s.* cyffyr esmwythol *neu* linarol; esmwythor, esmwythai, mwythor, mwythai, tynerydd.

Demur, *v. n.* (Ff. *demeurer*; Ll. *demoror*) oedi, gohirio, addoedi; petruso, peuo, cyngydio, ammheu; gohirio dadl, oedi hawl; gwrthddadlu; aros, ymaros.

To demur to—bwrw ammheuaeth, ammheuon, *neu* anach yn erbyn; bwrw, gosod, *neu* ddodi yn erbyn.

To demur upon a thing—cyngydio; bod ar gyngyd; bod ar gynghor; ammheu, petruso, oedi.

Demur, *s.* oed, gohir, attreg, oediad, gohiriad, attregwch; gohir dadl, oed hawl, gorsaf cyfraith; petrusder, petrusedd, ammheuaeth, cyngyd, godrig.

Demur (in law)—gohir dadl, oed hawl, gorsaf cyfraith.

Demure, *a.* (o *demur*? Ff. *des mœurs*, yn ol y Dr. *Johnson*) gŵyl, gwylaidd, syber, yswil, llednais, gorchŵylus, gorwylaidd, gwyleddog, gwladaidd, mul, mulaidd, cynwyl, cynwylus, prudd, difrifol, difrif, dwys, sad; tawedog, disiarad, dywedwst, gwedwst, dystaw; prudd ei drem; yn edrych i lawr; yn gwneuthur wyneb hir; mursennaidd, mursenwedd, gwepddwys, gwefisych.

She looks so demurely, as if butter would not melt in her mouth—gellid meddwl wrth ei golwg na lyncai hi mo'r llefrith.

Demure,† *v. n.* edrych yn brudd, yn ŵyl, *neu* yn yswil.

Demureness, *s.* gwylder, gwyledd, gorchŵylaidd, syberwch, cynwyledd, lledneisrwydd, neisrwydd, mulder, muldra; rhithwyledd, murseneiddrwydd, mursendod; tawedogrwydd; pruddineb, difrifoldeb.

Demurrage, *s.* (o *demur*) gohirdal=tâl i feistr am oediad neu attaliad y llong dros yr amser penodedig.

Demurrer, *s.* (o *demur*) oedwr, gohiriwr, attregydd, attregwr, cyngydiwr; oed, gohir, attreg; gohir, gohiriad, oed, *neu* oediad dadl.

Demy, *s.* (Ff. *demi*) lledlen, lledanlen; gogymrawd, gofrodor, lledgymrawd, hanner cymrawd.

Demy of Magdalen college—gogymrawd coleg Magdalen (yn Rhydychain).

Demy paper—papyr lledlen, papyr llydanlen=papyr o ran maint rhwng y breninol a'r un coron, ac yn mesur 22 wrth 18 modfedd.

Den, *s.* (S. *den*, *dene*, *denn*) ffau, ogof, gogof, gwâl, gwalfa, twll, ceudwll, caf, godechfa, llech, llechfod, llechfan, llechfa, lloches, cuddfa, trigfan.

Lions' den—ffau llewod; ffau y llewod.

Den of thieves—ogof lladron.

Den, *v. n.* llochesu, ymlochesu, llechu, llechfodi; trigo mewn ffau, &c.

Denarcotize, *v. a.* (o *de* a *narcotic*) dadgysori.

Denarius, *s.* (Ll.) ceiniog Rufeinig=gwerth o ddeutu 7½*c.*

Denarius Sancti Petri—ceiniogau Pedr, ceiniogau Petr.

Denarius Dei—ceiniog Duw; arian briduw.

Denary, *a.* (Ll. *denarius*, o *deni*, deg) degol, deg, degaidd; à fo yn ddeg; degfed.

Denary, *s.* deg, degrif, y rhif deg.

Denationalize, *v. a.* (o *de* a *nation*) gwneuthur yn anghenelgarol; gwneuthur yn anwladgar; difuddiaw o nodwedd a defion cenedlaethol.

Denaturalize, *v. a.* (o *de* a *naturalize*) dadnaturioli, dadanianoli; dadfreinioli; dadryddfreinio; gwneuthur yn annaturiol.

Denay,† *s.*=*Deny*.

Denay,† *v. a.*=*Deny*, *v. a.*

Dendrachate, *s.* (Gr. *dendron* ac *achatês*) prenagat, prenfuchem, agat prenaidd, prysg-agat.

Dendrite, *s.* (Gr. *dendron* a *lithos*) prenfaen, prysgfaen, prysfaen; delfaen prysgaidd *neu* goedaidd; prysgfwn.

Dentritic, } *a.* prenfeinin, prenfeinig, prys-
Dentritical, } feinig, prysgfeinin; coedaidd, prenaidd.

Dendrography, *s.* (Gr. *dendron* a *graphô*)=*Dendrology*.

Dendroid, } *a.* (Gr. *dendron* ac *eidos*) prysg-
Dendroidal, } aidd, prysaidd, prysgoedaidd, manwyddaidd, prenaidd, prysgenaidd.

Dendroit, *s.* (Gr. *dendron*) cangenfaen, cangfaen.

Dendrolite, *s.* (Gr. *dendros* a *lithos*) delfaenwydd, delidgoed, delidwydd, maenbrysg.

Dendrology, *s.* (Gr. *dendron* a *logos*) coedyddiaeth, coedhanes, coedyddeg; hanes naturiol coed; treithawd ar goed.

Dendrometer, *s.* (Gr. *dendron* a *metreô*) coedfesur, coedfydrai, coedfeidyr=offeryn i fesur uchder a thryfesur coed.

Dendromus, } *s.* (Gr. *dendron* a *mus*) coedlygod
Dendromys, } =rhywogaeth o bedrybedion, priodol i Ddeheudir Affrig.

Dendronessa, *s.* (Gr. *dendron* a *nêssa*) coedhwyad, hwyad goed.

Dendrophis, *s.* (G. *dendron* ac *ophis*) coedsarff, sarff goed.

Denegate,† *v. a.* (Ll. *denego*) gwadu, nacäu, naghau, nagu.

Denegation,† *s.* (o *denegate*) gwad, gwadiad, nag, nacâd.

Dengue, *s.* (Ysp.) gwibgymmalwst.

Deniable, *a.* (o *deny*) gwadawy, hywad; à ellir ei wadu.

Denial, *s.* (o *deny*) gwad, gwadiad; ymwad; nag, nacâd, naghad, negyddiaeth, negyfiaeth, gomedd, pall, dywad; gomeddiad, llysiant, llysiad, llys, ymwadiad, gwrthodiad, negyddiad, dywediad; seithugrwydd, seithugiant; anghyfaddefiad.

Denial of one's self, } ymwadiad, hunan-
Self-denial, } wadiad, ymwad, hunan-ymwadiad, hunan-ymwad.

Complete denial—llwyrwad, gwad hollol, gwadiad hollol.

Plea of denial—dognwad.

Denied, *p. p.* gwadedig, &c.; anghyfaddef, anghyfaddefol.

Denier, *s.* (o *deny*) gwadwr, gwadydd, dywadwr; negydd, negyf, nagwr, nacäwr, naghäwr, pallwr, gomeddwr, ymwadwr, gwrthodwr.

Denier, *s.* (Ff. o'r Ll. *denarius*) ceiniog Ffreinig, ceiniog Ffrengig=y 240fed ran o'r bunt Ffreinig: nid yw yn awr ar arfer.

Denigrate, *v. a.* (Ll. *denigro*) duo, ardduo, gordduo; gwneuthur yn ddu.

Denigration, *s.* (Ll. *denigratio*) duad, arddnad, gordduad.

Denitration, *s.* (o *de* a *nitre*) dadflorad, dadflorsurad.

Denization, *s.* (o *denizen*) dinesyddiad, dinasyddiad; gwneuthuriad yn ddinesydd; rhyddfreiniad, breiniolad.

Denizen, *s.* (o'r C.) dinesydd, dinasydd, dinaswr, dinasddyn; alltud breinioledig, alltud breiniol, alltud rhyddfreiniol.

Denizen, *v. a.* dinesyddio, dinasyddio, breinioli, breinio, rhyddfreinio; gwneuthur yn ddinesydd; noddi.

Denizenship, *s.* (o *denizen*) dinesyddiaeth, dinasfraint; rhyddfraint.

Denominable, *a.* enwadwy, cyfenwadwy.

Denominate, *v. a.* (Ll. *denomino*) enwi; cyfenwi; rhoi enw i; galw, galw enw, rhoi enw; enwedigo.

Denomination, *s.* (Ll. *denominatio*) enw, cyfenw; enwad, cyfenwad, galwad; plaid.

The denominations of the christian world—enwadau *neu* bleidiau y byd cristionogol; enwadau cred.

Denominational, *a.* enwadol, cyfenwadol; pleidiol.

Denominative, *a.* (Ll. *denominativus*) enwadol, enwol, galwadol; galwedigol, enwedigol, cyfenwedigol.

Denominator, *s.* (Ll.) enwedydd, cyfenwai, enwydd; rhoddydd enw; rhoddydd yr enw.

Denotable, *a.* nodadwy, hynodadwy.

Denotation, *s.* (Ll. *denotatio*) nodiad, dynodiad, hynodiad, penodiad, arwyddiad, arwyddocâd.

Denotative, *a.* (o *denote*) dynodol, dynodiadol, nodol, hynodol, arwyddocaol.

Denote, *v. a.* (Ll. *denoto*; Ff. *dénoter*) dynodi, nodi, arwyddocäu, hynodi, darnodi; argoelio; bod yn argoel *neu* yn arwydd; arddangos, hysbysu, mynegu.

Denotement, *s.* (o *denote*) arwydd, nod, argoel; arwyddocâd, arwyddiad, dynodiad.

Denouement, *s.* (Ff.) dattraffaith, dadorchuddiad traffaith, dadhuddiad dyfais, dadorchuddiad cydamcan, dadhuddiad, dadorchuddiad.

Denounce, *v. a.* (Ll. *denuncio*; Ff. *dénoncer*) cyhoeddi, mynegu, dadgan, dywedyd ar gy-

hoedd; traethu yn fygythiol *neu* yn ddifrifol; hysbysu, dangos, adrodd, traethu, rhybuddio, arddadgan; bwgwth, bygythio, bygylu, mynasu, taranu, argyhuddo; achwyn.
To denounce wrath—taranu digofaint.

Denouncement, *s.* cyhoeddiad, traethiad, mynegiad, arddadganiad, taraniad, bygythiad; bwgwth, mynas, bwgwl, cyhuddrwydd.

Denouncer, *s.* cyhoeddwr; taranwr; traethwr bygythion; bygylydd; argyhuddwr.

Dens, *s.* (Ll.) dant; *pl.* daint, dannedd.

Dense, *a.* (Ff.; Ll. *densus*) tew, dwys, dwysedig, cynnwys, darddwys, cydwasgedig, cydwasg, cydwasgol, durfing, durfin, clwn, dargynnwysol, cryno, ffer, diwag.

Denseness, *s.* (o *dense*)=*Density*.

Density, *s.* (Ll. *densitas*) dwysder, tewedd, tewder, tewdra, cynnwysder, cynnwysedd, cydwasgrwydd, dwysineb, tewychedd, durfingder, durfinder, durfindra, durfingdra, clynedd, clynder, fferder, darddwysedd, crynoder, dwysogaeth.

Dent, *s.* (Ff.; Ll. *dens*; C. *dant*) bwlch, gwlf, rhygn, rhigol, minfwlch, tolc, pannwl, pant; dant, rhint; danneddiad, bylchiad; ergyd.

Dent, *v. a.* bylchu, gylfu, rhigoli, rhygnu; tolcio, pannylu; deintio, danneddu, minfylchu.

Dental, *a.* (Ll. *dentalis*) deintol, deintiol, danneddol; perthynol i'r dannedd.
Dental letters — deintlythyrenau, dantlythyrenau, llythyrenau deintiol, llythyrenau daint, deintolion.
Dental formula—deintffurf, deintnodiant, ffurf ddeintiol, ffurfeg ddanneddol, ffurf daint, ffurf dannedd.

Dental, *s.* deintlythyren, dantlythyren, llythyren ddeintiol, llythyren ddant: *pl.* deintolion.

Dental, Dentalium, } *s. pl.* (Ll. *dens*) deintlibogion.

Dentalite, Dentalithe, } *s.* (Ll. *dentalis*, a Gr. *lithos*) deintfaen, dantfaen.

Dentaria, *s.* (Ll. *dens*) deintlys.

Dentata, *s.* (Ll.) deintlain; ail gymmal tro y gwddf.

Dentate, Dented, } *a.* (Ll. *dentatus*) deintiog, deintog, danneddog.
Dentate-ciliate—deint-eiliog, deint-aelog.
Dentate-sinuate — deint-ystumiog, deintfachog.

Dented, *a.* (o *dent*) deintiedig, deintiog, danneddog, bylchog, rhiciog, rhintiog, manfylchog, rhigolog, pannylog, tolciedig.

Dentelli, *s. pl.* (It. *dentello*; o'r Ll. *dens*) deintwaith, danneddwaith, rhintwaith; deintellion.

Denticle, *s.* (Ll. *denticulus*) deintws, dentyn, deintig, dant bychan.

Denticulate, Denticulated } *a.* (Ll. *denticulatus*,) manddeintiog, manddanneddog, deintigog; deintellog.

Denticulation, *s.* (o'r Ll. *denticulus*,) manddeintiad, manddanneddiad, deintiad, danneddiad.

Dentiform, *a.* (Ll. *dens* a *forma*) dantaidd; ar lun dant.

Dentifrice, *s.* (Ff.; Ll. *dentifricum*) deintlwch, llwch dannedd; deintolch.

Dentile, *s.* (Ll. *dens*) manddant, dentyn, dant bychan.

Dentils, *s. pl.* (Ll. *dentes*) deintellion, dantarnau=deintwaith ar golofn Ionig, Corinthaidd, neu Gyfansawdd.

Dentirostrate, Dentirostral, } *a.* (Ll. *dens* a *rostrum*) bylchylfinog, deintylfinog, deintylfog.

Dentirosters, Dentirostres, } *s. pl.* (Ll. *dens* a *rostrum*) bylchylfiniaid, deintylfiniaid=rhywogaeth o glwydadar.

Dentist, *s.* (Ll. *dens*) deintydd, meddyg dannedd, deintfeddyg.

Dentition, *s.* (Ll. *dentitio*) danneddiad, deintiad, magiad dannedd, caffaeliad dannedd, caffad daint, deintfagiad; amser deintiad.

Dentize, *v.* (Ll. *dens*) deintyddu, deintio, trwsio dannedd, adnewyddu y dannedd.

Dentoid, *a.* (Ll. *dens*, a Gr. *eidos*) dantaidd; ar lun dant.

Denudate, Denude, } *a.* (Ll. *denudo*) noethi, dynoethi, dihatru, amnoethi; gwneuthur yn noeth.

Denudate, Denudated, } *a.* (Ll. *denudatus*) noeth, amnoeth, diflew, aflewog.

Denudation, *s.* (Ll. *denudatio*) noethiad, noethiant, dynoethiad, amnoethiad, dihatriad, dattuddiad.

Denunciate, *v. a.* (Ll. *denuncio*)=*Denounce*.

Denunciation, *s.* (Ll. *denunciatio*) cyhoeddiad, traethiad, treithiad, mynegiad, dadganiad, arddadganiad, taraniad, bygythiad; bwgwth, mynas, bwgwl; cyhuddrwydd.

Denunciator, *s.* cyhoeddwr, traethwr, taranwr, traethwr bygythion, bygythiwr, bygylydd, argyhuddwr.

Deny, *v. a.* (Ff. *dénier*; Ll. *denego*) gwadu, dywadu; nacäu, naghau, nagu, naca, gomedd, gomeddu, pallu, gwrthod, llysu; rhagu, gwrthddywedyd; cadw rhag; rhoi nag, pall, gomedd, *neu* wad; ymwadu âg, ymwrthod â.
To deny one's self — ymwadu, dymwadu, ymddywadu; gwadu ei hun; hunanwadu, hunan-ymwadu.
To deny what one has said—gwadu ei eiriau; dad-ddywedyd.
To deny ungodliness—gwadu annuwioldeb; ymwadu âg annuwioldeb.
To deny to do a thing—gwrthod, nacäu, gomedd, gomeddu, pallu, *neu* lysu gwneuthur peth.
To deny with an oath—gwadu drwy lw; tyngu mawr lw na, nad, *neu* nas; diöfrydu.
To deny fully — llwyrwadu; gwadu yn llwyr.
He denied me entrance — rhwystrodd fi i mewn; gomeddodd i mi fyned i fewn.
Whom before they denied to know — yr hwn a wadasent hwy o'r blaen eu bod yn ei adnabod (*Doeth.* xii. 27).
They denied the faith—gwadasant y ffydd.
He will not be denied—ni chymmer ball.

Deobstruct, *v. a.* (Ll. *de* ac *obstruo*) dadrwystro, dirwystro; rhyddhau oddi wrth rwystrau; rhyddhau ffordd; symmud rhwystrau; egori yr hyn a gauodd.

Deobstruent, *a.* (Ll. *de* ac *obstruens*) dadrwystrol, dadluddol, rhwystr-symmudol, rhwystr-symmud; agorol, egorol, agoriadol, egoriadol; rhyddhaol; à agoro yr hyn sy gauad; à ryddhao y ffordd; à symmudo rwystrau.

Deobstruent, *s.* agorai, egorai, agorgyffer, rhyddgyffer, agorbair, dadluddai: *pl.* agoreion, agorbeirion.

Deodand, *s.* (Ll. *Deo dandus*) dwyfrodd, dwyflwrw, duwinrodd, dïofrydbeth; camlwrw, dirwy=y peth à el yn ddirwy neu gamlwrw (megys march, men, &c.) am ladd dyn.

Deodorize, *v. a.* (Ll. *de* ac *odor*) disawru, dadsawru, disawyro, dadsawyro.

Deonerate, † *v. a.* (Ll. *deonero*) dadlwytho, dadfeichio.

Deontology, *s.* (Gr. *deon* a *logos*) dyledswyddeg, dyledswyddiaeth; gwyddor *neu* athrawiaeth dyledswyddau.

Deoppilate, *v. a.* (Ll. *de* ac *oppilo*) dadrwystro, dirwystro; symmud rhwystrau; digaregu; gwastadhau; glanhau ffordd.

Deoppilation, *s.* (o *deoppilate*) dadrwystrad, dirwystrad; symmudiad rhwystrau; digaregiad.

Deoppilative, *a.* dadrwystrol, dirwystrol, dadluddol, rhwystr-symmudol; agoriadol, agorol, egorol.

Deordination, †*s.* (Ll. *de* ac *ordinatio*) annhrefn.

Deosculate, † *v. a.* (Ll. *deosculor*) cusanu.

Deosculation, † *s.* (Ll. *deosculatio*) cusaniad.

Deoxidate, Deoxydate, Deoxidize, Deoxydize, *v. a.* (*de*, ac *oxidate* neu *oxydate*; o'r Gr. *oxus*) dadegrido, dïegrido; difuddiaw o egrid; difuddiaw o ufelai; tynu ufelai allan o beth.

Deoxidation, Deoxydation, Deoxidization, Deoxydization, *s.* (o *deoxidate*, &c.) dadegridiad, dadegridiant; tyniad ufelai allan o beth; difuddiad o egrid.

Deoxygenate, *v. a.* dadufelu, dadufeleio; difuddio *neu* ddifeddu o ufelai.

Deoxygenation, *s.* dadufeliad, dadufeleiad; difuddiad *neu* ddifeddiad o ufelai.

Depaint, *v. a.* (Ff. *dépeindre*, *dépeint*) paentio, darlunio, arlunio; dysgrifio, darnodi, gosod allan, tynu llun.

Depainter, *s.* (o *dépaint*) paentiwr, darluniwr, arluniwr, lluniedydd, arliwiwr.

Depart, *v. n.* (Ff. *départir*, *départ*) ymadael, ymadaw, ymado, ymadu; myned, myned ymaith; myned i *neu* ar gerdded; cilio, encilio; cerdded; cychwyn, debed, gadael, gadu, gadaw, gwahanu, edfyn; myned i ffwrdd; marw.

To depart from—ymadael o; ymadael âg, ymadaw â; myned, cerdded, dyfod, *neu* giliaw o, ymaith o, *neu* allan o; symmud, mudo; dïanc rhag; ymadaw, myned, myned ymaith; cilio, ymneilltuo, troi, *neu* ddychwelyd oddi wrth; gadaw, gadu; cefnu ar.

Treacherously to depart—cwympo, syrthio, *neu* lithro ymaith *neu* oddi wrth; anffyddloni.

To depart from the truth — cyfeiliorni, cilio, ymadaw, ymadael, *neu* droi oddi wrth y gwirionedd; ymadael, ymwadu, *neu* ymwrthod â'r gwirionedd; gadaw *neu* wadu y gwirionedd.

To give one leave to depart — cenadu ymadael; gollwng ymaith; gollwng.

To depart this life—ymadael *neu* ymadaw â'r byd; ymadaw *neu* ymadael â'r ysbryd; ymadael â'r fuchedd hon; ymadaw â'r bywyd hwn; marw, trengu.

Having a desire to depart—gàn fod genyf chwant i'm dattod (*Phil.* i. 23).

It is time to depart — madws yw ymadaw; mae yn bryd i ymadael; mae yn bryd ymadaw.

Depart, † *v. a.* gwahanu, rhanu, gadael.

Depart, † *s.* ymadawiad; tranc, marwolaeth; gwahaniad, gadawiad.

Departer, *s.* rhanwr; coethwr, coethydd, purwr.

Departing, *s.* (o *depart*) ymadawiad, mynediad, mynediad ymaith, cychwyniad; gwahaniad.

At the point of departing — ar ymadael; ar ymadaw â'r byd; ar drengu; ar dranc, ar drancedigaeth; ar ei dranc; ar fin trancedigaeth.

Department, *s.* (Ff. *departement*) lle, swydd, dyledswydd, swyddogaeth; dosbarth, dybarth; swydd neilltuol; swydd, lle, *neu* sefyllfa un ei hun; talaeth, rhandir, gwahandir, cyfrandir, trân; parthiant, rhan, cyfran, dosbarthran, dogn.

France is divided into 86 departments—rhenir Ffrainc yn 86 talaeth; Ffrainc a renir yn 86 o daleithiau.

Home department—dosbarth cartrefol.

Departmental, *a.* dosbarthol, rhandirol, cyfrandirol, ardalawl; perthynol i ddosbarth, i ran, *neu* i gyfran.

Departure, *s.* (o *depart*) ymadawiad, mynediad, mynediad ymaith, edfynt, edfyn; trancedigaeth, tranc, marwolaeth; gadawiad; ymadawiad â'r byd.

Depascent, *a.* (Ll. *depascens*) yn pori; poriadol, poriannol; maethol.

Depasture, *v. a.* (Ll. *depascor*) pori, porfelu, porfäu, poriadu; difa, ysu, bwyta; ysu *neu* ddifa drwy bori.

Depauperate, *v. a.* (Ll. *depauspero*) tlodi, llwmhau, tloduso; gwneuthur yn dlawd; peri yn dlawd; anffrwythloni, diffrwytho.

Depectible, *a.* (Ll. *depecto*) gwydn, glynol, tew.

Depeinct, † *v. a.* (Ll. *depingo*; Ff. *dépeindre*) paentio, darlunio.

Depend, *v. n.* (Ll. *dependeo*) ymddibynu, dibynu; bod yn nibyn; hyderu, goglud, gorphwys, pwyso, ymddiried, ymddiriedu, argredu; rhoi hyder, rhoi pwys, rhoi goglud; glynu, darlynu; hongian, crogi; bod yn nghrog.

To depend on *or* upon—ymddibynu ar, dibynu ar, hyderu ar, &c.; rhoi goglud, hyder, coel, *neu* bwys ar; gorphwys ar, ymorphwys ar, gobwyso ar, gorbwyso ar; ymddiried yn, gobeithio yn; bod â'i bwys, â'i hyder, *neu* â'i oglud ar; gorwedd ar; sefyll ar; bod *neu* orwedd ar law; bod yn sicr o; dibynu wrth; bod yn nibyn *neu* yn nghrog wrth; glynu wrth, darlynu wrth.

To be depending, To depend, bod mewn dadl; bod ar droed; bod heb ddarbyn barn; bod heb ei benu; bod ger bron yr ynad; bod o flaen y llys.

The cause is depending—y mae yr hawl yn awr mewn dadl.

It depends upon others to give us a good name—ar law *neu* ar ddwylaw ereill y mae rhoddi i ni air da.

Depend on it—gallwch fod yn sicr; gallwch ymddibynu arni; coeliwch fi; credwch fi; mi a warantaf i chwi.

Dependable, † *a.* (o *depend*) dibynadwy; à aller ymddibynu arno.

Dependence, Dependance, Dependency, Dependancy, *s.* (Ff. *dependance*) ymddibyniad, dibyniad, dibynrwydd, dibynoldeb; ymorphwysiad, goglud, hyder, pwys, ymddiried, go-

fynag, coel, gobaith, dysgwyliad, gorbwys; hyderiad, gorphwysiad, cynnaliad, cynnaliaeth; atteg, annel; cynghadwynad, cysylltiad; peth dibynol; tiriogaeth ddibynol, dibyn-wlad, dibyndir, talaeth, rhagwlad.

With all its dependencies—yn nghyd â'i holl berthynas-leoedd; gyda'i holl ddibyniaid; â'i holl daleithiau.

The earth and its dependencies—y ddaiar a'i dibynolion; y ddaiar a'i hymddibyniaid; y ddaiar a'r sawl a ymddibynant arni.

My dependence is on God's providence—yn rhagluniaeth Duw y mae fy ymddiried, fy ngoglud, *neu* fy hyder.

False dependence—camhyder, camddibyniad, hyder gau.

Dependent, } *a.* (Ff. *dependant*) ymddibynol,
Dependant, } dibynol, dibynog, ymddibyn; yn ymddibynu, yn dibynu; yn hongian, yn crogi, yn pwyso, yn gorphwys; â'i bwys ar; gobwysol, arlyniog, arlynol.

Dependent, } *s.* dibynwr, dibynydd, ymddibyn-
Dependant, } wr, ymddibynydd, dyn gosgordd,
Depender, } dyn dibyn, dyn ymddibyn.

Depending, *a.* (o *depend*) yn ymddibynu, &c.; dibynol; anmhenderfynol; heb ei benderfynu.

Deperdit, *a.* (Ll. *deperditus*) colledig, cyfrgolledig; ar ddifancoll, ar goll.

Deperdition, *s.* (*de* a *perdition*) colledigaeth, coll, difancoll, cyfrgoll, llwyr golledigaeth, dinystr.

Dephlegmate, *v. a.* (*de* a Gr. *phlegma*) annyfreiddio; dystyllio, ad-ddystyllio; tynu dwr o wirod *neu* surion.

Dephlegmation, *s.* (o *dephlegmate*) annyfreiddiad; dystylliad, ad-ddystylliad; tyniad dwr o wirod *neu* surion; cyngwasgu.

Dephlegmedness, † *s.* annyfredd, annyfreiddrwydd; yr ansawdd o fod heb ddwr ynddo.

Dephlogisticate, *v. a.* (*de*, a Gr. *phlogistos*) dadhyloagi, dadfflamegu; difuddiaw o'r dansawdd hylosg.

Dephlogisticated air—ufelai, nwy ufelai, awyr bywydol, bywyr.

Dephlogistication, *s.* dadhylosgiad, dadfflamegiad.

Depict, *v. a.* (Ll. *depingo, depictum*) darlunio, arlunio, arliwio, darliwio, paentio, delweddu, delwadu, arfelu, ardebu, dysgrifio, dylunio, gosod allan.

Depiction, *s.* (o *depict*) darluniad, arluniad, paentiad, arliwiad, delweddiad, dysgrifiad.

Depicture, *v. a.* (*de* a *picture*) darlunio, arliwio, paentio, delweddu, lliwio, arfelu, ardebu.

Depilate, *v. a.* (Ll. *depilo*) diwalltu, tynu gwallt; ginio, hifio; moeli.

Depilation, *s.* (Ll. *depilatio*) diwalltiad, diflewiad; tyniad ymaith wallt *neu* flew; giniad, hifiad; moeliad.

Depilatory, *a.* diwalltol; o rinwedd i dynu ymaith wallt *neu* flew; âg ynddo rinwedd i dynu ymaith wallt *neu* flew; moelnawsol.

Depilatory, *s.* hifgyffyr, blewgodai; plastr, eli, *neu* ryw gymhwysiad i godi blew.

Depilous, *a.* (Ll. *depilis*) diwallt, diflew; moel.

Deplantation, *s.* (Ll. *deplanto*) dadblaniad, dadblanigiad, diblanigiad; tyniad planigion o'u gwelyau.

Depletion, *s.* (Ll. *depleo*) dadlenwad, gwaghad, dysbyddiad, dyhysbyddiad, gwallawiad; gollyngiad gwaed, gwaediad.

Depletory, *a.* (Ll. *depleo*) dadlenwadol, dadlenwol, gwaghaol, dyhysbyddol.

Deplication, *s.* (Ll. *de* a *plico*) dadblygiad, diblygiad, dadblethiad.

Deplorable, *a.* (o *deplore*) gresynol, gresyn, gresynus, galarus, gofidus, gwiwgwyn, tosturus, tosturiol, tostur, adfydig, annedwydd, trist, athrist, truan, truenus, alaethus, wylofus, trwm, aele, graen, prudd, dybryd; i'w gwyno; i alaru am dano *neu* drosto; anobeithiol; isel, gwael, dirmygus.

Deplorableness, *s.* gresyndod, gresynrwydd, gresynoldeb, gresyni, gresynder, gresynolrwydd, trueni, truenusrwydd, aethusrwydd, annedwyddwch, gofid, trychineb, trychni, gwiwgwynedd, tristedd, prudd-der, gresyn, gresi, cyflwr truenus.

Deploration, *s.* (Ll. *deploratio*) cwynfan, cwyniad, cwynfaniad, cwynofaint, galariad, gresyniad.

Deplore, *v. a.* (Ll. *deploro*) cwyno, cwynfan, cwynofain, galaru, alaethu, tosturio, gofidio; ymofidio am *neu* dros; gresynu wrth, tosturio wrth.

Deploring, *s.* (o *deplore*) cwynfaniad, galariad, alaethiad, gresyniad.

Deploy, *v.* (Ff. *déployer*) arddangos, dadblygu, disblygu, egori, agor, dangos; gosod allan; estyn, lledu, taenu; lledu allan; ymagor, ymegori, ymestyn.

Deplumation, *s.* (o *deplume*) dibluad, diblufiad; pluad, plufiad.

Deplume, *v. a.* (Ll. *deplumo*) dibluo, diblufio; pluo, plufio; dibluori.

Depolarize, *v. a.* (*de* a *polarize*) dadbegynu; amddifadu o begyndyniad.

Depone, *v.* (Ll. *depono*) gwystlo, gwaesu, adneu, cyngwystlo; tystio ar lw; tystio.

Deponent, *a.* (Ll. *deponens*) gwaesafol; yn gosod i lawr; yn dodi i lawr.

Deponent verb—perwyddiad gwaesafol. berf waesafol=berf oddefol o ran ei ffurf, ond gweithredol o ran ei hystyr.

Deponent, *s.* gwaesafwr, gwaesafydd, gwaeswr; tystiwr, tyst, ardyst, tyst ar lw, tandyngydd; berf waesafol, gwaesafair.

Depopulate, *v.* (Ll. *depopulor*) dibobli, diboblogi; difrodi, diffeithio, anghyfanneddu, dadgyfanneddu, anrheithio, dinystro, dystrywio, ysbeilio, dattrefu, didrefu, llanastru; gwneuthur yn anghyfannedd *neu* anial; gwneuthur yn llanastr; myned yn ddibobl *neu* yn anghyfannedd.

Depopulation, *s.* (Ll. *depopulatio*) dibobliad, diboblogiad; anghyfanneddiad, dattrefiad, didrefiad, difrodiad, diffeithiad, anrheithiad; difrod, difrodaeth, hafog, anrhaith, dinystr, dystryw, difäedd, anghyfannedd-dra, anrheithiant.

Depopulator, *s.* (Ll.) difrodwr, difrodydd, anrheithiwr, anrheithydd, diboblwr, diffeithiwr, dattrefwr, anghyfanneddwr; cribddeiliwr.

Deport, *v. a.* (Ll. *deporto*; Ff. *déporter*) arweddu, arwedd, agweddu; cario, dwyn, trosglwyddo, dyborthi; ymddwyn, ymarweddu, ymarwedd, bucheddu, ymddygyd.

To deport one's self — ymddwyn, ymarweddu, ymarwedd, dwyn ei hun, ymagweddu.

Deport, *s.* ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, arweddiad, arwedd, buchedd, buchwedd, bucheddiad, moes.

Deportation, *s.* (Ll. *deportatio*) trosglwyddiad, trosglwydd, dyddygiad, trosiad, amgludiad, dyborthiad; alltudiaeth, alltrodiaeth, alltuddedd, alltudiad, deoliad, allwladiad, afwladiad.

Deportment, *s.* (Ff. *déportement*) ymarweddiad, ymddygiad, arweddiad, ymarwedd, arwedd, buchedd, buchwedd, bucheddiad, bucheddogaeth, moes, arymddwyn, arymddygiad, agweddiad.

Chaste deportment — ymddygiad diwair, diweirfoes.

Deposable, *a.* (o *depose*) diswyddadwy, difuddiadwy.

Deposal, *s.* (o *depose*) diswyddiad, difreiniad, difuddiad.

Depose, *v.* (Ll. *depono, depositum*; Ff. *déposer*) gosod, rhoi, *neu* ddodi i lawr; diswyddo, dïorseddu, dadorseddu; difreinio, difuddio, dïawdurdodi, diraddio, dïurddo, dadurddo; bwrw, troi, *neu* daflu allan o swydd; tystio, tystiolaethu, ardystio, tysttyngu, tyngu; tystio *neu* dystiolaethu ar lw; hôni, haeru, gwirio, *neu* sicrhau drwy lw; tystiolaethu, tystio, ardystio, *neu* ddywedyd ar ei lawgair; gwaesafu, gwaesu; gosod heibio; † cymeryd ymaith; †dihatru; †holi ar lw.

He was deposed from his kingly throne — efe a ddisgynwyd o orseddfa ei freniniaeth (*Dan.* v. 20).

Deposer, *s.* diswyddwr, diraddiwr.

Deposing, *s.* dïorseddiad, diswyddiad.

Deposit, *v. a.* (Ll. *depositum*, o *depono*) dodi, rhoi, *neu* osod i lawr; dodi, rhoi, rhoddi, gosod; adneu, gwystlo, gwaesu, gwaesafu, cyngwystlo, arwystlo; gadael, gadaw; rhoddi *neu* ddodi i gadw; dodi *neu* roddi i'w gadw; rhoddi yn nghadw; gosod yn llaw un; rhoi i fyny; rhoddi, dodi, rhoi, *neu* fwrw ymaith; ymddiried i; rhoi yn ngofal; gwaelodi, gwaddodi.

To deposit with one at interest — rhoddi ar log i un; rhoddi yn llog i un; gosod i *neu* gydag un ar log; gosod i *neu* gydag un yn llog.

To deposit a thing with one as a pledge *or* security — rhoddi *neu* roi peth yn ngwystl i un; rhoi peth yn wystl i un; gadaw peth yn *neu* ar wystl gydag un.

To deposit with one — rhoi yn adneu i un; rhoi i gadw at un.

Deposit, *s.* adneu, gwystl, cyngwystl, ernes, ern, gwaes, gwaesaf, adne, cnes, adnes, twnc, adneuaeth; y peth à ddoder i gadw; gwaddod, gwaelodiad; cadwfa, cysdodfa, cronfa: *pl.* gadawion, llorion.

In deposit — yn nghadw; yn wystl, yn adneu.

Depositary, *s.* (Ff. *dépositaire*; Ll. drosgl, *depositarius*) adneuwr, gwaesddaliwr, gwaesgeidwad; ymddiriedai, ymddiriedur, ceidwad, gwarcheidwad; yr hwn y rhoddir peth i'w ofal.

Deposition, *s.* (Ll. *depositio*) dodiad, gosodiad, rhoddiad, *neu* dafliad i lawr; adneuaeth, adneuad, adneuedd, addod, gwaesiant, gwaesafiant; diswyddiad, difreiniad, difuddiad, dïorseddiad, dadorseddiad, diraddiad, dadurddiad; bwriad *neu* dafliad allan o deyrngadair; gwthiad oddi ar orsedd *neu* freninfainc; symmudiad o'r freniniaeth; gwaddodiad; gwaelodiad; cymulliad; tystlw; tystiolaeth ar *neu* drwy lw; tystiad ar *neu* drwy lw.

To make a deposition upon oath — tystio ar lw; tystio drwy lw; tyngu.

Depositor, *s.* (o *deposit*) dodwr, gosodwr, addodwr, adneu-roddwr, rhoddwr adneu, &c.

Depository, *s.* (o *deposit*) ystorfa, ystorgell, ystordy, cronfa, cysdodfa, gwaesfa, gwaesfan, cysglawd, cysdotty, addod.

Depositum, † *s.* (Ll.) = *Deposit*.

Depôt, *s.* (Ff.) ystorfa, cronfa, ystorgell, ystordy; cadystorfa, ystorfa llu; ystordref, cysdottref.

Depravation, *s.* (Ll. *depravatio*) llygriad, gwaethygiad, gwaethâd; llygredd, llwgr, llygredigaeth, drygedd, drygioni, direidi, dirywiad, dirywiaeth, afrywiaeth, dadrywiad, dadrywiaeth; sen, † gogan.

Deprave, *v. a.* (Ll. *depravo*) llygru, gwaethygu, gwaethu, halogi, difwyno, diwyno, aflanhau, meflu, gwydio, anurddo, anaddfwyno; trawswyro, tragwyro; gwyraw oddi wrth ddaioni; †difrïo, goganu, difenwi.

Depraved, *a.* llygredig, halogedig, difwynedig; drwg, mall, beius, gwydus, gwydiog; gwyrog, gwyrdraws.

Depravedness, } *s.* (o *deprave*) llygredd, llygr-
Depravement, } edigaeth, llygredigrwydd, halogrwydd, halogedigrwydd, drygedd, drygioni, direidi, malledd, gwydusrwydd; gwyredd, trawswyredd.

Depraver, *s.* llygrydd, llygrwr, gwaethygwr, halogwr, difwynwr, anurddwr.

Depraving, † *s.* difenwad, difrïad, anmharchiad.

Depravity, *s.* (o *deprave*) llygredd, llwgr, llygredigaeth, llygredigrwydd, halogrwydd, halogedigaeth, drygduedd, drygedd, drygioni, direidi, gwydusrwydd; gwyredd, trawswyredd.

Deprecable, *a.* (o'r Ll. *depreco*) atolygadwy.

Deprecate, *v. a.* (Ll. *depreco*) adolwyn, atolygu, gweddïo, *neu* ymbil rhag; gwrthymbil, gwrtherfyn; adolwyn, atolwg, atolygu, adolwg, erdolwg, ymeiriol, eiriol, ymioli, ymhŵedd, ymbil, ymerfyn, erfynio, erfynied, ymbil, *neu* ymbilio nas bo *neu* nas gwneler; gweddïo, erfyn, crefu, deisyf, *neu* ddeisyfu yn erbyn; gweddïo nas del arnom ryw ddrwg; gweddïo yn erbyn drwg; ymioli â Duw rhag drwg; crefu, erfyn, dadolychu, eiriach, eiriachu, taergeisio; gofidio am; gofidio yn ddwys am; bod yn ddrwg genym am, *neu* o herwydd; bod yn wir ddrwg genym am.

Deprecation, *s.* (Ll. *deprecatio*) gwrthymbiliad, gwrtherfyniad; ymbiliad *neu* erfyniad nas bo *neu* nas delo y drygau à ofnom; ymbiliad, erfyniad, ymbil, dadolwch, eiriechaeth, gweddïad, ymhŵedd, atolygiad, esgusodiad, ymesgusawd, ymesgusodiad, deisyfiad, eiriolwch, eirioledd; gweddïad rhag; erfyniad maddeuant am.

Deprecator, *s.* (Ll.) gwrthymbiliwr, gwrtherfyniwr, ymbiliwr, erfyniwr, deisyfwr, eiriachwr, eiriachydd, atolygwr.

Deprecatory, } *a.* (o *deprecate*) gwrthymbiliol,
Deprecative, } gwrtherfyniol, dadolychol, ymbiliol, eiriachol, eiriachus; ymesgusodol, esgusodol, diheurol, esgusol; gweddïol; à dueddo i symmud *neu* i gadw drwy weddi.

Depreciate, *v.* (Ll. drosgl, *depretio*; Ff. *déprier*) bychanu, dibrisio, difrïo, dirmygu,

diystyru, tànbrisio; adwerthu, tànwerthu, rhedeg peth i lawr; lladd ar; rhedeg ar; lleihau gwerth; myned yn llai o werth; syrthio yn ei bris; difalio.

Depreciation, *s.* (o *depreciate*) bychaniad, dibrisiad, difrïad, dibrisiant, tànwerthiad; lleihad mewn gwerth; lladdiad ar beth; rhediad ar beth.

Depreciative, *a.* (o *depreciate*) bychaniadol, dibrisiol, difrïol, dirmygol, dïystyrol, dïystyrllyd, bychanllyd; yn bychanu, &c.

Depredate, *v.* (Ll. *deprædor*) anrheithio, difrodi, ysbeilio, ysglyfaethu; ysglyfio, ysglyfu, ysglyfied, ysgyfiu, ysgylfu, preiddio, dybreiddio; ysu, difa, dyfetha, dinystro, dinystrio, gwastraffu, arysglyfu, andwyo, ffleisio.

Depredation, *s.* (Ll. *deprædatio*) anrheithiad, anrheithiant, difrodiad, ysbeiliad, preiddiad, dybreiddiad, ysglyfiad, ysglyfiant, ysgyfliad; ysglyfaeth, ysbail, anrhaith, lladrad, rhaib, gwastraff, difrod, difrodaeth, difäedd, ysglyf, ffleisiad.

Depredator, *s.* (Ll. *deprædator*) anrheithiwr, anrheithydd, difrodwr, difrodydd, preiddiwr, dybreiddiwr, ysbeilydd, ysbeiliwr, ysglyfiedydd, ysglyfiwr, ysgyfiwr, difäwr, asgafaethwr, brigant, brigantiad, ffleisor.

Depredatory, *a.* (o *depredate*) anrheithiol, ysbeiliol, difrodol, preiddiol, dybreiddiol, ysbeilgar, ysglyfaethol, ysglyfiol, ysglyfiannol, ysglyfiadol, difaol, anrheithiog.

Deprehend, *v. a.* (Ll. *deprehendo*) dàl, dala; cael allan; dàl heb wybod; dàl ar y weithred; dadenhuddo, dadanhuddo, dadhuddo, dadguddio, dïachuddo, dïachluddo; cael trywydd ar; olrhain, olrheinio; cael allan wrth holi ac ymofyn.

Deprehensible, *a.* (Ll. *deprehendo*, *deprehensum*) daladwy, dadhuddadwy, dadguddiadwy.

Deprehensibleness, *s.* hyddaledd; y cyflwr o fod yn ddaladwy.

Deprehension, *s.* (Ll. *deprehensio*) daliad; daliad heb wybod; daliad ar y weithred; dadenhuddiad, dadanhudded, dadenhudded, dadguddiad, amlygiad, dïachuddiad, dïachluddiad; caffaeliad allan; olrheiniad allan; darganfyddiad.

Depress, *v. a.* (Ll. *depressus*, o *deprimo*) gwasgu, dàl, cadw, pwyso, dwyso, *neu* wthio i lawr; dàl tanodd; gostwng, iselu, iselhau, ystwng, pantu, gestwng, arlethu, goriselu, darostwng; bwrw, taflu, *neu* ddwyn i lawr; gwasgu; tlodi; digaloni, llyfrhau, trymhau, dybyrio.

Depressed, *p. p.* gwasgedig, darostyngedig, &c.; isel, llwfr, llwrf, prudd, dybyr, dybryd, dwys, trwm, trymllyd, trymdde, difrif, difrifol; gwedi ei wasgu i lawr, &c.

Depression, *s.* (Ll. *depressio*) iseliad, iseliant, gostyngiad, darostyngiad, goriseliad, iselhad, pwysiant, pwysiad; iselder, iseledd, iselni, ystwng; gwasgiad; daliad, gwasgiad, *neu* bwysiad i lawr; trymder, dybyrdod, dybryder, pruddineb, prudd-der, difrifwch, gwasgfa; dybyriad, pruddhad; pant, pantiad, pantedd.

Depressive, *a.* (o *depress*) iselhaol, iseliadol, gwasgol, gostyngol, goriselhaol, pwysiannol; dybyriol, pruddhaol, dybryderol, trymhaol, gorthrymol, rhy-ddwys; à dueddo i wasgu i lawr.

Depressor, *s.* (o *depress*) gwasgwr, iselhäwr, darostyngwr, gorthrymydd; gwasgwr *neu* dynwr i lawr; llethwr; llethgyhyr.

Deprimens, *s.* (Ll.) llethgyhyr; cyhyr à dyno lawr.

Depriment, *s.* (Ll. *deprimens*) gostyngiad, iseliad.

Deprivable, *a.* (o *deprive*) difuddiadwy, difeddiadadwy; dadurddadwy.

Deprivation, *s.* (o *deprive*) difuddiad, difuddiant, amddifadiad, difeddiad; diraddiad, dadurddiad; dygiad ymaith; dygiad oddi ar; amddifedi, ymddifedi, amddifadrwydd, difadrwydd, coll, colled, diffyg; ysbeiliad; anrheithiad; lluddiad.

Deprive, *v. a.* (Ll. *de* a *privo*; Ff. *priver*) difuddio, amddifadu, difeddu, difeddiannu; dwyn oddi ar; tynu *neu* gymmeryd oddi wrth; ymddifadu, difadu, gweddwi; digyfoethi; dïarfu; ysbeilio, anrheithio; lluddio, rhwystro; rhyddhau; dïetifeddu, didreftadu; toli.

To deprive an heir—dïetifeddu, didreftadu; difuddio un o'i dreftad *neu* etifeddiaeth.

To deprive of life—dïeneidio, lladd, dwyn bywyd; difuddiaw o fywyd.

To be utterly deprived of—amrygolli; colli yn hollol; difuddiaw yn dryglwyr.

God hath deprived her of wisdom—ni roddes Duw iddi ddoethineb (*Iob* xxxix. 17).

Deprived, *a.* difuddiedig, &c.; amddifad, ymddifad, gweddw; diswydd.

Deprivement, *s.* (o *deprive*) difuddiad, difuddiant; amddifedi, amddifadrwydd, difuddiedigrwydd.

Depriver, *s.* difuddiwr, difeddwr, difeddiannydd, amddifadydd.

Depth, *s.* (o *deep*) dyfnder, dyfnedd, dyfndra, dyfnawd, dwfn, gorddyfnder, gorddwfn; isder, iselder; eigion, yr eigion, y cefnfor, y weilgi; llynclyn, anoddyn, noddyn, affwys, sawdd; trwch; canol, cefnaint; astrusi, aneglurder; callder, cyfrwysder.

The depth of winter—dyfnder gauaf, canol gauaf.

The depth of night—dyfnder nos, cefnaint nos, canol nos, trymder nos.

The depth of a battalion—trwch cadfagad; dyfnder cadfyddin.

Swallowing depth—llynclyn ceufawr, llyn a noddyn, llynclyn, caddugiyn, ceufa, morgerwyn, llyn tro, llyn tröedig, pwll tro.

Depthen,† *v. a.* (o *depth*) dyfnhau.

Depthless, *a.* (o *depth* a *less*) diddyfnder, heb ddyfnder; bas.

Depulse, *v. a.* (Ll. *depulso*) cilgwthio, ymlid, gyru ymaith, gwthio ymaith.

Depulsion, *s.* (Ll. *depulsio*) cilgwthiad, gyriad ymaith, gwthiad ymaith, ymlidiad, hengiad; gwthiad i ffwrdd.

Depulsory, *a.* (o *depulse*) yn gyru *neu* wthio ymaith; cilgwthiol, ymlidiol, hengol, ymeithiol; yn rhoddi heibio; ysgoawl.

Depuration, *s.* (Ll. *depuratio*) purad, puriant, purawd, dyburad, coethiad, glanhad, pureiddiad.

Depurate, *v. a.* (Ff. *dépurer*; Ll. *depurgo*) puro, dyburo, coethi, teru, glanhau, dïanmhuro, pureiddio.

Depurate, *a.* pur, puredig, coeth, coethedig.

Depuratory, *a.* (o *depurate*) purol, puriannol, puriannus, dyburol, glanhaol, pureiddiol, puredigol, pureiddiedigol, coethol, dïanmhurol.

Depuratory fever—twymyn ddyburol.

Depure,† *v. a.*=*Depurate.*

Deputation, *s.* (Ff. ac Al.; o *depute*) cenadwri, cenadwriaeth, cenadiaeth, cenadaeth, negesyddiaeth, dirprwyaeth, cynnrychiolaeth; anfoniad, danfoniad, dirprwyad; anfoniad dros arall; anfoniad cenad *neu* genadon; anfoniad dirprwywr, dirprwywyr, cynnrychiolwr, *neu* gynnrychiolwyr; dirprwywr, cenad, cenadwr, cynnrychiolwr; dirprwywyr, dirprwyaid, dirprwyon, anfonedigion, cynnrychiolwyr; cenadon; dirprwy; awdurdod, *neu* warant dirprwywr *neu* raglaw; etholiad, cyfetholiad.

Depute, *v. a.* (Ll. *deputo;* Ff. *députer*) dirprwyo, cenadu; anfon yn genad *neu* yn ddirprwywr; anfon yn lle *neu* dros arall; rhoddi, gosod, *neu* wneuthur yn ddirprwywr; anfon yn genad drosto; gorchymyn gorchwyl i; gosod *neu* roi trinïaeth gorchwyl *neu* fater ar; gosod ar ryw wasanaeth; gosod ar un i wneuthur; gosod i un wneuthur; gosod dàn *neu* dros; rhoi swydd, llywodraeth, *neu* oruchwyliaeth i; rhoi *neu* osod un tano *neu* yn ei le; anfon, penodi, gosod, enwi, ethol, cyfethol.

There is no man deputed by the king to hear thee—nid oes neb dàn y brenin à wrandawo arnat.

Deputize, *v. a.* (o *deputy*) gosod *neu* benodi dirprwywr *neu* genad; penodi *neu* osod rhaglaw; dirprwyo; rhoi gallu i weithredu dros.

Deputy, *s.* (Ff. *député;* Ll. *deputatus*) rhaglaw, dirprwywr, prwyadur, rhagswyddog, rhaglofydd, rhaglyw, rhaglywiad, cenad, cenadwr, negeswr, negesewr, negesewr, tannorth; rhag-.

Deputy governor—rhaglyw, rhaglofydd, rhaglywiad, rhaglywiadur, rhaglywiawdwr, rhaglywiadwr, rhaglaw brenin, rhaglaw talaeth.

Lord deputy—arglwydd raglaw, rhaglofydd, arglwydd raglyw, rhaglywiawdwr.

Deputy sheriff—rhagsirydd, rhaglaw sirydd, tannorth sirydd.

Dequantitate, *v. a.* (Ll. *de* a *quantitas*) lleihau swmp; lleihau.

Deracinate, *v. a.* (Ff. *déraciner*) diwreiddio, dadwreiddio; tynu o'r gwraidd; dinystrio.

Deraign, } † *v. a.* (Norm. *derener*, *dereigner*,
Derain, } *deraigner*, *derainer*) profi, sicrhau, cadarnhau; cyfiawnhau; amddiffyn; ymddiheuro.

Deraignment, } *s.* (o *deraign*) profiad, cadarn-
Derainment, } had; cyfiawniad; prawf; annhrefn.

Derange, *v. a.* (Ff. *déranger*) annhrefnu, afreoli, dyrysu, methlu, ffeigio; bwrw allan o drefn; anmhwyllo, pendroni, gwallgofi, penwanu; diswyddo, symmud.

Derangement, *s.* (o *derange*) annhrefn, afreoledd, annhrefniad, annhrefniant, afreolaeth, dyrysiad, methliad, methledd; dyryswch, gwallgofrwydd, anmhwyll, ymleferydd, penwendid, marwerydd, penysgafnder, pendrondod, lledfrydedd, annhrefn pwyll.

Deray,† *s.* (Ff. *dérayer*) annhrefn, terfysg, cythrwfl, cyffro; sarllach.

Dere,† *v. a.* (S. *derian*) niweidio.

Derelict, *a.* (Ll. *derelictus*) gadawedig; gwedi ei adael.

Derelict, *s.* peth gadawedig *neu* wrthodedig; gadlydbeth, peth gadaw; tir gadaw; gadyttir, tir gadael.

Dereliction, *s.* (Ll. *derelictio*) gadawiad, gwrthodiad, llwyr adawiad, ymadawiad; ymadawiad âg, ymwrthodiad â; ciliad oddi wrth.

Deric, } *s.* (?) chwerfanddal (ar fwrdd
Derick, } llong).

Deride, *v. a.* (Ll. *derideo*) gwatwar, gwatwor, gwatwaru, gwawdio, mocio, mocian, chwerthin am ben, chwerthin gwatwar; chwerthin gwatwar ar *neu* wrth; minganu ar; gwepian, dirmygu, tremygu, ffoli, ffylio, dyfalu; gwneuthur gwawd o.

Derider, *s.* gwatwarydd, gwatwarwr, gwatworwr, gwatworydd, gwawdiwr, gwawdydd, mingamwr, dirmygwr, chwarddwr am ben; ysgentyn, gwas digrif, crocsan.

Derision, *s.* (Ll. *derisio*) gwatwariad, gwatworiad, gwatworad, gwawdiad, mociad, mingamiad, chwerthiniad, dirmygiad; gwatwar, gwatwor, gwawd, dirmyg, tremyg, gwep, moc; cyff gwawd, cyff cler, gwatwargyff, gwatwarnod, gwawdgyff; gwatwargedd.

I was a derision to all my people—gwatwargerdd oeddwn i'm holl bobl (*Galar.* iii. 14).

Derisive, } *a.* (Ll. *derideo*, *derisum*) gwatwar-
Derisory, } us, gwatworus, gwatwarol, gwatwargar, gwawdus, dirmygus, mociol, duchanus.

Derisiveness, *s.* gwatwarusrwydd, gwatworusrwydd, gwatwaroldeb, gwatwargarwch, gwawdusrwydd.

Derivable, *a.* (o *derive*) deilliadwy, hanadwy, tarddadwy; à ellir ei olrhain o'i ddechreu; à ellir cael ei ddechreuad; a ellir ei dynu, ei hanu, *neu* ddeillio.

Derivate, *s.* (Ll. *derivatus*) gair hanedig, tarddedig, *neu* ddeilliedig; tarddair, deillair, gair tardd; *pl.* hanedigion, tarddedigion, deilliedigion, adlawiaid, hanolion.

Derivate, *v. a.* (Ll. *derivo*) tarddu, deillio, hanu.

Derivation, *s.* (Ll. *derivatio*) tarddiad, haniad, deilliad, tarddiant, hanedigaeth, hanawd; haniaeth, tarddedigaeth, han; tadogaeth; disgyniad; dygiad i waered o'r dechreuad: dygiad i lawr o lygad y ffynnon; troad; troad o'r neilltu; goferiad; olrheiniad o'r *neu* i'r fan lle tardd.

Derivation of words—tarddiad, haniad, hanedigaeth, *neu* ddeilliad geiriau; geirdarddiad, geirhaniad, geirhaniaeth, geirdarddiant, geirdardd; tadogaeth geiriau.

Derivative, *a.* (Ll. *derivativus*) hanedig, tarddedig, deilliedig, tarddiadol, deilliadol, deilliol, haniadol, hanol, tarddiannol, tarddol; disgynedig; adlawiadol; à dyner, à gymmerer, à darddo, à hano, *neu* a ddeillio o beth arall.

Derivative word—gair hanedig, &c.

Derivative, *s.* gair hanedig, tarddedig, deilliedig, tarddiadol, deilliadol, *neu* haniadol; tarddair, deillair, hanedair, gair tardd,

haniadair; haned, peth hanedig: *pl.* hanedigion, tarddedigion, deilliedigion, tarddolion, adlawiaid, hanolion.

Derivatively, *ad.* yn hanedig, &c.; trwy ddisgyniad *neu* darddiad.

All is originally from God, and derivatively by means—y mae y cyfan yn deilliaw o Dduw, megys y ffynnon, a thrwy foddion, megys y goferau, y rhed dyfroedd y ffynnon hyd atom ni; mae y cyfan yn ddechreuol o Dduw, ac yn darddiadol drwy foddion.

Derivativeness, *s.* hanedigrwydd, tarddedigrwydd, deilliedigrwydd, tarddoldeb, deilliadoldeb, hanolrwydd, hanoldeb, tarddiannoldeb.

Derive, *v.* (Ll. *derivo*) tarddu, deillio, deilliaw, hanu; tynu o; dwyn o; tynu oddi wrth; hanu, tarddu, deilliaw, *neu* hanfod o; dyfod o *neu* allan o; dwyn i lawr; olrhain o'r *neu* i'r gwreiddyn *neu* ddechreuad; tyfu o; troi, gwyro; troi *neu* dywys o; troi, tywys, arwain, *neu* dynu i; goferu, tarddiannu; dyfod; amdanynu; cael.

To derive words — tarddu, deillio, *neu* hanu geiriau; chwilio *neu* olrhain tadogaeth geiriau; geirdarddu, geirhanu; olrhain geiriau i'w gwraidd; tynu geiriau oddi wrth y naill i'r llall; cael *neu* olrhain tadogaeth geiriau.

To derive one's original—cael *neu* gymmeryd ei ddechreuad; hanu, tarddu, deillio, disgyn; cael ei dadogaeth.

To derive profit — cael budd, lles, *neu* ennill; derbyn lles.

Derived, *p.p.* hanedig, tarddedig, deilliedig; gwedi tarddu, &c.

Deriver, *s.* tarddwr, deilliedydd, hanydd.

Derm, Derma, Dermis, } *s.* (Gr. *derma*) gwirgroen, y gwir groen, isgroen; croen, y croen.

Dermal, Dermatic, Dermatine, } *a.* (Gr. *derma, dermatos*) croenol, croenaidd; o groen; perthynol i'r croen.

Dermaptera, Dermapterans, } *s.* (Gr. *derma* a *pteron*) croenadenogion, croenadeinion, croenadeiniaid.

Dermatine, *s.* (Gr. *derma*) croenfaen.

Dermatography, *s.* (Gr. *derma* a *graphô*) croenddysgrifiaeth; darluniad difyniadol o'r croen.

Dermatoid, *a.* (Gr. *derma* ac *eidos*) croendebyg, croendebygol; tebyg i groen ac heb fod yn groen.

Dermatology, *s.* (Gr. *derma* a *logos*) croenyddiaeth; treithawd ar y croen a'i anhwylderau.

Dermoid, *a.* (Gr. *derma* ac *eidos*) croenaidd.

Dermoskeleton, *s.* (Gr. *derma* a *sceleton*) croensygerbwd, croen-ysgrud.

Dern,† *a.* (S. *dearn*) unig, unigol; tern, tryn, creulawn; prudd, trist.

Dernful,† *a.* prudd, trist, athrist, tristlawn, galarus.

Dernier, *a.* (Ff.) olaf, diweddaf; terfynol.

Dernier resort—noddfa ddiweddaf.

Derogate, *v.* (Ll. *derogo*) bychanu, lleihau, difrïo, iselu; tynu *neu* gymmeryd oddi wrth; lleihau gwerth, gwerthfawredd, gwerthfawrogrwydd, parch, bri, clod, *neu* gymmeriad; toli anrhydedd, cymmyredd, cymmeriad, *neu* glod; anmherchi, anurddo; gwaradwyddo, hortio, gwarthruddo; tynu gwaradwydd *neu* ddïanrhydedd; dirymio, dirymu, eiddilo; rhedeg ar; lladd ar; cymmeryd ymaith; tolio, toli; dirywio *neu* giliaw oddi wrth.

Derogation, *s.* (Ll. *derogatio*) bychaniad, iseliad, iselhad, lleihad, difrïad, anfrïad, gwarthruddiad, hortiad, enllibiad; anmharch, gwaradwydd, dïanrhydedd, mefl, gwarth, athrod, anghlod, drygair, anurddas; lleihad gwerth, gwerthfawredd, gwerthfawrogrwydd, *neu* gymmeriad; toliad, toliant, *neu* dawl anrhydedd; dirymiad; toliad; dirywiad.

Derogatoriness, *s.* bychanusrwydd, anmharchusrwydd, bychanoldeb; gwarth, anfri, anmharch.

Derogative, Derogatory, } *a.* (Ll. *derogatorius*) bychanol, bychanus, bychaniadol, anmharchus, difrïol, anfrïol, gwaradwyddus, dïanrhydeddus, gwarthus, anurddasol; er anfri, er anmharch; à leihao werth, bri, *neu* glod; yn tynu oddi wrth; à ddwg *neu* à bair fefl *neu* anghlod.

This is no ways derogatory to his honour—nid yw hyn er un math o anghlod iddo; ni thawl hyn mo'i anrhydedd yn y mesur lleiaf; ni thawl hyn mo'i glod yn y radd leiaf.

Derrich, Deric, } *s.* (?) chwerfanddal (ar fwrdd llong).

Dervis, Dervise, Derwish, } *s.* (o'r Per.; Ff. *derris, derviche*) derwys, *pl.* derwysiaid=monach neu offeiriad Tyrcaidd.

Descant, *s.* (Ysp. *discant, discantar;* Al. *discant; dis*, a Ll. *canto*) treithawd, traethawd, treithiad, traith; hirchwedl i egluro berchwedl dywell; dadl, dadleuad, sylw, sylwad, sylwadau, ymadrodd, ymresymiad; pynciad, cynghaniad, cynghan, cynghanedd, cyweirgan, cyweirdon; celfyddyd cyfansoddi cerdd yn rhanau; treithalaw; amgylchiaith.

A descant on the creation—traethawd ar y greadigaeth.

To sing descant—pyncio.

Descant, *v. n.* treithu, traethu, treithodi, ymadroddi; sylwi, beirniadu, barnu, sylwadu; gwneuthur sylwadau amryw; pyncio, cynghanu, arbyncio, cyweirleisio.

Descanter, *s.* treithydd, traethwr, sylwedydd, ymadroddwr.

Descanting, *s.* sylwad, nodiad, treithiad; amcaniaeth, amcan, dychymyg.

Descend, *v.* (Ll. *descendo*) disgyn, disgynu, disgynial; gostwng, gostyngu, darddisgyn; myned *neu* ddyfod i lawr; myned *neu* ddyfod i waered; ymostwng; hanu, tarddu, deilliaw, dyfod; disgyn o; myned, syrthio.

To descend from, To be descended from, } disgyn o, dyfod o, deilliaw o, tarddu o, hanu o, tyfu o, hanfod o; arwain ei ach o.

Thou art descended from kings—o freninoedd y'th hanwyd; henaist o freninoedd.

To descend to particulars—dyfod at neilltuolion; dyfod at bethau neilltuol *neu* benodol; enwi pob peth ar ei ben ei hun; disgyn at bethau neilltuol; enwi bob yn un ac un.

To descend on a town—rhuthro ar *neu* i dref; gwneuthur rhuthr *neu* gyrch ar

dref; disgyn ar dref; dyfod am ben tref.

To descend into one's self—disgyn iddo ei hun; myned i mewn iddo ei hun.

To be descending—disgynial.

Descending clock—orlais disgynol, cloc disgynol.

Descendant, *s.* (Ff.; Ll. *descendens*) disgynydd, adian; un o hil, &c.: hil, hiliogaeth, epil, epiledd, essill, essillydd, essillt, essilltydd, essillyd, addon, addonwy, bragad, had, disgyniaid.

A descendant of his, } un o'i hil; un
One of his descendants, } o'i hiliogaeth; un o'i ddisgyniaid, &c.

We are all the descendants of Adam—hiliogaeth Adda ydym ni oll; o Adda y disgynasom, yr hanasom, *neu* y deilliasom ni oll.

Descended, *p. p.* disgynedig; hanedig, tarddedig; deilliedig; à ddisgynodd; gwedi disgyn.

Well-descended—o waed da; o waedogaeth dda; o waedoliaeth dda; o rieni addwyn *neu* gymmeradwy; glanryw, gwiwryw, gwaedol; da ei ach; da ei waed; boneddig; yn dyfod o dylwyth *neu* deulu da; diledach, diledryw.

Nobly-descended, } uchelryw, dyledogryw,
Of noble descent, } pendefigryw, diledryw, diledach; boneddig cynnwynol; boneddig o waed; pendefigol o waed; pendefigaidd, pendefigol; gwedi hanu o bendefigion; o uchel achau; uchel ei achau; uchel ei waed.

Descendent, *a.* (Ll. *descendens*) disgynol; hanol, tarddol, deilliol; yn disgyn.

Descendibility, *s.* (o *descendible*) disgynedd, hyddisgynedd, disgynoldeb.

Descendible, *a.* (o *descend*) disgynadwy; à ddichon ddisgyn; hanadwy, deilliadwy, tarddadwy.

Descension, *s.* (Ll. *descensio*) disgyniad, disgynedigaeth, darddisgyniad; disgynfa; mynediad *neu* ddyfodiad i lawr; cwympad.

Descensional, *a.* disgyniadol, disgynedigol.

Descensive, *a.* (o'r Ll. *descendo, descensum*) disgynol, disgynfaol; yn disgyn; disgynadwy.

Descensorium, *s.* (Ll. *descensus*) ffyrnes fferyllol.

Descent, *s.* (Ff. *descente;* Norm. *discent;* Ll. *descensus*) disgyniad, disgynedigaeth; disgynfa, gorwaered, llechwedd, gwaered, llethr, gogwyddfa, gorwaered; rhuthr, cyrch; cwympad; ach, bonedd, ystlynedd, gwaed, achwaed, gwaedogaeth, gwaedoliaeth, llinach, gwelygordd; rhyw a rhieni; gradd cenedl, cenedlaeth; tarddiad, haniad, hanedigaeth, deilliad; hil, hiliogaeth, epil, epiledd, disgyniaid; gradd, achres, achlin; achau.

Good descent—bonedd.

Mean descent—lledach, lledryw, anfonedd.

To make a descent on a country—rhuthro ar *neu* i wlad; gwneuthur rhuthr *neu* gyrch ar wlad; disgyn ar wlad; gwneuthur disgynfa ar wlad; dyfod am ben gwlad; disgyn am ben gwlad; goresgyn gwlad.

Describable, *a.* (o *describe*) darluniadwy; à ellir ei ddarlunio.

Describe, *v. a.* (Ll. *describo*) darlunio, dysgrifio, dynodi, gosod allan, dylunio, darddullio, dadgan, arddangos, mynegu, amlygu, egluro, adrodd; tynu llun, llunio, llunweddu; dyfalu; ysgrifenu; dosbarthu, rhanu; argraffu; gwneuthur, gwneyd; arwyddnodi.

To describe a circle—gwneuthur cylch, tynu cylch, llunio cylch, dysgrifio cylch.

To describe an angle — ongli, elino; gwneuthur ongl, llunio elin.

To describe a line—tynu llinell, gwneuthur llinell, darlunio llinell, llinellu.

Describent, *s.* (o *describe*) dysgrifai, dysgriflin.

Describer, *s.* darluniwr, dysgrifiwr, darluniedydd, darluniawdr, dysgrifiedydd, arddulliwr, darddulliwr, darluniawdwr, dyfalydd; gosodwr *neu* osodydd allan; mynegwr, dadganwr, adroddwr, craffwr.

Describer of the earth—daiarydd, daiargraffydd; darluniwr *neu* ddysgrifiwr y ddaiar.

Descrier, *s.* (o *descry*) canfyddwr, darganfyddwr, canfodwr, dadenhuddwr, caffaeliwr.

Description, *s.* (Ll. *descriptio*) darluniad, dysgrifiad, dysgrifiaeth, darnodiad, dynodiad, dyfaliad, arddulliad, llunweddiad, tyniad llun; gosodiad allan, arddangosiad, dadganiad, mynegiad, adroddiad; dosbeniad; agweddiad, dosbarthiad, dosbarth, argraff, ysgrifeniad, ysgrifiad; dull, bath, math, nodwedd, nodweddiad.

Description of the earth—daiaryddiaeth, daiargraffiaeth; darluniad *neu* ddysgrifiad y ddaiar.

Description of a country — broddosbarth, partharluniaeth, partharluniad, broddarluniad, broddysgrifiad, brograffiad, brograffyddiaeth; darluniad gwlad.

Descriptive, *a.* (Ll. *describo, descriptum*) darluniol, darluniadol, dysgrifiol, dysgrifiadol, arluniog.

Descriptive poetry—prydyddiaeth ddarluniol, barddoniaeth ddarluniadol; dyfalgerdd.

Descriptive poem—dyfalgan, dyfalgerdd, cân ddarluniadol, cerdd ddarluniol.

Descriptiveness, *s.* darlunioldeb, darluniolrwydd, dysgrifioldeb, dysgrifiolder.

Descry, *v. a.* (Norm. *descrier, discriver*) canfod, darganfod, gweled, selu; chwilio, fforio, ysbeio, peithori; cael allan, caffael, cael; cael allan wrth edrych *neu* chwilio; amlygu, dadguddio, annirgelu, dadhuddo; dirnad.

Descry, *s.* canfyddiad, canfodiad, gwelediad, darganfyddiad, seliad, sel, caffaeliad allan; peth canfodedig.

Desecrate, *v. a.* (Ll. *desecro*) digyssegru, anghyssegru; halogi; diurddo, dadurddo; troi o ddybenion cyssegredig.

Desecration, *s.* (o *desecrate*) digyssegriad, anghyssegriad; halogiad; diurddiad, dadurddiad.

Desert, *a.* (Ll. *desertus*) diffaeth, anial, anghyfannedd, anghyfanneddol, gwyllt, annhrefedig, anialog, didrefol, diboblog, gwag, gores, goresog, didref, didryfedig, didryf, didryfol, attrefol, attrefedig, didrain, amddifad, heb drigolion.

Desert place—diffaethle, anialfan, anghyfanneddle, didryfle, diffaethfa, anialwch, anial, &c.

To make desert — diffaethio, diffeithio,

anghyfanneddu; gwneuthur yn ddiffaeth, &c.

Desert, *s.* (Ll. *desertum*) diffaethwch, diffeithwch, diffaeth, anialwch, anial, diffaethle, diffaethfa, anialfan, anialdir, dyserth, diffaethdir, gwyllt, (*pl. t.* oedd), tir anial, tir diffaeth, lle anial, lle diffaeth, anghyfanneddle, lle anghyfannedd, attref, gwylltir, tir gwyllt, didryf, didryfle.

Desert, *v.* (Ll. *desertus*, o *desero*; Ff. *déserter*) gadael, gadaw, gadu, gado; ymadaw â; gwrthod; cilio, encilio; ymadaw *neu* giliaw oddi wrth; bradgilio; ymadaw, ymadael; ffoi ymaith; rhedeg ymaith; troi ei gefn ar; myned ar gil; myned ar ffo.

Deserted village—pentref anghyfannedd; trefiau anghyfannedd; llan anghyfannedd.

Desert, *s.* (o *deserve*) haeddiant, haedd, haeddedigaeth, teilyngdod, rhyglyddiant, rhyglyddiad, rhyglydd, (*pl. t.* on, au), gobryn, efrllid, rhyglyddawd; gwobryn, arobrid, arobryn; gwobr, gobr.

Without desert—heb ei haeddu; heb ei ryglyddu; yn anhaeddiannol, yn ddihaeddiant, yn ddïachos; ar gam; heb haeddiant, &c.

Desert, *s.* (Ff. *dessert*)=*Dessert.*

Deserter, *s.* ffoadur, ciliwr, enciliwr, ciliad, (*pl.* ciliaid), cilydd, ciliadur, ymadäwr, ymadawydd, bradgiliwr, bradgilydd, ffoawdr, ymwrthodydd; bradog, bradwr, gwrthryfelwr; à ymadawo â'i blaid ac à gilio at arall.

Desertful, *a.* (*desert* a *full*) haeddiannol, rhyglyddol, haeddol, haeddiannus, rhyglyddus, rhyglyddiannus, rhyglyddiannol, haeddedigol.

Desertion, *s.* (Ll. *desertio*) ymadawiad, enciliad, ciliad, gadawiad, bradgiliad, cil, encil, ffoad, ffoawd; ymwrthodiad; ymlithr oddi wrth ei blaid; ciliad at y gelyn.

Desertless, *a.* dihaeddiant, anhaeddiannol, anhaeddol, anhaeddiannus, anhaeddedigol, afryglyddol.

Desertrice, } *s.* (o *deserter*) ffoadures, ciliadures,
Desertrix, } cilyddes, enciles, ymadawes; dynes à gilio.

Deserve, *v.* (Ll. *deservio*) haeddu, rhyglyddu, teilyngu, dirper, dirperu, gobrynu, gwobrynu, dyrllyddu; ennill, ynnill; bod yn deilwng; bod yn deilwng, yn wiw, *neu* yn haeddiannol o.

This deserves our utmost diligence—mae hyn yn gofyn ein diwydrwydd eithaf.

Thou deservest this honour—teilwng wyt o'r anrhydedd hwn.

Deserved, *p. p.* haeddedig, &c.; haeddiannol, haeddedigol, rhyglyddus, teilwng, dyledus, iawn, cyfiawn, gwiw, cywiw, hywiw, addas, cymhwys, cymmesur.

Deservedly, *ad.* yn haeddiannol, yn haeddedig; trwy haeddu, trwy ryglyddu.

Deserver, *s.* (o *deserve*) haeddwr, haeddiannydd, teilyngwr.

Deserving, *a.* (o *deserve*) rhyglyddus, haeddiannol, haeddol, rhyglyddol, rhyglyddfawr, haeddiannus, rhyglyddiannus, teilwng, teilyngol, dyrllyddol, dyrllydd; mawr ei haeddiant; à haeddo; yn haeddu.

Deserving honour — haeddbarch, gwiwbarch.

Deserving, *s.* haeddiant, haeddad, haedd, haeddedigaeth, rhyglyddawd, teilyngad, rhyglyddiad, rhyglyddiant, teilyngdod.

Deshabille, *s.* (Ff.) anwisg, llaeswisg, dadwisg, dattrws, boreuwisg, boreuwisg laes, llaesbais.

Desiccant, *a.* (Ll. *desiccans*) dysychol, sychol, sychiannol, sychiadol, yn sychu.

Desiccant, *s.* dysychydd, sychydd, sychor, sychgyffyr; meddyginiaeth yn sychu clwyf.

Desiccate, *v.* (Ll. *desicco*) dysychu, sychu, sychiadu; myned yn sychu.

Dessication, *s.* (Ll. *desiccatio*) dysychiad, dysychiant, sychiad, sychiant.

Desiccative, *a.* (Ll. *desiccativus*) dysychol, sychol, sychiannol; à sycho; à ddichon sychu; o rinwedd *neu* allu i sychu.

Desiderate, *v. a.* dymuno, eidduno, chwennych, chwennychu; hiraethu *neu* awyddu am; bod âg eisieu; colli; hiraethu am beth absennol, dirgel, *neu* annadguddiedig.

Desideratum, *pl.* Desiderata, *s.* (Ll.) dymunolbeth, dewisbeth; chwennychbeth; peth i'w ddymuno; peth i'w chwennych; chwennychiad.

Desidiose, *a.* (Ll. *desidiosus*) segur; dïog, swrth, musgrell.

Design, *v. a.* (Ll. *designo*; It. *designare*; Ff. *désigner*) bwriadu, amcanu, arfaethu, meddylio, meddylied, meddwl, gofrydu, arfeddu, arfedd; dyfeisio, dychymygu, dychymyg, arfelu, cynllunio, braslunio, amlinellu, darlunio, tynu cynllun; llunio, llinellu; goddeu; bod yn ei fryd; bod yn ei feddwl; bod ar oddeu, ar gyngyd, *neu* ar feddwl; gosod, penodi; anturio.

Design, *s.* bwriad, amcan, arfaeth, arfeddyd, arfedd, meddwl, bryd, cyngyd, goddeu, gofryd, addug, dyben; dyfais, dychymyg, arfel, darlun; cynllun, cynddelw, dull, ffurf, llun, rhagfwriad; perwyl; anturiaeth.

Schools of design—ysgolion arfel.

Evil design—bwriad drwg, drygfryd.

He has a design on the estate—y mae ei olwg, ei fryd, *neu* ei fwriad ar yr etifeddiaeth.

I had a design to go thither—yr oedd yn fy mryd fyned yno; arfaethwn fyned yno.

Designable, *a.* amcanadwy, arfaethadwy; dynodadwy.

Designate, *v. a.* (Ll. *designo*, *designatum*) dynodi, gosod allan, nodi allan, arwyddo, arwyddocäu, nodi; penodi, gosod, gosodi, appwyntio; dosbarthu; arddangos, dangos.

Designate, *a.* penodedig, gosodedig, arfaethedig; gwedi ei benodi.

Bishop designate—esgob penodedig, esgob arfaethol.

Designation, *s.* (Ll. *designatio*) dynodiad, dynodiant, amlygiad, arddangosiad, dangosiad, penodiad, gosodiad, ordeiniad, arfaethiad; arfaeth, bwriad, amcan; amcaniad, arfwriad; trefniad, hyfforddiad, cyfarwyddiad; darluniad; arwyddocâd, arwyddiad, arwyddhad.

Designative, *a.* dynodol, dynodiadol, arwyddocaol, arwyddol, arwyddhaol, arwyddocäus, arwyddedigol, darluniadol; dangosol, mynegol; à fo yn dangos, hysbysu, *neu* arwyddocäu; à osodo; à benodo; arfaethol.

Designator, *s.* (Ll.) cyfrestrydd, cyfeistyddiwr, meistr y chwareuon.

Designedly, *ad.* yn fwriadol; o wir waith goddeu; o'r gwaith goddeu; o wir waith

oddeu ; o wir fwriad ; o wir berwyl ; o lawnfryd ; o ragfwriad ; o fwriad ; trwy fwriad ; o'i fodd ; yn wirfoddol.

Designer, *s.* bwriadwr, amcanwr, arfaethwr ; dyfeisiwr. cynlluniwr, lluniedydd, arfelydd, arfelwr, dychymygwr, cynddelwr.

Designfulness, *s.* (o *design* a *full*) llawnder bwriad, arfaeth, *neu* gynllun ; arfaethlonder.

Designing, *a.* cyfrwys, cyfrwysgall, dichellgar, twyllodrus, twyllgar, hocedus, bradus ; dyfeisgar.

Designing, *s.* bwriad, amcan, arfaeth ; cynllun, arfel, dyfais, cynddelw ; cynlluniad, arfeliad, dyfeisiad, cynddelwad ; brasgynllun, darluniad.

Designless, *a.* dïamcan, difwriad, dïarfaeth, anarfaethol, disylw, anofalus.

Designment, *s.* (o *design*) bwriad, amcan, arfaeth, cyngyd, meddwl. goddeu ; cynllun, brasluu, arfel, cynddelw ; darluniad, llunweddiad, dysgrifiad, llinelliad.

Desinence, *s.* (Ll. *desinens*) diwedd, terfyn, gorphen, diweddiad, terfyniad, paid.

Desinent, *a.* terfynol, diweddol ; eithaf, eithafus ; isaf, iselaf.

Desipient, *a.* (Ll. *desipiens*) oferol, gogusol, chwareol, chwarëus ; ffol, ynfyd ; gwagsaw.

Desirable, *a.* (o *desire*) dymunadwy ; dymunol, gwiwgais, ceiswiw, eiddunol, hoff, hyfryd, hawddgar, boddus, boddwych, dewisig, dewisol, chwennychol, gwych ; i'w ddymuno.

Most desirable things—gorhoffion ; pethau mwyaf dymunol.

Desirableness, *s.* dymunolrwydd, dymunoldeb, dymunolder, dymundeb, hyfrydwch, hyfryddedd, dewisoldeb.

Desire, *s.* (Ff. *désir*) dymuniad, dymuniant, damuniad, damuned, dymuned, dymuneb, eiddued, chwant, awydd, ewyllys, gwyllys, gwyllyschwant, ainc, dyhewyd ; serch; puch, puchiant, rhybuch, afar, hiraeth ; gofyniad, gofyn, cais, erfyn, erfyniad, arch, gweddi, deisyfiad, myn ; gwynfyd.

Inordinate desire — trachwant, blys, chwant, dirchwant ; chwant *neu* ddymuniad afreolus.

Ardent desire, } awydd, ainc, chwant, blys,
Earnest desire, } awyddfryd, dirchwant, argyllaeth, adgyllaeth, taer ddymuniad, taer awydd, puchiant, rhybuchiant, mawr awydd, hiraeth.

Hearty desire — meddylfryd calon ; dymuniad calon ; dymuniad calonog.

Humble desire—ymbil, iawl, eiriawl, eirioled, dymuniad gostyngedig.

Mutual desire—cydchwant ; dymuniad o bobtu.

Carnal desire—chwant y cnawd, chwant cnawdol, cnawdolfrys, cnodchwant, cnawdwylltrwydd.

Wanton desire—serch anllad, dymuniad trythyll, anlladserch, chwant anllad, anlladchwant, dyre, tesach.

Evil desire — dymuniad drwg ; chwant drwg, drygchwant.

Excess of desire—gorchwant, gorfyn, gorawydd, gorfrys.

According to one's desire — wrth fodd calon un ; yn ol dymuniad un ; yn ol meddwl *neu* ewyllys un ; wrth wŷn un.

Having an inordinate desire—blysig, trachwantus, chwantachus.

The desire of all nations—dymuniant yr holl genedloedd.

Desire, *v. a.* dymuno, dymuned, chwennych, chwennychu, ewyllysio, gwyllysio, eiddunо, damuno, damuned ; blysio, chwantu, mynu, hiraethu am, awyddu am, awyddu, darchwantu, pucho, caru ; gofyn, ceisio, deisyf, deisyfu, erfyn, erfynio, erchi ; dymuno ar ; dywedyd am dàn.

I desire no more—digon yw genyf ; mae yn ddigon genyf ; nid wyf yn dymuno rhagor.

He desires to see you—y mae arno chwant i'ch gweled ; mae arno chwant eich gweled ; y mae efe yn dymuno eich gweled.

To desire earnestly, } trachwennychu, tra-
To desire ardently, } chwennych, rhybucho, blysio, awyddu ; dyhëu am ; bod yn fawr ei awydd am.

More to be desired—gwell ; mwy dymunol, mwy dewisol, dymunolach.

Let him desire what he likes—dymuned à ddymuno.

Desired, *p. p.* dymunedig, chwennychedig, &c., hawddgar, hygar, dymunol.

Desired to come—gwahoddedig.

Desireless, *a.* (*desire* a *less*) diddymuniad, dïawydd, dichwant ; heb ddymuniad.

Desirer, *s.* dymunwr, damunwr, eiddunwr, eiddunur, ewyllysiwr, gofynwr, gofynydd, deisyfwr, deisyfydd, dymuniedydd, erfyniwr.

Desiring, *p.* yn dymuno, gàn chwennychu, &c.; chwannog, awyddus.

Desirous, *a.* (o *desire*) chwannog, awyddus, blysig, hiraethus, hiraethog ; yn dymuno.

Desirous of — chwannog i, awyddus i, blysig i ; hiraethus am, hiraethog am, awyddus am ; yn dymuno am.

Desirous of learning—chwannog i ddysg ; yn chwennych dysg.

Desirous to learn—awyddus i ddysgu.

Desirous of vain-glory—gwag-ogoneddgar.

Being affectionately desirous of you—gàn eich hoffi chwi (1 *Thess.* ii. 8).

To be desirous—bod yn chwannog *neu* awyddus ; chwennych, chwennychu, dymuno, ewyllysio, deisyfu, ceisio ; bod yn chwennych, yn dymuno, *neu* yn ewyllysio.

Be not desirous of his dainties—na ddeisyf *neu* na chwennych ei ddanteithion ef ; na fydd chwannog *neu* awyddus i'w ddanteithion.

He was desirous to see him—yr oedd yn chwennych, yn ewyllysio, *neu* yn dymuno ei weled ef ; awyddai am ei weled ; dymunai ei weled.

Desirousness, *s.* chwannogrwydd, awyddusrwydd, blysigrwydd ; chwant, awydd.

Desist, *v. n.* (Ll. *desisto*) peidio, ymattal, gadaw, gorphwys, gorphwyso, dysbeidio, rhoi heibio, ymbeidio, seibio ; sefyll yn llonydd ; aros, sefyll.

Let us desist—peidiwn.

To desist from—peidio â ; gadael i ; ymattal oddi wrth.

Desistance, *s.* (o *desist*) peidiad, paid, peidiant, dysbaid, dysbeidiad, tawl, toliant, gad, ymattaliad, ymattal, seibiad, seibiant.

Desitive,† *a.* (Ll. *desitus*) terfynol, diweddol, cloawl.

Desk, *s.* (Is. *disch;* S., D., a Sw. *disc;* Al. *tisch;* Ll. *discus;* Gr. *discos*) osgfwrdd, cistfwrdd, ysgrifenfa, ysgrifenfwrdd; darllenfa; areithfa.

Reading desk—darllenfa, darllenfwrdd.

Writing desk—ysgrifenfa, ysgrifgist, ysgrifenfwrdd, cistfwrdd ysgrifenu, ysgrifengist.

Desk, *v. a.* argau mewn cist; cistio; trysori.

Desmine, *s.* (Gr. *desmê*) math o ddelidfaen à geir yn llosgwy llosgfaloedd, yn benaf ar lanau yr afon Rhein.

Desmology, *s.* (Gr. *desmos* a *logos*) gewyniaeth, clymeineth; treithawd ar glymeion a gewynau.

Desolate, *a.* (Ll. *desolatus*) anghyfannedd, anghyfanneddol, annhrigiannol, annhrefedig, didrefol, didrigolion, heb drigolion, attrefol, attrefedig, didref, didryfedig, anrheithiedig, anial, diffaeth, anneddwag, disathr, dïymsathr, difrodedig; gwedi ei adaw; unig, anddifad, gweddw, dïamgeledd, digarad, digynnorthwy; noeth, llwydwedd, cystuddiog.

Desolate place—anghyfanneddle, diffaethwch, lle anghyfannedd, lle anial, lle unig, anialwch, anialfan, diffaethle, diffaethfa, didryfle.

To make desolate=*Desolate, v. a.*

To make thy land desolate—i wneuthur dy dir yn orwag (*Ier.* iv. 7).

Desolate, *v. a.* (Ll. *desolo, desolatus*) anghyfanneddu, diffaethio, diffeithio, anialu; gwneuthur yn anghyfannedd, &c.; difrodi, anrheithio, difwyno, llanastru, didrefu, dibobli, diboblogi, didryfu, dïanneddu, difa, dinystrio, dyfetha, dystrywio; gwneuthur yn ddifrod *neu* anrhaith; amddifadu o drigolion.

Desolately, *ad.* yn anghyfannedd, &c.

Desolateness, *s.* anghyfannedd-dra, anghyfanneddrwydd, anghyfanneddwch, annhrigiannoldeb, anialder, difrod, anrhaith, dinystr, amddifadrwydd, unigrwydd.

Desolater, *s.* anghyfanneddwr, difrodydd, anrheithiwr, dinystrydd, rhebydd.

Desolation, *s.* (Ll. *desolatio*) anghyfanneddiad, diffeithiad, anrheithiad, anrheithiant, dyfethiad, difrodiad, difrodiant, difrodaeth; difrod, anrhaith, dystryw, dinystr, hafog; anghyfannedd-dra, anghyfanneddrwydd, anghyfanneddwch; diffaethwch; amddifadrwydd, unigrwydd, pruddineb, tristwch.

The abomination of desolation—y ffieiddra anghyfanneddol (*Mat.* xxiv. 15).

To bring to desolation—anghyfanneddu, anrheithio, &c.; gwneuthur yn anghyfannedd.

Babylon is become a desolation — aeth Babilon yn ddiffaethwch (*Ier.* l. 23).

Desolatory, *a.* (Ll. *desolatorius*) anghyfanneddol, anrheithiol, difrodol, difrodiadol; à baro anghyfannedd-dra.

Despair, *s.* (Ff. *désespoir;* Ll. *despero*) anobaith, dïobaith, gwanobaith, anhyder, gwangred, gwanffydd, digalondid, anymddiried.

Despair, *v. n.* anobeithio, dïobeithio, gwanobeithio, gwangredu, gwanffyddio, anhyderu, digaloni, gwangaloni, anghredu, diddarbodi; llaesu yn ei feddwl; bod yn ddïobaith.

Despaired of—anobeithiol, dïobaith, heb obaith o hono *neu* am dano; dïobaith o hano; à roddwyd i fyny; gwedi ei roddi i fyny.

I despair of his recovery—yr wyf yn anobeithiaw o'i welliant; yr wyf yn anobeithio am *neu* yn nghylch ei wellad; nid oes genyf mo'r gobaith o'i wellhad.

Despairing of his health—gàn anobeithio ei iechyd (2 *Mac.* ix. 18).

Insomuch that we despaired even of life—hyd onid oeddym yn ammheu cael byw hefyd (2 *Cor.* i. 8).

Despairable, *a.* anobeithiadwy.

Despairer, *s.* anobeithiwr, anobeithydd, gwanobeithiwr.

Despairful, *a.* (*despair* a *full*) anobeithlawn, anobeithiol, dïobaith.

Despairingly, *ad.* yn anobeithiol, yn ddïobaith, heb obaith; yn llwfr, yn brudd, yn isel, yn ddwys.

Despairingness, *s.* anobeithioldeb, anobeithiolrwydd, anobeithiogrwydd; anobaith.

Despatch, } *v. a.* (Ff. *dépêcher;* Ysp. a Port.
Dispatch, } *despachar*) brysio, prysuro, dyfrysio, ffrystio, llwybro, llwybreiddio; anfon *neu* yru ymaith; anfon, danfon, gyru; cyflawnu, dybenu, gorphen, gorphenu, cwblhau; dwyn i ben; tynu pen ar; marwolaethu, lladd, dïeneidio, dïenyddu, tori; lladd yn ddïattreg, yn ddïoed, *neu* yn ddïohir; gwneuthur ar ffrwst; gwneuthur; tynu llaw oddi wrth.

Despatch,† *v. n.* ymdrafod; trin a gorphen.

Despatch, } *s.* brys, dyfrys, prysurdeb, cyf-
Dispatch, } lymdra, brysiad; rhwyddineb, rhwydd-deb; parodrwydd, esgudrwydd; brylythyr, brysiar; brysneges; cenad, brysgenad; cenadwri; gorpheniad; †triniad.

Make quick despatch—brysiwch, dyfrysiwch; talmwch.

He makes no despatch—nid yw efe yn gwneuthur dim llwybr; nid oes dim llwybr ganddo ar ei waith.

Despatcher, } *s.* brysiwr; lladdwr, dïenyddwr;
Dispatcher, } anfonydd ar negesau neilltuol.

Despatchful, } *a.* bryslawn, brysiog, brysgar,
Dispatchful, } dyfrysgar, dyfrysiog; cyflym, esgud, gweisgi.

Despection, *s.* (Ll. *despectio*) edrychiad i lawr; dirmygiad, tremygiad.

Desperado, *s.* (o *desperate*) dyn ynfyd-ddewr, dyhiryn dïobaith, adyn dïobaith, ynfyddewryn, gorphwyllwr, direidwas, diriedwas, ffrochydd, dyn gorphwyllog, ffyrnigddyn; dyn dibris; cidymwr; dyn na waeth ganddo beth à ddaw o hano *neu* beth à wnelo; dyn na waeth ganddo gael na cholli; dyn colledig *neu* gyfrgolledig.

Desperate, *a.* (Ll. *desperatus*) anobeithiol, dïobaith, anobeithlawn, heb obaith; byrbwyll, ehud, ffrochwyllt, ffroch, ynfyd, ynfyddewr, gwylltnaws, cynddeiriog, ffyrnig, gwythlawn, gorwyllt; ynfyd gàn anobaith; drwg cynnwynol, drwg dïobaith, diriaid, ysgeler; angerddol, enbyd, peryglus, creulawn, achys, dibris; drwg dros ben; colledig.

A desperate fellow=*Desperado.*

I am in a desperate case—yr ydwyf mewn cyflwr peryglus.

Desperate sorrow — dolur gofidus (*Esa.* xvii. 11).

To grow desperate—myned yn ddiddarbod, yn ddïobaith, yn ddibris, *neu* yn ysgeler, &c.; myned yn ddigywilydd ac yn ddïarbed mewn drygioni; ymröi i ddiraarwydd cyhoeddus; myned na waeth ganddo pa beth à wnelo na pha beth à ddelo o hano.

Desperately, *ad.* yn anobeithiol, yn ddïobaith, yn fyrbwyll, &c.

Desperately wicked—drwg dïobaith.

He is desperately in love—y mae efe yn ddirfawr *neu* yn anfeidrol mewn cariad; y mae efe dros ei ben a'i glustiau mewn cariad; y mae efe ar farw o gariad.

He is desperately sick—y mae efe yn glaf enbyd; y mae efe yn glaf ddïobaith.

They are desperately in debt—y maent dros y pen a'r clustiau mewn dyled; y maent yn ddwfn iawn mewn dyled; y maent mewn dyled hyd eu llygaid; y maent yn ddyled hyd eu llygaid.

Desperateness, *s.* gorwylltedd, gwallgof, gorphwyll, gwallgofrwydd, ynfyd anobaith, ynfydrwydd anobaith, gwallbwyll, cynddeiriogrwydd, ffyrnigrwydd, dibrisdod, cynddaredd, angerdd, tanbeidrwydd, creulonedd, hyder, gwylltnaws; byrbwylledd, ehudrwydd, chwidredd; enbydrwydd, peryglusrwydd, eofnder; ffroch, bâr.

Desperation, *s.* (Ll. *desperatio*) anobeithiad; anobaith; anobeithioldeb; gorwylltiad; gwallgof, gorphwyll, ffyrnigrwydd, cynddeiriogrwydd, ffroch.

Despicable, *a.* (Ll. *despicabilis*) dirmygadwy, tremygadwy; dirmygus, tremygus, dirmygol; i'w ddirmygu, i'w dremygu, i'w ddïystyru; gwael, distadl, bawaidd, dirmygedig, dïystyrus, disenw, dïelwig, salw, gorwael, gresynus, adfydig, bawlyd, brwnt, diwerth; yn haeddu ei ddirmygu, &c.

Despicableness, *s.* dirmygusrwydd, tremygusrwydd, dirmygusedd, dïystyredd, distadledd, gwaelder, dïelwigrwydd, salwedd, gorwaelder, dïelwedd, baweiddrwydd.

Despiciency, *s.* (Ll. *despiciens*) dirmygiad, tremygiad, dïystyrad, bychaniad; edrychiad i lawr.

Despisable, *a.* (o *despise*)=*Despicable.*

Despisal,† *s.* (o *despice*) dirmyg.

Despise, *v. a.* (Ll. *despicio*) dirmygu, tremygu, dïystyru, bychanu, anfrïo, dibrisio, ysgornio, anmherchi, iselu, dïelwi, difenwi; gadaw heibio yn ddirmygus; cyfrif yn ddiddym.

Despisedness, *s.* dïystyrwch, dirmygedigrwydd, tremygedigrwydd; dirmygusrwydd.

Despiser, *s.* dirmygydd, tremygydd, dirmygwr, tremygwr, dïystyrwr, dïystyrydd, bychanwr, anfrïwr, gwatwarwr.

Despising, *s.* dirmyg, tremyg, dïystyrwch.

Despite, *s.* (Ff. *dépit*; Norm. *despite*) mig, mic, malais, gwir falais, drwg ewyllys, drygwyllys, cynddrygedd, dryganiaeth, dryganian, cenfigen, cynghorfen, cynghorfyn, cynghorfynt, dygen, llid, gwg, cas, casineb, cyswrw, gwyth, gwir wenwyn; dirmyg, tremyg, dïystyrwch, anmharch, anfri, sarhad; her, hyr, hew, baidd, heriad, herawd.

In despite—o fic, o fig; o dra mic; o dra fic; o ddirmyg, o her, o hyr, er gwaethaf, o waethaf, o anfodd, yn erbyn ewyllys, yn erbyn, er baidd; yn groes i; yn wrthwyneb i.

To do despite to—bwrw dirmyg, tremyg, *neu* sarhad ar; dangos dirmyg, dïystyrwch, anfri, *neu* sarhad i; dirmygu, tremygu, anmharchu, anmherchi, sarhau, difenwi; gwneuthur sarhad, anfri, *neu* anmharch i.

Who hath done despite unto the Spirit of grace—yr hwn a ddifenwodd Ysbryd y gras.

Despite, *v. a.* micio, blino, cythruddo, cythryblu, coddi, sarhau, tramgwyddo, trabluddio, aflonyddu, poeni, gofidio; gwneuthur o dra fic i.

Despiteful, *a.* maleisus, migus, cenfigenus, cynghorfynnus, cynghorfynus, drygwyllysiol, dïystyrllyd, dirmygiawn, sarhäus, anmharchus, dirmygus, enllibus, trahäus, dygasog.

Despitefully, *ad.* yn faleisus, &c.; gyda mig; o fic, o falais.

To use despitefully—gwneuthur niwed, sarhad, dirmyg, *neu* anmharch; trin yn sarhäus; drygu, niweidio.

Despitefulness, *s.* malais, dryganian, dryganiaeth, drygwyllys, drwg ewyllys, dygen, dygasedd, rhygasedd, trachas, dirgas, casineb, cas, dirgasineb; dirmyg, anmharch, anfri, sarhad, maleisrwydd.

Despiteous,† *a.* (o *despite*) maleisus.

Despoil, *v. a.* (Ll. *despolio*; Ff. *dépouiller*) ysbeilio, anrheithio, difrodi; dihatru, dïosg; difuddio; difeddu, difeddiannu; dwyn oddi ar; cymmeryd drwy drais; lladrata, dwyn; ysglyfio.

Despoiler, *s.* ysbeiliwr, ysbeilydd, anrheithiwr, anrheithydd, difrodydd, difrodwr; difuddiwr.

Despoliation, **Despoilment**, *s.* (o *despoil*) ysbeiliad, anrheithiad, anrheithiant, difrodiad, ysglyfiad; dihatriad, difuddiad, amddifadiad.

Despond, *v. n.* (Ll. *despondeo*) gwanobeithio, gwangaloni, digaloni, anobeithio, dïobeithio, gwangredu, gwanffyddio; llaesu yn ei feddwl *neu* ei ysbryd; llyfrhau, pruddhau.

Despond, *s.* gwanobaith; anobaith.

Slough of despond, Slough of despondency, cors gwanobaith, cors anobaith.

Despondency, **Despondence**, *s.* gwanobaith, digalondid, gwangalondid, anghalondid, anobaith; gwanobeithiad.

Despondent, *a.* (Ll. *despondens*) gwanobeithiol, anobeithiol, anobeithlawn, dïobaith, digalon, gwangalon; yn ymollwng; prudd, llwfr, isel, llibin.

Desponder, *s.* gwanobeithiwr, anobeithiwr, un dïobaith.

Desponsate,† *v. a.* (Ll. *desponso*) dyweddïo, cyfneithio.

Desponsation, *s.* (o *desponsate*) dyweddïad, cyfneithiad, ymgrediad.

Despot, *s.* (Gr. *despotês*; Ff. *despote*) gormesdeyrn, ymben, archdeyrn; amherawdwr, ymherawdwr, brenin, teyrn, unben, *neu* dywysog annibynol; gorlyw, arglwydd, arlwydd; gorthrymwr, gormeswr, gormeilydd, rhwysgwr.

Despotic, **Despotical**, *a.* (Gr. *despoticos*) gormesdeyrnol, ymbenol, archdeyrnol; unbenigol; arglwyddaidd, arlwyddaidd, trawsarglwyddol, trawsarglwyddaidd, arglwyddiaethol, gormesol, gormeilus, gorddwyog, gorthrymus, tra-awdurdodol, trahäus; an-

nibynol, gorfodol; unbenaidd, amherodraidd; perthynol i ormesdeyrn; wrth ewyllys; creulawn, dywal.

Despotic government — treislywodraeth, ymbenlywodraeth, gormeslywiaeth, trawslywodraeth, trawsbenaeth, unbenaeth annibynol; llywodraeth ymbenol, arglwyddaidd, amherodraidd, *neu* drawsarglwyddol, &c.

Despotically, *a.* yn arglwyddaidd, &c.; fel gormesdeyrn, &c.

Despoticalness, *s.* ymbenoldeb; arglwyddeiddrwydd, gormesoldeb, gormeilusrwydd; awdurdod annibynol.

Despotism, *s.* (o *despot*; Ff. *despotisme*) awdurdod *neu* allu annibynol; trawsawdurdod, tra-awdurdod, trawsallu; unbenaeth annibynol, ymbenaeth annibynol; gormesdeyrnedd, gormeslywodraeth, gormeslywiaeth, treislywodraeth, trawslywodraeth, trawsbenaeth; ymbenaeth, ymherodraeth; llywodraeth *neu* reolaeth gormesdeyrn; gormes, camrwysg, gormail, gormeiliad, creulonder = llywodraeth à seilir ar ewyllys y penadur yn unig, heb na chyfraith na ffurflywodraeth yn derfyn iddi.

Despumate, *v. n.* (Ll. *despumo*) ewynu, dystrychu, molwyno; malu *neu* fwrw ewyn; magu ewyn *neu* ddystrych; myned yn orferw.

Despumation, *s.* (Ll. *despumatio*) ewyniad, dystrychiad, molwynad; magiad ewyn *neu* ddystrych; bwriad ewyn; teriad.

Desquamate, *v. a.* (Ll. *desquamo*) crisbilio, pilio, digenu, dadgaenu, crisbilio esgyrn.

Desquamation, *s.* (Ll. *desquamatio*) crisbiliad, piliad, esgyrn-biliad, digeniad esgyrn.

Dessert, *s.* (Ff.) ancwyn, prif-ancwyn; hail o aeron a chwegion.

Destemper, *s.* (Ff. *détremper*) golur, teneuliw, paent afloew.

Destinate, *v. a.* (*destino, destinatus*)=*Destine.*

Destinate, *a.* penodedig, arfaethedig, amcanedig, gosodedig, appwyntiedig, ordeiniedig, penderfynedig.

Destination, *s.* (Ll. *destinatio*) bwriad, arfaeth, arfeddyd, amcan, dyben, perwyl; arfaethiad, penodiad, ordeiniad, appwyntiad; yr hyn sy'n mryd un; y ffordd y mae un ar fedr *neu* yn bwriadu myned; y lle amcanedig *neu* arfaethedig.

Destine, *v. a.* (Ll. *destino*) arfaethu, bwriadu, amcanu, arfedd, arfeddu, lluniaethu, meddylied; gosod, penodi, penu, ordeinio, appwyntio, eidduno, darparu; dyfarnu, dedfrydu, tyngedfenu, diofrydu, penderfynu.

Destinist, *s.* (o *destiny*) tynged-goeliwr, tynged-gredydd, coelgredydd, coelgrediniwr; credwr mewn tyngedfen.

Destiny, *s.* (Ff. *destin, destinée*) tynged, tyngedfen, tesni, coelcwydd; ffawd, cyraith, dyrraith, rhaid, gordden.

The destinies—y Tyngedion, y Tyngedesau =y tair chwaer, Clotho, Lachesis, ac Atropos, merched Nos ac Ebred, à reolent dyngedfen dyn, fel y tybiai yr hen Genedloedd ofergoelus gynt.

Destiny-readers—darllenwyr tesni, daroganwyr, brudwyr, dewiniaid, chwiliogion; y rhai à ddewinant dyngedfen.

I can easily read your destiny—gallaf yn hawdd ddarllen eich tesni; gallaf yn hawdd ddarllen eich planed *neu* eich tynged.

Belonging to destiny—tyngedfenol, tyngedol; perthynol i dynged *neu* dyngedfen.

Of the same destiny—undynged, undyngedfen; o'r un dynged.

Destitute, *a.* (Ll. *destitutus*) angenog, angenus, rheidus, amddifad, ymddifad, diamgeledd, diymgeledd, diborth; mewn eisieu; âg eisieu *neu* angen arno; tlawd, amdlawd, eisiwedig, diffygiol, llwm, bychodog, diymadferth, anymadferth, digynnorthwy, difadol, diddym; gwedi ei adaw; unig, digarad, digysur; à adwyd yn unig; anial; gwael; heb.

Left destitute—amddifad, ymddifad, digariad; gwedi ei adaw; à adawyd yn unig *neu* amddifad, &c.

Left destitute of mercy—gwedi ei adaw heb drugaredd.

Destitute of friends—digeraint, digyfeillion; amddifad o gyfeillion; heb gyfeillion.

Destitute of food—mewn eisieu ymborth; amddifad o ymborth.

Destitute of wisdom — ynfyd, annoeth; heb ddoethineb; amddifad o ddoethineb.

Destitute, *s.* amddifad; un amddifad, un angenus, un angenog, &c.

Destitute, *v. a.* gadael, gadaw; amddifadu, difuddio, difeddu.

Destitution, *s.* (Ll. *destitutio*) angen, angenoctyd, eisieu, diffyg, gwall, tlodi, eisiwed; amddifadrwydd, amddifedi, ymddifadrwydd, amddifadiad.

Destroy, *v. a.* (Ll. *destruo*; Ff. *détruire*) dystrywio, dinystro, dinystrio, dyfetha; difrodi, difa, ysu, andwyo, gormesu; anrheithio, difwyno, dïelwi, diddymu, dirymio, dirymu; dwyn ar ddim; dymchwelyd, tynu i lawr, bwrw i lawr; dilëu, tori, lladd, dryllio, llwyr ddyfetha; malurio, dattod, colli, cystuddio; gwastraffu, afradloni, afradu, dywalltrain; dybenu, diweddu; rhoi terfyn ar.

Till they be utterly destroyed — nes eu llwyr ddifa; nes eu llwyr ddyfetha.

Given to destroying—dystrywgar.

Destroyer, *s.* dystrywiwr, dystrywydd, dinystrydd, dinystrwr, dyfethwr, difrodwr, difrodydd, rhebydd, trengidydd.

Destroyable, *a.* dystrywiadwy, dinystradwy.

Destroying, *s.* dystryw, dinystr; dinystrad, dystrywiad.

Destruct,† *v. a.* (Ll. *destruo, destructum*)=*Destroy.*

Destructibility, } *s.* dinystredd, hyddinystr-
Destructibleness, } edd; dystrywgarwch.

Destructible, *a.* (Ll. *destruo*) dinystradwy, dystrywiadwy, dyfethadwy; à ellir ei ddinystro, ei ddystrywio, *neu* ei ddyfetha.

Destruction, *s.* (Ll. *destructio*) dystryw, dinystr, difrod, difrodaeth, dyfeth, dyfethiad, difäedd; dïen, dïenydd, colledigaeth, difancoll, adfail, aball; cwymp, tramgwydd, tranc, trychineb, drylliad, anrheithiad, hafog, anrhaith, lladdfa, aerfa, lladdiad, niwed, amrygoll.

Utter destruction—llwyr ddinystr, cyfrgoll, cyfrgolledigaeth, llwyr golledigaeth, cwbl golledigaeth.

To go to destruction — myned i ddystryw

neu ddinystr; myned ar ddyfeth; myned i golledigaeth.

Destructionist, *s.* dinystrydd, dystrywiwr; un à amcano at ddinystr.

Destructive, *a.* dinystrol, dinystriol, dystrywiol; marwol, niweidiol, adwythig, echryslawn.

Destructiveness, *s.* dystrywgarwch, dinystroldeb, dinystrolrwydd.

Destructor, † *s.* (Ll.)=*Destroyer*.

Desudation, *s.* (Ll. *desudatio*) dirchwysiad, dirchwys; chwysiad dirfawr *neu* anghymmedrol; chwysiad.

Desuetude, *s.* (Ll. *desuetudo*) anghynnefinder, anghynnefindra, anghynnefindod, anarfer, annefod, diffyg arfer, eisieu arfer.

Desulphurate, *v. a.* (o *de* a *sulphur*) dadufeliaru; difuddiaw o ufeliar *neu* losgfaen.

Desulphuration, *s.* dadufeliarad; amddifadiad *neu* ddifuddiad o ufeliar.

Desultoriness, *s.* ansefydlogrwydd, anwastadrwydd, gwamalder, annhrefnusrwydd, anghyssylltioldeb.

Desultory, } *a.* (Ll. *desultorius*) anwastad,
Desultorious, } anwadal, gwamal, ansefydlog, amrywiedig, didrefn, annhrefnus, digyssylltiad, anghyssylltiol, anghyssylltedig; hylam, darneidol, neidiol; yn neidiaw o'r naill beth i'r llall; disymmwth.

Desume, *v. a.* (Ll. *desumo*) benthycio, benthyca, banddygio, echwyna; cymmeryd o.

Detach, *v. a.* (Ff. *détacher*) dydoli, neilltuo, gwahanu, gwahanoli, gwahanredoli; rhyddhau, daduno; rhan anfon, dethol; anfon allan ran etholedig o fyddin *neu* lu.

Detached, *a.* dydoledig, neilltuedig, gwahanedig, gwahanredol, neilltuol, ar wahan.

Detachment, *s.* (o *detach*) dydoliad, neilltuad, gwahaniad; gwahanredoliad; gwahanlu, gwahanres, gwahanrif, dewislu, dewisran, cydrawd, byddinau; nifer o filwyr detholedig oddi wrth gorff y llu.

Detail, *v. a.* (Ff. *détailler*) manwl adrodd; adrodd bob yn un ac un; hanesu, adrodd, *neu* fynegu yn amgylchiadol; enwi pob peth ar ei ben ei hun; adrodd neilltuolion; enwi, crybwyll, nodi, *neu* adrodd pethau yn neilltuol; neilltuoli, dadchwedlu, rhalu; sonied am beth yn bendant; rhoi hanes amgylchiadol yn nghylch; adrodd *neu* ddadgan peth yn ei ranau a'i amgylchiadau; amrybenu.

Detail, *s.* manwl adroddiad, hanesiad manwl, hanes amgylchiadol; adroddiad *neu* hanesiad neilltuolion; cyfrifiad rhannau ac amgylchiadau; cofrestr; dadchwedl, adroddiad, rhaliad.

In detail — yn amgylchiadol; bob yn un ac un; bob yn rhan; bob un wrtho ei hun; ar ei ben ei hun; yn fanwl, yn fanol, yn neilltuol; yn ei rannau a'i amgylchiadau; yn helaeth; yn fanwl ac amgylchiadol; bob un wrth ei hun; yn rhes, yn gofres; yn ddibrin.

Detailer, *s.* manol adroddwr, adroddydd manwl, dadchwedlwr.

Detain, *v. a.* (Ll. *detineo*; Ff. *détenir*) attal, dàl, caethiwo, lluddio, lluddias, rhwystro, llestair, llesteirio, dala, cadw, nidro, maglu, methlu, arluddio, goluddio, rhagod, afrwyddo, darddal; dàl yn gaeth; cadw yn ol; cadw oddi wrth; peri aros, oedi, *neu* ohirio; dàl gydag ef; camattal; cadw mewn dalfa.

To be detained—cael ei attal, &c.; bod yn attaliedig, &c.; aros; bod yn aros.

Detainder, *s.* (o *detain*) attalgwyn, camattaleb, cwyn camattal.

Detainer, *s.* (o *detain*) attaliwr, lluddiwr, rhwystrwr, rhwystrydd, daliedydd, llesteirydd; attaliad, camattaliad, attal.

Detainment, *s.* (o *detain*) attaliad, attal, attaliaeth, llestair, lluddias, lluddiad; daliad yn ol; rhwystr, lludd, goludd, cyfludd, caethiad, carchariad, argaethiad, attaliedigaeth.

Detect, *v. a.* (Ll. *detego, detectum*) dadguddio, dadenhuddo, dïachluddo, dïargelu, annirgelu, dynoethi, amlygu, digelu, dàl, dala; dwyn i'r goleu, i'r goleuni, *neu* i'r amlwg; dàl ar, dàl yn; dàl ar *neu* yn y weithred; cael allan; gweled, canfod, darganfod; achwyn ar, cyhuddo, cyhoeddi.

Detecter, *s.* dadguddiwr, dynoethwr, darganfyddwr, dïachluddwr, dadenhuddwr, &c.

Detection, *s.* (o *detect*) dadguddiad, dadenhuddiad, dadenhudded, dadanhudded, dynoethiad, dïachluddad; daliad; canfyddiad, darganfyddiad; caffaeliad allan; cyhoeddiad.

Detenebrate, † *v. a.* (Ll. *de* a *tenebræ*) dattywyllu, chwalu tywyllwch.

Detent, *s.* (Ll. *detentus*; Ff. *détente*) attaldrec, cloadyr

Detention, *s.* (o *detain*) attaliad, attal, attaliaeth, daliad, cadwad, llestair, lludd, lluddias, lluddiad, rhwystr, rhwystrad; daliad yn ol; caethiwad, carchariad, caethiant, argaethiad.

Deter, *v. a.* (Ll. *deterreo*) rhwystro, attal, lluddio, lluddias, nadael; cadw rhag, attal rhag; lluddias *neu* rwystro drwy ofn; dychrynu, ofni, *neu* darfu oddi wrth; digaloni, brawychu, dychrynu; digaloni rhag ymaflyd â gorchwyl.

Deterge, *v. a.* (Ll. *detergo*) glanhau; glansychu, briwsychu, carthu; sychu yn lân.

Detergent, } *a.* (Ll. *detergens*) glanhaol, glan-
Deterging, } berol, glanbarol, purol.

Detergent, *s.* glanberai, cyffyr glanhaol: *pl.* glanhaolion, glanbeirion.

Deteriorate, *v.* (Ff. *déteriorer*; Ll. *deterior*) gwaethygu, gwaethäu, gwaethu; myned yn waeth; gwneuthur yn waeth; dirywio, afrywio, dadrywio, niweidio, gwanhau.

Deterioration, *s.* gwaethygiad, gwaethâd; mynediad yn waeth; gwneuthuriad yn waeth; dirywiad, dadrywiad, afrywiad, niweidiad.

Deteriority, *s.* (Ll. *deterior*) gwaethineb, gwaethwg, gwaethygrwydd.

Determent, *s.* (o *deter*) rhwystrad, lluddiad, attaliad; rhwystr, lludd, goludd; yr hyn a geidw rhag gwneuthur peth.

Determinable, *a.* (o *determine*) terfynadwy, penderfynadwy, hyfarn; à ellir ei benderfynu.

Determinate, *a.* (Ll. *determinatus*) terfynedig, penderfynedig; penderfynol, terfynol, pendant, penodol, terfynedigol, dybenol, dybenus, cynghloawl, sefydledig, gosodedig, gwadal, eglur; ymroddgar, ymroddedig.

Determinate, † *v. a.* terfynu, gosod terfyn; penderfynu.

Determinateness, *s.* penderfynoldeb, terfynoldeb, terfynolrwydd, penderfynolrwydd, terfynedigrwydd, terfynder, pendantrwydd, dilysrwydd, sicrwydd.

Determination, *s.* (Ll. *determinatio*) penderfyniad, terfyniad; dybendod, penderfyndod,

pendod; tor ymryson; bryd, bwriad, barn, llwyr fwriad; ymroad, dïofryd; diweddiad, dybeniad, peniad.

The matter was brought to a determination—penderfynwyd y peth; dygwyd y peth, y mater, *neu* y neges i ben; gorphenwyd y gorchwyl.

He committed the matter to the determination of fortune—rhoddodd ar dyngedfen farnu y peth; rhoddodd y dosbarth ar dyngedfen.

The determination of a dispute—dosbarth cynhen; dosbarth dadl; dosbarthiad dadl; penderfyniad dadl *neu* ymryson.

Determinative, *a.* (o *determinate*) penderfynol, terfynol, dybenol, dybenus, terfynedigol, terfyniadol.

Determinator, *s.* penderfynwr.

Determine, *v.* (Ll. *determino*) penderfynu, terfynu; penu, dybenu, diweddu, gorphen; barnu, rhoi barn; arfaethu, bwriadu, lluniaethu, rhaglunio, llawn fwriadu; bod â'i fryd *neu* â'i fwriad ar; gosod, penodi, sefydlu, trefnu, rhagderfynu, parotöi, llunio; sefydlu yn sicr yn ei feddwl; tori amryson, dosbarthu cynhenau; ymröi; murio.

To determine before hand—rhagderfynu, rhagfwriadu, rhagarfaethu, rhaglunio, rhagddarparu.

To determine bachelor of arts—cymmeryd mabradd yn y celfau; cymmeryd mabradd yn y celfyddydau; cymmeryd y gynradd yn y celfyddydau; cymmeryd y radd gyntaf yn y celfyddydau; cymmeryd mabradd y celfyddydau.

To determine disputes—penderfynu dadleuon; dosbarthu cynhenau; tori ymrysonau.

Determined, *a.* penderfynol, terfynol; penderfynedig, terfynedig, gosodedig; ymroddedig; arfeddog, arfaethedig.

Determiner, *s.* penderfynwr, penderfynydd, terfynwr.

Determination, *s.* (Ll. *de* a *terra*) diddaiariad, diddaiariant, dad-ddaiariad, dad-ddaiariant, cymmeriad allan o'r ddaiar.

Deterring, *a.* (o *deter*) digalonogol, anghalonogol; yn digaloni; brawychol, dychrynol.

Detersion, *s.* (Ll. *detergo, detersus*) glanhad; clwyfanhad, briwlanhad.

Detersive, *a.* (Ff. *detersif;* It. *detersivo*) glanhaol; glanbarol, glanberol; âg ynddo rinwedd i lanhau.

Detersive, *s.* glanberai, cyffyr glanhaol: *pl.* glanhaolion, glanbeirion.

Detest, *v. a.* (Ll. *detesto*) ffieiddio, cashau, dygn gashau, llwyr gashau, trachashau, dygashau, digaru; cashau o eigion calon; dirmygu.

Detestable, *a.* (Ll. *detestabilis*) ffiaidd, adgas, atgas, trachas, achas, dygas, cas, hygas, ffieiddiol, cashäus, ysgeler, esgymun, ysgymun.

Detestable things—casbethau, ffieiddion, pethau ffiaidd; ffieidd-dra (*Ier.* xvi. 18).

Detestableness, *s.* atgasrwydd, ffieidd-dra, ffieidd-dod, achas, trachas, dygas, dygasrwydd, hygasrwydd, gorgasineb, ysgelerder, ffieiddioldeb, echryslonedd, erchyllidod.

Detestation, *s.* (Ll. *detestatio*) atgasrwydd, adgasrwydd, casineb, ffieiddiad, ffieiddiant, dygasedd, achas, casedd, trachas, trachasineb, dygn gashad, dygashad, cashad, ffieiddrwydd.

Detester, *s.* ffieiddiwr, cashäwr, dygaswr, trachashäwr.

Dethrone, *v. a.* (*de* a *throne; Ff. détrôner*) dïorseddu, dadorseddu; diswyddo *neu* ddifreinio brenin; difuddiaw o freninol awdurdod ac urddas; bwrw allan *neu* i lawr o deyrn-gadair.

Dethronement, *s.* dïorseddiad, dadorseddiad.

Dethroner, *s.* dïorseddwr, dadorseddwr.

Detinue, *s.* (Ff. *détenu*) attalgwyn, camattaleb, cwyn camattal, cwyn adneu, adneugwyn; cwyn yn erbyn camattaliwr.

Detonate, *v.* (Ll. *detono*) arysteinio, ffrwydro, trystio, ysgortio; peri twrf *neu* drwst; fflachio, tyrfu.

Detonating tube—chwibol ffrwydrol, pibell drystiol.

Detonating powder — fflamlwch; pylor ffrwydrol, taranol, fflachiol, *neu* drystiol.

Detonation, *s.* (o *detonate*) arysteiniad, ffrwydrad, trystiad, ysgortiad, fflachiad, tyrfiad.

Detonization, *s.* (o *detonize*) arysteiniad, ffrwydrad, trystiad, ysgortiad, fflachiad.

Detonize, *v.* (Ll. *detono*) arysteinio, ffrwydro, trystio, ysgortio; fflachio; creisioni drwy arysteinio.

Detort, *v. a.* (Ll. *detortus*, o *detorqueo*) gwyrdröi, gwyro, trawswyro, tragwyro, ffillio, trofäu, camdröi.

Detortion, *s.* (o *detort*) gwyrdroad, gwyrad, trawswyrad, tragwyrad, camdroad, camdröedd.

Detour, *s.* (Ff.) troad, tro, chweliad, ffordd gwmpasog, amgylchiad, cwmpasdro.

Detract, *v. a.* (Ll. *detractum, detrecto, detraho*) bychanu, difrïo, iselu, athrodi, enllibio, goganu, hortio, absenu, drwg absenu, cablu, rhedeg ar, lleihau; rhoi anghlod *neu* anair i; cymmeryd ymaith; cadw yn ol; tynu oddi wrth.

To detract from—cymmeryd ymaith; cymmeryd oddi wrth; lleihau gwerth; dirywiaw oddi wrth.

Detraction, *s.* (Ll. *detractio*) bychaniad, enllibiad, athrodiad, athrodiaeth, athrod, enllib, gogan, hort, anghlod, anair, gair twn, cabl, hortiad, difrïad, anfri, gwarth; sen, beiad.

Detractive, } *a.* (o *detract*) enllibiol, enllibus,
Detractory, } athrodol, athrodus, athrodgar, hortiol, goganus, difrïol, bychanol, bychaniadol, enllibaidd, anmharchus, cablaidd; à leihao fri, gwerth, *neu* glod.

Detractor, *s.* (o *detract*) bychanwr, enllibwr, enllibiwr, athrodwr, hortiwr, athrodgarwr, difrïwr, goganwr; tynydd ymaith.

Detractress, *s.* (o *detractor*) enllibes, athrodes, enllibwraig, athrodwraig; dynes feigar *neu* enllibus.

Detrect,† *v. a.* (Ll *detrecto*) gwrthod.

Detriment, *s.* (Ll. *detrimentum*) colled, niwed, erniwed, argywedd, amrygoll, coll; dryglam, aflwydd, anhap, lleihad, erniwiant, sarhad.

Detrimental, *a.* colledus, niweidiol, argyweddus, erniwol, erniwiannol, niweidiannol.

Detrimented, *a.* niweidiedig, niweidiog; gwedi ei niweidio, ei golledu, *neu* argyweddu; gwaeth; gwedi ei waethygu.

Detrital, *a.* (o *detritus*) treulfalurion; treularnol; cynnwysedig o fanfalurion.
Detrital rocks—treulgreig, treulgreigiau.
Detrition, *s.* (Ll. *detero, detritum*) treuliad, treuliad ymaith, treuliad ffwrdd.
Detritus, *s.* (Ll.) treulfalurion, treularnau, manfalurion.
Diluvial detritus—treulfalurion dylifaidd, dylif-dreulion.
Detrude, *v. a.* (Ll. *detrudo*) gwthio i lawr; gyru i lawr; gwthio allan; iswthio.
Detruncate, *v. a.* (Ll. *detrunco*) trychu, ysgythru, dadosgli; trychu *neu* dori ymaith; tocio, briglodd, byrhau; byrhau drwy dori.
Detruncation, *s.* (Ll. *detruncatio*) trychiad, tociad, ysgythrad, dadosgliad, toriad ymaith.
Detrusion, *s.* (Ll. *detrudo, detrusum*) gwthiad *neu* yriad i lawr; gyriad *neu* wthiad allan; iswthiad.
Detumescence, *s.* (Ll. drosgl, *detumescentia*) lleihad chwydd, dadchwyddad.
Deturbation,† *s.* (Ll. *deturbo*) diraddiad, diraddiant, dirmygiad.
Deturpate, *v. a.* (Ll. *deturpo*) halogi, diwyno.
Deuce, *s.* (Ff. *deux*, dau) dau; deulygedyn, y garden ddeulygad, y cerdyn deulygad, dis ddeulygad.
Sice deuce—wyth ar y disiau.
Deuce, **Deuse**, **Duse**, *s.* (arferid yn gyfystyr *dusii* gàn yr hen Ellmyn, a thybir mai llygriad ydyw o *Drusus* ab Tiberius) ellyll, elfod; dieflyn, diawl, cythraul, elff, y fall, yr ysbryd drwg, yr andras, y mwci mallt, y gwr drwg.
The deuce take you—yn nghrog y bo chwi; yr adwyth a'ch caffo; tynged ddrwg i chwi; yr ellyll drwg a'ch coto.
Deuced, *a.* dieflig, diawlig, cythreulig.
Deuterogamist, *s.* ailbriodwr, eilbriodwr; un à briodo yr ail waith.
Deuterogamy, *s.* (Gr. *deuteros* a *gamos*) ailbriodas, eilbriodas, ail briodas.
Deuteronomy, *s.* (Gr. *deuteronomion*) Deuteronomium=pummed llyfr Moses, yn arwyddo eilddeddf, neu ail adroddiad deddf neu gyfraith.
Deuteropathy, *s.* (Gr. *deuteros* a *pathos*) atteimlad, eildeimlad, affaith gydoddefol.
Deuteroscopy, *s.* (*deuteros* a *scopeô*) eilystyr, adystyr, ail ystyr, eilfwriad, eilfeddwl, ail fwriad.
Deuthydroguret, **Deutohydroguret**, *s.* (Gr. *deuteros*, a *hydroguret*) deu-ulured, ail-ulured, eilulured.
Deutoxide, **Deutoxyde**, *s.* (Gr. *deuteros*, ail, ac *oxide* neu *oxyde*) deu-egrid, eil-egrid.
Devaporation, *s.* (Ll. *de* a *vaporatio*) dattarthiad; troad tarth yn ddwr.
Devast,† *v. a.* (Ll. *devasto*)=*Devastate.*
Devastate, *v. a.* (Ll. *devasto*) difrodi, anrheithio, diffeithio, difa, difwyno, anghyfanneddu, anialu; gwneuthur yn anrhaith; gwneuthur yn anghyfannedd; gosod yn anrheithiedig; ysbeilio, ysglyfio, gwastraffu.
Devastation, *s.* (Ll. *devastatio*) difrod, anrhaith, difrodaeth, difäedd, difrodiant, difrodiad, anrheithiad, anrheithiant, diffeithiad, anghyfanneddiad, ysbeiliad; anghyfannedd-dra, anghyfanneddrwydd; dystryw, dinystr, beli, gwastraff, bafog, ysbail; anialwch, diffaethwch.

Develope, **Develop**, *v. a.* (Ff. *développer*) dadhuddo, dadenhuddo, dadanhuddo, dynoethi, dadencuddio, dadorchuddio, dïorchuddio, dadblygu, disblygu, dihuddo; dïosg o'i orchudd; cymmeryd *neu* dynu ymaith y gorchudd; dadguddio, amlygu, egluro; dwyn i'r goleu, i'r goleuni, *neu* i'r amlwg; dadrysu, diddyrysu, dinidro, dadolöi.
Developer, *s.* dadhuddwr, dadblygwr, &c.
Developement, **Development**, *s.* (o *develope*) dadhudliad, dadenhuddiad, dademhuddiad, dadenhudded, dadanhudded, dadblygiad, dadorchuddiad, dadorchudd, dadencuddiad, dynoethiad, dïorchuddiad, disblygiad, dihuddiad, egluriad, amlygiad, dadguddiad, dadoload.
Devenustate, *v. a.* (Ll. *de* a *venustas*) anharddu, hagru, hacru; difuddiaw o degwch, glendid, *neu* harddwch; salwino.
Devergence, **Devergency**, *s.* (Ll. *divergo*)=*Divergence.*
Devest, *v.* (Ff. *dévêtir*) dihatru, dïosg, dadwisgo, diddilladu, dynoethi, dihwylio; colli; difuddio, difeddu, difeddiannu, amddifadu.
Devex, *a.* (Ll. *devexus*) yn plygu i lawr; gŵyr, gwyrog.
Devexity, *s.* (Ll. *devexitas*) crymiad, gwyredd, llethredd, camedd, llethr, lledbeirwydd, llechweddiad; paut, pannyledd, pannwl; disgynfa y ddaiar.
Deviate, *v. a.* (It. *deviare*; Ll. *devius*) gwyro; cyfeiliorni; mynedl, troi, *neu* giliaw o'r ffordd; myned ar gyfeiliorn; myned ar ddidro *neu* ar grwydr; cilio, crwydro; troseddu, meiliorni.
I have deviated from my subject—gwyrais *neu* ciliais oddi wrth fy nhestyn; gadewais fy nhestyn.
You have deviated from virtue—gadawsoch ffordd rhinwedd; yr ych wedi gwyraw oddi wrth rinwedd; gwyrasoch odd wrth rinwedd.
Deviation, *s.* (o *deviate*) gwyrad, cyfeiliornad, cyfeiliorn, cyfeiliorni, gwyrni, didro; mynediad *neu* giliad o'r ffordd; crwydrad, gwibiad, osgoad; trosedd, caredd, pechod.
Device, *s.* (Ff. *devis, devise*; It. *divisa*) dyfais, dychymyg, bwriad, amcan, gwaith dychymyg, mais; ystryw, ystranc, cyfrwyswaith, cyfrwysedd, dichell; crebwyll, athrylith, asbri; dyfeislun, dychymyglun; chwedl wneuthur.
Device (in heraldry)—dyfais, dychymyg, dyfeislun, dychymyglun, cymyglun, arflun, dyfeiswaith; llun, dyfais, eilun, arwydd, *neu* baentiad ar darian.
Full of devices—ystrywgar, ystrywiog, ystrywus; llawn dyfeisiau; llawn o ddyfeision.
Deviceful, *a.* (*device* a *full*) dyfeisgar, dyfeisiol, dyfeislawn; llawn dyfeision *neu* ddyfeisiau; ystrywgar, ystrywiog, ystrywus.
Devil, *s.* (S. *diafol*; Is. *duivel*; Al. *teufel*; Sw. *diefvul*; D. *duivel*; Ll. *diabolus*; Gr. *diabolos*) diafol, diawl, diafl, diafyl, cythraul; y fall, y ddera, andras, y gwr drwg, yr ysbryd drwg: *pl.* diafliaid, dieifl, diefyl, dieifyl, diawliaid.
A devil incarnate—diawlddyn, diawl mewn cnawd, cythreulddyn.
A she-devil, A devil in petticoats, diawles, diafles, cythreules; diawles o ddynes ddu.

Odious as a devil—cythreulgas; mòr gas a'r cythraul.
When the devil is blind—yn nghyfarfod deusul; pan gwrddo dau fynydd; byth ni bydd.
To devote a slave to the devil—bwrw caeth i gythraul.
What is got over the devil's back, is spent under his belly—à gasgler ar farch Malen, dàn ei dor ydd ä.
Devil's advocate—canllaw diawl, dadleuwr y cythraul=yn Eglwys Rhufain, un à benodir i ammheu gwirionedd gwyrthiau ymgeisydd am seintiad.
Devil's gold-ring—Sieni flewog, pryf y gwinwydd, pryf y dail, deilbryf.
Sea-devil—morddiawl, morbenbwl, diawl y môr.
The council-chamber of the devils—cynghethernan, y fallgyrch, cynghorfa y gethern.

Devil, *v. a.* gorbupru, oethi, poethi; diawlo.
Devil-fish, *s.* morlyffant, llyffant y môr.
Deviling,† *s.* (o *devil*)=*Devilkin*.
Devilish, *a.* (o *devil*) dieflig, diawlig, diewlig, diawlaidd, diawledig, cythreulig, cythreulaidd; uffernol; erchyll, ofnadwy, melltigedig; enbyd, aruthr, tra, dirfawr, dros ben.
Devilishness, *s.* diefligrwydd, diawligrwydd, diawleiddrwydd, cythrenligrwydd, diawledigrwydd, diawlder, diawlrwydd; cynddaredd *neu* gynddeiriogrwydd cythreulig.
Devilism,† *s.* diawlaeth; cyfiwr y diaflaid.
Devilize,† *v. a.* diawleiddio, diafoleiddio; gosod yn mhlith dieifl.
Devilkin, *s.* (o *devil*) dieflyn, diawlyn, cythreulyn.
Devilry, *s.* diefligdod, cythreuldod, cythreuligrwydd, diefligrwydd.
Devil's-Bit, *s.* glaswenwyn, caswenwyn, tamaid y cythraul, gwreidd-don, bara y cythraul, clafrllys gwreidd-don, cas gàn y cythraul: calon afal, coryn afal.
Devil's bit scabious=*Devil's-Bit*.
Devil's-Guts, *s. pl.* llinglwm lleiaf, llindag lleiaf.
Devil's-Milk, *s.* llaeth y cythraul, fflamgoed fechan.
Devilship, *s.* (o *devil*) diawlaeth; nodwedd diawl *neu* gythraul.
Deviltry, *s.* (o *devil*) gweithred ddieflig, diawldro.
Devious, *a.* (Ll. *devius*) gwyrog, anhyffordd, diarfforddd, cyfeiliornus, trofäus; allan o'r ffordd; oddi ar y ffordd; crwydrol, gwibiog, crwydrus.
Devirginate, *v. a.* (Ll. *devirgino*) diforwyno, diflodeuo, llathruddo, treisio, halogi.
Deviseable, *a.* (o *devise*) dyfeisiadwy; cymmynadwy.
Devise, *v. a.* (Ff. *deviser*) dyfeisio, dychymygu, dychymyg, llyfelu; llunio, dyfalu, bwriadu, meddylio, ffurfio, meisio, cynllunio, trefnu; dewinio, brudio; cymmynu, cymmynroddi, gwyllysgedu, gwyllysio; rhoddi drwy ewyllys; rhoddi *neu* adael mewn ewyllys; ystyried, ystyrio, pwyllo, ymbwyllo.
Devise, *s.* cymmyn, cymmynrodd, gwyllysged, gwyllysrodd, rhodd ewyllys; llythyr cymmyn, ewyllys, gwyllys; cymmyniad, gwyllysiad, cymmynroddiad.
Devise,† *s.*=*Device*.
Devised, *p. p.* dyfeisiedig, &c.; dychymygol; cymmynedig.
Craftily devised—ystrywgar, dichellgar, cyfrwys, cyfrwys-ddrwg, hocedus, ystrywiog.
Cunningly devised fables—chwedlau cyfrwys (2 *Pedr* i. 16).
Devisee, *s.* (o *devise*) cymmynai, gwyllysgedai; yr un y cymmyner peth iddo; un y rhodder tir iddo mewn ewyllys.
Deviser, *s.* dyfeisydd, dyfeisiwr, dychymygwr, dychymygydd, meisiwr; awdur, awdwr.
Devisor, *s.* cymmynwr, cymmynydd, gwyllysgedydd, gwyllysiwr, cymmynroddwr; un à roddo mewn llythyr cymmyn.
Devitable,† *a.* (Ll. *devitabilis*) gocheladwy.
Devitation,† *s.* (Ll. *devitatio*) gocheliad, ymocheliad.
Devocation,† *s.* (Ll. *devocatio*) galwad ymaith, galwad i ffwrdd; hudiad, llithiad.
Devoid, *a.* (*de* a *void*) gwag, gorwag, llwyrwag; amddifad, ymddifad, anfeddiannol, diffygiol; rhydd; heb, heb ddim.
Devoir, *s.* (Ff) dyledswydd, gwasanaeth; parch, parchedigaeth, parchus anerch, parchus gyfarchiad, dyledus barch, dyledbarch, moesbarch; gweithred o foesgarwch.
Devolution, *s.* (Ll. *devolutio*) treiglad; disgyniad; treiglad *neu* roliad i lawr; disgyniad o'r naill i'r llall; symmudiad.
Devolve, *v.* (Ll. *devolvo*) disgyn, disgynu; treiglo; dygwyddo, dygwydd, cwympo, disgyn; cwympo, *neu* ddygwydd i'r naill oddi wrth y llall; dyfod i; treiglo i lawr.
To devolve on—disgyn ar, disgyn i; dyfod i; treiglo ar; syrthio ar.
The crown devolved on his eldest son—disgynodd y goron ar ei fab hynaf; syrthiodd *neu* daeth y goron i ran ei fab henaf.
Devolvement, *s.* (o *devolve*) disgyniad; treiglad; dygwyddiad, syrthiad.
Devoration, *s.* (Ll. *devoratio*) ysiad, difrodiad, llynciad, traflynciad, gwanciad.
Devotary,† *s.* (o *devote*)=*Votary*.
Devote, *v. a.* (Ll. *devoveo, devotus*) cyflwyno, cyssegru, dïofrydu; neilltuo, rhoddi, rhoi, priodoli; rhoi i fyny; rhoddi i fyny yn hollol; ymroddi i; eidduno, eiddunedu, gofunedu, offrymu, santeiddio, sancteiddio, cymmynu; dedfrydu; melltigo, rhegu; gorchymyn i ddystryw.
To devote one's self—ymgyflwyno, ymgyssegru, ymroddi, ymröi, ymddïofrydu; cyflwyno ei hun, &c.
Devoted thing—dïofrydbeth, ysgymunbeth, peth esgymun, peth esgymunedig, peth dïofrydog.
To devote a slave to the devil—bwrw caeth i gythraul.

Devote, Devoted, *a.* cyflwynedig, cyssegredig, dïofrydog, eidduneddig, eiddunol; ymroddgar, ymroddedig; esgymun, ysgymun.
Devotedness, *s.* dïofrydedd, ymroddgarwch, cyflwyngarwch, dïofrydogrwydd, ymroddiad, ymgyssegriad, ymgyflwyniad, dïofrydoldeb, ymroddedigrwydd.
Devotee, *s.* (o *devote*) dïofrydai, dïofrydydd, dïofrydwr, ymddïofrydydd, ymgyflwynydd, ymroddwr, eiddunai, eiddunwr; dallbleidiwr; dyn dïofrydog, ofergoelus, *neu* goelgrefyddol.

Devotement, *s.* dïofrydedd, ymroddgarwch, dïofrydogrwydd; dïofrydiad, cyflwyniad, cyflwyngarwch, ymroddiad; dyhewyd, duwiolder, duwgarwch; cyflwyniad addunedig.

Devoter, *s.* dïofrydwr, dïofrydydd, cyflwynydd, cyssegrydd; addolwr, goluchwr.

Devotion, *s.* (Ll. *devotio*) dyhewyd, duwiolder, crefyddolder, duwgarwch, duwioldeb, duwiolfryd, duwiolfrydedd; duwiolswydd, goluchwyd, golychwyd, addoliant, addoliad, goluched, goluch, iolychiad, gweddi, dyfoesiwn, dyledswydd grefyddol; gwasanaeth; llywodraeth, gallu; difrifwch, dyfalwch, taerni, difrifoldeb, hewyd; parch, edmygedd, mygedd; serch, traserch, ymlyniad; rhoddiad, cyflwyniad, dïofrydiad, cyfraniad.

Counterfeit devotion — rhith-dduwioldeb, rhith duwioldeb, rhith dyhewyd, cyfrith duwioldeb; rhagrith.

To be at devotion—bod ar weddi; bod ar ddyhewyd.

Dimension, *s.* (Ll. *dimensio*) mesur, maint, maintioli, meintioli, mesuriad; cynnwysiad; gradd.

Dimensionless, *a.* difesur, anfesurol, diderfyn, annherfynol, didran.

Dimensity, *s.* maint, maintioli, maintiolaeth, meintiolaeth, helaethrwydd, helaethder, eangder, eangedd, cynnwysiad, cynnwysiant, cynnwysedd.

Dimensive, *a.* (Ll. *dimensus*) terfynol, cyriogol; yn dynodi y terfynau *neu* yr amlinellau.

Dimeter, *a.* (Ll.) deufydr, deufesur; âg iddo ddau fydr.

Dimeter, *s.* deufydr, deufesur, pennill deufydr.

Dimication, *s.* (Ll. *dimicatio*) ymryson, amryson, amrafael, ymdrech, ymladd, ymdrin, bicre, brwydr.

Dimidiate, *v. a.* (Ll. *dimidio*) hanneru; rhanu yn ddau hanner.

Dimidiation, *s.* hanneriad, hanneriant; rhaniad yn ddau hanner.

Diminish, *v.* (Ll. *diminuo*) lleihau, gwneuthur yn llai, tolio, toli, prinhau, peri treio; tynu *neu* gymmeryd oddi wrth; treio, cilio; myned yn llai, myned ar drai; bychanu; attal; diraddio.

Diminish not a word—nac attal air (*Jer.* xxvi. 2).

Diminishable, *a.* lleiadwy, toliadwy; à ellir ei wneuthur yn llai.

Diminished, *p. p.* lleiedig, toliedig, &c.; bradw.

Diminished on every side—amdrai, amdreiedig.

Diminished arch—bwa lleiedig; bwa llai na hannergylch.

Diminisher, *s.* lleihäydd, à leihao, toliedydd.

Diminuendo, *s.* (It.) lleiad, dadgynnyddiad (>).

Diminuent, *a.* (Ll. *diminuens*) lleihaol.

Diminute, *a.* (Ll. *diminutus*) bychan, mân, lleiedig, toliedig.

Diminution, *s.* (Ll. *diminutio*) lleihad, lleiad, treiad, toliad, toliant, bychaniad, prinhad, eiddiliad, tawl, trai; cwymp, gostyngiad, coll, diraddiad; bradwy; eiddileb.

That will be no diminution to you—ni bydd hyny anghlod *neu* ddïanrhydedd yn y byd i chwi; ni thyr hyny ar eich clod yn y mesur lleiaf; ni leiha hyny mo'ch clod yn y mesur lleiaf; ni fydd hyny un diraddiad i chwi.

Diminutive, *a.* (Ll. *diminutivum; Ff. diminutif*) bychanig, bychan, (*f.* bechan), bach, bychanigyn, disumig, disum, arddisum, sebach, bachig, eiddil, tra bach, tra bychan, lleiedigol, coraidd, còr-.

Diminutive, *s.* bychanig, bachigyn, eiddilyn, eiddilair, bachigair; bychanigair, gair bychanig: *pl.* bychanigion.

Diminutively, *ad.* yn fychanig, &c.; mewn modd eiddil; yn wael.

Diminutiveness, *s.* bychanigrwydd, bychander, eiddilwch, bychanrwydd, bychandra, bachigrwydd; diddymrwydd, disumrwydd; gwaeledd, salwedd, salwder.

Dimish, *a.* (o *dim*) pylaidd, lled dywyll, caddugaidd, lledbwl.

Dimission, *s.* (Ll. *dimissio*) cenad i ymadael; gollyngdod, gollyngiad, cenadiad.

Dimissory, *a.* (Ll. *dimissorius*) gollyngol, anfonol, danfonol, darddanfonol; yn anfon ymaith; yn caniatäu ymadaw.

Letters dimissory—llythyrau cenad, llythyrau gollyngdod, llythyrau anfon, llythyrau rhyddhad, llythyrau gollyngol.

Dimit,† *v. a.* (Ll. *dimitto*) caniatäu myned; gosod, rhentu.

Dimity, *s.* (Is. *diemit*) eisgotwm; math o gotwm rhengog *neu* rigolog.

Dimly, *ad.* (o *dim*) yn dywyll, yn bwl, yn aneglur, &c.

Dimming, *s.* (o *dim*) tywylliad, pyliad, caddugad; tywyllwch, pyledd.

Dimness, *s.* (o *dim*) pylni, tywyllni, tywyllwch, tywyllwg, anghreffni, anghraffedd, trembyledd; pylni *neu* dywyllni golwg; pyledd *neu* anghreffni llygaid; llygadbylni, coegddalledd, coegddellni, coegddelli; hurtrwydd; pylni y meddwl *neu* y deall; penbyledd, penfasedd, synwyrbyledd, gwendid, anmherffeithrwydd; cymylogrwydd, caddugoldeb; caddng, niwl.

Dimple, *s.* (Al. *taumeln?*) pannwl; pant, twll, *neu* dolc yn y foch *neu* y rudd; bochdwll, pant boch, twll boch, bochbannwl; pant, pannwl, twlc, tolc, rhych, *neu* rigol yr en; twll chwerthin, chwerthin-dwll, chwerthinbant; màn.

Dimple-cheeked—bochbyllog, bochdyllog, bochbannylog; â thwll *neu* bant yny foch.

Dimple, *v. a.* pannylu, pantu, pannoli, pannelu.

Dimpled, *a.* pannylog, pantog, tyllog, mànog; bochdyllog, bochbyllog; â thyllau chwerthin *neu* â chwerthindyllau yn y foch *neu* rudd; â rhych, â thwll, *neu* â phant yn yr en.

Dimply, *a.* pannylog, tyllog, pantog, pannolog, mànog; llawn pannylau *neu* bantiau.

Dim-sighted, *a.* llygadbwl, tywylldrem, pyldrem; anghraff *neu* bwl ei olwg; trwm ei lygaid; coegddall, llygadball.

To be dim-sighted, } bod yn llygadbwl;
To be dim of sight, } bod yn bwl, yn drwm, *neu* yn anghraff ei olwg; bod â'i lygaid yn dryinion; tywyllu o lygaid *neu* olwg un; pallu o drem y llygaid; pallu o lygaid un; cau o lygaid un; bod llygaid *neu* olygon un wedi pallu.

Dim-twinkling, *a.* seirianbwl; yn serenu yn bwl.

Din, *s.* (S. *dyn; Ll. tonus*) trwst, twrf, twrdd, dadwrdd, swn, dyar, tordd, godwrdd, aban, nedd, trydar, broch, dias, cyffro, dâr, dared.

Din, *v. a.* syfrdanu, byddaru; byddaru â thrwst, &c.; dyar, trystio, dadyrddu, tyrddu, torddi, cadw swn.

Dinar, *s.* darn bath.

Dinarchy, *s.* (Gr. *dis* ac *archê*) deubenaeth, deulywiaeth, deubendodaeth, deulywodraeth, llywodraeth dau.

Dine, *v.* (S. *dynan; Ff. dîner*) ciniawa, bwyta ciniaw, bwyta ganol dydd, bwyta ciniaw echwydd; rhoi ciniaw, rhoddi ciniaw.

Dinetical, *a.* (Gr. *dinêticos*) chwildroawl, amdroawl, chwyrndroawl, pendroawl.

Ding, *v.* (S. *dencyan*) dwndro, trystio, dadyrddu, dadwrdd, rhuo, nadu, tyrddu, trybestu; syfrdanu, byddaru; taro wrth lawr; taflu yn nerthol; ergydio, curo, baeddu, taraw, yssigo.

Ding-dong, *s.* efelychiad o sain clych; ding dong, dinc donc; gosigl.

Dinginess, *s.* (o *dingy*) gwrmder, gwrmedd, llychwinder, llwydedd, lliw llwyd.

Dingle, *s.* (S. *den, din*) cwm, glyn, pant, cwmarch, ceunant, gobant, allmor, pantle, nant, ceugwm, dyffryn, tyno, nedd.

A small dingle — gonant, gobant, cwm bychan.

Dingle-dangle, *adv.* yn crogi yn rhydd *neu* laes; yn hongian.

Dingy, *a.* (S. *dunn?*) llychwin, llychwinedig, llychwinog, diwynedig, budr; gwedi ei lychwino *neu* ei ddiwyno; gwrm, tywyll, tywylldu, gwrmdde, dwn, llwyd, llwydwawr, dulwyd, gell, cethin.

Dining-room, *s.* ciniawgell, ciniawfa, ystafell giniawa, ystafell giniaw, ystafell fwyta; ystafell wledda, gwledd-gell, gwledd-ystafell.

Dinner, *s.* (Ff. *dîner*) ciniaw, canolbryd, prydnawnfwyd, prydnawnbryd, ciniaw echwydd.

A dinner of herbs—pryd o ddail (*Diar.* xv. 17).

Dinnerless, *a.* diginiaw, heb giniaw.

To go dinnerless—myned heb giniaw; bod heb giniaw; bod heb ei giniaw; bod *neu* fyned yn ddiginiaw.

Dinner-time, *s.* pryd ciniaw, amser ciniaw.

Dinotherium, *s.* (Gr. *deinos* a *thêrion*) hyllfil, erchyllfil.

Dint, *s.* (S. *dynt*) ergyd, dyrnod; grym, nerth, yni, egni; min, awch; gormes, trais; nod, ol, màn, argraff, tolc, pant, ceuedd.

By dint of arms—trwy rym *neu* nerth arfau; trwy ormes a thrais; trwy drais a gorfod.

Dint, *v. a.* pantu, mànu, menu, tolcio, pannylu; gwneuthur ol, màn, *neu* dolc; taraw, dulio.

Dinumeration, *s.* (Ll. *dinumeratio*) unrifiad, unig rifiad.

Dinus, *s.* (Gr. *dinê*) penddaredd, pendro, chwidredd, gysp, meigryn, penddar, penfrag.

Diocesan, *a.* (o *diocese*) esgobaethol, esgobodol; perthynol i esgobaeth; yn perthyn i esgobawd.

Diocesan, *s.* esgob.

Diocese, } *s.* (Gr. *dioicêsis*; Ll. *diocæsis*) esgob-
Diocess, } aeth, esgobawd.

Dioctahedral, *a.* (*dis* ac *octahedral*) dywythochrog, dywythochrol.

Diodon, *s.* (Gr. *dis* ac *odous*) morddraenog.

Diœcia, } *s.* (Gr. *dis* ac *oicos*) Dwyanneddol,
Diecia, } Dwyanneddog; Dwyanneddolion= yr 22fed genedl o blanigion, yn ol trefn Linnæus.

Diœcian, } *a.* (Gr. *dis* ac *oicos*) dwyanneddol,
Diœcious, } dwyanneddog; perthynol i'r genedl
Diecian, } Dwyanneddol.

Dioicous, *a.* (Gr. *dis* ac *oicos*)=*Diœcian*, &c.

Dionte, *s.* math o risgraig.

Diopside, *s.* (Gr. *diopsis*) enw delidfaen.

Dioptaste, *s.* (Gr. *dioptomai*) gwyrddemgopr, mwn gwyrdd copr.

Dioptric, } *a.* (Gr. *dioptricos*) trydremiol,
Dioptrical, } pelldremiol, trydremiadol, pellolygol, pellganfodus; rheiddwyrol; â gynnorthwyo yr olwg i weled pethau pell.

Dioptrics, *s.* trydremyddiaeth, trylewyrcheg, pelldremiaeth, pellolygiaeth; rheiddwyreg.

Diorama, *s.* (Gr. *dia* a *horama*) tryddarlunfa, trywelfa, tryolwg, tryolygawd.

Dioramic, *a.* tryddarluniol, trywelfaol.

Diorism, *s.* (Gr. *diorisma, diorismos*) dosbeniad, deffiniad, dysgrifiad, gwahaniaeth, darnodiad.

Dioristic, *a.* dosbenol, deffiniol, gwahaniaethol, darnodol.

Diorthosis, *s.* (Gr.) uniawnad, unionad.

Diota, *s.* (Gr. a Ll.) math o lestr gwin.

Diotis, *s.* (Gr. *ous, otos*) moredafeddog, llwyd boneddig.

Dioxide, *s.* (*dis* ac *oxide*) isegrid.

Dip, *v.* (S. *dippan; Al. tupfen; D. dypper*)

trochi, soddi, suddo, cleigio, grawthu, dychleigio; mwydo, gwlychu, lleithio, tochi; golchi; taraw mewn dwr; ymsoddi, ymsuddo, ymolchi; tansuddo; myned, treiddio; myned i, treiddio i; dyddori; bod à fyno *neu* à wnelo; cymmeryd arno; ymrwymo, gwystlo; braschwilio, basdreiddio, baschwilio, brasdreiddio; cymmeryd cipolwg; rhedeg yn ysgafn dros; ysgafn gyffwrdd; plygu i lawr, gostwng, pantu, llosdneddu; gogwyddo i lawr.

To dip one's self—ymdrochi, ymsoddi.

To dip into a book—bwrw *neu* daflu cipolwg ar lyfr; rhedeg yn ysgafn dros lyfr; edrych mewn llyfr ar *neu* o ddamwaen; baschwilio llyfr; edrych llyfr ar frys yma ac acw; taraw i lyfr.

To dip one's estate—gwystlo ei dir; rhoddi ei dir ar wystl.

Dip, *s.* ogo, pant; pantiad, pantedd, gostyngiad; llorduedd, llordyniad, llorosgo.

Dipchick, *s.* (*dip* a *chick*) tindroed, ymdrochiar, soddiar.

Dipetalous, *a.* (Gr. *dis* a *petalon*) deuflodeuliog, deuflodeuddail, deuwulddeiliog; â dwy flodeuddalen iddo.

Diphthong, *s.* (Gr. *diphthoggos*) deuseiniad, deusain, deudon, dwydon, cynglafarai, deugyfunsain, sain dalgron: *pl.* deuseiniaid.

Proper diphthongs—deuseiniaid priodol, deuseiniaid rhywiog.

Improper diphthongs — deuseiniaid anmhriodol, deuseiniaid afrywiog.

Diphthongal, *a.* talgron (*m.* talgrwn), deusain, deuseiniol, dwydônol; perthynol i ddeuseiniad.

Diphthongally, *ad.* fel deusain; ar ddull deuseiniad.

Diphucephala, *s.* (Gr. *diphuês* a *cephalê*) deunawdbenogion=llwyth o drychfilod caesadeinaidd.

Diphydes, } *s. pl.* (Gr. *diphuês*) dyblygrilion,
Diphydæ, } deublygrilion, deunawdrilion=
Diphyans, } teulu o lysfilod.

Diphyllous, *a.* (Gr. *dis* a *phullon*) dwyddeiliog, dwyddalenog.

Diploe, *s.* (Gr. *diploos*) madruddyn tyner.

Diploma, *s.* (Gr.) graddlythyr, urddlythyr, graddenw, breintraddeb, breintiadeb; breinteb, breintlythyr, credlythyr.

Diplomacy, } *s.* (o *diploma*) llysgenadiaeth,
Diplomate, } llysgenadaeth, cenadogaeth, teyrngenadiaeth, argenadiaeth, llysnegesiaeth, negesiaduriaeth; llysgenadau, llysgenadon, cenadau llys, teyrnnegeswyr, gweinidogion tramor; y corff llysgenadol; negesffurf; gorchwyliaeth cenadau llys; arferion, rheolau, a breintiau cenadau llys.

Diplomate, *v. a.* breintio, breintioli, rhagorfreintio; estyn braint i.

Diplomated, *a.* graddlythyrog, urddlythyrog.

Diplomatic, *a.* (o *diploma*) graddlythyrol, urddlythyrol, graddlythyrog, urddlythyrog; breintiog, rhagorfreintiog, breintebawl, breintebus; credlythyrog; llysgenadol, llysnegesol, teyrnnegesol, llysgenadogol; perthynol i genadau tramor llys; yn perthyn i lysgenadon tramor.

Diplomatic, *s.* llysgenad, llysgenadwr, llysnegesiadur, llysnegesydd, teyrnnegesydd; gweinidog tramor llys; cenad, cenadwr.

Diplomatics, *s.* henysgrifoneg, henysgrifiaeth; llywodysgrifeg; gwyddor, ofyddiaeth' *neu* athrawiaeth hen ysgrifau.

Diplomatist, *s.* un hyddysg mewn llysgenadiaeth; llysgenadiaethwr; llysgenadwr.

Dipper, *s.* (o *dip*) trochwr, trochydd, trochiedydd, soddwr, suddwr, cleigiwr, cleigydd; lledwad, lledwed: tresglen y dwr, bronfraith y dwr, mwyalch y dwr.

Dipping, *s.* (o *dip*) trochiad, soddiad, suddiad, suddiant, cleigiad, grawthiad; troch; osgoad, pantiad, pantedd, llorduedd, gogwyddad i lawr; llechweddiad, gostyngiad.

Dipping needle—nodwydd ogwyddol *neu* osgoawl.

Diprismatic, *a.* (*di* a *prismatic*) deureiddellig, dyreiddyllig, dyreiddellig, deureiddellawl.

Dipsacus, *s.* (Gr. *dipsaô*) teilai, ysgall y panwr.

Dipsas, *s.* (Gr.) madsych=sarff y pair ei brathiad syched marwol.

Dipsosis, *s.* (Gr. *dipsaô*) syched marwol.

Dipter, } *s.* (Gr. *dis* a *pteron*) dwyednog, dwy-
Diptera, } aesril, trychfil dwyadeiniog: *pl.* dwyednogion, dwyednrilion, dwyaesrilion, trychfilod dwyadeiniog.

Dipteral, } *a.* dwyadeiniog, dwyadeiniol, dwy-
Dipterous, } adenog; âg iddo ddim ond dwy aden; perthynol i'r dwyednrilion.

Dipteral, *s.* adail ddwyadeiniog, adeilad ddwyaden.

Dipteros, *s.* (Gr. *dis* a *pteron*) teml ddwyadeiniog.

Dipterygia, } *s. pl.* dwyasgellbysg, pysg dwy-
Dipterygians, } aden, dwyasgelliaid.

Diptote, *s.* (Gr. *dis* a *piptô*) enw deudreigl, deudreigl: *pl.* deudreigliaid, enwau deudreigl.

Diptych, } *s.* (Gr. *diptuchos*) dyblyglyfr, cof-
Diptychus, } lyfr; cofres esgobion a merthyron.

Dipus, *s.* (Gr. *dis* a *pous*) y Tserboa.

Dipyre, *s.* (Gr. *dis* a *pur*) dygrasfaen.

Diradiation, *s.* (Ll. *diradiatio*) dyreiddiad, pelydriad, rheiddiad, peiliad, llewyrchiad, ysbleiniad; bwriad allan belydr.

Dire, *a.* (Ll. *dirus*) erchyll, dychrynllyd, echrys, aruthr, aruthrol, engur, enguriol, erch, echryslawn, arswydus, arswydlawn, syn, ofnadwy, irad, girad, cethin, echrydus, iradus, aethus.

Direct, *a.* (Ll. *directus*) uniawn, union, cyfeiriol, uniongyrch, uniongyrchol, cywir, didro, diymdro, diŵyr, dileddf, gawn; agored, noeth, amlwg, anamwys; i'r perwyl; mynedol; unfynedol.

Direct answer—ateb cymhwys *neu* addas; ateb diddichell; ateb priod, ateb parod, gwir ateb; ateb i'r perwyl; ateb uniawn.

Direct lie — celwydd noeth, goleu, *neu* barod.

Direct war—rhyfel cyhoedd, rhyfel cyfaddef.

This is a direct sin—pechod hollol ydyw hwn.

Direct line—llin uniawn; llinach uniawn; llinach o dad i fab.

Direct course — uniongyrch; llwybr uniawn, &c.

Direct and retrograde—mynedol a gwrthfynedol.

Direct motion of a planet — ysgogiad mynedol planed; ysgogiad planed o'r gorllewin i'r dwyrain.

Direct, *v. a.* cyfeirio, cyfarwyddo, hyfforddi, hylwybro, llwybreiddio, cyfrwyddo, arfforddi, fforddio, dyrwyddo, fforddoli, fforddebu, cyfeiryd; dangos, dysgu, addysgu, cymmedru, tynwyddo; arwain, hwylio, tywyso, tywys; trefnu, llywio, llywodraethu, ardwyo, arlywio, llywiadu; cyfeirio at, gwynebu at, tueddu at; iawnu; nodi allan.

Direct my steps—hwylia *neu* llywodraetha fy ngherddediad.

To direct a letter—cyfarwyddo llythyr, cyfeirio llythyr, llwybreiddio llythyr.

To direct one's course — hwylio taith; hwylio cerddediad; hwylio ei daith; hwylio camrau; myned, cerdded; troi wyneb; cyfeirio; bod â'i wyneb.

To direct one to another—cyfarwyddo, tynwyddo, *neu* gyfeirio un at arall.

Directing point—cyfeirbwynt, cyfeirbwnc.

Direct, *s.* cyfeirnod, hyfforddeb, cyrchnod, cyrch.

Directer, *s.*=*Director*.

Direction, *s.* (Ll. *directio*) cyfeiriad, cyfarwyddiad, hyfforddiad, hyfforddiant, cyfarwyddyd, cyfarwyddawd, llwybreiddiad, llwybreiddiaeth, cyfrwyddiad, fforddeb, hyfforddeb; llwrw, ffordd, hynt, hwyl, rhediâ, rhawd, uniongyrch, unionred; trefniad, trefnid, ardwy, ardwyad, trefn, llywiad, llywodraeth, llywiadaeth, llywiodraeth, tywysiad, arlywiad, triniad, triniaeth; gweinyddiaeth, gweinidogaeth, arolygiad, arweinid; arch, gorchymyn; rheoledd, rheoleiddrwydd; cyfarwyddwyr.

Line of direction—llinell cyfeiriad, llinell y cyfeiriad, cyfeirlin.

Angle of direction—cyfeirongl, ongl gyfeiriol, elin cyfeiriad.

In the direction of—yn llwrw, llwrw; yn nghyfeiriad; yn wysg; ar gyfer, mewn cyfeiriad; tua, tuag, tuag at; gerag.

For the better direction of those who—er manylach gyfarwyddo y rhai a —.

According to the express directions of the rubric—yn ol hyfforddiadau pendant y rhuddell; yn unol â hyfforddiadau neilltuol y gyfeireb.

Directive, *a.* hyfforddiadol, hyfforddiannol, hyfforddol, cyfarwyddol; hyffordd, cyfarwydd; yn hyfforddi, yn cyfarwyddo, yn cyfeirio, yn hylwybro; cyfeiriol, cyfeiriadol; darlywiol, llywiadol, llywiedyddol.

Directive power of a magnet—gallu cyfeiriadol ehedfaen; pegynduedd ehedfaen; pegyndyniad tryfaen.

Directive force—grym cyfeiriadol.

Directly, *ad.* yn union, yn uniawn, yn gyfeiriol, &c.; yn ddïoed, yn ddïannod, yn ddïattreg, yn chwipyn, chwip, chwap, chwaff, yn chwepyn, toc; ar lwrw, ar gyfer; yn ddigyfrwng, yn uniongyrchol; yn syth, yn unionsyth; mewn mynyd.

Go directly—dos yn union, &c.; dos ar hynt.

Directly before *or* against—ar gyfer, ar gyferyd, cyfarwyneb, cyferyd, yn nghyferyd; yn union o flaen.

Directly opposite to—yn gwbl groes *neu* wrthwyneb i; yn llwyr groes *neu* wrthwyneb i.

Neither directly or indirectly — nac yn amlwg nac ar amnaid; nac yn gam nac yn uniawn; nac ar hyd nac ar draws; nac ar hyd nac ar groes.

Directness, *s.* unionder, uniondra, uniondeb, unionrwydd, unionedd, cyfeirioldeb, cymhwysder, cymhwysdra, addasrwydd, &c.

Director, *s.* (Ll.) cyfarwyddwr, hyfforddwr, cyfarwyddydd, cyfarwyddor, cyfarwyddur, hyfforddydd, cyfeiriwr, cyfeirydd, fforddoliad, cyfarweddiad; llywiadur, llywiadur, arlyw, llywiedydd, ardwyad, llywydd, trefnwr, rhiolydd, rheolydd, rheolwr, triniwr, trinwr, trinydd, triniedydd, trefnidydd, muner, arolygydd, gorchwylydd, goruchwyliwr, llyw, blaenor; addysgwr, cynghorwr; rhwysâdur; à gyfarwyddo; cyfarwyddai, cyfarwyddyr; gosodiad, penodiad.

Director (in surgery)—cyfarwyddyr, cyfarwyddai, profyr cyfarwyddol.

Director of a bank — gorchwylydd, gorchwyliwr, cyfarwyddwr, *neu* drefnidydd ariandy.

Directorial, *a.* cyfarwyddol, hyfforddol, hyfforddiadol, hyffordd; llywedyddol, llywiadurol, trefnidyddol; yn cyfarwyddo, yn hyfforddi, yn gorchymyn, yn erchi; à gyfarwyddo; perthynol i gyfarwyddwyr *neu* i gyfarwyddiad.

Directorship, *s.* llywiedyddiaeth, llywedyddiaeth, hyfforddiaeth, llywodraeth.

Directory, *a.* cyfarwyddol, hyfforddol, hyfforddiadol, hyfforddiannol, cyfarwyddiadol; gorchymynol, archiadol; yn gorchymyn, yn erchi; à orchymyno, à archo, à gyfarwyddo; yn cynnwys cyfarwyddiad *neu* orchymyn; hyffordd, cyfarwydd; arlywodol.

Directory, *s.* cyfarwyddor, hyfforddiadur, hyfforddwr, hyfforddydd, cyfarwyddydd, arweinydd, cyfarwyddur, cyfeiriadur, cyfeirlyfr, hyfforddeg; cyfarwyddiaeth, arlywiaeth; cyfarwyddfa, llywiadfa, llywgor, llywodgor, bwrdd cyfarwyddwyr; cyfarwyddwyr.

The Bible is our best directory—y Beibl yw ein cyfarwyddor *neu* hyfforddydd goreu; y Beibl yw ein cyfeiriadur goraf.

The French directory—y llywgor Ffrengig; yr arlywiaeth Ffreinig; y gyfarwyddiaeth Ffreinig=gallu gweinyddol y Weriniaeth Ffrengig yn 1795-6.

Directress, } *s.* cyfarwyddes, hyfforddes, llyw-
Directrix, } adures, llywiadures, llywiedyddes, llywedyddes, llywiodres, cyfeires.

Direful, *a.* (*dire* a *full*) erchyll, echryslawn, echrys, dychrynllyd, aruthr, aruthrol, engur, enguriol, engyrth, ofnadwy, arswydus, arswydlawn, uthr, hyll, erch, anaele, irad, girad, aethus, echrydus, oethiu, iradus; trychinebus, trwch, truenus, adfydig; creulawn, ysgeler, ffyrnig, dywal, dysgyfrith, didrugaredd.

Direfulness, } *s.* erchylldod, erchylldra, erchyll-
Direness, } rwydd, echryslonedd, echryslonrwydd, echryslondeb, echryslonder, echrysder, aruthroldeb, aruthredd, engurioldeb, enguriolaeth, hyllder, hylldra, hylldod, iradedd, &c.

Dire-looking, *a.* erchyllwedd, echryswedd, hylldremiol; echryslawn ei olwg, &c.

Diremption, *s.* (Ll. *diremptio*) gwahaniad, dyddoliad, neilltuad.

Direption, *s.* (Ll. *direptio*) anrheithiad, ysbeiliad, ysglyfiad, ysgyfiad; trais, cribddail, ysgwlf.

Dirge, *s.* (o'r Ll. *dirige*) galarnad, galargan, galargerdd, marwnad, marnad, galareb, galardon, galarwawd, alaetheg, alaeth, galaeth.

Dirigent, } *s.* (Ll. *dirigo*) cyfeirell, hyfforddell, llinell hyfforddol.
Diretrix, }

Dirigent, *a.* (Ll. *dirigo*) hyfforddiadol, hyfforddiannol, hyfforddol, cyfarwyddol, cyfeiriol.

Dirk, *s.* (Ysg. *durk*) dager, dagyr, dagr, bidog, corgledd.

Dirk,† *a.* tywyll.

Dirk,† *v. a.* tywyllu; gwanu, brathu, bidogi.

Dirt, *s.* (S. *gedritan;* Is. *dryten;* Isl. *drit*) baw, tom, dom, llaca, llaid, cag, llwtra, plwca, aul, llytrod, llibystr, swl; clai, pridd, priddglai; tail, tomdail; †salwedd, brynti.

Dirt-bed of Portland—tom-wely Portland.

Dirt colour—lliw baw, lliw bawlyd, lliw y baw; lliw tywyll.

Dirt, *v. a.* diwyno, bryntäu, llytrodi, tomi, budreddu, budrhau, lleidio, tomlydu, budro, budru; gorchuddio, diwyno, *neu* ddwbio â baw; llychwino; teilo.

Dirtily, *ad.* yn fawlyd, yn fawaidd, &c.

Dirtiness, *s.* bawlydrwydd, baweiddrwydd, baweidd-dra, budredd, budreddi, brynti, aflendid, tomlydrwydd; gwaeledd, distadledd, salwedd, crintachrwydd, ffieidd-dra, bawedi.

Dirty, *a.* bawaidd, bawlyd, brwnt, (*f.* bront), budr, budrog, tomlyd, llawn tom, llawn baw, diwynedig, tomog, lleidiog, llibystrus, aflan, ffiaidd, swga, aflwys, afloew; gwael, sal, salw, iselwael, diffaeth, gwarthus, cywilyddus, disas, crintach, dirmygus, isel, cas, dybryd; tywyll, caddugol.

A dirty fellow—bawddyn, bawai, bawyn, swlyn, adill; adyn brwnt, bawaidd, *neu* fawlyd; yslyfïyn, swgyn, budryn, llyfïyn.

A dirty woman—dynes front, fudr, soga, fawlyd, swga, *neu* lyfi; bronten, budren, budrogen, budrog, llaesen, swgan, dwgan, yslwtren, ysglyfïen, llyfïen, yslebren, yslebog o ddynes, swlen, hafrog, hafren, hafr, dyhiren, dyhirog.

A dirty action—gweithred front *neu* annhelediw; tro brwnt, tro cas; gweithred gas, wael, fawaidd, *neu* fawlyd.

To grow dirty—myned yn frwnt, &c.; bryntäu, llytrodi, lleidio, &c.

To make dirty=*Dirty*, *v. a.*

Dirty, *v. a.* diwyno, bryntäu, budro, budru, budreddu, budrhau, llytrodi, tomi, tomlydio, tomlydu, aflanhau, lleidio; difwyno, halogi, anurddo, gwaradwyddo, gwarthruddo.

Diruption, *s.* (Ll. *diruptio*) ymwahaniad, ymdoriad, ymrwygiad, rhwygiad.

Dis, (Ll.) rhagddawd anesgarol, yn dynodi *an-, di-, dis-, dad-; ymraniad, ymwahaniad, ymadawiad oddi wrth.*

Disability, *s.* (o *disable*) anallu, anallugrwydd, analluedd, diffyg gallu; analluoldeb, dïalluedd, dïalluogrwydd, anualluoldeb, gwendid, gwander, gwandra, anaddasrwydd; anach.

Disable, *v. a.* (*dis* ac *able*) analluogi; anaddasu, anghymhwyso, anghyfaddasu; gwneuthur yn analluog, yn anghymhwys, *neu* yn anaddas; gwanhau, gwanychu, dirymio, dirymu; lluddio, rhwystro; efryddu; dwyn *neu* beri gwendid *neu* anallu; gwneuthur aelod *neu* aelodau yn ddifudd *neu* ddiffrwyth; dwyn nerth *neu* rym aelod; diffrwytho, anmharu.

Disabled, *p. p.* analluog; efrydd, brydd; diffrwyth ei aelodau; llesg gàn archollion; gwanychedig, &c.; difudd, diffrwyth.

Disablement, *s.* anallu, analluogrwydd, analluedd, analluoldeb, dïalluedd, dïalluogrwydd, diffyg gallu; gwendid, gwander, gwandra, gwanhad; anach.

Disabling, *a.* analluol, analluogol, dïalluol, dadalluogol, dadalluol; efryddol; anaddasol; gwanychol, diffrwythol; à fo yn analluogi; anachol.

Disabuse, *v. a.* (Ff. *désabuser*) didwyllo, dattwyllo; rhyddhau o gamgymmeriad *neu* gamsyniad; dangos i un ei gamsyniad *neu* gamgymmeriad; gosod un yn *neu* ar yr iawn; gosod un ar y gwir; agor llygaid un; dwyn un allan o'i amryfusedd; iawnu, dadsomi, disomi, ddatddallu.

To disabuse one's self—ymryddhau o gamsyniad, &c.; ymddidwyllo; didwyllo ei hunan; ymddihatru.

Disaccommodate, *v. a.* (*dis* ac *accommodate*) gwneuthur yn anghyfleus; peri anghyfleusdra i; anaddasu, anghymhwyso, ansutio, dïaddasu; taflu i anghyfleusder.

Disaccommodation, *s.* anghyfleusdra, anghyfleusder, anghyfleusdod, anghyfleusrwydd, anhwylusdod; anmharodrwydd, anghymhwysder, anaddasrwydd.

Disaccord,† *v. a.* anghytuno, anghydsynio.

Disaccustom, *v. a.* dadarferu, dadarfer, dadarferyd, anarferu, dadgynnefino; esgeuluso arfer *neu* ddefod.

Disacknowledge, *v. a.* gwadu, anaddef, anghyfaddef; dïarddelwi, gwrthod; peidio âg addef *neu* arddelwi.

Disacquaint, *v. a.* anghyfeillachu, anghyfeillio, anghynnefino; tori cyfeillach *neu* gydnabyddiaeth.

Disacquaintance, *s.* anghyfeillach, anghydnabyddiaeth, annabyddiaeth, anadnabyddiaeth.

Disadorn, *v. a.* anaddurno, dïaddurno, dadaddurno, anwychu, anharddu, aneirioni.

Disadvance,† *v. a.* rhwystro, lluddio, ystwyo; cloffi.

Disadvantage, *s.* (*dis* ac *advantage;* Ff. *désavantage*) anfantais, anghyfleusdra, anghyfleusder, anghyfleusdod; afles, colled, niwed, anghymmwynas, aflesrwydd, aflesiant, dilesiant, anfuddiant, anfudd.

Disadvantage of ground (in war)—anfantais, anghyfleusder, *neu* wrthwyneb tir.

Disadvantage, *v. a.* colledu, aflesu, aflesoli; niweidio, aflwyddo, rhwystro; gwneuthur anfantais, anghymmwynas, *neu* afles i; peri afles i; drygu, difanteisio; bod yn anfanteisiol i.

Disadvantageable,† *a.* anfanteisiol.

Disadvantageous, *a.* anfanteisiol, difantais, anfanteisiog, aflesol, anfuddiol; anghyfaddas, anghymhwys, anghyfleus; colledus, niweidiol; diles, anghymmwynasol, difwyniant.

Disadvantageousness, *s.* anghyfleusdra, anghyfleusder, aflesoldeb, aflesolder, aflesolrwydd, anfanteisioldeb, anfuddioldeb, aflesiant, dilesiant; anfantais, anghymhwysder; colled, niwed.

Disadventure,† *s.* anffawd, aflwydd, anhap, damwaen, dryglam, drwg ddamwaen.

Disadventurous,† *a.* aflwyddiannus, anffodus.

Disaffect, *v. a.* angharu, disgaru, diflasu, oeri, dyeithro, estroni; bod yn ddiserch i; casbau,

ffieiddio; peri anghariad, disgariad, *neu* ddiserchrwydd yn un tuag at arall; troi, tynu, *neu* ddwyn ymaith serchiadau un; dïystyru, dirmygu, gwrthod, llysu; gwneuthur yn anfoddlawn *neu* anghyfeillgar; gwneuthur yn llai ffyddlawn i; annhrefnu, dyrysu.

Disaffected, *a.* drygwyllysiol, dryg-ewyllysiol, anfoddog, anfoddlawn, anfoddlon, angharedig, diserch; yn dwyn drwg ewyllys; yn dwyn drwg wyllys i; drwg ei ewyllys; yn gwyllysio yn ddrwg; yn dàl gwg *neu* gilwg ar; heb ewyllys da i; cenfigenus, cynghorfynus, digus, maleisus; anghyfeillgar.

To render disaffected to—dwyn i ddifiasu ar.

A disaffected person—drygwyllysiwr, dryg-ewyllysiwr, drwg ewyllysiwr, gwyllysiwr drwg; dyn anfoddlawn *neu* anfoddog.

Disaffectedness, *s.* anghariad, disgariad, angharedigrwydd, diserchrwydd, anserch; drygwyllysioldeb, drygwyllysiolrwydd; anfoddogrwydd, anfoddlonrwydd, anfoddlondeb, anghywiredd, anghariadoldeb.

Disaffection, *s.* anghariad, disgariad, anserch, angharedigrwydd, anfoddlonedd, anfoddlonrwydd, difiasdod, anhoffder, casineb, drygwyllys, dryg-ewyllys, cilwg, malais, cynddrygedd; anffyddlondeb, diffyg ffyddlondeb, annheyrngarwch; diffyg *neu* eisieu serch; diffyg ewyllys da; annhrefn; drygnawsˆ, anniwyg.

Disaffectionate, *a.* angharedig, diserch, anserchog, drygwyllysiol, anfoddlawn, anfoddog, anghyfeillgar; drwg ei ewyllys; yn gwyllysio yn ddrwg.

Disaffirm, *v. a.* gwadu, nagu, nacäu, gwrthddywedyd; dirymu, dirymio, diddymu, anghadarnhau.

Disaffirmance, *s.* gwad, gwadiad, ymwad, nag, nacâd, pall, negyfiaeth, gomedd; gwrthbrawf, disbrawf, dadbrawf, disbrofiad; dirymiad, diddymiad, anghadarnhad.

Disafforest, *v. a.* dadbrysori, digoedwigo, dadgoedwigo, dadfforestu, difforestu; troi o fod yn goedwig; difuddiaw o freintiau coedwig.

Disaggregate, *v. a.* dattyru, dadgyttyru, dadgynnull, dadgrynöi, diwraddu; gwahanu cruglwyth i'w ranau cyfansoddol.

Disaggregation, *s.* dattyriad, dadgyngread, dadgyngreawd, dadgyttyriad, dadgynnulliad, dadgrynoad, diwraddiad; gwahaniad *neu* ddydoliad cruglwyth.

Disagree, *v. n.* anghytuno, anghyduno, anghydsynio, anghymmodi, anghymmod, anymgydfod, amrafaelio, ymrafaelio, anghordio, anghydgordio, anghydweddu, anghyssoni, croesi; bod â rhagor rhyngddo; bod heb gyttaraw; tybio y gwrthwyneb; tybied i'r gwrthwyneb; bod o dyb arall *neu* amgen; bod yn anghyffelyb, yn anghysson, *neu* yn wrthwyneb.

Disagreeable, *a.* anhyfryd; anghytunol, anghytun, anghytûn, anghydfyddus, anghydgordiol, anghydweddus, anghyngweddus, anghydweddol; anymgymmod; difias, anfiasus, cas, annymunol; anghymmeradwy; amrafaelus, anghyfun, anghysson; anaddas, anghymmesur, anghymhwys; anghyfatebol; anmheraidd, anfelus; anhawddgar.

Extremely disagreeable—anhyfryd iawn, trachas, gorgas, cas iawn, &c.

Disagreeable hue—casliw, casliw, lliw cas.

Disagreeableness, *s.* anhyfrydwch, anhyfrydedd; annymunoldeb; anghytunolrwydd, &c.; difiasrwydd, difiasdod; aflonder, annigrifwch; casineb.

Disagreeableness of temper—gwrthnawsˆ, tymmer gas.

Disagreement, *s.* anghytundeb, anundeb, anghyfundeb, anunoldeb, anghordiad, anghydfod, anghyssondeb, anghydfyddiaeth, anysgymmod, anghymmodlonedd, amrafael, ymryson; gwahaniaeth, amrywiaeth; amryfarn, amrydyb; anghydsyniad; annhebygrwydd, annhebygolrwydd; anaddasrwydd, anghyfaddasdeb.

Disalliege,† *v. a.* (o *liege*) anffyddloni.

Disallow, *v. a.* pallu caniatäu; llysu, gwrthod, gwrthneu, anghymmeradwyo, anoddef, anaddef; cwlio; anfoddloni mewn peth; collfarnu, beio ar, condemnio, dyfarnu, ceryddu; gomedd ei gydsyniad; gwrthod cydsynio; gwarafun.

I disallow this—nid yw foddlawn genyf hyn.

Disallowable, *a.* anghaniataol, anoddefol, anoddefadwy, llysadwy.

Disallowance, *s.* anghaniatâd, anghymmeradwyaeth, llysiant, gwrthodiad, anaddefiad, gwaharddiad, gwahardd, gwardd, gwarafun, gwarafuniaeth.

Disally, *v. a.* anghynghreirio, anghydbleidio; cynghreirio *neu* gyfathrachu yn anmhriodol.

Disanchor, *v. a.* dadangori, dïangori; tynu yn rhydd oddi wrth angor.

Disangelical, *a.* anangelaidd, anangylaidd.

Disanimate, *v. a.* digaloni, gwangaloni, llyfrhau, anghalonogi; dïeneidio, lladd, dïenyddu.

Disanimation, *s.* digaloniad, gwangaloniad, llyfrhad, llyrfhad, anghalonogiad; dïeneidiad, lladdiad, dïenyddiad; marwolaeth.

Disannex, *v. a.* dydoli, gwahanu, anghysylltu, daduno, anghyfuno.

Disannul,† *v. a.* = *Annul.*

Disanoint, *v. a.* dadeneinio, dïeneinio.

Disapparel, *v. a.* dadwisgo, dihatru, diwisgo, diddilladu.

Disappear, *v. n.* difianu, difiannu, difanu, dysmythu, dadymddangos, dismanu; edwi, difancolli; difianu *neu* ymgiliaw o'r golwg; peidio; peidio âg ymddangos.

Disappearance, } *s.* difianiad, difiannìad, di-
Disappearing, } fiant, difaniad, dysmythiad, dadymddangosiad.

Disappoint, *v. a.* somi, siomi, twyllo, seithugio; tori addewid, twyllo dysgwyliad; peri seithug i; dïebrydu; diddymu amcanion.

To disappoint slightly—lledsomi, gosomi.

I have been disappointed of provisions—somwyd fi am osymmaith.

He disappointeth the devices of the crafty—efe sydd yn diddymu amcanion y cyfrwys.

Without counsel purposes are disappointed—ofer fydd bwriadau lle ni byddo cynghor.

Disappointed, *p. p.* somedig, &c.; seithug.

Disappointment, *s.* som, somedigaeth, somiant, somiad, somedd, siom, siomedigaeth, siomiant, siomiad, seithugiaeth, seithugrwydd, seithugiant, twyll, twyllofaint, dïebryd, malc, methdaith; diddymiad amcan; anhap; pall cynllun.

Slight disappointment — lledsom, gosom, somedigaeth fechan, ychydig somiant.
Guilty of a disappointment — dïebrydig, dïebredig.

Disappreciate, *v. a.* dibrisio, tanbrisio, bychanu, anmhrisio, anwerthfawrogi.

Disapprobation, *s.* anghymmeradwyaeth, anghymmeradwyad, anfoddlongarwch, anfoddlonrwydd, anfoddlondeb, anfoddlonedd; anghymmodlonedd, pall; anfoddloniad, annerbyniad, llysiant; bai, cerydd; anhoffder.

Disapprobatory, *a.* anghymmeradwyol, anghymmerol.

Disappropriate, *a.* anmhriodoledig, annaerodedig, dydoledig; heb ei briodoli; heb ei ddaerodi.

Disappropriate, *v. a.* anmhriodoli, annaerodi, dydoli, gwahanu; difuddiaw o feddiant priodoledig.

Disapproval, *s.* = *Disapprobation.*

Disapprove, *v. a.* anghymmeradwyo; bod yn anfoddlawn i; bod heb ymfoddloni mewn; anghanmawl, llysu, gwrthod; bwrw ymaith megys anghymmeradwy.

Disard,† *s.* (S. *dysig*) baldorddwr, bocsachwr, ofer siaradwr.

Disarm, *v. a.* (*dis* ac *arm*; Ff. *désarmer*) dïarfogi, dadarfogi, dïarfu, dadarfu; dïosg o'i arfau; dihatru, dïosg; rhoddi *neu* ddodi ei arfau i lawr; darostwng, gorthrechu.

Disarmament, *s.* dïarfogiad, dïarfiad, anarfogiad, dadarfiad, dadarfogiad.

Disarmed, *p. p.* dïarfedig, &c.; anarfog, dïarfog, dïarf, dïarfau, dadarfog.

Disarrange, *v. a.* annhrefnu, ansefydlu, aflonyddu, dadsefydlu, dadrestru, didwyo.

Disarrangement, *s.* annhrefn, terfysg, afreol, afreoledd, afreolaeth, didrefnedd; annhrefniad, aflonyddiad.

Disarray, *v. a.* dadwisgo, dihatru, diwisgo, anhatru, diddilladu, dïosg, dihwylo; anaddurno, annhrefnu, dattrefnu, didwyo, anghyfrestru, anghyfrencio, dymchwelyd, terfysgu, tarfu, rhawtio; taflu i annhrefn.
To disarray an army — annhrefnu, anghyfrestru, anghyfrencio, rhawtio, *neu* darfu byddin.

Disarray, *s.* adwisg, dadwisg, anwisg, lledwisg, dattrws; anaddurn; annhrefn, terfysg, dyfysgi, cymmysgedd, annybendod, trabludd; anaddurniad, annhrefniad.

Disassiduity,† *s.* annyfalwch, anniwydrwydd, diffyg gofal.

Disassociate, *v. a.* anghyssylltu, daduno, dadgyssylltu, anuno, gwahanu.

Disaster, *s.* (Ff. *désastre*; It. *desastro*) trychineb, anffawd, aflwydd, anhap, annawn, trychni, dryglam, trychlam, drwg ddamwaen, drwg ddygwydd, drwg ddychwaen, drwg dynged, adwyth, echrys;† malldod planed drom.

Disaster, *v. a.* taraw â mellni planed annedwydd; mallu, planed-fallu; drygu, aflwyddo, cystuddio, blino.

Disastrous, *a.* trychinebus, anffodus, anffodiog, trwch, (*f.* troch), trwstan, annedwydd, anhapus, aflwyddiannus, adwythig; adfydig, anfydus, trallodus, gofidus, helbulus; ansiriol, cethin, gwrm, gwyll, tywyll.

Disastrousness, *s.* anffodusrwydd, anffodiogrwydd, trychni, adwythigrwydd, adfydigrwydd, ansirioldeb, &c.

Disauthorize, *v. a.* anawdurdodi, dïawdurdodi; difuddiaw o goel *neu* awdurdod; cymmeryd ymaith *neu* ddystrywio awdurdod.

Disavouch, *v. a.* gwadu, dïarddelwi, dïarddel; tynu *neu* alw yn ol; gomedd, llysu, nacäu, pallu.

Disavow, *v. a.* gwadu, ymwadu â; dïarddelwi, dïarddel, dïarddelw, pallu; gomedd, *neu* wrthod ymarddelw o beth; ymddywadu â; anaddef, anghyfaddef, gwrthod, llysu, pallu, gomedd, nacäu; dywedyd *neu* haeru nas edwyn efe rywun; dywedyd *neu* haeru nas gŵyr efe oddi wrth rywbeth; bwrw ymaith oddi wrth *neu* oddi arno; bod heb ymfoddloni mewn peth.

Disavowal, } *s.* gwad, gwadiad, ymwad, ymwadiad, ymwrthodiad; anaddefiad, anghyfaddefiad; haeriad nas edwyn efe rywun, &c.
Disavowment, }

Disband, *v.* difyddino, dadfyddino, dattod byddin, diswyddo milwyr; diswyddo; dadrwymo, gwahanu, dydoli, tori cyssylltiad, tori i fyny; gwasgaru, gwasgar; gollwng, gellwng, *neu* anfon ymaith; ymwasgaru, ymranu, ymddydoli, ymwahanu, ymddifyddino; ymadael â'u gilydd; myned bob un i'w fân *neu* i'w fangre.

Disbark, *v. a.* tirio, glanio, dadlongi; dirisgo, dirisglo; pilio y rhisg ymaith.

Disbelief, *s.* anghrediniaeth, anghred, anghoel, anghrededd, gwangred; anhyder, anymddiried, anffyddiad.

Disbelieve, *v. a.* anghredu, anghoelio, anffyddio; pallu credu *neu* goelio; anymddiried, anhyderu, gwanffyddio, gwangredu.

Disbeliever, *s.* anghredwr, anghredydd, anghredadyn, anghrediniwr, anffyddiwr, anghoeliwr, anghoelydd.

Disbelieving, *p.* anghrediniol, digred, anghredol, anghredadin.

Disbench, *v. a.* diseddu, dadseddu, difeincio.

Disblame,† *v. a.* difeio, dïeuogi.

Disbodied, *a.* anghorffedig; dïosgedig o'r corff.

Disbowel, *v. a.* diberfeddu, dadberfeddu; tynu allan yr ymysgaroedd.

Disbranch, *v. a.* dadgangenu, dadgangu, digangu, dïosgli, dadosgli.

Disbud, *v. a.* diflaguro, dadfywullu, difywullu, dadflaguro.

Disbudding, *s.* difywulliad, dadfywulliad, dadflaguriad.

Disburden, } *v.* difeichio, dadfeichio, dilwytho,
Disburthen, } dadlwytho, dadbynio; ysgafnhau, esmwytho, esmwythäu, hawsháu, digaethiwo, rhyddhau.

Disburse, *v. a.* (Ff. *débourser*; o *de* neu *dis* a *bourse*) talu arian; talu *neu* osod arian allan; treulio, gwario, costio, costi; talu allan, talu i maes; dibyrsu, dadbyrsu.

Disbursement, *s.* (Ff. *déboursement*) taliad, taliad arian; gosodiad *neu* daliad arian allan; taliad allan; traul, cost; talawd, dibyrsiad, dadbyrsiad, talment.

Disburser, *s.* talwr arian, talwr, talawdr, talmentwr, treuliwr, gwariwr, dibyrswr, dibyrsydd.

Disc, } *s.* (Gr. *discos*; Ll. *discus*) gwyneb (yr
Disk, } haul *neu* y lloer); wyneb, clawrwyneb, clawr, ffriw, gweb; lled.

Discalceate, *v. a.* (Ll. *discalceatus*) dïarchenu, dïesgidio, dadarchenu; tynu ymaith yr esgidiau *neu* y sandalau.

Discalceated, *p. p.* dïarchen, dïarchenog, dïesgidiau, troednoeth.
Discalceation, *s.* dïarcheniad, dïesgidiad, dadarcheniad.
Discandy, *v. a.* toddi, dadmer, dadleithio.
Discard, *v. a.* (*dis* a *card ;* Ysp. a Port. *descartar*) diswyddo ; troi *neu* fwrw allan o swydd; troi ymaith *neu* ffwrdd; llysu, gwrthod, bwrw heibio ; talu ymaith ; dïarddelwi, dïarddelw; digaru ; digardio ; bwrw ymaith *neu* allan y cardiau anfuddiolaf.
Discarnate, *a.* (Ll. *dis* a *caro*) anghnawdiedig, dignawdiog, dignawd.
Discase, *v. a.* dïorchuddio, dadorchuddio, dilenu, dïamlenu, dïosg, digaesu, dadwisgo, diwisgo, dihatru, noethi, dynoethi, dyasg.
Disceptation, *s.* (Ll. *disceptatio*) dadl, ymddadl, dadleu, ymddadleu, dadleuaeth, dadlwriaeth, ymresymiad.
Deceptator,† *s.* cylafareddwr, dyddiwr, penderfynwr.
Discern, *v.* (Ll. *discerno*) canfod, dirnad, dirnadu, deall, gweled, iawn ganfod ; gwybod ; barnu, iawn farnu ; gwahanu, dosbarthu, gwahaniaethu ; gwahanu, barnu, dosbarthu, *neu* wahaniaethu rhwng; ymwybod drwyddo ; adnabod ; dàl sylw ; adnabod yn mysg *neu* oddi wrth ereill ; gwybod, gweled, *neu* ddeall rhagor, rhagoriaeth, *neu* wahaniaeth rhwng pethau ; dadguddio, darganfod, cael allan.
Easy to be discerned—hawdd ei ganfod, ei ddeall, *neu* ei ddirnad ; hywel, amlwg ; hyddeall.
Discerner, *s.* canfodydd, canfodwr, canfyddwr, dirnadydd, barnwr, barnydd, &c.; à genfydd, à wel, &c.
Discernible, *a.* dirnadwy, dirnadadwy, canfyddadwy, dealladwy, canfodadwy, gweladwy, gwahaniaethadwy ; hywel, amlwg ; à ellir ei ganfod, ei ddeall, *neu* ei ddirnad, &c.
Discernibleness, *s.* hyweledd, amlygrwydd, amlygder, amlygedd, canfodoldeb.
Discerning, *a.* craffus, craff, deallus, gwybodus, deallgar, synwyrol, treiddiol, treiddgraff, deallgraff, synwyrgraff ; craff ei olwg ; llygadgraff ; yn canfod y cwbl ; à genfydd y cwbl ; synwyrlym, synwyrgall, edlym, parodbwyll, doeth, call ; yn canfod *neu* à genfydd y gwahaniaeth ; craff ei ddeall, &c.
Discernment, } *s.* dirnadaeth, dirnad, deall,
Discerning, } craffder, craffineb ; craffder *neu* gyflymder deall ; amgyffred, dealltwriaeth, barn ; dirnadiad, dealliad, treiddiad ; y gallu i farnu pethau ; y gallu i wahaniaethu rhwng pethau ; gwybodaeth gwahaniaeth rhwng pethau ; pwyll gwahan ; gwahanedigaeth ; treiddgarwch.
Discerp,† *v. a.* (Ll. *discerpo*) llarpio, rhwygo, tori ; gwahanu, dydoli.
Discerpibility, } *s.* hyrwygedd, hylarpedd, dy-
Discerptibility, } doledd ; bod yn agored i gael ei larpio, &c.
Discerpible, } *a.* hylarp, hyrwyg, llarpiadwy,
Discerptible, } rhwygadwy; gwahanadwy, dydoladwy ; hydor, hyfriw.
Discerption, *s.* llarpiad, rhwygiad ; gwahaniad, dydoliad ; toriad ; dadgyfansoddiad ; tyniad yn ddarnau.
Discession,† *s.* (Ll. *discessio*) ymadawiad.
Discharge, *v.* (Ff. *décharger ;* Ysp. *descargar ; dis* a *charge*) dilwytho, dadlwytho ; gollwng, rhyddhau, gellwng ; gollwng, anfon, *neu* ddanfon ymaith ; cenadu ymadael ; caniatäu myned ymaith ; rhoi cenad i ymadael ; rhoddi cenad i fyned ymaith ; gollwng yn rhydd ; gollwng allan ; difeichio, dadfeichio ; diswyddo ; talu, diddyledu ; cyflawnu, gwneuthur, gwneyd ; ymdywallt, ymarllwys, arllwys, tywallt ; tywallt *neu* fwrw allan ; ergydio, saethu, gollwng ergyd ; digaethiwo; anfon allan ; symmud ; dystrywio ; arlanio; gwaghau ; peri *neu* wneuthur yn wag ; ymollwng, ymryddhau.
To discharge itself—ymarllwys, ymdywallt; rhedeg, llifo, *neu* ddylifo allan.
To discharge a debt—talu, talu dyled.
To discharge a reckoning — talu cyfrif, gildio, talu gild.
To discharge a duty—cyflawnu, gwneuthur, gwneyd, *neu* dalu dyledswydd ; gwasanaethu swydd yn ffyddlawn.
To discharge from office—diswyddo ; dïawdurdodi ; troi o *neu* allan o swydd.
To discharge one's conscience—dilwytho, dadlwytho, dadfeichio, difeichio, *neu* ryddhau ei gydwybod; talu ei adduned.
To discharge of a crime — maddeu bai ; rhyddhau, gollwng, gollwng yn rhydd ; dïeuogi, glanhau, diheuro, cyflawnhau ; rhyddhau oddi wrth fai *neu* drosedd.
To discharge a gun — gollwng ergyd o ddryll ; saethu ; bwrw arfau.
To discharge a pledge—dadwystlo ; gollwng *neu* ryddhau gwystl.
To discharge a vow—talu, cwblhau, *neu* gyflawnu adduned.
To discharge one's stomach — cyfogi, chwydu ; arllwys ei gylla.
To discharge a ship—dilwytho *neu* ddadlwytho llong.
To discharge an obligation—ymryddhau o rwymedigaeth ; talu y pwyth.
I will cause them to be discharged there—yno y dattodaf hwynt (1 *Bren.* v. 9).
Discharge, *s.* dilwythiad, dadlwythiad ; rhyddhad, gollyngdod, gollyngiad, gollyngiad yn rhydd ; rhyddid, rhydd-did, rhydid, rhyddineb ; diswyddiad ; cenad i ymadael â swydd, â gorchwyl, *neu* â sefyllfa ; cenad *neu* ryddid i ymadael ; cenad i fyned ymaith ; gollyngiad *neu* anfoniad ymaith ; trwydded, braint ; taliad, tâl ; talnod, gollyngeb, derbyneb ; cyflawniad, gwneuthuriad ; pridwerth ; ergyd, ffrwydrad ; rhediad, llifad, dylifad, arllwysiad, tywalltiad, ymarllwysiad ; dyferlif, rhedlif ; crawn, gôr, chwydredd ; gollyngfa, agorfa, twll ; twll, lle, *neu* ffordd y rhed peth allan drwyddo ; gollyngiad allan ; dïangfa.
Discharge (for money paid)—gollyngdod ; gollyngeb, derbyniad, talnod.
Discharge of debt—taliad dyled.
Discharge of duty—cyflawniad, gwneuthuriad, *neu* daliad dyledswydd ; gwasanaethiad swydd yn ffyddlawn.
Discharge of a gun—ergyd o ddryll ; gollyngiad ergyd o ddryll ; ergyd dryll, trwst dryll, ffrwydrad dryll.
Discharge of weapons—bwriad, tafliad, ergydiad, *neu* chwyrnelliad arfau.
There is no discharge in that war—nid oes bwrw arfau yn y rhyfel hwnw (*Preg.* viii. 8).

Discharge of blood—gwaedlif, gwaedlin, gwaedling.
Discharger, *s.* rhyddhäwr, gollyngydd; gollyngwr *neu* anfonwr ymaith; taniwr; sacthwr; cyweinyr.
Discharger (in electricity)—gollyngydd, cyweinyr.
Discharger of debt—talwr, talawdr, talmentwr, talwr dyled.
Dischurch, *v. a.* dadeglwyso, dïeglwyso; difuddiaw o fod yn eglwys.
Discide,† *v. a.* (Ll. *discindo, discidi*) rhanu, gwahanu, tori, briwio.
Disciform, *a.* (Ll. *disciformis*) coetanaidd, coetenaidd; tebyg ei lun i goetan.
Discinct, *a.* (Ll. *discinctus*) anwregysog, diwregys; gwedi ei ddadwregysu; rhydd, llaes, llac, yslac, dirwym; gwedi ei ollwng yn rhydd; esgeulus, dïogswrth.
Discind,† *v. a.* (Ll. *discindo*) tori yn ddau; gwahanu, rhanu, tori.
Disciple, *s.* (Ll. *discipulus*) dysgybl; ysgoläig, ysgolor, dylynwr, dylynydd, canlynwr; athrylithgan: *f.* dysgybles.
There was at Joppa a certain disciple—yn Ioppa yr oedd rhyw ddysgybles (*Act.* ix. 36).
Disciple, *v. a.* addysgu, dysgu, dysgyblu; gwneuthur dysgybl o; †ceryddu.
Disciple all nations — dysgyblwch *neu* addysgwch yr holl genedloedd; gwnewch ddysgyblion o'r holl genedloedd.
Disciple-like, *a.* dysgyblaidd, fel dysgybl.
Discipleship, *s.* dysgybldod, dysgyblaeth, athrylithdod, ysgoleigiaeth; cyflwr *neu* ansawdd dysgybl.
Disciplinable, *a.* (Ll. *disciplinabilis*) dysgybladwy, dysgadwy, addysgadwy, athrylithgar, hyddysg, hydrin, llywodraethus; à ellir ei ddysgyblu;† hawdd ei ddysgu *neu* ei reoli; hawdd ei gadw dàn ddysgyblaeth; †ceryddadwy, hygosb.
Disciplinableness, *s.* hyddysgedd, hyddysgybledd, athrylithgarwch, athrylithgaredd, y cyflwr o fod yn ddarostyngedig i ddysgyblaeth.
Disciplinants, *s. pl.* Dysgybliaid=plaid o benboethiaid.
Disciplinarian, *a.* (o *discipline*) dysgyblawl, dysgyblaethol; dysgyblaidd; perthynol i ddysgyblaeth; ceryddol.
Disciplinarian, *s.* dysgyblwr, dysgyblydd; dysgyblwr llym; à garo ddysgyblaeth, trefn, *neu* reolaeth; un hydrefn; coethyn.
Disciplinary, *a.* dysgyblawl, dysgyblaethol, dysgyblaidd, dysgiolin; perthynol i ddysgyblaeth; à berthyna i ddysgyblaeth.
Discipline, *s.* (Ll. *disciplina*) dysgyblaeth; rheolaeth; addysg, dysg, dysgeidiaeth, athawiaeth, ysgoleigdod, addysgiad; trefn, iawn drefn, tyn drefn, caeth drefn; cerydd, cystwy, cystwyaeth, cospaduriaeth, cyweiriad.
Discipline, *v. a.* dysgyblu, dysgyblaethu; dysgu, addysgu, athrawu, athrawiaethu, hyfforddi, hyfforddio, addysgu, rheoli, trefnu, iawn drefnu; dwyn *neu* gadw dàn drefn; ceryddu, cospi, cystwyo, cyweirio.
Discipliner, *s.* dysgyblwr, dysgyblydd; à ddysgyblo, à ddysgo.
Disclaim, *v. a.* dïarddelwi, dïarddelw, dïarddel, anarddelwi; ymwrthod, ymwadu, *neu* ymddywad â; gwadu, gwrthod, llysu; pallu, gomedd, *neu* wrthod arddelwi; gwadu hawl, meddiant, *neu* berthynas; dihawlio.
Disclaimation,† *s.* dïarddelwad; gwadiad.
Disclaimer, *s.* dïarddelydd, dïarddelwr, dïarddelwydd, anarddelwr, gwadwr, gwrthodydd, dihawlwr; gwad, gwadiad, dïarddelwad, dïarddeleb.
Disclose, *v. a.* (*dis* a *close*; Ff. *déclorre, déclos*; Ll. *discludo*) dadguddio, egluro, amlygu, annirgelu, dadenhuddo, dadanhuddo, dynoethi, didöi, diguddio, dadhuddo, dïachluddo, dadorchuddio, dïorchuddio, digelu, dihuddo; hysbysu, cyhoeddi, mynegu, dadganu, dangos; dywedyd, yngan, traethu; dwyn i'r goleu, i'r goleuni, i'r golwg, *neu* i'r amlwg; gwneuthur yn hysbys; †agor, egori, deor.
Disclose, *s.* dadgudd, dadguddiad, dadorchuddiad, &c.
Disclosed, *p. p.* dadguddiedig, &c.; à ddadguddiwyd, &c.; annirgel, amlwg, eglur, hysbys, noeth, dïorchudd; agored, ar daen.
Discloser, *s.* dadguddiwr, dynoethwr, eglurydd, amlygwr, &c.
Disclosure, *s.* dynoethiad, dadguddiad, dadenhuddiad, dadhuddiad, dadanhuddiad, dadenhudded, egluriad, amlygiad.
Disclusion, *s.* (Ll. *disclusus, discludo*) tafliad allan, bwriad allan, cythiad, wffiad, ergydiad.
Discoast,† *v. n.* ymadael, gadaw yr oror.
Discoherent, *a.* anghysson, anghytun, anghydweddol.
Discoid, *s.* (Gr. *discos* ac *eidos*) rhywbeth ar lun coetan; gogoetan.
Discoid, **Discoidal**, *a.* coetanaidd, coetenaidd; ar ddull coetan.
Discoloration, *s.* dadliwiad, diliwiad, diliwiant, disliwiad, drygliwiad, afliwiad, llychwinad, amliwiad; drygliw, ystaen, gne, anlliw, amliw; newid lliw, gwedd, *neu* hoen; anllewychiad.
Discolour, *v. a.* (Ll. *discoloro*) dadliwio, diliwio, disliwio, drygliwio, llychwino, ystaenio, amliwio, newid lliw, troi lliw; troi lliw er gwaeth; peri colli ei liw; newid gwedd, newid gwawr, newid lliw, newid lliwiau, symmud lliwiau.
Discoloured, *a.* amliwiog, amliw, amryliw; drygliw, drygliwiog, llychwin, ystaen; à gollodd ei liw.
Discomfit, *v. a.* (Ff. *déconfit*) gorchfygu, gorfod, gorfod ar, baeddu, maeddu, rhawtio, ffwyro, dymchwelyd, dadymchwelyd, dadymchwel, goresgyn; ennill y maes ar; cael yr oruchafiaeth, y maes, *neu* y gorfod ar; trechu, athrechu; gyru ar ffo; gyru i ffoi; ymlid ymaith; gwasgaru, tarfu, cilgwthio, curo, cwympo; dryllio, dyfetha, dinystro, dinystrio.
Discomfit, **Discomfiture**, *s.* gorchfygiad, gorfod, gorfodiad, ffwyr, ffwyrad, rhawtiad, trechiad, athrechiad, dymchweliad, dadymchweliad, baeddiad; gwasgariad; gyriad ar ffo, gyriad ymaith; ennilliad y maes, &c.; aerfa, lladdfa, cwymp, dystryw, dinystr; somiant.
Discomfort, *s.* anghysur, annyddanwch; tristwch, tristyd, pruddineb, prudd-der, trymder, brwyn, anesmwythder, anesmwythyd, aflonyddwch; gofid, cysteg, cystudd, blinder, poen.
Discomfort, *v. a.* anghysuro, annyddanu; peri anghysur, annyddanwch, gofid, tristwch,

trymfryd, *neu* anesmwythder i; gofidio, cystuddio, tristäu, pruddhau, trymhau, trallodi, digaloni, anesmwytho, aflonyddu, poeni.

Discomfortable, *a.* anghysurus, annyddan; gofidus, trallodus, trist, athrist, prudd, anesmwyth.

Discommend, *v. a.* anghanmawl, dadganmawl; beio, beio ar, anghymmeradwyo; lladd ar, rhedeg ar; ceryddu.

Discommendable, *a.* anghanmoladwy, beius, i'w feio, beiadwy, anghymmeradwy, i'w anghymmeradwyo, ceryddadwy, ceryddol.

Discommendableness, *s.* anghanmoliaeth, dadganmoliaeth; beiusrwydd, beiusder, beioldeb, hygyledd, cylusrwydd, hygwyledd, anghymmeradwyaeth.

Discommendation, *s.* anghanmoliaeth, dadganmoliaeth, anghymmeradwyaeth, anghlod, dadganmoliad, anair, drygair, hort, gogan, sarhad, gwarth, gwarthrudd; bai; sen, cerydd, sard, cwyn.

Discommender, *s.* anghanmolwr, dadganmolydd, &c.

Discommodate,† *v. a.* taflu i drafferth; peri anghyfleusder.

Discommode, *v. a.* peri anghyfleusder, anghyfleusdra, afles, anfantais, colled, *neu* niwed i; aflesu, aflesoli, colledu, niweidio; gwneuthur anghymmwynas *neu* sarhad; taflu i anghyfleusdra; gormesu, blino, trafferthu, aflonyddu, cyffröi, annhrefnu, ffeigio.

Discommodious, *a.* anghyfleus; anghymhwys, anaddas, anghyfaddas; anfanteisiol, anghymmwynasol; blinderus, blin, trafferthus.

Discommodity, *s.* anghyfleusder, anghyfleusdra, anghyfleusrwydd; anghymhwysder, anaddasrwydd; anfantais, afles, anghymmwynas, colled, niwed; trafferth, trabludd, aflonyddwch, helbul.

I have cast with myself all my discommodities—fy holl anghyfleusderau a fwriais rhyngof a mi fy hun.

Discommon, *v. a.* anghyttiro; perchenogi cyttir; gwahanu ac amgylchu tir cyffredin; difuddiaw o freintiau lle.

Discomplexion,† *v. a.* newid lliw, newid lliwiau, newid gwedd, symmud lliwiau.

Discompose, *v. a.* aflonyddu, ansefydlu; annhrefnu, dattrefnu, anghymmoni, anghyweirio; cythryblu, cythryblio, cythruddo, terfysgu, cyffröi, cynhyrfu, trallodi, coddi, anesmwytho, anfoddogi; bwrw allan o drefn; †diswyddo.

Discomposition,† *s.* anghyssondeb, anghytundeb.

Discomposure, *s.* annhrefn; annhrefnusrwydd, didrefnedd, annhrefniad, dattrefn, aflonyddwch; terfysg, cynhwrf, cythrwfl, cythrudd, trallod, cymhelri, trabludd, boloch, cyffroad; annhawelwch, anesmwythder; terfysg *neu* gynhwrf meddwl.

Disconcert, *v. a.* somi, seithugio, dïebru, diddymu, dirymu; annhrefnu, aflonyddu, terfysgu, cythruddo, cyffröi, cythryblu; tori *neu* ddiddymu bwriad *neu* amcan; tori ar gynllun; annhrefnu y meddwl; tori.

Disconcertion, *s.* somiad, seithugiad, seithugiant, seithugiaeth, dirymiad, annhrefniad.

Disconformity, *s.* anghydffurfiaeth, anghydffurfiad, anghydymffurfiad, anghyfluniad, anghyssondeb, anghytundeb, anghordiad, anghydgordiad, annhebygoldeb, anghydarwedd, anghyngweddiad, anghydweddiad, diamweddiad, anghydsafedd.

Discongruity, *s.* anghyssondeb, anghyssonder, anghyssonrwydd, anghytundeb, anaddasrwydd, anghyfaddasrwydd, anghymhwysder, anghydgordiad, anghydsyniad, anghyngweddiad, anghydweddiad, anghyfladdrwydd.

Disconnect, *v. a.* dadgyssylltu, daduno, anghyssylltu, gwahanu, dydoli, digyssylltu, dadgydio, anuno, ysgaru, dadgyfuno, dïuno, dibriodoli, anghyfrwymo, digyfieuo.

Disconnection, *s.* dadgyssylltiad, dadunad, anghyssylltiad, dydoliad, gwahaniad, ysgariad, &c.; anundeb, diberthynasedd, anmherthynasedd, anghyfieuad.

Disconsent, *v. a.* anghytuno, anghyduno, anghydsynio, anghydsynied, anghyssynio, anghydgordio; gwahaniaethu, amrywio; peidio â chydsynied.

Disconsolance, Disconsolancy, Disconsolateness, } *s.* anghysuroldeb, anghysurwch, anghysur, anghysurusrwydd, digysurdeb; tristlonedd, tristwch, athristedd, prudd-der, pruddineb, pruddni, annyddanwch.

Disconsolate, *a.* (Ll. *dis* a *consolatus*) anghysurus, anghysurol, digysur, anhylon, annyddan; prudd, trist, athrist, tristlawn, anhalar, pruddglwyfus, pendrist; galarus, annyddanol, dilon, dybryd.

Disconsolation, *s.* anghysur, annyddanwch.

Discontent, *s.* anfoddlonrwydd, anfoddlondeb, anfoddineb, anfoddoldeb, anfoddolder, anfodlondeb, anfoddlonedd, anfodd; anesmwythder, aflonyddwch, anghymmodlonedd.

Discontent, Discontented, } *a.* anfoddlawn, anfoddlon, anfodlon, anfoddgar, anfoddus, anfoddog, anfoddol, anfoddlongar, anfoddlonus, anhyfodd; anesmwyth, aflonydd; anesmwyth ei feddwl.

Discontent, *v. a.* anfoddhau, anfoddloni, anfoddio, anfoddogi, anfoddloni; peri anfoddlonrwydd, coddi; anesmwytho, aflonyddu; dygnu, gofidio, blino, cythryblu, cythruddo.

Discontentedness, Discontentment, } *s.* anfoddlonrwydd, anfoddlondeb, anfoddogrwydd, anfoddoldeb, anfoddlongarwch, anfoddlonder, anfoddineb, anfoddusrwydd, anfoddlondeb; anesmwythder, anesmwythder meddwl, anniddigrwydd, dilonrwydd; dygnedd, cythrudd.

Discontentful, *a.* anfoddlawn; llawn anfoddlondeb.

Discontenting, *a.* anfoddogol, anfoddhaol, anesmwythaol.

Discontinuable, *a.* anmharadwy, anmharhadwy; à ellir ei anmharhau.

Discontinuance, *s.* anmharhad, anmhara, anmharausder; dysbaid, dysbeidiant, dysbeidiad, paid, arddysbaid, tawl, toliant, toliad, seibiant, saib, hamdden, gorphwys, tor, godor, attal, attalfa; gadawiad, gollyngiad, *neu* roddiad heibio; encyd, ennyd, cyfrwng, cyfwng.

Discontinuance of a suit—godor cyfraith, twrf cyfraith.

Discontinuation, *s.* anmharhad, anmhara, disbarhad, dysbeidiad, dibarhad; anghyfunedd, anghyfander, toriad cyfunedd; anghydolrwydd, anolynoldeb, anolyniaeth; tor, toriad, gwahaniad; annefod, anghynnefinder, anarfer.

Discontinue, *v.* anmharhau, anmhara, dibarhau, peidio, dysbeidio, arddysbeidio; peidio â pharhau; gorphwyso *neu* ymattal oddi wrth; gadael heibio, rhoi heibio, tori ymaith; gadael peth yn anorphen *neu* heb ei orphen; peidio dros ennyd, encyd, ysbaid, *neu* orig; gadael, gadaw; peidio â chymmeryd; anghyfuno, anghyfanu, tori cyfunedd.

And thou even thyself shall discontinue from thine heritage—ti a adewir hefyd dy hunan, heb yr etifeddiaeth (*Ier.* xvii. 4).

Discontinuer, *s.* anmharâwr, dysbeidiwr, disbarhäwr.

Discontinuity, *s.* anghydolrwydd, anolyniaeth, anolynoldeb, anghyfander, anghyfunedd, anghydlyniad, anymlyniad, anundeb, toriad cyfunedd.

Discontinuous, *a.* anmharhaol, anmharhäus, talmedig; toredig ymaith; anghyfan, anghyfunol, anolynol; gwahanedig, dydoledig, ysgaredig; agored, rhwth, anghyssylltedig.

Disconvenience, *s.* anghyssondeb, anghyssonder, anghytundeb, anghydsyniad.

Disconvenient, *a.* anghysson, anghyfladd, anghyfladdol.

Discord, *s.* (Ll. *discordia;* Ff. *discorde*) anghydfod, anghytundeb, anghydundeb, anundeb, anghyfundeb, anghyfundod, anghydweddiad, anghordiad, anghydgord, anghord, anghyssondeb, anghyssonder, anghynghanedd, anghyssonedd, anghynghan, anghydsain; ymrafael, amrafael, ymryson, cynhen, cyfrysedd, crwysedd, cywrysedd.

Discord (in music)—anghyttonedd, anghyssondeb, anghydgerdd, anghynghanedd, anghyngan, anghydsain, anghydlais, anghord, anghydord, gwrthsain, anghyfunsain.

To be at discord—bod yn anghytun; bod mewn anghydfod; bod mewn amrafael; bod mewn anghytundeb; amrafaelio, anghytuno, anghyssoni, anghordio, anghydgordio, anghydseinio, anghydsynio.

Discord, † *v. n.* anghytuno, anghydseinio, anghordio, anghydgordio, anghydsynio; bod yn anghytun, &c.

Discordance, } *s.* (Ll. *discordans*) anghytun-
Discordancy, } deb, anundeb, anghydfod, anghyfundeb, anghyfundod, anghyssondeb, anghyssonder, anghyssoniaeth, anghyssonedd, angharedd, anghydweddiad, anghyngweddiad, anghynghanedd, anghynghan, anghydsain, anghydgerdd; gwrthwynebiad, ymrafael, amryson, cyfrysedd, anghar, angharant.

Discordant, *a.* (Ll. *discordans*) anghytûn, anghytun, anghytunol, anghyfunol, anghydgordiol, anghordiol, anghynghordiol, anghydsain, anghydseiniol, anghydgerdd, anghydgerddol, anghydlais, digynghan, digynghanedd; anghysson, anghywair, anghyweiriol, croes, gwrthwynebol, anghyttynol.

Discordful, *a.* amrafaelgar, ymrysongar, cynhenus, cynhengar, cynhenllyd, cecrus.

Discounsel, † *v. a.* anghynghori, gwrthgynghori.

Discount, *s.* (Ff. *décompte; dis* a *count*) toliant, toliad, tawl, anghyfrif; tyniad dogn *neu* ryw ran oddi wrth gyfrif *neu* ddyled; tawl *neu* doliant cyfrif; lleihad cyfrif am dâl ar law; colled mewn cyfrif am arian parod; dattyniad.

Discount (as a rule)—anghyfrifiaeth, toliadaeth, toliant.

Discount day—dydd toliant, dydd anghyfrif, dydd dattyniad.

Bank of discount and deposit—ariandy tawl ac addawd; banc toliant ac adneu.

Discount, *v.* (Ff. *décompter;* Ysp. *descontar*) toli, anghyfrif, anghyfrifo, dattynu; tynu dogn *neu* ran oddi wrth y cyfrif *neu* y ddyled; colli mewn cyfrif am dâl ar law; lleihau cyfrif am arian; tynu yn ol; tynu oddi wrth.

Discountable, *a.* toliadwy, anghyfrifadwy; dattynadwy.

Discountenance, *v. a.* anghefnogi, anghaloni, anghalonogi, digaloni, anghysuro; rhwystro, attal, ystwyo, nadael, goluddio, gwahardd i, gwarafun i; anffafrio, gwrthwynebu; dangos anfoddlonrwydd i; dangos yn anfoddog tuag at; anghymmeradwyo, anghanmawl; † gwaradwyddo, cywilyddio, cythruddo.

Discountenance, *s.* anghalondid, anghaloniad, anghefnogrwydd, digaloniad, digefnogiad; anghymmeradwyaeth, anghanmoliaeth, anghysur; anffafr, anffafriad, anfoddlonrwydd; gwg, cuwch, soriant; goludd, rhwystr, ystwy.

Discountenancer, *s.* anghefnogwr, anghefnogydd, anghalonogwr, &c.

Discounter, *s.* toliedydd, anghyfrifydd; à fenthycio arian ar dolion.

Discounting, *s.* (o *discount*) toliad, anghyfrifiad; benthyciad arian ar dolion.

Discourage, *v. a.* (*dis* a *courage;* Ff. *décourager*) anghefnogi, anghaloni, anghalonogi, digaloni, gwangaloni, anghysuro, digysuro, llyfrhau; anghynghori, gwrthgynghori; darbwyllaw oddi wrth; cadw rhag; goluddio, rhwystro, ystwyo.

To be discouraged—digaloni, gwangaloni; llyfrhau, llaesu, llacäu; myned yn ddigalon; bod yn ddigalon; gwanhau, diwrygio; cael ei ddigaloni.

Not discouraged—calonog, difraw, cysurus.

And the soul of the people was much discouraged—a chyfyng ydoedd ar enaid y bobl (*Num.* xxi. 4).

Discouragement, *s.* anghefnogiad, anghefnogaeth, digaloniad, anghaloniad; anghalondid, digalondid, gwangalondid, anghefnogrwydd, anghysur, tor calon; afrwydd-deb; anhawsder; lludd, goludd, rhwystr, attaliad, ystwy.

Discourager, *s.* anghefnogwr, anghefnogydd, digalonwr, digalonydd, &c.

Discouraging, *a.* llyfrhaol, anghefnogol, anghalonogol, digalonol, digalonus, torgalonus, anghysurus, digysur.

Discourse, *s.* (Ll. *discursus;* Ff. *discours*) ymadrodd, ymddyddan, cydymddyddan; traethawd, treithawd, traith; araeth, araith, arawd; pregeth; ymgom, ymgomiad, siarad, cydsiarad, cyssiarad, chwedl, ymddywediad, cynnadledd, cynnadl, parabl, cyfariaith; ymresymiad, dadl, ymddadl, dadleu, ymddadleu; iaith.

Mutual discourse — ymgom, ymgomiad, cydymddyddan, cymddyddan, cydsiarad, cyssiarad, &c.

Moral discourses, } ymadroddion buch-
Practical discourses, } eddol.
Introductory discourse, } rhagaraeth, cyn-
Prefatory discourse, } araeth, rhaglith, rhagdraethawd, rhagdraith, cynarawd, rhagarawd, treithawd rhagarweiniol, araeth ragarweiniol, araith ragweiniol.
Extemporaneous discourse — pregeth ddifyfyr, pregeth ddiragfyfyr; ymadrodd difyfyr, disymmwth, *neu* ddisyfyd.
The discourse of Cicero on old age—traethawd Cicero ar henaint; traith Cicero am henaint.

Discourse, *v. n.* ymadroddi, ymadrodd, ymddyddan, cydymddyddan, siarad, siared, chwedleua, ymchwedleua, ymgomio, parlio, cydsiarad; traethu, treithu, areithio, parablu, llefaru, llafaru; pregethu; ymresymu, cymhwyllo; cynnadlu, cynnadleddu.
To discourse extempore, } ymadroddi *neu*
To discourse impromptu, } lefaru yn ddifyfyr; rhygomio.

Discourse,† *v. a.* ymddyddan *neu* ymadroddi am; siarad yn nghylch; trin.

Discourser, *s.* ymadroddwr, ymddyddanwr, ymgomiwr, siaradwr; areithiwr, areithydd, llefarwr, llefarydd, arodydd, parablydd; traethwr, treithydd, traethodwr; pregethwr.

Discoursive, *a.* rhesymiadol, ymresymol, ymresymiadol, cymhwylliadol, cymhwyllus; ymadroddol, ymddyddanol, ymgomiol, cydymddyddanol, cymddyddanol; siaradus, siaradgar; treithol.

Discourteous, *a.* anfoesgar, difoes, anfoesog, anfoesol, anfwyn, anfoddus, anfoddgar, ansyber, ansyberw, anfoneddigaidd, anhyfoes, anfoeswych, anghyflys, anhyfwyn, anghyweithas, anhynaws, anwar, annhirion, taiog, taiogaidd; drwg ei foes; heb foesau da.

Discourtesy, *s.* anfoesgarwch, anfoesogrwydd, anhyfoesedd, anfoneddigrwydd, anfoddgarwch, anysberwyd, anfoesder, anfoneddigeiddrwydd, &c.; drygfoes, anfoes; anmharch, sarhad, anfri; anghymmwynas.

Discourtship,† *s.* anmharch, sarhad.

Discous, *a.* (Ll. *discus*) dysglaidd, fâl dysgl; llydan; gwastad; llydan-grwn, gwastadgrwn.

Discovenant, *v. a.* dadgyfammodi, dadammodi; diddymu cyfammod.

Discover, *v. a.* (*dis* a *cover*; Ff. *découvrir*) darganfod, dadguddio, dadenhuddo, dadhuddo, dadanhuddo, dadencuddio, egluro, annirgelu; cael, cael allan, chwilio allan, olrhain; mynu gwybodaeth o; mynu cael gwybodaeth o; mynu gwybod; gweled, canfod, amlygu, diargelu, digelu, disguddio, selu, syllu, ysbeio, ysbïo, dangos; dwyn i'r goleu, i'r golwg, *neu* i'r amlwg; dyfod o hyd i; dadorchuddio; peithio, fforio.

Discoverable, *a.* canfyddadwy, canfodadwy, darganfodadwy, olrheinadwy, dadguddiadwy, &c.; à ellir ei gael allan, &c.; hywel, amlwg, gweladwy, dirnadwy.

Discoverer, *s.* darganfyddwr, dadguddiwr, dadenhuddwr, dadhuddwr, olrheiniedydd, olrheiniwr, amlygwr, amlygydd, amlygiedydd, olrhëwr; à gaffo *neu* à chwilio allan beth dirgel; chwiliwr allan, caffaelydd allan; fforiwr, fforiedydd, peithiwr, peithydd, ysbeiwr, ysbeiedydd.

Discoverture, *s.* (*dis* a *coverture*; Ff. *découvert*) dattudded, anghowyll; bod heb fod dàn orchudd, nawdd, *neu* awdurdod gwr.

Discovery, *s.* dadguddiad, darganfyddiad, darganfodiad, dadenhuddiad, dadanhudd, dadenhudd, dadanhudded, dadenhudded, dadhuddiad, dadencudd, dadencuddiad, amlygiad, annirgeliad, dynoethiad, olrheiniad, caffaeliad allan, chwiliad allan, canfodiad, canfyddiad, darganfod; gwybodaeth, copinod.

Discredit, *s.* (*dis* a *credit*; Ff. *discrédit*) anghlod, anurddas, achlod, gwarth, gwaradwydd, gwarthrudd, mefi, anmharch, dïanrhydedd, anair, drygair, gogan, dirmyg, enllib, hort, mefliwriaeth; disgred, disgoel, anghoel, anymddiried.

Discredit, *v. a.* gwarthruddo, gwaradwyddo, gwarthäu, anurddo, anharddu, diwyno; peri gwarth, gwarthrudd, cywilydd, *neu* waradwydd i; dwyn anair, drygair, *neu* anghlod ar; anfrïo, difrïo, goganu, hortio, enllibio, dïanrhydeddu, sarhau, difenwi, anmherchi; rhoi anair, drygair, *neu* anghlod i; dywedyd gair twn am; dibrisio, dirmygu, bychanu; anghoelio, anghredu, disgredu, disgoelio; ammheu gwirionedd; peri anghoelio; peri anghoel ar; diddymu *neu* ddirymio cred *neu* awdurdod.

Discreditable, *a* gwaradwyddol, gwarthruddol, gwarthlawn, gwarthus, gwarthruddus, anhyglod; â drygair *neu* anair iddo.

Discreet, *a.* (Ll. *discretus*; Ff. *discret*) call, synwyrol, synwyrgall, doeth, pwyllog, pwyllig, pwyllus, hybwyll, amgall, amwel, deallgar, deallus, ystyriol, ystyrgar, sad, cynghorus, synwyrddoeth, synwyrbell, synwyrlawn, synwyrus, dosbarthus, diledfryd, prudd, dwysgall, callus, dwysbwyll, craff; syml, gwŷl; dichlyn, gochelgar, gwagelog; cynnil, celfydd, cymhen, gwybodus, cyfarwydd.
Discreetly and warily—yn ddïesgeulus ac yn ddarbodus.
Very discreet—dwysgall; call iawn, &c.

Discreetness, *s.* callineb, callder, calledd, callusrwydd, pwyllogrwydd, pwylligrwydd, pwyllusrwydd, synwyroldeb, &c.

Discrepance, } *s.* (Ll. *discrepantia*) gwahan-
Discrepancy, } iaeth, anghydfod, anghytundeb, anghyssondeb, anghyssonder, anghydfyddiaeth, amrafael, anghydgordiad; gwrthwynebedd, gwrthwynebrwydd, croesineb, anrywiaeth, gwrthedd.

Discrepant, *a.* (Ll. *discrepans*) anghysson, anghytûn, anghytunol, anghydunol, anghydfyddus, anghydfodol, gwahanol, gwrthwynebol, gwrthwyneb, croes.

Discrete, *a.* (Ll. *discretus*) gwahanredol, gwahanedig, gwahanol, dydoledig, dosbarthedig, dydol, neilltuedig; ar wahan, ar ddydol; gwahaniadol.

Discrete,† *v. a.* gwahanu, gwahanredu, dydoli.

Discretion, *s.* (Ff.; Ll. *discretio*) callineb, callder, calledd, synwyr, synwyroldeb, callusrwydd, doethineb, doethder, pwyll, dysbwyll, ymbwyll, pwyllineb, pwylledd, pwylligrwydd, pwyllogrwydd, hybwylledd, ystyriaeth, diledfrydedd; rhyddid diderfyn; rhyddid i wneuthur à fyno; gwahaniad, dydoliad; callineb a gwybodaeth.
At discretion—heb ammodau, yn ddïammod, yn ddïammodol; ar drugaredd;

megys y bernir yn gymhwys, yn gymhwysaf, yn gymmesur, *neu* yn gymmesuraf; i'w ryddid.

At one's own discretion—fel y myno un ei hun; ar ddewisiad un ei hun; wrth ei ewyllys ei hun; yn ol ei ewyllys ei hun; fel y gwelo un yn gymhwysaf; fel y gwelo un yn gymmesur; fel y barno un yn oreu; yn ol ei ystyriaeth ei hun.

To live at discretion—byw wrth ei fympwy; byw wrth eu mympwy; byw wrth ei ewyllys ei hun; byw fel y myno; byw fel y myno un ei hun.

By his discretion—yn ol ei ystyriaeth ei hun; fel y gwelo efe fod yn iawn; fel y barno efe yn oreu; yn ol y synwyr à rodded iddo.

As he thinketh most convenient in his discretion—fel y gwelo efe fod yn gymmesur.

As the minister in his discretion shall think fit—megys yn neall y gweinidog y bernir yn gymhwys.

Without discretion—heb synwyr, disynwyr, ansynwyrol, dibwyll, anghall, annoeth, ffol, ynfyd, syml.

He will guide his affairs with discretion—wrth farn y llywodraetha efe ei achosion (*Salm* cxii. 5).

Discretion shall preserve thee—cynghor a'th gynnal (*Diar.* ii. 11).

Discretionary, } *a.* rhydd i wneuthur à fyno;
Discretional, } dïammodol, anammodol, diderfyn, annherfynol, digyfyngol, digyfyng; yn ol fel y bernir yn gymhwys, yn gymmesur, yn gall, *neu* yn ddoeth; fel y tybir yn oreu *neu* gymhwysaf; yn ol ei synwyr, ei ddeall, *neu* ei ymbwyll; i'w lywodraethu gàn synwyr yn unig.

Discretionary power—gallu diderfyn *neu* annherfynol; gallu heb iddo derfyn amgen synwyr, doethineb, callineb, ewyllys, *neu* fympwy un ei hun; gallu i wneuthur fel y bernir yn gymmesur.

Discretionarily, } *ad.* yn ddïammod, yn ddïam-
Discretionally, } modol, heb ammodau; ar drugaredd; fel y bernir yn iawn, yn gymhwys, *neu* gymmesur; i'w ryddid; yn ol ei synwyr a'i ddeall.

Discretive, *a.* (Ll. *discretus*) gwahaniadol, dydolus, dosbarthol, dosbarthus, gwahanedigol, dosbarthedigol, neilltuedigol, dadgyssylltiol; gwahanol, gwahanedig, gwahan.

Discriminable, *a.* gwahanadwy, dydoladwy; dosbarthadwy; à ellir eu gwahanu, eu dydoli, *neu* eu dosbarthu; à ellir eu hadnabod y naill oddi wrth y llall.

Discriminate, *v.* (Ll. *discrimino*) gwahaniaethu, gwahanredu, gohanredu, gwahanredoli, dynodi, dosbarthu, parthiannu, gwahannodi, gwahanoli, darnodi; gwahanu, neilltuo, dydoli, gohanu; rhoi nod gwahan; gwneuthur gwahaniaeth; gwneuthur nod gwahaniaeth; nodi gwahaniaeth; parthiannu, parthiannuso, parthredu, parthrediannu, parthreduso, parthrediannuso.

Discriminate, *a.* (Ll. *discriminatus*) gwahanredol, gwahanol, gohanredol, gwahan, gwahaniaethol, gohanol, gwahannodedig; gwahanedig, dydoledig, parthrediannus.

Discriminateness, *s.* gwahanredolrwydd, gwahanredoldeb, gwahanedigrwydd, gwahander, gohanred, gwahanred, gwahanoldeb, gwahanolrwydd, gwahaniaeth, neilltuolrwydd, dynodoldeb; eglurder; parthiannusedd, parthredusedd, parthrededd, parthrediannusedd.

Discriminating, } *a.* gwahaniaethol, gwahan-
Discriminative, } redol, gohanredol, gwahannodol, rhagornodol, dosbarthol, gwahanol, dynodol, nodiannol, nodweddol, neilltuol, gwahan, priod; parthiannus, parthiannol, parthrediannol, parthrediannus, parthedigol, parthredus; à wnelo wahaniaeth.

Discrimination, *s.* (Ll. *discriminatio*) gwahaniaeth, gwahanred, gohanred, gwahan, gwahanedigaeth, gwahanredoliaeth; gwahannodiad, dynodiad, gwahaniaethad, dosbarthiad, gwahanredoliad, gwahaniad, dydoliad, neilltuad; dosbarth, amrywiaeth; rhoddiad nod gwahan; nodeb, arwyddnod; parthrediant, parthedigaeth, parthrediad, parthred.

Discriminator, *s.* gwahaniaethwr, gwahaniaethydd, gwahanredydd, &c.

Discriminous,† *a.* anturus, peryglus, enbydus.

Discrown, *v. a.* dadgoroni, digoroni.

Discs, *s. pl.* (Ll. *discus*) coedrwyon, hydrwyon.

Discubitory, *a.* (Ll. *discubitorius*) gogwyddol, lledorweddol; yn ei ledorwedd.

Disculpate, *v. a.* (Ff. *disculper*; Ll. *dis* a *culpo*) difeio, dadfeio, diheuro, glanhau, cyfiawnhau, dïeuogi, digylu; rhyddhau oddi wrth fai.

Disculpation, *s.* difeiad, dadfeiad, cyfiawnhad; rhyddhad oddi wrth fai.

Disculpatory, *a.* difeiol, dadfeiol, rhyddhaol, diheurol.

Discumbency, *s.* (Ll. *discumbens*) lledorweddiad, lledorwedd=gorweddiad ar dàl elin i fwyta, yn ol arfer yr hynafiaid.

Discumber, *v. a.* (*dis* a *cumber*) difeichio, dadfeichio, dadrwystro, dirwystro, diluddio, dilwytho; rhyddhau oddi wrth rwystr, rhwystrau, baich, *neu* lwyth.

Discure,† *v. a.* dadguddio, darganfod, canfod.

Discurrent,† *a.* anghylchredol; anghymmeradwy.

Discursion, *s.* (Ll. *discursio*) amrediad, damrediad, darymrediad, amwibiad, amdrampiad, amdramwy, amdramwyad, tramp, tramwy.

Discursist,† *s.* (Ll. *discursus*) dadleuwr, rhesymydd, ymresymwr.

Discursive, *a.* (Ysp. *discursivo*, o'r Ll. *discurro*) amredol, damredol, darymredol, gwibiog, gwibiol, amwibiog, crwydrol, anwadal, ansefydlog; cymhwyllus, cymhwylliadol, rhesymiadol, ymresymol, cymhwyllol; à elo yn mlaen oddi wrth bethau adnabyddus at bethau anadnabyddus.

Discursiveness, *s.* gwibiogrwydd, ansefydlogrwydd; cymhwylledd, cymhwylloldeb, ymresymoldeb, cymhwyllusrwydd, arbwyllineb.

Discursory, *a.* cymhwylliadol, cymhwyllol, cymhwyllus, rhesymiadol, ymresymol, rhesymol.

Discus, *s.* (Ll.; Gr. *discos*) coetan, coeten, tafirwy, llechen dafl; gwyneb (yr haul *neu* y lloer); wyneb, clawr, clawrwyneb, gweb, ffriw; gwyneb blodeuyn; dysgl.

Discuss, *v. a.* (Ll. *discutio*, *discussum*) holi, chwilio, trin, arholi; holi yn fanwl; chwilio yn ddyfal; ymresymu, dadleu, dadlu, ymgomio, *neu* ymholi yn nghylch; rhesymu; ymdrin â; chwalu, gwasgaru; chwalu a chwilio; amlygu, egluro, eglurhau; gogrynu,

trychwilio, trychwalu ; chwilfriwo, tori; cylafareddu ; †ysgwyd ymaith.

To discuss a tumour — chwalu chwydd, gwasgaru chwydd.

Discusser, *s.* chwiliwr, chwiliedydd, holwr, ymresymwr, dadlydd, &c.

Discussion, } *s.* (Ll. *discussio*) holiad, chwiliad,
Discussing, } arholiad, ymresymiad, ymholiad, dadl, dadleuad, ymofyniad, triniad ; dattodiad cwlwm *neu* anhawsdra ; amlygiad, eglurhad ; chwaliad, gwasgariad ; trychwiliad, trychwaliad ; cylafaredd.

Discussive, } *a.* chwaliadol, gwasgarol, try-
Discutient, } chwaliadol; yn chwalu, yn gwasgaru ; âg ynddo rinwedd i chwalu crawn *neu* chwydd.

Discussive, } *s.* chwalgyffer, chwalgyffyr ;
Discutient, } meddyginiaeth i chwalu chwydd, crawn, *neu* gornwyd.

Disdain, *v. a.* (Ff. *dédaigner ;* Ll. *dedignor*) dirmygu, tremygu, dïystyru, dibrisio, annheilyngu; gwrthod gyda dïystyrwch ; gwrthod yn ddïystyrllyd ; ffieiddio, bychanu, dïelwi ; bod yn anwiw, yn annheilwng, yn ddïystyrllyd, yn anghymmeradwy, *neu* yn fach ganddo ; cyfrif yn annheilwng ; ysgornio, iorni.

Disdain, *s.* dirmyg, tremyg, dïystyrwch; dibrisdod, dïystyredd, annheilyngrwydd; ffieiddiad, ffieidd-dod ; traha, tra, balchder, rhyfyg, uchder meddwl, uchder ffroen, trahausder, ysgorn, orn.

Disdainful, *a.* dïystyrllyd, dirmygol, tremygol, ysgornllyd, dïystyrol, dirmygus ; llawn dirmyg a dïystyrwch ; ffroenuchel, trahäus, sarhäus, gwatwarllyd, gwatwarus, balch, uchelfalch, coegfalch, ffrom, effrom, digllawn.

Disdainful scoff—ffroenwawd.

Disdainfulness, } *s.* dirmyg, tremyg, dïystyr-
Disdaining, } wch, tremygiad, dïystyredd, dirmygoldeb, tremygolrwydd ; trahausder, ucheldrem, coegfalchder, coegfalchedd, ffroenuchder.

Disdiapason, } *s.* (o *diapason*) dygyngherdd,
Bisdiapason, } dygydgerdd, dygynghan.

Disease, *s.* (*dis* ac *ease*) clefyd, afiechyd, dolur, haint, clwyf, anhwyl, anhwyldeb, anhwylder, gwst, selni, salder, saldra, salwch, annhwynt, anhawnt, anardymmer, annhymmer, echur, hwyl ddrwg, drwg ansawdd, anniwyg, clefni; †anesmwythder, aflonyddwch.

An incurable disease—clefyd anacle, clwyf annele, clefyd anwelladwy.

The foul disease, } y frech fawr, y
The venereal disease, } frech ffreinig, y frech Ffrengig, anlladwst, chwantachglwyf, llosfrech, poethwst, poethglwyf, haint y trythyllwch.

Radical disease—sylglefyd, sylwaew, sylglwyf, clefyd gwreiddiol.

Malignant disease — echryshaint, mallhaint, echrysglwyf, clefyd echryslawn.

Contagious disease — haint llŷn, haint glynol, haint llynol, haint cael, clefyd cael, clefyd llusg, haint ymlynol, cyghlwyf, cynghaint.

Loathsome disease — ffieiddglwyf (*Salm* xxxviii. 7).

An evil disease—aflwydd (*Salm* xli. 8).

Who healeth all thy diseases—yr hwn sydd yn iachäu dy holl lesgedd (*Salm* ciii. 3).

Disease, *v. a.* gwneuthur yn glaf ; peri yn glaf; gwneuthur yn anhwylus ; peri anhwyldeb ; anhwylio, heintio, dolurio, clwyfo, poeni ; anesmwytho, aflonyddu ; gwneuthur yn anesmwyth ; annhrefnu.

Diseased, *a.* claf, afiach, afiachus, clwyfus, dolurus, anhwylus, anhwyliog, clefyca, aniach, sal, heinnus, heintus, heintlyd, gystog, clafus ; drwg ei hwyl ; mewn anhwyl; mewn anhwyldeb.

Diseasedness, *s.* clefni, afiechyd, clefyd, clwyfiant, anhwyldeb, anhwylder, anhwyl, selni, saldra, dolur, clwyf, haint, clefwch ; heintusrwydd, clafusrwydd, llesgedd, anardymmer, clefryd.

Diseaseful, *a.* heintlawn, heinniog, heintiog, heintddwyn, heintddygol, clefydlawn, llawn afiechyd ; anesmwythol, aflonyddol.

Diseasement, *s.* anesmwythder, anesmwythyd, aflonyddwch; blinder, anghyfleusdra, anghyfleusder.

Disedged, *a.* anfiniog, difin, difiniog, pwl, dïawch, anawchus.

Disembark, *v.* (*dis* ac *embark ;* Ff. *désembarquer*) tirio, glanio, arlanio, dadlongi, dadforio; myned i dir ; dyfod i dir ; myned i'r làn ; dyfod i'r làn ; disgyn o long ; rhoddi ar y làn ; bwrw i dir; dilwytho, dadlwytho ; ymadaw *neu* giliaw oddi wrth amcan *neu* blaid ; gadaw gorchwyl *neu* antur.

Disembarkment, *s.* tiriad, glaniad, arlaniad, dadlongiad, dadforiad; dilwythad, dadlwythad ; disgyniad o long ; dyfodiad *neu* fynediad i dir.

Disembarrass, *v. a.* dirwystro, dadrwystro, diddyrysu, dad-ddyrysu, dadrysu, dinidro, diluddio, dadluddio, rhyddhau, tynu yn rhydd, dirwydo, annhrallodi.

Disembarrassment, *s.* dirwystrad, dadrwystrad, diddyrysiad, dad-ddyrysiad, dadrysiad, dinidrad, dinidredd, annidredd, rhyddhad ; annhrallod.

Disembay, *v. a.* dadfachwyo, difachwyo ; ymryddhau o ebach, machwy, *neu* forgilfach.

Disembellished, *a.* anaddurnedig, dïaddurn, anaddurnog.

Disembitter, *v. a.* dadchwerwi, dichwerwi ; melusu.

Disembochure, *s.* (Ff. *embochure*) aber, ceg afon, geneu afon, ymarllwysfa.

Disembodied, *a.* anghorffedig, digorffedig, digorffol ; dïosgedig o'r corff ; gwedi ymddïosg o'r corff; gwedi ei ddïosg o'r corff; gwedi ei ryddhau oddi wrth y corff; gwahanedig, dydoledig.

Disembody, *v. a.* anghorffori, dadgorffori, digorffi, disgorffori ; difuddiaw o gorff ; rhyddhau o'r cnawd ; gollwng yn rhydd.

Disembogue, *v.* (Ff. *déboucher ; dis*, a Ff. *bouche*) ymarllwys, aberu, ymallwys, ymarlloes, ymarlloesi ; ymdywallt, ymforio, rhedeg ; arllwys, allwys, arllwyso, tywallt, tywallt allan, llifeirio.

To disembogue into the sea—ymarllwys i'r môr ; rhedeg i'r môr ; ymforio, aberu.

Disemboguement, *s.* ymarllwysiad, ymarllwys ; aber, arllwysfa.

Disembosom, *v. a.* dadfonwesu, dadfynwesu, difonwesu, difynwesu.

Disembowel, *v. a.* diberfeddu, dadberfeddu ; tynu allan o'r perfedd *neu* ymysgaroedd ; tynu y perfedd allan.

Disembowered, *a.* anghelyddog, anwasgodedig,

anghysgodog; gwedi ei ddifuddiaw o ddeildy; gwedi ei symmud o gysgotty.

Disembrangle,† *v. a.* digyfreithio.

Disembroil, *v. a.* rhyddhau, dirwystro, dadrwystro, dad-ddyrysu, diddyrysu; dinidro, difethlu; anghythruddo, anghythryblu, anghyffröi; rhyddhau o ddyryswch *neu* annhrefn.

Disemployed, *a.* allan o waith; gwedi ei daflu allan o waith, gorchwyl, *neu* alwad.

Disenable, *v. a.* analluogi, dinerthu, anuerthu; anghymhwyso.

Disenchant, *v. a.* dadswyno, diswyno, dadrinio, gwrthswyno, dadreibio, dadgyfareddu.

Disenchanter, *s.* dadswynydd, dadswynwr, dadriniwr, dadgyfareddwr, dadreibiwr.

Disenchantment, *s.* dadswyniad, dadriniad, dadgyfareddiad, gwrthswyniad, dadreibiad.

Disencumber, *v. a.* dadrwystro, dirwystro, diluddio, difeichio, dadfeichio, dilwytho, rhyddhau; rhyddhau oddi wrth rwystr *neu* rwystrau; rhyddhau oddi wrth faich *neu* lwyth; tynu o dàn faich; tynu *neu* ddwyn allan o drallod; tynu yn rhydd; esmwythäu, esmwytho, dïormesu.

Disencumbrance, *s.* dadrwystrad, dirwystrad, afrwystr, difeichiad, diluddiad, rhyddhad; rhyddid, gwaredigaeth, *neu* ymwared oddi wrth rwystr, rhwystrau, llestair, *neu* drallod.

Disengage, *v. a.* rhyddhau, rhyddhau o, rhyddhau oddi wrth; gollwng, tynu, *neu* ddwyn yn rhydd; dadrwystro, dirwystro, diddyrysu, dad-ddyrysu, dadrysu, digaethiwo, dirwydo, dinidro, dadrwymo, disgraffu, gollwng, gwaredu, dattod, dadglymu; gwahanu, dydoli; ymryddhau oddi wrth; diddyfnu; tynu *neu* ddwyn allan o gyfyngder, o gaethiwed, *neu* o drallod.

To disengage one's self—ymryddhau, ymrwyllo, ymddirwydo, ymddirwyllo, ymddirwystro, ymddinidro; ysgwyd ymaith y peth à luddío; ymryddhau o ddyled; cwbl dalu; cwblhau *neu* gadw addewid.

Disengaged, *a.* rhydd, dinidr, digaeth, dirwym, afrwym, anghaeth; dïangol, gwaredol, ymwaredol; gwag; hamddenol; âg amser, arfod, seibiant, *neu* hamdden ganddo; mewn hamdden, mewn seibiant, mewn arfod; yn cael ennyd; yn hamddenol; seibiol; diwaith, diofal, dïorchwyl, segur; heb addaw, ymaddaw, *neu* ymrwymo; à ryddhäwyd; gwedi ei ryddhau, &c.

Disengagedness, } *s.* hamdden, seibiant, ham-
Disengagement, } ddenoldeb, dysbeidiant; rhyddid, dirwymedd, afrwymedd, dinidredd, dinidri, digaethder; rhyddhad, ymwared, gollyngdod; rhydd-did oddi wrth rwymedigaeth; bod o un yn rhydd oddi wrth rwymedigaeth; dirwymiad; dirwystrad; dydoliad.

Disennoble, *v. a.* diraddio, difreinio, dadurddasu, dadraddio, afraddio, anfrïo, anurddasu, anurddoni; difuddiaw o urddas, uchelradd, *neu* bendefigaeth.

Disenroll, } *v. a.* dadgofiyfru, dadgofrestru,
Disenrol, } dadgofresu, dadrestru; dilëu allan o gofiyfr.

Disenslave, *v. a.* dadgaethiwo, dadgaethu, digaethiwo, anghaethiwo, digaethu, esgaethu; rhyddhau o gaethiwed; rhyddhau, gwaredu.

Disentangle, *v. a.* diddyrysu, dad-ddyrysu, dadrysu, dadrys, dadrwystro, dirwystro, rhyddhau, dattod, dattodi, rhwyddhau, dinidro, dadfaglu, dirwydo, dadblethu, dadblygu, difethlu; gwahanu, dydoli; tynu yn rhydd; tynu *neu* ddwyn o ddyryswch.

Disenter, } *v. a.* (*dis*, a Ff. *enterrer*)=*Dis-*
Disenterre, } *inter.*

Disenthrall, } *v. a.* dadgaethiwo, dadgaethu,
Disenthral, } digaethiwo, anghaethu, anghaethiwo, digaethu, esgaethu; rhyddhau o gaethiwed; rhyddhau, gwaredu.

Disenthrallment, } *s.* dadgaethiwad, rhyddhad,
Disenthralment, } gollyngdod; rhyddhad o gaethiwed *neu* gaethwasanaeth; anghaethiwed, anghaethder, gwaredred, esgaeth, esgaethiad.

Disenthrone, *v. a.* dïorseddu, dadorseddu.

Disentitle, *v. a.* difuddio *neu* amddifadu o hawl; dadhawlio, dihawlio, difreintio.

Disentrance, *v. a.* (*dis* ac *entrance*, o *trance*) dadebru, dadlesmeirio, dadfasu; dihunaw o berlewyg; deffröi o drymgwsg.

Disespouse, *v. a.* dad-ddyweddïo, dadbriodi, ysgaru, esgaru.

Disestablish, *v. a.* ansefydlu; symmud o sef[ydliad.

Disesteem, } *s.* diffyg parch, dibarchedd,
Disestimation, } dibarchrwydd, anmharch, anfri, anhoffedd, anhoffder, drygfri, anghymmeriad, anghymmyraeth, mefl, anurddas; anghefnogiad, anghefnogaeth, anghalonogiad, anghymmeradwyaeth, anfoddlonrwydd, anghymmodlonedd, anmharch, anfri; angbariad, casineb, cas, cawdd, soriant, anfodd, gwg, oer ymddygiad; anghymmwynas, sarhad, tro drwg, twrn drwg, colled, eniwed; anferthwch, anferthedd, hagrwch, hagredd, gwrthuni, dybrydedd.

Disesteem, *v. a.* dibarchu, bychanu, dibrisio, anhoffi, anfrïo, dïystyru, dirmygu, goganu, tremygu, lledgashau.

Disfavour, *s.* anffafr, dïanrhydedd, anghymmeriad, anghymmyraeth, mefl, anurddas; anghefnogiad, anghefnogaeth, anghalonogiad, anghymmeradwyaeth, anfoddlonrwydd, anghymmodlonedd, anmharch, anfri; angbariad, casineb, cas, cawdd, soriant, anfodd, gwg, oer ymddygiad; anghymmwynas, sarhad, tro drwg, twrn drwg, colled, eniwed; anferthwch, anferthedd, hagrwch, hagredd, gwrthuni, dybrydedd.

Disfavour, *v. a.* anghefnogi, anffafrio, gwrthwynebu, digefnogi, anghymmeradwyo; anhoffi, angharu; anghymmwynasu; gwneuthur anghymmwynas i; gwneyd twrn drwg i; rhwystro un i fyned yn mlaen â'i amcan; anffurfio, hagru, hacru.

Disfavourer, *s.* anffafriwr, anghefnogwr, &c.

Disfeature, *v. a.* anffurfio, aflunieiddio, aflunio, anharddu, anmhrydferthu, hagru, hacru, anffurfeiddio.

Disfiguration, *s.* anffurfiad, anffurfiant, aflunaid, anharddiad, aflunieiddiad, anffurfeiddiad, hagriad, hacrhad; hagredd, hagrwch, hacrwydd.

Disfigure, *v. a.* anffurfio, anharddu, aflunio, aflunieiddio, hagru, hacru, hagrhau, hacrhau, anmhrydferthu, anffurfeiddio, gwrthuno, hyllu; difwyno, anurddo; anafu, anmharu, niweidio.

Disfigurement, *s.* anffurfiad, anffurfiant, afluniad, anharddiad, gwrthuniad, hylliad, hagriad, hagrhad, hacrhad; anffurfedd, anffurfiaeth, anffurfioldeb, hagredd, hagrwch.

Disfigurer, *s.* anffurfiwr, anharddwr, &c.

Disforest, *v. a.*=*Disafforest.*

Disfranchise, *v. a.* difreinio, difreintio, dadfreinio, dadfreintio, difreinioli, dadfreinioli, difwrdeisio; difuddio.

Disfranchisement, *s.* difreiniad, difreiniant, difreintiad, dadfreiniad, dadfreintiad, difwrdeisiad, difreiniedigaeth; difuddiad o fraint.

Disfurnish, *v. a.* annodrefnu, diddodrefnu, datddodrefnu; dïaddurno.

Disgarnish, *v. a.* anaddurno, dïaddurno, dadaddurno, annhrwsio; dïosg, dihatru, dynoethi; dadgyfarparu, dattrecio.

Disgarrison, *v. a.* difuddio *neu* amddifadu o warchlu; difuddiaw o warchodlu *neu* amddiffynlu.

Disgavel, *v. a.* (*dis* a *gavellkind*) dadryddrentu, disryddrentu; difuddio gafael cenedl.

Disglorify, *v. a.* anogoneddu, dïogoneddu, dadogoneddu; anmharchu, anfrïo, difrïo.

Disgorge, *v. a.* (*dis* a *gorge;* Ff. *dégorger*) chwydu, cyfogi, dadlyncu, dislyncu, dadgegu; arllwys, arllwyso, tywallt.

Disgorgement, *s.* chwydiad, cyfogiad, dadlynciad, dislynciad; arllwysiad, ymarllwysiad.

Disgrace, *s.* gwarth, anfri, anurddas, gwaradwydd, gwarthrudd, gwarthred, anmharch, anghlod, achlod, dïanrhydedd, anfyged, cywilydd, anghymmeriaeth, anghymmeriad, anghymmyredd, anghymmyraeth, anffafr; anfoddlonedd, anfoddlonrwydd, anfodd, gwg, soriant, cawdd, coddiant; anffawd, dryglam, annawn, adfyd.

He is in disgrace with the king—y mae efe dàn anfoddlonedd y brenin.

Complete disgrace—llwyr warth, llwyrwarth.

Disgrace, *v. a.* gwarthruddo, gwarthruddio, gwaradwyddo, gwarthäu, dïanrhydeddu, gwarthu, anurddasu, dadurddasu, anfrïo, anmharchu, anmherchi, meflhau; difreinio; bwrw allan o ymddiried; troi allan o swydd; cymmeryd urddas un oddi wrtho; dwyn gwarth ar.

Do not disgrace the throne of thy glory—na fwrw i lawr orseddfa dy ogoniant (*Icr.* xiv. 21).

Disgraceful, *a.* gwarthus, gwaradwyddus, cywilyddus, gwarthruddus, anmharchus, gwarthlawn, gwaradwyddog, gwarthredus, dïanrhydeddus; goganus, sarhäus, dirmygus, enllibaidd, enllibus.

Disgraceful terms—geiriau anfri, drygfoes, *neu* anfoes; geiriau anmharchus *neu* oganus: telerau gwarthus, anmodau gwaradwyddus.

Disgracefulness, *s.* gwarthusrwydd, gwarthlonedd, gwarthlonrwydd, gwarthruddusrwydd, gwarthedd, anmharchusrwydd, cywilyddra; gwarthrudd, gwarth, anmharch, anurddas, gwaradwydd, anghlod.

Disgracer, *s.* gwarthruddwr, gwaradwyddwr, &c.

Disgracious, *a.* (*dis* a *gracious*) anradlawn, anradfawr, anraslawn, afraslawn, anrasusol; annhirion, angharuaidd; anfoddhaol.

Disgregate, *v. a.* (Ll. *dis* a *gregatus*) gwahanu, dydoli, gwasgaru, chwalu.

Disguise, *v. a.* lledrithio, ffugio, ffuantu, dyeithro, ffuannu, cuddio, gorchuddio, celu, dirgelu, rhithio, rhagrithio; gwneuthur lliw ac esgus; gosod hug ar; anffurfio, aflunio; mygydu; meddwi.

To disguise one's self—ymddyeithro, ymledrithio, ymrithio, ymddirgelu, lledrithio; dwyn rhith a dryeh un arall; newid ei wedd, ei ddull, *neu* ei ddillad.

Disguise, *s.* lledrith, ffuant, ffug, hud, cyfrith, rhith, ffugwedd, geurith, geuwedd; twyllwisg, ffugwisg, dyeithr-wisg, gwisg ymddyeithro, llèn gel, mwgwd, ysgod, gorchudd, cochl; gau wyneb, cysgod, esgus, rhithesgus, rhagrith, ffugiant, gorith, ffugorchudd, twyll; meddwdod.

In disguise—dàn gel, dàn lèn, yn ddyeithr, mewn dyeithr-wisg, mewn twyllwisg, mewn lledrith, &c.

To appear in disguise—lledrithio, ffugio, dyeithro.

Disguised, *p. p.* lledrithiedig, &c.; lledrithiog, lledrithiol, rhagrithiol, ffugiol, ffuantol, ffuantus, ffuannol, cuddiedig, cel, dyeithr, dirgel, dàn gel, dàn orchudd, gau, ffals, ymrithiol, geurithiog, cyfrithiol, gorchuddiog, gorchuddiedig; meddw, brwysg, lledfeddw, gofrwysg.

Disguisement, *s.* twyllwisg, ffugwisg, dyeithrwisg, gwisg ymddyeithro, llèn gel, mwgwd; ffugwedd, geuwedd, geurith, gau ymddangosiad.

Disguiser, *s.* lledrithiwr, lledrithydd, ffuantur, ymddyeithrwr, &c.

Disguising, *s.* lledrithiad, geurithiad, ffugiad, ffugiant, ffuant; mygydiad.

Disgust, *s.* (Ff. *dégoût;* Ll. *dis* a *gustus*) gwrthflas, diflasdod, diflasrwydd, diflasder, anflas; ffieiddrwydd, ffieiddiad, ffieidd-dra, gwrthwyneb, gwrthwynebedd, gwrthwynebrwydd, glocsyndod; anhoffedd, dihoffedd, casineb, anghar, soriant; anfoddlonedd, anfoddlonrwydd, anfodd.

To give one a disgust to—peri i un ddiflasu, alaru, *neu* wrthwynebu ar.

Disgust, *v. a.* diflasu; ffieiddio, cashau; bod heb flas at; bod â gwrthwyneb, gwrthwynebrwydd, *neu* wrthflas at; bod yn anfoddlawn i; bod gàn un ddiflasrwydd, diflasdod, casineb, *neu* wrthwyneb at; dïarchwaethu; anfoddhau, anfoddloni; peri anfoddlonrwydd *neu* anfodd yn; gwneuthur yn anfoddog *neu* anfoddlawn; gwneuthur yn gas gàn; sarhau, coddi, peri sori; disgaru, dirmygu; anhoffi; sori, ffromi, digio, diflasu, anghymmodloni, *neu* somgaru wrth; bod yn gas, yn ddiflas, yn anwiw, *neu* yn anghymmeradwy ganddo; bod *neu* fyned yn anfoddlawn *neu* anfoddog wrth.

Disgustful, *a.* diflas, cas, ffiaidd, ffieiddlawn, gwrthwyneblyd, gwrthwynebus, drygflasus, anhyfryd, alarllyd, adgas; à bair wrthwyneb *neu* ddiflasrwydd ato.

Disgusting, *a.* cas, adgas, ffiaidd, ffieiddiol, cashäus, cashaol, casog, casol, casedig, gwrthwyneblyd, drygsawrus; à bair gasineb, gwrthwyneb, *neu* ffieidd-dra tuag ato.

A disgusting thing—casbeth, peth adgas.

Dish, *s.* (S. *disc;* Ll. *discus*) dysgl, ysgudell; ffiol, cwpan, rhisgen, cogan, cawgen, cawg, mail, ffiol lŷn; cafn; dysglaid, ffiolaid; saig.

Dish-ful — dysglaid, ysgudellaid, ffiolaid, cawgaid, cogaid, meilaid.

A little dish — dysglan, dysgl fechan; scigen.

Chafing dish—mudalch, mudreidell, mudresel, tânbadell, tânlestr, padell dân.

Skimming dish — ysleten, lledwad ddïewynu, ffiol hufen, lledwad yr ewyn, ffiol llaeth.

A dish of meat- dysglaid o fwyd; saig o fwyd.

Pottage dish, } dysgl botes, ffiol botes,
Porridge dish, } dysgl gawl, ffiol gawl; dysgl *neu* ffiol fresych.
Dish meat—llymeidfwyd, bwyd dysgl.
Meat dish—dysgl gig, cigddysgl.
To do a thing in a dish—gwneuthur peth yn gywrain, yn gywraint, yn ddichlyn, *neu* yn ddestlus.
I know him as well as the beggar doth his dish—mi a'i hadwaen ef yn llwyr; adwaenaf ef oddi mewn ac oddi allan.

Dish, *v. a.* dysgleidio, dysglu, dysglo, ysgudellu, seigio, meilio; gosod mewn dysgl; cafnu, cafno, ceuo, crymbantu: dyfetha, dinystro, niweidio.
To dish out—dysgleidio allan; cafnu allan: hulio bwrdd; trwsio, taclu.

Dishabille, } *s.* (Ff. *déshabillé*) anwisg, llaes-
Deshabille, } wisg, dadwisg, dattrws, boreuwisg, boreuwisg laes, llaesbais.

Dishabit,† *v. a.* dïanneddu, dadanneddu, didyo, bwrw o'i le.

Disharmonious, *a.* anghysson, anghydgordiol, anghordiol, anghydsyniol.

Disharmony,† *s.* anghyssondeb, anghordiad, anghydgordiad, anghyssonedd.

Dish-cloth, } *s.* cadach llestri, clwtyn llestri,
Dish-clout, } pilyn llestri.

Dishearten, *v. a.* (*dis* a *heart*) digaloni, gwangaloni, anghaloni, llyfrhau, anghalonogi; anghysuro, tristäu; brawychu; tori awch; ffrwyno.

Disheartening, *a.* torgalonus, digalonus, gwangalonus, digalonol, llyfrhaol; digysur, anghysurus, anghysurol; anffynniannus, aflwyddiannus, diffynniant, dilwyddiant, dilwydd; yn tori calon; yn digaloni.

Disheir,† *v. a.* dïetifeddu, didreftadu.

Disherison, *s.* (Ff. *déshériter*) dïetifeddiad, dattifeddiad, dadetifeddiad.

Disherit, *v. a.* (Ff. *déshériter*) dïetifeddu, didreftadu, dattifeddu, dadetifeddu; difuddiaw o etifeddiaeth, treftadaeth, *neu* dreftad.

Disheritance, *s.* dïetifeddiaeth, didreftadaeth, anetifeddiaeth, annhreftadaeth.

Dishevel, *v.* (Ff. *décheveler*) annhrefnu y gwallt; dyrysu y gwallt; ffluwcho; annhrefnu, dyrysu, gwneuthur yn ddisgammar; disgammaru.

Dishevelled, *a.* disgammar; dyrysedig, annhrefnus, didrefn, rhydd; yn crogi yn annhrefnus am *neu* ar yr ysgwyddau; ffluwchog.
Dishevelled hair — gwallt disgammar; gwallt rhydd yn crogi o ddeutu *neu* o bobtu i'r ysgwyddau; gwallt ffluwchog.
With her hair dishevelled—â'i gwallt am ei hysgwyddau; â'i gwallt am ei dannedd; â'i gwallt yn rhydd ar led; â'i gwallt yn ffluwch *neu* ddisgammar.

Dishing, *a.* dysglog, cau, ceuol, cafnedig, crymbantog.
Dishing wheels—dysgl-olwynion; olwynion dysglaidd; olwynion ceuol.

Dishonest, *a.* anonest, anghyfiawn, anghywir, anaddwyn, dyhir, diffaeth; brwnt, aflan, anniwair, halog, budr, trythyll; anffyddlawn, twyllodrus, dichellgar, twyllgar; gwarthus, gwarthruddus, gwaradwyddus, dïanrhydedd, anmharchus.
To plead dishonestly—dadleu yn lledrithiog; traddodi hawl i'r gwrthwynebwr.

Dishonesty, *s.* anonestrwydd, anghywirdeb, anghyfiawnder, anaddlwynder, dyhirwch, diffeithder, anffyddlondeb, anffyddlonrwydd; anniweirdeb, aflendid, anlladrwydd, llodineb, trythyllwch, dyre, serthedd; twyll, dichell, geudeb, bradwriaeth; drygioni; gwarth, cywilydd.
The hidden things of dishonesty—cuddiedig bethau cywilydd (2 *Cor.* iv. 2).

Dishonorary, *a.* anfygedol, anfygedog, difyged, anfrïol, gwarthruddol, dïanrhydeddol, dïanrhydeddus, gwarthusol, anurddasol, anmharchus.

Dishonour, *s.* dïanrhydedd, gwarth, gwarthrudd, gwaradwydd, anmharch, anfri, anfyged, anurddas, anghlod, achlod, gwarthred, cywilydd, sarhad, sardd, anfyged, dadfrïedd, anmraint.

Dishonour, *v. a.* dïanrhydeddu, gwarthruddo; gwaradwyddo, gwarthäu, anmharchu, anmherchi, anurddasu, dadurddasu, gwarthu, anfrïo, difrïo, sarhau; trin yn anmharchus; diforwyno, llathludo, halogi, llygru; gwrthod talu, pallu talu, gwrthod derbyn, pallu derbyn; anghymmeradwyo.
To dishonour a bill of exchange—gwrthod *neu* ballu derbyn dyl cyfnewid; pallu *neu* wrthod talu dyl cyfnewid; gwrthod llythyr cyfnewid.
Dishonoured bill — dyl didaledig, dyl gwrthodedig; dyleb wrthodedig.

Dishonourable, *a.* dïanrhydeddus, gwarthus, gwaradwyddus, cywilyddus, gwarthruddus, gwarthredus, anfrïol; dïanrhydedd, heb anrhydedd; gwael, isel, bawaidd, distadl, anweddus, annheg, anaddwyn, drwg.

Dishonourer, *s.* dïanrhydeddwr, gwarthruddwr, gwaradwyddwr, anmherchydd.

Dishorn, *v. a.* digorni, dadgorni, digornio; difuddiaw o gyrn.

Dishumour, *s.* gwall hwyl, anniddigrwydd, anfoddogrwydd; tymmer, hwyl, *neu* anian aflawen; natur ddrwg, drygnaws, hyddigder.

Dish-washer, *s.* golchwr llestri.

Dish-water, *s.* dwfr llestri, dwr llestri, golchion llestri.

Disimpark, *v. a.* (*dis*, *in*, a *park*) dibarcio, dadbarcio; rhyddhau o barc *neu* geufaes; gollwng yn rhydd.

Disimprovement, *s.* anwellineb, anwelliant, anwellhad, diswelliant, dadwellineb; gwaethygiad, gwaethineb.

Disincarcerate, *v. a.* digarcharu, dïsgarcharu; rhyddhau o garchar; gollwng yn rhydd.

Disinclination, *s.* annhuedd, annhueddiad, anwyllysgarwch, anewyllysgarwch, anewyllys, anogwydd, anogwyddiad, anghyfogwyddiad, gwrthwyneb, gwrthwynebiad, gwrthwynebrwydd, gwrthfryd, annhueddfryd; casineb, gwrthnaws; dïawchedd, dattuedd.

Disincline, *v. a.* annhueddu, anogwyddo, dïogwyddo, anewyllysio, anwyllysio, anghyfogwyddo; peri annhuedd at; dïawchu, dattueddu.

Disinclined, *p. p.* annhueddol, anwyllysgar, anewyllysgar, dichwant, gwrthwynebus; annhueddedig, &c.

Disinclose, *v. a.* dadamgylchu, dadgylchynu, dadamgau, dadargau; dadfuarthu, dibarcio, dadbarcio; agor buarth, cae, *neu* attalgae; gollwng yn rhydd.

Disincorporate, *v. a.* dadgorffori, digorffori, anghorffori; gwahanu, dadgyfanu, dadgymmysgu, dadfferu.
Discorporation, *s.* dadgorfforiad, digorfforiad, anghorfforiad.
Disinfect, *v. a.* diheintio, dadheintio, dadheinnio, diheinnio; glanhau oddi wrth haint, clwyf, *neu* lwgr.
Disinfecting liquor—dadheintwy, diheintwy, llŷn diheintiol.
Disinfection, *s.* diheintiad, dadheintiad, diheinniad, dadheinniad; puredigaeth oddi wrth haint; glanhad oddi wrth beth heintus.
Disingenuity, *s.* annhegwch, anghleuder, anghywirdeb, anonestrwydd, anmhurdeb; dichell, hoced, twyll.
Disingenuous, *a.* annheg, anonest, anghywir, anghlau, anmhur; ffuantus, rhagrithiol; cyfrwys, dichellgar, hocedus, twyllodrus; gwael, bawaidd, anfoneddigaidd, crintach, iselwael, anhael, cyrrith.
Disingenuousness, *s.* annhegwch, anonestrwydd, anghleuder, anghywirdeb, anmhurdeb; ffuant, rhagrith, ffuantusrwydd; cyfrwysder, cyfrwysdra, dichellgarwch, dichellusrwydd, dichell, dichellrwydd, hoced, twyll, ffuantrwydd, twyll-ymddygiad; gwaeledd, anfoneddigrwydd, baweiddrwydd, crintach, anhaelder.
Disinherison, *s.* (*dis* ac *inherit*) dïetifeddiad, didreftadiad, dadetifeddiad, dattifeddiad; difuddiad o dreftadaeth *neu* etifeddiaeth; dïetifeddiaeth.
Disinherit, *v. a.* dïetifeddu, didreftadu, dattifeddu, dadetifeddu; difuddio un o'i etifeddiaeth, treftadaeth, *neu* dreftad; dihawlio, dihawlu, difuddio, diholi.
Disinhume, *v. a.* dadgladdu, diddaiaru.
Disintegrable, *a.* gwahanadwy, anghyfanadwy.
Disintegrate, *v. a.* (*dis* ac *integer*) dadgyfanranu, dadgyfanu, anghyfanu, dadsymio; gwahanu rhanau cyfain.
Disintegration, *s.* dadgyfanraniad, anghyfaniad, dadsymiad, dadgyfaniad.
Disinter, *v. a.* dadgladdu, diddaiaru, anghladdu; cymmeryd allan o fedd; dadenhuddo; dwyn i'r goleuni.
Disinteressed, *a.* = *Disinterested.*
Disinteressment, *s.* = *Disinterestedness.*
Disinterest, *s.* anfantais, anfudd, afles, anelw, colled, niwed; annyddordeb, anhunangarwch, dihunanedd; dïystyriad; dïystyrwch, anystyriaeth, *neu* esgeulusiant priod-elw.
Disinterest, *v. a.* diddori, annyddori, dihunanu; rhyddhau oddi wrth briod-elw *neu* hunanfudd; rhyddhau oddi wrth hunan-ddybenion.
Disinterested, *a.* diduedd, anhunanol, anhunangar, dihunan, dihunanles, anwyrog, cleufryd, unionfryd, dihunanfudd; rhydd oddi wrth hunan-amcanion *neu* hunan-ddybenion; rhydd oddi wrth egwyddorion *neu* annogaethau hunanol; nas cymmer ei lywodraethu *neu* ei wyro gàn egwyddorion *neu* annogaethau hunanol; heb ei wyro, ei lygru, *neu* ei gaethiwo gàn gariad priod-elw; rhydd oddi wrth hunanles *neu* hunanfudd; anmhleidgar, rhydd, diduedus, teg; dïelw.
Disinterestedness, *s.* dihunanedd, anhunanedd, anhunanolrwydd, anhunanoldeb, anhunangarwch, anhunanolrwydd, anhunander, anhunanles, anhunanfudd, diduedrwydd, diduedogrwydd, anwyrogrwydd, cleufrydedd, tegwch.
Disinteresting, *a.* annyddorol, annyddorgar.
Disinterment, *s.* dadgladdiad, diddaiariad.
Disinthrall, } *v. a.* dadgaethiwo, dadgaethu,
Disinthral, } digaethiwo, anghaethu, anghaethiwo, digaethu, esgaethu; rhyddhau o gaethiwed; rhyddhau.
Disinthrallment, } *s.* dadgaethiwad, rhyddhad,
Disinthralment, } gollyngdod; rhyddhad o gaethiwed *neu* gaethwasanaeth; anghaethiwed, anghaethder, gwaredred, esgaeth, esgaethiad.
Disinure, *v. a.* dïarferu, dadarferu, anarferu, anghynnefino.
Disinvite, *v. a.* dadwahodd.
Disinvolve, *v. a.* dadorchuddio, dïorchuddio, dynoethi, noethi, amlygu; dadblygu; dadddyrysu, diddyrysu, dinidro, dattod, rhyddhau.
Disjection, *s.* chwaliad, gwasgariad, dymchweliad.
Disjoin, *v. a.* daduno, dadgyssylltu, anghyssylltu, gwahanu, ysgaru, ysgar, dydoli, dadgydio, parthu, dosbarthu, anuno; tynu ar wahan; dadieuo.
Disjoint, *v.* dadgymmalu, anghymmalu, dadreddu; tynu y naill gymmal oddi wrth y llall; tynu bob yn gymmal; chwarthorio; dryllio yn aelodau; darnio, dryllio; tori yn ddarnau; gwahanu, rhanu, dosbarthu; ymddattod, ymagor, ymollwng, *neu* ymadael yn y cymmalau; ymwahanu; syrthio *neu* gwympo ar led.
Disjoint, } *a.* dadgymmaledig, anghymmal-
Disjointed, } edig, &c.; anghymmalus; anghyssylltedig, digyssylltiad, anghynglyn.
Disjointedness, *s.* anghyssylltiad, anghyssylltedd; anghymmalusrwydd; anghynglynedd.
Disjointly, *ad.* ar wahan, yn wahanol; bob yn gymmal.
Disjudication, *s.* (Ll. *dijudicatio*) barn, dedfryd, penderfyniad.
Disjunct, *a.* (Ll. *disjunctus*) dadgyssylltedig, anghyssylltedig, digysswllt, daduniedig, daduniol; gwahanol, gwahanedig, gwahanredol, dydoledig, dydol, ysgaredig, parthedig.
Disjunction, *s.* (Ll. *disjunctio*) dadgyssylltiad, anghyssylltiad, daduniad, dadgydiad, gwahaniad, ysgariad, parthiad, dydoliad, ymadawiad; dadundeb, anundeb, ysgariaeth, ysgar.
Disjunctive, *a.* (Ll. *disjunctivus*) gwahaniadol, dadgyssylltiol, anghyssylltiol, dadgydiadol, anghydiadol, gwahanol, ysgarol, esgarol, dadgyssylltiadol, anghyfieuol.
Disjunctive conjunction, } cyssylltiad gwa-
Disjunctive connective, } haniadol, &c.; gwahaniedyr.
Disjunctive, *s.* gwahaniedyr, dadgyssylltair; cyssylltiad gwahaniadol, anghydiadol, dadgydiadol, dadgyssylltiol, ysgarol, *neu* wahanol: *pl.* gwahaniadolion, &c.
Disjunctively, *ad.* yn wahaniadol, &c.; ar wahan, ar wahân, ar ddydol, yn ddigysswllt.
Disk, *s.* (Ll. *discus*; Gr. *discos*; S. *disc*) gwyneb (yr haul, y lloer, *neu* blaned); gwyneb blodeuyn; wyneb, clawr, clawrwyneb, ffriw, gweb; coetan, coeten, tafrwy, llechen dafl.
The sun's disk—gwyneb yr haul, wyneb yr haul; gwyneb gweledig *neu* ymddangos-

iadol yr haul (fel yr ymddengys o'r ddaiar).

The earth's disk—gwyneb y ddaiar; wyneb gweledig *neu* ymddangosiadol y ddaiar (fel yr ymddengys o'r lleuad).

Diskindness, *s.* angharedigrwydd, anghymmwynas, anfwynder, anhynawsedd, annhynerwch, anserchogrwydd; tro drwg, twrn drwg, sarhad, niwed, eniwed, colled, drwg, asgen, adwyth, argywedd, cam.

Dislike, *s.* anhoffder, anhoffedd, dihoffedd, anfoddlonedd, anfoddlourwydd, anfodd, anfoddhad; anghymmeradwyaeth, annhuedd, gwrthduedd; gwrthwyneb, gwrthwynebedd, gwrthwynebrwydd, gwrthwynebiad; casineb, cas, ffieiddiad, gogasineb, gwrthnaws, gwrthfryd, anghariad, anghar;† anghydfod.

To fall into dislike—syrthio i anmharch; myned allan o barch, o fri, o gymmeriad, *neu* o gymmeradwyaeth; myned i maes o barch, o fri, o gymmeriad, *neu* o gymmeradwyaeth; cael ei wrthod, ei anghanmawl, *neu* ei ddirmygu.

Dislike, *v. a.* anhoffi, angharu, anghymmeradwyo; cashau; peidio â hoffi; bod heb fod yn hoffi; diflasu ar.

Dislikeful,† *a.* anhoffus, cas.

Disliken, *v. a.* anghyffelybu, annhebygu; gwneuthur yn annhebyg *neu* anghyffelyb.

Dislikeness, *s.* annhebygolrwydd, anghyffelybrwydd, annhebygoliaeth, annhebygrwydd, annhebygoldeb, dihafalrwydd.

Disliker, *s.* anhoffwr, anhoffydd, anghymmeradwywr.

Dislimb, *v. a.* tynu bob yn aelod; dïaelodi, dadaelodi.

Dislimn,† *v. a.* dïardebu.

Dislocate, *v. a.* (*dis* a *locate*; Ll. *dis* a *locus*; Ff. *disloquer*) dadgymmalu, digymmalu, disgymmalu; dislëu; bwrw, taflu, rhoi, gosod, *neu* hel allan o'i le; symmud.

Dislocate, } *a.* disle; gwedi ei fwrw, ei daflu,
Dislocated, } ei roi, *neu* ei hel allan o'i le; dadgymmaledig, dadgymmalus, disgymmalus.

Dislocation, *s.* (o *dislocate*) dadgymmaliad, digymmaliad, disgymmaliad; dislead; bwriad, tafliad, rhoddiad, gosodiad, *neu* yriad allan o'i le.

Dislodge, *v.* dilochesu, didyo, dilettya; bwrw, gyru, *neu* wthio allan *neu* ymaith; gyru i gilio *neu* i ffoi; tarfu, cilgwthio; symmud o'i le; bwrw *neu* ddanfon allan; symmud, symmudo, mudo; symmud *neu* newid ei letty; newid *neu* symmud ei drigfa *neu* drigias.

To dislodge a cony—tarfu, cyffröi, cwnu, dilochesu, *neu* godi cwningen.

To dislodge a camp—symmud *neu* symmudo gwersyll; dadwersyllu.

Dislodgement, *s.* didyad, tarfiad, dilochesiad, symmudiad.

Disloyal, *a.* anffyddlawn, anghywir; annheyrngar, annheyrngarol; anffyddlawn i'w frenin; anghywir i'w frenin; bradog, bradus, bradwraidd, bradwrus, bradychus; anwadal; anufydd; anffyddlawn i gydwedd.

Disloyalty, *s.* anffyddlondeb, anffyddlonder, anffyddlonrwydd, anghywirdeb, annheyrngarwch, annheyrngaredd; bradwriaeth, brad; anffyddlondeb i'w frenin; †anwadalwch.

Dismal, *a.* (Ll. *dies malus*, yn ol y Dr. *Johnson*) erchyll, hyll, erch, cethin, echrydus, echrys, echryslawn; prudd, trist, athrist, tristlawn, galarus, aethus, alaethus, syn, ansiriol, anhylon, anghysurus; trychinebus, trwch, annedwydd, anhapus, anffodus, adfydig; tosturus, gresynol, truenus; tywyll, caddugol, gwyll, gwrm; ofnadwy, anguriol, dychrynllyd, arswydlawn, arswydus, irad, iradus.

Dismal scream — gwaedd erchyll, &c.; erchlais.

Dismalness, *s.* erchylldod, erchylldra, erchyllder, erchyllrwydd, echryslonrwydd, echryslonedd, hyllrwydd, hylldra, echrysder, &c.; arswyd, aeth; tywyllwch, caddug; tristwch.

Dismantle, *v. a.* difantellu; dïosg, dihatru, dihwylo, diwisgo; dynoethi, noethi; digaeru, dadgaeru, dadfurio; difeddu, difuddio; dystrywio, dinystro, *neu* ddinystrio caerau; dymchwelyd muriau amddiffyn; tori *neu* fwrw i lawr; gollwng yn rhydd; rhyddhau; dattaclu; digochli.

To dismantle a town—digaeru, dadgaeru, difurio, *neu* ddadfurio tref; dinystro *neu* ddystrywio caerau tref; dymchwelyd muriau amddiffyn tref; gwneuthur caerau tref yn gydwastad â'r llawr; tori *neu* fwrw tref i lawr; difantellu tref.

To dismantle a ship—dattaclu llong; dihatru llong.

dadleithiad; meiriolad, ymdoddiad; gollyngiad, ymollyngiad; dadgorfforiad, digorfforiad, dadgyssoddiad, anghorfforiad; ymadawiad, tranc, trancedigaeth, marwolaeth, golaith; diddymiad, dadymchweliad, dinystr, dinystrad; ymwahaniad; trwyth.

At the approach of his dissolution—â'i ymddattodiad, â'i farwolaeth, *neu* â'i drancedigaeth yn neshau.

Dissolution of parliament—dattodiad, dadgyssoddiad, *neu* ddadgyfansoddiad y senedd; gollyngiad y senedd ymaith.

The dissolution of abbeys — diddymiad, dymchweliad, dadymchweliad, dattodiad, *neu* anghorfforiad y mynachlogydd (yn nheyrnasiad Harri VIII).

Liable to dissolution—agored i doddi, &c.; goleithig.

Dissolvable, *a.* (o *dissolve*) toddadwy, hydawdd, dadmeradwy; dattodadwy; à ellir ei doddi, &c.

Dissolvableness, *s.* hydoddedd, toddoldeb, hydoddoldeb, dattodoldeb.

Dissolve, *v.* (Ll. *dissolvo*) toddi, dadmer, dadmeru, dadlaith, dadleithio, meiriol, meirioli, dadferu; dattod, dattodi, dadglymu, dadgylymu, dadgyssylltu, daduno, dadgorffori, anghorffori, gwahanu, ysgar, ysgaru, esgar, gwasgaru, chwalu; ymollwng, ymdoddi, ymddattod, ymwahanu; diflanu, darfod; rhyddhau, llaesu, llacäu; tori, briwio; difa, ysu; diddymu, dirymio, dinystro; myned yn ddim.

To dissolve the parliament—dattod, dadgorffori, dadgyssoddi, *neu* anghorffori y senedd; gollwng y senedd ymaith; tori y senedd.

To dissolve society—tori *neu* ddattod cymdeithas; dattod rhwymau cymdeithas.

To dissolve doubts—dattod cylymau (*Dan.* v. 16).

The earth is clean dissolved—gàn rwygo yr ymrwygodd y ddaiar (*Esa.* xxiv. 19).

Not to be dissolved—anattodadwy, anattod, annattodol, diwahan; anhydawdd.

Dissolvent, *a.* toddol, toddiadol, hydoddol, dadmerol, dadleithiol; à doddo; à ddattodo.

Dissolvent, *s.* edrwyth, dadleithydd, dadmerydd, toddydd, toddai, dadmerai, dadleithor, dadunai, dattodydd, dadglymydd, trwyth.

Dissolver, *s.* dattodydd, dattodai, dadleithydd, dadmerydd, meiriolydd, toddydd, dadferydd.

Dissonance, *s.* (Ff.; Ll. *dissonans*) anghydseiniad, anghydgordiad, anghordiad, anghord, anghyttonedd, anghydseinedd, anghynghanedd, anghynghan, anghydsain, anghydlais, gwrthsain, anghyfunsain; anghyssondeb, anghyssoniaeth, anghyssonedd, anundeb, anghytundeb, anghyfundod, anfwynder, annysgymmod, anghydsyniad.

Dissonant, *a.* (Ll. *dissonans*) anghydseiniol, anghytunol, anghytûn, anghysson, anghydgordiol, anghordiol, anghyssain, anghydsain, anghysson, anghynghordiol, anghydgerdd, anghydgerddol, anghydlais, digynghan, digynghanedd, anghyfundon, anhyfryd, anymunol; croes, anghyfarwar; garw, cryg.

Dissuade, *v. a.* (Ll. *dissuadeo*) anghynghori, annarbwyllo, gwrthannog, disgynghori, aneiriol; annogi y gwrthwyneb; cynghori, darbwyllo, *neu* annog yn y gwrthwyneb; dïannogi, trewynu, gwrthgymhell, troi; dwyn un oddi wrth ei amcan *neu* fwriad; dwyn *neu* dynu un ymaith oddi wrth ei fwriad *neu* amcan; cynghori peidio.

Dissuader, *s.* anghynghorwr, anghynghorydd, annarbwyllydd, disgynghorydd, gwrthannogwr.

Dissuasion, *s.* (Ll. *dissuasio*) anghynghor, gwrthgynghor, gwrthannog; anghynghoriad, gwrthgynghoriad, gwrthgymhelliad; cynghor yn y gwrthwyneb; gwrthannogaeth.

Dissuasive, *a.* (Ll. *dissuadeo*, *dissuasi*) anghynghorol, gwrthgynghorol, gwrthannogol, trewynol; à wrthgynghoro.

Dissuasive, *s.* gwrthgynghor, anghynghor, gwrthreswm, gwrthannog; rheswm rhag peth; rheswm, annogaeth, *neu* gynghor i beidio; darbwyll yn erbyn; trewyn, trewyniad.

Dissunder, *v. a.* gwahanu, ysgar, parthu, rhwygo.

Dissweeten,† *v. a.* dadfelusu, difelusu, dichwegu, anfelusu.

Dissyllabic, *a.* (Gr. *disullabos*) dwysill, dwysillog, dwysillol, dwysillafog, dwysillafol, deusill, deusillog.

Dissyllabic foot—corfan dwysill.

Dissyllable, *s.* dwysill, deusill, gair dwysill, gair deusill, dwysillair, deusillair, deusillaf: *pl.* deusilliaid, dwysilliaid, geiriau deusill.

Distaff, *s.* (S. *distæf*, yn ol *Junius*; Is. *towstaff*, yn ol *Skinner*) cogel, cogail: *dim.* cogeilyn.

Distaff-ful—cogeilaid.

Distaff thistle — ysgallen gogel, ysgallen felen.

Distain, *v. a.* (*dis* a *stain*) ystaenio, llychwino, goliwio; diwyno, difwyno, anurddo, halogi, anafu, bryntäu, dufanu, mànu, gwarthruddo.

Distance, *s.* (Ff.; Ll. *distantia*) pellder, pelledd, pelldra, pellineb, pellrwydd, meithder, meithdra, pellenigrwydd, pellenigedd, hiriant, hyd; encyd, ennyd, talm; yr ennyd *neu* encyd rhwng un peth a'r llall; talm o amser; cyfrwng, cyfwng, gofod; maint; anghytundeb, gwrthwynebiad; parch; rhagoriaeth.

At a distance, } draw; o bell, o hirbell; yn
At distance, } mhell, yn bell; pell; anghysbell; yn anghysbell; hwnt; oddi yma draw.

At a great distance off—yn hirbell oddi wrth un *neu* le; yn mhell iawn o ffordd; yn mhell iawn; yn mhellder byd.

At no great distance—nid yn neppell; nid neppell.

A long distance—hirbellder, hirbelledd, hirbelldra.

He was a good distance off—yr oedd efe yn mhell oddi yno; yr oedd efe encyd o ffordd oddi yno.

To be at distance—amrafaelio, ymryson, anghytuno, anghyduno; bod yn mhell.

At the distance of two miles—ar ben dwy filltir; â dwy filldir o ffordd rhyngddynt; â dwy filltir rhyngddynt; ddwy filltir oddi wrth un *neu* le; yn y pellder o ddwy filltir; yn ddwy filltir o bellder.

To keep one at a distance—peri i un sefyll yn ol *neu* o hirbell; gwneuthur i un sefyll yn ol *neu* o hirbell; cadw un draw; cadw pellder cyfaddas rhwng un a dyn.

To keep one's distance—sefyll yn ol o barch ar un; sefyll o hirbell o barch i un; ymgadw oddi wrth ryfyg; cadw

pellder gweddus; ymgadw mewn pellder gweddus; ymgadw draw.

To place at a distance—neilltuo, gwahanu, ysgaru, ysgar.

By distance of time—wrth ysbaid amser (2 *Esd.* v. 47).

Distance, *v. a.* pellu, pellhau; gadaw yn mhell yn ol; gadu yn mhell ar ol; blaenu yn mhell; rhagori yn mhell ar; bwrw o'r golwg; blaenu ar.

He distanced his contemporaries—gadawodd ei gyfoedion yn mhell ar ol.

Distant, *a.* (Ll. *distans*) pell, pellenig, anghyfagos; hirbell; nid yn agos; anghysbell, abell; gwahanedig, neilltuedig, ar wahan, neilltuol; â chyfrwng rhyngddynt; oddi wrth eu gilydd; gochelgar, gochelus, gwagelog, tawedog; yn cadw draw; yn sefyll yn mhell; pellynig, pellynus; o bell; gwamaidd; oeraidd.

To be distant—bod yn mhell; bod oddi wrth eu gilydd; bod â phellder *neu* gyfrwng rhyngddynt; bod encyd oddi wrth; bod yn anghysbell; bod â rhagor rhyngddo.

Very distant—pell iawn, pellbell, tra phell, pur bell, pell byd.

Far distant—yn mhell oddi wrth eu gilydd; yn mhell iawn; anghysbell, hirbell, pellbell.

He is not far distant, } nid yw efe
He is at no great distance, } neppell; nid nid yw efe yn mhell iawn.

Somewhat distant—lled bell, lledbell, go bell, tràn bell; yn lled bell; yn lledbell; yn o bell; yn grŷn bell.

Equally distant—cydbell, gogysbell, cyfbell, cysbell; o'r un pellder; cyn belled a'u gilydd; cybelled a'u gilydd; yr un càn belled; yr un cyn belled; yr un mòr bell; o'r unfaint bellder; o'r un cyfrwng; o'r unfaint gyfrwng; â'r un cyfrwng *neu* bellder rhyngddynt.

Distaste, *s.* gwrthflas, diflasdod, diflasder, diflasrwydd, anarchwaeth, dadchwaeth, drygchwaeth; casineb, cas, anhoffedd, anhoffder, alar, gwrthwynebrwydd; anfodloniedd, anfoddlonrwydd; anhyfrydwch.

Distaste, *v. a.* diflasu ar, alaru ar, blino ar, diflasu wrth; myned yn ddiflas, yn anfoddlawn, *neu* yn anfoddog wrth; anfoddloni yn mlas peth; diflasu, anhoffi, casbau, ffieiddio; gwrthwynebu ar; blino, anfoddio; coddi, sarhau, anfoddhau.

Distasteful, *a.* diflas, gwrthwyneblyd, alarllyd; ffiaidd, cas, adgas; anhyfryd i'r archwaeth; annymunol; drwg, anfoddog.

Distastefulness, *s.* diflasdod, diflasder, diflasrwydd; casineb, ffieidd-dod, cas; gwrthwyneblydrwydd; anhyfrydwch, anhoffedd.

Distastive, *s.* casbeth; diflasydd, gwrthflasydd; à bair ddiflasdod.

Distemper, *s.* (*dis* a *temper*) clefyd, afiechyd, annhymmer, anhwyl, anhwyldeb, anhwylder, haint, dolur, clwyf, gwst, clefni, saldra, saledd, anmhwynt, anhawnt, anardymmer, echur, anniwyg, hwyl ddrwg, natur ddrwg; anesmwythder, anesmwythdra; annhrefn, cyffro, terfysg; golur, teneuliw, paent afloew.

Contagious distemper—haint llŷn, haint glynol, haint llynol, haint cael, clefyd cael, clefyd llusg, haint ymlynol, cynghlwyf, cynghaint.

Lingering distemper—nychdod, nych, hirnych, clefyd nychlyd.

Distemper, *v. a.* gwneuthur yn glaf; peri yn glaf; gwneuthur yn anhwylus *neu* anhwyliog; anhwylio, heintio, dolurio, clwyfo; annhymmeru, anardymmeru; annhrefnu, aflonyddu, dyrysu, cythruddo, terfysgu; llygru.

Distemperance, } *s.* annhymmer, annhymmer-
Distemperature, } edd, anardymmer, anardymmyr, annhymmerusrwydd, anardymmeredd, anardymmerusrwydd; anghymmedroldeb; drwg dymmer; anhwyldeb, clefni, anhwylusder; annhrefn, aflonyddwch, terfysg, cyffro, dyryswch.

Distemperate, *a.* annhymmerus, annhymmyrus, anardymmerus, anghymmesur, anghymmedrol.

Distempered, *a.* claf, afiach, afiachus, clwyfus, dolurus, anhwylus, anhwyliog, aniach, sal, heinnus, heintus, heintlyd, gystog, clafus, clefyca; drwg ei hwyl; mewn anhwyl; mewn anhwyldeb; annhymmerus, anardymmerus, annghymmedrol, anghymmesur; annhrefnus, cythruddog, terfysgog; lledfrydig, gorphwyllog, gorphwyllus; rhagfarnllyd; drygwyllysiog, drygnwydus, dygasog.

Distempered stomach—cylla afiach, cylla egwan.

Distend, *v. a.* (Ll. *distendo*) helaethu, lledu, rhythu, eangu, arledu, amledu, damledu, darledu, llydanu, arlydanu, estyn, chwyddo, tynchwyddo, chwyddo allan, taenu, amdaenu; llenwi yn dyn; agor; mwyhau.

Distended, *p. p.* helaethedig, &c.; wedi ei sengu a'i sechu; cyflawn, tyn; tyn gàn lonaid.

Distensibility, *s.* hylededd, hyrythedd, damledoldeb, darledolrwydd.

Distensible, } *a.* helaethadwy, lledadwy, &c.;
Distensive, } hyled, hyrwth, hydaen; à ellir ei ledu *neu* helaethu.

Distension, } *s.* (Ll. *distensio, distentio*) helaeth-
Distention, } iad, llediad, amlediad, damlediad, darlediad, rhythiad, eangiad, arlediad, arlydaniad, taeniad, amdaeniad, chwyddiad, chwyddiad allan, tynchwyddiad, estyniad allan, dirdyniad; lled, arled, llydander, llydedd, tawd; egoriad, ymagoriad; cangedd, helaethder.

Distent, *a.* taenedig, ar daen, ar led.

Distent,† *s.* lled.

Dister,† *v. a.* (Ll. *dis* a *terra*) deol, alltudio; gyru o'r wlad.

Disterminate, *a.* (Ll. *disterminatus*) terfynedig; gwahanedig gàn derfynau.

Distermination, *s.* (Ll. *distermino*) gwahaniad, terfyniad.

Disthene, *s.* (Gr. *dis* a *sthenos*) glasith=math o ddelidfaen.

Disthrone, } † *v. a.* (*dis* a *throne*) dïorseddu,
Disthronize, } dadorseddu.

Distich, *s.* (Gr. *distichos;* Ll. *distichon*) pennill dwyfraich, cywydd deuair; deufan, dwyodl, dwyawdl, dwywers, dwyfraich, dwyadnod, deuodl, ban, dwylin, dwy linell, pennill, cwpl.

Distich of a poem—ban cywydd, deufan cowydd.

Distichous, } *a.* dwyres, yn ddwyres, dwyrestrog,
Distich, } dwyrestr.

Distil, *v.* (Ll. *distillo*) dystyllio, dystyllu, dyferu, dyhidlo, defnynu, dafnu, deigrynu, dy-

ferynu, meru, meryd, merino, hidlo; dyferu i lawr; disgyn *neu* gwympo yn ddyferion; toddi.

To double-distil — arddystyllio, arddystyllu.

Distillable, *a.* dystylladwy; addas i'w ddystyllu.

Distillation, *s.* (Ll. *distillatio*) dystylliad, defnyniad, dyferiad, deigryniad, dafniad, dyhidlad, hidlad, meriad, meriant, meriniad, dystyll; merin.

Double distillation—arddystylliad, dystylliad dyblyg.

Distillatory, *a.* dystyllol; perthynol i ddystyllio *neu* ddystylliad.

Distillatory vessels—llestri dystyllio.

Distiller, *s.* dystyllydd, dystylliwr, dystyllwr, merinwr, dystyllur.

Distillery, *s.* dystyllfa, dystylldy; dystyllyddiaeth.

Distilment, *s.* merin, dystylliad; yr hyn a ddystyllir.

Distinct, *a.* (Ll. *distinctus*) gwahanol, gwahanedig, gwahanredol, dynodol, gwahan, ar wahan, neilltuedig, dosbarthedig, neilltuol, dydolaidd, penodol; eglur, amlwg, croew; llawn-llythyr; brith, manog, amrywiedig.

Distinct,† *v. a.* gwahaniaethu.

Distinction, *s.* (Ll. *distinctio*) gwahaniaeth, gwahan, gwahanred, gwahanredoliaeth, gohanred, gohaniad, gwahaniad; rhagoriaeth, rhagor; dosbarthiad, parthiad, dosbarth, parthyd, neilltuaeth, neilltuad; amrywiaeth; darnod, dynodiad; gradd, bonedd, urddas, rhagorbarch, godidogrwydd, hynodrwydd; barn, dirnadaeth; rhagornod, gwahannod.

A mark of distinction—gwahannod, nod gwahan; rhagornod; nod gwahaniaeth.

Distinction by point—gwahannodiad, gwahannodiaeth.

A man of distinction—gwr o fonedd; dyn enwog, gwr rhagornod, dyn rhagorbarch.

Distinctive, *a.* gwahaniaethol, gwahanredol, gohanredol, darnodol, dynodol, dosbarthiadol, dosbarthol; dirnadol; yn gallu gwahanu *neu* wahaniaethu rhwng pethau.

Distinctly, *ad.* yn wahanol, &c.; ar wahan; o'r neilltu; ar ei ben ei hun; o bwnc i bwnc; o gymmal i gymmal; yn llawn-llythyr.

Then shall be read distinctly—yna y darllenir yn llawn-llythyr; yna y darllenir yn eglur.

Distinctness, *s.* gwahanolrwydd, gwahanredolrwydd, gwahanredoldeb, gwahanedigrwydd, gwahanoldeb, gwahander, neilltuolrwydd, dynodoldeb, eglurder, eglurdeb, croewder, croewedd.

Distinguish, *v.* (Id. *distinguo*) gwahaniaethu, dynodi, hynodi, gwahanredu, gohanredu, gwahanredoli, gwahanu, gwahanoli, darnodi, dosbarthu; dydoli; neilltuo, gohanu; gwneuthur gwahaniaeth *neu* ragor rhwng; gwneyd gwahaniaeth; rhoi nod gwahan ar; tynu heibio; canfod, adnabod, gwybod, *neu* ddeall gwahan *neu* ragor rhwng; canfod, adnabod, deall, dirnad, gwybod; barnu; enwogi; gwneuthur yn enwog *neu* adnabyddus; dangos rhagorbarch; rhagorberchi; anrhydeddu uwch law *neu* ragor ereill.

He cannot distinguish between good and evil—nid edwyn ragor rhwng da a drwg; ni fedr wahaniaethu rhwng da a drwg; nid edwyn y da rhagor y drwg; nid edwyn y da oddi wrth y drwg.

He will distinguish the one from the other at first sight—efe a adnebydd y naill oddi wrth y llall ar yr olwg gyntaf.

To distinguish one's self—gwneuthur *neu* ennill iddo ei hun enw; gwneuthur ei hun yn honaid; yn enwog, yn hynod, yn hyglod, *neu* yn glodfawr; hynodi ei hun; dangos ei hun yn wr; ymhynodi, ymenwogi, rhagori; rhagori ar; dysgleirio goruwch ereill.

He distinguished himself on that occasion by his excellent genius—efe a ddysgleiriodd ar *neu* yn yr achos hwnw drwy ragoriaeth ei synwyr *neu* ei ddoniau.

Distinguishable, *a.* gwahanadwy, dosbarthadwy, hybarth; à ellir ei wahaniaethu; nodadwy, hynod, rhagorol, nodol; haeddbarch, hyglod; teilwng o barch ac anrhydedd; teilwng o sylw.

Distinguished, *a.* nodedig, godidog, rhagorol, ardderchog, enwog, clodfawr, hyglod, dathl, rhagorgamp, hynod, hynodedig; gwahanedig, dosbarthedig.

Distinguisher, *s.* gwahaniaethwr, gwahaniaethydd, gwahanwr, gwahanydd, gwahaniedydd; dirnadydd, sylwydd manwl; nodwr *neu* nodydd gwahaniaeth.

Distinguishing, *a.* gwahaniaethol, neilltuol, penodol; godidog, rhagorol, nodedig, ardderchog, hynod, hynodol; rhagorgamp; nodweddol, dydol, dydolaidd, dydolus.

Distinguishing mark *or* token—rhagornod, nod gwahaniaethol, nod dosbarthol.

Distinguishment, *s.* gwahaniaeth, gwahanred, gohanred, gohaniad, gwahaniaethad.

Distitle, *v. a.* dihawlio, dihawlu; difuddiaw o hawl, iawnder, *neu* arddelwad.

Distort, *v. a.* (Ll. *distortus*, o *distorqueo*) gwyro, gwyrdröi, gwyrgamu, camu, camystumio, dirgamu, camdröi, croeswyro, croesdröi, ystlysgamu, trawsdynu, croesdynu, dattröi, dirdroi; hyllu, hacru.

To distort the mouth—mingamu; tynu *neu* droi ei fin ar gam; gwyro min, gwyrdroi min, troi min, gwneuthur gwefl.

Distort, } *a.* gwyredig, gwyrdröedig, camdrö-
Distorted, } edig, &c.; gwyrgam, gŵyr, cam; â thro ynddo.

Extremely distorted — gŵyr iawn, tra gwyrgam, gorgam.

Having a distorted mouth—mingam; â'i fin ar gam; â'i fin ar dro; â'i fin â thro ynddo; geneu-gam, gen-gam, mantgam.

Distortion, *s.* (Ll. *distortio*) gwyrdroad, gwyrad, camdroad, gwyrgamiad, croesdroad, trawsdyniad, camystum, camystumiad, mingamiad.

Distract, *v. a.* (Ll. *distractus*, o *distraho*) tynu oddi wrth; tynu o'r neilldu; tynu ymaith oddi wrth; tynu tua'r neilltu; tynu yn groes i'w gilydd; croesdynu, trawsdynu; gwahanu, neilltuo, rhanu, parthu, dosbarthu; cythruddo, aflonyddu, annhrefnu, terfysgu, dyrysu, blino, poeni, trallodi, dygnu, cythryblu; gwallgofi, hurtio, llymhurtio, gorphwyllo, syfrdanu; gyru yn ynfyd *neu* gynddeiriog; peri gorphwyllo, gwallgofi, *neu* ynfydu; penddifadu, disbwyllo.

Distract,† *a.* = *Distracted.*

Distracted, *a.* gorphwyllog, gorphwyllus, gwall-

gofus, gwallgof, ynfyd, anmhwyllog, lledfrydig, cynddeiriog, llymhurt, disbwyllog, gwyllt, indeg, llerth; maes o'i gof; allan o'i gof *neu* bwyll; cythruddedig, cythruddus, terfysgedig, terfysglyd, dyryslyd, helbulus; mewn cythrudd, trallod, *neu* ofid; gwahanedig, &c.

To be distracted, } gorphwyllo, gwall-
To grow distracted, } gofi, anmhwyllo, ynfydu, ymgynddeiriogi, ansynwyro, gwallbwyllo; myned yn orphwyllog; bod yn wallgof.

To run distracted—myned allan o'i gof; myned i maes o'i gof; myned yn ynfyd; ynfydu, gwallgofi, gorphwyllo; myned yn waened.

Distracted times — amseroedd terfysglyd, amseroedd terfysgus.

I am distracted — yr ydwyf yn petruso (*Salm* lxxxviii. 15).

I am almost distracted — yr wyf bron gwallgofi.

Distractedness, *s.* gwallgofrwydd, gorphwyllogrwydd, lledfrydedd, gorphwyllusrwydd; &c.; gwallgof, gorphwyll, anmhwyll, lledfryd.

Distracter, *s.* aflonyddwr, cythruddwr, &c.

Distractile, *s.* (o *distract*) cydbarthor.

Distraction, *s.* (Ll. *distractio*) terfysg, annhrefn, cythrwfl, cymhelri, cythrudd, dyryswch, dyrysedd; gwallgof, gwallgofrwydd, anmhwyll, gorphwyll, disbwyll, gorphwylledd, lledfrydedd, ynfydrwydd, cynddeiriogrwydd, cynddaredd, lledfryd, marwerydd, gwallbwyll, gwall synwyr; gorphwylliad, disbwylliad, llymhurtiad; cyfyng-gynghor; gwahaniad, rhaniad, dosbarthiad; croesdyniad, trawsdyniad, tyniad oddi wrth, tyniad ymaith; terfysg meddwl, syfrdandod, brwynfryd, penbleth.

Without distraction—yn ddiwahan (1 *Cor.* vii. 35).

Distractive, *a.* (o *distract*) terfysgus, terfysgol, cythruddol, cythryblus, dyrysol; à bair ddyryswch.

Distrain, *v.* (Ll. *distringo*) gafaelu, attafaela, attafaelu, adafaela, codi gafael, cymmeryd attafael; codi da; †rhwygo.

Distrainable, *a.* gafaeladwy, attafaeladwy.

Distrainer, } *s.* attafaelydd, attafaelwr, gafael-
Distrainor, } ydd, gafaelwr.

Distraint, *s.* (o *distrain*) gafaeliad, attafaeliad; attafael, gafael, adafael.

Distraught,† *a.*=*Distracted.*

Distream, *v. n.* (*dis* a *stream*) gorlifo, ffrydio drosodd, llifo drosodd, taenu drosodd.

Distress, *s.* (Ff. *détresse*; C. *trais*) cyfyngder, cyfyngdra, ing, ingder, cyni, gwasgfa, caledi, caledfyd, adfyd, trallod, cystudd, cystuddiant, helbul, didri, caethiwed, cythrudd, cyfyng-gynghor, trueni, trychineb, tysmwy, angen, angenoctyd, angenrhaid, cyfeiedd, cyfeiaeth, gormail, poen, gofid, gloes; attafael, gafael, attafaeliad, gafaeliad, rheithafaeliad, dystrais.

Distress, *v. a.* blino, poeni, cystuddio, cyfyngu ar, gwasgu ar, pwyso ar, gwasgu, trallodi, caethiwo, gorthrymu, dygn flino, arwasgu, gofidio, cythryblu, cythruddo, cymhwyo, dyrysu, gormeilio, gormesu, gormesu ar; dwyn i drueni, i ofid, i dlodi, i gyfyngder, *neu* i gaethiwed; gwarchau ar; dwyn i'w gyfyng-gynghor; rhoddi mewn syndod.

Yet not distressed — ond nid mewn ing (2 *Cor.* iv. 8).

In distress — mewn cyfyngder, &c.; yn gyfyng arno; helbulus, trallodus, gofidus, &c.

Distressed, *a.* helbulus, trallodus, cystuddiol, cystuddiedig, gofidus, adfydig, adfydus, trallodedig, cythruddedig, truenus, ing, ingus, poenus; yn gyfyng arno; mewn ing, ingder, cyfyngder, trallod, angen, *neu* angenoctyd; mewn cyfyng-gynghor.

Distressedness, helbulusrwydd, trallodusrwydd, adfydigrwydd, cystuddioldeb, adfydusrwydd, &c.; helbul, ing, cyfyngder, ingder, gwasgfa, cyni.

Distressful, *a.* gofidus, helbulus, trallodus, gofidiog, gofidlawn, ingol, gresynol, trwch, adfydus, adfydig, blinderog, gorthrymderus, poenus, ing; tlawd.

Distressful bread — bara cystudd, bara tlodi.

Distressing, *a.* ingol, ing, cystuddiol, blin, poenfawr, poenus, trallodol, adfydol, adfydiog, trychinebus, trychinebawl, ingfawr.

Distributable, *a.* cyfranadwy, rhanadwy, dosbarthadwy, dognadwy.

Distribute, *v. a.* (Ll. *distributus*, o *distribuo*) cyfranu, rhanu, dosbarthu, parthu, dogni, dyrannu; rhoi yn rhannau; rhoddi, rhoi, gweinyddu; trefnu, lluniaethu; rhencio; cyflëu; gosod mewn trefn; rhoi *neu* osod yn eu lleoedd; gwahanu, dadgyssodi.

To distribute justice—cyfranu *neu* weinyddu cyfiawnder.

Distributer, *s.* cyfranwr, cyfranydd, dosbarthwr, dosbarthydd.

Distribution, *s.* (Ll. *distributio*) cyfraniad, dosbarthiad, rhaniad, parthiad; dosbarth; rhanedigaeth; cyflead, trefniad, gweinyddiad, iawn drefniad; gwahaniad, dadgyssodiad.

Distributive, *a* (Ll. *distributivus*) cyfranol, cyfraniadol, dosbarthol, dosbarthiadol, cyfranedigol, cyfranogol, rhanedigol, rhanedigaethol, gwahanredol; gwahaniadol, rhanol.

Distributive justice—cyfiawnder cyfranol, cyfraniadol, *neu* ranedigol; iawn cyfranedig.

Distributive, *s.* dosbarthair; gair dosbarthol, dosbarthiadol, *neu* gyfraniadol; dosbarthydd, dosbarthor.

Distributively, *ad.* yn gyfranol, &c.; yn rhanedig, yn gyfranedig, yn rhanau, bob yn rhan, bob yn un; bob yn un ac un; trwy gyfraniad.

Distributiveness, *s.* cyfrangarwch, dosbarthgarwch.

District, *s.* (Ll. *districtus*) cylchdaith; tiriogaeth, rhandir, ardal, goror, bro, parthed, parth, gwlad, tud, trân, amgylchedd; rhaglawiaeth.

Distriction, *s.* (Ll. *districtio*) arddangosiad disymmwth, dadblygiad sydyn.

Distrust, *s.* anymddiried, anhyder, anghoel, gwangoel, gwangred, anghred, disgoel, disgred, drygdyb, llettyb, ammheusaeth, ammheu, ammheuad, petrusder, ofn; anfri, anghlod.

Distrust, *v. a.* anymddiried, anhyderu, anghoelio, digoelio, anghredu, disgredu, disgoelio, gwangredu, ammheu, ammheuo; ammheu yn nghylch; anghredu i; petruso am; llet-

tybio, drygdybio; bod â llettyb *neu* ddrygdyb am; bod heb gred yn; gwanffyddio, gwanobeithio.

Distrustful, *a.* llettybus, drygdybus; anhyderus, anymddiriedus, anghoelgar, ofnus, ofnog, ammhëus, gwanffyddiog, gwanffyddiol, dihyder, pryderus, petrusgar, ammheugar; gŵyl, gwylaidd, digalon.

Distrustfulness, *s.* anhyderusrwydd, anghoelgarwch, llettybusrwydd, &c.; anhyder, anymddiried, anghoel, gwangred, llettyb, ammheuaeth; petrusgarwch, ammheugarwch.

Distrustless, *a.* dilettyb, dibetrus, diddrygdyb; hyderus, coelgar.

Distune,† *v. a.* anghyweirio; rhoi mewn anghywair.

Disturb, *v. a.* (Ll. *disturbo*) aflonyddu, cythruddo, cythryblu, cyffröi, cynhyrfu, terfysgu, annhrefnu, anostegu, blino, anesmwytho, ystuno, annybenu, anghymmoni, trallodi, ansefydlu; rhwystro, attal, dyor, dyoryd, nadael, llestair, lluddias; bwrw allan o drefn; troi oddi wrth.

Disturb,† *s.* aflonyddwch, annhrefn.

Disturbance, *s.* terfysg, aflonyddwch, cythrwfl, cynhwrf, cyffro, anosteg, cythrudd, trabludd, cymhelri, dyfysgi, cymmysgedd, annhrefn, trallod, trafferth, godwrf, godwrdd, twrf, twrdd, mydwrdd, godorin, brwth, brythwch, llanastr, tymhestl; rhwystr, godor, llestair, lludd, lluddias, goludd.

Disturbance and injury—twrf ac eniwed; twrdd a niwed.

Disturbed, *p. p.* aflonyddedig, cythruddedig, &c.; terfysgus, dihedd, aflonydd.

Not disturbed—digynhwrf, digyffro, digythrwfl, diderfysg; anghythruddedig, anghynhyrfedig, &c.

Disturber, *s.* aflonyddwr, terfysgwr, terfysgydd, cythruddwr, cyffröydd, cyffröwr, anostegwr; rhwystrwr.

Disturn,† *v. a.* troi o'r neilltu.

Distyle, *s.* (Gr. *distulos*) pendist dwy golofn; deubillres.

Disuniform,† *a.* anunffurf.

Disunion, *s.* anundeb, dadundeb, dadgydiad, dadgyssylltiad, ysgariad, esgariad, ysgariaeth, gwahaniad, ysgar; anghytundeb, anghydfod.

Disunionist, *s.* anundebwr, pleidiwr anundeb.

Disunite, *v.* anuno, daduno, gwahanu, ysgaru, esgaru, dadgyssylltu, dadgydio, dadgyfuno, anghyssylltu, dydoli, neilltuo; rhanu, parthu, dosbarthu, dysbarthu; tori undeb *neu* gyfcillach; peri anundeb, ysgariad, *neu* anghydfod; ymwahanu, ymranu, ymneilltuo, ymadael.

Disunited, *p. p.* anunedig, gwahanedig, &c.; digyssylltiedig, anghyfan, anghyfwlch.

Disuniter, *s.* gwahanwr, gwahanydd, anunwr, dadunwr, ysgarwr, dadgyfunwr.

Disunity, *s.* anundod, anundeb, dadundod, dadundeb, anghyfundeb, anghyfundod, anghytundeb, anunoliaeth, anunoldeb, anunder, ymraniad, ysgariaeth.

Disusage, } *s.* anarfer, anarferiad, annefod,
Disuse, } anghynnefod, diarferiad, diarferedd, anghynnefinder, anghynnefindra; gadawiad *neu* newidiad arfer; ymbaid âg arfer; gwall arfer, diffyg arfer.

Disuse, *v. a.* anarferu, diarferu, annefodi, anghynnefino, gadaw arferu, peidio âg arferu.

Disused, *p. p.* anarferedig, diarfer, anarferol, annefodol, anghynnefin, anghynnefodig, diarferedig; wedi myned allan o arfer; gwedi tyfu allan o arferiad; hen, henaidd.

Disvaluation, } *s.* anmhrisiad, dibrisiad, an-
Disvalue, } mharch, anfri, anghlod, bychander, dibrisdod, anghymmeradwyaeth; diffyg parch *neu* fri.

Disvalue, *v. a.* dibrisio, anmhrisio, anhoffi, dibarchu, anfrïo, anmharchu, diystyru.

Disvelop,† *v.*=*Develope*, *Develop*.

Disvelloped, *p. p.* dadblygedig, taenedig, ar daen, ar led.

Disvouch, *v. a.* anghredu, anghoelio, disgredu, disgoelio; gwrthddywedyd, gwrthwynebu, gwrthbrofi, anwirio.

Diswarn,† *v. a.* rhagrybuddio.

Distwitted, *a.* dadsynwyrog, dadbwyllog; gwedi ei amddifadu o bwyll, synwyr, *neu* ddeall.

Diswont, *v. a.* diddyfnu; tynu oddi wrth; dadarferu.

Disworship, *s.* anaddoliant, achos gwarthrudd.

Dit,† *s.*=*Ditty*.

Dit,† *v. a.* (S. *dyttan*) cau i fyny, cau.

Ditation,† *s.* (Ll. *ditatus*) cyfoethogiad.

Ditch, *s.* (S. *dic*; Is. *dyk*; Al. *deich*; Ff. *digue*) ffos, clawdd, ffosle, ffos clawdd, dyfrglawdd, ffos ddwfr, camlas; clais, rhych, clawdd.

A little ditch — ffosig, goglawdd, clais, rhych, rhigol, rhewyn, cladd.

To surround with a ditch—amgloddio; amgylchu â chlawdd *neu* ffos; bwrw clawdd o amgylch.

Surrounded with a ditch — amgloddedig, amgloddiog.

To make a ditch — cloddio; gwneuthur clawdd *neu* ffos; tori clawdd *neu* gladd.

Full of ditches — ffosog; llawn ffosydd, cloddiau, *neu* gladdau.

Ditch, *v.* cloddio, ffosi, gwneuthur ffos, gwneuthur clawdd, tori clawdd, tori cladd; gwneuthur ffosydd *neu* gloddiau.

To ditch in *or* about—amgylchu â chlawdd; bwrw clawdd o amgylch; amgloddio; gwneuthur cylchglawdd *neu* amglawdd.

Ditch-delivered, *a.* ffos-anedig; à aned mewn ffos *neu* glais.

Ditcher, *s.* cloddiwr, ffoswr; torwr ffosydd, gwneuthurwr cloddiau.

Ditetrahedral, *a.* (*dis* a *tetrahedral*) dybedrochrog.

Dithyramb, } *s.* (Gr. *dithurambos*) ofergan,
Dithyrambus, } llerthgan, llertheg, lloniasgan, lloniasgerdd, gwingerdd=emyn nwyfwyllt er clod i Bacchus, yn mhlith y Groegiaid hynafol.

Dithyrambic, *s.* ofergan, llerthgan, llertheg, lloniasgan, lloniasgerdd; cân benboeth, cerdd orwyllt, cân i Bacchus.

Dithyrambic, *a.* gwyllt, gorwyllt, nwyfwyllt, penboeth, gorawenol, llerth, chwyddedig, gorwirebus, gormodicithol.

Dition, *s.* (Ll. *ditio*) rheolaeth, llywodraeth, arlwyddiaeth, gallu, awdurdod, cyfoeth.

Ditone, *s.* (Gr. *dis* a *tonos*) deudon, dwydon, cyfrwng dwy dôn.

Ditrichotomous, *a.* (Gr. *dis*, *treis*, *dicha*, a

temnô) rhanedig bob yn ddau a thri; deudrithrwch, deudrithrychog.

Ditriglyph, *s.* (Gr. *dis, treis,* a *gluphê*) deudrisylch, deudrisylchen; rhyngbilliad yn cynnwys dau drisylch.

Ditrihedria, *s.* (Gr. *dis, treis* a *hedra*) deudriochron.

Dittander, *s.* (?) pupyrlys, pybyrllys, berwr gwyllt, berwy gwyllt.

Dittany, *s.* (Gr. *dictamnos;* Ll. *dictamnus*) dittain, dittawnt.

Dittany of Crete—dittain Creta, dittawnt Creta.

White dittany—dittain gwŷn, dittawnt gwŷn.

Red dittany—dittain coch, dittawnt coch.

Dittied, *a.* (o *ditty*) canedig, à ganwyd, alawedig.

Ditto, *s.* (It. *detto;* Ll. *dictum*) yr un, yr un peth, y dywededig, y crybwylledig, y rhagddywededig, yr unrhyw; eto, eton.

Ditty, *s.* (Is. *dicht;* S. *diht, dihtan*) cân, canu, canuan, canig, cenig, cathl, emyn, caniad, cywydd, pryddestgan; pennill o ganu; cetyn o ganu.

Ditty, *v. n.* canu, cathlu, emynu, cywyddu; telori.

Diuresis, *s.* (Gr. *diourêsis*) troethlif, troethred, pisglwyf, pislif, y trynclif.

Diuretic, *a.* (Gr. *diourêticos*) troethbair, tryncrwydd, troethrwydd, troethbarol, tryncbair, pisbair; à bair wneuthur dwr.

Diuretic, *s.* troethbair, troethgyffer, troethrwyddai, tryncrwyddai, pisbair, tryncbair; meddyginiaeth à bair droethlif: *pl.* troethbeirion, troethgyfferi.

Diurnal, *a.* (Ll. *diurnus,* o *dies*) dyddiol; beunyddiol, peunyddiol, beunydd, peunydd, diwarnodol, dïwrnodol; perthynol i'r dydd; à wneler liw dydd; à wneler yn oed un dydd.

Diurnal flowers—dyddflodau, blodau dyddiol; blodau yn agor yn y dydd ac yn cau yn y nos.

Diurnal, *s.* dyddiadur, dyddlyfr, dyddnodlyfr.

Diurnalist,† *s.*=*Journalist.*

Diurnally, *ad.* yn ddyddiol, &c.; bob dydd; o ddydd i ddydd; beunydd.

Diuturnal, *a.* (Ll. *diuturnus*) parhäus, parhaol, hirbarhäus.

Diuturnity, *s.* parhausder, parhausrwydd, hirbara, parhad, hiriant.

Divagation,† *s.* (*divagor*) disberod, crwydrad.

Divan, } *s.* (Pers. *dîwân*) y senedd neu y prif
Diwan, } gynghor yn Nhwrci, ac ereill o wledydd y Dwyrain: cynghor, cynghorfa, uchel gynghor, cynghorlys, senedd; ystafell gynghor, cynghorgell; neuadd, llys; cabidwl: casgliad o gerddi.

Divaricate, *v.* (Ll. *divaricatus,* o *divarico*) fforchogi, fforchi, agor, agoryd, gwahanu, lledu; dosbarthu, ymranu, ymwahanu, ymagor; rhanu yn ddau; rhanu *neu* ymranu yn ddwy gangen; deuranu, deubarthu, deuhanneru; myned yn ddau.

Divaricate, *a.* fforchog, fforchedig, ymranedig, deuranog.

Divarication, *s.* fforchogiad, fforchiad, ymraniad, ymwahaniad; deubarthiad, deuraniad; rhaniad *neu* ymraniad yn ddau; dosbarthiad yn ddwy ran; croesiad.

Dive, *v.* (S. *dyfan;* Gr. *duptô*) ymsoddi, ymsuddo, ymdrochi; trochi, suddo, soddi, grawthu, cleigio; myned, ymfwrw, *neu* daro dân y dwr; nofio dân y dwr; treiddio, dwfn chwilio, dyfal chwilio, olrhain; myned i ddyfnder *neu* waelod peth; chwilio peth i'r gwaelod; mynu gweled eithaf peth; cael allan wrth chwilio.

I cannot dive into it—ni allaf *neu* ni fedraf fi mo'i olrhain.

Divellent, *a.* (Ll. *divello*) ysgarol, esgarol, gwahanedigol; dattynol, gwrthdynol; yn tynu oddi wrth eu gilydd; à wahana.

Divellicate, } *v. a.* (Ll. *divello*) llarpio, darnio;
Divel, } tynu oddi wrth eu gilydd; tynu bob yn getyn.

Diver, *s.* (o *dive*) ymsoddwr, ymsuddwr, ymdrochwr, trochydd, trochwr, trochiedydd, suddwr, soddwr; nofiedydd dân ddwfr; un à nofio tân ddwr; treiddiwr, olrheiniwr.

Great northern diver—trochydd mawr.

Grey speckled diver—trochydd bach.

Red-necked diver, } trochyddgwddfgoch.
Red-throated diver, }

Lesser dun diver—trochydd danneddog.

Pearl-divers—gem-suddwyr.

Diverb,† *s.* (Ll. *diverbium*) dïareb, direb.

Diverberation, *s.* (Ll. *diverbero*) tryseiniad, tryswniad.

Diverge, *v. n.* (Ll. *divergo*) ymwasgaru, ymwahanu, gwasgaru, ffloi, lledwyro, ymbellhau, gwyrdynu, cyfogwyddo allan, cydwyro allan, ymranu; cilio *neu* wyro bellach bellach oddi wrth eu gilydd; osgöi, lleddfu.

Divergence, } *s.* ymwasgariad, ymbellhad,
Divergement, } ymwahaniad, ffload, osgoad, ysgoad; ciliad *neu* wyrad bellach bellach.

Divergent, *a.* (Ll. *divergens*) ymwasgarol, ymwahanol, ymbellhaol, osgoawl, ysgoawl, gwyrdynol, lledwyrog; yn gwasgaru, yn ymwasgaru, yn ymbellhau; yn cilio *neu* wyro bellach bellach.

Divers, *a.* (Ff.; Ll. *diversus*) amryw, amryweiol, amryfal, llawer, aml; amry-.

Of divers colours, } amryliw, amliwiog,
Divers-coloured, } amliw, amryliwiog; o amryw liwiau; brith, tryfrith; symmudliw, newidliw.

Of divers forms—amryddull, amrylun, amrywedd, amlwedd, amryfodd, amryfeilwedd; o amryw ddull *neu* luniau.

Divers manners—llawer modd.

Of divers qualities—amrysawdd.

Diverse, *a.* (Ll. *diversus;* Ff. *divers*) amryweiol, amryfal, amryw, amryfath, amrywedd, amrywiog, amlryw; gwahanol, amgen, gwahan, annhebyg, anghyffelyb, gwahanredol, neilltuol; à gwahaniaeth *neu* ragoriaeth rhyngddynt.

Diversification, *s.* (o *diversify*) amrywiad, amrywiant, amrywiaeth, amrywiogaeth, amryweiolaeth, amrywioldeb, amryfeiliant, amryfeiliad, amryfaliad, neilliad, amgeniad; amryweddiad, amlweddiad; newidiad, cyfnewidiad.

Diversified, *a.* amrywiog, amrywiedig, amryfaledig, amryfeilus; gwahanedig, neilliedig, neilliog, amgenedig; brith, tryfrith, brithedig; amrywedd, amryfath, amryddull; à wnaed yn amryw.

Diversiform, *a.* (Ll. *diversus* a *forma*) amryddull, amrylun, amrywedd, amlwedd, amryfodd, amryfeilwedd, amgenwedd; o amryw ddull *neu* luniau.

Diversify, *v. a.* (Ff. *diversifier ;* Ll. *diversus* a *facio*) amrywio, amrywioli, amryfalu, amryfelu, amryfeilio, amgenu, neillio, neilliogi, amrywiaethu; gwahanredoli, gwahaniaethu; gwneuthur yn amryw *neu* yn amgen; gwneuthur yn wahanol, yn annhebyg, *neu* yn amrywiol; gwahanu, gwneuthur gwahaniaeth; britho, amliwio, brithnodi, dyfritho, darfritho, tryfritho.

Diversiloquent, *a.* (Ll. *diversus* ac *eloquor*) amrylef, amrylais, amrylafar, amrydraeth.

Diversion, *s.* (Ff. o'r Ll. *diverto*) difyrwch, digrifwch; dyddanwch, achweryd; digrifhad, difyriad; chware, chwareu, chwarydd-iaeth, chwareuaeth; cildroad, gwyrad; troad o'r neilltu; troad oddi ar y ffordd.

To give an enemy a diversion—dwyn, tynu, *neu* droi gelyn oddi wrth ei amcan; tynu gelyn oddi wrth ei amcan drwy hyfedredd ymddygiad; troi gelyn oddi wrth ei amcan drwy gyfrwysdra; dàl *neu* gadw gelyn mewn chwareu *neu* ar waith; dallu llygaid gelyn; tywyllu llygaid gelyn; rhoi i'r gelyn beth i'w wneuthur; cildröi gelyn.

Diversity, *s.* (Ll. *diversitas ;* Ff. *diversité*) amrywiaeth, gwahaniaeth, amrywioldeb, amrywiant, amryfeiliaeth, amryfeiliant, amryfaliad, amryfeiliad, amryfaliaeth, amryfaledd, gwahan, rhagoriaeth, rhagor, amrywiedigaeth, amrywiolaeth, amrywiogaeth, amrywdeb, amgenaeth, annhebygrwydd, annhebygoliaeth, neilliogrwydd, neilliogaeth, neilliedigaeth.

Diversity (in painting)—amrywdeb.

There are diversities of gifts—y mae amryw ddoniau (1 *Cor.* xii. 4).

Great diversity—amrywiaeth mawr; amrafael mawr.

Divert, *v. a.* (Ll. *diverto*) difyru, boddio, boddhau, dyddanu, digrifo, digrifhau, lloni, lloddi, hyfrydhau, dadebru; gwyro; troi o'r neilltu; troi oddi ar y ffordd; troi oddi wrth ei amcan; troi ymaith; trosi, somi, siomi; troi *neu* dynu y naill oddi wrth y llall.

To divert one's self—ymddifyru, ymddigrifo, ymddigrifu, ymddigrifhau, ymloddi, ymddyddanu; difyru ei hun.

To divert one's spleen—troi ymaith ei ddig; dofi, dylofi, *neu* dawelu ei ddryganiaeth; dofi ei ddrygnaws *neu* ddrygnwydau; sirioli, diddigio, dad-ddigio.

To divert one's misery—anghofio ei ofid; ymloni.

Divertimento, *s.* (It.) difyriant; amryfaledd.

Diverter, *s.* difyrydd, difyrwr, dyddanwr.

Diverting, } *a.* difyrus, difyrol, difyr, digrifol,
Divertive, } dyddanus, dyddanol, dyddan, digrif, llon, llawen; arab; cellweirus, cellwerus, afieithus, difyrgar, dyddangar, lloddus.

Diverticle,† *s.* (Ll. *diverticulum*) troad, cildroad; cilffordd.

Divertise,† *v. a.* (Ll. *diverto ;* Ff. *divertir*) difyru, boddio, lloni, lloddi.

Divertisement, *s.* difyrwch, digrifwch, boddhad, difyredigaeth, achweryd.

Divest, *v. a.* (Ff. *dévêtir ;* o'r Ll. *vestio*) dihatru, dïosg, diddilladu, dihwylo, dynoethi; difuddio, difeddu, difeddiannu, dadfeddiannu; dwyn oddi ar; cymmeryd oddi wrth; dysbeinio.

To divest one's self—ymddïosg, ymddihatru, ymddeodi.

He was divested of his office—difuddiwyd *neu* difeddiannwyd ef o'i swydd; dïosgwyd ef o'i swydd.

He divested him of all his honours—dïosgodd ef o'i holl urddas *neu* anrhydedd.

Divestiture, } *s.* dihatriad, dïosgiad, difuddiad;
Divesture, } dadestyn, dadystyn, dadestyniad.

Dividable, *a.* rhanadwy, cyfranadwy, dyranadwy, parthadwy, hyran, hybarth.

Divide, *v.* (Ll. *divido*) rhanu, cyfranu, dyranu, gwahanu, parthu, dybarthu, dosbarthu, rhifranu; ysgar, esgar, esgaru, ysgario, cywanu; hollti; ymranu, ymwahanu; ymagor, ymhollti; dogni; deoli.

To divide asunder—gwahanu, ysgar, dydoli, neilltuo; tori; tynu oddi wrth eu gilydd.

To divide into two equal parts—deubarthu; rhanu *neu* dori yn ddau; rhanu yn ddwy ran; rhanu yn ddwy ran gyfartal.

To divide into three parts—traianu, trianu; rhanu *neu* wneuthur yn deiran; rhanu yn dair rhan.

Divided, *p. p.* rhanedig, &c.; anghytûn, anghydgordiol.

Divided into two parts—deubarthedig; dwy-ran, deuhanner.

Divided into three—traianedig, trianedig, teir-ran.

Divided into many parts—lluosranog, lluosran, lluosbarth, lluosbarthog.

Easily divided, } hyran, hybarth;
Easy to be divided, } hawdd ei ranu *neu* barthu; hawdd i'w ranu *neu* barthu.

To be divided in opinion—bod o wahanol farn; ymranu *neu* amrywio mewn barn.

Dividedly, *ad.* yn rhanedig, &c.; ar wahan.

Dividend, *s.* (Ll. *dividendus*) rhan, cyfran, dogn, rhandwy, ysgâr, talgyfran, llogran, dylran; cyfransawdd, rhifransawdd, rhansawdd, nellai, esran, ysran; rhif, nifer, rhifedi, cyfrif, *neu* sum i'w ranu.

Divider, *s.* rhanwr, rhanydd, rhaniedydd, rhanedydd, parthwr, dosbarthwr, dosbarthydd, cyfranwr, dydolwr, dydolydd, gwahanwr, gwahanydd.

Divider, } rhanedydd, rhaniedyr, rhanyr
Dividers, } =math ar gwmpas.

Dividing, *a.* rhaniadol, parthiadol, dybarthol, dyranol, ysgarol, gwahaniadol.

Dividing, *s.* rhaniad, parthiad, gwahaniad, dyraniad, dosbarthiad.

Dividual, *a.* (Ll. *dividuus*) rhanedig, cyfranedig, dyranedig, dognedig, cydranedig.

Divination, *s.* (Ll. *divinatio*) dewiniaeth, dewiniad, dewindeb, dewindebiaeth, darogan, armes, dysgogan, arddysgogan, chwiliogaeth, dysgoganiad, dysgogant, cynnadgan, brud, coel, argoel, darmain; rhagddywediad, barn, amcan, amcaniaeth, *neu* amcanfarn am à ddel.

Divination by the entrails—ymysgargoel, dewiniaeth ymysgar.

Lying divination—gau ddewiniaeth (*Esec.* xiii. 6).

Divinator, *s.* (Ll.) dewin, dewinwr, dewiniwr, dewiniedydd, dewinydd, daroganwr, darogenydd, dysgoganwr.

Divinatory, *a.* dewiniaethol; yn proffesu dewiniaeth.

Divine, *a.* (Ll. *divinus*) dwyfol, duwiol, dwywol, dwyfolaidd, duwin, dwyfin; perthynol i Dduw; duwaidd; nefol, nefolaidd, santaidd, sanctaidd; dwyar; dwyf-; ardderchog, rhagorol.

Divine service—gwasanaeth Duw, gwasanaeth dwyfol, addoliad Duw, diwyll Duw, addoliant dwyfol.

Divine vengeance — dïal Duw; dïaledd dwyfol.

A divine sentence—ymadrodd Duw (*Diar.* xvi. 10); ymadrodd dwyfol.

Divine songs—canau duwiol.

The divine nature—yr anian ddwyfol, y natur ddwyfol, y dduwiol anian, y ddwyfol anian, yr anian dduwiol; natur Duw.

Divine perfections — perffeithion Duw, perffeithion dwyfol, perffeithiadau Duw, perffeithderau dwyfol.

Divine, *s.* duwinydd, dwyfydd, dwyfinydd; gweinidog yr efengyl, gwr llên.

St. John the Divine—Sant Ioan y Duwinydd; Sant Ioan y Dwyfinydd.

Divine, *v.* (Ll. *divino*) dewinio, dewino, rhagddewino, darogan, daroganu, dewindebu, brudio, brutio, dysgogan, dysgoganu; dyfalu, dyfeisio, dychymygu, dychymyg, amcanu, bwrw amcan, bwrw hud; arfer dewiniaeth, coelgyrchu, rhamanta; rhagddywedyd, rhagwedyd, rhagfynegu; † dwyfoli.

Divining rod—hudlath, hudialen, hudwialen, gwialen ddewinio.

Divinely, *ad.* yn ddwyfol, yn dduwiol, yn nefolaidd; mewn modd nefolaidd; oddi wrth Dduw; gàn Dduw; o'r nef.

Divinely inspired—cynhyrfedig gàn Ysbryd Duw; cynhyrfedig gàn yr Ysbryd Glân; à gynhyrfwyd gàn Ysbryd Duw; à gynhyrfwyd gàn yr Ysbryd Glân; à roddwyd gàn ysbrydoliaeth Duw; gwedi ei roddi gàn ysbrydoliaeth Duw; gwedi ei ddwyfol ysbrydoli; trwy ysbrydoliaeth Duw.

Divineness, *s.* dwyfoldeb, dyfolder, dwyfolrwydd, dwywoldeb, dwywolder, duwioldeb.

Diviner, *s.* dewin, dewiniwr, dewinwr, dewinydd, dewiniedydd, daroganwr, darogenydd, daroganor, brudiwr, brutiwr, dysgoganwr, dysgogenydd, chwiliog, coelgyrchwr; rhagfynegwr; dyfalwr, amcanwr, dychymygwr: *pl.* dewiniaid: *f.* dewines.

Divineress, *s.* dewines, dewinyddes, daroganes, dysgoganes, dewinwraig, chwilioges.

Diving, *s.* (o *dive*) ymsoddiad, ymsuddiad, ymdrochiad, trochiad, soddiad; nawf dàn ddwr; nawf dàn y dwr.

Diving-bell, *s.* soddgloch, suddgloch, cloch ymsoddi, cloch soddi, dyfrgloch: *pl.* soddglych.

Diving-stone, *s.* soddfaen=math o faen iaspis.

Divinity, *s.* (Ll. *divinitas*; Ff. *divinité*) dwyfoldeb, dwyfolder; duwdod, duwdeb; duwinyddiaeth, dwyfyddiaeth, duwineb, dwyfinyddiaeth; dwywoldeb, dwywolder, duwindeb, duwiolaeth; Duw, duw; duwiaeth.

The divinity of Christ — duwdod Crist, duwdeb Crist; dwyfoldeb Crist.

Body of divinity—corff o dduwinyddiaeth, corff o ddwyfyddiaeth, corff dwyfyddiaeth.

Doctor of Divinity, } Doethor Duwinyddiaeth, Doethor Dwyfyddiaeth; Dysgawdwr Duwinyddiaeth, Athraw Dwyfyddiaeth, Doctor Duwinyddiaeth.
Doctor in Divinity, }

Bachelor of Divinity—Baglor Duwinyddiaeth, Baglor Dwyfyddiaeth; Mebydd Dwyfyddiaeth; Gwyryf Dwyfyddiaeth, Gwyryf Duwinyddiaeth.

Divisibility, } *s.* (Ff. *divisibilité*, o'r Ll. *divisibilis*) hyranedd, hyranrwydd, hybarthedd, hybarthrwydd, gwahanrwydd.
Divisibleness, }

Divisibility of matter—hyranedd defnydd.

Divisible, *a.* (Ll. *divisibilis*) rhanadwy, parthadwy, hyran, hybarth, gwahanadwy; à ellir ei ranu, &c.

Division, *s.* (Ll. *divisio*) rhaniad, parthiad, cyfraniad, gwahaniad, dyraniad, dybarthiad, dosbarthiad, parthiant, ysgariad, dydoliad; rhan, cyfran, parth, parthed, parthedd, parthred, dosbarth, ysgâr; cydraniad; cyfraniaeth, rhifraniad, dyraniaeth, rhanedigaeth, gwahanedigaeth; ymraniad, ymrafael, ymryson, amryson, anghydfod, anghydfyddiaeth, anundeb, anghytundeb; gwahaniaeth, amrywiaeth, gwahan, ysgariaeth, esgariaeth, rhwyg, rhwygiad, ymbleidiad.

Division (as a rule)—cyfraniaeth, rhifraniaeth, rhaniadaeth, dyraniaeth.

Division of integers—cyfraniaeth symion, rhifraniaeth syml, cyfraniaeth gyfanrif.

Compound division—cyfraniaeth amrywion, rhifraniaeth gyfansawdd.

Equal division—cyfraniad; rhaniad cyfartal, &c.

Front division—rhagwan, rhagran, blaenran, rhagbarth; rhan flaen, dosbarth blaen.

Circular division—amran, cylchran; amraniad, cylchraniad; rhaniad crwn.

To run division — cynghaneddu, peroriaethu, perori, cathlu, pyncio; canu yn gywair fesurol; canu yn fân ddryllian *neu* ddarnau.

That there be no divisions among you—na byddo ymbleidio yn eich plith (1 *Cor.* i. 10).

Division of one's inheritance—rhandir ei etifeddiaeth.

Divisional, } *a.* rhaniadol, parthiadol, dosbarthiadol, parthiannol, parthiannus, parthredus.
Divisionary, }

Divisioner, *s.* rhanwr, rhanydd, parthwr.

Divisive, *a.* rhaniadol, rhanedigol, parthedigol, cyfraniadol, cyfranedigol; anghydfodol, amrysonol, amrafaelus; à bair anghydfod *neu* anundeb.

Divisor, *s.* (Ll.) rhaniedydd, rhanedydd, rhifranai, rhifranydd, rhanydd, cyfranydd.

Divorce, } *s.* (Ff.; Ll. *divortium*) ysgar, ysgariaeth, esgar, esgariaeth, ysgariad, esgariad, esgaredigaeth, ysgaredigaeth, ysgar priodas, diddymiad priodas, dadbriodas; dadundeb, gwahaniad, deolawd; llythyr ysgar, esgareb.
Divorcement, }

Bill of divorce, } llythyr ysgar, llythyr esgar, esgareb.
Bill of divorcement, }

Divorce, *v. a.* ysgar, ysgaru, esgar, esgaru, esgario, ysgario, gwahanu; ysgar, gwahanu, *neu* ddattod priodas; dadbriodi; deol; gwrthod, llysu, rhoi ymaith, bwrw ymaith, gyru ymaith, anfon ymaith, daduno, dadgysylltu.

Divorceable, *a.* ysgaradwy, esgaradwy, gwahanadwy.
Divorceless, *a.* dïysgar, dïesgar, anysgoradwy, anysgarol; nas gellir ei ysgar.
Divorcer, *s.* ysgarydd, esgarydd, ysgarwr, ysgariedydd.
Divorcive, *a.* ysgarol, esgarol, ysgariadol.
Divulgate, *a.* (Ll. *divulgatus*) cyhoeddedig, angheledig, cyhoeddus, cyhoedd.
Divulge, *v. a.* (Ll. *divulgo*) cyhoeddi; gwneuthur yn gyhoedd *neu* yn gyffredin; dadguddio, amlygu, egluro, anghelu, cyffredino, anhuddo; hòni; gwneuthur yn honaid; gyru ar led.
To divulge a secret—dadguddio cyfrinach, gwystlo gwybodaeth, dywedyd rhin, angelu cyfrinach, cyfranu cyfrinach; dadrinio.
Divulger, *s.* cyhoeddwr, cyhoeddydd, dadgelwr, anghelwr, dadguddiwr.
Divulsion, *s.* (Ll. *divulsio*) dadgyssylltiad; rhwygiad; tyniad oddi wrth eu gilydd; tyniad yn ddrylliau; dattodiad; gwahandyniad.
Divulsive, *a.* gwahandynol; à dyno oddi wrth eu gilydd; rhwygol, dadgyssylltiol.
Dizen, *v. a.* (o *dight*, yn ol *Johnson*) trwsio, taclu, addurno, gwychu, trwsiadu; gwisgo yn orwych.
Dizz,† *v. a.* (S. *dysi*, *dysig*) synu, serfanu, serfu; dyrysu; syfrdanu.
Dizzard,† *s.* penbwl, cadafael, hurthgen, llelo, ffwlcyn, llob, penllorcan.
Dizziness, *s.* (o *dizzy*) syfrdandod, madrondod, syfrdanedd, pendrondod, pendro, y bendro, gysp, y gysp, penddar, penddaredd, meigryn, ehegr, dera, penfrag, gwibwrn, chwibwrn, pendronedd, pendrofa, pensyndod, penchwibandod, chwidredd, penfeddwdod, serfandod, pendreiglad; diofalwch.
Dizzy, *a.* (S. *dysi*, *dysig*; Al. *dusel*, *duselig*; Is. *deuzig*) syfrdan, pensyfrdan, pendröedig, penysgafn, penfeddw, penchwiban, serf, serfan, chwibwrn, gwibwrn, serfyll, madron, pendron; â'r bendro arno, &c.; penddarus, pendreigl, pendroiog; diofal, difeddwl, anfeddylgar.
Dizzy, *v. a.* chwildröi; syfrdanu, serfanu, serfu, penfeddwi, pendroni, penddaru, madroni, pendröi, serfyllio, pensynu; dyrysu, anuhrefnu; peri syfrdandod, &c.
Do, *v.* (S. *don*; Is. *doen*; Al. *thun*) gwneuthur, gwneyd, gwneuthyd, gwneddyd, gwnelyd, gorugo; gweithredu; ymwnëyd; bod.
How do you do? } pa fodd yr ydych? pa
How do you? } sut yr ydych? pa fyd? pa hynt? pa helynt? beth yw'ch hyut? pa beth yw eich hynt? pa fodd yr ydych yn ymdaro? pa sut yr ych chwi?
He did—gwnaeth, gorug, gwneddyw.
It will do—gwna y tro; efe a wna y tro; e wna 'r tro; gwnaiff y tro; efe a wasanaetha 'r tro; efe a etyb y tro; ef a etyb y dyben.
What doth he here?—beth sydd à fyn *neu* a wna efe yma? beth y mae efe yn ei wneuthur yma? pa neges sydd iddo *neu* ganddo yma? beth sydd à fyno efe yma?
To have to do—bod à wnelo; bod à fyno.
To have to do with — ymwneyd â, ymwneuthur â; bod à wnelo â; ymgyslynu â; gweithredu â.
What have you to do with me?—beth sydd à fynech chwi â myfi? beth sydd à wnelech chwi â mi? beth sydd à fynoch *neu* à wneloch chwi â myfi?
You will have enough to do—cewch eich llawn waith; cewch eich cyflawn waith; cewch eich gwala o waith; cewch ddigon i wneuthur; cewch ddigon i'w wneyd.
We shall do very well—gwnawn yn burion; nyni a ymdaräwn o'r goreu; ni a ymdaräwn yn ddifai ddigon; ni a ymdaräwn yn burion; gwnawn o'r goreu.
What hast thou to do with peace?—beth sydd i ti à ofynych am heddwch? beth sydd i ti à wnelych â heddwch? beth sydd à fynot ti â heddwch?
Hast thou anything to do with this?—a oes à wnelot ti â hwn? a oes à fynot ti â hwn? a oes à wnelo hwn â thi?
To do well—ffynnu, llwyddo, gwrygio; gwneuthur yn dda; gwella, gwellhau.
To go about to do—bod ar fedr gwneuthur; bod yn nghylch gwneuthur; myned yn nghylch gwneuthur; myned yn nghyd â gwneuthur.
Much to do—trafferth.
I had much to do—cefais lawer o drafferth; cefais lawer i'w wneuthur.
Do not be foolish—paid â gwirioni; paid â bod yn ffol.
Do so no more—na wna felly mwy; na wnewch felly mwy; peidiwch â gwneuthur hyny mwyach.
Do I?—a ydwyf? a wyf? a ydwyf fi? a wyf fi? ydwyf fi?
Dost thou?—a ydwyt? a ydwyt ti, &c.
Do you go to the theatre?—a ydych yn myned i'r chwareufa?
I do—ydwyf, wyf, yr ydwyf, yr wyf.
I did—gwnaethym; do.
That will do—gwna hyna y tro; dyna burion; etyb hyn y dyben; gwasanaetha hyna *neu* hwnw y tro; purion; o'r goreu.
To do business — masnachu, trafnidio; gwneuthur *neu* wneyd masnach; trin masnach.
To do away—symmud, symmudo; symmud ymaith; dyfetha, dinystrio, dystrywio, lladd; symmud oddi ar y ffordd; symmud i ffwrdd; dilëu, difodi.
To do with — gwneuthur â; gwneuthur gyda; defnyddio; gwneuthur defnydd o; ennill; bod à wnelo â; bod à fyno â; bod ganddo à wnelo â; effeithio; effeithio ar; bod o bwys i; trafod.
Have little to do with jealous men—bid ychydig à wnelot â dynion eiddigus.
Do, that is a good creature—gwna, da dithau.
Do but obey my voice—yn unig gwrandaw ar fy llais; yn unig gwrandawa fy llais.
He cannot do that—nis gall efe wneuthur hyny; ni ddichon efe mo hyny.
Self do, self have—fàl y gwnaethoch y cawl, cymmerwch; megys y gwnaethoch y cawl, yfwch ef.
Do well and have well—os da y gwnei, da y cei; fel y gwnai, felly y cai; megys y gwnei, felly y cei; fàl y gwnaethoch y cawl, cymmerwch.
What hast thou to do to declare my

statutes?—beth sydd i ti à fynegech ar fy neddfau?
You have nothing to do with us—nid yw i chwi ac i ninnau (*Ezra* iv. 3).
With whom we have to do—am yr hwn yr ydym yn son (*Heb.* iv. 13).
Dost thou now govern the kingdom of Israel?—ydwyt ti yn awr yn teyrnasu ar Israel? a ydwyt ti yn awr yn teyrnasu ar Israel (1 *Bren.* xxi. 7)?

Do, *s.* sill arferedig mewn cerddoriaeth.

Doat, *v. n.*=*Dote.*

Docibility, **Docibleness**, **Docility**, } *s.* hyddysgedd, hyddofedd; parodrwydd i ddysgu; parodrwydd *neu* gymhwysder i gymmeryd dysg; parodrwydd i dderbyn addysg; parodrwydd i gymmeryd ei ddysgu; athrylithgarwch; gwarwch, gwarder, hynawsedd.

Docible, **Docile**, } *a.* (Ll. *docilis*) hyddysg, hyddof, hydrin, hydyn, hywedd, hywaith, dysgadwy, athrylithgar; hawdd ei ddysgu; hawdd i'w addysgu; hawdd ei drin; dofaidd, dof, gwâr, gwaraidd, hynaws.

Docimacy, *s.* (Gr. *docimasia*) delbrofiaeth, delidbrofiaeth, mettelbrofiaeth, delbrofiad, delbrawiad; metteliaeth, mettelwaith.

Docimastic, *a.* (Gr. *docimasticos*) delbrofol, delidbrofol, delbrawol, mettelbrofol; mettelweithiol.

Dock, *s.* (S. *docce*; Al. *docke*; Gr. *daucos*; Ll. *daucus*) tafol; tafolen.
Sharp dock, Ditch dock, } trython, tafol Mair, chwysoglen, tafol blaenllym.
Bloody-veined dock—tafolen goch, tafolen waedlyd.
Curled dock — tafolen grech: *pl.* tafol crychion, tafol crych.
Broad-leaved dock — tafolen lydanddail, tafolen y cwn, tafolen gyffredin.
Great water dock—tafol y dwr, tafol y dwfr, tafol hirion, suran hir.
Sour dock—dringol, dringon, suran yr yd.
Golden dock—tafol y môr.
Dock leaves—dail tafol.
In dock out nettle—y naill wenwyn a ladd y llall.

Dock, *s.* llongarth, llongorsaf, llongborth, llongadeilfa; cloren march, cynffon march; cloren, rhonell, conell; pedrain; tocen; cynffon *neu* gloren gota; caes tocen, tocwisg, tocwain; cloer, llogawd, bàr.

Epigraph, *s.* (Gr. *epigraphê*) craifft, argraifft, arysgrif, arysgrifen, argraff.
Epigraphy, *s.* (Gr. *epigraphê*) argreifftiaeth, creifftiaeth, arysgrifiaeth; creifftofyddiaeth; gwybodaeth o arysgrifau.
Epigynous, *a.* (Gr. *epi* a *gunê*) arfenywaidd, arbadgellaidd.
Epilepsy, *s.* (Gr. *epilêpsia*) masglwyf, haint dygwydd, clwyf dygwydd, llesmeirglwyf, haint Tegla, clwyf Tegla, y gloesion llewyg, y gloesion mawr, y clefyd bendigaid, gwialen Crist, dirloesion.
Epileptic, *a.* (Gr. *epilêpticos*) masglwyfus, masglwyfol, masglwyfig, masglaf, dirloesol; â'r haint dygwydd arno; â'r masglwyf arno; darostyngedig i'r haint dygwydd; yn cael ei flino gàn yr haint dygwydd; claf o'r haint dygwydd.
Epileptic, *s.* masglaf, un masglwyfus, un â'r haint dygwydd arno: *pl.* masgleifion.
Epilobium, *s.* (Gr. *epi* a *lobos*) helyglys.
Epilogism, *s.* (Gr. *epilogizomai*) cyfrifiad, cyfrifiant, rhifiad, niferiad.
Epilogistic, *a.* (o *epilogue*) olareithiol, diweddgloawl, olymadroddol, olarodawl; perthynol i olymadrodd *neu* olaraeth.
Epilogue, *s.* (Gr. *epilogos;* Ll. *epilogus*) olaraeth, olymadrodd, olarawd, diweddglo, argae ymadrodd, cynghload, cynghlo, gorphenlith; olsumiad.
Epiloguize, } *v.* olymadroddi, olarodi, olar-
Epilogize, } eithio; chwanegu diweddglo at; traethu olaraeth.
Epimedium, *s.* (Gr. *epi*, a *Media*, gwlad yn Asia) anhiliog, yr anhiliog.
Epinicion,† *s.* (Gr. *epinicion*) càn orfoledd, gorfodgan, buddygfawl.
Epinyctis, *s.* (Gr. *epi* a *nux*) noslynoryn, noslynor.
Epipactis, *s.* (Gr.) caldrist.
Epipedometry, *s.* (Gr. *epi*, *pous*, a *metron*) cymhedfesuriaeth; mesuriad lluniau yn sefyll ar yr un gwadn.
Epiphany, *s.* (Gr. *epiphaneia*) ystwyll, yr ystwyll, serenwyl, gŵyl ystwyll, dydd gŵyl yr ystwyll; yr ymddadgudd=Ionor 6.
Epiphonem, } *s.* (Gr. *epiphônêma*) arlef, dir-
Epiphonema, } lais; gwaeddolef; rhyfeddeb; diweddlef, diweddiaith; llef rhyfeddod.
Epiphora, *s.* (Gr.) darymchwel=troell ymadrodd: deigrwst, llygadwst, y llygad dyfrllyd.
Epiphyllospermous, *a.* (Gr. *epi*, *phullon*, a *sperma*) arddeilhadog; yn dwyn had ar gefn y dail.
Epiphyllous, *a.* (Gr. *epi* a *phullon*) arddeiliog, arddeiliar, arddeiliawl; yn tyfu ar ddalen.
Epiphysis, } *s.* (Gr. *epiphusis*) ardyfiant, ar-
Epiphysy, } dwf; tyfiad un asgwrn i'r llall.
Epiphytal, *a.* (Gr. *epi* a *phuton*) ardyflysol, ardyfol.
Epiphytes, *s. pl.* (Gr. *epi* a *phuton*) ardyflysiau, ardyfiaid, ardyfolion, arhydyfiaid; planigion yn tyfu ar rai ereill.
Epiploce, } *s.* (Gr. *epiplocê*) cydymbleth, arym-
Epiplocy, } bleth; gorgydgam.
Epiplocele, *s.* (Gr.) rhwydenfreg, tor llen yr ymrysgar; torgest, torllengig.
Epiploic, *a.* (Gr. *epiploön*) bolwerenol, bolwerenig, rhwydenol; perthynol i'r weren fol.
Epiploon, *s.* (Gr.) bolweren, gweren fol, gweren y bol, rhwyden; llèn, gorchudd, *neu* rwyden yr ymysgar.
Epipodium, *s.* (Gr. *epi* a *pous*) cnapwyneb, chwarenweb.
Episcenium, *s.* (Gr. *epi* a *scênê*) olbaith, ololygfa, olddrychfa, olsyllwg.
Episcopacy, *s.* (Ll. *episcopatus*, o'r Gr. *episcopeô*) esgobyddiaeth; llywodraeth esgobol; esgobaeth.
Episcopal, *a.* (Ll. *episcopalis*) esgobol, esgobaidd; esgobyddol; perthynol i esgob; perthynol i esgobyddiaeth.
Episcopal residence — esgobdy, gwyndy, esgoblys, palas esgob, plas esgob, preswylfa esgobol.
Episcopal church—eglwys esgobyddol.
Episcopalian, *a.* esgobyddol; esgobol, esgobaidd.
Episcopalian, *s.* esgobydd.
Episcopalianism, *s.* esgobyddiaeth.
Episcopally, *ad.* yn esgobol; yn esgobyddol; trwy awdurdod esgobol.
Episcopate, *s.* (Ll. *episcopatus*) esgobaeth, esgobawd; swydd ac urddas esgob; urdd esgobion.
Episcopate, *v. n.* esgobio; ymddwyn fâl esgob; llanw swydd esgob.
Episcopicide, *s.* (Ll. *episcopus* a *cædo*) esgobladdiad, esgobladd, lladdiad esgob.
Episcopy, *s.* (Gr. *episcopê*) arolygiaeth, golygiaeth, arolwg, cyfarchwyl; ymchwil.
Episode, *s.* (Gr. *epeisodos*) adgan, ystlysgan, adgerdd, gwyradgan.
Episodic, } *a.* adganawl, adganig, adganiadol,
Episodical, } adgerddol, ystlysganawl; perthynol i adgan.

Epispastic, *a.* (Gr. *epispastica*) tynol, tyniadol, yn tynu, sugnol, pothellawl, chwysigenol.
Epispastic, *s.* chwysiglai, chwysiglyr, chwysiglydd, blincwra, pothgyfod.
Eisperm, *s.* (Gr. *epi* a *sperma*) allgroenen, ellgroenen, amgroenen, hadgroenen, hadbilen, gwisg nesaf allan had.
Epispermic, *a.* allgroenig, amgroenig, hadgroenig, hadbilenol.
Epistle, *s.* (Gr. *epistolê*; Ll. *epistola*) llythyr, epistol; llythyr anfon, llythyr anerch.
Epistler, *s.* llythyrwr, epistolwr, epistolydd; darllenydd yr epistol.
Epistolary, *a.* llythyrol, llythyraidd, epistolaidd; perthynol i lythyr *neu* lythyrau; cyfeillaidd.
Epistolic, **Epistolical**, *a.* llythyrig, epistolig; perthynol i lythyrau; perthynol i lythyrenau a geiriau.
Epistolize, *v. n.* ysgrifenu llythyrau; llythyru, epistoli.
Epistolizer, *s.* llythyrwr, llythyrydd, epistolwr, ysgrifenwr llythyrau.
Epistolographic, *a.* llythyrysgrifol; perthynol i ysgrifenu llythyrau; llythyronol, llythyryddol.
Epistolography, *s.* (Gr. *epistolê* a *graphô*) llythyryddiaeth, llythyrysgrifiaeth, llythyroniaeth, ysgrifenad llythyrau, epistolaeth.
Epistrophe, **Epistrophy**, *s.* (Gr. *epistrophê*) darymchwel= troell ymadrodd.
Epistyle, *s.* (Gr. *epistulion*) arbill, penswddyn, pendrawst, pillgapan.
Epitaph, *s.* (Gr. *epitaphon*) beddargraff, beddysgrif, ysgrifen fedd; beddgerdd: *pl.* beddargraffiadau, beddargraffion.
Epitaphian, *a.* (Gr. *ephitaphios*) beddargraffol, beddargraffaidd; beddgerddol; perthynol i feddargraff.
Epitasis, *s.* (Gr.) arsawd, arsodiad.
Epithalamium, **Epithalamy**, *s.* (Gr. *epithalamion*) priodasgerdd, priodasgan, priodgan, cerdd briodas, cân briodas.
Epithem, *s.* (Gr. *epithêma*) sugaethwy, twymolch, sugaetholch; twymdwyrad.
Epithet, *s.* (Gr. *epithêton*) cyfenw, ansoddair, ansoddeb, addasair, cylmair, cylymair, dodenw, gair dodi, enw dodi, dodair, chwanegair, enw gwàn, dysgrifair, atair; senw, enw, urddeb.
Epithet, *v. a.* enwi, cyfenwi, galw; rhoi cyfenw *neu* ansoddair ar; dodenwi, ansoddenwi; darlunio âg ansoddeiriau; ansoddeirio.
Epithetic, **Epithetical**, *a.* cyfenwol, ansoddeiriol, ansoddeiriog, addaseiriog, cylmeiriog, dodeiriog; llawn geiriau dodi.
Epithumetic, **Epithumetical**, *a.* (Gr. *epithumêticos*) chwantus, chwantaidd, chwantgar, chwantgarol, blysgar, trachwantus; nwydol.
Epitithides, *s. pl.* (Gr. *epitithêmi*) arfoldiau.
Epitome, *s.* (Gr.) crynodeb, talfyriad, crynoad, cynnwysiad, cwtogiad, talgryniad, byrhad, byrgasgliad.
Epitomist, **Epitomizer**, *s.* talfyrwr, talfyrydd, talfyriedydd, cwtogwr, byrhäwr, crynöwr.
Epitomize, **Epitomise**, *v. a.* talfyru, cwtogi, talgrynu, byrhau, crynöi, byrgasglu, cilfyru, dyfyru; lleihau, toli, cytio.
Epitomized, *p. p.* talfyredig, &c.; talfyr, cryno, talgrwn, dyfyr, byr, cynnwys.
Epitrite, *s.* (Gr. *epitritos*) ardrydyfan, ardrydefan=corfan yn cynnwys tair hirsill ac un fersill.
Epitrope, **Epitropy**, *s.* (Gr. *epitropê*) daroddefiad, goddefiad, goddefiaeth, cenateuad= troell ymadrodd.
Epizeuxis, *s.* (Gr.) cyfieuad, argyfieuad, arieuad, cyfieueb.
Epizootic, *a.* (Gr. *epi* a *zêon*) arfilig, arfilodig, arfilodaidd, milweddillig, milweddillaidd; yn cynnwys gweddillion anifeiliaid.
Epizooty, *s.* (Gr. *epi* a *zêon*) bwystnon, milgowyn, chwaren, haint ar anifeiliaid.
Epoch, **Epocha**, *s.* (Ll. *epocha*; Gr. *epochê*) prifnod, amsernod, amsergyff, cyffnod, cyfnod, cyff cyfrif, prifnod amser, cyfrif.
Epode, **Epod**, *s.* (Gr. *epôdê*) arawdl, atodlig, olgan, olgerdd, attodgan, attodgerdd, attodfan, adbennill, olbennill; trydydd pennill cerdd: *pl.* arodlau, atodlau.
The epodes of Horace—Arodlau Horas, Attodlau Horas.
Epopee, **Epos**, *s.* (Gr. *epos* a *poiêô*) hanesgerdd, hanesgan, arwreg, arwrgerdd, cerdd arwrol, cerdd arwraidd, arwrgan, haneseg, gwroneg.
Eprouvette, *s.* (Ff.) pylorbrofydd.
Epulary, *a.* (Ll. *epularis*) gwleddol, cyfeddachol, preiniol, gwestfaol; perthynol i wledd.
Epulation, *s.* (Ll. *epulatio*) gwleddiad, preiniad; gwledd, prain, gwestfa, banfaeth, allwest.
Epulose, *a.* (Ll. *epulum*) cyfeddachol, wttresgar, wttresol, wttresog, gloddestgar, glythol, glythig, glythinol, gwleddgar.
Epulosity, *s.* cyfeddach, cyfedd, wttres, gloddest, glythineb, glythui, glothineb; gormod gwledda.
Epulotic, *a.* (Gr. *epoulôticos*) creithfeddygol, creithiachaol, creithiachol, clwyfeddygol, clwyfiachaol, creithiadol, crachenol; iachaol, iachol, meddyginiaethol.
Epulotic, *s.* creithgyffyr, creithfeddygiaeth, sychgyffer; cyffer i iachäu, sychu, a chreithio clwyfau.
Epuration, *s.* (Ll. *puro*) purad, puredigaeth.
Equability, **Equableness**, *s.* (Ll. *æquabilitas*) gwastadrwydd, cyfartaledd, cyfartalwch, cyfartalrwydd, cyfartaldeb; gwastadedd, gwastadoldeb, gwastadolrwydd, cymmedroledd, cymmedroldeb, unffurfiaeth, unffurfioldeb, unffurfiad; cyfartalwch ysgogiad; unfathrwydd; gwastadfod.
Equability of the mind—gwastadfrydedd, gwastadfryd, gwastadrwydd y meddwl; tawelfrydedd, tawelfryd.
Equable, *a.* (Ll. *æquabilis*) cyfartal, gwastad, cydwastad, cyfunwedd, unwedd, gogyfartal, unfath, argymhwys, cymhwys; llyfn, gwastadlyfn; cyfartal ac unwedd bob amser.
Equal, *a.* (Ll. *æqualis*, *æquus*) cyfartal, gogyfartal; cystal, cystadl, gogystal, gogystadl, cydstad, cyfiol, argyfiol; unfaint, gogymmaint; unwedd, cyfunwedd, unfath, cyffelyb, hafal, hefelydd, cyhafal, eisor, cyfeisor; cydradd, cydraddol, cyfradd, cyfraddol, cyfuwch, gogyfuwch, cyfurdd, gogyfurdd, unfri, diragor; gwastad, cydwastad, gwastadlyfn, gwastadwedd; uniawn, union, iawn, cyfiawn, iawnweddog, addwyn, cysson; addas, cyfaddas, cymhwys, cymmesur, cymmedrol, digonol; à eill, à allo, à ddichon, à ddichyn, à fedr; pun; anmhleidiol, anmhleidgar; yr un.

Equal in height, } cyfuwch, gogyfuwch,
Of equal height, } cyfuch, gogyfuch.
Equal in bulk, } cymmaint, gogymmaint,
Of equal bulk, } unfaint, cymmeiniog, cymmain.
Equal in breadth, } cyfled, gogyfled, un-
Of equal breadth, } lled, unled, cyfledol.
Equal in length, } cyhyd, gogyhyd, go-
Of equal length, } hydol, gohyd, unhyd, cyfunhyd, cyd.
Equal in thickness, } cymhraff, gogy-
Of equal thickness, } mhraff, cyfref, undrwch.
Equal in weight, } cydbwys, cyfunbwys,
Of equal weight, } cydfantol, cyfantol, cydbwysog, cydbwysol, cysbwys, cymhwys.
Equal in goodness, } cystal, cystadl, gogys-
Of equal goodness, } tal, gogystadl.
Equal in rank, } cyfurdd, gogyfurdd, cyd-
Of equal rank, } radd, cyfradd, cyfraddog, gogymmeriad, cyfeisor.
Equal in number, } cynnifer, cyfnifer, cyn-
Of equal number, } niferog, cyfniferog, cynniferol.
Equal in quantity and weight—cymmaint cymhwys.
Equal quantity—cymmaint, gogymmaint, yr un faint.
Equal share—cyfran, gogyfran, rhan gyfartal.
Equal weight—cydbwys, cysbwys, mantol gywir, gwastadbwys, cydbwysedd, unionbwys, mantol, cydfantol, cyfantol.
Equal length—cyhydedd, cyfunhyd, cyfunhydedd.
To make equal in length, } cyhydeddu, cy-
To make of equal length, } hydu, gogyhydu; gwneuthur yr un hyd.
To make equal in breadth *or* width—cyfledu, gogyfledu; gwneuthur yn gyfled *neu* ogyfled.
Equal distance—cydbeller, gogysbellder, cysbellder, cyfbellder, cybelledd, cybellder; yr unfath bellder; yr un faint o bellder.
Equal terms—ammodau cyfartal, ammod rhesymol, telerau rhesymol.
To make one's self equal—ymgyfartalu, ymgystadlu, cystadlu, ymgyfuchio; gwneuthur ei hun yn gystal, &c.
The glory equal—gogoniant gogyfuwch.
Equal to the Father—gogyfuwch a'r Tad.
A person equal in dignity to a bishop—gwr cyfurdd ag esgob.
To make equal=*Equal*, *v. a.*
Let thine eyes behold the things that are equal—edryched dy lygaid ar uniondeb (*Salm* xvii. 2).

Equal, *s.* cydradd, un cydradd, cyfeisor, cyfradd, cymhar, cyfalle, cystadlydd, cyfurddor, gogyfurdd, hefelydd, cyfiad, cyfeilydd; cyfoed, gogyfoed.
Our equals—ein cydradd, ein cydraddolion, ein cyfurdd, ein gogyfurdd, ein cymhariaid, ein cyfiaid, &c.
Above many of my equals—yn fwy na llawer o'm cyfoedion.

Equal, *v. a.* cyfartalu, cydraddu, cyfraddu, cystadlu; gwneuthur yn gyfartal, yn gydradd, yn gyfradd, yn gydladd, *neu* yn gyfeisor; cyfio, gogyfio, argyfio, argystadlu, cyfeisori, eisori; cyffelybu, tebygu, cymharu; bod yn gystal â; bod yn ogyfuwch â; cystadlu âg; ymgystadlu â; cymmeinio, union ranu; unioni, cyfioni, cyfiawnu; gwneuthur yn gyfartal â; dyfod yn gyfartal i *neu* âg.
To equal in length—cyhydeddu, cyhydu, gogyhydu.
To equal in breadth *or* width—cyfledu; gwneuthur yn ogyfled.
To equal one's self to *or* with—ymgyfartalu â, cystadlu âg, ymgystadlu âg, ymgyfuchio â; gwneuthur ei hun yn gystal *neu* yn ogyfuwch â.
The topaz of Ethiopia shall not equal it—ni ellir cyffelybu y topas o Ethiopia iddi hi (*Iob* xxviii. 19).
The gold and the crystal cannot equal it—nid aur a grisial a'i cystadla hi (*Iob* xxviii. 17).

Equality, *s.* (Ll. *æqualitas*) cyfartaledd, cyfartalwch, cyfartalrwydd, cyfartaldeb, cydraddoldeb, cyfraddoldeb, cystadledd, gogystadledd, gwastadrwydd, cydwastadrwydd, cydraddwch; cyfioldeb; tebygrwydd, cyffelybrwydd; unffurfiad, undulliad, unweddiad, unffurfiaeth, cyfunweddiad; cymhwysdra; unfeintedd.

Equalization, *s.* cyfartaliad, cydraddiad, cyfraddiad, cyfraddoliad, cystadliad; cymmeintiolaeth; gwneuthur yn gyfartal, &c.

Equalize, } *v. a.* cyfartalu, cyfraddu, cydraddu,
Equalise, } cystadlu, cyfio, gogyfio, argyfio, argystadlu, cymmeinnio, dygyfio, cydbwyso, gwastadhau, gwastatu, cyssoni, unioni; gwneuthur yn gyfartal *neu* gydradd.

Equally, *ad.* yn gyfartal, &c.; yn gystal y naill a'r llall; yn unionwedd; bob un fel eu gilydd; y naill fel y llall; yr un faint bob un; yr un fath a'u gilydd; mòr, cyn, càn.
Equally extended—gogyhyd; gogyfled.
Equally good—cystal, cystled, mòr dda.
Equally bad—cynddrwg, cynddryced; mòr ddrwg, dryced, càn ddryced.
Each of these virtues do equally tend to our advantage—mae pob un o'r rhinweddau hyn yn cyfeirio, y naill fel y llall, at ein budd a'n lleshad.

Equalness, *s.* (o *equal*) cyfartalrwydd, cyfartalwch, cyfartaledd, cystadledd, gogystadledd, gwastadrwydd, cydwastadrwydd, cyngwastadrwydd, gwastadedd; unffurfiaeth, unweddiad, cyfunweddiad; cydraddoldeb, cyfraddoldeb.

Equangular, *a.* (Ll. *æquus* ac *angulus*) cyfonglog, cywir-onglog, gogyfongl.

Equanimity, *s.* (Ll. *æquanimitas*) gwastadfrydedd, gwastadfryd, gwastadrwydd meddwl, cyfartaledd meddwl, tawelfryd, tawelfrydedd, addwynfrydedd, addwynfryd; boddlonrwydd, cymmodlonedd, arafwch; meddwl cyfartal, digynhwrf, *neu* ddigyffro.

Equanimous, *a.* (Ll. *æquanimis*) gwastadfrydig, gwastadfryd, tawelfrydig, tawelfryd, addwynfrydig; gwastad ei feddwl; gwastad, clau, tawel, araf.

Equant, *s.* (Ll. *æquans*) eisorgylch.

Equation, *s.* (Ll. *æquatio*) cyfartaliad; cymmedriad; gwneuthuriad yn gyfartal; cyfartaliaeth, cyfartaledd, cyfartalwch, cyfartalrwydd; cymmedroldeb, cymmedroledd, cydgymmedroledd, gogymhwysder, gogymhwysdra: *pl.* cyfartalion.

Equation of payments—cyfartaledd talion, cyfartaliaeth taliadau, cyfdaliaeth.

Equator, *s.* (Ll. *æquator*) cyhydedd, y cyhydedd, llinyn y cyhydedd, cyhydlin, gogyhydedd, y canolgylch, canolgylch y byd.

Equatorial, *a.* cyhydeddol, cyhydlinol, gogyhydeddol; perthynol i'r cyhydedd.

Equatorial circle—cylch cyhydeddol, cylch y cyhydedd, y cylch cyhydedd, cyhydgylch.

Equatorial, *s.* cyhydeddor=offeryn seryddol.

Equerry, *s.* (Ff. *écuyer*, am *escuyer*; Ll. drosgl, *scutarius*) gwastrawd, gwastrawd afwyn, marchwr; pen-gwastrawd, arwastrawd: *pl.* gwastrodion.

Equerry, *s.* (Ff. *écurie*) aman, marchdy, marchlan, gwastrodfa.

Equestrian, *a.* (Ll. *equester*, *equestris*) marchogol; marchol; marchocaol; ar farch, ar gefn march, ar geffyl, ar gefn ceffyl; perthynol i farchog *neu* farchwr; perthynol i wr march; perthynol i wr ar farch; yn perthyn i un ar farch; perthynol i farchogion; perthynol i farchogiaeth, i farchogaeth, *neu* i farchwriaeth.

Equestrian statue — marchoglun; llun, delw, saflun, *neu* gerflun gwr ar farch; saflun marchogol.

The equestrian order—yr urdd farchogol; y radd farchogol; urdd *neu* radd y marchogion; y farchogradd.

Equestrian lady — boneddiges ar farch; boneddes farchogol.

Equiangular, *a.* (Ll. *æquus* ac *angulus*) cyfonglog, cyfongl, gogyfongl, cywir-onglog; âg iddo onglau cyfartal; âg iddynt gonglau cyfartal.

Equibalance, *s.* (Ll. *æquus*, a *balance*) cydfantol, cyfantol, cydbwys, cysbwys, cydbwysi.

Equibalance, *v. a.* cydfantoli, cyfantoli, cydbwyso, cysbwyso, cyttaflo.

Equicrural, } *a.* (Ll. *æquus* a *crus*) cyhydgoes,
Equicrure, } cyfesgeiriog, cyhydgoesol, cyfgoesol; cyhyd ei goesau; âg iddo goesau cyfartal; gogyfartal ei esgeiriau.

Equidifferent, *a.* (Ll. *æquus*, a *different*) cyfwahanol; rhifyddegol gyfartal.

Equidistance, *s.* cydbellder, cysbellder, gogysbellder, cyfbellder; yr un pellder; pellder cyfartal.

Equidistant, *a.* (Ll. *æquidistans*) cydbell, gogysbell, cysbell, cyfbell, gogydbell; o'r un pellder; cyn belled a'u gilydd; cybelled a'u gilydd; yr un càn belled; yr un cyn belled; o'r unfaint bellder; o'r un cyfrwng; o'r unfaint gyfrwng; â'r un pellder *neu* gyfrwng rhyngddynt; mòr bell a'u gilydd.

Equiform, *a.* (Ll. *æquus* a *forma*) cyflun, gogyflun, unffurf; o'r un llun, ffurf *neu* wneuthuriad.

Equiformity, *s.* cyflunedd, gogyflunedd, unffurfedd, unffurfiaeth; unrhywiaeth ffurf *neu* lun; unwedd, cyfunwedd; cyfartaledd.

Equilateral, *a.* (Ll. *æquus* a *lateralis*) cyfochrog, cyfochr, cyfochrol, cyfystlys, cyfystlysol, gogyfochr, gogyfystlys, cyfochredig; âg iddo *neu* iddynt ochrau cyfartal.

Equilateral triangle — tryfal cyfochrog, tryfal cyfochr, triongl cyfochrog.

Equilateral, *s.* cyfochr, cyfystlys, ochr gyfartal.

Equilibrate, *v. a.* (Ll. *æquus* a *libro*) cydbwyso, cydfantoli, cyfantoli, mantoli, cysbwyso; gwneuthur yn gydbwys *neu* yn gydfantol.

Equilibration, *s.* cydbwys, cydfantol, cyfantol, cysbwys; cydfantoliad, cyfantoliad, cydbwysiad, cydbwysad, cysbwysiad.

Equilibrious, *a.* (Ll. *æquilibris*) cydbwys, cydfantolog, cyfantolog, mantolog, cydfantol, cyfantol.

Equilibrist, *s.* cydfantolwr, cyfantolwr, cydfantolydd, cydbwyswr, cysbwyswr, mantolwr.

Equilibrity, *s.* (*æquilibritas*) cydbwysedd, cydfantoledd, cyfantoledd, cydbwys, cydfantol, cysbwys.

Equilibrium, *s.* (Ll.) cydbwys, cydfantol, cyfantol, cydbwysedd, cysbwysedd, cydfantoledd, gwastadbwys, mantoledd, cyfartaledd pwys, cydbwysi, cydbwysiant.

Equimultiple, *a.* (*æquus* a *multiplex*) cyfluosog, cyfluosedig, cyfluaws; à luosogwyd â'r un nifer; gwedi ei luosi â'r un faint.

Equimultible, *s.* cyfluosog, cyfluosrif; rhif à luosogwyd â'r un nifer.

Equine, } *a.* (Ll. *equinus*) marchol; perthynol
Equinal, } i'r march; perthynol i ryw *neu* dylwyth y march.

Equinecessary, *a.* (Ll. *æquus* a *necessarius*) cyfangenrhaid, cyfreidiol, cyfangenrheidiol, cydreidiol, mòr rheidiol, mòr angenrheidiol.

Equinoctial, *a.* (Ll. *æquinoctialis*, o *æquus* a *nox*) cyhydeddol; cyhydnosol; perthynol i'r cyhydedd; perthynol i gyhydedd dydd a nos; cyhydlinol; perthynol *neu* briodol i'r cylch cyhydedd; albanol.

Equinoctial line—llinyn y cyhydedd, cyhydlin, cyhydlinell, llinell y cyhydedd.

The equinoctial points — yr albanau, y cyhydfanau, y cyhydeddau.

Equinoctial, *s.* cyhydedd, llinyn y cyhydedd, cyhydlin; llinyn cyhydedd y ffurfafen; cylch y cyhydedd.

Equinoctially, *ad.* ar hyd y cyhydedd; gyda llinyn y cyhydedd; yn gyhydeddol.

Equinox, *s.* (Ll. *æquinoctium*, o *æquus* a *nox*) cyhydedd, y cyhydedd, cyhydnos, cyhydedd dydd a nos; alban.

Vernal equinox — alban eilir; cyhydedd y gwanwyn=tua'r 21fed o Fawrth.

Autumnal equinox—alban elfed; cyhydedd yr hydref=tua'r 23ydd o Fedi.

The equinoxes—y cyhydeddau, y cyhydnosau.

Equinumerant, *a.* (Ll. *æquus* a *numerus*) cyfnifer, cyfniferog, cynnifer, cynniferog, cynniferol.

Equip, *v. a.* (Ff. *équiper*) taclu, trecio; arfu, arfogi; offeru, seirchio; trwsio, trwsiadu, gwisgo, dilladu, cyweirio, diwygio, cymhenu, addurno, twtneisio; diwallu âg angenrheidiau; rhagdaclu; darparu.

To equip a fleet—taclu, trecio, addurno, *neu* arlwyo llynges.

Equipped in a ridiculous habit—gwedi ei wisgo mewn gwisg gywilyddus.

Equipage, *s.* (Ff.) taclau, trec, seirch, offer, arfau, cêr, dodrefn; addurn meirch; addurnwisg, addurn, trwsiad, addurndrec; gosgordd, gosgorddyd, gweinid, gweinidres, gweinifres, gweinyddres; arfogaeth; cerbyd, teyrn-gerbyd, teithdrec, ymdeithger, teithger.

In full equipage—yn ei lawn drwsiad; yn

ei lawn addurn; yn ei lawn drec; cwbl-arfog.
Hunting equipage—trec, taclau, *neu* ddodrefn hely.
Woman's equipage—addurndrec benyw.
To put in equipage—taclu, trecio, addurno; gwisgo âg addurnwisg; rhoi mewn addurnwisg.

Equipaged, *a.* treciedig, tacledig, treciog, taclus; arfog, ewbl-arfog; gosgorddog, gosgorddedig; â gosgordd o'i amgylch; twtnais, cywair.

Equipendency, *s.* (Ll. *æquus* a *pendeo*) cydgrogedd, gydgrogoldeb, cyddibynedd; crogoldeb cyfartal *neu* wastad.

Equipment, *s.* treciad, tacliad, addurniad, dodrefniad, trwsiad, seirchiad, darpariad, arddarpariad; trec, taclau, seirch, addurnwisg; cyfarpar rhyfelgar, angenrheidiau rhyfel.

Equipoise, *s.* (Ll. *æquus*, a Ff. *poids*, C. *pwys*) cydbwys, mantol, cydfantol, cyfantol, gwastadbwys, cysbwys, cyfymbwys, unionbwys; cydbwysedd, cysbwysedd, gwastadbwysedd, mantoledd, cydfantoledd, cydbwysi, cydbwysiad.

Equipollence, } *s.* (Ll. *æquus* a *pollentia*) cyf-
Equipollency, } alluedd, cyfalluogrwydd, cyfalledigrwydd, cyfallrwydd, cyfalluoldeb, cyfallu, cyfrym, cyfrymedd, cyfnerth, cydnerthedd; cyfartaledd grym, nerth, *neu* allu.

Equipollent, *a.* cyfalluog, cyfalluol, cyfrymus, cydnerth, cydnerthol, cyfalledig, cyfallawl, cydnerthog, cyfnerthog; cyfartal.

Equiponderance, *s.* (Ll. *æquus* a *pondero*) cydbwysedd, cydfantoledd, cyfantoledd, mantoledd, cysbwysedd; cydbwys, cysbwys, cyfymbwys, cysbwysiad, cydbwysiad.

Equiponderant, *a.* cydbwysol, cysbwysol, cydbwys, cysbwys, cydfantolog; mantolog; o'r un pwys.

Equiponderate, *v. n.* cydbwyso, cydfantoli, cyfantoli, mantoli, cyfymbwyso, cysbwyso; bod yn gydbwys; pwyso cymmaint ag arall.

Equipondious, *a.* (Ll. *æquipondium*) cydbwys, cysbwys, cydbwysol, cysbwysol; â'r un pwys o bob tu.

Equisetic Acid, *s.* (o *equisetum*) sur marchronig, sur marchronell, sur rhawn y march.

Equisetiform, *a.* (Ll. *equisetum* a *forma*) marchronellaidd; ar ddull rhawn y march; ar lun rhonell y march.

Equisetum, *s.* (Ll. *equus* a *seta*) marchronell, rhawn y march, rhonell y march.

Equisonance, *s.* (Ll. *æquus* a *sono*) cysseiniad, cysseinawd, cydseinawd.

Equitable, *a.* (Ff. o'r Ll. *æquus*) iawn, uniawn, union, cyfiawn, cyfuniawn; cymmesur, cymmedrol, addwyn, cymhwys, iawnweddog; diduedd, anmhleidiol, clau, cywir.

Equitableness, *s.* iawnder, unionder, uniondeb, uniondra, unionedd, cyfiawnder, cyfunionder, iawndeb; cymmesurdeb, cymmedroldeb, cymhwysder, iawnweddogrwydd; diduedd-rwydd, anmhleidgarwch, cleuder, cywirdeb.

Equitangential, *a.* (Ll. *æquus*, a *tangent*) cynghyrddanol, cydgyrddlinol.

Equitant, *a.* (Ll. *equitans*, *equito*) echwyddol, echwaol, echweintiol.

Equitation, *s.* (Ll. *equitatio*) marchogaeth, marchogiad, marchocâd, echwaint; marchwriaeth.

Equity, *s.* (Ll. *æquitas*; Ff. *équité*) cyfiawnder, uniondeb, unionder, uniondra, iawnder, iawn, cyfiawnedd; cyfartalwch, cymhwysder, gwastadrwydd; diduedd-rwydd, cleuder, addwynder, addwyndra, anmhleidioldeb, gonestrwydd, cywirdeb.
Court of equity—llys cyfiawnder, llys uniondeb, llys unionder.
Equity and law—uniondeb a chyfraith; iawn a chyfraith.
Equity and justice—iawn a dylyad; iawn a chyfiawnder; uniondeb a chyfiawnder.

Equivalence, *s.* (Ll. *æquus* a *valens*) cydwerthedd, cyfwerthedd, cywerthedd, cyfwerth, cydwerth, cywerth, cywerthrwydd, cywertholdeb, cydbrisrwydd, cyfrdal, arbrwy; cyfartaledd pris, gwerth, *neu* allu; pris cyfartal, gwerth cyfartal; cyfalluedd, cyfallu, cyfrym; cyfartaledd, cyfartalwch, cyfartalrwydd, cystadledd; pridioldeb, pridioledd, pridiogrwydd.

Equivalence, *v. a.* cyfartalu, cystadlu; bod yn gyfartal i; bod yn gydradd â; bod yn ogyfuwch â.

Equivalent, *a.* cyfartal, cystal, cystadl; cyfwerth, cydwerth, cywerth, cywerthol, cyfwerthol, cydwerthol, cyngwerth, cyfrdal, cydbris, cyfbris, cyfartal-bris; cyfalluog, cyfalluol, cyfallus, cydnerthol, cyfrymus; cyfystyr; o'r un pris *neu* werth; o gydwerth; yn arwyddo yr un peth; yn talu cymmaint; yn werth cymmaint; cyfiol, pridiol, pun.
Equivalent terms—geiriau cyfystyr; cyfystyron.
Equivalent propositions—gosodiadau cyfartal, cyfrymus, *neu* gyfalluog.
To be equivalent—bod yn gyfartal, &c.; talu cymmaint; bod o gyfartal bris; bod yn gyfartal-bris; bod o bris cyfartal; bod yn gymmaint o werth; cystadlu, cyfartalu.

Equivalent, *s.* cyfwerth, cyngwerth, cydwerth, cywerthydd; peth cyfwerth, peth cyfartal; cyfystyr; dogn cyfartal, dogn; yr hyn sy gystal *neu* gyfartal; yr hyn a fyddo gystal *neu* gyfartal: *pl.* cyfartalion, cydgymmeinion, cymmeinion, cyfystyron.
Chemical equivalents—cyfartalion fferyllol.
To give an equivalent—talu gwerth dros werth; rhodi gwerth am werth.

Equivalve, *a.* (Ll. *æquus* a *valva*) cyfgaffellog, eisorgloriog.

Equivalve, *s.* cyfgaffell, eisorglawr.

Equivocacy, † *s.* = *Equivocalness*.

Equivocal, *a.* (Ll. drosgl, *æquivocus*; Ff. *équivoque*) amwys, mwys, amwysol, mwysol, mwysaidd, mwysog, ammhëus, petrusol, petrus, ammheuol, arbetrusol, deuystyr, deuddeall, deufeddwl, deueiriog; aneglur, annilys; tywyll.

Equivocal, *s.* mwysair, amwysair, gair mwys, gair amwys, mwyseb, gair amwysol, mwys, hyblygair.

Equivocalness, *s.* amwysedd, amwysder, amwysdra, mwysder, mwysedd, amwysoldeb, mwysoldeb, mwysogrwydd, mwyseiddrwydd; ammheuaeth, petrusdod, petrusedd, petrusi, ammheusrwydd, annilysrwydd, aneglurder; deueiriogrwydd.

Equivocate, *v. n.* (It. *equivocare*; Ff. *équivoquer*) mwyseirio, amwyseirio, mwyso, amwyso,

mwysdröi, geirdröi; dywedyd *neu* arferu mwyseiriau; dywedyd *neu* arfer geiriau mwys; mwys lefaru, mwys ddywedyd; dywedyd yn amwys; deueirio; somi â geiriau amwys *neu* ddeuddeall; ymddichellu, ystrywio; troi *neu* ymdröi yn eu eiriau; troi *neu* ymdröi yn ei chwedl; bod yn ddeueiriog; troi yn ei dres; troi yn y tresi; dywedyd a gwrthddywedyd; bwhwman, gwamalu, nyddu; chwareu y ffon ddwybig.

Equivocation, *s.* mwysiaith, amwysiaith, mwyseb, mwyseg, mwysair, ymadrodd mwys, gair mwys, gair deuddeall, mwysdro, twyllair, mwys; amwysedd, mwysedd, mwysder, amwysdra, deueiriogrwydd; mwyseiriad, mwysieithad, mwysad, amwysad, mwys ddywediad, dywediad mwyseiriau, arferiad mwyseiriau.

Equivocator, *s.* amwyswr, mwyseiriwr, mwysieithwr, amwyseiriwr, mwyswr, mwysai, mwysebydd; un mwyseiriog, un twylleiriog, un deueiriog; arferwr geiriau mwys; un â arfero eiriau amwys; deueiriwr, nyddeiriwr.

Equivocatory, *a.* mwysol, amwysol, mwyseiriol, mwyseiriog, geirdroawl.

Equivoque, } *s.* (*Ff. équivoque*) mwysair, am-
Equivoke, } wysair, gair mwys, gair amwys, mwyseb, gair amwysol, hyblygair, geirdro.

Equivorous, *a.* (Ll. *æquus* a *voro*) marchysol; yn byw ar gig ceffylau.

Equus, *s.* (Ll.) march, y march, ceffyl.

Era, *s.* (Ll. *æra*; Ff. *ére*) prifnod, amsernod, amsergyff, cyffnod, cyfnod, cyfrif, cyff cyfrif, prifnod amser.

The Christian Era—y Cyfrif Cristionogol; Cyfrif Cred.

Eradiate, *v. n.* (Ll. *e* a *radio*) pelydru, ymbelydru, rheiddio, ffloi, rheio, rhaiadu, pleinio, ysblenyddu, peilio, ysbleinio, paladu; dysgleirio, llewychu; ymsaethu.

Eradiation, *s.* pelydriad, ymbelydriad, rheiddiad, ffload, peiliad, ffiau, pleiniad, paladiad, ysbleiniad, rheiad, rhaiad; llewyrchiad, llewychiad, llewyriad, llewyriant.

Eradicable, *a.* diwreiddiadwy, dadwreiddiadwy.

Eradicate, *v. a.* (Ll. *eradico*) diwreiddio, dadwreiddio; tynu o'r gwraidd; tynu o'r gwreiddiau; llwyr ddyfetha, llwyr ddifa, dystrywio, dilëu.

Eradication, *s.* diwreiddiad, dadwreiddiad; tyniad o'r gwraidd; tyniad o'r gwreiddiau; llwyr ddyfethiad, dinystriad, dyfethiant, difa.

Eradicative, *a.* diwreiddiol, dadwreiddiol; dyfethol, difaol.

Eradicative, *s.* trygyffer, gwreiddgyffer; cyffer à bair welliant trwyadl.

Eranthis, *s.* (Gr. *ér* ac *anthos*) bleidd-dag y gauaf.

Erasable, *a.* dileadwy.

Erase, *v. a.* (Ll. *erado, erasi*) dilëu; crafu ymaith, crafu allan, crafu ffwrdd; dïoli, dadolio, dadnodi, difrisgo; dystrywio, dinystro, dyfetha, diddymu, difodi.

To erase one's own tracks *or* footsteps—ymddïoli, ymddadolio.

Erased, *p. p.* dileuedig, &c.; à dorwyd yn sitra- ; sitrachog.

F ad, dïoliad, dadoliad, dadl, difrisgiad; crafiad ymaith *neu* allan; difodiad, dinystriad, dystrywiad, anrheithiad.

Erasure, *s.* dilead, dïoliad, dadoliad, dadnodiad, difrisgiad, dadlythyriad; crafiad ymaith *neu* allan; difodiad, diddymiad, dinystriad; y lle y dilëwyd gair *neu* lythyren.

Ere, *ad.* (S. *ær*; Al. *eher*; Goth. *air*) cyn; cynt na, cyn na, cyn no, cyn nog, yn gynt na.

Ere now—cyn hyn; cynt na hyn; cynt no hyn; cyn no hyn; yn gynt na hyn.

Ere long—cyn bo hir; cyn hir; cyn y bo hir; ar fyr dro, ar fyrdro, ar fyr o dro; ar fyr amser; mewn ychydig amser; heb fod yn hwyrach; yn awr hyn; cyn pen ychydig amser; heb fod yn hir.

Ere, *prep.* cyn; cyn no, cyn na, cynt no, cynt na; yn gynt na.

Erebus, *s.* (Ll.; Gr. *erebos*) Abred, Hebred, Ebred; uffern, y fagddu, afagddu; bro y meirw.

Erect, *a.* (Ll. *erectus*) syth, (*f.* seth), unionsyth; yn ei union sefyll; cefn-uniawn; hyf, eofn, gwrol; egnïol, brywus; estynedig; derch.

Erect, *v.* codi, cyfodi; codi i fyny; gosod i fyny; gosod ar draed; gosod ar ei draed; sythu, sythgodi; gwneuthur *neu* beri yn syth; rhoi *neu* ddodi i sefyll; rhoi *neu* ddodi yn ei sefyll; adeiladu, adeilo; gwneuthur, gwneyd, ffurfio, sylfaenu; dyrchafu, derchafu, dyrchu, cwnu; bywiogi, bywiocâu, cefnogi, calonogi, annog; estyn, lledu; sefyll yn syth.

To erect one's self—ymgodi, ymsythu, ymgyfodi, ymddyrchafu.

This island was erected into a kingdom about that time—gwnaed yr ynys hon yn freniniaeth yn nghylch yr amser hwnw; dyrchafwyd yr ynys hon i fod yn freniniaeth yn nghylch yr amser hwnw.

Erectable, *a.* codadwy, cyfodadwy, sythadwy, dyrchadwy.

Erecter, *s.* codwr, cyfodwr, cyfodydd, dyrchafydd; adeiladydd, adeiladwr, adeilydd.

Erectile, *a.* codadwy, cyfodadwy; à ellir ei godi.

Erection, *s.* (Ll. *erectio*) codiad, cyfodiad, dyrchafiad, sythgodiad; adeiladiad; gwneuthuriad; gosodiad i fyny; codiad i fyny; adail, adeilad, adeiladaeth; ffurfiad, sefydliad; cyffroad, cefnogiad, bywiocâd; estyniad, lledlad; argyniad.

Erective, *a.* sythol, syth, sythgodol, unionsythol; yn gosod yn syth; cyfodol.

Erectness, *s.* sythder, sythdra, sythedd, sythni, sythrwydd, sythdeb, sytholdeb, unionsythder, unionsythni, unionsafiad, unionder safiad; cefn-unionder.

Erecto-patent, *a.* sythymledol, sythymdaenol, sythdaen, sythdaenol.

Erector, *s.* cyfodydd, codydd, dyrchafydd, codgyhyr, cyfodyr.

Erelong, *ad.* (*ere* a *long*) cyn hir; cyn bo hir; cyn y bo hir; ar fyr dro, ar fyrdro, ar fyr o o dro; ar fyr amser; mewn ychydig amser; heb fod yn hwyrach; yn awr hyn; cyn pen ychydig amser; heb fod yn hir.

Eremacausis, *s.* (Gr. *erêmos* a *causis*) arafosgiad; arafegridiad.

Eremitage, *s.* meudwyfod, meudwyfa, didryfle, didryf, cuddigl meudwy.

Eremite, *s.* (Gr. *erêmitês*; Ll. *eremita*)

meudwy, didryfwr, didryfydd, didrefwr, didryf, golochwydwr, elaig, unigwr.
Eremite (in mineralogy)—didryfith.
Eremetical, *a.* meudwyol, meudwyaidd, didryfol, didryfaidd, didryf, eleigiol; unigol.
Eremitism, *s.* meudwyaeth, meudwyedd, didryfedd, didryfiaeth.
Erenow, *ad.* (*ere* a *now*) cyn hyn; cyn no hyn; cyn na hyn; cynt na hyn; cynt no hyn; yn gynt na hyn.
Ereptation, *s.* (Ll. *erepto*) ymlusgiad allan; ymlusgiad, ymlithrad.
Ereption, *s.* (Ll. *ereptio*) treisgipiad, dargipiad, cipiad, ysgipiad; cipiad ymaith drwy drais.
Erethism, *s.* (Gr. *erethismos*) goryni, goregni.
Erethistic, *a.* goregnïol, goryniol; perthynol i oryni.
Erewhile, † *ad.* (*ere* a *while*) yn ddiweddar; Erewhiles, gynneu fach; ychydig bach yn ol; ychydigyn yn ol; ychydig ennyd yn ol; ychydig yn ol; yn awr fach; yn ddiweddar o amser; yn hwyr o amser.
Ergat,† *v. n.* (Ll. *ergo*) casglu; tynu casgliadau.
Ergo, *ad.* (Ll.) gàn hyny, am hyny, o herwydd pa ham, herwydd pa ham, yn ganlynol.
Ergot, *s.* (Ff.) egwydob; mallryg.
Ergotine, *s.* (o *ergot*) mallrygain.
Ergotism, *s.* (Ll. *ergo*) casgliad, cynghload; casgliad rhesymegol.
Ergotism, *s.* (o *ergot*) mallrygeiniaeth; effeithiau marwol mallryg.
Eriach, *s.* (Gw.) dirwy, camlwrw.
Erica, *s.* (Ll.; Gr. *ericê*) grug, myncog, eiddiar.
Eridanus, *s.* (enw Ll. yr afon Po) cydser yn yr arddrych dde, yn cynnwys 84 seren.
Erigeron, *s.* (Ll.; Gr. *êr* a *gerôn*) anmhrydlwyd, cedowydd, cedowys.
Erigible, *a.* (Ll. *erigo*) codadwy.
Erinaceus, *s.* (Ll.) draenog; draenogryw.
Eringo, *s.* (Gr. *errugion*)=*Eryngo.*
Erinite, *s.* (o *Erin*, Iwerddon) gwerddonith.
Eriocaulon, *s.* (Gr. *erion* a *caulon*) pibenog.
Eriometer, *s.* (Gr. *erion* a *metron*) gwlanfeidyr, gwlanfesur, llinedfesur=peiriant à ddyfeisiwyd gàn y Dr. Th. Young, i fesuro tryfesur mân ronynau a llinion gwlan.
Eriophorum, *s.* (Gr. *erion* a *phorô*) gwaenblu, gweunblu, gwaenbluf, sidan y waen, plu gwaenydd, pluf y gwaenydd, gwlanwair.
Eristic, † *a.* (Gr. *eristicos*, o *eris*) dadleuol, Eristical, dadleugar, ymddadleuol, ymddadleugar, ymrysongar, ymrafaelgar.
Eritrogen, *s.* Gr. (*eruthros* a *gennaô*) rhufonai, rhuddonai.
Erythrogen,
Erke,† *a.* (Gr. *aergos*; S. *earg*) dïog, segur.
Ermelin, *s.* (Al., D., a Sw. *hermelin*)=*Ermin.*
Ermin, *s.* (Ff. *hermine*; Ysp. *armino*; Al., D., a Sw. *hermelin*) carlwm, cath bali, y gath bali, cath balug; pân, pali, palug, pân palug; croen y gath bali à'i flew arno.
Ermine,
Ermined, *a.* gwisgedig à phali; a wisgwyd à phali; gwedi ei wisgo à phali; palïog, palugog; cotymog.
Ermined (in heraldry)—cotymog.
Ern, *s.* (Đ. a Sw. *œrn*) moreryr, eryr y môr, pysg-eryr, gwalch y weilgi, eryr y dwfr.
Erode, *v. a.* (Ll. *erodo*) cnoi *neu* fwyta ymaith; cnoi, amgnoi, bwyta, ysu, difa; rhydu.
Erodium, *s.* (Gr. *erôdios*) pig y crëyr.
Erogate,† *v. a.* (Ll. *erogo*) rhoddi, rhoi, cyfranu, cedu, rhoi i.
Errogation,† *s.* (Ll. *erogatio*) rhoddiad, cyfraniad; ced, rhodd.
Erose, *a.* (Ll. *erosus*) amgnöedig, cnöedig, amgnoawg; bylchog, bwlch.
Erosion, *s.* (Ll. *erosio*) cnoad, amgnoad, ysiad, ysiant; cnoad ymaith; rhydiad.
Erotic, Erotical, *a.* (Gr. *erôticos*) cariadol, cariadaidd, cariadog, serchol, carodol, carog, careugar, nwyfus, nwyfol, nwyfusol, serchlawn; perthynol i gariad.
Erotic, *s.* cân serch, cariadeg, serchgan, cariadgan, cariadgerdd, serchgerdd, carol.
Erotomany, *s.* (Gr. *erôs* a *mania*) serchwallgofrwydd, serchorphwyll, pruddglwyf serch.
Erpetologist, *s.* ymlusgofydd, hanesydd ymlusgiaid, creinfilodwr, ymlusgionegydd.
Erpetology, *s.* (Gr. *herpetos* a *logos*) ymlusgiadaeth, ymlusgioneg, creinfilodiaeth, sarddaniaeth, hanes ymlusgiaid.
Err, *v. n.* (Ll. *erro*; Ff. *errer*; Al. *irren*) cyfeiliorni, camsynied, camsynio, camgymmeryd, camdybied, camdybio, amryfuseddu, methu, ffaelu; crwydro, gwibio, ymgrwydro, ymwibio; myned ar gyfeiliorn; myned dros y ffordd *neu* y llwybr; myned oddi ar y ffordd *neu* y llwybr; diarfforddi, meiliorni; myned ar ddywanfa, ar ddisberod, ar grwydr, ar wib, ar ddigrain, *neu* ar ddidro; gwneuthur ar fai, ar gam, *neu* yn amryfus; camwneuthur, troseddu; preidio.
We have erred and strayed from thy ways—nyni a aethom ar gyfeiliorn allan o'th ffordd di.
Errable, *a.* cyfeiliornadwy, camsyniadwy, hyball, hyfeth, hygrwydr, hyffael; parod i gamsynied *neu* gyfeiliorni; darostyngedig *neu* agored i gyfeiliorni; troseddadwy.
Errableness, *s.* cyfeiliornadoldeb, camsynioldeb; hyballrwydd, hyballedd, hyfethedd, hygrwydredd.
Errand, (S. *ærend*) neges; cenadwri; gorchymyn; gorchwyl; peth i'w wneuthur.
Petty errand, Sleeveless errand, coegneges, goneges; negesorwag, ddifudd, anfuddiol, *neu* oferboen; neges heb neges.
To go on an errand—myned ar neges; myned i neges; myned yn genad; negesa.
To go on errands — negesa, negeseua; myned ar negesau.
To do an errand—gwneuthur, adrodd, *neu* draethu neges; gwneuthur gorchymyn.
Errand-boy—negeswas.
Errand-goer—negeswr, negesydd, negeseuwr, negesai: *pl.* negesolion.
I have an errand to thee—y mae i mi air â thi (2 *Bren.* ix. 5); mae i mi neges â thi.
I have a secret errand unto thee—y mae i mi air o gyfrinach â thi (*Barn.* iii. 19).
Errant, *a.* (Ff.; Ll. *errans*) crwydraidd, crwydrol, crwydrog, gwibiog, gwibiol, crwydr; †teithiol.
Knight errant—marchog crwydr, marchog crwydrad, gwibfarchog, marchog treigl, marchog y bendro, marchog lledrithiog.
Errantry, *s.* crwydrad, crwydrawd, crwydr, gwib, gwibiawd, crwydredigaeth, crwydri; gwibfarchogaeth, crwydryddiaeth.

Errata, *s. pl.* (Ll.) gwallau; argraffwallau, camargraffiadau, gwasgwallau, gwallau y wasg, gwallau argraffyddol, ysgrifwallau; beiau, camgymmeriadau, camsyniadau.

Erratic, } *a.* (Ll. *erraticus*) gwibiog, gwibiol,
Erratical, } crwydrol, crwydraidd, crwydr, crwydrus, crwydredigol, digrain, gwibiedig; symmudol.

Erratic stars—ser gwibiog, ser gwib.

Erratically, *ad.* yn ddireol, yn afreolaidd; yn wibiog, &c.

Erration, † *s.* (Ll. *erratio*) crwydrad, crwydrawd, gwibiad, crwydr.

Erratum, *pl.* Errata, *s.* (Ll.) gwall; argraffwall, gwall argraffyddol, gwall y wasg, gwall yr argraffwasg, gwasgwall, camargraff, camargraffiad, camysgrifiad, gwallysgrifiad; bai, camsyniad, camgymmeriad.

Errhine, *a.* (Gr. *errhinon*) trwynol; perthynol i'r trwyn; tisiol, tisiadol, tisbair.

Errhine, *s.* tisgyffer, tisgyffyr, trewgyffyr, tisbair, trewlwch.

Erroneous, *a.* (Ll. *erroneus*) cyfeiliornus, amryfus, camsyniol, camsyniadol; beius, gwallus; yn cyfeiliorni, yn camsynied, yn camgymmeryd; wedi camsynied, wedi cyfeiliorni; yn myned ar gyfeiliorn; wedi myned ar gyfeiliorn; ar fai, ar wall; camweddus, gau, ffals, anwir, anghywir; crwydrol, gwibiol, gwibiog, ansefydlog.

Erroneously, *ad.* yn gyfeiliornus, &c.; trwy gyfeiliorni, trwy gyfeiliornad, trwy gamgymmeriad, trwy gamsyniad, trwy gamgymmeryd, trwy gamsynied.

Erroneousness, *s.* cyfeiliornusrwydd, amryfusrwydd, amryfusedd, cyfeiliorni, camsynioldeb; beiusrwydd, gwallusrwydd; geuolrwydd, geuoldeb; camgymmeriaeth.

Error, *s.* (Ll.) cyfeiliornad, cyfeiliorn, cyfeiliorni, amryfusedd, camsyniad, camgymmeriad, camgymmeriaeth, camdyb, camdybiant, geudyb; geufarn, camfarn, camfrawd, methfrawd; gwall, bai, trosedd, tramgwydd; ffael, meth; bai dïarwybod, anwybodaeth; som, somiant, somedigaeth; dallineb meddwl; pylni *neu* dywyllni synwyr; camwedd; crwydr, digrain, disberod, crwydrad, meiliornad, meiliorn.

In error, } mewn amryfusedd, ar gy-
In an error, } feiliorn, mewn camsyniad, ar ddidro; allan o'r ffordd; oddi ar y ffordd; gwedi gwyraw oddi wrth y gwirionedd; dïarffordd.

To be in error, } bod mewn cyfeiliorn,
To be in an error, } cyfeiliorni, *neu* amryfusedd; cyfeiliorni, camsynied, camgymmeryd; bod yn somedig.

To lie under a great error—bod mewn amryfusedd mawr; bod mewn amryfusedd cadarn; twyllo ei hun yn fawr.

To fall into error—syrthio i amryfusedd; syrthio i fai; cyfeiliorni, camsynied, camgymmeryd; ymballu.

An error in pleading—gwallawgair.

Writ of error—dyfyn camfrawd, dyfyn camfarn, ysgrifwys camfarn, gwyslythyr geufarn, gwŷs cyfeiliorn.

Errors of the press—gwallau y wasg, argraffwallau, camargraffion, camargraffiadau, gwallau argraffyddol, gwallau yr argraffwasg.

Error, *v. a.* penderfynu bod barn llys yn amryfus; profi yn gamfrawd, yn gamfarn, *neu* yn geufarn; profi camfarn.

Errorist, *s.* cyfeiliornydd, cyfeiliornwr, camsyniwr, camdybiwr.

Ersh, } *s.* (o *ear*, aru) sofi.
Earsh, }

Erst, *ad.* (S. *ærest*, o *ær*) gynt, cynt, yn gynt; cyntaf; yn gyntaf; ar y cyntaf; ar y dechreu; o'r blaen; cyn hyn; o flaen hyn; cyn no hyn; cynt na hyn; unwaith; yn flaenorol; er ys talm; er ys tro; er ys amser; er ys hir amser; cyn hyny; hyd yn hyn; hyd yn hyny.

Erstwhile, † *ad.* (*erst* a *while*) hyd yn hyn; hyd yn hyny; hyd hyny; gynt, cynt.

Erubescence, } *s.* (Ll. *erubescens*) gwridgochni,
Erubescency, } gwridogrwydd, gwridgochder, gwridgochedd, gwrid, cochni; gwridiad, gwridogiad, gwridgochiad, ymgochiad.

Erubescent, *a.* gwridog, gwridgoch, gwridliwiog, cochwedd, coch.

Eruct, } *v. a.* (Ll. *eructo*, *ructor*) brytheirio,
Eructate, } blytheirio, bytheirio, ysgyfogi, darlyncu, tarlyncu, chwydu allan.

Eructation, *s.* (Ll. *eructatio*) brytheiriad, blytheiriad, bytheiriad, ysgyfogiad, archyth, tarlwnc, blythar, tarlynciad.

Erudite, *a.* (Ll. *eruditus*) dysgedig, llenog, llên, llenfawr, hyddysg, gwybodus, cyfarwydd.

Erudition, *s.* (Ll. *eruditio*) dysg, dysgeidiaeth, llên, ysgoleigdod, ysgoleigdra, gwybodaeth, gwybod, athrawiaeth, cyfarwyddyd; myfyrddysg; gwyddyd, gwŷdd, gwyddwg.

Eruginous, *a.* (Ll. *æruginosus*) copraidd, efyddaidd, elydraidd, presin; efyddrydlyd, gwyrddrydlyd, copregridaidd.

Erupt, † *v. n.* (Ll. *erumpo*) tori allan, brido.

Erupted, *p. p.* à dafiwyd allan yn rymus; à luchiwyd allan.

Eruption, *s.* (Ll. *eruptio*) rhuthrad, toriad, tarddiad, *neu* darddiant allan; rhuthr, rhuthrad; bala, ball, brid; tardd, crugdardd, crugdarddiad, llyfrithiad, llyfrithiant; cythiad; brech; crugyn, llynoryn, goryn, ploryn; rhwygdarddiad.

Eruptive, *a.* yn tori, yn neidio, *neu* yn rhuthro allan; rhuthrol; crugdarddol, llyfrithol, llyfrith, llyfrithiannol, bridol, brechol; bregol.

Ervum, *s.* (Ll.) corbys, pys y garanod, pys yr aran, pys yr adar.

Eryngo, } *s.* (Gr. *êruggion*) boglynon.
Eryngium, }

Sea eryngo, } boglynon arfor, morgelyn,
Sea holly, } celyn y môr, ysgall boglynog.
Field eryngo — ysgall canpen; ysgallen ganpen.

Erysimum, *s.* (Gr. *eruô*) arfog=enw planigyn.

Erysipelas, *s.* (Gr. *erusipelas*) iddwf, tân iddwf, fflam iddwf.

Erysipelatous, } *a.* iddyfog; llyfrithol, tarddol;
Erysipelous, } brechol.

Erythace, *s.* gwyddfid, melog, gwynwydd, llaeth y geifr, sugn y geifr, tethau'r gaseg, gwyddwydd, crydnydd.

Erythema, *s.* (Gr. *eruthêma*) llyfrithiant, brid, iddwf; crugdardd, crugdarddiant, crugdarddiad; cochni croen.

Erythematic, *a.* llyfrithol, llyfrith, bridol, bridog; crugdarddol, tarddol; iddyfol; yn tori allan.

Erythræa, *s.* (Gr. *eruthros*) canri, canri goch,

ysgol Fair, ysgol Crist, arlladlys, bustl y ddaiar, llysiau y bleurwg.
Erythric Acid, *s.* (Gr. *eruthros*) sur rhufonig.
Erythrina, *s.* (Gr. *eruthros*) gwylargoed, gwylarwydd.
Erythrine, } *s.* (Gr. *eruthros*) rhufonain, rhudd-
Erythrin, } onain.
Erythroleic Acid, *s.* (Gr. *eruthros*, a Ll. *oleum*) sur rhufolewig.
Erythroleine, *s.* rhufolewain.
Erythrolitmine, *s.* (Gr. *eruthros*, a *litmus*) rhufiasgenain.
Erythronium, *s.* (Gr. *eruthros*) pen y neidr.
Erythrogen, } *s.* (Gr. *eruthros* a *gennaô*) rhuf-
Eritrogen, } onai, rhuddonai.
Erythroid, *a.* (Gr. *eruthros*) coch, rhudd, rhufonaidd, cochaidd.
Escalade, *s.* (Ff.; Ysp. *escalada;* It. *scalata*) llettringad, ysgolawd, dringadiad, murddringad; dringadiad muriau mewn rhyfel; dringad muriau âg ysgolion.
Escalade, *v. a.* ysgolio, llettringo, ysgolodi, murddringo, dringo; dringo âg ysgolion *neu* lettringau.
Escallop, *s.* (Is. *schulp*) gylfgragenbysg; gylfgragen, rhintgragen; crymfwlch, cyrfymyl, gylfymyl.
Escallopee, *p. p.* (Ff.) gylfymylog, crymfylchog, cyrfymylog.
Escape, *v.* (Ff. *échapper*) dïanc, dïengyd, dïengu, ymddïanc, dïanc ymaith, dïanc rhag, ffoi, cilio, encilio, ymgilio, ffo, rhedeg ymaith; gochelyd, gochel, gochelu, gwagelu, gogelyd, gwachelyd, ymochelyd; bod yn ddïangol; dïanc yn ddisylw; myned heibio; myned heibio yn ddisylw; llithro ymaith yn ddisylw; myned heibio *neu* lithro ymaith heb ei ganfod; bod heb ei weled *neu* ei nodi; cilio rhag; dïanc gàn; ymgadw *neu* ffoi oddi wrth; ysgöi; ymachub; bod yn gadwedig.
To escape one's memory — myned yn anghof ar *neu* gàn un; myned mewn anghof ar *neu* gàn un; dïanc, myned, *neu* lithraw o gof un; dïanc, myned, *neu* lithro allan o gof un; myned dros gof ar un.
It had escaped my memory—yr oeddwn wedi ei ollwng yn anghof *neu* dros gof.
A way to escape — dïangfa; ffordd i ddïanc.
That has escaped—dïangol; à ddïangodd.
To escape safe to land—dyfod i dir yn ddïangol; dïanc i dir yn ddïogel.
Whoso pleaseth God shall escape from her—y neb sy dda gan Dduw a waredir oddi wrthi hi (*Preg.* vii. 26).
Escape, *s.* dïangfa, ymwared, dïanc; ffo, ffôedigaeth, ffoaduriaeth, ffoad, cil, encil, ciliad, enciliad, dïangiad; gwaith un yn dïanc; ymryddhad; gocheliad, gwageliad; ffwyr; ysgwrn, ysgythiad colofn.
Escapement, } *s.* (Ff. *échappement*) dïangawd,
Scapement, } dïangiad, ffwyrell, dïangfa; ffoad, ffwyrad.
Escaping, *s.* (o *escape*) dïangiad, dïangfa, ffoad, ffôedigaeth, ffoaduriaeth; gocheliad, ymocheliad.
Escargatoire, *s.* (Ff. o *escargot*,) malwodfa, meithrinfa malwod.
Escarp, *v. a.* (Ff. *escarper;* It. *scarpa*) llechweddu, gwneuthur llechwedd, llethru; lledbeio, lleddfu, osgöi.
Escarp, } *s.* llechwedd, llethr, epynt, llech-
Scarp, } weddfa.
Escarpment, *s.* llechwedd, llethr, epynt.
Escarteled, } *p. p.* (Ff. *escartellée*) croesdoredig,
Escartalee, } croes, pedrylfog.
Escaun, *s.* darn bath Ffiemig, gwerth 6*c.*
Eschalot, *s.* (Ff. *échalote*) corwynwyn, sibwl, sibol.
Eschar, *s.* (Gr. *eschara*) craith, creithen; llosgraith, llosgrachen, craith losg.
Eschar, } *s.* cornwyg, galarwyg, cornwymon,
Eschara, } gwylarwymon.
Escharotic, *a.* (Gr. *eschara*) ysol, llosg, yseiol, cyfysol, llosgol, difaol.
Escharotic, *s.* ysolyr, ysgyffer, ysai, ysolyn, llosgyn.
Escheat, *s.* (Ff. *écheoir, échoir*) peth dïarddelw, anarddelw, anarddeldir, anarddelwad, tir diarddel; fforffed i arglwydd y faenor o ddiffyg etifeddion.
Escheat, *v. n.* myned yn ddïarddelw; anarddelwi; myned yn ddirwy *neu* fforffed i arglwydd y faenor; cwympo *neu* ddisgyn i arglwydd y faenor; diffoddi.
Escheated land—tir diffoddedig, tir dïarddelw, tir dïarddel, tir anarddeledig.
Escheat,† *v. a.* dïarddelwi, fforffedu.
Escheatable, *a.* agored i fyned yn ddïarddelw; diffoddadwy; anarddeladwy.
Escheatage, *s.* anarddelfraint; hawl i beth dïarddel; attychwel i'r sylltty breninol.
Escheator, *s.* swyddog anarddelwon, dirwyau, *neu* fforffedau; anarddelwog; swyddog y pethau dïarddel; dirwywr y brenin.
Eschew, *v. a.* (Norm. *eschever;* Al. *scheuen*) gochel, gochelyd, gogelyd, gwagelyd, gochelu; ciliaw oddi wrth; ffoi rhag, ffoi oddi wrth, ymgadw rhag, ymogelyd rhag, ymochel rhag; ffoi.
Escocheon, *s.* (Ff.)=*Escutcheon.*
Escort, *s.* (Ff. *escorte;* It. *scorta*) canymdo, canymdaith, nawddosgordd, nawddlu, diffynlu, gosgordd, gwarchlu, gwardlu, teithnawdd, gorllwyn, gorllwg; porth, cymhorth, amddiffyn.
Escort, *v. a.* canymdöi, canymdaith, canymdeithio, teithnoddi, gorllwyn, gorllwyno, gorllygu, gosgorddi, canhebrwng; amddiffyn *neu* ddiogelu ar daith; amddiffyn, diffynu, diogelu, noddi.
Escot, *s.* (S. *sceat;* Ff. *écot*)=*Scot.*
Escout, *s.* (Ff. *ecout*)=*Scout.*
Escritoire, } *s.* (Ff. *écritoire;* Ysp. *escritorio*)
Escritoir, } ysgrifgist, ysgrifengist, cist ysgrifenydd.
Escritorial, *a.* (o *escritoire*) ysgrifgistiol; perthynol i ysgrifgist.
Escrol, *s.* (Ff. *écrou*) rhol, ysgrifrol.
Escrow, *s.* (Ff. *écrou*) gweithred, ysgrifweithred.
Escuage, *s.* (o'r Ff. *écu;* Ll. *scutum*) aeswasanaeth, tarianweinid, tarianweini=math o afael tir drwy ymrwym ar fyned i ryfel gyda'i arglwydd ar ei draul ei hun.
Esculapian, *a.* (o *Æsculapius*, y meddyg) meddygol, meddyginiaethol, meddygin; iachaol; perthynol i Æsculapius.
Esculent, *a.* (Ll. *esculentus*) bwytadwy, bwytaol.
Esculent, *s.* peth bwytadwy; ymborth, bwyd: *pl.* bwytaolion, bwydydd.

Esculic Acid, *s.* sur castanig.

Escutcheon, *s.* (Ff. *escocheon, écusson;* o'r Ll. *scutum*) arflen, arwyddlen, maes arfau, aes arfau, ysgwyd arfau, arfaes, boneddaes, maes pais arfau, maes arfau bonedd; pais arfau, arfbais; y maes yr arddangosir arfau bonedd arno.

Escutcheoned, *a.* arflenog, arwyddlenog; arfbeisiog, achenog; â chanddo bais arfau.

Eshler, *s.* (Ff. *echelier*)=*Ashlar*.

Esloin,† *v. a.* (Ff. *éloigner*) symmud.

Esophagotomy, *s.* (Gr. *oisophagos* a *tomé*) cegdrychiad, cegendrychiad, trychiad y sefnig.

Esophagus, *s.* (Gr. *oisophagos*) sefnig, y sefnig, ceg, y geg, cegen, llwnc, llyncfa, corn y geg, y corn pori, corn y gwddf, ceudod y gwddf, y ffordd i'r cylla.

Esoteric, Esoterical, } *a.* (Gr. *esôteros*) cyfrinachol, cel, dirgel, cyfrin, cyfriniol, cyfrinol, celddysgaid; anghyhoedd, cuddiedig; neilltuol.

Esotery, *s.* cyfriniaeth, dirgelwch, dirgeledd, dirgeledigaeth, dirgelrwydd, cyfrinach, celedigrwydd, mwysder; rhin.

Esox, *s.* (Ll.) penhwyad, rhwyad, y pysg penhwyad.

Espalier, *s.* (Ff. o'r Ll. *palus*) amgoedres, amgledrwydd, amgoedwal; cledrwaith i ddàl ffrwyth-goed.

Espalier, *v. a.* amgoedresu, amgoedwalio, amgledrwyddu; gwneuthur amgoedres; amddiffyn âg amgoedres.

Esparcet, *s.* (Al. *esparsette*) math o godog.

Especial, *a.* (Ff. *special;* Ll. *specialis*) neilltuol, arbenig, anad, penodol; penaf; enwedig, enwedigol, hysbysol, ysbysol; rhagorol, nodedig, anghyffredin.

Especially, *ad.* yn neilltuol, &c.; yn anad dim; o flaen dim; yn flaenaf dim; yn anad neb; yn bendifaddeu, yn bendïannuod.

Most especially—yn benaf oll; yn benaf dim; o flaen pob peth; o flaen pob dim; yn fwyaf enwedigol; yn fwyaf neilltuol, &c.; chweithach; mewn modd anghyffredin.

Especialness, *s.* arbenigrwydd, arbenigder, neilltuolrwydd, neilltuoldeb, enwedigrwydd, penodolrwydd, penodoldeb.

Esperance, *s.* (Ff. o'r Ll. *spero*) gobaith.

Espial, *s.* (o *espy*) ysbeiwr, ysbeiedydd, ysbeiennwr, selwr, selydd, ffloriwr; ysbeiad, ysbeiaut, ysbeiawd, seliad, seliant, sel, ffloriad, ardremiad.

Espier, *s.* ysbeiwr, ysbeiedydd, ysbeienddyn, ysbeiennwr, selwr, selydd, ffloriwr, chwiliedydd, bradwyliedydd.

Espinel, *s.* (It. *spinella*) ysbinem, pigruddem=math o ruddem.

Espionage, *s.* (Ff.)ysbeiad, ysbeiant, ysbeiawd, ysbeiwriaeth, selyddiaeth, seliad, seliant, peithiad, ysbeithiad, ffloriad, ardremiad.

Esplanade, *s.* (Ff.; Ysp. *esplanada*) osglanerch, osgwalc, llechweddfa; rhynglanerch; llethrglawdd; glaslanerch, glasdalwrn, glesin, talwrn.

Espousal, *a.* (o *espouse*) dyweddïol; perthynol i ddyweddi; neithiorol; priodasol; cyfneithiol, ymgredol; yn perthyn i neithior *neu* briodas.

Espousal, *s.* dyweddïad; cyfneithiad, ymgrediad; mabwysiad, mabwys; amddiffyniad, diffyniad, coleddiad.

Espousals, *s. pl.* dyweddi, ymgred, cyfnaith, cred briodas; dyweddïad, ymgrediad, cyfneithiad, ymneithiad, ymddyweddïad; priodas, neithior.

Espouse, *v. a.* (Ff. *épouser;* Ysp. *desposar*) dyweddïo, cyfneithio; ymgredu âg, ymgredu i; ymneithio âg; priodi; cymmeryd yn briod *neu* ddyweddi; rhoi cred briodas i; mabwyso, mabwysiadu, cofleidio; amddiffyn, diffynu; ysbwyso.

To espouse one's cause—dadleu dadl un; amddiffyn, mabwyso, *neu* gofleidio achos un.

To espouse one's opinion—priodi tyb un; priodi barn un; mabwyso barn un; cymmeryd tyb un yn dyb iddo ei hun.

To espouse one's self to one—ymbriodi âg un; ymddyweddïo âg un; ymgredu âg un.

Espousement, *s.* dyweddïad, amgrediad, cyfneithiad, ymddyweddïad; priodiad; ysbwysiad.

Espouser, *s.* dyweddïwr, ymgredwr, cyfneithiwr, ymneithiwr; cofleidydd, amddiffynydd, mabwysydd.

Esprit, *s.* (Ff.) ysbryd; anian, tuedd.

Espy, *v.* (Ff. *épier, espier;* Is. *bespieden*) ysbeio, ysbïo, ysbeenna, ysbïenna, selu, canfod, gweled, syllu, syllio, tremio, tremu, arganfod, arsyllu, ceinio, fforio; gweled *neu* ganfod o bell; gwylied, gwylio, cyfarchwylio, golygu; cael allan wrth ddysgwyl; dysgwyl a gwylied; chwilio, peithio, ysbeiori, ysbeithio.

When Moses sent me to espy out the land—pan anfonodd Moses fi i edrych ansawdd y wlad (*Ios.* xiv. 7).

Into a land that I had espied for them—i wlad yr hon a ddarparaswn iddynt (*Esec.* xx. 6).

Espying place—gwylfa, dysgwylfa, ysbeienfa, tremynfa, twr gwylied, gwyldwr, bryn gwylied, gwylfryn.

Espy, *s.* ysbeiwr, ysbeiedydd, ysbeiennwr, ysbeienddyn, ysbeiennydd, ysbïwr, ysbïedydd, selwr, selydd, canfyddwr, ffloriwr, peithiwr, syllwr, syllydd, peithwas, chwiliedydd, chwilgi.

Esquire, *s.* (Ff. *écuyer;* It. *scudiere;* o'r Ll. *scutum*) yswain, ysweiniad, isamer; cludydd *neu* ddygiedydd arfau: *pl.* ysweiniaid.

Esquire, *v. a.* ysweinio; gweini ar, gweinyddu ar, gweini i.

Essay, *v. a.* (Ff. *essayer*) profi, cynnyg, ceisio, cynnyg, osio, osi; gwneuthur prawf, cais, *neu* gynnyg; ymgeisio â; rhoi cais ar; gwneuthur prawf *neu* osod; ymegnïo, ymdrechu, ymorchestu, ymbrofi; llyfasu, anturio, amcanu; prawu, delbrofi.

Essay, *s.* prawf, praw, cynnyg, cais, ymgais, argais, dargais, profiad, prawen, cynbrawf, rhagbrawf, ymbrawf; traethawd, treithawd, byr draethawd, byrdraith; antur, egni, hwp, gosod, cynnygiad; rhagflas, cynflas; delbrawf.

Essay of a deer—parwyden llwdn hydd.

Essayer, Essayist, } *s.* traethodydd, treithodwr, byrdraethwr, byrdraethodwr, ysgrifenydd traethodau.

Essence, *s.* (Ff.; Ll. *essentia*) sylwedd; anian, natur, nawd, naturiaeth, notur; bod, hanfod; bodolaeth, nur, taeth, ednyfed, nyfed, ednyw,

ednywed, myraeth, myred, myredd; ain, en, ân; cynryw, cyndaeth, cynnhaeth; sudd, sug; arogl, perarogl, persawr, persawyr, perfwg, perogl, perchwa, sawr, sawyr, safwyr, arwynt, rhogl; rhinwedd, rhin, cyferddawn, nerth, sylwedd godidocaf.

Essence, *v. a.* arogli, perarogli, persawru, persawyro, perogli, perfygu, perwyntio.

Essential, *a.* (Ll. *essentialis*) hanfodol, sylweddol, bodol; anianol, naturiol; cynrywiol, darsylweddol; anhebgorol; pur, puredig, taethol, taethus, enain, einiol, myr, ednyfedog, nyfedol, nurol, myriol, myredol, myreddol, cyndaethol; hedin, hedinol; defnyddiol, defnyddgar.

Essential, *s.* hanfod, bod, bodolaeth, hanfodaeth; peth hanfodol, cynegwyddor; y prif bwnc; y peth penaf; myredd.

The essentials—yr hanfodolion, y rhanau hanfodol, y rhanau cyfansoddol.

Essentiality, } *s.* hanfodoldeb, hanfodolder,
Essentialness, } hanfodolrwydd, hanfodoledd, bodoldeb, sylweddoldeb, sylweddolrwydd; cynrywioldeb; anhebgoroldeb; cynegwyddorion.

Essentially, *ad.* yn hanfodol, &c.; mewn gwirionedd, mewn effaith; mewn sylwedd; yn ol trefn anian.

Essentiate, *v.* hanfodi; hanfodoli; dyfod *neu* fyned o'r un sylwedd; ymsylweddu; gwneuthur hanfod.

Essoign, } *s.* (Norm. *exon;* Ll. gyfreithiol,
Essoin, } *exonia;* hen Ff. *essonier, exonier*) asswyn, esswyn, esgusawd, esgus; asswynai, esswynai; yr asswynedig; yr un â esgusoder.

Essoign, } *v. a.* asswyno, esswyno, esgusodi;
Essoin, } caniatäu esgus; ymasswyno, ymesswyno, ymesgusodi.

Essoiner, *s.* asswynwr, esswynwr, esgusodwr; cyfreithiwr à esgusoda absen un arall.

Establish, *v. a.* (Ff. *établir;* Ll. *stabilio*) sefydlu, cadarnhau, diogelu, sicrhau; gosod, gosodi, arsefydlu; gosod yn anghyfnewidiol, yn ddisigl, *neu* yn ddilyth; seilio, sylfaenu; dilysu, cryfhau, cyfnerthu; penodi; cyflawnu; peri i barhau; cwblhau; cyfarwyddo, gorchymyn; trefnu, darparu, attegu, hwylio; codi, cyfodi.

To establish one's self—ymsefydlu, ymgadarnhau, ymsicrhau, ymddiogelu.

To establish a title—bwrw hawl.

The lip of truth shall be established for ever—gwefus gwirionedd a saif byth.

Established, *p. p.* sefydledig, &c.; cadarn, sicr, diogel, sefydlog, dïysgog, safadwy, disymmud, cryf; dilys, dibetrus; safedig; awduredig; gosodol, deddfedig.

The Established Church—yr Eglwys Sefydledig.

Establisher, *s.* sefydlwr, sefydlydd, gosodwr, gosodydd, penodwr, sicrhäwr, &c.

Establishment, *s.* (Ff. *établissement*) sefydliad; gosodiad, sicrhad, arsefydliad, diogeliad, cadarnhad, gosod, gosodaeth, gosodedigaeth; cyfnerthiad, cryfhad; trefnid, cadernid, sicredd, dilysrwydd; sail, sylfaen; gosgorddyd, preswylgordd, gwenidres, tyaeth; cyllid, ardreth, rhent, daered; yr hyn a ddel i mewn yn flyneddol; cyflog; flurflywodraeth; flurf.

House establishment—tyaeth.

Estacade, *s.* (Ff.; Ysp. *estacada*) palis, polglawdd, cledrffos.

Estafet, *s.* (Ff. *estafette;* Ysp. *estafeta*) aergenad, cadgenad, brysgenad rhyfel.

Estate, *s.* (Ff. *état;* Al. ac Is. *staat;* Ll. *status*) cyflwr, ansawdd, sefyllfa, ystâd; gradd, urdd; tiriogaeth, tir, etifeddiaeth, treftadaeth, treftad, tattref, rhandir; da (*pl.* daoedd), anlloedd, eiddo, golud, cyfoeth; pethau ar helw un; meddiant (*pl.* meddiannau), cyllid, ardreth, daered, elw; tyddyn, syddyn, maenor, maenol; gradd pob dyn wrth ei feddiannau, ei ach, a'i sefyllfa; uchelradd, uchelswydd, urddas; helynt, hwyl, gorddigor; gwladwriaeth.

Estates—uchelwyr, goreugwyr, goreuon, bonedd, boneddigion, dyledogion, gwŷr da, gwŷr uchelradd, pendefigion, cyfurddorion; graddau, uchelraddau; graddau bonedd, bonedd-raddau; graddau dynion mewn cymdeithas *neu* mewn gwladwriaeth; dyledogaeth, pendefiggaeth; meddiannau, tiroedd, &c.

Real estate—tiriogaeth, tir, da anghyffro, da digyffro, da anghyfodedyn, da tirol, meddiannau ansymmudol, da anghyfoadwy, da perthynasol.

Personal estate—eiddion, da cychwynol, da symmudol, da cyfodedyn, da cyffro, da cyffroadwy, daoedd symmudadwy, da personol, da ansodol.

Low estate—iselradd, isel radd; cyflwr isel, gwael, salw, sal, distadl, tlawd, *neu* ddisas; salwedd, tlodi.

Man's estate—oedran *neu* faintioli gwr; addfedrwydd *neu* gyflawnder oedran.

He is grown up to man's estate—y mae efe wedi cyrhaedd oedran gwr; mae efe wedi cyrhaedd ei gyflawn oedran; mae efe wedi tyfu i fyny i faintioli gwr.

As soon as he came to man's estate—cyn gynted ag y daeth efe i'w faint a'i oedran; cynted ag y daeth efe i'w oedran a'i faintioli; càn gynted ag y daeth efe i oedran gwr; er cynted ag y daeth efe yn wr.

A girl at marriageable estate—merch *neu* forwyn mewn oedran priodi.

Estate of the body—hwyl; hwyl dda *neu* ddrwg; hwyl iechyd *neu* glefyd; ansawdd y corff; tymmer y corff.

Health and good estate of the body are above all gold—iechyd a chyfansoddiad da sydd well na phob aur.

All men look on you as having a great estate—pawb a'ch cyfrifant yn wr cyllidog *neu* gyllidfawr.

Persons whose estates join—cydbriodorion, cyttirogion.

The indisputable proprietor of an estate—priodor.

An investing in an estate, }
A giving livery and seizin of an estate, } estyn, ystyn, estyniad, rhoddiad goresgyn.

That has had livery and seizin of an estate—estynol, ystynol.

Whose estate is this?—tir pwy yw hwn? pwy biau y tir hwn? eiddo pwy yw y tir yma? tiriogaeth pwy yw hon?

In our low estate—yn ein hiselradd; yn ein hisel radd.

All the estate of the elders—yr holl henaduriaeth (*Act.* xxii. 5).
Herod made a supper to the chief estates of Galilee — gwnaeth Herod swper i oreugwyr Galilea (*Marc* vi. 21).
Their first estate—eu dechreuad (*Iud.* 6).
In his estate—yn ei le yntau (*Dan.* xi. 21).
After your old estates—fel yr oeddych gynt (*Esec.* xxxvi. 11).

Estate, *v. a.* cynnysgaethu â meddiannau; sefydlu.

Estated, *a.* tirlog, rhandirog, treftadog; â chanddo feddiannau, &c.

Esteem, *v.* (Ff. *estimer*; Ll. *æstimo*) cyfrif, ystyried, ystyrio, tybied, tybio, barnu, bwrw, meddylied, meddylio; gwneuthur cyfrif o; rhoi bri ar; brio, dyfrïo, cymmyru, edmygu, parchu, gorpherchi, perchi, anrhydeddu, ardduno, hoffi; prisio, cywerthyddio, gwerthfawrogi; bod gàn un dyb da am; gosod gwerth ar; cyffelybu.
To esteem greatly, } mawrbrisio; rhoddi
To esteem highly, } mawr fri ar; gwneuthur mawr gyfrif o; uchel brisio, tra phrisio; mawrhau, mawrygu, clodfori.
To esteem lightly, } dibrisio, dïystyru,
To esteem little of, } dirmygu, bychanu; gwneuthur bychan bris *neu* gyfrif o; gwneuthur ychydig bris *neu* gyfrif o; ysgilio.
To esteem worthy—cyfrif, barnu, tybio, *neu* dybied yn deilwng; cyfrif yn wiw; cymmeradwyo; teilyngu; bod yn wiw ganddo.
That which is highly esteemed among men—y peth sydd uchel gyda dynion (*Luc* xvi. 15).

Esteem, *s.* cyfrif, cyfrifiad, bri, parch, cymmeriad, cymmeradwyaeth, cymmyredd, cymmyred, cyfrïad, cyfri, tyb da, barn dda; pris, prisiad, pwys.
Self-esteem—hunanfri, hunfrïedd.

Esteemable, *a.* hybarch, gwiwbarch, hybris, cyfrifol, cyfrifus, cyfrïol, cymmeradwy, parchus, parchedig, urddasol, cymmyreddus; gwerthfawr, prisfawr; o fri, o barch, o gymmeriad, o bris, o werth, o gyfrif, o gyfrifiad; teilwng o barch; gwiw o fri.

Esteemed, *p.p.* cyfrifedig, &c.; y gwneir cyfrif o honc; y gwnaed cyfrif o hano; y rhoddir bri arno; cyfrifol, cyfrifus, cyfrïog, cyfrïol, parchus.
Little esteemed—heb fawr fri arno; heb fawr gyfrif o hono; dibris, dibarch, digyfrif, anghyfrifol.
Nothing esteemed—heb ddim bri arno; heb ddim cyfrif o hono; heb fri arno; heb gyfrif o hono; anghyfrifol, anghyfrifus, digymmeriad, dibris, dïystyr, dirmygus, dirmygedig, gwael, sal, salw.
He was nothing esteemed in those days—nid oedd bri yn y byd arno yn y dyddiau hyny; nid oedd dim bri arno y dyddiau hyny.

Esteemer, *s.* cyfrifwr, cyfrifydd, tybiwr, prisiwr, brïwr; à rydd fri ar beth.

Esthetic, *a.* (Gr. *aisthêticos*) ceinofyddol, deinofyddol, teleidig, deiniol, dain, deiniolig, teleidiol.

Esthetics, } *s.* (Gr. *aisthêticos*) ceinofyddiaeth,
Æsthetics, } deinofyddiaeth, teleidiaeth, teleideg, deineg, deiniolaeth=athrawiaeth y prydferth mewn prydyddiaeth ac yn y prif gelfyddydau.

Estiferous, *a.* (Ll. *æstus* a *fero*) gwresddwyn, gwresddygol; yn cynnyrchu gwres.

Estimable, *a.* (Ff.) hybarch, gwiwbarch, haeddbarch, hybris, cyfrifol, cyfrifus, cyfrïol, cyfrïadwy, cymmeradwy, parchus, parchedig, urddasol, cymmyreddus; gwerthfawr, prisfawr; o fri, o barch, o gymmeriad, o bris, o werth, o gyfrif, o gyfrifiad; teilwng o barch; gwiw o fri.

Estimable, *s.* yr hyn sy'n deilwng o barch: *pl.* cyfrifolion, hybrision.

Estimableness, *s.* hybarchedd, gwiwbarchedd, cyfrifoldeb, cyfrifolder, cyfrifusrwydd, parchusrwydd, gwerthfawredd.

Estimate, *v. a.* (Ll. *æstimo*; Ff. *estimer*) cyfrif, cyfrifo, bwrw, barnu, tybio, tybied; prisio, cywerthyddio; rhoi, gosod, *neu* ddodi pris ar; ffurfio barn am; bwrw cyfrif ar; gobrisio, gogyfrif, amcan-gyfrif, amcanbrisio, tybgyfrif, brasgyfrif.

Estimate, *s.* cyfrif, cyfrifiad, prisiad, gobrisiad, gogyfrif, amcan-gyfrif, amcanbrisiad, tybgyfrif, brasgyfrif, cyfrifwerth; cywerthyddiad, cywerthiad; pris, gwerth, cywerthydd, cywerth, amcanwerth; bwriad pris *neu* draul; amcandraul; amcanfarn, amcandyb.
To make an estimate of—rhoi barn *neu* amcanfarn; bwrw amcanbris, bwrw amcan; rhagfwrw; barnu; prisio, cywerthyddio.

Estimation, *s.* (Ll. *æstimatio*) cyfrifiad, cyfrifiant, cyfrif; prisiad, cywerthyddiad, rhoddiad pris; barn, tyb, amcanfarn; parch, bri, cyfri, cymmeriad, cymmeradwyaeth, cymmyredd, cymmyred, cymmyraeth, edmygedd, anrhydedd, tyb da, barn dda.
According to common estimation—fel y tybir yn gyffredin; fel y bwrir yn gyffredin; fel y cyfrifir yn gyffredin; yn ol cyfrif cyffredin.
In man's estimation—yn ngolwg, yn marn, yn nhyb, *neu* yn nghyfrif dyn; hyd y gwel dyn.

Estimative, *a.* cyfrifiadol, cywerthyddol, prisiadol; darfelyddol, dychymygol.

Estimator, *s.* cyfrifwr, cyfrifydd, prisiwr, prisiedydd, cywerthyddiwr, gogyfrifwr.

Estival, *a.* (Ll. *æstivus*) hafol, hefin, hafaidd.

Estivate, *v. n.* hafu, treulio yr haf.

Estivation, } *s.* (Ll. *æstivatio*) hafad, hafiad,
Æstivation, } hafiant, treuliad haf.

Estoile, } *s.* (Ff.) seren â 6 modrwy dònog (mewn
Etoile, } herodraeth).

Estoilee, *s.* (Ff.) sergroes; seren â 4 pelydryn hir ar lun croes.
Cross estoilee—sergroes.

Estop, *v. a.* (Ff. *étouper*) attal, rhwystro; rhwystro hawl oblegid gweithred yr hawlwr ei hun.

Estoppel, *s.* (o *estop*) attalfa, rhwystr, lludd, rhwystr hawl.

Estovers, *s. pl.* (Norm. *estoffer*; Ff. *étoffer*) cyfreidiau, rheidiau; cynnaliaeth, gosmaeth.

Estrade, *s.* (Ff.) ystrad; gwastadle, lle gwastad; uchle, uchfan; ystafell gyhoeddus.

Estrange, *v. a.* (Ff. *étranger*) dyeithro, estroni, estroneiddio, estronoli, pellhau; cilio, neilltuo; ymddyeithraw oddi wrth; cadw oddi wrth.

To estrange one's self—ymddyeithro, &c.
They were not estranged from their lust —ni omeddwyd hwynt o'r hyn a flysiasant (*Salm* lxxviii. 30).

Estrangedness, *s.* dyeithrwch, dyeithredd, estroneiddrwydd, estronedigrwydd, estronoldeb, dyeithredigrwydd.

Estrangement, *s.* dyeithrad, dyeithriad, estroniad, estroniaeth, estroneiddiad, estronoliad, ymbellhad, ymddyeithrad; pellhad; symmudiad, mudiant.

Estrapade, *s.* (Ff.) ysboncawd, hersawd.

Estray, *v. n.*=*Stray*.

Estrayer, *s.* (Norm.) anifail treigl, anifail crwydr, anifail crwydrad, crwydryn.

Estreat, *s.* (Norm. *estraite, estreite*; o'r Ll. *extractum*) adysgrif gywir, gwir adysgrif, cysgrif, cysgrifen, tynysgrif, elltyneb; camgyleb.

Estreat, *v. a.* tynysgrifo, adysgrifo, cysgrifo.

Estrepe, *v. a.* (Norm. *estrepcr*) difrodi, difrodi tir, tirddifrodi, anrheithio.

Estrepement, *s.* (Norm. *estreper, estripper*) difrod, tirddifrod; anrhaith=y difrod à wnel deiliad oesfoddog ar dir neu dyddyn, er niwed i'w berchenog.

Estrich, *s.* Ff. (*autrauche*) estrys.

Estrich, } *s.* manblu yr estrys, plu yr estr-
Estridge, } ys.

Estuance,† *s.* (Ll. *æstus*) gwres, twymedd.

Estuary, *s.* (Ll. *æstuarium*) mornant, moryd, morgamlas, morgainc, morgang, mordŵr, morddwfr, morafon, cainc o fôr, camlas; tarthfadd, tarthfaddon.

Estuate, *v. n.* (Ll. *æstuo*) berwi, ymferwi, brydio, angerddu, cyffröi, ymgynhyrfu, ymderfysgu; bod mewn cynhwrf *neu* gyffro.

Estuation, *s.* berwad, ymferwad, berw, berwedd, brydiad, angerddiad, cynhyrfiad, cyffroad, morgymlawdd.

Esture,† *s.* (Ll. *æstuo*) trais, gorthrech, trawsedd; cynhwrf, cyffro, berw.

Esurient, *a.* (Ll. *esuriens*) newynog, newynol, newynllyd; â chwant bwyd arno.

Esurine, *a.* (Ll. *esurio*) bwytaol, difaol, ysol.

Etch, } *s.* (anhysbys) adladd, attwf.
Eddish, }

Etch, *v. a.* (Al. *ätzen*; Is. *etsen*) ysgerfio, surgerfio, surgrifio, crafiunio, yslunio; cerfio â sur blorig; †darlunio, braslunio, cynllunio.

Etching, *s.* ysgerfiad, ysgerfiaeth, ysgerfiadaeth, surgerfiad, surgrifiad, crafluniad, ysluniad.
Etching needle—pin ysgerfio, nydwydd ysgerfio.
Etching ground—llawr ysgerfio; cymmysgedd ysgerfio.

Eteostic, *s.* (Gr. *eteos* a *stichos*) gwirwers, cyfansoddiad brudlythyrol.

Etern,† *a.* (Ll. *æternus*)=*Eternal*.

Eternal, *a.* (Ll. *æternus*; Ff. *éternel*) tragwyddol, tragywyddol, tragywydd, bythol, annherfynol, didranc, diderfyn, pythol, bythig, tragywyddog, tragwyddog, tragwydd, tragyfyth, gwastadol, gwastad, oestad, oestadol; anfarwol, bythbarhäus, bythbarhaol.

Eternal, *s.* y Tragwyddol, y Tragywyddol, Rhen, Ior, y Duw tragwyddol.

Eternalist, *s.* tragwyddolwr, tragwyddolydd=un à gred fod y byd er tragwyddoldeb.

Eternalize, *v. a.* tragwyddoli, tragywyddoli, bytholi, tragwyddogi.

Eternally, *ad.* yn dragwyddol, &c.; byth, tros byth, dros byth, dros fyth, byth bythoedd, yn oes oesoedd; byth ac yn dragywydd.

Eternify, † *v. a.* (Ll. *æternus* a *facio*) tragwyddoli, tragywyddoli, anfarwoli.

Eternity, *s.* (Ll. *æternitas*; Ff. *éternité*) tragwyddoldeb, tragywyddoldeb, tragwyddolrwydd, tragywyddolder, tragywyddolrwydd, tragywyddoledd, bytholrwydd, bytholdeb, bytholder, byth, tragywyddogder, tragwyddogrwydd; anfarwoldeb.
To eternity—byth, byth bythoedd, yn oes oesoedd, hyd dragwyddoldeb, yn oestad, yn dragywydd, &c.; i dragwyddoldeb.
To all eternity—byth heb ddiwedd; byth ac yn dragywydd; hyd eithaf tragywyddoldeb; yn oes oesoedd; byth bythoedd; i bob tragywyddoldeb.
From eternity—er tragwyddoldeb, o dragywyddoldeb; er cynoes, er y gynoes.
From all eternity—er pob tragywyddoldeb; o bob tragwyddoldeb; cyn na'r oesoedd.

Eternize, *v. a.* (Ff. *éterniser*; Ll. *æterno*) tragwyddoli, tragywyddoli, bytholi, tragwyddogi; peri parhau byth; anfarwoli.

Etesian, *a.* (Ll. *etesius*; Gr. *etêsios*) cyfnodol; sefydlog, sefydledig; yn chwythu ar amseraau penodol o'r flwyddyn.
Etesian winds—gwyntoedd cyfnodol.

Ethal, *s.* (o sillau cyntaf *ether* ac *alcohol*) nyfelwirf.

Ethe,† *a.* (S. *eath*) hawdd, rhwydd, esmwyth, llonydd.

Ethel,† *a.* (S.) ardderchog, godidog, boneddig.

Ether, *s.* (Gr. *aithêr*; Ll. *æther*) nyfel, nwyfre, uchawyr, gwybr, gwybren, uchwybr; nyfelwy, gwirfwy; gwŷr.

Ethereal, *a.* (Ll. *æthereus*) nyfelaidd, nyfelawl, nyfelig; gwybrenol, wybrenol, gwybrol, wybrol, ewybrenol, awyrol, nwyfreawl, arnwyfreawl, nwyfreaidd; nefol, nefolain, nefolus; pur, coeth, gwyrain.
Ethereal sphere—nwyfre, arnwyfre, nwyfreant, cylch y gwynaint.

Etherealize, } *v. a.* nyfeleiddio; awyroli;
Etherize, } gwneuthur yn nyfel; troi yn nyfel.

Ethereous, *a.* (Ll. *æthereus*) nyfelaidd; â wnaed o nyfel; nefol, nefolain, nefolaidd; awyrol, wybrenol.

Ethereum, *s.* (o *ether*) nyfelnwd=math o losnwy.

Etheriform, *a.* (*ether* a *form*) nyfelaidd; â chanddo ffurf nyfel.

Etherine, *s.* (o *ether*) nyfelain=math o losnwy.

Etherole, *s.* (Gr. *aither* ac *elaion*) nyfolew.

Ethero-sulphuric Acid, } *s.* sur nyf-ufelig, sur
Ethionic Acid, } nyflosfeinig, sur nyfonig.

Ethic, } *a.* (Gr. *êthicos*; Ll. *ethicus*) moesol,
Ethical, } moesaidd; perthynol i foesau; yn perthyn i foesddysg; yn trin moesau; yn traethu ar foesoldeb; moesathrawol.
Ethic epistles—llythyrau moesol, llythyrau moes.

Ethics, *s.* moesddysg, moesaddysg, moeseg, moesoni; athrawiaeth moesau ac arferion.

Ethionate, *s.* (o *ether*) nyfonaint.

Ethmoid, } *a.* (Gr. *êthmos* ac *eidos*) rhidyll-
Ethmoidal, } og, rhidyllaidd, gograidd.

Ethmoid, *s.* yr asgwrn rhidyllog, y rhidyllog.

Ethnarch, *s.* (Gr. *ethnos* ac *archê*) pencenedl, pen cenedl, pen cenedloedd, cenel-benaeth.

Ethnic, } *a.* (Gr. *ethnicos*; Ll. *ethnicus*)
Ethnical, } cenedlig, paganaidd, paganol, paganig; perthynol i'r cenedloedd; yn perthyn i'r paganiaid; digred; ethnigaidd.

Ethnic, *s.* cenelddyn, cenedlddyn, dyn cenedlig, pagan, ethnig, dyn digred, dyn annuw, dyn didduw, dyn eilunaddolgar; un o'r cenedloedd; un o wŷr anghred; dyn anghydnabyddus â chrefydd ddadguddiedig: *pl.* cenedloedd, y cenedloedd, paganiaid.

Ethnicism, *s.* cenedligaeth, paganiaeth, anghred; eilunaddoliaeth; ethnigaeth.

Ethnographic, } *a.* cenedlonawl, cenedlof-
Ethnographical, } yddol, cenedlyddol, cenedlwyddol; yn darlunio cenedloedd.

Ethnography, *s.* (Gr. *ethnos* a *graphô*) cenedloniaeth, cenedlofyddiaeth, cenedlhanes, cenelhanes, cenelwyddiaeth, cenelddysg; cenedlogaeth, ceneldraith; dysgrifiad o wahanol genedloedd.

Ethnology, *s.* (Gr. *ethnos* a *logos*) cenedleg, echenogaeth, ciwdodeg; traethawd ar genedloedd.

Ethological, *a.* moesyddol, moesegol, moesonol, moesddysgol; yn traethu ar foesogaeth *neu* foesoldeb.

Ethologist, *s.* moesegwr, moesonydd, moesddysgwr, traethwr ar foesoldeb.

Ethology, *s.* (Gr. *êthos* a *logos*) moesogaeth, moesoneg, moesolaeth, moesyddiaeth; traethawd ar foesau; traith ar foesddysg.

Ethule, } *s.* (Gr. *aithêr* a *hulê*) nyfelsawd, dan-
Ethyle, } sawdd nyfel.

Etiolate, *v.* (Gr. *aithô*) cànu, gwŷnu, dargànu, arwŷnu, gwynhau; gwneuthur yn wŷn *neu* yn ganaid; myned yn wŷn *neu* yn wynach; gwynu drwy gau allan belydr haul.

Etiolation, *s.* cànad, dargànad, gwŷnad, darwŷnad; gwneuthuriad yn wŷn; mynediad yn wŷn.

Etiological, *a.* achosegol, achosionol; perthynol i achoseg.

Etiology, *s.* (Ll. *ætiologia*; Gr. *aitia* a *logos*) achoseg, achosioneg, peiriadeg; cyfrifiad ain achosion; clwyfachoseg.

Etiquette, } *s.* (Ff. *étiquette*) hyfoeseg, arfoeseg,
Etiquet, } alathreg, moesgarwch; moesffurfiau, moesddefod, moesarfer; defod, arfer, arddefod, rhyfoes.

Etite, *s.* (Gr. *aetos*) eryrfaen, eryrai.

Ettin,† *s.* (ansicr) cawr.

Etui, } *s.* (Ff. *étui*) llogellgist, llogell-
Etwee, } gaes, llogellas, offergist llogell,
Etwee-case, } offerwain, offergistan.

Etymologer,† *s.*=*Etymologist*.

Etymological, *a.* (o *etymology*) cyfachyddol, cyfiachyddol, geirdarddol, geirdarddiadol, geirhanol, geirhaniadol, geirdadogol, geiryddol, tadogaethol, cyfachol, tarddiadol; gwreiddiol.

Etymological dictionary — cyneiriadur, cyneirlyfr, gwreiddiadur, geiriadur cyfachyddol, geirlyfr geirdarddol.

Etymologist, *s.* cyfachydd, cyfiachydd, geirdarddwr, geirdarddur, geirhanwr, geirdarddydd; chwiliedydd *neu* olrheiniwr gwraidd geiriau.

Etymologize, *v. n.* geirdarddu, geirhanu, cyfachyddu, cyfiachyddu, geirdadogi; chwilio *neu* olrhain tadogaeth geiriau; chwilio wraidd geiriau.

Etymology, *s.* (Ll. *etymologia*; Gr. *etumos* a *logos*) cyfachyddiaeth, cyfiachyddiaeth, geiryddiaeth, geirhaniaeth, cyfiach, geirdarddiad, geirdarddiadaeth, geirdardd, tadogaeth, geirdadogaeth, geirhaniadaeth, tadogaeth geiriau, bonedd geiriau, gwreiddogaeth, geirfonedd; gwraidd; tarddiad.

Etymon, *s.* (Gr. *etumon*) cynair, gwreiddair, tadogair, tadair, tadog, gwreiddyn gair, gwreiddyn, gwraidd, gair gwreiddiol; dechreuad.

Eucharist, *s.* (Gr. *eucharistia*) cymun, y cymun, y segrafen, y sacrafen; diolch, diolchgarwch.

Eucharistic, } *a.* cymunol, segrafenol, sacr-
Eucharistical, } afenol; perthynol i'r cymun; diolchus, diolchgar, iolchus; er diolchus gof; yn cynnwys diolch.

Euchlore, } *a.* (Gr. *eu* a *chlôros*) madwyrdd,
Euchloric, } trywyrdd, trywyrddin.

Euchlorine, *s.* (Gr. *eu* a *chlorine*) madlasnwy, cynegrid llaswy.

Euchlorite, *s.* (Gr. *eu* a *chlôros*) madhoegith=math o ddelidfaen.

Euchology, *s.* (Gr. *euchologion*) ffurfweddiau, ffurfweddieg, golucheg; defodlyfr Eglwys Groeg.

Euchroite, *s.* (Gr. *euchroia*) tegwerddem, ceinwerdden.

Euchymy, *s.* (Gr. *euchumia*) madlynedd, madlynnaws, madlifnaws; cyflwr iach y gwaed a llynau ereill y corff.

Euclase, *s.* (Gr. *eu* a *clasô*) hyfriwem=math o ddelidfaen lledwyrdd.

Eucrasy, *s.* (Gr. *eucrasia*) mattymmyr, iachdymmyr, iachdymmer, iachddyli, tymmer iachus.

Euctical, *a.* (Gr. *eucticos*) diolchol, diolchus, diolchgar, iolchus; yn cynnwys diolch.

Eudiometer, *s.* (Gr. *eudios* a *metron*) areuliadyr, areulfesur, awyrfesur=offeryn i fesur purdeb yr awyr, neu y gyfran o ufelai à gynnwysir ynddo.

Eudiometric, } *a.* areuliadyrol, areulfesurol,
Eudiometrical, } awyrfesurol, awyrfydrol; perthynol i areuliadyr.

Eudiometry, *s.* areuliadyriaeth, areulfesuriaeth, awyrfesuriaeth.

Euge,† *s.* (Gr. a Ll.) clod, canmoliaeth.

Eugeny, *s.* (Gr. *eugenês*, o *eu* a *genos*) bonedd, pendefigedd, gwaed pendefigaidd, bonedd cynnwynol.

Eugh, *s.*=*Yew*.

Euharmonic, *a.* (Gr. *eu*, a *harmonic*) cynghaneddol, cynghan, cynghanawl, perseiniol, cysseiniol, madseiniol, cydgordiol.

Eukairite, *s.* (Gr. *eucairos*) madysem=math o ddelidfaen.

Eulogic, } *a.* (o *eulogy*) canmoliaethol, can-
Eulogical, } moliaethus, canmoliannol, canmoliannus, arwyreiniol, cyfoliannus, clodus, canmoliadol, arfoliannol, clodforol, arfoliannus, moliannol, moliannus, canmolawl, darglodus, arwyreawl.

Eulogist, *s.* canmolwr, canmolydd, arwyreiniwr, arwyreinydd, molwr, molydd, moliannwr, moliannydd, moliedydd, darglodydd, clodforwr, clodforydd, moliannor, dathlydd, darfolwr, ceinfolwr.

Eulogium, *s.* (Ll. a Gr. *eulogia*)=*Eulogy*.

Eulogize, *v. a.* moli, moliannu, canmawl, canmoli, clodfori, moleddu, arwyrain, darfoli, mawrygu, arfoliannu, dathlu, dyrchafu; derchafu ar air *neu* mewn ysgrifen.

Eulogy, *s.* (Gr. *eulogia*) canmoliaeth, molawd, arwyrain, clod, clodair, clodaraeth, moledd, moliant, molyd, mawl, iolwg, darfoledd, arfoliant, darglod, gwawd, arwawd, erwawd, canmolawd, gair da, darfawl, ceinfawl, ceinfolawd.

Eunomy, *s.* (Gr. *eunomia*) madraith, madgyfraith, madlywodraeth.

Eunuch, *s.* (Gr. *eunouchos*) dysbadd, dysbaidd, efnuch, dysbaddyn, un dysbaddedig, un ysbaddedig; ystafellydd.

Eunuchate, *v. a.* dysbaddu, ysbaddu, efnuchu; gwneuthur yn efnuch.

Eunuchism, *s.* efnuchiaeth, efnuchedd, dysbaddiaeth.

Euonymus, *s.* (Gr. *eu* ac *onoma*) piswydd.

Euotomous, *a.* (Gr. *eu* a *temnô*) gwahanhollt-og.

Eupathy, *s.* (Gr. *eupathia*, *eupatheia*) iawn deimlad, matteimlad, madoddef, goddefedd, goddefgarwch.

Eupatorine, *s.* (o *eupatorium*) byddonain=goalcali tybiedig à geir o fyddon chwerw.

Eupatory, **Eupatorium**, *s.* (Ll. *eupatorium*; Gr. *eupatorion*; o *Eupator*, teyrn Pontus) byddon.

Eupepsy, *s.* (Gr. *eupepsia*) hydreuliant, hydreuliad, treuliant da, treuliad, bwyttraul da.

Eupeptic, *a.* yn treulio yn dda yn y cylla; hydraul, hyferw.

Euphemism, *s.* (Gr. *euphêmismos*) syberiaith, lledneiseb, lledneisiaith; mwytheiriad; anhagreb.

Euphemistic, *a.* mwynieithol, mwytheiriol, llednais.

Euphonic, **Euphonical**, **Euphonious**, *a.* (o *euphony*) perseiniol, hyseiniol, hysain, gwiwseiniol, pereiddseiniol, persain, gwiwsain, pereiddsain, erddyganol, hyfrydsain, perleisiol; per ei sain; gwiw ei sain.

Euphonicon, *s.* (Gr. *eu* a *phônos*) perseinon, pereilioneg.

Euphonize, *v. a.* perseinio, gwiwseinio, hyseinio, pereiddseinio, hyfrydseinio; gwneuthur yn berseiniol.

Euphony, *s.* (Gr. *euphonia*) persain, gwiwsain, hysain, pereiddsain, hyfrydsain, sain ber, sain beraidd, sain dda, cywirsain, cynghanedd, erddygan, mwythsain, melsain, perlef, perder sain, hyseinedd; rhwyddineb sain.

Euphorbia, *s.* (Gr.) fflamgoed, dalen dda.

Euphorbium, *s.* (Ll. o'r Gr. *euphorbion*) fflamgoedlud, fflamgoedrwyth, sudd fflamgoed.

Euphrasia, *s.* (Gr.) effros, golyglys, gloewlys, goleudrem, llysiau effros.

Euphuism, *s.* (Gr. *euphuês*) chwyddiaith, coegiaith, chwyddiaeth.

Euphuist, *s.* chwythieithwr, arferwr chwyddiaith.

Eupion, *s.* (Gr. *eu* a *piôn*) ireidwy=math o hylif gloew, diliws, dïarogl, a diflas, à geir o ulbyg anifeiliol.

Eupratic, *a.* (Gr. *eupractos*) hywnel, hyweithiol, hygael; hawdd ei wneuthur; hawdd ei gael.

Euripus, *s.* (Ll.; Gr. *euripos*) culfor, cyfyngfor, meinfor.

Eurite, *s.* (Ff.) gwynfaen.

Euritic, *a.* gwynfeinig, gwynfeinin, gwynfeinaidd.

Euroclydon, *s.* (Gr. *eurocludôn*) Euroclydon (*Act.* xxvii. 14) = gwynt tra thymhestlog, cyffredin ar Fôr y Canoldir.

Eurus, *s.* (Ll.) dwyreinwynt, gwynt y dwyrain.

Eurythmy, *s.* (Gr. *eu* a *rhuthmos*) cydweddiad, cymmesuredd, harddweddiad, cyssondeb, iawn drefn, cyfartalwch.

Eustyle, *s.* (Gr. *eu* a *stulos*) madbillas, madbillres.

Eutaxy, *s.* (Gr. *eutaxia*) trefn, trefn sefydlog, iawn drefn.

Euthanasia, **Euthanasy**, *s.* (Gr. *euthanasia*) marwolaeth esmwyth, tranc esmwyth, esmwyth-dranc, mad farwolaeth.

Evacate,† *v. a.* (Ll. *vaco*) gwaghau, arllwys.

Evacuant, *a.* (Ll. *evacuans*) gwaghaol, arllwysol, arlloesol, arloesol, rhyddhaol, ysgothol.

Evacuant, *s.* ysgothal, cyffer ysgothol: *pl.* ysgotholion, ysgotheion.

Evacuate, *v. a.* (Ll. *evacuo*) gwaghau, arlloesi, arloesi, arllwys, allwys, allwy, dyhysbyddu, dysbyddu, hysbyddu; bwrw allan, taflu allan, ysgothi, cothi, cythu; gadael, gadaw, gadu; ymadael o; myned allan o; diddymu, dirymio, dirymu, dïelwi, llaesu.

Evacuation, *s.* (Ll. *evacuatio*) gwaghad, gwacâd, gwagiad, arllwysiad, arlloesiad, arloesiad, allwysiad, arloes, arllwys, dyhysbyddiad, dysbyddiad; ysgothiad, cothiad, cythiad, ysgarthiad; bwriad *neu* dafliad allan; gadawiad, gadiad, ymadawiad; diddymiad, dirymiad, dilead; gollyngdod.

Evacuative, *a.* gwaghaol, arlloesol, arllwysol, arloesol, allwysiadol, dyhysbyddol, dysbyddol; ysgothol.

Evacuator, *s.* gwaghäwr, gwagiedydd, arllwysydd, arlloeswr, dyhysbyddwr; diddymydd.

Evade, *v.* (Ll. *evado*) gochel, gochelyd, gochelu, gogelyd, gwagelyd, gwagelu, gwachel, gwachelyd, dïanc, dïengyd, ysgŏi, osgöi; dïanc; ymddïanc, ymochel, ymgadw, ymnoddi, ymachub, ffoi, *neu* ysgöi rhag; dïanc, ymddïanc, ymochel, ymgadw, ymnoddi, ymachub, ffoi, *neu* ysgöi oddi wrth; cilio *neu* droi oddi wrth; cilio *neu* droi oddi ar ffordd peth; bwrw, troi, *neu* ollwng heibio; cyfrwys ochel; gochelyd drwy gyfrwysdra; mwyseirio, nyddu; llithro ymaith; ceisio, dïanc; somi.

Evagation, *s.* (Ll. *evagatio*) gwib, crwydr, gwibiad, gwibad, crwydrad, gwibiawd, crwydredigaeth, tramwyad; tramp, gwibdaith; gwyrad, cyfeiliornad.

Evagination, *s.* (Ll. *evagino*) dadweiniad, diweiniad, dysbeiliad, dysbeliad, tyniad o wain.

Eval,† *a.* (*ævum*) oesol, parhaol; perthynol i amser *neu* barhâd.

Evaluation, *s.* (Ff.) prisiad, cywerthyddiad.

Evanescence, *s.* (Ll. *evanescens*) dedwinedd, edwinedd, diflant, diflannedd, edwedd, edwaint, dedwinoldeb, edwinoldeb, edwindod, edwinrwydd, dedwinrwydd, diflanrwydd, diflannusrwydd; dedwiniant, edwiniant, diflaniad.

Evanescent, *a.* (Ll. *evanescens*) dedwinol, edwinol, diflan, diflannus, diflanus, diflanedig, difan, dedwin, edwin, edw, difanol; ar ddiflanu, yn diflanu, ar ddiflant; trancedig, darfodedig.

Evangel,† *s.* (Ll. *evangelium ;* Gr. *euaggelion*) efengyl, yr efengyl, coelfain.

Evangelian, *a.*(Ll. *evangelicus*) yn dïolch am gymmwynasau; dïolchus, dïolchawl, iolchus.

Evangelic, } *a.* (Gr. *euaggelicos ;* Ll. *evan-*
Evangelical, } *gelicus*) efengylaidd, efengylawl; cytun â'r efengyl.

Evangelicals—efengyliaid, gwŷr efengylaidd.

Evangelicalism, *s.* efengyleiddrwydd, efengylrwydd.

Evangelism, *s.* efengyliaeth, cyhoeddiad yr efengyl.

Evangelist, *s.* (Gr. *euaggelistês*) efengylwr, efengylydd, angel ystor.

Evangelistary, *s.* llith o'r Efengylau, detholiad o'r Efengylau, efengylwers.

Evangelization, *s.* efengyliad, efengyliant.

Evangelize, *v.* (Gr. *euaggelizô ;* Ll. *evangelizo*) efengylu; pregethu yr efengyl; efengylu i.

Evangely, *s.* (Ll. *evangelium*) efengyl, yr efengyl, coelfain; newyddion da.

Evanid, *a.* (Ll. *evanidus*) gwanaidd, gwàn, egwan, gwyw, methedig, methiannus, methiantus, llegach, lleag, gwecry, brydd; diflanus, edwin, edwinol, dedwin, dedwinol, diflan, diflanol, edwinaidd, difan, difanol, dismanol, dysmythol, dysmwth.

Evanish, *v. n.* (Ll. *evanesco*) diflanu, diflannu, difanu, dysmythu, dadymddangos, dismanu; dedwino, edwino, edwi, difancolli, darfod; myned ar ddim, myned yn ddim; ymgiliaw o'r golwg.

Evanishment, *s.* diflaniad, diflanniad, diflant, difaniad, dysmythiad, dismaniad; dedwinad, edwinad.

Evaporable, *a.* (Ll. *evaporo*) tarthadwy, mygdarthadwy; à ellir ei droi yn darth.

Evaporate, *v.* (Ll. *evaporo*) tarthu, anweddu, mygdarthu, ageru, agerddu, tarthain, anwyddo, mygu allan, mygu, dydarthu; bwrw ager, agerdd, mygdarth, *neu* anwedd; bwrw allan darth *neu* fygdarth; bwrw allan ager *neu* anwedd; esgyn yn darth *neu* anwedd; myned yn darth *neu* anwedd; myned i fyny yn darth, ager, *neu* anwedd; codi yn darth *neu* ager; anadlu, chwythu allan; chwysu allan; gwasgaru, gwasgar.

Evaporate, *a.* tarthedig, anweddedig, mygdarthedig, tarthog, agerddog; gwasgaredig; gwasgaredig mewn tarth.

Evaporation, *s.* (Ll. *evaporatio*) tarthiad, tarthiant, anweddiad, ageriad, agerddiad, mygdarthiad, anwyddiad; esgyniad yn darth, &c.; mynediad yn darth, &c.

Evaporometer, *s.* (Ll. *evaporo*, a Gr. *metron*) tarthiadyr, tarthfesur=offeryn i fesur swmp tarth.

Evasion, *s.* (Ll. *evasio*) gocheliad, gwacheliad, gogeliad, gwageliad, ysgoad, gochel, cyfrwys ochel, cyfrwys ocheliad, ciliad, ymgiliad; dichell, ystryw, rhithesgus, mwysdro, mwysair, mwyseiriad, ystranc, ymdro, esgus, twyll, ymdro cyfrwys, ymdro dichellgar, hud, hoced, dd; ystryw i ddïanc.

(Ll. *evado, evasi*) gochelus, cyfrywus, ystrywgar, ymdroawl, wagelog, gochelgar, mwyseiriol, l, mwys, amwys, ymlithrol, di-'i duedd i ochelyd *neu* ddïanc; d i ddïanc *neu* ochelyd.

. gochelgarwch, gochelusrwydd, cyfrwysdra, cyfrwyster, ystrywgarwch, gochelogrwydd, mwysedd.

Evates, *s.* (Ll. *vates ;* Gr. *ouateis*) ofyddion= dosbarth o'r derwyddon.

Eve, *s.* (S. *æfen, efen ;* Al. *abend*) noswyl, nos wŷl, ucherwyl, nos, mywyl.

Christmas eve — nos Nadolig, noswyl Nadolig, ucherwyl y Nadolig.

Easter eve — nos Basc, noswyl y Pasc, ucherwyl Pasc, nos wŷl y Pasc.

Twelfth-tide eve—noswyl Ystwyll, nos wŷl Ystwyll.

Eves of holydays—mywyliau.

To keep *or* celebrate the eve of a holyday —noswylio, cadw ucherwyl, cynnal ucherwyl, cynnal noswyl, cadw noswyl, mywylio.

On the eve of—ar fin, yn mron, bron, ar, ger llaw, yn agos i, yn nghylch, ar bwynt.

Evection, *s.* (Ll. *evectio*) cludiad ymaith, cyweiniad i ffwrdd, dygiad; dyrchafiad, dyrchiad, derchawd, uchafiad; ymeithiad, dygyweiniad, dygludiad.

Even, } *s.* (S. *æfen, efen ;* Al. *abend*) hwyr, yr
Eve, } hwyr, ucher, echwydd, yr echwydd, diwedydd, cyfnos, y cyfnos, min nos, godechwydd, gohwyr, cyflychwyr.

At even, } yn yr hwyr; yn min nos.
In the even, }

Even, *a.* (Is.; S. *efen ;* Al. *eben ;* Sw. *efven*) gwastad, cydwastad, cyngwastad, llyfn, (*s.* llefn), gwastadlyfn; cyfartal, cydradd, cyfradd, cydraddog, unffurf, unwedd, cyfiol, gogyfiol; cyffelyb, tebyg, cyfal, hafal; uniawn, union, dileddf, diwyr; tawel, digynhwrf, digyffro; cyfniferog, cyfnifer, cynnifer, gogymmaint; teg, clau; cymhwys; esmwyth; tèl.

Even ground—tir gwastad, gwastattir, lle gwastad, màn wastad, gwastadfan, gwastadfaes, gwastadle, gwastadfa; tir teg.

Even number—cyfnifer, cynnifer; nifer gwastad, rhif gwastad, nifer cyfartal.

Of an even number, } cyfnifer, cyfniferog,
Of even number, } cynnifer, cynniferog, cynniferol, cyfniferol.

To make of even number—cyfniferu, cynniferu.

Is it even or odd?—ai cynnifer ai anghynnifer ydyw? ai cyfnifer ai amnifer yw?

To play even and odd—chwareu cynnifer ac amnifer; chwareu cynnifer ac anghynnifer; chware cyfnifer ac anghyfnifer.

Even of temper, } gwastadfryd, gwastad-
Of even temper, } frydig, tawelfryd, tawelfrydig, addwynfryd, addwynfrydig, cyfartalfryd; gwastad ei fryd; tawel ei fryd; tawel ei feddwl.

Even balance—mantol gywir *neu* gymhwys; tafal gywir *neu* gymhwys; clorianau cyfiawn *neu* gywir.

Even mind — gwastadfryd; meddwl cyfartal, gwastad, digynhwrf, tawel, *neu* ddigyffro.

Even-shorn—gwastad-gnaif.

To make even — cyfartalu, gwastadhau, gwastatu, gwastadu, gwastatäu, gwastata, cystadlu; gwneuthur yn wastad, yn gydwastad, yn gyfiadd, *neu* yn gyfartal; unioni, uniawnu; gwneuthur yn

uniawn ; llyfnhau, llyfnu, gorllyfnu ; cywiro, cymhwyso, cymmoni; gwneuthur yn llyfn *neu* yn gywir ; cyfio, argyfio.

To make even a reckoning — cyfartalu cyfrif, gwastatu cyfrif, cymmoni cyfrif ; talu cyfrif ; talu yr hyn sy'n dygwydd ar un.

To lay even with the ground—gwneuthur yn gydwastad â'r llawr ; gwneuthur yn un â'r llawr.

Even to the mark—hyd y nod.

Even with the edge—cyfor, cyforiog ; hyd y byl ; hyd yr ymyl.

Even with to-day—cyfer i heddyw.

I will be even with you—mi a fyddaf gyda chwi ; mi a fyddaf gymhwys â chwi ; mi a dalaf y pwyth i chwi.

Now we are even—yr ydym yn awr y naill gystal a'r llall ; yr ydym yn awr y naill gyfuwch a'r llall ; yr ydym yn awr gyda'n gilydd.

Very even—gorwastad ; gwastad iawn.

To bear affliction with an even mind—dwyn cystudd yn ddyoddefgar ; goddef cystudd yn amyneddgar ; dwyn cystudd yn wastadfrydig.

My foot standeth in an even place—fy nhroed sydd yn sefyll ar yr uniawn (*Salm* xxvi. 12).

Even, *v. a.* gwastatu, gwastadhau, gwastatäu, gwastata, cyfartalu, cystadlu ; gwneuthur yn wastad, yn gydwastad, yn gyfladd, *neu* yn gyfartal ; unioni, uniawnu ; gwneuthur yn uniawn ; llyfnu, llyfnhau, gorllyfnu ; cywiro, cymhwyso, cymmoni ; gwneuthur yn llyfn *neu* yn gywir ; cyfio, argyfio, cydraddu.

Even,† *v. n.* bod yn gyfartal *neu* wastad.

Even, *ad.* sef, ïe, ïa, ys ef ; yn ddïau, yn wir ; nid amgen, nid amgen na ; sef yw hyny ; hyd yn oed, hyd y nod, nod ; yn gyffelyb ag, màl ag, fàl ag, fel ag, megys ag ; yn yr un modd ; yn y cyffelyb fodd ; felly, efelly ; cymmaint ag ; hefyd.

Even so—efelly, felly ; fel, fàl, màl ; yn wir.

It is even so—felly y mae.

Even as—fel, fàl, màl, màl ag.

Be it even so—bid, boed, *neu* bydded felly.

They found it even so—hwy a gawsant felly ; hwy a'i cawsant efelly.

Even now—y mynyd hwn ; yn y mynyd hwn ; yr awr hon ; yn awr hyn ; yn y màn.

Even when I wrote—hyd yn oed pan yr ysgrifenwn.

Even in one day—hyd yn oed un dydd.

Love all men, even thy enemies—câr bawb, hyd yn oed dy elynion ; câr bawb, nod dy elyn.

Evene,† *v. n.* (Ll. *evenio*) dygwydd, dygwyddo.

Evener, *s.* (o *even*) gwastatydd, gwastatwr, cyfartalwr, unionwr.

Evenhand, *s.* (*even* a *hand*) llawgywirdeb, cydraddoldeb, cyfartaledd, cyfartalwch, cyfartalrwydd, llawgymhwysder, cystadledd, diduedrwydd, gwastadrwydd.

Evenhanded, *a.* llawgywir, gwastadlaw, llawgymhwys ; diduedd, dïogwydd, anmhleidgar, cywir, clau; cyfiawn, uniawn, iawn, gwastad.

Evening, } *s.* (o *even*) hwyr, yr hwyr, ucher,
Even, } echwydd, yr echwydd, diwedydd, prydnawn, pyrnawn, cyfnos, min nos, min y nos, gohwyr, pryd echwydd, gosper, min yr hwyr, gogyfnos, goddiwedydd, godechwydd, cwddechwydd, cyflychwyr, llychwyr, llychwr, gorchyfarwy, gorchyferwy, gorchafarwy, chwinsaf, chwinsa, chwinsang, ucherddaw ; prydnawngwaith.

Last evening, } neithwyr ; pryd-
Yesterday evening, } nawn doe ; yr hwyr doe ; doe brydnawn.

In the evening, } yn yr hwyr, &c.; yn
At evening, } lleigus, yn llegus ; yn hwyr y dydd.

In the dusk of the evening—yn y cyfnos, yn y gogyfnos, yn y cyflychwyr ; yn nghyflychwyr dydd a nos ; gyda'r hwyr ; gàn yr hwyr ; yn min y nos, yn min nos ; yn min yr hwyr ; yn nghyfliw gwr a llwyn ; yn chwinsaf ; yn y chwinsang ; rhwng gwawl a gwyll ; rhwng y ddau oleu ; yn ngwyll y nos.

To draw towards evening — hwyrhau, ucheru ; myned yn hwyr ; tynu yn hwyr ; llaesu i hwyrhau.

The evening approaches—mae hi yn hwyrhau ; mae yn myned yn hwyr ; mae hi yn tynu at yr hwyr *neu* y nos.

The evening crowns the day—prydnawn y mae nabod gweithiwr ; yn y prydnawn y mae adnabod gweithiwr.

The first of evening—cynechwydd.

Evening, *a.* hwyrol, prydnawnol, pyrnawnol, ucherol, cyfnosol, gogyfnosol, hwyr, echwyddol.

Evening prayer — gweddi brydnawnol, prydnawnol weddi ; gosper.

Evening song—hwyrgan, uchergan, nosgan ; càn hwyrol, &c.

Evening hymn—emyn hwyrol, emyn hwyr, emyn prydnawnol, emyn ucher.

Evening primrose—briallu yr hwyr, hwyr friallu.

Evening star—Gweno, Ucheron, Gwener (pan yn weladwy yn yr hwyr) ; y seren hwyrol, y seren hwyr, seren yr hwyr, seren y nos ; Hesper, Hesperus.

Evening twilight—min nos, min y nos, y cyflychwyr, gorchyfarwy, gorchyferwy, min yr hwyr, cyfnos, gwyll y nos ; cyfliw gwr a llwyn.

Even-keel, *s.* gwaelod gwastad, trumbren gwastad, cilbren gwastad.

Evenly, *ad.* yn wastad, &c.; yn llorwedd.

Evenminded, *a.* gwastadfrydig, gwastadfryd, tawelfrydig, tawelfryd, addwynfryd, addwynfrydig ; gwastad ei feddwl ; tawel ei fryd.

Evenness, *s.* (o *even*) gwastadrwydd, cydwastadrwydd, cyngwastadrwydd, gwastadoldeb, gwastadedd, gwastadolrwydd ; cyfartalwch, cyfartaledd, cyfartalrwydd ; llyfnder, llyfndra, llyfnedd ; cydraddoldeb, cyfraddoldeb, cyfraddwch ; tegwch ; tawelwch, arafedd ; unffurfiaeth, unweddoldeb, unwedd ; gwastadfrydedd, tawelfrydedd ; cyfoldeb, gogyfoldeb ; llorweddogrwydd.

Evenness of mind—gwastadfrydedd, gwastadfryd, tawelfrydedd, tawelfryd, gwastadrwydd meddwl, cyfartaledd meddwl, addwynfrydedd, addwynfryd ; arafwch, tawelwch, cymmodlonedd ; meddwl cyfartal, gwastad, digyffro, *neu* ddigynhwrf.

Evenness of number—cyfniferedd, cynniferedd, cyfniferwch, cynniferwch, cyn-

niferoldeb, cyfniferogrwydd, cyfartaledd rhifedi.

Evensong, *s.* (*even* a *song*) gosper, prydnawnol weddi, gweddi brydnawnol, gwasanaeth prydnawnol; yr hwyr, ucher.
Mattins and evensong—plygain a gosper; pylgain a gosper; boreuol a phrydnawnol weddi.

Event, *s.* (Ll. *eventus*) dygwydd, dygwyddiad, damwaen, dychwaen, damchwaen, chwaen, chwŷl, perwyl, hap, hab, ham, amgylchiad; dyben, diwedd; y peth à ddygwyddo; canlyniad; yr hyn a ddaw o beth.
At all events—dygwydded à ddygwyddo; deued à ddel; doed à ddelo; bydded fel y byddo.
In the event—os dygwydd, o dygwydda; pe dygwyddai, pe hapiai; yn y dygwyddiad; a bod hyny yn bod; os, od, o.
What was the event of it?—beth a ddaeth o hono?
The events of seasons and times—yr hyn a ddamwaen mewn tymmor ac amser (*Doeth.* viii. 8).
What shall be the event—pa beth a ddygwyddo (2 *Mac.* ix. 25).

Event,† *v. n.* tori allan.

Eventerate, *v. a.* (Ff. *éventrer;* o'r Ll. *e* a *venter*) bolrwygo, diberfeddu, dadberfeddu; tynu y perfedd *neu* yr ymysgaroedd allan; rhwygo yr ymysgaroedd; agor y perfedd; rhwygo yn agored.

Eventful, *a.* dygwyddlawn, dygwyddfawr, haplawn, perwylfawr; llawn dygwyddion, llawn damweiniau; pwysig, pwysfawr; dwys ei ganlyniadau; dygwyddiadol; argoeliog, argoelfawr, argoelus.

Eventide, *s.* (*even* a *tide*) hwyr, yr hwyr, ucher, diwedydd, echwydd, cyfnos, gogyfnos, min nos, godechwydd, ucherddaw.

Eventilate, *v. a.* (Ll. *eventilo*) nithio, gwyntyllio, dyffuglio; gogrynu; chwilio, trychwilio, chwalu, dyfal chwilio, manol chwilio, chwilio yn fanwl, dwys holi, dyholi.

Eventilation, *s.* nithiad, nithiant, gwyntylliad, dyffugliad; chwiliad, trychwiliad, dyholiad, manwl holiad, dyfal chwiliad.

Eventual, *a.* (o *event*) dygwyddol, dygwyddiadol, damweiniol, hapiol, chwaenol, perwylus; canlyniadol; terfynol, diweddol, dybenol; diweddaf.

Eventuality, *s.* dygwyddoldeb, dygwyddolrwydd, dygwyddoledd.

Eventually, *ad.* o'r diwedd, yn y diwedd; yn ddiweddaf, yn olaf; yn derfynol.

Eventuate, *v. n.* (o *event*) dygwyddo, dygwydd, damweinio; terfynu, talmu, diweddu, dybenu, darfod, tachweddu.

Ever, *ad.* (S. *æfre, efre*) byth, yn dragywydd, yn dragwyddol, yn dragywyddol, yn dragyfyth, bob amser, yn wastad, yn wastadol, yn oestad, yn oestadol; erioed; yn barhäus; o amser i amser; beunydd a byth; yn fythol, yn bythol; pyth, un amser, rhyw amser, ryw amser, ar ryw amser; unrhyw amser.
For ever—byth, tros byth, tros fyth, yn dragywydd, yn dragywyddol, yn dragwyddol, yn oes oesoedd, byth bythoedd, hyd byth, am byth, hyd dragwyddoldeb, yn oestad; yn llwyr.
For ever and ever—byth bythoedd, byth bythol, byth ac yn dragywydd, yn oes oesoedd, byth tragwyddol, byth heb ddiwedd, hyd eithaf tragywyddoldeb; heb dranc na gorphen.
Ever and anon—byth a hefyd; ambell waith; ambell dro; yn awr a phryd arall; yn awr ac eilwaith; yn awr ac yn y màn; yn fynych; weithiau.
Ever after—byth gwedi, byth wedi; byth gwedi hyn *neu* hyny; oddi ar hyny eto; o hyny eto; er y pryd hwnw; er y pryd hyny; o hyny allan.
Ever before—erioed o'r blaen; erioed cyn hyn *neu* hyny; yn wastad *neu* yn oestad o'r blaen; byth cyn hyn *neu* hyny; byth o'r blaen.
Ever since—er pan; oddi ar pan; er hyny o amser; er hyny eto; oddi ar hyny eto; byth oddi ar; byth er; byth oddi ar hyny.
Or ever, / Ere ever, } cyn.
Ever so poor—cyn dloted, càn dloted; màr dlawd, tloted.
Though he be ever so poor—er tloted y byddo; pa gyn dloted bynag y byddo; bid màr dlawd ag y bo; bydded dloted ag y byddo.
As soon as ever—cyn gynted ag; càn gynted ag; cynted ag; cynted byth ag; cyntaf byth ag; yn gyntaf byth ag; gyntaf byth ag; hwy yn gyntaf ag.
As soon as ever I can—cyntaf byth ag y gallwyf; cynted byth ag y gallof.
Did you ever perceive? — a ddeallasoch chwi erioed?
If ever you come to these parts—os byth y deuwch i'r parthau hyn; os un amser y dowch i'r parthau yma.
Ever since the house was finished—er pan orphenwyd y ty; byth wedi gorphen y ty.
Ever since his father's time—er amser ei dad eto; oddi ar amser ei dad eto; byth er amser ei dad; byth oddi ar amser ei dad.
Ever so little—y tipyn lleiaf, y gronyn lleiaf, y mymryn lleiaf, y peth lleiaf, y dim lleiaf, y maint lleiaf, yr ychydig lleiaf; er lleied.
Be it ever so little—er lleied fo; er lleied fyddo; bid màr fychan ag y bo; bydded cyn lleied ag y byddo; er lleied y byddo; pa gàn lleied bynag y byddo; bynag pa màr fychan *neu* ychydig y byddo.
Ever drunk, ever dry—yn ol yfed syched y sydd; ar ol yfed syched y sy; po mwyaf fo yr yfed, mwyaf fydd y syched.
Or ever they came at the bottom of the den—ac ni ddaethant i waelod y ffau (*Dan.* vi. 24); cyn eu dyfod i waelod y ffau.

Everactive, *a.* bythfywiog, bythweithgar, bythweithredol; gweithgar bob amser.

Everblessed, *a.* bythfendigaid, bythfendigedig, bythwynfydedig, bendigaid byth.

Everbubbling, *a.* bythferw, bythferwol, bythfwrlymol; yn bwrlymu yn barhäus.

Everburning, *a.* bythlosg, bythlosgol; anniffoddol, anniffodd; yn llosgi byth; yn llosgi byth heb ddiwedd.

Everchanging, *a.* bythnewidiol; yn newid yn barhäus; tra chyfnewidiol.

Everduring, *a.* bythbarhaol, bythbarhäus; à bery byth; yn parhau yn dragywydd.

Everglade, *s.* (*ever* a *glade*) bythledd, bythlanerch; darn o dir gorchuddiedig gàn ddwr a glaswellt.

Evergreen, *a.* (*ever* a *green*) bythwyrdd, gwastadwyrdd, bytholwyrdd, bythddeiliog, gwyrdd yn wastad, gwyrdd bob amser, gwyrdd drwy y flwyddyn, bythlas, bythwyrddog, bythwyrddain, glas bob amser, glas yn wastad, glas drwy y flwyddyn, beidiog; anwyw, anwywedig, anwywol.

Evergreen, *s.* bythwyrdd, beidiog, bythddeiliog, bythlas, bythwyrddyn; llysieuyn bythwyrdd, &c.;. planîgyn anwyw: *pl.* bythwyrddion.

Everhasting, *a.* bythfrysiol, bythfrysgar, bythbrysur.

Everhonoured, *a.* bythfygedog, bythfygedig, bythfyged, bythfygedol, bythfyg, bythbarchus, byth-anrhydeddus, anrhydeddus byth.

Everlasting, *a.* (*ever* a *lasting*) tragwyddol, tragywyddol, bythol, tragywydd, tragyfyth, bythbarhäus, bythbarhaol, didranc, diddarfod, gwastadol, oestadol, trabythol, tragwyddog, pythol, pythig, bythig, oesol, tragywyddog, tragwydd, annherfynol, diddiwedd; bythfywiol, anfarwol; à bery byth.

To make everlasting—tragwyddoli, tragywyddoli, bytholi, tragwyddogi; gwneuthur yn dragywyddol; anfarwoli.

The everlasting hills—bryniau tragywyddoldeb (*Gen.* xlix. 26); y bryniau tragywyddol.

Everlasting, *s.* tragwyddoldeb, tragywyddoldeb, tragwyddolrwydd, tragwyddolder, tragywyddolrwydd, tragywyddolder, tragwyddoledd, bytholrwydd, bytholdeb, bytholder, bythigrwydd, byth, tragwyddogrwydd, tragwyddogder; anfarwoldeb.

Everlasting, *s.* edafeddog, yr edafeddog; bythlys, bythiglys.

Everlasting pea—ydbys parhäus, ydbys tragwyddol; ydbysen barhäus gulddail.

Everlastingly, *ad.* yn dragwyddol, &c.; byth, tros byth, tros fyth, hyd byth, byth bythoedd, byth bythol, yn oes oesoedd, hyd dragywyddoldeb.

Everlastingness, *s.* tragwyddolrwydd, tragywyddolrwydd, tragwyddolder, tragywyddolder, tragwyddoledd, bytholrwydd, bytholdeb, tragywyddoldeb.

Everliving, *a.* (*ever* a *living*) bythfywiol, bywfyth; anfarwol; yn byw byth; bythfodol; tragywyddol, tragwyddol, bythol; bythbarhäus; yn byw bob amser.

Evermemorable, *a.* bythgofiadwy, bythgofus, byth-wiwgof, byth-hygof; i'w gofio byth.

Evermore, *ad.* (*ever* a *more*) yn wastadol, yn wastad, yn oestadol, yn oestad, bob amser, yn ddidranc, yn ddiddiwedd, yn ddiddarfod, yn ddidawl, yn barhäus; yn dragywydd, yn dragwyddol, yn dragywyddol, byth, dros byth, hyd byth, am byth, yn oes oesoedd, byth bythoedd; heb dranc na gorphen.

Everopen, *a.* bythagored; agored yn wastadol; na chauir byth.

Everpleasing, *a.* bythfoddhaol; hyfryd bob amser; à foddha yn wastadol.

Everrecurring, *a.* byth-adgyrchol, byth-ddadredol, byth-ddychweliadol; yn darymchwel o hyd.

Everse,† *v. a.* (Ll. *eversus*) dymchwelyd, dymchwel.

Eversion, *s.* (Ll. *eversio*) dymchweliad, dadymchweliad; dinystr, dystryw, dinystrad, dystrywiad.

Eversion of the eyelids—dymchweliad yr amrantau.

Eversmiling, *a.* bythwenol; yn gwenu bob amser; yn gwisgo gwên wastadol.

Evert, *v. a.* (Ll. *everto*) dymchwelyd, dadymchwelyd, dymchwel, chwelyd; dinystro, dystrywio, dyfetha.

Eververdant, *a.* bythirlas, bythwyrdd, gwastadwyrdd, bythlas, bythwyrddlas, bythwyrddain, bythwyrddin, bythwyrddonig, bytholwyrdd; gwyrdd, glas, *neu* irlas yn wastadol.

Everwaking, *a.* byth-effro, byth-effroawl.

Everwasting, *a.* byth-ddifaol, byth-dreuliol.

Everwatchful, *a.* byth-wylgar, byth-wyliadwrus, byth-ofalus, byth-wylfawr, byth-wylig.

Every, *a.* (o *ever*; hen Seis. *everich*; S. *æfre*, ac *ælc*) pob; pawb.

Every man—pob dyn, pob gwr; pawb.

Every one—pob un; pob rhyw un; pawb, heb adaw un.

Every thing—pob peth, pobpeth; pob dim.

Every body—pob un, pob dyn; pawb; pob rhyw ddyn; pob rhyw un; un ac arall; pawb oll; un ac oll; y cwbl i gyd, y cwbl oll, i gyd oll.

Every person—pob dyn, pob un; pawb.

Every day—pob dydd; bob dydd, beunydd, peunydd, peunyddiol, beunyddiol.

Every night—pob nos; bob nos, peunos, beunos, peunoeth, beunoeth.

Every bit, } pob tipyn, pob tamaid; bob
Every whit, } tipyn, bob tamaid, bob mymryn, bob hyfflyn; yn hollol, yn gwbl, yn llwyr, achlân; y cwbl; pob dim; bob dim.

On every side—ar bob tu, ar bob ystlys, ar bob ochr, o bob ochr, o bob tu, o bobtu, o bob parth; yn mhob lle o amgylch; yn mhob màn o amgylch; pobtu, o beutu, ar beutu.

Every way—pob ffordd; bob ffordd, yn mhob ffordd; tua phob lle; i bob ffordd; o bob parth; ollwedd.

Every year—pob blwyddyn; bob blwyddyn; o flwyddyn bwygilydd; o flwyddyn bygilydd; o flwyddyn i flwyddyn; yn flyneddol; o'r naill flwyddyn i'r llall.

Every thing by itself—pob peth ar ei ben ei hun.

Every bean has its black—nid oes neb heb ei fai; nid difai neb a aned.

Excuse, *s.* esgus, esgusawd, esgusod, diheurad, diheurawd, ymesgus; ateb i esgusodi, i ymesguso, *neu* i ddiheuro; rhith, cyfrith, ffuant, ffug; asswyn, esswyn, ymasswyn.

Excuse for non-appearance in court — asswyn, esswyn.

To make an excuse for one's self — ymesgusodi, ymesguso, ymddiheuro, ymlanhau, ymddifeio; ymasswyno, ymesswyno, ymasswyn.

Without excuse = *Excuseless.*

Excuseless, *a.* dïesgus, anesgusadwy; anesgusodol, anesgusol.

Excuser, *s.* esguswr, esgusydd, esgusodwr, esgusodydd, diheurwr, diheurydd, difeiwr.

Excuss,† *v. a.* (Ll. *excussus*) ysgwyd ymaith; gafaelyd a chadw; attafaelu.

Excussion,† *s.* gafaeliad, attafaeliad.

Execrable, *a.* (Ll. *execrabilis*) melltigaid, melltigedig; esgymun, ysgymun, ysgeler, echryslawn, adgas, achas, dygas, hygas, cas, anfad, erchyll, ffiaidd, ffieiddgas, diriaid, diried, melltithiol, diras, dyhir.

Execrate, *v. a.* (Ll. *execror*) melltigo, melltithio, rhegu; ffieiddio, dygn gashau, cashau, llwyr gashau, trachashau, dygashau; cashau o eigion calon; gorchymyn *neu* offrymu i ddiafol.

Execration, *s.* (Ll. *execratio*) melltithiad, rhegiad; melltith, rheg, rhegfa, ymreg; ffieiddiad: *pl.* rhegfëydd, rhegau.

Execratory, *s.* melltitheg, ffurf melltithiad.

Exect, *v. a.* (Ll. *execo*) tori ymaith, tori ffwrdd, tori allan, trychu, ymeithu.

Exection, *s.* toriad ymaith, ffwrdd, *neu* allan; trychiad, ymeithiad.

Execute, *v.* (Ff. *exécuter;* Ll. *exequor*) gwneuthur, gwneyd, cyflawnu, cwblhau, dwyn i ben; dwyn, gwasanaethu, cyflawnu, *neu* wneuthur swydd; bod mewn swydd; dïenyddio, dïenyddu, marwolaethu, lladd; crogi; gosod, rhoi, *neu* fwrw ar; effeithio; llofnodi; llofnodi a selio; cadarnhau, gosod mewn grym.

To execute judgment — gwneuthur barn; barnu; iawn farnu.

To execute vengeance — talu dïal; gwneuthur dïal *neu* ddïaledd; dïal ar.

To execute a malefactor — dïenyddio *neu* ddïenyddu drygweithredwr; rhoddi *neu* osod drwg weithredwr i farwolaeth; crogi drygweithredydd.

To execute an office — dwyn, gwasanaethu, cyflawnu, *neu* wneuthur swydd; bod mewn swydd.

To execute the office of another — dirprwyo arall; cyflawnu swydd un arall.

Executer, *s.* gwneuthurwr, gwneuthurydd, cyflawnwr, cwblhäwr, gweithredydd.

Execution, *s.* (Ll. *executio*) gwneuthuriad, cyflawniad, cwblhad, dygiad i ben, gweinyddiad, gweithrediad, goberiad; dïenyddiad, dïen, dïenydd, artaith; crogiad; dystryw, dinystr, lladdfa; effaith; attafael; attafaeleb, gafaeleb, gwarant.

Place of execution — dïenyddfa, dïenyddle, arteithfa, lle dyoddef, bryn dyoddef.

To do great execution — gwneuthur mawr ddifrod; lladd yn garneddau; lladd yn gelaneddau; gwneuthur galanasdra, llanastr, *neu* gyflafan; gwneuthur lladdfa fawr; gwneuthur *neu* osod yn gelanedd; difrodi, dinystro.

He suffered execution — dyoddefodd farwolaeth; goddefodd ddïenyddiad; cafodd ei ddïenyddu.

When he was carried to execution — pan ddygid ef i'w ddïenyddu; ac efe yn myned i'r ddïenyddfa.

Executioner, *s.* dïenyddwr; crogwr, crogydd; dïaleddwr; lladdwr, dïeneidiwr; yr offeryn drwy yr hwn y dygir y peth i ben; gwneuthurydd, cyflawnydd.

Executive, *a.* gwneuthurol, gwneuthuriadol, cyflawniadol, gweinyddol, gweinyddiadol, gweinyddiol, gweithrediadol, gweithredol, gorchwyliaethol; perthynol i wneuthuriad *neu* gyflawniad; yn dwyn i ben; à ddwg i ben.

Executive government — llywodraeth weinyddol, llywodraeth gyflawniadol.

Executive power — gallu gweinyddol, y gallu gwneuthurol.

Executive, *s.* swyddog gweinyddol, gweinyddwr y gyfraith; gweinidydd; gweinyddiaeth, gweinifiaeth, gallu gweinyddol, gweinidrym.

Executor, *s.* (Ll.) olweinydd, cymmynweinydd,

gwyllysweinydd, gweinydd gwyllys, goruchwyliwr llythyr cymmyn, cyflawnwr ewyllys diweddaf, cymmyniadur, gweinyddwr, gweinifiad.

Executorial, *a.* gweinyddol, gweinyddiaolol; olweinyddol, cymmynweinyddol; perthynol i gymmynweinydd.

Executorship, *s.* olweinyddiaeth, cymmynweinaeth, gwyllysweiniaeth, gwyllysweinid; cymmyniadaeth; swydd olweinydd, goruchwyliaeth llythyr cymmyn.

Executory, *a.* swyddweinyddol, swyddweinifiol; yn cyflawnu dyledswyddau swyddogol; i'w weinyddu; i'w ddwyn i ben; idd ei gyflawnu.

Executrix, } *s.* olweinyddes, cymmynweines,
Executress, } cymmynweinyddes, gwyllysweines, gwyllysweinyddes, gweinyddes llythyr cymmyn.

Exedra, } *s.* (Gr.) cyntedd, porth; ymddy-
Exhedra, } ddanfa.

Exegesis, *s.* (Gr.) egluriadaeth, esboniadaeth, deongliadaeth; esboniad, deongliad, eglurhad, eglurad, egluriad; eglurdraith.

Exegetical, } *a.* (Gr. *exégéticos*) esboniadol,
Exegetic, } eglurhaol, egluriadol, eglurhadol, deongliadol, eglurol; yn egluro, à egluro, yn eglurhau, yn esbonio; perthynol i esboniadaeth.

Exegetics, *s.* esboniadaeth, egluriadaeth, egluriadeg, deongliadaeth; dwyfyddiaeth egluriadol.

Exegetist, *s.* un hyddysg mewn esboniadaeth; un medrus mewn duwinyddiaeth esboniadol.

Exemplar, *s.* (Ll.) cynllun, cynddelw, cynnelw, cynddull, cynffurf, rhagddull, egluryn, rhagddarlun, rhaglun, cynnrych, dangoseb, anghraifft, enghraifft, engraff, sampl; tystbrawf; yr hwn *neu* y peth y byddo ynddo gynllun i'w ganlyn.

Exemplar of rhetoric—egluryn ffraethineb.

Exemplarily, *ad.* yn ddylynwiw; mewn modd gwiw *neu* deilwng i'w ganlyn; mewn modd teilwng *neu* wiw i'w ddylyn; ar wedd enghraifft; yn enghraifft, yn gynllun.

Exemplariness, } *s.* gwiwdeb, teilyngdod, *neu*
Exemplarity, } addasrwydd i gael ei ddylyn; teilyngdod, gwiwdeb, *neu* addasrwydd i gael dylyniad; gwiwdeb *neu* deilyngdod i gael ei osod ger bron megys cynllun; enghreifftioldeb, engraffoldeb, engraffolrwydd, cynnelwedd, dylynwiwdeb; teilyngdod, gwiwdeb; hynodrwydd, digymharedd.

Exemplarity of life—telediwrwydd buchedd, difrycheulydrwydd buchedd; gwiwdeb buchedd i gael ei hefelychu; enghreifftiolrwydd buchedd.

Exemplary, *a.* (o *exemplar*) dylynwiw, canlynwiw; anghreifftiol, enghreifftiol, engraffol; gwiw, hywiw, teilwng, *neu* addas i'w ganlyn, i'w ddylyn, *neu* i'w efelychu; à wasanaetha yn enghraifft *neu* gynllun; à rydd gynllun *neu* anghraifft; adluniol; nodedig, hynod, nodol; ardderchog, godidog, rhagorol, digymhar, anghymharol, dihafal, dihefelydd; heb ei fath; teilwng, gwiw; eglurhaol.

An exemplary life—buchedd wiw i bawb ei dylyn; buchedd ddylynwiw *neu* enghreifftiol; buchedd deledwiw *neu* ddifrycheulyd; buchedd ragorol.

Exemplary punishment—cosp enghreifftiol; cosp er rhybudd *neu* anghraifft i ereill; cosp i ereill gymmeryd rhybudd oddi wrthi; cospedigaeth i ereill ei chymmeryd yn rhybudd.

Exemplification, *s.* (o *exemplify*) eglurhad drwy anghraifft; anghreifftiad, enghreifftiad, engraffiad; rhoddiad *neu* ddygiad anghraifft er profi *neu* er egluro; cynnelwad, cynddelwad, dangosiad, arddangosiad, eglur ddangosiad, egluriad, eglurhad, darluniad; tystbrofiad; cyfysgrif, cyfysgrifen, cysgrif, cysgrifen, adysgrif, adysgrif awduredig, tystysgrif.

Exemplifier, *s.* eglurwr, eglurydd, enghreifftiwr; rhoddwr enghreifftiau; eglurydd drwy gynlluniau; adysgrifenydd.

Exemplify, *v. a.* (o'r Ll. *exemplar*, *exemplo*) egluro drwy anghraifft *neu* anghreifftiau; rhoddi enghraifft; anghreifftioli, enghreifftioli, engraffu, egluro, eglurhau, dangos, arddangos; profi, tystbrofi; dwyn anghraifft, *neu* enghreifftiau er eglurhad *neu* gadarnhad; cadarnhau, eglurhau, egluro, dangos, *neu* brofi drwy anghraifft; egluro *neu* gadarnhau drwy anghreifftiau; adysgrifenu, adysgrifo, ysgrifenu allan, cyfysgrifo, cysgrifo, tystysgrifo; dangos *neu* brofi â thystysgrif.

Exempt, *v. a.* (Ff. *exempter*; Ll. *exemptus*) rhyddhau, dirwymo, esgusodi, esguso; rhyddhau oddi wrth rwymedigaeth *neu* ddyledswydd; breinioli; gadael *neu* roi yn rhydd.

To be exempted—bod yn rhydd; cael ei ryddhau; bod wedi ei ryddhau.

Exempt, *a.* (Ll. *exemptus*) rhydd, afrwym, dirwym; esgusodol; rhyddedog, breiniog, breiniol; à ryddhäwyd; gwedi ei ryddhau; na wnel wasanaeth; na byddo rwym i wneuthur gwasanaeth; didreth; na thâl dreth, &c.

Not exempt—rhwym; heb fod yn rhydd.

Exempt, *s.* un rhydd, un afrwym; rhyddai; yr esgusedig.

Exemptible,† *a.* rhydd; breiniog.

Exemption, *s.* (Ll. *exemptio*) rhyddhad; rhyddid, rhyddineb, rhydd-did, rhydid, rhydded, trwydded; braint, rhyddfraint; afrwymiad, breiniad.

Exemptitious,† *a.* (o'r Ll. *exemptus*) gwahanadwy; dydoladwy; à ellir ei gymmeryd ymaith.

Exenterate, *v. a.* (Ll. *exentero*) diberfeddu, dadberfeddu; tynu allan y perfedd *neu* yr ymysgaroedd.

Exenteration, *s.* (Ll. *exenteratio*) diberfeddiad, dadberfeddiad.

Exequatur, *s.* (Ll.) cydnabyddeb.

Exequial, *a.* (Ll. *exequialis*) angladdol, arwyliannol, arwyliannus, arwylawl; perthynol i angladd; yn perthyn i angladdau.

Exequies, *s. pl.* (Ll. *exequiæ*) arwyl, arwyliant, defodau angladdol, defodau angladd, arwyldefodau.

Exercent, *a.* (Ll. *exercens*) yn arferu, yn ymarferu; à arfero; preithiol; yn dylyn, yn canlyn.

Exercisable, *a.* arferadwy, ymarferadwy, preithiadwy.

Exercise, *s.* (Ll. *exercitium*; Ff. *exercice*) ymarfer, ymarferiad, ymadferth, ymrwysiad, preithiad, preithiant, praith; gorchwyl, gwaith, gorchwylwaith, angenwaith, trafferth; arfer, cynnefindra; llafur, gwaith; golafur, ymlafur, gowaith, gochwarc, ym-

breithiad, difyrwaith, dyddanwaith, ysgafnwaith; gwneuthuriad, cyflawniad, gweithrediad; gwneuthuriad dyledswydd; gwneuthuriad swydd, gwasanaethiad swydd; egnïad, ymegnïad; ymdrech; arferiad, defnyddiad, cynnefiniad; ymdreidiad; ymadferthiad; trin, triniaeth, triniad, arferiaeth; gorchwyliaeth; tasg, dogn, gwers; cynwaith; preithiadur; profwaith, tasgwaith, dognwaith.

English exercises—preithiadur Seisonig, preithiadur Seisoneg; preithiau Seisonig, preithiadau Seisonig.

Exercise of soldiers—ymarferiad, ymarferwaith, preithiant, praith, *neu* hyfforddiad milwyr; trin, triniad, *neu* driniaeth arfau er cyrhaedd hyfedredd ac esgudrwydd.

Manly exercise—gwrolgamp, gwrolwaith, camp, gorchest, ymdrech-waith.

Honourable exercise—gwiwgamp, rhagorgamp, gwrolgamp, prif gamp.

Place of exercise—cammonfa, cynnefinfa, preithfa, preithle, lle ymarfer, talwrn ymorchest, ymorchestfa, ymarferfa; lle i ddangos gwrolgamp.

The first exercise—y cynbrawf, y cynbraith, y cynwaith; y dechreuad cyntaf ar gelfyddyd.

Vile exercises—helyntiau diffaeth, ymarferion cas.

Of exercise, } ymarferol, preithiol, ym-
For exercise, } adferthol; perthynol i ymarferiad.

Walking exercise—ymdreidiad.

To take exercise—golafurio, goweithio, difyrweithio, ymrwyso, ymadferthu, ymbreithio; cymmeryd ymadferth.

She is the daughter of exercise and temperance — merch ymadferth a chymmedroldeb yw hi.

Exercise, *v.* (Ll. *exerceo;* Ff. *exercer*) arferu, arfer, ymarferu, ymarfer, cynnefino, cynnefino â, ymgynnefino â, ymarfer â; gwneuthur, cyflawnu, gweithio, gweithredu, preithio, ymadferthu, ymrwyso; golafurio, goweithio, ymbreithio, difyrweithio; dysgu, addysgu, hyfforddi, hyddysgu, hyweddu, dysgyblu; cynnefino yn *neu* mewn; trin, ymdrin; dylyn galwad, gwaith, *neu* grefft; profi; ymegnïo, egnïo; defnyddio; ymhyddysgu, ymhyfedru, ymhyfforddi, ymdrin, ymgampio; anesmwytho; dàl ar waith; cadw ar waith.

To exercise one's self—ymarferu, ymarfer, ymarferyd, ymgynnefino, &c.; arfer ei hun; rhoi ei feddwl ar waith i ystyried peth er ei ddysgu; ymröi *neu* ymroddi i ystyried peth er ei ddysgu; dysgu peth drwy ei gynnefino; profi dysgu peth drwy ei gynnefino; profi gwneuthur peth yn hyfedr wrth fynych ymarfer âg ef; astudio; ymhyddysgu, ymhyfedru, &c.

To exercise one's self in—ymarferu â *neu* yn; ymarfer â *neu* yn; ymgynnefino â *neu* yn; ymarfer o beth.

To exercise an office—dwyn, gwasanaethu, trin, *neu* gyflawnu swydd; bod mewn swydd; defnyddio swydd; gwneuthur à ddylai.

To exercise authority—defnyddio *neu* arfer awdurdod; tra-awdurdodi, tra-arglwyddiaethu.

To exercise arms — trin arfau; trin eu harfau; ymhyddysgu, ymhyfedru, *neu* ymhyfforddi mewn arfau; ymarfer *neu* ymgynnefino âg arfau.

To be exercised in—ymgynnefino â *neu* yn; cynnefino â *neu* yn; ymarfer â *neu* yn; ymarferu yn *neu* âg; bod wedi ymgynnefino â, &c.; arferu, arfer, gnotäu.

To exercise alms—gwneuthur elusen.

Exercise thyself unto godliness—arfer dy hun i dduwioldeb; ymarfer â duwioldeb, ymarfer i dduwioldeb.

If thou exercise thyself in conferring with wisdom—os ymarferi âg ymddyddan â doethineb.

And herein do I exercise myself—ac yn hyn yr ydwyf fi fy hun yn ymarfer.

Neither do I exercise myself in great matters—ni rodiais chwaith mewn pethau rhy fawr; nid wyf fi chwaith yn ymyryd â phethau rhy fawr.

Blessed is he that shall be exercised in these things—gwyn ei fyd yr hwn a ymgynnefino â'r rhai hyn.

Exercised from a child in all points of virtue—wedi llafurio er yn fachgen yn mhob pwnc o rinwedd.

The people of the land have exercised robbery—pobl y tir a dreisiasant drais (*Ezec.* xxii. 29).

Those things in which they wickedly exercise themselves—y pethau à drinant mòr ysgeler (2 *Esd.* xv. 8).

Those who have their senses exercised to discern both good and evil—y rhai y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosbarthu drwg a da (*Heb.* v. 14).

An heart they have exercised with covetous practices—â chanddynt galon wedi ymgynnefino â chybydd-dra (2 *Pedr* ii. 14).

To be exercised therewith, } i ymguro, i
To be exercised in it, } ymflino, *neu* i ymgystuddio ynddo (*Preg.* i. 13; iii. 10).

Exerciser, *s.* ymarferwr, ymarferydd, cynnefinwr; y neb a gynnefino.

Exercitation, *s.* (Ll. *exercitatio*) ymarferiad, ymarfer, praith, preithiad, cynnefiniad, defnyddiad, arferiad; treithsylwad, preithnodiad, esboniad.

Exergue, *s.* (Gr. *ex* ac *ergon*) amofod; gwagle bychan o amgylch y lluniau ar fathodyn.

Exert, *v. a.* (Ll. *exero, exertum, exerto*) egnïo, ymdrechu, ymegnïo, ymorchestu, pybyru, ymröi; arferu yn egnïol; estyn, gosod, daugos, anfon, bwrw, *neu* yru allan; dynygu, dygno, dygnu, ephorthi, eni, eryfain; arferu, defnyddio; rhoi mewn gweithrediad; gwneuthur.

To exert one's self—ymegnïo, ymdrechu, ymdrech, ymorchestu, ymröi, ymadferthu, ymadferth, ymrwyso.

Exertion, *s.* egnïad, ymegnïad, ymdrechiad, ymdrech, ymadferth, ymorchest, ymorchestiad, ymroad, ymroddiad; cais, ymgais, argais, dargais, cynnyg, ymgynnyg, ephorth; dynygiad, dygniad; defnyddiad, arferiad; gwneuthuriad; estyniad *neu* osodiad allan.

Self-exertion — ymegnïad, ymdrech, ym-

drechiad, ymadferth, ymadferthiad, ymroad, ymrwysiad.
Over-exertion—goregnïad, goregni, gorymegnïad, &c.
Exertive, *a.* egnïol, ymegnïol, ymdrechol, ymorchestol, ymadferthol, ymroawl.
Exertment, *s.* egnïad, ymegnïad, ymdrechiad, ymdrech, ymadferth, ymorchest.
Exesion, *s.* (Ll. *exesus*) trygnoad, ysiad trwyadl, tryfwytad.
Exestuate, *v. n.* (Ll. *exæstuo*) berwi, ymferwi.
Exestuation, *s.* (Ll. *exæstuatio*) berwad, dyferwad, ymferwad, berw, berwedd, crychias, berwyd, brydiant.
Exfoliate, *v. n.* (Ll. *exfolio*) crisbilio, pilio, ymgrisbilio; fflochenu, ysgyrioni, dellta, delltenu.
Exfoliation, *s.* crisbiliad, piliad, ymgrisbiliad; fflocheniad, ysgyrionad, delltiad, delltheniad; ysgyrionad asgwrn.
Exfoliative, *a.* fflochenol, ysgyrnionol, crisbiliadol, crisbiliol.
Exfoliative, *s.* fflochenai, ysgyrnionai, crisbilydd; â baro grisbiliad *neu* fflocheniad.
Exhalable, *a.* (o *exhale*) tarthadwy, ageradwy, anweddadwy, hydarth.
Exhalant, *a.* tarthol, tarthiannol, tarthiadol, mygdarthol, agerol, hydarthol, tarthedigol.
Exhalation, *s.* (Ll. *exhalatio*) tarthiad, mygdarthiad, anweddiad, ageriad, agerddiad, anwyddiad; tarth, anwedd, mygdarth, agerdd, ager, agerw, anwydd, tawch, mygoddarth; mws; esgyniad yn darth, &c.; anadliad allan.
Exhale, *v. a.* (Ll. *exhalo*) tarthu, mygdarthu, anweddu, agerddu, ageru, tarthain, tarthio, dydarthu, anwyddo; bwrw agerdd, ager, *neu* fygdarth; bwrw allan darth, anwedd, ager, agerdd, *neu* fygdarth; anadlu allan, chwythu allan; gyru allan, anfon allan, rhoddi allan, rhoi i maes, tynu allan, gwehynu; anadlu.
Exhalement, *s.* tarthiad, tarthiant, anweddiad; tarth, mygdarth, anwedd, ager, agerdd, agerw, tawch.
Exhaling, *a.* tarthol, tarthiadol, tarthiannol, agerddol, agerol, mygdarthol, hydarthol.
Exhaling vessels — tarthlestri, llestri tarthol.
Exhaust, *v. a.* (Ll. *exhaurio, exhaustum*) dyhysbyddu, hysbyddu, gwaghau, dysbyddu, hyspu, dysychu, sychu i fyny; gwehynu, gwahenu, gwallofi; merthu, blino, lluddedu, llyferthu; llwyr dreulio, llwyr wanhau.
He exhausted his patrimony in luxury—llwyr dreuliodd ei dreftadaeth mewn difyrwch a moethau; efe a lwyr dreuliodd ei etifeddiaeth ar wttres a gloddest.
You have exhausted the treasury—chwi a lwyr anrheithiasoch y drysorfa; llwyr ysbeiliasoch y drysorfa; gwaghasoch y drysorfa.
My strength was almost exhausted—yr oedd fy nerth ar ddarfod; yr oedd fy nerth ar fyned.
Exhausted, } *a.* dyhysbyddedig, &c.; gwedi ei
Exhaust, } waghau, &c.; dyhysbydd, dysbydd, gwag, hysp; blin, blinedig, lluddedig, wedi blino, llyferthin, llyferthaidd, llyferthog, merthedig; ar ball, ar ddarfod; wedi darfod, wedi pallu.
Exhausted receiver—gwagell.
Exhauster, *s.* hysbyddwr, dyhysbyddwr, hysbyddiedydd, gwehynai, hysbyddor, gwaghäwr, gwagiedydd.
Exhaustible, *a.* hysbyddadwy, dyhysbyddadwy, dysbyddadwy, gwagadwy.
Exhausting, *a.* dyhysbyddol, hysbyddol, dysbyddol, gwaghaol; llyferthol, llyferthus, merthol, merthin, lluddedigol, lluddedus, blinderus.
Exhaustion, *s.* dyhysbyddiad, hysbyddiad, dysbyddiad, gwaghad, gwagiad, gwehyniad, gwallofiad; gwallawf, gwallofawd, gwehyn, gwahen; llyferthiad, llyferthiant, merthiad; hysbyddrwydd, merth, merthedd, merthrwydd, merthi, merthineb, merthusrwydd, llyferthineb, llyferthrwydd, llyferthusrwydd, lluddedigrwydd, blinedigrwydd, blinder.
Exhaustless, *a.* anhysbyddadwy, annysbyddadwy, annyhysbyddadwy, annyhysbydd, diddysbydd, anhysbydd, annysbydd, anhysbyddedig, annysbyddedig, anwehynedig, anwehynadwy; anhydraul, annarfodedig, annarfodadwy, diddarfod; nas gellir ei ddifa.
Exhaustment, } *s.* hysbyddiad, dyhysbyddiad,
Exhausture, } dysbyddiad, dysbyddiaeth, gwaghad, gwehyniad.
Exheredate, *v. a.* (Ll. *exhæredo*) dïetifeddu, didreftadu, dattifeddu, dadetifeddu, didattrefu; difuddio un o'i etifeddiaeth, treftadaeth, *neu* dreftad; dihawlio, difeddiannu.
Exheredation, *s.* (Ll. *exhæredatio*) dïetifeddiad, didreftadiad, dadetifeddiad, dattifeddiad, didattrefiad; difuddiad o dreftadaeth *neu* etifeddiaeth.
Exhibit, *v. a.* (Ll. *exhibeo*) dangos, arddangos; rhoi, gosod, *neu* ddwyn ger bron; gosod *neu* ddwyn allan; gosod yn ngŵydd pawb; rhoddi yn ngolwg; rhoddi, rhoi, gweinyddu, cynnyg; cyflwyno; darlunio, amlygu.
To exhibit to God a religious worship—rhoddi i Dduw addoliad crefyddol.
Exhibit, *s.* prawfysgrif, gweithred, gweithred ddangos.
Exhibiter, *s.* dangoswr, dangosydd, arddangoswr, arddangosydd; gosodwr allan; cyflwynydd.
Exhibition, *s.* (Ll. *exhibitio*) arddangosiad, dangosiad; arddangosfa, dangosfa, ymddangosfa; dangosiad ar gyhoedd; gosodiad allan; rhoddiad ger bron; cynnrychiad, amlygiad, agoriad, egoriad; dogn, tâl, cyfarwys, blwydd-dal, gwobr; clasged, clasfudd, llenfudd; taledigaeth, daffar.
Industrial exhibition — arddangosiad diwydiol, arddangosiad diwydrwydd; arddangosfa diwydrwydd.
Exhibitioner, *s.* clasgedog, clasfuddiog, llenfuddiog.
Exhibitive, } *a.* dangosol, arddangosol; cyn-
Exhibitory, } nrychiadol, cynnrychedigol, dangosedigol, darluniedigol; yn arddangos, yn gosod allan.
Exhilarant, *a.* (Ll. *exhilarans*) llonychol, llawenychol, llonedigol, lloniannol, llawenhaol, llawenol, llawenychol, llawenychaidd, gorhoenol, bywiogol.
Exhilarant, *s.* llonychydd, llonychai, llawenychydd, lloniannydd.
Exhilarate, *v. a.* (Ll. *exhilaro*) lloni, sirioli, llawenhau, llawenu, llonychu; lloniannu, lloneiddio, gorhoeni, bywiogi, bywioccáu.
Exhilaration, *s.* (Ll. *exhilaratio*) lloniad,

llawenhad, llawenychiad, llaweniad, lloniant, llonychiad, gorhoeniad, bywiocâd; llonedigaeth, llawenedigaeth, llawenwch, llonedd.

Exhort, *v.* (Ll. *exhortor*) annog, cynghori, cymhell; rhybuddio; erfyn ar, eiriol, atolwg, atolygu, dymuno, deisyfu, erfyn; cynhyrfu; dyddanu.

Exhortation, *s.* (Ll. *exhortatio*) annogaeth, annogiad, cynghoriad, annogedigaeth; cynghor, annog, rhybudd; dymuniad, eirioled, eirioledd, annogedigaeth; rhybuddiad; cysur, dyddanwch.

Exhortative, } *a.* (Ll. *exhortativus*) annogol,
Exhortatory, } annogaethol, annogiadol, annogedigol, annogiadus, annogus, cynghorol, cynghoriadol, cynghorus; rhybuddiol.

Exhorter, *s.* annogwr, annogydd, cynghorwr, rhybuddiwr.

Exhumation, *s.* (Ff. o'r Ll. *ex* a *humus*) dadgladdiad, anghladdiad, diddaiariad; codiad o'r bedd; symmudiad o'r ddaiar; egoriad bedd *neu* gladd.

Exhume, *v. a.* (Ff. *exhumer;* o'r Ll. *ex* a *humus*) dadgladdu, diddaiaru, anghladdu; codi o'r bedd; codi o'r ddaiar; agor bedd *neu* gladd.

Exiccate, *v. a.* (Ll. *exicco*)=*Exsiccate.*

Exiccation, *s.*=*Exsiccation.*

Exigence, } *s.* (Ll. *exigens*) angen, rhaid,
Exigency, } angenrhaid, rheidrwydd, dirangen, angenoctyd, angenrheidrwydd, eisieu, eisiwed, anhebgorwch, anhebgoredd, dirni, dir-achos, achlysur, achos, achwys; gofyniad, gofyn; achos yn gofyn; cyfyngder, ing, ingder, caledi.

According to the exigency of affairs—fel y byddo chwŷl, ansawdd, *neu* sefyllfa pethau yn gofyn.

According to the exigency of the times—yn ol y byddo yr amseroedd yn gofyn; fel y byddo yr amseroedd yn gofyn; yn ol fel y bo yr amseroedd yn gofyn.

Exigent, *s.* rheidwys, dirwys; rheidwg, dirangen, dir-achos, dir-alwad; achos *neu* ethryb dygwyddol; adeg ddygwyddol; achos disyfyd, dirnegeb; gorchwyl *neu* neges anhebgor; achlysur, achos; diwedd, terfyn.

To bring to an exigent—dwyn i gyfyngder, i gyfyng-gynghor, i'r dygn, *neu* i berygl; cyfyngu ar.

Upon an exigent—ar ryw achos dygwyddol; ar neb rhyw achos dygwyddol; pa bryd bynag y byddo yr achos yn gofyn.

Exigent, *a.* rheidiol, angenrheidiol, rheidus, rheidiog, angenus, angenog; cyfyng, ingol, gwasgol; tlawd.

Exigenter, *s.* (o *exigent*) rheidwyswr, rheidwysydd, rheidwysiadur = swyddog yn y deffys.

Exigible, *a.* (Ll. *exigo*) gofynadwy, gofynol, hawladwy, archadwy; â ellir fynu.

Exiguity, *s.* (Ll. *exiguitas*) bychander, bychandra, eiddilwch, eiddiledd, bychodrwydd; meinder.

Exiguous, *a.* (Ll. *exiguus*) bychan, eiddil, bychanig, bach; main.

Exile, *s.* (Ll. *exilium*, *exul*) alltudiaeth, alltudedd, alltudaeth, alltrodiaeth, deol, difröedd; alltudiad, alltrodiad, allwladiad, aethwladiad, deoliad, deolawd, deoledigaeth, difroad; alltud, gwr deol, gwr allfro, alltrawd, allwlad, difro, gwr difro, un difro, gorthordd, carddenyn, un alltudiedig: *f.* alltudes, deoles, alltrodes, gwraig ddeol, gwraig allfro.

Exile, *v. a.* alltudio, alltudo, deol, alltrodio, allwladu, aethwladu, carddu, difröi, gorthorddi; gyru o'r wlad.

To exile one's self—ymalltudio, ymalltudo, ymddeol; myned o'r wlad; myned o'r deyrnas.

Exile, *a.* (Ll. *exilis*) main, mân; eiddil, addfain; teneu, cul, achul; manwy, manwyaidd, manw, manweaidd, meinus, addfeinus, manweddaidd.

Exiled, *a.* alltudiedig, &c.; alltudiog, alltudog, difro, cardd, alltrodiog.

Excilement, *s.* alltudiad, alltrodiad, allwladiad, aethwladiad, deoliad, deolawd, difroad; alltudiaeth, alltudedd, alltrodiaeth, deoledigaeth.

Exilition, *s.* (Ll. *exilio*) ffrystiad, ffrysiad; neidiad disymmwth allan; esneidiad, esdarfiad.

Exility, *s.* (Ll. *exilitas*) meinder, meindra, meinedd, addfeinder, addfeindra; eiddilwch, eiddiledd, eiddildra, eiddilder; teneuder, teneudra, teneuedd, culder, manwedd.

Eximious, *a.* (Ll. *eximius*) rhagorol, godidog, ardderchog, gwych.

Exinanite,† *v. a.* (Ll. *exinanio*) gwaghau; gwanhau, egwanu.

Exinanition, *s.* (Ll. *exinanitio*) gwaghad, gwagiad; arllwysiad; difeddiad, difeddiannad, dielwad; colled, coll, colliant, anghaffaeliad; amddifedi, amddifadrwydd.

Exist, *v. n.* (Ll. *existo*) bod, hanfod, hanfodi, bodoli; byw; bod yn fyw; bydio, darfydio; byddu, syddu; handdyfod; aros; ffynnu.

May I exist—hanfwyf, hanbwyf, hanfyddwyf.

Let him exist—hanboed, hanbid, hanfydded, hanfoed, hanfid.

Existence, *s.* (Ll. *existentia*) bod, hanfod; bodolaeth, bodoliaeth, hanfodaeth, hanfodiaeth, bodaeth, endid, bodiad, hanfodiad; bywdeb, bywyd; parhad.

To give existence—rhoi bod; rhoddi hanfod; hanfodoli, bydu.

In existence—mewn bod, &c.; ar gael, ar glawr.

Spiritual existence—hanfod ysbrydol; el[fyd.

The existence of God is the basis of religion—sylfan crefydd yw bod Duw.

To put a period to one's existence—gwneuthur diwedd arno ei hun; rhoi *neu* osod terfyn ar ei hoedl.

Existent, } *a.* yn bod, mewn bod, yn hanfod,
Existing, } mewn hanfod, yn hanfodi; hanfodol, hanfodog, bodol, bodiadol; hanfodedig; ar glawr, ar gael; presennol; i'w gael; presenfodol.

Existential,† *a.*=*Existent, Existing.*

Existimation,† *s.* (Ll. *existimatio*)=*Esteem.*

Exit, *s.* (Ll. o *exeo*) ymadawiad, mynediad allan, mynediad ymaith, edfynt, edfyn; edfynediad; diwedd, terfyn, dyben; ymadawiad â'r byd; marwolaeth, tranc, trancedigaeth.

To make one's exit—myned ymaith, myned allan; ymadaw, ymadael, ymadu, cilio, encilio, allanu, edfyn; myned o'r chwareufwrdd; trengu, marw.

Exitial, } *a.* (Ll. *exitialis*) angeuol, marwol,
Exitious, } niweidiol, dinystriol.

Ex-legislator, *s.* diweddar ddeddfroddwr; un à fu ond nid yw yn awr yn ddeddfroddwr.

Ex-minister, *s.* diweddar weinidog; un à fu yn weinidog, ond nad yw yn awr mewn swydd.

Exocœtus, } *s.* (Gr. *exocoitos*) hedbysg, ehed-
Exocetus, } bysg, yr ehedbysg, hedegbysg.

Exode, } *s.* (Gr. *exodion*) cynghlοad, diwedd
Exodium, } chware (yn chwaryddiaeth y Groegiaid).

Exodus, } *s.* (Gr. *exodos*) ymadawiad, myned-
Exody, } iad allan, edfynt, ymadawiad allan,
Exode, } allaniad, mynediant.

The book of Exodus—llyfr Ecsodus=ail lyfr Moses.

The exodus from Egypt—yr ymadawiad o'r Aipht; y mynediad allan o'r Aipht; yr edfynt o'r Aifft.

Ex-official, *a.* swyddogol, awdurdodol; yn tarddu o swydd *neu* awdurdod.

Exogen, *s.* (Gr. *exô* a *gennaô*) elltwf, esdwf, esdyfiys, elltyfiys; un o'r elltyfiaid.

Exogenous, *a.* esdyfol, elltyfol, elltyfiysaidd; yn tyfu oddi allan.

Exogens, } *s. pl.* (Gr. *exô* a *gennao*) esdyfiaid,
Exogenæ, } esdyfolion, elltyfiaid, elltyfolion; deugibogion, deugibhadogion, deuhadgibogion, deuhadnoddion.

Polypetalous exogens — esdyfiaid amryddeiliog.

Exogloss, *s.* (Gr. *exô* a *glôssa*) elltafod=math o bysg.

Exolete,† *a.* (Ll. *exoletus*) diarfer, anarferol, anarferedig, hen.

Exolution, *s.* (Ll. *exolutio*) llacâd y gïau.

Exolve, *v. a.* (Ll. *exolvo*) rhyddhau, llacŏu, llaesu.

Exomphalos, *s.* (Gr. *ex* ac *omphalos*) bogelfreg, bogeilfreg, bogeldor, bogelrwyg, bogelwst, tor bogel, torfogel.

Exonerate, *v. a.* (Ll. *exonero*) dadlwytho, dadfeichio, dilwytho, difeichio; rhyddhau; gollwng *neu* roddi yn rhydd; esmwythŏu, esmwytho; difeio.

Exoneration, *s.* dadlwythad, dadfeichiad, dilwythad, difeichiad; rhyddhad; gollyngiad *neu* roddiad yn rhydd; difeiad.

Exonerative, *a.* dadlwythol, dadfeichiol, dilwythol, difeichiol; rhyddhaol; yn rhyddhau oddi wrth faich *neu* rwymedigaeth.

Exophthalmia, *s.* (Gr. *ex* ac *ophthalmos*) llygadchwydd, llygadwrn, chwydd llygad.

Exophyllous, *a.* (Gr. *ex* a *phullon*) deilnoeth, noethddeiliog, esddeiliog.

Exoptation, *s.* (Ll. *exoptatio*) awydd, chwant, ainc, blys, awyddfryd, dirchwant, taer ddymuniad, taer awydd, puchiant, rhybuchiant, hiraeth, argyllaeth, mawr awydd.

Exorable, *a.* (Ll. *exorabilis*) dyhuddadwy, cymmodadwy, hynaws, hyblyg; hawdd ymbil âg ef: hawdd eiriol arno; à ellir ei droi, ei ddyhuddo, ei gymmodi, ei feddalhau, ei ddyloñ, *neu* ei ddarbwyllo drwy ymbil ac ymhwedd; tyner, tynerol, dyhuddol.

Exorate, *v. a.* (Ll. *exoro*) cael drwy ymbil *neu* ymhwedd; cael ei ddymuniad.

Exorbitance, } *s.* (Ll. *exorbitans*) anfertholdeb,
Exorbitancy, } anfertholrwydd, dirfawredd, tramesuredd, tramesuroldeb, tramesurolrwydd, tragorolrwydd, anghymmesuredd, anghymmesurdeb, gormodedd, gormod, gormodd, gormoddoldeb, anferthedd; afreolaeth, afreoledd, afreolusrwydd; afresymoldeb, afresymolrwydd, anrhesymoldeb, anrhesymolder, anrhesymolrwydd; anweddolrwydd, anweddeidd-dra; cyfeiliorni, cyfeiliorn, cyfeiliornad; mynediad oddi ar yr iawn ffordd.

Exorbitant, *a.* (Ll. *exorbitans*) dirfawr, gormodol, gormod, gormodd, anferthol, anferth, anghymmesur, tramesurol, anghymmesurol, rhyfawr; allan o fesur; tros ben mesur; tra mesur; tu hwnt i fesur; anghymmedrol, anghymmes; afresymol, anrhesymol, direswm; heb na rheol na rheswm; heb na medr na mesur; afreolus, anllywodraethus, afiywodraethus; tros y terfynau; allan o'r terfynau; aruthr, anweddol, anwedd; oddi ar yr iawn ffordd; allan o'r iawn ffordd; yn *neu* wedi myned oddi ar yr iawn ffordd.

Exorbitate, *v. n.* (Ll. *exorbito*) cyfeiliorni; myned oddi ar yr iawn ffordd; myned allan o'r llwybr arferol; gwyro.

Exorcise, *v. a.* (Gr. *exorcizô*) tyngedu, cyfareddu, swyno, swyngyfareddu; bwrw allan gythreuliaid; tyngedu drwy ryw enw santaidd; consurio; dadswyno, diswyno, dadreibio; puraw oddi wrth ysbrydion drwg.

To exorcise a person—dadswyno un; bwrw yr ysbryd aflan allan o un; tyngedu un; consurio un.

To exorcise a demon—bwrw allan gythraul; tyngedu elfod; consurio cythraul.

To exorcise a house—tyngedu ty, dadswyno ty; puro *neu* lanhau ty oddi wrth ysbrydion aflan.

Exorciser, } *s.* tyngedwr, tyngedydd, dadswyn-
Exorcist, } wr, swyngyfareddwr, aswynwr; darswynwr, consurwr, consuriwr; gwr cyfarwydd, dyn hysbys; bwriwr allan gythreuliaid; un à gymmer arno fwrw allan gythreuliaid.

Exorcism, *s.* (Gr. *exorcismos*; Ll. *exorcismus*) tyngediad, tyngediant, tyngediaeth; tyngediad drwy ryw enw santaidd; bwriad allan gythreuliaid; consuriad, consuriaeth; swyngyfaredd, dadswyniad, dadswyniant, dadreibiad.

Exordial, *a.* (Ll. *exordium*) rhagarweiniol, rhaglithiol, rhagweiniol, arweiniol, cyfarweiniol, rhagymadroddol, rhagadroddol, rhagflaenorol, cynarodol, rhagarodol; dechreuol, cychwynol.

Exordium, *s.* (Ll.) rhagymadrodd, rhagarweiniad, cynarawd, rhagarawd, rhaglith, cynaraeth, rhagaraeth, rhagdraith; dechreuad, cychwynfa, blaen.

Exornation, *s.* (Ll. *exornatio*) addurniad, addurnad, addurniant, harddiad, tacliad, trwsiad, tegychiad, prydferthad; addurn, harddwch, dillyn.

Exorrhiz, } *s.* (Gr. *ex* a *rhizô*) eswraidd, es-
Exorrhizæ, } wreiddyn, ellwreiddyn, esrith, allanrith.

Exorrhizous, *a.* eswreiddiol, esrithiol.

Exortive, *a.* (Ll. *exortivus*) dwyreol, codiadol, esgynol, dwyreog, cynol, dyrchol, derchol, yn codi; dwyreiniol, dwyrain; perthynol i'r dwyrain.

Exosmose, *s.* (Gr. *ex* ac *ôsmos*) esnwyad, ellnwyad, ellyrthiad.

Exossated, *a.* (Ll. *ex* ac *ossa*) diesgyrnedig, diesgyrn; difuddiedig o esgyrn.

Exosseous, *a.* (Ll. *ex* ac *ossa*) diesgyrn, anesgyrnol, anesgyrnllyd, heb esgyrn.

Exostome, *s.* (Gr. *exô* a *stoma*) elltrydded, ellagor, esorel.
Exostosis, *s.* mallgwrn, gorasgwrn, gorthwf asgwrn; hwrwg, gorthwf.
Exoteric, } *a.* (Gr. *exôtericos*) allanol, ermaes,
Exoterical, } cyhoeddus, cyhoedd, annirgel, anghyfrin, anghyfriniol; allanig, allanigol.
Exotery, *s.* allanedd; cyhoedduswydd, annirgelwch, anghyfrinedd; yr hyn sydd amlwg *neu* gyffredin.
Exotic, *s.* (Gr. *exôticos*; Ll. *exoticus*) alltwf; planigyn o wlad arall; estronlys; peth tramor; gair estronol: *pl.* alltyfion, alltyfiaid, alltyfolion.
Exotic, } *a.* alltwf, alltyfol, tramor, estronol,
Exotical, } allfro, allfroawl, o wlad arall, dyeithr, alltud, allwlad, arallwlad, arallfro, pellenig, allmyr, tramorol, anghynnwynol.
Exoticism, *s.* alltyfoldeb, alltyfedd, tramoroldeb, estronoldeb, allfröedd, allwladedd.
Expand, *v.* (Ll. *expando*) lledu, taenu, lledaenu; taenu, lledu, *neu* estyn allan; taenu *neu* estyn ar led; ymledu, ymdaenu, ymledaenu, agor, egor, egori, agori, ymagor, ymegori, ymagori, agoryd, amledu, llydanu, darledu, damledu, arledu; dadblygu, disblygu; helaethu, ymhelaethu, estyn, ymestyn.
To expand about—amledu, damledu, amdaenu.
To expand one's self—ymledu, ymdaenu, ymledaenu, ymagor, ymegori, ymagoryd, ymestyn.
Partly to expand—goledu, godaenu, lledagori, lled-daenu.
To over-expand—gorledu, gordaenu, tralledu.
To expand through—tryledu.
To expand extremely—tralledu, gorledu, trathaenu, gordaenu.
To expand on the surface—arledu, darledu.
To cease expanding—afledu, annhaenu, afledaenu.
To re-expand—adledu, adledaenu, dadledu.
To expand equally—cyfledu, cyfledaenu, cyflydanu.
To expand one's self about—amymledu, ymamledu, ymddamledu, ymamdaenu.
Partly to expand about—goamledu, goamdaenu, goddamledu.
Partly to expand one's self—göymledu, göymdaenu, lledymdaenu, lledymledu.
To expand one's self about extremely—gorymamledu, goramymledu, gorymledu.
To cease expanding one's self—dïymledu, afymledu.
To expand about mutually—cydamledu, cydamdaenu.
To cease expanding about—dïamledu, dïamdaenu.
To expand themselves mutually—cydymledu, cydymdaenu.
To expand one's self extremely—ymorledu, gorymledu.
To re-expand one's self—adymledu, adymdaenu, dadymledu.
To expand one's self upon—arymledu, arymdaenu.
To expand mutually—cydledu, cyttaenu, cydledaenu; ymledu.

Expanse, *s.* (Ll. *expansum*) eangder; ymlediad, ymdaeniad, lledíad, taeniad, arled, arlediad, amlediad, damlediad, estyniad, estyn; helaethder; entrych, entyrch; taen, wyre, llae.
The expanse of heaven — entrych nef, ffurfafen y nefoedd, y ffurfafen, yr entyrch, yr entrych.
Expansibility, } *s.* (o *expansible*) hydaenedd,
Expansibleness, } hyledaenedd, hylededd, amledolrwydd, amledoldeb, hyledoldeb, hydaenoldeb.
Expansible, } *a.* (Ff. *expansible*; o *expand*)
Expansile, } lledadwy, taenadwy, llydanadwy, lledaenadwy, agoradwy, ymledadwy, hydaen, hyled, amdaenadwy; à ellir ei ledu, &c.; hydaenol, hyledol, amledol, damledol.
Expansion, *s.* (Ll. *expansio*) lledíad, taeniad, lledaeniad, llydaniad, ymlediad, ymdaeniad, damlediad, darlediad, arlediad, arymlediad, arled, taen; egoriad, agoriad, ymagoriad, ymegoriad; eangder, eangedd, eangrwydd, helaethrwydd, helaethder; helaethiad, helaethiant, ehelaethiad, estyniad, eangiad; ymchwydd.
Expansion curb—afledor, afledydd=peth i rwystro awdiadyron i ymledu ac ymgrybychu gàn wres.
Expansive, *a.* (Ff.) ymdaenol, ymledol, taenol, lledawl, lledaenol, llydanol, eangol, helaethol, helaethiannol; helaeth, eang; ymchwyddol; o natur i ymdaenu; hydaenol, hyledol.
Expansiveness, *s.* ymdaenoldeb, ymledolrwydd, hydaenol, hyledoldeb, lledaenolrwydd, llydanolder, taenolrwydd, lledoldeb, eangolder, helaetholdeb; eangrwydd, helaethrwydd.
Expatiate, *v. a.* (Ll. *expatior*) ymhelaethu, ymeangu, helaethu, ymdaenu, ymledu, ymwasgaru; bod yn helaeth; bod yn faith; crwydro, ymrodio; rhodio yn rhydd; bod mewn eangder.
To expatiate upon a subject—ymhelaethu ar destyn; bod yn faith *neu* helaeth ar destyn; helaethu ar bwnc.
Expatiation, *s.* ymhelaethiad, ymhelaethiant, helaethiad, ymeangiad; ymrodiad.
Expatiator, *s.* (Ll.) ymhelaethwr, ymhelaethydd, helaethwr, ymeangwr, trinwr maith.
Expatiatory, *a.* ymhelaethol, helaethol, helaethiadol, helaethiannol, ymeangol; yn ymhelaethu.
Expatriate, *v. a.* (Ff. *expatrier*; Ll. *ex* a *patria*) alltudio, alltudo, alltrodio, allwladu, aethwladu, deol, carddu, difröi, gorthorddi.
To expatriate one's self—ymalltudio, ymalltudo, ymalltrodio, ymddeol; myned o'r wlad.
Expatriation, *s.* alltudiad, alltrodiad, allwladiad, aethwladiad, deoliad, deolawd, difroad; alltudiaeth, alltudedd, alltrodiaeth, deolediaeth; ymddeoliad, ymalltudiad.
Expatriot, *s.* anghywleidiad, anghywlad; alltud.
Expect, *v. a.* (Ll. *expecto*) dysgwyl, dysgwyl am, dysgwylio; edrych, edrych am; aros, aros am, aros wrth, ymaros am, ymaros wrth, cyfaros, arosi; gobeithio, gobeithio am; gwylio, gwylied; ystyrio, ystyried; ofni y daw.
Expectable, *a.* (Ll. *expectabilis*) dysgwyladwy, dysgwyliadwy; i'w ddysgwyl, &c.

Expectance, } *s.* (Ll. *expectans*) dysgwyliad,
Expectancy, } dysgwyliaeth, dysgwyliant; yr hyn a ddysgwylir; gobaith; yr hyn a obeithir; yr hyn a ofnir y daw.

Expectant, *a.* (Ll. *expectans*) dysgwylgar, dysgwyliawl; dysgwyliedig; yn dysgwyl, yn aros, gàn ddysgwyl, &c.

Expectant, *s.* dysgwylydd, dysgwyliwr, dysgwyliedydd; ymarosydd, ymaroswr; un yn dysgwyl; à ddysgwylio am *neu* wrth; à fo yn dysgwyl am *neu* wrth; à aroso am *neu* wrth; à fo yn aros am *neu* wrth.

Expectation, *s.* (Ll. *expectatio*) dysgwyliad, dysgwyliant, dysgwyl; gobeithiad; ymarosiad, ymaros; gobaith, hyder; hiraeth, awydd; rhagolwg; ymddiried.

Earnest expectation — dysgwyliad taer, dysgwyliad dwys, taer ddysgwyliad, awyddfryd, hiraeth, gorddysgwyl.

A youth of expectation—gwr ieuanc gobeithiol, ieuanc gobeithlawn.

Expectative,† *s.* yr hyn a ddysgwylir; dysgwyliad.

Expecter, *s.*=*Expectant, s.*

Expectorant, } *a.* (Ll. *expectorans*) poerbair,
Expectorative, } poerbarol, hochbarol, hochiadol, hochbair, pesychboerol, pasboerol, crawstol; yn peri taflu o'r ysgyfaint.

Expectorant, *s.* poergyffer, hochgyffer, hochbair, poerbair.

Expectorate, *v. a.* (Ll. *expectoro*) pasboeri, hochboeri, pesychboeri, hochi; taflu; taflu o'r ysgyfaint; poeri.

Expectoration, *s.* hochiad, hochboeriad, pasboeriad, pesychboeriad; pesychboer, pasboer.

Expediate,† *v. a.*=*Expedite.*

Expedience, } *s.* (Ll. *expediens*) addasrwydd,
Expediency, } cyfaddasrwydd, addasdeb, cymhwysder, cymhwysdra; cyfleusdra, cyfleusder, cyfleusrwydd; buddioldeb; rheidrwydd, angenrheidrwydd;† brys;† anturiaeth.

Expedient, *a.* (Ll. *expediens*, o *expedio*) addas, cyfaddas, cymhwys, cyflëus, cymmesur; buddiol, llesol, llesiol, yn lleshau, defnyddiol; angenrhaid, angenrheidiol, rheidiol; angenrhaid i'w wneuthur; †brysgar, ebrwydd.

It is expedient—buddiol, llesol, cymhwys, *neu* angenrhaid yw; dir yw; mae yn fuddiol, &c.

As may be most expedient for them—fel y bo mwyaf buddiol iddynt.

Expedient, *s.* ffordd, modd, dyfais, dychymyg, dyfeisfodd, trafn, ymdro, llwybr; ffordd addas i ddwyn amcan i ben; modd cymhwys *neu* hylwydd i ddwyn rhyw amcan i ben; dychymyg prydlawn.

Expeditate, *v. a.* (Ll. *ex* a *pes*) pettrychu, pettori; tori gwadnau *neu* ewinedd traed blaen cwn.

Expeditation, *s.* (o *expeditate*) pettrychiad, pettoriad.

Expedite, *v. a.* (Ll. *expedio;* Ff. *expédier*) brysio, prysuro, dyfrysio, ebrwyddo, ffrystio, ffullio, ffysgio, cyflymu, buanu; rhwyddhau, hyrwyddo, llwybreiddio, hylwyddo, llwybro, dirwystro; cynnorthwyo yn mlaen; parotöi; crysio, dychrysio; gwneuthur ar frys; tynu llaw oddi wrth; tynu ei law oddi wrth.

Expedite, *a.* (Ll. *expeditus*) brysiol, ebrwyddol, prysurol, brysgar, brysiog, dyfrysiog, brys; cyflym, esgud, gweisgi, buan, bywiog, esgeiddig, heini, heinif, parod, parodol, rhwyddol, gwaisg, esgaidd, mwth, pablaidd; †arf-ysgafn.

Expedition, *s.* (Ll. *expeditio*) brys, prysurdeb, ffrwst, ffull, dyfrys, cyflymder, cyflymdra, buander, buandra, cyflymedd, ffysg, ymffrwst; brysiad, dyfrysiad, prysuriad, ffulliad; rhyfelgyrch, cadgyrch, cyforddwy, aergyrch, cadrwysg, rhyfeldaith, hynt filwraidd; llyngesgyrch; hynt, taith, ymgychwyn, cyrch, rhuthr; llafasgyrch, llyfasgyrch, tramgyrch; cychwyniad *neu* ymgychwyn i ryfel; cadgyrchiad, cadfrysiad.

The expedition of Cyrus — rhyfelgyrch Cyrus; cyforddwy Cyrus.

The arctic expedition—yr hynt ogleddol, yr hynt gyfogledd, y llyfasgyrch gogleddol.

With all expedition—gyda phob brys; cynted byth ag y gellir; cyntaf byth ag y gellir; yn gyntaf byth ag y gellir; gyntaf byth ag y gellir.

He is a man of expedition—dyn dyfrysgar yw; gwr brysgar ydyw.

Expedition money — brys-wobr, gwobr brys; gwobr ysgrifenydd am ebrwyddo gwaith.

Expeditionary, *a.* rhyfelgyrchol, cadgyrchol, cyforddwyol; llyfasgyrchog; cynnwysedig mewn hynt *neu* ryfelgyrch.

Expeditious, *a.* (o *expedite*) brysgar, dyfrysgar, brysiol, dyfrysiol, brysiog, dyfrysiog, ebrwydd, cyflym, esgud, gweisgi, gwisgi, buan, ebrwyddol, prysurol, prysur, ffest, ffull, chwai, chwyrn, (*f.* chwern), mwth, chwimmwth, gwaisg, esgeiddig, bywiog, heini, heinif, ewybr, brysg, ffysg, ffrysiol, sionc, blawdd, ffroddus.

Expeditiously, *ad.* yn frysgar, &c.; ar frys, ar ddyfrys.

Expeditive, *a.* prysurol, ebrwyddol, cyflymol, brysiol, dyfrysiol; yn gwneuthur gyda brys.

Expel, *v. a.* (Ll. *expello*) bwrw, gyru, gwthio, *neu* ymlid allan; bwrw, gyru, gwthio, *neu* ymlid ymaith; cythu, cothi, ffwyro, yffio, tarfu, esbelio, ysbelio; peri gadael; gorfodi gadaw; gorchymyn myned ymaith; deol, alltudio, alltrodio; cau allan; cadw allan *neu* ymaith; gwrthod.

To expel a student—deol myfyriwr.

Expellable, *a.* deoladwy, ysbeliadwy, ffwyradwy; à ellir ei fwrw allan.

Expeller, *s.* gyrwr allan *neu* ymaith; gyrydd ymaith *neu* allan; ymlidydd ymaith; deolydd, deolwr, ysbeliwr, ysbelydd.

Expend, *v.* (Ll. *expendo*) treulio, gwario, costio, costi; defnyddio; talu; ysu, difa.

Expenditure, *s.* (o'r Ll. *expendo*) traul, cost; treuliad, costiad, gwariad, treuliawd.

Useless expenditure — oferdraul, traul ofer.

Expense, *s.* (Ll. *expensa, expensum*) traul, cost; gild; treuliawd, treuliad, costiad; tâl: *pl.* treulion.

Free of expense—didraul, digost; yn rhad; yn ddidraul.

Profuse expense—rhydraul, traul afradus, gormodd draul.

Expense of food and raiment—traul daint ac ystlys; traul bwyd a dillad.

Expenseful, *a.* treulfawr, costfawr, costus, drud.

Expenseless, *a.* didraul, digost; yn rhad; rhad; heb draul, heb gost.

Expensive, *a.* treulfawr, costfawr, costus; drud, prid; afradlawn, afradus, treulgar; hael.

Expensiveness, *s.* treulfawredd, costfawredd, costusrwydd, mawrgost, mawrdraul, drudwch; treulgarwch, treulgaredd, afradlonedd, afradlonrwydd, afradusrwydd, afrad.

Experience, *s.* (Ll. *experientia*) profiad, ymbrawf, prawf, praw, hirbrawf; ymarfer, cynnefindra, ymarferiaeth; cyfarwyddyd, cyfarwyddawd, hyfedredd, gwybodaeth; praith; prawf-wybodaeth.

Daily experience — profiad beunyddiol, profiad sathredig, anghreifftiau beunyddiol, engraffau beunyddiol.

Of no experience—dibrofiad, anmhrofiadol, dibrawf, anmhrofedig, diymarfer, anghynnefin, anghyfarwydd, anhyfedr, diwybod, anwybodus, annysgedig.

Want of experience—diffyg profiad, diffyg ymarfer, anmhrofiad, anymarfer, anghynnefindra, anmhrawf, anghyfarwyddyd, anhyfedredd, anfedredd, annysg, anwybod, anwybodaeth.

To have experience of=*Experience*, *v. a.*

Known by experience=*Experienced.*

I know that by experience—mi a wn hyny drwy brofiad.

I have learned by experience—da y gwn; yr wyf wedi dysgu drwy brofiad.

If a man desire much experience — os chwennych neb gael aicrwydd gwybodaeth lawer (*Doeth.* viii. 8).

A man of experience—dyn â wyr lawer; gwr â wyr lawer; dyn o brofiad; gwr a phrofiad ganddo.

Much experience is the crown of old men—coron henafgwyr yw gwybod llawer (*Eccles.* xxv. 6).

He that hath much experience will declare wisdom—yr hwn a gafodd brawf o lawer o bethau a ddengys synwyr (*Eccles.* xxxiv. 9).

He that hath no experience knoweth little—ychydig a wyr yr hwn ni phrofwyd (*Eccles.* xxxiv. 10).

Experience, *v. a.* profi, ymbrofi â; bod wedi ymarfer *neu* ymgynnefino â; bod yn profi; cael wrth brofi; deall; teimlo; clywed; profi wrth arferu, goddef, *neu* fwynhau; gwybod drwy brofiad.

Experienced, *a.* profedig; â brofwyd; gwybodedig drwy brofiad; â wybüwyd *neu* â wyddys drwy brofiad; wedi ei brofi; gwybodus *neu* hyfedr drwy brofiad; gwybodus *neu* hyfedr drwy ymarfer; â wyr lawer; yn gwybod llawer; hyfedr, hyfedrus, gwybodus, medrus, cyfarwydd.

Experiencer, *s.* argeisiedydd, profwr, profydd, profiedydd, ymbrofwr; un â wnel ymbrofion.

Experiment, *s.* (Ll. *experimentum*) ymbrawf, prawf, profiad, praw, prawiad, ymbrofiad, argeisiad, cynnyg, cais, ymgais, osiad, osbrawf.

Crucial experiment — prawf penderfynol, ymbrawf terfynol; prawf â benderfyno y pwnc y naill ffordd neu y llall ar unwaith.

Experiment, *v.* ymbrofi, profi; gwneuthur prawf, ymbrawf, *neu* ymgais; osio, ymgeisio, ymgynnyg, dargeisio; gwneuthur cais; gwybod drwy brawf; cael drwy brofi; rhoi ar brawf.

Experimental, **Experimentative**, *a.* profiadol, ymbrofiadol; â gafwyd allan drwy brofiad; â ddysgwyd drwy brofiad; sefydledig ar brawf *neu* brofiad; seiliedig ar brawf *neu* brofiad; â seiliwyd ar ymbrawf; â wyddys drwy brofiad; profedig; ymarferol.

Experimental philosophy — athroniaeth brofiadol, athroniaeth ymarferol; athroniaeth seiliedig ar brofiad *neu* ymbrawf.

Experimentalist, **Experimenter**, **Experimentist**, *s.* argeisiedydd, profwr, profydd, profiedydd, ymbrofwr; un â wnel ymbrofion.

Experimentally, *ad.* yn brofiadol, &c.; trwy brawf, trwy brofiad; ar brawf, ar brofiad.

To speak experimentally—dywedyd ar ei brofiad *neu* ei wybodaeth ei hun; dywedyd drwy brofiad; llefaru oddi ar brofiad.

Experimentative, *a.*=*Experimental.*

Expert, *a.* (Ll. *expertus*) cyfarwydd, hyfedr, celfydd, medrus, hyddysg, hwylus, cywrain, cywraint, cynnil, campus, penigamp, trylew, deheu, deheuig, hylaw, dichwith, hylwybr, hyffordd, parod, tra pharod, cyflym, trwyadl; profedig, cydnabyddus, cynnefin, gwybodus.

Expert in—cyfarwydd â, hyfedr mewn, &c.

To make expert — gwneuthur yn gyfarwydd, &c.; cyfarwyddo, dysgu, addysgu.

Expert in war—yn medru rhyfel; gwedi ei ddysgu i ryfela; gwedi ei ddysgu i ryfel; hyfedr mewn rhyfel; hyfedr ar ryfela.

Expert, *s.* un cyfarwydd, &c.; hyfedrydd, medrydd, celfyddwr, cyfarwydd: *pl.* hyddysgiaid, medrusiaid, &c.

Expertness, *s.* hyfedredd, medredd, medrusrwydd, medrusedd, medr, medrusdod, medrusder, deheurwydd, deheuder, hylawrwydd, trylewder, cywreinder, cywreindeb, cywreinrwydd, dichwithrwydd, dichwithder, medraeth, cyfarwyddyd, celfyddyd, cynnildeb; llwybreiddrwydd, hylwybredd, hwylusder, hwylusdod, hwylusrwydd; parodrwydd, esgudrwydd, cyflymdra.

To acquire expertness in a thing, To attain to expertness in a thing, cael cymmedr ar beth.

Expetible,† *a.* (Ll. *expetibilis*) dymunadwy; gwiwgais, dymunol.

Expiable, *a.* (Ll. *expiabilis*) dyhuddadwy, cymmodadwy, dadolychadwy; maddeuadwy; â ellir gwneuthur iawn *neu* gymmod drosto; diwygiadwy; dileadwy; â ellir ei ddiwygio; â ellir gwneuthur cymmod drosto a'i ddilëu.

Expiate, *v. a.* (Ll. *expio*) dyhuddo, dadolychu; gwneuthur cymmod *neu* iawn dros; cymmodi dros; gwneuthur iawn dros *neu* am gamwedd; dyhuddo âg aberth; diwygio bai *neu* bechod; glanhau pechod âg iawn *neu* aberth; iawnu, unioni, prido, pridio, dyfwyno; diwygio.

To expiate an injury—unioni cam, iawnu cam, diwygio sarhad; talu am y niwed â wnaeth un.

Expiation, *s.* (Ll. *expiatio*) cymmod, iawn, dad-

olwch, penyd, dyfwyn, dyfwyni, dywyni, daffar; dadolychiad, dyhuddiad, dyhuddiant, pridiant, pridiad, unionad, iawnad, diwygiad, ymlanhad, ymddiheurad; aberth; cymroddedd, boddlonrwydd.

Expiator, *s.* dyhuddwr, dyhuddydd, dadolychwr, dyhuddai, cymmodwr, pridiwr; un à ddyhuddo.

Expiatory, *a.* dyhuddol, dadolychol, iawnol, dyhuddedigol, cymmodol, cymrodeddol, cymmodroddol, pridiannol, pridiadol, pridiol, penydiol; diwygus, diwygiol, diwygiadus, diwygiedigol, diwyg-; diheurol; perthynol i lanhad oddi wrth bechod.

Expiatory sacrifice — aberth dyhuddol, aberth iawnol, diwyg-aberth.

Expilation, *s.* (Ll. *expilatio*) anrheithiad, anrheithiant, ysbeiliad; diffaethiad tir; anrhaith, difrod; lladrad.

Expirable, *a.* trengadwy, darfodadwy.

Expirant, *s.* (o *expire*) trengydd, trengwr; un yn darfod am dano.

Expiration, *s.* (Ll. *expiratio*) chwythiad *neu* anadliad allan; allanadliad; yr anadl ddiweddaf; tranc, trancedigaeth, marwolaeth; ymadawiad â'r byd *neu* â'r ysbryd; anadliad, tarthiad, tarthiant, mygdarthiad, anweddiad, ageriad, anwyddiad; anadl, tarth, ager, anwedd, mygdarth, tawch; gyrferth; diwedd, terfyn, pen, dyben, paid, ymbaid; diweddiad, terfyniad, dybeniad, peidiad, peidiant, cload, dybendod.

At the expiration of the year—yn niwedd y flwyddyn; yn mhen y flwyddyn; ar ddiwedd y flwyddyn.

At the expiration of ten days—yn mhen deg diwrnod; yn mhen deng niwrnod.

Expire, *v.* (Ll. *expiro*) anadlu allan, chwythu allan; trengu, marw; darfod am dano; ymadael â'r byd; ymadael â'r ysbryd; rhoi i fyny yr ysbryd; darfod, diweddu, dybenu, peidio; myned ar ddim; myned i'r dim; tarthu, mygdarthu, anweddu, ageru, agerddu, tarthain, terthu, terthain, anadlu, alanu, allanadlu.

The day expires—mae y dydd yn darfod; mae y dydd yn trengu; mae y dydd ar drano.

The time is expired—darfu yr amser; deryw yr amser; mae yr amser wedi myned heibio; mae yr amser wedi darfod.

When these days are expired—pan ddarfyddo y dyddiau hyn; pan ddarfo y dyddiau hyn; pan ddarffo y dyddiau hyn.

The days were not expired—ni chyflawnasid y dyddiau eto; ni ddaethai yr amser eto.

After the year was expired—gwedi pen y flwyddyn; gwedi gorphen y flwyddyn; gwedi darfod o'r flwyddyn.

When thy days be expired—pan gyflawner dy ddyddiau di.

When the year was expired—yn mhen y flwyddyn; pan ddarfu y flwyddyn.

After two years fully expired—gwedi dwy flynedd lawn (1 *Mac.* i. 29).

Expiring, *a.* trengol, ar drengu, wrth drengu, yn marw, ar farw, ar drano, wrth farw.

Explain, *v.* (Ll. *explano*) egluro, eglurhau, amlygu, esbonio, deongli, deongl, deonglyd; dangos, dattod, agoryd, egori, ysblana.

Explainable, *a.* (Ll. *explanabilis*) eguradwy, amlygadwy, esboniadwy.

Explainer, *s.* eglurwr, eglurydd, eglurjedydd, esboniwr, esboniedydd, eguriadur, deonglydd, deonglwr, amlygwr, eglurhäwr.

Explanation, *s.* (Ll. *explanatio*) eglurhad, eguriad, eglurad, esboniad, deongliad; deonglawd, deongl, amlygiad, agoriad; cymmod, cydfod.

Explanatoriness, *s.* eguroldeb, eguriadoldeb, eglurhaoldeb, eglurhaolrwydd, amlygiadoldeb, esboniadoldeb.

Explanatory, *a.* eglurhaol, eguriadol, eglurol, eguradol, amlygiadol, esboniadol, esboniol, agoriadol; yn cynnwys eglurhad.

Expletion, *s.* (Ll. *expletio*) cyflawniad, cyflenwad, adgyflenwad, cwblhad.

Expletive, *a.* (Ll. *expletivus*; Ff. *expletif*) cyflenwol, cyflawnol, cyflawniadol, adgyflenwol, adchwanegol; à roddir i lanw; à fo yn cyflenwi.

Expletive particle—banyn llanw, banyn cyflenwol, geiryn llanw, gair llanw.

Expletive, *s.* gair llanw, gair cyflenwol, cyflanw, caflawn-air, gair tragor: *pl.* cyflawniaid, cyflenwolion, geiriau llanw.

Expletory, *a.* cyflenwol, cyflenwadol, cyflawnol, cyflawniadol.

Explicable, *a.* (Ll. *explicabilis*) eguradwy, esboniadwy, deongliadwy, amlygadwy, agoradwy, dattodadwy; à ellir ei eguro; y gellir cyfrif am dano; dirnadwy.

To engage one's faith, } un; rhoddi cred ar un; rhoddi ei gred i un ar gyflawnu ei addewid; addaw i un ei lawgair; rhoi ei gred i un; ymgredu âg un; ymffyddio, ymgreirio, ymdyngu.

To have faith in—credu yn, credu mewn; bod gàn un ffydd *neu* gred yn; hyderu ar; rhoi hyder ar; ymddiried yn; gobeithio yn; rhoi goglud ar; rhoi coel ar; rhoi pwys ar.

To violate one's faith—tori ei air, ei addewid, *neu* ei lawgair; tori ei ffydd.

The finisher of our faith — perffeithydd ein ffydd; ein credofydd.

Evangelical faith—ffydd efengylaidd, ffydd yr efengyl.

Without faith or law—heb na ffydd na rhaith.

A brother in the faith — brawd ffydd, ffyddfrawd, brawd crefyddol, brawd crefydd, brawd unffydd.

Faith-breach, *s.* tor ffydd, anffyddlondeb, anffyddlonder, tor addewid, ffalsedd, brad.

Faithed,† *a.* cywir, gonest, ffyddiog.

Faithful, *a.* ffyddlawn; ffyddiog, ffyddiol; cywir, didwyll; ymddiriedus; à aller coel arno; à ellir coel arno; diwair; gwir.

The faithful—y ffyddloniaid; cywiriaid; credinwyr, crediniaid.

One of the faithful—un o'r ffyddloniaid; credadyn.

Most faithful—ffyddlonaf, mwyaf ffyddlawn; ymddiried-gwbl.

It is a faithful saying—gwir yw y gair.

The three faithful clans — y tri theulu diwair; y tri diwair deulu; y tri theulu ffyddlawn.

Faithfully, *ad.* yn ffyddlawn, &c.; ar ei lawgair.

Faithfulness, *s.* ffyddlondeb, ffyddlonder, ffyddlonrwydd; cywirdeb, cywiredd, gonestrwydd, cleuder, purdeb, gwirionedd, geirwiredd; diweirdeb.

Faithless, *a.* diffydd, digred, anffyddiog, anffyddiol; anffyddlawn, ffals, anghywir, twyllodrus, anymddiriedus, hocedus, anonest, gau; digoel, anghrediniol, anghredadin, anghredin; bradwrus, bradog, bradwraidd; à doro ei air; à doro ei addewid; anhawdd ganddo gredu.

To become faithless—anffyddio; myned yn ddiffydd, &c.

Be not faithless, but believing—na fydd anghredadyn, ond credadyn.

Faithlessness, *s.* anffyddiaeth, anghred, anghrediniaeth, anghrededd, anghredadiniaeth, anffyddiogrwydd, anffydd, anffyddiolrwydd, diffyddiaeth; anffyddlondeb, anffyddlonder, anffyddlonrwydd, anghywirdeb; twyll trwy ymddiried; brad, bradwriaeth, bredych, hoced, twyll, ffalsedd; anonestrwydd.

Faitor,† *s.* (Norm. o'r Ll. *factor*) drygweithredwr, dyhiryn, bawddyn: *pl.* bawach.

Fake, *s.* (Ysg. *faik*; Sw. *vika*) rhaffrwy, rhaffdro, torch.

Fakir, } *s.* (Ar.) Ffacir, Ffactr, monach In-
Faquir, } diaidd.

Falcade, *s.* (Ll. *falx*) crymnaid.

Falcate, *a.* (Ll. *falcatus*, o *falx*) crymanaidd, crymain, crwca, cam; ar lun cryman neu bladyr; cyrnig.

Falcate, *s.* crymanblyg, crymblyg.

Falcation, *s.* (Ll. *falx*, *falcis*) crymedd, camedd, crymaint, crwcanedd, crymaniad, cemi, camni, camder, crymeinedd.

Falchion, *s.* (Ff. *fauchon*; Ll. *falx*) crymgledd, crymgleddyf, camgleddeu, camfidog, pladyrgledd, cleddyf byr cam; cleddyf.

Falciform, *a.* (Ll. *falx* a *forma*) crymanaidd, crwca, crwm; ar lun cryman.

Falcon, *s.* (Ll. *falco*; Ff. *faucon*; It. *falcone*) hebog, gwalch; yr hebog; gwyddwalch.

Peregrine falcon—cammin, hebog dramor, hebog tramor.

Grey falcon—hebog, gwalch.

Yellow-legged falcon—cudyll, cudyll coch, cudyll y gwynt, cudyll coesfelyn, cenlly goch, ceinlly goch.

Crested falcon—hebog gopog, hebog copog.

Falcon gentil—hebog lwydwen, hebog llwydwyn, hebog penddu.

Falconer, *s.* (Ff. *fauconnier*) hebogydd, hebogwr, gwalchydd, gwalchwr, gweilchydd.

Chief falconer—penhebogydd, penhebogwr.

The office of the chief falconer—penhebogyddiaeth.

Falconet, *s.* (Ff. *falconette*) hebogwn—math o gyflegr bychan.

Falconidæ, *s. pl.* hebogolion, heboglwyth, hebogryw.

Falconry, *s.* (Ff. *fauconnerie*) hebogyddiaeth, gwalchyddiaeth, gwalchwriaeth, gweilchyddiaeth, hebogwriaeth.

Faldage, *s.* (S. *fald*, *falde*; Ll. gyfreithiol, *faldagium*; C. *ffald*) ceilfraint; hawl i fuarthu *neu* geilio.

Faldfee, *s.* (S *ffald* a *fee*) ffaldobr, ceildal, tâl ceilfraint, toll ceilfraint.

Falding,† *s.* math o nwydd bras.

Faldistory, *s.* (S. *fald* a *stow*) gorseddesgob gorseddfainc esgob.

Faldstool, *s.* (*fald* neu *fold* a *stool*) cader goroni, ystol goroni; yr ystol y penlinia breninoedd Lloegr arni wrth eu coroni; gorsedd esgob, ceilfainc, bugeilfainc; deisfainc, deisgader, ymbilfainc; cader hyblyg, breichgader, cader ddwyfraich; osggader; pall.

Falernian, *s.* gwin Ffalernus (yn yr Ital).

Fall, *v.* (S. *feallen;* Al. *fallen;* Is. *vallen*) cwympo, syrthio, gostwng, gostyngu; dygwydd, dygwyddo; cwyddo, tramgwyddo, codymu, trachwyddo, llithro; myned i lawr; ymddattod, adfeilio, edwi; llyfrhau, llyrfhau, llesghau, llaesu, llacäu, llacio, yslacio, methu, pallu, ymollwng, ymfwrw, digaloni; treio, cilio, lleihau; disgyn; tawelu, gostegu, ymdawelu, llinaru, lliniaru, iselu; myned; ymarllwys, aberu; dyfod; darfod; bwrw.

To fall asleep—syrthio yn nghwsg; myned yn nghwsg; syrthio i gwsg; syrthio i gysgu; huno, cysgu.

To fall aboard of — syrthio ar draws; taraw wrth long arall.

To fall astern—syrthio yn ol; symmud yn ol; cael o'r llong ei gyru yn ol; aros yn ol.

To fall asunder—ymwahanu, ymddattod, ymollwng; syrthiaw oddi wrth eu gilydd.

To fall away—syrthio ymaith, cwympo ymaith; syrthiaw oddi wrth; culhau, curio, teneuo; dedwino, edwino, edwi, dihoeni, gwywo, darfod; gwrthgilio, ffyddwadu, cefnu; cilio, tynu, *neu* ymlithro ymaith; ymadaw â'i ben; ymadael â'i ben.

To fall away from one's oath—halogi *neu* dori ei lw.

To fall back—syrthio yn ol; cwympo yn ol; cilio yn ol; gwrthgilio; encilio, cilio.

To fall calm—tawelu, ymdawelu, gostegu; myned yn dawel; dyfod yn dawel; ymlonyddu, ymddystewi.

To fall down—syrthio *neu* gwympo i lawr; cwympo; syrthio.

To fall down flat—cwympo *neu* syrthio i lawr yn swrth; syrthio yn ei amgrain; syrthiaw o'i hyd gyhyd; syrthio yn ei hyd gyhyd; ymgrymu; ymostwng; suddo; nofio *neu* hwylio i waered.

To fall down together—cydsyrthio, cydgwympo; syrthio *neu* gwympo yn nghyd; syrthio i lawr yn nghyd.

To fall down headlong,
To fall down with the head foremost,
cwympo *neu* syrthio bendramwnwgl; syrthio *neu* gwympo yn llwrw ei ben; cwympo *neu* syrthio yn wysg ei ben; syrthio dibyn dobyn; syrthio yn ddïymattal.

To fall down the river—nofio, hwylio, *neu* fyned i waered; myned tua'r aber; myned i lawr ar hyd yr afon.

To fall down with violence,
To fall down headlong,
rhaiadru.

To fall foul—syrthio am ben; syrthio ar draws; ymosod, ymruthro, rhuthro; gwneuthur cyrch.

To fall from—syrthiaw oddi wrth; cwympaw oddi wrth; syrthio *neu* gwympo ymaith oddi wrth; ymadael oddi wrth; ymadaw â; gwrthgilio; ciliaw oddi wrth.

To fall from one's word—tori ei air; tori ei addewid; syrthiaw oddi wrth ei air.

To fall in—syrthio i mewn; cwympo i mewn; cydsynio, cytuno, cydfyned, cydweled, cyfladd, cyttaro, cydgordio; cyfarfod; dyfod yn agos; darganfod.

To fall in hand with a thing—myned yn nghylch rhyw orchwyl; myned yn nghyd â rhyw orchwyl; ymosod ar beth; cymmeryd gorchwyl yn *neu* mewn llaw; cychwyn i waith; cwympo at beth.

To fall in love with—cwympo, syrthio, *neu* fyned mewn cariad â; bwrw *neu* roddi ei serch ar; serchu, hoffi.

To fall in one's way—bod ar ffordd un; dyfod ar ffordd un; bod ar law un; dyfod ar law un; syrthio yn ffordd un.

To fall in price,
To fall in value,
cwympo, gostwng, *neu* syrthio mewn pris; myned yn iselbris, yn ddibris, *neu* yn ddïystyr; myned yn ddiwerth.

To fall in with — cyfarfod â, gorddiwes, goddiwes, cyfredeg â, ymgyfredeg â, ymgyhydreg â; dyfod gogyfuwch â; dyfod yn nghyd â; taraw wrth; cytuno â, cydsynio â.

To fall in with criminal measures—cydsynio *neu* gytuno â drwg fesurau *neu* arferion; bod o blaid *neu* yn mhlaid drwg arferion; bod *neu* ymroddi yn beiriant i ddwyn drwg ddychymygion yn mlaen *neu* i ben; bod â llaw mewn camrwysg; bod gàn un law mewn camrwysg; ymgyssylltu, ymuno, *neu* ymwasgu â thraws arferion *neu* draws lywodraeth; bod i *neu* gàn un ran, cyfran, *neu* law yn nrwg lywodraeth gwlad; bod yn borth *neu* yn gefn i ormes-lywodraeth *neu* fall arferion mewn gwladwriaeth.

To fall in one's gift—dyfod, cwympo, *neu* syrthio ar law un; dyfod i law, i ddwylaw, i rodd, *neu* i roddiad un.

To fall into—syrthio i, cwympo i; aberu i, ymarllwys i, ymarlloesi i, aberu yn, ymarllwys yn, ymarlloesi yn; syrthio i mewn, syrthio yn, cwympo yn.

To fall into the hand of—syrthio *neu* gwympo yn llaw; cwympo *neu* syrthio i law.

To fall lower—syrthio *neu* gwympo yn is; disgyn yn is.

To fall off—syrthio *neu* gwympo ymaith; ciliaw oddi wrth; osgöi *neu* ogwyddaw oddi wrth; cilio, encilio, gwrthgilio; methu, gwaethygu, gwaelu; lleihau; gadael, gadaw, ymadael; ymwahanu, ymddydoli; syrthio, cwympo; dyfod i lawr; myned yn fwy diwerth; crisbilio.

To fall off a bargain—ciliaw oddi wrth gytundeb *neu* ammod.

To fall off (as scales, &c.) — crisbilio, syrthio ymaith.

To fall often—mynych gwympo, mynych syrthio, dygwympo, ymddygwympo.

To fall on—syrthio ar, cwympo ar; cydio â, ymgydio â; myned yn nghyd â; myned yn nghylch; dechreu ar; ymosod ar; rhuthro ar; dwyn cyrch ar; dyfod ar warthaf; cwympo ar warthaf; disgyn ar; gwneuthur rhuthr *neu* gyrch

ar; dyfod am ben; dygwyddo ar; dyfod ar.
To fall on first—cydio yn gyntaf; dechreu; gwneuthur y cynosod.
To fall out—cwympo allan, syrthio allan, cwympo i maes; ymryson, amryson, ymrafaelio, cynhenu, ymdynu; dechreu ymryson *neu* ymrafael; digio, llidio, sori; ymddarfodi; trin; dygwyddo, dygwydd, damweinio, damwaen, hapio, bod; troi allan.
To fall out *or* from—syrthiaw o, syrthio allan o.
To fall over—syrthio dros; syrthio drosodd; myned drosodd; gwrthgilio; pleidgilio; troi, cyfnewid; newid ochr; newid ei blaid; gwrthryfelu.
To fall short of—syrthio yn fyr o; dyfod yn fyr o; methu cyrhaedd; methu â chyrhaedd; bod yn ol o; bod yn fyr o; pallu, diffygio.
To fall sick—clefychu, clafychu; myned yn glaf; taro yn glaf; syrthio yn glaf.
To fall to—syrthio i, cwympo i, syrthio at, cwympo at; myned i, myned at; cwympo ar, syrthio ar; dechreu, dechreu ar; ymosod ar; cydio â; myned yn nghyd â; myned yn nghylch; ymgydio â; cilio at; ymröi at, ymroddi at.
To fall to one — dyfod, disgyn, syrthio, cwympo, dygwyddo, dygwydd, *neu* fyned i un; dyfod i ran un.
To fall to abusing each other—myned *neu* daraw i ymdaeru; myned *neu* daraw i ymddifrïo; syrthio i ymgecru.
To fall to work—ymosod ar waith; taro at waith; cwympo at waith, &c.
To fall together by the ears—myned benben; myned yn nghyd ben a chlustiau; myned wrth y pen a'r clustiau; myned ben yn nghad; myned ben yn erfid; ymdynu, ymryson, ceintachu, ymgiprysu.
To fall under—dyfod dàn, dyfod o dàn; dyfod o fewn; syrthio dàn; bod dàn; syrthio *neu* ddyfod oddi tàn; dyfod o fewn terfynau; bod yn ddarostyngedig i.
To fall under a burden—syrthio, cwympo, *neu* ddiffygio dàn bwn; syrthio tàn lwyth.
To fall *or* knock under—cyfaddef ei fai; cyfaddef ei gamsyniad.
To fall under consideration—syrthio *neu* ddyfod dàn ystyriaeth; dyfod *neu* syrthio i'w ystyried.
To fall under one's view—dygwyddo yn ngolwg un; dygwydd o flaen llygaid un.
To fall upon=*To fall on*: cynnyg, ceisio.
To fall the voice—gostwng y llais.
To fall a sacrifice — syrthio yn aberth; myned yn aberth; cael ei aberthu.
If I fall a sacrifice to popular faction—os myfi a aberthir i ymblaid y werin; os aberthir fi i'r ymblaid boblogaidd; os myfi a dorir ymaith er dyhuddiant y werin ymbleidgar; os myfi a ddïenyddir er dyhuddiant y werin ymbleidgar.
To fall into laughter—dechreu chwerthin; myned i chwerthin; taraw i chwerthin.
The Danube falls into the Euxine—ymarllwys y Donwy i'r Môr Du; disgyna y Donaw i'r Môr Eucsin; mae y Donwy yn syrthio *neu* yn rhedeg i'r Môr Du; abera y Donaw yn y Môr Du.
If it should ever fall in my way to do you a kindness—os byth y daw ar fy llaw wneuthur i chwi gymmwynas.
We fell in with the enemy—cyfarfuom â'r gelynion; tarawsom wrth y gelynion; ni a gyfarfuom â'r gelyn.
He fell in with them—efe a darawodd gyda hwynt; efe a gymmerodd eu plaid hwynt; cytunodd â hwynt.
We fell in with two privateers—daethom ar ddwy herwlong; tarawsom wrth ddwy herwlong; dywanasom ar ddwy herwlong; daethom am ben dwy wiblong; daethom ar draws dwy wiblong; dygwyddasom ar ddwy herwlong.
We fell in with Cyprus—ni a ddaethom i Cyprus; tarawsom wrth Cyprus.
He fell in with wicked measures—cydsyniodd â drwg fesurau; cydsyniodd â drwg lywodraeth.
The first living that falls in my gift—yr eglwys gyntaf à ddel i'm rhoddiad i; y fywoliaeth gyntaf à fyddo ar fy rhoddiad i; yr eglwys gyntaf à fyddo yn fy rhoddiad i; y fywoliaeth gyntaf à syrthia i'm llaw i; y fywoliaeth gyntaf à syrthio yn fy rhodd i.
He fell into the snare — syrthiodd i'r fagl.
Ready to fall—ar syrthio, ar gwympo; serfyll, simsan, simpl, simplaidd; lledbai; ar ogwydd; ar ei ogwydd; adfeiliedig, hygwymp, hygwydd; hadl; tramgwyddus; parod i syrthio, &c.
To be ready to fall—bod ar syrthio; bod ar gwympo; bod ar ei ogwydd; bod ar ei ddibyn; simplo; adfeilio; penhwntian, pentwyno; bod yn simsan *neu* simpl; bod yn barod i syrthio.
To let fall—goddef, gadaw, *neu* ollwng i syrthio; goddef, gadael, *neu* ollwng i gwympo; gollwng.
To let fall one's suit—cilio yn ei gwyn; gadaw ei hawl; gadaw y maes.
To fall foul upon one—rhoi tafod drwg i un; rhoddi drwg dafod i un; difrïo un, enllibio un; rhoi siarad cas i un.
To fall behindhand in the world—myned *neu* redeg yn ol llaw yn y byd; bod ar ol llaw yn y byd; bod yn ol llaw â'r byd; myned *neu* redeg mewn dyled; myned *neu* redeg i ddyled; syrthio i dlodi; myned yn dlawd; tlodi.
To make one fall—peri *neu* wneuthur i un syrthio; gwneuthur i un gwympo *neu* dramgwyddo.
To fall lambs—bwrw ŵyn.
Fall back, fall edge—deued à ddel; doed à ddelo; dygwydded à ddygwyddo.
He fell very sick—aeth yn glaf iawn; aeth yn drymglaf; hi a aeth yn drwm arno; syrthiodd yn glaf iawn.
This falls to my share—y mae hyn yn dyfod i'm rhan i; y mae hyn yn dygwydd i mi; mae hyn yn dygwyddo i'm rhan i.
Give me the portion of goods that falleth unto me—dyro i mi y rhan à ddygwydd o'r da.
This land shall fall unto you for inherit-

ance—y tir hwn a syrth i chwi yn etifeddiaeth.

He fell on his knees—syrthiodd ar ei liniau; penliniodd; dygwyddwys ar ei liniau.

See that ye fall not out by the way—nac ymrysonwch ar y ffordd.

Lest mischief fall upon thee—rhag disgyn *neu* ddyfod echrys ar dy warthaf.

He will fall to his master—efe a syrth at ei feistr; efe a dery gyda'i feistr.

Saul thought to make David fall by the hand of the Philistines—yr oedd Saul yn meddwl peri lladd Dafydd trwy law y Philistiaid (1 *Sam.* xviii. 25).

The father and the sons together shall fall upon them—fel y tramgwyddo wrthynt y tadau a'r meibion yn nghyd (*Ier.* vi. 21).

Fall, *s.* cwymp, codwm, syrth, cwympad, cwympiad, syrthiad, syrthiant, llithrad, gostyngiad; disgyniad, disgynfa; cwydd, tramgwydd, cwympawd; dygwydd, dygwyddiad, cwyddiad, cwyddedigaeth; syrthfa, cwympedigaeth; dymchweliad, dinystr, dystryw, adfail; tranc; llethr, llechwedd, gwaered; rhaiadr; cnwd, caen, caenen; diffwys; methiant, methineb; hydref, mesyryd.

The fall—y cwymp, y codwm; cwymp Adda.

The fall of man—cwymp dyn, syrthiad dyn, cwympad dyn, syrth dyn.

After the fall—gwedi y cwymp; ar ol y cwymp; gwedi syrth.

The fall of the leaf—cwymp, syrthiad, *neu* gwympad y dail; hydref, mesyryd, elfed, dyhewydd.

A fall of rain—cawod o wlaw; cafod o wlaw; cawad o wlaw; gwlaw.

A great fall of rain—llawer o wlaw; llaweroedd o wlaw; rhyferthwy o wlaw; gwlybin, gwlybhin, gwlybaniaeth mawr; diffwys o wlaw: *pl.* gwlawogydd, gwlawoedd.

A fall of snow—caenen o eira; cawod o eira.

A heavy fall of snow—cnwd o eira; cawod drom o eira; cafod dew o eiry; trwch o eira.

A fall of dew—caenen o wlith, gwlithgaen.

A slight fall—gogwymp, gosyrth, lledsyrth, lledgwymp, cwymp bychan.

To get a fall—cael cwymp; cwympo, syrthio.

To give one a fall—rhoi cwymp *neu* godwm i un; taflu un i lawr; diwadnu un, disodli un, cwympo un.

The fall of a current into any larger body of water—aber.

The falls of the Niagara—rhaiadr y Niagara; cwymp y Niagara; syrthfa y Niagara; rheicidr *neu* raiadrau y Niagara.

The fall of a stag—amgrain carw.

Fallacious, *a.* (Ff. *fallacieux;* Ll. *fallax*) twyllodrus, ffugiol, gau, lledrithiog, lledrithiol, twyllgar, dichellgar, geuol, geuog, geuain, ffals, twylledigol, twylladol, hocedus; pallus, gwag, gorwag, coeg, annilys.

Fallacious argument—geuddadl, twylleb, twyllreswm, geureswm, rheswm gau.

Fallaciously, *ad.* yn dwyllodrus, &c.; trwy dwyll, trwy ddichell; mewn rhith, mewn lliw, mewn dichell, mewn twyll.

Fallaciousness, *s.* twyllodrusarwydd, twyllodrusedd, ffugioldeb, ffugiolder, ffugiolrwydd, geuedd, geuogrwydd, geuoldeb, geudeb, ffalsedd, twyllgarwch, lledrithioldeb, hocedusrwydd; somiant, somedigaeth, twyll.

Fallacy, *s.* (Ll. *fallacia*) twyll, twyllofaint, geudeb, geuedd, hoced, lledrith, lledrithiogrwydd, ffalsedd, ffalsder, ffalstedd, twyllgarwch, hudoliaeth, dichellgarwch, dichell, geunwd, som, somedigaeth, somiant, siom, ystryw, hud; anwiredd; camsyniad, camgymmeriad; geuddadl, geureswm, twyllreswm, rheswm gau, cyfrwysddadl, twylldadl.

To put a fallacy upon one—twyllo un, somi un; twyllo un trwy hud a lledrith; bwrw hud ar un; bwrw hud ar lygaid un; twyllo *neu* somi un trwy rith rheswm.

Fallen, *a.* (o *fall*) syrthiedig, cwympedig, cwympiedig, syrth, dygwyddedig, disgynedig.

They found Saul fallen in mount Gilboa—cawsant Saul yn farw yn mynydd Gilboa.

Fallency,† *s.* (Ll. *fallens*) camsyniad.

Faller, *s.* syrthiwr, cwympwr, syrthiedydd, cwympiedydd, disgynwr.

Fallibility, *s.* (It. *fallibilità*) hyballedd, hyfethrwydd, hyffaeledd, ffaeledigrwydd, ffaeledigaeth, hydwylledd, hyhudrwydd, hysomrwydd, hysomedd, somedigolrwydd; dichonolrwydd camsyniod; anmherffeithrwydd, gwendid, pallder; ansicrwydd, annilysrwydd.

Fallible, *a.* (It. *fallibile;* o'r Ll. *fallo*) hyball, hyfeth, ffaeladwy, methadwy, hysom, hysiom, hydwyll, hyhud; agored i'w dwyllo; agored i fethu *neu* i gamsynied; somedigol; ffaeledig, methedig; palladwy, aballus; llyth; à eill gamsynied *neu* gamgymmeryd; à ddichon gamsynied *neu* gamgymmeryd; darostyngedig i gamsyniad *neu* gyfeiliornad.

Falling, *s.* (o *fall*) syrthiad, cwympad, cwympiad, syrthiant, disgyniad, codymiad; cwymp; dygwyddiad, cwyddiad.

Falling away, } syrthiad ymaith, syrthiad
Falling off, } i ffwrdd, cwympiad ymaith; ymadawiad, gwrthgiliad, gwrthgwymp.

Falling down—syrthiad *neu* gwympad i lawr; llithrad, tramgwydd; cwymp hyd lawr; ymgrymiad; ymgreiniad.

A great falling down of earth—daiardor; cwymp mawr o ddaiar.

Falling in—syrthiad *neu* gwympad i mewn; pantiad, ceuad.

Falling out—cwympad allan; ymrafael, amrafael, ymryson, anghydfod, cynhen, annysgymmod, cyfrdan, ymgiprys.

Falling of waters—rhaiadr, dyfrgwymp, cwymp dyfroedd.

Falling, *p.* yn cwympo, yn syrthio, gàn syrthio, dàn syrthio, &c.; syrthiol, syrth, syrthiannus, disgynol, cwyddol; ar syrthio, ar gwympo, &c.

To keep from falling—cadw rhag syrthio; cadw yn ddigwymp.

Falling diverse ways, } amrygwydd, amry-
Falling diversely, } gwymp.

Falling-moulds, *s. pl.* syrthfoldiau, moldiau syrth.
Falling-sickness, *s.* masglwyf, haint dygwydd, clwyf dygwydd, llesmeirglwyf, haint Tegla, clwyf Tegla, y gloesion llewyg, y gloesion mawr, y gloesion bwrw, y clefyd bendigaid, gwialen Crist, dirloesion.
Falling-star, *s.* seren syrth, seren syrthiol, lluchseren : *pl.* lluchser.
Falling-stone, *s.* maen syrth, syrthfaen ; awyrfaen, goruchionfaen, llewyrnfaen.
Falling-style, *s.* syrthbost.
Fallow, *a.* (S. *falewe, falu, fealo ;* Is. *vaal ;* Al. *falb, fahl ;* Ll. *fulvus*) braenar, hyddliw, braenarliw, melyngoch, gwelwgoch, lledgoch, coch ; braenaraidd ; anhauedig ; anarddedig ; anniwylledig.
Fallow ground—tir braenar, braenardir, braenar, adwydd.
Break up your fallow ground—braenarwch i chwi fraenar.
Fallow field—cae braenar, maes braenar.
Fallow crop—cnwd braenar.
To lie fallow—gorwedd yn fraenar.
To lay fallow—troi yn fraenar ; rhoi i orwedd yn fraenar ; rhoi i orphwys yn fraenar.
Fallow land dunged by turning in cattle—braenardail, braendail.
Fallow, *s.* braenar, cynwydd, adwydd, tir braenar, braenardir ; tir newydd aredig.
Summer fallow—braenar haf.
Green fallow—braenar glas.
Second fallow—adfraenar.
To plough a fallow—braenaru.
To second plough a fallow—adfraenaru.
Fallow, *v. a.* braenaru ; tori yn fraenar ; tori braenar ; aredig.
Fallow,† *v. n.* edwi, gwywo, melynu.
Fallow-deer, *s.* hydd, danas, danys, llwdn hydd, bwch danas, bwch danys ; hyddes, gafr ddanas, gafr ddân, ewig lwyd : *pl.* hyddod, bychod danys, geifr danas, geifr danys.
Fallow-finch, } *s.* y gynffonwen, tinwyn y cer-
Fallow-chat, } yg, (*f.* tinwen y ceryg).
Fallowing, *s.* braenariad.
Fallowist, *s.* braenarwr, braenarydd.
Fallowness, *s.* braenaredd ; diffrwythder, anffrwythlondeb.
Falsary,† *s.* (Ll. *falsarius*) ffugiwr, camdystiwr.
False, *a.* (S. ; Ll. *falsus ;* Gw. *falsa*) gau, geuol, geuog, ffals, anwir, anwireddus, celwyddog, nid gwir, cam, geuain, traws ; twyllodrus, hocedus, twyllog, twyllfawr ; anghywir, anghyfiawn, anffyddlawn, ffalst ; ffug-, ffugiedig, ffuannol, coeg, cyfrithiol, rhagrithiol, rhith- ; bradog, bradus, bradol, bradwraidd, bradychus, bradwrus, bredychus.
False prophet — gau broffwyd, proffwyd gau, geu-broffwyd.
False brother — geu-frawd, gau frawd, brawd gau : *pl.* geu-frodyr, gau frodyr, brodyr gau.
False children—geublant, plant gau, gau blant.
False father—geudad, gau dad, tad gau.
False god—geudduw, duw gau, gau dduw.
False report—chwedl anwir, ffugiol, *neu* gelwyddog ; geuchwedl, gau chwedl, ffugchwedl, celwydd ; hanes anwir *neu* anghywir ; coeg chwedl, coegchwedl.
False accusation—camgyhuddiad, camgyhudded, traws gyhudded, traws gyhuddiad, camachwyn, camachwyniad.
False judgment—camfarn, geufarn, camfrawd, methfrawd, barn anghywir.
False opinion—camdyb, geudyb, camdybiant, camdybiaeth, geufarn ; tyb amryfus *neu* gyfeiliornus.
False accent — camacen, camacan, cam acen, acan anghywir.
False worship—gau addoliad, gau addoliant, geuaddoliad, geuaddoliaeth, addoliad gau, addoliant ffugiol.
False swearing — anudon ; anudoniaeth, anudonedd ; anudonair.
False oath—geulw, geudwng, anudon, anudonair, twng anudon, llw anudon ; haloglw.
False reasoning — geuddadl, coegddadl ; geuddadliad, gau ddadliad, gau resymiad.
False reason, } geubwyll, gau bwyll, rhes-
False sense, } wm gau.
False belief—geugred, camgred, geugrediniaeth, gaugrediniaeth, camgrediniaeth, camgoel, geuffydd, geulith.
False religion—gau grefydd, geugrefydd.
False appearance—geurith, lledrith, geuwedd, gau ymddangosiad, ymddangosiad gau, coeg ymddangosiad.
False glass—geuddrych ; drych anghywir, gau, *neu* dwyllodrus.
False measure—mesur anghywir, anghyfiawn, *neu* anghymhwys ; camfesur, mesur gau.
False rhyme—twyllodl, twyllawdl, geuodl, gau gyfodl.
False metre, } mydr anghywir, mydr
False verse, } anghysson, gwers anghywir, gwers anghysson, camfydr, mydr gwallus.
False orthography—camlythyriad, camlythyreg, camlythyraeth, camorgraff, camarddygraff, camlythyreniad.
False pretences—esgusodion ffugiol, gau, dychymygol, *neu* gelwyddog ; coeg esgusodion, ffug-esgusodion.
False balance—clorianau anghywir.
False witness—tyst gau, tyst celwyddog, tyst anghywir, gau dyst, geu-dyst ; gau dystiolaeth, camdystiolaeth, cam dystiolaeth.
Thou shalt not bear false witness—na chamdystiolaetha ; na ddwg gamdystiolaeth.
False imprisonment—camgarchariad, carchariad ar gam.
False knave—dyhiryn cyfrwysddrwg ; dyhiryn dichellgar.
False trick—hoced, dichell, chwired, cast bradwr.
False dealer—twyll-fasnachwr, hocedydd, hocedwr, twyllwr, somwr, bradwr, geuwr, twyll i'w gyfaill, twyll i'w gydymaith, dyn anffyddlawn, dyn bradwrus, dyn twyllodrus, dyn deuwynebog ; à chwareuo y ffon ddwybig ; à fedro chwareu y ffon ddwybig ; ffugiwr, ffuantwr ; masnachwr twyllodrus.
False fire—gwalldan.
False attic—coeg nenawr, coeglofft, ffugnenawr, ffuglofft.

False roof—coegnen, nenawr, croglofft, coeglofft.
False station—ffug-orsaf, gorsaf ffugiol; gorsaf na welir yn y cynllun (wrth gyfarchwylio).
False cadence — ffug-ddisgynsain, gau leddfeb, ffug-leddfeb.
False conception—pel y famog, llo lleuad; camdyb, &c.
False brome-grass—geuborwellt, geubawrwellt, gau borwellt.
My words shall not be false—nid celwydd fydd fy ymadroddion (*Iob* xxxvi. 4).
False to one's trust—bradog, bradwrus, bradwraidd, bradychus, bredychus, anghywir, anffyddlawn; anffyddlawn i'w ymddiried.
False dreams—breuddwydion ofer (*Sech.* x. 2).
False, } *ad.* yn ffugiol, &c.; mewn modd gau;
Falsely, } yn gyfeiliornus; mewn camsyniad.
To swear false, } tyngu anudon; geu-
To swear falsely, } dyngu, gau dyngu.
That swear falsely, } anudonwr, geudyng-
False swearer, } wr, un geulw, un geudwng, anudonog.
To play false—bod yn fradwrus; chwareu y bradwr; ymddwyn yn fradus; tori ei air; tori ei addewid; camchwareu.
To deal falsely — gwneuthur ffalsedd; gwneuthur yn dwyllodrus, &c.; twyllo.
To accuse falsely—camgyhuddo, camachwyn ar; cyhuddo ar gam; beio ar.
False,† *v. a.* ffalsu, ffugio, geuo.
False-faced, *a.* rhagrithiol, lledrithiog, rhagrithiog, geurithiog, geuwynebog, geuweddog, ffugiol.
Falsehearted, } *a.* twyllodrus ei galon; twyll-
Falseheart, } galon; rhagrithiol; dichellgar, ystrywgar, hocedus; anffyddlawn; anghywir; bradwrus, bradog, bradwraidd; coeg, gwag.
Falseheartedness, *s.* twyll-galonedd; rhagrith, rhagrithioldeb; anffyddlondeb, anghywirdeb; ffalsedd; bradwriaeth, bradwch, bradoldeb; brad.
Falsehood, *s.* (*false* a *hood*) geudeb, ffalsedd, geuedd, anwiredd, anwirionedd, gau, anwir, celwydd, ffug, ffalsder, twyll, twyllosaint, twyllodrusedd, geuogrwydd, geuoldeb; ffugiant, geurith, geuwedd, hudwaith; brad, bradwriaeth, anffyddlondeb, anghywirdeb; camwedd.
That speaks falsehood—geirffug, minffug, celwyddog, geu-lafar; à draetno ffalsedd.
Full of falsehood—geuog, ffugiog, geuain; llawn anwiredd a chelwydd; llawn dichell a thwyll; ffuglawn, dichellgar, twyllfawr, twyllodrus, hocedus, cyfrwysdrwg.
Words of falsehood—geiriau gau, gau eiriau, geiriau ffug, geiriau ffalsedd.
Thou tellest a great falsehood — dywedi gelwydd yn dy ddannedd.
Their deceit is falsehood—twyllodrus yw eu dichell hwynt (*Salm* cxix. 118).
Falseness, *s.* geuogrwydd, geuoldeb, ffugioldeb, anwiredd, anwirionedd, geudeb, geuedd, ffalsedd, ffalsder, celwydd; anffyddlondeb, anffyddlonder, anghywirdeb; bradwriaeth, brad, bradwch, bradusrwydd; twyllodrusedd, hocedusrwydd, deuwynebrwydd, deuwynebedd, anonestrwydd, twyll, hoced.
Falser, *s.* twyllwr, twyllydd, geuwr, geuadur, twyllawdr, twyllodur, twyllor, hocedydd, ffugiwr.
Falsetto, *s.* (It.) ffuglais.
Falsifiable, *a.* (o *falsify*) ffugiadwy, ffalsadwy; à ellir ei ffugio, &c.; à ellir ei ffugio yn ddichellgar; à ellir ei lygru drwy gymmysgu a chyfnewid; gwrthbrofadwy, disbrofadwy; à ellir ei brofi yn gelwydd.
Falsification, *s.* (Ff. o *falsifier*) ffugiad, ffalsiad, ffugiant, geuawd, llygriad; gosodiad y naill beth yn ddichellgar yn lle y llall; gwrthbrofiad, disbrofiad, dadbrofiad; profiad yn gelwydd; anwiriad.
Falsificator, } *s.* ffugiwr, ffuantwr; llygrwr,
Falsifier, } llygrydd, diwynwr; gau gymmysgwr; geufathwr; geueiriwr, geuodwr, celwyddwr, celwyddog, dyfeisiwr celwydd; gwrthbrofwr, disbrofwr, dadbrofwr; à lygro *neu* à wyro y gwirionedd.
Falsify, *v.* (Ff. *falsifier*; o *false*) ffugio, ffalsu, ffuantu, ffuannu, lledrithio, anwirio, anghywiro, geuo; dynwared, rhithio, geurithio; celwyddu, celwyddo, dywedyd celwydd; geufathu; llygru; dynwared er twyllo; dodi, gosod, *neu* roddi geubeth yn lle y gwirbeth; rhoddi y gau yn lle y gwir; gosod peth ffugiol yn lle yr iawn beth; llygru drwy gymmysg; gwrthbrofi, disbrofi, dadbrofi, dibrofi; profi *neu* wneuthur yn gelwydd; gwyro barn, daliad, amcan, meddwl, *neu* ystyr; gwyrdröi, gau gyweirio; gwyraw oddi wrth y gwirionedd; anghyfiawnu; tori.
To falsify one's word—tori ei air; tori ei addewid; gwyraw oddi wrth ei air; gwyraw oddi wrth ei addewid; bod yn waeth na'i air.
To falsify a report—profi chwedl yn gelwyddog *neu* yn gelwydd; gwneuthur chwedl yn gelwydd *neu* yn gelwyddog; ffalsu, gwrthbrofi, disbrofi, *neu* ddadbrofi chwedl.
To falsify a trust—bod yn anffyddlawn *neu* fradwrus yn yr hyn a roddwyd i un dàn ymddiried; tori *neu* fradychu ymddiried; bod yn euog o dwyll drwy ymddiried.
To falsify coin—geufathu, gau fathu, bathu arian drwg, ffugio arian bath.
Falsity, *s.* (Ll. *falsitas*) ffalsedd, geudeb, geuedd, gau, anwiredd, anwirionedd, celwydd, ffug, ffalsder, geuogrwydd, geuoldeb, geuawd.
Falter, *v. n.* (Ysp. *faltar*) bod âg attal dywedyd arno; dywedyd âg attal arno; bod â bloesgni arno; bod âg attal arno; cecian, ffeigebu; petruso; dywedyd yn afrugl ac anhyfedr; tramgwyddo wrth ddywedyd; attal dywedyd; bloesgi; yrthio; methu, aflwyddo, pallu, ffaelu; dyrysu yn ei chwedl; dyrysu yn ei ateb; ymwrthddywedyd; telgyngu; tori.
He falters in his speech—y mae attal dywedyd arno; y mae ffeigeb arno; y mae yn cecian; mae efe yn siarad yn yrth.
To falter in one's legs—telgyngu; tramgwyddo wrth gerdded; honcian, honcio, honco, hwntian, tripio; bod â'i liniau

yn pallu; bod â'i liniau yn plygu dano; bod â'i liniau yn curo yn nghyd.

To falter in one's design—methu cael ei amcan; methu cyrhaedd ei amcan; methu *neu* ffaelu ar y ffordd.

To falter (as threshers)—coeg ddyrnu; taro coeg ergydion.

Falter,† *v. a.* gogryn, gogrynu, gwegrynu, nithio.

Faltering, *s.* gwendid, llesgedd, eiddilwch, eiddiledd; attal dywedyd, rhwystr tafod, ceciad, ffeigebiad, diffyg; bloesgni, bloesgi, yrthwch.

Faltering, *p.* yn tramgwyddo yn ei eiriau; gàn *neu* dàn dramgwyddo yn ei eiriau; yn tramgwyddo yn ei gerddediad; dàn *neu* gàn dramgwyddo yn ei gerdded; tramgwyddus, ffeigebus, petrusog; afrugl, afrwydd.

Falteringly, *ad.* tàn attal wrth ddywedyd; âg attal dywedyd arno; dàn gecian; dàn delgyngu; dàn dramgwyddo; yn afrugl, yn afrwydd; gydag anhawsder *neu* wendid.

Fama Clamosa, *s.* (Ll.) gwarthrudd cyhoedd, anghlod cyhoeddus; chwedl rugl, son rhugl; y chwedl ar led.

Famble,† *v. n.* (D. *famler*) cecian, ffeigebu; bod âg attal dywedyd arno.

Fame, *s.* (Ff.; Ll., Ysp., ac It. *fama;* Gr. *phama*, *phémé*) son, y son, gair, y gair, chwedl, y chwedl; clod, gair da, geirda, bri, enw, parch, enwogrwydd, son mawr, gair mawr, enw mawr; mawrson, molawd, clodforedd, mawl, anrhydedd, clodiaeth, urddas, urdduniant, cymmeriad, cymmyredd, cymmyred, arglod; y son am un; y gair am un; newydd.

Good fame—gair da, enw da, geirda, son da; clod, moliant, mawl, bri, parch, cymmeriad; gair mawr.

Of good fame—â gair da iddo; â gair mawr iddo; âg enw mawr iddo; â son da am dano; â chlod iddo; clodfawr.

Ill fame—gair drwg, anair, drygair, enw drwg, son drwg, anghlod, achlod, anfri, gair bach.

Of ill fame—â gair drwg iddo; âg enw drwg iddo; âg anair *neu* ddrygair iddo; â son drwg am dano; â son cas am dano.

A house of ill fame—ty drwg.

Of no great fame—heb fawr son am dano; heb nemawr o son am dano.

Winged fame—son adeiniog.

Worthy of fame—gwiwglod, clodwiw, haeddglod; teilwng o glod.

Universal fame—clod cyffredinol, llwyrglod.

Fame and honour—clod ac anrhydedd, clod ac edmyg, clod a bri.

To seek after fame—clodymgeisio, clodymgais, clodgeisio; ymgeisio â chlod; ymgais â chlod; ceisio *neu* argeisio clod; chwilio *neu* ymofyn am glod.

Fame-seeking — clodgeisiol, clodymgais, clodymgeisiol; clodgar, clodgyrch, ceisglod; yn ceisio clod; yn ymgais am glod.

Ambitious after fame—clodymgais, clodgeisiol, clodymgeisiol; awyddus am glod.

Monuments of fame—argofion clod, cofarwyddion clod, cofadeiliau enwogrwydd.

A person of literary fame—gwr hynod am ddysg a gwybodaeth; dyn â gair mawr iddo am ddysg a gwybodaeth; gwr âg iddo enw mawr mewn llenoriaeth; gwr mawr ei glod llenorol; un mawr ei glod llenyddol; gwr enwog yn y byd dysgedig.

Fame outlives wealth—hwy clod no golud; hwy pery clod no golud.

His fame shall never die, } ei glod a
His fame shall live for ever, } bery byth; ei enw a bery byth; bydd son am dano tra byddo byd yn fyd; bydd son am dano tra byddo y byd yn bod.

I will get them praise and fame—mi a'u gosodaf yn glodfawr ac yn enwog (*Seph.* iii. 19).

They spread abroad his fame in all that country—hwy a'i clodforasant ef trwy yr holl wlad hòno (*Mat.* ix. 31).

Fame, *v. a.* gwneuthur yn glodfawr; clodfori, enwogi, brio; rhoi gair da i; adrodd, mynegu; traethu chwedl; rhoi y son allan.

Famed, *a.* enwog, clodfawr, hyglod, clodforus, clodlawn, clodfan, clodforeddus, clodforedig, clodleu; clodwiw, gwiwglod; â son mawr am dano; â gair mawr iddo; â gair da iddo; âg enw mawr iddo; mawr ei glod; dathl, dathledig, hyson, hynod.

Far-famed — clodbell, pellglod; pell ei glod; â son am dano yn mhell ac yn agos; â'i glod drwy y gwledydd; helaeth ei glod; hyglod, clodfawr.

Fame-giving, *a.* clodrodd, clodroddus, clodrydd, clodroddawg; yn rhoddi clod.

Fameless, *a.* diglod, anhyglod, anghlodfawr, heb glod.

Familiar, *a.* (Ll. *familiaris;* Ff. *familier*) teuluaidd, teuluol; cartrefol, cartrefaidd; cyfeillaidd, cyfeillgar, cyfeilliol; cyfrinachol, cydnabyddus; cynnefin, cynnefinol, arferol, arferedig, cydnabodus, adnabodus, adnabyddus, cyffredin, rhugl, sathredig; hysbys i bawb; y sydd yn ngeneu pawb; o'r un ty a'r un tylwyth; cyttyol, cyttyaidd, cytteuluol, cytteuluaidd; cyfnesafol, cydymeithiol, cyfathrachol; caruaidd, caredig, hynaws; rhydd ei ymddygiad at un megys pe bai o'r un teulu; rhydd, diddefod, rhwydd, hawdd; dirwystr, annyrys, ymadrodd-fwyn, geirfwyn, geirdeg; mwyn ei ymadrodd; hawdd ymddyddan âg ef; diaddurn, annhlws; amlwg, eglur; hawdd ei ddeall; hawdd i'w ddeall; hyddeall; mynych, aml; hy, hyf; rhy gyfeillgar, rhy gynnefin.

Familiar spirit—ysbryd dewiniaeth; angel coelgrefydd; elfod cyfeillgar, cyfrinfall.

Familiar spirits—duwiau y teulu, tydduwiau, teuludduwiau; ysbrydion dewiniaeth.

That have familiar spirits, } dew-
That deal with familiar spirits, } in-
That consult with familiar spirits, } iaid, swynyddion, swynwyr, consurwyr, chwiliogion: *sing.* dewin, &c.: *f.* dewines, chwilioges.

Familiar friend—cyfaill, cydgyfaill, cyfeillfrawd, câr, carwr, cydgar, cyfaill monwesol, cyfathrachwr, cydnabod, cyfaill cyfrinachol.

To be familiar with—bod yn gyfeillgar â *neu* âg; bod mewn cyfeillgarwch â *neu* âg; bod mewn cyfeillach â *neu* âg; ymgyfeillachu â *neu* âg; ymgyfeillio â *neu*

âg; ymgyfeillach â *neu* âg; bod yn gynnefin â.

To grow familiar with—myned yn gyfeillgar, yn gyfeillaidd, yn gynnefin, *neu* yn gydnabyddus â; myned yn nabyddus â; tyfu mewn cyfeillgarwch *neu* gyfeillach â; myned mewn cyfeillach â *neu* âg; cynnefino â *neu* âg; ymgynnefino â *neu* âg.

Mine own familiar friend—y gwr oedd anwyl genyf (*Salm* xli. 9).

My familiar friends have forgotten me—y rhai oeddent o'm cydnabod a'm hanghofiasant (*Iob* xix. 14).

Familiar, *s.* cyfaill, cyfaill monwesol, cydgyfaill, cyfeillfrawd, câr, cydgar, carwr, cyfathrachwr, cydnabod, cyfaill agos, cyfaill gwresog, cyfaill cyfrin, cyfaill cyfrinachol; ysbryd dewiniaeth, angel coelgrefydd, cyfrinfall, tydduw, teuludduw; cyfrinachwr.

Familiar (in the court of Inquisition) cyfrinwas=un à gynnorthwya i ddàl a charcharu y cyhuddedig.

All my familiars watched for my halting—pob dyn heddychol â mi oedd yn dysgwyl i mi gloffi (*Ier* xx. 10).

Familiarity, *s.* (Ll. *familiaritas*) cyfeillgarwch, cyfeillach, cydnabyddiaeth, cydymeithas, cyfathrach, cyweithasrwydd; cytteuluedd, teuluedd, teulueiddrwydd; cynnefindra, cynnefinder, cynnefindod, hir gydnabod, arfer, ymarfer; rhydd gymdeithas, rhydd gyfeillach; cudeb, caredigrwydd, anwylder, hoffedd, cydhoffedd, carueiddwch; cywestach, ymgystlwn, cystlwn, cyweithas; hynawsedd, hyfwynder, mwyneiddrwydd, mwyneiddwch; hyfder, hyfdra; ymarferiaeth; rhynabyddiaeth.

Too much familiarity breeds contempt—ni bydd rhybarch rhy gynnefin.

Familiarize, *v. a.* cynnefino; gwneuthur yn gynnefin; gwneuthur yn hawdd trwy ymarfer; peri yn gyfeillgar; peri yn gydnabyddus; arferu.

Familiarly, *ad.* yn gynnefin, &c.; yn ddiddefod; heb na rhwysg na rhodres.

Familism, *s.* (o *family*) teulugred, teuluadaeth; daliadau y Teulu Cariad.

Familist, *s.* (o *family*) teuluad, (*pl.* teuluaid), un o'r Teulu Cariad; un o Deulu y Cariad.

Familistic, *a.* perthynol i'r Teulu Cariad; yn perthyn i Deulu y Cariad; teuluadol.

Famille, *s.* (Ff.) teulu.

En famille—yn deuluaidd; mewn ffordd deuluaidd; mewn dull teuluaidd; yn ffordd teulu.

Family, *s.* (Ll. ac Ysp. *familia*; Ff. *famille*) teulu, tylwyth, tylu, tylwyth ty, tyaid, ty; llwyth, gwehelyth, gwelygordd, ach, llinach, llinys, cyff ach, paladr ach, cenedl, gwely cenedl, helyth, edryd, edryf, gwely, gwelydd, ystlynedd, achen; cymmaethlu, cymhrain; gosgordd; untyaeth, teuluaeth; ciwdod; uchelwaed, gwaedoliaeth, gwaedogaeth; rhyw a rhieni.

Joint family—cytteulu, cyttylwyth, cyttyaid, cytty.

Having a family—teuluog, tylwythog.

Having a large *or* numerous family—tylwythog, teulufawr; â chanddo deulu *neu* dylwyth mawr; â chanddo deulu lluosog; mawr ei deulu; lluosog ei deulu.

Chief of a family, } pencenedl, pen cenedl;
Head of a family, } penteulu, pentylwyth; pencordd, pencenal, penllwyth, cenedlor.

The royal family—y teulu breninol, y breninol deulu.

Master of a family—penteulu, pen teulu, penaeth ty, pen ty, gwr y ty, pendod y ty, penog y ty.

Mistress of a family—gwraig y ty, penteulues, penes ty, pendodes ty.

Family land—tir gwelyog.

Of a noble family, } diledach, diled-
Born of a noble family, } ryw, dyledog, dyledogryw, uchelryw, pendefigryw; boneddig cynnwynol; boneddig o waed; pendefigol o waed; o uchel achau; uchel ei achau; uchel ei waed; uchelwaed; pendefigaidd; o deulu anrhydeddus.

One of a mean family—adlaw, dyn iselradd, dyn iselryw, un lledach, un lledryw, un lledrywiog, un difonedd, un iselwaed.

Of the same family—cyttylwyth, undras, cyttras; o'r un teulu; o'r un tylwyth; cytty; câr, carwr, (*f.* cares).

The father's family—tadwys, cenedl y tad, tylwyth y tad.

The mother's family—mamwys, cenedl y fam, tylwyth y fam.

Family man—teulüwr, gwr teuluaidd, tylüwr.

Family of Love—Teulu Cariad, Teulu y Cariad = plaid grefyddol benboeth a phenrydd a gododd yn 1556.

Famine, *s.* (Ff.; Ll. *fames*) newyn; diffyg ymborth, prinder ymborth, eisieu bwyd, drudaniaeth, bwydwall, ellbwyd; eisieu, amddifadrwydd.

Famish, *v.* (*Ff. affamer*) newynu; marw o newyn; lladd â newyn; lladd trwy newyn; bod yn newynog; goddef newyn.

Famished, *p. p.* newynedig, &c.; newynog, newynllyd; ar farw o newyn; ar farw gàn newyn.

Famishing, *p.* yn newynu; newynol; ar farw o newyn; ar farw gàn newyn; yn barod i farw gàn *neu* o newyn; yn barod i drengu gàn *neu* o newyn; ar dranc gàn newyn; ar newynu.

Famishment, *s.* newyniad, newynogaeth, newyndod, newyndra, newynder, newynllydrwydd, newynogrwydd, newyn, bwydwalliant.

Famous, *a.* (Ll. *famosus*; Ff. *fameux*) enwog, clodfawr, hyglod, gwiwglod, clodwiw, hynod, clodforus, clodlawn, clodfan, clodleu, clodforedig, hyfawl, clodforeddus, clodus, dathl, dathledig, honaid, nodedig, canmoledig, canmoladwy, hyson; â gair mawr iddo; â son mawr am dano; â gair da iddo; mawr ei glod; â mawr son am dano.

To make famous—enwogi, clodfori, dathlu, hynodi; gwneuthur yn enwog, &c.

Nothing famous, } dim yn enwog; anenwog, anhynod, anhyglod, anghlodfawr, &c.
Not famous, }

Famoused, *a.* enwog, clodfawr, clodforedig, moledig.

Famousness, *s.* enwogrwydd, clodforedd, hynodrwydd, hyglodedd, clodforusrwydd, clodiaeth, dathledd, clodusrwydd, honeidrwydd, bri, clod, arglod, enw mawr, enw.

Famulate,† *v. n.* (Ll. *famula*) gweini, gwasanaethu.

Fan, *s.* (S. *fann*; Sw. *vanna*; D. *wan*; Al. *wanne*; Ll. *vannus*) gwyntyll; ffedonas; nithlen; mantell wynt; gwyntyll nithio.

Fan, *v. a.* gwyntyllio, gwyntyllu, gwyntio, chwythu; nithio; casglu, gwneuthur, *neu* beri gwynt; lledoeri *neu* chwythu â gwyntyll; chwythu ar; ffuglio, dyffuglio.

To fan corn—gwyntyllio yd, nithio yd, nithio; troelli, dïoldi.

I will fan them with a fan in the gates of the land—mi a'u chwalaf hwynt â gwyntyll yn mhyrth y wlad (*Ier.* xv. 7).

Fanal, *s.* (Ff.) goleudy, goleudwr.

Fanatic, } *a.* (Ll. *fanaticus*) penboeth, pen-
Fanatical, } wyllt, ynfyd-grefyddol, gwylltgrefyddus, llerth, iwin, iwinol, gorwyllt, ynfyd, gwallgof, gwallgofus, lledfrydig, anmhwyllog, pendwym, brwdfrydig, gorhewydus, gorhewydig, gorhewydol, peniasog, brwdfrydus, echwyrth.

Fanatic, *s.* penboethwr, penboethyn, penboethiad, ynfyd crefyddol, crefyddwr penboeth, llerthyn, llerthog, iwin, ynfydyn, brwdfrydwr, gorhewydwr, gorhewydydd, peniasog.

Fanaticism, } penboethni, penboethedd, pen-
Fanaticalness, } boethder, penboethrwydd, gwyllt-grefyddiaeth, llerthedd, llerthrwydd, penboethni crefyddol, brwdfrydigrwydd.

Fanaticize, *v. a.* llerthu, ynfydu, penboethi; gwneuthur yn benboeth, &c.

Fancied, *p. p.* (o *fancy*) dychymygedig, crebwylledig, &c.; dychymygol, ffugiol, ffug-, darfelyddol, coeg ddychymygol; à ddychymygwyd *neu* à luniwyd yn y meddwl; à dybiwyd ei fod ac na bu mewn gwirionedd; eilunaidd.

Fancier, *s.* (o *fancy*) hoffydd, hoffwr, mympwywr, dychymygwr, asbrïwr, asbrïedydd, cymygwr.

Fanciful, *a.* (*fancy* a *full*) dychymygol, dychymygus, mympwyol, ympwyol, coegdybus, coegdybiog, coegdybiol, coelgar, tybgar, hydyb, hygoel, coegfeddylgar, asbrïog, crebwyllog; llawn coegdybiau; llawn gwag feddyliau, &c; cymyglawn, dychymyglawn, nwythus, arnwythus.

Fancifully, *ad.* yn ddychymygol, &c.; o wir wagdyb; o wir goeg feddwl.

Fancifulness, *s.* tybgarwch, mympwyaeth, mympwyedd, mympwyoldeb, coelgarwch, hydybedd, hygoeledd, crebwylledd, dychymygolrwydd, dychymygoldeb, coegdybusrwydd, coegdybiogrwydd, dychymygiaeth, darfelyddiaeth.

Fancy, *s.* (talfyriad o *fantasy*; Ll. a Gr. *phantasia*) dychymyg, y dychymyg, asbri, crebwyll, darfelydd, cymyg; mympwy, ympwy, nwyth, nwythas, ias pen, ias, llettyb, godyb, coegdyb, gwagdyb, oferdyb, ofergoel, coel, meddwl, tybiant, tybiaeth, tyb, syniad, bryd, nwyd, chwidredd; ffug y meddwl; tyb, dychymyg, *neu* fwriad y meddwl; hoffedd, hoffder, serch, ymhoffedd, cariad, ymserchiad; tuedd, ewyllys, gwyllys; chwaeth, archwaeth; athrylith.

Fancy to, } serch at, hoffedd yn, hoffder
Fancy for, } yn, ymhoffedd yn; tuedd at, ewyllys at; tuedd meddwl.

To take a fancy to—serchu, traserchu, hoffi, gorhoffi, ymhoffi yn, ymserchu yn; rhoi bryd ar; rhoi ei fryd ar; rhoi ei feddwl ar; rhoi ei serch ar; bod ar un chwant i; cymmeryd hoffder yn *neu* mewn.

To have a fancy to—chwennychu, chwennych, dymuno, ewyllysio; blysio; bod ar un chwant i.

To engage one's fancy, } ennill, tynu, *neu*
To take one's fancy, } ddenu serch un; boddhau un; bod wrth fodd un; myned â serch un.

To live after one's own fancy—byw fâl y myno un ei hun; dylyn ei anwyd ei hun heb na rhagod na rhwystr; bod heb amgen rheol i'w fuchedd na'i ewyllys ei hun a'i fympwy; byw wrth ei fympwy ei hun.

To feed on idle fancies—byw *neu* ymborthi ar ofergoel; byw *neu* ymborthi ar wynt; byw *neu* ymborthi ar wagedd; byw ar wag ddychymygion; ymddiried ar gysgodau; somi ei hun; ymsomi.

He followed his own fancy—efe a aeth wrth ias ei ben.

Fancy, *v.* dychymygu, dychymyg; darfelyddu, crebwyllo; tybio, tybied, tybygu, coelio, llettybio, llettybied, meddylied, coegdybio, coegdybied, gwagdybio, brithdybio; bwrw bod peth; bwriadu, llunio, ffugio, *neu* ddychymyg yn y meddwl; serchu, hoffi, traserchu, gorhoffi, ymhoffi yn, ymserchu yn, caru; rhoi bryd ar; rhoi ei fryd, ei feddwl, *neu* ei serch ar; bod ar un chwant i.

Fancyer, *s.* (o *fancy*) hoffwr, hoffydd, mympwywr, dychymygwr, asbrïwr, asbrïedydd, cymygwr.

Fancy-fair, *s.* ffair deganau, ffair asbri, ffair gorhoffion, ffair mannwyddau, ffair gymyg.

Fancy-framed, *a.* lluniedig gàn y dychymyg.

Fancy-free, *a.* cariadrydd, serchrydd; rhydd oddi wrth rym cariad.

Fancy-monger, *s.* coelgastiwr, asbrigastiwr, crebwyll-gastiwr.

Fancy-sick, *a.* coelglaf, claf dychymygol, nwythasglaf.

Fandango, *s.* (Ysp.) math o ddawns bywiog, arferedig yn yr Yspaen.

Fane, *s.* (Ll. *fanum*) teml; llan, eglwys, glwysfa, gleinfa, cyssegrfa.

Fane, *s.* (Ff.; Is. *vaan*) chwafynag, awelfynag, ceiliog gwynt, gwiblen.

Fanfare, *s.* (Ff.) udganiad, caniad udgyrn; dyfod i'r ymgyrch gyda sain udgyrn; heldon.

Fanfaron, *s.* (Ff.) bygylwr, bocsachwr, ymffrostiwr, bostiwr, ymgecrwr, rhodreswr, gwagymffrostiwr, gwagfolachwr, coegfolachwr, coegymffrostiwr.

Fanfaronade, *s.* (Ff. *fanfaronnade*) bocsach, ymffrost, gwagfolach, coegfolach, brawl, broled, rhodres.

Fang,† *v. a.* (S. *fengan*; Al. *fangen*) dàl, dala, ymaflyd yn, gafaelu yn, crafangu, crafangio.

Fang, *s.* (S. ac Al.; Is. *vang*) ysgythr, ysgythrddant, dant ysgythr, dalddant; crafanc, ewin; ysbag, ysbach; crafangaid, ysbachaid.

Fang tooth—ysgythrddant, ysgythr, dant-ysgythr, dant ysgythrog.

Having fangs=*Fanged.*

Fanged, *a.* ysgythrog; crafangog; ewinog; ysbagog.

Fangle,† *s.* (o'r S. *fengan*) ymgais newydd, cynnyg newydd; dyfais wag, ofer, *neu* ddibwys: *pl.* coeg anturion, coeg ddychymygion, coeg ystrywiau.

Fangled, *a.* newydd ei wneuthur; newydd; coegwych, hoewych, ymddangosiadus, ceinwych, coeg-addurnedig, coegffurfiedig, ffugiedig.

New fangled — newyddffurfiog, newyddgoeg; à ddychymygwyd yn ddiweddar; coegffurfiog, coegffurfiedig, coegwych; newydd, newyddus.

There are some so new fangled, that they would innovate all things—y mae rhai â'u gwŷn gymmaint ar bob ammeuthyn, fel y chwennychent newyddu pob peth.

Fangless, *a.* (*fang* a *less*) dïysgythr; digrafanc; diddaint, diddannedd; heb ysgythron; heb ddannedd, heb grafangau.

Fangot, *s.* nwyddref, nwyddsypyn (o ganpwys i ddau ganpwys a thripharth).

Fanion, *s.* (F.) baneryn, baneren.

Fanlight, *s.* ffenestr uwch ben drws, ffenestr wyntyll.

Fan-like, *a.* gwyntyllaidd, gwyntyllwedd; tebyg i wyntyll; fel gwyntyll; plygedig.

Fannel, } *s.* (Ff. *fanon*) offerenrwy, breich-
Fanon, } dogas, ysgablar offerenwr.

Fanner, *s.* (o *fan*) gwyntyllydd, gwyntylliwr, gwyntylliedydd, gwyntiwr, nithiwr.

Fanners—gwyntyll, peiriant nithio, offeryn nithio.

Fan-nerved, *a.* â'i ïau fel gwyntyll; â'r gïau ar lun gwyntyll.

Fan-palm, *s.* gwyntyll-balmwydd, y pren Talipot.

Fan-shaped, *a.* gwyntyllaidd; ar lun gwyntyll; gwyntyllwedd.

Fan-shaped windows—ffenestri gwyntyllaidd; ffenestri ar lun gwyntyllau bonedd-esau.

Fantasia, *s.* (It.) nwythalaw.

Fantasied,† *a.* (o *fantasy*) mympwyog, nwythog, dychymygol.

Fantasm, *s.* (Gr. *phantasma*) drychiolaeth, lledrith, geurith, gorith, tremyniad, gau ymddangosiad, gwag ymddangosiad, coeg ymddangosiad, twyll-ymddangosiad, coegrith, gwag eilun, bygwydd, hudwy, hugwd, gwyll, ellyll, anysbryd; dychymyg.

Fantastic, } *a.* (Ff. *fantastique;* It. *fantastico;*
Fantastical, } o'r Gr. *phantasia*) dychymygol, dychymygus, anwadal, gwamal, mympwyol, ympwyol, nwythus, nwythol, nwythig, nwythog, gwagsaw, oriog, anwastad, penchwiban, penysgafn, chwidr, pendröedig, anhysaf, ansafadwy, syfal, afreolaidd, anseflydlog, ansad, ysgoew, ysmala, cymygol, coegdybus, gwagdybiol, geudybiol, coegdybiog, ffoldybus, gofregus, arnwythus, coegfeddylgar; asbrïog, crebwyllog, darfelyddol; ffugiol, ymddangosiadol, lledrithiol; geuluniol, geuluniaidd; gwyllt, gorwyllt; gwallgofus, lledfrydus; od, hynod, anghyffredin; coegfalch, rhy ddilyn, rhy ddichlyn, mursenaidd; afresymol.

Fantastic, *s.* dyn anwadal, &c.; gwamalddyn, chwidryn, monyn.

Fantasticalness, *s.* dychymygolrwydd, dychymygoldeb, anwadalwch, anwadaledd, gwamalder, gwamaldod, anwadalrwydd, &c.; mympwy, nwyth, nwythas, chwidredd, asbri, nwyd, gwŷn anwadal, chwim, chwimp; ias pen, gwib meddwl, gwamaldyb, coegfeddylgarwch, ffoledd; coegfalchedd.

Fantasy, *s.* (Gr. *phantasia*)=*Fancy.*

Fantoccini, *s. pl.* (It. *fantoccio*) llamddelwau.

Fantom, *s.* (Ff. *fantôme;* o'r Ll. *phantasma*) drychiolaeth, lledrith, geurith, gorith, tremyniad, gau ymddangosiad, gwag ymddangosiad, coeg ymddangosiad, twyll-ymddangosiad, coegrith, gwag eilun, bygwydd, hudwy, hugwd, gwyll, ellyll, anysbryd.

Fantom corn—yd wedi gwywo cyn addfedu; yd lledrithiog.

Fap,† *a.* meddw, brwysg.

Faquir, } *s.* (Ar.) Ffacir, Ffacîr, monach
Fakir, } Indiaidd.

Far, *a.* (S. *feor, fior, fyr;* Is. *ver, verre;* Ll. a Gr. *porro*) pell, pellenig, pellynig, anghyfagos, abell, anghysbell, pellynus; hirbell; maith, hirfaith, hir a maith, meithbell, nid yn agos.

Very far—pell iawn, pellbell, tra phell, gorphell, gorbell, hirbell, pur bell, pell byd.

Not far—neppell; heb fod neppell; nid neppell; nid yn neppell.

As far—mòr bell, cyn belled, càn belled, cybelled, pelled, cymhelled; cydbell, cysbell, gogysbell, cyfbell; cyn belled a'u gilydd; cybelled a'u gilydd; o'r un pellder; yr un càn belled; yr un mòr bell.

Somewhat far—go bell, lled bell, lledbell, go-bell, tràn bell.

A far country—gwlad bell, gwlad bellenig.

A far way—ffordd bell, ffordd faith, ffordd hirbell, ffordd hirfaith.

The far side of a horse — ochr bellaf ceffyl.

He is not far—nid yw efe neppell.

And when he was now not far from the house—ac efe weithian heb fod neppell oddi wrth y ty.

Though he be not far from every one of us—er nad yw efe yn ddïau neppell oddi wrth bob un o honom.

As a man taking a far journey—fel gwr yn ymdaith i bell; fel gwr yn cymmeryd taith bell.

Be ye far from thence, } ciliwch oddi
Get ye far from thence, } yno.

Get ye far from the Lord—ymbellhëwch oddi wrth yr Arglwydd.

His children shall be removed far—ei blant a bellhëir.

Be not far from me—na fydd bell oddi wrthyf; nac ymbellha oddi wrthyf.

They that are far off—y pellenigion (*Sech.* vi. 15).

Hear, ye that are far off—gwrandëwch, belledigion (*Esa.* xxxiii. 13).

That be far from thee—na byddo ti (*Gen.* xviii. 25).

Far be it from thee—na ato Duw hyny i ti (1 *Sam.* xx. 9).

Far be it from God, that he should do wickedness—pell oddi wrth Dduw fyddo gwneuthur annuwioldeb (*Iob* xxxiv. 10).

Their children were far off in that way—pell oedd eu plant oddi ar y ffordd hòno.

Far from—pell oddi wrth; yn mhell oddi wrth.

Far be it from me—pell fyddo oddi wrthyf; pell y bo oddi wrthyf; na ato Duw i mi; na adawo Duw i mi; na aded Duw i mi; na adawed Duw i mi.

Far, *ad.* yn mhell, yn bell; pell, hirbell; o bell, o hirbell; neppell, yn neppell; o lawer.

As far—cyn belled, càn belled, mòr bell, cybelled, cymhelled; yn gysbell, yn gydbell, yn ogysbell, yn gyfbell; o'r un pellder; cybelled a'u gilydd.

As far as—mòr bell a *neu* ag; cyn belled a *neu* ag, &c.; hyd yn, hyd at; hyd, med; cyhyd a *neu* ag.

So far—hyd yno, hyd hyny; hyd at hyny; hyd yn hyny; cyn belled a hyny; cybelled a hyna; cyd a hyny; cyd a hyna; mòr bell.

As far as—cyn belled a *neu* ag; mòr bell a *neu* ag, &c.

By far—o lawer, yn llawer; o lawer byd; nid o ychydig; yn mhell, yn bell; llawer.

Far better, } gwell o lawer; llawer
Better by far, } gwell; llawer iawn gwell; gwell o lawer iawn; rhagorach o lawer; llawer yn rhagorach *neu* yn amgenach.

How far?—pa belled? pa mòr bell? pa gyn belled? pa gàn belled? hyd ba le? hyd yn mha le? pa hyd? hyd ba bryd? i ba bellder?

Far other—amgenach; yn wahanol iawn; yn dra gwahanol.

Far otherwise—yn amgen yn mhell; yn amgenach yn mhell; yn dra gwahanol.

Far from—yn mhell oddi wrth; pell oddi wrth.

From far—o bell, o hirbell.

Far and near—yn mhell ac yn agos; pell ac agos; yn mhell ac agos; o bell ac o agos.

Far off—yn mhell, pell; o hirbell.

Far within—pell i mewn; yn mhell i mewn; yn ddwfn.

Far above—yn mhell uwch law; pell uch law; pell oddi ar.

As far forth as—cyn belled a *neu* ag; cyhyd a *neu* ag; yn gymmaint a.

As far as possible—i'r eithaf; hyd yr eithaf; dim ag a ellid; hyd y gellid; hyd y gellir; cyn belled ag y gellid; mòr bell ag y gellir; cybelled ag y bo dichonadwy.

As far as might be—hyd y gellid.

To remove far off, } pellhau, pellu; sym-
To put far away, } mud yn mhell; bwrw ymaith yn mhell.

To remove one's self far from—ymbellhau oddi wrth.

Far gone in years, } gwedi myned yn
Far advanced in years, } mhell mewn oedran; mewn gwth o oedran; oedranus.

Far did you come in quest of it—pell y daethoch i'w geisio.

I have a far other opinion of him—y mae genyf amgenach tyb am dano; mae genyf dyb amgenach am dano.

A land far off—gwlad bell; tir pell.

Neither is it far off—ac nid yw bell.

Times that are far off—amseroedd pell.

To a people far off—i bobl o bell.

In a place far off—mewn lle o hirbell.

Far spent, } ar ddarfod; yn darfod; wedi
Far passed, } treulio, cerdded, *neu* redeg yn mhell.

When the day was now far spent—yna wedi ei myned yn llawer o'r dydd.

Now the time is far passed—weithian y mae hi yn llawer o'r dydd.

The night is far spent—y nos a gerddodd yn mhell.

It is far day—mae hi yn llawer o'r dydd; hi aeth yn llawer o'r dydd; mae hi yn uchel ddydd; hi aeth yn uchel ddydd.

Far above all heavens—goruwch yr holl nefoedd.

Thy judgments are far above out of his sight—uchel yw dy farnedigaethau allan o'i olwg ef.

An eloquent man is known far and near—adwaenir o bell ac o agos yr ymadroddus ei dafod.

As far as Antioch—hyd Antiochia.

As far as to Bethany—hyd yn Bethania.

We are come as far as to you also—hyd atoch chwi hefyd y daethom; daethom hyd atoch chwithau.

Far, *s.* (S. *fœrh*, *fearh*) perchyll, torllwyth, al o berchyll.

Far-about,† *s.* mynediad allan o'r ffordd.

Farantly,† *ad.* yn drefnus, yn weddus, yn weddaidd.

Far-beaming, *a.* rheiddbell, pellreiddiol; yn taflu pelydr yn mhell.

Far-brought, *a.* à ddygwyd o bell; dygiedig o bell, pellddwyn.

Far-cast, *a.* pelldafledig; à fwriwyd *neu* à daflwyd yn mhell.

Far-extended, *a.* pell-estynedig, pell-daenedig, estynbell, pell-estyniog.

Farce, *s.* (Ff.; It. ac Ysp. *farsa*) croesanaeth, croesaren, croesaneg, coegchware, gogusgerdd; ysmalawd; rhithwaith, esgusbeth, lliw o beth, eiliw.

Farce, *v. a.* (Ll. *farcio*; Ff. *farcir*) llenwi, gorlenwi, sechu, secu, gorlwytho; llanw â chymmysgedd; estyn, chwyddo, chwyddo allan.

Farcical, *a.* croesanaidd, croesarenaidd, croesanegol, coegchwareuol; digrif, digrifion, digrifol, ysmala, digriflan; lledrithol, lledrithiol, geurithiol, twyllodrus.

Farcilite, *s.* (o *farce*, a Gr. *lithos*) potenfaen.

Farcing, *s.* (o *farce*, *v.*) cymmysg, cymmysgedd, cymmysgfa; cymmysgfwyd.

Farcy, } *s.* (Ff. *farcin*) clafr meirch, clefri
Farcin, } meirch, y clefri mawr, y clwyf mawr, clafr, clefri, y clafr ar feirch, y clwyf gwahanol ar feirch, gwahanglwyf y meirch, y gwahanglwyf ar feirch.

The water farcy—y clefri dyfrllyd.

Farctate, *a.* (Ll. *farctus*) llenwedig, gorlawn, gorllawn, llawn, tynlawn, sechedig, secedig, dàn sang, sangedig; wedi ei dyn lenwi.

Fard,† *v. a.* (Ff.) paentio, lliwio, arliwio.

Fardel, *s.* (It. *fardello*; Ff. *fardeau*) sypyn, byrnyn, dylofyn, sypynyn, ffunell, tusw, byrnaid, ffasgell, bwrn, bwrnel, pwn, pynor, ffacwd.

Fardel, *v. a.* sypynu, byrnio, sypio, sybyrnio, bwrnelu, ffasgu, sopenu.

Fare, *v. n.* (S. *faran*; Al. *fahren*) byw, bod, bydio, bucheddu; ymdaro, ymdaraw; cynnal, ymgynnal; hyntio, teithio, myned.

symmud; bod mewn hynt, helynt, *neu* gyflwr; ymborthi; dygwyddo, dygwydd, hapio.

To fare well—byw yn dda, yn wych, yn foethus, *neu* yn helaethwych; bod yn iach; bod mewn iechyd; ymdaro yn dda; bod yn dda ar.

Fare thee well!—yn iach i ti! bydd wych!

To fare ill — bod yn ddrwg ar; ymdaro yn ddrwg.

To fare hardly—byw yn galed.

So on he fared—felly yn mlaen yr aeth, yr hyntiodd, y symmudodd, y rhodiodd, y cyrchodd, *neu* yr ymdeithiodd.

How fare you? } pa fodd yr ym-
How fareth it with you, } darëwch? pa fodd yr ydych yn ymdaro? pa fodd yr ydych yn bydio? pa fodd yr ydych? pa sut yr ydych? sut yr ydych? pa fyd y sydd arnoch? pa fyd? pa hynt? pa helynt? beth yw eich hynt? beth yw eich helynt? pa beth yw eich hynt? pa beth yw eich helynt? pa sut y mae hi yn dyfod? pa sut yr ych yn ymglywed? pa fodd yr ydych yn ymglywed?

He will fare the worst for it—bydd gwaeth iddo o'i blegid; bydd waeth iddo o'i blegid; bydd yn waeth iddo o'i blegid; efe a hanfydd gwaeth o'i blegid; efe a hanfydd waeth o'i herwydd.

He fared the better for it—bu gwell iddo o'i herwydd; bu gwell iddo o'i blegid; efe a hanbu gwell o'i herwydd.

Look how thy bretheren fare—ymwel â'th frodyr a ydynt hwy yn iach.

He shall never fare the worse—ni bydd dim gwaeth iddo.

A stubborn heart shall fare ill at the last—drwg fydd ar galon galed yn y diwedd.

You cannot fare well but you must cry roast meat—cogor iar yn ydlan; ni fedr lwyddo heb orfoleddu.

Fare, *s.* ymborth, llunïaeth, bwyd, sir, porthloedd; arian clud, tâl clud, tâl am glud, cludwobr, cludobrwy, cludiad, tâl cludiad, cluttal, porthlog, arian porth, clud, y clud.

Bill of fare—bwydreseb, bwydres; cofres bwyd *neu* arlwy.

So he paid the fare thereof—ac efe a dalodd ei llong-log hi (*Jon.* i. 3).

Farewell, *ad.* (*fare* a *well*) bydd wych; byddwch wych; bydd iach; byddwch iach; iach y byddot; iach y byddoch; dos yn iach; ewch yn iach; nawdd Ion arnat; Duw a fo gyda thi; Duw fo gyda thwi; Duw gyda thi; Duw a'th gadwo; nawdd Duw arnat; Duw yn borth iti; porth Duw iti; debre'n iach; bydd lawen; Duw yn rhwydd; yn iach, yn wych; iach y byddych.

Farewell, farewell for ever to every joy!—yn iach, yn iach byth i bob llawenydd!

Farewell, *s.* caniad yn iach, ymadawiad; ymadeb, cenad; cymmeriad ei genad *neu* eu cenad; cyfarchiad wrth ymadael; iach ganiad, ymiachâd.

Farewell sermon — pregeth ymadawol; pregeth wrth ganu yn iach.

To take one's farewell of one, } canu yn
To bid one farewell, } iach i un; cymmeryd ei genad oddi wrth un; ymadael âg un; ymiachäu âg un; ymadebu âg un.

We must bid all our friends farewell—rhaid yw i ni ymiachäu â'n holl gyfeillion; rhaid canu yn iach i'n cyfeillion oll.

I will bid them all farewell—canaf yn iach iddynt oll.

Far-famed, *a.* clodbell, pellglod; pell ei glod; â son am dano yn mhell ac yn agos; â'i glod drwy y gwledydd; helaeth ei glod; hyglod, clodfawr; hynodfawr.

Far-fetch, *s.* ystryw cyrchbell, ystranc, cyfrwys ddichell, ystrywiaeth.

Far-fetched, *a.* pellgyrch, pellgyrchedig, cyrchbell; cyrchedig o bell; à gyrchwyd o bell; wedi ei gyrchu o bell; à gyrchwyd o hirbell; à olrheiniwyd o'r gwreiddyn; dirdynedig, gwyrdröedig, annaturiol, cymhelledig.

A far-fetched discourse—ymadrodd rhy fanwl, rhy ddichlyn, rhy ddwfn, rhy goeth, *neu* ry gymhen; ymadrodd dirdynedig *neu* annaturiol.

Dearbought and far-fetched — bargen ddrud a'i chyrchu o bell.

Farin, } *s.* (Ll. *farina*) pain, paill, manbaill,
Farina, } peillwy, blawd blodau, gwullflawd; peillied, blawd.

Farina (in botany)—pain, paill, manbaill.

Farina (in chemistry)—pain, paill, peillud.

Farinaceous, *a.* (o *farina*) blodwy, blodiog, blawdog, peilliog, peiniog, peiniol, peillaidd.

Farinose, *a.* (o *farina*) blawdaidd, peillaidd, peinaidd, arflodaidd, blodiog, blawdog.

Far-looking, *a.* pellwel, syllbell, pellganfyddol, pelldremiol; yn edrych yn mhell.

Farm, *s.* (S. *farma, fearm, feorm*; Ff. *ferme*) tyddyn, syddyn, esyddyn, fferm; maenor, maenol, maerdref; gafael o dir; tir.

A farm held in villenage, } taiogdref,
A farm held in base tenure, } mileindref, bileindref, tyddyn caethafael, tir caethafael.

Dairy farm — llaethdyddyn, maeron-dyddyn, maeron-syddyn, blithdyddyn, tyddyn blith, maerwri, maeroniaeth, tyddyn maeronol, llaethdir.

Farm servant—amaethwas, gwas amaeth, tyddynwas, gwas amaethyddol.

Farm bailiff—meirionwr, maeronwr, maeronydd, maenorydd.

Farm, *v. a.* amaethu, trin tir, llafurio tir, ffermu, ffermio; rhentu, gosod; rhoi ar rent; rhoi dàn bris *neu* ardreth; gosod yn llog; gosod ar log; rhentu allan; cymmeryd ar rent; cymmeryd dàn ardreth; rhentu *neu* ffermu allan; ymaflyd â thir.

To take to farm—cymmeryd ar rent; cymmeryd dàn ardreth; rhentu; ymaflyd â thir; ymaflyd â gafael o dir; amaethu, ffermu; trin tir, llafurio tir.

To farm let, } rhoi ar rent; rhoi dàn
To let to farm, } bris *neu* ardreth; gosod yn llog; gosod ar log; rhentu allan.

Farmable, *a.* amaethadwy; rhentadwy.

Farmer, *s.* amaethwr, amaethydd, tyddynwr, amaethon, tirdriniwr, areddwr, hwsmon, tirddiwylliwr, amaeth, diwyllydd tir, ffermwr, llafurwr; taiog, aill, aillt.

A farmer of the revenues—amaethwr y

cyllidau; rhentwr y cyllidau; amaethydd y daeredion; amaeth daered.

Farmery, Farmyard, *s.* amaethlan; buarth, beili, clos, ffald, *neu* gadlas tyddyn; tyddynarth.

Farmhouse, *s.* tyddyndy, syddyndy, amaethdy, esyddyndy, ty fferm, ffermdy, ty amaeth.

Farming, *s.* amaethiad, amaethiant, tirdriniad, triniad tir, tirddiwylliad, llafuriad tir; amaethyddiaeth, amaethwriaeth, amaethoniaeth, tirdriniaeth, amaethiaeth, hwsmonaeth, tirddiwyllodraeth.

Farmost, *a.* (*far* a *most*) pellaf, pellenicaf; mwyaf pell, &c.; eithaf.

Farness, *s.* (o *far*) pellder, pelldra, pelledd, pellineb, pellrwydd, pellenigrwydd, pellynigrwydd, pellenigedd, pellynusrwydd; meithder, meithdra, meithineb.

Faro, *s.* math o chware.

Far-piercing, *a.* pelldreiddiol, treiddbell; yn treiddio yn mhell.

Farraginous, *a.* (Ll. *farrago*) cymmysg, cymmysgedig, mysgedig, amrygymmysg.

Farrago, *s.* (Ll.) cymmysgedd, cymmysg, cymmysgfa, mysgedd, crug amrygymmysg, amryfysgedd.

Farrand, Farand, †*s.* (Goth. *fara*) arfer, dull, defod, hwyl.

Farreation, *s.* (Ll. *farreo*) cytteisiad.

Far-resounding, *a.* pellseiniog, adseinbell, dadseinbell; yn adseinio yn mhell; pell ei adsain.

Farrier, *s.* (Ff. *ferrant;* Ll. *ferrarius*) milfeddyg, marchfeddyg, meddyg meirch, meddyg anifeiliaid; pedolwr, gof, gofant.

Farrier, *v. n.* milfeddygu; gwneuthur gwaith milfeddyg.

Farriery, *s.* milfeddygiaeth, milfeddyginiaeth, marchfeddyginiaeth, meddyginiaeth meirch.

Farrow, *s.* (S. *fearh, fœrh*; Al. *ferkel*) perchyll, torllwyth o berchyll, âl o berchyll, torllwyth.

Farrow pig—porchell: *dim.* porchellyn,
A sow with farrow—hwch dorog.

Farrow, *v. a.* bwrw perchyll, dyfod â pherchyll, porchellu, dwyn perchyll, dyfod â moch.
A pig farrowed—porchell bwrw.

Farrow, *a.* (D. *vaare*) myswynog, anhiliog, hysp, (*f.* hesp).
Farrow cow—myswynog, buswynog.
To be farrow, To go farrow, bod yn fyswynog; bod yn hesp.

Far-seeing, *a.* pellwel, pellwelog, pellweladol, pelldremiol, pellganfyddol; pell ei weled; yn gweled yn mhell; pell ei olwg.

Far-shooting, *a.* ergydbell; pell ei ergyd; yn saethu yn mhell; saethbell, pellsaethol.
Far-shooting Apollo—Tydain ergydbell, Apolo ergydbell.

Far-sighted, *a.* pell ei olwg; pelldremiog, pellwelog, pellweladol, pellganfyddol; yn gweled yn mhell o ffordd; yn canfod yn mhell.

Far-sightedness, *s.* pellganfodiaeth, pellwelogrwydd, pellweled, pelldremiogrwydd, pellweledd; y gallu i weled yn mhell.

Far-stretched, *a.* estynbell; estynedig yn mhell; pell-estynedig.

Fart, *s.* (S. *fert*) bram, rhech, cnec.

Fart, *v. n.* bramu, bremian, rhechain, cnecio, cnecian.

Farther, Further, *a.* (S. *forther*) pellach; mwy pell, mwy pellenig, &c.; mwy y tu hwnt; hwy, meithach; hirach; pellaf.
Farther of two—pellaf; eithaf, olaf.
Farther in—pellach i mewn; nes i mewn; yn nes i mewn.
Farther out—pellach allan; nes allan; yn nes allan.
The farther Spain—yr Yspaen bellaf, yr Yspaen eithaf.
On the farther side—y tu hwnt, y tu draw; ar y tu draw; ar y làn draw.

Farther, Further, *ad.* yn mhellach, pellach; yn fwy pell; yn fwy, mwy, mwyach; yn feithach; heb law hyn; dros ben hyn; am ben hyn; hefyd, eto.
Farther and farther — pellach bellach, bellach bellach; yn bellach bellach; bellbell; yn mhellach bellach.

Farther, Further, *v. a.* dwyn, hwylio, hwylusu, hawntio, *neu* symmud yn mlaen; rhwyddo, cyfrwyddo, hylwybro, hyrwyddo, rhwyddhau, hwylio, hwylusu, llwybreiddio, cynnorthwyo, hyfforddio; gyru *neu* gynnorthwyo yn mlaen.

Fartherance,† *s.* dygiad, hwyliad, hawntiad, *neu* symmudiad yn mlaen.

Farthermore, Furthermore, *ad.* yn mhellach; heb law hyn; heb law hyny; am ben hyn; am ben hyny; gyda hyn; gyda hyny; hefyd; dyeithr hyn.

Farthest, Furthest, *a.* (S. *feorrest;* Is. *verst*) pellaf, eithaf, eithafig; olaf; mwyaf pellenig.

Farthest, Furthest, *ad.* yn bellaf, yn mhellaf; o bellaf, o'r pellaf, o eithaf, o'r eithaf; yn y fàn bellaf.

Farthing, *s.* (S. *feorthung*, o *feorth*=fourth) ffyrling, ffyrlling, llodwedd, pedwaren.

Farthingale, *s.* (Ff. *vertugadin;* Ysp. *vertugado*) peisgylch, peisgant.

Farthingsworth, *s.* ffyrlingwerth, ffyrllingwerth, gwerth ffyrling.

Fasces, *s. pl.* (Ll.) ffasgau=ysgub neu ffagoden o wiail rhwymedig o amgylch bwyell, â ddygid gynt o flaen uchel swyddogion Rhufain.

Fascia, *s.* (Ll.) ffas, tas, ffasg; ffasgrwym, tasel, ffunen; gwregys planed; rhwym, rhwymyn, clymai.

Fascial, *a.* ffasgol; perthynol i'r ffasgau.

Fasciated, *a.* (Ll. *fasciatus*) ffasgedig, ffasedig, tasedig; rhwymedig â ffunen *neu* ysnoden; amrwymedig, ffasgellog, tasgellog.

Fasciation, *s.* rhwymad, rhwymiad, amrwymad, cyfrwymiad, ffasgiad, ffasgelliad; amrwym, amrwymyn, rhwymyn, rhefog, cyfrwym.

Fascicle, *s.* (Ll. *fasciculus*) ffasgell, tasgell, ffasigl, ffasgellen, sypyn, sopen, sob.

Fascicular, *a.* (Ll. *fascicularis*) ffasgellog, tasgellog, ffasgedig, ffasgedigol, rhwymynol.

Fasciculate, Fasciculated, Fascicled, *a.* (Ll. *fasciculus*) ffasgelledig, ffasiglog, ffasgellog; yn tyfu o'r un sypyn *neu* ffasgell.

Fasciculite, *s.* (Ll. *fasciculus*, a Gr. *lithos*) ffasgem, ffasgellem.

Fasciculus, *s.* (Ll.) ffasgellyn, tasgellyn, sypyn, ffunell; blodenglwm, blodenffas; rhan o lyfr, rhan, dosbarth.

Fascinate, *v. a.* (Ll. *fascino*) swyno, rhinio, rhino, arswyno, darswyno, cyfareddu, llygattynu, swynogli, hudo, denu, llithio, darddenu, hudoliaethu, arganfod, rheibio, rhempio, ystrempio, rheibiadu, rheibiannu; caethiwo, maglu, *neu* rwydo serchiadau; lloddi, boddio, gorfoddio; gorchanu.

Fascination, *s.* (Ll. *fascinatio*) hudoliaeth, swynoliaeth; swyniad, rhiniad, arswyniad, darswyniad, llygattyniad, llygattyn, cyfareddiad, swynogliad; hudiad, llithiad, deniad, darddeniad; rheibiad, rheibiant, rheibiedigaeth, rhempiad, ystrempiad, hud.

Fascine, *s.* (Ff. o'r Ll. *fascis*) ffasgen, ffasgyn, ffagoden.

Fascinous, *a.* (o'r Ll. *fascino*) swynol, hudol, hudolaidd, rheibiol; swynedig, hudoledig, rheibiedig; swyngyfareddol; à ddaw *neu* à dardd oddi wrth raib a swynion.

Fasciola, *s.* (Ll.) ffasbryf.

Fasciolite, *s.* (Ll. *fascis*, a Gr. *lithos*) ffasgith.

Fashion, *s.* (Ff. *façon;* Norm. *facion*) dull, gwedd, agwedd, gosgedd, llun, ffurf, eilun, delw, arddull, ffunud, dullwedd, elwig, goswedd, diwyg, ardum, ystum, dulliant, rhith; cynllun, cynddelw, cynnelw, rhagddarlun, cynffurf, cynddull; modd, ffordd; sut, sud, math; arfer, defod, arddefod, moes; cynnefod, gnawd, arfoes; hyfoesedd, moddgarwch, moesogrwydd, moddusrwydd, boneddigrwydd, bonedd, dillynwedd; gwneuthuriad, lluniad, ffurfiad; gwisglun; dullwisg, dullwisgad, dillwedd; moesfuchedd; gwaith.

In what fashion? — pa fodd? yn mha fodd? pa sut? yn mha sut? pa wedd? yn mha wedd?

After this fashion—fel hyn, fâl hyn, màl hyn; yn y modd hyn; yn y modd hwn; ar y wedd hon; yn llŷn.

In fashion—mewn arfer, mewn arferiad, mewn cymmeriad; mewn gwisg; ar arfer; gnodol.

Most in fashion—gnotaf; mwyaf mewn arfer, arferiad, *neu* gymmeriad; mwyaf mewn gwisg; mwyaf y wisg arno; mwyaf toriadus; dullwychaf.

For fashion's sake—o ran defod; o ran arfer; o ran defod ac arfer; o wir ddefod; er mwyn defod.

Of fashion, } lluniaidd, gosgeddig,
Of good fashion, } gosgeiddig, prydus, prydweddol, telediw, gweddus, tlws, ffurfaidd, gwiwlun, gwiwffurf, ystumiog; à luniwyd yn ol chwaeth *neu* arfer yr oes.

A man of fashion—gwr boneddig, defodwych, dygiadus, gwiwfoes, dillynwych, moeswych, moddus, moddgar, moesog, *neu* foneddigaidd; gwr da ei foes; gwr moesfuchedd; gwympor.

Without fashion, } afluniaidd, anffurf-
Of no good fashion, } aidd, dilun, anosgeddig, diddelw, anelwig, gwrthun, trwsgl, annillynwych, annhelediw.

Fashion of a coat—toriad, lluniad, dull, *neu* lun pais; dullwedd *neu* arddull hugan.

After the fashion of men—yn ol dull dynol; mewn dull dynol; ar wedd ddynol; fel dyn; ar ddull dyn; yn ol dull dyn; yn ol dull *neu* arfer dynion.

Of the same fashion, } unfath, un fath, un-
Of one fashion, } dull, unddull, unwedd, unffurf, unllun, unsut, unsud, unmodd; cyflun, gogyflun, cyffelyb.

They are of the same fashion—unfath ydynt; un fath y sydd arnynt; yr un fath ydynt.

Of another fashion—ar ddull arall; ar wedd arall.

After another fashion—yn amgen; mewn modd amgen; mewn dull arall; mewn modd arall.

In a diverse fashion—mewn modd annhebyg *neu* anghyffelyb; mewn anghyffelyb *neu* annhebyg fodd; mewn dull gwahanol *neu* amgen.

Of two fashions—deuddull, dwyffurf, deufodd.

Of three fashions—tridull, teirffurf; à fo o dri dull; à fo o dair ffurf.

Of sundry fashions, } amryddull, amry-
Of various fashions, } lun, amrywedd, amryffurf, amddull, amlddull, amlun, amlwedd, amryfodd, amryfath, amryfeilwedd; â llawer ffurf arno; o amryw ddull; o amryw luniau.

In two fashions—mewn dau fodd; mewn deufodd; mewn dwyffordd; mewn dwy ffordd; o ddwyffordd.

In many fashions—mewn llawer modd; llawer modd, lawer modd; mewn amryw ffyrdd; mewn llawer o ffyrdd; mewn llawer dull; yn amryddull.

After a fashion — mewn modd, mewn ffordd, mewn dull; o ran; yn ol defod, arfer, *neu* ddull; yn rhyw fodd.

A fashion of speaking—dull ar lefaru; dull o lafaru.

The fashion of the face—gwedd yr wyneb, dull yr wyneb, pryd yr wyneb; gwynebpryd, wynebpryd, prydwedd.

To grow out of fashion—myned *neu* dyfu allan o arfer; myned yn anghynnefin; myned allan o wisg *neu* gymmeriad; myned i maes o wisg *neu* arferiad; myned yn anarferedig; heneiddio; myned mewn anghymmeriad, anarfer, *neu* annefod.

Out of fashion, } allan o arfer *neu*
Grown out of fashion, } arferiad; gwedi myned allan o arfer; gwedi tyfu allan o arfer; gwedi myned mewn anarfer *neu* annefod; hen, henaidd, henddulliog; diarfer, anarferedig.

To grow into fashion—myned *neu* dyfu mewn arfer; tyfu *neu* fyned mewn cymmeriad; gnotäu; myned yn arferedig; myned yn gyffredin.

To bring into fashion—dwyn i arferiad; dwyn ar arfer; dyfod â pheth i ddefod ac arfer; peri mewn arfer; dwyn i gymmeriad; peri arferyd yn gyffredin.

To follow the fashion—dylyn yr arfer; canlyn yr arfer; cydffurfio, cydymffurfio, *neu* gydymagweddu â'r amseroedd; dylyn moes ac arfer y byd; dylyn y ddefod; dylyn y ddefod a'r arfer.

The fashion of the world is this—moes y byd a'i arfer yw hyn; moes ac arfer y byd yw hyn.

This is the fashion that we have seen—dyma y ddefod *neu* yr arfer à welsom ni; hon yw y ddefod *neu* yr arfer à welsom.

We never saw it on this fashion—ni welsom ni erioed fel hyn.

The fashion of this world—dull y byd hwn.

After the fashion of almonds—ar waith almonau (*Ecs.* xxxvii. 19).

The grace of the fashion of it perisheth—tegwch ei bryd ef a gollodd (*Iago* i. 11).
The form of the house and the fashion thereof—dull y ty a'i osodiad (*Esec.* xliii. 11).
Of the best fashion—i'r goreu (*Doeth.* xiv. 19.
How long shall I hope after this fashion?—pa hyd y gobeithiaf fel hyn (2 *Esd.* iv. 35)?
The Greekish fashion—arferion y Groegwyr (2 *Mac.* iv. 10).

Fashion, *v. a.* llunio, ffurfio, dullio, ystumio, tumio, agweddu, gosgeddu, arddullio, ardumio, cynllunio; ffurfeiddio, llunieiddio; gwneuthur, gwneyd; gwneuthur ar wedd; tori allan; lluniaethu, cyflunio; addasu, cyfaddasu, cymhwyso; gwneuthur yn ol defod ac arfer; † ffugio.
To fashion alike, } cydlunio, cyflunio,
To fashion together, } cydffurfio, cyddullio, cydagweddu, cydystumio; gwneuthur *neu* lunio yn nghyd; gwneuthur yn undduul, yn unwedd, yn unffurf, *neu* yn gyflun.
That it may be fashioned like unto his glorious body—fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorff gogoneddus ef.
To fashion before—rhaglunio, rhagffurfio, rhagddelwi, rhagystumio, rhagddelwadu; cynllunio, cynffurfio.
He fashions himself to the world—y mae efe yn dylyn arfer y byd.
Not fashioning yourselves according to the former lusts—heb gydymagweddu â'r trachwantau o'r blaen.
Thy breasts are fashioned—dy fronau a chwyddasant (*Esec.* xvi. 7).

Fashionable, *a.* arferol, defodol, arddefodol, defodaidd, gnodol, gnotaol, gnodus, gnodig; cytun â moes ac arfer y byd; cytunol â moes ac arfer yr oes; dillynwych, defodwych, moeswych, dygiadus, gwiwfoes, dullwiw, dullweddus, dullweddog, moesog, moddus, moddgar, moesgar, moeswymp, boneddig, boneddigaidd, moesweddog, gwymp, hyfforddedig, boneddigfoes; toriadus; lluniaidd, ffurfaidd, gosgeddig, gwiwlun, gweddeidd-lun, gweddaidd, gweddus, dillyn, destlus, tlws, ystumiol, ystumgar, gwiwddull, gwiwffurf; à wnaed yn ol chwaeth *neu* arfer yr oes; à luniwyd yn ol chwaeth *neu* arfer yr oes; mewn parch, cymmeriad, *neu* arfer; yn dylyn y ddefod a'r arfer; à ddylyno y ddefod a'r arfer; cyffredin, rhugl, cyhoedd.
Fashionables—gwymporion, gwymporiaid, moeswychion.
Fashionable dress—gwisg doriadus; gwisg ddefodwych, gwisg ddillynwych; gwisg yn ol y ddefod a'r arfer.
Fashionable man—dyn defodwych, moeswych, dillynwych, dygiadus, gwiwfoes, moddus, moesgar, moddgar, moesog, boneddig, *neu* foneddigaidd; gwr moesfucheddol, gwr moesfuchedd; gwympor.

Fashionableness, *s.* arferoldeb, defodoldeb, defodolrwydd, arferolrwydd, defodrwydd; cydagweddiant â moes ac arfer y byd; moeswychedd, moeswychder, dillynwychedd, dillynwychder, defodwychder, dygiadusrwydd, gwympedd, gwymporedd, moddusrwydd, &c.

Fashionably, *ad.* yn gytun â moes y byd a'i arfer; yn ol moes y byd; yn ol moes y byd a'i arfer; yn ol chwaeth yr oes; yn ol arfer *neu* ddefod yr oes; yn ol y ddefod a'r arfer; yn arferol, &c.

Fashioned, *p. p.* lluniedig, ffurfiedig, dulliedig, ystumedig, agweddedig, gwneuthuredig, &c.; gosgeddog, dulliog; à luniwyd; gwedi ei lunio; addas, cymhwys.
Old-fashioned—allan o arfer; wedi myned allan o arfer; wedi tyfu allan o arfer; wedi myned mewn annefod *neu* anarfer; mewn anghymmeriad, mewn anarfer, mewn annefod; allan o gymmeriad *neu* barch; wedi myned allan o barch *neu* gymmeriad; hen, henaidd, henddulliog; dïarfer; hen ei ddull, &c.; annhoriadus.
Well-fashioned — lluniaidd, gwiwlun, harddlun, gosgeddig, ffurfaidd, hardd, gweddus, telediw; hardd ei ddull, &c.
Ill-fashioned—afluniaidd, anffurfaidd, anosgeddig, dilun, diddelw, gwrthun, trwsgl, anhardd, annhelediw.

Fashioner, *s.* lluniwr, ffurfiwr, ffurfydd, ffurfiedydd, arddulliwr.

Fashionist, *s.* dylynwr yr arfer, canlynwr yr arfer; coegyn, ysgoegyn, defodwas, dillynwas.

Fashionless, *a.* diddefod, annefodol; heb ddefod.

Fashion-monger, *s.* coegyn, ysgoegyn, coegwas, dynyn dillynwych.

Fashion-mongering, *a.* coegynaidd, ysgoegynaidd, coegwasaidd, pefrynaidd; yn ymddwyn fel coegwas.

Fashion-pieces, *s. pl.* ystumgoed, ystumarnau.

Fassaite, *s.* delidfaen dyffryn Ffassa, yn y Tyrol.

Fast, *a.* (Sw. a D.; S. *fæst*, *fest*; Al. *fest*; Is. *vast*) sicr, sad, sedr, arsad, ffyrf, cadarn, diogel, syfn; dïysgog, dïanwadal, sefydlog, safadwy, dïymmod, disigl, anserfyll, diserfyll, disymmud, ansymmudadwy; tyn, caeth, rhwym, rhwymedig, cau, cauad, cauedig, yn nghauad; wedi ei gau yn dyn; trwm; dwys; glud, glynol.
Fast sleep—trymgwsg; cwsg trwm, hun drom.
Fast friend—cyfaill tyn, cyfaill dïymmod, cyfaill disigl; cyfaill a lŷn; cyfaill glud.
Fast and loose—anwadal, oriog, gwamal, simsan, ansad, cyfnewidiol.
To hold fast—dàl yn dyn; dàl yn lew; dàl yn ddisigl; cadw yn sicr; dàl; ymafael yn, ymafael mewn, ymafiyd, ymafiyd mewn; glynu yn, glynu mewn; cadw.
That holds fast—glud; craff; gafaelus; gafaelgar; gafaelgadr.
Hold fast—gafaela yn dyn; dàl yn dyn; gafaelwch yn dyn; daliwch arni.
To hold one fast—dàl un yn dyn; attal; cau ar un.
To hold fast one's integrity still—parhau yn ei berffeithrwydd.
To abide fast by, } glynu wrth, dylynu
To cleave fast unto, } wrth, gludio wrth; aros gyda; dàl yn dyn gyda.
To bind fast—rhwymo yn dyn; rhwymo yn gaeth; tyn rwymo, caeth rwymo.
To cleave fast together—glynu yn nghyd; tyn gydlynu.
To lay fast in prison—cau mewn carchar;

cau yn ngharchar; cau ar un mewn carchar; cau ar un yn y carchar; rhoi yn ddiogel mewn carchar; rhoi mewn carchar.

To make fast—sicrhau, sadio, sedru, syfnu; gwneuthur yn sicr; gwneuthur yn ddiogel; diogelu.

To make a door fast — sicrhau, diogelu, sadio, bolltio, *neu* drosolio drws; cau yn dyn, cau yn sicr, cau yn ddiogel; cau drws yn dyn, sad, *neu* ddiogel.

To set fast — sicrhau, sefydlu, diogelu, sadio, sedru; gosod yn sicr.

To stand fast—sefyll yn sicr; sefyll yn sad; sefyll.

To go on fast—myned rhagddo ar frys; myned yn mlaen ar frys; myned yn gyflym.

To be fast asleep—bod mewn trymgwsg; trymgysgu; cysgu yn drwm.

Fast bind, fast find—os diogel y gwneir, diogel y ceir.

Fast, *ad.* yn sicr, &c.; yn nghwlwm.

Fast by, } ger llaw, ger, yn ymyl, yn
Fast beside, } nghyfyl, wrth, yn agos i, ar ymyl.

Hold fast the form of sound words—bydded genyt ffurf yr ymadroddion iachus (2 *Tim.* i. 13).

Fast, *a.* (C. *ffest;* Ll. *festino*) buan, cyflym, heini, heinif, chwai, ffest, chwimmwth, mwth, gweisgi, gwisgi, gwaisg, cyflymred, buanred, mythred, ebrwydd, ewybr, chwim, esgud, esgeiddig, blawdd, ffroddus, chwyrn, (*f.* chwern), pablaidd, maredig, gorfiawdd, cyflymdroed, buandroed.

As fast as his legs could carry him—cynted ag y gallai ei draed ei ddwyn; cyn *neu* càn gynted ag y gallai ei draed ei ddwyn; cynted ag y gallai ei draed ei gario; mòr heinif ag y gallai ei draed ei ddwyn; yn nerth ei draeth; yn nerth ei draed a'i wadnau; nerth ei draed a'i wadnau.

Fast, *ad.* yn fuan, &c.

To rain fast—gwlawio yn ffest; bwrw yn drwm; gwlawio yn drwm.

Fast, *v. n.* (S. *fæstan;* Al. *fasten;* Goth. *fastan*) ymprydio, ymbrydio; dirwestu; bod ar gythlwng; ymattal.

Fast, *s.* ympryd, ymbryd, cythlwng, cadgor; gŵyl ympryd.

Fast-day, } dydd ympryd, gŵyl ym-
Fasting day, } pryd.

Fast, *s.* lleg, llegr, dàl, dalyn, daliedydd, rhwym, rhwymyn; dalfa; llegraff, sadraff.

Fasten, *v.* (S. *fæstnian;* Sw. *fastna;* Is. *vesten*) sicrhau, sadio, sedru, syfnu; diogelu, cadarnhau, sefydlu; tynhau, rhwymo, cyfrwymo; gwneuthur yn dyn; gwneuthur yn sicr *neu* sad; gafaelu; gwasgu; gyru; planu; gosod; argraffu; cyssylltu; arlynu; bario, bolltio; asio.

To fasten in the ground, } gyru, dyru,
To fasten into the ground, } gwthio, *neu* bwyo i'r llawr; planu yn y ddaiar; sicrhau yn y llawr.

To fasten with nails — hoelio, cethru; sicrhau â hoelion; sadio â hoelion; gwneuthur yn sicr *neu* sad â hoelion.

To fasten together—cydrwymo, cyfrwymo, cydgylymu, cydglymu; rhwymo yn nghyd; cylymu yn nghyd; cydsadio, cydsicrhau; cynghafu; ceibro.

To fasten with a chain—cadwyno, tido, tresu; rhwymo â chadwyn; sicrhau â thid.

To fasten on, } dàl, dala, daly, gafaelu,
Fasten upon, } gafaelyd, gafaelio, ymaflyd yn, ymafaelu yn, gafaelu ar, cael gafael ar, cael gafael yn, cymmeryd gael ar, cymmeryd gafael yn; glynu wrth.

To fasten on—sicrhau ar, sadio ar; rhoi yn sicr, yn sad, *neu* yn ddiogel ar; rhwymo ar; rhoi yn nglŷn wrth; dodi yn nglŷn wrth; peri glynu wrth.

To fasten with a clasp—tytmwyo, gwaegu, amfachu, dalfachu; sicrhau â thytmwy, gwäeg, craff, *neu* amfach.

To fasten with a pin—sicrhau â phin; sicrhau â hoel; gwneuthur yn sicr â hoel.

To fasten to a wall—hoelio ar fur *neu* bared; hoelio wrth fur *neu* bared; rhoi yn nglŷn wrth bared; rhoi yn nghrog ar bared.

To fasten a pin in a wall—gyru hoel i bared; dyru pin i fur; pwyaw hoel i wàl.

To fasten one's eyes upon—craffu ar; dàl sylw ar; craffu â llygaid ar; edrych yn graff ar; edrych yn daer ar; syllu ar.

To fasten to *or* unto—rhwymo, cylymu, clymu, *neu* dido wrth.

To fasten a door—sicrhau drws; cau drws; sadio drws; bolltio drws.

He took no small pains to fasten it on—cymmerth boen nid bychan i beri iddo lynu.

To fasten it on high upon the mitre—i'w dàl hi i fyny ar y meitr.

The eyes of all were fastened on him—yr oedd llygaid pawb yn craffu arno.

And they fastened his head in the temple of Dagon—a'i benglog a grogasant hwy yn nhy Dagon (1 *Cron.* x. 10).

Fastener, *s.* sicrhäwr, sadiwr, diogelwr, rhwymwr, cylymwr, clymydd, sedrydd.

Fastening, *s.* sicrhad, rhwymiad, cylymiad, rhwym, rhwymydd, rhwymyn, daliedydd, rhefog, sadbeth; à sicrhao, à sadio.

Faster, *s.* ymprydiwr, ymbrydiwr; dirwestwr, dirwestydd.

Fast-handed, *a.* llawgauad, llawgaead, llawgaled, llawfyddag, cybyddlyd, cybyddus, crintach, crinwasaidd, anhael, anghawr, cyrrith, cynnil, anllawgar.

Fastidiosity,† *s.*=*Fastidiousness.*

Fastidious, *a.* (Ll. *fastidiosus*) dïystyrllyd, dirmygol, tremygol, tremyglawn, dirmyglawn, dïystyrol; dicra, rhyfwythus, rhyfoethus, alarllyd, gwrthneugar, gornais, gorfwythus, llerw, rhyledneis; anhyfodd, hyddig; anhawdd ei foddio; nais dros ben; parod i alaru ar beth; mursenaidd; trahäus, cymhenfalch, ffroenuchel, ysgornllyd.

Fastidiousness, *s.* dïystyredd, dïystyrwch, dirmygolrwydd, tremygoldeb, dïystyrllydrwydd, tremyglonedd, dirmyglonedd; dicräwch, rhyfwythedd, rhyfoethedd, rhyfwythusrwydd, gwrthneugarwch, alarllydrwydd, rhyneisrwydd, rhyledneisrwydd; hyddigrwydd; trahausder, ffroenuchder; mursendod, cymhendod, cymhenddull; dirmyg, tremyg.

Fastigiate, } *a.* (Ll. *fastigiatus*) pigfaen,
Fastigiated, } blaenfain, penfain, brigfain, meinfrig; trumiog.

Fastigium, *s.* (Ll.) trum, crib, cop, copa, cob, cwnwg, blaen, dyflaen, top, cribyn, cefnen.

Fasting, *s.* (o *fast*) ymprydiad; ympryd, cythlwng, dirwest.

Fasting-day—dydd ympryd, gŵyl ympryd.

Fasting, *p.* yn ymprydio; ymprydiol; ar gythlwng, dàn ymprydio; heb fwyd.

Fastness, *s.* (o *fast;* S. *fæstenesse*) sadrwydd, sicrwydd, sicrhäwch, sedrwydd, syfnedd, diogelwch, diogelrwydd, dïysgogrwydd, disiglrwydd, sefydlogrwydd, sicrhad; cadernid, amddiffynfa, ymddiffynfa, caerfa, caer, cadarnle, cadarnfa, cadarnfan, diogelfa, noddfa, castell, lle cadarn, lle anhygyrch, cilfa, llechfa;† tynder, tyndra.

Fastuous, *a.* (Ll. *fastuosus*) trahäus, balch, cymhenfalch, ffroenuchel, sarhäus, dïystyrllyd, dirmygol, tremygol, ysgornllyd.

Fat, *a.* (S. *fæt, fett;* Al. *fett*) tew, bras; pwyntus, cnodig; da ei wedd; tirf; cyfoethog, toreithiog; ffrwythlawn; ireidlyd, seimlyd, blonegog, mehinog, mehinawr; gwerog; cestog, corffog, rhemmythog; pesgedig, pasgedig, pesg; tewfag.

Fat wether—mollt bras, myharan tew.

Fat meat—cig bras, cig tew, cig gwŷn.

As fat as a pig — cyn dewed a phasghwch; càn dewed a mochyn; mòr dew a thwrch.

Fat benefice—bywoliaeth fras, gyfoethog, *neu* doreithiog.

Fat pastures—porfëydd breision: *sing.* porfa fras.

Fat soil—tir bras, tir ffrwythlawn, gweryd brwys.

Fat beasts—pasgedigion; anifeiliaid tewion *neu* freision.

To make fat—pesgu, tewhau, tewychu, brashau, pwyntio; gwneuthur yn dew, &c.

To grow fat — tewhau, brashau, pesgu, pwyntio, tewychu; tirfhau; myned yn fras; myned yn dew; myned yn dda ei ddiwyg; cymmeryd ei faeth yn dda; myned yn fag tew.

Fat paunches make lean pates—boly mawr a bair synwyr bychan.

He is fat-fed—mae e'n fag tew.

Tendency to become fat—pasgnawd.

Fat, *s.* brasder, blawn; tewder, tewedd; bloneg, mehin; gwer; cig bras, cig gwŷn; tawdd, (*pl.* toddion).

Ox fat—brasder eidion; gwer.

Sheep's fat, } gwer manllwyn, gwer defMutton suet, } aid; brasder defaid.

Hog's lard — bloneg, bloneg mochyn; mehin.

Fat of birds—brasder adar, bloneg adar.

Human fat—bloneg dyn, bloneg dynol.

Leaf of fat—blonegen, mehinen, blonegyn.

Fat in trees—bloneg pren, gwyning.

Fat of a pot—brasder crochan.

The fat of the belly—y weren fol, gweren y bol, gweren y boly, y weren.

Fat that drops from meat in roasting—tawdd; saim, iraid: *pl.* toddion, cigferion.

Abounding with fat—brasderog; blonegog, mehinog, mehinawr; llawn brasder, llawn mehin, llawn bloneg; gwerog.

Fat, *v.* tewhau, tewychu, pesgu, pwyntio, brashau; gwneuthur yn dew, &c.; myned yn dew, &c.; myned yn dda ei ddiwyg; cymmeryd ei faeth yn dda; myned yn fag tew; ymbesgu, ymdewychu.

Fat, } *s.* (S. *fæt, fat, fet;* Is. *vat*) cerwyn, twrnel,
Vat, } llachdwm; gwasggafn, brecigafn, cafn breci; crynog; llad.

The fats shall overflow with wine and oil —y gwin newydd a'r olew a ä dros y llestri (*Ioel* ii. 24).

Fatal, *a.* (Ll. *fatalis*) angeuol, marwol, dinystriol, dinystrol, adwythig, niweidiol; tyngedfenol, tyngedol, tyngedfenus, tyngedfenog; yn dyfod o dyngedfen; yn deilliaw o dyngedfen; angenrhaid, anochel, anocheladwy, angenrheidiol, rheidiol, anesgorol, dir; trychinebus, echryslawn, enbyd, peryglus; drygdyngedol, drygddamweiniol; à baro angeu, dystryw, *neu* adwyth.

Fatalism, *s.* (o *fatal*) tyngedfeniaeth, tyngedyddiaeth, tyngedfenyddiaeth, daliad tynged, daliad rhan=barn neu athrawiaeth y rhai a ddaliant fod damweiniau bywyd yn hollol dàn lywodraeth tyngedfen; daliad bod rhan i bob peth fod megys ag y mae, yn gystal y drwg a'r da.

Fatalist, *s.* tyngedfenydd, tyngedfenwr; tynged-goeliwr, tynged-gredydd, coelgredydd, coelgrediniwr; un à gred mewn tyngedfen anochel.

Fatality, *s.* (Ff. *fatalité*, o *fate*) tyngedfenoldeb, tyngedfenolrwydd, tyngedolrwydd, tyngedoldeb, tyngedfenusrwydd; anochelrwydd, anocheledd, angenrheidrwydd, rheidrwydd, angenrheidrwydd anorfod, tuedd anorfod, angeuoldeb; angeuolrwydd, marwoldeb, marwolrwydd, dinystrolrwydd, adwythigrwydd, peryglusrwydd; tyngedraith; arfaeth tynged; dryglam, drygdynged, anffawd, annawn, afiwydd, trychineb, drwg ddamwaen; rhagluniaeth.

Fatally, *ad.* yn angeuol, &c.; yn angenrhaid anochel; yn dyfod o dyngedfen; yn ol arfaeth tyngedfen; mewn angeu.

Fatalness, *s.* angenrheidrwydd anochel, rheidrwydd anorfod, tyngedfenoldeb, tynged-olrwydd.

Fat-brained, *a.* pendew, penbwl, penbylaidd, synwyrbwl, penwan, penblydd.

Fate, *s.* (Ll. *fatum*) tynged, tyngedfen, tesni, coelcwydd, cyraith, dyrraith, rhaid, gordden, angenrheidrwydd ffawd; anorfod, rhan; marwolaeth, angeu, tranc, trancedigaeth, dystryw, dinystr, adwyth, drwg ddamwaen, afiwydd, anffawd, dryglam; rhagluniaeth.

The Fates—y Tyngedion, y Tyngedesau, y Tyngedfenau=y tair chwaer, Clotho, Lachesis, ac Atropos, merched Nos ac Ebred, à reolent dyngedfen dyn, fel y tybiai yr hen Genedloedd ofergoelus gynt.

Divine fate—tynged ddwyfol, rhagluniaeth Duw, arfaeth Duw, arfaeth ddwyfol.

Of the same fate—undynged, undyngedfen; o'r un dynged.

Fated, *a.* arfaethedig, amcanedig, tyngedog, tyngedfenog, tyngedfenedig, gordden, cyreithiog, dyrreithiog; à luniaethwyd gàn dynged; à ddel i ben yn ol tynged *neu* arfaeth.

Ill-fated — anffodiog, anffodus, afiwyddiannus, trwstan, trwch, annedwydd, trychinebus, anhyffawd, anhapus.

Fateful, *a.* tyngedlawn, arfaethlawn, tyngedfawr, cyreithlawn, dyrreithlawn; angeuol, marwol; à bair effeithiau marwol.

Fatefulness, *s.* tyngedlondeb, tyngedlonedd, arfaethlondeb, tyngedforedd, cyreithlondeb, dyrreithlondeb, angeuoldeb, tyngedlonrwydd.

Father, *s.* (S. *fæder, feder;* Al. *vater;* Is. *vader;* Sw. a D. *fader;* Gr. *patêr;* Ll. *pater;* Ysp. ac It. *padre*) tad; tadws.

Father in law—chwegrwn, tad yn nghyfraith.

Step-father—llysdad, tad gwŷn.

Foster-father — tad maeth, tadmaeth, maethdad, maethiedydd.

Grand-father—taid, hendad, tad cu.

Great grand-father—hendaid, gorhendad, hendad cu, hen dad cu.

Great great grand-father — gorhendaid, tad yr hendaid.

Fore-father—cyndad, hendad, taid, hendaid, hynaif, hynaf, hynafiad: *pl.* cyndadau, tadau, teidiau, hendadau, hendeidiau, hen deidiau, hynafiaid, rhieni.

God-father—tad bedydd, alltraw, alltad.

Chief father—ucheldad, trawdad, pentad.

Father of a family—pen teulu, penteulu.

Father's family, side, connexion, *or* kindred—tadwys, cenedl y tad, tylwyth y tad.

Fathers of the church—tad yr eglwys.

Apostolic fathers—y tadau apostolig, y tadau apostolaidd = Clement o Rufain, Barnabas, Hermas, Ignatius, a Polycarp.

Primitive fathers—y prif dadau, y tadau cyntefig, tadau y brif eglwys, tadau y gynfam eglwys=tadau y tri chanrif cyntaf.

Adoptive father—tad mabwysol, tad mabwysiadol.

Natural father—tad gorddercb.

Putative father—tad cysswyn, tad cyfrifedig, tad tybiedig, tad tybiedigol, tad tybygedigol, tad cyfrifedigol.

To be like one's father—tebygu i'w dad; bod fel ei dad; bod yn wir fab ei dad.

Thou art thy father's own son—gwir fab dy dad ydwyt; mab dy dad yn llwyr ydwyt.

Like father, like son—màl y bo y dyn y bydd ei lwdn.

Father, *v. a.* tadu, tadogi; mabwyso, mabwysio, mabwysiadu; arddelw, arddelwi, arddel, cymmeryd arno, cymmeryd yn eiddo; rhoi hawl ar; ymarddelw o beth.

To father on *or* upon one—tadu, tadogi, bwrw, gosod, rhoddi, *neu* daflu ar un; cyfrif i un; rhoi i un.

Fatherhood, *s.* tadogaeth, tadoliaeth, tadaeth, tadoldeb, tadusrwydd, tadusedd.

Fatherland, *s.* gwlad tadau un; gwlad genedigaeth un; gwlad enedigol un; tattir, tadwlad, teidwlad; gwlad enedigol tadau *neu* hynafiaid un.

My fatherland — gwlad fy nhadau; fy nhattir.

My mother-tongue and fatherland—iaith fy mam a gwlad fy nhadau; fy mamiaith a'm tattir.

Fatherlasher, *s.* (*father* a *lasher*) tadlachior, tadlachiwr=math o bysg.

Fatherless, *a.* amddifad o dad, ymddifad o dad, didad; amddifad, ymddifad.

Fatherlessness, *s.* amddifadrwydd o dad, didadrwydd; amddifadrwydd, ymddifadrwydd, amddifedi, ymddifedi.

Fatherliness, *s.* tadoldeb, tadolrwydd, tadusrwydd, tadusedd, tadeiddrwydd, tadusder.

Fatherly, *a.* (*father* a *like*) tadol, tadaidd, tadus, tadolaidd, tadogaidd, tadwy; fel tad; tebyg i dad; gofalus, tyner.

Fatherly, *ad.* yn dadol, yn dadaidd, &c.; fel tad, megys tad.

Fathership, *s.* tadaeth, tadoliaeth, tadogaeth, tadoldeb, tadwys.

Fathom, *s.* (S. *fæthem;* Is. *vadem;* Al. *faden*) gwrhyd, chwech troedfedd, dwylath; cyrhaedd, cyrhaeddyd, amgyrhaedd, traidd, treiddiad, dyfnder, amgyffred.

Fathom, *v. a.* gwrhydu, gwrhydio; amgyrhaedd, amgyrhaeddyd, cyrhaedd; amgylchu â breichiau estynedig; plymio; plymio *neu* fesur dyfnder; profi dyfnder; mesur â gwrhyd; treiddio i; treiddio i mewn i; chwilio allan; cael allan wrth chwilio; cael gwaelod; cyrhaedd y gwaelod; deall, dirnad, dirnadu, amgyffred, treiddio; meistroli; beisio, gwaelodi.

Fathomer, *s.* gwrhydwr; plymiwr; treiddiwr, dirnadwr; amgyrhaeddwr.

Fathomless, *a.* diwaelod, heb waelod; anoddyn; anmhlymiadwy; anamgyffred, anghyrhaedd, anorddiwes, anoddiwes; anhydraidd, annirnadwy, anghyffred, anghyffredol, anghyffredadwy, annhreiddiadwy; dwfn.

Fatidical, *a.* (Ll. *fatidicus*) proffwydol, rhagfynegol, daroganol, dewinol; à ddewino *neu* à ddangoso bethau i ddyfod; tyngedfynegol.

Fatiferous, *a.* (Ll. *fatifer*) angeuol, marwol, dinystriol; à ddyco angeu *neu* ddystryw.

Fatigable, *a.* (Ll. *fatigo*) blinadwy, hyflin, lluddedadwy; hawdd ei flino; à ellir ei luddedu.

Fatigate, *v. a.* (Ll. *fatigo*) blino, lluddedu, lluddedigo, diffygio; gwneuthur yn flin *neu* yn lluddedig; peri lludded, blinedd, *neu* flinder ar; llesghau.

Fatigate, *a.* (Ll. *fatigatus*) blin, lluddedig, blinedig, blinderus, wedi blino, llyferthin, llyferthus, llyferthog, merthedig.

Fatigue, *s.* (Ff. o'r Ll. *fatigo*) lludded, blinder, blinedd, llyferth, llyferthedd, llyferthrwydd, llyferthusrwydd, llyferthineb, llyferthiant, llesgedd, lluddedigaeth, lluddedigrwydd; llafur, trafferth.

Fatigue, *v. a.* blino, lluddedu, lluddedigo, diffygio; peri blinedd, blinder, *neu* ludded ar; gwneuthur yn flin *neu* yn lluddedig; llyferthu, llyferthuso, merthu; gwneuthur yn llyferthin, yn llyferthus, *neu* yn llyferthog; llesghau; trallodi.

Over-fatigued — gorflinedig, gorflin, gorluddedig, tralluddedig, trablin.

Fatiloloquist, *s.* (Ll. *fatum* a *loquor*) darllenwr tesni, darllenydd tesni, tesniwr, daroganwr, brudiwr, dewin, chwiliog, tyngedfynegwr; à ddewino *neu* à ddywedo dyngedfen.

Fatiscence, *s.* (Ll. *fatisco*) ymagoriad, ymegoriad, egoriad, agoriad, agorad, ageniad, gageniad, agendod, agenogrwydd; ag.

Fatkidneyed, *a.* (*fat* a *kidney*) arendew, arenfras; tew, bras, blonegog, cestog.

Fatling, *s.* (o *fat*) llwdn pasgedig, llwdn pesgedig, anifail bras, anifel tew: *pl.* pasgedigion, pesgedigion.

Fatner, } *s.* (o *fatten*) tewychydd, tewychwr,
Fattener, } tewhäwr, brashäwr, pasgiadur, pasgadur, pesgydd, pesgwr; ffrwythlonydd.
Fatness, *s.* brasder, tewder, tewdra, tewedd, tewychedd, tewdwr; cnodigrwydd; ffrwythlondeb.
Fatted, *p. p.* pasgedig, pesgedig; à besgwyd; wedi ei besgu; à dewhäwyd; tew, bras, cnodig; tewfag, magod, pasg-.
Fatted beasts — pasgedigion, pesgedigion, anifeiliaid breision, llydnod tew.
Fatted calf—llo pasgedig.
Fatted hog, } pasghwch, mochyn pasg-
Fatted swine, } edig, mochyn tew.
Fatted pig—pasgdwrch, pasgfochyn, mochyn tew, mochyn pasgedig.
Fatted kid—myn pasgedig, myn tew, myn magod.
Fatted lamb—pasgoen, pesgoen, oen pasgedig, oen pesgedig, oen tew.
Fatted ox—ych pasgedig.
Fatten, *v.* (o *fat*) tewhau, tewychu, pesgu, pwyntio, brashau; gwneuthur yn dew *neu* fras; myned yn dew *neu* fras; ymbesgu, ymdewychu; myned yn dda ei ddiwyg; cymmeryd ei faeth yn dda; myned yn fag tew; cyfoethi, ffrwythloni; llenwi, llanw.
To put up to fatten—rhoi yn mhasg; rhoi yn y ffronc.
To be fattening—bod yn mhasg; bod yn tewhau; bod yn pesgu; bod yn y ffronc.
Fattening place—pasgle, pasgfa, pasgell, ffronc, lle i besgu, lle pesgus.
Fattener, } *s.* = { *Fatner.*
Fatner, } { *Fattener.*
Fattening, *s.* (o *fatten*) tewhad, tewychiad, pesgiad, pasgiad, pwyntiad, pasg.
Fattiness, *s.* (o *fatty*) tewder, tewdra, tewedd, brasder, brasedd, teweiddrwydd, braseiddrwydd, ireidlydrwydd, seimlydrwydd, blonegogrwydd.
Fattish, *a.* (o *fat*) brasaidd, tewaidd, ireidlyd, seimlyd, blonegaidd, blonaidd, gofras, lledfras.
Fatty, *a.* (o *fat*) bras, tew, brasaidd, tewaidd, ireidlyd, seimlyd, blonaidd, blonegog, blonegaidd.
Fatuity, *s.* (Ll. *fatuitas*; Ff. *fatuité*) ynfydrwydd, ffolineb, ffoledd, anghallineb, penwendid, gwendid synwyr, hurtrwydd, hurtedd, penbyledd, pendewedd, penfasder, penfasedd, cualldra, delffeiddrwydd.
Fatuous, *a.* (Ll. *fatuus*) penwan, pendew, synwyrbwl, disynwyr, penbwl, penbylaidd, penfas, penfeddal, penffol, cuall, penblydd, lledfeddod, hurt, syn, syfrdan, dwl, (*f.* dòl), hurth, pensyfrdan, ffol, anghall, annoeth, ynfyd, delffaidd.
Fatwitted, *a.* pendew, penbwl, penbylaidd, penfeddal, penwan, synwyrbwl, disynwyr; hwyrdrwm, trymhyrddig, trwm.
Faucet, *s.* (Ff. *fausset*) dwsel, twsel.
A small faucet — twselig, dwselig, twsel bychan.
Tap and faucet—ysbigod a dwsel.
Fauchion, *s.* = *Falchion.*
Faufel, *s.* (San.) ffrwyth math o balmwydd.
Faugh, *in.* pw! twt! wfft! ffei! hach! och!
Faulcon, *s.* = *Falcon.*
Fault, *s.* (Ff. *faute*; Ysp. *falta*) bai; trosedd, camwedd, cam, argywedd, cwl, cwyl, nam, anaf, ffael, efrad, caredd, camweithred; gwall, amryfusedd, camsyniad, cyfeiliornad; pechod; toriad; dyryswch; dislead gwanaf *neu* haen.
To commit a fault—gwneuthur bai; gwneuthur ar fai; troseddu, pechu; bod yn euog o fai; gwneuthur ar gam; gwneuthur gwall.
To find fault—beio, achwyn, cwyno, bwrw bai.
To find fault with—beio, beio ar; bwrw bai ar; achwyn ar.
To be at fault (in hunting)—colli y ffwyl; bod wedi colli y ffwyl; cam-olrhain; camddylyn yr ol; colli yr ol; crwydraw oddi ar yr ol.
Without fault—difai, difeius; heb fai arno; dinam, dïanaf.
Full of faults — llawn beiau; llawn o feiau; beiog.
I find in him no fault at all—nid wyf fi yn cael dim bai arno; nid wyf fi yn cael dim achos ynddo ef; gwr digaredd yr wyf fi yn ei gael ef.
A great fault—bai mawr, mawr wall, mawrwall.
Fault,† *v. n.* methu, ffaelu; bod ar fai.
Fault, *v. a.* cyhuddaw o fai; cyhuddo, achwyn ar, cwyno ar; beio ar, bwrw bai ar.
Faulter, *s.* troseddwr, camweddwr; gwneuthurwr ar fai; un beius.
Faulter, *v. n.* = *Falter.*
Fault-finder, *s.* beiadur, beiedydd, beiadur, chwiliwr beiau.
Faultful, *a.* llawn beiau; llawn o feiau; pechodlawn.
Faultily, *ad.* yn feius, &c.; ar fai, ar gam; yn anaddas.
Faultiness, *s.* beiusrwydd, beiusder, beioldeb, cylusrwydd; drygedd, caredd, drygioni, dryganian; diffyg, gwall, nam; gwydusrwydd, cwliogaeth, camweddogrwydd, troseddoldeb; trosedd.
Faultless, *a.* difai, difeius, digwl, digaredd, dinam, dïanaf, dïargyhoedd, dïeuog, anhygwl, gwirion, addwyn, diwyg, diddrwg, addien, dïen, diwall, perffaith, diddiffyg; glân oddi wrth bechod.
Faultlessness, *s.* difeiusrwydd, difeiusder, digylusrwydd.
Faulty, *a.* beius, cylus, ar fai, ar y bai, camgylus, gwallus, gwallog, diffygiol, hygwl, cwliog, gwydus; euog o fai; amryfus, cyfeiliornus; anmherffaith; â diffyg ynddo; â meth ynddo; anafus; i'w feio; â bai arno; o le, allan o le; drwg; cam; ceryddus, camweddog, camweddus.
Faun, } *s.* (Ll. *faunus*) Gwyddan, Eleinon,
Faunus, } Gwyddelon, Coedior: *pl. t.* Eleinod =duw y coedydd, yn mhlith yr hen Rufeiniaid.
Fauna, *s.* (o *faun*) milodas=holl filod rhyw wlad neu ardal neilltuol.
British Fauna—Milodas Brydeinig, Milodas Prydain; holl filod Prydain.
Faunist, *s.* anianydd, hanesydd anianyddol, milodaswr.
Faunic, *a.* (o *faun*) gwyddanig, eleinig; gwladaidd, gwyllt, iang.
Fausen, *s.* (?) math o lyswen fawr.
Faussebraye, } *s.* (Ff.) ffalafre, geufre, ysgor-
Faussebraie, } fre.
Fautor, *s.* (Ll.) noddwr, modur, achleswr,

achlesydd, cefnogwr, pleidiwr, gwyllysiwr da.

Fautress, *s.* noddes, modures, noddwraig, cefnoges, pleides, pleidwraig.

Faux, *pl.* Fauces, *s.* (Ll.) llwnc, llyncfa, ceg, cegfa.

Favillous, *a.* (Ll. *favilla*) lludŵaidd, lludwaidd, lludwol, lludŵol, lludlyd; tebyg i ludw.

Favose, *a.* (Ll. *favosus*) crwybraidd, cwybraidd, melgornaidd, melgellaidd; tebyg i grwybr; tebyg i ddil mêl.

Favosites, *s. pl.* (Ll. *favus*) crwybrollon, cwybrolion=math o lysfilod cloddilig, cyffredin yn haenau Gwentaidd Norwy a Chymru.

Favour, } *s.* (Ll. *favor*; Ff. *faveur*; Gw.
Favor, } *fabhar*) hoffedd, hoffder, caredigrwydd, llad, mwynas, ffafr, ewyllys da, gwyllys da, madwyllys, tuedd, serch, cariad, hawddgarwch, addfwynder, trugaredd, daioni, tiriondeb, hynawsedd, rhad, mad, rhadferthwch, rhadforedd, rhadlonedd, rhadlonrwydd, bodd, boddlonrwydd, cymmwynas, tro da, twrn da, ced, madober; nawdd, nodded, ymgeledd, amgeledd, amddiffyn; plaid, tu, gogwydd; pryd, gwedd, pryd a gwedd, gosgedd yr wyneb, gwedd yr wyneb, wynebpryd, drych wyneb; mantais, budd, ennill; rhodd, anrheg; arwyddyn; ysnoden rodd.

In favour of—tros, dros, o blaid, o du; yn bleidiol i; i.

In favour with one—mewn parch, bri, cyfrif, *neu* gymmeriad gydag un; hoff gàn un; da gàn un.

You are much in his favour, } hoff
You are in great favour with him, } ganddo ef chwi; da ganddo ef chwychwi; yr ydych chwi mewn mawr gymmeriad gydag ef; yr ych chwi mewn parch mawr gydag ef; yr ydych chwi yn fawr eich parch gydag ef.

A favour worn—cyflwyn, rhodd, *neu* anrheg à wisger yn arwydd cariad ac ewyllys da un; arwyddyn serch, arwyddyn hoffedd, anrheg hoffder; anrheg à wisgir.

Wedding favour—arwyddyn priodas, ced priodas.

The favour of the countenance—pryd, gwedd, pryd a gwedd; gosgedd, elwig, *neu* wedd yr wyneb; prydwedd; wynebpryd, drych wyneb.

Thine eye desireth favour and beauty—pryd a thegwch a chwennych dy lygad.

Sweetness of favour—hoffedd, hyfrydwch, hawddgarwch, serchusrwydd, *neu* deledigrwydd wynebpryd.

By your favour — gyda'ch cenad; trwy eich cenad.

To confer a favour on one—gwneuthur cymmwynas i un; gwneuthur mwynas i un; rhoi ced i un; gwneyd tro da i un; gwneuthur twrn da i un; gwneuthur ffafr i un; gwneuthur caredigrwydd i un.

He conferred numberless favours upon us—efe a'n llwythodd *neu* a'n cynnysgaethodd âg aml gymmwynasau.

To court favour—cynffonloni; ymorol am ewyllys da.

To curry favour with one—cynffonloni ar un; ymerlyn am fodd un; ceisio ymlusgo i ffafr *neu* gyfeillach un; ceisio ymlithro i ffafr *neu* gyfeillach un; ymbil, ymbilio, *neu* ymgeisio âg wyneb un; ymrwbio wrth un.

Under favour of the night—tàn fantais y nos; a'r nos yn fanteisiol iddo.

The rich among the people shall entreat thy favour—cyfoethogion y bobl a ymbiliant â'th wyneb.

He grew in favour with him, } efe a aeth
He was in favour with him, } yn dda ganddo.

Because thou hast a favour unto them—am iti eu hoffi hwynt.

A good man sheweth favour—gwr da sy gymmwynasgar.

Thou orderest us with great favour—trwy lawer o arbed yr wyt ti yn ein llywodraethu (*Doeth.* xii. 18).

Favour, } *v. a.* hoffi, parchu, perchi, gorpherchi,
Favor, } ffafrio, lladu, lladforl, dangos hoffder, amlygu hoffedd; ewyllysio yn dda i; dwyn ewyllys da i; pleidio, cefnogi, calonogi, cymhorth, cymhorthi, cynnorthwyo, noddi, achlesu, amgeleddu; cymmwynasu, mwynasu, gwneuthur cymmwynas i; pleidio gydag; dywedyd yn mhlaid; dywedyd o blaid; rhoi ei air yn mhlaid; ystlysu at, tueddu at; bod yn dda gàn un am; bod yn raslawn i; bod yn dyner, yn hynaws, yn dirion, *neu* yn drugarog wrth; trugarhau wrth, tosturio wrth; dangos gwyllys da i; arbed, eiriach; tebygu, cynhebu, tebygoli; bod yn debyg *neu* gynhebyg i; esmwythäú, esmwytho, rhwyddhau, hwyluso; gofalu am; cynnal, llochi.

To favour one with a thing—bod mòr fwyn a rhoddi peth i un; bod cyn fwyned a rhoi peth i un; ceniadu, caniatäu, caniadu, ceniatäu; bod cystal a rhoddi peth i un; teilyngu o un roi peth; anrhegu *neu* gynnysgaethu un â pheth.

He favours you in the face—y mae efe yn debyg i chwi yn ei wyneb.

By this I know that thou favourest me—wrth hyn y gwn hoffi o honot fi.

The lords favour thee not—nid wyt ti wrth fodd y tywysogion (1 *Sam.* xxix. 6).

Favourable, } *a.* (Ll. *favorabilis*; Ff. *favorable*)
Favorable, } tirion, hynaws, tyner, rhadlawn, trugarog, tosturiol, hawddgar, hygar, da, lladol, erladol, lladforol, mwyn, boddlawn, cyweithasol, cyweithas, cyfeillaidd, cyfeillgar; da ei wyllys; cymmwynasol, mwynasol, ffafriol, cynnorthwyol, pleidiol, tueddol; cyflëus, manteisiol, buddiol, cyfaddas; prydlawn; tyner ei farn; llinarol; cyffrwyol; †prydweddol.

Favourable opportunity—oedfa gyfaddas, odfa gyfaddas, oedfa brydlawn, odfa brydlawn, amser cyfaddas; cyfle, adeg.

Favourable wind — gwynt hwylus, hwylwynt, hwyluswynt, gwynt manteisiol.

Be favourable to them—bydd dirion, hynaws, *neu* dyner wrthynt; bydd dda *neu* raslawn iddynt.

Be favourable to thy people—ystyria wrth dy bobl; bydd dyner wrth dy bobl, &c.

He puts the most favourable construction upon every thing—gesyd *neu* rhydd yr ystyr goreu ar bob peth; gesyd *neu* rhydd yr ystyr hawddgaraf ar bob peth; rhydd y lliw goreu ar bob peth; rhydd y cystrawiad goreu ar *neu* i bob peth; y mae

efe yn barod i gymmeryd pob peth yn ei ystyr goreu *neu* hawddgaraf.

Favourableness, } *s.* tiriondeb, tirionder, tir-
Favorableness, } ioni, hynawsedd, hynawsder, tynerwch, rhadlonedd, hawddgarwch, hygarwch, caredigrwydd; cyfleusdra, cyfleusder, cyfleusrwydd, cyfaddasrwydd, addasrwydd, hwylusdod, mantais, buddioldeb, tueddoldeb, ffafrioldeb.

Favoured, } *a.* hoff, anwyl, gorhoff, cu, anwylgu,
Favored, } caredig, hoffedig, parchedig, cymmeradwy, ffafredig; mewn cyfrif, bri, parch, cymmeriad, *neu* urddas; prydweddol; gwedi ei hoffi, &c.

Favoured by nature—cynnysgaethedig âg aml ddoniau naturiol.

Well-favoured—prydweddol, prydus, prydweddus, prydweddog; teg, glân, *neu* dda yr olwg; glân *neu* deg o bryd; glân *neu* deg ei bryd; golygus, gosgeddig, hardd, prydferth, cain, tlws, telediw, glwys, wynebol; yn edrych yn dda; da yr olwg arno.

Ill-favoured—anferth, anolygus, dybryd, gwrthun, anhardd, anmhrydweddol, anmhrydus, hagr, anwymp, anosgeddig; drwg yr olwg; hyll, drwg ei wedd; cul, truan, teneu, salw; yn edrych yn ddrwg; drwg yr olwg arno; hagrwedd.

Well-favouredly—yn brydweddol, &c.; â golwg dda arno; yn dda y wedd arno; yn dda yr olwg arno.

Ill-favouredly—yn anolygus, &c.; â golwg ddrwg arno; yn ddrwg y wedd arno; yn ddrwg yr olwg arno.

Hail, thou that art highly favoured—henffych well, yr hon a gefaist ras (*Luc* i. 28); hanfych well, y radgaredig.

Favouredness, } *s.* hoffedigrwydd, anwyldeb;
Favoredness, } rhagoriaeth, blaenoriaeth.

Well-favouredness—prydusrwydd, tegwch pryd, prydferthwch, glendid, harddwch.

Ill-favouredness—anferthwch, anolygusrwydd, dybrydedd, gwrthuni, anharddwch, hagrwch, hagredd.

Favourer, } *s.* hoffwr, hoffydd, noddwr, achles-
Favorer, } wr, cefnogwr, modur, amgeleddwr, ewyllysiwr da, parchwr, gorpherchwr, ffafriwr, pleidiwr, cynneilydd; à ddygo ewyllys da; à bleidio gydag un; madwyllysiwr, madwyllysydd; hwyluswr.

Favouress, } *s.* noddes, modures, noddoges, cefn-
Favoress, } oges, noddwraig, pleidwraig, achlesyddes, cynneilyddes, ffafres; à ddygo ewyllys da.

Favourite, } *s.* (Ff. *favorite*) hoffddyn, anwylyd,
Favorite, } anwylyn, anwyliad, hoffyn, dewisddyn, anwylddyn, mynwesddyn, ffafryn; un hoff gàn un; gwr hoff; un mewn parch, cymmeriad, *neu* ffafr neilltuol; un mewn mawrbarch, uchelbarch, *neu* ragorbarch gàn un; un anwyl garedig; cyfrinddyn; cibli; anwylbeth: *f.* anwyles, anwylen, hoffen, hoffwraig.

He is a court-favourite—y mae efe yn fawr ei gymmeriad yn y llys; mae efe yn fawr ei gymmeriad gyda'r brenin; y mae efe yn fawr ei gymmeriad yn llys y brenin; y mae efe yn un o anwyliaid y llys; hoffddyn y llys ydyw efe.

He is the king's great favourite—nid oes ond à ddyweto efe gyda'r brenin; y mae ei air ef yn air ar bawb gyda'r brenin.

Favouritism, } *s.* hoffddyniaeth, hoffyniaeth,
Favoritism, } anwylyniaeth, anwylydaeth; hoffder o rywun neilltuol.

Favourless, } *a.* anffafriol, diffafr, dihoffder, an-
Favorless, } hoff, dilad; anmhleidiol, annhueddol; annhirion; anghefnogol, afiadol.

Fawn, *s.* (Ff. *faon*) elain, rhydain, rhydol, danas ieuanc, hydd ieuanc, carw ieuanc, llwdn ewig.

Fawn, *v. n.* dwyn *neu* fwrw elain; dyfod âg elain; bwrw llwdn ewig; eleinio; alu llwdn ewig; alu elain.

Fawn, *v. n.* (S. *fægenian*) cynffonloni, cytysloni, truthio, gwenieithio, glafru, sidanu, ymoleuthio, capio, ymgapio, cynffoni, siglo ei gynffon; lloddi, arfer geiriau teg, darfwytho.

Apt to fawn—truthgar, truthiol.

Aptness to fawn—truthgarwch.

Fawn, *s.* truth, gweniaith, glafr; cynffonloniad, cytysloniad, truthiad, ymoleuthiad, glafriad.

Fawner, *s.* truthiwr, truthan, truthiad, gwenieithwr, gwenieithydd, cynffonlonwr, capiwr, ymoleuthydd, glafrwr.

Fawning, *s.* truthiad, gwenieithad, ymoleuthiad, cynffonloniad, cytysloniad, capiad, ymgapiad, glafriad; truth digywilydd; truth, truthiaith, gweniaith, glafr.

Fawningly, *ad.* dàn gynffonloni, dàn gapio, trwy druth, trwy weniaith, trwy sidanu.

Faxed,† *a.* (S. *feax*) gwalltog, blewog.

Fay, *s.* (Ff. *fée*) un o'r tylwyth teg; ellyll, gwyll, elff, gwion, ellyllyn, gwagysbryd, anysbryd: *f.* gwylles, ellylles, ellyllen, chwimpleian, chwimleian, gwyllen, miren, mires, gwydien, tegen.

Fay,† *s.* (Ff. *foi*) ffydd.

Fay, *v. n.* (S. *fægan*) sutio, cydweddu, cyngweddu, cyfateb, gweddu, cyfladd, cyttaro.

Faxzolet, *s.* (It.) llawfoled, neisiad, moled, cadach, cedafien.

Feaberry, *s.* grwysen, eirinen Mair, eirinen perth eurddrain.

Feague,† *v. a.* (Al. *fegen*) curo, ffrewyllu, chwatio, gwialenodio.

Feal, *a.* (Ff.; Ll. *fidelis*) ffyddlawn, ufydd, gwarogol, gwriogol, gwriogaethol.

Fealty, *s.* (*o feal;* It. *fedeltà*) ffyddlondeb, ffyddlonder, cywirdeb, cywiredd; gwarogaeth, gwriogaeth, gwrogaeth; ffyddlondeb i arglwydd; teyrngarwch.

To swear fealty—tyngu ffyddlondeb; tyngu ar fod yn ffyddlawn *neu* gywir i'w arglwydd; ymrwymo drwy lw ar fod yn ffyddlawn i'w arglwydd.

To hold by fealty—dàl dàn wriogaeth; dàl tir dàn ammod ffyddlondeb i'w arglwydd.

Being under fealty to the lord—bod yn arglwydd-oddef.

Fear, *s.* (S. *færan, afæran;* Is. *raaren;* Ll. *vereor*) ofn, arswyd, braw, dychryn, arynaig, orn, ofnid, hylldraw, argyswrw, argysswr, echryn, echryd, swyd, dygryd, dygryn, rhỳn, achreth; pryder, gofal; unon, unofn.

For fear—rhag ofn; gàn ofn; rhag.

He quakes for fear—y mae efe yn crynu gàn ofn.

They cried for fear—gwaeddasant rhag ofn; gwaeddasant gàn ofn.

There is no fear of it—nid rhaid unon am dano; nid rhaid unofn am dano; nid oes unon am dano.

Great fear, } dychryn, dychryndod,
Quaking for fear, } echryn, echryd, ergryd, ysgryd, achreth, bredych, oerfraw.
To put in fear—ofni, peri ofni, ofnhau, ofnocäu; gyru *neu* beri ofn ar; rhoi braw yn; dychrynu, hylldrawu; brawychu.
To be in fear of—ofni; bod âg ofn arno; argyssyru, aryneigio, arswydo.
To stand in fear of—ofni, ofni rhag, crynu rhag, dychrynu rhag, arswydo.
To quake with fear, } crynu gàn ofn; crynu
To shake with fear, } rhag ofn; dychrynu, dirgrynu, argrynu, ysgrydu, ysgrydian.
Without fear—dïofn, dïarswyd, diddychryn, difraw; hy, eofn; yn ddïofn, &c.
Slavish fear—ofn gwasaidd.
For fear that you should not know it—rhag nas gwypech.
What a fear was I in!—pa ofn oedd arnaf! pa faint o ofn oedd arnaf!

Fear, *v.* ofni; bod âg ofn arno; arswydo, dychrynu, aryneigio, argyssyru, ofnocäu; hylldrawu, brawychu; ofnogi, ofnuso, ofnhau; unon, unofn.
To fear beforehand—rhagofni; ofni cyn dyfod niwed; ofni yn mlaen llaw.
To fear exceedingly—ofni yn fawr; ofni yn ddirfawr; arswydo yn fawr; arswydo yn ddirfawr; tra ofni.
I fear he cannot be pacified—yr wyf yn ofni nas gellir ei ddyhuddo; mae arnaf ofn nas gellir ei ddyhuddo.
You need not fear—nid rhaid i chwi unon; nid rhaid i chwi unofn; nid rhaid i chwi ofni.
We need little fear—nid rhaid i ni fawr unon.
He that feareth God will pay due respect to man—à ofno Dduw a barcha ddyn.
To be feared, } ofnadwy; i'w
That ought to be feared, } ofni; i'w arswydo.

Fear,† *s.* (S. *fera*, *gefera*) cydymaith.

Fearful, *a.* (*fear* a *full*) ofnog, ofnus, brawychus, aryneigus, brawus, digalon, llwfr, aneofn, aneon; ofnadwy, arswydlawn, arswydus, arswydol, swydus, arswydfawr, swydlawn, swydol, dychrynllyd, erchyll, dychrynadwy; hybarch; i'w ofni.
Somewhat fearful—lled ofnog, lled ofnus, lled frawychus.

Fearfulness, *s.* ofnogrwydd, ofnusrwydd, ofnusedd, ofnedd, ofnid, brawychusrwydd, brawusrwydd, dychryndod, dychrynllydrwydd, arswydusrwydd, arswydoldeb, arswydlonedd, arswydfawredd, llyfrder, llyfrdra, aneonder; ofn, dychryn, arswyd, braw, swyd.

Fearless, *a.* (*fear* a *less*) dïofn, difraw, anofnog, anofnus, dïarswyd, dïargyssawr, diddychryn, dïorn, digryn; hy, hyf, dewr, calonog, gwrol, glew, eofn, eon, gwychr, dihafarch, dewrwych, drud.
The lion is the most fearless of wild beasts—dewraf gwylltfil llew.

Fearlessness, *s.* anofn, anofnogrwydd, anofnusrwydd, dïofnogrwydd, anarswyd, annychryn, annychryndod; dewrder, dewredd, eofnder, eonder, eondra, calonogrwydd, glewder, dewrwychedd, gwroldeb, calondid, pybyrwch, hyfdra; anmhryder.

Fear-nought, *s.* afrynaig, dimswyd=math o nwydd gwlanog tew.

Feasibility, } *s.* (o *feasible*) hywneledd, hyw-
Feasibleness, } neddrwydd, hyalledd, hyalluedd; hawsedd, hawsder, dichonrwydd, dichonolrwydd, dichonoldeb, dichoneiddrwydd, gallueiddrwydd, galluedigrwydd; dichonolrwydd gwneuthur peth; ansawdd peth à ellir ei wneuthur; bod o beth yn wneuthuradwy *neu* alluadwy.
I do not question in the least the feasibility of the thing—nid wyf yn ammheu yn y mesur lleiaf nas gellir gwneuthur y peth; nid wyf yn ammheu yn y mesur lleiaf nad yw y peth yn wneuthuradwy.
Let us consider its feasibility—ystyriwn a ellir ei wneuthur; ystyriwn a ydyw yn wneuthuradwy *neu* ddichonadwy.

Feasible, *a.* (Ff. *faisable;* Ll. *facere*) hywnel, hywnedd, gwneuthuradwy; hyall, galladwy, galluadwy, dichonadwy; à ellir *neu* à aller ei wneuthur; dichonadwy i'w wneuthur; hawdd i'w wneuthur; hawdd; defnyddiadwy.
A thing may be possible, but not feasible—geill peth fod yn hyall heb fod yn hywnel; gellir gwneuthur peth, er na byddo hawdd ei wneuthur.

Feasible, *s.* peth hywnel, &c.: *pl.* hywnelion, hywneddion, hyallion.

Feast, *s.* (Ll. *festum;* Ff. *fête;* It. *festa;* Ysp. *fiesta;* Al. *fest;* Is. *feest*) gwledd; cyfeddach, banfaeth, cyfedd, prain, cywledd, gwest, gwestfa, allwest, gwleddwch; gŵyl, cofwyl.
Commemoration feast—cofwyl, gŵyl goffa; cylchwyl; gŵyl mabsant.
Movable feasts—gwyliau symmudol.
Feast day—dydd gŵyl; dygwyl, gŵyl.
Solemn feast—gŵyl arbenig, uchelwyl, uchel ŵyl, prifwyl, prif ŵyl.
The feast of tabernacles—gŵyl y pebyll.
Love-feast—cariad-wledd.
Wedding feast—neithior, gwledd briodas.
Great feast—gwledd fawr, arbrain.
High feast—gorwledd.
To keep a feast, } cynnal gwledd, cadw
To hold a feast, } gwledd; cynnal cyfeddach; cadw gŵyl.
To furnish a feast—arlwyo gwledd, darmerthu gwledd, darparu gwledd.
A very splendid feast—gwledd dra gorwych, dra threulfawr, dra chostus, *neu* dra chostfawr; gwledd dywysogaidd.
Slender feast—adwledd.
The scraps of a feast—adwledd.
Smell-feast—bolerwr, bolerai; Ieuan lygad y bwyd.
Smell-feasts poets—beirdd ysbyddaid.
To hunt after feasts—gwleddoca.
Enough is as good as a feast—digon yw digon o ffigys; digon yw digon o fêl; digon yw digon o fendith ei fam; nid gwell rhwy ua digon; mae digon cystal a rhagor.

Feast, *v.* gwledda, gwleddu, cywledda, preinio, gwesta; cyfeddach, cyfedd, gwleddychu, cyfeddwogi, wttresa, gloddesta, bolera; rhoi, arlwyo, *neu* wneuthur gwledd i; cynnal *neu* gadw gŵyl mabsant.
To feast one—gwledda un; rhoi, arlwyo, *neu* wneuthur gwledd i un; gwneuthur croesaw i un.

Feaster, *s.* gwleddwr, gwleddydd, preiniwr, cyfeddachwr, cyfeddwr, cynnaliwr gwledd; wttreswr.

Feastful, *a.* gwleddol, gwleddog, gwestfaol, preiniol, preiniog, cyfeddachol; llawen, gorhoenus, llonwych, gorawenus, difyr; treulfawr, costfawr, costus, helaethwych, rhydreulgar, wttresgar.

Feasting, *s.* gwleddiad, preiniad; gwledd, gwleddwch, cyfeddach, banfaeth, prain, croesaw; llawenydd.

Feastrite, *s.* (*feast* a *rite*) defod gwleddau, arfer gwleddoedd, preinddefod, preinarfer.

Feat, *s.* (Ff. *fait;* Ll. *factum*) camp, gorchest, rhagorgamp, gwrolwaith, gwrolgamp, gorchestwaith; gwronwaith, gwrhydri, rhagorwaith, dewisgamp, gwronawd; gweithred, arweithred, gorug, gober; tro, cast; gweithred glodfawr, fawrglod, orchestol, *neu* wiwgof.

Manly feat—gwrolgamp.

Youthful *or* juvenile feat—mabolgamp.

Inferior feat—gogamp.

Feats of activity—gwrolgampau; campwri; llamidyddiaeth, campau llamidyddol, campau gorchest.

All feats of activity — y pedair camp ar ugain; pob campwri.

To do feats of activity—gwneuthur gwrolgampau, gwneuthur campau gorchest, campio, gwneuthur gwrhydri, chwareu y llamidydd, arfer llamidyddiaeth.

Feats of war, } rhyfel-gampau, gorchest-
Feats of arms, } ion milwraidd, rhagorgampau milwraidd, gweithredoedd milwraidd, gorchestion arfau, cad-orchestion, campau rhyfel.

Such a feat—y fath orchest.

Wonderful in feats of war—yn rhyfedd yn nghyfarwyddyd rhyfel (*Iudeth* xi. 8).

Feat,† *a.* parod; cywrain, medrus; dillyn,

Feat,† *v. a.* llunio, ffurfio. [deslus.

Feateous,† *a.* dillyn, destlus; medrus, cywrain.

Feather, *s.* (S. *fether;* Al. *feder*) pluen, plufen, plufyn, plüyn; asgell, aden, adain: *pl.* plu, pluf, pluawr: rhyw, math; addurn.

Feather bed—gwely plu, gwely pluf.

Down-feathers — sidanblu, manblu, manbluf, plucan, draenblu.

A little feather—plufenig, pluenig, asgellig.

The feathers of an arrow—esgyll saeth.

Quill-feather — plufen, pluen, asgell, bon asgell.

A feather in one's cap—plufen yn nghap un; enw, senw, *neu* enwad er anrhydedd yn unig.

Birds of a feather will flock together—adar o'r unlliw a dynant i'r unlle; adar o'r unlliw a hedant i'r unlle.

To erect the feathers—castellu plu.

To begin to have feathers—pluenu, plufenu; dechreu magu pluf; magu plu.

To pluck off feathers—pluo, plufio, plufo, dibluo, diblufio.

Plume of feathers—twff o bluf, cobyn o blu, siobyn o bluf, twff o blu, plufobyn, pludwff.

Full of feathers—pluog, plufog, llawn plu.

Without feathers=*Featherless.*

Feather-footed — plubediog, pludroediog, pludroed, plufdroed; â phlu ar ei draed; asgelldroed; âg asgell ar ei draed.

Fine feathers make fine birds—teg pob hardd.

Feather-moss—plufwswn, plufwsogl, pluaidd fwswn, pluaidd fwsogl.

Feather, *v. a.* pluo, plufio, plufo; harddu *neu* addurno â phlu; pluenu, plufenu; dibluo, diblufio; addurno, gwychu, berthu, cyfoethogi, dyrchafu, balchïo; coowyo, ceiliogi.

To feather one's nest—pluo ei nyth; gwychu, berthu, *neu* addurno ei nyth; casglu cyfoeth.

Feather-boarding, *s.* plufyrddiad; byrddiad âg ymyl un astell yn myned dros ychydig o ymyl y llall.

Feather-driver, *s.* plufwr, plüwr, cyweiriwr plu, plufyrwr, plufyrydd, pludrinwr.

Feathered, *a.* pluog, plufog; asgellog, adeiniog, adenog; pluedig, plufedig; ehedol; manbluog.

Feathered fowl—hediad, ehediad, aderyn asgellog, perchen adain, perchen aden.

Feather-edge, *s.* plufin, plufyl, plufymyl; min fel plufyn; min plu, ymyl pluf.

Feather-edge boards, } estyll plufin, es-
Feather-edged boards, } tyllod plufiniog, byrddau plufin; trum plufiniog.

Feather-edged, *a.* plufin, plufiniog, plufylog; â chanddo ymyl teneu fel plufyn.

Feather-edged coping—trum plufin, crib blufin, trum plufiniog.

Featherfew, *s.* (llygriad o *feverfew*)=*Fever-few.*

Featherfoil, *s.* (*feather* a *foil*) gwythdudd y gors, pluddalen.

Feather-grass, *s.* plufwellt, pluwellt, plueiddwellt.

Featherings, *s. pl.* pluolion.

Featherless, *a.* diblu, dibluf, anmhluog, anmhlufog; moel, llwm, croenllwm, noethlwm.

Featherly, *a.* plufaidd, pluaidd, fel pluf.

Feather-seller, *s.* gwerthwr plu, gwerthydd pluf, plufwerthwr, pluwerthydd.

Feather-veined, *a.* plufwythenog, pluwythenog.

Feather-weight, *s.* pwys plufen, pwysi pluen, plubwys, plubwysi.

Feathery, *a.* pluog, plufog; pluaidd, plufaidd; plufol, pluol.

Featly, *ad.* (o *feat*) yn ddillyn, yn ddestlus, yn nais, yn dlws, yn bert, yn gryno, yn glws; yn hyfedr, yn fedrus, yn gywrain, yn ddeheu.

Featness, *s.* dillynedd, dillynder, destlusedd, destledd, tlysni, clysni, destlusrwydd, pertrwydd, pertedd; hyfedredd, medredd, cywreinrwydd, medrusrwydd, deheuigrwydd.

Featously, } † *ad.* yn glws, yn gliw, yn dlws,
Feateously, } yn bert, yn ddillyn, yn ddestlus.

Feature, *s.* (Norm. *faiture;* Ll. *factura*) prydwedd, pryd, gwynebpryd, wynebpryd, wynebwedd, gwedd, agwedd, llunwedd, ffriw, minbryd; pryd, gwedd, gosgedd, dull, llun, *neu* ddrych yr wyneb; gweddnod, gweddnodiad; gwneuthuriad; amlinell, braslun, prif ranau; ffurf.

The features—y prydweddau, y prydwedd, yr wynebpryd; lluniau y gwyneb.

Featured, *a.* prydweddog, prydweddol, prydus; â chanddo brydwedd, &c.; tebyg ei brydwedd.

Well-featured—prydweddol, prydus, prydweddus, prydweddog; teg, glân, *neu* dda yr olwg; glân *neu* deg o bryd; golygus, gosgeddig, hardd, prydferth; da yr olwg arno; hardd ei bryd; hardd ei wedd; hardd ei brydwedd.

Ill-featured—anmhrydweddol, anferth, anhardd, dybryd, gwrthun; hagr ei wedd; hagr ei bryd; hagr ei wyneb; hagr ei brydwedd; hagrwedd, hyll, anosgeddig.

Featureless, *a.* dibrydwedd, dibryd; heb brydweddau neilltuol.
Feature, *v. a.* prydweddu; tebygu, tebygoli.
Feaze, *v. a.* (Ff. *faisez*, yn *Johnson*) dadgyffodeddu, dadffillio, dadnyddu; dattröi pen rhaff.
Febricula, *s.* (Ll.) godwymyn, twymynig, twymyn ysgafn.
Febriculose, *a.* (Ll. *febriculosus*) twymynigaidd, godwymynaidd; â thwymyn ysgafn arno.
Febriculosity, *s.* twymynigeiddrwydd, twymyneiddrwydd, crydeiddrwydd.
Febrifacient, *a.* (Ll. *febris* a *facio*) twymynbair, twymynbarol, crydbair, crydbar, crydbarol; yn peri twymyn.
Febrifacient, *s.* crydbair, twymynbair.
Febrific, *a.* (Ll. *febris* a *facio*) twymynig, twymynaidd, crydaidd, twymynol; crydbair, twymynbair; â bair dwymyn.
Febrifugal, } *a.* (Ll. *febris* a *fugo*) tarfgrydol,
Febrifuge, } crydffoawl; âg ynddo rinwedd i linaru *neu* wella twymyn; gwrthdwymynol, gwrthgrydol, anfwythol; da rhag twymyn.
Febrifuge, *s.* tarfgryd, crydgyffer; meddyginiaeth i linaru, i darfu, *neu* i wella cryd *neu* dwymyn.
Febrile, *a.* (Ff.; Ll. *febrilis*) twymynol, crydol, crydiol, twymynolaidd; perthynol i dwymyn.
Febris, *s.* (Ll.) twymyn, mwyth, cryd poeth, poethgryd, llucheden.
February, *s.* (Ll. *Februarius*; Ff. *Fevrier*) Chwefror, Chwefrol=yr ail fis.
Februation, *s.* (Ll. *februo*) puredigaeth, purad, coethiad.
Fecal, } *a.* (Ll. *fæces*) gwaddodol, gwaddodlyd,
Fæcal, } gwaddodog, gwaddog, ffiesog; ysgarthol, ysgarthog, ysgarthlyd, ystlomol, esgothionol.
Feces, } *s. pl.* (Ll. *fæces*; Ff. *féces*) ysgarth-
Fæces, } ion, esgarthion, ysgothion, carthion, eulon, ystlom, tom; gwaddod, gwaddodion, gwaelodion, ffies, llorion, rhytion.
Fecial, *a.* (Ll. *fecialis*) herodrawl, herodurol, herodyddol; perthynol i herodron; perthynol i gyhoeddi rhyfel; cadhoeddol; achwyddol.
Fecial law—herodraith, cyfraith herodrawl, cyfraith gadhoeddol.
Fecit, *s.* (Ll.=gwnaeth) gair â ddefnyddir i ddynodi awdur gwaith.
Canova fecit—gwaith Canova; Canova a'i gwnaeth; Canova a'i gorug.
Fecula, } *s.* (Ll. *fæcula*) paill, pain, ffiurbaill;
Fæcula, } tyflas, glasddefnydd, glesni dail; peillud, syth.
Feculence, } *s.* (Ll. *fæculentia*) gwaddodog-
Feculency, } rwydd, gwaddodlydrwydd, gwaddogrwydd, lleidiogrwydd, lleidlydedd, lleidlydrwydd, ffiesogrwydd, annheredd, brynti, bryntni, budredd, anmhuredd, afloewder; gwaddod, gwaddodion, gwaelodion, ffies, llorion, rhytion; gwaddodiad, gwaelodiad.
Feculent, *a.* (Ll. *fæculentus*) gwaddodog, gwaddodlyd, gwaddodol, gwaddog, lleidiog, lleidlyd, ffiesog, plwca, afloew, anmhur, annher, brwnt, llaceilyd, tew, trwbl.
Feculum, *s.* (o'r Ll. *fæces*) paill, pain, ffiurbaill.
Fecund, *a.* (Ll. *fœcundus*) ffrwythlawn, ffrwythig, epiliog, epilgar, hiliog, ffaeth, brwys, toreithiog, cynnyrchiol.
Fecundate, *v. a.* ffrwythloni, ffaethu, ffrwythiannu, ffrwytholi, ffrwytho, brwyso; beichiogi; gwneuthur *neu* beri yn ffrwythlawn.
Fecundation, *s.* ffrwythloniad, ffrwythiad, ffrwythiant, ffaethiad, ffaethiant; beichiogiad; gwneuthuriad yn ffrwythlawn.
Fecundify, *v. a.* (Ll. *fœcundus* a *facio*)=*Fecundate*.
Fecundity, *s.* (Ll. *fœcunditas*) ffrwythlondeb, ffrwythlonder, ffrwythlonedd, ffaethder, ffrwythineb, ffrwythigrwydd, ffaethedd, ffaethineb, cnydforedd, amledd, amlder, toraeth, achrwysedd, ffaethiant, achrwys, brwysder, brwysedd.
Fed, *p. p.* (o *feed*) pasgedig, pesgedig, porthedig; porthiannus; pasg-; diwall.
Fat-fed—pasgedig, pesgedig, tewfag, magod, tew, pasg-.
Fat-fed beasts—pasgedigion, pesgedigion.
Full-fed—gwedi ei lawn besgu; wedi cael digon; wedi cael ei wala; wedi cael ei lonaid; llawn, diwall, digonol; cestlawn.
Easily fed—hybasg, hyborth; hawdd ei besgu *neu* borthi; hawdd i'w borthi *neu* besgu.
Federal, *a.* (Ll. *fœdus*) ammodol, cyfammodol; cynghreiriol, cydbleidiol, cydymrwymol, cysswynol, cywystlog; cyflywodol, cyflywyddol, cydlywyddol, cyfundodol.
Federal government—cyflywodraeth, cydlywodraeth, cyflywyddiaeth, cydlywyddiaeth, cyflywiaeth, llywodraeth gynghreiriol, llywodraeth gyfundodol, cywladoldeb, cydwladoldeb.
Federal, } *s.* cyfundodwr, cyfundodydd, cyf-
Federalist, } undodur, cyfundodiad, cyfunbleidiwr, cyfundebwr, cynghreirgarwr.
Federalism, *s.* cyfundodiaeth, cyfundoduriaeth, cyfunbleidiaeth; egwyddorion y cyfundodwyr yn America.
Federalize, *v.* cynghreirio, cyfundodi, cydbleidio, cysswyno.
Federary, } †*s.* cynghreiriwr, cynghreiriad, cyd-
Fedary, } blaid, cydgyfranog, cysswynwr.
Federate, *a.* (Ll. *fœderatus*) cynghreiriol; cyfammodol, ammodol, cydymrwymol, cydbleidiol, cysswynol; cyfunol, cyfunedig; mewn cynghrair; cyflywodol, cyfundodol.
Federation, *s.* (Ll. *fœderatio*) cynghreiriad, cydbleidiad, ymgynghreiriad, cysswyniad; cynghrair, cyfammod, ammod, cyfundas, cyfundod, cyfundodiant.
Federative, *a.* cynghreiriol, cynghreiriadol, cydbleidiol, cyfunol, unol; yn uno mewn cynghrair.
Fedia, *s.* (Ll. *fœdus*) gwylaeth yr oen, llysiau yr oen, dïadwyth.
Fedity, † *s.* (Ll. *fœditas*) baweiddrwydd, salwedd, gwaeledd, gwarthusrwydd.
Fee, *s.* (S. *feo, feoh*; Is. *vee*; Al. *vieh*) gobr, gobrwy, gwobr, gwobrwy, dobrwy, dobr, amobr; tâl, cyflog; pwyth, tâl pwyth; maelobr; tâl arferol, dyled ddefodol.
Without fee or reward—heb na gwerth na gwobr.
Legal fee, } gobr cyfraith, gwobr cyfraith.
Law fee, }
Yearly fee—tâl blyneddol, cyflog blyneddol.
Excessive fee—trathal, tra thâl, rhydal.
Commutation fee—amobrwy.

Seizin fee—gobr estyn.
Protection fee—gobr gwarchadw.
Maiden fee—gobr merch; amobrwy.
Retaining fee—hurwobr, hurobrwy.
To give one a fee, } gobrwyo, gobri, *neu*
To fee one, } wobri un; rhoi gobr, tâl, *neu* gyflog i un; cyflogi.

Fee, *s.* (talfyriad o *feud* neu *fief;* Ysp. *fe*) gwriogaeth, gwarogaeth, gwrogaeth, ammodfael, telerfael, tirafael, gafael, gwriog-afael, gwarogfael, cynabodfael, tirafaeliaeth, tirddaliad.
Fee-simple, } tir hawlrydd, etifeddiaeth
Absolute fee, } hawlrydd, etifeddiaeth annibynol, tir etifeddol, hawl etifeddol, rhydd-afael=tir à ddeil dyn iddo ei hun ac i'w etifeddion dros byth.
Fee-simple (in the United States) — tir iol, tir rhydd, breinttir.
Fee-tail, } tir hawlrwym, tir am-
Fee conditional, } modrwym, etifeddiaeth ammodol, hawl ammodol=tir à fo dàn rwymiad penodol o ran yr etifeddion a'u meddiannant rhag llaw.
Fee-farm—tir cydnabod, tir amobr, tir rhydd-afael=tir neu diroedd à ddelir gàn un, ac à ddisgyn i'w etifeddion ar ei ol yn ddïodor, dàn ammod bod iddo ef a hwythau dalu rhyw ardreth benodol bob blwyddyn.
Held in fee-farm—à ddelir dàn wriogaeth; bod dàn ardreth flyneddol; bod dàn ryw gydnabyddiaeth benodol.
Tenant in fee—deiliad ammodfael: deiliad dàn wriogaeth; deiliad dàn warogaeth; deiliad gwriogaethol.
Tenant in fee-simple—deiliad hawlrydd, deiliad annibynol, deiliad tir hawlrydd.
To be in fee with one—bod ganddo un dàn wriogaeth *neu* rwymedigaeth.

Fee, *v. a.* gobrwyo, gwobrwyo, gwobri, gobri, dobri, dobrwyo, cyflogi, hurio; rhaghurio, rhagrwymo, rhagobri, rhagobrwyo; gobrwyo yn mlaen llaw; rhoi gwobr *neu* gyflog i; cadw mewn gwasanaeth; talu.

Feeble, *a.* (Ff. *foible;* Ysp. *feble*) gwàn, egwan, eiddil, llesg, gwanaidd, dinerth, dirym, gwanllyd, llesgar, nychlyd, llegach, llegus, llesgaidd, llyth, diffygiol, brydd; pwl; llesgenaidd, araf, arafaidd.
To make feeble — gwanhau, gwanychu, egwanu, dinerthu, annerthu, llesghau, eiddilo, dirymio, dirymu, llesgu; gwneuthur yn wàn, &c.
To grow feeble, } gwanhau, gwanychu, llesg-
To wax feeble, } hau, llesgu, eiddilo, ymwanhau, ymlesghau; myned yn wàn, &c.; ffynnu yn wàn, &c.

Feeble,† *v. a.* gwanhau, gwanychu.

Feeble-mindedness, *a.* gwàn ei feddwl; egwan ei feddwl; gwanfrydig, gwanfryd; anwastad *neu* anwadal ei feddwl; ansefydlog.
Comfort the feeble-minded—dyddenwch y gwàn eu meddwl.

Feeble-mindedness, *s.* gwendid meddwl, gwanfrydedd, gwanfrydigrwydd, egwanfrydedd.

Feebleness, *s.* gwendid, gwander, llesgedd, egwander, eiddilwch, gwandra, gwanwch, llesgrwydd, eiddiledd, eiddildra, annerth, annerthedd, methiant, llythiant, egwanaeth, llesgarwch, nychdod; pyledd, pylni; ansad-

Feebly, *ad.* yn wàn, yn egwan, &c.

Feed, *v.* (S. *fedan*; Is. *voeden;* D. *föder*) porthi, bwydo, bwyda; ebranu; ymborthi, bwyta, llewa, cymmeryd ymborth; pesgu, tewhau, tewychu, pwyntio; porfäu, pori, ymbawr, ymbori, ysbori, ysborio; rhoi lluniaeth a chynnaliaeth i; diwallu, gosymmeithio, gosmeithio, gosmaethu, gosymdeithio, ysborthi, maethu, magu, meithrin, cynnal; gwrygio, cynnyddu; cymmeryd ei faeth; myned yn dew; myned yn fag tew.
To feed one's self—ymborthi, ymbesgu; porthi ei hun.
To feed together—cydfwyta, cydymborthi, cydbori, cydymbori, cydymbawr; bwyta yn nghyd, &c.
To feed often — mynych fwyta, dybori, mynych bori, dyfwyta.
To feed on idle fancies—byw *neu* ymborthi ar ofergoel; byw *neu* ymborthi ar wynt; byw *neu* ymborthi ar wagedd; byw ar wag ddychymygion; ymddiried ar gysgodau; somi ei hun; ymsomi.
To feed horses—ebranu meirch; porthi ceffylau.

Feed, *s.* ymborth, bwyd, gogor, ebran, porthiant, porth, ysborth, ymbawr; porfa, porfel; pryd, dogn, cyfran.

Feed, *p. p.* (o *fee*) gwobredig, gobredig, gwobrwyedig, taledig, cyflogedig.

Feeder, *s.* porthydd, porthwr, ysborthwr, ysborthydd, ysborthiad, porthiannwr, porthiannydd; pasgadur, pasgiadur, pesgydd, pesgwr, porfelwr, porfäwr; ymborthwr, ymborthydd, bwytäwr, bwytai; maethwr, maethydd, magwr, meithrinydd, annogwr; bugail.
A high *or* dainty feeder — dyn bolfras, bwytäwr bras, bwytäwr da; dyn moethus, dyn minfelus.

Feeding, *s.* ymborthiad, porthiad, ysborthiad, pesgiad, pasg; porfa fras, porfa, porfel; ymborth, bwyd.
To be fed in a stall—bod yn mhasg; bod yn tewhau; bod yn y ffronc; cael ei gorfwydo.
Feeding place — pasgle, pasgfa, pasgell, ffronc, lle i besgu, lle pesgus.
Feeding for cattle—gogor, ymbawr, pawr, porfa, ymborth anifeiliaid, allwest.
Feeding for men — ymborth, porthiant, porth, lluniaeth, bwyd.
Feeding much, } bwytëig, gwancus,
Feeding greedily, } rhwth, glwth, ceulrwth, bolrwth, diwala.
Excessive feeding, } bwyteigrwydd, bwyta
Greedy feeding, } diwala, gwanc, rhythni, glythni, glythineb,
Great feeding, } glothineb, glythi, glythedd, bwyta mawr.
Feeding high—yn bwyta yn fras; yn byw yn fras; yn byw yn folfras; yn bwyta yn folfras.
High feeding—bolfrasrwydd, bolfrasedd, minflysigrwydd, wttres, gloddest.

Feed-pipe, *s.* diwallbib, pibell ddiwallu.

Feel, *v.* (S. *felan, fœlan;* Al. *fühlen;* Is. *voelen*) teimlo; ymdeimlo; clywed, ymglywed; synio; profi; swmpo; gwybod oddi wrth; cyffwrdd â.
To feel disposed—clywed ar ei galon; tueddu, gogwyddo; bod yn barod *neu* dueddol i; teimlo awydd; clywed awydd.

To feel gently—palfalu, palfu; teimlo yn ysgafn.
To feel after—ymbalfalu am.
To feel the bottom—teimlo *neu* glywed y gwaelod; cael bais.
To feel in one's self, } ymdeimlo â,
To begin to feel, } ymglywed â,
To have some feeling of, } ymwrandaw â, ymswmpo â.
To feel out—profi, chwilio, fforio, chwilio am, ymofyn am.
To feel the pulse—teimlo yr ysbonc; teimlo y curiadau; profi gwaith y rhedwelïau yn curo ac yn taro; teimlo y rhedgur; teimlo y gwaedgur, teimlo yr amredgur; teimlo cur y gwaed; teimlo ysbonc y rhydweli yn yr arddwrn: profi nawS a thuedd un; swmpo un.
He feels nothing of his sickness, } nid yw
He does not feel his sickness, } efe yn teimlo dim o'i ddolur; nid yw efe yn synio dim o'i ddolur; ni wyr efe ddim oddi wrth ei glefni.
That may be felt—teimladwy, hydeiml; syniol; i'w deimlo; â ellir ei deimlo.
I will make him feel my fingers—paraf iddo wybod pwys fy nwylaw *neu* fy mreichiau; paraf iddo brofi pwys fy nwylaw, fy nyrnau, *neu* fy mreichiau.
Suffer me that I may feel the pillars—gad i mi gael gafael ar y colofnau (*Barn.* xvi. 26).
Surely he shall not feel quietness in his belly—dïau na chaiff lonydd yn ei fol (*Iob* xx. 20); dïau na wybydd lonydd yn ei fol.
When it feeleth the fire—pan gyffyrddo y tân â hi (2 *Esd.* xiii. 4).

Feel, *s.* teimlad, teiml, teimlawd.

Feeler, *s.* teimlwr, teimlydd, teimledydd, teimlor; profydd.

Feeling, *a.* teimladol, teimladwy; tyner, tirion; bywiog.

Feeling, *s.* teimlad, y teimlad, teiml, teimlawd, teimledigaeth, ymdeimlad; syniad, ymsyniad; gwybodaeth oddi wrth beth; profiad, prawf.
Fellow-feeling—cytteimlad, cydymdeimlad, cyd deimlad; cydoddefedd, cydles.
To have a fellow-feeling—cytteimlo, cydymdeimlo, cyd deimlo; bod gân un gyt-teimlad âg arall.
By feeling—trwy deimlo, wrth deimlo; trwy balfalu, wrth balfalu.
Without feeling—dideimlad, annheimladol, ansyniol, dïymglywed.
The seat of feeling—teimlfa, ymdeimlfa, eisteddfa y teimlad, cartref y teimlad.
They had some feeling of the Lord—meddyliasant am yr Arglwydd; gwybuant oddi wrth yr Arglwydd; ymsyniasant am yr Arglwydd; ymwrandawsant â'r Arglwydd.
Who being past feeling—y rhai wedi diddarbodi.
Which cannot be touched with the feeling of our infirmities—heb fedru cyd-ddyoddef gyda'n gwendid ni (*Heb.* iv. 15).

Feelingly, *ad.* yn deimladwy, yn deimladol, yn dyner, trwy deimlad; gyda theimlad a thynerwch.

Feelingness, *s.* teimladrwydd, teimladoldeb; tynerwch.

Feese,† *s.* rhedfa, rhedegfa.

Feet, *s. pl.* (o *foot*) traed, pedion, peddau; troedfeddi.
Metrical feet—corfanau.
Solid feet—troedfeddi tryfaint, troedfeddi cyfain, troedfeddi cubig, troedfeddi cub.

Feet-bearer, *s.* troediog, troedog, rhageisteddiad.

Feetless, *a.* didraed, heb draed.

Feign, *v. a.* (Ff. *feindre;* It. *fingere, fignere;* Ll. *fingo*) ffugio, ffuantu, ffuannu, rhagrithio, lledrithio, rhithio; dychymygu, dyfeisio, ystrywio, llunio, llyfelu, bwriadu; gwneuthur malpai; gwneuthur lliw o beth; cymmeryd arno; ymrithio yn; dyeithro; coegymlunio.
To feign one's self—cymmeryd arno; ymrithio yn; ymffugio.
He feigned himself sick—cymmerodd arno fod yn glaf; ffugiodd ei fod yn glaf.
She will feign herself to be another woman—hi a ymddyeithra.
Which should feign themselves just men—y rhai a gymmerant arnynt eu bod yn gyfiawn.
To feign holiness—ffugio santeiddrwydd; ffugio bod yn santaidd; cymmeryd arno fod yn santaidd; gwisgo ffug-santeiddrwydd.

Feigned, *p. p.* ffugiedig, dyfeisiedig, &c.; ffugiol, gau, ffals, lledrithiog, ffug-.
Feigned devotion — rhith-dduwioldeb, rhith duwioldeb, rhith dyhewyd, cyfrith duwioldeb; rhagrith.
Feigned holiness — ffug-santeiddrwydd, rhith santeiddrwydd.
Feigned tale — chwedl ddychymyg, ffugchwedl, chwedl ffugiedig.
Not feigned—didwyll, diffuant.
Strangers shall yield me feigned obedience—meibion dyeithr a gymmerant arnynt ymostwng *neu* ymddarostwng i mi; dyeithriaid a gymmerant arnynt fod yn ddarostynedig i mi.
Feigned words — chwedlau gwneuthur (2 *Pedr* ii. 3).
My prayer that goeth not out of feigned lips—fy ngweddi o wefusau didwyll (*Salm* xvii. 1).

Feignedly, *ad.* yn ffugiol, yn ffuantus; mewn rhagrith.

Feignedness, *s.* ffugiedigrwydd; ffugiant, ffugioldeb, ffugiolrwydd, geudeb, geuoldeb; ffug, ffuant, lledrith, rhagrith.

Feigner, *s.* dychymygwr, dychymygydd, dyfeisiwr, llyfelwr; ffugiwr, ffugiedydd, ffuantwr, lledrithiwr, rhagrithiwr.

Feigning, *s.* dychymygiad, dyfeisiad, llyfeliad; ffugiad, ffugiant, ffuant, ymddyeithrad; lledrith, rhagrith, ffug; geuwedd.

Feint, *s.* (Ff. *feinte*) rhith, lledrith, cyfrith, lliw, ffug, geuwedd, ffugesgus, gwag ymddangosiad; coeg ergyd, gwag osod, rhuthr mewn lliw.
It was but a feint—nid oedd ond rhith, lliw, ffug, *neu* esgus.
By way of feint—er mwyn dallu.

Feint,† *a.* dychymygol, ffugiol, ffals, gau.

Felanders, *s.* (Ff. *filandres*)=*Filanders.*

Feldspar, } *s.* (Al. *feld* a *spath*=*field* a *spar*).
Felspar, } maesgrisfaen, maesysger, maesgolp, maesgolpen, crisfaen y maes, creigrisfaen.
Feldspath, }
Felspath, }

Feldspathic, } *a.* maesgrisfeinig, maesgrisfein-
Feldspathose, } in, maesysgerig, maesysgeraidd, maesgolpaidd, creigrisfeinig.

Felicitate, *v. a.* (Ll. *felicito;* Ff. *feliciter*) gorddedwyddu, dedwyddu, gwenydu, gwenyddu; cyfloddi, cydlawenu â, cydlawenhau â, cydloni â, hawddammori, hawddammor; dymuno llawenydd i; llwyddo, llwyddiannu; llwyddo un am ei ffawd; gwneuthur *neu* beri yn ddedwydd.

Felicitate, *a.* gorddedwydd, gorddedwyddedig, tra dedwyddedig; dedwyddlawn, gwynfydlawn, menwydus, menwydog, dedwydd iawn, gwenyddog.

Felicitation, *s.* cyfloddiad, hawddammoriad, hawddammor, cydlawenychiad, cydlawenhad, cyfanerchiad; dedwyddiad, gwenydiad.

Felicitous, *a.* dedwydd, tra dedwydd, gorddedwydd, dedwydd iawn, dedwyddlawn, hapus, dedwyddol; llwyddiannus, hylwydd, ffynniannus, tyciannus, hwylus, llwyddog, llwyddgar; hyfryd, dymunol, hyfrydlon.

Felicitousness, *s.* gorddedwyddwch, gorddedwyddyd, gorwynfyd, gorffawg, tra dedwyddyd, tradedwyddwch, dedwyddwch, dedwyddyd, hapusrwydd, gorhapusrwydd, gwynfydigedd.

Felicity, *s.* (Ll. *felicitas*) dedwyddwch, dedwyddyd, gorddedwyddwch, gorddedwyddyd, gwynfyd, gwenyd, ceinfod, hapusrwydd, gwyndod, gorffawg, dywyndeb, dwyndeb, dywenydd, gwynfydedigrwydd, menwydusrwydd, dedwyddoldeb, dedwyddlondeb, gwynfydrwydd; llwydd, llwyddiant, hawddineb, tyciant; bendith, mwyniant, gwynaeth.

Felicities—dedwyddion.

Place of felicity—gwenydfa, gwynfa, gwenfro.

Feline, *a.* (Ll. *felinus*) cathaidd, cathol; fel eiddo cath; fel cath; perthynol i gathod.

He has a feline tail—y mae iddo gynffon cath; mae ei gynffon fel cynffon cath.

Felis, } *s. pl.* (Ll. *felis*) y cathod, cathfilod,
Felidæ, } catholion, cathryw; milod o rywogaeth y gath.

Fell, *a.* (S.; Is. *fel*) creulawn, ffyrnig, annynol, milain, mileinig, cïaidd, didostur, didrugaredd, ysgeler, barbaraidd, anwar, gwaedlyd, creugar, creuol, dywal.

Fell, *s.* (S. ac Al.; Ll. *pellis*) croen, cen, croen anifail.

Fell, *s.* (Al. *fels*) creigfryn, cerygfryn.

Fell, *v. a.* (Is. *vellen;* Al. *fällen*) cwympo; bwrw *neu* daraw i lawr; trychu, tori, bwrw, *neu* gymmynu i lawr; peri cwympo *neu* syrthio.

To fell trees—cwympo, tori, *neu* gymmynu coed.

Feller, *s.* (o *fell, v. a.*) cwympwr, cwympydd, cwympiedydd, cymmynwr, torwr i lawr.

Fellifluous, *a.* (Ll. *fel* a *fluo*) gerilifol; yn llifaw o fusgl *neu* geri.

Fellmonger, *s.* (*fell* a *monger*) crwynwr, masnachwr crwyn, marchnatäwr crwyn, crwynfasnachwr, crwynfaelydd.

Fellness, *s.* (o *fell*) creulondeb, creulonder, creulondra, creulonrwydd, creulonedd, creulonaeth, ffyrnigrwydd, dywalder, mileinrwydd, annynoldeb, barbaredd; ffroch, bâr.

Felloe, *s.* (S. a D. *fælge;* Al. *felge*)=*Felly.*

Fellow, *s.* (S. *felaw*) cydymaith, cyfaill, cymrawd, cymrodor, cyfrodor, cydfrodor, cymdeithydd, cymdeithiwr, cyfaelod, cydaelod, aelod, cydymdaith, brodor, brawd; cymhar, cydwr, cydswyddog, cyfranog, cydradd, un cydradd, cyfalle, cyfeisor, cyfiad, cyfeilydd, cyfail, cystadlydd, cyfurddor, cydbar, cyfrin, cyfrinachwr; un, dyn, gwr, rhywun, rhyw un; gwelchyn, gwalch: cyd-, cy-, cyf-, cys-.

This fellow—hwn; *f.* hon.

Brave fellow — dewryn, dewrwas, gwas gwych.

Base fellow, } bawddyn, bawai, bawyn,
Dirty fellow, } anwr, adwr, adill, gwael-
Sorry fellow, } ddyn, coegddyn: *pl.* bawach.

Pitiful, mean, *or* sorry fellows—dynionach; bawach.

Little fellow—dynyn, dyno, cono, socyn, pegor, coryn bach, crwt, crwtyn.

A little sorry fellow—gelach.

Pretty fellow, } pefryn, pertyn, dynyn
Pretty little fellow, } pert, destlyn, dyn bach pert, cono, pefrwas; sioncyn; gwelchyn; ceiliogyn pert.

Covetous fellow—crinwas.

Good fellow—glân gydymaith, cydymaith glân, cyfeddachwr digriflan, cyfeddachwr, cydyfwr; gwas digrif, digrifwas.

King of good fellows—brenin cyfeddach; pen cymdeithion da.

Clumsy fellow—llabwst, llabi, un trwstan, tryglyn, hudlath.

Ragged fellow—brenin y bratiau, brenin y bralau, bralgi.

Hare-brained fellow—bral o ddyn, chwidryn, un penchwiban.

A great strapping fellow—clobyn o ddyn, tylffyn, trolyn o ddyn, rholyn o ddyn.

Stupid fellow—penbwl, pendew, hurtyn, delff, hult, hultan, hurthgen, hurtan, hutyn, cuall.

Crabbed fellow—gwrechyn, sarigyn.

Skulking fellow—techyn, dydechwr, llechgi, techgi.

Worthless fellow—sybidyn, un diwerth.

Naughty fellow, } cono drwg; dyhiryn, dy-
Wicked fellow, } hirwr, dyhirwas.

Noisy fellow — dwndrwr, bloeddiwr; un trystfawr, dadyrddus, *neu* drystiog.

Old fellow—cleirchyn, henddyn, henwr, hen glairch, hen gleirchyn; hen walch.

A sorry old fellow—hen adill.

Wretched fellow—adyn, adill, adlaw, truenyn, gwael-ddyn, truan-ddyn, un truan, un gresynol.

Proud fellow, } coegyn, ysgoegyn, dynyn
Empty fellow, } coegfalch, dyn coegfalch,
Silly fellow, } un coeg, belchyn.

Surly fellow, } soryn, soriad, monyn,
Touchy fellow, } terigyn, terogyn, sorigyn, drelyn, drel; costog,
Peevish fellow, } costawcci.

Wrangling fellow, } cecryn, cecrusyn,
Quarrelsome fellow, } cipryayn; dynyn cipgar, dynyn ymrafaelgar.

Young fellow — dyn ieuanc, gwr ieuanc, gwas ieuanc, llanc, llencyn, hogyn, glaslanc.

Bold fellow—un hy, un hyf, hyfwas, gwr hy.

Angry fellows—gwŷr digllawn, dynionach anfoddog.

Low-bred fellow—dyn difoes iselradd.

Bed-fellow—cydwely, cywely: *f.* cydwelyes, cywelyes.

Rare fellow—dyn heb ei fath, ei gyffelyb, *neu* ei gymhar; dyn digymhar; dyn heb gymhar iddo; dyn heb ail iddo; un heb ei ail; un digynnyg.
Fellow of a college—cymrawd coleg, cymrodor coleg, brodor coleg, cyfaill clasgor; cymrawd o goleg, cyfaelod o goleg; aelod o gymdeithas coleg; brawd clas.
Fellow of Jesus College—cymrawd Coleg Iesu; cymrawd o Goleg Iesu, &c.
Odd Fellows—Odyddion.
Certain pestilent fellows — gwŷr ysgeler (1 *Mac.* x. 61); rhai ysgeler; rhai heintlyd.
A fellow came to me—daeth dyn ataf; daeth un ataf; daeth rhywun ataf.
Yonder struts a pretty fellow — draw y chwareua ceiliogyn pert.
What fellow is this?—pwy yw hwn? pwy yw y dynyn hwn?
These fellows—y gwŷr hyn, y dynion hyn, y rhai hyn, y dynionach hyn; y gweilch hyn.
This mad fellow—yr ynfyd hwn.
Certain lewd fellows of the baser sort—rhyw ddynion drwg o grwydriaid (*Act.* xvii. 5).
These fellows flee from us—y maent hwy yn ffoi oddi wrthym ni (1 *Mac.* iv. 5).
Against his fellow—yn erbyn ei gyfnesaf (1 *Sam.* xiv. 20).
She reproached her fellow—edliwia i'w chymmydoges (*Bar.* vi. 43).
Away with such a fellow—ymaith â'r cyfryw un (*Act.* xxii. 22).

Fellow, *v. a.* cyfeillio, cymharu, paru, sutio; cyplu, cyplysu; cydieuo; cyffelybu.
Fellow-citizen, *s.* cyd-ddinesydd, cyd ddinesydd.
Fellow-commoner, *s.* cydgyffredinwr.
Fellow-councillor, *s.* cydgynghorwr, cydgynghorydd.
Fellow-creature, *s.* cydgreadur.
Fellow-feeling, *s.* cytteimlad, cydymdeimlad, cyd deimlad, cydoddefedd; cydles.
Fellow-heir, *s.* cydetifedd, cyttifedd, cyttreftadog, cydetifeddwr, cyfetifedd.
Fellow-helper, *s.* cydgynnorthwywr, cydhelpwr, cynnorthwywr, cynnorthwr, cymhorthwr, northwr, cannorthydd, cydgynnorthwr.
Fellow-labourer, *s.* cydweithiwr, cydweithydd, cydlafuriwr, cydlafurwr, cydlafurwas.
Fellow-like, *a.* (*fellow* a *like*) cyfeillaidd, cydymeithaidd; cymdeithgar, cyfeillgar; cydradd, cyfartal.
Fellow-maiden, *s.* cydforwyn, cydforwynig.
Fellow-member, *s.* cydaelod, cyfaelod.
Fellow-minister, *s.* cydweinidog, cydweinydd, cydwas.
Fellow-peer, *s.* cydarglwydd, cydarlwydd, cydbor.
Fellow-prisoner, *s.* cydgarcharor.
Fellow-rake, *s.* cydracai, cydoferddyn, cyddyhiryn, cydoferwr.
Fellow-scholar, *s.* cydysgolor, cydysgolâig.
Fellow-servant, *s.* cydwas, cydweinydd, cydweinidog.
Fellowship, *s.* cymdeithas, cydymeithas, cydymdeithas, cyfeillach, cydgyfeillach, cymdaith, cyweithas, brodoriaeth, cydfrodoriaeth, cyfrodoriaeth, cymrodoriaeth, cymrodiaeth, cyfeillaeth, brawdoriaeth, cyfaelodiaeth; cymundeb, cyfundeb; cyfranogaeth; cystlwn, cystlynedd; cysmeriaeth; cydfaeliaeth, cydfaeloriaeth, cydfaelieraeth; brodorged; cydles.
Fellowship (in arithmetic)—cydfaeliaeth, cydfaeloriaeth, cydfaelieraeth.
Double fellowship—cydfaeliaeth ddyblyg, adgydfaeliaeth.
Fellowship in office—cydswyddogaeth.
Fellowship in service—cydwasanaeth.
Fellowship in war—cydfilwriaeth, cydlueddiaeth, cydlüyddiaeth, cydryfelaeth.
To have fellowship, } cymdeithasu, cyfeill-
To hold fellowship, } achu, cyfeillio, ymgyfeillio, ymgyfeillachu, ymgymdeithasu; bod i un gydgyfeillach *neu* gymdeithas; cael cymdeithas, cael cyfeillach; bod yn gyfranog.
To join one's self in fellowship with—ymgyfeillach âg, ymgyfeillio â, cymdeithasu âg, ymgymdeithasu âg, ymgyfrinachu â.
Of fellowship, } cymdeithasol;
Belonging to fellowship, } perthynol i gymdeithas.
What fellowship hath the wolf with the lamb?—pa gyfeillach sy rhwng y blaidd a'r oen?

Fellowship, *v. a.* cymdeithasu.
Fellow-soldier, *s.* cydfilwr, cydsawdiwr, cydryfelwr, cydlueddwr.
Fellow-stream, *s.* cydffrwd, cyffrwd, ffrwd gyfagos.
Fellow-student, *s.* cydfyfyriwr, cydefrydydd, cydefrydwr, cydastudiwr.
Fellow-subject, *s.* cyd-ddeiliad, cyd ddeiliad, cyd danlwyddiad.
Fellow-sufferer, *s.* cydoddefydd, cydoddefwr, cyd ddyoddefydd, cyd ddyoddefwr.
Fellow-traveller, *s.* cytteithiwr, cytteithydd, cyd deithiwr, cydymdeithiwr, cydymdeithydd, cydfforddwr, cydymaith: *pl.* cydfforddolion.
Fellow-worker, *s.* cydweithiwr, cydweithwr, cydweithydd.
Fellow-writer, *s.* cydysgrifenwr, cydysgrifenydd, cydysgrifwr, cydysgrifydd.
Felly, *ad.* (o *fell*) yn greulawn, yn ffyrnig, &c.
Felly, *s.* (S. a D. *fælge;* Al. *felge*) cameg, camen, camog, camer: *pl.* camegau, cemyg, camogion, camerau, camenau, cantgoed, cylchgoed, cantgoed olwyn.
Felo-de-se, *s.* (Ll. drosgl) hunleiddiad, hunanleiddiad; un à laddo ei hun o'i wirfodd.
Felon, *s.* (Ff.; Ll. drosgl, *felo;* It. *fello* neu *fellone*) cyflafanwr, cyflafanog, drygweithredydd, drygweithredwr; lleidr; un euog o gyflafan: bystwn, y bystwn, gwrlys, gwrllys, ewinwasg, ewinor.
Felon, *a.* creulawn, ffyrnig, dywal, annynol, barbaraidd, cïaidd, dryganianol, dryganianus, athryfar; maleisus, drygfrydig; bradwrus, bradol, bradog, anffyddlawn.
Felonious, *a.* cyflafanol, cyflafanaidd, cyflafanog; eneidfaddeuol; euog o gyflafan; lladradaidd, lladradol, lledradol; dryganianol, dryganianus, drygfrydig, drygfwriadol, drygfwriadus, maleisddrwg, mall, troseddfrydig; ysgeler, ysgymun, esgymun, barus, diriaid, anfad, drygionus, adwythig, mileinig, creulawn; bradol, bradog, bradus, bradwrus; anffyddlawn.
A felonious act—cyflafan, gweithred gyflafanol.
Felonwort, *s.* math o fochlys.

Felony, *s.* (o *felon*) cyflafan; anghyfarch; lladrad, lledrad.
Petty felony, } chwiwladrad.
Petit felony, }
One guilty of felony—cyflafanwr, cyflafanog.
To commit felony—cyflafanu, gwneuthur cyflafan; llofruddio; lladrata.
Felsite, (Al. *ffels*) creigith=math o greigrisfaen.
Felt, *s.* (S.; Al. *filz;* Is. *vilz*) llawban, brethyn llawban, defnydd llawban; het lawban; het; croen.
Felt cloth—brethyn llawban.
Felt hat—het lawban, hed lawban, het frethyn, het wlan.
Felt, *v. a.* llawbanu; panu dàn y llaw; gwneuthur brethyn llawban; gwneuthur hetiau llawban; gwneyd hetiau.
Felter, *v. a.* llawbanu; telpynu.
Felt-grain, *s.* croeslin coed, llin coed, coedlin.
Felting, *s.* llawbaniad; coedlinad, croeslinad.
Feltmaker, *s.* llawbanwr; hetiwr.
Felucca, *s.* (It. *felùca*) deufflueregan; math o longan chwechrwyf, arferedig yn Môr y Canoldir.
Felwort, *s.* (*fell* a *wort*) crwynllys.
Marsh felwort—crwynllys y morfa.
Female, *s.* (Ll. *femella;* Ff. *femelle*) benyw, menyw; bun, gwraig, dynes, gŵres, merch: *pl.* benywod, benywaid.
A little female—benywen, bechan, merchan, gwreigen, benyw fechan, benyw fach.
A pretty little female—benywen dlos *neu* befr; tlosen, pefren, perten.
A very diminutive female—bechanigen; benyw orfychanig, benyw fechan iawn.
Giggling females, } benywetach, benyw-
Silly females, } otach, gwrageddach, gwrageddos.
A bulky female—tylffen, tolffen, trolen, cloben, corffolen; cloben *neu* drolen o ddynes.
A young female—benyw ieuanc, merch ieuanc, merch, benen.
A flirting female—ffiloges, hoeden, cariadferch dwyllodrus, chwidren, penhoeden, mwyglen, coegen, gwibferch dinsigl, chwidwen, twyllodres.
A bearing female—hilen, epiles, benyw epiliog; dynes flith; benyw yn dwyn plant.
A pampered female—maethes, moethen, mwythen, dynes fwythus.
A sprightly female—benyw hynwyf, fywiog, eidiog, *neu* hoenus; gwalches, nwyfen, nwyfusen.
Female, *a.* benywaidd, benywol, menywaidd, menywol, benyw, menyw; gwreigiol, gwreigol, gwreigaidd, merchaidd, merchedaidd; o ryw benyw; tyner, gwàn; -es.
Female rhymes—odlau benywaidd, cyfodlau dyblyg.
Female servant — morwyn, gweinidoges, gweinyddes.
Female friend—cyfeilles.
Female lunatic—lloerigen, lloeriges, benyw loerig.
Female child — plentyn benyw; merch; merch fechan.
The female sex—y rhyw fenywaidd, yr ystlen fenywaidd, y rhyw fenywol, y wreigiol ystlen, yr ystlen wreigiol; y rhyw deg; y rhywogaeth hawddgar; y benywod.
Intercede for the devout female sex—cyfrynga dros yr ofynedol wreigol ystlen.
Female screw—troellrych, amsidrych, amsidrwy.
Female flower—blodeuyn benyw, bloden fenyw, blodyn benywaidd.
Feme-covert, } *s.* (Ff. *femme couvert*) gwraig
Femme-covert, } briod, gwraig briodol, gwraig
Femme-couvert, } wriog, gwraig ysbwys, gwraig gowyllog; gwraig dàn gowyll; gwraig dàn nawdd ac awdurdod gwr; gwraig dàn orchudd gwr; gwraig wrnawdd; gwraig âg arglwydd-wialen briodasol arni.
Feme-sole, } *s.* (F. *femme* a *sole*) benyw an-
Femme-sole, } weddog, gwraig anmhriod, merch weddw, gwraig heb briodi.
Femme-sole merchant — masnach-wraig= gwraig à ddygo yn mlaen fasnach heb ei gwr.
Feminality, *s.* benywoldeb, benyweiddrwydd, menywoldeb, menyweiddrwydd, benywdod, menywdod, merchedd, gwreigdra; y natur fenywaidd.
Feminate,† *a.*=*Femininc.*
Feminine, *a.* (Ll. *femininus;* Ff. *feminin*) benywol, benywaidd, menywol, menywaidd; benyw, menyw; gwreigiol, gwreigol, gwreigaidd, merchaidd, merchedaidd; perthynol i fenyw *neu* fenywod; o'r rhyw fenywaidd; tyner, mwyth, tirion, blydd.
Feminine gender—y rhyw fenywol, y rhyw fenywaidd, yr ystlen fenywol, yr ystlen fenywaidd, y genedl fenywaidd.
Femininely, *ad.* yn fenywol, &c.
Feminism, *s.* benywiaeth, menywiaeth; teithi benywod.
Feminity,† *s.*=*Feminism.*
Feminize, *v. a.* benyweiddio, benywoli, gwreigeiddio; gwneuthur yn fenywaidd.
Femme, *s.* (Ff.) gwraig, benyw, menyw.
Baron and femme—gwr a gwraig.
Femoral, *a.* (Ll. *femoralis*) morddwydol; perthynol i'r forddwyd; eiddo y forddwyd.
Femoral bone—asgwrn y forddwyd.
Femoral artery — rhedweli y forddwyd; y rhydweli forddwydol.
Femur, *s.* (Ll.) morddwyd, y forddwyd.
Fen, *s.* (S. *fen, fenn;* Is. *veen*) cors, corsle; gwaen wleb, ferllyd, *neu* ddyfrllyd; merfa, morfa, corswaen; siglen, mignen, mign, migyn; corsdir, tir corsog; rhos.
Fen-berries, *s. pl.* ceirios y waen, llygaeron, llyged aeron, llygaid aeron, llyged eirian, llygeirin, llyged eirin.
Fen-born, *a.* cors-anedig; à aned mewn cors.
Fence, *s.* (o wraidd *defend*, Ll. *defendo, defensus*) cae, argae, clawdd, amgae, gwrych, perth, bid, polgae, caer, gwalc, gwàl, achwre, amgaer, cauad; amddiffyn, ymddiffyn, diogelwch, nawdd, nodded, achles, amgeledd, annawdd, differ, diffwyn, amwg; amddiffynfa, diffynfa, noddfa, diogelfa; gwart, gorch; cleddyfyddiaeth, ymgleddyfiaeth, chwareu cleddyfau.
Live fence—coedgae, coedwrych, perthgae, perth blan, perth fyw, cae byw, bid byw, gwrych byw.
Rail-fence—rheilgae.
Fence of pales—polgae, pawlgae, coedgae, buarthgae, cauad polion; achwre.

Ring-fence — rhwyl, cylchgae; cae *neu* glawdd o amgylch yr holl diriogaeth.
A wattled piece of fence—pleiden.
Tottering fence — pared ar ei ogwydd (*Salm* lxii. 3).

Fence, *v.* cau, amgau, argau; amgylchu â chau, clawdd, gwrych, bid, gwàl, *neu* fur; cloddio; cau ar; cau i mewn; diogelu, amddiffyn, diffynu, diffyn, cadarnhau; cadarnhau *neu* ddiogelu â chlawdd, cae, *neu* argae; ymgleddyfu, cleddyfu, chwareu cleddyfau, chwareu â chleddyfau; ymladd, ymbrofi, *neu* ymwrio â chleddyfau; coeg ymwan; ymgadw.
To fence in—cau ar, cau i mewn.
To fence about, } amgau, amgaeru;
To make a fence about, } cau o amgylch; cau oddi amgych; cau yn nghylch; gwalcio, gorchi.
To fence against—amddiffyn, ymddiffyn, diffyn, *neu* ddiffynu rhag.
To fence away a stroke—troi *neu* fwrw ergyd heibio; troi *neu* fwrw ergyd ymaith; cadw ergyd draw; rhagodi ergyd; bwrw dyrnod heibio.
He hath fenced up my way—efe a gauodd fy ffordd.

Fenced, *p. p.* argauedig, cauedig, amgauedig; amgylchynedig â chae; caerog, amgaerog; cadarn; gwalciog, gwalciedig.
Form, *s.* (Ll. *forma*; Ff. *forme*; Al. *form*) ffurf, llun, dull, gwedd, ffanud, gosgedd, agwedd, ystum, sud, sut, elwig, ardum, dullwedd, arddull; modd, ffordd, trefn, rheol; rhith, cyfrith, golwg, pryd, diwyg; cynllun, rhaglun, cynddelw, cynnelw; llenddull; delw, trem, tebed, bath; maint; dosbarth, gradd; gwâl; defod ac arfer, moesffurf; mold.
Set form—dull terfynedig, ffurf benodedig, ffurf benodol, trefn sefydlog, trefn sefydledig, rheol sefydlog, rheol sefydledig.
Form of speech—ffurf o ymadrodd; dull ar ymadrodd; ffurf ymadrodd, dull ymadrodd.
The form of sound words—ffurf yr ymadroddion iachus.
Perfect form—llun perffaith, ffurf berffaith, perffeithlun.
Without form—afluniaidd, dilun, afiun, anosgeddig, diffurf; dybryd; ansutiol.
Of a good form—lluniaidd, ffurfaidd, gosgeddig, gosgeiddig, harddlun.
To make of a good form—llunieiddio, ffurfeiddio; gwneuthur yn lluniaidd.
The two are exactly of the same form with one another—mae y ddau yn union yr un ffunud a'u gilydd.
Hare's form—gwâl ysgyfarnog.
Full form—llawnwedd, llawnddull.
Form and mode—dull a modd.
Form (in printing)—ffurflen, llenddull, ffurf, cynllun.
Of many forms—amryddull, amrylun, amrywedd, amddull, amlddull, amryffurf, amlwedd, amlun; amryfodd, amryfath; â llawer ffurf arno.
Having the form of godliness—â chanddynt rith duwioldeb.
For form's sake—er mwyn ffurf; er mwyn defod ac arfer.

Form, *v.* (Ll. *formo*) ffurfio, llunio, gwneuthur, gwneyd, ystumio, ardumio, dullio, dullweddu, arddullio, lluniadu, ffurfeiddio, llunieiddio; trefnu; cynllunio, dyfeisio, delwi; moldio; tori; gwneuthur ar wedd; tori allan; lluniaethu; cyfansoddi; deddfu; ymffurfio, cymmeryd llun.
Well-formed—lluniaidd, ffurfaidd, harddlun, gosgeddig, gosgeiddig, gwiwlun.

Formal, *a.* (Ll. *formalis*; Ff. *formel*) ffurfiol; rheolaidd, trefnus, ardumiol, ystumiol; ffurfgar; moesffurfiol, moesffurfiog, ystumgar, munudgar, defodgar, defodus, defodol; moddus, moddol; ar ddull, ar wedd; rhy ddichlyn; rhagrithiol; â wnaed wrth reol *neu* drefn; hanfodol.
Formal speech—ymadrodd ffurfiol, araeth ffurfiol.

Formalism, *s.*=*Formality.*

Formalist, *s.* (Ff. *formaliste*) ffurfiolwr, ffurfiolydd, ffurfiolur; dyn ffurfiol, moesffurfiol, moesffurfiog, ffurfgar, ystumgar, *neu* funudgar; rhagrithiwr; arddefodwr; canlynydd ffurfiau a defodau.

Formality, *s.* ffurfioldeb, ffurfiolrwydd, ffurfiolder, ffurfgarwch, ystumgarwch; rheoleiddrwydd, rheolusrwydd, trefnusrwydd; ffurf, moesddefod, arddefod, rhyfoes; trefn, rheol, trefn arbenig, trefn sefydlog; gwisg, swyddwisg, urddwisg.

Formalize,† *v. a.* llunio, ffurfio, moldio.

Formalize, *v. n.* ymffurfioli, cocg-ymlunio, cocg-ymwneuthur.

Formally, *ad.* yn ffurfiol.

Formate, } *s.*= { *Formiate.*
Formiate, } { *Formate.*

Formation, *s.* (Ff; Ll. *formatio*) ffurfiad, lluniad, gwneuthuriad, dulliad, arddulliad, lluniaeth, lluniant, ffurfiant, lluniadaeth, lluniaethad, ardumiad, lluniedigaeth, lluniawd, delwad.
Coal-formations—ffurfiadau glo, gwanafau glo, glowanafau, lluniodau glo, haenau glo.

Formative, *a.* (o'r Ll. *formo*) lluniol, ffurfiadol, dylluniol, lluniadol, delwadol, lluniedyddol; haniadol, hanedig.
Formative particle—banyn dylluniol, geiryn lluniol.
Formedon, *s.* (Ll. *forma doni*) ffurfroddeb, ffurfroddwya.
Former, *s.* (o *form*) lluniwr, ffurfiwr, lluniedydd, ffurfiedydd, lluniawdwr, lluniawdr, dulliwr, ardumiwr, ffurfydd, gwneuthurwr, awdur.
Former, *a.* (S. *form, forma*) cynt, gynt, blaen, blaenorol, blaenllaw; blaenaf, cyntaf; o'r blaen; à fu o'r blaen, cyn-; cynnar; hen; à aeth heibio.
In former times—yn yr amseroedd gynt; yn y cynamseroedd; yn yr oesoedd gynt; yn y cynoesoedd; yn yr hen oesoedd; gynt, cynt; yn y cynfyd; yn yr amseroedd à aethant heibio.
The former, not the latter—y blaenaf, nid yr olaf; y cyntaf, nid y diweddaf; y naill, nid y llall.
The former part—y rhan flaenaf.
Formerets, *s. pl.* (Ff.) osgligion, ysbagenau.
Formerly, *ad.* gynt, cynt hyn; er ys talm; er ys llawer dydd; yn yr amser gynt.
Formers, *s. pl.* llunbrenau, llunddarnau.
Formful, *a.* ffurfiawn, lluniol, lluniadol, ffurfiadol, dyluniadol, creadol; parod i lunio; darfelyddol.
Formiate, } *s.* (Ll. *formica*) myrionaint, mywFormate, } ionaint, myrhalan, myrgris: *pl.* myrhalion.
Formic, *a.* (Ll. *formica*) myrionig, mywionig, morionig, grugionig, morgrugol; perthynol i forgrug *neu* fyrion.
Formic acid—sur myrionig, sur morgrug, sur mywion.
Formic ether—nyfel myrionig, nyfel morgrug.
Formication, *s.* (Ll. *formicatio*) morgrugiaa, dybaniaa, grugionad, mywionad; teimlad tebyg i'r un à berir gàn forgrug wrth fyned ar hyd y croen.
Formicidæ, *s. pl.* (Ll. *formica*) y morgrug, y grugiaid, y myrion; morgruglwyth.
Formidable, *a.* (Ll. *formidabilis*) arswydol, arswydlawn, arswydus, ofnadwy, erchyll, dychrynllyd, aryneigiol, arswydbair, brawychus, erch, chwithig; à bair fraw; à dery â braw; yn llawn braw *neu* ofn.
Formidableness, *s.* arswydolrwydd, arswydoldeb, arswydusrwydd, arswydusdra, arswydlonedd, arswydlondeb, erchyllrwydd, erchylldod.
Formidably, *ad.* yn arswydus, yn ofnadwy; mewn modd ofnadwy.
Formless, *a.* (*form* a *less*) dilun, afluniaidd, aflun, diddull, anosgeddig, anosgeiddig, diffurf, anwedd, anffurfaidd, heb lun, heb ffurf.
Formobenzoate, *s.* (Ll. *formica*, a *benzoin*) grugfenwyddaint, morfenwyddaint, hal grugfenwydd.
Formobenzoic Acid, *s.* sur grugfenwyddig, sur morfenwyddig.
Formosity, *s.* (Ll. *formositas*) tegwch, harddwch, glendid, ceinder, tlysi, tlysni.
Formula, } *s.* (Ll. *formula*) ffurf, rhagffurf,
Formule, } ffurfreol, rheol, trefn, dull; ffurf, trefn, *neu* reol sefydlog; dull terfynedig; arwydd; cyffes.
Formulæ—meinciau symmudol yn nghorau eglwysi.
Formulary, *s.* (Ll. *formula*; Ff. *formulaire*) ffurflyfr, ffurfiadur, llyfr ffurfiau; cynffurf, rhagreol, rheol.
Formulary, *a.* rhagffurfaidd, rhagreolaidd, ffurfiol; gosodol, gosodedig, penodedig; defodol, arddefodol.
Formule, *s.* (Ll. *formica*, a Gr. *kulé*) myrionsawd, grugionsawd.
Fornax, *s.* (Ll.) y Ffwrn, y Ffyrnes, Ffyrnes y Fferyllion=cydser deheuol, yn cynnwys 13 o ser.
Fornicate, } *a.* (Ll. *fornicatus*) bwaog, ffyrnog,
Fornicated, } ffyrnaidd; â'i nen fel nen ffwrn, *neu* ffyrnes.
Fornicate, *v. n.* (Ll. *fornicor*) llodinebu, puteinio, gordderchu, anlladu, godinebu, gwneuthur godineb, gwneuthur llodineb, gwragedda.
Fornication, *s.* (Ll. *fornicatio*) llodineb, llawdineb, puteindra, godineb, anlladrwydd, anniweirdeb, aflendid, gordderchiad: ffyrnawd, mydiad, cromgelliad.
To commit fornication=*Fornicate*, *v. n.*
Fornicator, *s.* (Ll.) llodinebwr, llodinebydd, llawdinebwr, puteiniwr, puteinydd, godinebwr, godinebydd, gordderchwr, gordderchad, anlladwr, anlladydd, gwrageddwr, hocrellwr, merchetwr, trythyllwas, anlladfab, trythyllfab, anlladwas.
Fornicatress, *s.* llodinebes, llawdinebes, anllades, anlladferch, godinebwraig, godinebes, putain, putan, puten.
Forniciform, *a.* (Ll. *fornix* a *forma*) bwaog, mydog, myddog, mydaidd, cromgellaidd.
Fornix, *s.* (Ll.) togran; mwd; ceugell.
Forpass,† *v. n.* myned heibio; myned heibio yn ddisylw.
Forepine,† *v. a.* curio, nychu, dihoeni.
Forray,† *v. a.* anrheithio, difrodi.
Forray,† *s.* anrheithiad, difrodiad.
Forsake, *v. a.* (S. *forsacan, forsæcan*) gadael, gadaw, gadu, gado, ymadael â, ymadaw â, gwrthod, ymwrthod â, ymadael oddi wrth; esgeulusо.
To forsake one's party—gadael ei blaid; ymadaw â'i blaid; cilio, cwympo, *neu* lithraw oddi wrth ei blaid; cefnu ar ei blaid.
He forsook his ground—ni chadwodd mo'i dir; ni chadwodd mo'i le; n chadwodd mo'i sefyllfa.
Unto him that forsaketh the way—gàn y neb a dry oddi ar y ffordd (*Diar.* xv. 10).
Forsaker, *s.* gadawydd, gadäwr, gadwr, gadydd, gwrthodwr, gwrthodydd.
Forsaking, *s.* gadawiad, gadiad, gadawedigaeth, gadyd, ymadawiad.
Forsay,† *v. a.* gwahardd, gwarafun, gwrthod, ymadael â.
Forslack,† *v. a.* oedi, gohirio.
Forsooth, *ad.* (S. *forsothe*) yn wir, yn ddïau, yn wir ddïau, yn sicr, yn ddilys, yn ddïammheu, mewn gwirionedd, bid sicr; os mynwch; gwae fi genych; purion, o'r goreu; ysywaeth.
Yes, forsooth—ïe yn wir; ïe, os mynwch;

ïe, trwy'ch cenad; ïe, os boddlawn yw genych.

Forster,† *s.*=*Forester.*

Forsterite, *s.* (oddi wrth Mr. *Forster*) math o ddelidfaen à geir yn Mynydd Vesuvius.

Forswear, *v.* (S. *forswœrian;* Al. *verschwören*) tyngu anudon, anudoni; rhoi llw anudon *neu* anghywir; camdyngu, geudyngu; gwadu ar lw; gwadu trwy lw; dïofrydu; ymwadu *neu* ymwrthod trwy lw.

To forswear one's self—tyngu anudon.

Peter forswore his Master — dïofrydodd Pedr ei Arglwydd.

She forswore her religion—hi a ymwadodd â'i chrefydd.

Forswearer, *s.* anudonwr, anudonydd, tyngwr anudon, camdyngwr, geudyngwr, dyn anudonol; dyn à dyngo anudon; dïofrydwr, dïofrydydd.

Forswonk,† *a.* (S. *swiscan*) gorweithiedig, gorlafurus.

Forsworn, *p. p.* (o *forswear*) anudonog, anudonol; camdyngedig, anudonedig; à dyngo anudon; gwedi tyngu anudon.

Forswornness, *s.* anudoniaeth, anudonedd, anudonogrwydd, anudonoldeb.

Fort, *s.* (Ff.; It. a Port. *forte;* Ll. *fortis*) caer, amgaer, caerfa, caered, amddiffynfa, diffynfa, diffyndy, amddiffyndy, castell, castellyn, castellan, llysdin, din, garth, cadarnle, gwarchglawdd, gwrthglawdd, lle cadarn, rhagfur.

Fort William—Caer Wilym, Caer Gwilym.

Fort, } *s.* yr hyn y rhagora un ynddo; ochr
Forte, } gref; cryfder; cryfle.

Forte, *ad.* (It.) yn gryf, yn rymus, gyda chryfsain.

Forte, *a.* cryf, grymus, grym, cryfseiniol, uchel, croch.

Pin forte — grymusach, cryfach, uwch, uchelach.

Fortissimo—grymusaf, grymaf, cryfaf, tra grymus.

Fortød, *a.* caerog, amgaerog, castellog, caeredig.

Forth, *ad.* allan, i maes, i faes, maes; yn mlaen, rhag llaw; ar led; ymaith.

And so forth—ac felly yn mlaen; ac felly yn y blaen.

From this time forth—o hyn allan; o hyn i maes; o'r pryd hwn allan; o'r amser hwn allan; o'r amser hyn i maes; † yn drwyadl.

To go forth — myned allan; myned, cyrchu.

To set forth — gosod allan, rhoi allan, rhoddi allan; gosod i maes; cychwyn.

To set forth on a journey—cychwyn taith, dechreu taith; myned i'w daith; myned allan i'w daith; cychwyn i'w daith.

To bring forth—dwyn, tynu, tywys, *neu* arwain allan; gosod ger bron; tynu o; dangos allan; gosod allan; dynoethi, dadguddio; esgor, esgori, dwyn, ymddwyn, ymddwyn ar, geni; dyfod â; bwrw; alu; heigio; cynnyrchu.

Forth, *prep.* allan o, i maes o, oddi allan i, oddi maes i, oddi faes i, o'r tu allan i.

Forthcoming, *a.* ar ddyfod allan; parod i ddyfod allan; yn dyfod allan; ar ymddangos; parod i ymddangos; parod i ddyfod ger bron; parod i'w ddwyn allan; parod i'w osod ger bron; dyfodol, dawedol; ar glawr, ar gael, i'w gael, wrth law.

Forthgoing, *s.* mynediad allan; tarddiad, haniad; ebri.

Forthink,† *v. a.* edifarhau am, edifaru am.

Forth-issuing, *a.* yn tarddu allan; yn dyfod allan; yn dyfod yn mlaen; yn deillio.

Forthright,† *ad.* yn union yn mlaen; yn gymhwys yn mlaen; yn mlaen yn union; yn ei gyfer; ar ei gyfer.

Forthright,† *s.* llwybr uniawn.

Forthward, *ad.* yn mlaen; yn ei flaen; yn llwrw ei flaen; llwrw ei flaen; llwyr ei flaen; rhagddo.

Forthwith, *ad.* (*forth* a *with*) yn ddïoed, yn ddïattreg, yn ddïannod, yn ddïaros, yn ddïohir, toc, yn y màn, yn union, heb attreg, allan o law, i maes o law, ar frys, ar ffrwst, yn ebrwydd, yn fuan, ar y chwaen, chwap, yn chwepyn, yn chwipyn, chwip, heb ohir, heb oedi, yn frau, ehegyr.

Forthy,† *ad.* (S. *forthi*) gàn hyny.

Fortieth, *a.* (o *forty*) deugeinfed.

Fortifiable, *a.* caeradwy, amgaeradwy, diffynadwy; à ellir ei gadarnhau.

Fortification, *s.* (Ff. o *fortify*) caerwaith, amgaerwaith, diffynwaith; caerad, amgaerad, cadarnhad, garthâd; amddiffynfa, caer, amgaer, caerfa, caered, diffynfa, amddiffyndy, diffyndy, castell, diogelfa, cadarnfa, cadarnfan, cadarnle, lle cadarn; gwerthyr, gwrthyr; caerofyddiaeth, caeradeiladaeth; celfyddyd *neu* wyddor amgaeru; cyfnerth.

Fortified, *p. p.* amgaeredig, caeredig, amddiffynedig; caerog, amgaerog, cadarn, castellog.

Fortified on all sides—amgaeredig; amgaerog, amgadarn, amnawdd, amnoddog, amglawdd.

Not fortified — anghaeredig; anghaerog, anamgaerog, anghadarn, digaer, digaerau, digadernid, dïamddiffyn.

Fortified place—caerfa, cadarnfa, cadarnfan, lle cadarn, lle caerog, lle amgaerog.

Fortifier, *s.* cadarnhäwr; amddiffynwr, amddiffynydd, diffynwr, diogelwr; caerwr, amgaerwr; cyfnerthwr, cyfnerthydd, cryfhäwr.

Fortify, *v.* (Ff. *fortifier;* It. *fortificare*) cadarnhau; caeru, amgaeru, garthäu, castellu; amddiffyn, diogelu, *neu* amgylchu â chaer *neu* glawdd; murio; rhoi amddiffyn o amgylch; cryfhau, cyfnerthu, attegu, cefnogi; gwneuthur caerwaith.

Fortilage,† *s.* (Ll. drosgl, *fortalitium*) caeren, castellan.

Fortin, *s.* (Ff.) caeren, amgaeren, castellan, castellyn, caerfa fechan, llysdin; maesgaer.

Fortitude, *s.* (Ll. *fortitudo*) gwroldeb, gwrolder, gwrolfryd, gwrolfrydedd, calondid, dewrder, dewrineb, dewredd, glewder, glewineb, glewdid, glewid, mawrfrydedd, mawrfrydigrwydd, cadernid, mawrwriaeth, cadredd, gwychder.

Fortlet, *s.* (o *fort*) caeren, amgaeren, castellan, castellyn, caerfa fechan, llysdin.

Fortnight, *s.* (talfyriad o *fourteen nights*) pythefnos, pumthegnos, pumthengnos.

This day fortnight—pythefnos i heddyw; er ys pythefnos; pythefnos yn ol.

Fortress, *s.* (Ff. *forteresse;* It. *fortezza*) amddiffynfa, caerfa, caer, amgaer, castell, cadarnle, cadarnfa, cadarnfan, lle cadarn,

lle caerog, diffynfa, gwerthyr; amddiffyn, diogelwch, cadernid, amgelwch.
Fortress, *v.* *a.* cadarnhau, amddiffyn, amgaeru, caeru, garthäu, castellu; gwarchod.
Fortressed, *a.* amgaerog, caerog, castellog, cadarn, amddiffynedig, diogel.
Fortuitous, *a.* (Ll. *fortuitus*) damweiniol, dygwyddol, dygwyddiadol, chwaenol, hapiol, damchweiniol, dychweiniol; achlysurol; o ddamwaen, o ddygwydd.
Fortuitously, *ad.* yn ddamweiniol, &c.; ar ddamwaen, o ddamwaen.
Fortuitousness, *s.* damweinioldeb, dygwyddoldeb, dygwyddolrwydd, hapioldeb; damwaen, dygwydd, dychwaen, damchwaen, chwaen, dap, amchwaen, dyddamwaen.
Fortuity, *s.* damwaen, dygwydd, dygwyddiad, dychwaen, damchwaen, chwaen, hap.
Fortunate, *a.* (Ll. *fortunatus*) ffodus, ffodiog, hylwydd, ffynniannus, hyffawd, hapus, dedwydd, ffynnedig, ffynnadwy, llwyddiannus, llwyddus, ffynniannol, tyciannus, llwyddog, ffortddrych, llwyddgar, ffodiol.
Very fortunate—llwyddfawr, tra ffodus, ffodiog iawn; gorffynnol.
Somewhat fortunate — lled ffodus, lled ffodiog, go ffodus, go ddedwydd.
To make fortunate—gwneuthur yn ffodus, &c.; peri yn ddedwydd, &c.; peri ffynnu *neu* lwyddo; llwyddo, hylwyddo, ffoduso, llwyddiannu, llwyddiannuso, hyffodio, hapuso.
Fortunately, *ad.* ar awr dda; yn ffodus, &c.
Fortunateness, *s.* ffodusrwydd, ffodusdra, ffodiogrwydd, hyffodedd, ffynnedigrwydd, hapusrwydd, dedwyddwch, dedwyddyd, dedwyddrwydd, llwyddusrwydd, llwyddiannusrwydd, llwyddogrwydd; ffawd, hap, tynged dda, coelferth, cynrabad, llwyddiant, ffynniant, llwydd.
Fortune, *s.* (Ll. *fortuna*) ffawd, tynged, tyngedfen, tesni, coelcwydd, coel, ammor; damwaen, damchwaen, dychwaen, chwaen, hap, hab, dyddamwaen, dygwydd; gwaddol, cynnysgaeth, egweddi, golud, cyfoeth, da, meddiannau, alaf, alafedd, alafoedd.
Good fortune — tynged dda, &c.; ffawd, cynrabad, coelferth, tynged fad, hawddammor, llwyddiant, llwydd, gorffawd, mattynged, tro da.
Ill fortune—tynged ddrwg, drwg dynged, drwg ddamwaen, anffawd, aflwydd, anhap.
By fortune—o ddamwaen, o ddygwydd; fel y damweiniodd; ond odid, ond antur, nid hwyrach, ysgatfydd, agatfydd.
A woman of fortune—gwaddoles, gwraig waddolog, gwraig gyllidfawr, dynes gyllidog, benyw waddolog, merch waddolog, bun waddolog, benyw ferthog, menyw gyfoethog, benyw egweddïog, cyfalle waddolog, gwraig o gyfoeth; gwaddolferch.
A man of fortune—gwr cyllidog, cyllidfawr, cyfoethog, alafog, *neu* gynnysgaethog; gwr o gyfoeth.
Wheel of fortune—troell tyngedfen, troell tynged, troell tesni.
To tell fortunes — darllen tesni, darllen tynged.
I will tell your fortune—mi a ddarllenaf eich tesni; mi a ddarllenaf eich tynged; dywedaf eich tynged; dywedaf eich tyngedfen; darllenaf eich planed.
Good fortune attend you!—tynged dda a'ch dylyno! hawddammor ichwi!
I have this good fortune—y mae i mi hyn o ddedwyddwch *neu* hapusrwydd; mae i mi hyn o rodd; mae i mi hyn o ffawd; yr wyf mòr ffodus a hyn.
The fortune of war is uncertain—ffawd rhyfel anwadal yw; annilys tynged rhyfel; tynged rhyfel nid oes a'i gŵyr; dyben rhyfel nid oes a'i gŵyr; tynged rhyfel pwy a'i gŵyr?
Fortune, *v.* damweinio, dygwyddo, hapio, damchweinio, dychweinio, cymmeryd lle; ffodio, tyngedfenu; †gwneuthur cynnysgaeth.
Fortunebook, *s.* llyfr tynged, tyngedlyfr, ffodlyfr, llyfr tesni.
Fortuned, *a.* ffodiog, tyngedog.
Fortune-hunter, *s.* gwaddolgeisiwr, gwaddolgeisydd, un gwaddolgais, dyn gwaddolgais; eurgarwr, eurgeisiwr, gwaddol-hyntiwr.
Fortune-hunting, *s.* gwaddolgais, gwaddolgeisiad, eurgais, gwaddol-hyntiad.
Fortuneless, *a.* anffodiog, anffodus, diffawd; diwaddol, digynnysgaeth, anwaddolog.
Fortunetell, *v.* *a.* darllen tesni, darllen tynged, dywedyd tesni, dywedyd tyngedfen, darllen planed un, ffawdfynegu, tesnïo.
Fortuneteller, *s.* darllenwr tesni, darllenydd tesni, darllenwr tynged, darllenydd tyngedfen, adroddwr tesni, tesnïwr, tyngedfenwr; à ddywedo dyngedfen; dyn hysbys, ffawdfynegydd.
Fortunetelling, *s.* darllen tesni, darllen tynged, dywedyd tesni, tesnïad.
Fortunize,† *v.* *a.* trefnu tynged.
Forty, *a.* (S. *feowertig*) deugain, deugaint, dau ugain=40.
Forty times — deugeinwaith, deugain gwaith, deugain o weithiau.
Forty days — deugain diwrnod, deugain niwrnod, deugein-nydd, deugain o ddyddiau.
Forty years old—deugain mlwydd oed.
Forum, *s.* (Ll.) dadleufa, dadleudy, llys, rheithlys, rheithfa, brawdle, brawdfa, holfainc; areithle, areithlys, arodle, arodfan; marchnadfa, marchnadle, marchnad.
Forwander,† *v.* *n.* crwydro ymaith; gwibio yn wyllt.
Forward, } *ad.* (S. *forweard*) yn mlaen, yn y
Forwards, } blaen, rhag blaen, rhagddo, (*f.* rhagddi, *pl.* rhagddynt), rhag ei flaen, llwrw ei flaen, yn llwrw ei flaen, llwyr ei flaen, arlwrw; llwrw y pen blaen; blaen; o'r tu blaen; pyr.
Right forward—yn union yn mlaen; yn mlaen yn union; yn mlaen ar ei gyfer.
To come forward—dyfod yn mlaen; dyfod rhagddo, (*f.* dyfod rhagddi, *pl.* dyfod rhagddynt); dynesu, dyneshau.
To come forward in the world—dyfod yn mlaen yn y byd; llwyddo, ffynnu, tycio, *neu* wrygio yn y byd; bod yn llwyddiannus yn y byd; cynnyddu mewn cyfoeth, golud, *neu* feddiannau; cyfoethogi, ymgyfoethogi.
To go forward, } myned yn mlaen;
To march forward, } myned rhagddo,
To set forward, } (*f.* myned rhagddi,

pl. myned rhagddynt); cychwyn, dygychwyn, ymgychwyn.
Go thou forward—dos yn mlaen; dos rhagot.
Go forward—ewch yn mlaen; ewch rhagoch.
From this time forward — o'r pryd hwn allan; o'r pryd hyn allan; o'r amser hyn allan; o hyn allan.
From that day forward—o'r dydd hwnw allan.
They went backward, and not forward—aethant yn ol, ac nid yn mlaen.
To hasten forward, } brysio yn mlaen; peri
To haste forward, } brysio yn mlaen; prysuro yn mlaen.
To bring forward—dwyn yn mlaen; hebrwng yn mlaen; hyfforddi, hyrwyddo, hylwybro, hylwyddo, llwybreiddio, rhwyddhau, rhwyddino, hwyluso, hwylusu; dwyn i'r golwg.
To bring forward on a journey—hebrwng, canhebrwng, hebryngu, canymdaith, canymdeithio, canymdöi; anfon, danfon.
Then shalt thou go on forward from thence—yna yr âi di yn mhellach oddi yno (1 *Sam.* x. 3).
That which cannot set a foot forward—yr hwn ni allo gerdded cam (*Doeth.* xiii. 18).

Forward, *a.* pell yn mlaen; blaenllaw; blaen, blaenaf; hy, hyf, hyderus, eon, eofn, hyfaidd, anturus, afiwrf, dilwfr, dewr, blaengar, rhyfygus, ehud; parod, rhybarod, ewyllysgar, gwyllysgar, dyfal, diwyd, dïoed, cyflym, brysiog, tueddol, chwannog, awyddus, taer, terwyn, gwrdd; cynnar, ebrwydd, rhagaddfed; gwrygiannus, gwrygiog, hydwf; llwybraidd, llwybrus, hylwybr, hyffordd; llwrw; à aeth yn mhell yn mlaen; wedi ei ddwyn *neu* wedi myned yn mhell yn mlaen.
Forward fruit—ffrwyth cynnar, ebrwydd, *neu* ragaddfed.
Forward child — plentyn gwrygiannus, gwrygiannol, gwrygiog, hydwf, *neu* gynnyddfawr.
He is forward in learning—y mae efe yn mhell mewn dysg.
He is forward in his books—y mae efe yn myned yn mlaen yn hwylus yn ei lyfrau.
A forward man in the world—gwr cynhes, llwyddiannus, *neu* flaenllaw yn y byd.
To be forward—bod yn barod, yn ddiwyd, yn ewyllysgar, *neu* yn flaenllaw; bod yn mhell yn mlaen; ewyllysio.
To get forward—myned yn mlaen; myned yn y blaen; myned rhagddo; dyfod yn mlaen; dyfod rhagddo; llwyddo, ffynnu, tycio.

Forward, *v. a.* hylwybro, llwybreiddio, hyrwyddo, hyfforddio, cyfrwyddo, rhwyddo; hwylio, dwyn, symmud, gosod, cynnorthwyo, *neu* yru yn mlaen; prysuro, ebrwyddo, cyflymu, busnu; rhacio, rhaciannu, dyhoddio, trawu, trawuso, trawfu; trosi, troglwyddo; anfon *neu* ddanfon yn mlaen; anfon, danfon, gyru; goruchwylio ar; chwanegu.

Forwarder, *s.* hyrwyddwr, trawiadur, trawieddydd, hylwybrydd, hylwybrwr, llwybreiddiwr, cyfrwyddwr, rhwyddhäwr; dygwr yn mlaen; gyrwr yn mlaen; cynnorthwywr yn mlaen.

Forwardness, *s.* parodrwydd, parodfrydedd, gwyllysgarwch, ewyllysgarwch, ffrawddineb, awyddfryd, chwannogrwydd, awchlymder, awchusrwydd, gwresogrwydd; hylwybredd, llwybreiddrwydd; hyder, hyfder, hyfdra, eonder, eofnder, blaengarwch, rhybarodrwydd, hyfeiddrwydd, digywilydd-dra, rhyfyg; rhwysg, arhwyliant; cynnarwch, cynnaredd, rhagaddfedrwydd; dyfalwch, diwydrwydd; pelider yn mlaen; trawedigrwydd.
In good forwardness—yn myned yn mlaen yn hylwydd, yn hylwybr, *neu* yn hwylus; mewn cŷn barodrwydd; mewn cŷn brysurdeb; yn gŷn bell yn mlaen.

Forwards, } *ad.* (S. *forweard*) yn mlaen, yn y
Forward, } blaen, rhag blaen, rhagddo, (*f.* rhagddi, *pl.* rhagddynt), rhago; rhag ei flaen, llwrw ei flaen, yn llwrw ei flaen, llwyr ei flaen, arlwrw; llwrw y pen blaen; blaen; o'r tu blaen.

Forwaste,† *v. a.* difrodi, anrheithio, dyfetha, anghyfanneddu.

Forweary,† *v. a.* digaloni, llyfrhau.

Forweep, *v. a.* wylo llawer, mawr wylo.

Forword,† *s.* (*fore* a *word*) addewid.

Fosse, } *s.* (Ff. *fosse;* Ll. ac It. *fossa*) ffos,
Foss, } clawdd, amglawdd.

Fossette, *s.* (Ff.) pannwl, pant.

Fossil, } *a.* (Ll. *fossilis;* Ff. *fossile*) cloddelig,
Fossile, } cloddedig, cloddiannol, cloddilig, cloddelaidd, cloddionol; à gloddir *neu* à gloddiwyd allan o'r ddaear; i'w gael drwy gloddio; à geir drwy gloddio; hygladwdd, hygloddiol; clodd-, clawdd-; mwnol, metelaidd; maenol, maenedig, delfaenedig, delfeinig.

Fossil, *s.* cloddel, cloddyn, cloddbeth, hygloddyn, cloddelid; mwn: *pl.* cloddelion, cloddillion, cloddion, cloddedigion, delgloddion.
Fossil farina—cloddbaill; ulyfaint caich masw.

Fossiliferous, *a.* (Ll. *fossilis* a *fero*) cloddelddwyn, cloddienddwyn; yn cynnwys *neu* yn cynnyrchu cloddelion.

Fossilist, *s.* cloddelydd, cloddelwr, cloddionydd, cloddelofydd; yn un gwybodus mewn cloddelion.

Fossilization, *s.* cloddeliad, cloddiliad, cloddyniad, maenad; gwneuthuriad yn gloddelion; troad yn faen.

Fossilize, *v.* cloddelu, cloddilio; yngloddelu, yngloddilio; troi *neu* wneuthur yn gloddel; myned *neu* newid yn gloddel; yngaregu, yngerygo, maenu, maeneiddio.

Fossiology, *s.* (*fossil*, a Gr. *logos*) cloddelyddiaeth, cloddioneg, cloddelofyddiaeth; cloddeldraith, treithawd ar gloddelion.

Fossores, *s. pl.* (Ll.) cloddrilion, trychfilod hyglawdd.

Fossorial, *a.* (Ll. *fossor*) cloddfilodol, cloddfilawl; perthynol i gloddfilod.

Fossroad, } *s.* (*foss*, *road*, a *way*) ffosffordd.
Fossway, } ffosrawd, ffordd ddeuglawdd, carn ddwyffos=ffordd Rufeinig yn Lloegr, yn arwain o Totness trwy Gaerwysg i Bartou ar Humber.

Fossulate, *a.* (Ll. *fossa*) hirgulbantog, hirgulbant.

Foster, *v.* (S. *fostrian;* Sw. a D. *foster*) maethu, magu, meithrin, meithrino, porthi, amgeleddu, ymgeleddu, cynnal; dwyn i fyny: achlesu, cefnogi, annog, hawntio; dwyn yn mlaen; hwyluso; maethiaunu, maethiado, magwriaethu.

Fosterage, *s.* maeth, maethiad, maethiant, maethedigaeth.
Foster-brother, *s.* brawd maeth, maethfrawd, brawdmaeth; un cydfaeth, un unfron, un cydlaeth, brawd unfaeth, brawd cydfaeth, brawd cydlaeth.
Foster-child, *s.* plentyn maeth, mab maeth, maethfab, plentyn magu, plentyn mag; merch faeth, maethferch.
Foster-dam, *s.* mammaeth, mam faeth, maethfam, magwres, megides.
Foster-daughter, *s.* merch faeth, maethferch, merch fagu.
Foster-earth, *s.* daiar faeth, maethddaiar.
Fosterer, *s.* maethiedydd, maethydd, meithrinydd, megidydd, megydd, magai; mammaeth, megides, magwres, meithrines, magwraig.
Foster-father, *s.* tad maeth, tadmaeth, maethdad; maethiedydd, megidydd, magwr.
Fostering, *a.* maethol, maethgar, meithrinol, maethus, maethiannus, maethedigol, maethiannol, magwriaethus; cefnogol, achlesol.
Fostering, *s.* maethiad, maethiant, magiad, meithriniad; maeth, meithrinaeth, meithriniaeth, meithrin, magwraeth, magwriaeth, mag, ymborth, lluniaeth, porthiant, maethid, maethineb; dygiad i fyny.
Fosterling, *s.* plentyn maeth, plentyn magu, mab maeth, maethfab, maethiedyn.
Fosterment, † *s.* maeth, ymborth, lluniaeth, bwyd.
Foster-mother, *s.* mammaeth, mam faeth, maethfam; megides, megyddes, magwres, maethwraig.
Foster-nurse, *s.* mammaeth.
Foster-sister, *s.* chwaer faeth, chwaer gydfaeth, chwaer laeth.
Foster-son, *s.* mab maeth, maethfab.
Fostress, *s.* (o *foster*) megides, magwres, megyddes, meithrines, mammaeth, mam faeth, maethfam, maethwraig, maethes.
Fother, } *s.* (S. Al. *fuder;* Is. *vocder*) talppwys,
Fodder, } clamppwys.
Fother of lead—talppwys o blwm=22½ canpwys o blwm.
Fother, *v. a.* agensecu, agensechu; ymdrechu cau agen mewn llong ar nawf â charthion, &c.
Fothering, *s.* agenseciad, agensechiad.
Fougade, } *s.* (Ff. *fougade, fougasse;* o'r Ll.
Fougass, } *focus*) ffwyrglawdd, ffwyglawdd.
Foul, *a.* (S. *faul, ful;* Al. *faul;* Is. *vuil*) brwnt, (*f.* bront), budr, aflan; halog, tomlyd, rhydlyd; anmhur, annher, afloew, tew; annheg, anonest, anhyfiawn, dyhir, diffaeth, dybryd, anaddwyn, annhelediw; drwg, mall, enllibus, anmharchus; cas, gwrthun, adgas, ffiaidd, serth, serthaidd, cywilyddus, gwaradwyddus, gwarthus; garw, gerwin, tymhestlog; afiach; niweidiol, peryglus, enbydus; llychwin, dywynedig, mànog, gwaradwyddedig; llysnafeddog; anfad; croes, gwrthwynebus; trwsgl, trwstan, anghywir, anniwyg, llawn beiau; hyll, hagr; dyrysedig, wedi dyrysu; dyrysedig am *neu* yn; mawr; anafus; anferth.
Foul weather—tywydd garw, dryghin.
Foul water—dwfr brwnt, dwfr llwyd, dwr cythryblus, dwfr trybylog.
Foul deed—gweithred ddybryd, gweithred annhelediw, gweithred front, cyflafan, cyflafan ddybryd, anfadwaith, erchyllwaith.
Foul means—gerwindeb, llymder, toster, sarigrwydd; hagredd; moddion hagr.
By foul means—trwy hagr.
Foul papers—papyrau anghymmonedig, papyrau anghyfansawdd.
Foul wind—gwynt croes, gwynt gwrthwynebus, gwyntgwrthwyneb, gwrthwynt, croeswynt.
To fall foul on *or* upon—syrthio, cwympo, taro, bwrw, *neu* ymfwrw ar un; rhedeg yn erbyn un; rhuthro ar un; cymmeryd un mewn llaw; rhoi maeddgen, curfa, *neu* olchfa i un; rhoi tafod drwg *neu* ddrwg dafod i un; difrïo un; senu, enllibio.
Foul language—iaith front, iaith fudr, budriaith, iaith serth, iaith aflan, iaith anmhur, iaith gas, iaith anmharchus.
Foul mouth—tafod drwg, tafod brwnt, drwg dafod, drygiaith, geneu enllibus, tafod enllibus.
Foul chimney—simnai huddyglyd; simnai lawn gàn huddygl; sawell front.
Foul rope—rhaff ddyrysedig, rhaff ddyryslyd.
The rope is foul of the anchor—y mae y rhaff wedi dyrysu *neu* ymddyrysu am yr angor.
My vessel is foul of your cable—dyryswyd fy llong i yn rhaff eich llong chwi.
The ships are foul of each other—y mae y llongau wedi ymddyrysu y naill yn rhaffau y llall; y mae y naill long ar ffordd y llall; rhwystrir y naill long gàn y llall; mae y naill long ar draws y llall.
They are foul of one another—y mae y naill ar draws y llall.
To run foul of—rhedeg ar draws; gwrthdaro; taro wrth; ymddyrysu â.
A lie is a foul blot in a man—anaf mawr ar ddyn yw celwydd.
A foul deal—peth anferth, peth anferthol, peth anfeidrol, peth cywilyddus, llawer byd, llawer iawn, mwy na mwy, digon a gormod.
To make foul=*Foul*, *v. a.*
Foul, *v. a.* (S. *fulian, gefylan*) diwyno, budreddu, budro, budrhau, budru, bryntäu, llytrodi, aflanhau; tomlydio; ystaenio; halogi; gwneuthur yn frwnt, afloewi; mànu.
To foul the water—afloewi y dwfr; cythryblu y dwfr; llwydo y dwr; trybylu y dwfr.
And they shall drink that which ye have fouled with your feet—a mathrfa eich traed a yfant (*Eccc.* xxxiv. 19).
Foulder, † *v. n.* (Ff. *foudroyer*) taflu gwres mawr allan.
Foulfaced, *a.* wynebfrwnt; hagrwedd, hagrwynebog; brwnt ei wyneb.
Foulfeeding, *a.* tewfrwnt; yn ymborthi yn frwnt; bras, garw.
Foully, *ad.* yn frwnt, &c.
Foulmouthed, *a.* cegfrwnt, budreiriog, caseiriog, dryg-dafodiog, tafod-ddrwg, malleiriog, budrleithog, mall-dafodiog, sertheiriog, drwg ei dafod; enllibus, cecrus, edliwgar, cegfudr.
Foulness, *s.* brynti, bryntni, budredd, budreddi, llytrodedd, llytrodrwydd, aflendid, ffieiddwch, bawlydrwydd, halogrwydd; annhegwch, annhegrwydd, anonestrwydd; anmhuredd, annheredd; dybrydedd, hagredd, hagrwch,

gwrthuni, anferthwch; hygasedd, casineb; afloewder, afloewedd; gerwindeb, gerwinder.
Foulness of a crime—dybrydedd trosedd, anfadrwydd trosedd, erchylldra trosedd.
Foul-spoken, *a.* enllibus, enllibaidd, athrodus, hortiol; budreiriog, budreithog, sertheiriog, geirfrwnt, serth, brwnt, aflan.
Foumart, *s.* (Ysg. *foumarte; foul martin?*) ffwlbart, gwichyn, gwichyll, gwichydd.
Found, *p. p.* (o *find*) à gafwyd; gwedi ei gael; caffaeledig; darparedig; à gynnysgaethwyd âg ymborth.
I found—cefais; mi a gefais; cefais i.
To be found—i'w gael, i'w gaffael; idd ei gael; ar glawr, ar gael: *f.* i'w chael, idd ei chael: *pl.* i'w cael, idd eu cael.
Not to be found—nas ceir allan; na cheir allan; ag ni cheir allan; anchwiliadwy, anolrheinadwy.
Found, *v. a.* (Ll. *fundo;* Ff. *fonder*) seilio, sylfaenu; sefydlu; gwadnu, goseilio; gosod sail, gosod sylfaen; adeiladu, adeilo; llunio; gwneuthur, gwneyd; berthogi, gwaddoli, boneddogi; dechreu, cychwyn; gosod, llëu; sicrhau, sadio.
To found a college—sylfaenu, seilio, berthogi, *neu* sefydlu coleg.
Found, *v. a.* (Ll. *fundo;* Ff. *fondre*) toddi, bwrw, dynëu, gorddynëu, toddlunio, rhedeg.
Foundation, *s.* (Ll. *fundatio;* Ff. *fondation*) sail, sylfan, sylfaen, seilfan, sylfa, gwadn, bonsang, gosail, seilwadn, syl, gwaelod, bon, murdd; troed; gwraidd; llawr; sefydliad; bonad, seiliant; seilwaith; dechreu, dechreuad, cychwynfa; berthogiad; gwaddol.
Foundation stone—sylfaen, seilfaen, careg sylfan.
To lay a foundation — sylfaenu, seilio; gosod sail, &c.; sylu, goseilio, seiliannu.
From the very foundation—o'r sylfaen, o'r sylfan, o'r sail, o'r gwaelod, o'r gwraidd; o'r ddaiar i fyny; o'r llawr i fyny; yn llwyr; yn gyflwyr.
Foundationless, *a.* disail, disylfan, disylfaen; heb ddim sail.
Founder, *s.* sylfaenwr, sylfaenydd, seiliwr, seilydd; adeiladydd, adeiladwr, adeilydd; sefydlwr; berthogwr, gwaddolwr; dechreuwr, cychwynwr, awdur.
Founder, *s.* (Ff. *fondeur*) toddwr, toddydd, toddiedydd, bwriwr, gorddynëwr, dynëwr, toddluniwr.
Founder, *v.* (Ff. *fondre*) soddi, suddo, ymsoddi, ymsuddo; myned i'r gwaelod; myned i waelod y môr; ymollwng, ymddryllio; ymlenwi ac ymsuddo; gollwng dwr i mewn nes boddi; methu, ffaelu; cloffi; methu yn *neu* ar ei daith; ffaelu *neu* gloffi ar y ffordd; efryddu; methgloffi.
To founder a horse—cloffi ceffyl, efryddu ceffyl; cloffi ceffyl trwy ormodd llafur; peri cloffi *neu* gloffni ar geffyl; peri sythder ac anystwythder yn nghoesau ceffyl; peri tynerwch yn ngharnau march gân ormod teithio.
Founderous, *a.* methol, yn methu, yn ffaelu; darfodadwy; adfeiliog, adfeiliedig.
Foundery, } *s.* (Ff. *fonderie*) toddfa, todd-dy,
Foundry, } tawdd-dy, dyneudy, dyneufa, toddle, gorddyneudy, ty bwrw; gwaith toddi, toddiadaeth, toddyddiaeth, dyneuaeth, toddi.
Founding, *s.* toddi, toddiadaeth, toddiad, dyneuad, dynead, gorddynead, tawdd, toddwaith, bwriad.
Foundling, *s.* (o *found, find*) plentyn cael, plentyn diarddel, plentyn diarddelw, caeledigyn, amddifadyn.
Foundling hospital—ysbytty caeledigion, ysbytty plant diarddel, ysbytty plant cael.
Foundress, *s.* (o *founder*) seilyddes, sylfaenes, seilwraig, sylfaenwraig; berthoges.
Fount, } *s.* (Ll. *fons;* Ff. *fontaine*) ffynnon,
Fountain, } ffynnonell; tarddell, tardden, brychen.
Fountain, } brychen, ffynnon bistyllog,
Jet d'eau, } ffynnon bistyllog, ffynnon bistyll, ffynnon chwistrell, tarddell, ffynnon ffrau.
A small fountain—ffynnonig, ffynnonell fechan, ffynnon fechan.
Fountain water—dwfr ffynnon, dwr ffynnon.
Fount of types—cyff o debau *neu* lythyrenau; nifer cyfrdo o lythyrenau; toddas o lythyrenau; llythyrenas.
He hath discovered her fountain—ei dyferlif hi a ddadguddiodd efe (*Lef.* xx. 18).
Fountain-head, *s.* llygad y ffynnon, llygad ffynnon; dechreu, dechreuad, dechreufa, cychwynfa; cynegwyddor.
Fountainless, *a.* diffynnon, anffynnonog, heb ffynnon.
Fountain-tree, *s.* ffynnonwydden: *pl.* ffynnonwydd=pren perthynol i'r Ynysoedd Dedwydd.
Fountful, *a.* ffynnonog; llawn ffynnonau.
Four, *a.* (S. *fewoer;* Al. *vier*) pedwar; pedr-, pedry-: *f.* pedair.
Four-cornered — pedrongl; pedronglog, pedrogl, pedwar-onglog, pedwar-cornelog; âg iddo bedwar cornel; âg iddo bedair ongl *neu* gongl.
Four days ago—er ys pedwar diwrnod; pedwar diwrnod i heddyw; pedwar diwrnod yn ol.
Of the space of four days—o ysbaid pedwar diwrnod; pedwar-diwrnodig.
The space of four nights—ysbaid teirnos; ystod tair nos, teirnosol.
Having four holes — pedwar-tyllog, pedwar-twll, pedrydyllog.
Having four horns—pedwarcorniog; â phedwar corn iddo; pedrygorniog, pedwarcorn.
Four hundred—pedwar cant, pedwarcant.
Four hundredth—pedwarcanfed.
Four hundred times — pedwar canwaith, pedwar càn waith, pedwarcanwaith.
Having four teeth—pedwardant, pedryddant, pedryddaint.
Having four points—pedryfanog, pedwarbanog, pedryfan, pedwarban.
Cleft into four parts—pedryollt, pedryhollt; pedwar fforchog; gwedi ei hollti yn bedwar.
Weighing four pounds, } pedwarpwys, pedr-
Of four pounds weight, } ybwys.
The four quarters of the world—pedryfanoedd byd, pedwarban byd, pedwar ban y byd, pedryfanoedd y byd, pedryfanau byd, pedryfan byd.

From the four winds of the heaven—o bedwar gwynt y nefoedd; o bedwar ban byd.
Four-oared — ag iddo *neu* iddi bedair rhwyf; pedrrwyfog.
A four-oared vessel — llestr pedrrwyfog, llestr pedeirrwyf, llong bedeirrwyf, bad pedeirrwyf.
Four times—pedair gwaith, pedeirgwaith; pedair o weithiau.
Four times as much—pedwar cymmaint; cymmaint bedair gwaith.
Of four syllables—pedeirsill, pedeirsillog, pedrysill, pedrysillog, pedeirsillol.
A place where four ways meet—pedeirffordd; croesffordd bedeirffordd; pedrygroesffordd; pedair croesffordd.
By fours—yn bedwarau; bob yn bedwar.
Fourbe, *s.* (Ff.) dichellwr, twyllwr, castiwr.
Fourchee, } *a.* (Ff. *fourché*) penfforchog.
Fourchy, }
Fourchee cross—croes benfforchog.
Four-edged, *a.* pedryfiniog, pedrymylog, pedwarymylog, pedwarminiog, pedryfin.
Fourfold, *a.* pedwarplyg, pedwardyblyg, pedwar dyblyg, pedryblyg; ar ei bedwerydd.
Fourfold, *s.* pedwarplyg, pedwar dyblyg, pedryblyg, pedwar plyg; pedwar cymmaint, cymmaint bedair gwaith, cymmaint bedeirgwaith.
Fourfolding, *a.* pedryblygol, pedwarplygol; yn plygu bedeirgwaith.
Fourfooted, *a.* pedwartroediog, pedwartroedog, pedwartroed, pedwarped, pedrybediog, pedrybedog, pedwartroedol; pedwarcarnol, pedwarcarnog, pedwarcarn.
Fourfooted beasts—pedwarcarnolion, pedryfilod, pedrybedion, pedwartroedogion; pedwarpedogion, pedrybedogion, pedwartroedion, pedwarpedion; milod pedwartroedog, &c.
Fourrier, *s.* (Ff.) rhagflaenor, rhagredegydd, rhagredwr.
Fourscore, *s.* (*four* a *score*) pedwar ugain, pedwarugain, pedwarugaint, pedwar ugaint, pedrugain, pedrgaint, wythdeg, wythddeg=80.
Fourscore, *a.* pedwar ugain, pedwarugain, pedwar ugaint, pedwarugaint, pedrugain, pedrugaint, wythdeg, wythddeg.
Foursquare, *a.* pedrongl, pedronglog, pedrogl, petryal, ysgwâr, petryael, pedryael, petryalog, pedroglog, pedrog, pedror, pedwarcornelog, pedwarconglog, pedrochrog, pedrochrol, pedwar ysgwâr.
Fourteen, *a.* (*four* a *ten*; S. *feowertyn*) pedwar ar ddeg, (*f.* pedair ar ddeg), deg a phedwar, pedwar a deg, pedwartheg=14.
Fourteen times—pedair gwaith ar ddeg; pedeirgwaith ar ddeg.
Fourteenth, *a.* pedwerydd ar ddeg, (*f.* pedwaredd ar ddeg), pedwarthegfed, degfed a phedwar.
Fourteenth, *s.* pedwarthegfed, y pedwarthegfed, y pedwerydd ar ddeg.
Fourth, *a.* (o *four*) pedwerydd, pedwarydd, pedwarfed: *f.* pedwaredd, pedeirfed.
The fourth part — y bedwaredd ran, y bedwaredd, pedwaran.
The fourth day — y pedwerydd dydd, y pedrydydd, y pedwarfed dydd.
Fourth, *s.* pedwerydd, y pedwerydd.
Fourthly, *ad.* yn bedwerydd; yn y pedwerydd lle.
Four-wheeled, *a.* pedrolwynog, pedrrodog, pedrrod, pedrolwyn.
Four-wheeled carriage—cerbyd pedrolwynog, &c.; pedrrodog, pedrrod, clud pedrrod, clud pedrrodog.
Fouter,† *s.* (Ff. *foutu*) adyn dirmygus.
Foveolated, *a.* (Ll. *foveola*) pannylog, pannelog, pantog; â phantau bychain ynddo.
Fovilla, *s.* (Ll. *forco*) peinionos, peillionos.
Fowl, *s.* (S. *fugel, fugl*; Al. ac Is. *vogel*; Sw. *fogel*; D. *fugl*) aderyn, edn, hediad, ehediad, ehedyn, ednan, ednog; dofedn: *pl.* ednod, hediaid, ehediaid, adar, ednaint, ednain, ednogion, dofednod, dofadar, dofieir, heladar.
Water-fowl—adar y dwr, adar dwfr, dyfredned, gwyadar; adar cyfandroed.
Fowl, *v. n.* adara, saethu adar.
To go a fowling—adara.
Fowler, *s.* adarwr, adarheliwr, heladarwr.
Fowling, *s.* adarwriaeth, adara, swydd adarwr, celfyddyd adarwr, helyddiaeth adar, adarhelfa; hebogyddiaeth.
Fowlingpiece, *s.* dryll adara, gwn adara, adarddryll, gwn adar, dryll adar, adarwn.
Fox, *s.* (S.; Al. *fuchs*; Is. *vos*) llwynog, cadnaw, cadno, gwyddgi, madyn, madog, madryn, llostog, rhus; †cadgno, cleddyf: *pl.* llwynogod, cadnawon, cadnoaid, cedny, gwyddgwn.
Bitch-fox, } llwynoges, cadnöes, cadnawes,
She-fox, } llwynogast, maden, madren, llostoges, gwyddast.
Dog-fox—llwynog gwryw, cadnaw gwryw.
Arctic fox — llwynog cyfogledd, cadnaw gogleddol, cadnaw y gogledd.
Young fox, } cenaw cadno, cenau llwynog,
Fox's cub, } llwynogyn.
Fox's skin—croen llwynog, croen cadnaw, ystels.
Fox's tail—cynffon llwynog, cynffon cadnaw, madryn dusw.
An old fox — hen gadnaw, hen lwynog; henddyn cyfrwysddrwg dichellgar.
To play the fox — chwareu y cadnaw; chwareu y llwynog; chwareu yr hen gadnaw; ymddichellu; bod yn gyfrwys, yn ddichellgar, yn ystrywgar, *neu* yn hocedus; chwareu yn gyfrwys, yn ddichellgar, yn ystrywgar, *neu* yn hocedus.
Fox's sleep—cwsg cadnaw; rhith-gwsg; esgus o gwsg.
To sleep a fox's sleep, } cysgu fel cadnaw;
To be in a fox's sleep, } cymmeryd arno gysgu; ffugio cwsg; coegio cysgu; rhith-gysgu, esgus-gysgu, ffug-gysgu.
Wily is the fox—ffel cadno.
Fox, *v.* suro, ymsuro, ilsuro; †meddwi, brwysgo, hurtio.
Foxcase,† *s.* croen llwynog, croen cadnaw.
Foxchase, } *s.* helfa llwynog, helfa cadnaw,
Foxhunt, } hely cadnaw, hela cadnaw.
Foxery,† *s.* cadnoeiddrwydd, ymddygiad cadnoaidd.
Fox-evil, *s.* (*fox* ac *evil*) tanllwynog; moelni.
Foxglove, *s.* (*fox* a *glove*) menyg y llwynog, menyg ellyllon, menyg Mair, bysedd cochion, bysedd y cwn, bysedd ellyllon, ffion, ffion y ffridd, dail bysedd cwn, dail ffion ffridd, dail bysedd cochion.
Foxhound, *s.* ci cadnaw, ci llwynog, cadnawgi, rhusgi.
Foxhunt, } *s.* helfa llwynog, helfa cadnaw,
Foxchase, } hely cadnaw, hela cadnaw.

Foxhunter, *s.* heliwr llwynog, heliwr cadnaw, llwynog-heliwr.

Foxing, *s.* (o *fox*, *v.*) surad, ymsurad, llsurad.

Foxish, } *a.* (o *fox*) cadnoaidd, cadnöus, llwyn-
Foxlike, } ogaidd, madynaidd, medrynaidd; cyfrwys, ffel.

Foxship, *s.* (o *fox*) cadnoeiddrwydd, cadnousrwydd, llwynogeiddrwydd, cadnöedd, madyndod; cyfrwysder, cyfrwysdra, ffelder, ffeldra.

Foxtail-Grass, *s.* rhonwellt y cadnaw.

Meadow foxtail grass—rhonwellt cadnaw y weirglawdd.

Floating foxtail grass—rhonwellt y cadnaw cymmalog.

Alpine foxtail grass—rhonwellt y cadnaw mynyddig, mynyddig ronwellt y cadnaw.

Foxtail wedging—geingio llwynogronaidd, cynio llwynogronaidd; geingiad ar ddull llwynogron; cyniad ar lun rhon llwynog.

Foxtrap, *s.* magl llwynog, magl cadnaw; carfagl i ddàl llwynogod.

Foxy,† cadnoawl, llwynogol, cadnoaidd, llwynogaidd; cyfrwys.

Foy,† *s.* (*Ff. foi*) ffydd, ffyddlondeb.

Foy, *s.* gwledd gychwyn, gwledd ymadawol; gwledd *neu* arlwy à wneler i gyfeillion cyn eu gadael.

Fracas, *s.* (*Ff.*) cynhwrf, terfysg, brwth, dadwrdd, moloch, cythrwfl, cyffro, ymryson, cymhelri, twrf, cweryl, brythwch.

Fracid,† *a.* (*Ll. fracidus*) goraddfed, rhy addfed; pwdr gàn addfedrwydd.

Fract,† *v. a.* (*Ll. fractus*) tori, darnio, bregu.

Fractable, *s.* tordrum, piniwn tordrumiog.

Fracted, *p. p.* toredig, gwahanedig.

Fraction, *s.* (*Ff.*; *Ll. fractio*) toriad, drylliad, gorthoriad, gorthoriant, rhwygiad, ylliad, twniad; twnrif, yll, wll, swll, bregrif, bregrifyn, torrifyn, briwrif, ylltrif, anghyfanrif: *pl.* yllion, yllod, bregrifau, twnrifau, toriadau, ylliadau, swlliadau.

Fractions (as a rule)—swlliadaeth, ylliadaeth, bregrifiaeth, twnrifiaeth, twnrifedd.

Decimal fractions—degiadau; swlliadau degol, yllion degranol, toriadau degol; degiadaeth, swlliadaeth ddegol, ylliadaeth ddegol.

Fractional, *a.* ylliadol, swlliadol, bregrifol, twnrifol, ylltrifol; toriadol, bregol, anghyfan, anghyfa.

Fractional numbers—twnrifau, bregrifau, ylltrifau, torrifau, &c.

Fractional arithmetic—swlliadaeth, ylliadaeth, bregrifiaeth, bregrifyddiaeth, bregrifyddeg, torrifiaeth.

Fractious, *a.* (*Ll. frango*, *fractus*) hyddig, hyffrom, cecrus, ceintachlyd, ceintachus, anniddig, croes, tringar, cynhenus, cynhenllyd, cipgar, anynad, anfoddog, anfwyn, dreng, somgar, cwerylgar, ymrysongar, ymrafaelgar, trawsa.

Fractiousness, *s.* hyddigrwydd, hyffromder, anniddigrwydd, cecrusrwydd, ceintachrwydd, ceintachusrwydd, anfoddogrwydd, anynadrwydd, tringarwch, croesineb, drengder.

Fracture, *s.* (*Ll. fractura*) toriad, gorthoriad, gorthoriant, athoriad, drylliad; tor, breg, twn, briw, bwlch, bradwy.

Fracture, *v. a.* tori, athori, gorthori, bregu, briwo, briwio, dryllio, darfriwo.

Fragaria, *s.* (*Ll. fraga*) mefus, syfi; mefuswydd.

Fragile, *a.* (*Ll. fragilis*) brau, breuol, hydor, hyfriw, hyfreg, hydwn, bregus, bradw, athor; crin; gwàn, egwan, eiddil.

Fragility, *s.* (*Ll. fragilitas*) breuder, breuolder, breuoldeb, breuolrwydd, breurwydd, breuolaeth, breuedd, breuoledd, breuawd, bregusrwydd, bregedd, hydoredd; crinder, crinedd; gwendid, eiddilwch, eiddiledd.

Fragment, *s.* (*Ll. fragmentum*) darn, dernyn, dryll, dryllyn, cetyn, cat, cilcyn, cilc, cnap, cnepyn, clwt, talp, telpyn, difyn, briwsionyn, briwionyn, briwsyn, rhan, tipyn, tip, yfflyn, yfflyn, cwlff, ysgylffyn, ticyn, talch, telchyn, wll, arn: *pl.* darnau, dryllian, catiau, cilcynos, cilcion, briwion, briwsion, briwysion, yfflon, teilchion, tipiau, dernynau, &c.

Fragments of meat—briwfwyd, briwsion bwyd, briwysion bwyd, briwsion; bwyd gweddill, gwarged, gweddillion bwyd, gwargedion bwyd, atborion.

A small fragment—dernyn, dryllyn, cetyn, cilcyn, briwionyn, telchyn, tipyn, cylffyn, darn bychan.

Fragmentary, *a.* dernynol, dryllynol, manddarnol, o fân ddarnau, o ddernynau.

Fragmented, *a.* darnedig, drylliedig, catiedig; toredig yn fân ddarnau.

Fragmentist, *s.* darneuwr, ysgrifenydd darnau, darnawdur.

Fragor, *s.* (*Ll.*) trwst, grill, clindarddach, twrf, ysgort; arogl cryf.

Fragrance, } *s.* (*Ll. fragrantia*) perarogledd,
Fragrancy, } perarogl, perogledd, perogl, perarogliant, cysewyr, persawyr, persawr, arogleredd, pereidd-dra arogl, peredd arogl, pereiddwch arogl, perder arogl, arogl per, arogl peraidd, peraidd sawr, arogl uchel, arogl pereiddfawr, perarwynt, perchwa.

Fragrancy of summer—perarogl haf, perarogledd haf, cysewyr haf.

Fragrant, *a.* (*Ll. fragrans*) peraroglaidd, peraroglus, peroglaidd, peroglus, arogleber, arogleuber, arogleraidd, persawrus, persawyrus, persawr, per ei arogl, per eisawr, pereiddfawr, aroglaidd, aroglus, perchwaol, sawyrber, safwyrber, sawyrus.

Fragrantly, *ad.* yn beraroglaidd, &c.; yn ber ei arogl.

Frail, *a.* (*Ff. frêle*; *It. frale*; *Ll. fragilis*) gwàn, egwan, eiddil, gwanllyd, lleog, hyfeth, llyth, brydd; brau, breuol, bregus; anwadal, ansafadwy; pilaid, ysgig; difan, difan, dibara, palledig, methedig, serfyll, hygwymp, hygwydd, trancedig; hydor, hyfriw, athor; darostyngedig i wendidau; salw.

A frail one—engyn; un gwàn, &c.

Frail, *s.* (*Norm. fraile*) basged frwyn, cawell brwyn, brwynas; basged, cawell; basgedaid, cawellaid; basged-frwyn, brwyn basgedi, brwyn.

A frail of figs—basgedaid *neu* gawellaid o ffigys=oddeutu 75 pwys.

Frailness, } *s.* (o *frail*) gwendid, egwander,
Frailty, } gwander, gwandra, lleogedd, lleogrwydd, eiddilwch; breuder, breuolder, breuoldeb, breuoledd, breuolaeth, breuolrwydd, breuawd, breurwydd, breuedd, bregedd, bregusrwydd, egwanaeth.

Human frailty—dynol freuolaeth, breuder

dynol, gwendid dyn, breuolder dynoliaeth.

Fraischeur, *s.* (Ff.) ffresgoer, ffresoer, lleswyr, ffresgoeredd, gwyrfedd.

Fraise, *s.* (Ff.) ffrisgledr; †ffroes.

Fraised, *a.* ffrisgledrog; diffynedig gàn ffrisgledr.

Framable, *a.* (o *frame*) ffurfiadwy, lluniadwy.

Frame, *v. a.* (S. *fremman*) ffurfio, llunio, ffurfeiddio, gwneuthur, gwneyd, lluniaethu, lluniadu, cyflunio, lluniodri, cyfansoddi; adeiladu, adeilo, saernïo; dychymygu, dychymyg, dyfeisio, cynllunio, llyfelu; hwylio; trefnu, cyttrefnu, llywio, llywodraethu, rheoli, rheoleiddio; cymmoni, cymmesuro, addasu, cyfaddasu, sutio, cymhwyso, cydagweddu, cyfartalu; ystofi; cyssylltu, cydgyssylltu; cydblethu; ystramio, syddu, ymylgylchu, trestlu, gwalcio, cantu; rhoi mewn cant, ystram, *neu* ymylwydd; rhoi ystram, cant, ymylwydd, *neu* attegwydd am.

To frame together—cyssylltu, cydgyssylltu, cydffurfio, cydlunio.

To frame to *or* unto—addasu i, cyfaddasu i; cyflunio â; gwneuthur yn gyflun *neu* yn unddull â.

To frame artillery—trwyllo cadoffer; gosod cadoffer ar drwyll *neu* drwyllau; rhoi cadoffer ar drwyll; rhoi *neu* osod cadoffer ar drwyllgeir; rhoi cadoffer ar glud.

He could not frame to pronounce it right—ni fedrai efe lefaru yn groew; ni fedrai efe lefaru felly; ni fedrai efe ei lefaru yn iawn.

They will not frame their doings to turn unto their God—ni roddant eu gwaith ar droi at eu Duw.

Well-framed—lluniaidd, ffurfaidd, gwiwlun, gosgeddig, cywrain, cywraint, celfydd, cryno, taclus, clwn, cymhen, cywair, crefftwraidd, twtnais, dillyn, destlus, trefnus, cyflëus; hardd ei lun.

Ill-framed—afluniaidd, anffurfaidd, anosgeddig, anghywrain, anghywraint, anghelfydd, anghryno, anghymhen, annhaclus, anghywair, gwrthun, trwsgl, anhardd, dilun, diddelw, bwngleraidd, anghrefftwraidd, annhrefnus, anghyflëus; anhardd ei lun.

Frame, *s.* dull, llun, agwedd, gosgedd, gwedd, ffurf; ansawdd, cyflwr; trefn; hwyl, cywair; adail, adeilad, cydadail, cyfadail, adeilwaith; gwaith; gwneuthuriad, cyfansoddiad, cyfluniad, lluniad, ffurfiad, lluniaethad, cyfeiliad, cydosodiad, cydgyssylltiad; gosail, cynllun; ystram, swdd, swth, attegwydd, ymylwydd, cynnalwydd, marchwydd, cant, atteg, annel, pill, peithyn, amatteg, trestl, march, llwyf, llwyfan, gwalc; carfan.

Door-frame—hiniog, rhiniog, ystram drws, attegwydd drws, gwisg drws, attegwisg drws, annelwisg drwsg, attegddor, dorystram, dorgaes, ymylddor, bylddor.

Window-frame — ystram ffenestr, swdd ffenestr, attegwydd ffenestr, &c.

Frame of a table—ystram, attegwydd, annelwydd, marchwydd, atteg, annel, trestl, march, *neu* swdd bwrdd.

The frame of a city—adail dinas.

The frame of the world—cyfeiliad, adeilad, cyfansoddiad, cyssylltiad, *neu* gydgyssylltiad y byd; gwaith y byd.

Frame of the mind—hwyl, tuedd, tymmer, ardymmer, tymmyr, naws, ansawdd.

Frame (for embroidering)—peithyn.

Stocking-frame—peithyn hosanau.

Frame of a picture—ystram ardeb, ymylwydd darlun, cant ardeb.

Out of frame—mewn annhrefn; anhwylus, anhoenus, dihwyl, dihoen, mewn anhwyl, mewn anhoen.

The frame of one's life—ymddygiad, ymarweddiad, buchedd, *neu* helynt un; hwyl a threfn bywyd un; hwyl bywyd un.

The frame of a piece of ordnance—ystram cyflegr, ystram cadofferyn, clud cadofferyn, clud cyflegr.

He knoweth our frame—edwyn ein defnydd.

Framer, *s.* lluniwr, ffurfiwr, lluniedydd, gwneuthurwr, gwneuthurydd, dyfeisiwr, dyfeisydd, llyfelwr, dychymygydd.

Framework, *s.* ystramwaith, attegwaith, peithynwaith; gwaith à wnaer mewn ystram.

Framing, *s.* ystramiad; brasgoedwaith, braswaith coed; lluniad, ffurfiad, &c.

Frampold,† *a.* (?) anniddig, anynad, croes, anfwyn, gerwin.

Franc, } *s.* (Ff. *franc*) ffranc, ffrencyn=darn
Frank, } o arian Ffrainc, gwerth agos i 10*c.*

Franche-Botras, } *s.* onglatteg, onglwanas.
Franche Buttress, }

Franchise, *s.* (Ff.; It. *franchezza*) braint, rhagorfraint, uchelfraint, rhyddfraint; dinasfraint; rhyddid, rhydded, rhydd-did; breindir, breinttir; noddfa, noddle, seintwar; rhyddogaeth.

Elective franchise—etholfraint.

Franchise, *v. a.* rhyddfreinio, rhyddhau, breinioli, breinio, breintio, rhyddedu; dinesyddio, dinasyddio; gwneuthur yn ddinesydd; gwneuthur yn gyfranog o ddinasfraint; rhyddhau caethwas; rhoi rhyddid i; rhoi ei ryddid i; gwneuthur yn wr rhydd *neu* freiniol.

Franchisement, *s.* rhyddfreiniad, rhyddfreintiad, rhyddhad, gwaredred, rhyddid, breiniad, breintiad, breiniolad; dinesyddiad, dinasyddiad; breiniolaeth, breinioledd, dinesyddiaeth, arfreinioledd, rhyddediad; rhyddhad o gaethiwed.

Francolin, *s.* math o betrus.

Frangibility, *s.* (o *frangible*) hydoredd, hyfregedd, breuder, breuolder, hydrychedd, hydrychni.

Hence, } oddi yman, oddyman; oddi yna, odd yna, oddyna; o hyn; oddi wrth hyn; yn ol hyn, ar ol hyn.
From henceforth—o hyn allan; o hyn i maes; maes; rhag llaw; o'r pryd hwn allan; yn ol hyn; ar ol hyn; weithian, bellach, mwy, mwyach; dros yr amser i ddyfod.
From forth—allan o; o'r; oddi allan; odd allan o'r.
From off—oddi ar, odd ar; oddi; iarnadd.
From on—oddi ar, odd ar; iarn, iar, iarnadd.
From out—oddi allan, odd allan, o'r tu allan, oddi faes, oddi maes.
From thence, } oddi yna, odd yna, oddyna;
Thence, } oddi yno, oddyno, odd yno; o'r fàn hòno; o'r lle hwnw; o'r pryd hwnw *neu* hyny; o'r amser hwnw *neu* hyny.
From where—o ba le; o ba un; o'r lle.
From within—oddi mewn, oddi fewn; o'r tu mewn.
From without—oddi allan, odd allan, oddi faes, oddi maes; o'r tu allan; nid o hono ei hun.
From under—oddi dàn, oddi tàn, o dàn.
From yonder—oddi acw, odd acw, oddi draw, oddi oco, oddi hwnt.
From off me, } oddi arnaf, odd arnaf.
From over me, }
From off thee, } oddi arnat, odd arnat,
From above thee, } oddi arnad.
From off them—oddi arnynt, odd arnynt, oddi arnaddynt.
From my—o'm, o fy, o fym, odd ym; allan o'm.
From home—oddi gartref, oddi cartref, o gartref, o dref; heb fod gartref.
From abroad—o'r gwledydd pell; o'r gwledydd tramor; o wlad dyeithr; oddi allan, o bant.
From that place—oddi acw, oddi oco; o'r fàn acw; o'r fàn oco; oddi draw; o'r lle hwnw; o'r lle acw.
From off the way—oddi ar ffordd; odd ar y ffordd; o'r ffordd.
From the possession of, } oddi gàn.
From being with, }
From my possession — oddi genyf, oddi ganddwyf, oddi ganddof, oddi ganwyf.
From his possession—oddi ganddo, oddi ganto, oddi gantho, oddi gano.
From her possession—oddi ganddi, oddi ganti, oddi ganthi, oddi genddi, oddi genti, oddi genthi.
From between us—oddi rhyngom, oddi rhyngddom, oddi rhyngtom, oddi rhyngthom.
From on horseback—oddi ar gefn ceffyl; oddi ar geffyl; odd ar farch.
From day to day—o ddydd i ddydd; o ddydd bwygilydd; beunydd; bob dydd; yn feunyddiol, yn beunyddiol.
From all places—o bob lle; o bob parth; o bob màn; o bob tu; o amgylch ogylch.
Deliver us from evil — gwared ni rhag drwg.
I kept him from doing this—mi a'i cedwais rhag gwneuthur hyn; atteliais ef rhag gwneyd hyn.
From between his feet—oddi rhwng ei draed.
From the beginning of the world—er dechreuad y byd; oddi ar ddechreu y byd.
From the beginning of the world to this day—o ddechreuad y byd hyd heddyw.
They went out from us—aethant allan oddi wrthym ni.
The sceptre shall not depart from Judah—nid ymedy y deyrnwialen o Iudah; nid ymedy y deyrnwialen â Iudah.
Fromward, *ad.* (*from* a *ward*) oddi wrth, odd wrth; ymaith oddi wrth.
Frond, *s.* (Ll. *frons*) deilgangen, deilgang, deilgainc, deiloeglen; dalen.
Frondation, *s.* (Ll. *frondatio*) brigladdiad; briwfrig, osglau, manwydd; ysgythron coed.
Frondesce, *v. n.* (Ll. *frondesco*) deilio.
Frondescence, *s.* deilawd, amser deilio; y cywir amser y deilia pob math ar blanigion.
Frondiferous, *a.* (Ll. *frondifer*) deilddwyn, deilfag, deiliar; yn dwyn dail.
Frondous, *a.* (o *frond*) deilaidd, deilgangog.
Front, *s.* (Ff.; Ll. *frons*) tàl, talcen; talwyneb, gwyneb, wyneb, rhagwedd; tu blaen, pen blaen; rhag; haerllugrwydd, talogrwydd, talgryfder, eofnder, eondra, digywilyddra.
Front of an army, } cadflaen, talgad, blaen
Front of battle, } y gad, y fyddin flaen, gwyneb y drin, cyncad, y blaeniaid, y blaen-gis, llugynnor, cynhorf, cyntorf.
Front rank—arleng, rhagleng, rhagrestr, rhagres, blaenres, rhes flaen, rhestr flaen, rhenc flaen.
Front to front—taldal, daldal.
Variegated front—talfrith.
Of variegated front—talfrith.
With what front could he do it? A pha wyneb y gallai efe ei wneuthur? A pha haerllugrwydd y gallai efe ei wneuthur?
Front-stall of a bridle — talffrwyn, talre ffrwyn, rhagdal ffrwyn; talaith march.
Front, *v.* gwynebu, wynebu; sefyll yn wyneb; sefyll yn ngwyneb; sefyll gyferbyn â; sefyll ar gyfer; gwynebu ar; bod â'i wyneb ar *neu* at; sefyll yn flaenaf; gwrthwynebu.
Frontage, *s.* (o *front*) gwyneb, wyneb, rhagwedd, rhagran adeilad, gwyneb adail.
Frontal, *a.* (Ff. o *front*) talcenol; perthynol i'r talcen; à fo blaen; amytal.
Frontal bone—asgwrn y talcen, y talasgwrn, yr asgwrn amrytal.
Frontal, *s.* (Ff.; Ll. *frontale*) rhagdal, rhactal, rhagdalaith, blaendalaith, talddarn, taladdurn, talaith, talfa, talwynebyn, talwisg; talgyffer, talgyffyr, meddyginiaeth i'r talcen.
Frontated, *a.* (Ll. *frontatus*) yn tyfu letach letach.

Frontbox, *s.* talgor, côr blaen, sedd flaen, cuddigl blaen.

Fronted, *a.* talog, talcenog, rhagweddog; âg iddo dàl *neu* dalcen.
- Rough-fronted—talgrych, talarw: *f.* talgrech.
- Round-fronted—talgrwn; *f.* talgron.
- Bald-fronted—talfoel.
- Short-fronted—talfyr; *f.* talfer.
- Of many-coloured front—talfrith; *f.* talfraith.
- Front-covered—taldrwch.
- Bold-fronted—talgryf; *f.* talgref.
- Fair-fronted — gwyndal, (*f.* gwendal); wynebwyn, (*f.* wynebwen), granwyn, (*f.* granwen.
- Silver-fronted—talarian, talariant.
- Iron-fronted—talhaiarn.

Frontier, *s.* (Ff. *frontière*) cyffin, ffin, terfyn, cyffinid, cyffinydd, cytterfyn, argyffin; cyffiniau, gororau, blaenau; talaeth.

Frontier, *a.* cyffiniol, cydffin, cydffiniol, cytterfynol, amminiog, argyffiniol, ffiniol, unffin; à fo ar y cyffiniau *neu* y terfynau.
- Frontier town—tref gyffin, tref gyffiniol, caer gyffin, cyffindref, tref ffin, tref amminiog; tref ar y cyffiniau.

Frontiered, *a.* diffynedig ar y cyffiniau; ffinddiffynog, cyffinnawdd.

Fronting, *a.* taldal, wyneb yn wyneb; cyferbyn, cyferbyniol, cyferydig, cyfaran, cyfarfan, argywydd; yn gwynebu ar.

Frontiniac, *s.* gwin Ffrontiniac (yn Languedoc).

Frontispiece, *s.* (Ll. *frontispicium*) talwyneb, gwyneb, wyneb, tàl, talcen, adeilwyneb, adeilweb; taladdurn, taleilun, gwyneblun, wyneblun, rhagaddurn, rhaglen.

Frontless, *a.* talgryf, haerllug, digywilydd, talog, hyfwyneb, hyweb, wynebgaled, hy, eofn.

Frontlet, *s.* rhagdal, rhactal, talaith, talrwym, talwisg.

Frontroom, *s.* ystafell wyneb, cell wyneb; ystafell yn wyneb ty.

Froppish,† *a.* (?) afrywiog, anniddig, anynad, anfwyn, drygnawa.

Frore, **Frorne**, **Frory**, † *a.* (Al. *fror, gefroren*; Is. *vroor, bevrooren*) rhewedig, rhewog, rhewlyd.

Frost, *s.* (S., Al., Sw., a D.) rhew: *pl.* rhewogydd.
- Hoar-frost—llwydrew, barug, glasrew, gorwydr, arien.
- Hard sharp-pointed frost, Sharp frost, } crimprew.
- Black frost—durew, rhew du.
- Nipping frost—ewinrew, gwynrew, deifrew.

Frost, *v. a.* rhewgaenu, arienu, rhewdaenellu, rhewdabu, caensugro, haensugro; cuddio *neu* daenellu â pheth tebyg i lwydrew; iâu, tallu.

Frost-bearer, *s.* rhewddygydd, rhewddygai, rhewddygyr, rhewadyr.

Frostbitten, *a.* ewinrew, gwynrew; â'r ewinrew arno; â'r gwynrew arno; â gwynrew arno; âg ewinrew arno; rhewedig, fferedig; wedi rhewi, fferu, *neu* rynu; deifiedig gàn rew.

Frostbound, *a.* rhewrwym, rhewgaeth; rhwym yn *neu* gàn y rhew.

Frosted, *a.* briglwyd, penllwyd, llwydwyn, llwydrewaidd; tebyg i lwydrew; gwŷn, gwynedig, gwedi gwynu; gorchuddiedig *neu* daenelledig â pheth fel llwydrew; rhewgaenedig, rhewdaenellog, rhewdabedig; âg wyneb garw fel llwydrew iddo; barugwedd; tallog; arienog; yn edrych fel barug ar blanigion.
- Frosted glass — barugwydr; gwydr â gwyneb garw fel llwydrew iddo.
- Frosted work — barugwaith, arienwaith; addurnwaith yn ymddangos fel barug ar blanigion; gwaith rhewgaenog.

Frostily, *ad.* yn rhewllyd.

Frostiness, *s.* rhewogrwydd, rhewlydrwydd, rhewllydrwydd.

Frosting, *s.* rhewdaen, rhewgaen, rhewdab, llwydrewdab, llwydrewdaen=peth fel llwydrew à roir ar hyd teisenau a'r cyffelyb.

Frostless, *a.* direw, heb rew.

Frostnail, *s.* hoel rew, hoelen rew, rhew-hoelen: *pl.* hoelion rhew, rhew-hoelion.

Frostnipped, *a.* ewinrew, gwynrew; â'r gwynrew *neu* ewinrew arno; deifiedig gàn rew.

Frostwork, *s.* barugwaith, arienwaith; gwaith ar ddull llwydrew ar blanigion.

Frosty, *a.* rhewllyd, rhewlyd, rhewog; llwydrewaidd, barugaidd, barugol, baruglyd; penllwyd, briglwyd, penwyn, gwŷn, llwydwyn.

Froth, *s.* (Gr. *aphros*) ewyn, dystrych, ysgai, gai, geian, gorferw, ewyngant, ewyngaen, gorisgell, isgal, micws, molwyn, broch, arfroch, burym, swyf, swyfen, swyfi; ffiloreg.
- Froth of liquor—micws dïod, ewyn dïod.
- The froth of liquids in boiling—gorferw.
- To skim off froth, / To scum off froth, \ dïewynu, tynu yr ewyn.

Froth, *v.* ewynu, dystrychu, ysgeio, molwyno, burymu, gorisgellu; malu ewyn, bwrw ewyn, dwyn ewyn; berwi *neu* fyned yn ewyn; gorferwi; peri ewynu.

Frothily, *ad.* yn ewynog, &c.; yn wag, yn orwag, yn ddisylwedd.

Frothiness, *s.* ewynogrwydd, ewynedd, ewynllydrwydd, gorisgellogrwydd, dystrychogrwydd, ysgeiogrwydd, molwynogrwydd, geiandra; gwagder, gorwagder, gwegyd, ysgafnder, gwagsawrwydd, ansylwyredd.

Frothless, *a.* dïewyn, diddystrych, heb ewyn.

Frothspit, *s.* poeryn y gog, poer y gog, poeryn y gwcw, poer y gwcw.

Frothy, *a.* ewynog, ewynllyd, gorisgellog, dystrychog, molwynog, ysgeiog, geifawr, burymog, brochog, llawn ewyn, isgalog, isgalaidd; heb ddim ynddo ond yr ewyn; ysgafn, gwagsaw, disylwedd, dibwys, gorwag, gwag, ansylweddol.

Frounce, *s.* (Ysp. *fruncir*) poerwst=anhwylderb ar weilch, trwy fod poer gwŷn yn ymgasglu cylch y big.

Frounce, *v. a.* (Ysp. *fruncir*; Ff. *froncer*) crychu, amgrychu, crybychu; crychu gwallt o gylch yr wyneb.

Frounce, *s.* crych, crychni, dill; plyg; crychaddurn.

Frounceless, *a.* digrych, anghrych, diblyg, heb grych.

Frouzy, **Frowzy**, *a.* mws, drewllyd, drewedig, drewsawrus, drygsawrus; tywyll, caddugol, cymylog.

Frow,† *s.* (Al. *frau*; Is. *vrouw*) benyw, gwraig.

Froward, *a.* (S. *framweard*) afrywiog, anynad, gwrthnysig, ystyfnig, cyndyn, cildyn, cil-

dynus,cildynog,cyndynog,anhyfodd,anniddig, drygnaws, drygnwydus, drygnawsus, anhydyn, anhywaith, anhywedd, anystywallt, anhydrin, pengaled, hwstr, gwynafog, dreng, drygfoesol, anwesog, gwynog, trofäus, traws, anghyweithas, gwarsyth, gwegilsyth, gwargaled, anystwyth, sarig, der, ffrowys, gwrthgas, anghydfod, anufydd, aflywodraethus, taiogaidd, anhynaws; drwg ei naws; drwg ei natur.

Frowardness, *s.* afrywiogrwydd, anynadrwydd, gwrthnysig, ystyfnigrwydd, cyndynrwydd, hwstredd, &c.

Frower, *s.* (?) delltor, holltydd, holltyr, haiarn hollti, offeryn i hollti dellt.

Frown, *v.* (Ff. *refrogner*) cuchio, gygu, blynghau, cuwchio; edrych yn guchiog, yn guchiol, yn flwng, yn ddig, *neu* yn ddigofus; edrych yn gilygus; talgrychu; cuchio ar, gygu ar; ceryddu, orni.

To frown upon—cuchio ar, gygu ar, blynghau wrth.

The world frowns upon him—mae y byd yn gygu *neu* yn cuchio arno; y mae y byd yn ei wrthwynebu.

Frown, *s.* gwg, cuch, cuwch, cuwg, cilwg, blwng, orn, talgrych; crychiad talcen gàn soriant.

The frowns of fortune — cilwg y byd; cuchiau tynged, gygon tyngedfen, cilygon tynged; gwrthwynebedd y byd; adfyd.

Frowning, *a.* gygus, cuchiog, cuwchiog, cilygus, talgrych, blwng, (*f.* blong), sarig, aeldrwm, ffroensur, trwynsur, trwynsor, trwyndrist, digus, digofus, digllawn, anfoddog, cipasog, sur ei olwg, garw-guchiog, bygylus.

Frowning looks—cuchiau, cuwchiau, cipasau, gygon, &c.

Frowningly, *ad.* yn ygus, yn guchiog; gyda gwg, gyda chilwg.

Frowy, *a.* mws, drewllyd, drewedig, drewsawrus, drygsawrus.

Frozen, *a.* (o *freeze*) rhewedig, gwedi rhewi; wedi rhewi i fyny; ceuledig; rhewog, rhewllyd, rhewlyd; oer.

Easily frozen—hyrew.

Not easily frozen—anhyrew.

Frozen sea—môr rhewedig, rhewfor, môr y rhew.

To be frozen over—bod wedi rhewi drosto *neu* drosti; bod wedi ei orchuddio âg ia; bod wedi rhewi drosto *neu* drosti.

Frozenness, *s.* rhewedigrwydd; rhewogrwydd; rhewedd.

Fructed, *a.* (Ll. *fructus*) ffrwythog, cnydiog; yn dwyn ffrwyth.

Fructescence, *s.* (Ll. *fructus*) ffrwythawd, addonawd, ffrwyth-dymmor, tymmor ffrwyth, amser ffrwyth.

Fructiferous, *a.* (Ll. *fructifer*) yn dwyn ffrwyth; yn dwyn cnwd; yn cnydio; ffrwythol, ffrwythog, cynnyrchiol, cnydiog, cnydiol, cnydfawr, ffrwythlawch, ffrwythiannus, ffrwythlawn, cnydig.

Fructification, *s.* (o *fructify*) ffrwythiant, ffrwythad, ffrwythiad, ffaethiad.

Fructify, *v.* (Ll. *fructifico*) ffrwythloni, ffrwytho, ffrwythiannu, ffaethu; gwneuthur yn ffrwythlawn; peri yn ffrwythlawn; cnydio, cynnyrchu, dwyn ffrwyth.

Fructuation,† *s.* cynnyrch, ffrwyth.

Fructuous, *a.* (Ll. *fructuosus*) ffrwythlawn, ffaeth, cnydig, toreithiog, cnydfawr, cnydiog, brwys, achrwysol; ffrwythlonol, ffrwythlonus, ffaethol.

Fructure,† *s.* (Ll. *fructus*) mwynhad, mwyniant, mwynder, defnydd.

Frugal, *a.* (Ff. ac Ysp.; Ll. *frugalis*) cynnil, annhreulgar, ymarbedus, arbedus, diwastraff, diafrad, tolgar, cymmedrol, dryd, drydol, trin, tringar, didraul; toreithus; ardymmerus; hwsmonaidd.

Frugality, *s.* (Ll. *frugalitas*) cynnildeb, cynniledd, cynnilwch, cynnilder, cynnildra, tolgarwch, annhreulgarwch, cynnildraul, cymmedroldeb, cymmedroledd, cymmedrolder, ymarbed, toliant; hwsmonaeth.

Frugiferous, *a.* (Ll. *frugifer*) yn dwyn ffrwyth; yn dwyn cnwd; yn cnydio; ffrwythol, ffrwythog, cynnyrchiol, cnydiog, cnydiol, cnydfawr, ffrwythlawch, ffrwythiannus, cnydig.

Frugivorous, *a.* (Ll. *fruges* a *voro*) ffrwythysol, addonysol; yn byw *neu* ymborthi ar ffrwythau; hadysol, ydysol; yn byw ar had *neu* yd.

Fruit, *s.* (Ff.; Ll. *fructus*; Al. *frucht*) ffrwyth; cnwd, cynnyrch, toraeth; aeron, addon, cair; budd, lles, elw, buddred, mantais, elwant, ennill, mael.

First fruits — cynffrwyth, blaenffrwyth, cynnwyn, blaengnwd.

To bear fruit, } dwyn ffrwyth, cyn-
To bring forth fruit, } nyrchu ffrwyth, ffrwytho, cnydio.

Summer fruits—ffrwythau haf; aeron.

Fruit time—amser ffrwythau, tymmor ffrwythau; yr hydref.

Fruit-garden—ffrwythardd, gardd ffrwythau, gardd ffrwyth.

The fruits of the earth, } ffrwythau y
The fruit of the earth, } ddaiar, ffrwyth y ddaiar, cnwd y ddaiar, adgen y ddaiar, cynnyrch y ddaiar, daiarguwd.

The kindly fruits of the earth—amserol ffrwythau y ddaiar.

The fruit of the womb—ffrwyth y bru; ffrwyth y groth; plant; beichiogi.

To cast its fruit, } bwrw ei ffrwyth; dy-
To shed its fruit, } hidlo.

Seller of fruits — gwerthydd ffrwythau, ffrwythwerthwr, ffrwythwerthydd, ffrwythwr.

Fruit of agrimony—canghaf mân.

Fruit, *v. n.* ffrwytho, cnydio, achrwyso.

Fruitage, *s.* (Ff.) ffrwythau; amryffrwyth.

Fruitbearer, *s.* ffrwythiedydd, ffrwythddygydd, ffrwythaddygydd, dygydd ffrwyth.

Fruitbearing, *a.* yn dwyn ffrwyth; yn dwyn cnwd; yn cnydio, yn ffrwytho; ffrwythol, ffrwythog, cnydiol, cnydiog, cynnyrchiol, cnydfawr, ffrwythlawch, ffrwythiannus, cnydig.

Fruitbud, *s.* ffrwythflaguryn, ffrwytheginyn; y blaguryn à ddwg ffrwyth.

Fruiterer, *s.* ffrwythwerthwr, ffrwythwerthydd, gwerthydd ffrwythau, aeronwerthwr, gwerthwr aeron, ffrwythwr, aeronydd, ceirionydd, afaleuwr, ceirionwr.

Fruitery, *s.* (Ff. *fruiterie*) ffrwythau; ffrwythfa, ffrwythgell, ffrwythlofft, llofft ffrwythau, llofft aeron, llofft ceirion, aeron-gell.

Fruitful, *a.* ffrwythlawn, toreithiog, cnydiog, cnydig, cnydfawr, ffrwythig, ffaeth, ffaethus,

brwys, toreithus, ffrwythus, ffrwythog, achrwysol, cynnyrchiog; epiliog, epilgar; haflug.

To be fruitful—ffrwytho, cnydio, ffaethu, ffrwythloni; bod yn ffrwythlawn, &c. dwyn ffrwyth, dwyn cnwd.

To make fruitful—ffrwythloni, ffrwythiannu, ffaethu, ffrwythigo; gwneuthur neu beri yn ffrwythlawn, &c.

Be fruitful—ffrwythwch, byddwch ffrwythlawn.

Fruitfulness, *s.* ffrwythlondeb, ffrwythlonrwydd, ffrwythlonder, ffrwythlonedd, ffrwythineb, ffrwythigrwydd, cnydiogrwydd, cnydigrwydd, cnydforedd, ffaethder, ffaethusrwydd, toraeth, achrwys, achrwysedd, ffrwythusrwydd; epiliogrwydd.

Fruit-grove, *s.* ffrwythwig, ffrwythlwyn; ffrwyth-goedfa.

Fruiting, *a.* ffrwythol, ffrwythus; yn perthyn i ffrwyth; yn dwyn ffrwyth.

Fruition, *s.* (Ll. *fruitio*) mwynhad, mwyniant, mwynder, mwyn; dywenydd, llawenydd.

Fruitive, *a.* mwynhaol, mwyniannol, mwyniannus; yn mwynhau.

Fruitless, *a.* diffrwyth, anffrwythlawn; ofer, difudd, seithug, anfuddiol, anolo; meth-, methol; diepil, anepiliog, diaddon.

To render fruitless—diffrwytho; gwneuthur yn ddiffrwyth, &c.

Fruitlessness, *s.* diffrwythder, diffrwythdra, diffrwythdod, anffrwythlondeb, anffrwythlonrwydd; oferedd, oferdod, seithugrwydd, anfuddioldeb; afles.

Fruit-loft, *s.* ffrwythlofft, ffrwythgell, ffrwythfa, llofft ffrwythau, llofft aeron.

Fruit-time, *s.* amser ffrwythau, tymmor ffrwythau; yr hydref.

Fruit-tree, *s.* ffrwythwydden, aeronwydden, pren ffrwythau, pren ffrwyth, ffrwythbren, ffrwythgoeden, ceirwydden: *pl.* ffrwythwydd, aeronwydd, ffrwythgoed, coed ffrwythau.

Frumentaceous, *a.* (Ll. *frumentaceus*) gwenithaidd; tebyg i wenith; ar ddull gwenith.

Frumentarious, *a.* (Ll. *frumentarius*) grawnol, grawnaidd, gwenithol; perthynol i rawn neu wenith.

Frumentation, *s.* (Ll. *frumentatio*) ydrodd, rhodd o yd, anrheg o yd=yd à roddid i'r bobl, yn mhlith y Rhufeiniaid gynt, i'w cadw rhag ymderfysgu.

Frumenty, *s.* (Ll. *frumentum*) gwenithgawl, cawl gwenith, gwrmrwyd.

Frump,† *s.* (?) gwawd, gwatwar, cellwair, hers, greff.

Frump,† *v. a.* gwawdio, gwatwar, coddi, sarhau.

Frumper,† *s.* gwawdiwr, gwatwarwr, dirmygydd.

Frush,† *v. a.* (Ff. *froisser*) briwo, tori, malurio, yssigo.

Frush, *s.* (Al. *frosch*) llyffant, llyffan, bywyn carn march, bywyn carn ceffyl.

Frustrable, *a.* (Ll. *frustro*) seithugiadwy, somadwy.

Frustraneous, *a.* (o'r Ll. *frustra*) ofer, difudd, diles, anolo, anfuddiol, afiesol, seithug, diffrwyth, gwag.

Frustrate, *v. a.* (Ll. *frustro*; Ff. *frustrer*) seithugio, somi, siomi, diddymu, difuddio, dïebrydu, dïebreidio, dirymu, dïelwi; peri seithug i; peri methu, peri colli; gwneuthur yn seithug; gwneuthur yn ofer; gwneuthur neu beri yn anolo.

Frustrate, *a.* seithug, ofer, aneffeithiol, difudd, diles, anolo, anfuddiol, afiesol, diffrwyth, diddym, dirym, somedig, dïebrydig, dïebredig, dïebreidiog.

Lest I die frustrate of my hope—rhag i mi farw yn ofer yn fy ngobaith.

To be frustrate of his purpose—methu ganddo yr hyn a amcanodd.

Frustration, *s.* (Ll. *frustratio*) seithugiad, seithugiant, seithugiaeth, somiad, somiant, somedigaeth, diddymiad, dirymiad, dïebryd, dïabred; seithugrwydd, seithug.

Frustrative, *a.* seithugiol, somedigol, siomedigol, dïebrydol, dïebrydus, dïebreidiol, dyorol; twyllodrus, gau, geuol, ffugiol.

Frustratory, *a.* seithugiol, somedigol, dïebrydol, dïebreidiol; diddymol, dirymol, dirymiol, diddymedigol.

Frustule, *s.* (Ll. *frustulum*) gwymyffyn.

Frustum, } *s.* (Ll. *frustum*) torgat, torgetyn:
Frust, } *pl.* torgatiau.

Frustum of a cone—torgat ffain, torgat côn, torgetyn ffain.

Frutescent, *a.* (Ll. *frutex*) prysgeiddiol; o lysieuaidd yn myned yn fanwyddaidd; yn myned yn fanwydd.

Frutex, *pl.* **Frutices**, *s.* (Ll.) prysgen, manwydden, prysgoeden, gwyddenig, godd, prysgwydden, lledwydden.

Fruticant, *a.* (Ll. *fruticans*) ysgewyllog, impiog, impynog, mabgeinciog; llawn blagur neu ysgewyll.

Fruticous, } *a.* (Ll. *fruticosus*) manwyddog,
Fruticose, } prysgoedog, prysgoediog, prysgwyddog.

Fry, *v.* (o'r sain; Ll. *frigo*; Gr. *phrugô*; Ff. *frire*; Gw. *friochta'aim*) ffrio; crasboethi, crasbobi; berwi, dyferwi.

I have other fish to fry—mae i mi beth arall i'w wneuthur; mae i mi rywbeth arall i'w wneuthur; mae i mi orchwyl arall mewn llaw; mae genyf fi orchwyl arall mewn llaw.

Fry, *s.* ffri, ffrifwyd, bwyd ffriedig.

Fry, *s.* (Ff. *frai*) sil, silod, grawn pysg, grawn pysgod, manbysg, haig o fanbysg.

Fry of fish—sil pysgod.

Fryingpan, *s.* padell ffrio, ffribadell, ffriban.

Out of the fryingpan into the fire—neidiaw o'r badell i'r tân; dïanc ar Glwyd a boddi ar Gonwy; o'r mwg i'r tân; dianc rhag y mwg i'r daflod; newid drwg am waeth.

Fub,† *s.* crwt, crwtyn, hogyn tew; benyw.

Fub, *v. a.* (Al. *foppen*) oedi, gohirio, addoedi; twyllo, coegio, hocedu, somi, castio, hudo; bwrw heibio.

Fubby, *a.* tew, cnodig, efras, llyfndew.

Fucate, } *a.* (Ll. *fucatus*) paentiedig, arliwiedig,
Fucated, } lliwiedig, rhithliwiedig; ffugiedig, geurithiog, lledrithiog.

Fuchsia, *s.* (oddi wrth Leonard *Fuchs*, llysieuwr Almaenig) Ffiwsia, Ffuchsia=rhywogaeth o fanwydd tra phrydferth.

Fucoid, *s.* (Ll. *fucus*, a Gr. *eidos*) cloddwymon, cloddwyg.

Fucus, *s.* (Ll.) paent, arliw, golchliw, lliw, gwepliw; lledrith, geurith, geuwedd, rhith.

Fucus, *pl.* Fuci, Fucuses, *s.* (Ll.) gwymon, gwyg y môr, morwyg.
Fudder, *s.*=*Fother*, *Fodder*.
Fuddle, *v.* (?) meddwi, brwysgo; yfed gormodd; yfed i ormodedd; yfed, ymyfed, dïota, llymeitian, llymeitia, llymeitio, ymfeddwi, ymfrwysgo, potio; peri *neu* wneuthur yn feddw.
Fuddling bout—cyfeddach, cyfedd, term.
Fuddler, *s.* meddwyn, brwysgwr, brwysgyn, dïotwr, dïodrydd.
Fudge, *s.* (S. *fægan*; Al. *fügen*) ffugwaith, ffug, ffugedd, ffach; ffladredd, ffoledd, ffregod, ffreg, ffol eiriau ffiloreg; celwydd.
Fuel, *s.* (o'r Ff. *feu*) tanwydd, cynnud, tanborth, tanwent, dylwyf, gosgymmon, briwwydd, ymborth tân, peth ar y tân.
To gather fuel—cynnuta; cynnull *neu* gasglu cynnud; cynnull *neu* gasglu tanwydd; coeda, coeta; hel peth ar y tân.
Fuel, *v. a.* porthi tân, tanborthi; rhoi ar y tân; rhoi tanwydd *neu* gynnud ar y tân.
Fueller, *s.* cynnutai, cynnutwr, tanwyddwr.
Fuero, *s.* (Ysp.) deddf, deddfawd, rheithiad, brawdwriaeth; breintysgrif, breintlen.
Fuff, *v. n.* (o'r sain) pyffio, piffio, chwythu, chwiffio.
Fuffy, *a.* pyffiog, piffiog, chwiffiog; ysgafn.
Fugacious, *a.* (Ll. *fugax*) ffoadurus, ffoawl, fföedigol, hyffo, hedin, hedegol, hedol, hedog, hedegog, hedinol, fföedig, diflanol, dibara, crwydrus.
Fugaciousness, *s.* ffoadurusrwydd, hedinrwydd, hedegolrwydd, hedegogrwydd, hedolrwydd, hedogrwydd, fföedigrwydd.
Fugacity, *s.* ffoadurusrwydd, hedinrwydd, hedegolrwydd, hedegoldeb, hedegogrwydd, hedolrwydd, hedogrwydd, fföedigrwydd, hyfföedd, hedinoldeb; diflanrwydd, llithredigrwydd, trancedigrwydd, hylithredd; parodrwydd i ffoi *neu* hedeg ymaith; ffw, ffwy; ansicrwydd, ansicredd, ansefydlogrwydd, anwadalwch, gwamalder.
Fugh, } *in.* ffei! ffi! hach! ffach! wfft! rhag
Foh, } cywilydd! ffwrdd! wb! pw! pw pw! tw!
Fugitive, *a.* (Ll. *fugitivus*; Ff. *fugitif*) ffoadurus, ffoawl, fföedigol, hyffo, fföedig, hedin, hedegog, hedol, hedog, hedinol, crwydrus, crwydrol, gwibiol, gwibiog, crwydredig, crwydredigol, crwydr, crwydraidd, hylithr; ansefydlog, anwadal, gwamal, anhysaif, ysgafn; difyfyr, byrfyfyr, achlysurol; parod i ffoi *neu* hedeg ymaith; tueddol i ffoi *neu* hedeg ymaith.
Fugitive, *s.* ffoadur, ffoaduriad, ffoawdr, ciliadur, enciliwr, crwydryn, ciliwr, ciliad, (*pl.* ciliaid), cilydd, encilydd, gwibiad, gwibiwr, gwibiawdr, crwydriad, crwydrai, crwydrwr, dyn treigl, treiglad, treiglddyn, ffflemor.
Fugitiveness, *s.* ffoadurusrwydd, fföedigrwydd, hedinrwydd, hyfföedd, hedegogrwydd; anwadalwch, ansefydlogrwydd, gwamalder, gwamalwch, ansadrwydd; ffw, ffwy.
Fugleman, } *s.* (Al. *flügelmann*) arweinydd,
Fugelman, } blaenor, gwaladr, cynwaladr, rhagwaladr,
Fugue, *s.* (Ff.; Ll., Ysp., ac It. *fuga*) ffwyal, ffoalaw; canred, oliant.
Fugueist, *s.* (o *fugue*) ffwyalawydd, ffwyeilewydd, ffwyeilwy, canredwr.

Fulcible, *a.* (Ll. *fulcibilis*) attegadwy; à ellir ei attegu.
Fulciment, *s.* (Ll. *fulcimentum*) atteg, gwanas, gwifrwym.
Fulcrate, *a.* (Ll. *fulcrum*) gwifrwymog, attegog.
Fulcrum, } *s.* (Ll. *fulcrum*) gwifrwym; atteg,
Fulcre, } colpwys.
Fulfil, *v. a.* (o *full* a *fill*) cyflawnu, cyflenwi, cwblhau, dybenu, gorphen, gorphenu, dwyn i ben, gwneuthur, gwneyd, gorugo; cywiro.
Fulfiller, *s.* cyflawnwr, cyflawnydd, cwblhäwr, gorphenwr.
Fulfilment, } *s.* (o *fulfil*) cyflawniad, cwblhad,
Fulfilling, } cyflenwad, dybeniad, gorpheniad, gwneuthuriad; cyflawnder.
Fulgency, *s.* (Ll. *fulgens*) dysgleirdeb, dysgleirder, dysgleiredd, llugeinder, gorddysgleirdeb, llethrid, ysblander, ysblandra, gloewder, gloewineb, claerder, claeredd, arglaerder, ysblanedd, effiander, eiriander.
Fulgent, *a.* (Ll. *fulgens*) dysglaer, claer, gloew, llachar, seirian, ysblenydd, dysgleiriol, goleufawr, llethridfawr, llethridog, llethridiannol, llathraid, ffloew, effian, effianol, canloew, glain, eirian, ysblan, ysblanol, llewyrchol, eirig, llugiannol, lluglawn.
Fulgid,† *a.* (Ll. *fulgidus*)=*Fulgent*.
Fulgidity, *s.* (o *fulgid*)=*Fulgency*.
Fulgor, *s.* (Ll.)=*Fulgency*.
Fulgurant,† *a.* (Ll. *fulgurans*) melltenol, ffiachiol, lluchedenol.
Fulgurate,† *v. n.* (Ll. *fulguro*) melltenu, lluchedenu, ffiachio, saethu mellt.
Fulguration, *s.* (Ll. *fulguratio*) melltenlad, lluchedeniad, lluchediad, ffiachiad, lluchedigaeth.
Fulgurites, *s. pl.* (Ll. *fulguro*) tywodbibau gwydredig.
Fuliginosity, *s.* (o'r Ll. *fuligo*) huddyglydrwydd, huddygleiddrwydd, pardduogrwydd, parddueiddrwydd.
Fuliginous, *a.* (Ll. *fuligineus*, *fuliginosus*) huddyglyd, huddyglaidd, pardduog, pardduaidd, pardduol; mygyld.
Fulimart, *s.* (*foul martin*? Ysg. *foumarte*) ffwlbart, gwichyn, gwichyll, gwichydd.
Full, *a.* (S. a Sw.; Al. *voll*; Is. *vol*) llawn, cyflawn; cyfan, cyfa, cwbl, cyfangwbl, llwyr, cyflwyr; perffaith; aml, helaeth, ehelaeth; dàn sang, secedig, sechedig, gwedi ei secu, wedi ei sechu; yn llawn; cryf; ffwch, (*f.* ffloch); digon, digonol.
Full to the brim—cyforiog, cyfor; llawn hyd y byl; llawn hyd yr ymyl; llawn hyd y gib.
A full week—wythnos gyfan, wythnos gyflawn, wythnos gron, wythnos lawn.
A full day—dïwrnod cyfan.
Full moon — llawn lleuad, llawn lloer, llawnlleuad, llawnlloer, llawn lluned, llawnlluned, cyfanlloer, cefnlloer, cefn y lloer, cefn y lleuad, lleuad lawn, y llawnlleuad.
It is full moon— mae yn llawn lleuad; mae yn llawn lloer, &c.; mae yn gyfanlloer; mae y lleuad ar y cefn; mae y lleuad yn llawn.
Full sea—gorllanw, llawn llanw, llawnfor, pen llanw, uchelfor.
Full sea mark—nod y gorllanw, nod gorllanw, nod uchelfor, arwyddyn llawnfor, gorlifnod.

At full tide—ar y llawnfor.
Very full—gorllawn, trallawn, tra llawn, llawn iawn, llawn dros ben.
Full of — llawn o, llawn, yn llawn, yn llawn o.
Full of business—trafferthus; llawn trafferth; llawn o drafferth; llawn gorchwylion; llawn heldrin.
Full of grief—gofidus, gofidiog, llawn gofid, llawn o ofid, trallodus, helbulus, cystuddiog, athrist.
Full of words—siaradus, geiriog, geiriolus; aml ei eiriau; llawn o eiriau.
Of full age—yn ei gyflawn oed; cyflawn oed; o gyflawn oed; o oedran addfed.
Full butt—daldal, dalcen yn nhalcen.
To run full butt at one another—ymgyfredeg, ymgyhydreg, *neu* ymgyfranc dalcen yn nhalcen; ymruthro dalcen yn nhalcen; ymgyfredeg daldal.
To meet one another full butt—ymgyfarfod *neu* ymdaraw daldal.
Two full years—dwy flynedd gyfan, gyflawn, *neu* lawn.
When he was full forty years old—pan oedd efe yn llawn deugain mlwydd oed.
With full speed—ar lawn frys; ar lawnfrys; ar ddyfrys; ar fuan-frys; ar y gyrfau gwyllt; ar y pedwarcarnau gwyllt; ar y pedwar carn gwyllt; ar frys gwyllt; ar y cerhynt gwyllt.
It is full time—mae yn llawn bryd; mae yn fadws; madws yw; mae yn hen bryd.
A full *or* clear voice—llais croew; llais cyflawn.
To be full—bod yn llawn; ymlenwi.
Full, *s.* llonaid; gwala, diwalliad, llanwad, llenwad; -aid.
Cup-ful—cwpanaid, cibaid, llonaid cwpan.
Mouthful—safnaid, geneuaid, tamaid, cegaid, llonaid geneu.
To the full—i'r eithaf; hyd yr eithaf; ei wala, yn ddigonol.
At full—ar y llawn; ar yr uchaf; yn gyfan, yn gwbl, yn llwyr, yn hollol, yn llawn.
The moon is at full—mae yn llawn lleuad, yn llawn lloer, *neu* yn llawn lluned, &c.; mae yn gyfanlloer; mae y lleuad ar y cefn.
The full of the moon=*Full moon.*
This is the news at full—dyma y newydd yn gyfan.
When we did eat bread to the full—pan oeddym yn bwyta bara ein gwala.
When the Lord shall give you bread to the full—pan roddo yr Arglwydd i chwi fara eich gwala.
Full, *ad.* iawn, tra, dra, dros ben, eithaf; digon; yn hollol, yn gwbl, yn llawn, yn gyflawn; i'r eithaf; hyd yr eithaf; yn union.
I am full glad— mae yn dda iawn genyf; y mae yn llawen iawn genyf.
Full well—gwych; eithaf da.
I know his meaning full well—mi a wn ei feddwl yn dda ddigon; gwn ei feddwl yn ddigon da; gwn ei feddwl yn eithaf da; gwn ei feddwl yn burion; gwn yn burion beth yw ei feddwl.
Full sore against my will—yn ddygn yn erbyn fy ewyllys.
Full, *v. a.* (S. *fullian;* Ll. *fullo*) panu.
Fulling mill — melin bàn, melin banu, pandy.
Full-acorned, *a.* gwedi cael ei wala *neu* ei lonaid o fes.
Fullage, *s.* (o *full*) pandal; tâl am banu; arian am banu; yr arian à delir am banu.
Fullam, *s.* (o *Fulham*, ger Llundain) genddisiau, gau ddisiau, gau ffristiau.
Full-bloomed, *a.* blodlawn; yn ei lawn *neu* gyflawn flodau.
Full-blown, *a.* gwedi llawn ymagor; wedi cwbl ymagor; llawn o wynt *neu* chwyth; llawn gàn wynt *neu* chwyth; gwyntlawn.
Full-bottom, *s.* godre llawn, llawn odre, godre mawr.
Full-bottomed, *a.* llawn-odreog, godre-lawn; llawn ei odre; gwaelodlawn.
Full-butt, *ad.* daldal, dalcen yn nhalcen.
Full-charged, *a.* llawn lwythog; wedi ei lwytho yn llawn; llwythlawn.
Full-crammed, *a.* gwedi ei sechu i'r eithaf; tynlawn, dàn sang, tynsecedig.
Full-dressed, *a.* gwisglawn; llawnwisgedig; gwedi gwisgo yn gyflawn; mewn cyflawn wisg; mewn llawn drwsiad.
Full-drive, *a.* gyrlawn; yn gyru ar lawn frys, ar ddyfrys, *neu* ar frys gwyllt; ar lawn yrfa.
Full-eared, *a.* llawn ei dwys; âg iddo dwys llawnion; llawn-dwysenog, twyslawn; llawn-ronynog.
Fulled, *p. p.* panedig, pàn; gwedi ei banu.
Fuller, *s.* (o *full*) panwr, panydd.
Fuller's trade—panwriaeth, panyddiaeth, celfyddyd panwr.
Fuller's earth — pridd gogarth, pridd y panwr, priddgalch y panwr, priddgalch y panwyr, clai y panwr.
Fuller's thistle, } teilai, ysgall y panwr,
Fuller's weed, } cribau y panwr, llysiau y panwr, llysiau y cribau, teilai mawr, ysgall panwr. [*Mal.* iii. 2).
Fullers' soap — sebon y golchyddion
Fullery, *s.* (o *fuller*) pandy.
Full-eyed, *a.* llygadlawn; â'i lygaid ar dòr y croen; â'i lygaid ar dòn y croen.
Fullfaced, *a.* gwyneblawn, wyneblawn; âg iddo *neu* â chanddo wyneb llawn; gwynebdew.
Full-fed, *a.* wedi cael ei wala *neu* ei lonaid; wedi cael digon; wedi ei lawn besgu; cestlawn; digonol, diwall, llawn.
Full-fleshed, *a.* ciglawn, cnodlawn, cnodig, cigog, efras, tew, corffog.
Full-formed, *a.* llawnweddog, llawnlluniog; gwedi ei lawn lunio.
Full-fraught, *a.* llawn lwythog, llwythlawn; llwythedig i'r eithaf.
Full-gorged, *a.* gwedi ei lenwi hyd ormodedd; gorllawn; gwedi ei orllenwi; gwedi ei orfwydo; gwedi cael gormod.
Full-grown, *a.* tyflawn; wedi cael ei dwf, ei lawn dwf, *neu* ei lawn dyfiant; wedi cyrhaeddi ei lawn dwf; gwedi llawn dyfu; llawndwf.
Full-hearted, *a.* calonog; llawn gwroldeb, llawn hyder.
Full-hot, *a.* poethlawn; poeth i'r eithaf; eithaf poeth.
Fulling, *s.* (o *full*) panu, paniad, panfa, pàn.
Fulling mill — melin bàn, melin banu, pandy.
Full-laden, *a.* llawn lwythog; tan ei lawn lwyth, llwythlawn.

Full-manned, *a.* cyflawn ddiwall o wŷr; cyflawn o wŷr.
Full-mouthed, *a.* ceglawn, cegagored; â chanddo lais croew, cryf, *neu* uchel.
Full-orbed, *a.* cyfangrwn, rhodlawn, llawngylchog; fel llawn lleuad; fel cyfaullŵer; lloergantog.
Full-spread, *a.* llawndaen, llawn daenedig; taenedig i'r eithaf; eithaf taenedig.
Full-stomached, *a.* â chanddo gylla llawn *neu* orlawn; llawn ei gylla; tyn-gyllaog, llawngyllaog.
Full-stuffed, *a.* tynsecedig, tynsechedig; gwedi ei sagio hyd yr eithaf; saglawn.
Full-summed, *a.* cyflawn-ranog; cyflawn yn ei holl ranau.
Full-winged, *a.* llawn-adeiniog; adeinfawr; parod i hedfan; awyddus, awchus.
Fully, *ad.* yn llawn, yn gyflawn, yn gwbl, yn hollol, yn gyfan; yn hen.
I am fully persuaded—mae yn gwbl sicr genyf.
Fulmar, *s.* (*foul martin?*) ffwlbart, gwichyll, gwichyn, gwichydd.
Fulmar, *s.* gwylan y graig, creigwylan.
Fulminant, *a.* (Ll. *fulminans*) taranol, taranllyd, taranus, yn taranu; bygythiol, bygylus.
Fulminate, *v.* (Ll. *fulmino*) taranu, taranu allan; ffrwydro, trystio; bwgwth, bygylu.
Fulminate, *s.* cymmysgedd ffrwydrol, trwydol, *neu* drystiol; trwydblith, trwydfysg.
Fulmination, } *s.* taraniad; ffrwydrad, trystiad,
Fulminating, } trwydiad, ysgortiad; bygythiad, bygyliad.
Fulminating compounds — cymmysgion ffrwydrol, trwydol, arysteiniol, *neu* drystiol; trwydblithion, trwydfysgion.
Fulminatory, *a.* taranol, taranllyd, taranus, taraniadol; yn taranu bygythion; bygythiol, bygylus; yn taraw â dychryn.
Fulmine,† *v. a.* (Ll. *fulmino*) taranu.
Fulminic Acid, *s.* sur taranig, sur ffrwydrig.
Fulness, *s.* (o *full*) llawnder, llawndid, llewndid, llawndra, cyflawnder, cyflawnedd, llawnedd, llawnaeth, cyflawndra; gwala, digonedd; hawg.
Fulsome, *a.* (S. *ful*) chwydlyd, chwydus, chwydog, gorchwydus, gorchwydol, gwrthwynebus, gwrthwyneblyd, alarllyd; cas, adgas, ffiaidd, brwnt, aflan, anmhur; anhyfryd gàn ei felused; mws, drewllyd; serth, serthaidd, serthus, trythyll, anllad, chwantus, chwantaidd.
Fulsomeness, *s.* chwydlydrwydd, chwydusrwydd, chwydogrwydd, gwrthwyneblydrwydd, alarwch; adgasrwydd, ffieiddrwydd, ffieiddwch; mysni, drewdod; serthedd, trythyllwch, chwantusrwydd.
Fulvid, } *a.* (Ll. *fulvus*) melyn, melynliw;
Fulvous, } saffrymliw; melyngoch.
Fumado, *s.* (Ll. *fumus*) pysgodyn coch, pysg coch, pysg mygedig, pysg sychfygedig; pysg wedi eu sychu yn y mwg.
Fumage, *s.* (Ll. *fumus*) treth aelwyd, mygdreth, treth simneiau, tâl aelwydydd, treth aelwyddd.
Fumarate, *s.* (Ll. *fumus*) myghalan: *pl.* myghalion.
Fumaria, *s.* (Ll. *fumus*) mwg y ddaiar, tudfwg.
Fumaric Acid, *s.* (Ll. *fumus*) sur mygarig, sur tudfwg.
Fumble, *v.* (Is. *fommelen;* D. *famlen;* Sw. *famla*) palfalu, ymbalfalu; trîn yn chwithig; bod *neu* fyned yn lledchwith yn nghylch peth; gweithio yn anghelfydd *neu* anfedrus; ceisio gwneuthur yr hyn nis medr un arno; bongleru; trin llawer ar; ceisio yn drwsgl; crugio yn nghyd.
Fumbler, *s.* palfalwr, ymbalfalwr, bongler, bwngler, bonglerwr, trysglyn, un trwsgl, un trwstan, musgrellyn, anfedrusyn.
Fumblingly, *ad.* yn anfedrus, yn anhyfedr, yn anghelfydd, yn fongleraidd, yn anghyfarwydd, yn drwsgl; dàn ei ddwylaw; fel newyddian.
Fume, *s.* (Ll. *fumus*) mwg, mygdarth, ager, agerdd, tarth, anwedd, anwydd, agerw; broch, ffroch, dig, digder, ffromder, sor, digofaint, soriant, poethder; oferdyb, coegdyb.
Fume, *v.* mygu, ysmygu, ysmwcio, mygdarthu, tarthu, ageru, anweddu; mygsychu; rhoi *neu* sychu yn y mwg; perarogli, perfygu; brochi, ffrochi, ffromi, sori, digio, llidio, ymddigio.
Fumeless, *a.* difwg, didarth, heb fwg.
Fumet, *s.* (Ff.) tom hydd, cagl hydd, hyddgagl.
Fumette, *s.* (Ff.) drewdarth, drewsawr cigfwyd.
Fumid, *a.* (Ll. *fumidus*) myglyd, tarthlyd, tarthog, anweddog, tarthus, mygdarthog.
Fumidity, *s.* myglydrwydd, tarthlydrwydd, tarthogrwydd, tarthusrwydd, tarthusedd, tarthusdra, mygdarthogrwydd.
Fumiferous, *a.* (Ll. *fumifer*) mygddwyn, mygol, tarthol, tarthus; yn dwyn *neu* gynnyrchu mwg.
Fumifugist, *s.* (Ll. *fumus* a *fugo*) mygdarfwr, mygdarfydd, mygymlidydd; un â yro fwg ymaith; gyrwr mwg drwg i'w dref.
Fumigant, *a.* (Ll. *fumigans*) mygol, tarthol, yn mygu.
Fumigate, *v. a.* (Ll. *fumigo*) mygu; mygdarthu, perfygu, perdarthu.
Fumigation, *s.* (Ll. *fumigatio*) mygiad, mygiant; mygdarth, tarth; mygdarthiad.
Fumigatory, *a.* mygiadol; myglanhaol.
Fuming, *p.* yn mygu, mygol, anweddol, tarthol, tarthiadol; ffrom, brochus, ffroch, digus, digofus, digllawn, anfoddog.
Fuming liquor—myghylif, hylif mygol, myglyn, mygwy, gwlybwr mygol.
Fumish, *a.* (o *fume*) myglyd, tarthlyd; poeth; brochaidd, brochus, dig, ffrom, hygawdd.
Fumitory, *s.* (Ll. *fumaria herba;* Ff. *fumeterre*) mwg y ddaiar, tudfwg.
Common fumitory—mwg y ddaiar cyffredin, mwg y ddaiar meddygol.
Ramping fumitory—mwg y ddaiar afreolus.
White climbing fumitory—mwg y ddaiar gafaelgar.
Hedge fumitory—mwg y perthi.
Fumous, } *a.* (o *fume*) mygol, tarthol, myg-
Fumy, } darthol, myglyd, tarthlyd, tarthog, tarthus, mygdarthog, llawn tarth.
Fun, *s.* (Al. *wonne*) difyrwch, digrifwch, ysmalwch, sarllach, arabedd, cellwair; dywenydd, llawenydd, llawenwch, gwenydd; chware.
For fun—er difyrwch, er digrifwch, er llawenydd; er mwyn difyrwch; er mwyn chwerthin am ei ben; er mwyn cael chwerthin am ei ben; er mwyn iddo fod yn gyff cler.
Funambulate, *v. a.* (Ll. *funis* ac *ambulo*) rhaff-

rodio, rhaffddawnsio, cerdded ar raff, cerdded rhaff, rhaffgerdded.

Funambulatory, *a.* rhaffrodiol, rhaffddawnsiol; yn gwneuthur fel rhaffddawnsiwr; cul fel rhodfa rhaffgerddwr.

Funambulist, Funambulo, Funambulus, *s.* (Ll. *funambulus*) rhaffddawnsiwr, rhaffrodiwr, rhaffgerddwr; dawnsiwr, cerddwr, *neu* rodiwr ar raff.

Funaria, *s.* (Ll. *funis*) rhaff-fwsogl, rhaff-fwswn, rheffyn-fwsogl.

Function, *s.* (Ll. *functio*) swydd, swyddogaeth, galwad, galwedigaeth, gweinidogaeth; gwneuthuriad, gwasanaethiad, *neu* gyflawniad swydd; teithi, atheithi, gallu, galluedd, dawnedd; swyddall, swyddallu; gwaith.

Functional, *a.* swyddol, swyddogaethol, galwadol; perthynol i deithi; teithïol; perthynol i swyddau.

Functionary, *s.* swyddog, swyddwr, un mewn swydd.

Fund, *s.* (Ff. *fond;* Ll. *fundus;* Ysp. *fondo, funda*) trysorgyff, argyffre, ariansawdd, trysorfa, trysorged, cyff, ariangyff, ariangrawn, ystorged, ystorgyff, cynsawdd, cyn-eiddo, cyn-alaf, cyfalaf, cynsum, dylged, sawdd, gwaelod; elw; dyled y wlad; ystôr, toraeth, llawnder, haflug, amlder, digonedd; arian.

Funds in the bank—cedsoddion, ariansoddion y banc, trysorgyffion yr ariandy.

Sinking fund—trysorgyff sawdd, soddged, soddgyff, talsawdd.

Consolidated fund—cydsawdd, cydargyffre, cyfnofant, cydgyllid.

Public funds—soddion cyhoeddus, ariansoddion cyhoeddus, dylgedion cyhoedd; dyled y wlad, dyledsoddion.

Fund, *v. a.* ariansoddi, trysorgedu, ystorgedu, trysorgyffio; gwneuthur trysorfa *neu* drysorgyff; gosod arian mewn trysorfa.

Funded property—da sawdd, eiddo sawdd, elw sawdd; eiddo mewn trysorfa, trysorged, ystorged, *neu* ystorgyff.

Funding system—cyfundrefn ariansoddol, cyttrefn soddol, cyttrefn sawdd.

Fundament, *s.* (Ll. *fundamentum*) cyfeistedd, y cyfeistedd, yr eisteddfa, yr eisteddfod, rhefr, cwthr; †sylfaen.

The falling down of the fundament—syrthiad yr eisteddfod.

Fundamental, *a.* sylfaenol; o'r sail, o'r sylfaen, o'r sylfan, bonsangus; perthynol i'r sail *neu* sylfaen; gwreiddiol; hanfodol; prif, penaf, arbenig, arbenicaf.

To err fundamentally—cyfeiliorni mewn pynciau sylfaenol *neu* hanfodol; cyfeiliorni mewn pethau hanfodol *neu* sylfaenol; cyfeiliorni yn y sylfaen.

Fundamental note — seilnod, cyweirnod, cyweirsain.

Fundamental law—deddf hanfodol, cynraith, cynddeddf.

Fundamental, *s.* peth sylfaenol, gwreiddiol, *neu* hanfodol; rhan hanfodol; prif bwnc, pwnc sylfaenol; cyssail, seilwaith.

The fundamentals of the christian faith—sylfaenolion y ffydd gristionogol; pynciau sylfaenol y ffydd gristionogol; hanfodolion Cristionogaeth; prif bynciau y ffydd gristionogol.

Fundless, *a.* diged, diarian, diariansawdd, heb drysorgyff, heb drysorfa.

Funebrial, Funebrious, † *a.* (Ll. *funebris*) angladdol, arwyliannus; perthynol i angladdau *neu* arwyliannau.

Funeral, *s.* (It. *funerale;* Ff. *funerailles;* Ll. *funus*) angladd, arwyl, arwyliant, cladded igaeth, cynhebrwng, canhebrwng, arwyledigaeth.

To make a funeral—gwneuthur arwyl.

Funeral, *a.* angladdol, arwyliannus, arwyliannol, arwylawl; perthynol i angladd.

Funeral obsequies, Funeral exequies, Funeral solemnities, arwyl, arwyliant, defodau angladdol, defodau angladd, defodau arwyl, arwyl-ddefodau, arwyl-wasanaeth.

Funeral procession—cynhebrwng, canhebrwng, gorymdaith angladdol.

Funeral pile — mygedorth, coelcerth angladdol, pentwr angladdol=tanllwyth i losgi cyrff meirw.

Funeral song—cân angladdol, cân angladd, cân arwyl, arwylgerdd, galargerdd wrth gladdu un; marwnad.

Funeral torches—canwyllau angladd, canwyllau arwyl, ffaglau angladdol.

To perform funeral obsequies—arwyllianu; cyflawnu defodau angladdol.

Funeral feast — gwledd arwyl, gwledd angladdol, gwledd angladd.

Funeration,† *s.* (Ll. *funeratio*) arwylad, cadwad arwyl.

Funereal, *a.* angladdol, arwyliannol, arwyliannus; priodol *neu* berthynol i angladd; tywyll, gwrm, prudd, trist, athrist, tristlawn, alaethus, galarus, allwynig, allwynin, agro, erch.

Funest,† *a.* (Ll. *funestus*) galarus, alaethus.

Fungal, *a.* (o *fungus*) ffyngol; perthynol i ffwng.

Fungate, *s.* (o *fungus*) ffynghalan; *pl.* ffynghalion.

Funge,† *s.* (Ll. *fungus*) un pen feddal, un penfasw, penblydd, pendew, penbwl, ffwl, ffwlcyn, ynfyd.

Fungi, *s. pl.* (Ll.) ffyngoedd, medyrch, ffyngryw.

Fungi of trees—callod coed, callodr coed, ffyngoedd coed.

Fungia, *s.* (o *fungus*) ffyngwylar.

Fungic, *a.* (o *fungus*) ffyngig, madarchig; à geir o fedyrch *neu* ffyngoedd.

Fungic acid—sur ffyngig, sur madarchig.

Fungiform, *a.* (Ll. *fungus* a *forma*) ffyngaidd; ar lun *neu* ddull ffwng; yn terfynu fel copa ffwng.

Fungin, *s.* (o *fungus*) ffyngnur, ffyngain=math o ddansawdd à geir mewn ffyngoedd.

Fungite, *s.* (o *fungus*) ffyngith, ffyngwylarfaen =math o wylar cloddelig.

Fungivorous, *a.* (Ll. *fungus* a *voro*) ffyngysol; yn byw ar ffyngoedd; yn ymborthi ar fedyrch; yn ysu bwyd y barcud.

Fungoid, *a.* ffyngaidd, madarchaidd, madalchaidd; ar ddull madarch.

Fungosity, *s.* ffyngeiddrwydd; gorthyfiant tyner, gorthwf masw; cig marw.

Fungous, *a.* (o *fungus*) ffyngaidd, madarchaidd, madalchaidd, ffyngol, madarchol; masw, maswy, meddal, tyner, ysbyngaidd; gorthyfol, gordyfol; mandyllog fel ysbwng; ysgafn a thyllog fel madarch.

Fungus, *s.* (Ll.) ffwng, madarch, madalch, bwyd ellyllon, bwyd y barcud, bwyd y llyffant,

caws y llyffant, bwyd llyffant, caws llyffant; cig marw, cig balch, meddalgig, gorthwf masw.

Funicle, *s.* (Ll. *funiculus*) rhaffan, rheffyn, cordyn, corden; llinyn; llinionyn, edefyn; hadgoesig, hadgoesen.

Funicular, *a.* rheffynaidd, cordynaidd, cortynaidd, llinynaidd, llinionynaidd, edefynaidd, manedafeddol, manlinynaidd.

Funicular machine—peiriant rhaffol, rhaffermig.

Funk, *s.* (Ff. *fange;* Llyd. *fancq?*) drewsawr, drewdod, tagfwg, drewi, drew, mwg drewedig, tarth drewedig, tawch.

To be in a funk—bod allan o'i hwyl; bod â'r sorglwyf arno; bod â'r pwd arno; bod yn y sorglwyf; bod yn ddrwg ei dymmer; bod mewn tymmer *neu* natur ddrwg; bod yn ddrygnwydus, anniddig, *neu* anhyfodd; bod mewn cyffro.

Funk, *v.* drewi, drewsawru, tagfygu; llanw â drewdod; drewi drwy *neu* gàn ofn.

Funnel, *s.* (C. *ffynel*) ffynel, ffynell; ceg, pibell, corn, *neu* lwnc simnai; twmffed, ffiol geg; ceudwll, carthdwll, pibell.

Funnel of a kiln—piben odyn.

Funnelform, Funnelshaped, *a.* ffynelaidd, ffynellaidd, twmffedaidd; ar lun twmffed; tebyg i dwmffed.

Funny, *a.* (o *fun*) digrif, difyr, ysmala, digrifol, cellweirus, arabeddus, dysmal, arab, difyrlon, digriflan, digriflawn, llawen.

Funny, *s.* bad ysgafn, ysgonfad.

Fur, *s.* (Ff. *fourrure;* C. *ffwrw?*) pân, ffwrw, ffwrwr, mynfyr, manflew, goflew; blew; blewgroen; blewgrwyn; cen, crest, cresten.

A skin of fur—mynfyrgroen, pan-groen, blewgroen; croen wedi ei drin â'r blew arno.

Furred—cotymog, panog.

Fur-wrought—à wnaed o ffwrw; gwneuthuredig o bân *neu* fynfyr.

Fur, *v. a.* cuddio, gwisgo, *neu* wynebu â phân; gosod *neu* roddi ffwrw ar; panwisgo; cenu, crestu, crestenu; gwynebu âg astell, astellwebu.

To fur a vessel—tynu ymaith y planciau nesaf i mewn, a'u rhoi ar ystlys llong o'r tu allan; astellwebu llong.

Furacious, *a.* (Ll. *furax*) lladradgar, lledradgar, lladronllyd, lladronaidd, lladraidd, lladradaidd, lleidrynaidd, chwiwgar, chwiwgïaidd; tueddol i ladrata; chwannog i ladrata.

Furacity, *s.* (Ll. *furacitas*) lladradgarwch, lledradgarwch, lladreiddrwydd, lladronllydrwydd, chwiwgarwch, lladradnwyd.

Furbelow, *s.* (Ff., It., ac Ysp. *falbala*) amadrwy, sider, amaerwy, amsider, sidergylchau.

Furbelow, *v. a.* amaerwyo, amsideru, sidergylchu; rhoi amaerwy ar; addurno âg amsider.

Furbish, *v. a.* (It. *forbire;* Ff. *fourbir*) caboli, gloewi, llugeinio, lluganu, llathru, ysliparu; gwneuthur yn ddysglaer, yn loew, *neu* yn llathr; dirydu, rhwbio.

Furbishable, *a.* caboladwy, llugeiniadwy.

Furbisher, *s.* llugenydd, llugeinydd, lluganwr, cabolydd, cabolwr, llathrwr, llathrydd, ysliparwr.

Furbisher of arms—llugenydd arfau.

Furcate, Furcated, *a.* (Ll. *furca*) fforchog.

Furcation, *s.* fforchogiad, fforchiad, gaflachiad.

Furche, *s.* (Ff. *fourche;* Ll. *furca*) croes fforchog.

Cross furche—croes fforchog.

Furcula, *s.* (Ll.) fforchasgwrn, yr asgwrn fforchog (mewn ehediaid).

Furdle,† *v. a.* (Ff. *fardeau*) sypynu.

Furfur, *s.* (Ll.) mardon, marwdon, mandon, ysgen, cen; eisin.

Furfuraceous, *a.* (Ll. *furfuraceus*) mardonog, mardonol, cenog, ysgenog; eisinaidd, eisinog.

Furiosant, *a.* (Ll. *furiosus*) ffrowys, ffrochus, ffrychwyllt.

Furies, *s. pl.* (Ll. *furiæ*) trenesau, treniaid, ellyllon, trenigiaid, trenigion, cethern, deraon, cethern uffernol, ellyllon uffernol, plant y fall, teulu uffern, cythreuliaid, seri.

Furious, *a.* (Ll. *furiosus;* Ff. *furieux*) ffyrnig, cynddeiriog, ffrochwyllt, brywyllt, enwyllt, ffromwyllt, gorwyllt, brochus, ffrochus, ffroch, trachwyllt, rhychwyllt, angerddol, dywal, ethrywyllt, trywyllt, gwyllt, ynfyd, nawswyllt, gwylltnaws, tanbaid, tren, tryn, trenig, trenus, llidiog, llidus, ffroddus, gwythlawn, gwaened, dibwyll, iwin, gwallgofus, gorphwyllog.

To grow furious — ffyrnigo, ymffyrnigo, cynddeiriogi, ymgynddeiriogi; myned yn ffyrnig, &c.; llidio, digio, brochi, gwylltio, creuloni, ymgreuloni.

To make furious—gyru yn gynddeiriog, &c.; gyru yn ynfyd; gwneuthur yn ffyrnig.

Furiousness, *s.* ffyrnigrwydd, cynddeiriogrwydd, cynddaredd, ffrochwylltrwydd, brywylltrwydd, brywylltineb, brochusrwydd, brochusdra, ffrochusrwydd, enwylltrwydd, ffromwylltrwydd, llidiogrwydd, trenusrwydd, trenusdra, trenusdeb, trenusder, dywalder, angerddoldeb; gwallgof, gorphwyll, llerth, ynfydrwydd, gwallgofrwydd, gorphwylledd.

Furl, *v. a.* (Ff. *ferler*) plygu, attorchi, damblygu, asblygu, dyblygu, cymhlygu, hwylgrychu, crychu, torchi, rhwymo, clymu.

Furling line—llinyn crychu hwyl, llinyn rhwymo hwyl; y tennyn â pha un y clymir *neu* y rhwymir hwyl.

Furlong, *s.* (S. *furlang*) ystaden, ystâd: *pl.* ystadau=yr 8fed ran o filltir.

Furlough, *s.* (Is. *verlof;* Al. *urlaub;* D. *forlov, orlov*) ymabseneb, abseneb, eswyddeb; cenad ymabsen, ysgrif ymabseniad; cenad i filwr ymabsenu o'r fyddin dros amser penodol.

Furlough, *v. a.* absenebu; rhoi cenad i ymabsenu; rhoi abseneb *neu* eswyddeb i; caniatäu ymabsenu dros amser penodol.

Furmenty, *s.*=*Frumenty.*

Furnace, *s.* (Ff. *fournaise, fourneau;* Ll. *fornax*) ffyrnes, ffyrnais, ffwrn, odyn, cyl, cylyn, ffoc, creisier; pair, callor; piben.

The furnace of a kiln—piben odyn.

Furnace, *v. a.* ffyrneisio, ffyrnio; gwreichioni fel ffwrn.

Furniment,† *s.* (Ff. *fourniment*) dodrefn, eelfi.

Furnish, *v. a.* (Ff. *fournir;* It. *fornire*) cynnysgaethu, cynnysgaeddu, diwallu, digoni, cynnal; darparu, cyflenwi, arlwyo; dodrefnu, trecio, taclu, addurno, cyweirio, trefnu, trwsio; llenwi, llanw, llwytho, ystorio; rhoddi, anrhegu.

To furnish a house—dodrefnu ty; cyflenwi

ty â dodrefn; rhoi dodrefn mewn ty; taclu ty, trefnu ty.
To furnish a table—arlwyo bwrdd, hulio bwrdd, trefnu bwrdd; gwneuthur bwrdd yn drefnus.
To furnish with necessaries—dïangenu; cynnysgaeddu â rheidiau.
And the wedding was furnished with guests—a llanwyd y briodas o wahoddedigion.
Furnish thyself to go into captivity—gwna i ti offer caethglud (*Ier.* xlvi. 19); cais i i ti offer caethglud.
He furnished them with all things convenient — efe a osododd yno pa bethau bynag oedd gymhwys (1 *Mac.* xiv. 34).

Furnished, *a.* cynnysgaethedig, &c.; cynnysgaethol, cynnysgaethog; cyflawn, llawn, diwall.
Furnished (in heraldry)—treciedig, seirchiedig; mewn cyflawn drec.
Furnished for — cymhwys i; gwedi ei gymhwyso i.
Furnished with — â chanddo, âg iddo; gwedi ei gynnysgaethu â, &c.
Well furnished with—llawn o, cyflawn o, diwall o.
Furnished house—ty dodrefnedig, treciedig, *neu* dacledig; ty â dodrefn ynddo.
Throughly furnished unto all good works—gwedi ei berffeithio i bob gweithred dda; gwedi ei gyflawn ddarparu i bob gweithred dda (2 *Tim.* iii. 17).
A large upper room furnished and prepared—goruwchystafell wedi ei thaenu yn barod (*Marc* xiv. 15).
Rich men furnished with ability — gwŷr cyfoethogion cedyrn o nerth (*Eccles.* xliv. 6).

Furnisher, *s.* cynnysgaethwr, cynnysgaethydd, cynnysgaeddwr, darparwr, darparydd, dodrefnwr, treciwr, diwallwr, diwellydd, arlwywr; darparwr *neu* weinydd mewn angenrheidiau; cynnaliwr *neu* gynneilydd un mewn angenrheidiau; cyflenwydd.

Furnishment, *s.* dodrefniad, treciad, diwalliad, cynnysgaethiad, darpariad, arlwyad, cynnaliaeth, cyflenwad.

Furniture, *s.* (Ff. *fourniture*) dodrefn; trec, taclau, celfi, dyodrefn, llestri; addurn; addurnau, addurniadau; arfau; offer; arlwyau; trefnau.
Household furniture, } dodrefn ty, celfi
Furniture of a house, } ty.
A piece of furniture—dodrefnyn.
Bed and its furniture—gwely a'i gylchedau.
All the furniture of the tabernacle—holl ddodrefn y babell; holl lestri y babell.

Furor, *s.* (Ll.) gorphwyll, llerth, gwŷn, ffrooh, cynddaredd, gwylltineb, angerdd, penboethni, brwdfrydedd.

Furrier, *s.* (o *fur*) mynfyrwr, panfaelier, panfaelwr, panfasnachwr, masnachydd pân, masnachwr ffwrw, blewgrwynwr.

Furring, *s.* (o *fur, v.;* Ff. *fourer*) distarn, distlain; darnau o goed à hoelir ar ddistiau.

Furrow, *s.* (S. *fur, furh;* Al. *furche*) rhych; cwys, ffynegl; rhigol, sylch, ffos.
A little furrow—rhychan, rhychyn, cwysig, cwysyn, rhigolyn, sylchyn.
Furrow by furrow—bob yn rhych; bob yn gwys; yn rhychau; yn gwysau.
Water furrow—rhych y dwfr, rhych y dwr, dyfrgwys, dyfrffos.
To make furrows—rhycho, rhychu, cwyso, sylchu, rhigoli; gwneuthur cwysau; gwneuthur rhychau; tori yn gwysau.
Furrow-draining—rhych-hysbyddu, rhych-ddysbyddu.

Furrow, *v. a.* (S. *fyrian*) rhychu, rhycho, cwyso, ffyneglu, sylchu, rhigoli; gwneuthur rhychau; gwneuthur cwysau *neu* gwysi; tori yn gwysau; aredig, arddu.

Furrowed, *a.* rhychog, cwysog, ffyneglog, sylchog, rhigolog; rhychedig, cwysedig, sylchedig; â rhychau ynddo.

Furrowfaced, *a.* gwynebrychog, gwynebgrych, gwynebgwysog, rhychwynebog; talgrych.

Furrow-weed, *s.* rhychlys.

Furry, *a.* (o *fur*) panog, mynfyrog; â phân arno; â ffwrw arno; blewgroenog.

Further, } *a.* (S. *further, forther*) pellach; mwy
Farther, } pell, mwy pellenig, &c.; mwy y tu hwnt; hwy, meithach; hirach; pellaf; chwanegol.
Further of two—pellaf; eithaf, olaf.
Further in—pellach i mewn; nes i mewn; yn nes i mewn.
Further out—pellach allan; nes allan; yn nes allan.
The further Spain—yr Yspaen bellaf, yr Yspaen eithaf, Yspaen alltra.
On the further side—y tu hwnt, y tu draw; ar y tu draw; ar y làn draw; alltra.
In the further end of the third book—yn niwedd y trydydd llyfr; yn mhen olaf y trydydd llyfr.
Without further question—heb ymofyn yn mhellach; heb ymofyn pellach.
To go forth into a further country—myned ymaith i wlad bellach.

Further, } *ad.* yn mhellach, pellach; yn fwy
Farther, } pell; yn fwy, mwy, mwyach; yn feithach; heb law hyn; dros ben hyn; am ben hyn; hefyd, eto.
Further and further — pellach bellach; bellach bellach; yn bellach bellach; bellbell; yn mhellach bellach.
You will never be the further off for that—ni byddwch chwi ddim pellach oblegid hyny; ni fyddwch chwi ddim yn mhellach oblegid hyny; ni bydd hyny ddim yn rhwystr i chwi.

Further, } *v. a.* dwyn, hwylio, hwylusu, hwyl-
Farther, } uso, hawntio, *neu* symmud yn mlaen; rhwyddo, cyfrwyddo, hylwybro, hyrwyddo, rhwyddhau, hwylio, hwylusu, llwybreiddio, cynnorthwyo, hyfforddio; gyru *neu* gynnorthwyo yn mlaen.

Furtherance, *s.* (o *further*) dygiad, hwyliad, hawntiad, *neu* symmudiad yn mlaen; rhwyddhad, cyfrwyddawd, cyfrwyddiad, hyrwyddiad, hwyliad; llwyddiant, cynnydd; cynnorthwy, cymhorth, porth; trawaeth, trawed, rhaciant; taeniad.

Furtherer, *s.* dygwr yn mlaen; rhwyddhäwr, cyfrwyddwr, hwyliwr, hwylusydd, cynnorthwywr.

Furthermore, } *ad.* yn mhellach; heb law hyn,
Farthermore, } heb law hyny; am ben hyn; am ben hyny; gyda hyn; gyda hyny; hefyd; dyeithr hyn.

Furthest, } *a.* (S. *feorrest ;* Is. *verst*) pellaf,
Farthest, } eithaf, eithafig; olaf; mwyaf pellenig.
In the furthest part of the world—yn nghwr eithaf y byd.
Furthest, } *ad.* yn bellaf, yn mhellaf; o bellaf,
Farthest, } o'r pellaf, o eithaf, o'r eithaf; yn y fàn bellaf; yn y fàn eithaf.
At furthest, } o bellaf, o'r pellaf, o
At the furthest, } eithaf, o'r eithaf; o'r fàn bellaf; yn y fàn bellaf; o'r fàn eithaf.
To-morrow, or the next day at furthest—efory, neu drenydd o'r pellaf.
Furtive, *a.* (Ll. *furtivus*) lladradaidd, lladratedig, à ladratäwyd; lledradol; à fo lledrad.
Furuncle, *s.* (Ll. *furunculus ;* Ff. *furoncle*) llynoryn, ploryn, penddüyn, goryn, cornwyd.
Fury, *s.* (Ll. *furia, furor ;* Ff. *furie*) ffroch, broch, cynddaredd, cynddeiriogrwydd, ffyrnigrwydd, dywalder, angerdd, sar, gwŷn, bâr, llid, dig, digder, digofaint, llidiogrwydd, tanbeidrwydd, ynfydrwydd, gorphwyll, gwallgof, llerth, llerthedd, tren; gwynofaint, ffrwys; trenes, cythreules.
A fury—trenes, ellylles, dera, ffroches; cythreules: *pl.* treniaid, trenesau, trenigiaid, trenigion, deraon, cethern, cethern uffernol, ellyllon, seri.
Furze, *s.* (S. *fyrs*) eithin, aith, aeth: *sing.* eithinen.
Common furze — eithin ffreinig, eithin Ffrengig.
Needle furze—crach-eithin, eithin yr ieir, eithin yr iar.
Dwarf furze—eithin mân, aith mân.
Furze bush—llwyn eithin, eithinog.
A place where furze has been burnt standing—poethwal.
Furzy, *a.* eithinog; llawn eithin.
Furzy land — tir eithinog, eithindir, tir eithin.
Fuscation, *s.* (Ll. *fuscatio*) tywylliad, cust.
Fuscin, *s.* (Ll. *fusco?*) custnur.
Fuscite, *s.* (Ll. *fuscus*) custith=math o ddelidfaen à geir yn Norwy.
Fuscous, *a.* (Ll. *fuscus*) dulwyd, custlwyd, gwrm, tywyll, llwyd-ddu, llwyd.
Fuse, *v.* (Ll. *fundo, fusum*) toddi; ymdoddi, llyneiddio; cael ei doddi.
Fusee, *s.* (Ff. *fusée, fuseau*) chwerfan, chwarf; gwerthyd oriawr *neu* orlais.
Fusee, *s.* (Ff.) ergydel, llosbib, llosbibell; chwarfwn; ol traed hydd *neu* garw.
Fusibility, *s.* (o *fusible*) hydoddedd, hydoddrwydd, toddadwyedd, natur doddadwy.
Fusible, } *a.* (Ff.; Ll. *fusilis*) toddadwy, hy-
Fusile, } dawdd; o natur i doddi; hyred.
Fusiform, *a.* (Ll. *fusus* a *forma*) chwerfanaidd, gwerthydaidd; blaenfain, pigyrnol; yn meinhau at y blaen.
Fusil, *s.* (Ff. o'r Ll. *fusus*) chwarfwn, dryll ysgafn, llawddryll; chwerfan, côn dyblyg.
Fusilier, } *s.* (o *fusil*) chwarfynwr, chwarfynog,
Fusileer, } chwarfynsawdiwr, milwr gŵn ysgafn: *pl.* chwarfynwyr, chwarfyniaid, chwarfynogion.
Fusion, *s.* (Ff.; Ll. *fusio*) toddiad, toddiant, toddedigaeth; tawdd.
Fusome, *a.* hardd, tlws, hynod, nodedig.
Fuss, *s.* (Gr. *phusaô*) trafferth, ffwdan, ffwndwr, cynhwrf, trabludd, terfysg, trybestyd, trybestod, heldrin, helgur, gwag helynt, ffrwst, dadwrdd, brythwch, dyfysgi, trybest.
Fussock, *s.* tolpen, cloben, tylffen.
Fussy, *a.* (o *fuss*) llawn trafferth, &c.; ffwdanus, trafferthus, ffwdanfawr, trybestog.
Fust, *s.* (Ll. *fustis ;* It. *fusta ;* Ff. *fût*) paladr colofn, pillgorff.
Fust, *s.* (Ff. *fût*) drewdod, drew, drewi, drewsawr, mysni.
Fust, *v. n.* drewi; bod yn fws *neu* ddrewllyd; bod wedi llwydo.
Fusted, *a.* gwedi llwydo, llwyd, llwydlyd; mws, drewedig, drewllyd, drygsawrus; â gwynt llwyd, mws, *neu* henaidd ganddo.
Fustet, *s.* (Ff. ac Ysp. *fustete*) llebwyddig, llebwydden ieuanc=math o bren tramor.
Fustian, *s.* (Ff. *futaine ;* Ysp. *fustan*, enw lle) ffwstian, cotymwe; chwyddiaith, ieithwedd chwyddedig, dull mawreiriog.
Fustian, *a.* â wnaed o ffwstian *neu* gotymwe; chwyddedig, chwyddieithog, chwyddieithol, mawreiriog, ffrostieithol, sonfawr.
Fustianist, *s.* chwyddieithwr, ysgrifenwr chwyddiaith, ysgrifenydd chwyddedig.
Fustic, *s.* (Ysp. *fuste ;* Ll. *fustis*) llebwydd; *sing.* llebwydden=math o bren lliw.
Fustigate, *v. a.* (Ll. *fustigo*) ffusto, ffonodio, ffondorio, ffondori, llachio, pastyno, ystwyalu.
Fustigation, *s.* (Ll. *fustigatio*) ffustad, ffonodiad, ffondoriad, llachiad, pastynad, ystwyaliad.
Fustilarian, *s.* (o *fusty*) drewgi, bawddyn, bawyn, bawai, budryn, ffleirgi, dyhiryn: *pl.* drewgwn, bawach.
Fustilug, } *s.* torpwth, torpwth amrosgo, tylff-
Fustilugs, } yn, twlff o ddyn, twla, twrllach.
Fustiness, *s.* (o *fusty*) llwydni, llwydi, llwydedd; mysni, drewdod, drewllydrwydd, drewiant, drewi, drewsawr; gwynt mws, gwynt llwyd, gwynt henaidd.
Fusty, *a.* (o *fust*) llwyd, llwydlyd; â llwydni arno; mws, drewllyd, drewedig, trymsawr, drygsawrus; â gwynt llwyd, mws, *neu* henaidd ganddo.
To grow fusty—llwydo; myned yn llwyd.
To smell fusty—arogli yn fws, yn llwyd, yn drymaidd, *neu* yn henaidd; sawru yn fws, yn llwyd, yn drymaidd, *neu* yn henaidd; bod â sawr *neu* wynt yr hen arno; drygsawru, drygsawrio, drwg arogli.
Fusure, *s.* (Ll. *fusura*) toddiad, toddiant, toddedigaeth.
Futile, *a.* (Ff.; Ll. *futilis*) coeg, gwag, gorwag, oferwag, ofer, disylwedd, dibwys, diwerth, diddym, difudd, diles, anfuddiol, seithug, ysgafn; †siaradus, siaradgar, ffladr.
Futilely, *ad.* yn goeg, &c.
Futility, *s.* (Ll. *futilitas*) coegedd, gwagedd, gorwagder, gorwagedd, ysgafnder, gwegi, gwegyd, oferedd, diddymrwydd, diddymdra, anfuddioldeb, seithugrwydd, ysgafnder; †ffladredd, siaradgarwch.
Futilous,† *a.* (Ll. *futilis*) coeg, diwerth, gwag, ofer, difudd.
Futtock, *s. pl.* (o *foot-hook*, neu efallai o *foot-lock*) canolgoed llong, medgoed llong.
Ground futtocks — canolgoed isaf; canolgoed nesaf i'r gwaelod.
Upper futtocks—canolgoed uchaf.
Future, *a.* (Ll. *futurus ;* Ff. *futur*) dyfodol, dyfodadwy; i ddyfod, à ddaw, à fydd; â

fydd ar ol hyn; à fydd yn ol hyn; rhag llaw, dawedol, dawedadwy, deuawl; i fod.
Future tense—amser dyfodol.
Second future—ail ddyfodol.
The future judgment—y farn à fydd; y farn à ddaw.

Future, *s.* dyfodiant, amser dyfodol, amser à ddaw, amser i ddyfod, yr amser i ddyfod, yr amser rhag llaw.
For the future, } o hyn allan; o hyn i
In future, } maes; dros yr amser sydd yn ol; dros yr amser sydd i ddyfod; dros yr amser dyfodol; rhag llaw, mwyach, mwy.

Futurely,† *ad.* mewn amser i ddyfod.

Futurition, *s.* (o *future*) dyfodoliaeth; y cyflwr o fod ar ol hyn.

Futurity, *s.* (o *future*) dyfodiant, amser i ddyfod, yr amser i ddyfod, yr amser à ddaw, yr amser dyfodol, amser yn ol; yr hyn a ddaw; damwaen i ddyfod; dyfodoliaeth; peth dyfodol.
A long futurity—hirfaith amser i ddyfod; hir amser i ddyfod; hirfaith ddyfodiant.

Fuzz, *v. n.* (didadogaeth, medd *Johnson*) hedeg ymaith yn dilion, yn fân ronynau, yn demigau, yn fymrynau, yn ithion, yn lluwchion, yn hilion, *neu* yn rhonos; ithio, lluwchioni, tilioni; sïo, chwistrellu, ymchwistrellu.

Fuzz, *s.* tilion, rhonos, mân ronynau, temigau, mymrynau, ithion, tibion, lluwchion, hilion, rhytion, hedinion, mân deilchion, hedion.

Fuzzball, *s.* cwd y mwg, coden hyred, coden euraid, coden eurych, coden fwg, pwff y mwg, mwg y ddaiar, mwydon y ddaiar; pwff, piff.

Fuzzle, *v. a.* meddwi, brwysgo; gwneuthur yn feddw.

Fy, } *in.* (Al. *pfui*; Gr. *phew*; Ff. *f*) ffei! ffi!
Fie, } hach! ffach! wfft! rhag cywilydd! ffwrdd! wb!

G.

Gab, *s.* (D. ac Ysg. ; Sw. *gap*) geneu, safn, ceg.
The gift of the gab—dawn llafaru, dawn siarad, dawn ymadrodd, dawn ymadroddi ; siaradgarwch, dywedgarwch, chwedleugarwch.

Gab, *v.* clebran, baldorddi, llolian, bragaldian, clolian.

Gabardine, *s.* (Ysp. *gabardina*) mantell werddonig, bugeilwisg; mantell gedenog, arwisg arw, gwisg wael.

Gabble, *v. n.* (Is. *gabberen*) clebran, baldorddi, baldordd, baldorfi, bragaldian, bragaldio, llolian, llolio, clolian, chwaldodi, gwagsiarad, ofersiarad, pepru, pepra, pebra, parablain, brygawthan, ffregu, ffregodi, dadwrdd, dwndro, clegyr, clebarddu, cleca ; cogor, ffrecio, trydar, rhuo.
The gabbling of geese—clegar, clegyr, clegr, ffrec, gregar, *neu* siarad gwyddau.

Gabble, *s.* clebar, clec, clegar, clegyr, baldordd, clincwm, ffreg, ffrec, chwaldod, chwaldordd, ffregod, ffregawd, peprwn, pepraeth, pebre, llol, gwagsiarad, ofersiarad, siaradach, dwndwr ; cogor, trydar.

Gabbler, *s.* bragaldiwr, baldorddwr, clebryn, gwagsiaradwr, siaradwr, lloliwr, llolyn, pepryn, clepai, cloliwr, clebarddwr, clebarddyn, ffregodydd, chwaldodwr, bragaldyn, dwndrwr : *f.* clebren, clebardden, pepren, chwaldodes.

Gabbro, *s.* (It.) math ar ddelidfaen.

Gabel, } *s.* (Ff. *gabelle ;* S. *gafel, gafol*) treth,
Gabelle, } cyllid, toll, ardreth, tâl, teyrnged ; treth ar halen.

Gabeler, *s.* trethgasglwr, casglwr trethi.

Gabion, *s.* (Ff.; It. *gabbione*) differgawell, caergawell=cawell mawr, llawn o bridd, arferedig mewn amddiffynwaith.

Gabionade, *s.* caergawelliaeth, cawellwaith ; amddiffynwaith o gewyll llawn o bridd.

Gable, *s.* (C. *gafael*, yn ol y Dr. *Webster;* Al. *giebel*, yn ol *Craig*) piniwn, gafael, piniwn ty, gafael ty, tâl ty ; talcen ty o'r bargod i'r trum.
Gable-end of a house—piniwn ty, talcen ty, gafael ty.
Gable-window—talffenestr, ffenestr biniwn, ffenestr dalcen.

Gablet, *s.* (o *gable*) piniynyn, gafaelyn, gobiniwn, ffenestr dalcen.

Gablocks, *s. pl.* ysbardunau ffugiol (à roir ar geiliog ymladd).

Gabronite, *s.* delidfaen à geir yn Norwy.

Gad, *s.* (S. ; Gw. *gadh*) llafn o ddur, gaing, cŷn, clamp ; crifell, cerfyllyr, crifyr ; trydyllyr.

Gad, *v. n.* (Gw. *gad*, yn ol *Webster ;* C. *gadaw*, yn ol *Iunius*) gwibio, crwydro, rhodiena, rhodiana, gwibrodio, rhedegfan, amwibio, gwibeta ; myned o le i le ; rhedeg yma ac acw ; darymred, daramred, hwntian, rhodio, rhodo, crwydwibio.
To gad abroad, } rhodiena o amgylch ;
To gad about, } gwibiaw o amgylch ; myned o le i le ; gwibeta o dy i dy.
An itch to be gadding abroad—crwydrwyn, crwydrwaew.

Gadabout, *s.* rhodienydd, rhodienwr, rhodianydd, rhodianwr, gwibiad, crwydriad, clebarddyn, (*f.* clebardden).

Gadder, *s.* rhodienwr, rhodienydd, rhodianwr, rhodianydd, gwibiad, crwydrad, crwydryn, rhodiadur, rhodiad, rhodiwr, crwydrwr, crwydrai, gwibiawdr : *f.* rhodienai, chwilast, gwibiodres.

Gadding, *p.* yn gwibio, gàn wibio, &c. ; gwibiog, amwibiog, amwibiol, crwydrol, crwydus, rhodianol, rhodienol, rhodiol, rhodol.
Gadding gossip—rhodienai, rhodienwraig, gwibiodres, crwydrwraig, chwilast, clebardden, clebren, clecai, clepai, clecai rodienol ; un yn gwibiaw o dy i dy gàn chwalu chwedlau ; un yn gwibeta ar draws tai.
The gadding wine—y winwydden amwibiog.

Gaddingly, *ad.* yn wibiog, ar wib, ar grwydr, ar dramp.

Gadfly, *s.* (S. *gad* a *fly*) cacynen y meirch, marchgacynen, creyryn, crëyr, clyryn, cleren : *pl.* cler, clyr, cacwn y meirch.
Black gadflies—cler duon.
Brown gadflies—cler llwydion.

Gadidæ, *s. pl.* (Ll. *gadus*) y pysg penfras.

Gadolinite, *s.* (oddi wrth yr Entraw *Gadolin*) math o ddelidfaen.

Gadwall, }
Gadwell, } *s.* y gorshwyad lwyd.

Gaff, *s.* (Gw. *gaf ;* S. *geaffe*?) tryfer, mordryfer ; enfach ; osglath.

Gaffer, *s.* (S. *gefere*? Sw. *gubbe*? H. *gebar*?) fy ewythr, ewythr ; henwr.

Gaffle, *s.* (S. *geaflas*) gaflach, ffugethy, ysbardun ceiliog, ysbardun dodi; tynfach albrys, durwif bwa croes.

Gag, *v. a.* (C. *cegio*, yn ol *Webster ;* Is. *gaghel*, yn ol *Johnson*, allan o *Minshew*) cau safn, attal safn, cau ceg, ceglenwi, llenwi safn, llenwi ceg, cloi safn, cegio, sagio, safn-gau, safn-gloi, gwrthgau geneu ; cyfogi, gloesi, chwydu.

Gag, *s.* cegludd, cegdopyn, cegrwystr, safndag, geneudag ; cauad ar safn *neu* geg ; sypyn à roer i gau ceg ; safn-glo ; attalai, attalydd.
Gag-teeth—arddannedd, arddaint, dannedd marchogaeth, ysgythron.
Gag-toothed—arddanneddog, arddeintiog, ysgythrog.

Gage, *s.* (Ff.) gwystl, arwystl, cyngwystl, adneu, gwystleidiaeth, gwystloriaeth; her; attafael; mesur, talben, safon, mesurai, mesuren, mesurlath, ganiadyr, cyfartalai, mydrai, meidr, meidyr, meidradyr, meidradydd, mesurydd; y nifer o droedfeddi y sudda llong mewn dwfr.

Steam-gage—agerfeidyr, agerfeidr, agerfydrai, agerfesur.

Wind-gage — gwyntfeidyr, gwyntfesur, gwyntiadyr.

Weather-gage — hinddangosydd; yr ochr nesaf i'r gwynt i long.

Rain-gage—gwlawfeidyr, gwlawfydrai.

Sea-gage—morfesur, morfeidyr.

Gage, *v. a.* rhwymo; rhwymo â gwystl; gwystlo, arwystlo, cynwystlo, dàl cyngwystl, rhoi yn ngwystl, prido; mesur, mesuro, meidro, ganiadu.

Gager, *s.* (o *gage*) mesurydd, mesurwr, meidrydd, ganiadwr, ganiadur.

Gagger, *s.* (o *gag*) cauwr safn, cauwr ceg, ceglenwydd, cegluddiwr.

Gaggle, *v. n.* (Is. *gaggelen;* Al. *gackern*) gregar, clegar, clegru, clegyr, clecian, cogor, crecian; lleisio fel gŵydd.

Gaggling, *s.* clegar, gregar, clegyr, clegr, clecian.

Gahnite, *s.* (o *Gahn*, y darganfyddwr) math o ddelfaen; corundum wythochrog.

Gaiadendron, *s.* (Gr. *gaia* a *dendron*) daiarwydd; *sing.* daiarwydden.

Gaiety, } *s.* (Ff. *gaieté*) llonder, llonwychder,
Gayety, } llondra, llonedd, llawenydd, llawenwch, gorhoen, gorawen, hoen, hyfrydwch, hoenusrwydd, llonwch, digrifwch, difyrwch; gwychder, gorwychder, gwychedd, gwympedd, hoewder, hoewedd, dillynder, dillynedd, harddwch; ysgafnder, bronysgafnder; nwyfusrwydd, nwyfusder, nwyfiant; nwyfchware, nwyfwareu.

Gaieties of youth — difyrion ieuenctyd, mwynderau ieuenctyd, nwyfusderau ieuaint, nwyfwareuon ieueuctyd, nwyfddigrifwch ieuenctyd.

Gaily, } *ad.* (o *gay*) yn llon, yn llawen, yn
Gayly, } ddigrif, yn ddifyr, yn hoenus, yn llonwych, yn orawenus, yn orhoenus; yn hoew, yn hoewych, yn wych, yn ddillyn; yn chwarëus, yn nwyfus.

Gain, (talfyriad o *against;* S. *gean*) rhagddawd, yn dynodi *yn erbyn, erbyn, gwrth.*

Gain, *v.* (Ff. *gagner;* S. *gyman*) ennill, ynnill, elwa, maelio, maela, manteisio, ennillo, ynnillo, nillo, cael budd, buddio; cyrhaedd, cyrhaeddyd; cael, caffael; cael yr hyn à geisier.

To gain upon—ennill ar; ymelwa ar, ymelwi ar, elwa ar; gwneuthur elw o; peri elw o.

To gain one's point—cyrhaedd ei amcan; cael ei amcan; ennill ei amcan; ennill ei bwnc; gorfod yn ei gwyn; gorfod yn ei ddadl.

To gain ground — ennill tir, ynnill tir; ymoresgyn, ymdaenu; myned yn fwyfwy arferedig; cryfhau, gwrygio, gwrygiannu, ymwrygio, cynnyddu, llwyddo, ffynnu, tycio; bod ar gynnydd.

This opinion has gained considerable ground in the world—y mae y farn hon wedi ei chrŷn sefydlu yn y byd; y mae y tyb hwn wedi ei grŷn sefydlu yn y byd; y mae y farn hon wedi ennill crŷn dir yn y byd.

To gain time — ennill amser, oedi yr amser.

To gain the advantage of time of one—ennill *neu* achub y blaen ar un; bod yn mlaen llaw âg un; rhagflaenu un.

To gain over—ennill drosodd; tynu drosodd.

To gain the wind—ennill y gwynt; cyrhaedd yr ochr nesaf i'r gwynt i long arall.

To gain the day—ennill y dydd; cario y dydd; cael y dydd; myned â'r dydd; ennill y gamp; myned â'r gamp; ennill y fuddugoliaeth; cael yr oruchafiaeth; cael y goreu.

Gain, *s.* (Ff.) ennill, ynnill, elw, budd, mael, mantais, cod, lles, elwant, buddiant, buddred; cynnyrch.

Unjust gain, } budrelw, budr elw; ocr-
Dishonest gain, } aeth.

Gain,† *a.* hylaw, hyfedr, deheuig, medrus.

Gain, *s.* (C. *gàn*) gàn, gafael, cegafael.

Gainable, *a.* ennilladwy, elwadwy.

Gainage, *s.* (o wraidd *wain*) gweindrec.

Gainer, *s.* ennillwr, ynnillwr, ennillydd, maeliwr, buddiwr, manteisiwr.

Gainful, *a.* ennillfawr, ynnillfawr, buddfawr, llesfawr, llawn elw, ennillgar, llesol, buddiol, manteisiol.

Gainfulness, *s.* ennillfawredd, llesfawredd, llesfawrhydi, buddfawredd; buddioldeb, llesoldeb; ennill, elw, budd, lles, mael, mantais.

Gaingiving,† *s.* (o *gain* neu *against* a *give*) drygdyb, ammheuaeth; gwrthroddiad.

Gainless, *a.* difudd, difael, dïelw, dïennill, difantais, anfuddiol, aflesol.

Gainlessness, *s.* anfuddioldeb, aflesoldeb, aflesineb; anfudd, anelw.

Gainly,† *ad.* yn hylaw, yn hyfedr.

Gainsay, *v. a.* (*gain* neu *against* a *say;* S. *gean, ongean*, a *say*) gwrthddywedyd, gwrthwedyd, gwrthebu, gwrtheb, gwrthebru, erbynwedyd; dywedyd, gwedyd, dweyd, neu weyd yn erbyn; ammheu, rhagu, gwrthddadlu, croesddadlu, dadleu; gwrthwynebu, gwrthdaeru; dywedyd yn erbyn.

Without gainsaying—yn ddinag; heb wrthddywedyd, &c.

Gainsayer, *s.* gwrthwedydd, gwrthwedwr, gwrthddywedwr, gwrthddywedydd, gwrthebydd, gwrthebwr, erbynwedydd, ammheuwr; gwrthwynebydd.

Gainstand,† *v. a.* (S. *gean*=gain neu against, a *stand*) gwrthsefyll, gwrthwynebu.

Gainstrive,† *v.* (S. *gean*, a *strive*) gwrthsefyll, ymdrech yn erbyn.

Gairish, *a.* (S. *gearwian;* Gr. *gauros*) coegwych, hoewych, pincwych, gwych, gorwych, ceinwych, claerwych, harddwych, hoew, dillyn, dillynwych, claer, dysglaer, dysgleirwych, gwymp, iesin, pefr, pefrin; nwyfion, nwyfiawn, gorlawen.

Gairishness, *s.* coegwychder, coegwychedd, hoewychder, gorwychder, ceinwychder, ceinwychedd, claerwychder, claerwychedd, dillynedd, dillynder, dysgleirdeb, dysgleirder, claerder, gwympedd, pefrineb, pefredd, pefri, iesindra, gorddillynedd, pincwychder; nwyflonder, nwyflondra, nwyfiawnydd, gorlawenydd.

Gairishness of spirit—nwyflonder ysbryd, nwyfiant ysbryd, gwamalrwydd ysbryd.

Gait, *s.* (o *gad* neu *go*?) trawd, trodiad, cerddediad, trawdd, mynediad, rhodiad, aed; agwedd, gosgedd, ystum; ffordd; dull o gerdded; gradd; agweddfoes.

Gaited, *a.* â chanddo drawd, trodiad, cerddediad, *neu* agwedd neilltuol: arferedig mewn cyfansoddiad.

Gaiter, *s.* (o *gait*) socas, amgoes, coeswisg, coesarn: *pl.* socasau, &c., hosanau botymog, hosanau lledr, ucharnau.

Gaiter, *v. a.* gwisgo socasau, amgoesau, coeswisgoedd, *neu* goesarnau am; gwisgo â socasau, &c.; socasu, coeswisgo, coesarnu.

Gala, *s.* (Ysp., It., a Ff.) gorwychder, gorwychedd, ceinwychder, gwychedd, rhwysg, rhodres; prifwyl.

Gala day—dydd rhwysg, dydd rhodres, dydd ceinwychder; dydd prifwyl; prifwyl.

Grand gala—prifwyl fawr, arbrifwyl, prifwyl-ddydd.

Gala night — prifwylnos, nos ceinwychder.

Galactite, *s.* (Gr. *gala, galactos*) llaethfarm.

Galactodendron, *s.* (Gr. *gala* a *dendron*) llaethwydd; buchwydd, buwydd: *sing.* llaethwydden, buchwydden=math o bren llaethrodd â dyf yn y Caraccas, Deheudir America.

Galactometer, *s.* (Gr. *gala* a *metron*) llaethfeidyr, llaethfesur, llaethfeidr, llaethfydrai.

Galactophogist, *s.* (Gr. *gala* a *phagô*) llaethysŵr, llaethysydd, ymborthwr ar laeth: *pl.* llaethfaetholion.

Galactophorous, *a.* (Gr. *gala* a *pherô*) llaethddwyn; yn dwyn *neu* gynnyrchu llaeth.

Galactopoietic, *a.* (Gr. *gala* a *poiêô*) llaethbarol, llaethogol.

Galace,† *s.* (Ysp. *galocha*) esgid bren, aresgid.

Galangal, } *s.* sych wreiddyn meddygol o
Galanga, } China.

Galanthus, *s.* (Gr. *gala* ac *anthos*) eiriawl, cloch maban.

Galaxy, *s.* (Gr. *galaxias cuclos*) y llwybr llaethog, galaeth, eirianrod, crygeidwen, caer Gwydion, heol y gwynt, y ffordd laeth, hynt St. Ialm, llwybr y mab afradlawn; claergylch, cylch dysglaer.

Galbanum, } *s.* (H. *chelbenah*; Gr. *chalbanê*;
Galban, } Ll. *galbanum*) galbanum=math o folystor dwyreiniol.

Gale, *s.* (D. *gal*? Gw. *gal*? C. *awel*, yn ol N. *Bailey*) awel, chwa; chwyth, ffun; cwthwn, pwff, awel gref, gwynt cryf; gwynt.

Brisk gale, } awel ffraw, awel chwern,
Fresh gale, } awel frysg, awel chwai.

Prosperous gale — hwylwynt, gwynt hwylus, awel hwylus.

Adverse gale — awel groes, gwrthawel, gwynt croes, awel wrthwyneb.

Loom-gale—awel gref nerthol; chwa angerddol.

Gale, *s.* madywydd, mordywydd, gwyrling, gwyrddling, helygen Mair.

Sweet gale, } madywydd, mordywydd,
Dutch myrtle, } gwyrling, gwyrddling, helygen Mair.

Gale, *v. n.* hwylio; hwylio yn ffest; hwylio yn hwylus; †canu.

Galeas, *s.* (It. *galea, galeazza*) diblong=math o rwyflong.

Galeated, } *a.* (Ll. *galeatus*) helmog, penialog,
Galeate, } helmaidd.

Galega, *s.* (Gr. *gala*) rhuw yr afr, gorddawn yr afr.

Galena, *s.* (Gr. *galênê*) plymlwg, ufelured plwm.

Galenic, } *a.* plymlygol, plymlygaidd; Galen-
Galenical, } ig, perthynol i Galen.

Galeobdolon, *s.* (Gr. *galê* ac *obdê*) eurddanadl; eurddanadlen, marddanadlen felen.

Galeopithecus, *s.* (Gr. *galê* a *pithêcos*) hedgath.

Galeopsis, *s.* (Gr. *galê* ac *opsis*) penboeth.

Galericulate, *a.* (Ll. *galerus*) hetiog; gorchuddiedig megys â het.

Galerite, *s.* (Ll. *galerus*) hetgregyn, hedgregyn.

Galilee, *s.* cyntor, porth; orielyn.

Galimatia, *s.* (Ff. *galimatias*) ffiloreg, ansynwyr, ffolineb, ffregod, ffiadredd, chwyddiaith, ffol eiriau ffiloreg.

Galingale, *s.* ysnoden Fair.

Galiot, *s.* (Ff. *galiote*; It. *galeotta*; Ll. *galea*) rhwyflongan, rhwyflongen, rhwyflong fechan.

Galipot, *s.* (Ysp.) pyrlud, ffeinidlud; ystor gwŷn pyrwydd.

Galium, *s.* (Gr. *gala*) gwendon, briwydd, gwenwlydd.

Gall, *s.* (S. *gealla*; Al. a Sw. *galle*; Gr. *cholê*) bustl, ebustl, geri; chwerwedd; gwenwyn; dygasedd, cenfigen, llid, dig.

Bitter as gall, } bustlaidd; cyn chwerw-
As bitter as gall, } ed a'r bustl; chwerw fel bustl; ebustl.

The flowing of the gall—gorllenwad, llif, *neu* orlif y bustl.

Gall of glass—gwydrewyn, gorferw gwydr.

Gall, *s.* (Ll. *galla*; S. *gealla*) darafal, afal y derw, dargneuen, darfal, afalyn y derw.

Gall-nuts, } darafalau, afalau y derw, dar-
Nut-galls, } gnau, darfalau.

Apple-galls—afallgnau, afalgnau.

Gall, *s.* ysbelw, llwgr, ysbelwad; pildin, pilgroen, cig noeth.

Gall, *v.* ysbelwi, peri ysbelwi, digroeni, llygru, cignoethi, rhathu yn llwgr, ysu y dònen; peri *neu* wneuthur yn gig noeth; treulio, rhwbio; dolurio, poeni, blino, dygnu, cythruddo, cythryblu, trallodi, gofidio, niweidio, sarhau; bod yn drwm ar; clwyfo, archolli.

To be galled—ysbelwi, llygru, ymlygru, gwynofio; cael ei lygru.

Gall-backed—cefnllwgr, cefnrhwd.

Gallant, *a.* (Ff. *galant*) dewrwych, gwrolwych, gwrol, dewr, calonog, mawrfrydig, gwych, gwychr, glew, gwronol, gwronaidd, dihafarch, pybyr, galawnt, eon, gwrdd, godidog, rhagorol, hoewych, hoew, arwrol, gwychain; moesog, moeswych, moeswymp, moesgar, hyfoes, cyweithas, mynog, mwynfoes, dillynfoes, cyflys, moddus, boneddigaidd; nwyfog, nwyfus, hynwyf, careugar, am garu, nwyfwych, cariadwych; hardd, harddwych, trwsiadus, dillyn,

Gallant ships—llongau godidog.

Gallant, *s.* syberwyn, gwympor, moeswychwr, cyflyswr, moesweinydd, un moesgar; cariadur, carodyn, serchogddyn, cariad, carwr, gwr caru, cariŵr, cariadfab, cariad-ddyn, serchwas; gordderchwr.

Gallant of a married woman—gordderchwr, gordderchwas, gordderch.

Gallant, *v.* trin yn foddus, &c.; teglofio;

moesweini, moesweinyddu; gweini ar rian; ymgeulyn, ymddylyn; ymhoewi.
Gallantly, *ad.* yn ddewrwych.
Gallantness, *s.* gwychder, harddwychder, hoewder, telediwrwydd, dillynder.
Gallantry, *s.* (Ysp. *galanteria*; Ff. *galanterie*) dewrwychder, dewrwychedd, gwroldeb, gwrolder, dewredd, dewrder, arwredd, mawrfrydigrwydd, dewrineb, glewineb, gwroniaeth, calonogrwydd, dihafarchedd, glewder, hoewder, hoewedd, gwychder; moesogrwydd, moeswychder, moeswympedd, moesgarwch, hyfoesedd, cyweithasrwydd, mynogaeth, syberwyd; careugarwch, serchlonedd, carwriaeth, nwyfusrwydd, nwyfusedd, nwyfedd, nwyfwaith, anlladwaith, nwyfneges, serchneges, anlladrwydd, llodineb, trythyllwch.
Gallate, *s.* (o *gall*) bustlaint, bustlhalan: *pl.* bustlhalion.
Gall-bladder, *s.* cod y bustl, cod y geri, cwd y bustl.
Galleass, *s.*=*Galeas.*
Galleon, *s.* (Ysp. *galeon*; Port. *galeam*; It. *galeone*) llong Yspaenaidd bedryfwrdd.
Gallery, *s.* (Ff. *galerie*; D. ac Al. *gallerie*) oriel; llofft, grislofft, uchlawr, rhodfa, anrodfa, cyntedd, hirgyntedd; rhodfa ddiddos.
An open gallery—oriel agored; rhodfa heb do arni.
Gallery in a church—llofft eglwys, oriel eglwys, llofft mewn eglwys; llofft y gân.
Upper gallery—oriel uchaf, uchoriel, gorlawr, aroriel.
Stern gallery of a man of war—oloriel cadlong.
Galletyle, *s.*=*Gallipot.*
Galley, *s.* (Ysp. ac It. *galera*; Ff. *galère*) rhwyflong; cegin cadlong, ceginfa; cyssodlwyf, mold argraffydd; cwst, cystogwaith, caledwaith; adyrgyl.
Galley proof—profien gyssodlwyf.
Galleyfoist, *s.* teyrnlong.
Galley-slave, *s.* caethwas rhwyflong, caeth rhwyflong, rhwyfwr caeth cadwynog, caethrwyfwr.
Gallfly, *s.* (*gall* a *fly*) afalgleren, afalglyryn, afalbryf: *pl.* afalgler.
Galliard,† *a.* (Ff. *gaillard*) hoew, bywiog, heini, gweisgi.
Galliard,† *s.* hoewddyn; un hoew, bywiog, *neu* weisgi; dawns bywiog; llamddawns.
Galliardise,† *s.* hoewedd, hoewder, llonder, rhylonder, gorhoen.
Galliardness,† *s.* llonder, hoewder, llawenydd, gorawen, gorhoen.
Gallic, *a.* (o *gall*) darafalig, darfalig; perthynol i ddarafalau; yn perthyn i ddargnau; dargneuol.
Gallic acid—sur darafalig, sur darfalig, sur darafal.
Galligaskins, *s. pl.* (Ll. *caligæ Vasconum*, llodrau Gwasgwyn) llodrau llaes, llaes lodrau, rhydd lodrau, uchlodrau, llodrau.
Gallimatia, *s.*=*Galimatia.*
Gallimaufry, *s.* (Ff. *galimaufrée*) mysgfwyd, cymmysgfwyd, briwgig; cymmysg, cymmysgedd; ystên Sioned.
Gallinæ, Gallinaceæ, } *s. pl.* (Ll.) iarednod, iarednaint, iaradar.
Gallinaceous, *a.* (Ll. *gallinaceus*) perthynol i'r iarednod, iarednogaidd, iarednol, iarednog, iaradaraidd.
Gallinaceous lapis—maen cynllwyn=rhyw ddefnydd gloew à gynnyrchir gân losgfaloedd.
Galling, *a.* (o *gall*) poenus, cythruddol, gofidiol, poenydiol, blin, dygn; ysbelwol, llygrol, blingol.
Galling fire—tân dygn, tanio dygn.
Gallinipper, *s.* math o wibedyn mawr.
Gallinsecta, *s. pl.* (*gall* ac *insect*) gnerilion, grarilion=math o drychfilod.
Gallinule, *s.* (Ll. *gallinula*) corsiar, hirgoesiar; corsieir.
Galliot, Galleot, } *s.* (Ff. *galeote*; It. *galeotta*; Ll. *galea*) rhwyflongan, rhwyflongen, rhwyflong fechan.
Gallipot, *s.* (Is. *gleye*, a *pot*) cyfferbot, cyffyrbot, cyfferflwch, cyffergist, eneintflwch, meddyglestr, meddygbot, gorflwch enaint.
Gallitzinite, *s.* egrid coch Titanium.
Gallivat, *s.* llestr bychan arferedig ar ororau Malabar.
Gall-less, *a.* difustl; dichwerwedd, diwenwyn.
Gallon, *s.* (Ysp. *galon*; Ll. drosgl, *galona*, *galo*, *lagena*) galwyn; galwynaid = 4 chwart.
Galloon, *s.* (Ff. *galon*) eurysnoden, eurgadas, ysnoden ffreinig=ysnoden aur neu arian, neu weithiau o sidan yn unig.
Galloon lace—ysnoden ffreinig, ysnoden Ffrengig, amaerwy ffreinig.
Gallooned, *a.* ysnodenog, eurgadasog; addurnedig âg ysnoden ffreinig.
Gallop, *v. n.* (Ff. *galoper*; It. *galoppare*) carlamu, pedwarcarnu, gwilhobain; gyru *neu* fyned ar bedwarcarn; gyru ar bedwarcarnau; gyru *neu* fyned ar y pedwarcarnau; gyru yn nerth traed ceffyl; gyru *neu* farchogaeth yn chwyrn.
Galloping horse—march carlamog, march carlamus, march rhedegog, march gyrfäus.
Gallop, *s.* carlam; carlamiad, pedwarcarniad; mynediad *neu* yriad ar bedwarcarn; gyriad *neu* fynediad ar y pedwarcarnau.
A full gallop—llawn garlam, carlam wyllt; mynediad *neu* ar y gyrfau gwyllt; mynediad *neu* yriad ar y pedwarcarnau gwyllt.
Gallopade, *s.* (Ff. *galopade*) cyrflam, crychgarlam, crychlam.
Galloper, *s.* carlamwr, carlamydd, pedwarcarnwr, pedwarcarnydd; carlamfarch; carlamgar.
Gallopin,† *s.* (Ff.) ceginwas.
Gallow,† *v. a.* (S. *agælwan*) dychrynu, brawychu.
Galloway, *s.* (=lle yn yr Alban) crynfarch Galoway, ceffylau Galoway; crynfarch, ceffylau, ceffylyn.
Gallowglass, *s.* hen bedfilwr Gwyddelig.
Gallows, *s.* (S. *gealg*, *gealga*; Al. *galgen*; Is. *galg*) crogbren, crogwydd, pren dyoddef, dialbren; cyfreion, crogddalion; †crogyn.
Gallowses—crogbreni, crogbrenau.
One for whom the gallows groans—crogyn o ddyn; crogyn; llwyth y cebystr; cyw y cebystr; cyw y crogbren; un addfed i'r crogbren; un parod i'r rhaff; deilwng o'r crogbren.
Go to the gallows—dos i'th grogi; yn nghrog y bot ti.
Gallows of a printing-press — crogwydd

argraffwasg, gorwydd argaffwasg, march argraffwasg, gwŷdd argraffwasg.

Gallows-bitts, *s. pl.* crogystanciau.

Gallsickness, *s.* (*gall* a *sickness*) geriglefni, geriglefyd; twymyn eriaidd ddysbeidiol (yn yr Iseldiroedd).

Gallstone, *s.* (*gall* a *stone*) gerifaen, maen geri; cyttwf yn nghod y bustl.

Gallowsfree, *a.* (*gallows* a *free*) crogrydd; rhydd oddi wrth y crogbren.

Gallowstree, *s.* crogbren, crogwydd, pren dyoddef, dïalbren.

Gally, *a.* (o *gall*) bustlaidd, bustlog, geriaidd, geriog, ebustl, ebustlaidd; chwerwed a bustl; cyn chwerwed a'r bustl.

Gally, } *s.* (Ff. *gallée*; Port. *galé*) cyssodlwyf,
Galley, } mold argraffydd.

Gally-worm, *s.* canpedril; *pl.* canpedrilion.

Galloche, } *s.* (Ff.; Ysp. *galocha*) aresgid, pren-
Galloshe, } esgid, llopan, ffollach.

Galore, *s.* (Gw.) llawnder, cyflawnder, helaethrwydd, haflug, toraeth.

Galt, } *s.* fferfarl, delfarl=math o farl anhy-
Gault, } blyg.

Galvanic, *a.* (oddi wrth Lewis *Galvani*, o Bologna) Galfanig, Galfanaidd; mellinol, adwyniasol, mellinig, gorufelig; perthynol i Alfaniaeth; trydanol.

Galvanic circle—cylch Galfanig.

Galvanic battery—cluder Galfanig, cluder mellinol.

Galvanism, *s.* (o *Galvani*) Galfaniaeth, mellin, adwynias, gorufeliaeth; trydaniaeth heb rwbiad.

Medical galvanism—addwynias feddygol, Galfaniaeth feddygol.

Galvanist, *s.* Galfaniad, Galfanydd, Galfanwr, mellinwr.

Galvanize, *v. a.* Galfanio, Galfaneiddio, mellino, adwyniasu.

Galvanized, *a.* Galfaniedig, mellinedig, mellindde.

Galvanologist, *s.* (*galvanism*, a Gr. *logos*) mellinofydd, Galfanegwr, Galfanegydd, mellinegwr.

Galvanology, *s.* (*galvanism*, a Gr. *logos*) Galfanyddiaeth, mellinofyddiaeth, Galfaneg.

Galvanometer, *s.* (*galvanism*, a Gr. *metron*) mellinfeidyr, trydanfesur, Galfanfesur.

Galvano-plastic, *a.* trydandebol, trydandebus.

Galvano-plastic art—trydandebiaeth, trydandeb.

Gamashes, *s. pl.* (It. *gamba*) corsocasau, socasau bach, amgoesau byrion, socasau bychain.

Gambado, } *s.* (It. *gamba*) socas, amgoes, coes-
Gambade, } arn, coeswisg; botas cyfrwy, botas gyfrwy.

Gambe, *s.* (o'r Ff. *jambe*) coes, esgair, hegl, llorp.

Gambeer, *s.* gambir=math o sylwedd rhwymol, yn y celfyddydau a'r llofweithiau.

Gambet, *s.* aderyn tua maint y goeswerdd, à geir yn y Môr Cyfogledd, ac yn Nulychlyn ac Ynys yr Ia.

Gambit, *s.* (o *game?*) cyfres o ysgogion medrus yn chware tawlbwrdd.

Gamble, *v. n.* (o *game*) hapwareu, hapware, hapchwareu, hapchware, chwampio; chware am arian *neu* wystl; chwiredu.

To gamble away—gwastraffu wrth hapwareu; difrodi drwy chwampio; hapwareu ymaith, chwampio ffwrdd, hapchwareu.

Gambler, *s.* (o *gamble*) hapwareuwr, hapchwareuwr, hapchwarëydd, hapwarëwr, chwampiwr, chwampiad, chwampydd, twyllchwareuwr; chwareuwr dichellgar, twyllodrus, hudolawl, chwiredus, hocedus, ystrywgar, *neu* ystrywus; coegiwr, chwiredwr.

Gamboge, *s.* (o *Cambodia*, *Cambodja*, neu *Camboyia*, yn yr India Ddwyreiniol) deigystor, molystor, deigrwsin, melynsudd.

Gambogic, *a.* (o *gamboge*) deigystoraidd, molystorig.

Gambol, *v. n.* prancio, rhonta, llamsach, crychlamu, cyrchlamu, nwyfchwareu, nwyfwareu, gofregu, taplasu, taplasa, crychneidio, dychlamu, pestota, pestodi, moelystota, moeldesota, darchwareu, llamu, llemain, neidio, cyrneidio, ysboncio, chwareu, dawnsio, nwyfneidio, nwyflamu, digriflamu, saethyta; crychu *neu* lamu o *neu* gàn lawenydd.

Gambol, *s.* crychnaid, cyrchnaid, nwyflam, nwyfnaid, cyrchlam, crychlam, rhont, pranc, llam, llamsach, naid, gofreg, asbri, nwyfware, nwyfchware, taplas, digriflam, darchware, llam, naid, dychlam; llam, dychlam, crychlam, naid, *neu* grychnaid o *neu* gàn lawenydd.

Gambols — crychneidiau, &c.; chwydawiaeth, llamidyddiaeth; castiau, pranciau, *neu* funudiau llamsachus a llamidyddol.

Maker of gambols—nwyflamwr, nwyflamydd, nwyflamidydd, nwyfneidiwr, crychlamwr, crychneidiwr, llamidydd; gwneuthurwr llamidyddiaeth *neu* chwydawiaeth.

Gambrel, *s.* (o'r It. *gamba*) coes ol march, clun ol ceffyl, troed ol ceffyl.

Gambrel roof — nen benlipa, nen gamheglog.

Gambrel, *v. a.* clymu wrth y goes, coesglymu.

Game, *s.* (S. *gamen*, *gamiam*; Isl. *gaman*) chware, chwareu, chwarae, gwareu, gware, gwarae, chwara, chwareuaeth, chwaryddiaeth; camp, taplas; math, dull, *neu* drefn ar chwareu; rhyw *neu* rywogaeth o chwarae; siâs, chwyl, tro; difyrwch, gwawd, gwatwar, cellwair, cydgam, gwatwargerdd; difyrgais; helwriaeth, helyddiaeth, hely, hela, helfa, asgafaeth, ysgafaeth, ysgafael; helfilod, miledion, maesfilod; heladar, adar hely.

The twenty-four games — y pedair camp ar ugain.

Manly games—gwrolgampau.

Juvenile games—mabolgampau.

Inferior games, } gogampau.
Minor games, }

Olympic games—campau Olympig, campau Olympaidd.

Game-laws—cyfreithiau hely, cyfreithiau hela, cyfreithiau helwriaeth.

To hunt for game—hela, hely, ysgeifio, ysgeifu; chwilio am helwriaeth.

To make game of one—chwerthin am ben un; gwneuthur cyff cler o un; gwneyd difyrwch am ben un; chwareu gwrhewcri âg un.

To have a great game to play—bod i *neu* gàn un orchwyl mawr mewn llaw; bod gàn *neu* i un fater mawr mewn llaw.

To play one's game well—trin ei orchwyl *neu* ei fater yn hyfedr; chwareu ei chwareu yn fedrus; chwareu ei chwareu yn dda.

To be good at all kind of games—bod yn fedrus *neu* ddeheu yn mhob peth.
To get the game, } ennill y chware ; en-
To win the game, } nill gamp ; ennill y bel, ennill y gâl ; dwyn y gamp ; dwyn y bel ; dwyn y gâl ; gorfod mewn camp *neu* chware ; gorchfygu mewn camp *neu* chwareu ; myned â'r gamp ; myned â'r maes ; ennill y maes ; cael y goreu.
To play a safe game — chwareu y ffon ddwybig ; chwareu y llaw wèn.
To keep, hold, *or* celebrate a game, } cyn-
To keep, hold, *or* celebrate games, } nal camp ; cynnal chwareu ; chwareu campau.
Master of the game, } penaeth y gamp ; y
Master of the games, } barnwr mewn campau ; y pencampwr, y penchwareuwr, y penchwarëydd ; llywydd yr helwriaeth, y penheliwr, y penhelydd.
Game of chess — chwareu gwyddbwyll, chware gwyddbwyll, chwareu tawlbwrdd.
Game of backgammon—chwareu bachgammon.
To contend at games—campio.
Black game—ceiliog du, ceiliog mynydd, ceiliog y mynydd, ceiliog du y mynydd, ceiliog y grugieir : *f.* grugiar, iar fynydd.
Red game—cochiad, coch y grug ; cochiar : *pl.* cochiaid, grugieir cochiou, cochieir.
Game, *v. n.* chwareu, chware, chwarae, gwareu, gware, gwara ; campio ; hapchwareu, chwampio.
Gamecock, *s.* ceiliog ymladd ; ceiliog à fegir at ymladd.
Game-egg, *s.* wy y megir ceiliog ymladd o hano.
Gameful, *a.* llawn chware, llawn o chwareu ; chwareugar, chwarëus, chwareog, chwareuol, nwyfus, nwyfog, hynwyf, rhontus, rhontëig, gorawenus, chwerig, pranciol, gwarëus, gofregus, gorhoenus, nwyflawn, ysmala, digrif, difyr, llon.
Gamekeeper, *s.* helfilwas, miledwas, asgeifydd, miled-geidwad, helfil-geidwad, ceidwad helwriaeth.
Gameleg, *s.* (C. *cam*, yn ol *Malone*, a *leg*) clun gloff, coes gloff, camgoes, camlorp, heri.
Gameless, *a.* (*game* a *less*) dichwareu, diwareu ; annifyr.
Gamesome, *a.* chwareugar, chwarëus, chwareog, chwareuol, chwerig, gwarëus, nwyfus, nwyfog, hynwyf, rhontus, rhontëig, gorawenus, gofregus, gorhoenus, nwyflawn, ysmal, digrif, difyr, cellweirus, cellweirgar, cydgamus, ysmala, llonwych, llawn chwareu, llawn o chwareu.
Gamesomeness, *s.* chwareugarwch, chwareusrwydd, chwerigrwydd, chwareogrwydd, nwyfusrwydd, rhontusrwydd, ysmaldod, difyrwch, digrifwch, llonwychder.
Gamester, *s.* (*game*, a S. *steora*) chwareuwr, chwarëwr, chwarëydd, chwariwr, chwaräwr, campwr, campiwr, taplaswr ; chwampiwr, chwampiad, hapchwareuwr, hapchwariwr, chwiredwr ; un chwannog i chwareu ; †difyrwas ; †putain : *pl.* chwareuwyr, chwampiaid, chwampwyr, &c.
Gaming, *s.* chwareuaeth, chwarëyddiaeth, chwareuad, chwaread, chware, chwareu, chwarae, gwareu.
Gaming-house, *s.* ty chwareu, hapchwareudy, hapwareudy, chwareudy, chwiredfan, chwiretty.
Gaming-table, *s.* bwrdd chwareu, chwareufwrdd, chwiredfwrdd, hapwareufwrdd.
Gammarolite, *s.* (Gr. *gammaron* a *lithos*) crestogfaen.
Gammer, *s.* (Sw. *gammal ;* D. *gammel*) modryb, fy modryb.
Gammon, *s.* (It. *gamba*) morddwyd, angell, cnuch, ysgwyddog, palfais, coesgyn.
Gammon of bacon—angell *neu* goesgyn o facwn ; angell hwch, cnuch mochyn, morddwyd o gig moch, palfais mochyn ; bacwn wedi ei fygsychu.
Gammon, *s.* (C. *cammon* neu *cammaern*) bachgammon, bachgammawn, chwareu tawlbwrdd.
Gammon, *v. a.* bacyno, mehino ; gwneuthur yn facwn ; halltu a sychu yn y mwg : rhaffrwymo yr oeghwylbren wrth ddwryn llong.
Gammon, *v. a.* cammoni, bachgammoni ; chwareu gwrhewcri â, twyllo, hudo, coegio ; peri i un gredu chwedlau anhygoel.
Gammoning, *s.* rhwymraff yr oeghwylbren.
Gammut, } *s.* (Ysp. *gamma ;* Ff. *gamme*)
Gamut, } graddfa, seinradd, grisiau cerdd arwest, graddeg, griseg.
Gamopetalous, *a.* (Gr. *gamos* a *petalon*) cyflodeuddeiliog, unblodeuddeiliog, unblodeiliog, cyflodeiliog, cydflodeuddeiliog.
Gamosepalous, *a.* (Gr. *gamos*, a *sepal*) unddeiliog, unddalenog, uncibranog, undeilgenog.
Ganch, } *v. a.* (It. *gancio*) gollwng i syrthiaw o
Gaunch, } le uchel ar fachau ; taflu ar fachau ; bwrw bendramwnwgl ar bigau *neu* gigweiniau heiyrn=dull ar gospi yn mhlith y Tyrciaid, a Thyrcaidd i'r eithaf yw y dull.
Gander, *s.* (S. *gandra, ganra ;* Is. *ganserick*) ceiliogwydd.
Gane-fish, *s.* mornodwydd, mornydwydd, y cornbig.
Ganet, *s.*=*Gannet.*
Gang, *s.* (S., Al., Is., Sw., a D.) haid, torf, myntai, tyrfa, cnud ; amgaen mwn, gwisg mwn, amsothach, amwythen ; mynediad.
Press-gang, } dirgnud, rhablu, dirdorf.
Impress-gang, }
Gang, *v. n.* myned, rhodio, hyntio, cydlwybro, ffrystio.
Gangboard, *s.* dringfwrdd, grisblanc, llyffastell ; planc *neu* fwrdd â grisiau i gerdded ar hyddo allan o gwch.
Gangdays, *s. pl.* dyddiau rhodio, dyddiau rhodiena, dyddiau tramwy ; dyddiau rhodiena ar fwrdd llong.
Ganger, *s.* (o *gang*) pencnud, blaenor haid o weithwyr.
Ganglion, *s.* (Ff.) llysiau Crist ; planigyn à flodeua yn wythnos y gweddïau.
Ganglliac, *a.* (o *ganglion*) giglymig, giglymol, gichwyddol ; perthynol i chwydd y gïau.
Ganglion, *s.* (Gr. *gagglion*) giglwm, chwydd y gïau, gichwydd.
Ganglionary, *a.* giglymog, gichwyddog ; yn cynnwys giglymau.
Ganglioneura, *s. pl.* (Gr. *gagglion* a *neuron*) giglymogion.
Ganglionic, *a.* (o *ganglion*) giglymol, giglymig, giglymaidd, gichwyddol, gichwyddig ; perthynol i giglwm ; yn perthyn i gichwydd.

Gangrel, *s.* (S. *ganger*) hirian, honos, climach, climach hir o ddyn; llabwst, llabi, lleban.

Gangrenate, *v. a.* cancru, cancro; magu y cancr; magu y cranc gwyllt; magu cig marw; magu cig drwg; madreddu, hadlu.

Gangrene, *s.* (Ff.; Ll. *gangræna;* Gr. *gaggraina*) cancr, cranc, cranc gwyllt, cig marw, cig drwg, marw-gig, madredd.

Gangrene, *v.* cancru, cancro, crancu, cranco; magu y cancr; magu y cranc gwyllt; magu cig marw; magu cig drwg; myned yn gig marw; tyfu yn gig drwg; madreddu, marwhau, mallu, hadlu, madru, braenu.

Gangrenescent, *a.* yn tueddu i fadru, hadlu, *neu* fadreddu; yn dechreu myned yn gancr.

Gangrenous, *a.* cancrog, madreddog, madrog, mallus, cancredig, braenedig, madredig.

Gangue, *s.* (S., Is., Al., a D. *gang*) amgaen mwn, gwisg mwn, amsothach, amwythen.

Gangway, *s.* (*gang* a *way*) rhodfa, tramwyfa, mynedfa; llongrodfa, rhodfa ar long.

To bring to the gangway—dwyn i'r rhodfa; dàl a ffrewyllio un.

Gangweek, *s.* (*gang* a *week*) wythnos y gweddïau.

Ganil, *s.* calchfaen brau.

Gannet, *s.* (S. *ganot*) gans, gwylanwydd, hucanwydd, yr ŵydd lygadlem.

Ganoid, Ganoidal, Ganoidean, } *a.* (Gr. *ganos* ac *eidos*) caneidionaidd, caneidogaidd; perthynol i'r caneidbysg.

Ganoidians, Ganoidia, } *s. pl.* (Gr. *ganos* ac *eidos*) caneidbysg, caneidion, caneidogion= yr ail lwyth o bysgod yn ol trefniant Mr. Agassis.

Gantlet, Gauntlet, } *s.* (Ff. *gantelet*) dyrnfol, durfaneg, maneg ddur, llawegen, maneg haiarn, maneg falaen; herfaneg: *pl.* dyrnfyl, dyrnfolau, durfenyg.

Wearing a gauntlet—dyrnfolog.

To throw the gauntlet—taflu yr herfaneg; taflu y ddyrnfol; herio, rhoi her, beiddio, herfeiddio.

To take up the gauntlet—codi yr herfaneg; codi y ddyrnfol; derbyn yr her; derbyn y cynnyg.

Gantlope, Gauntlet, } *s.* (T. *gang*, ac Is. *loopen*?) gwialgosp, gwialgur, curfa â gwiail.

To run the gantlope, To run the gauntlet, } rhedeg yr yrfa gyda gwialgosp; rhedeg yr yrfa; rhedeg y wialgosp; rhedeg y gwialgur; derbyn *neu* oddef y wialgosp; cael gwialgur; rhedeg rhwng dwy res o filwyr i dderbyn gwialenod gàn bob milwr.

Ganza, *s.* (Ysp. *ganso*) elcysen, gŵydd wyllt: *pl.* elcys.

Gaol, *s.* (Ff. *geôle;* Ysp. *jaula*) carchar, geol, carchardy.

Gaol, *v. a.* carcharu, geoli; bwrw *neu* daflu yn ngharchar.

Gaoldelivery, *s.* (*gaol* a *delivery*) gwaghad carchar, rhyddhad carchar, arllwysiad carchar.

Gaoler, *s.* ceidwad carchar, geolwr, ceidwad carchardy, penaeth carchardy.

The gaoler—ceidwad y carchar.

Gap, *s.* (S. *geapan;* Sw. *gapa*) bwlch, adwy, ffosp; agen, gagen, ag, breg, tor, toriad, agendor, gagendor; gwagle, gwagfan, lle gwag, gwagder; agensain, dyhead; diffyg, pall, gwall, colled; twll.

To stand in the gap—sefyll ar yr adwy; sefyll yn yr adwy.

To stop a gap—cau bwlch; cau adwy.

A gap in reputation—twll mewn clod.

Gape, *v. n.* (S. *geapan;* Is. *gaapen;* Sw. *gaper;* Al. *gaffen*) dylyfu gen, ystwyro, ystwyrain; safnrythu, cegrythu, rhythu, ymsafnrythu, egori safn, agor safn, lledu safn; llygadrythu; agenu, gagenu, ymagenu, hollti, ymegori, ymagor, agor; dyhëu, peuo.

To gape for breath—dyhëu, dyheuo, peuo; tynu anadl dàn ddyhëu, dàn beuo, *neu* dàn luddedu; agor y geneu mewn lluddedu *neu* dàn luddedu am anadl; terthain, oriain.

To gape for *or* after—dyhëu am, crefu am, peuo am; cegrythu am; awyddu am; hiraethu am.

A great gaping—agendor, gagendor.

To gape upon one with the mouth—lledu safn ar un; safnrythu ar un; cegrythu ar un.

They gaped upon me with their mouths—cegrythasant arnaf; safnrythasant arnaf; agorasant arnaf eu genau; lledasant eu safnau arnaf.

Gape, *s.* dylyfiad gen, dylyfiad, ystwyrad, cegrythiad, llygadrythiad, safnrythni; cegrythni.

Gaper, *s.* dylyfwr gen, ystwyrwr, ystwyrydd, rhythwr, cegrythwr, safnrythwr; llygadrythwr, llygadrythydd, llygadrythyn; dyheuwr; cegyr, cegur.

A rude gaper—llygadrythwr haerllug.

Gaping, *p.* yn dylyfu gen, yn ystwyro, gàn gegrythu, &c.; safnrwth, cegrwth, llygadrwth, llygadrythus, rhwth, (*f.* rhoth), safnegored, safn-egor; anghysswllt, digysswllt, egored, agored; agenog, holltog, agog; gwancus, awyddus.

A gaping hoiden—hoeden lygadroth, hoeden lygadrythus, llygadrythes haerllug, llygadryth-wraig haerllug; benyw â sylla yn ddigywilydd yn wyneb un.

To stand gaping upon one—llygadrythu ar un; sefyll yn llygadrythu ar un.

Gap-toothed, *a.* dantrwth, dantrythus.

Gar,† *v. a.* (Goth. *goera*) achosi, peri, gwneuthur, cymhell.

Gar, *s.* (S.) amryfath o bysg.

Garagay, *s.* un o reibadar Mecsico.

Garb, *s.* (Ff. *garbe*) gwisg, gwisgad, dillad, trwsiad, diwyg, archenad, amde, archre, archro, achris; dull, arddull, dullwedd, golwg, ymddangosiad, gwedd, y wedd oddi allan, yr olwg allanol, drych.

Garb, *s.* (Ff. *gerbe;* Ysp. *garba*) ysgub, ysgub o yd.

Garbage, *s.* (Ysp. *garbear*?) perfedd, coludd, ymysgar, perfeddion, coluddion, ymysgaroedd, tripa, syrth; ysgarthion, budreddion, llytrod, carthion, brynti, budredd, bryntion, sothach.

Garbaged, *a.* diberfeddedig; gwedi ei ddiberfeddu; diberfedd, digoludd.

Garbed, *a.* (o *garb*) gwisgedig; gwedi ei wisgo.

Garbel, *s.* cilblanc, cilastell; y planc nesaf i waelod llong.

Garble, *v. a.* (Ysp. *garbillar;* Ff. *cribler*) glanburo, disorodi, darnbigo, pigo, dichlyn, dethol, pigo y goreu; tynu *neu* bigo ymaith y sothach; glanhau, puro, dïanmhuro, difrychu, diheuddyd; gogrynu; gwahanu; dysbaddu.

Garbler, *s.* glanburwr, disorodwr, darnbigwr, pigwr, purwr, purydd, dichlynwr, difrycheuwr, gogrynwr, gogrynydd.
Garbles, *s. pl.* sothach, sorod, swtrach, llytrod; sothach perlysiau a chyfferi, &c.
Garboard, *s.* cilblanc, cilastell; y planc nesaf i waelod *neu* drumwydd llong.
Garboard plank—cilblanc, cilastell, &c.
Garboard streak—cilres; y rhes gyntaf o blanciau à osodir ar waelod llong yn nesaf i'r trumwydd.
Garboil,† *s.* (hen Ff. *garbouil;* It. *garbuglio*) cynhwrf, terfysg, cyffro, ymgiprys, twrdd, trabludd, moloch.
Gard, *s.*=*Guard.*
Gardant, } *p. p.* (Ff.) gwyliog, gwylig; gwyn-
Guardant, } eblawn; yn syllu, yn edrych.
Garden, *s.* (Al. *garten;* Ysp. a Ff. *jardin*) gardd; *pl.* gerddi.
Flower-garden—gardd flodau, blodeuardd, gwullardd, blodeufa, blodeule; rhosfa.
Kitchen-garden—ceginardd, arbawr, gardd cegin, gardd y gegin.
Fruit-garden—ffrwythardd, gardd ffrwythau, gardd ffrwyth.
Botanic garden—gardd blanigion, llysieuardd, llyseuardd, gardd lysiau, gardd lyseuol, llyseufa, llysieufa.
A garden of roses—rhosardd, rhosfa, gardd ros.
A little garden—gardden, gardd fechan, gardd fach.
Garden husbandry — gardd-lafuriaeth, gardd-hwsmonaeth, gardd-amaethiaeth, diwyllodraeth gerddi, garddwriaeth.
Garden of herbs — gardd lysiau; gardd fresych.
Garden, *v. a.* garddu; trin gardd.
Garden-Balsam, *s.* ffromlys y gerddi, ffromlys yr ardd.
Gardener, *s.* (o *garden*) garddwr.
Gardening, *s.* garddwriaeth; garddiad.
Gardenless, *a.* diardd, heb ardd.
Garden-mould, *s.* pridd gardd, pridd yr ardd; pridd ffaeth, pridd bras; pridd cymhwys i ardd; garddweryd.
Garden-plot, *s.* gwely gardd, llain o ardd, cadlas gardd, talwrn gardd, planfa gardd.
Garden-stuff, *s.* ffrwythau gardd, ffrwyth gardd, llysiau gardd, pethau gardd.
Garden-tillage, *s.* triniaeth gardd, diwylliaeth gardd, diwyllodraeth gardd, gardd-lafuriaeth, cywyllodraeth gardd.
Garden-ware,† *s.* cynnyrch gardd, ffrwyth gardd.
Gardon, *s.* math ar bysg o ryw y torgoch.
Gare, *s.* gwlan garw; ceden; coeswlan, gwlan coesau.
Garfish, } *s.* mornodwydd, mornydwydd.
Gar, }
Gargany, *s.* hwyad addfain.
Gargarism, *s.* (Ll. *gargarismus;* Gr. *gargarizô*) cegolch, geneuolch, safnolch, ceglyn, geneulyn, gyddfolch, golch geneu, meddygolch geneu; llŷn meddygol i olchi y geneu a'r geg.
Gargarize, *v. a.* (Gr. *gargarizô;* Ll. *gargarizo*) cegolchi, geneuolchi, safnolchi, dygegu, gyddfolchi; golchi y geneu a'r geg; meddygolchi y geneu a'r geg.
Garget, *s.* (Ff. *gorge;* It. *gorga*) cegendag=math o haint ar anifeiliaid.
Gargil, *s.* pensythwst=haint ar wyddau.
Gargle, *v. a.* (Ff. *gargouiller;* Al. *gurgeln*) cegolchi, geneuolchi, safnolchi, dygegu, gyddfolchi; golchi y geneu a'r geg; meddygolchi y geneu a'r gwddf; chwareu yn y gwddf.
Gargle, *s.* cegolch, geneuolch, safnolch, gyddfolch, ceglyn, geneulyn, golch geneu, meddygolch geneu; llŷn meddygol i olchi y geneu a'r geg.
Gargol, *s.* haint ar foch, hobwst.
Gargoyle, } *s.* (Ff. *gargouilles*) murwaddeg,
Gargoil, } cerfwaddeg=pistyll cerfiedig yn
Gurgoyle, } dyfod allan o fur neu wàl.
Garish, *a.*=*Gairish.*
Garland, *s.* (Ff. *guirlande*) gwyrlen, coronbleth, deilbleth, deildorch, trobleth, gwulldorch, gwullbleth, blodeubleth, gerlawnt; coronbleth o ddail *neu* flodau; coron, coronig, talaith; blodeugrawn; pen, y peth penaf; nester morwyr.
Wearing garlands, } gwyrlenog, deilbleth-
Wearing a garland, } og, coronblethog; blodeublethog, blodeugoronog; yn gwisgo gwyrleni; taleithiog.
Oxen and garlands — teirw a garlantau (*Act.* xiv. 13). [&c.
Garland, *v. a.* gwyrlenu; addurno â gwyrlen,
Garlandless, *a.* diwyrlen, diddeilbleth; heb wyrlen, &c.
Garlic, *s.* (S. *garlec, garleac;* Gw. *gairliog*) garlleg, craf y gerddi, craf ewinog, cenin ewinog, craf, graf.
Viper's garlic—craf y nadroedd.
Chive garlic—cibellyn, cibellys, corwynwyn, cybyddlys.
Crow garlic—craf gwyllt, garlleg gwyllt, wynwyn gwyllt, wynwyn y maes, wynwyn y cwn, triagl y tlawd.
Broad-leaved garlic, } craf y geifr.
Ramsons, }
Garlic hedge-mustard—garllegog, yr arllegog, garlleg-ferwr, garlleg-ferwy, troed yr asen.
Clove of garlic—craf-ewin, ewin garlleg, ewin o arlleg.
Garlic peartree — craf-berwydden, craf-elleigwydden, craf-elleigbren, perbren garllegog.
Garlic-eater, *s.* bawddyn, bawyn, bawai, un lledrywiog; garllegyswr, crafyswr.
Garment, *s.* (Norm. *garnement;* hen Ff. *guarniment*) gwisg, dilledyn, tudded, tuddedyd, pilyn, twyg, telyw, amdo, achre, achris, trws, piner, amdawd: *pl.* gwisgoedd, dillad, archro, archre.
Under garment—crysbais; iswisg, rhagwisg, gwisg isaf.
Upper garment—arwisg, gorwisg; cochl; gwisg uchaf.
Fringed garments—dillad siderog.
Silk garment, } gwisg sidan, sidanwisg:
Garment of silk, } gwisg bali, gwisg o bali.
Linen garment — llieinwisg, gwisg lian, gwisg o liain, dilledyn llin.
A garment of fine linen—gwisg o fliant *neu* feinllin; gwisg o liain main; gwisg feinllin, gwisg fliant.
Woollen garment — brethynwisg, gwisg frethyn.
Holyday garment—pilyn dydd Sul, gwisg ddydd Sul.

Holyday garments, } dillad goreu; dillad
Sunday garments, } dydd Sul.
To put on one's holyday garments every day—gwisgo dydd Sul beunydd.
I made sackcloth my garment—gwisgais sachlïain; gwisgais sachwisg.

Garner, *s.* (Ff. *grenier*) ysgubor, ytty, heiniardy, ydgell, ydle, ydlofft, ystordy yd, ystorgell yd.
That our garners may be full—fel y byddo ein celloedd yn llawn (*Salm* cxliv. 13).

Garner, *v. a.* ysgubori, ysguborio, ydgellu; gosod mewn ysgubor *neu* ytty; ystorio yd.

Garnet, *s.* (It. *granato;* Ff. *grenat;* Ll. *granatus*) gronem, groned, garned = math o ddelidfaen: dyrwyndrec (mewn llong).
Garnet hinge, } colfach ar lun ⊨; colfach
Cross garnets, } pengroes; colyn pendrawa.

Garnish, *v. a.* (Ff. *garnir;* Norm. *garnisher*) addurno, harddu, gwychu, trwsio, trwsiadu, harddwychu, gorwychu, prydferthu, eirioni; cynnysgaethu, cynnysgaeddu, darparu, armerthu, parotöi, cyflenwi; gefynu, hualu, llyffetheirio; rhybuddio, rhagrybuddio, rhoi rhybudd i.

Garnish, *s.* addurn, dillyn, trwsiad, addurniad, addurniant; gefyn, hual, llyffethar; carcharwest; anrheg a wnelai carcharor i'w gydgarcharorion ar ei ddyfodiad i'r carchar.

Garnishee, *s.* (o *garnish*) rhybuddiai.

Garnishing, *s.* addurniad, addurnad, addurniant, harddiad, trwsiad, eirianad, prydferthiad; addurn, dillyn.

Garnishment, *s.* addurn, dillyn, addurniad, addurnad, addurniant, addurniaeth, trwsiad, harddiad; rhybudd, rhybudd cyfreithiol; tâl, gwobr, gobr, dobr.

Garniture, *s.* addurn, dillyn; addurniaeth, addurniant, addurniad, trwsiad; dodrefn; gwisg; harddwch.

Garous, *a.* (Ll. *garum*) tebyg i gyffeithbysg.

Garran, } *s.* (Gw. *garran;* Ysg. *garron*) cryn-
Garron, } farch, corfarch, merlyn, ceffylyn, merchyn; culfarch; ceffyl ucheldir.

Garret, *s.* (Ff. *guerite*) nenawr, coeglofft, llofft y gronglwyd, uchlofft, nenlofft; taflod; †coed pydron.

Garreted, *a.* nenorog; diffynedig gàn dyrau.

Garreteer, *s.* nenorydd; un yn byw ar goeglofft; un yn byw mewn nenawr; ymlechwr; awdur tlawd.

Garrison, *s.* (Ff. *garnison;* Ysp. *guarnicon*) gwarchodlu, gwarchadlu, gwarchlu, gwarchodwyr, gwarchadwyr, gwarchfilwyr, amddiffynwyr, amddiffynyddion; amddiffynfa, ymddiffynfa, gwarchodfa, gwarchadle, gwarchle, caderfa, castell; sefyllfa, sefyllfan; gorsaf, gwersyll; cryfder.
To be in garrison—bod mewn gorsaf *neu* amddiffynfa; bod mewn tref i'w gwylio, i'w chadw, *neu* i'w gwarchod; bod yn ngwersyll mewn lle; bod yn ngorsaf mewn lle; bod yn gwarchod amddiffynfa.
A soldier that lies in garrison—milwr gorsafol.
To set a garrison in a place=*Garrison, v. a.*

Garrison, *v. a.* amddiffyn â gwarchodlu; diffynu â gwarchlu; cadwarchod, gwarchodluo, gwarchlueddu, gwarchlüyddu, gwarchlueddio; cadarnhau â milwyr; gosod byddin o wŷr mewn castell i'w amddiffyn; gosod gwŷr i warchod *neu* gadw lle; gwersyllu; gosod gwersyll mewn lle; cyflenwi *neu* gynnysgaeddu â milwyr.

Garrulity, *s.* (Ll. *garrulitas*) dywedgarwch, geiriolusrwydd, siaradgarwch, chwedleugarwch, llafargarwch, gwedgarwch, llafarusrwydd, llafarusder, geiriogrwydd, clebarddusrwydd, tafodrydd-deb, tafodrydd-der, tafodrydd-dra, llafarder, llafarwch; rhythni tafod *neu* ymadrodd; gwagsiarad, ofersiarad, siaradach, baldordd, clebar, ofersiarad, trydar, chwaldod; annystawrwydd; gormodd siarad.

Garrulous, *a.* (Ll. *garrulus*) siaradus, siaradgar, dywedgar, chwedleugar, tafodrydd, geiriolus, amleiriog, llafargar, gwedgar, llafarus, gwedfawr, chwedlog; gwagsiaradus, clebarddus, baldorddus; aml ei eiriau; yn caru dywedyd llawer; llawn trydar a gwagsiarad; annystaw, dadyrddus, sonfawr, llefawr, ymeirgar.

Garter, *s.* (Ff. *jarretière;* o'r C. *gardas*, yn marn *Johnson* a *Webster*) gardas, gardys, coesrwymyn, gardorch; arwyddfardd y gardas, penfrenin pen beirdd, pen yr arwyddfeirdd.
The Order of the Garter—Urdd y Gardas, Urdd y Gardas Aur=urdd farchogol â sefydlwyd gàn Iorwerth III.
Knight of the Garter—Marchog y Gardas, Marchog y Gardas Aur.
Garter king at arms—arwyddfardd y gardas, penfrenin pen beirdd, penfrenin yr arwyddfeirdd, pen-arwyddfardd Prydain Fawr.

Garter (in heraldry)—gardas, hanner tal-[aith.

Garter, *v. a.* gardasu, gardysu; clymu â gardas; rhwymo â gardas; clymu gardas am; clymu gardas; rhoi gardas am ei goes: gwisgo âg urdd y gardas.

Garterfish, *s.* gardasbysg.

Gartering, *s.* gardaswe, gardyswe; gardyson, gardasau; gwregysau.

Gartersnake, *s.* gardasneidr, gardysneidr.

Garth, *s.* (C. *gardd, garth*) cored, gored, cored bysgota; buarth, cae, garth, amgae, gower, gardd.

Garum, *s.* (Ll.; Gr. *garos*) heli pysg, sibrwy pysg.

Gas, *s.* (S. *gast;* Al. *geist;* Is. *geest;* Ff. *gaz*) nwy; *pl.* nwyon.
Animal gas—milnwy, nwy anifeilig, nwy milaid.
Carbonic acid gas—nwy sur ulwin, nwy sur ulyfig, nwy sur ulyf, tagnwy, tagawyr, tagdawch, trengwy, surnwy ulwin, surnwy ulyfig.
Hydrogen gas—ulnwy, nwy ulai; ulai.
Oxygen gas—ufelnwy, nwy ufelai; ufelai.
Nitrogen gas, } blornwy, nwy blorig, nwy
Azotic gas, } blorai; blorai.
Chloric gas—llasnwy, glasnwy, hoegnwy, lleblasnwy, halnwy.

Gasburner, *s.* nwylosgyr, nwylosgydd, llosgydd nwy.

Gascon, *s.* (Ff.=un o drigolion Gwasgwyn) ffrostiwr, ymffrostiwr, bocsachwr, broliwr, bostiwr, bragiwr.

Gasconade, *s.* (Ff. o *Gascon*, Gwasgwyniad) bost, ffrost, ymffrost, bocsach, brawl, brol, broled, gwagfost, gwagymffrost, gwagffostiad.

Gasconade, *v. n.* bostio, ffrostio, ymffrostio, bocsachu, bragio, brolio, brolian, gwagfostio, ymfolachu.

Gasconader, *s.* bostiwr mawr, bostiwr, ffrostiwr, ymffrostiwr, broliwr, bocsachwr.

Gaseous, *a.* (o *gas*) nwyol, nwyaidd; ar lun nwy.

Gaseous fluids—nwyon, nwyolion, hylifau nwyol.

Gaseous body—corff nwyol, gogwrf, nwygorff.

Gash, *s.* (Ff. *hacher*?) archoll, ffosawd, hac, hag, trwch, gwelyd, dyfndrwch, trych-hollt, trychwan, archoll safn-egor; cleddyfawd, cyllellawd; craith, ol craith.

To make a gash=*Gash*, *v.*

Gash, *v.* archolli, hacio, ffosodi, trychu, gowanu, trych-hollti, trychwanu; tori archoll; gwneuthur ffosawd.

Gashful, *a.* archollog, haciog, llawn archollion, llawn ffosodau; llawn haciau; irad, erchyll.

Gasholder, *s.* (*gas* a *holder*) nwy-lestr, nwylestryn, nwyddal, dalydd nwy.

Gasification, *s.* (o *gasify*) nwyad, nwyant, nwyoliaeth; gwneuthuriad yn nwy.

Gasify, *v. a.* (*gas*, a Ll. *facio*) nwyo, nwyoli; troi yn nwy; gwneuthur yn nwy.

Gasket, } *s.* (Ysp. *caxeta*) plethreffyn, plethrwy;
Casket, } secraff, sagraff.

Gaskins, *s. pl.* (Ll. *caligæ Vasconum*) llodrau llaes, llaes lodrau, rhydd lodrau, uchlodrau, llodrau.

Gaslamp, *s.* erllen nwy, llygorn nwy, nwylygorn, nwylugern, nwyerllen.

Gaslight, *s.* golnwy, nwywawl, goleu nwy, lleufer nwy, gwawl nwy, nwygan, agerwawl.

Gaslighting, *s.* golnwyad, nwy-oleuad, llewyrchiad â nwy, goleuo â nwy.

Gasmeter, *s.* (*gas* a *meter*) nwyfynag, nwyfesur.

Gasometer, *s.* (*gas*, a Gr. *metron*) nwyonyr, nwyfeidyr, nwyfydrai; nwygrawn, nwygronfa.

Gasometry, *s.* nwyfesuriaeth, nwyfeidraeth, mesuriaeth nwyon.

Gasp, *v. a.* (Sw. *gispa*; D. *gisper*) dyhëu, dyheuo, peuo, dyheued, peuannu; terthain, oriain; tynu yr anadl; cyrchu yr anadl; anadlu, chwythu; lluddedu; †hiraethu.

To gasp for breath—tynu anadl dàn ddyhëu, dàn beuo, *neu* dàn luddedu; dyhëu am anadl; agor y geneu mewn lludded *neu* dàn luddedu am anadl; terthain, oriain.

To gasp for life, } bod ar golli ei
To be gasping for life, } anadl; bod ar farw; bod ar drengu; bod ar drancedigaeth; bod ar ei derfyn.

Gasp, *s.* dyhead, dyheuad, peuad, peuant, peuawd, neuad, neuawd, neuant, tyniad anadl; agoriad y geneu mewn lludded *neu* dàn luddedu am anadl; ffun, chwyth, anadl; ebwch.

At the last gasp—ar yr anadl ddiweddaf; ar yr anadliad diweddaf; ar yr awr ddiweddaf; ar y mynyd diweddaf; ar dyniad yr anadl ddiweddaf; wrth dynu yr anadl ddiweddaf; yn tynu yr anadl ddiweddaf; ar awr angeu; wrth *neu* ar gyrhaedd yr uchenaid ddiweddaf; yn cyrhaedd *neu* yn cyrchu yr uchenaid ddiweddaf; ar derfynu; ar ymadael â'r byd; ar roddi i fyny yr ysbryd; yn rhoddi i fyny yr ysbryd; ar huno; ar farw; ar fin trancedigaeth; ar drengu.

To be at the last gasp—bod ar yr anadl ddiweddaf, &c.

To give the last gasp, } cyrchu yr uchen-
To fetch the last gasp, } aid ddiweddaf; cyrchu yr ochenaid ddiweddaf; cyrchu yr anadl ddiweddaf; cyrchu yr ochenaid; rhoi yr ebwch diweddaf; trengu; tynu yr anadl olaf; rhoi yr anadl olaf i maes; bod ar drengu.

Gas-pipe, *s.* nwybib, nwybibell, pibell nwy.

Gast, } † *v. a.* (S. *ghast*) brawychu, dychrynu,
Gaster, } hylldrawu.

Gaster, *s.* (Gr.) cylla, bol, ceudod, cwll.

Gasteralgia, *s.* (Gr. *gastêr* ac *algos*) gwaew bol, bolwst, gwaew y cylla, cyllagwst, cyllwst, y gnofa.

Gasteropoda, } *s. pl.* (Gr. *gastêr* a *pous*) bolbed-
Gasteropods, } ogion=y trydydd llwyth o
Gastropods, } Feddalogion, yn ol cyttrefn Cuvier. [einogion.

Gasteroptera, *s. pl.* (Gr. *gastêr* a *pteron*) bolad-

Gastness, † *s.* (o *gast*) syndod, synedigaeth, dychryn, braw.

Gastric, *a.* (o'r Gr. *gastêr*) cyllaol, cyllëig; perthynol i'r cylla; yn perthyn i'r bol.

Gastric juice — sudd y cylla, rhwyth y cylla, nodd y cylla, cyllnedd, y sudd cyllaol, y sudd cyllëig.

Gastric system—y trefniant cyllëig, cyttrefn y cylla, treuliadaeth, bwyttreuliadaeth.

Gastriloquist, *s.* (Gr. *gastêr*, a Ll. *loquor*) bollafarwr, cyllebrydd, bolebrydd, bolwedwr, bolwedydd, ffugebrydd, ffuglafarwr, ymleisiwr.

Gastriloquy, *s.* cyllebryddiaeth, bol-lafariaeth, bolebryddiaeth, bolwedyddiaeth, ffugebryddiaeth, ffugebri, cyllebri.

Gastritis, *s.* (Gr. *gastêr*) boldandde; fflameg y cylla.

Gastrocele, *s.* (Gr. *gastêr* a *cêlê*) bolfreg, boldor; bolchwydd.

Gastrology, *s.* (Gr. *gastêr* a *logos*) cyllofyddiaeth, cylladraith, bolyddiaeth, treithawd ar y cylla; traethawd ar ymborth.

Gastromancy, *s.* (Gr. *gastêr* a *manteia*) cyllarmes, bolarmes, cyllogan, bolddewiniaeth, cyllebrogan.

Gastronomist, *s.* bolgarwr; bwydofydd.

Gastronomy, *s.* (Gr. *gastêr* a *nomos*) bwydofyddiaeth, cyllwyddoriaeth; athrawiaeth bwyta ac yfed.

Gastropods, *s. pl.*=*Gasteropoda*, &c.

Gastropodous, } *a.* (Gr. *gastêr* a *pous*) bolbed-
Gasteropodous, } ogol, bolbedogaidd; perthynol i'r bolbedogion.

Gastroraphy, *s.* (Gr. *gastêr* a *rhaphia*) bolwniaeth, bolwniad, gwniad y bol.

Gastrotomy, *s.* (Gr. *gastêr* a *tomê*) boldrychiad, boldoriaeth, boldrychiaeth, boldoriad, trychiad gwaelod y bol.

Gate, *s.* (S. *gate*, *geat*) porth; llidiart, clwyd, gwddor; dor, drws; cynddor, cynhor, cyntor, cynnor, talddrws, porthddor; agoriad, rhodfa, ffordd.

Flood-gate — lliddor, llifddor, dyfrddor, argae; gollyngfa dwr, bala llŷn.

Outer gate—rhagborth, porth allan.

Postern gate—porth cefn, drws cefn, drws dyeithr.

Gate-chamber — porthgell, dorgell, cell porth, clwydgell.

The gates of the shadow of death—pyrth cysgod angeu.

Gated, *a.* porthog; âg iddo byrth; llidiartog.
Gatehouse, *s.* cynhordy, porthdy, cynnordy, ty y porth, bardeldy.
Gatekeeper, *s.* porthor, ceidwad y porth, cynhorawr; drysor: *f.* porthores, drysores.
Gateless, *a.* diborth; diglwyd.
Gatevein, *s.* y wythen borth, porthwythen, dorwythen.
Gateway, *s.* sangiar, porth, cyntedd, porthrawd; ffordd borth, ffordd lidiart, ffordd lidiartog, ffordd trwy lidiartau; sangiardy.
Gather, *v.* (S. *gaderian, gatherian;* Is. *gaderen*) casglu, cynnull, crynöi, cynnullo, clasgu, cydgasglu, dargynnull, dargroni, croni, hel, hela, dwyn yn nghyd; pentyru, crugio, tyru, gwraddu; crychu, dillio, torchi; crawnu, gori, madru; ennill; cywain; ymgasglu, ymgynnull, ymgrynöi, ymdyru; cynnyddu; dyfod yn nghyd; tynu yn nghyd; helfu; lloffa, pigo; grëu.
To gather again—adgasglu, adgynnull, ail gasglu, ail gynnull, casglu drachefn.
To gather in crowds—cydymgasglu, cydymdyru, cydymgynnull, ymdyru; myned yn dyrau; ymgynnull *neu* ymgasglu yn dyrau; twysgo, cyrchu, *neu* heidio at eu gilydd.
To gather to a curd—ceulo, ymgeulo, ceuledu, cawsio, cawsu.
To gather strength—gwrygio, gwrygiannu, ymgryfhau; ennill grym, ynnill cryfder, ennill nerth, magu grym.
To gather grapes—casglu, cynnull, cynnuafu, hel, hela, *neu* hely grawnwin.
To gather out stones—digaregu.
To gather together—cydgasglu, cydgynnull, cydgrynöi, cydhela; casglu yn nghyd; cynnull yn nghyd; &c.; dwyn yn nghyd; hel yn nghyd; ymgasglu, ymgynnull, ymdyru; ymdyru yn nghyd.
To gather together on heaps—tyru, pentyru, crugio, dasylu, cruglwytho.
To gather up—casglu, cynnull.
To gather apples—afaleua; casglu afalau, cynnull afalau, hel afalau.
To gather nuts—cneua; casglu cnau, &c.
To gather fuel—cynnuta, casglu tanwydd, cynnull briw-wydd, coeda, coeta, hel tanwent; hel peth ar y tân.
To gather in plaits — cynnull, dillio; crychu.
To gather in — cywain, cynnull; casglu i'r ysgubor; casglu i mewn.
To gather ground—ennill tir.
To gather (as a sore)—crynöi, ymgrynöi, crawnu, madru, gori.
To gather one's self up—ymgrynöi.
Gathered together on heaps—pentyredig, tyredig, crygedig; à bentyrwyd, &c.; cludeiriol, carneddol.
Easily gathered, } hygasgl; hawdd ei
Easy to be gathered, } gynnull; hawdd ei gasglu; hawdd i'w gynnull *neu* gasglu.
To reap and gather corn—medi a chynnull.
They have gathered themselves together—cydymgasglasant.
Gather thyself in troops—ymfyddina.
The men that fell away gathered themselves together — ymgasglodd yr encilwyr.
I will gather thee unto thy fathers—mi a'th gymmeraf di ymaith at dy dadau (2 *Bren.* xxii. 20).
To gather breath † — seibio; cymmeryd seibiant, cymmeryd anadl.
Gather, *s.* casgl; dill, crych, crychni, plyg, dyblyg.
Gatherable, *a.* casgladwy, cynnulladwy; hygasgl.
Gatherer, *s.* casglwr, casglydd, cynnullwr, cynnullydd, crynöwr, clasgwr; cyweiniwr; cynauafwr.
Gathering, *s.* casgliad, cynnulliad, crynoad, casgl, cynnull, clasg, cydgasgl, casglfa, clasgiad, cynnullaid, cynghrawn, cronfa, gwraddiad; pentwr, twr, crug; haid, torf, tyrfa, cynnulleidfa; crawn, cornwyd, gorgai, madredd: *pl.* cynnullion, helion.
Gathering together—cydgasgliad, cydgynnulliad; cynnulliad yn nghyd; cynnulliad.
In-gathering of corn—cynnull yd, cywain yd.
A great gathering of the mob—tewdwr o'r werinos.
Gathers, *s. pl.* cynnullion, cynnulliadau, plygion, dilliau, plygiadau; helion; y cynnull; crychni.
Gattertree, *s.* cwyros gwyllt.
Gat-toothed,† *a.* (*goat-toothed*) dantfelus.
Gaud,† *v. n.* (Ll. *gaudeo*) llawenhau, llawenychu, gorfoleddu.
Gaud,† *s.* (Ll. *gaudium*) tegan, dillyn, addurn, coegaddurn.
Gauded,† *a.* addurnog, addurnedig, teganog, coegaddurnog.
Gaudery, *s.* (o *gaud*) coegwychder, gwychder, ceinwychder, ceinwychedd; harddwisg, ceinwisg; addurnau, coegaddurnau, dillynion, addurndrec; gwychderau, coegwychderau, harddwisgoedd, ceinwisgoedd; pethau gwychion.
Gaudful, *a.* llawen, gorfoleddus, llonwych; gwych, ceinwych.
Gaudily, *ad.* yn goegwych.
Gaudiness, *s.* coegwychder, coegwychedd, ceinwychder, ceinwychedd, ffolwychder, hoewychder, claerwychder, ffugwychder; coegaddurnau, addurndrec; dangosiadusrwydd.
Gaudless, *a.* diaddurn, anwych, diwychder.
Gaudy, *a.* (Ll. *gaudeo, gaudium*) coegwych, gorwych, coegddysglaer, coegddillyn, gorddillyn, rhyddillyn, ceinwych, claerwych, hoewych, hoew-wych, ffolwych, eirian, dangosiadus, hoew, gwych, ysblenydd, pinc, pefr, coegynaidd.
Gaudy dress—gwisg goegwych.
Gaudy, *s.* gŵyl, cofwyl, gwledd.
Gaudy days—dyddiau gŵyl, dyddiau gŵylion, gwyliau, cofwyliau.
Gauge, *v. a.* (Ff. *jauge*) mesur, mesuro, ganiadu, ganfesur; cyfartalu, cymmedroli; mesuro gàn, maint, *neu* gynnwysiad; mesur llestri pengaead.
Gauged arches—ganfwau, ganfydau.
Gauge, *s.* mesur, mesuren, mesurai, ganiadyr, cyfartalai, meidyr, mydrai, meidradyr, meidradydd, meidr, mesurydd; mesuriad, ganiad, maint.
Gauge point—ganbwynt, ganbwnc, mesurbwynt.
Gauger, *s.* mesurydd, mesurwr, meidrydd, ganiadur, ganiadwr, ganfesurwr; mesurwr llestri pengaead; ffonfesurwr.
Gauging, *s.* ganiadaeth, ganfesuriaeth, mesuriaeth llestri, mesuriad llestri.

Gauging-rod, *s.* mesurlath, mesurffon, ganialen; mesurai.
Gault, } *s.* fferfarl, delfarl=math o farl an-
Galt, } hyblyg.
Gaunch, } *v. a.*= { *Ganch.*
Ganch, } { *Gaunch.*
Gaunt, *a.* (S. *gewanian*? C. *gwàn*?) cul, achul, teneu, culfain, main, truan, llwm; dim ond y croen a'r esgyrn; dim ond croen ac esgyrn; gwag; newynllyd.
Gauntlet, } *s.*= { *Gantlet.*
Gantlet, } { *Gauntlet.*
Gauntleted, *a.* dyrnfolog.
Gauze, *s.* (Ysp. *gasa;* Ff. *gaze*) niwlwe=math o feinwe neu deneuwe o lin neu sidan.
Gauzeloom, *s.* (*gauze* a *loom*) gwŷdd niwlwe.
Gauzy, *a.* (o *gauze*) niwlweog, niwlweaidd; mòr deneu a niwlwe; teneu.
Gavel, *s.* (Ff. *gavelle;* It. *gabella;* S. *gafel, gafol*) treth, cyllid, toll, ardreth, tâl, teyrnged.
Gavel, *s.* (Ff. *javelle*) llawr; gafael.
Gavel, *s.* (C. *gafael*) piniwn, gafael, piniwn ty, gafael ty, tâl ty.
Gavelet, *s.* rhyddrentwys.
Gavelkind, *s.* (o'r C.; Gw. *gabhail-cine*) gafael oenedl, rhyddrent; rhaniad tir yn gyfartal rhwng meibion.
Gavelock, } *s.* (C. *gafael*?) trosol haiarn, gwif
Gaveloc, } haiarn, bàr haiarn.
Gavelweck, *s.* gafaelwaith.
Gavial, *s.* afanc y Ganges, addanc y Ganga.
Gavilan, *s.* hebog yr Ynysoedd Philippin.
Gavot, *s.* (Ff. *gavotte;* It. *gavotta*) chweiddawns, dawns bywiog, dawns brysg.
Gawby,† *s.* cuall, delff, ffwlcyn, ynfydyn, ffwl, hurtyn.
Gawk, *s.* (S. *gæc, geac;* Al. *gauch;* Sw. *gäck*) cog, cwcw; hurtyn, hurthgen, ffwlcyn, cuall; yslebog.
Gawky, *a.* (o *gawk*) ffol, ynfyd, hurt, delffaidd; trwsgl, trwstan, chwithig, lledchwith, echwith, carbwl, musgrell, swga, yslebog, llabïaidd, llabystaidd.
Gawky, *s.* yslebog, yslebryn, llabi, llabwst, lleban, swga, yslebyn, cuall, hurthgen, trysglyn, un swga, un yslebog: *f.* yslebren, swgan, llaesen, llabïes, llabïen, un drosgl, un soga.
Gawn, } *s.* twba, llestr.
Gaun, }
Gawntree, } *s.* (*gawn* neu *gaun* a *tree*) tresgl
Gauntree, } barilau.
Gay, *a.* (Ff. *gai;* It. *gaio;* Llyd. *gae*) llonwych, llawen, gorhoenus, hoenus, gorawenus, llon, difyr, hylon; gorwych, gwych, (*f.* gwech), hoewych, hoew, oeinwych, dysgleirwych, taclus, harddwych, trwsiadus, coegynaidd, pefrynaidd, pinc, pefr, pefrin, pefraidd, eirig, eirian, dangosiadus, rhyddillyn; esgaidd, gweisgi; dyrchafedig; chwarëus, chwareugar, nwyfus; ysgafn, bronysgafn.
To love to go gay—hoffi gwychder; hoffi bod yn wych, &c.
Gay,† *s.* addurn, tegan, dillyn.
Gayety, } *s.* (Ff. *gaieté*) llonder, llonwychder,
Gaiety, } llondra, llonedd, llawenydd, llawenwch, gorhoen, gorawen, hoen, hyfrydwch, hoenusrwydd, llonwch, digrifwch, difyrwch; gwychder, gorwychder, gwychedd, gwympedd, hoewedd, hoewder, hoewychder, dillynder, dillynedd, harddwch; ysgafnder, bronysgafnder; nwyfusrwydd, nwyfusdar, nwyfiant; nwyfchware, nwyfwareu.
Gay-Lussite, *s.* delidfaen, à alwyd felly odd wrth *Gay-Lussac*, y fferyll Ffrengig.
Gayly, } *ad.* yn llonwych, yn llon, yn llawen, &c.
Gaily, }
Gayly-gilded, *a.* gwedi ei oreuro yn wych; gwych-euredig, gwych-eurog.
Gayness, *s.*=*Gayety, Gaiety.*
Gaysome, *a.* llonwych, llawen, hylon, llon, gorhoenus, gorawenus, digrifiawn; llawn llawenydd, &c.
Gaze, *v.* (Gr. *agazomai*? S. *geseam*?) syllu, syllio, tremio, tremu, ardremu, ardremio, arsyllu, darsyllu, llygadrythu; hylldremu, hylldremio; craffu, llygadgraffu, llygadu, selu, sylliannu; sanu.
To gaze on, } syllu ar, llygadrythu ar,
To gaze upon, } &c.; craffu ar; taer edrych ar; edrych yn graff *neu* graffus ar; dàl sylw ar; rhythu llygaid ar; amchwelyd llygaid ar; taenu llygaid ar.
To gaze idly about—llygadwibio, segursyllu, segurdremio, ofersyllu.
To stand gazing up into heaven—sefyll yn syllu *neu* yn edrych tua'r nef.
To stand gazing about—sefyll yn amdremu; sefyll yn llygadrythu *neu* yn llygadwibiaw oddi amgylch; sefyll yn syllu *neu* yn edrych yn ei gylch.
Gaze, *s.* trem, syll, ardrem, hylldrem, seldrem, sylliad, syllt, sylliant, taer edrychiad, sylw, arsyll; san, golwg syn; syllbeth; peth i edrych arno dàn ryfeddu; peth i syllu arno; gweledigaeth.
To stand at a gaze—sefyll yn hurt, yn syn, *neu* yn syfrdan; sefyll heb wybod beth i'w wneuthur; sefyll ar hylldrem; petruso.
At gaze—ar syll, ar drem, tremiol, yn syllu.
Gazeful, *a.* llygadrythus, syllgar, tremgar, hylldremgar, llygadrwth, (*f.* llygadrothi, tremiog, sylliog; yn edrych yn syn.
Gazehound, *s.* (*gaze* a *hound*) syllgi, tremgi, bytheuad golwg.
Gazel, } *s.* (Ff. *gazelle;* o'r Ar.) gafrewig=
Gazelle, } anifel mewn rhan yn debyg i afr, a mewn rhan yn debyg i ddanas neu ewig.
Gazement,† *s.* golwg, syll, syllt, tremiad, sylliad.
Gazer, *s.* syllwr, syllydd, tremiwr, tremydd, tremidydd, tremiedydd, darsyllwr, darsyllydd, arsyllwr, arsyllydd, llygadrythwr, llygadrythyn, hylldremiwr, taer edrychwr.
Gazette, *s.* (Ff.; It. *gazzetta;* Ysp. *gaceta*) newyddiadur, newyddor, newyddur; llysnewyddor, llysargraff, llywodlen.
London Gazette—Llysnewyddor Llundain, Llysargraff Llundain = newyddiadur swyddol y llywodraeth.
Gazette, *v. a.* cyhoeddi mewn newyddiadur; gosod mewn newyddiadur; cyhoeddi yn y llysargraff; newyddori, llysnewyddori, llysargraffu.
Gazetteer, *s.* (o *gazette*) geiriadur daearyddol, partheiriadur, parthediadur, parthsyllydd; newyddwr, ysgrifenwr newyddion, cyhoeddwr newyddion, newyddwr swyddol, hoeddiadur, hoeddiadwr; newyddiadur, newyddlen.
Gazingstock, *s.* (*gaze* a *stock*) syllgyff, tremgyff, gwawd-ddrych, drych gwawd, drych, san-

ddrych; gwawd; peth i edrych arno gàn ei aruthred.
Gazon, *s.* (Ff.) mawnwaith; mawnwyneb mewn caerwaith.
Geagh, *s.* yn mhlith y Tyrciaid, cylch amseryddol o 12 mlynedd.
Geal,† *v. n.* (Ll. *gelo;* Ff. *geler*) rhewi, ceulo.
Gean, *s.* (Ff. *guigne*) huddgwyr, ceirios du.
Gear, *s.* (S. *gearwian, gyrian;* Al. *gar;* Is. *gaar*) cêr, seirch, trec, cyfarpar, offer, harnais, taclau, gweddeifau, gweddau, tresi; dodrefn, celfi; gwisg, gwisgad; addurn, addurnau, addurndrec; ceriach, teganau; defnydd, nwydd, cyffyr.
In his gears—mewn cyweirdeb a pharodrwydd; yn ei arfau; yn ei offer; â'i arfau am dano; â'i gêr *neu* drec am dano; gwedi ymwregysu at *neu* i orchwyl; cwbl-arfog.
Draught gear—tyndrec, trec tynu.
Gear, *v. a.* trecio, gwisgo, taclu, seirchio, harneisio, cerio; gwisgo seirch am.
Gearing, *s.* taclau, cêr, trec, offer, tacl; treciad, seirchiad; deintrodau, trecrodau, cogrodau; deintrod.
Geason,† *a.* rhyfeddol, anghyffredin.
Geat, *s.* (Is. *gat*) y twll y rhed mettel trwyddo i'r fold. [penbwl.
Geck,† *s.* (Al.) cuall, delff, cadafael, hurtyn,
Geck,† *v. a.* twyllo, hocedu, hudo.
Gecko, } *s. pl.* (*gecko*, yr enw Indiaidd) y
Geckotidæ, } nosfadfilod, y nosfadfeillod.
Gee, } *in.* twa, hwa, tw.
Jee, }
Geer, *s.*=*Gear.*
Geese, *s. pl.* (o *goose*) gwyddau.
Wild geese—gwyddau gwylltion, elcys.
A flock of geese—haid o wyddau; deadell o wyddau.
Every man thinks his own geese swans—goreu, gwell, teg, *neu* decach gàn bob un ei ledfegyn ei hun; gwŷn y gwel y frân ei chyw.
Geest, *s.* hen farian, hen faranedd.
Gehenna, *s.* (Gr. o'r H. *ge-Hinnom*) uffern; Gehenna.
Gehlenite, *s.* (o *Gehlen*, y fferyll) delidfaen, à geir yn benaf yn Mynydd Monsoni.
Gelable, *a.* (o'r Ll. *gelo, gelu*) ceuladwy, hygaul, hyffer, fferadwy.
Gelatine, } *s.* (It. ac Ysp. *gelatina*, o'r Ll. *gelo*)
Gelatin, } ceulednur, ceuledain, teglud, ceuledlud.
Gelatine sugar—glysugr, chweglud, sugr ceuledain.
Gelatine, } *a.* gludiog, gludiol, hylud, gwydn,
Gelatinous, } hylyn; ceuledain, ceulednurol, ceulednuraidd, tegludiog; ceuledig.
Gelatinate, *v.* ceuledeinio, ceulednuro, tegludio; troi yn lud; myned yn geulednur; ymgeuledu.
Gelatination, *s.* ceuledeiniad, ceulednuriad, ymgeulediad, tegludiad; mynediad *neu* droad yn lud.
Gelatiniform, *a.* (*gelatine* a *form*) ar ddull ceulednur; tegludaidd.
Gelatinize, *v. n.* myned yn geulednur; myned yn deglud; ceulednuro, ymdegludio.
Gelatinosi, } *s. pl.* ceuledogion, tegludogion=
Gelatines, } cenedl o filod.
Geld,† *s.* (Al. ac Is; S. *gild*) arian, treth, tâl; pris cosp.

Geld, *v. a.* (Al. *geilen, gelten;* D. *gilder*) dysbaddu, ysbaddu; cyweirio, tori.
Gelding horse—march dysbaidd, adfarch, dadfarch, dysbeiddfarch.
Gelded, } *p. p.* dysbaddedig, ysbaddedig, dys-
Gelt, } baidd, dysbadd.
Gelt goat—hyfr, hafr: *pl.* hyfrod, hafrod, heifr.
Gelded bull—bwla, dadfwl, adfwl, attarw, dattarw, tarw dysbadd, buelyn.
Gelder, *s.* dysbaddwr, ysbaddwr, cyweiriwr, torwr.
Gelder-rose, } *s.* (o *Guelderland*) gwifwrn-
Guelder-rose, } wydd, corswig, corswigen, ysgaw y gors, corsysgaw.
Mealy gelder-rose—gwifwrnwydd blawdog.
Gelding, *s.* (o *geld*) anifail dysbaidd, dysbadd; march dysbaidd, ceffyl dysbaidd, adfarch, dadfarch, dysbeiddfarch.
Gelid, *a.* (Ll. *gelidus*) oer, oer iawn, fferllyd; oer fel rhew; rhewllyd, rhewlyd.
Gelidness, *s.* oerni, oerder, oerdra, oeredd, oerdeb, fferder, fferdra, fferdod, fferiant, fferllydrwydd; rhewllydrwydd.
Gelly, *s.* (Ff. *gelée;* Ysp. *jalea;* o'r Ll. *gelo, gelu*) gludgeuled, glygeuled, gludgaul, gludrwyth, ceuledrwyth, ceuled, sew; ceulfwyd, sewfwyd.
Geloscopy, *s.* (Gr. *gelôs* a *scopeô*) chwarddarmes, chwarddogan, dewiniaeth oddi wrth chwerthin.
Gelt,† *s.*=*Gelding.*
Gelt,† *s.* coegaddurn, arwyneb goreuredig.
Gem, *s.* (Ll. ac It. *gemma;* Gw. *geam;* Is. *kiem;* Al. *keim*) gem, em, glain, maen gwerthfawr; tlws, berthyd; blaguryn, cynflaguryn, baldardd, bal.
Artificial gems—gemau celfyddydol, gemau gwneuthur, gemau gwneuthuredig; ffugemau.
Work studded with gems—gemwaith.
Abounding with gems—gemog, llawn gemau.
Gem, *v.* gemu, emu, gleinio, tlysu; addurno â gemau, gleiniau, *neu* dlysau; seirianu, seriglo; blaguro, blaendarddu, baldarddu, balannu, bywullu.
Gemara, *s.* (Cal.) yr ail ran o'r *Talmud*, neu yr Esboniad ar y *Mishna.*
Gemaric, *a.* (o *Gemara*) Gemarig, Gemaraidd; perthynol i'r Gemara.
Gemel, *s.* (Ll. *gemellus*) pâr, dau, cwpl, dau efell, dau efaill.
Bars gemel, } gefellfarau, dau fâr, barau
Bars gemelles, } dyblyg, pâr o farau.
Gemelliparous, *a.* (Ll. *gemellus* a *pario*) gefellddwyn; yn dwyn gefellod.
Gemelring, *s.* (*gemel* a *ring*)=*Gimbals*, &c.
Geminate, *v. a.* (Ll. *gemino*) dyblygu, deublygu, gefeillio, plygu.
Geminate, } *a.* (Ll. *geminatus*) gefeilliog; dy-
Geminated, } blyg; parog; yn barau.
Geminate, *v. a.* (Ll. *gemino*) gefeillio, dyblygu.
Gemination, *s.* (Ll. *geminatio*) dyblygiad, deublygiad, dyblygiant, adblygedd, mynychiad.
Gemini, *s. pl.* (Ll.) y Gefellod, y Gefeilliaid, arwydd y Gefellod.
Geminous, *a.* (Ll. *geminus*) gefeillaidd, llallogaidd; dyblyg, deublyg, yn barau, yn gyplau.
Geminy, *s.* (Ll. *geminus*) gefeilliaid, gefellod; pâr, cwpl, dau.

Gemmæ, *s. pl.* (Ll.) deilfiagur.
Gemmary, *a.* (o *gem*) gemol, gemaidd, emaidd, gleiniol.
Gemmation, *s.* (Ll. *gemmatio*) blaendarddiad, baldarddiad, blaguriad, eginad, balant, baldardd.
Gemmels, *s. pl.* (Ll. *gemellus*) colfach, bach, colyn.
Gemmeous, *a.* (Ll. *gemmeus*) gemaidd; gemog, gleiniog, emog; fel geman.
Gemminess, *s.* (o *gemmy*) dillynedd, dillynder, tlysni, tlysedd, pertrwydd, pertedd, pefrineb, pefredd, pincrwydd, gwychder, hoewder.
Gemmiparous, *a.* (Ll. *gemma* a *pario*) blagurddwyn, eginddwyn, balddwyn; yn dwyn blagur neu fywull.
Gemmosity, *s.* (Ll. *gemmosus*) gemogrwydd, gemoldeb, gemolrwydd, gemeiddrwydd, emidrwydd.
Gemmule, *s.* (Ll. *gemmula*) gemig, emig; balennyn, bywullyn, blaguryn bychan.
Gemmy, *a.* (o *gem*) gemog, emog, gemaidd, gleiniog; dysglaer, llachar, llathr, offlan, seirian, serigl, ffloew, ysblenydd; dillyn, tlws, pefr, pert, pinc, gwych, clws, del, syw, hoew.
Gemote,† *s.* (S.) cyfarfod; llys cwmmwd.
Gemsbok, *s.* (Al.) gwillfwch=un o'r crychgyrn.
Gem-sculpture, *s.* gemgerfiadaeth, gemgrifiadaeth, gemgrifiaeth, cerfiadaeth gemau.
Gena, *s.* (Ll.) boch, grudd.
Gendarme, } *s.* (Ff. *gens d' armes*) heddarfogion
Gendarm, } (yn Paris gynt).
Gendarmery, *s.* (Ff. *gendarmerie*) heddoesgordd, yr heddarfogion, y corff o heddarfogion.
Gender, *s.* (Ff. *genre*; It. *genere*; o'r Ll. *genus*) rhyw, rhywogaeth, ystlen, ysglen, cenedl, cenelryw.
Masculine gender—y rhyw wrywol, y rhyw wrywaidd, yr ystlen wrywaidd, yr ysglen wryw, y genedl wrywaidd.
Feminine gender—y rhyw fenywol, y rhyw fenywaidd, yr ystlen fenywaidd, yr ystlen fenyw, yr ysglen fenyw, y genedl fenywaidd.
Neuter gender—canolryw, y ganolryw, y neodr, nidryw, ystlen rydd, rhyw anystlen.
Gender, *v.* cenedlu, epilio, hilio, esgillio, rhialu; ymrewydd, ymrewyddu, cyridio, ymrain; magu.
Genealogical, *a.* (o *genealogy*) achol, achyddol, llinach, achweddol; perthynol i achau; yn perthyn i ddisgyniad cenedl; achresol.
Genealogical table — taflen achol, taflen achyddol, taflen achau; achres, achrestr, cofrestr achau.
Genealogist, *s.* achwr, achydd; olrheiniwr achau, hanesydd achau.
Genealogize, *v. n.* dwyn achau, olrhain achau, adrodd llinach, hanesu llinach, achyddu.
Genealogy, *s.* (Gr. a Ll. *genealogia*) ach; llinach, bonedd, achwedd, achres, asglinen, edryd, edryf, cenedl, gwelygordd, gwehelyth, ach ac edryd, ach ac edryf; achyddiaeth, hanes ach; achau.
Genealogies of the British Saints—achau Saint Ynys Prydain; bonedd Saint Ynys Prydain; achau y Seintiau Prydeinig; bonedd y Saint Brythonig.
, *s. pl.* (Ll. o *genus*) tylwythau, rhywiau.
Genera and species—tylwythau a rhywogaethau; rhywiau a rhywogaethau; rhywogaethau a rhithogaethau; rhywiau ac unigynau; tylwythau ac unigolion; rhywiau ac adrywiau; rhywiau a rhithiau.
Generable, *a.* (Ll. *generabilis*) cenedladwy, epiliadwy, hiliadwy.
General, *a.* (Ff. o'r Ll. *generalis*) cyffredinol, cyffredin; arferol, arferedig; hollol; cyfan; helaeth; à berthyn i'r cwbl; perthynol i bawb; pen-, prif, penaf.
General council — cynghor cyffredinol, cynghorfa gyffredinol.
General assembly—cymmanfa gyffredinol; llwyrwys.
A general scholar — ysgoläig cyffredinol, ysgolor cyffredinol; un hyfedr neu gyfarwydd mewn pob dysgeidiaeth; un gwybodus yn yr holl gelfyddydau.
Solicitor general—erlynwr cyffredinol, erlynydd cyffredinol, erfyniwr cyffredinol, erlynwr y goron, pen-erlynydd.
Attorney general—cyfreithiwr y goron, dirprwywr cyffredinol, attyrnai cyffredinol, cyfreithiwr cyffredinol.
Vicar general—ebrwyad cyffredinol, prwyadr cyffredinol, pen-prwyad, pen-ebrwyad.
Adjutant general—penrhagweinydd.
Quartermaster general—penlluestai, penlluestydd, penlluestwr.
General, *s.* y cyfan, yr oll, y cyfoll, y cwbl: y rhan fwyaf; peth cyffredinol; †y cyhoedd, y wlad: *pl.* cyffredinolion.
In general—yn gyffredinol, yn hollol.
All in general — oll i gyd; pawb yn gyffredinol.
General, *s.* cadfridog, cadfiaenor, cadfiliad; tywysog llu, blaenor llu; penaeth; cyffredinsain.
General-in-chief—pencadfridog, cadfridog penaf, y prif gadfridog, y cadfridog, y pencadlyw.
Lieutenant-general — isgadfridog, adgadfridog, rhaggadfridog.
Major-general—meigadfridog, catrodfridog=y swyddog milwraidd nesaf mewn gradd is yr adgadfridog.
To make one general—gwneuthur un yn gadfridog, &c.; gwneuthur un yn dywysog neu fiaenor llu; gosod neu roi un yn ben ar lu; rhoi llywodraeth llu neu fyddin i un.
The general of the king's army was Joab—tywysog llu y brenin oedd Ioab (1 *Cron.* xxvii. 34).
Generalissimo, *s.* (It.) penciwdod, cadlywydd, pencadlyw, catteyrn, pencadfridog, prifiywydd, penllywydd, pendragon, gorthywys, penllueddwr, penllüyddwr, pentywysog y fyddin.
Generality, *s.* (Ff. *généralité*) cyffredinolrwydd, cyffredinoldeb, cyffredinolder, cyffredinrwydd, cyffredinedd, cyffredinwch, cyffredinder; y rhan fwyaf, y rhan amlaf, y rhan oreu, y cyffredin, y nifer mwyaf, y corff, y lluaws; pawb.
Generalization, *s.* cyffrediniad, cyffredinisaeth, cyffrediniant, cyffredinoliaeth, cyffredinoliad; dosbarthiad.
Generalize, *v. a.* (o *general*) cyffredinoli.

cyffredino; troi neilltuolion yn gyffredinolion; gwneuthur yn gyffredinol; dosbarthu; rhywio, rhywogaethu; dosbarthu yn rhyw *neu* rywogaeth.

Generally, *ad.* yn gyffredinol, yn gyffredin; gàn mwyaf, yn amlaf, fynychaf, yn fynychaf; yn hollol, achlân; ar y cyfan.

Therefore I counsel that all Israel be generally gathered unto thee—am hyny y cynghoraf lwyr gasglu atat ti holl Israel (2 *Sam.* xvii. 11).

Generalness, *s.* helaethrwydd mawr; cyffredinrwydd, cyffredinedd, cyffredinwch, cyffredinder, cyffredinolder; mynychder, mynychdra, mynychedd.

Generalship, *s.* cadfridogaeth, cadfilaenoriaeth, cadlywyddiaeth, cadfiliadaeth, aerlywyddiaeth; cadbwyll, cadfedrusrwydd, cadfedr, cadgymmedr, cadfedredd, hyfedredd cadfridog, hyfedredd yn nhywysogaeth llu.

Generalty, *s.* cyffredinolrwydd; y cyfan, yr oll, y cyfoll; pawb; cyfiwyrder, llwyredd.

Generant, *s.* (Ll. *generans*) hiliedydd, hilig, cynnyrchai, cenedlor; hilnerth.

Generate, *v. a.* (Ll. *genero*) cenedlu, hilio, epilio, essillio, rhialu, ennill plant, ennill epil; peri, achosi, cynnyrchu, echlysu, gwneuthur; llunio; ffurfio; eigio, heigio, cleinio; magu.

Generation, *s.* (Ff.; Ll. *generatio*) cenedliad, epiliad, hiliad, hiliadaeth, hiliawd, essilliad, cynnyrchiad, achosiad; cenedlaeth, hiliogaeth, epil, hil, epiledd, hiliant, addon, ystlynedd; rhywogaeth, rhyw, cenedl, llwyth; ach, achau, bonedd; oes; to; genedigaeth.

The rising generation—y to ieuanc; y to sy'n codi; y genedl sy'n codi; y genedl ieuanc.

The present generation—y to hwn; y to y sydd; y genedlaeth hon; y genedl bresennol; yr oes hon; yr oes bresennol.

The generation to come—y to à ddel; y genedlaeth à ddaw; y to i ddyfod.

Generation of vipers—cenedlaeth, epil, *neu* hiliogaeth gwiberod.

Equivocal generation, } cenedliad a-
Spontaneous generation, } mwys; ymgenedliad; cenedliad o hono ei hun=dychymyg disail anianyddion gynt.

Generative, *a.* cenedledigol, cenedliadol, hiliol, hiliadol, epiliol, rhialus, hilig; à genedlo, à epilio; à ddygo ffrwyth; à bair genedliad *neu* epiliad; epiliog, hiliog, ffrwythlawn; eigiol.

Generator, *s.* (Ll.) cenedlor, cenedlydd, cenedlwr, epilydd, hiliwr; eiglestr.

Generic, } *a.* (It. ac Ysp. *generico*; Ff. *gen-*
Generical, } *érique*; o'r Ll. *genus*) rhywogaethol; perthynol i rywogaeth; tylwythol; rhywiol, prifrywiol, cynrywiol; cyffredinol.

Generically, *ad.* yn rhywogaethol; yn ol eu rhywogaeth; wrth eu rhyw.

Generosity, *s.* (Ll. *generositas*) haelioni, haeledd, haelder, haelionusrwydd, haelgarwch, haelusrwydd, hygedrwydd, rhoddgarwch, haelonedd, haelionedd, rhwyddedd calon, rhulledd, rhullder, bronhaelder, syberwyd; rhyddfrydedd, rhyddfrydigrwydd, haelfrydedd, haelfrydigrwydd; mawrfrydedd, mawrfrydigrwydd, mawreddigrwydd; mynogaeth, mynogi, mynogrwydd, nawseiddrwydd, tirionwch, boneddigrwydd, boneddigeiddrwydd; oleufrydedd; rhydd-der meddwl *neu* ysbryd; anghaethder meddwl *neu* ysbryd.

Generous, *a.* (Ll. *generosus*; Ff. *généreux*) hael, haelionus, rhwyddgalon, rhyddgalon, hyged, bronheilin, haelgar, haelfrydig, rhyddfrydig, hyrodd, cedrwys, haelwych, haelus, heilin, rhoddgar, cedol, llawegor, rhwyddged, rhwydd ei galon; mawrfrydig, mawrfrydus, mawreddog, mawrydig, syberw, godidog, ardderchog, gwych, boneddigaidd, boneddig, anrhydeddus, mygedog, myg, mynog, cyweithas, cleufryd, cleufrydig; rhydd *neu* anghaeth ei feddwl; rhydd *neu* anghaeth ei ysbryd; dibrin, llawn, helaethwych; gorisgellog; gorewyn; cryf, cadarn, gwrdd, ysbrydlawn, nwyfus, bywiog, calonog, arialus.

Generous kind—haelryw.

Of a generous sort—haelryw; hael ei ryw.

Generous-hearted—haelfron, rhwyddgalon, rhyddgalon, bronheilin, calonrydd; rhwydd *neu* rydd ei galon.

Generous person—un hael; dyn haelionus, &c.; bronheilyn.

Generous act—gweithred hael, &c.; haeloniaeth, haelonaeth.

Generous cup—cwpan llawn, cwpan cyforiog, cwpan haelwych.

Generousness, *s.* (o *generous*)=*Generosity*.

Genesis, *s.* (Gr.=cenedliad) Genidas, Genesis=llyfr cyntaf Moses.

Genet, *s.* (Ff.) crynfarch, corfarch, merlyn; ceffylyn Yspaenig lluniaidd lledfychan: corfele.

Genethliacal, } *a.* (Gr. *genethliacos*) genidar-
Genethliac, } mesol, genidfrudiol, genidionol; yn dangos cyfleadau y ser ar amser genedigaeth un.

Genethliacs, *s.* genidarmes, genidfrudiaeth=gwyddor dewinio tyngedfen un oddi wrth gyflead y planedau ar ei enedigaeth.

Genethliatic, *s.* genidarmeswr, genidfrudiwr, genifrudiwr; un à frudio enedigaeth; serddewin.

Geneva, *s.* (Ff. *genievre, genevre*) merywin, merywlyn, gwirod meryw, eithinwy, pereithwy.

Genial, *a.* (Ll. *genialis*) hylon, llonwych, llon, llawen, difyr, gorhoenus, gorawenus, hoewych, difyrgar, siriol, siriolwych, digriflan; tiriou, hynaws, nawsaidd, rhywiog, llinar, lloddiannol, hyfryd; bryw, brywiog, brywus, bywiog, bywiocaol; anianol, naturiol, cynnwynol, cynhenid, genedigol; hiliol, hilbair, hyblant, epilgar, cenedliadol, hiliogaethol, ffrwythlawn, hyffrwyth, hygnwd, cynnyrchiol; priodasol.

The genial bed—gwely priodas, y gwely priodasol.

Genial gods—y duwiau genidol, y genidol dduwiau, genidiorau: *sing.* genidior.

Geniality, *s.* (o *genial*) llonder, llonwychder, llawenydd, sirioldeb, rhywiogrwydd, &c.

Geniculate, *v. a.* (Ll. *geniculatus*) cygnu, clymogi, gliniogi, cymmalogi; gwneuthur cygnau *neu* gymmalau.

Geniculated, } *a.* gliniog, clymog, cygnog, cym-
Geniculate, } malog, rheddog, glinreddog; gliniog fel paladr llysieuyn.

Geniculation, *s.* (Ll. *geniculatio*) cygnogrwydd, gliniogrwydd, cymmalogrwydd, rheddogrwydd.

Genii, *s. pl.* (Ll.) elfodau; angelion gwarcheidiol=rhyw fodau dychymygol, da neu

ddrwg, rhwng dynion ac angelion, y tybiai gwŷr anghred eu bod yn gwarchodi pob dyn.

Genio, *s.* (It. o'r Ll. *genius*) athrylithwr, creddyn; un o dueddfryd neilltuol: *pl.* athrylithiaid, creddynion.

Genista, *s.* (Ll.) banadlos, corfanadl, eurfanadl, banadl aur.

Genital, *a.* (Ll. *genitalis*) cenedlawl, hiliol, cenedliadol, cenedledigol, hiliadol; perthynol i genedliad; à wasanaetho i genedlu.

Genitals, *s. pl.* rhanau cenedlawl, rhanau cenedlu, dirgelwch, cyridolion, offer cydio.

Geniting, *s.* (Ff. *janeton*) afal minswyn.

Genitive, *a.* (Ll. *genitivus*) genidol, tarddiadol, deilliadol, deilliol.

Genitive case—cyflwr genidol, achos genidol, cyflwr tarddiadol, cyflwr deilliadol, achos genedigol; cyflwr meddiannol, cwympod meddiannol; genidai, gwahanedigaethydd.

Genitor, *s.* (Ll.) cenedlor, tad, tadws, rhi, cenedlwr, epiliwr.

Geniture, *s.* (Ll. *genitura*) cenedliad, epiliad, hiliad, hiliawd, essilliad; genedigaeth, genid.

Genius, *s.* (Ll.) athrylith, ethrylith, awen; anian, aniaeth, gallu, galluedd, teithi, atheithi, arddawn, dawn, tuedd, llafanedd, naturiaeth, tymmer, ardymmer, ardymmyr, nwyd, anwyd, naws, credd, creth, achreth, crethyll, asbri, rhâl, rhael, rhaledd, gogwydd, tueddfryd, priodwedd, nodwedd, ansawdd, gwosudd, gorddyfnawd; dyn athrylithfawr, dyn athrylithus, dyn athrylithiog, athrylithwr, athrylithur, creddyn, un dawnus, awenydd; elfod, ysbryd, ysbryd dyn, nawdd-angel, angel nawdd.

A man of genius—dyn athrylithfawr, athrylithus, *neu* athrylithiog; creddyn, athrylithwr, athrylithur, dyn o athrylith; dyn gorddoniog, dyn mawrddawn.

The genius of the times—ysbryd, anian, tuedd, nodwedd, *neu* rediad yr amseroedd.

The genius of the place—elfod y lle; elfod y gyfryw fân; elfod y lle hwnw; duw nawdd y lle.

Genius and disposition—anian ac athrylith.

Genlese, } *s.* deilgyrn bwa (mewn adeilydd-
Gentese, } iaeth).

Gent, *s.* (talfyriad o *gentleman*) boneddigyn, boneddyn: *pl.* boneddigach, boneddach.

Gent,† *a.* dillyn, tlws, taclus, destl, pefr, boneddig.

Genteel, *a.* (Ff. *gentil*; Ll. *gentilis*) boneddig, boneddigaidd, moesog, hyfoes, moeswych, moeswymp, moddus, moddgar, cyflys, fel gwr boneddig, mwynfoes, dygiadus, dillynwych, gwiwfoes, moesweddog, boneddigfoes; da ei foes, da ei ddygiad, da ei ymddygiad; gosgeddig, telediw, dillynwedd, harddwedd, dullweddus, dullweddog, gwiwlun, gwiwdlws, hardd, harddwych, uchelwych, tlysgoeth, tlysgain, destlus, dillyn, taclus, golygus, ceinwych, gweddaidd, gweddus, telaid, addwyn, coeth; rhywiog, rhywiogaidd, cyweithas; glân o bryd a gwedd; glân o bryd a gosgedd; hardd ei wedd.

Genteelly, *ad.* yn foneddig, &c.

Genteelness, *s.* boneddigrwydd, boneddigeiddrwydd, moesogrwydd, hyfoesedd, moeswychder, moddusrwydd, &c.

Gentian, *s.* (Ll. *gentiana*; Ff. *gentiane*) crwynllys.

Marsh gentian, } crwynllys y morfa,
Calathian violet, } crwynllys y rhos, blodau Mihangel.

Field gentian—crwynllys y maes.

Dwarf gentian—corgrwynllys.

Autumnal gentian — crwynllys chwerw, crwynllys yr hydref.

Vernal gentian—crwynllys y gwanwyn.

Gentianella, *s.* (bychanig o *gentiana*) canri felen eiddil, cors-ganri, canri y gors, arlliadlys y gors.

Gentianine, } *s.* (o *gentian*) crwynllysnar,
Gentianin, } crwynllysain.

Gentil, *s.* yr hebog mwyn.

Gentile, *s.* (Ll. *gentilis*; Ff. *gentil*) cenelddyn, cenedlddyn, cenedlyn, dyn cenedlig, un o'r cenedloedd, dyn digred, dyn anghred, gwr anghred; anghredadyn, un o wŷr anghred; pagan, ethnig, dyn didduw, dyn annuw, dyn eilunaddolgar: *pl.* cenedloedd, y cenedloedd, paganiaid.

Gentile, *a.* cenedlig; perthynol i'r cenedloedd; paganaidd, paganol, paganig; digred, anghred.

Gentilesse,† *s.* (Ff. *gentillesse*) cyweithasrwydd, boneddigrwydd.

Gentilish, *a.* cenedlig, cenedlaidd, paganaidd, ethnigaidd; anwaraidd.

Gentilism, *s.* cenedligaeth, paganiaeth, ethnigaeth; coelgrefydd y cenedloedd; anghred, anghristiaeth; eilunaddoliaeth, geudduwiaeth; anwariaeth.

Gentilitious, *a.* (Ll. *gentilitius*) cenedlaethol; perthynol i genedl; etifeddol, treftadol; rhwymedig wrth deulu.

Gentility, *s.* (Ll. *gentilitas*; Ff. *gentilité*) boneddigrwydd, boneddigeiddrwydd, moesogrwydd, hyfoesedd, moeswychder, moddusrwydd, moddgarwch, dygiadusrwydd, gwiwfoesedd, dillynwychedd, dillynwychder, moesau da; bonedd, boneddigaeth, uchelfonedd, uchelwaed, gwaedoliaeth, gwaedogaeth, uchelradd; telediwrwydd, teleidrwydd, dillynder, tlysgeinder, harddwch, prydferthwch, prydusrwydd; cyweithasrwydd, gwaredd, mynogi, mynogrwydd; †cenedligaeth, paganiaeth; †boneddigion.

Gentilize, *v. n.* byw fel un o'r cenedloedd; bucheddu yn baganaidd.

Gentle, *a.* (Ff. *gentil*; Ll. *gentilis*, o *gens*) tirion, mwyn, mwynaidd, addfwyn, hynaws, rhadlawn, esmwyth, llonydd, tyner, rhywiog; gwâr, gwaraidd, gwareddog, dof, gwareiddeinus; araf, arafaidd, llariaidd, llary, tawel; hywedd, hydrin; heddychlawn, tangnefus; gwlydd, hyblyg; hawdd ei drin; mynog, cyweithas, clauar; lloddus, lloddol; ysgafn; boneddig, boneddigaidd; teg.

A gentle correction—cosp ysgafn, cosp dirion; cerydd ysgafn *neu* dirion.

Slow and gentle — hwyrwar; araf deg, araf dirion, &c.

Bashfully gentle—gwylwar.

To grow gentle—tirioni, gwareiddio, rhadloni, llarieiddio, arafu, &c.; mynedd, dyfod, *neu* dyfu yn dirion, &c.

To make gentle—llonyddu, gwarhau, dofi, &c.; gwneuthur yn dirion, &c.

Gentle and simple†—boneddig a gwreng; boneddig a thlawd.

Flower gentle—blodau ammor, ammor, llysiau ammor.

Gentle, *s.* cynronyn; †boneddig, boneddwr.

Gentle,† *v. a.* boneddu; gwneuthur yn foneddig.

Gentlefolk, } *s. pl.* (*gentle* a *folk*) gwŷr bonedd-
Gentlefolks, } igion, boneddigion, gwŷr da, gwyrda, uchelwyr, gwŷr boneddig.

Gentleman, *s.* (*gentle* a *man*) gwr boneddig, boneddig, boneddwr, uchelwr, mab uchelwr, gwr da, gwr mynog; boneddwas, uchelwas.

Gentleman by birth and descent—boneddig cynnwynol, boneddig diledryw, boneddwr diledach, boneddig gwlad=boneddig fam a thad, heb gaeth, heb alltud, heb ledach ynddo.

Upstart gentleman—drygfoneddig, boneddig difonedd, uchelwr pendodi, gwr pendodi, boneddig diwraidd, boneddig diwaed, gwr newydd-gyfod; boneddig lledrywiog, boneddwr lledachog.

Half gentleman—hanner boneddig, boneddig lledrywiog, boneddig lledachog, boneddig o hanner gwaed.

Gentleman of the first rank—boneddig dyledog, pendefig, pendeddig, uchelwr.

Gentlemen of the first rank—pendefigion, dyledogion, goreugwyr, boneddigion dyledog, pendefigion y bobl.

Gentleman of the chamber—uchelwas yr ystafell, boneddwas ystafell, ystafellwas, gwas ystafell.

Of a gentleman, } boneddigaidd, bonedd-
Like a gentleman, } ig.

Gentlemanlike, } *a.* boneddigaidd; fel gwr bon-
Gentlemanly, } eddig; yn debyg i wr boneddig; rhywiogaidd.

To bring up gentlemanlike—dwyn i fyny ar fonedd; dwyn ar fonedd; dwyn i fyny yn foneddigaidd.

Gentlemanliness, *s.* boneddigeiddrwydd, boneddigrwydd; moesgarwch, hyfoesedd; ymddygiad gwr boneddig.

Gentleness, *s.* (o *gentle*) tiriondeb, tirionder, tirionedd, tiriondra, tirioni, tirionwch, mwynder, mwyndra, gwarder, gwardra, addfwynder, mwyneidd-dra, gwaredd, gwarineb, gwareddogrwydd, gwareddoldeb, gwarwch, hynawsedd, hynawsder, rhadlonedd, llarieidd-dra, llarieiddrwydd, llareiddwch, llaryeiddrwydd, llaryedd, llarwch, arafwch, arafedd, rhywiogrwydd, cyweithasrwydd, mynogrwydd, mynogaeth, mynogi, tawelwch, dofedd, tynerwch; †boneddigrwydd; †caredigrwydd.

Gentleship,† *s.* (o *gentle*) ymddygiad boneddig, boneddigrwydd.

Gentlewoman, *s.* (*gentle* a *woman*) gwraig foneddig, boneddiges, boneddes, bun foneddig; uchelforwyn.

A young gentlewoman—merch foneddig, geneth foneddig, boneddiges ieuanc, rhian.

A great gentlewoman—gwraig foneddig ddyledog, boneddiges ddyledig, pendefiges, dyledoges, boneddes uchelwaed.

Gentlewoman of the bed-chamber—ystafellyddes, ystafelloges, boneddes yr ystafell wely.

Gentlewomanlike, *a.* boneddigesaidd, boneddesaidd; gweddus i wraig foneddig; boneddigaidd.

Gently, *ad.* yn dirion, yn fwyn, yn addfwyn, &c.; gàn bwyllog, yn bwyllog; yn araf deg.

To lead gently—arwain yn dirion, &c.; coledd (*Esa.* xl. 11).

Gentoo, *s.* (Port. *gentio*) Hindw, Hindwad: *pl.* Hindwys, Hindwaid.

Gentry, *s.* (o *gentle*) bonedd; boneddigion, boneddwyr, uchelwyr, boneddion, gwŷr boneddigion, gwŷr boneddig, gwŷr da, gwyrda; boneddigaeth, boneddigrwydd; †cyweithasrwydd.

Gentry of the meaner sort, } bonedd lled-
Half-gentry, } rywiog, crach fonedd, crach foneddigion, boneddigach.

Genuflection, *s.* (Ll. *genuflectio*) plygiad glin, plygiad gliniau, glinblygiad.

Genuine, *a.* (Ll. *genuinus*) naturiol, cynnwynol, cynhenid, anianol; pur, digymmysg, anghymmysg, dilwgr, diledryw, diledach; cyntefig, brodorol, genedigol; gwir, gwirioneddol, gwireddol, cywir, priod, priodol; anffugiol, nid ffugiol; perthynol i'r peth ei hun.

Genuineness, *s.* naturioldeb, cynnwynoldeb, cynnwynolrwydd, cynenidrwydd; purdeb, anghymmysgedd, digymmysgrwydd, digymmysgedd, anghymmysgrwydd; gwiredd, gwireddoldeb, cywirdeb.

Authenticity and genuineness—awdurdodaeth a chynnwynoldeb; awduroldeb a phurdeb.

Genus, *pl.* Genera, Genuses, *s.* (Ll.) rhyw, rhywogaeth; tylwyth; cynryw, prifryw, ach, hil; dosbarth.

Genus and species—rhyw a rhith; rhywogaeth a rhithogaeth; rhyw a chenedl; rhyw ac adryw; cynryw ac adryw; tylwyth a rhywogaeth; rhyw a math.

A genus of birds—rhyw o adar; rhywogaeth o adar; tylwyth o adar.

Geocentric, *a.* (Gr. *gê* a *centron*) daiargreiddig; â chanddo y ddaiar yn ganolbwynt; â chanddo yr un canolbwynt a'r ddaiar; megys pe'i gwelid o ganolbwnc y ddaiar.

Geocentric latitude—lledred daiargreiddig.

Geocyclic, *a.* (Gr. *gê* a *cuclos*) daiargylchig; yn cyfnodol amgylchu y ddaiar.

Geode, *s.* (Gr. *gaiôdês*) daiarfaen, daiargram.

Geodesic, } *a.* (Gr. *gêdaisia*) asfesurol, daiar-
Geodesical, } asafol; perthynol i asfesuriaeth.

Gladiatory, } ol, yngleddyfol, cleddyfyddol; perthynol i yngleddorion.

Gladiature,† *s.* (Ll. *gladiatura*) yngleddyfiaeth, yngleddoriaeth, ymladd â chleddyfau.

Gladiole, *s.* (Ll. *gladiolus*) engraff.

Water gladiole—engraff, brwynen flodeuog.

Gladly, *ad.* (o *glad*) yn llawen, yn llon, &c.; o fodd calon; o wirfodd; yn chwannog, yn ewyllysgar, yn wyllysgar.

I could gladly wish—mi a ddymunwn o ewyllys fy nghalon.

Gladness, *s.* (o *glad*) llawenydd, gorfoledd, llonder, llondra, llonedd, llondeb, llonwch, llawenwch, lloniant, hyfrydwch, sirioldeb, sirioledd, difyrwch, digrifwch, dyddanwch, hoen, gorhoen, gorawen, menwyd, elwch, llonychdod, morach.

Gladship,† *s.* llawenedigaeth, llawenwch.

Gladsome, *a.* llawen, llon, hylon, digrifion, dyddanus, dyddan, hyfryd, hyfrydlon, difyr, gorhoenus, gorawenus, siriol, cysurlawn; llawenhaol, llawenychol, llonychol, llonniannol, llonedigol, gorawenol, boddhaol; menwydus, ffawg, llawdd, llawddog, maws.

Gladsomely, *ad.* yn llawen, &c.

Gladsomeness, *s.* llawenydd, llonder, llondra, llonwch, llonedd, hyfrydwch, digrifonder, &c.; rhodres, dangosiadusrwydd, hoewychder.

Gladwin, } *s.* (Ll. *gladius*) helhesg, hyllgryg.
Gladwyn, }

Glair, *s.* (Ff. *glaire;* S. *glœre*) gwŷn wy; clur, claerwy, claerolch; glaif, ffonfwyell.

Glair of eggs—gwŷn wyau, gwynion wyau.

Glair, *v. a.* golchi *neu* ferneiso â gwŷn wy; berneisio; gwynwyo, cluro, claerolchi.

Glairy, *a.* (o *glair*) cluraidd, claerwyaidd, gwynwyaidd; fel gwŷn wy; o natur gwŷn wy; fel clur.

Glaive, } *s.* (Ff. *glaive;* C. *glaif*) glaif, cleddyf
Glave, } llafnllydan, cledd llafnllydan; cleddyf, cledd.

Glance, *s.* (Al. *glanz;* Is. *glans*) cipolwg, lledolwg, cilolwg, llettrem, cipdrem, trem, tremyn, tremynt, godrem, tafliad llygad, tarawiad llygad, cipwel, athlwg, athrem, golwg, golygiad, gwascl, arfaul; godywyn, athywyn, llettywyn, lledlewyrch, llethrid, llygas, pelid, pelydryn o oleu; lluwch, glawdd, fflach, gla, air, llug, rheiddyn; llugem, gloddem, llethridem, llethridfaen.

Silver-glance — arianlug, llugem arian, llethridem arianaidd.

A glance at—cipolwg ar, lledolwg ar, &c.; cyffyrddiad â pheth yn fyr *neu* ysgafn; ergyd, cnith, *neu* gip wrth fyned heibio.

A glance of light—llygedyn, llygaden, lluchedyn.

Glance, *v.* llettremio, llettremu, cipdremio, godremio; bwrw *neu* daflu cipolwg; taflu cil llygad; edrych ar gip; ciledrych, cipolygu, cipedrych; bwrw trem; pelydru, rheiddio, paladu; taflu, bwrw; neidio, picio, tasgu, saethu, ysglentio; neidiaw o'r neilltu; gofwrw, godaflu; awgrymu.

To glance the eye on, } taflu cipolwg ar;
To glance the eye upon, } bwrw cipolwg ar; taflu cil llygad ar; bwrw golwg fèr ddisymmwth ar; bwrw trem ar; llettremio, llettremu, cipdremio; llettremio ar, gordremio ar; taflu cildrem ar.

To glance upon—llettremio ar, cipdremio ar, &c.; taflu *neu* fwrw cipolwg ar; taflu cil llygad ar; edrych ar gip ar; ysgafn rathu peth wrth fyned heibio; cyffwrdd yn ysgafn â pheth wrth fyned heibio; gogyffwrdd â; ehedeg yn ysgafn dros; ymlithro heibio i; ymlithro heb law i; ysglentiaw oddi ar ystlys peth; lleddfu oddi ar beth; golewyrchu ar; bwrw godywyn ar.

To glance at—taflu cipolwg ar, &c.; gofwrw, godaflu, go ergydio, *neu* drawsergydio at; llettremio at.

To glance over—bwrw *neu* daflu cipolwg dros; bwrw *neu* daflu cipolwg ar; bwrw *neu* daflu cipolwg ar hyd; rhedeg yn ysgafn dros; darllen ar redeg; go ddarllen; bwrw brith olwg dros.

Glancing of the eye—tarawiad llygad.

Glance-coal, *s.* glo caled, glo careg, caledlo, maenlo, glo maen.

Glancingly, *ad.* wrth fwrw cipolwg; wrth daflu llettrem; ar gipdrem, ar gipolwg, ar gildrem, ar gip, ar redeg, ar frys, dàn redeg; wrth frysio heibio; wrth fyned heibio; yn llettraws, ar ysglent.

Gland, *s.* (Ll. *glans;* Ff. *glande*) chwaren, chweryn, cilchweryn, cilchwyrnen, cilchwyrnyn, cilchwaren, cigfesen, mesen gig; mesen; cnewullyn *neu* gneuen yn y cnawd: *pl.* chwarenau, cilchwyrn, cilchwyrnau, chwerynau.

Full of glands—chwarenog, chwerynog, cilchwyrnog, cilchwerynog, cilchwarenog; llawn cilchwyrn *neu* chwarenau.

Lachrymal gland — deigriden, chwaren ddeigrol, cilchwyrnen ddagrenol, cilchweryn y dagrau.
Salivary gland — poerchwaren, chwaren boer, chweryn glyfoerol, chwaren haliwiol, glyfoeren.
Gland-moss—chwaren fwsogl.

Glandage, *s.* (o *gland*) mesdymmor, mesyryd, tymmor mes.

Glandered, *a.* (o *glanders*) â'r llynmeirch arno; ysgyfeiniog.

Glanders, *s.* (o *gland*) llynmeirch, llŷn y meirch; chwarenwst, clwyf y chwarenau, clwyf y cilchwyrn; yr ysgyfaint.

Glandiferous, *a.* (Ll. *glandifer*) mesddwyn, mesfag, mesgyrch, mesog; â ddwg fes; yn dwyn mes.
Glandiferous trees—coed mes, mesgoed, meswydd; coed mesddwyn, &c.; coed yn dwyn mes.

Glandiform, *a.* (Ll. *glans* a *forma*) chwarenaidd, chwerynaidd, mesenaidd; ar lun mesen; âg iddo ffurf chwaren; fel mesen, fel chwaren.

Glandular, Glandulous, } *a.* (Ll. *glandulosus*) chwarenol, chwerynol, cilchwarenol, chwarenog, chwerynog, cilchwyrnog, chwarenaidd, chwerynaidd, cilchwyrnaidd; perthynol i'r chwarenau; yn cynnwys cilchwyrn.
Glandular consumption — llifiant y cilchwyrn; darfodiant chwarenol.

Glandulation, *s.* (o'r Ll. *glandula*) chwareniant, chweryniad; cyflead a chyfadeilad y chwarenau.

Glandule, *s.* (Ll. *glandula*) chwarenig, cilchwyrnen, chwaren fechan.

Glanduliferous, *a.* (Ll. *glandula* a *fero*) chwarenddwyn; yn dwyn chwarenau; cilchwyrnog.

Glandulosity, *s.* (o'r Ll. *glandulosus*) chwareniaeth, chweryniaeth, chwarenogrwydd; cynnulliad o chwarenau.

Glans, *s.* (Ll.) mesen, cneuen; cneuen y pidyn; cilchwyrnen.

Glare, *s.* (D. *glar*; Isl. *gler*) dysgleirdeb, dysgleirder; rhyddysgleirdeb, gorddysgleirdeb; dysgleirdeb serenol, dysgleirder teryll; tywyn *neu* lewyrch tanbaid; tywyn, llethrid, dysglain, terwawl, lluchwawl, pelidwawl, llathrawd, ysblander, dysbleiniad, llugiant, claerder, gwynwg, gwynygawd; golwg deryll, danbaid, *neu* ffyrnig; sylldrem; clur, claerwy.
The glare of the sun's rays—tes ysblenydd, tes-dywyn.

Glare, *v.* rhyddysgleirio, gorddysgleirio, teryllu, dysgleirio, dysgleinio, dysbleinio, llathru, llethrido, pelydru, serenu, ardywynu, arwynygio, echdywynu, tanbaid lewyrchu, teryll dywynu, tanbeidio, seirianu, seriglo; lluchedenu, ffiachio; edrych yn deryll; syllu yn deryll; sylldremio, sylldremu.

Glareous, *a.* (Ff. *glaireux*) gwynwyaidd, claerwyaidd, cluraidd; tebyg i wŷn wy.

Glaring, *a.* (o *glare*) rhyddysglaer, gorddysglaer, dysgleiriol, dysglaer, dysglain, dysgleiniol, claer, rhyglaer, llachar, tanbaid, teryll, echdywynol, arwynyg, arwynygiol, llathr, llathraid, pleiniol, llethridog, llethridfawr, seirian, ffiachiol, lluchedenol, ysblenydd, ffloew; yn gorddysgleirio, &c.; eglur, amlwg, honaid, hysbys, hynod, cyhoeddus, agored; dybryd, gwaradwyddus, gwarthus, digywilydd, haerllug, gorthrwm; dyfnliw, cochliw, dwfn ei liw, coch ei liw.

Glaringly, *ad.* yn rhyddysglaer, &c.; ar gyhoedd; ar gyhoedd pawb.

Glass, *s.* (S. *glæs;* Al., Is., Sw., a D. *glas*) gwydr; gwydryn; gwydraid, gwydrynaid; glain; drych; syllwydr; hinwydr, hinfynag.
Glasses—gwydrau, ysbeithell, drychwydrau, gwydr golwg, golygwydr.
Looking-glass—drych.
Drinking glass—gwydryn yfed, gwydr yfed, yfwydryn, dïod-wydryn, gwydryn dïod, gwydr dïod, gwydryn, gwydr, yfflain, cwpan gwydr.
False glass—geuddrych, drych anghywir, drych gau, drych twyllodrus.
Cupping glass—cibwydryn, gwaedwydryn, cibwaedryn, sugnwydr, sugnwydryn, craffinai, ysgraffinai, gwydryn craffinol.
Opera glass—syllyr chwareufa, syllwydr chwareudy, drych chwarwyfa.
Eye-glass — llygadwydr, llygadwydryn, llygatddrych; ysbeithell.
Wine glass—gwydr gwin, gwydryn gwin, gwinwydryn, gwinlain.
A glass of wine—gwydraid o win, gwydrynaid o win.
Over a glass of wine—uwch ben gwydraid o win; uwch cwpanaid o win; wrth ymyfed; wrth gydyfed, wrth gyfeddach.
Hour-glass—awrwydr, awrwydryn, tywod-wydr awr, awrydd.
Optic glass—tremwydr, tremiadyr, tremyr.
A panel of glass, A pane of glass, A square of glass, } pennill o wydr; pedryn o wydr; pedryn o wydr; pedroglyn o wydr; cwarel o wydr; pennill o ffenestr, cwarel ffenestr.
A vessel of glass, A glass vessel, } llestr gwydr, llestr o wydr.
To do with glass—gwydro.
Flint-glass—celltwydr, criswydr, crisialwydr, gwydr callestr, gwydr callestrig.
Crown glass—gwydr dilin, purwydr; y gwydr ffenestri goreu.
Night-glass — noswydr, noswydryn, nosddrych.
Sand-glass—tywod-wydr, tywod-wydryn.
Watch-glass—gwyl-wydr, gwyl-wydryn.
Seamen's watch-glass—gwyl-wydr morwyr =hanner awr.
The ship fought three glasses—ymladdodd y llong tra yr ymarllwysai y gwydryn deirgwaith; ymladdodd y llong nes ymwaghau o'r gwydr dair gwaith; ymladdes y llong am awr a hanner.
In half a glass (among seamen)—mewn hanner awr.
His glass is run—rhedodd ei wydr; y mae ei awrwydr wedi rhedeg; y mae ei amser wedi dyrwyn i ben.
Full of glass—gwydrog, llawn gwydr.

Glass, *a.* gwydr, gwydrin, gwydrol, gwydraidd, o wydr.
Glass bottle — potel wydr, costrel wydr, costrel o wydr.
Glass window—ffenestr wydr.

Glass, *v. a.* gwydro; cuddio â gwydr; †gweled megys mewn drych, edrych mewn drych.

Glass-coach, *s.* cerbyd gwydr; cerbyd â hurir am ysbaid byr.

Glassful, *s.* gwydraid, gwydrynaid, llonaid gwydr, llonaid gwydryn, llonaid cwpan gwydr.
Glass-furnace, *s.* ffyrnes wydr, ffwrn wydr.
Glass-gazing, *a.* drych-syllgar; chwannog i edrych mewn drych; coegynaidd, coegenaidd, coegaidd.
Glassgrinder, *s.* malwr gwydr, malydd gwydr, llugeinydd gwydr.
Glasshouse, *s.* gwydrdy, gwydrweithdy, ty y gwydr; ty lle y gwneir gwydr.
Glassiness, *s.* (o *glassy*) gwydredd, gwydroldeb, gwydrolrwydd, gwydreiddrwydd, gwydreiddwch, gwydrinedd.
Glasslike, *a.* gwydraidd; fel gwydr; tebyg i wydr.
Glassman, *s.* gwydrwerthwr, gwydrwerthydd, gwerthydd gwydr, masnachwr gwydr.
Glassmaker, *s.* gwneuthurwr gwydr; gwneuthurwr llestri gwydr.
Glassmetal, *s.* gwydradwyn, mettel gwydr.
Glasspot, *s.* pot gwydr, crochan gwydr, toddbot gwydr, gwydr-bot.
Glassware, *s.* llestri gwydr.
Glasswork, *s.* gwaith gwydr, gwydrwaith.
Glassworks, *s. pl.* gwydrweithiau, gweithiau gwydr, gweithfaoedd gwydr; lle y gwneir gwydr.
Glasswort, *s.* llyrlys.
Jointed glasswort — llyrlys llysieuaidd, chwyn hallt.
Glassy, *a.* gwydraidd, gwydrin, gwydrol; gwydrliw; gloew fel gwydr; tryloew, gloew, trybelid; crisialaidd.
Glastonbury-Thorn, *s.* draenen Ynys Wydrin, draenen Ynys Afallon, draenen wèn Ynys Afallach.
Glauberite, *s.* (oddi wrth Ioan Rudolff *Glauber*) creighalfaen, Glauberith.
Glauber-Salt, *s.* (oddi wrth I. R. *Glauber*, y fferyll Almaenig) hal Glauber, halan Glauber, llysnurhalan, ufelgris llysnur, ufelaint llysnur.
Glaucescent, } *a.* (Gr. *glaucos;* Ll. *glaucus*)
Glaucine, } golaswyrdd, lledlaswyrdd, llwydlasaidd, llwydwyrdd, llwydwyrddaidd, glaswyrddaidd, llwydlaswyrdd.
Glaucine, *s.* (Gr. *glaucos*) llwydlasnur, llwydlasain.
Glaucium, *s.* (Gr. *glaucos*) llwydlas, pabi corniog.
Glaucolite, *s.* (Gr. *glaucos* a *lithos*) llwydlasfaen, llwydlasem.
Glaucoma, *s.* (Gr.) llwydgrislyn, llwydlaslyn.
Glauconite, *s.* (Gr. *glaucos*) llwydlasfarl, llwydlasglai.
Glaucopicrine, *s.* (Gr. *glaucos* a *picros*) llwydlasgenwyn, llwydlaschwerwain.
Glaucous, *a.* (Gr. *glaucos;* Ll. *glaucus*) glaswyrdd, gwyrddlas, lledwyrdd, gwyrddoleu, morwyrdd, morlas, llwydlas, gwrmlas, glaswyn, gwyrddlwyd, llwydwyrdd.
Glaux, *s.* (Gr. *glaucion*) helas, llaethlys arfor.
Glave, } *s.* (Ff. *glaive;* C. *glaif*) glaif, cleddyf
Glaive, } llafnllydan, cledd llafnllydan; cleddyf, cledd.
Glaver, *v. n.* (C. *glafru*) glafru, gwenieitho, truthio, trutheinio.
Glaverer, *s.* glafrwr, gwenieithwr, gwenieithydd, truthan, truthiad, truthwr.
Glaymore, *s.* (Gael. *claidheamch mòr*) gleifawr, cledd mawr; cleddyf llafnllydan Ucheldiriaid yr Alban.
Glaze, *v. a.* (o *glass*) gwydro; crawenu, crestenu, caenenu, *neu* olchi â gwydr; cluro, golchi, gleinolchi, gwydrolchi, claerolchi, llathrolchi; berneisio; dysgleinio, caboli, llathru, yslipanu, llugeinio.
Glaze, *s.* golch, clurolch, claerolch, dysgleinolch, gwydrolch.
Glazen, *a.* (o *glaze*) gwydraidd, gwydrin, fel gwydr.
Glazier, *s.* (o *glaze* neu *glass*) gwydrwr, gwydrydd.
Glazing, *s.* gwydryddiaeth; golch, clurolch, claerolch, gwydrolch, dysgleinolch, clur.
Gleam, *s.* (S.) llygedyn, llygeidyn, pelydryn, lluchedyn, fflach, hirell, hiriell, llugyn, llug, lluched, godywyn, tesyn, llygedyn o haul, rhaidd, llethrid, llugas, lluch, fflaw, lluchyn, dysglaer dywyn; pelydr a thywyn haul; dysgleirdeb, llewyrch, llewych, tywyn, ysblander, goleuni.
A short *or* small gleam—godywyn, pelydryn, byr desyn, byr lygedyn.
Gleam of light—llygedyn o wawl, lluch o wawl, fflach o lewyrch, hiriell, hirell.
A warm gleam—llygedyn gwresog, llygedyn tesog, tes-dywyn, tes-lygedyn.
A gleam of sunshine through fleeting clouds—heulen, llygedyn haul, llygedyn o haul, mychedyn.
Gleam, *v. n.* pelydru, tywynu, lluchedu, fflachio, rheiddio, ffloi, rhaiadu, rheio, pleinio, paladu, peleidro, lluchedenu, dysgleirio, llewyrchu, llewychu, saethu gwawl, llethrido, efflanu, llathru, dysbleinio, echdywynu.
To gleam (among falconers) — chwydu brynti, cyfogi baw.
Gleaming, *s.* pelydriad, fflachiad, lluchediad, peleidriad, peleidriant, llugad, llugant, pleiniad, dysgleiriad; llygedyn, lluchedyn, fflach, lluch, llugyn, llug, llethrid.
Gleamy, } *a.* pelydrol, tywynol, fflachiol,
Gleaming, } fflachiog, llachar, dysgleiriol, llewychol, llewyrchol, rheiddiol, peleidrol, pelydrog, pelydraidd, rheiddiog, llethridog, llethridol, dysbleiniol, llethridfawr, goleufawr, llug.
Fire-gleaming—tanllachar.
Glean, *v.* (Ff. *glaner*) lloffa; casglu lloffion; cynnull *neu* gasglu yr hyn a adäwyd ar ol.
Glean, *s.* lloffa; casgl; lloffyn: *pl.* lloffion.
Gleaner, *s.* lloffwr, lloffydd; casglwr, casglydd: *f.* lloffwraig, lloffyddes.
Gleaning, *s.* lloffa, lloffiad; casgl, casgliad; lloffyn: *pl.* lloffion, helion.
Bundle of gleanings—lloffyn.
Glebe, *s.* (Ll. *gleba;* Ff. *glèbe*) tir llan, tir eglwys, tir yr eglwys, clasdir, tir clas, tir y clas, llandir, eglwysdir; tywarchen, priddell, gweryd, daiar, tir; mwndir; †crisial.
Glebe-land—tir llan, tir eglwys, tir yr eglwys, clasdir, tir clas, llandir, eglwysdir.
Glebe-house—llandy, ty llan, ty eglwys, ty yr eglwys, clasdy; persondy.
Glebous, } *a.* (Ll. *glebosus*) priddellog, tywarch-
Gleby, } og, tywarchol, tywarchlyd; hygnwd, ffrwythlawn.
Glechoma, *s.* (Gr.) eidral, beidiog las, bydiog las, llysiau y gerwyn, eiddew y ddaiar.

Glede, *s.* (S. *glida ;* Sw. *glada*) bod, barcud, barcutan, bery, beri, beiri.
Glee, *s.* (S. *glie*) llawenydd, llonder, llonedd, gorfoledd, llondra, llonwch, llawenwch, elwch, dywenydd, hoen, gorawen, hyfrydwch, gwi ; hoeneg, difyrgan, goraweneg.
Gleed,† *s.* (S. *gled*) glo tanlliw, marwor.
Gleeful, *a.* llawen, llon, hylon, llonwych, hoenus, gorhoenus, gorawenus, siriol, hoew, difyr, llawn gwi.
Gleek,† *s.* (S. *glie, glig*) cerddoriaeth, alaw ; cerddor, perorydd ; greff, gwawd ; chware ar gardiau.
Gleek,† *v. n.* difyru, digrifo, gwneuthur difyrwch ; gwawdio, gwatwar, chwerthin am ben, greffio ; ofera, diffrwytho yr amser, pencawna.
Gleeman,† *s.* (*glee* a *man*) cerddor, perorydd, eilewydd, alawydd, clerwr.
Gleen,† *v. n.* (C. *gleinio, glân ;* Gw. *glan*) dysgleirio, pelydru, gleinio, dysgleinio.
Gleesome,† *a.* (o *glee*) llawen, llon, gorawenus, hylon.
Gleet, *s.* (S. *glidan*) hadlif, hadred ; dyferlif, dyfergrawn, gôr, crawn.
Gleet, *v. n.* dyferlifo, dyferu, deigynu ; rhedeg yn ddyferlif ; rhedeg, llifo ; rhedeg *neu* lifo yn deneu ; hadredeg, hadredu, hadlifo.
Gleety, *a.* (o *gleet*) dyferlifaidd, llifnoddol, dyferol, deigynol ; hadlifaidd, hadlifol ; crawnaidd, goraidd ; teneu, gloew.
Glen, } *s.* (S. ; C. *glŷn ;* Gw. *glean*) glŷn,
Glyn, } dyffryn, cwm, cwmarch, pant, allmor, dôl.
Glene, *s.* (Gr. *glênê*) llygattwll, twll y llygad, ceudod y llygad ; grain, llygadrain.
Glenoid, *a.* (Gr. *glênê* ac *eidos*) greinaidd.
Glew, *s.*=*Glue.*
Gliadine, } *s.* (Gr. *glia*) glyain=un o ddefnydd-
Gliadin, } iau cyfansoddol glud.
Glib, *a.* (Is. *glibberen, glippen*) llyfn, yslipan, yslib, yslip, caboledig, cabol, trybelid, llithrig, hylithr, llithredig ; hydro, hydreigl ; rhugl, bangaw, rhwydd, rhydd ; tafodlyfn, tafodlithrig.
A glib tongue—tafod llithrig, llyfn, rhugl, rhydd, bangaw, diattal, hydro, *neu* drybelid.
Glib,† *s.* ffluwchyn o wallt à grog i'r llygaid.
Glib, *v. a.* dysbaddu ; llyfnhau, yslipanu ; gwneuthur yn llyfn, &c.
Glibly, *ad.* yn llyfn, yn llithrig, &c.
Glibness, *s.* llyfnder, llyfndra, llyfnedd, llithrigrwydd, hylithredd, llithrigder, llithrigdra, llithrigedd, ysliprwydd, llithredigrwydd ; bangawrwydd, rhugledd, hydreigledd, hydröedd, parodrwydd.
Glide, *v. n.* (S. *glidan ;* Al. *gleiten*) llithro, ymlithro, ffithlo, ffithio ; llithro *neu* ymlithro yn llyfn yn mlaen ; araf lithro, llyfn lifo ; rhedeg yn llyfn ; ymlusgo, eddain, dylifo, llifo, rhedeg ; myned megys ar nawf.
Aptness to glide—hylithredd, hylifedd.
Glide, *s.* llithr, llithred, ymlithr, ffithl, ffith, eddain, eddaint, edd, llyfn lithr, llyfn ysgogiad, llyfn lif ; llithrad, llithriant, rhediad, llifad ; llithrfa.
Glider, *s.* llithrwr, llithrydd, llithredydd, ffithlwr ; ffithlen, taffithlen.
Gliding, *a.* llithrol, hylithr, eddeiniol ; yn llithro yn mlaen ; rhaglithrol.
Glike, *s.* (S. *glig*) gwawd, gwatwar, gwatwor, greff, dirmyg, gogan.
Glimmer, *v. n.* (Al. *glimmern, glimmen*) godywynu, golewyrchu, lledlewyrchu, llettywynu, rhoddi godywyn, bwrw godywyn, rhoddi golewyrch, rhoi goleufer, lledoleuo, lledwawrio ; llewyrchu yn wàn ; rhoi goleu gwàn ; llwydoleuo, gwawrio.
Glimmer, *s.* godywyn, golewyrch, lledlewyrch, llettywyn, lledlewych, goleufer, lledwawr, lledoleuni ; gwawr, pelydryn ; lledolwg, cipolwg, godrem : gleinwydr, llugwydr, glawdd, gloddem.
Glimmering, *s.* godywyniad, llettywyniad, golewyrchiad, golewychiad, lledlewyrchiad ; godywyn, golewyrch, lledlewyrch, goleufer, lledwawr ; lledolwg, godrem.
Glimmering, *p.* yn godywynu, &c. ; gwàn, gwanaidd, egwan, anghlaer, pwl ; godremiol, llettremiol.
A glimmering light—llwyd oleuni, goleuni tywyll, goleu gwàn.
Glimpse, *s.* (Is. *glimp*) godywyn, golewyrch, golewych, llettywyn, lledlewyrch, ciplewyrch, ciplewych, cipoleuni, cipoleu, goleu annilys, goleuni annilys ; llethrid, ffiach, llucheden, lluch, llug, gwawr ; lluchedeniad, llathriad ; lledolwg, cipolwg, godrem, llettrem, tremyn, cipdrem, bèr olwg, golwg annilys, godremid ; goliw ; byr fwyniant, mwynhad byr a difiannedig.
To have a slight glimpse of a thing—gweled godywyn peth ; cael cipolwg ar beth ; gweled peth megys trwy niwl ; gweled peth megys mewn niwl.
Glimpse, *v. n.* ciplewyrchu, godywynu, golewyrchu, llettywynu, lledlewyrchu ; ymddangos ar gipolwg.
Glires, *s. pl.* (Ll.) pathewolion=y pedwerydd llwyth o dethogion, yn ol trefniant Linnæus.
Glassa, *s.* math o bysg digen.
Glist, *s.* (o *glisten*) gleinwydr, llugwydr, glawdd, gloddem.
Glisten, } *v. n.* (S. *glisnian, glitenan ;* Al.
Glister, } *gleissen*) dysgleirio, dysgleinio, lle-
Glitter, } wyrchu, llewychu, claer lewyrchu, lluganu, llugeinio, llathru, llethrido, tywynu, echdywynu, tywynygu, dysbleinio, pleinio, gorddysgleirio, rhyddysgleirio, efflanu, lleueru, lleuferu, serenu, seriglo, seirianu, gwynygu, gwynygio, echdywynygu, ymdywynygu, damlewyrchu, tanbeidio, llethridiannu.
All is not gold that glitters—nid aur pob dysglaer ; llawer teg drwg ei ddefnydd, llawer hagr hygar fydd.
Glister, *s.* (Gr. *clustêr*) rhefrolch, llafrolch ; llafrelliad.
Glistering, } *a.* dysglaer, llachar, ysblenydd,
Glittering, } llathr, llathraid, dysgleiriol, efflan, efflanol, claer, gloew, seirian, arloew, arglaer, llethridog, llethridfawr, llethridiannol, ffloew, canloew, llewyrchol, ysblan, ysblanol, erwyn, gwynygol, echdywynedig, dysgleiniol, llugeiniol, dysbleiniol, tywynol, tanbeidiol, dysgleirwych, tanllyd ; tanllyd ysgwydedig.
Fine brass glittering like gold—pres gloew yn dysgleirio fel aur.
Glittering sword, } cleddyf dysglaer, cledd-
Glistening sword, } yf llachar ; gloew lafn.

White and glittering—dysgleirwyn; gwŷn a dysglaer; claerwyn.
His raiment was white and glittering—ei wisg oedd yn wèn ddysglaer; ei wisg oedd ddysgleirwen.

Glitter, *s.* dysgleirdeb, dysgleirder, llethrid, llugeinder, arloewder, gloewineb, gloewder, gloewedd, ysblander, llewych, llewyrch, tywyn, ysblander, claerder, glawdd, eiriander, serigledd, llathrawd.

Glitterand,† *a.* dysglaer.

Gloam, *v. n.* (Ysg. *gloum*) bod yn sarig; sori, moni.

Gloar, } † *v. n.* (Is. *gluuren*; Sw. *glutta*) cil-
Gloat, } edrych, cildremu, trawsedrych; edrych yn llygattraws; edrych ar ŵyr; llygadrythu.

Globard, *s.* magïen, y gyfarwydd, goleuen, glöen, glöyn.

Globate, } *a.* (Ll. *globatus*) crwn, cyfrgrwn,
Globated, } cronenaidd, cronellaidd, cronenog, cronellog, clobynog, clobynaidd, cynghrwn, crynaidd.

Globe, *s.* (Ff.; Ll. *globus*) cronen, cronell, pel, pellen, clobyn, clob; y ddaiar, y byd, y daiarfyd; llun y ddaiar.
Terrestrial globe—daiargronen, daiargronell, daiargron, daiarell, daiarglob, daiarbel; daiarfyd.
Celestial globe — sergronen, sergronell, sergron, nenbel, nefgronen, nen-gronen, nen-gronell, nen-glob, nefen; nenfyd.
A little globe—crynyn, cronenig, cronellan; pelen.
The globe of the earth—y daiarfyd, y bellen ddaiarol.
Globe amaranth—llysiau yr eiddigedd.

Globe,† *v. a.* cronellu, cronenu, clobynu, cydbellenu.

Globe-animal, *s.* pelfilionyn, pelfilyn.

Globe-daisy, *s.* swynfri cronellaidd.

Globe-fish, *s.* pelbysg, cronenbysg.

Globe-flower, *s.* cronell.

Globe-thistle, *s.* ysgall cronenaidd.

Globose, } *a.* (Ll. *globosus*) crwn, cyfrgrwn,
Globous, } cynghrwn, cyfangrwn, crynaidd, cronellog, cronellaidd, cronenog, pelaidd, pellenaidd, amgrwn, cylchaidd, cyrfol.

Globosity, *s.* crynder, cyfrgrynder, crynrwydd, cynghrynrwydd, crynedd, cyfangrynedd, cryneiddrwydd, cronellogrwydd, cronenogrwydd, crwmach.

Globular, *a.* (o *globe*) crwn, cyfrgrwn, cyfangrwn, cynghrwn, crynaidd, cronellog, cronellaidd, cronenog, cronenaidd, pelaidd, pellenaidd, clobynaidd, clobaidd, amgrwn, cylchaidd, cyrfol; crwn fel pel; ar wedd cronen: *f.* cron, cyfrgron, cyfangron, amgron.
Globular chart — cronforlen, crynforlun, morlen gron.
Globular sailing — mordwyo yn grwn, crynfordwyo, union fordwyo; crynfordwyaeth, mordwyaeth gron, mordwyaeth uniongyrch=mordwyo ar hyd y pellder lleiaf rhwng dau le.

Globule, *s.* (Ff.; Ll. *globulus*) crynyn, cronellan, defnyn.

Globuline, *s.* (o *globule*) crynynain=defnydd alwynaidd à ffurfia y rhan fwyaf o grynynau y gwaed.

Globulous, *a.* (o *globule*) crynynol, crynynaidd, crynynog; ar wedd crynyn; crwn, cyfrgrwn, cyfangrwn, cronellog, cronellaidd, cylchaidd, cynghrwn, pelaidd, pelenaidd, pellenaidd, amgrwn.

Globy, *a.* (o *globe*) crwn, cyfrgrwn, clobaidd, clobynaidd.

Glochidiate, *a.* (Gr. *glochis*) camholltog, holltfachog; â'i flaen wedi ei hollti ac yn camu yn ol.

Glome, *s.* (Ll. *glomus*) crynben, pen crwn blodau.

Glomerate, *v. a.* (Ll. *glomero*) pellenu, twysgo, clobynu, crynsypio, cryndyru, cydbellenu, cynghlobynu, cydgrynhau, cydgrynöi; dyrwyn yn bellen; dyrwyn yn grwn.

Glomerate, *a.* clobynaidd, clobynog, twysgol; pellenedig, cydsypiedig.

Glomeration, *s.* (Ll. *glomeratio*) pelleniad, twysgiad, clobyniad, sypiad, crynsypiad; dyrwyniad yn grwn; dyrwyniad yn bellen; twysg, pellen.

Glomerous, *a.* (Ll. *glomerosus*) pellenaidd, twysgaidd, crynsypaidd, clobynaidd, clobynog; twysgedig, pellenedig, clobynedig.

Gloom, *s.* (S. *glomung*; Ysg. *gloum*) caddug, gwyll, godywyllwch, tywyll, tywyllni, hudd, gwylledd, gwyllwch, tywyllwch, cudd, duedd, düwch, anoleurwydd, dileuferedd, mwrllwch, gwrm, arddwll, gosgel, muchiant, muchiaint, much; anhylonrwydd, pruddineb, prudd-der, athristwch, athristedd, ansirioldeb, trymfryd, pruddineb tymmer, trymder meddwl, dueg, pruddglwyf, pruddnaws, tawedogrwydd, blyngedd, sor, tristwedd; hyllrwydd, erchylldod.

Gloomily, *ad.* yn dywyll, &c.

Gloominess, *s.* (o *gloomy*) caddug, gwyll, godywyllwch, godywyllni, tywyll, tywyllni, hudd, gwylledd, gwyllwch, tywyllwch, cudd, düedd, düwch, anoleurwydd, dileuferedd, mwrllwch, gwrm, gwrmedd, gwrmder, muchaint, caddugoldeb; ffylliogrwydd; anhylonrwydd, ansirioldeb, athristwch, athristedd, trymfrydigrwydd, pruddineb tymmer, trymder meddwl, dueg, pruddglwyf, prudd-der, pruddnaws, pruddni, tristwch, sor, soriant, blyngedd; tristlonedd; erchylldod, erchylldra, hyllder, hyllrwydd.

Gloomy, *a.* tywyll, godywyll, caddugol, caddugaidd, gwyll, caddulyd, dywyll, anoleu, dileufer, dilewyrch, hudd, du, cymylog, niwlog, aneglur, ffadw, arddu, duaidd, gwrm, gwrmdde, gwrmwn, gell, dulwyd, ffyll, huddog, erwyll, gosgel; oethin, hyll, erch, erchyll, irad; prudd, athrist, trist, tristlawn, ansiriol, anhylon, trymfrydig, trymfryd, trymdde, pendrist, pruddglwyfus, dilon, prudd ei dymmer, trwm ei galon, prudd ei fron, tawedog; arddufrych; sur, sor, sarig.

Gloppen,† *v. a.* synu, peri syndod.

Glore, *s.* (Gw. *gleire*) brasder.

Gloriation,† *s.* (Ll. *gloriatio*) bost, ffrost, ymffrost, bocsach; gorfoledd, goruchafiaeth.

Gloried,† *a.* (o *glory*) gogoneddus, ardderchog, anrhydeddus.

Glorification, *s.* (o *glorify*) gogoneddiad, gogoniad, gogoniaeth; rhoddiad gogoniant, moliant, *neu* anrhydedd; dygiad *neu* ddyrchafiad i ogoniant; cyflead mewn gogoniant.

Glorify, *v. a.* (Ff. *glorifier*; Ll. *glorifico*) gogoneddu, gogoniannu, gogoni; gwneuthur yn ogoneddus; derchafu i ogoniant; dyrchafu *neu* ddwyn i ogoniant ac anrhydedd; moli,

moliannu, clodfori, ardduno, mawrygu, mawrhau, dyrchafu, anrhydeddu, mygreddu, mygru.

To glorify one's self—ymogoneddu, ymogoni.

Glorious, *a.* (Ll. *gloriosus;* Ff. *glorieux*) gogoneddus, gogoned, gogoneddog, gogoniannol, gogoniannus, gogoneddol, gogonawl, conedd-us; mygr, myg, myged, mygrawl, mygreddog, moliannus, molediw, anrhydeddus, enrhydeddus, enwog, clodfawr, ardderchog, godidog, rhagorol, enwog, ffaw, iesin, ffawg, plenig; gogoneddgar; †ffrostus, balch.

Vain-glorious — gwagogoneddgar, gwagogoneddus, gogoneddgar, gwaggoneddus, ymffrostus, bocsachus, ymddangosgar, gwagfalch, gwagfolachus.

Gloriously, *ad.* yn ogoneddus, &c.; mewn gogoniant.

Glory, *s.* (Ll. *gloria;* Ff. *gloire*) gogoniant, gogonedd; anrhydedd, enrhydedd, mygredd, myged, conedd, godidogrwydd, ardderchogrwydd, urddunіant, clod, mawl, molawd, moliant, clodforedd, clodforusrwydd, canmoliaeth, urddas, edmyg, gwychedd, ysblander, dysgleirdeb, ffaw, ffawdd.

Vain glory—gwagogoniant, gwag ogoniant, gwagogonedd, gorwagglod, gwaggonedd, gwaggoned, coeg ogoniant, coegfawl, gwagfawl, gorwagedd, gwagglod, rhodres, gwagfalchedd.

Glory, *v. n.* ymogoneddu, ymogoni, ymogoniannu, ymgoneddu; ymffrostio, ymorfoleddu, gorfoleddu, ffrostio, bostio; ymfawrygu, llawenhau, llawenychu, ymlawenhau, balchïo, ymfalchïo.

Glory over me—cymmer ogoniant arnaf fi.

Glory not—nac ymogoneddwch; nac ymffrostiwch; na fyddwch ffrostwyr.

In him shall they glory—ynddo yr ymogoneddant; ynddo ef yr ymglodforant.

That no flesh should glory—fel na orfoleddai un cnawd; fel nad ymffrostiai un cnawd.

Let no man glory in men—na orfoledded neb mewn dynion.

Glory ye in his holy name—gorfoleddwch yn ei enw santaidd.

He hath whereof to glory—y mae iddo orfoledd.

Occasion to glory—achlysur i orfoleddu; achlysur gorfoledd.

Glorying, *s.* ymogoneddiad, ymogoniad, ymogoniant, gorfoleddiad, ymorfoleddiad, ymglodforiad; ffrost, ymffrost, bost, gorfoledd.

Glose, *s.*=*Gloze.*

Gloser, *s.*=*Glozer.*

Gloss, *s.* (Al. *glosse;* S. *glesan;* Ll. *glossa*) caboledd, dysgleirdeb, dysgleirder, llewych, dysgleindra, tywyn, arlathredd, gla, glawdd, grân; dysgleirdeb arwynebol, gwynebliw; eglurhad, egluriad, eglurad, esboniad, arnodiad, deongliad, agoriad, egoriad, sylwad, sylw, agornod; gau eglurhad, gau esboniad, rhith-ddeongliad, cyfrwys eglurhad; lliw.

Gloss of leather—herwm; grân lledr.

Gloss, *v.* caboli, arlathru, dysgleinio, granu; peri dysgleirio, llewyrchu, *neu* ddysgleinio; gosod caboledd ar; rhoi caboledd ar; rhoi dysgleirdeb arwynebol ar; olaerlyfnu; lliwio, berneisio, cyluro; esbonio, egluro, eglurhau, agor, deongli, arnodiadu, arnodi; gau esbonio, gau egluro, rhith-ddeongli, ffug-esbonio; cuddio gwrthuni â ffug a dychymyg; bychanu, lleihau; gwneuthur i beth ymddangos yn wahanol; rhoi lliw ar beth; gwneuthur nodiadau cyfrwys.

To gloss over a meaning—cyluro ystyr; gau egluro ystyr; rhoi gau esboniad ar ystyr; troi ystyr peth; gwyrdröi ystyr peth; lliwio yr ystyr er mwyn rhyw ddyben neilltuol.

Glossalgia, *s.* (Gr. *glôssa* ac *algos*) tafodwst, dolur tafod, poen yn y tafod.

Glossarial, *a.* (o *gloss*) eglurol, eglurhaol, esboniol, esboniadol, deongliadol; yn cynnwys eglurhad; geireglurol, egluriadurol.

Glossarist, *s.* eglurwr, egluriedydd, esboniwr, arnodiadur, nodiadur, eglurhäwr.

Glossary, *s.* (Ll. *glossarium;* Ff. *glossaire*) egluriadur, geirnodiadur, amlygiadur, geireglurydd, geiregluryn, geirddeonglur, geirddeonglydd; geiriadur, geirlyfr, geirlyfryn.

Glossator, † *s.* (Ff. *glossateur*) esboniwr, eglurwr, eglurydd.

Glosser, *s.* (o *gloss*) eglurwr, eglurydd, egluriedydd, arnodiedydd, eglurhäwr, deonglwr, deonglydd, nodiedydd, esboniwr, esboniedydd; cabolwr, cabolydd, arlathrydd, arlathrwr, llathrydd, llugeinydd.

Glossiness, *s.* (o *glossy*) caboledd, cabolrwydd, dysgleiredd, dysgleirdeb, arlathredd, claerder, llugeinedd, llugeinder, lluganedd, llathreidrwydd, llathreiddrwydd, wyneblyfnedd, wyneblyfnder.

Glossist, † *s.* (o *gloss*)=*Glossator.*

Glossly, *ad.* yn gabol, yn arlathr, yn ddysglaer, yn llyfn a gloew.

Glossographer, *s.* (*gloss* a Gr. *graphô*) arnodiadur, arnodiedydd, eglurydd, eglurwr, egluriedydd, eglurhäwr, esboniwr, esboniedydd, nodiedydd, arnodwr; geirddeonglwr, geirddeonglydd, geireglurhäwr, geirnodiedydd; geiriadurwr.

Glossography, *s.* esboniadaeth, nodiaduriaeth, nodiedyddiaeth, geirddeonglaeth, geireglduriaeth, geirnodiadaeth, geiriaduriaeth, arnodiadaeth; ysgrifenad nodiadau eglurhaol.

Glossological, *a.* geiregluregol, geireglurol.

Glossologist, *s.* geireglurwr, esboniwr, esboniedydd, eglurwr, eglurhäwr, arnodiedydd, arnodiadur, deonglwr, deonglydd.

Glossology, *s.* (*gloss*, a Gr. *logos*) geireglureg, geirddeongleg, arnodiadeg; arnodiadau, esboniadau, eglurnodau, nodiadau eglurhaol, sylwadau eglurhaol; tafodeg.

Glossotomy, *s.* (Gr. *glôssa* a *tomê*) tafottrwch, difyniaeth y tafod.

Glossy, *a.* (o *gloss*) dysglaer, arlathr, alathr, llathr, cabol, caboledig, llathraid, llathraldd, claerlyfn, ysblenydd, granus, llyfn-ddysglaer, wyneblyfn, llyfn a gloew, gloewlyfn, dysglaerlyfn, dylathr, lluganol, llugeiniol.

Glottis, *s.* (Gr. *glôtta*) beudag, agoriad y breuant.

Glout, † *v.* (Ysg.) teru, moni, sori, cuchio, gygu; edrych yn anfoddog; syllu yn graff ar.

Glove, *s.* (S. *glof*) maneg, amlaw; dyrnfol, llawegen: *pl.* menyg.

Kid-gloves—menyg o groen myn; menyg croen myn; menyg cen myn.

To throw the glove—taflu y faneg; taflu

yr herfaneg; herio, rhoi her, beiddio, herfeiddio.

Covered with a glove — manegog; yn gwisgo maneg; âg iddo faneg; amlawiog.

Having gloves — menygog, amlawiog; â menyg iddo; â chanddo fenyg; yn gwisgo menyg; à wisgo fenyg.

To be hand and glove together—bod yn gyfeillion mynwesol.

Glove, *v. a.* gwisgo â maneg; gwisgo maneg am; amlawio.

Glover, *s.* (o *glove*) menygwr; menygwerthwr; gwneuthurwr menyg.

Glover's trade—menygwriaeth, crefft menygwr.

Glow, *v. n.* (S. *glowan;* Al. *glühen*) gwyniasu, terwynu, tanbeidio; bod, llosgi, *neu* fyned yn wynias; brydio, poethi, greidio, creidio, gwresogi, angerddu, ymboethi; llosgi, gwrido, twymwrido, cochi, gwridgochi, poethiasu, ymlosgi; tywynu, dysgleirio, llewychu, llewyrchu, goleuo, lleueru, lleuferu; bod yn boeth; bod yn wynias; bod yn wyrenig; llosgi, poethi, gwyniasu, ymlosgi, cynneu, *neu* ennyn gàn lid *neu* ddigofaint; ffrochi, brochi, ffromi.

Glow, *s.* gwynias, poethias, gwenias, tywynias, twymias, twym ias, brydias, gwres llachar; ias; gwrid, twymwrid, cochni, cochedd; rhuddel, glawdd; poethder, gwres, graid, craid; brydaniaeth, ennynfa; tewynder.

Glowing, *a.* gwynias, twymias, terwyn, tanlliw, tanbaid, llachar, tanllachar, coch, gwridog, gwridgoch, gloewgoch; brwd, poeth, greidiol, creidiol, brydlawn, claerboeth, claerwresog, purboeth; claer, dysglaer; gwyrenig; yn gwyniasu, yn terwynu, &c.

Glowing heat—gwynias, twymias, poethias, gwyniasedd, twym ias, gwres gwynias.

Glowing coal—rhysodyn, marworyn: *pl.* rhysod, marwor.

Glowworm, *s.* (*glow* a *worm*) magïen, mageien, y gyfarwydd, goleuen, glöen, glöyn, magïad: *pl.* magïod, mageiod, magïaid, goleuod, glöenau, glöynod.

Gloze, *v. n.* (S. *glesan*) gwenieithio, gwenieithu, truthio, truthcinio, glafru, sidanu; cynffonloni, twyllfoddio.

Gloze, *s.* gweniaith, truth, glafr; †lliwiad, cyluriad.

Glozer, *s.* gwenieithwr, gwenieithydd, truthan, truthiad, truthiwr, glafrwr.

Glozing, *s.* lliwiad, cyluriad, gau ddangosiad, geuwedd.

Glucic, *a.* (Gr. *glucus*) melusig, chweg.

Glucic acid—sur melusig.

Glucine, } *s.* (Gr. *glucus*) perddelidnur, per-
Glucina, } ddelegrid, egrid perddelid.

Glucinium, *s.* (Gr. *glucus*) perddelid.

Glue, *s.* (Ff. *glu;* Gr. *glia;* Ll. *gluten*) glud, ysgrawling, asgrawling, ysglawring, ysgroling, asgroling, asgloring, ysgloring.

Glue, *v. a.* gludio, ysglawringo, ysgrawlingo, asgloringo, ysgloringo, asgrolingo, ysgrolingo; uno, cyssylltu, cydio, asio.

Glueboiler, *s.* gludferwydd, berwydd glud, berwr ysglawring, gwneuthurwr ysgrawling.

Gluer, *s.* gludiwr, asgrolingwr, ysgrolingydd, ysgrawlingwr, ysgloringydd.

Gluey, *a.* (o *glue*) gludiol, gludiog, gludaidd, ysglawringaidd, ysgrolingaidd, asgloringol; gwydn, glynol, hylud, hylyn, teng, glud.

Glueyness, *s.* gludedd, gludrwydd, gludiogrwydd, gludiolrwydd, gludioldeb, gludeiddrwydd, ysgrolingrwydd; gwydnedd, hyludedd.

Gluish, *a.* (o *glue*) gludaidd, gludiog, gludiol, ysgrawlingaidd, ysglawringaidd, ysgrolingaidd, asgloringaidd, asgrolingaidd; gwydn, hylud.

Glum, *a.* (Ysg. *gloum;* o *gloom*, yn ol *Johnson*) anhylon, diserch, gygus, cuchiog, sarig, prudd, sur, ansiriol, tawedog.

Glum, *s.* gwg, cuwch, anhylondeb, ansirioldeb, sarigrwydd.

Glum, *v. n.* gygu, cuchio; edrych yn sarig, &c.

Glumaceous, *a.* (o *glume*) uslenog, rhuchog, hosanog; usog, masglog, plisgog; usaidd, cibaidd; hadwisgog, hadruchog.

Glume, *s.* (Ll. *gluma*) uslen, us, plisg, cib, hadwisg; gwisg yd *neu* borfa.

Glummy, *a.* (o *glum*) sarig, anhylon, diserch, gygus, cuchiog; tywyll, gwyll, caddugol, prudd, erch.

Glumous, *a.* (Ll. *gluma*) bonruchog, bonruchaidd, bonuslenog.

Glut, *v. n.* (Ll. *glutio;* Ff. *engloutir*) glythu, traflyncu, gwancio, cegio, cegu, safneidio, gorlenwi, secu, sechu, gorlwytho, arddigoni, gorddigoni, alaru ar, llaru ar, diflasu ar, cael digon ar, blino ar; bolera.

Glut, *s.* trafiwnc, trafiwng, safnaid; gormodedd, arddigonedd, gorddigonedd, gwala, alar, gorllawndid; gwanc, llanw.

There is a glut of corn—y mae gwala o yd; y mae yr yd wedi myned yn chwyddog.

Gluteal, *a.* (Gr. *gloutos*) ffolenaidd, ffolenol, clunaidd, clunol, morddwydaidd; perthynol i'r ffolenau.

The gluteal artery — rhedweli y ffolen, rhedweli y ffolenau.

Gluten, *s.* (Ll.) gludain, tyfiud; glud.

Glutinate, *v. a.* (Ll. *glutino*) gludio, ysgrawlingo, ysglawringo, ysgrolingo, asgrolingo, ysgloringo, asgloringo; cydludio, cyngludio; cydio, cyssylltu.

Glutination, *s.* gludiad, ysgrolingad, asgrolingad, ysgloringad, cydludiad, cyngludiad.

Glutinative, *a.* (o'r Ll. *glutino*) gludiol, gludiadol, cyngludiol, cydludiol, gludiog, gwydn, hylyn, hylud, glud, teng.

Glutinosity, } *s.* gludedd, gludrwydd, glud-
Glutinousness, } iogrwydd, gludiolrwydd, hyludrwydd, cyngludedd, cyngludrwydd, gwydnedd, tengrwydd.

Glutinous, *a.* (Ll. *glutinosus*) gludiog, gludiol, gludaidd, cyngludiol, hylud, gwydn, hylyn, teng, glynol, ysgrolingaidd, ysglawringaidd.

Glutton, *s.* (Ll. drosgl, *gluto;* Ff. *glouton*) glwth, glythwr, gwanciwr, gewai, rhemmwth, glythyn, llawciwr, bolrythwr, tryfoliwr, cegwr, trafoliwr, un glwth, dyn glwth, dyn rhwth, dyn rhawth, bwytäwr mawr, bwytäwr diwala, dyn bwytëig, dyn glythig, glythinebwr, gorfwytäwr, bolgi.

Glutton (*Gulo vulgaris*)—rhemmwth.

Gluttonize, *v. n.* glythu, glythinebu, gwancio, gnythu, cegu, hopranu, tryfolio, bolera, ysu y cwbl, ymdorlwytho, chwareu y glwth; wttresa, gloddesta; bwyta yn llyminog, bwyta yn wancus.

Gluttonous, *a.* glwth, glythig, bolrwth, ceul-

rwth, cegrwth, glythlyd, glythaidd, gwancus, glythol, glythog, rhawth, rhwth, gnythol, bwytëig, bwydiog, rheibus, cyfys, barus: *f.* gloth, rhoth.

Gluttony, *s.* glythineb, glothineb, glythni, glythi, glythedd, glythigrwydd, bolrythi, bolrythni, ceulrythni, cegrythni, gnwth, rhawth, gwanc, bwyteigrwydd, rhythni, gwancusrwydd, glythinebgarwch, glythogrwydd.

Glyceria, *s.* (Gr. *gluceros*) perwellt, chwegwellt, chweglys.

Glycerine, *s.* (Gr. *gluceros, glucus*) chwegnur, melusnur = dansawdd melus brasder ac olew.

Glycerule, *s.* (Gr. *gluceros* a *hulê*) chwegnursawdd.

Glycicoll, *s.* (Gr. *glucus* a *colla*) glysugr, chweglud, sugr ceuledain.

Glyconian, } *a.* (o *Glucôn* neu *Glycon*, y dyfeis-
Glyconic, } ydd) Glyconig, Glyconaidd, Glyconain; cynnwysedig o gorfan hir, corfan dyrchrywiog, a chorfan cloff.

Glycyrrhiza, *s.* (Ll.; Gr. *glucus* a *rhiza*) gwylys, chwegwraidd, perwraidd.

Glyn, } *s.* (C. *glŷn;* Gw. *glean*) glŷn, dyffryn,
Glen, } cwm, cwmarch, pant, allmor, dôl.

Glyph, *s.* (Gr. *gluphê*) tlysgaf, addurnwm, tlysgeufan, cerfwm.

Glyphic, *s.* arwyddlun, geirlun, geirarwydd, bathain.

Glyptic, *a.* (Gr. *gluptos, gluphô*) lluniog; gemgerfiol, gemgrifiol.

Glyptics, *s.* gemgerfiaeth, gemgrifiaeth, gemgerfiadaeth, gemgrifiadaeth, cerfiad gemau, gemgerfiad.

Glyptodon, *s.* (Gr. *gluptos* ac *odous*) math o greadur diflan.

Glyptographic, *a.* cerfemofyddol, gemgrifegol, gemgerfegol.

Glyptography, *s.* (Gr. *gluptos* a *graphô*) cerfemofyddiaeth, gemgerfeg, gemgrifeg, darluniaeth o gerfiad gemau.

Gnaphalium, *s.* (Gr. *gnaphalion*) edafeddog, yr edafeddog.

Gnar,† *s.* (Al. *knorren*) cwlwm, clwm, cwgn.

Gnar, } *v. n.* (S. *gnyran, gnorian;* Al. *gnurren*)
Gnarl, } chwyrnu; grymial, gremial, rhemial, grymiala, grymialu, gryngian, gryngio, grwytho, dysgyrnu, ysgyrnygu; rhochi; grwgnach, grydwst.

Gnarled, *a.* cygnog, clymog, cylymog.

Gnash, *v.* (D. *knasker*) rhincian, rhincio, ysgyrnygu, esgyrnygu, dysgyrnygu; ymrincian, ymddanneddu, ymddeintio; rhincian dannedd; gwasgu dannedd; clecian, grillian; grymial, chwyrnu.

To gnash the teeth — rhincian dannedd, deintrincian, deintrincio; gwasgu y dannedd gàn boen *neu* ddig; gwasgu dannedd yn nghyd gàn boen *neu* ddigofaint.

Gnashing, *s.* rhinciad, rhincian, ysgyrnygiad, esgyrnygiad, dysgyrnygiad, ymgnoad.

Gnashing of teeth — rhincian dannedd, deintgryd, deintgryn, ysgyrnygu dannedd, ysgyrnygiad dannedd, deintrinciad.

Gnashingly, *ad.* dàn rincian.

Gnat, *s.* (S. *gnæt*) gwibedyn, gwiban, gwibedyn bach, ednogyn, piw, cylionyn, (*f.* cylionen): *pl.* gwibed, piwiaid, cylion.

To strain at a gnat and swallow a camel — hidlo gwibedyn a llyncu camel.

Gnat-flower, *s.* gwibedlys, ceineirian, blodyn y gwenyn.

Gnathonical, † *a.* (Ll. *gnatho*) gwenieithus, gwenieithol, truthiol, glafrol, twyllodrus.

Gnathostoma, *s. pl.* (Gr. *gnathos* a *stoma*) manteneuod.

Gnatsnapper, *s.* gwibedog, gwibedgipydd.

Gnathotheca, *s.* (Gr. *gnathos* a *thêcê*) genwain.

Gnatworm, *s.* macai gwibedyn, gwibedbryf.

Gnaw, *v.* (S. *gnagan;* Al. *nagen*) cnoi, dygnoi, deintio, dargnoi, amgnoi, cnofain; difa, ysu, treulio; ymgnoi; gofidio, dygnu.

To gnaw about — amgnoi, damgnoi.

To gnaw upon a thing — ymofidio *neu* ymflinaw o herwydd peth; ymgnoi o herwydd peth; cnoi peth; cnofain ar beth.

Gnawer, *s.* cnöwr, cnöydd, damgnöwr, dygnöwr; yswr, treulydd.

Gnawing, *s.* cnoad, dygnoad, deintiad, amgnoad, cnofa; ysiad.

Gnawings of conscience — cnofëydd cydwybod; ymgno cydwybod; tymmigiadau cydwybod; oethri cydwybod.

Gneiss, *s.* (Al.) haenithfaen, haenithgraig.

Gnoff,† *s.* cybydd.

Gnome, *s.* (Gr. *gnômê*) tudelfod = bod neu elfod dychymygol à breswylia ranau tufewnol y ddaiar.

Gnome,† *s.* doethwers, arwiredd, direb, byrwireb, byrfyfyrdod.

Gnomical, } *a.* (Gr. *gnômicos*) arwireddol, ar-
Gnomic, } wireddog, gwirebus, byrwirebus, byreiriog, doetheiriog, synwyrwersog, doethwersog, byrwersog, gwersog, synwyrlawn.

The gnomic poets of Greece — prydyddion doetheiriog Groeg; beirdd arwireddol Groeg.

Gnomiometrical, *a.* (Gr. *gnômôn* a *metreô*) mynegfesurol, dangosfydrol.

Gnomonologic, } *a.* arwirgronol, direbgronol,
Gnomonological, } direbionol; perthynol i arwirgrawn.

Gnomonology, *s.* (Gr. *gnômôn* a *logos*) arwirgrawn, arwirgasgl, direbioneg, direbgrawn, adfyfyrgrawn = casgliad o arwireddau, synwyrwersi, neu adfyfyrion.

Gnomon, *s.* (Gr.) mynegfys, mynagfys, dangoseg, mynegai; nodwydd, pin, bys, llaw, mynegfys, crib, *neu* drwyn orfynag; pin.

Gnomon of a globe — mynegfys cronell, mynegai cronen; mynegai yr awrgylch.

Gnomonic, } *a.* (o *gnomon*) orfynegol, awr-
Gnomonical, } fynegol, heulfynegol; perthynol i orfynegiaeth.

Gnomonics, *s.* orfynegiaeth, heulfynegiaeth, heuloriaeth, mynegfysaeth.

Gnostic, *s.* (Gr. *gnôsticos;* Ll. *gnosticus*) Gwybedydd, Gwybodydd: *pl.* Gwybedyddion, Gwybodigion, Gwybodyddion, Gnosticiaid.

Gnostic, *a.* Gwybodig, Gwybedyddol, Gwybodyddol: perthynol i'r Gwybedyddion; yn perthyn i Wybedyddiaeth.

Gnosticism, *s.* Gwybedyddiaeth, Gwybodyddiaeth, Gwybodigaeth, Gnosticiaeth, athrawiaeth y Gwybedyddion.

Gnu, *s.* (enw brodorol) bualfarch = anifel perthynol i Ddeheudir Affrica.

Go, *v. n.* (S. *gan;* Al. *gehen*) myned; cerdded, rhodio, symmud, troedio, ysgogi, cychwyn, rhoi camrau, camru, hyntio, teithio, ymdeithio, ymdaith, goryndaith, dygychwyn, llwybro, ymlwybro, tramwy, tramwyo, troi,

elu, eddu, eddain, athu; neithio, pasio; dyfod; ymroddi, ymröi; cyrhaedd, ymestyn.

To go about—myned o amgylch; myned yn nghylch; myned oddeutu; ymgynnyg ar, rhoi cais ar, ymosod ar; tramwy, amrodio.

To go about the bush — ffusto perthi; pwyo y perthi; curo *neu* ffusto y llwyni; myned i gyrchu pen ffordd; arferu maith amgylchion geiriau.

To go aboard—myned i long; esgyn i long; dringo i long; myned i fwrdd llong; llongi.

To go abroad—myned allan; myned i maes; myned ar led; myned ar daen.

To go after—myned ar ol; canlyn, dylyn.

To go again—myned eilwaith; myned drachefn, ail fyned; dychwelyd.

To go against—myned yn erbyn; myned i ymosod ar; bod yn erbyn; bod yn groes *neu* wrthwyneb.

To go aside—myned o'r neilltu; myned ar neilltu; myned naill ochr; ymneilltuo, ymddydoli, osgöi, cilio; cyfeiliorni.

To go astray—myned ar gyfeiliorn; myned ar grwydr; myned ar ddisberod; myned ar goll; myned ar ddigrain; cyfeiliorni, crwydro.

To go asunder—myned yn wahanedig; myned ar wahan; ymwahanu, ymneilltuo, ymddattod, ymollwng.

To go away — myned ymaith; myned i ffwrdd; myned i'w ffordd; myned hwnt; myned i bant; myned i faes; myned i maes; myned i gerdded; ymadael, ymadaw, edfyn.

To go away with—myned ymaith â, &c.; dwyn, cludo, *neu* gipio ymaith; myned â pheth i ffwrdd.

To go awry—myned ar gam; myned ar ŵyr; myned yn wyrgam *neu* wyrdraws; gwyro, lleddfu, lledbeio, ystlysu, osgöi.

To go back—myned yn ol; myned yn ei ol; myned yn ei wrthol; dychwelyd, cilio, encilio; gwrthgilio.

To go back from one's word—tori ei air; tori ei addewid; cilio *neu* fyned oddi wrth ei air; bod yn anffyddlawn i'w air.

To go before—myned o flaen; blaenu, blaenori, rhagflaenu; cerdded *neu* fyned o'r blaen; myned rhag; cael *neu* ennill y blaen; gadael ar redeg; rhagu.

To go between—myned rhwng; cyfryngu, athrywynu; ceisio dosbarthu cynhenau.

To go beyond—myned tu hwnt i; myned dros; myned heibio i; rhagori ar, blaenori ar; twyllo, hudo, somi; gorthrymu, gwasgu; troseddu; rhyseddu; träu; maeddu.

To go by—myned heibio; pasio heibio; neithio heibio; hybio; gadael heibio, gadael allan; cael yn y diwedd.

To go by water—myned ar hyd y dwr; myned ar hyd y môr; ymdeithio ar fôr; morio, mordwyo, llongwrio.

To go down—disgyn; myned i lawr; machludo, machlud, ymachludo, ymachludd; methu, ffaelu, pallu; myned i'r dim; cael ei lyncu; cael ei dderbyn.

To go down the stream — myned gyda'r afon; myned gyda'r ffrwd; myned i lawr *neu* i waered gyda'r afon; myned i lawr hyd *neu* ar hyd yr afon; myned i lawr yr afon.

To go down the wind—myned yn ol yn y byd.

To go down the stairs—myned i waered *neu* i lawr o'r llofft; myned i waered hyd, ar hyd, *neu* i lawr y grisiau; disgyn ar hyd y grisiau.

To go down with—myned i lawr gàn *neu* gyda; myned i waered gàn *neu* gyda; cael ei dderbyn gàn; cael ei gymmeradwyo gàn; bod yn dderbyniedig, yn dderbyniol, *neu* yn gymmeradwy gàn; bod heb ei lysu *neu* ei wrthod gàn; cael ei lyncu gàn.

To go far—myned yn mhell; pellhau, ymbellhau.

To go a footpace—myned ar y cam; cerdded ar y cam.

To go for nothing — myned am ddim; myned yn ddiffrwyth; diweddu yn ddiles; bod yn ddiwerth; bod yn ddïeffaith.

To go forth — myned allan; myned i maes.

To go forward—myned yn mlaen; myned rhagddo, (*f.* myned rhagddi, *pl.* myned rhagddynt); cychwyn, dygychwyn; ymgychwyn.

To go from place to place—myned o le i le; myned o fàn i fàn; treiglo, crwydro.

To go hand in hand — myned lawlaw; myned law yn llaw; myned law yn nghyd; cydfyned, cydgerdded, cydymdeithio.

To go hard with one—bod yn galed ar un; bod yn drwm ar un; bod yn dŷn ar un; bod yn gyfyng ar un; bod heb ond prin ddïanc; ei chael hi yn galed.

To go ill with—bod yn ddrwg ar; bod yn ddrwg i; ymdaro yn ddrwg; aflwyddo, annhycio; bod yn aflwyddiannus.

To go in—myned i mewn; myned i fewn; myned i; myned i mewn i; treiddio.

To go in and out—myned i mewn ac allan; gwneuthur gorchwylion bywyd; bod yn rhydd; rhodio yn rhydd; bod mewn cangder.

To go into—myned i; myned i mewn at; gorwedd gyda; ymgystlynu, cywestachu, cyridio.

To go into captivity—myned i gaethiwed.

To go a journey — myned ar daith; myned i daith; teithio, ymdeithio, ymdaith; myned oddi gartref.

To go near—myned yn agos; myned ger llaw; neshau, nesu.

To go near to do a thing—bod o fewn ychydig i wneuthur peth; bod o fewn ychydig i gyrhaedd dyben *neu* amcan.

To go off—myned ymaith; myned i ffwrdd; myned ffwrdd; ymadael, ymadaw, ymadu; marw, trengu; ffrwydro.

To go on—myned ar; myned yn mlaen; myned yn y blaen; myned rhagddo, (*f.* myned rhagddi; *pl.* myned rhagddynt *neu* rhagynt); myned am; gwisgo.

To go on an embassy—dwyn cenadwri; myned â chenadwri; myned ar genadwri; myned ar genadaeth; myned yn genad.

To go on pilgrimage—pererindota; myned ar bererindod; myned i bererindod; llwypro.
To go out—myned allan; myned i maes; myned oddi; myned o; ymadael, ymadaw; myned ar hynt; myned ar gyfeiliorddwy; allanu; diffodd, diffoddi, diflanu, darfod; myned ar led.
To go out her time—myned ei hamser; cyflawnu ei hamser; dyfod o'r tymp i esgor.
To go out of the way—myned oddi ar y ffordd; myned allan o'r ffordd; ymadael â'r ffordd; ciliaw o'r ffordd; troi oddi ar y ffordd; troi o'r ffordd; troi allan o'r ffordd; cyfeiliorni, amryfuseddu.
To go over—myned dros; myned drosodd; trosfyned; myned ar hyd; edrych dros; adolygu; darllen; croesi; gwrthryfela.
To go over a river—croesi afon; myned dros afon; trawenu.
To go over again—ail fyned drosodd; myned drosodd drachefn: lloffa.
To go through—myned drwy; myned trwodd; tyllu trwodd; trwyo; treiddio; gwanu trwodd; gwanu trwyddo; trwyddo; goddef, dyoddef, dwyn; cyflawnu, gorphen, perffeithio.
To go quickly—myned ar frys; myned ar ddyfrys; myned ar ffull; brysio, dyfrysio, ffrystio, prysuro, ffullio.
To go scot-free—myned yn ddidal; myned yn ddïangol *neu* yn ddigosp; dïanc yn ddigosp, yn ddigerydd, yn ddiniwed, *neu* yn ddïasgen.
To go a snail's pace—ymlusgo fel malwoden.
To go through with a thing—myned drwy beth yn gwbl; cyflawnu peth yn hollol; gorphen, perffeithio, cyflawnu, cwblhau; gwneuthur yn gyfrben; goresgyn yn gwbl.
To go to, } myned at; myned i; cyrchu
To go unto, } at; cyrchu i; neshau at.
To go to a place—myned i le *neu* fân; dwyn hynt i le.
To go to meet one—myned i gyfarfod âg un; myned yn erbyn un; myned i gyfarfod un.
To go to see—myned i weled; myned i ymweled â; myned i gael gweled.
To go together—myned yn nghyd; cydfyned.
To go together by the ears—myned benben; myned yn nghyd ben a chlustiau; bod ben yn nghad; myned wrth y pen a'r clustiau; myned ben yn nghad; myned ben yn erfid; ymdynu, ymryson, ceintachu, ymgiprysu.
To go to law—ymgyfreithio; myned i gyfraith.
To go under—myned dàn; myned o dàn; myned oddi tàn; cymmeryd arno; cymmeryd ar ei ysgwyddau; cymmeryd ar ei gefn; dwyn.
To go up—esgyn; myned i fyny; myned i'r làn; codi, cyfodi, dyrchafu, ymddyrchafu; ymgodi.
To go upon—myned ar; cerdded ar; sengu ar.
To go upon a business—myned yn nghyd â gorchwyl; taro yn nghyd â gorchwyl; gosod *neu* ymosod ar orchwyl; cymmeryd gorchwyl mewn *neu* yn llaw; myned ar neges; cychwyn gorchwyl; ymgymmeryd â gorchwyl; dechreu ar orchwyl.
To go upon sure grounds—myned ar sail dda *neu* sicr; sefyll ar sail dda *neu* sicr; sefyll ar dir caled; adeiladu ar sail sicr; mynu bod yn ddiogel.
To go with—myned gyda; myned gydag; cydfyned â; dyfod gyda.
To go well with—bod yn llwyddiannus, yn dyciannus, yn bylwydd, *neu* yn ffynniannus; llwyddo, tycio, ffynnu; bod yn dda ar *neu* i un; ymdaro yn dda; bod yn dda; bod yn wych; bod yn ffodus *neu* ffodiog.
To go with child—bod yn feichiog; bod yn drom; bod yn amdrom.
To go without—myned heb; bod heb; cael bod heb; cael myned heb; colli.
To go with young—bod yn dorog; bod yn gyfebr; bod yn drom; bod yn amdrom.
Go—dos; cerdda, cerdd: *pl.* ewch, cerddwch.
Go to—dewch, deuwch, dowch; moeswch iddo; iddo yn hydda; tyred, dyred, dere, dyre; hai; da; hys, hw.
To let go—gollwng i fyned; gollwng ymaith; gollwng yn rhydd; gadaw i fyned; gadael yn rhydd; rhyddhau, gollwng; peidio â, peidio âg.
Let us go—awn; gadëwch, gadwch, *neu* moeswch i ni fyned.
Let him go—aed, eled, cerdded.
Go to him—dos ato.
How goes it?—pa hynt? pa fyd? pa helynt? pa beth yw eich hynt? pa sut y mae hi yn dyfod? pa fodd mae yn dyfod? sut mae hi yn dyfod? pa fodd yr ymdarëwch? pa fyd sydd arnoch?
How go your affairs?—beth yw eich helynt? pa beth yw eich helynt? pa helynt sydd arnoch? pa fyd?
How will it go now—beth a wneir bellach? pa sut y gwneir weithian?
However things go with me—boed fel y byddo gyda myfi; bydd fy ansawdd i yr hyn a fyddo; bid fy nghyfiwr i yr hyn y byddo; deued à ddel o honof fi; doed à ddelo o honof fi; beth bynag a ddaw o honof fi.
Since things go so—gàn fod pethau felly; gàn fod y pethau felly; gàn mai felly y mae yn bod; gàn mai felly mae pethau yn sefyll; gàn fod pethau yn myned felly.
Things go not well with them—nid yw eu gorchwylion yn ffynnu; nid ydynt yn llwyddo; nid yw eu cyfiwr yn blodeuo.
He shall not go unpunished—ni ddïanc efe yn ddigosp; nid â efe yn ddigosp; ni bydd efe ddïangol.
If such things as these go unpunished—os dïanc y cyfryw bethau a hyn yn ddigosp; os bydd y cyfryw bethau a hyn ddïangol; os dïanc y cyfryw sarhad *neu* gamweddau a hyn yn ddigosp; os â y fath bethau a hyn yn ddigosp.
That goes far with me—dichon hyny lawer gyda mi; dichyn hyny lawer gyda myfi; mae hyny o bwys nid bychan gyda myfi; mawr yw hyny i'm golwg i; mawr yw

hyny yn fy ngolwg i; nid bychan yw hyny i'm golwg i; nid bychan yw hyny yn fy ngolwg; mae hyny yn myned yn mhell gyda mi.

He goes for a citizen—cyfrifir ef yn ddinesydd; efe a gyfrifir yn ddinesydd; cyfrifir ef yn fwrdais; cymmerir ef megys dinesydd; cymmerir ef megys gwr rhydd; mae e'n cael ei gymmeryd megys dinesydd; mae e'n cael ei gymmeryd megys gwr rhydd.

They go from the matter in hand—ymadawant â'r pwnc mewn llaw; gadawant y peth *neu* y mater mewn llaw; ciliant oddi wrth y mater *neu* y peth mewn llaw; nid ydynt yn ymgadw at y pwnc mewn llaw.

If you will go to the price—os rhoddwch chwi y pris; os boddlawn fydd genych dalu ei werth.

A mare goes twelve months with foal—bydd caseg ddeuddeg mis yn gyfebol; bydd caseg flwyddyn gyfan yn gyfebol; tyn caseg gyfebol ddeuddeg mis; tyn caseg gyfebol ddeuddeng mis o amser.

You perceive how things go with me—chwi a welwch fy ansawdd, fy sefyllfa, *neu* fy nghyflwr i; chwi a welwch y cyflwr yr wyf fi ynddo.

He goes with the stream—y mae yn myned gyda'r ffrwd; mae e'n ffynnu; mae e'n ymgyfoethogi; y mae ef yn gwella *neu* yn cynnyddu beunydd.

He goes down the hill—mae e'n myned ar y gwaered; y mae e'n myned i waered; y mae e'n gwaethu yn ei feddiant; y y mae e'n gwaethygu yn y byd; y mae y byd yn ei faeddu; y mae y byd yn ei wrthwynebu.

He that goes softly, goes surely—gwell hir bwyll na thraha.

Though he may not go—er nad elo.

She went with it all away—hi a'i dug ymaith oll.

He shall not go away with it so—ni ddïanc efe felly; ni bydd iddo ef ddïanc felly.

That will never go down with him—ni chydsynia efe â hyny byth; ni lwnc efe byth mo hyny.

That doctrine will never go down with a rational man—ni lwnc dyn rhesymol byth mo'r athrawiaeth hòno.

Go not from house to house—na threiglwch o dy i dy; nac ewch o dy i dy; peidiwch â myned o dy i dy.

Go with us—tyred gyda ni; dyred gyda ni; dere gyda ni; dyre gyda ni.

She went thither without us—hi a aeth i'r fân hòno hebom ni.

As the world goes—megys y mae y dydd heddyw; megys y gwelir y dydd heddyw; yn ol arfer y byd; màl yr â'r byd.

She is likely to go without her husband—y mae hi yn debyg i golli ei gwr; mae hi yn debyg i fod heb ei gwr; mae hi yn debyg i fyned heb ei gwr; mae hi yn debyg i gael bod heb ei gwr; mae hi yn debyg o golli ei gwr.

It is time to go—mae yn bryd myned; madws yw myned; pryd yw myned.

That it may go well with thee—fel y byddo yn dda i ti.

I was going to speak of that—yr oeddwn i ar fin siarad am hyny; yr oeddwn i yn myned i son am hyny o beth; yr oeddwn i ar fin son am y peth hwnw.

He is now going on twenty years—y mae efe yn awr yn mron ugain *neu* ugeinmlwydd oed; y mae efe yn awr yn tynu at ugain *neu* ugeinmlwydd oed; y mae efe yn awr yn tynu ar ugain mlwydd oed; y mae efe yn myned *neu* yn cerdded ar ei ugain mlwydd.

The sun is going down—y mae yr haul ar fachlud; mae yr haul yn machludo; mae yr haul yn myned i lawr.

So soon as I shall see how it will go with me—cyn gynted ag y gwelwyf yr hyn a fydd i mi.

Israel shall go into captivity—caethgludir Israel; Israel a â i gaethiwed.

The man went among men for an old man—y gwr a äi yn hynafgwr yn mysg gwŷr; y gwr a gyfrifid yn hynafgwr yn mysg gwŷr.

When it goeth well with the righteous, the city rejoiceth—yr holl ddinas a ymlawenha o herwydd llwyddiant y cyfiawn (*Diar.* xi. 10).

Go through, go through the gates—cynniweiriwch, cynniweiriwch trwy y pyrth (*Esa.* lxii. 10).

Because his face was as though he would go to Jerusalem—am fod ei wyneb ef yn tueddu tua Ierusalem (*Luc* ix. 53).

Goad, *s.* (S. *gad*) ierthi, irai, garthon, heriai, iarth, swmbwl, swmwl, swml, gwialen alw, erwydden alw, cymhellai, iar.

Goad, *v. a.* symbylu, symbylio, symylu, symlu, pigo; annog, dirio, cymhell, gyru, gyru yn mlaen, syniglo.

Goal, *s.* (Ff. *gaule*) gâl, gwyal, gwyalfan, gwyalen, cyrchnod, cyrch, y nod, y marc; nod pen yr yrfa, nod pen y rhedfa; pen yr ystod; eithafnod; dyben, amcan, llwyr ddyben; cychwynfa.

To set a goal—gwyalu; gosod gâl, &c.

From the lists to the goal—o'r gychwynfa i ben yr yrfa; o'r dechreu i'r diwedd.

Goar, *s.* = *Gore.*

Goarish,† *a.* clytiog, gwael.

Goaring, } *a.* cwysedaidd; ar lun cwysed;
Goring, } wedi ei dori ar ŵyr *neu* ar oleddf; lletach yn y cwr isaf na'r uchaf; yn lleddf bigfeiniaw o'r bron i'r brig.

Goat, *s.* (S. *gæt*; Is. *geit*; Sw. *get*; Al. *geiss*) gafr, llwdn gafr; llill, llillen, gid, giten, giden, gafren, cidws, cidysen: *pl.* geifr, gafrod.

He-goat—bwch gafr, bwch geifr, gwrafr, gafr-fwch, bwch.

She-goat—gafr, gafr fenyw; llill, llillen, giten, giden.

Gelt-goat, } hyfr, hafr: *pl.* hyfrod,
Wether-goat, } hafrod, heifr.

Young goat—efyrnig, llillen, giten, giden, cidysen; myn, mynyn, mynan, mynen.

A little goat—gafran, gafren.

A little she-goat—gafren, llillen, giten, giden, cidysen, mynen.

Wild goat—gafr wyllt; gwyddafr, creigafr, coedafr; gwyddfwch.

Barren goat—gafr hesp, hesp-afr.

Goat-deer—hyddafr, gafr-garw.

Scape-goat—bwch dïangol.
Pen for goats—ty geifr, corlan geifr, ty gafrod, gafr-dy.
Goat's eye—llygad gafr, gafrem.
Goat-chaffer, *s.* gidchwilen, gidchwil.
Goat-fish, *s.* gidbysg, gafrbysg=pysg perthynol i'r Canolfor.
Goatherd, *s.* bugail geifr, heusor geifr.
Goatish, *a.* gafraidd; mws, drewllyd; anllad, trythyll, nwyfus; mòr drythyll a'r afr; cyn drythylled a'r afr; yn drewi fel bwch; â sawr y bwch arno; â gwynt y bwch ganddo.
Goat-marjoram, *s.*=*Goat's-beard, Goat-beard.*
Goat-milker, *s.*=*Goatsucker.*
Goat-moth, *s.* gafrwyfyn, gidwyfyn.
Goat's-beard, } *s.* barf yr afr.
Goat-beard, }
Yellow goat's beard—barf yr afr felen.
Greater goat's beard—barf yr afr fwyaf.
Purple goat's beard—barf yr afr geninddail, barf yr afr gochlas.
Goatskin, *s.* croen gafr, cen gafr.
Goat's-rue, *s.* gorddawn yr afr, torwenwyn yr afr, rhut y geifr.
Goat's-stones, *s. pl.* gafr-eirin; baldar; tegeirian.
Greater goat's stones—baldar.
Lesser goat's stones—tegeirian, eirin y ci, caill y ci, ceilliau'r ci.
Goat's-thorn, *s.* rhafnwydd.
Goatsucker, *s.* y rhodor, y rhodwr, aderyn y droell, gidsugnydd; brân nos, brân y nos, dylluan y rhedyn.
Goatwort, *s.* llysiau y gymmalwst, troed yr afr.
Gob, } *s.* (Ff. *gobe, gobet*) tam, tamaid, tam-
Gobbet, } eidyn, cwlff, chwalff, llaprwth, safnaid, bochaid, cnwff, geneuaid; talp, telpyn, difyn, dryllyn, dernyn, clempyn, chwelffyn; geneu.
A little gobbet—tameidyn, cylffyn.
At one gobbet—ar un tamaid; yn un tamaid.
In gobbets—yn dameidiau, yn gylffau, yn llaprythau, yn dalpiau, yn fochlwythi, yn fochlwythau, yn safneidiau, yn chwalffau.
Full of gobbets—tameidiog.
Gobbet, *v. a.* llyncu yn dalpiau, yn dameidiau, yn gylffau, *neu* yn fochlwythi.
Gobbing, *s.* (o *gob*) ceusothach, ceusorod; sothach à defir i gauad tyllau glo.
Gobble, *v. a.* (Ff. *gober*) traflyncu, ceglyncu, darlyncu, cegu, llyncu, gwancio, llawcio; llyncu heb ei gnoi; llyncu heb gymmeryd hamdden i'w gnoi; bochlwytho, safneidio; ysu yn wancus; bwyta ar frys ac yn wancus.
Gobble, *v. n.* lleisio fel twrci.
Gobbler, *s.* traflyncwr, traflyncydd, darlyncwr, ceglyncwr, cegwr, gwanciwr, llawciwr; ceiliog twrci.
Go-between, *s.* cyfryngydd, cyfryngwr, cyfryngai, rhyngfynedwr; à el rhwng dau; rhyngfasnachydd.
Goblet, *s.* (Ff. *gobelet*) cwpan, mail, meilen, carfen, cawg, gorflwch, gorwydryn, godard, ffiol, gwn, cib.
Golden goblet—eurfail, cwpan aur, eurgwpan, eurgib.
Goblin, *s.* (Ff. *gobelin*) coblyn, ellyll, gwyll, bwgan, bwbach, bwci, mwci, anysbryd, gwagysbryd, drychiolaeth, lledrith, bwg, pwg, pwci, bo, elff, aneilun, un o'r tylwyth teg.
Gobonated, *p. p.* (Ff. *gobe*) tameidiog, tamranog.
Gobone, } *a.* britheiliog, brithymylog.
Gobony, }
Go-by, *s.* mynediad heibio; gocheliad; ymocheliad; ymdro, mwysdro, cyfrwys ochel, hud, som, dichell.
To give one the go-by—myned heibio i un; pasio un; gadael un ar ol; gadaw un ar redeg.
Goby, } *s.* (Ll. *gobius*) gwyniad; y gwyn-
Gobius, } iaid.
Go-cart, *s.* càr cerdded, gogart; cart bach, chwareufen plentyn.
God, *s.* (S. ac Is.; Al. *gott;* Sw. a D. *gud*) Duw; Ion, Ior, Naf, Ner, Celi; Duw Celi, Duw Ior, Duw Ion, Duw Naf, Duw Ner; duw, dwyf.
False god—geudduw, duw gau, gau dduw.
Household gods — tydduwiau, duwiau teulu.
God of wisdom — duw doethineb, dwyf doethineb.
Tutelary gods—duwiau nawdd, duwiau noddol, nawdd-dduwiau, tadolion dduwiau, duwiau tadol; duwiau tadolion.
God of wine—duw gwin, duw y gwin, gwinior.
Sea-god—mordduw, duw môr, duw y môr.
River-god — afonior, afondduw, duw yr afonydd, dyfrior; dyfrelen, nofanes.
God of hell—duw uffern, uffernior.
God of war—duw rhyfel, rhyfelior, rhyfeldduw.
God forbid—na ato Duw; na adawo Duw; nas gato Duw; na aded Duw; na adawed Duw.
God grant—Duw a wnel; Duw a wnelo; caniatäed Duw; Duw a ganiatao.
Good God!—och Dduw! Duw anwyl!
God save you—nawdd Duw arnat; Duw a'th gadwo; porth Duw iti; Duw yn borth iti; Duw a fo yn borth i ti; cadwed Duw di: *pl.* nawdd Duw arnoch, &c.
God speed you — Duw yn rhwydd iti; rhwydd-deb iti; rhad Duw arnat; rhad Duw ar dy waith; hawddammor iti.
To bid one God speed—dywedyd 'Duw yn rhwydd' wrth un; erchi 'hawddammor' i un.
If God will—os Duw a'i myn; os myn Duw; os da gàn Dduw; os caniatâ Duw.
If God send life—os byw fyddaf; os byw a fyddaf; os byddaf fyw; os rhydd Duw einioes.
God save the queen—Duw a gadwo y freninesa; Duw gadwo y freninesa.
The church of God—eglwys Duw.
The house of God—ty Duw.
God preserve me from you—nawdd Duw rhyngof fi a chwi; croes Duw rhyngof fi a chwi; Duw a'm cadwo rhagoch.
God preserve me from doing so—Duw a'm cadwo rhag gwneuthur felly; cadwed Duw fi rhag gwneuthur felly; na ato Duw i mi wneuthur felly; croes Duw rhag i mi wneuthur felly.
To pray God, } gweddïo ar Dduw;
To pray to God, } gweddïo Duw; gweddïo at Dduw; atolygu i Dduw; dymuno ar Dduw; deisyfu ar Dduw.

I pray God—mi a archaf ar Dduw; mi a archaf i Dduw; mi ddymunaf ar Dduw; mi a gafgàn Dduw; Duw a wnel; caniatäed Duw; mi a weddïaf ar Dduw.
Love of God—cariad *neu* serch ar Dduw; duwgarwch, duwiol serch.
For the love of God—er cariad ar Dduw; er serch ar Dduw; er mwyn Duw.

God,† *v. n.* dwyfoli, duwio.
Godchild, *s.* (*god* a *child*) plentyn bedydd.
Goddaughter, *s.* merch fedydd.
Goddess, *s.* (o *god*) duwies, dwywes; dwyfen, bunnuwen, dwyfes, angeles, angyles, elen.
Silvan goddess—gwyddanes, duwies y coed, duwies y coedydd, coedelen.
Goddess of wisdom—duwies doethineb.
Goddess of learning—duwies dysg, duwies ddysg, llendduwies.

Goddesslike, *a.* duwiesaidd, elenaidd; fel duwies.
Godfather, *s.* (*god* a *father*) tad bedydd, alltraw, alltad.
Godfather, *v. a.* alltrawu, alltradu; gweithredu fel tad bedydd; tadmaethu.
Godfearing, *a.* (*god* a *fear*) yn ofni Duw; à ofno Dduw; duwiol.
Godhead, *s.* (*god*, a S. *hade*) duwdod, duwdeb, duwdid; dwyfoldeb, dwyfolder, duwindeb, duwiolaeth; duw, dwyf, duwies.
Godless, *a.* didduw, annuw; heb Dduw, annuwiaethol; annuwiol, annuwaidd; anffyddiol, diffydd, digred, drwg, drygionus, ysgeler.
Godlessness, *s.* annuwiaeth, didduwiaeth, annuweiddrwydd, annuwdeb, annuwioldeb, annuwiolrwydd.
Godlike, *a.* duwaidd, duwiaidd; tebyg i Dduw; fel Duw; dwyfol; dwyfolaidd, duwiolaidd, dwywol, duwin, dwyfin, duwiol, duwdebyg; ardderchog.
Godlikeness, *s.* duweiddrwydd; dwyfoldeb, dwyfolder, dwywoldeb, duwinrwydd, dwyfinrwydd; duwdebygrwydd, tebygrwydd i Dduw.
Godlily, *ad.* yn dduwiol.
Godliness, *s.* (o *godly*) duwioldeb, duwiolder, duwiolrwydd, dwyfolder, dwyfoldeb, dwywolder, duwgarwch, duwiolfryd, duwiolfrydedd, buchedd dduwiol.
Godling, *s.* (o *god*) duwyn, duw bach, duw bychan: *pl.* duwiach.
Godly, *a.* (*god* a *like*) duwiol; dwyfol, dwywol; crefyddol, duwgar, duwiolfryd, duwiolfrydig, parchedig.
Godly fear—ofn duwiol, parchedig ofn.

Godly, *ad.* yn dduwiol, &c.
Godlihead,† *s.* (S. *god* a *hade*) daioni.
Godmother, *s.* (*god* a *mother*) mam fedydd, alltrawes, elltrewen.
Godroon, *s.* (Ff. *godron*) gwrthrigol, gwrthsylch.
Godsend, *s.* (*god* a *send*) rhodd Duw, dwyfanrheg; peth anfonedig gàn Dduw; ffawd, cynrabad, coelferth, tynged dda, mattynged.
Godship, *s.* (o *god*) duwdod, duwdeb, duwdid; duwiaeth, duwiolaeth.
Godsmith, *s.* duwof, eilunof, gof duwiau, gwneuthurwr duwiau, gof eilunod, gwneuthurwr eilunod.
Godson, *s.* (*god* a *son*; S. *godsunu*) mab bedydd.
Godspeed, *s.* Duw yn rhwydd; rhwydd-deb, hawddammor, llwyddiant, ffynniant.
God's-penny, *s.* ceiniog friduw, ceiniog ernes, ceiniog ern, ceiniog arddelw.

Godward, *ad.* (*god* a *ward*) tuag at Dduw; ar Dduw.
Godwit, *s.* (Isl. *god* a *veide*) rhostog.
Red godwit—rhostog coch.
Lesser godwit—cwtyn du.

Godyeld, } † *adv.* (talfyriad, meddylir o *god*
Godyield, } neu *good*, a *shield*) diolch.

Goel,† *a.* (S. *gealew*) melyn.
Goer, *s.* (o *go*) mynedydd, mynedwr, cerddedwr, cerddedydd, cerddwr; troed, ped, pedd.
Comers and goers—tramwywyr, tramwyaid; rhai yn myned ac yn dyfod; mynediaid a dyfodiaid.
A goer barefoot—un troednoeth, un diarchen.
He is a good goer—y mae efe yn myned yn dda.

Goethite, *s.* (oddi wrth yr hyglod *Goethe*, y bardd Almaenig) math o ddelidfaen.
Goety,† *s.* (Gr. *goêteia*) goralwad ar ysbrydion drwg, gorcheiniaeth.
Goff,† *s.* (C. *goffol?* Ff. *goffe?*) ffol, ffwl, ffwlcyn, cuall, penbwl, pendew.
Goffish,† *a.* ffol, anghall, penbylaidd, cuall, hurthgenaidd, goffol.
Gog, *s.* (C. *gog*, yn ol *Webster*) brys, dyfrys, ffull, ffrwst; awydd myned.
Goggle, *v. n.* (C. *gogelu*, yn ol *Webster*) llygadwibio, rhoncian, gwibio; treiglo y llygad; edrych ar ŵyr; edrych yn llygattraws; darsyllu, alltremu, alltremio, syllu, llygadrythu, llawnrythu.
Goggle, } *a.* llygadfawr, llygadog, llygadrwth;
Goggled, } tremiol, tremgar, syllgar, teryll, gwibiog.
Goggle eye, } llygad gwibiog, llygad
Goggling eye, } hydreigl, llygad ansafadwy; llygad llo, llygad buwch, bulygad; llygad à saif allan yn mhell, megys pe bai yn barod i neidio allan o'i dwll.

Goggle, *s.* llygadrythiad, llygadwibiad, llygadwib, llygattreigl.
Goggle-eyed, *a.* llygadfawr, llygadog, llygadrwth, (*f.* llygadroth;) â llygad llo iddo; llygattraws; llygadwibiog.
Goggles, *s. pl.* (C. *gogelu*) dadgamwelion, dadgamlygon, gogelion; mygydau.
Going, *s.* (o *go*) mynediad, cerddediad; trawd, trawdd; ymadawiad, edfynt, edfyn; ebri; tramwy, tramwyad; ffordd, llwybr, hynt, rhawd; buchedd, ymddygiad, ymweddiad, ymarweddiad; beichiogiad, beichiogi; goruchwyliaeth; camrau, traed.
Going out, } mynediad allan; eithaf,
Goings out, } eithafed, cwr eithaf, cwr pellaf; ymadawiad, edfynt, ymdaith.
A going about—amgylchyniad, amgylchiad, cylchyniad, mynediad o amgylch; amrediad, amred, amdreigl.
A going away—mynediad ymaith; ymadawiad, edfynt, edfyn.
A going down — disgyniad, disgynfa, cwympad; goriwaered; mynediad i lawr.
A going down of the sun—machlud haul, machludiad haul, ymachlud haul, gostyngiad haul, gostwng haul; ymachludd haul; mynediad haul i lawr; mynediad haul yn ei haddef; mynediad haul dàn ei gaerau.
A going forth—mynediad allan; codiad, cwnad.

A going out of the way—mynediad o'r ffordd; mynediad allan o'r ffordd; cyfeiliorn, cyfeiliornad, cyfeiliorni, didro, amryfusedd, ffael.
A going up—esgyniad, esgynfa, dyrchafad, dyrchafiad, derchafiant; dringad, dringfa; rhiw.
Goitre, *s.* (Ff.) brefantchwydd, breuantchwydd, chwydd y breuant, brefantlwg.
Goitered, } *a.* brefantchwyddog; â'r brefant-
Goitred, } chwydd arno.
Goitrous, *a.* brefantchwyddol, breuantchwyddol; perthynol i'r breuantchwydd.
Gola, *s.* (Ll. *gula*) tònfolden, tònfold, tònaddurn.
Gold, *s.* (S. ac Al.; Sw. a D. *guld;* Is. *goud*) aur; eurliw.
Pure gold — aur pur, aur coeth, aur dilin.
Fine gold—aur coeth, aur dilin, aur coethedig, aur pur.
Gold fined—aur profedig, aur coethedig, aur coeth, aur puredig.
Malleable gold—aur mâl.
Solvent gold—aur tawdd.
A bit of gold—euryn.
Coined gold, } aur bath; bath aur, bathell
Gold coin, } aur, eurfath.
Bullion gold—aur clamp, aur talp; aur yn y clamp; aur heb ei fathu.
Standard gold—aur tâl, aur talbenig, aur talben, aur safon.
Gold in circulation—aur amred, aur ar drain, aur train, aur treigl.
Native gold—aur cynnwynol, aur cynhenid, cynaur, aur dilin.
Collection of gold—eurgrawn, eurgasgl.
Venice gold—llifion aur, rhasglion aur, rhathion aur.
Leaf-gold—aur dalenog, dalenau aur, dail aur, eurddail.
To do with gold—euro.
Spangles of gold—casnod aur, eurgasnod.
Covered with gold—eurgaen, eurdo, eurdde; goreurog, eurog, goreuredig, euredig, goreuraid.
Plated with gold—eurdo.
Strewed with gold, } eurgrwydr; eur-
Scattered over with gold, } daen, eurgaen.
Grooms besmeared with gold—gwastrodion eurgrest.
Laced with gold—eursiderog.
Embroidered with gold, } eurfrodiog, eur-
Brocaded with gold, } frwydog.
All is not gold that glitters—nid aur pob dysglaer; llawer teg drwg ei ddefnydd, llawer hagr hygar fydd.
And the goldsmith spreadeth it over with gold—a'r eurych a'i goreura.
Gold of pleasure—cydlin.
Gold, *a.* euraid, euraidd, eurin, eurinol, eurinog, eurol, o aur; eur-.
Gold chain—eurdorch, torch aur, cadwyn aur, eurgadwyn.
Wearing a gold chain—eurdorchog, eurhualog: *pl.* eurdorchogion, eurhualogion.
Gold medal—eurdlws, bathodyn aur.
Gold treasure—eurged, eurgrawn.
Gold mine—eurglawdd, eurgloddfa, cloddfa aur, mwnglawdd aur.
Gold ore—mwn aur, mwyn aur, eurfwn.
Gold sand—eurdywod, tywod aur, graian aur.
Gold dust—llwch aur, eurdywod, manlwch aur, eurflawd, eurlwch.
Gold-laced—eursiderog.
Gold coronet — coronig aur, talaith aur, eurdalaith, eurgoron.
Gold enamel—eurgalch.
Gold enamelled—eurgalch, eurgalchedig.
Gold ring—modrwy aur, eurfodrwy, eurrwy.
Wearing a gold ring—eurfodrwyog, eurrwyog; yn gwisgo modrwy aur.
Gold cover, } eurglawr, clawr aur.
Gold surface, }
Gold finer — eurgoethydd, eurgoethwr, purwr aur, coethwr aur, coethydd aur, terydd aur, eurych.
Gold locks—eurgudynau, eurwallt, cudynau aur, llofnau aur.
Gold currency—aur damred, aur train, aur treigl, aur ar drain.
Gold-headed—peneurin, peneuraid, penaur, peneurog.
Gold-covered—eurdo, eurgaen, eurgrwydr, eurdaen.
Gold foam—gorferw yr aur, eurewyn, eurferw.
Gold brocade, } eurfrodiad, eurfrod-
Gold embroidery, } iaeth, eurfrodwaith, brodwaith aur, brwydwaith aur.
Gold fillet—eurdalaith, eurffunen, ffunen aur.
Gold Coast—yr Oror Aur, yr Eurbarth, yr Euroror, Goror yr Aur, yr Eurdiriogaeth.
Of a gold colour—eurliw, eurliwiog, eurwedd; melyn felyr aur; melyn.
Goldbeaten, *a.* goreurog, eurog, goreuredig, eurdde.
Goldbeater, *s.* eurddalenydd, eurddalenwr, dalenydd aur, eurdduliwr, pwywr aur; un â yro aur yn ddalenau.
Goldbound, *a.* eurgylchedig; amgylchedig âg aur.
Golden, *a.* (o *gold*) euraid, euraidd, eurin, eurinol, eurinog, eurog, eurol, o aur; melyn, eurwedd, eurliwiog; eur-.
Golden rule—rheol euraid, rheol euraidd; y rheol driphlyg.
Golden hue—eurwedd, eurwawr, eurliw, lliw yr aur.
Golden goblet—eurfail, cwpan aur, eurgwpan, eurgib.
Golden-coloured—eurliw, eurliwiog; eurwedd, eurwawr.
Golden-tongued — eurdafodiog, eurdafod; â chanddo dafod aur.
Edeyrn the Golden-tongued—Edeyrn Dafod Aur.
Golden-mouthed—eureneu.
John the Golden-mouthed—Ioan Eureneu.
Golden-crested—eurgopog, eurgopynog.
Golden-crested wren — yswigw, yswidw, sywidw.
Golden surface—eurgaen, eurglawr.
Golden dawn—eurwawr.
Golden trinket—euryn.
Golden armour—eurgrud, eurgrudr, eurgadwisg, cadwisg aur, rhyfelwisg aur, crudyr aur.
Golden-crowned—eurgoronog, eurdaleithiog.

Having golden tresses — eurwallt, eurwalltog, eurgudynog, eurlywethog.
Golden-cups, *s.* egyllt, crafanc y frân, troed y frân, llun troed y frân; egyllt cnapwraidd, blodau yr ymenyn.
Golden-eye, *s.* llygad aur, hwyad lygad aur.
Golden-lungwort, *s.* heboglys y muriau, murheboglys.
Goldenly,† *ad.* yn euraidd, yn orwych.
Golden-maidenhair, *s.* eurwallt y forwyn, gwallt y ddaiar.
Golden-mouse-ear, *s.* blewynog, torllwydig, torllwyd, heboglys torllwyd.
Golden-pheasant, *s.* eurgoediar, y goediar aur, gwyddiar China, coediar Catai.
Golden-rod, *s.* eurwialen, eurialen, melyneuraid, melyneuraidd.
Golden-rod tree—eurialwydden: *pl.* eurialwydd, eurialenwydd=pren brodorol o Ynysoedd Canaria.
Golden-samphire, *s.* cedowys sugol, sampier y geifr, samphir y geifr.
Golden-saxifrage, *s.* eglyn.
Opposite-leaved golden-saxifrage — eglyn cyferbynddail.
Golden-thistle, *s.* eurysgall; *sing.* eurysgallen.
Golden-tressed, *a.* eurgudynog.
Golden-winged, *a.* euradeiniog, eurasgellog; â'i esgyll fel yr aur.
Goldfinch, *s.* (*gold* a *finch*; S. *goldfinc*) pinc, telor, peneuryn, pen eurin, eurlinosen, gwas y seiri, eurbinc, eurasgell.
Goldfinder, *s.* eurgaffaeliwr, caffaelydd aur; carthwr geudai.
Goldfish, Goldenfish, } *s.* eurbysg, eurbysgod.
Gold-hammer, *s.* melyn yr eithin, llinos felen.
Goldheaded, *a.* penaur, peneuraid, peneuraidd, peneurin, peneurog.
Goldhilted, *a.* eurgarn, eurseidiog, eursaid.
Golding, *s.* (o *gold*) afal eurliw, eurliwyn.
Goldlace, *s.* (*gold* a *lace*) eurysnoden, ysnoden aur, eursider, euraddurnwe.
Goldlaced, *a.* eursiderog, eurysnodenog.
Goldleaf, *s.* eurddalen, eurddeilen, dalen aur; aur dalenog: *pl.* eurddail, eurddalenau, dalenau aur, dail aur.
Goldless, *a.* dïaur, heb aur.
Goldney, *s.* (o *gold*) eurben, banwes, y pysg eurben.
Gold-pleasure, *s.* cydlin.
Gold-proof, *a.* nas gellir ei hudo âg aur; na feno aur arno; na finio arian arno; anobrwyadwy.
Goldsolder, *s.* eursodyr, eursawdyr.
Goldsize, *s.* eurlud, goreurlud.
Goldsmith, *s.* (*gold* a *smith*) eurych, eurydd, eurof, gof aur; arianydd.
Goldsmith's trade — eurychaeth, eurylddiaeth, eurofaniaeth.
Of a goldsmith's trade—eurychol; perthynol i eurychaeth.
Goldsmith's work — eurychwaith, eurofwaith, gwaith eurych.
Goldthread, *s.* euredaf, euredef, euredafeddog.
Goldwire, *s.* eurwyfr, gwyfr aur, gwyfr eurin.
Goldylocks, Goldilocks, } *s.* (*gold* a *lock*) peneuraid, peneuraidd.
Golf, *s.* (Is. *kolf*; D. *kolv*) math o chwareu â phel a phastwn.
Goll,† *s.* (Gr. *gualon*?) llawiau, crafangau, palfau.
Goloe-shoe, *s.* (C. a Llyd. *golo*) aresgid; esgid ar esgid.
Golore, *s.* (Gw. *gleire*) cyflawnder, llawnder, amledd.
Golpes, *s. pl.* porfforgrynion (mewn herodraeth).
Golt, *s.*=*Gault, Galt.*
Goltschut, *s.* darn arian arferedig yn Iapan.
Gom, Goma, } † *s.* (S. *gum*; Goth. *guma*) dyn, gwr.
Gome, *s.* (llygriad o *coom*) echelsaim, iraid echel, saim troell, iraid troell; huddygl.
Gomphosis, *s.* (Gr.) gwadalgnawiad, gwadalgnaw, cnawiad anysgog y dannedd.
Gomphræena, Gomphrena, } *s.* (Gr. *gomphrêna*) llysiau yr eiddigedd.
Gonagra, Gonegra, } *s.* (Gr. *gonn* ac *agra*) penlinwst, cymmalwst pen y lin.
Gondola, *s.* (It.; Ff. *gondole*) math o fad neu ysgraff hirgul, arferedig yn benaf yn yr Ital: hirfad, hirgwch.
Gondolier, *s.* (o *gondola*) rhwyfwr y Gondola; hirfadwr; badrwyfwr, badrwyfydd, rhwyfwr.
Gone, *p. p.* (o *go*) gwedi myned; à aeth, &c.; colledig; neithiedig; wedi myned heibio; trengedig, marw, wedi marw.
Be gone—ymaith; dos ymaith; ffwrdd â thi; dos i'th ffordd; cerdd i dy ffordd; cerdd i gerdded; dos hwnt.
To be gone—myned *neu* redeg tu hwnt i'r nod.
I am a gone man—darfu am danaf; deryw am danaf; fe dderyw *neu* fe a ddarfu am danaf; dyn colledig wyf; un colledig ydwyf.
He is far gone in years—y mae efe yn oedranus; y mae efe mewn gwth o oedran.
Gone in drink, Gone in liquor, } brwysg; wedi yfed yn galed; trwm gàn ddïod; yn mhell mewn dïod.
He is gone to the other world—aeth i'r byd arall; darfu am dano; aeth at ei hynafiaid; efe a fu farw; y mae efe wedi marw.
Gonfalon, Gonfanon, } *s.* (Ff. *gonfalon*) lluman, baner, baniar, penwn, penon; baner Eglwys Rhufain.
Gonfalonier, *s.* llumanwr, banerwr, penllumanwr.
Gong, *s.* (S. *gang*) symbal y Chinwys; bandaron; † geudy, rheitty.
Goniometer, *s.* (Gr. *gônia* a *metron*) elinfesur, elinfeidyr, onglfesur, eliniadyr.
Goniometrical, *a.* elinfesurol, elinfeidrol, onglfesurol, eliniadyrol.
Goniometry, *s.* elinfesuriaeth, onglfesuriaeth.
Gonophore, *s.* (Gr. *gonos* a *phoreô*) brigergawd, brigergyfod.
Gonoplax, Gonoplacians, } *s. pl.* (Gr. *gonia* a *plax*) pedrygrestiaid.
Gonorrhea, Gonorrhœa, } *s.* (Gr. *gonorrhoia*) hadred, hadlif.
Good, *a.* (S. *god, good*; Sw. a D. *god*; Al. *gut*; Is. *goed*) da, daionus, mad, iawn; madain, madiain, madus, madog, madien, madol, madaidd, madus; teg; buddiol, llesiol, llesol, defnyddiol, llesfawr; cyflëus; gwiw, addwyn, addas, cyfaddas; cyflawn, hollol; medrus, hyfedr, parod; rhagorol; moesol; cryn, swrn, syrn; cadarn, safadwy.
As good a man as he—cystal gwr ag yntau.
As good as—cystal a, cystadl ag, cystadl a,

yn gystal a; mòr dda ag; cystled a, dăed a, cyslad a; malpai, mal pe bai.
As good as dead—cystal a marw; yn gystal a marw; nid gwell na marw; nid amgen na marw.
As good as his word—cystal a'i air.
Good cheer—byd da, byd gwych, bwyd da, sirdda, gwychfyd, danteithrwydd, gwledd, danteithfwyd.
Good deal—llawer, twysged, swrn, amledd, amlder, helaethran, llaweroedd, llawer iawn, nid ychydig, mwy na mwy, llawer byd, cyfran fawr. [tro da.
Good deed—gweithred dda, cymmwynas,
Good fellow—glân gydymaith, cydymaith glân, cyfeddachwr digrifian, cyfeddachwr, cydyfwr.
Good Friday—Dydd Gwener y Croglith, Dydd Gwener Croglith.
Good God!—och Dduw! Duw anwyl!
Good health—iechyd da, iechyd, hwyl dda, hwyl iechyd.
Good liking—cymmeradwyaeth, cymmodlonedd, cymmodlonrwydd, cymmeradwyad.
Good luck, } ffawd, cynrabad, coelferth,
Good fortune, } tynged dda, tynged fad, hawddammor, llwyddiant, llwydd, ffynniant, gorffawd, mattynged, tro da.
Good heavens—nefoedd anwyl! y nef a'n cadwo! O'r unig! gwarched pawb! Duw a'n gwarched!
Good many—nifer nid bychan; rhifedi nid bychan; rhynawd o nifer; crŷn nifer; nifer da; crŷn lawer; bagad, twysged.
Good name—enw da, gair da, geirda; clod, mawl, moliant, bri, parch, cymmeriad.
Good nature—natur dda; hynawsedd, hynawsder, rhadlonedd.
Good natural parts—doniau naturiol da.
Good-natured — da ei natur; hynaws, tirion.
Good part—rhan dda, madran.
Good parts—athrylith dda, doniau da.
Good people—bobl anwyl, bobl dda, y bobl dda.
Good stock, } teulu da, tylwyth da; ty-
Good family, } lwyth gonest a da; gwreiddyn da; cyff da, gwehelyth da.
Good store — amlder, amledd, amldra, cyflawnder, llawnder, haflug, digonedd.
Good success — llwyddiant, ffynniant, llwydd, tyciant, ffawd.
Good things—pethau da; lladau; daioni; gwynfyd; madolion.
Good tidings—newyddion da, newydd da, llawen chwedl, llawenchwedl, llonchwedl.
Good turn—tro da, twrn da, gweithred dda, cymmwynas, gober mad, ced, mad; pwyth.
A good navy — llynges deg, llynges dda, llynges odidog, llynges luosog.
A good way off—yn mhell o ffordd oddi wrth; encyd o ffordd oddi wrth; yn mhell, yn bell; draw; yn mhell oddi wrth; yn mhell o ffordd; encyd o ffordd; crŷn getyn o ffordd; cetyn o ffordd.
A good while—ennyd o amser; encyd o amser; ennyd, talm; crŷn dalm; yn hir; dros hir amser; hir amser.
A good while ago—er ys talm; er ys talm o amser; er ys dyddiau, ers dyddiau; er ys dyddiau yn ol; er ys dyddiau bellach; er ys crŷn dalm; er ys hirfyd o amser; er ys cetyn mawr; er ys crŷn getyn; er ys cetyn.
Good will—ewyllys da, gwyllys da; bodd; hoffedd, hoffder, madwyllys.
Bearing good will—yn ewyllysio yn dda; yn dwyn ewyllys da; madwyllysiol.
To bear good will — ewyllysio yn dda; gwyllysio yn dda; dwyn ewyllys da.
With a good will—yn foddlawn, yn fodlon, yn ewyllysgar, yn wyllysgar; o ewyllys da; o fodd, o lwyrfodd, *neu* o lwyrfryd calon.
To make good — cyflawnu; cadarnhau, profi, sefydlu, sicrhau, gwirio; gwneuthur yn dda; gwneuthur i fyny; talu am; digolledu; gwneuthur colled i fyny; gwneyd i fyny golled; dwyn y golled; sefyll yn y golled; gwneuthur yr hyn a gollwyd yn dda; amddiffyn, cynnal, diogelu, myntumio; dwyn i ben.
To make good a charge—profi cwyn, profi cyhudded, profi cyhuddiad; gwneuthur cyhudded *neu* achwyniad yn dda.
To make good one's promise — cywiro, cwblhau, *neu* gyflawnu ei addewid.
To make good a retreat—diogelu diangfa; diogelu lle i gilio: cynnal byddin ar gil rhag gelyn buddugol.
You make good the proverb—yr ydych yn gwirio y ddiareb.
To think good, } gweled yn dda; bod yn
To see good, } dda yn ngolwg; tybied yn addas; rhyngu bodd i un; gweled bod yn dda; tybied yn dda.
If you shall think good—os bydd dda yn eich golwg.
To stand good—bod yn gadarn *neu* safadwy; sefyll yn gadarn *neu* safadwy.
To take in good part—cymmeryd yn dda; cymmeryd mewn rhan dda; cymmeryd mewn ffordd dda; peidio âg anfoddloni wrth beth; bod yn gymmeradwy gàn un beth; derbyn yn gymmeradwy.
The good man of the house—gwr y ty; penaeth y ty; y penteulu; pendod y ty.
The good woman of the house—gwraig y ty; y benteulues; pendodes y ty.
In good earnest—o wir ddifrif, yn wir ddiau; yn ddigellwair, yn ddifrif, mewn difrif, yn ddifrifol, o ddifrif.
In good truth, } yn wir, yn ddiau, mewn
In good faith, } gwirionedd, yn ddilys; mewn gwir da; yn ddigellwair, yn ddifrifol, o brudd, o brysur, heb gellwair; yn lle gwir; yn wir ddiau; rhyngof a Duw; rhyngof fi a Duw.
Truly good—gwir dda, gwirdda, iawndda.
Extremely good—tra da, da iawn, tra dafonus, da dros ben.
Passing good—odiaeth, od, godidog, odidog, tra da.
To be of good comfort—bod yn gysurus; cymmeryd cysur.
To be in good health—bod yn iach; bod yn iach lawen; bod mewn iechyd; bod yn hwylus; bod yn dda ei hwyl.

He was as good as his word—cadwodd ei air; bu gystal a'i air.
I reckon it now as good as done—yr wyf yn ei gyfrif yn awr megys ar ben, wedi ei wneuthur, *neu* wedi ei orphen; yr wyf yn ei gyfrif yn awr gystal a phe buasai wedi ei wneuthur.
He has as good as married her—y mae efe yn mraint *neu* mewn braint wedi ei phriodi; gwnaeth gystal a'i phriodi.
To be good at a thing—bod yn hyfedr ar beth.
To have a good mind to do a thing—bod ar un fawr chwant i wneuthur peth; bod ar un flys, chwant *neu* awydd i wneuthur peth.
What is it good for?—i beth y mae yn dda? i beth y mae yn fuddiol? i ba beth y mae yn fuddiol? at beth y mae yn dda? da i beth ydyw? beth a wneir âg ef? at ba ddefnydd y mae efe? i beth y mae dda?
Good for nothing—da i ddim; difudd, diles, diffrwyth, anfuddiol, didda, coeg.
It is good for nothing—nid yw dda i ddim; ni yw e'n dda i ddim; ni thâl ddim; ni wneir mo'r gyfaredd âg ef; nid yw werth dim.
How good!—däed! mòr dda! pa mòr dda!
I did not know how good it was—nis gwyddwn ddäed oedd; nis gwyddwn mòr dda ydoedd.
A word spoken in due season, how good is it!—O mòr dda yw gair yn ei amser!
Of good behaviour—gweddaidd; gweddus ei ymddygiad; o ymarweddiad gweddaidd.
That is a good boy—da fachgen.
With the general good liking of all—trwy fodd a chydsyniad pawb yn gyffredinol.
In good time—mewn pryd da; mewn amser da; mewn pryd ac amser da; mewn pryd, mewn amser; mewn pryd ac amser; ar awr dda ac amser; yn brydlawn.
To preach good tidings, } cyhoeddi new-
To bring good tidings, } yddion da; dwyn newyddion da; efengylu; pregethu newyddion da.
That brings good tidings—efengylwr, efengylydd: *f.* efengyles.
By my good will—o'm bodd i; o'm hewyllys da i; hyd y gallwyf fi; hyd y gallof fi; hyd y mae ynof fi.
He wanted no good will—nid oedd ei ddymuniad, ei fryd, ei fwriad, *neu* ei serch yn niffyg; nid oedd ei ewyllys da yn niffyg.
Forgetfulness of good turns—anghof am gymmwynasau; anghof o droion da.
One good turn deserves another—a wnel mad, mad a ddyly.
I will do you as good a turn—talaf y pwyth i chwi.
One good turn for another—tâl pwyth; cymmwynas am gymmwynas; mwynas am fwynas; ced am ged.
To requite a good turn—talu pwyth, talu y pwyth; talu dïolch.
Disposed to do good turns, } cymmwynas-
Apt to do good turns, } gar.
It is a good horse that never stumbles—nid oes neb heb ei fai; nid difai neb a aned; y mae y goreu yn llithro *neu* yn tramgwyddo; da yw y neb ni thramgwyddo.
Good wine needs no bush—afraid gwahodd at gwrw da.
Good success to the Romans—llwyddiant *neu* ffynniant i'r Rhufeiniaid; bid yn dda i'r Rhufeinwyr.
They departed with good success—ymadawsant yn llwyddiannus.
God give you good success—Duw a'ch llwyddo.
There is a sinner that hath good success—y mae pechadur yr hwn sydd yn llwyddo.
Let us enjoy the good things that are present—mwynhäwn y da sydd.
It is a good while ago that I saw him—y mae talm o amser er pan welais ef.
They shall give good ear—hwy a wrandawant (*Doeth.* viii. 12).
Take good heed—edrych (*Eccles.* i. 29).
That they may be of good comfort—megys y byddont gysurus (2 *Mac.* xi. 26).
Take ye good heed unto yourselves—ymgedwch yn ddyfal (*Deut.* ii. 4).

Good, *s.* da, daioni, madedd; budd, lles, mad, llad, lleshad, llesiant, mantais, llwyddiant, ffynniant, llwydd, ced, elw.
Chief good, } penllad, y daioni penaf,
Supreme good, } y da penaf, y dawn penaf, prifles, mawrddawn.
For our good—er ein lles; er daioni i ni.
Mutual good—cyfles, cyflad; da o bob tu.
The common good—y lles cyffredin, y budd cyffredinol.
To do good—gwneuthur daioni, gwneuthur da; gwneuthur lles, &c.; lleshau, llesoli, buddio.
To do good for evil—gwneuthur da dros *neu* am ddrwg; talu da dros *neu* am ddrwg.
Much good may it do you—mawr lles i chwi o hono; mawr dda i chwi o hono; mawr lles i chwi o hano.
We do little good, } nid ydym yn
We do but little good, } gwneuthur nemawr o les; nid ydym yn gwneuthur ond ychydig o les.
It does more harm than good—gwna fwy o ddrwg nag o dda; gwna fwy o niwed nag o les.
I get this good from it—caf hyn o fudd oddi wrtho; bydd i mi hyn o leshad oddi wrtho.
Know it for thy good—gwybydd er dy fwyn dy hun; gwybydd hyny er dy les dy hun.
For good and all—yn gwbl, yn llwyr, yn hollol, achlân, am oll; yn ddiweddaf; am y tro diweddaf.
He is gone for good and all—aeth ymaith dros fyth; aeth ymaith nid i ddychwelyd mwy; aeth ymaith heb feddwl dychwelyd mwyach; aeth dros oll.
He is come hither for good and all—daeth yma i wneuthur ei drigfa; daeth yma i wneuthur ei arosfa; daeth yma dros oll.
What good will it do you?—pa les a wna efe i chwi? beth gwell a fyddwch o hono? pa beth gwell a fyddwch oddi wrtho? pa lad fydd ef i chwi?
What good shall my life do me?—i ba beth y chwennychwn fy einioes (*Gen.* xxvii. 46)?

Good, *ad.* da, yn dda, purion; o'r goreu; yn iawn, iawn, yn dda iawn, yn wych.
As good—cystal, cystadl, yn gystal; mòr dda; cystled, cyslad.
Well and good—purion; pob peth yn burion; pob peth o'r goreu; pob peth yn dda; iawn a da; teg a da; eithaf da.
Good cheap—rhad, iselbris.
Good, *in.* purion! da! wel! o'r goreu! da iawn! uniawn!
Good,† *v. a.* gwrteithio, gwellha tir.
Good-breeding, *s.* moesau da, hyfoesedd, moesogrwydd, moesgarwch, moddusrwydd, boneddigrwydd, boneddigeiddrwydd, moeswychder, moeswychedd, dygiadusrwydd, gwiwfoesedd, ymddygiad boneddigaidd, harddwch ymddygiad; dygiad i fyny ar fonedd.
Good-bye, } *ad.* (talfyriad o *God* neu *good be*
Good-by, } *with you*) bydd wych, bydd iach; nawdd Duw arnat; nawdd Ion arnat; Duw a fo gyda thi; Duw yn borth iti; porth Duw iti; yn iach, yn wych: *pl.* byddwch wych, &c.
Good-conditioned, *a.* moesog, moesgar, moesol, moddus, moddgar, da ei foes; da ei gyfiwr, gwych ei helynt; da ei wedd, ei ansawdd, ei ddrych, *neu* ei ddiwyg; â moesau da ganddo; mewn cyfiwr da.
Good-day, *s.* dydd da; dydd da ichwi; dydd da iwch.
Good-fellow, *s.* glân gydymaith, cydymaith glân, cyfeddachwr digrifian, cyfeddachwr, cydyfwr.
Good-fellow, *v. a.* gwneuthur yn lân gydymaith; meddwi; brwysgo; gwneuthur yn feddw *neu* frwysg.
Good-fellowship, *s.* glân gyfeillach, cyfeillach lawen, cymdeithas lawen.
Good-Friday, *s.* Dydd Gwener y Croglith, Dydd Gwener Croglith.
Good-humour, *s.* hwyl; anian lawen; tymmer, anian, *neu* natur dda; tymmer, anian, *neu* natur ddiddig; hwyl dda; ffrawdden dda, tymmer siriol; llawenfryd; bodd.
Good-humoured, *a.* da ei hwyl, ei dymmer, ei natur, ei anian, *neu* ei anwydau; diddig, hyfodd; à fo yn ei hwyl; siriol ei dymmer.
Good-humouredly, *ad.* yn dda ei hwyl, &c.; mewn tymmer, anian, *neu* natur dda; yn ddiddig ei dymmer; yn ei hwyl; wrth ei fodd.
Good-lack, *in.* (o *lakken* neu *ladykin*, bychanig o *lady*, sef Mair Forwyn, fel yr ys yn tybied) gwae fi! och fi! och Dduw! O'r anwyl!
Goodless, *a.* didda, heb dda, heb ddaoedd, heb foddion.
Goodliness, *s.* (o *goodly*) tegwch, harddwch, prydferthwch, glendid, telediwrwydd, teleidrwydd, prydusrwydd, dillynedd, dillynder, tlysgeinder, mireinwch, berthineb, berthedd, berthyd, ceinder, tlysni; gweddusrwydd, gweddeiddrwydd, godidogrwydd.
Goodly, *ad.* yn rhagorol, yn odidog, yn ardderchog, yn hardd.
Goodly, *a.* (o *good*) hardd, teg, prydferth, prydweddol, golygus, tlws, hardd-deg, glân, glandeg, telediw, telaid, prydus, cain, ceinwedd, lluniaidd, ffurfaidd, gosgeddig, goseiddig, gwiwlun, gwiwffurf; hyfryd, hoff, dymunol; rhagorol, godidog, ardderchog, dewisol, da; gwych, dillyn; hyfad, maddaidd, madog; †mawr, chwyddog, chwyddedig.
Goodly words—geiriau teg.
Goodly cedars—cedrwydd rhagorol.
Goodly heritage—etifeddiaeth deg, etifeddiaeth ragorol, etifeddiant ardderchog.
Goodly raiment—dillad gwychion; hoff wisgoedd.
Goodly gifts—rhoddion gwychion.
Goodly to look to—hardd o wedd; hardd ei wedd; hardd yr olwg; teg yr olwg.
A goodly man—gwr golygus o faint; gwr hardd ei bryd; gwr teg yr olwg; gwr teg o bryd.
That goodly mountain—y mynydd da hwnw.
Any goodly thing—pob peth gwerthfawr; unrhyw beth rhagorol; unpeth gwych.
Joseph was a goodly person—Ioseph oedd deg o bryd.
Of a goodly countenance—teg ei wedd; hardd ei wedd; teg o bryd.
Dainty and goodly—danteithiol a gwych.
How goodly are thy tents!—mòr hyfryd yw dy bebyll di!
Gavest thou the goodly wings unto the peacocks?—a roddaist ti adenydd hyfryd i'r paenod?
Goodlyhead,† *s.* (o *goodly*) daioni, daionusrwydd; rhad, rhadforedd.
Goodman, *s.* (*good* a *man*) gwr da, gwrda; gwr ty, gwr y ty, penteulu; gwr.
Good-manners, *s. pl.* moesau da, moesau; hyfoesedd, moesgarwch, moesogrwydd, moddusrwydd, moddgarwch, moeswychder, moeswychedd, gwiwfoesedd, dygiadusrwydd, boneddigrwydd, mwynfoes, ceinfoes, harddfoes, munudrwydd; medrusrwydd.
Good-morning, } *s.* bore da; bore da i chwi;
Good-morrow, } bore da iwch.
Good-nature, *s.* natur dda; hynawsedd, hynawseder, rhadlonedd.
To trespass upon one's good nature—gwasgu ar hynawsedd un; gwasgu ar natur dda un; gwasgu ar amynedd un.
Good-natured, *a.* da ei natur; hynaws, tirion.
Good-naturedly, *ad.* mewn natur dda; yn hynaws; gyda hynawsedd, mewn hwyl dda.
Goodness, *s.* (o *good*) daioni, daionusrwydd, daionedd; madedd, madogrwydd, addwynder, addwyndra; rhinwedd; trugaredd, trugarogrwydd, tosturi; hynawsedd, hynawseder, mwynder; caredigrwydd; llarieidd-dra, addfwynder.
Good-now, *in.* da chwi! da dydi! da di! da i chwi; tynged dda i chwi; adolwg, adolwyn.
Goods, *s. pl.* (o *good*) da, daoedd; dodrefn; nwyddau; moddion; golud; cyfoeth, da byd; alaf, eiddo; pethau; yr hyn sy gàn un.
Household goods—dodrefn ty, dodrefn, dofod.
Moveable goods—da cyffro, dá symmudol, da cyfodedyn, daoedd symmudadwy, da cyffröedig, da cychwynol, da symmudadwy.
Immoveable goods—da anghyffro, da digyffro, da ansymmudol, da anghyfodedyn, da anghyffröedig, da anghychwyn.
Divisible goods—da gwahanadwy, da gwahanedig.
Indivisible goods—da diwahan, da diwahanedig, da anwahanadwy.

Live goods, } da bywiol, da byw.
Living goods, }
Inanimate goods—da marwol, da marw.
Goods and chattels—da ac elyf; daoedd a moddion.
Goods (in commerce)—nwyddau.

Goodship,† *s.* daioni, llad, mwynas, rhad.

Goody, *s.* (*goodwife!*) gwreigdda, gwreigan.

Goodyship, *s.* (o *goody*) gwreigddäeth, llywfachau, gwreiganiaeth.

Googings, } *s. pl.* llywgryfasau, llywddalion
Goodgeons, } =math o fachau i ddàl llyw
Goodings, } llong.

Goom, *s.* (S. a Goth. *guma*) gwr, mab; un newydd briodi: arferedig mewn cyfansoddiad, megys yn *bridegoom*, yn awr *bridegroom*.

Goomty, *a.* ystumiog, dolenog, troawl, troawg, llawn ymdro: arferedig yn yr India Ddwyreiniol.

Gooroo, *s.* arweinydd ysbrydol Hindwaidd.

Goosander, *s.* hwyad ddanneddog.

Goose, *pl.* Geese, *s.* (S. *gos;* D. *gaas;* Sw. *gäs*) gŵydd, llwdn gŵydd; haiarn gwniedydd, haiarn teiliwr, gŵydd dilledydd, llyfnyr, lleddyr.
Mother-goose—mamwydd, gŵydd orllyd.
Brood-goose—gŵydd orllyd, mamwydd.
Green goose—glaswydd, gŵydd ieuanc.
Green geese — gwyddau gleision, glaswyddau.
Grey goose—gŵydd lwyd.
Wild goose—gŵydd wyllt, elcysen: *pl.* elcys, gwyddau gwylltion.
White-fronted wild goose—gŵydd wyllt; gŵydd wyllt fronwen.
Tame goose—gŵydd ddof, gŵydd wâr.
Brent goose—gwyrain feuyw, gŵydd wendorch, gŵydd dorchwen.
Stubble goose—sofiwydd, gŵydd sofi.
Solan goose—gans, gwylanwydd, hucanwydd, yr ŵydd lygadlem.
A flock of geese—haid o wyddau, deadell o wyddau.
He cannot say *bo* to a goose—nid oes ynddo nac enaid nac ysbryd.
To cry like a goose—lleisio fel gŵydd; clegyr, clegar, clegr, gregar.
Every man thinks his own geese swans—goreu, gwell, teg, *neu* decach gàn bob un ei ledfegyn ei hun; gwŷn y gwel y frân ei chyw.

Gooseberry, *s.* (llygriad o *crossberry, grossberry*, neu *gorseberry*, oddi wrth ei erwinder: Al. *kräuselbeere*) grwysen, eirinen Mair, eirinen gair, eirinen perth eurddrain, gwyfonen; grwyswydden, eurberth, perth eurddrain: *pl.* grwys, eirin Mair, gwyfon, eirin perth eurddrain.
Rough gooseberries — gwyfon barfog, grwys; grwyswydd.
Smooth gooseberries—gwyfon, eirin Mair; gwyfonwydd.
Gooseberry trees — grwyswydd, gwyfonwydd, eurberth, perth eurddrain.
Gooseberry fool—grwysfwyd, grwysfysgedd, grwysfysg.

Goosecap, *s.* (*goose* a *cap*) ffwlcyn, hurthgen, penbwl, cuall, cadafael, gŵydd o ddyn, llob, penllorcan, brebwl.

Goose-corn, *s.* troellgoryn.

Goosefoot, *s.* troed yr ŵydd, gwydd-droed.
Mercury goosefoot, } sawdl y crydd, llys-
Perennial goosefoot, } iau y gwr da, llysiau y meudwy, llysiau meudwy.
Stinking goosefoot — trwynsor, llygwyn drewllyd, mamog ddrewllyd, rhogai, rhoglus.
Red goosefoot — gwydd-droed rhuddog, troed yr ŵydd rhuddog.
White goosefoot—gwydd-droed gwynaidd, gwydd-droed gwŷn, troed yr ŵydd gwŷn.
Sea goosefoot—gwydd-droed arfor, troed yr ŵydd arfor.
Sharp entire-leaved goosefoot—gwydd-droed â deilen gyfan flaenfain.

Goosegrass, *s.* cynghafan, gwlydd y perthi, gwlyddyn garw, llysiau yr hidl.
Great goosegrass — cynghafan mwyaf, cynghafan gorweddol.

Gooseherd, *s.* bugail gwyddau.

Gooseneck, *s.* (*goose* a *neck*) ceg gŵydd, gwydd-fwnwg, gwydd-fwnwgl; bach ar lun gwddf gŵydd.

Goosequill, *s.* plufen gŵydd, pluen gŵydd, asgell gŵydd, bon asgell gŵydd; ysgrifell o blufen gŵydd, plubin gŵydd.

Goosery, *s.* (o *goose*) cut gwyddau, ffronc gwyddau; cut i besgu gwyddau; ffronc i borthi gwyddau.

Goosetongue, *s.* dystrewlys, ystrewlys, tafod yr ŵydd.

Goosewing, *s.* gwyddaden, gwyddadain, adain gŵydd=math o hwyl.

Gopher, *s.* (Ff. *gaufres*) milyn o ddeutu cymmaint a gwiwer.

Gopher, *s.* (H.) Gopher, coed Gopher.

Goppish,† *a.* balch, uchel, anfoddog.

Gorbellied, *a.* (C. *gòr*, a *belly*) cestog, boliog, cestfawr, bolfawr, rhythfoliog, gorfoliog, bolrwth, boldyn, boldwn, torstain, potenog, torllaes, torog.
A gorbellied one—torogyn, un cestog: *f.* toroges, un gestog.

Gorbelly,† *s.* cest, tor, poten, gorfol, rhythfol, rhemmwth.

Gorce,† *s.* (Norm. *gors*) pysgodlyn, cored.

Gorcock, *s.* cochiad, ceiliog coch y grug, coch y grug, ceiliog coch y mynydd, grug-geiliog, ceiliog y grug.

Gorcrow, *s.* breuan.

Gord, *s.* offeryn hapchwareu.

Gordian, *a.* (o *Gordius*, brenin Phrygia) dyrys, astrus, annattodol, annattod, anhyddattod, diddattod, annattodadwy, anhawdd ei ddattod.
Gordian knot—clwm annattod, cwlwm annattodol, dyrysglwm; anhawsder annattodadwy.
To cut the Gordian knot—tori y dyrysglwm; tori y clwm annattod; tori y cwlwm diddattod.

Gore, *s.* (S. *gor, gore;* C. *gôr;* Gw. *cear*) gwyar, gwaed, crau, gôr; ceulwaed, gorwaed, crawnwaed, gwaed o friw; baw, tom, llaid.

Gore, *s.* (Isl. *geir;* Ysg. *gore, gair*) cwysed; llain; lleinddarn; llain drichornel; llain ar lun gaing.

Gore, *v. a.* (C. *gyru*, yn ol *Webster*) cornio; gwanu, brathu, *neu* rwygo â chyrn; cyrchu; hwylio, topi; gwanu, brathu, pwynio; gwaenadu.

Gorge, *s.* (Ff.; It. *gorga, gorgia;* Ysp. *gorja* ceg, llwnc, llwng, llyncfa, breuant, corn

gwddf, corn breuant, corn pori, sefnig, ceudod y gwddf, llawg; crombil, cromil, cropa; goslef; cegrigol, cegaddurn; y peth à lyncir.
The gorge of a capital — llawg heiliog, llawg penclwm, ceg penclwm.

Gorge, *v.* llyncu, traflyncu, gwancio, llawcio, cegu, glythu, glythinebu, bolrythu; llenwi hyd y geg; gorllenwi, gorlenwi, trallenwi, dyslyncu, cestu, bolio, trafolio; ymlythu, ymddyfolio, ymddyfoli; ymlenwi hyd at ormodd; ymborthi, ymbesgu.

Gorged, *a.* cegog, llyncfaog, sefnigog; â chanddo geg *neu* freuant; gorllawn; wedi ei orlenwi, &c.; â choron o amgylch ei wddf.

Melic-grass—meligwellt, melicwellt.
Wood melic-grass—meligwellt y goedwig.
Purple melic-grass—meligwellt rhuddlas.
Millet-grass—miledwellt.
Moor-grass—corswellt.
Blue moor-grass—corswellt rhuddlas.
Oat-grass—ceirchwellt.
Downy oat-grass — ceirchwellt manbluaidd.
Narrow-leaved oat-grass—ceirchwellt culddail.
Yellow oat-grass—ceirchwellt melynaidd.
Panic-grass—cibog.
Quaking-grass—crydwellt, eigryn, gwenith ysgyfarnog.
Reed-grass—corswellt, cyrswellt, corsenwellt, corsen, cawn, cawnwellt.
Canary reed-grass—gwyran, corswellt amryliw.
Rye-grass, Ray-grass, } rhygwellt, efr parhäus, efryn parhäus.
Soft-grass—maswellt.
Meadow soft-grass—maswellt sypwraidd.
Creeping soft-grass—maswellt rhedegog.
Oat-like soft-grass—maeswellt ceirchaidd.
Vernal-grass—melynwellt, perwellt, melynwellt y gwanwyn.
Sweet-scented vernal-grass—melynwellt perarogl, melynwellt perarogl y gwanwyn, perwellt y gwanwyn.
Wheat-grass—gwenithwellt.
Creeping wheat-grass, Couch-grass, } gwenithwellt ymdaenol, gwenithwellt ymdaen, glaswellt y cwn, gwenithwellt rhedegog, llygad y ci, triagl y cwn.
Sea rushy wheat-grass—gwenithwellt brwynaidd y morlan.
Fibrous wheat-grass, Bearded wheat-grass, } gwenithwellt sypwraidd coliog, gwenithwellt coliog.
Dwarf sea wheat-grass—corwenithwellt y morfin.
Grass-wrack—gwellt y gamlas, glasnoden, glasnoden y môr, ysnoden laswerdd y môr.
Grass of Parnassus—brial.
Viviparous grasses — bragwair, glaswellt bywhiliog.
Latter-grass—adladd, adwellt, attwf, aethwellt, adwair.
Blade of grass, Spire of grass, } gwelltyn, glaswelltyn, blewyn; blewyn o laswellt.
Green grass—glaswellt, gwellt glas, irwellt, porfa las.
Land very abundant in grass—tir porfelog iawn.
They eat grass together—cydborant.

Grass, *v.* glaswelltu, gwelltorio; cuddio â phorfa *neu* laswellt; magu yn laswellt; bod â glaswellt arno.

Grassation, *s.* (Ll. *grassatio*) crwydrad, amwibiad, gwibiad, gwibiawd, crwydr.

Grass-blade, *s.* gwelltyn, glaswelltyn, blewyn; blewyn o laswellt.

Grassgreen, *a.* gwelltwyrdd, gwelltlas, gwyrdd gàn wellt; duwyrdd.

Grass-green, *a.* gorchuddiedig gàn laswellt; wedi codi o wellt ar hyd-ddo; llawn glaswellt.

Grasshopper, *s.* (*grass* a *hop*) ceiliog rhedyn, hegab, neitiwr y gwair.

Grassiness, *s.* (o *grassy*) gwelltogrwydd, glaswelltogrwydd, porfaogrwydd, porfelogrwydd, gwellteiddrwydd; llawnder porfa *neu* laswellt; irlasrwydd.

Grassland, *s.* porfeldir, porfadir, tir porfa, tir pori, gwyrlawd.

Grassless, *a.* diwellt, diborfa, heb laswellt.

Grassplot, *s.* llanerch las, glaslanerch, cadlas, glaslan, talwrn, glas dalwrn, gwerddon, gwyrddon, glesin, parfas.

Grasspoly, *s.* gwyarllys.

Purple grasspoly—gwaedlys mawr, llysiau y milwr.
Hyssop-leaved grasspoly—urddon.
Grass-table, *s.* porfelfwrdd; tudfwrdd, llorfwrdd.
Grassvetch, *s.* porfelbys.
Grass-week, *s.* wythnos y gweddïau.
Grasswrack, *s.* gwellt y gamlas, glasnoden, glasnoden y môr, ysnoden laswerdd y môr.
Grassy, *a.* (o *grass*) glaswelltog, gwelltog, porfaog, porfelog, glaswelltaidd, gwelltaidd, porfelaidd, fel glaswellt; irlas; gwyrdd, glas.
Grate, *s.* (It. *grata*; Ll. *crates*) rhesel; gradell, cradell, greidell, greidyll, alch; croesfarau, cledrwy, clwyd haiarn, crud haiarn.
Kitchen grate—rhesel cegin, ceginalch.
Lattice-grate—alch gledrog, alch rwyllog.
Grate, *v. a.* rheselu; croesfario, cledrwyo, cledru.
To grate up—rheselu, cledru, eisio, delltu; cau i fyny â chledrwaith, âg eiswaith, *neu* â delltwaith; cau i fyny â gwaith cledr, ais, *neu* ddelltwaith.
Grate, *v.* (Ff. *gratter*) rhathellu, rhathu, rhadellu; rhwbio, rhygnu, malu, malurio, briwsioni, *neu* friwioni ar rathell; rhincian, rhincio, rhasglio; treulio; mân rwbio; crafu, crafellu; anfoddhau, dygnu, blino, gofidio, sarhau, coddi, argoddi, cythruddo, niweidio, clwyfo, archolli, briwo; peri gloes, poen, *neu* ddolur; seinio yn ddybryd *neu* anhyfryd; ymrathu, ymrygnu.
To grate one's ears—dygnu, blino, gofidio, sarhau, clwyfo, archolli, rhathu, *neu* grafu clustiau; peri gloes i glustiau un; peri gloes yn nghlustiau un; seinio yn ddybryd *neu* anhyfryd yn nghlustiau un.
To grate the teeth — rhygnu dannedd, rhincian dannedd, rhathu dannedd.
To grate upon one another—ymrathu, ymrwbio, ymrygnu; rhathu *neu* rwbio yn nghyd; rhathu *neu* rwbio y naill yn erbyn y llall.
Grate,† *a.* (Ll. *gratus*) hyfryd.
Grateful, *a.* (Ll. *gratus*) dïolchgar, dïolchus; hyfryd, hoff, dymunol, boddus, boddlawn, boddhaol, boddlonus, cymmeradwy, wrth fodd, derbyniol, croesawus; per, peraidd, melusber, maws, melus, safwyrus, safwyrber; â chroesaw iddo; â ddïolchgar goffhao gymmwynas; à ddïolchus gydnabyddo gymmwynas; à dalo y pwyth am gymmwynas.
Gratefully, *ad.* yn ddïolchgar, &c.; wrth fodd; â chroesaw iddo.
Gratefulness, *s.* dïolchgarwch, dïolch, dïolwch, iolwch, dïolchusrwydd; hyfrydwch, hyfryddedd, boddusrwydd, dymunolrwydd, mawsder.
Grater, *s.* (o *grate*) rhisellt, rhathell, rhadell, crafell.
Gratification, *s.* (Ll. *gratificatio*) boddhad, boddiad, boddiant, rhyngad bodd, rhyngiad bodd, rhyngawd bodd, boddloniad, mawsiant; hyfrydwch, pleser, boddineb, boddlondeb, boddlonrwydd, dywenydd, llawenydd, dyddanwch, maws, mawsder, mawsedd, llawdd, ffawg; meluswedd; cydsyniad *neu* gydymagweddiad â meluschwant; digoniad *neu* foddhad gwyniau a chwantau; tâl pwyth, tâl, taledigaeth, taliad, gwobr, gobr, gobrwy: *pl.* hyfrydion.
Gratifier, *s.* boddhäwr, boddlonwr, boddlonydd; foddhao.
Gratify, *v. a.* (Ll. *gratificor*) boddhau, boddio, boddloni, rhyngu bodd, bodloni, boddlonocäu; gwneuthur cymmwynas i; rhoi ced i; rhwymo â chymmwynas; cydsynio â; difyru, lloddi, digrifo; digoni; gwobrwyo, gobrwyo, talu, talu y pwyth am, gobrwyo am.
To gratify one's request—rhoi ei arch i un; gwneuthur *neu* ganiatäu dymuniad un; rhoddi i un ei gais; cydsynio â chais un.
To gratify a passion—boddhau gwŷn, nwyd, *neu* chwant; digoni gwŷn, nwyd, *neu* chwant.
His whole study is to gratify his own corrupt inclinations—ni rydd efe mo'i fryd ar ddim amgen na boddhau ei chwantau llygredig; y mae efe yn ymroddi yn hollol i'w dueddiadau llygredig; y mae efe yn ymroddi yn hollol i ddylyn ei chwantau llygredig; ei holl feddylfryd yw boddio ei dueddau llygredig ei hun.
Gratifying, *a.* boddhaol; hyfryd, dymunol, dyddanus.
Grating, *a.* (o *grate*) rhygnol, garw, gerwin, gerwinol; llym, tost, tostlym; anhyfryd, cas, dygn, dygnol, poenus, cythruddol; à ddygno, à sarhao, à glwyfo.
Grating sound—swn à glwyfo *neu* à sarhao y glust; swn rhygnol, sain erwinol.
Grating, *s.* (o *grate*) alchwaith, eiswaith, rheselwaith, cledrwaith, alches; rheseliad, rhwylliad, cledriad; argaead âg eiswaith.
Gratingly, *ad.* yn rhygnol, yn anhyfryd, &c.
Gratis, *ad.* (Ll.) yn rhad, yn rhodd, am ddim; heb na gwobr na gwerth; yn rhwydd; yn rhwydd ddigymhell; heb haeddiant; yn hyrad, yn hael.
Gratitude, *s.* (Ll. *gratitudo*) dïolchgarwch, dïolch, dïolwch, iolwch, dïolchusrwydd; dïolchus gydnabyddiaeth, cydnabyddiaeth ddïolchus, meddwl dïolchgar, bryd dïolchgar, tymmer ddïolchgar, athrylith ddïolchgar; dïolchus dâl pwyth am gymmwynas; dïolchus gof am ged *neu* gymmwynas; parodrwydd tymmer i dalu y pwyth.
Gratuitous, *a.* (Ll. *gratuitus*) gwirfodd, gwirfoddol, o wirfodd, ewyllysgar, gwyllysgar; rhydd, rhad, hyrad; anrhegol; à wneler o ewyllys da; heb na mael na thâl; heb na mâl na thâl; heb na gwobr na gwerth; à roer yn rhad ac yn ddilog; diwobr, didal; dibrawf, heb brawf; haeredig heb brawf; à gymmerwyd yn ganiataol.
Gratuitously, *ad.* yn rhad, yn rhodd, am ddim; o wirfodd, yn wirfoddol, o ewyllys da; yn ddibrawf, heb brawf.
Gratuity, *s.* (Ff. *gratuité*) rhodd, anrheg, rhadrodd, dawn, cyflwyn, cyfarwys, rhybuched; gwobr, gobr, gobrwy; cydnabyddiaeth rhad; tâl pwyth; ewyllys da.
Gratulate, *v. a.* (Ll. *gratulor*) cydlawenhau â; cydlawenychu â, cydloni â, llon-gyfarch, cyfloddi, hawddammori, hawddammor, rhoi hawddammor, llawen-gyfarch, llwyddanerch, cyfanerch, cydgyfarch, cydgyfarchu, anerch; dymuno llawenydd; cydlawenu, cydlawenhau, dymgyfarch.
Gratulation, *s.* (Ll. *gratulatio*) cydlawenychiad, cydlawenhad, cyfloddiad, llon-gyfarchiad, llon-gyfarch, cydloniad, cydgyfarchiad, hawddammoriad, hawddammor, llwyddanerchiad, cyfanerchiad, cydgyfarch, cyf-

anerch, anerchiad, cyfarchiad, anerchedd, cydorfoledd.

Gratulatory, *a.* cydlawenychol, cydlawenol, cydlawenhaol, cyfloddol, llon-gyfarchol, hawddammorol, cydgyfarchol, cyfarchedigol, cyfarchiadol, anerchiadol, llwydd-anerchol, dymgyfarchol.

Gratulatory praise—mawl cyfarch, cyfarchfawl, anerchfawl.

Gratulatory present—rhodd gyfarch, cyfarch-ddawn, cyfarch-rodd.

Grauwacke, Graywacke, Greywacke, *s.* (Al. *grauwacke*) llwydgraig, blorgraig.

Graywacke slate—llwydgreiglech, llwydlech.

Grave, *v.* (Ff. *graver;* S. *grafan*) cerfio, crifellu, crifio, ysgythru; crafu; glanhau gwaelod llong; claddu.

To grave a ship—glanhau gwaelod llong; crafu ymaith yr hen byg oddi ar long a'i phygaw o newydd.

Grave, *s.* (S. *greaf;* Sw. ac Is. *graf;* Al. *grab*) bedd, beddrod, claddfa; pwll claddu.

Grave-worm—breuad.

To lay in the grave—claddu, daiaru; gosod yn y bedd; rhoi yn y bedd.

He has one foot in the grave—y mae efe ar wàr ei bwll; y mae efe ar fin ei fedd; y mae un troed iddo yn y bedd.

Grave-ful—beddaid, llonaid bedd.

Grave, *a.* (Ff.; Ysp., ac It.; Ll. *gravis*) dwys, difrifol, difrif, dïofregedd, diwagedd, diwegi, difregedd, digellwair, digydgam, dichwareu, dichwerthin; pwysfawr, pwysig, dïorwag, sobr; pwyllog, pwyllig, hybwyll; isel, trwm, (*f.* trom), trymllyd, anghroch; cau; prudd, arbrudd, anhylon, trist, trymfrydig, trymgalon, wynebdrist, llwfr, trwm a thrist; tywyll, gorddu, godywyll, gwrm, twtnai, llai; addwyn, gweddaidd, gweddus, gonest, syber, sad; anghlaer.

Grave accent — acen ddisgynedig, acen drom, acan drom, tromacen, tromsain, sain drom.

Grave sound—tromsain, sain drom.

Grave discourse—ymadrodd dwys, difrif, difrifol, pwysfawr, *neu* ddoethbrudd.

Grave sentences — ymadroddion dwys, dwys ymadroddion, ymadroddion difrifol, broddegau dwysion; dïarebion.

Graveclod, *s.* tywarchen bedd, priddell bedd, daiar bedd.

Graveclothes, *s. pl.* amwisg, amdo.

Gravedigger, *s.* torwr beddau, torydd beddau, cloddiwr beddau, beddwr, bedd-gloddiwr.

Gravel, *s.* (Ff. *gravelle;* Llyd. *grevell, maen gravell*) graian, gro, grut, grud, marian, marianro, grafel, tywod bras, graenon; graianwst, tywodwst, y dywodwst, maen tostedd.

White gravel—gro gwŷn, gro gwŷnion, gwynro.

Small gravel—manro, mân ro, gro mân, graian mân.

Gravel in the reins—graianwst yr arenau, graian yn yr arenau gàn y graian; graianwst, tywodwst, maen tostedd.

Gravel-stone—graienyn, graenyn, gröyn, grutyn, graianfaen, caregyn, (*pl.* caregos), careg fechan.

Gravel-walk—rhodfa fanro, rhodfa farian, rhodfa raian, grudlwybr, marian-lwybr, llwybr manro.

Gravel-pit — grobwll, graianbwll, pwll graian, pwll gro, marianbwll, tywodbwll, grudbwll.

To clear of gravel—diraianu.

Gravel, *v. a.* graianu, marianu, tywodi, grafelu; toi â gro; toi â graian; gorchuddio â graian; gorchuddio â gro; glynu *neu* ddàl yn y tywod; dyryau, petruso, methlu, rhwystro; gosod mewn petrusder; gosod rhwystr yn *neu* ar ffordd; peri nas gwypo un pa beth a wnel; cythruddo.

To be gravelled — bod mewn cyfyng-gynghor; bod heb wybod pa beth i'w wneuthur; bod mewn petrusder *neu* ddyryswch; petruso, rhuso, ammheu; cael ei boeni gàn raian.

Gravelled (as a horse)—cloff gàn raian *neu* garegos; wedi cloffi gàn raian *neu* garegos; â'r droedwst arno; wedi cael niwed gàn raian.

Gravelled (as a ship)—gwedi taro ar fais; wedi eistedd ar fais; wedi glynu *neu* ymlynu yn y tywod; wedi taro ar y tywod.

A gravelling question — dadl orchestol, pwnc dyrys, pwnc caled, ymholiad caled, pwnc anhydrin.

Graveless, *a.* (*grave* a *less*) difedd, difeddrod, heb fedd; anghladdedig, heb ei gladdu.

Gravelly, *a.* (o *gravel*) graianog, graianllyd, graiandde, marianog, grafelog, grutiog, llawn graian, llawn gro, llawn caregos, tywodlyd, tywodog, groaidd, groawg.

Gravelly soil, Gravelly land, graiandir, grodir, mariandir, tir graianog.

Grave-looking, *a.* yn edrych yn ddifrifol; difrifwedd.

Gravely, *ad.* yn ddifrifol, yn ddifrif, o ddifrif, yn ddwys, yn ddïofregedd, yn sobr, yn syber, yn weddaidd.

Gravemaker, *s.* torwr beddau, torydd beddau, cloddiwr beddau, gwneuthurwr beddau, beddwr.

Graven, *p. p.* cerfiedig, crifelledig; wedi ei gerfio.

Graven image—delw gerfiedig, cerf-ddelw, delw gerf.

Graven as signets are graven—wedi eu naddu â naddiadau sel (*Ecs.* xxxix. 6).

I have graven thee upon the palm of my hands—ar gledr fy nwylaw y'th argreffais (*Esa.* xlix. 16).

Stone graven by art—maen o gerfiad celfyddyd (*Act.* xvii. 29).

Graveness, *s.* (o *grave*) difrifoldeb, difrifolder, difrifwch, difrifolrwydd, dwysder, dwysdra, dwysfrydedd, prudd-deb, prudd-der, prudd-ineb, anofregedd, anghellwair.

Graveolence, *s.* (Ll. *graveolens*) trymsawr, trymsawyr, trymsafwyr, drygsawr, drewsawr, drewsawyr, drewdod, drygwynt.

Graveolent, *a.* trymsawrus, drewsawrus, trymsawr, drygsawrus, drewllyd.

Grave-robber, *s.* bedd-ysbeilydd, ysbeiliwr bedd, ysbeiliwr beddau.

Grave-robbing, *s.* bedd-ysbeiliad, ysbeiliad bedd, ysbeiliad beddau.

Graver, *s.* (o *grave*) cerfiwr, cerfiedydd, crifiedydd, crifellwr, crifellydd, crifiwr, ysgythrydd, ysgythrwr; crifell, cerfyllyr, graffol, grafol.

Gravestone, *s.* careg bedd, beddfaen, beddlech, maen bedd, llechfaen bedd, llech bedd.
Graveyard, *s.* beddlan, beddle, claddlan, claddfa, claddle, mynwent, monwent, corfflan, corddlan.
Gravid, *a.* (Ll. *gravidus*) beichiog, tromfeichiog, trom, coledig, braisg; torog.
Gravidated,† *a.* (Ll. *gravidatus*) beichiog, braisg.
Gravidation, } *s.* beichiogrwydd, beichiogi,
Gravidity, } beichiogiad, coledigrwydd, breisgedd.
Gravigrades, *s.* (Ll. *gravis* a *gradus*) trymysgogiaid, trymsymmudiaid, trymgerddediaid.
Gravimeter, *s.* (Ll. *gravitas*, a Gr. *metron*) clyfesur, clyfeidyr, dysgyrchiadyr.
Graving, *s.* (o *grave*) cerfiad, crifelliad; cerfwaith, crifwaith, cerfiadwaith; argraffiad.
Graving-dock, *s.* llongarth gyweirio, llongarth daclu.
Gravitate, *v. n.* (Ff. *graviter;* o'r Ll. *gravitas*) dysgyrchu, dymgyrchu, creiddio, creiddgyrchu; pwyso, tueddu, *neu* dynu tua'r canolbwynt; pwyso, gobwyso.
Gravitation, *s.* (o *gravitate*) dysgyrchiad, dysgyrchiant, dymgyrchiad, dymgyrchiant, dymgyrch, creiddgyrchiad, creiddiad, cly; pwysiad, tyniad, *neu* dueddiad tua'r canolbwynt; gobwysiad, pwysiad, gogwyddiad pwysau.
Terrestrial gravitation—dysgyrchiad daiarol.
Attraction of gravitation—attyniad dysgyrchol, attyniad dymgyrchol, attyniad dysgyrchiant, dysgyrchiad, dymgyrch, atgreiddiad.
Attraction and gravitation — attyniad a dysgyrchiad.
Gravity, *s.* (Ll. *gravitas;* Ff. *gravité*) pwys, pwysineb, pwysi, trymbwys, trymder, gobwys; dysgyrchedd, dymgyrch, dymgyrchiad, dymgyrchiant, dysgyrchiad, dysgyrchiant, llawryd, llawrydedd, creiddgyrch, creiddiad, gwysg, cly; difrifoldeb, difrifolder, difrifwch, dwysder, sobrwydd, pwylledd, hybwylledd, pwyllogrwydd, dwysfrydedd, dysbwylledd, prudd-der, pruddni, tristwch, tristyd; gweddeidd-dra, gweddusrwydd, syberwedd, anfaswedd; isder sain.
Centre of gravity — craidd dysgyrchiad, craidd dysgyrchiant, craidd dymgyrch, canolbwynt dysgyrchiad, canolbwnc pwysineb.
Specific gravity — priodbwys, pwysineb penodol, trymbwys penodol, dymgyrch penodol, llawryd priodol, llawrydiaeth.
Absolute gravity—pwysineb, pwys, pwysi, *neu* drymder annibynol; trymbwys arbenig, pwysineb arbenig.
Gravy, *s.* sew, ciglyn, cignodd; sudd, sug, nodd, llŷn, *neu* irder cigfwyd.
Gray, } *a.* (S. *grig, græg;* Al. *grau*) llwyd,
Grey, } blawr; llwydwyn, blawrwyn, blorwyn, llwydlas; glas; broc; gwŷn, goleu; tywyll, twtnai, gwrm, gwrmwn; lludliw; hen, addfed.
Gray colour—lliw llwyd, llwydliw, llwyd, blawr, blawrwyn, llwydlas.
Of a gray colour—llwydliw, llwyd; llai, lleian; rhwng du a gwŷn.
Dapple gray—glas ceiniogog, glas mànog, brithlas, glas gwynfànog, glas ysmotiog, ysmotlas.
Dark gray — dulwyd, llwyd-ddu, gwrm (*f.* gorm), gwrmwn; tywyllddu.
White gray—blawrwyn, llwydwyn, gwynlwyd.
Light gray—llwydwyn, gwynlwyd, goleulwyd.
Iron gray—blawr, haiarnddu, mysglwyd.
Blackish gray—dulas, erchlas, llwyd-ddu.
Bluish gray—glaslwyd, glasflawr, llwydlas.
Raven gray—dulas, erchlas, llwyd-ddu.
Variegated gray—brithlwyd, brithlas.
Brownish gray—llwydlas.
Somewhat gray—lledllwyd, golwyd, llwydaidd, golwydaidd, lledlwydaidd.
Gray mare—caseg las; caseg lwyd.
Gray horse—ceffyl glas; march glas; ceffyl broc, llwydfarch.
Dark gray horse — march llai, march gwrm, march dulwyd, ceffyl llwyd-ddu.
Gray frost—glasrew, rhew glas.
To grow gray—llwydo, blawrio, blorio; myned yn llwyd.
Gray hairs—gwallt llwyd, llwydwallt; penllwydni, penllwydi, penllwydedd; penwyni, penwynedd, penwynder.
To gray hairs—hyd yn llwyd; hyd benllwydni; hyd benwyni.
Having a gray beard—barfiwyd; barflas.
Gray eyes—llygaid llwydlas, llygaid llwydleision; llygaid dulas; llygaid llwydion, llygaid gleision.
Of a faded gray — llwydlos, gwywlwyd, gwywlas, edwinlwyd.
Gray hen—grugiar, iar fynydd.
Gray owl—llwydenid, y ddylluan lwyd.
Grays—llwydleision, glasfarchogion, glasfarchwys.
Scotch grays—Llwydleision Ysgotig, Llwydlasiaid Albanaidd, Llwydleision yr Alban.
Gray Friars—Brodyr Llwydion, Lleiogion, Monachod Llwydion; Brodyr o urdd Sant Ffransis.
Gray mill, } maenhad meddygol, grawn
Gray millet, } yr haul.
Gray, *s.* llwyd, blawr, llwydliw, lliw llwyd, caened.
The gray of the morning—glaswawr, glasddydd, glasiad y dydd, glasiad y wawr, clais y dydd, dychlais y dydd, toriad y dydd, llug y dydd, rhaciad y wawr.
Gray, *s.* pryf llwyd, pryf penfrith, broch, gwilfrai, byrhwch, daiarfochyn.
Gray-beard, *s.* barfiwyd, llwyd ei farf; fy ewythr â'r farf lwyd; henwr, hen wr, henddyn; costrel gwirod.
Gray-eyed, *a.* llygadlwyd; llygadfrith; llygadlas.
Gray-fly, *s.* llwyd-gleren, llwyd-gylionen, llwydwiban.
Gray-haired, *a.* briglwyd, penllwyd; â gwallt llwyd iddo; llwyd ei wallt; llwyd ei ben; penlas; penfrith; gwallt-frith; penwyn.
Gray-headed, *a.* penllwyd; briglwyd; penlas, penfrith; llwyd ei ben; penwyn.
To grow gray-headed—penllwydo, briglwydo, penlasu, penfritho, llwydo; myned yn benllwyd; myned yn llwyd ei ben; penwynu.
Gray-headed duck—hwyad benllwyd.
Gray-hound, *s.* = *Greyhound.*

Grayish, *a.* lledlwyd, golwyd, llwydaidd, tràn llwyd, llwydog.
Grayish black—llwyd-ddu, gwineuddu.
Grayish blue—llwydlas, blawrlas, blorlas.
Grayish tinge—golwyd, lledlwyd, gwawr lwyd, gwawr las.

Grayling, *s.* (o *gray*) penllwyd, penllwydiad, glasan, glasgangen, teimbysg: *dim.* glasanen.

Grayness, *s.* llwydni, llwydedd; llwydlesni, llwydlasedd; penllwydni, penllwydi.

Graywacke, Greywacke, Grauwacke, *s.* (Al. *grauwacke*) llwydgraig, blorgraig.
Graywacke slate — llwydgreiglech, llwydlech.

Graze, *v.* (S. *grasian;* Al. *grasen*) pori, porfâu, porfelu, ymbawr, ymbori; trin *neu* feithrin anifeiliaid; sernial, gogyffwrdd, gogyhwrdd, gografu; rhathu, crafu, crafellu, rhwbio, *neu* ysgythru wrth fyned heibio; braidd gyffwrdd, ysgafn gyffwrdd; rhwbio, rhathu.
To graze cattle—porfâu anifeiliaid, porfelu da.

Grazer, *s.* porwr, porydd, ymborwr, ymborydd; à ymbortho ar borfa *neu* laswellt.

Grazier, *s.* porfâwr, porfelwr, porfelydd; porthwr, trinwr, *neu* feithrinwr anifeiliaid; ysborthiad, pasgadur, pesgadur.

Grazing, *s.* porfa, porfel, porfâad; porfelaeth, porfeliad.
They apply themselves more to grazing than husbandry—ymroddant yn fwy i drin anifeiliaid nag i amaethyddiaeth; ymroddant yn fwy i ymbawr anifeiliaid nag i hwsmonaeth.

Grazioso, *a.* (It.) teleidwych, tlysgain, tlysgoeth.

Grease, *s.* (Ff. *graisse;* Ysp. *grasa*) saim, iraid; brasder; bloneg, mehin; seimwst, sodlwst.

Grease, *v. a.* seimio, ireidio; iro, blonegu; hudobrwyo, celobrwyo.
To grease the fist—iro cil dwrn; iro llaw; llygru drwy wobr; llygru â gwobr; rhoi ariandag ar; poeri yn ngeneu un.

Greasiness, *s.* seimlydrwydd, seimiogrwydd, ireidlydrwydd; brasder, tewedd; oleweiddrwydd.

Greasy, *a.* seimlyd, ireidlyd, seimiog, seimiol, mehinllyd, llawn saim; olewaidd; fel saim, fel olew; tew, brasderog, blonaidd, bras; llyfn, llithrig; corffog, cnodig; anweddaidd, anweddus, brwnt, aflednais.

Great, *a.* (S.) mawr; mawreddog, mawreddus, mawryddig, mawrydig, mawrwych, gwych; braisg, praff, helaeth, ehelaeth, helaethfawr, eang, eng; arbenig, prif, penaf, pen, cyfaddef, parod; ardderchog, godidog, rhagorol, tanbaid, angerddol, croch; syberw, uchelfrydig, uchelfryd, balch, uchel, goruchel, dyrchafedig, mawrfrydig; anhawdd, caled, trwm, gorthrwm, blin; pwysig, pwysfawr, dwys; maith, hir, pell, hirfaith; beichiog, torog; cyfrinachol, mynwesol; cyfoethog; helaethwych; llawer; hen.
Greater—mwy, mwyach; penach; mwyaf; mwy mawreddog, &c.; helaethach, lluosocach, amlach; ardderchocach, &c.
Greater and greater—mwyfwy, fwyfwy, yn fwy fwy, yn fwy fwy.
Greatest — mwyaf, penaf; mwyaf mawreddog, &c.; ardderchocaf, uchaf, goruchaf.
Great ones — mawrion, gwŷr mawrion, gwŷr mawr, rhai mawr; uchelwyr.
Great men—gwŷr mawrion, gwŷr mawr, uchelwyr.
Great in number—lluosog, lluaws, aml, llawer.
Very great — dirfawr, mawr iawn, tra mawr, tramawr, gorfawr, erfawr, enfawr, abrwysgl, amrosgo, amrosgoew, mawr byd, amryffleu, mawr anianol, mawr dros ben.
Pretty great, Somewhat great, lled fawr, lledfawr, go fawr, gofawr, tràn fawr, crŷn fawr, syrn fawr, pur fawr.
As great—cymmaint, mòr fawr.
As great as—cymmaint a, cymmaint ag; mòr fawr a *neu* ag.
So great—cymmaint, mòr fawr; o'r maint hwnw; o'r maint hyny.
How great—pa faint, pa gymmaint; pa mòr fawr; mòr fawr; mòr fawredig.
How great soever—pa faint bynag; pa gymmaint bynag; pa mòr fawr bynag; bynag pa mòr fawr; er maint fyddo; er maint a fyddo; er cymmaint fyddo.
Infinitely great—mawr anfeidrol, anfeidrol o faint, anfeidrol fawr.
Monstrously great—anferth o faint; mawr anferthol; anferth o fawr; anferthol fawr; mawr anafus, anafus o fawr.
Great company—tyrfa fawr, lluaws, llawer, llawer iawn.
Great many, Great number, lluaws, llawer, (*pl.* llaweroedd), llawer iawn, nifer mawr.
A great deal—llawer, twysged, swrn, amledd, amlder, helaethran, llawer iawn, nid ychydig, mwy na mwy, llawer byd, cyfran fawr.
Great cause—achos mawr, achos dwys, achos pwysfawr, achos pwysig.
Great with child—beichiog, braisg, trom.
Great with young—torog; cyfebr, cyfebol; cyfoen; cyflo.
Great anger—digofaint mawr, llid mawr, digofaint llidiog.
Great things—pethau mawrion, mawrion bethau, pethau mawr; mawredd, mawrhydri.
Great seal—sel fawr, pensel; sel lydan; sel fawr Lloegr.
Great chamberlain—penystafellydd, prifystafellydd, ystafellydd penaf.
Great grandfather — hendaid, gorhendad, hendad cu, hen dad cu.
Great great grandfather—gorhendaid, tad yr hendaid, tad yr hendad cu.
Great grandson—gorwyr.
Great great grandson—goresgynydd.
Great thief—lleidr mawr, pen lleidr, carn lleidr, lleidr cyfaddef, lleidr parod.
The great toe—bawd troed.
A great way—ffordd faith, bell, hir, *neu* hirfaith; ffordd fawr; cetyn o ffordd.
A great way off—yn mhell o ffordd oddi wrth; encyd o ffordd oddi wrth; yn mhell, yn bell; draw; yn mhell oddi wrth; yn mhell o ffordd; encyd o ffordd; crŷn getyn o ffordd; cetyn o ffordd.
A great while—ennyd o amser; encyd o amser; ennyd, talm; crŷn dalm; yn hir; dros hir amser; hir amser.

A great while ago—er ys talm; er ys talm o amser; er ys dyddiau; ers dyddiau; er ys dyddiau yn ol; er ys dyddiau bellach; er ys crŷn dalm; er ys hirfyd o amser; er ys cetyn mawr; er ys crŷn getyn; er ys cetyn.

Great age—oedran mawr, oed mawr, mawr oed, mawr-oed, hir hoedl, hirhoedl.

Of great age—oedranus, hiroesog, hirhoedlog, hiroediog, oesog, oesbraff; oedranus iawn.

Of great price, } gwerthfawr, prisfawr,
Of great value, } uchelbris, drudfawr, mawrwerth, mawrwerthiog.

To make great—gwneuthur yn fawr; gwneyd yn fawr; mawrhau, mawrygu; dyrchafu i anrhydedd.

To become great, } myned yn fawr; tyfu
To grow great, } yn fawr; ymfawrhau; cynnyddu.

A great scholar—ysgolor mawr, ysgoläig mawr.

A great kingdom—teyrnas fawr, breniniaeth helaeth, teyrnas helaethfawr.

Great benefit—mawrlles, lles mawr.

Of great benefit—llesfawr, buddfawr, tra llesol.

Great rain—gwlaw mawr, gwlawogydd.

How great things—pa bethau eu maint.

Great lion—llew mawr; hen lew.

Great vexations—blinderau mawrion; blinder lawer.

Of great understanding—mawr ei synwyr; llawn o synwyr; mawr ei ddeall; synwyrbell, synwyrgall.

Great teeth—cilddannedd, cilddaint.

Great auk—carfyl mawr.

A great swelling—chwydd mawr, gorchwydd.

A man of great valour—gwr grymus nerthol; gwr cadarn nerthol; gwr dewrwych, dyn gwrolwych, gwr cadarn-gryf, gwr calon-ddewr, gwr dewr-galon.

A person of great abilities—gwr mawr ei ddoniau; dyn mawr ei alluoedd; gwr doniog, dyn doniog, gwr mawrddawn.

The greater light—y goleuad mwyaf.

In a greater degree—yn rhagor, yn fwy, yn chwaneg.

To grow greater, } myned yn fwy; mwyhau; cynnyddu.
To wax greater, }

In a great measure—i raddau helaeth; i fesur helaeth; i raddau mawr; i fesur mawr; i radd fawr; mewn gradd fawr; i grŷn raddau; i grŷn fesur; mewn mesur mawr; mewn mesur helaeth; yn fawr; llawer.

There is not a greater argument of folly—nid oes penaeh *neu* sicrach arwydd o ffolineb; nid oes arwydd penaeh *neu* sicrach o ffolineb; nid oes arwydd penaeh *neu* sicrach o ynfydrwydd.

A business of the greatest consequence—neges o'r canlyniad eithaf; gorchwyl o'r pwys mwyaf.

What greater affection can any one shew?—pa ragor o serch a ddichon neb rhyw un ddangos?

He told me a great many things—adroddodd wrthyf *neu* imi laweroedd o bethau.

You have done a great act—gwnaethoch orchest.

There is not a greater thief alive *or* existing—nid oes penach lleidr yn cerdded; ni cherddodd erioed benach lleidr; y mae efe cyn bened lleidr ag a gerddodd erioed; efe yw y lleidr penaf yn fyw; nid oes penach lleidr yn fyw.

As great a persecutor as any living—cyn bened erlidiwr ag a aned; yr erlidiwr penaf yn fyw.

From the least to the greatest—o'r lleiaf hyd y mwyaf; o fychan hyd fawr.

Great cry and little wool—dadleu mawr mynych, ac engu ar lygoden.

What great matter were it?—pa faint o beth a fyddai?

It would be no great matter—ni fyddai nemawr o beth; ni fyddai ef nemawr o beth.

Let the power of the Lord be great—mawrhäer nerth yr Arglwydd.

At great variance—yn ymryson yn dost.

I am in a great strait—y mae yn gyfyng iawn arnaf; yr wyf mewn cyfyngder mawr.

I make no great matter of these things—nid yw y pethau hyn ond bychan yn fy ngolwg; bychan yw'm gofal am y pethau hyn; nid wyf yn prisio nemawr am y pethau hyn.

Though they be ever so great, } pa faint
Be they ever so great, } bynag fyddont; pa gymmaint bynag fyddont; pa faint bynag a fyddont; er maint a fyddont; er cymmaint a fyddont; er maint y byddont; byddent cymmaint ag y bônt; byddent cymmaint ag y byddont.

The small as well as the great—y bychan yn gystal a'r mawr; y lleiaf yn gystal a'r mwyaf.

Alexander the Great—Alecsander Fawr; Alecsander y Mawr.

Great is our God above all gods—mwy yw ein Duw ni na'r holl dduwiau; mawr yw ein Duw ni goruwch yr holl dduwiau.

With his great power—â helaethrwydd ei gadernid; â'i fawr allu; â'i gadarn allu.

A great waster—un treulfawr, un treulgar; gwastraffwr mawr; afradwr mawr.

Consider what a great thing he hath done for you—ystyriwch faint a wnaeth efe eroch.

Consider how great things he hath done for you—gwelwch faint a wnaeth efe eroch.

His great goodness—ei fawr ddaioni; amlder ei ddaioni.

The land hath committed great whoredom—y wlad gan buteinio a buteiniodd; gàn buteinio y puteiniodd y wlad.

For their wickedness is great—am amlhau eu drygioni hwynt (*Joel* iii. 13).

So great is his mercy—y rhagorodd ei drugaredd (*Salm* ciii. 11).

In keeping of them there is great reward—o'u cadw y mae gwobr lawer (*Salm* xix. 11).

There were they in great fear—yna y dychrynasant gàn ofn (*Salm* xiv. 5).

As great as would contain two measures of seed—o gylch lle dau fesur o had (1 *Bren.* xviii. 32).

Great, *s.* y cyfan, y crynswth, y crynswdd, y talp, y clamp, swmp, cyfanbeth; mawrion, y mawr, gwŷr mawrion, uchelwyr.
By the great—yn y crynswth; wrth y crynswth; wrth y swmp; wrth y cyfan.
Great-bellied, *a.* boliog, cestog, bolfawr, rhythfoliog; torog; beichiog, tromfeichiog, trom, braisg, crothog.
Great-coat, *s.* côb uchaf, côb fawr, hugan fawr, gorbais, argoban, uchgoban, uchbais, argob, trosgob, côb, hugan.
Great-coated, *a.* argobog, uchgobog, trosgobog; yn gwisgo côb fawr.
Greaten,† *v. a.* mawrhau, helaethu.
Great-hearted, *a.* mawr-galon, mawr ei galon; mawrfrydig, mawrfrydus; uchel ei ysbryd.
Greatly, *ad.* mawr; yn fawr, &c.; yn ddirfawr; yn wych, yn wrolwych, yn fawrydig, &c.; iawn, tra.
How greatly—mòr fawr, mòr ddirfawr, faint, gymmaint, pa gymmaint, cymmaint.
Very greatly—yn ddirfawr, yn fawr iawn, yn dra mawr, yn orfawr, yn erfawr.
So greatly—mòr fawr, mòr ddirfawr, &c.
He pressed upon them greatly—bu daer iawn arnynt.
Greatly to be praised—tra moliannus, tra chanmoladwy, canmoladwy iawn; i'w fawr ganmawl.
We are greatly confounded—ni a lwyr waradwyddwyd; gwaradwyddwyd ni yn ddirfawr. [ofnadwy iawn.
God is greatly to be feared—Duw sydd
I will greatly multiply thy sorrow—gàn amlhau yr amlhafdy boenau.
Neither shall he greatly multiply to himself silver and gold—ac nac amlhäed arian ac aur lawer iddo.
How greatly I long after you all—mòr hiraethus wyf am danoch oll.
Greatly gifted — mawrddawn; mawr ei ddawn; mawr ei ddoniau.
Greatness, *s.* mawredd, mawrder, mawrdra, mawryd, mawrhydi; maint, maintioli, meintioli, maintiolaeth; helaethrwydd, helaethder, eangrwydd; lluosogrwydd, amlder, amledd, lluaws; gwychder, mawrwychder, mawreddogrwydd, mawreddusrwydd, rhwysg; mawrfryd, mawrwriaeth; bri, gallu, rhwysg; uchelfrydedd; dwysder.
Greatness of spirit, } mawrfrydigrwydd,
Greatness of mind, } mawrfrydedd, mawrfryd, mawrwriaeth, mawredigrwydd, mawrwri; mawredd bryd a meddwl; uchder meddwl; uchder ysbryd.
Excessive greatness—tra mawredd, tramawredd, rhyfawredd, dirfawredd.
According to the greatness of thy mercy—yn ol mawredd dy drugaredd; yn ol dy fawr drugaredd.
Greaves, *s. pl.* (Port. ac Ysp. *grevas;* Ff. *greve*) coesarfau, coesarnau, coeswisg, curanau, crimogau, botasau.
Greaves of brass—botasau pres.
Grebe, *s.* gwyach; Wil y wawch.
Great crested grebe, } gwyach gorniog;
Horned grebe, } tindroed.
Lesser crested grebe, } gwyach glustiog.
Eared grebe, }
White grebe, } gwyach leiaf.
Dusky grebe, }
Little grebe—Harri gwlych dy big; gwyach fach.
Tippet grebe—gwyach dorynog.
Grecian, *a.* (Gr. *Graicos;* Ll. *Græcus*) Groegaidd, Groegol; perthynol i wlad Groeg; yn perthyn i dir Groeg; yn perthyn i Groeg.
A Grecian woman—Groeges, Groegyddes.
Grecian, *s.* Groegwr, Groegydd, Groegiad; un cyfarwydd yn yr iaith Roeg: *pl.* Groegiaid.
A good Grecian, } Grogyddhyfedr, Groeg-
An able Grecian, } ydd da, un cyfarwydd yn yr iaith Roeg.
Grecize, *v. a.* Groegeiddio, Groegio, Gryweiddio; troi i'r Groeg; cyfieithu i'r Groeg.
Grecize, } *v. n.* Groegeiddio, siarad Groeg;
Grecianize, } siarad yr iaith Roeg.
Grecism, *s.* (Ll. *Græcismus*) Groegiaeth, Gryweiaeth, priodwedd Roeg, hepwedd Ryweig; dull ymadrodd priodol i'r Groeg.
Gree, † *s.* (Ff. *gré*) gwyllys da.
Gree, † *s.* (o *degree*) gris, gradd.
Gree, † *v. n.* cytuno.
Greece, }
Grees, } *s.* (lluosog o *gree*=degree? C. *gris;*
Greeze, } Ll. *gressus*) grisiau, grisres, gris, dring.
Gryse, }
Greed,† *s.*=*Greediness.*
Greedily, *ad.* (o *greedy*) yn wancus, yn awyddus, yn unchwant.
He coveteth greedily all the day long—yn hyd y dydd y mae yn fawr ei awydd.
To eat greedily—bwyta yn llyminog; bwyta yn wancus; gwancio, llawcio, glythu, gnythu, glythinebu.
Greediness, *s.* (o *greedy*) awydd, gwanc, ainc, chwant diwala, trachwant, rhaib, gwancusrwydd, rheibusrwydd, gnwth, rhawth, llwth, bolrythni, chwantusrwydd, amig, taer awydd, bariaeth.
With greediness—yn unchwant; yn awyddus, yn wancus; yn fawr ei awydd.
Greedy, *a.* (S. *grædig;* Is. *greetig*) awyddus, trachwantus, chwantus, chwannog, trachwannog, gwancus, rheibus, bwytëig, glwth, glythig, gnythig, gnythol, rhawth, rhwth, llwth, bolrwth, cipgar, ysglyfgar, ysgipiol, cribddeilus.
Greedy of honour—chwannog i anrhydedd; awyddus am anrhydedd; trachwannog i anrhydedd; taer ei gais am anrhydedd.
Greedy of gain—chwannog i elw; trachwannog i elw; mawr ei gais am elw.
To be greedy of—chwennychu, chwennych, trachwennychu, trachwennych, awyddu, trachwantu, chwantu, sychedu am; hiraethu, awyddu am, cybyddu, rhybuchu; bod yn awyddus am.
Greedy feeding—bwyta gwancus, bwyta llyminog; glythineb, glothineb, glythni, glythigrwydd, glythedd, bwyteigrwydd, gwanc, gwancusrwydd, glythogrwydd.
Not greedy of filthy lucre—nid yn budrelwa; anchwannog i fudrelw; nad yw awyddus i fudrelwa.
As a lion that is greedy of his prey—fel llew à chwennychai ysglyfaeth.
Be not greedy of the spoil—na fyddwch awyddus i'r ysbail.
Be not too greedy upon meats—na ruthra i fwyd (*Eccles.* xxxvii. 29).
Greedygut, *s.* glwth, bolerwr, gwanciwr,

llawciwr, gewai, tryfoliwr, rhummwth, dyn glwth, dyn rhawth, bolrythwr, gloddestwr.

Greek, *s.* (Gr. *Graicos*) Groeg, Gryw, Grywaeg, yr iaith Roeg, Groegiaith; Groegiad, Groegwr.

In Greek, } yn y Groeg; yn y Roeg;
In the Greek, } yn Roeg; yn Groeg; yn Ngroeg; yn Ngryw.

To speak Greek—siarad, siared, chwedleua, *neu* lafaru Groeg; siarad *neu* lafaru yn Ngroeg.

Canst thou speak Greek?—a fedri di Roeg?

To imitate the Greeks—Groegeiddio; dynwared y Groegwyr; efelychu y Groegiaid.

A merry Greek—digrifwas, gwas digrif, cydymaith digrif; cyfeddachwr digrifnan.

Greek, *a.* Groegaidd, Groegol, Gryweig; perthynol i'r Groeg; yn perthyn i'r Gryw; perthynol i wlad Groeg.

The Greek language—yr iaith Roeg, Groeg, Gryw, Grywaeg, Groegiaith, iaith y Groegiaid.

Greek Grammar—gramadeg Groeg.

Greek letters—llythyrenau Groeg.

The Greek fashions—arferion y Groegwyr, arferion y Groegiaid, yr arferion Groegaidd.

Greekess, *s.* Groeges.

Greekish, *a.* Groegaidd, Grywaidd, lled Roegaidd; priodol i wlad Groeg.

The Greekish fashion—arferion y Groegwyr (2 Mac. iv. 10).

Greekling, *s.* Groegyn, Grywyn, ysgrifenydd Groeg, iselradd.

Greekrose, *s.* (*Greek* a *rose*) groegros, lluglys.

Green, *a.* (S. *grene*; Al. *grün*; Is. *groen*; D. a Sw. *grön*) gwyrdd, (*f.* gwerdd), gwyrddlas, glaswyrdd, (*f.* glaswerdd); glas; hoeg, ehoeg; gwyrddin, gwyrddain; irlas, irwyrdd, irlaswyrdd; ir, tirf, gwyrenig, tirflas, irain, irdwf, iraidd; newydd, ffres, ffresg, crai, cri, gwyrf, (*f.* gwerf,) gwyrain; llymrig; anaddfed, rhy newydd; ieuanc, ifanc; anmrwd, ofiyd, of, annigon; heb ferwi *neu* bobi digon; heb fod yn ddigon pob; heb fod yn ddigon berw; heb ddigoni drwyddo; heb fod yn ddigon; gwelw, gwelwaidd.

Green herbs — gwyrddlysiau, llysiau gwyrddion; llysiau gleision.

Green grass—glaswellt, gwellt glas, irwellt, porfa las.

Green trees—glasgoed, coed gleision, glaswydd, irwydd, irgoed, coed irion: *sing.* glasgoeden, glaswydden, pren glas, pren ir, pren deiliog.

Green timber—coed ir, coed irion, irgoed.

Green leaves—dail gleision, glasddail, irddail, dail irion, dail ir.

Green field—maes glas, maes gwyrdd; maes yn dwyn glaswellt.

Green grove—glaslwyn, irlwyn, glasgoed, llwyn glas, llwyn gwyrdd, glasallt, gwerddallt, llwyn ir, llwyn irlas.

Green cloth—brethyn gwyrdd.

Green wound—archoll ir, irfriw.

Green pastures—porfëydd gleision; porfëydd gwelltog.

Green colour—lliw gwyrdd, gwyrddliw, gwyrdd.

Sea green, } morlas, morwyrdd, mor-
Dusky green, } liw, gwrmlas, gwyrdd y môr.

Sea-green colour—morlas, morwyrdd, morliw, gwyrddlas, gwrmlas; lliw morlas, &c.; gwyrddlas tryloew, gwyrddliw.

Dark green—duwyrdd.

Bluish green—glaswyrdd, (*f.* glaswerdd); gwyrddlas.

Of a bluish green—glaswyrdd; gwyrddlas.

Green fir-tree—ffeinidwydden ir.

Green oak—derwen las, glas dderwen.

Green cheese—caws newydd, caws ir, caws gwŷn.

Ever-green — bythwyrdd, gwastadwyrdd, bytholwyrdd, bythddeiliog, gwyrdd yn wastad, gwyrdd bob amser, gwyrdd drwy y flwyddyn, bythlas, bythwyrddog, bythwyrddain, glas bob amser, glas yn wastad, glas drwy y flwyddyn, beidiog; anwyw, anwywedig, anwywol.

Green chafer—chwil y bawai, chwilen y baw, chwil y bawen.

To become green, } gwyrddhau, glasu,
To wax green, } blawrio; myned yn
To grow green, } wyrdd; myned yn las; irlasu; deilio; ireiddio.

To dye green—lliwio yn wyrdd; lliwo yn wyrdd; gwyrddliwio.

Green ears of corn—twys irion, twysenau irion, twysenau ir.

Seven green withes—saith o wdyn irion.

As green as grass—cyn lased a'r geninen; cân lased a'r cenin; cyn lased a'r brwyn; môr las a'r cenin.

Rods of green poplar—gwiail gleision o boplys.

Its leaf shall be green—ei ddeilen fydd ir.

Our bed is green—ein gwely sydd iraidd.

Under every green tree—dân bob pren deiliog.

The gay bloom of the green mead—glwysbert fflur y glasbawr.

There is no green thing—nid oes gwyrddlesni.

He searcheth after every green thing—chwilia am bob glaswelltyn (*Iob* xxxix. 8).

Green, *s.* gwyrdd, lliw gwyrdd, gwyrddliw; glesin, llanerch las, glaslanerch, gwerddon, gwyrddon, parlas, talwrn, glas dalwrn, glas, glesygen, glasledd, glaslan, cadlas, glasdir, tyno; gwyrddlys.

Greens—gwyrddlysiau, llysiau gwyrddion, llysiau gleision; bresych, cawl; deilfwyd; bwydlysiau; dail gleision, glasddail; deilblethau, gwyrleni.

Bowling-green — pelgadlas, treiglesin, cnaplas, cadlas cnapan; cadlas, llanerch, *neu* dalwrn i chwareu cnapan.

Brunswick green — gwyrdd Brunswig, gwyrdd Brunswic.

Mineral green—delidwyrdd, delwyrdd.

Having a tinge of green — gwyrddaidd, gwyrddain, gwyrddin, glaswyrdd, lledwyrdd, gowyrdd.

Bluish green—glaswyrdd; gwyrddlas.

Of a bluish green—glaswyrdd; gwyrddlas.

Sea-green — morwyrdd, morlas, morliw, gwyrdd y môr.

A thousand myriads clad in green and white—mil myrdd mewn gwyrdd a gwyn.

Winter-green—coedwyrdd, gwyrdd y gauaf, glesyn y gauaf, gwyrdd y coed, gelleiglys, gellyglys.
Lesser winter-green—coedwyrdd bychan, glesyn y gauaf.
Chickweed winter-green—gwerddig.

Green, *v. a.* gwyrddu; gwneuthur yn wyrdd; gwyrddlasu, glasu.

Green-bird, *s.*=*Greenfinch.*

Greenbroom, } *s.* banadlos, eurfanadl, banadl
Greenweed, } aur, llysiau melynion, llys melyn, melynog y waen, llysiau penfelyn.
Needle greenweed—cracheithin, eithin yr iar.

Greencloth, *s.* y Werddlen; Llys y werddlen; y Llys teulu; Bwrdd y werddlen.

Green-crop, *s.* cnwd glas: *pl.* cnydau gleision.

Green-dragon, *s.* draig werdd.

Green-dye, *s.* gwyrddliw, lliw gwyrdd.

Green-earth, *s.* daiar werdd; gwyrdd y mynydd.

Greenery, *s.* gwyrddlysieufa, gwyrddfa; lle i gadw gwyrddlysiau.

Green-eyed, *a.* llygadwyrdd, (*f.* llygadwerdd); eiddig, eiddigus.
The green-eyed monster—yr anghenfil llygadwyrdd; eiddigedd.

Greenfinch, *s.* llinos werdd, y llinos werdd, llinosen werdd, pila gwyrdd, y gegid, peleu.

Greenfish, *s.* gwyrddbysg, hoegbysg.

Greengage, *s.* gwerddberen, yr eirinen werdd: *pl.* gwyrddber, eirin gwyrddion.

Green-grocer, *s.* bwydlyseuwr, bwydlysieuwr, gwyrddlysieuwr, irlyseuwr, llyswerthwr, gwerthydd irlysiau, bresychwr.

Green-grossbeak, *s.*=*Greenfinch.*

Greenhaired, *a.* gwalltwyrdd, gwyrddwallt; â chanddo wallt gwyrdd; gwyrdd ei wallt.

Greenhood, *s.* gwyrddni, gwyrdd-der, gwyrddedd; glesni; irlesni.

Greenhorn, *s.* irlanc, glaslanc; gwirionyn.

Greenhouse, *s.* gwyrdd-dy, ty y gwyrdding; gwydd-dy; ty y gwŷdd tramor bythwyrdd; llysieudy, irlasdy.

Greening, *s.* gwyrddyn, afal gwyrdd.

Greenish, *a.* gwyrddaidd, lledwyrdd, gowyrdd, glaswyrdd, gwyrddonig, gwerddonig, gwyrddin, gwyrddain.
Greenish blue—gwyrddlas; glaswyrdd.
Greenish blueness—gwyrddlesni, gwyrddlesid.
Greenish yellow—gwyrddfelyn; melynwyrdd.

Greenishness, *s.* gwyrddeiddrwydd, lledwyrddni, gowyrddni, gowyrddedd, lledwyrddedd, lledwyrdd-der, gwyrddeinrwydd, gwyrddlesni.

Green-linnet, *s.* llinos werdd, y llinos werdd, llinosen werdd, pila gwyrdd, y gegid, peleu.

Greenly, *ad.* yn wyrdd, &c.

Green-mantled, *a.* gwyrdd-fantellog, glas-fantellog; gorchuddiedig â gwyrdd.

Greenness, *s.* gwyrdd-der, gwyrddni, gwyrddedd, gwyrddrwydd; gwyrddlesni; glesni, gleswg; irlesni, irlasrwydd, irlasder, iredd, irder, irdra, irdeb, ireinder, tirfdra, iriant; anaddfedrwydd, llymrigrwydd; anmrydedd, oflydrwydd; creider; newydd-deb; yni.
Greenness (of fruit)—anaddfedrwydd, glesni.
Greenness (of meat)—anmrydedd, oflydrwydd, irder.
While it is yet in its greenness—tra byddo hi eto yn wyrddlas; tra y byddo hi eto yn ei gwyrddlesni.

Green-room, *s.* glasgell.

Greensand, *s.* tywod gwyrdd; hoegdywod, llasdywod, glasdywod; tywod Sanclin.

Greenshank, *s.* coeswerdd, y goeswerdd.

Green-sickness, *s.* y glesni, glasglwyf, glaswst.

Greensnake, *s.* glasneidr, gwerddneidr, y neidr werdd.

Green-stall, *s.* marchnadfainc gwyrddlysiau, mainc gwyrddion.

Greenstone, *s.* glasgraig, gwyrddgraig, careg werdd.

Greensward, *s.* glasdon, tònen las, tòn las, tywarchen werdd, tywarchen las, glas dudwedd, glasdònen, glesin, galaf.

Green-vitriol, *s.* copras gwyrdd, ufelid gwyrdd, gwyrdd gopras, ufelgris haiarn.

Greenweed, } *s.*=
Greenbroom, } *Greenbroom.* *Greenweed.*

Greenwood, *s.* glasgoed, glaswydd, irwydd, irgoed, coed gleision, coed irion, coed ir.
Under the greenwood shade—dàn y glaswydd, dàn laswydd, dàn y glasgoed; dàn gysgod glasgoed y glŷn.

Grees, } † *s.*=*Greece, Grees,* &c.
Greese, }

Greet, *v.* (S. *gretan;* Is. *groetan*) anerch, cyfarch, cyfarchu, cyfarch i; cyfarch gwell i; anfon anerch, danfon anerch; cyfarfod a chyfarch; cyfloddi, llon-gyfarch; erchi rhad Duw; anfon cymmediwau at; cyfarfod; † wylo.
To greet one another—anerch eu gilydd; cyfarch eu gilydd; cyfarch gwell i'w gilydd; ymanerch, cydymanerch, cydgyfarch.

Greeter, *s.* anerchwr, anerchydd, cyfarchwr, cyfarchydd, cyferchydd, cyferchydd gwell.

Greeting, *s.* anerch, cyfarch; anerchiad, cyfarchiad.
Mutual greeting—ymanerch, cydymanerch, ymgyfarch, cydymgyfarch.
To send greeting—anfon *neu* ddanfon anerch; danfon *neu* anfon anerch at; cyfarch gwell i; cyfarch, anerch; dymuno llwyddiant; dymuno llwyddiant i.
Lysius unto the people of the Jews sendeth greeting—Lysias yn anfon anerch at bobl yr Iuddewon.
Areus to Onias, greeting—Areus yn cyfarch gwell i Onïas.
Lucius unto king Ptolemee, greeting—Lucius yn anerch y brenin Ptolemëus.

Greeze, † *s*=*Greece, Grees,* &c.

Greffier, *s.* (Ff.) coflyfrwr, coflyfrydd, cofiadur, cofrestrwr.

Gregal, *a.* (Ll. *gregalis,* o *grex*) deadellawl, greawl, mynteiol; perthynol i ddeadell; o'r un ddeadell.

Gregarian, *a.* (Ll. *gregarius*) o'r ddeadell gyffredin; o'r fyntai gyffredin; perthynol i'r gyr cyffredin; cyffredin, lledwael.

Gregarious, *a.* (Ll. *gregarius*) deadellog, deadellaidd, mynteiog, greog, mynteiol, deadellawl, heidgarol, heidgar, gregarol, gregarus; yn ymgynnull yn ddeadellau, yn ddeadelloedd, yn fynteioedd, yn reon, *neu* yn lluoedd; yn caru bod yn re *neu* fyntai.
Gregarious animals—gwysfilod, anifeiliaid deadellog, milod heidgarol, anifeiliaid

gregarus, anifeiliaid gregarol : *sing.* gwyafil, gwyafilyn.
Gregariously, *ad.* yn ddeadellau, yn fynteioedd, yn yroedd, yn heidiau ; yn ddeadellog, &c.
Gregariousness, *s.* deadellogrwydd, mynteiogrwydd, heidgarwch, heidgarolrwydd, gregarusrwydd.
Greggoe, *s.* corbais, hugan fèr.
Gregorian Calendar, *s.* (oddi wrth y Pab *Gregory* XIII.) y calaniadur Gregoraidd, calaniadur Gregor, calaniadur Gregorig=y calaniadur fel ei diwygiwyd gan y Pab Gregor XIII. yn 1582.
Gregorian Epoch, *s.* y prifnod Gregoraidd, yr amsergyff Gregoraidd, yr amser Gregorig.
Gregorian Year, *s.* y flwyddyn Gregoraidd, blwyddyn Gregor=y flwyddyn fel ei diwygiwyd gàn Gregor XIII., yn cynnwys 365 o ddyddiau, 5 awr, 48 mynyd, a 47 eiliad, yn nghyd â dydd ymsang bob pedair blynedd.
Greit,† *v. n.* (Goth. *greitan*) wylo, galaru.
Greith,† *v. a.* (S. *gerædian*) parotöi.
Greith,† *s.* da, nwyddau, dodrefn.
Gremial, *a.* (Ll. *gremium, gremiale*) arffedol ; perthynol i'r arffed ; monwesol.
Grenade, } *s.* (Ff. *grenade ;* Ysp. *granada ;* It.
Granede, } *granata*) llosbelen, llosbel, llos-
Granado, } beled, tanbelen, pelen danllyd, pelen o dân gwyllt, pylorbel.
Grenadier, *s.* (o'r Ff. *grenade*) talfilwr, talsawdiwr, pedfilwr talgap ; †tanbelenydd.
Grenatiform, *a.* gronithaidd, rheiddronithaidd ; ar ddull rheiddronem.
Grenatite, *s.* (Ll. *granum*) rheiddronem, rheiddronith, gronith=math o ddelidfaen dulwydgoch.
Gres, *s.* (Ff.) grut, grud, tywodfaen.
Gressorial, *a.* (Ll. *gressus*) mynedol, cerddedluniol ; addas i gerdded.
Grewt, *s.* daiar wahanliw (ar lanau afonydd).
Grey, *a.* (S. *grig, gray ;* Al. *gras*) llwyd, blawr ; llwydwyn, blawrwyn, blorwyn ; llwydlas ; glas ; broc ; gwŷn, goleu ; tywyll, twtnai, gwrm, gwrmwn ; lludliw ; hen addfed.
Grey colour—lliw llwyd, llwydliw, llwyd, blawr, blawrwyn, llwydlas.
Of a grey colour—llwydliw, llwyd ; llai, lleian ; rhwng du a gwŷn.
Dapple grey—glas ceiniogog, glas mànog, brithlas, glas gwynfànog, glas ysmotiog, ysmotlas.
Dark grey—dulwyd, llwyd-ddu, gwrm, (*f.* gorm), gwrmwn ; tywylliddu.
White grey—blawrwyn, llwydwyn, gwynlwyd.
Light grey—llwydwyn, gwynlwyd, goleulwyd.
Iron grey—blawr, haiarnddu, mysglwyd.
Blackish grey—dulas, erchlas, llwyd-ddu.
Bluish grey—glaslwyd, glasflawr, llwydlas.
Raven grey—dulas, erchlas, llwyd-ddu.
Variegated grey—brithlwyd ; brithlas.
Brownish grey—llwydlas.
Somewhat grey—lledlwyd, golwyd, llwydaidd, golwydaidd, lledlwydaidd.
Grey horse — ceffyl glas, march glas ; ceffyl broc ; llwydfarch.
Grey mare—caseg las ; caseg lwyd ; caseg froc.
Dark grey horse—march llai, march gwrm, march dulwyd, ceffyl llwyd-ddu.
Grey frost—glasrew, rhew glas.
To grow grey—llwydo, blawrio, blorio ; myned yn llwyd.
Grey hairs—gwallt llwyd, llwydwallt ; penllwydni, penllwydi, penllwydedd, penwyni, penwynedd, penwynder.
To grey hairs—hyd yn llwyd ; hyd benllwydni ; hyd benwyni.
Having a grey beard—barfllwyd ; barflas.
Grey eyes—llygaid llwydlas, llygaid llwydleision ; llygaid dulas ; llygaid llwydion ; llygaid gleision.
Of a faded grey hue—llwydlas, gwywlwyd, gwywlas, edwinlwyd.
Grey hen—grugiar, iar fynydd.
Grey owl—llwydenid, dylluan lwyd.
Greys—Llwydleision, Llwydlasiaid, glasfarchogion, glasfarchwys.
Scotch Greys — Llwydleision Ysgotig, Llwydlasiaid Albanaidd, Llwydleision yr Alban.
Grey Friars—Brodyr Llwydion, Lleiogion, Mynachod Llwydion ; Brodyr o urdd Sant Ffransis.
Grey mill, } maenhad meddygol, grawn
Grey millet, } yr haul.
Grey, *s.* llwyd, blawr, llwydliw, lliw llwyd, blawrwyn, caened.
The grey of the morning—glaswawr, glasddydd, glasiad y dydd, glasiad y wawr, clais y dydd, dychlais y dydd, toriad y dydd, llug y dydd, rhaciad y wawr.
Grey, *s.* pryf llwyd, pryf penfrith, broch, gwilfrai, byrhwch, daiarfochyn.
Grey-beard, *s.* barfllwyd, llwyd ei farf ; fy ewythr â'r farf lwyd ; henwr, hen wr, henddyn : costrel wirod.
Grey-eyed, *a.* llygadlwyd ; llygadfrith ; llygadlas.
Gray-fly, *s.* gwibedyn llwyd, llwydgleren, llwydgylionen, llwydwiban : *pl.* gwibed llwydion, llwydgler.
Gray-haired, *a.* briglwyd, penllwyd ; â gwallt llwyd iddo ; llwyd ei wallt ; llwyd ei ben ; penfrith ; gwalltfrith ; penwyn.
Grey-headed, *a.* penllwyd, briglwyd ; penlas, penfrith ; llwyd ei ben ; penwyn.
To grow grey-headed — penllwydo, briglwydo, penlasu, penfritho, llwydo ; myned yn benllwyd ; myned yn llwyd ei ben ; penwynu.
Grey-headed duck—hwyad benllwyd.
Greyhound, *s.* (S. *grighund*) milgi : *pl.* milgwn.
Greyhound bitch—milast, miliast.
Greyish, *a.* lledlwyd, golwyd, llwydaidd, tràn llwyd, llwydog.
Greyish black—llwyd-ddu, gwineuddu.
Greyish blue—llwydlas, blawrlas, blorlas.
Greyish red—llwydgoch.
Greyish white—llwydwyn.
To become of a greyish red—llwydgochi ; myned yn llwydgoch.
To become of a greyish blue—llwydlasu ; myned yn llwydlas.
To become of a greyish white—llwydwynu ; myned yn llwydwyn.
To become of a greyish black—llwyd-dduo ; myned yn llwyd-ddu.
To make of a greyish blue—llwydlasu ; gwneuthur yn llwydlas.
To make of a greyish red—llwydgochi ; gwneuthur yn llwydgoch.

To make of a greyish white—llwydwynu; gwneuthur yn llwydwyn.
To make of a greyish black—llwyd-dduo; gwneuthur yn llwyd-ddu.
Greyish blueness—llwydlesni, llwydlasedd.
Greyish redness—llwydgochni, llwydgochedd.
Greyish whiteness—llwydwynedd, llwydwyni, llwydwynder.

Greyling, *s.* (*o grey*) penllwyd, penllwydiad, glasan, glasgangen, teimbysg: *dim.* glasanen.

Greymalkin, *s.*=*Grimalkin.*

Greyness, *s.* llwydni, llwydedd; llwydlesni, llwydlasedd; penllwydni, penllwydi.

Grey-stocks, *s. pl.* llwydgyffion, priddfain llwydgyff, priddfeini llwydgyff.
Greystocks bricks=*Greystocks.*

Greystone, *s.* llwydfaen, blorfaen.

Greywacke, **Graywacke**, **Grauwacke**, *s.* (Al. *grauwacke*) llwydgraig, blorgraig.

Grey-weathers, *s. pl.* llwydhinfain.

Grice, *s.* porchellyn, porchell, tyrchyn, twrch; † gris, grisiau.

Griddle, *s.* (C. *greidell*) greidell, gradell, cradell.

Gride, *v. a.* (It. *gridare*; S. *grædan*) crygdori, ysgythru, crasdori, rhwbio, rhathu; tori, dryllio; grillio, tori, *neu* dreiddio yn erwin.

Gridelin, *s.* (Ff. *gris de lin*) cochwyn, gwyngoch; cymmysgliw gwŷn a choch; gwyngoch symmudliw.

Gridiron, *s.* (C. *graid*, *greidio*, ac *iron*) alch, gridyll, greidyll.
Gridiron pendulum—dringlyn alchaidd.

Grieces, *s. pl.* (C. *gris*; Ll. *gresus*) grisiau, dringrisiau.

Grief, *s.* (Ff. ac Is.) gofid, tristwch, tristyd, tristedd, trymder, athristedd, athristwch, blinder, trallod, cystudd, blinfyd, dyfryd, galar, afar, aeth, alaeth, cysteg, argysteg, poen, cyllaeth, argyllaeth, gwalaeth, dolur, gnif, cwyn; dig, digder; penyd.
Full of grief—gofidus, gofidiog, llawn gofid, llawn o ofid, trallodus, helbulus, cystuddiog, athrist.
To pine away with grief, To be consumed with grief, dedwino gàn ofid; edwino gàn ofid; dihoeni gàn ofid, trallod, *neu* dristwch; nychu, edwi, *neu* ddarfod gàn flinder; treulio ymaith gàn ofid.
Mine eye is consumed because of grief—treuliodd fy llygad gàn ddigder (*Salm* vi. 7).

Griefful, *a.* llawn gofid, gofidlawn, gofidus, gofidiog, cystuddiog.

Griefless, *a.* diofid, didristyd, didrallod.

Griefshot, *a.* à drywanwyd gàn ofid.

Grievable, † *a.* galarus, alaethus, tost.

Grievance, *s.* (*o grief*) gofid, trallod, blinder; gormes, goreilid, gormail, cam, camwedd, sarhad, camwri; baich, gwasgfa, trymder.
To redress grievances—diwygio camweddau; symmud goreilidiau; rhyddhau oddi wrth feichiau; ysgafnu *neu* ysgafnhau beichiau.

Grieve, *v.* (Is. *grieven*; Ff. *grever*) gofidio, blino, trallodi, tristäu, dolurio, cystuddio, dygnu; peri gofid, blinder, trallod, trymder, *neu* dristwch i; peri gofidio; ymofidio, ymdrallodi; galaru, cwyno, cwynfan, alaethu; bod yn drist, yn ofidus, *neu* yn edifar; bod mewn tristwch, tristyd, trymder, galar, *neu* alaeth; cymmeryd trymder; dwyn trymder, tristwch, *neu* ofid; bod yn flin, yn ddrwg, *neu* yn edifar gàn; tosturio, gresynu; tuchan; bod tristwch i; bod yn chwerw wrth; chwerwi; pruddhau; anfoddloni, tramgwyddo.
To be grieved — ymofidio, ymdrallodi; bod yn drist, &c.; bod mewn tristwch; galaru, cwyno, cwynfan; cael ei ofidio.
It grieves me—mae yn ddygn, yn flin, yn ddrwg, *neu* yn edifar genyf; mae yn, ofidus genyf; mae yn ofid genyf.
It grieves me heartily, It grieves my very heart, mae yn flin gàn fy nghalon; y mae yn ddrwg gàn fy nghalon, &c.
It grieved me sore—yr oedd yn ddrwg iawn genyf; bu ddrwg iawn genyf; e'm blinodd yn dost.
I am grieved for him—y mae yn ddrwg genyf drosto; mae yn ddrwg genyf am dano; mae yn arw genyf am dano.
It grieved him at his heart—efe a ymofidiodd yn ei galon; fe'i gofidiodd ef yn ei galon.
It would not grieve me—ni byddai cwyn genyf; ni'm gofidiai; ni chwynwn.
It would not much grieve me—ni byddai fawr gwyn genyf; ni byddai mawr gwyn genyf; ni'm gofidiai yn fawr; ni'm mawr ofidiai.

Grieving, *p.* yn gofidio, &c.; gofidiol, gofidus, dolurus, trallodus; cwynfanus.

Grievous, *a.* (o *grieve*, neu *grief*) trwm, gorthrwm; mawr, dirfawr, pwysfawr; tost, blin, gofidus, trallodus, dygn, poenus, dolurus; gormeilus, gormesol, caled, dwys, garw, llym, llymdost, tostlym, chwerw, adloesawl, irad, girad, aethus, dygn-flin; drwg, anfad, erchyll, dybryd, aele; à bair ofid *neu* flinder; cystuddiol, cythruddol, truenus, gresynus, gresynol, galarus, adfydus; anhyfryd; anhyddwyn; dinystriol.
Very grievous—gorthrwm, trwm iawn, tra thrwm, tra blin, blin iawn, gorflin, blin dros ben, &c.; blin aruthr.
Somewhat grievous—godrwm, lled drwm, go flin, goflin, go ddygn, &c.
Grievous sin—pechod trwm, pechod dygn.
Grievous burdens—beichiau trymion.
Burdens grievous to be borne—beichiau anhawdd eu dwyn; beichiau anhyddwyn.
Grievous crime—bai gorthrwm; bai cerydd-us; troedd anfad; cyflafan ddybryd.
Grievous fright—braw aele, braw erchyll.
Grievous pain—poen dost, poen ddirfawr; algur.
Grievous weather — tywydd creulawn, tywydd tost, tywydd blin, tywydd ystormus, tywydd garw.
Grievous word—gair garw, gair blin.
Grievous wound—archoll ddolurus, dost, *neu* flin; gweli clwyfus, gweli gofidus.
Grievous curse—melldith dost.
Grievous disease—clefyd blin, clefyd mawr.
Grievous wolves—bleiddiaid blinion; bleiddiaid rheibus.
Grievous tidings—newyddion drwg, newyddion tost.
Sore and grievous—trwm a blin; tost a gofidus.
For the famine was grievous in the land—am drymhau o'r newyn yn y wlad; canys trwm oedd y newyn yn y wlad;

o herwydd yr oedd y newyn yn drwm yn y wlad.

Every one's life shall be grievous unto him —pob un a fiina ar ei einioes.

They are all grievous revolters—cyndyn o'r fath gyndynaf ydynt oll (*Ier.* vi. 28).

Grievously, *ad.* yn drwm, yn orthrwm, yn flin, yn ddygn, &c.

More grievously — yn drymach, yn orthrymach, yn flinach, yn ddygnach.

Most grievously—yn orthrymaf, yn drymaf, yn flinaf.

To take a thing grievously—cymmeryd peth yn ddrwg, yn flin, *neu* yn chwith; bod yn drwm, yn ddrwg, *neu* yn flin gàn un beth.

Having suffered most grievously — wedi iddo oddef gofid lawer (2 *Mac.* ix. 28).

Grievousness, *s.* trymder, blinder, dygnedd, toster, tostedd, poenusrwydd, tristedd, tristwch, gorthrymedd, gorthrymder; anfadrwydd, drygedd; mawredd, dirfawredd, pwysfawredd; erchyllder, erchyllrwydd; aruthredd, aruthroldeb; poen, cystudd, gofid, trueni, blinfyd, cyfyngder, caledi.

Griffon, } *s.* (Ff. *griffon;* It. *grifo, griffone;*
Griffin, } Al. *greif*) gruff, grufft, egrufft, gruffon, gruffwn, gruffyn, gruffwnt.

Griffin, *s.* irlanc, irwas=enw o ddigrifwch à roir yn yr India i ddyfodiaid o Brydain.

Griffon-like, *a.* gruffaidd, grufftaidd, fàl grufft.

Grig, *s.* llymrïen, llymrïad, llymrïaden; corlyswen, llyswenig; (*pl.* llymrïod, llymrïaid): creadur llawen, un llawen, ysgentyn; coryn, (*f.* coren); †iechyd.

Grill,† *v. a.* (Ff. *griller*) alchrostio, briwlio, briwlian.

Grill,† *a.* rhyn *neu* syth gàn annwyd; yn crynu gàn annwyd.

Grillade, *s.* (Ff.) brwylgig, briwlgig, bwyd briwliedig.

Grillage, *s.* alchwaith, rheselwaith sylfan, alchwaith sail, rheselsail.

Grilly,† *v. a.* aflonyddu, blino, trallodi, cythryblu.

Grilse, *s.* eogyn.

Grim, *a.* (S.) cuchiog, gygus, sarig, blwng, hyll, erchyll, gerwin, oethin, oerth, gorfiwng, ffyrnig, disgyfrith, dysgethrin, tryn, garwguchiog; traws, sur, hyll, *neu* ffyrnig ei olwg; hyll ei wedd; hyllig, erch, hagr, traws, sur, trwynsur, trwynsor; dybryd; anniddig, cras, croes.

Grim aspect, } hylldrem, helldrem; hyll-
Grim look, } wedd; gwedd guchiog, &c.
To look grim, } hylldremio; edrych yn
To look grimly, } guchiog, &c.; cuchio, talgrychu, crychu talcen, gygu, sori, trwynsori.

Grimace, *s.* (Ff.) mingamiad, gwepgamiad, wynebgamiad, gwepwyrad; coegdrem, wyneb gwneuthur, ffuantwedd, gwep; gwneuthuriad wyneb, gwirfodd anffurfiad wyneb; mursenllyd wedd wyneb; mursendod, ffuant; gylfant.

To to a thing with grimace—gwneuthur peth yn fursenllyd *neu* yn ffuantus; gwneyd peth gyda gwep.

To make grimaces, } gwneuthur wyneb-
To make a grimace, } au; mingamu, gwepio, gwneyd gwep, wynebgamu, mingamu, troi ei fin; gwneuthur wyneb cas.

Grimaced, *a.* gwepiog, mingam, wynebgam; sarig, blwng.

Grimalkin, *s.* (Ff. *gris*, a *malkin*) ewingraff, ewinlew, hen gath, hengath.

Grime, *s.* (Isl. *grima;* S. *krum*) parddu; baw, tom, budreddi, brynti; baw wedi greddfu mewn peth; rhwd; llwtrach.

Grime, *v. a.* pardduo, duo, gordduo; gorchuddio à pharddu; budreddu, budro, diwyno, bryntäu, anurddo.

Grim-faced, } *a.* cuchiog, gygus, blwng, sarig;
Grim-visaged, } hyll, traws, sur, sarig, *neu* ffyrnig ei wedd; hyll, traws, sur, sarig, *neu* ffyrnig ei olwg; hylldrem, hylldremiog, hagrwedd, cuwchdrwm, cuchiain; disgyfrith, disgethrin, garw-guchiog, gwynebsur, ffroensur.

Grimly, *a.* cuchiog, blwng, gygus, sarig, oethin; hyll, traws, sur, *neu* ffyrnig ei olwg.

Grimly, *ad.* yn guchiog, yn ffyrnig, &c.

Grimness, *s.* cuchiogrwydd, gygusrwydd, blyngder, blyngedd, gorflyngder, hyllder, hylldra, hylligrwydd, gerwinder, gerwindeb, ffyrnigrwydd, sarigrwydd, trawsedd, surni golwg, oerthedd, trynedd; hylldrem, hyllwedd.

Grimy, *a.* (o *grime*) pardduog; budreddog, brwnt, budr.

Grin, *v.* (S. *grinnian;* Al. *greinen*) dysgyrnu, ysgyrnygu, esgyrnygu; dysgyrnu, ysgyrnygu, dangos, noethi, *neu* ddynoethi dannedd; mingamu gàn ddig; swrnach, chwyrnu; coegwenu, dirchwerthin, coeg chwerthin, glaschwerthin, glaswenu, gorwenu, gwneuthur chwerthin; cymmeryd arno chwerthin; dangos dannedd wrth chwerthin; dangos ei ddannedd wrth chwerthin; chwerthin yn ddifias; gwneuthur gylfant; gwneuthur gwên ddifias.

Grin, *s.* ysgyrnwg, dysgyrnwg, swrnach; ysgyrnygiad, dysgyrniad, dysgyrnad; ysgyrnygiad, dangosiad, noethiad, *neu* ddynoethiad dannedd; coegwen, gorwen, gorwenad, glaswen, gwên ddifias, gwên wneuthur, chwerthin gwneuthur, coeg chwerthin, glaschwerthin; gwneuthuriad gylfant.

Grin,† *s.* magl, telm.

Grind, *v.* (S. *grindan*) malu, malurio, breuanu, breuddilo, briwo, briwio, chwilfriwo, chwilfriwio, chwalfriwo, cymriwo, talchu; llifanu, llifiannu, llifo, hogi; gorthrymu, blino, dygnflino, dyngu, rhwbio, rhathu.

To grind meal—malu blawd.

To grind to powder—malu yn chwilfriw; malu yn fân; manfriwo; malu, malurio, gwneuthur, pwyo, *neu* friwo yn llwch; malurio, gwneuthur, pwyo, *neu* friwo yn chwilfriw; malu yn bylor; llychu, pylori, meiloni.

To grind with every wind—malu ar bob gwynt; malu à *neu* gyda phob gwynt; troi y garthen ar y gwynt; troi ei siaced.

To grind the teeth—rhincian dannedd.

To grind with the teeth—malu à dannedd; cnoi, argnoi.

To be grinding—malu; bod yn malu.

To grind (on a grindstone)—llifiannu, llifanu, llifo.

To grind the face of the poor—malu ar wyneban y tlodion; malu wyneb y tlodion; gorthrymu *neu* ormesu y tlawd; gorthrymu *neu* ormesu y tlodion.

Grinder, *s.* malwr, malydd; llifwr, llifiannwr, llifiennydd, llifanwr; cilddant.
Grinders — cilddannedd, cilddaint; dannedd.
Grinding, *s.* maliad, maluriad, breuanad, briwad; mâl; malu; llifad, llifiannad, llifanad.
Grinding-mill — melin fâl, melin falu; melin; melindy, breuandy.
Toll for grinding—arfal, tâl am falu.
Grindstone, *s.* maen llifanu, maen llifiannu, maen llifo, maen llif, breuanllif, breuddil, maen breuddil, maen addwyn.
Grindlestone,† *s.*=*Grindstone.*
Grinner, *s.* (o *grin*) ysgyrnygydd, ysgyrnygwr, dysgyrnydd, dysgyrnygwr, esgyrnygwr, dysgyrnwr dannedd, dysgyrnydd dannedd, coegwenwr, gorwenwr, glaswenwr, gwepiwr, coeg chwarddwr, swrnachwr.
Grinningly, *ad.* dàn ddysgyrnu dannedd; dàn noethi dannedd; dàn ddangos *neu* ddynoethi dannedd; dàn ddysgyrnu; dan orwenu; dàn chwerthin yn ddifias, &c.
Grip, *s.* (Ll. *gryps;* Gr. *grups;* Al. *grief*) gruff, grufft, egrufft, gruffon, gruffwn.
Grip, *s.* (D. *greb;* Al. *griff*) gafael, craff, afflau, crap, crafangiad.
Grip,†*s.* (Is. *groep;* S. *græp*) ffos, clawdd, rhych, rhigol.
Grip,† *v. a.* cloddio, rhycho, rhigoli.
Gripe, *v.* (S. *gripan;* Ff. *gripper;* Al. *griefen*) gafaelu, gafaelio, gafaelyd, gafaelu yn, ymaflyd, ymafael, ymaflyd yn, crafangu, crafangio, tynwasgu, cydio, dàl, dala; rhoi ei grafanc *neu* grafangau am: dàl yn dyn yn ei grafangau; gafaelu yn dyn yn; gwasgu yn ei grafangau; cau ei grafanc ar *neu* am; cau ei grafangau am *neu* ar; ymafaelu yn mheth â chrafangau; gwasgu, cydwasgu, cyngwasgu, dirwasgu, crimpio; bachu, dyfachu, cigweinio, ysbachu; cyfyngu, tynhau; ymolli; cipio; dwyn o drais; gormesu, gormeilio, cribddeilio; hwylio *neu* redeg yn erbyn y gwynt; cnoi, cnofain, cnoi y coludd, peri gwewyr, rhoi gwewyr; peri cnofa yn y bol *neu* y coludd; peri bolwst, peri bolgno, bolgnoi; bod â'r folwst arno; gwynio, gwynegu; ysu, tymmigo.
Gripe, *s.* gafael, gafaeliad; crafanc, craff, caff, crap, ysbach, afflau, bachell, pedryoled, gwasg; gwasgiad, tynwasgiad, dirwasgiad, cydwasgiad, crimpiad, crafangiad; crafangaid, crimpaid; gormes, gormail, cribddail; cystudd, cyni, cyfyngder, gwasgfa; cnofa, cno, gwaew, gwewyr; blaen gwaelod llong.
Gripes—cnofa, bolwst, gwewyr, bolgno, bolgnofa, bolwaew, bolwewyr, cnofa y coluddion, gwaew bol, gwewyr bol, cnofa yn y bol, gwewyr yn y bol.
Gripes (in seamen's language)—clymdaclau cwch.
It is difficult to escape out of his gripe—mae yn anhawdd dïanc o'i grafanc; anhawdd dïanc o'i grafangau; y mae yn anhawdd dyfod o'i afael.
Griped, *p. p.* gafaeledig, &c.; â bolwst arno; â'r folwst arno; â dolur yn ei goludd; â gwaew *neu* wewyr yn ei fol; â gwaew *neu* wewyr arno; â chnofa yn ei goludd.
Gripeful, *a.* tueddol i afaelu, &c.; cnofaog, cnoawl, cnoawg, crafangog, crafangol, gwasgol.
Griper, *s.* gafaelwr, gafaelydd, crafangwr, crafangydd, crimpiwr, gwasgwr, dirwasgydd; gormeswr, gormesydd, gormeiliwr, gorthrymydd, gorthrymwr; cribddeiliwr.
Griping, *s.* gafaeliad, crafangiad, gwasgiad, tynwasgiad, dirwasgiad, crimpiad; cnofa, cnoad, gwewyr, gwaew, bolwst, bolgno; hwyliad *neu* rediad yn erbyn y gwynt, gwrthwyntiad.
Griping at the stomach—cyllagwst, cyllwst, gwaew y cylla, gwaew cylla, cnofa cylla, cnofa yn y cylla, cnofa coluddion.
Griping in the belly—bolwst, bolgno, bolgnofa, bolwaew, gwaew bol, gwewyr bol, cnofa y coluddion, cnofa bol, cnofa yn y bol.
A griping usurer—ocrwr crafangog; dyn crintach diddigon; cybydd anghawr, crinwas, crafangwr arian.
Gripingly, *ad.* yn gnöedigol; dàn gnoi, dàn grafangu, &c.; yn gribddeilgar; gyda chnofa.
Gripple,† *a.* (o *gripe*) cnöedigol, cnoawl; awyddus, cybyddol; dideimlad; gafaelgar, gafaelus.
Grippleness,† *s.* cybydd-dod, awydd, gwanc.
Gris, *s.* (Ff.) llwydffwrw, llwydffwrwr, llwydban.
Grisamber,† *s.* (*gris* ac *amber*) llwydwefr, lleiwefr.
Grise,† *s.* (C. *gris;* Ll. *gressus;* talfyriad o *degree?*) gris, grisiau, dringres; moch.
Grisette,† *s.* (Ff.) gwraig *neu* ferch masnachwr.
Griskin,† *s.* (o *grise*, moch? Gw. *grisgin*) glain cefn mochyn, geresgyrn.
Grisled, *a.* (o *grizzle*) brith, mawrfrith; llwyd; broc.
Grisled and bay horses—meirch brithion a gwineuon (*Sech.* vi. 3).
Grisly, *a.* (S. *grislic;* Al. *gräszlich*) erchyll, hyll, echrys, echrydus, erch, irad, girad, aethus, echryslawn, dychrynllyd, cethin, enguriol, engyrth, arswydus, anaele, aruthrol, aruthr, ofnadwy.
Grist, *s.* (S.) mâl, arfal; yd i'w falu; blawd; talch; maliad; maliad o yd; maliad o flawd; malborth; arlwy; elw, budd, buddred, lles, mael, ennill.
He knows how to bring grist to his mill—efe a fedr dynu arfal i'w felin; medr dynu dwr at ei felin.
He brings all the grist to his own mill—efe a ddwg yr holl fâl i'w felin ei hun; efe a dyn yr holl elw *neu* fael ato ei hun.
It will hinder no grist to your mill—ni ludd hyn mo'ch budd chwi; ni bydd hyn er neb rhyw anfudd i chwi.
Gristle, *s.* (S.) madruddyn, madrudd, mwythan.
The gristle that divides the nostrils—teisban y ddwyffroen.
Gristly, *a.* madruddog, madruddynog, mwythanog; madruddynaidd, madruddaidd, mwythanaidd.
Gristmill, *s.* melin fâl, melin falu; melindy, breuandy.
Grit, *s.* (S. *greot, gryt, grytta*) grut, grud; graian, gro; tywod; grudfaen, grutfaen, tywodfaen; malurion ceryg; rhynion.
Millstone grit—grutfaen melin, grudfaen melin.
To cover with grit—grutio; gorchuddio â grut.
Grith,† *s.* cytundeb.

Gritstone, *s.* grutfaen, grudfaen, tywodfaen.
Grittie, *a.* cyfartal o ddelid a lliw (mewn herodraeth).
Grittiness, *s.* grutiogrwydd, grudiogrwydd, grutineb, grutioldeb, grutnaws, grutrwydd; graianogrwydd, graianllydrwydd, graiander; tywodlydrwydd.
Gritty, *a.* (o *grit*) grutiog, grudiog, grudiol, graianog, graianllyd, graiandde, tywodog, tywodlyd, llawn graian, llawn grut.
Grizelin, *s.* (Ff. *gris de lin*) oochwyn, gwyngoch; cymmysgliw gwŷn a choch; gwyngoch symmudliw.
Grizzle, *s.* (Ff., Ysp., a Port.) llwyd, lliw llwyd; llwydliw; broc; brochliw; cymmysglwyd; cymmysg gwŷn a du.
Dark grizzle colour—broc; lliw y broch *neu* y gwilfrai, brochliw.
Grizzled, *a.* llwyd; broc; brogla, brochliw.
Grizzly, *a.* llwydaidd, golwyd, lledlwyd; broc, brogla, brochliw; cymmysglwyd.
Groan, *v. n.* (S. *granian, grunan;* Ll. *grunnio*) ocheneidio, ucheneidio, ochain, ochi, gruddfan, gruddfanu, ebychu, erthychain, rhoi ebwch, tuchan, tuchanu, tucho, ubain, cwynfan, cwynofain; grŵnan, grwytho, lloesi.
Groan, *s.* ochenaid, uchenaid, och, ochan, ochain, gruddfan, ebwch, erthwch, tuchan, tuch, uch; grŵn, grŵnach, grŵnan: *pl.* ocheneidiau, ochenion, ocheinion.
Groanful, *a.* ocheneidiog, ucheneidiog, ocheneidiol, gruddfanog, gruddfanus, ocheiniog, llawn ocheneidiau; prudd, trist, athrist, agro.
Groaning, *s.* ocheneidiad, ucheneidiad, ocheniad, ocheiniad, ochiad, ochi, gruddfaniad, tuchaniad, ebychiad; ochenaid, uchenaid, gruddfan, och, ochan, cwynfan, tuchan, grŵnan; alaeth, galarnad; uban, cri.
Groat, *s.* (Is. *groot;* Al. *grot*) pedair ceiniog, grot, grod.
As sure as that four-pence make a groat—cyn sicred a bod pedair ceiniog yn rod; càn sicred a bod pedair ceiniog yn rot.
Groats, *s. pl.* (S. *greo;* Al. *grütze*) rhynion.
Groat's-worth, *s.* gwerth pedair ceiniog, pedair ceiniogwerth, gwerth grot.
Grocer, *s.* (o *gross*, fel y tybir) chwegnwyddwr, chwegwerthwr, chwegwerthydd, chwegiadur, chwegiedydd, chwegor, chwegydd.
Green grocer—bwydlysieuwr, bwydlysieuwr, irlysieuwr, llyswerthwr, gwerthwr irlysiau, bresychwr.
Grocer's shop — chwegnwyddfa, chwegnwydd-dy, chwegwerthdy, chwegyddfa, chwegfa; gwerthdy, gwerthfa, *neu* fasnachdy chwegnwyddwr.
Grocery, *s.* chwegnwyddfa, chwegnwydd-dy, chwegyddfa, gwerthdy chwegnwyddwr; chwegnwydd; chwegiadaeth, chwegyddiaeth, chwegoriaeth: *pl.* chwegnwyddau, llysiau marchnad.
Grog, *s.* gwirod a dwr; sugrwy a dwr oer; oer wirodlyn; gwirodlyn.
Grog-blossom, *s.* blodyn gwirod, gwirod-wull, baldardd gwirod.
Grog-drinker, *s.* yfwr gwirod, gwirod-yfwr, yfwr gwirodlyn.
Groggy, *a.* (o *grog*) meddw, brwysg; yn pwyso ar ei sodlau yn hollol.
Grogram, Grogran, *s.* (It. *grossagrana*) math ar eiswe gyfrodeddog; blewsidanwe.
Groin, *s.* (Isl. a Goth. *greia*) gwerddyr, achfen, gweryd, cylch yr arffed, cesail morddwyd, plyccroth.
Groin (in architecture)—gwerddyr.
Groin, *s.* (Ff.; Gr. *rhin*) trwyn mochyn; trwyn.
Groin,† *v. n.* (o *groan*) ocheneidio, gruddfan.
Groined, *a.* gwerddyrog, achfenog.
Gromet, Grommet, *s.* (Ff. *gourmette*) ceingrwy; torch *neu* ddolen fechan ar y tu uchaf i'r hwyl-lath.
Gromwell, Gromil, *s.* (llygriad o *gray mill* neu *gray millet*) maenhad, gromil, gromandi.
Common gromwell—maenhad meddygol, grawn yr haul, maenhad cyffredin.
Corn gromwell, Bastard alkanet, maenhad yr âr, grawn y llew.
Groom, *s.* (hen Is. *gom;* Per. *garma*) gwas, llanc, macwy, mab, bachgen, gwas trawd, gwastrodyn, gweinydd, sefyllwas; gwastrawd, marchwas, marchydd, marchwr, amanwas; † priodfab.
Groom of the stable, Groom of the rein, gwastrawd afwyn; gwastrawd, marchwas, &c.
Groom of the stole, Groom of the wardrobe, ceidwad y gwisgoedd, gwastrawd y gwisgoedd, ystafellydd y gwisgoedd; prif ystafellydd y brenin.
Groom of the chamber—gwastrawd yr ystafell, ystafellydd, ystafellwr, ystafellwas, ystafellog, trwsgellydd.
Groom-porter—drysor llys, porthor llys.
The groom-porter of the king's household—ceidwad porth y llys, cynhorawr y brenin, porthor llys y brenin.
Groom, *v. a.* gwastrodi; edrych ar ol meirch.
Groove, *s.* (Isl. *groof;* Sw. *grop*) rhigol, rhygn, rhych, ffosig, rhign, rhwgn, rhint, rhig, rhic, gorthrwch, ceudod *neu* geudwll dwfn mewn mwnglawdd; twll y gwynt, heol y gwynt.
Groove, *v. a.* rhigoli, rhychu, gorthrychu, rhygnu, rhintu, rhintio, rhicio, rhician.
Grooved, *a.* rhintach, rhigolog, rhychog, gorthrychog.
Groover, *s.* rhigolydd; mwnwr.
Grope, *v.* (S. *gropian*) palfalu, ymbalfalu, palfu; teimlaw o'i flaen â'i droed *neu* law; amddasmal; teimlo.
To grope for—ymbalfalu am.
To grope out — palfalu allan; chwilio allan; cael wrth balfalu; cael drwy balfalu.
To go groping along—myned rhagddo dàn balfalu.
Groper, *s.* palfalwr, palfalydd, ymbalfalwr.
Gropingly, *ad.* dàn balfalu, dàn ymbalfalu.
Gross, *a.* (Ff. *gros;* It. a Port. *grosso*) tew, bras; braisg, mawr, praff; anferth, gwrthun, garw, trwsgl; cestog, cnodig, corffog, potenog; serth, aflednais, anweddaidd, anniwair, budr, aflan, brwnt, annestlus, annhlws, annestl, annhwtnais, gwael, isel, iselwael; annher, anmhur, llygredig; hurt, pwl, dwl, musgrell, trymaidd, trwm, hwyrdrwm, penbwl, penbylaidd; tywyll, niwlog, cymylog, caddugog; hydeiml; à ellir ei deimlo; à aller ei deimlo; gwarthus, cywilyddus, gwaradwyddus, gorthrwm, dygn, dybryd, cas, gwrthgas, mawr iawn, tramawr, gorfawr;

trwstan; anferth; amlwg, noeth, dïargel, honaid, hysbys, hoedd; cryf; cyfan, cyfa, cwbl, holl, oll, cyfoll, cyfiwyr.

To grow gross, } brashau, tewhew, tew-
To become gross, } ychu; myned yn dew,
To wax gross, } &c.

To make gross—brashau, tewhau, tewychu; gwneuthur yn dew, &c.

Gross weight—cyfanbwys, dirbwys, dirbwysi.

Gross language—iaith serth, afiednais, anweddaidd, fudr, front, afian, *neu* annestlus.

Somewhat gross—godew, gofras, gofraisg, lledfras, go dew, go fras, lled dew, &c.

Extremely gross—gorthew, gordew, gorfras, gorfraisg, tew iawn, tra thew, tew dros ben, rhy dew.

Gross darkness—tywyllwch dudew; y fagddu, yr afagddu.

Gross mistake—camsyniad gwarthus, cywilyddus, *neu* wrthun; camgymmeriad mawr, mawr iawn, gorthrwm, dygn, dybryd, *neu* wrthun; camsyniad hydeiml; camsyniad à ellir ei deimlo; camsyniad amlwg, noeth, hysbys, honaid, *neu* anferth.

Gross air—awyr tew, awyr anmhur, awyr annher, awyr llygredig.

Gross, *s.* crynswth, crynswdd, y cyfan, y cwbl, y cyfoll; y rhan fwyaf; swmp, talp, clamp, sum, swm; cyfander, cyfanrif: deuddeg dwsin, deuddeng waith deuddeg, deuddeg o o ddeuddegau=144.

Ten gross—deg deuddeg dwsin.

Five gross—pumdeuddeg dwsin, pum deuddeg dwsin.

In the gross, } yn y crynswth, yn ei gryn-
In gross, } swth, yn grynswth, yn
By the gross, } gyfan, yn y talp, wrth y talp, wrth y swmp, wrth y crynswth, yn y cyfan, y cyfan drwyddo, dàn swmp.

Sale in the gross—cyfanwerth.

A dealer in gross—cyfanwerthwr, cyfanwerthydd; cyfanfaelier.

Advowson in gross—noddogaeth grynswth, nawdd cyfan=noddogaeth gysylltedig â'r noddwr ei hun.

Common in gross—cyttir crynswth=cyttir cyssylltedig â dyn ei hun, ac nid yn perthyn i dir.

Manor in gross—braint neu awdurdod gàn un i gynnal llys er na bo berchen y tir *neu* y faenor.

Grossbeak, } *s.* (*gross* a *beak*) gylfinbraff, y
Grosbeak, } gylfinbraff.

Green grossbeak=*Greenfinch.*

Gross-headed, *a.* penfras, pendew, penbwl, penfeddal, hurt, penbraff.

Grossly, *ad.* yn dew, yn fras, &c.

Grossness, *s.* (o *gross*) tewder, tewdra, tewedd, brasder, brasedd, tewdwr; breisgedd, praffder; mawrder; garwedd; trysgledd, anhlysrwydd; anferthedd, anferthwch, gwrthuni; anmhuredd, anmheredd; serthedd, &c.

Grossness of a crime—anfadrwydd, ysgelerder, dirfawredd, mawrder, anferthedd, anfertholdeb, gwarthusrwydd, dybryddedd, *neu* aruthredd trosedd.

Grossulaceæ, *s. pl.* (Ll. *grossula*) grwyslwyth, grwysolion, llwyth y grwys.

Grossulaceous, *a.* (Ll. *grossulus*) grwysaidd, grwyswyddain; perthynol i lwyth y grwys.

Grossularia, *s.* grwys; grwyswydd.

Grossular, *a.* grwysol, grwysaidd; perthynol i rwys; tebyg i rwysen.

Grossular, } *s.* grwysen, grwysfaen.
Grossulare, }

Grot, } *s.* (Ff., Al., a D. *grotte;* It. *grotta*)
Grotto, } ogof, gogof, gogofdy, ogofdy; caf, cafell, hyfrydfiau, hyfrydgell, gogof hyfrydwch; lloches, llechfa, ceule; daiargell; garddgell, garddogof, pabell, ffresgafell.

Grotesque, *a.* (Ff.; It. *grottesca*) digriflun, digrifwedd, digrifluniog, odlun, ysmalwedd, digrifddull; digrif ei lun; digrif gàn ei aflunieidded; digrif o ran ei afunieidd-dra, ei afreoledd, *neu* ei annhrefn; mympwyol, anelwig, anosgeddig, direol, afreolaidd, annhrefnus; geuluniol; heb na threfn na rheol; digrif, digrifol, od, anferth; ogoflun, ogofwedd.

Grotesque work—aflunwaith, odlunwaith, gwaith digriflun, digrifwaith; digrifluniau.

Grotesque, *s.* digrifluniau, afluniau, odluniau, digrifwelion, digrifweddion; aflunwaith, digrifwaith, odlunwaith.

Grotesquely, *ad.* yn ddigriflun, &c.; heb na threfn na rheol; wrth fympwy; mewn dull digrif.

Grotesqueness, *s.* digrifluned, odlunedd, aflunedd; mympwyoldeb, afreoledd, anosgeddigrwydd.

Ground, *s.* (S., D., Sw., ac Al.) llawr, daiar, tir, daiaren, tud; tudwedd, tudwed, gwerydwedd, gledd, swl; tiriogaeth, rhandir, tyddyn, maenor, maes; sail, sylfan, sylfaen, seilfan, seilfaen, syl; gwaelod; defnydd, cynddefnydd, cynegwyddor; cynlliw, gorlliw; gludfysg, cymmysgedd; seilgan.

A plat of ground, } maes, rhandir; dernyn
A plot of ground, } o dir; darn o dir; as o dir; rhan o faes; tyno.

A green plot *or* plat of ground—glaslanerch, llanerch las, glesin, gwyrddon, gwerddon, parlas, glas, talwrn, glas dalwrn, glesygen, glasledd, glaslan, cadlas, glasdir, llanerch, tyno.

An even plot of ground — gwastadfaes, gwastadfan, gwastadfa, gwastadle, maes gwastad, darn o dir gwastad, tir gwastad, gwastattir, màn wastad.

A bare plat of ground—llawrfaes; rhuddfa, rhuddfan; llymfaes, tyno llwm, talwrn llwm.

An enclosed piece of ground—ceufaes, cae, maes cauedig, midfaes; cadlas.

A little plat of ground, } maesan, maes
A little piece of ground, } bychan; dernyn o dir; dryllyn o dir.

Rising ground—uchelfa, uchelfan; esgyndir; tir ar gynad *neu* gwnad; twyn.

A spot of ground red with blood, *or* with the scorching heat of the sun—rhuddfa, rhuddfan; poethfan.

Lay ground — gwyndwn, gwyndon, tir gwŷdd, tir tòn, tondir, tòn.

Hilly ground—bryndir, twyndir, tir bryniog, tir mynyddig.

Mountain ground—mynydd-dir, tir mynyddig.

Stony ground—tir cerygog, tir caregog, maendir, tir maenog.

Low ground—iseldir, tir isel.
Low ground on the bank of a river—doldir, dôl; gwaendiri; seldir ar làn afon.
Parched ground—crasdir, tir cras, tir llosg, tir crasboeth.
Dry ground—sychdir, tir sych.
Untilled ground—adwydd; tir heb ei lafurio.
Play-ground — chwareufaes, chwareudir, twmpath chwareu, cadlas chware, tir chware, cadlas.
Hunting ground—heldir, helfaes, tir hely, ysgeifiog, peithwg.
Fallow ground—tir braenar, braenardir, braenar, adwydd, adfyw.
Under ground—tàn y ddaiar; dàn ddaiar; o dàn y ddaiar; oddi tàn y ddaiar.
Under-ground—tanddaiarol, tanddaiarog, is daiar; à fo is daiar; tàn y ddaiar.
On the ground—ar lawr, ar y llawr, ar y ddaiar, ar ddaiar; i lawr.
To the ground—hyd lawr, i'r llawr, hyd y llawr, hyd y gwaelod; yn llwyr.
Ground colour, } cynlliw, gorlliw, gorliw,
Ground, } seilne, safliw; y llawr.
To put into the ground—daiaru; rhoi yn y ddaiar; rhoi *neu* osod mewn daiar.
Even with the ground, } cydwastad â'r
Level with the ground, } llawr; yn gydwastad â'r llawr; yn un â'r llawr.
To make even *or* level with the ground—gwneuthur yn gydwastad â'r llawr; gwneuthur yn un â'r llawr.
To till the ground—llafurio y ddaiar; diwyllio tir; diwyllio y ddaiar; trin y ddaiar; coledd tir.
The ground of a discourse—testyn ymadrodd, testyn araeth, testun pregeth, sail ymadrodd, sylfon ymadrodd.
To gain ground—ennill tir; ynnill tir; ymoresgyn, ymdaenu; myned yn fwyfwy arferedig; cryfhau, gwrygio, gwryggiannu, ymwrygio, cynnyddu, llwyddo, ffynnu, tycio; bod ar gynnydd.
To keep ground, } cadw ei dir, ei le,
To maintain ground, } ei orsaf, *neu* ei
To stand one's ground, } sefyllfa; sefyll ar ei dalwrn; dàl ati.
To lose ground, } colli tir; cilio yn ol;
To give ground, } rhoi lle; rhoi ffordd; myned yn ei wrthgefn; myned yn wysg ei gefn; ymadaw â'i orsaf; cilio.
They give ground—maent yn colli tir; maent yn cilio; maent yn syrthio yn ol, &c.
They kept their ground—cadwasant eu tir, eu lle, eu talwrn, *neu* eu gorsaf.
To stick fast on the ground—taro, glynu, eistedd, *neu* orphwys ar feisle; beisio, llorio; glynu wrth y llawr.
He went under ground—aeth dàn y ddaiar.
He sat on the ground—eisteddodd ar y llawr; eisteddodd ar y ddaiar.
He fell down on the ground—syrthiodd i lawr; syrthiodd i'r llawr.
This is the ground he goes upon—dyma ei reol ef; dyma ei reswm ef; dyma sail ei farn *neu* ei ymddygiad ef; dyma y rheol y barna efe wrthi; ar y tir hwn y mae yn myned yn mlaen.
He goes upon sure ground, } y mae yn
He stands upon sure ground, } sefyll ar dir caled; y mae efe yn adeiladu ar sail sicr; efe a fyn fod yn ddiogel; saif ar dir cadarn; y mae ganddo dir cadarn *neu* safadwy dàn ei draed.
Her ground too was entirely burnt—llwyr losged ei thudwedd hithau.

Ground, *v.* seilio, sylfaenu, gwadnu, seiliannu, sylu; sefydlu, sicrhau; egwyddori, cynegwyddori, addysgu, dysgu; gwaelodi; tirio; rhedeg i dir; glynu wrth y llawr; glynu wrth y gwaelod; taro wrth y gwaelod; beisio, llorio.
To ground a ship—tirio llong (i'w glanhau a'i thaclu).
To ground one in an art — egwyddori, addysgu, *neu* hyfforddi un mewn celfyddyd; addysgu un yn egwyddorion celfyddyd; dysgu egwyddorion celfyddyd i un; egwyddori.
Well-grounded — iawn egwyddoredig; à iawn egwyddorwyd; wedi ei iawn egwyddori; wedi ei seilio ar egwyddorion da.
He grounds his opinion upon this argument—seilia ei farn ar hyn o reswm; adeilada ei farn ar y sail hon.

Ground, *p. p.* (o *grind*) maledig, à falwyd, wedi ei falu; maluriedig; llifedig, llifaid, llifanedig, wedi ei lifanu.
Ground corn—yd maledig; blawd; talch, (*dim.* talchyn), talchyd; malurion yd.

Groundage, *s.* (o *ground*) llordal, porthdal, treth borthladd.

Ground-angling, *s.* llawr-enweirio, gwaelodbysgota, genweiriad sawdd.

Ground-ash, *s.* onen y ddaiar, glasonen, glason.

Ground-bait, *s.* llawr-abwyd; abwyd à syrthio i'r gwaelod.

Grounded, *p. p.* seiliedig, sylfaenedig, &c.; dïysgog.

Groundedly, *ad.* yn seiliedig, yn sylfaenedig; yn ddïysgog, yn ddigyffro, yn sefydlog.

Ground-floor, *s.* barth, y barth, daiarlawr, llawr, llawr isaf, seilfarth; seiler, syler.

Ground-gru, } *s.* gwaelod-rew, gwaelod-ia; ia yn
Ground-ice, } ngwaelod afonydd.

Ground-hog, *s.* llawr-fochyn, twrlla America.

Ground-ivy, *s.* eiddew y ddaiar, eidral, beidiog las, bydiog las, llysiau y gerwyn, llysiau yr esgyrn, canwraidd las.

Groundless, *a.* disail, disylfaen, disylfan; dïachos, direswm, coeg, gwag, gorwag, ffugiol, seithug, gau; heb sail iddo; heb reswm drosto *neu* am dano; heb waelod i orphwys arno.

Groundlessly, *ad.* yn ddisail, &c.; heb sail, heb sylfaen, heb achos, heb reswm, heb waelod.

Groundlessness, *s.* piseiledd, diseilrwydd, diseilder, diseildra; ansail; gwagder, ffugioldeb.

Groundling, *s.* (o *ground*) gwaelotyn, gwaelodyn=pysgodyn à drig yn ngwaelod dwfr: bawyn, bawai, gwaelddyn.

Ground-liverwort, *s.* maesafuan, clustiau y ddaiar.

Groundly,† *ad.* ar egwyddorion.

Ground-nest, *s.* llornyth, llawrnyth, nyth ar y llawr.

Ground-nut, *s.* llorgneuen; *pl.* llorgnau.

Ground-oak, *s.* derwen y ddaiar, glasdderwen, derwen ieuanc.

Ground-pine, *s.* palf y gath bali.

Ground-plan, *s.* llawrlun, llawrwedd, seilgynllun, llawrgynllun, seilddarlun, tudlun.
Ground-plane, *s.* seilwastad, llawrasaf, seilasaf.
Ground-plate, *s.* tudlafn, llawr-lafn.
Ground-plot, *s.* adeilfan, adeilfa, adeilbarth; seilargraff, seilddarlun, seilarlun, seilgynllun, seilgraff, seilddarluniad, cynllun adail.
Ground-rent, *s.* rhent y llawr, rhent llawr, seilrent, sylrent, llawr-rent.
Ground-room, *s.* ystafell lawr, ystafell ar y llawr, llawr-ystafell, llorgell, llawrgell.
Grounds, *s. pl.* seiliau, sylfeini, egwyddorion; gwaelodion, gwaddodion, gwaddod, llorion, ffles, rhytion; sylgoed, seilgoed; malurion.
Groundsel, } *s.* (*ground*, a S. *syll*) trothwy, hin-
Groundsill, } iog, rhiniog; seilddor; gwadn, gosail.
Groundsel, *s.* greulys, penfelen, carnedd.
Common groundsel—greulys benyw, penfelen fenyw, carnedd felen fenyw.
Mountain groundsel—greulys mynyddol, penfelen fynyddol, greulys mynyddig, greulys y mynydd.
Ground-squirrel, *s.* gwiwer y ddaiar, tudwiwer.
Groundswell, *s.* tirddygyfor, tirchwydd, tirwanegfa, morchwydd ger y tir, morchwydd mewn dwr bas.
Ground-table, *s.* tudfwrdd, llorfwrdd, llawrfwrdd.
Ground-tacle, *s.* tir-daclau, taclau tir, taclau angorion.
Ground-work, *s.* seilwaith, sylfaenwaith; sail, sylfan, sylfaen; llawrwaith, cynlliw; y llawr; egwyddor, cynegwyddor.
Group, *s.* (Ff. *groupe;* It. *groppo*) haib, twr, swp, cnud, torf, haid, bagad, lluaws, cyttwr, crug, cynnulliad; twr, swp, *neu* gymhleth o luniau; heiblun.
Group, *v. a.* heibiaw, cyttyru, tyru, sypio, cnudio, bagadu, heidio, twysgo, heiblunio; gwneuthur haib, &c.
Groupade, *s.* (Ff.) crymnaid, gorlam, gornaid.
Grouping, *s.* heibluniad, heibiad, cyttyriad, heidiad, cynnulliad.
Grouse, *s.* (Per. *goros*) grugiar, iar fynydd, iar y mynydd; cochiad, cochiar; ceiliog y mynydd, ceiliog mynydd; ceiliog du y mynydd, ceiliog du; ceiliog coch y mynydd: *pl.* grugieir, ieir y mynydd, cochiaid, cochieir.
Black grouse—ceiliog du y mynydd, ceiliog du; grugieir duon.
Grouse, *v. n.* hela grugieir, hel grugieir, saethu grugieir.
Grout, *s.* (S. *grut*) rhynion; blawd rhyn, rhynllyd, bras, garw, *neu* fraisg; rhynflawd; rhynafal; cymrwd teneu, cymrwd teg; carthai.
Grove, *s.* (S. *græf, graf;* Goth. *groba*) llwyn, coedwig, gwig, celli, gwigfa, coed, coedfa, coedallt, gallt goed; ffrith; cell.
Verdant grove, } glaslwyn, irlwyn, glas-
Green grove, } goed, llwyn glas, llwyn gwyrdd, glasallt, gwerddallt, llwyn ir, llwyn irlas.
Thick grove—tewgoed, tewlwyn.
Young grove—llwyn ieuanc, glaslwyn.
Dark grove — tywyllgoed, tywyllwydd, llwyn tywyll.
Luxuriant grove—llwyn brwys, llwyn hydwf, ystlwyn, coed brasdyfol.
Elder-grove — ysgawlwyn, llwyn ysgaw, cell ysgaw.
Hazel-grove—collwyn, llwyn cyll, llwyn o gyll, collwydd, celli gyll, collwig, cyllwig.
Ash-grove—llwyn on, llwyn yn.
Willow-grove—llwyn helyg, llwyn helig, helyglwyn.
Oaken grove, } llwyn derw, derlwyn, derw-
Oak-grove, } lwyn, llwyn derwin.
Grovel, *v. n.* (Isl. *gruva;* cyttras i *grope*) ymlusgo, ymgreinio, cropian, ymgropian, creinio, dysgreinio, dygreinio; ymlusgo *neu* gropian ar hyd y llawr; ymgreinio yn y llwch; gorwedd o'i hyd gyhyd ar y ddaiar; gorwedd yn ei hyd gyhyd ar y ddaear; gorwedd â'i wyneb i waered; bod yn wael, isel, *neu* orwael; bod yn wael, yn lleag, *neu* yn annyrchafedig ei feddyliau *neu* fyfyrdodau; arferu gwaeliaith *neu* iseliaith; ysgrifenu yn farwaidd *neu* ddifywyd.
Groveller, *s.* ymgreiniwr, ymlusgwr, cropiwr, cropiedydd; adyn gwael, bawyn, adill, dyn lloriog.
Grovelling, *a.* ymlusgol, ymgreiniol; yn ei amgrain; yn gorwedd *neu* yn ymgreinio yn y llwch; yn gorwedd *neu* yn ymlusgo â'i wyneb i waered ar y ddaiar; lloriog, gorwael, gwael, isel, bawaidd, baweiddiol, iselwael, distadl, annyrchafedig, anhael; diawen, anawenyddol.
Grovy, *a.* (o *grove*) llwynin, llwynol, llwynaidd, coedwigaidd; perthynol i lwyn.
Grow, *v.* (S. *growan;* Sw. *gro*) tyfu, cynnyddu, prifio, tyddu, gwrygio; cynnyrchu, chwanegu, ychwanegu, anghwanegu, mwyhau; chwyddo, cyfodi, codi; myned yn, dyfod yn; myned, dyfod; dyfod i fod yn; eangu, ymeangu; cymmeryd ei faeth; myned yn mlaen; deilliaw, dyfod allan, tarddu.

[Pan y canlyner *Grow* yn ddigyfrwng gàn *ansoddair*, gellir yn gyffredin ei gyfieithu i'r Gymraeg trwy droi yr ansoddair hwnw yn *berwyddiad;* megys y gwelir mewn lluaws o'r enghreifftiau canlynol.]

To grow about—amdyfu; tyfu am; tyfu o amgylch; tyfu yn nghylch.
To grow again—ail dyfu, attyfu; tyfu drachefn; tyfu o newydd; ail gynnyddu; adloddi; ymedfryd.
To grow better—gwellhau, gwella; diwygio; myned *neu* ddyfod yn well.
To grow better in health—gwella mewn iechyd; gwellhau o ran iechyd; gwellhau *neu* wella yn ol clefyd; dechreu gwrygio, adwrygio, ail wrygio.
To grow bigger, } mwyhau; myned yn
To grow larger, } fwy; tyfu yn fwy; breisghau; helaethu, ymhelaethu, ymeangu; cynnyddu; myned ar gynnydd.
To grow bold—ymhyfhau, ymhyfu, ymeofni, ymeoni, ymlewhau; myned yn hyf, eofn, *neu* hyderus.
To grow cheap — myned yn rhatach; myned yn iselbris; myned yn llai ei bris; myned â newid arno; syrthio *neu* gwympo yn ei bris.
To grow corn—codi yd, cynnyrchu yd, tyfu yd.
To grow day—dyddhau, dyddio; myned yn ddydd; gwawrio.
To grow dearer—myned yn ddrutach *neu* britach; codi *neu* gwnu yn ei bris.

To grow fat — tewhau, brasbau, pesgu, pwyntio, tewychu; tirfhau; myned yn fras; myned yn dew; myned yn dda ei ddiwyg; cymmeryd ei faeth yn dda; myned yn fag tew.
To grow in grace—cynnyddu mewn gras; myned rhagddo mewn gras.
To grow heavy — trymhau, amdrymu; myned yn drwm, yn amdrwm, *neu* drymluog; tristäu, pruddhau, ymofidio; myned yn drist.
To grow heavy with old age—amdrymu o henaint; trymhau gàn henaint.
To grow in fashion, } myned *neu* dyfu
To grow into fashion, } mewn arfer; myned
To grow in use, } *neu* dyfu mewn cymmeriad; gnotäu; myned yn arferedig; myned yn gyffredin.
To grow out of fashion, } myned *neu* dyfu
To grow out of use, } allan o arfer; myned yn anghynnefin; myned allan o wisg *neu* gymmeriad; myned i maes o wisg *neu* arferiad; myned yn anarferedig; heneiddio; myned mewn anghymmeriad, anarfer, *neu* annefod.
To grow in length—hwyhau; myned yn hir; tyfu yn hir; tyfu mewn hyd; tyfu o hyd; ymestyn.
To grow into—myned yn, troi yn.
To grow into a multitude—myned yn lluaws; heigio yn lluaws; ymluosogi.
To grow lean—culhau, teneuo; myned yn gul *neu* deneu; curio, truanu, truanhau; meinhau, addfeinio.
To grow less—lleihau; myned yn llai.
To grow old, } heneiddio, henu;
To grow in years, } myned yn hen; myned mewn gwth o oedran; myned yn oedranus.
To grow poor—tlodi; myned yn dlawd.
To grow proud — balchïo, ymfalchïo; myned yn falch; myned yn uchelfryd.
To grow rich—ymgyfoethogi, cyfoethogi, ymgyfoethi; myned yn gyfoethog; tyfu yn gyfoethog.
To grow short—byrhau; myned yn fyr; tynu ato, còri.
To grow over, } gorthyfu, tyfu dros, tyfu
To grow upon, } ar; crotio; ffyllio.
To grow strong — cryfhau, ymgryfhau; myned yn gryf.
To grow tame—gwarhau, ymwarhau, dofi, ymddofi; myned yn wâr, yn ddof, *neu* yn warddof.
To grow to an end — talmu; hwyrhau; llaesu, edwi.
To grow to a stalk—paladru; myned yn baladr.
To grow too rankly—tyfu yn ormodol.
To grow together—cyttyfu; tyfu yn nghyd; tyfu yn un; ymgyttyfu, cydymdyfu, cydgynnyddu, cydbrifio.
To grow ugly — hagrhau, ymhagrhau, hagru, ymhagru; myned yn hagr.
To grow up—cynnyddu; tyfu i fyny; tyfu; blaguro, egino, tarddu, dyfod allan; codi, cyfodi, cwnu.
To grow up to man's estate—myned, tyfu, *neu* gynnyddu yn wr; cyrhaedd oedran gwr; tyfu i fyny i faintioli gwr; cyrhaedd ei gyflawn oedran.
To grow upon one—myned yn eofn ar un; ymeofni, ymdyfu, *neu* ymgynnyddu ar un; myned yn hyf ar un; camarferu caredigrwydd un.
To grow weak — gwanhau, ymwanhau, lleigbau, llaesu; myned yn wàn.
To grow weary of a thing, } blino ar beth;
To grow tired of a thing, } difiasu ar beth; alaru ar beth.
To grow worse — gwaethygu, gwaethäu; myned yn waeth.
To grow worse and worse—myned waeth-waeth; ffynnu waethwaeth.
To grow late, } hwyrhau;
To grow towards evening, } myned yn hwyr; tynu yn hwyr; ucheru; myned yn ddiweddar; tynu tua'r hwyr.
To grow corn—codi yd, cynnyrchu yd, tyfu yd.
It grows late—mae hi yn hwyrhau; mae yn hwyrhau; mae hi yn myned yn hwyr; mae y dydd yn darfod; mae hi yn myned yn ddiweddar; y mae yn tynu yn hwyr.
When the dust groweth into mire—pan dröer y llwch yn llaid.
He grows more and more outrageous every day—y mae efe yn myned yn fwyfwy cynddeiriog *neu* nawswyllt o ddydd bwy gilydd.
And that which grew upon the ground—a chnwd y ddaiar (*Gen.* xix. 25).
Grower, *s.* codwr, codydd, tyfwr, cynnyrchwr, cynnyrchydd; prifiwr.
Growing, *p.* yn tyfu, &c.; tyfol, hydwf, cynnyddol, cynnyddus; cynnyrchiol.
Of a growing quality—tyfol, hydwf, cynnyddol, cynnyddus; cynnyrchol.
Capable of growing—tyfadwy, cynnyddadwy, prifiadwy.
To leave off growing—darfod tyfu, gadael tyfu, peidio â thyfu; methu; pallu, dihoeni.
It is growing late—mae hi yn tynu tua'r diwedydd; mae hi yn tynu tua'r hwyr; y mae yn hwyrhau; mae hi yn tynu yn hwyr.
Growing together — cyttyfol, cyttwf, yn cyttyfu.
A growing together—cyttyfiad, cyttyfiant, cydbrifiad.
Growl, *v.* (Gr. *grullê*; Ffiemaeg, *grollen*) chwyrnu, ymchwyrnu, grymial, grymialu, grymiala, gryngian, gryngio, grwytho, grwgnach, arthal, arthu, arthio, rhochi.
Growl, *s.* chwyrnad, ymchwyrnad, chwyrn, grwyth, grwm, grwng, grwgnach.
Growler, *s.* chwyrnwr, chwyrniad, chwyrnydd, grwythydd, grwythwr, grymialwr, grymialydd: *pl.* chwyrniaid.
Growling, *p.* yn chwyrnu, gàn chwyrnu, dàn chwyrnu, &c.; chwyrnllyd, chwyrnog, chwyrnol, grymialog, grymialus, grwgnachol, grwgnachlyd, grwm.
Grown, *p. p.* (o *grow*) tyfedig, à dyfodd, wedi tyfu, &c.; wedi myned yn.
Full grown—wedi cael ei dwf, ei lawn dwf, *neu* ei lawn dyfiant; wedi cyrhaedd ei lawn dwf; gwedi llawn dyfu; llawndwf.
It is grown late—hi a aeth yn hwyr *neu* yn ddiweddar; mae hi wedi myned yn hwyr *neu* yn ddiweddar; hwyrhaodd.
Well grown—teg ei dwf, (*f.* teg ei thwf); gosgeddig, gosgeiddig, lluniaidd.

Grown together—cyttyfedig, cyttwf, undwf, ymgyttyfol; wedi tyfu yn nghyd.
A grown woman—benyw yn ei chyflawn oedran; gwraig yn ei chyflawn oed; benyw dyflawn; menyw yn ei llawn dwf; benyw gyflawn dwf; benyw gyflawn faint.
She is a grown woman, } mae hi yn ei
She is grown a woman, } llawn oed; mae hi yn ei chyflawn oedran; y mae hi wedi cyrhaedd ei llawn oed; y mae hi wedi cyrhaedd ei chyflawn oedran; y mae hi yn fenyw *neu* ddynes dyflawn.
They are grown proud—aethant yn falch; maent wedi myned yn falch; maent wedi ymfalchïo.
When you shall be grown a man—pan eloch yn wr; pan gyrhaeddoch oedran *neu* faintioli gwr; pan dyfoch yn wr.
When I was grown a man—pan aethym yn wr; pan gyrhaeddais oedran gwr.
He is grown up to man's estate—y mae efe wedi cyrhaedd oedran gwr; y mae efe wedi cyrhaedd ei gyflawn oedran; mae efe wedi tyfu i fyny i faintioli gwr.
He is grown a proverb—aeth yn ddïareb; efe a aeth yn ddïareb; y mae efe wedi myned yn ddïareb; y mae efe wedi dyfod yn ddïareb.
He is grown up to years of discretion—y mae efe wedi cyrhaedd oedran pwyll; mae efe wedi cyrhaedd oedran gwr.
It was all grown over with thorns—codasai drain ar hyd-ddo oll.

Growse,† *v. n.* (S. *agrisan*) crynu, rhynu, crynu gàn annwyd.

Growth, *s.* (o *grow*) twf, tyfiant, tyfiad, prifiant, tyddiant, tyddiad, twdd; cynnydd, cynnyrch, adgen, daill; brawn.
Latter-growth—attwf; adladd, adwair.
Slender growth—meindwf.
Early growth—cynnardwf, twf cynnar, cyndwf.
Tender growth, } gwandwf, twf gwàn, twf
Weak growth, } tyner, meinir dwf.
Luxuriant growth—twf brwys, twf rhonc, twf bras; gwyreindardd, gwyreindwf.
Of a luxuriant *or* vigorous growth—brasdyfol, brasdwf, brwys, rhydwf, trathyfol, bras, rhonc, rhonca, gwyreindwf, gwyreindardd, gwyrenig.
First growth—cyndwf, cynhwf, twf cyntaf.
Of the same growth—undwf; o'r un twf.
To stop the growth of—còri; attal twf, attal tyfiant.
Growth in piety—cynnydd mewn duwioldeb.
Growth of trade—cynnydd masnach, cynnydd trafnid.
Growth-halfpenny—dimai dyfiant.

Growthead, } *s.* (*gross* neu *great head*, tebygol)
Growtnol, } penfawr, y pysg penfawr; †segur-yn, segurddyn, lleban.

Grub, *v.* (Goth. *graban;* S. *grafan*) cloddio; bod yn cloddio; diwreiddio, dadwreiddio; cloddio *neu* dynu o'r gwraidd; chwynu.
To grub up—diwreiddio, dadwreiddio, tynu o'r gwraidd, cloddiaw o'r gwraidd.
To grub up weeds—chwynu.

Grub, *s.* macai, corbryf, ysbryf, cynronyn, pryfedyn, pry, pryf; còr, coryn, corach, ffallach, llogwrn, pegoryn.

Grubber, *s.* cloddiwr, cloddiedydd, chwynwr.

Grubbing-hoe, *s.* chwynogl, caib chwyn.

Grubble, *v. a.* (Al. *grübeln*) palfalu, ymbalfalu, palfu; ymgreinio, ymgropian.

Grubstreet, *s.* (enw heol gynt yn Llundain, à elwir yn awr *Milton street*) Heol y Crach; Crachfa; gwaelbeth, peth gorwael, gwaeliaith, iseliaith.
